

GWEITHIAU  
WILLIAMS PANT-Y-CELYN.

DAN OLYGIAD

Y PARCH. N. CYNHAFAL JONES, D.D.

CYFROL II.

YN CYNWYS

*Ei holl Hymnau,*

YN NGHYDA'I

BRIF WEITHIAU RHYDDIAETHOL,

AC HEFYD

*RHAI O'I BREGETHAU.*

NEWPORT, MON.:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN W. JONES, COMMERCIAL-ST.

—  
MDCCXCI.



CYNWYSIAD.

	TUDAL.
Rhagymadrcdd... ..	vii.
Mynegai i'r Hymnau Cymraeg... ..	ix.
Index to the English Hymns ... ..	xvii.
Caniadau ei Ieuengctyd ... ..	I
Rhan o'r "Liber Miscellaneorum" ... ..	15
Aleluia ... ..	17
Y Môr o Wydr ... ..	127
Ffarwel Weledig, &c. ... ..	189
Gloria in Excelsis ... ..	297
Rhai Hymnau Newyddion ... ..	367
Lloffion ... ..	386
Hosannah to the Son of David ... ..	391
Gloria in Excelsis ... ..	415
Llythyr Martha Philopur ... ..	447
Ateb Philo Evangelius ... ..	459
Drws y Society Profiad ... ..	479
Tri Wŷr o Sodom ... ..	535
Crocodil Afon yr Aipht ... ..	575
Pregethau ... ..	651
Pregeth I. ... ..	655
Pregeth II. ... ..	659
Pregeth III. ... ..	662
Anerch Prysur ... ..	667

## RHAGYMADRODD.



ANWYL GYDWLADWYR,

Oblegyd rhwystrau, bu yr Ail Gyfrol hon yn hwy yn dilyn ei chymhares i ddwyllaw y cyhoedd nag yr oeddid yn meddwl. Modd bynag, dyma hi o'r diwedd; ac yr ydym yn tybied nad ydyw wedi colli nemawr ddim trwy yr oediad, eithr yn hytrach y mae wedi enill rhyw bethau na wyddid am danynt dair blynedd yn ol.

Gwelir fod y Casgliad a ganlyn o Hymnau Williams yn helaethach nag yr un a gyhoeddwyd o'r blaen;—y mae, yr ydym yn credu, yn cynwys yr oll o'i Hymnau ag sydd ar gael. Gwyddom fod rhai penillion a hymnau ereill a briodolir iddo ar dreigl mewn amryw gymydogath; ond erbyn eu hedrych, a chlust-ymwrandaw am dingc Pant-y-celyn, yr oeddem,—er deall fod hwn neu arall wedi clywed ei dad yn dywedyd i'w daid ei hysbysu ef am y berthynas oedd rhwng yr emyn â'r Emynydd enwog,—er hyn, meddwn, yr oeddem yn gorfod amheu eu hawl i arddel enw Williams.

Fel y gwelir, hefyd, y mae dau o Draethodau yr Awdwr wedi eu gadael allan o'r Argraffiad hwn. Un peth a barodd gau allan y *Pantheologia* oedd, y buasai ei feithder yn chwyddo maint a phris y Gyfrol yn mhell tu hwnt i'r hyn a fwriedid;

a pheth arall a gydweithiai i'r un diwedd oedd, yr ystyriaeth nad oes, erbyn hyn, gymaint o werth *cymhariaethol* yn perthyn i'r Gwaith hwnw, gan fod manteision ac ymchwiliadau diweddar wedi taflu amgen goleuni ar hanes Crefyddau y Byd nag oedd yn gyrhaeddadwy i Williams. Am ryw resymau ereill, nas gwaeth heb eu crybwyll yma, gadawyd allan hefyd ei Draethawd ar *Briodas*.

Bellach, ar ol cryn drafferth—trafferth nas gwel ond y cyfarwydd fawr o'i ôl—yr ydym yn cyflwyno yr Argraffiad hwn o Weithiau Williams Pant-y-celyn i'w gyd-genedl; gan fod yn gwbl hyderus y cânt weled nad yw cynyrchion awen ein Prif-fardd Efengylaidd eto, er cymaint a gafwyd allan o honynt, wedi eu dyhysbyddu.

Can' mlynedd i'r Sabboth diweddar—Ionawr 11eg, 1791—y gorphenodd Williams ei yrfa ar y ddaear, ac yr ehedodd ei ysbryd sanctaidd i chwyddo mawl y rhai y dywedir am danynt,—“A chanu y maent gân Moses, gwasanaethwr Duw, a chân yr Oen.” Ni raid codi cofgolofn o farmor i fawrhau ei Ganmlwyddiant ef,—nid oedd eisieu dim ond glanhau a thacluso ychydig o gwmpas yr un amgenach a gododd efe ei hun :—

“Gwnaeth ei farwnad yn ei fywyd,  
Rhodd ei *farble* yn ei le,  
Fe 'sgrifenodd arno ei enw  
A llyth'renau pur y ne'.”

N. CYNHAFAL JONES.

*Dolhafren, Llanidloes,*  
*Ionawr 13eg, 1891.*

MYNEGAI I'R HYMNAU CYMRAEG.

	TUDAL.		TUDAL.
Ac er bod draw ... ..	244	Boed bryn y groes ... ..	239
Achub, O Dduw, fy... ..	147	Boed fy mywyd oll ... ..	250
Addfwyn Iesu, tyn ... ..	311	Brydnawn, Ar y ddedwyddaf... ..	381
Aeth heibio 'r gauaf... ..	336	Buddugoliaeth werthfawr ... ..	371
A heibio 'r dywyll nos... ..	235		
Ai dyma 'r arwydd ... ..	178	Caf fod yn llonydd ... ..	77
Ai Iesu mawr ... ..	55	Caf weled cyn bo... ..	358
Anfeidrol felus yw ... ..	159	Claf wyf, a llesg ... ..	248
Anfeidrol yw dy gariad ... ..	160	Clodforwch bawb... ..	42
Ant rhagddynt bawb ... ..	62	Clodforwch Frenin nefoedd ... ..	78
Anturiaf eto yn mlaen... ..	38	Clyw hyn, O ferch ... ..	60
Anweledig, 'rwy 'n dy garu ... ..	270	Coronwyd, do, Iachawdwr ... ..	107
Anweledig, 'rwy 'n dy garu ... ..	345	Cod d' olwg, f' enaid ... ..	145
Anwylaf wrthddrych ... ..	301	Cod, f' enaid gwan ... ..	43
Angylion doent yn ... ..	152	Cofia, f' enaid, cyn ... ..	143
Angylion, seraphiaid, a ... ..	95	Creawdwr doeth y ddaear ... ..	88
A raid i groesau fyth ... ..	137	Cryfach addewid Duw ... ..	290
A raid i mi, rhag ofn ... ..	9	Cudd fy meïau ... ..	320
A raid im' rodio... ..	226	Cyfarwydda 'm henaid ... ..	168
Ar dy enw Di, Greawdwr ... ..	112	Cyfeillion o'ent mewn ... ..	79
Ar dy enw mae 'r Cenhedloedd... ..	153	Cyffelyb i fy Nuw ... ..	329
Arglwydd, arwain trwy 'r ... ..	134	Cymer, Iesu, fi fel ... ..	196
Arglwydd, dere â'r newyddion ... ..	233	Cyn-tydir f' enaid ... ..	255
Arglwydd, edrych ar ... ..	356	Cyn ystyried, mi ... ..	172
Arglwydd, ffoed cymylau ... ..	277	Cystuddiau mawrion ... ..	92
Arglwydd, gwel dy bererinion ... ..	342		
Arglwydd, gweli 'r ddraig ... ..	60	Cheisiais, Arglwydd, ddim ... ..	151
Arglwydd, rhyddha fy ... ..	71	Chwi bererinion glân ... ..	65
Arglwydd, ynot ymddiriedais ... ..	216	Chwi ferched Salem ... ..	34
Ar grasdir, crindir ... ..	281	Chwi, ffynonau bywiol ... ..	268
Ar holl wrthddrychau... ..	334	Chwilio am danat ... ..	344
Arnat, Iesu, boed fy ... ..	316	Chwychwi 'mhechodau ... ..	171
Atat, Arglwydd, 'rwy 'n ... ..	364		
Atat, f' Arglwydd, dyrcha ... ..	383	Dacw gariad, dacw ... ..	236
At dragwyddoldeb mae ... ..	14	Dacw gariad nefoedd ... ..	277
Awn, bechaduriaid, at ... ..	349	Dacw 'r ardal, dacw ... ..	290
		Dacw 'r ardal nefol ... ..	214
Bachgen a aned ... ..	100	Dacw 'r ffynon heddyw ... ..	260
Bendigaid fyddo 'r awr ... ..	351	Dacw 'r ffynon i'w ... ..	305
Bendigaid fyth fo ... ..	39	Dacw 'r ffynon wedi ... ..	256
Beth, Arglwydd, welaist... ..	115	Dacw 'r hyfryd fan ... ..	177
Beth dal i'm roi ... ..	51	Dacw uffern yn ei ... ..	234
Beth wna'i yma ... ..	295	Daeth arfaeth fawr ... ..	218
Beth ydwyf fi ... ..	103	Daeth fy nghoelbren ... ..	376
Beth yw 'r achos bod ... ..	241	'Da'i 'mfyn haeddiant ... ..	348
Beth yw raid im' ... ..	224	Dan draed yr wyf ... ..	109
Blant fyddlon Seion ... ..	80	Darfú d'rysu yn y ... ..	185
B'le mae tosturi' ... ..	180	Darfú fy nerth ... ..	120



TUDAL.	TUDAL.
Darfu noddfa mewn ... .. 321	'Dwyf ond pererin ... .. 372
Datguddiwyd dirgelion ... .. 232	'Dwy 'n dysgwyl cael ... .. 373
Dau ryw auaf ... .. 240	'Dwy 'n 'nabod dim ... .. 92
Daw amser braf ... .. 36	Dy babel Di mor ... .. 61
Daw diwedd ar fy ... .. 28	Dychwel, Arglwydd, i'th ... .. 205
Deffro, f' enaid, deffro ... .. 36	Dy fwrdd sydd yn gyfoethog... .. 178
Deffro, f' enaid, mae 'n ... .. 355	Dydd yw hwn sy'n ... .. 252
Dere, Arglwydd, fedd y ... .. 323	Dy glwyfau yw fy... .. 56
Dere, f' enaid, tua 'r ... .. 355	Dy gnawd yw 'r bara ... .. 180
Dere, Iesu, i'r ardaloedd... .. 213	Dyhidla, Iesu, 'th nefol ... .. 300
Deued dyddiau o bob ... .. 321	Dy lwybrau Di y'nt... .. 46
Deued pechaduriaid ... .. 215	Dyma bechadur truan ... .. 284
Deuwch, hil syrthiedig ... .. 166	Dyma fi, Arglwydd ... .. 107
Dewch, ferched Seion ... .. 162	Dyma gariad o'r fath ... .. 380
Dewch, frodyr, yn ÷on ... .. 85	Dyma 'r byd y mae ... .. 135
Dewch, gwelwch D'wysog ... .. 111	Dyma 'r eiddil yn ymdreiglo ... .. 355
Dewch, gwelwch y preseb ... .. 198	Dyma 'r pechod sydd... .. 234
Dewch i'r frwydr ... .. 288	Dyma 'r rhai ddaeth i maes ... .. 329
Dewch yma, gwelwch ... .. 372	Dyma 'r tlawd, a thyma ... .. 325
Dewch yma, gystuddiedig ... .. 386	Dyma 'r tlawd a'r llesga' ... .. 261
Diolch i Ti am ... .. 13	Dyma 'r truan a'r anghenus ... .. 322
Disgyn, Iesu, o'th gynteddoedd 317	Dyna pa'm 'rwy' yn hir ... .. 197
Doed uffern, angeu, a ... .. 183	Dyna 'r dyddiau wyf ... .. 338
Doed y cystuddiedig ... .. 217	Dyn dyeithr ydwyf ... .. 139
'Does arall fan i roi ... .. 364	Dysgleiria, foreu wawr ... .. 212
'Does arnaf eisieu ... .. 165	Dywed i mi pa ddyd ... .. 125
'Does bleser dâl tu ... .. 275	'Dyw y blinderau... .. 186
'Does dim ar wyneb ... .. 372	Eangodd fy nghalon ... .. 207
'Does dim o tan y... .. 221	Edrych, Iesu, ar dy ... .. 343
'Does gyffelyb iddo Ef ... .. 262	Edrych 'r wyf fi tros ... .. 340
'Does oddi mewn i mi ... .. 222	Edrychwn draw ar ... .. 104
'Does unrhyw bleser ... .. 300	Efe yw 'r Brenin ... .. 117
'Does yn yr anial ... .. 281	Efe yw 'r Seren ... .. 57
Do, mi flinai ar ... .. 211	Eiddo fi ydyw fy Anwylyd ... .. 309
Dos ymaith, ffwrdd ... .. 9	Ei enaid doddodd gan ... .. 114
Draw mi wela 'r ardal ... .. 304	Ei glod Sydd heb yn ... .. 382
Draw 'r wlad ... .. 229	Ei gyfiawnder dwyfol Ef ... .. 370
Draw 'r wlad ... .. 40	Enyinaist ynwyf dñn ... .. 232
Dros y brynau tywyll... .. 187	Er bod saethyddion ... .. 176
Duw, achub fi ... .. 141	Er cael fy maeddud ... .. 57
Duw anfeidrol yw ... .. 20	Er cu'wch y brynau ... .. 359
Duw anfeidrol yw ... .. 344	Er dy fod yn uwchder ... .. 345
Duw, bydd i mi 'n ... .. 273	Er fod angeu yn fy ... .. 292
Duw, bydd yn gymhorth ... .. 362	Er maint fy llygredd ... .. 375
Duw, cadw f' enaid ... .. 53	Er nad ydwyf ond ... .. 257
Duw, dere a'th saint ... .. 227	Esgynodd ein Harglwydd ... .. 83
Duw, dere 'n glau ... .. 284	Esgynodd ein Hiesu ... .. 53
Duw, er mor eang ... .. 181	Euogrwydd pechod oedd ... .. 4*
Duw Hollalluog yw 'r ... .. 8	F' Anwylyd sydd fel lili ... .. 335
Duw, teyrnasa ar ... .. 346	Fe dalodd swm y ddyled ... .. 218
Duw yw fy Nhad ... .. 77	Fe ddarfu i mi 'nawr ... .. 53
Duw yw fy nerth ... .. 135	Fe ddarfu pob ofn ... .. 272
D'wed a gaf fi ... .. 45	Fe ddaw, Ar y cymylau ... .. 383
D'wed, Arglwydd, pa'm ... .. 120	Fe dderfydd y llyisiau ... .. 142
D'wed, Iesu, a ydyw ... .. 385	
D'wed pa'm yr ofni... .. 67	

TUDAL.	TUDAL.
Fe flinodd f' enaid bach ... .. 353	Fy undeb i a'i Berson... .. 64
Fe gân 'tifeddion gras ... .. 235	Fy unig gysur tan y... .. 87
Fe ga'w'd y manna pur ... .. 354	Ffarwel, bleserau o ... .. 177
Fe gododd rhyw seren ... .. 330	Ffarwel, bleserau 'r byd... .. 47
Fe gododd yn ei erbyn Ef... .. 87	Ffarwel, bob cnawdol ... .. 75
Fe gyngiodd dyfoedd ... .. 209	Ffarwel, greaduriaid ... .. 348
Fe hoeliwyd y gyfraith ... .. 199	Ffarwel i bechod ... .. 75
Fel pwysi o fyrr ... .. 335	Ffarwel i chwi gynt a ... .. 226
Fel y rhed llifogydd ... .. 241	Ffarwel i'r byd a'i ... .. 373
Fel yr ymguddia 'r ser ... .. 126	Ffarwel i'r byd a'i ffryns ... .. 279
Fe 'm gwnaeth yn ddoeth ... .. 41	Ffarwel i'r holl bleserau ... .. 73
Fe 'm llyngwyd i fyny ... .. 199	Ffarwel, mi âf yn mlaen ... .. 111
Fe 'm siomwyd gan ... .. 333	Ffoed, negeseuon gwag ... .. 245
F' enaid, cred, annghofia ... .. 202	Ffordd newydd wnaud gan ... .. 82
F' enaid, deffro ... .. 314	Ffydd ydyw 'm sicr sail ... .. 47
F' enaid egwan, paid ... .. 201	Gad im', Arglwydd, tra ... .. 379
F' enaid egwan, paid ... .. 223	Gelynyon creulon sy ... .. 37
F' enaid, pa'm rhed ... .. 312	Gelynyon sydd o fesur ... .. 165
Fe 'nillodd Iesu 'r dydd ... .. 351	Genau fy Mhrynw ... .. 64
Fe, Pren y Bywyd ... .. 180	Goleu a nerthol... .. 217
Fe ro'wd arno bwys ... .. 116	Goleuni ac anfeidrol ... .. 352
Fe safodd y seren ... .. 331	Golgw, Arglwydd, ar dy... .. 213
Fe welir rhyw ddyddiau ... .. 272	Gorchudd ar dy bethau ... .. 275
Fe wrida 'r awyr ... .. 97	Gruddfan 'r wyf o tan ... .. 343
Fy addfwynaf Dad ... .. 323	Grym y stormydd sydd yn . ... .. 225
Fy enaid, at dy ... .. 314	Gweddio 'r wyf, och'neidio ... .. 38
Fy enaid athrist ... .. 88	Gweddio 'r wyf yn min ... .. 255
Fy enaid bach, tra ... .. 14	Gwel arnaf, Feddyg ... .. 113
Fy enaid, gwel dy Brynwr... .. 105	Gwel draw fy Mrenin .. .. 104
Fy enaid, gwel i ben ... .. 118	Gwel dy anwyl Wyn ... .. 35
Fy enaid, gwel i Galfaria ... .. 103	Gwel'd dy gariad anorchyfol ... .. 250
Fy enaid, 'hed tua 'th ... .. 121	Gweled yr oeddit ... .. 108
Fy enaid llesg sy'n ... .. 254	Gwel fi, Arglwydd, wedi ... .. 362
Fy enaid mae am ganu ... .. 45	Gwell yw 'th drugaredd ... .. 182
Fy enaid mewn gwir ... .. 70	Gwerthfawr yw 'r Iesu ... .. 7
Fy haeddiant mawr yn ... .. 259	Gwlad ddeyithr oddi cartref ... .. 269
Fy Iesu, Brenin nef ... .. 377	Gwlad o dywyllwch ... .. 132
Fy Iesu, Pentywysog ... .. 163	Gwna, Arglwydd, fi yn ... .. 70
Fy Iesu yw fy Nuw ... .. 282	Gwna fi, Arglwydd, yn ... .. 109
Fy Iesu yw fy Nuw ... .. 290	Gwnawd cyfamod ... .. 381
Fy ffilol yma sydd yn ... .. 142	Gwrando fy ngwaedd ... .. 12
Fy nghadwediadol ras ... .. 152	Gwrando 'nghwyn ... .. 138
Fy nghoelbren gwmpodd... .. 359	Gwrthgiliais, do ... .. 120
Fy ngweddi, dos i'r nef ... .. 25	Gwyddit, fy Nuw ... .. 94
Fy ngwrthgiliaidau o bob ... .. 266	Gwyn a gwridd, hawddgar ... .. 373
Fy mawl a'm holl ... .. 91	Gwyn a gwriddog yw f' Anwylyd 267
Fy meddyliau sydd yn ... .. 236	Gwyn a gwriddog yw fy Arglwydd 194
Fy meiau aml, mawr ... .. 244	Gwyn fyd y rhai dile'st ... .. 53
Fy meiau sydd heb ... .. 325	Gynt, gwelais lwybr ... .. 52
Fy meiau trymion ... .. 323	Hardd yn ei Dduwdd ... .. 98
Fy myfyrdodau 'n felus ... .. 78	Heddyw 'r ffynon a ... .. 307
Fy mywyd wyt, fy Nuw... .. 175	Heddyw yw 'r dydd ... .. 233
Fy noddfa gadarn ... .. 279	Hen amser arfaethoedd ... .. 210
Fy Nuw, fy Nuw, fy ... .. 140	
Fy Nuw, rho'r manna... .. 113	
Fy nymuniad, paid ... .. 208	

	TUDAL.		TUDAL.
Henffych, Iesu, 'r Duw ... ..	386	Mae 'ngelynyon heb... ..	388
Hwy gawsant wel'd ... ..	79	Mae 'nghystuddiau ... ..	306
Hyd yma ni ddych'mygodd ...	348	Mae llifogydd mawr ... ..	389
Hyn yw 'm pleser ... ..	346	Mae lluoedd maith ... ..	176
Iachawdwr dynolryw ... ..	150	Mae, mae, Diwrnod... ..	249
Iechydwrtaeth sydd... ..	370	Mae 'm fydd yn gwel'd ... ..	146
I 'b'le yr a' i 'mofyn ... ..	245	Mae 'm golwg acw ... ..	349
Iesu, cymer fi ... ..	379	Mae 'm hymdaith dros ... ..	272
Iesu, difyrwch fy enaid ... ..	334	Mae 'm Prynwr ... ..	52
Iesu, dyro dy gymdeithas ... ..	339	Mae 'm siwrnai trwy ... ..	77
Iesu ei Hunan yw ... ..	215	Mae 'm siwrnai yn ... ..	304
Iesu, gwyddost fy ... ..	231	Mae 'n bryd i ni ganu... ..	86
Iesu, Iesu, 'r wyt Ti ... ..	231	Mae 'n decach yn ... ..	276
Iesu, llawnder mawr ... ..	343	Maent wedi anghofio ... ..	185
Iesu, 'Mrenin mawr ... ..	26	Mae 'nwy 'r awrhon ... ..	389
Iesu, nid oes ond ... ..	215	Mae ofnau, er eu grym ... ..	285
Iesu, nid oes terfyn ... ..	311	Mae ofnau yn ... ..	283
Iesu 'r dirmygedig un ... ..	171	Mae pen ein taith ... ..	275
Iesu, rhedaf at dy ... ..	307	Mae pererinion... ..	352
Iesu, teyrnasa yn dy ... ..	349	Mae pyrth y nef ... ..	175
Iesu, Ti wyt ffynon ... ..	187	Mae 'r anialwch ... ..	137
Iesu, Ti ydyw fy mywyd ... ..	342	Mae 'r Brenin yn ... ..	176
Iesu, Ti yw 'm hunig ... ..	345	Mae 'r dydd yn d'od ... ..	374
Iesu, tro fy ngwae ... ..	344	Mae 'r dyrfa fawr ... ..	386
Iesu ydyw fy Nghreawdwr... ..	118	Mae 'r faner fawr ... ..	230
Iesu yw 'm ffordd ... ..	87	Mae 'r ffordd yn awr ... ..	238
Iesu yw 'm Ffrynd ... ..	341	Mae 'r Ganaan hyfryd ... ..	285
I'r Iesu boed y clod... ..	280	Mae 'r gangen beraidd ... ..	360
I'r nefoedd fry 'r aeth... ..	34	Mae 'r Graig mae f' enaid ... ..	258
Llawn euogrwydd ... ..	148	Mae 'r holl greadigaeth ... ..	302
Llawn o ofid, llawn ... ..	246	Mae 'r lle sancteiddiolaf ... ..	94
Llawn yw, o Dad ... ..	124	Mae 'r rhyfel o'n ... ..	102
Llwch wyf fi, o'r llwch ... ..	197	Mae rhyw ddirgelwch ... ..	170
Mae addewid nef ... ..	339	Mae 'r Tad a'r Ysbryd ... ..	101
Mae arnaf ofn ... ..	149	Mae yr Iorddonen ... ..	280
Mae arna 'i chwant ... ..	91	Maith yw 'r nos... ..	147
Mae awyr y dwyrain ... ..	332	Mawr drysor sydd ... ..	50
Mae cyflawnder maith ... ..	257	Mawr iawn fu ... ..	101
Mae dydd at ddydd ... ..	240	Mawr iawn yw gwres ... ..	229
Mae dy lwybrau cul ... ..	264	Melcisedec, ein ... ..	117
Mae ein taith i'r ... ..	260	Mewn Aipht heb ... ..	114
Mae fy enaid am ... ..	361	Mewn anial dyrys ... ..	303
Mae fy Nuw yn fy ... ..	251	Mewn anialwch 'rwyf ... ..	253
Mae fy nghalon am ... ..	139	Mewn anialwch 'rwyf ... ..	304
Mae fy nghalon lwfr ... ..	388	Mewn anial 'rwy 'n ... ..	204
Mae fy meiau fel ... ..	253	Mewn cyfyngderau ... ..	283
Mae fy nghalon uwch ... ..	211	Mewn rhyw anialwch ... ..	254
Mae gelynyon i mi ... ..	269	Mi af trwy 'r Iorddonen ... ..	310
Mae gofid yma ... ..	245	Mi af yn mlaen ... ..	66
Mae grasusau ... ..	214	Mi af yn mlaen ... ..	364
Mae hiraeth trwyddwy' ... ..	186	Mi a 'mlaen ... ..	356
Mae holl gariadau ... ..	340	Mi bellach goda' ... ..	278
Mae 'nghalon i 'n friw... ..	82	Mi dafla 'maich ... ..	175
		Mi deithiais ran ... ..	138
		Mi ês trwy 'r afonydd ... ..	304
		Mi feddyliais cawn i ... ..	238

	TUDAL.		TUDAL.
Mi feddylia 'th fod ... ..	251	Nid o'r ddaear ... ..	239
Mi fodlonaf ... ..	223	Nid tegwch daear ... ..	293
Mi fwm mew'n ... ..	318	Nid trysor o arian ... ..	308
Mi ge's gongcwest ... ..	253	Nid wy'n ofni ... ..	224
Mi ge's ryddhad ... ..	64	Nid yw fy nyddiau ... ..	66
Mil o bwysiau ... ..	278	Nid yw 'r haul ... ..	141
Mi ro' ffarwel ... ..	375	Nid yw 'r holl greadigaeth ...	274
Mi ro'wn y byd ... ..	219	Nid yw y ddaear ... ..	154
Mi wela' draw ... ..	231	Ni fedr dim o'r ... ..	289
Mi wela' dyrfa ... ..	184	Ni feddyliais fod ... ..	310
Mi wela' fyrrdd yr ... ..	239	Ni feddaf ar y ... ..	244
Mi wela' stormydd ... ..	125	Ni ganwn am gariad ... ..	210
Mi wela' 'r cwmwl ... ..	318	Ni gerddwn tua 'r ... ..	354
Mi wnaethum degan ... ..	103	Ni redwn yn wrol ... ..	85
Mi wn mai byw ... ..	13	Nis gall angylion nef ... ..	242
Molianaf byth ... ..	72	Nis gall angylion pur ... ..	243
Molianaf Iesu Grist ... ..	33	Nis gall dysgedigion ... ..	236
Mor hardd yw 'r ... ..	14	Ni thâl im' gyfadde' ... ..	320
Mor wag ac mor ... ..	147	Ni thrig awelon ... ..	293
Myfi ddysgwyliais ... ..	341	Ni wadaf mwy ... ..	8
Myfi, tebygwn ... ..	9	Ni welodd llygad dyn ... ..	266
		Ni welwn ben ... ..	288
N' ad fi adeiladu'n ... ..	256	'N ol tywyllwch hir y nos ...	369
N' ad fi, Iesu ... ..	320	Nyni, Mewn cydsain ... ..	384
N' ad fod genyf ... ..	267	O addfwyn Iesu, rho ... ..	363
N' ad fy ngelyn... ..	319	O addfwyn Iesu, tyn ... ..	314
N' ad y gwyntoedd ... ..	315	O anghrediniaeth, clyw ... ..	30
Na foed i'm garu ... ..	282	O anghrediniaeth fawr ... ..	335
'N awr achub, O fy Nuw ... ..	286	O am nerth i ... ..	132
'N awr ar ei fwrdd ... ..	163	O anwyf Iesu ... ..	178
'N awr boddlon wyf ... ..	140	O ! a raid i mi ... ..	310
'N awr mae cymylau ... ..	360	O ardaloedd nefol... ..	263
'N awr 'r wy 'n gwel'd... ..	202	O Arglwydd, Awdwr ... ..	65
'N awr sicr sail... ..	48	O Arglwydd, bryd ... ..	36
Newyddion braf a ... ..	70	O Arglwydd, cofia 'th ... ..	67
Ni all rhaid ... ..	274	O Arglwydd, dena ... ..	59
Ni chefais i yma ... ..	235	O Arglwydd, d'wed ... ..	89
Nid fy nef yw ... ..	121	O Arglwydd, dyro ... ..	388
Nid fy nghongcwest ... ..	305	O Arglwydd, gad ... ..	156
Nid newid lle ... ..	326	O Arglwydd, grasol ... ..	385
Nid oes aberth ... ..	381	O Arglwydd, gwel fi ... ..	28
Nid oes angel ... ..	384	O Arglwydd, pa fath ... ..	141
Nid oes arnaf faich ... ..	149	O Arglwydd, pa'm y ... ..	62
Nid oes ar y ... ..	196	O Arglwydd, saf ... ..	387
Nid oes dim erioed ... ..	198	O Arglwydd, 'r Hwn ... ..	59
Nid oes dim o dan... ..	340	O Arglwydd, tyr'd i lawr ...	350
Nid oes draw ... ..	211	O Arglwydd, tyr'd i lawr ...	358
Nid oes eisieu un ... ..	209	O Arglwydd, tyr'd yn glau... ..	313
Nid oes enw yn mhlith ... ..	169	O Awdwr Iachawdwriaeth ...	11
Nid oes, fy Arglwydd ... ..	289	O awelon croes ... ..	306
Nid oes mynudd ... ..	195	O bob trysorau tan ... ..	242
Nid oes, Ni fu ... ..	382	O braf yw meddwl ... ..	76
Nid oes ond f' Arglwydd ... ..	155	O clyw fy ngwaedd ... ..	25
Nid oes pleser ... ..	316	O cymer fy serchiau ... ..	244
Nid oes un gwrthddrych ... ..	56	Och ! finau 'n brudd ... ..	8
Nid oes, Trwy gydol ... ..	382		

	TUDAL.		TUDAL.
O deffro, cod ... ..	28	O na chawn eiriau ... ..	98
O deffro 'n foreu ... ..	347	O n'ad fi, Arglwydd ... ..	363
O deffro, tro ... ..	32	O n'ad i mi garu ... ..	204
O dere, f' Anwylyd ... ..	203	O na roddai f' Arglwydd ... ..	263
O dere 'lawr ... ..	285	O na ymguddia... ..	157
O deued iachydwrriaeth ... ..	218	Ond ofer ceisio ... ..	124
O dewch, Genedloedd ... ..	378	Ond oh ! eiddigedd ... ..	160
O diflaned 'stwr ... ..	311	O nefol addfwyn Oen ... ..	325
O dychwel, Arglwydd... ..	220	O pwy yw hon ... ..	50
O dyma 'r ddyfais ... ..	242	O pwy yw hon ... ..	48
O ddedwydd le ... ..	145	O'r B'radwys fry ... ..	106
O edrych, Iesu ... ..	286	O'r diwedd fe iachaw'd ... ..	79
O enaid ofnus ... ..	10	O'r diwedd trodd ... ..	336
Oen Duw, tragwyddol ... ..	39	O'r enwau 'gyd ... ..	203
O f' enaid, 'hed ... ..	371	O'r Ganaan hyfryd ... ..	212
O f' enaid, cân ... ..	7	O'r holl fendithion ... ..	177
O f' enaid, moria ... ..	353	O'r holl gadwedig lu ... ..	24
Ofer iawn mae 'r nef ... ..	139	O'r manna nefol ... ..	287
Ofer i mi wel'd ... ..	308	O Rosyn Saron... ..	179
O flaen y faingc ... ..	44	O sancteiddia f' enaid ... ..	268
O Fugail doeth ... ..	72	Os gofyn neb ... ..	161
O Fugail Israel... ..	29	Os oedi 'r wyt ... ..	249
O fy enaid, gorfoledda ... ..	207	Os yw 'n gofidiau ... ..	60
O fforddoliion, 'drychwch ... ..	387	Os yw tegwch dy wyneb ... ..	198
O Galfaria llifodd ... ..	376	O tan y nef nid ... ..	292
O Galfaria mae fy ... ..	369	O tyred, Arglwydd mawr ... ..	173
O garcharorion prudd.. ... ..	35	O tyred, Arglwydd, saf ... ..	283
O gwawria 'n glau ... ..	220	O tyred, addfwyn Oen ... ..	379
O gwel fi, Arglwydd ... ..	108	O tyred, Awdwr hedd ... ..	150
O gwel ni 'n myn'd ... ..	12	O tyred, Awdwr hedd ... ..	167
O gwrando, nefol ... ..	230	O tyred i lawr ... ..	257
O haeddiant y gwaed ... ..	262	O tyred, y gogledd-wynt ... ..	161
Oh, Frenin mawr ! ... ..	162	O tyred, Ysbryd sanctaidd ... ..	184
O hyfryd fan ... ..	92	O tyr'd ar frys ... ..	62
O hyfryd wleddoedd ... ..	336	Pa beth a wnaf... ..	155
O iachawdwr pechaduriaid ... ..	133	Pa bryd, O Iesu ... ..	7
O Iesu, atat 'r wyf ... ..	385	Pa gyfnewidiadau ... ..	309
O Iesu byw, Iachawdwr ... ..	37	Paham yr ofna ... ..	46
O Iesu, dwg yn mlaen ... ..	363	Paham y rhoist ... ..	109
O Iesu, fy Ngwardwr ... ..	42	Pa le dechreuaf ... ..	287
O Iesu hy', y Meddyg ... ..	49	Palmantir llwybr ... ..	276
O Iesu, gobaith ... ..	347	P'am, Arglwydd, caiff... ..	126
O Iesu mawr, y Bugail ... ..	12	P'am, Arglwydd, yma ... ..	255
O Iesu mawr, y Meddyg ... ..	145	P'am digalona ... ..	76
O Iesu 'm Ffrynd ... ..	37	P'am, f' enaid ... ..	108
O Iesu 'r Archoffeiriad ... ..	159	P'am mae llewod ... ..	305
O Iesu 'r Brenin ... ..	87	P'am na b'ai ... ..	68
O Iesu 'r Bugail... ..	33	P'am 'r ofna ... ..	31
O Iesu 'r Meddyg da ... ..	11	P'am 'r wy 'n 'mofyn ... ..	313
O Iesu 'r Meddyg da ... ..	30	P'am 'r wy 'n 'mryson ... ..	265
O'i ystlys' bur ... ..	166	P'am y caiff bwystfilod ... ..	133
O llefara, addfwyn ... ..	322	P'am y caiff y gwyntoedd ... ..	319
O moes dy law ... ..	106	P'am y cwyd bwystfilod... ..	308
O 'Mugail gwych .. ..	49	P'am y trigaf ... ..	295
O na allwn godi ... ..	140	Pan bo glaswellt ... ..	295
O na b'ai cystuddiau ... ..	237		

	TUDAL.		TUDAL.
Pan bwy 'n profi ... ..	240	Rhwng Pihairoth ... ..	172
Pan byddo f' Arglwydd ... ..	243	Rhwng y creigydd ... ..	358
Pan byddwy' nghanol ... ..	94	Rhyfedda hyd a lled ... ..	93
Pan del lluoedd o ... ..	342	Rhyfeddu 'r wyf ... ..	83
Pan delo angeu ... ..	183	Rhyw anifail wyf ... ..	195
Pan elwy 'maes ... ..	256	'R offeiriad a ganant ... ..	100
Pan godo 'r haul ... ..	243	'Rwyf fi heddyw... ..	233
Pan gwelont obry ... ..	97	'Rwyf fi 'n haeddu ... ..	316
Pan mae fy enaid... ..	144	'Rwyf fi 'n haeddu ... ..	317
Pan yr o'wn i mewn ... ..	361	'Rwyf fi 'n myn'd ... ..	324
Parod yw 'm Duw ... ..	57	'Rwyf fi 'n ofni ... ..	291
Par'to', ddyng gwael ... ..	13	'Rwyf fi 'n ymladd ... ..	265
Pe ai 'r ddaear ... ..	380	'Rwyf yma yn byw ... ..	360
Pe b'ai 'merawdwyr... ..	122	'Rwyf yn gwel'd ... ..	226
Pe b'ai yn gorfod ... ..	61	'Rwyf yn teimlo ... ..	291
Pe cawn adenydd ... ..	40	'Rwyf bron, 'rwy' bron ... ..	258
Pechadur wyf, ac un ... ..	81	'Rwy 'n awr wrth ... ..	58
Pechadur wyf, da ... ..	69	'Rwy 'n awr yn teimlo ... ..	40
Pechadur wyf erioed ... ..	46	'Rwy 'n chwenych gwel'd ... ..	186
Pechadur wyf, f' Arglwydd ... ..	81	'Rwy 'n diffygio ... ..	261
Pechadur wyf, ie 'r ... ..	90	'Rwy 'n dy garu ... ..	157
Pechod, bellach ... ..	315	'Rwy 'n dy garu ... ..	194
Pe gwel'swn i ... ..	6	'Rwy 'n dy garu ... ..	196
Pe meddwn ar ... ..	31	'Rwy 'n dy garu ... ..	271
Pererin gwan ... ..	171	'Rwy 'n dysgwyl, anwyl ... ..	112
Pererin wyf heb ... ..	26	'Rwy 'n dysgwyl wrth ... ..	352
Pererin wyf, fy Nuw ... ..	59	'Rwy 'n edrych dros ... ..	334
Pererin wyf i'r Ganaan ... ..	27	'Rwy 'n edrych drwodd ... ..	353
Pererin wyf mewn ... ..	301	'Rwy 'n gorwedd tan ... ..	281
Pererin wyf mewn ... ..	347	'Rwy 'n gorwedd yn ... ..	144
Pererin wyf sydd ... ..	55	'Rwy 'n hiraethu ... ..	312
Pererin wyf tua ... ..	27	'Rwy 'n morio tua ... ..	169
Pererin wyf tua ... ..	75	'Rwy 'n ofni grym... ..	351
Perl India bell ... ..	99	'Rwy 'n ofni 'm nerth ... ..	247
P'le 'r wyt yn myn'd ... ..	219	'Rwy 'n trigo mewn ... ..	377
P'odd aeth ein Duw ... ..	101	'Rwyf Ti 'n adnabod ... ..	246
P'odd galla i 'th ganmol ... ..	92	'Rwyf wedi blino ... ..	125
P'odd y galla i ddweyd ... ..	205	'Rwyf wedi bwrw ... ..	67
Pren bywiol sy 'n ... ..	124	'Rwyf yma yn teithio ... ..	347
Priodferch Iesu ... ..	158	'Ry'm wrth dy fwrdd ... ..	181
Priod y Dragwyddol ... ..	123	'Ry'm yn dy erfyn ... ..	97
Profais dy hedd ... ..	103	Saith o weithiau ... ..	228
Pwy all 'nabod ... ..	246	Sefwch bellach ... ..	151
Pwy bleser dan ... ..	89	Ser dysglaer y boreu ... ..	200
Pwy ddyry im' falm ... ..	173	Talwyd y swm ... ..	146
Pwy gyfarwydda wael ... ..	209	Tan fy maich ... ..	337
Pwy na fwytai ... ..	180	Tan y don yr wyf ... ..	131
Pwy sy 'n abl ... ..	237	Ti, Arglwydd, yw... ..	371
Rhagori mae ... ..	161	Ti dy Hunan ... ..	294
Rhai yma canlynodd ... ..	96	Ti, f' Arglwydd mawr... ..	105
'R haul guddiodd ... ..	101	Ti, fy Iesu, yw ... ..	306
'R hen Adda ga's... ..	84	Ti, Iesu, Frenin ... ..	302
Rho i mi amynedd ... ..	110	Ti, Iesu mawr ... ..	220
Rho i mi wel'd ... ..	131	Ti, Iesu, ydwyf ... ..	182
Rho i mi yfed ... ..	252		

	TUDAL.		TUDAL.
Ti 'm gwaredaist ... ..	250	Wele 'n dyfod ar ... ..	134
Ti 'm rhoddaisti ... ..	318	Wel, f' enaid, cerdd ... ..	266
Ti 'r Archoffeiriad ... ..	159	Wel, f' enaid, c'od ... ..	202
Ti wyddost, Arglwydd ... ..	114	Wel, f' enaid, dos ... ..	247
Ti yw fy Arglwydd ... ..	185	Wel, f' enaid, dos ... ..	289
Ti yw fy ngrym ... ..	111	Wel, f' enaid, edrych ... ..	221
Ti yw 'mywyf ... ..	322	Wel, f' enaid, gorfolledda ... ..	223
Ti yw 'r Archoffeiriad... ..	164	Wel, f' enaid, 'hed ... ..	238
Teithio 'r wyf ... ..	375	Wel, f' enaid, mentra ... ..	362
Tlawd yw 'r cwbl... ..	265	Wel, Iesu yw fy ... ..	361
Tori wnes fy ... ..	338	Wel, mi â' tua 'r ... ..	350
Trafaelwyr y'm ... ..	31	Wel, mi ddarfyddaf ... ..	303
Tra gallwyf byth ... ..	90	Wel, weithian, c'od ... ..	217
Troseddodd Adda ... ..	123	Wel, ymgysura ... ..	222
Troseddwr wyf... ..	68	Wrth droi fy ngolwg ... ..	88
Truenus wyf ... ..	259	Wrth d' ystlys Di ... ..	93
Trwy ffydd 'rwy 'n gwel'd ... ..	90	Wrth dy orsedd ... ..	268
Trwy ras 'rwyf ... ..	71	Wrth dy orsedd ... ..	317
Trwy rinwedd ... ..	24	Wrth edrych ar ... ..	51
T'rwy' yn dy gwmni ... ..	69	Wrth edrych, Iesu ... ..	179
Tu draw i oll ... ..	326	Wrth ei ochr ... ..	374
Tydi fu 'n dyoddef ... ..	161	Wrth feddwl am ... ..	63
Tydi, fy Arglwydd ... ..	183	Wrth fy nghuro ... ..	270
Tydi, fy Nuw, sylfaenodd... ..	330	Wrth gofio dichellion .. ..	96
Tydi, fy Nuw, Tydi... ..	174	Wrth gofio 'r Jerusalem ... ..	80
Tydi, fy Nuw, Tydi ... ..	330	Y baich sydd arna'i ... ..	284
Tydi, fy unig Arglwydd ... ..	301	Y byd 'r wy' ynddo .. ..	107
Tydi yw 'm Harch ... ..	116	Y cwbl fedda'i ... ..	376
Tyn f' enaid lluddedig ... ..	206	Y cyfoeth i mi ... ..	279
Tyr'd, Arglwydd, â'th... ..	348	Y cysur i gyd ... ..	378
Tyr'd, fy Anwylyd ... ..	164	Y goleuni sy'n .. ..	95
Tyred, Arglwydd, â'r ... ..	214	Yma cewch wel'd... ..	99
Tyred, Arglwydd, tyr'd ... ..	133	Y mae Y dydd... ..	49
Tyred, f' enaid, ar ... ..	338	Y mae Fy enaid bach... ..	110
Tyred, Iesu, i'r ... ..	264	Y mae arnaf ... ..	167
Tywyllwch dudew ... ..	149	Y mae dy gariad ... ..	164
Ufudd-dod Iesu ... ..	143	Y mae gobraith ... ..	292
Unig Geidwad ... ..	327	Y mae gwres ... ..	136
Un llais, un swn ... ..	227	Y mae hapusrwydd... ..	170
Un wyt, fy Nuw ... ..	115	Y mae hiraeth ... ..	356
Un ynyfyd wyf ... ..	55	Y mae holl ddysgwyliaidau ... ..	182
Uwchlaw terfynau ... ..	333	Y mae Midian ... ..	357
Wel bellach, tyr'd ... ..	230	Y mae 'm nerth... ..	201
Wel brysiwch i'r frwydr ... ..	273	Y mae 'm nerth i yn ... ..	224
Wel, dacw 'r Brenin ... ..	170	Y mae ofn ... ..	151
Wel, dacw 'r hyfryd ... ..	350	Y mae 'r Aipht ... ..	267
Wel, darfod fwy-fwy ... ..	278	Y mae 'r byd ... ..	357
Wel, deuwch tua ... ..	248	Y mae 'r dyddiau... ..	369
Wel dyma gyfoeth ... ..	378	Y mae 'r ddaear ... ..	389
Wel dyma hwy ... ..	45	Y mae 'r haulwen ... ..	122
Wel dyma 'r dydd ... ..	163	Y mae tragwyddoldeb ... ..	271
Wel dyma 'r eiddil ... ..	184	Y mae trysorau ... ..	183
Wel dyma 'r pererinion ... ..	71	Y mae yr Arglwydd ... ..	61
Wel dyma wledd ... ..	99	Y man b'ech Di ... ..	157
		Ymdeithydd wyf ... ..	67

	TUDAL.		TUDAL.
Ymdeithydd wy'n ... ..	54	Yn mynwes glyd ... ..	32
Ymdeithydd wy'n ... ..	73	Y noeth, y tlawd ... ..	146
Ymddifaf, fedda'i ddim... ..	382	Y nosweithiau hirion ... ..	376
Ymddigrifa, f' enaid ... ..	387	Yn nydd y frwydr ... ..	276
Ymneillduwch, bethau ... ..	294	Yno mae 'r Apostolion ... ..	44
Y Moses mawr ... ..	116	Yno y mae fy ... ..	44
Yn awr fe ffodd... ..	341	Yn rhad y mae 'n ... ..	113
Yn awr, Sancteiddiol ... ..	383	Yn yr anial 'r wyf ... ..	165
Yn awr y gwn ... ..	35	Yr afon a lifodd ... ..	206
Yn dy gyfamod ... ..	105	Yr amser bellach ... ..	96
Yn ddystaw dysgwyl ... ..	25	Yr Arglwydd a'm carodd ... ..	82
Yn Eden, cofiaf ... ..	123	Y rhai a gasglodd ... ..	43
Yn fuan diange ... ..	341	Y rhai bwrcasodd ... ..	228
Yn fuan tyr'd ... ..	222	Y tir dymunol ... ..	374
Yn hir bum mewn ... ..	71	Yr Iesu 'n ddilai... ..	73
Yn iach i'r byd ... ..	10	Yr Iesu mawr ... ..	74
Yn mhell uwch... ..	174	Yr Oen a laddwyd ... ..	90
Yn mhlith holl ... ..	377	Yr wy 'n teimlo 'm nerth ... ..	228
Yn mylchau 'r creigydd ... ..	98	Yr wyt Ti 'n deg ... ..	158

INDEX TO THE ENGLISH HYMNS.

	PAGE.		PAGE.
Above all wordly views ... ..	432	Each letter of Thy ... ..	416
Adieu all mortal things ... ..	439	Eternal Jehovah ... ..	435
All Hail! divine ... ..	402	Eternal Saviour ... ..	418
All the wide immense ... ..	428	God of mercy, only ... ..	425
Amaze, my soul ... ..	404	God of mercy, whose ... ..	426
Awake, my soul ... ..	439	Gloomy darkness... ..	403
Behold! how trembles ... ..	444	Guide me, O Thou great ... ..	444
Behold Omnipotence ... ..	404	Hark, the voice of ... ..	430
Behold His sides ... ..	442	Heaven, be amazed ... ..	435
Behold, the loving Father ... ..	442	He is my Leader ... ..	403
Beneath Thy Cross ... ..	421	How long shall I ... ..	406
Be still, my soul ... ..	394	How shocking is ... ..	408
Come, heavy laden ... ..	395	I am daunted all ... ..	433
Come, Holy Spirit, now ... ..	403	If the creation ... ..	410
Come, Jesus, haste ... ..	423	I long to feel ... ..	423
Come, return thou ... ..	429	It is enough, I am ... ..	399
Dear Jesus, come ... ..	431	I trace a mournful ... ..	417
Dear Saviour, all... ..	420		

	PAGE.		PAGE.
Jesus alone we will ... ..	397	Now the glorious Gospel ... ..	430
Jesus is all my hope ... ..	432	Now the shadows ... ..	429
Jesus, lead us with ... ..	427	Now to Golgotha ... ..	443
Jesus, let not Satan ... ..	436	O could I but abide ... ..	433
Jesus, my Saviour, reigns ... ..	401	O'er those gloomy hills ... ..	428
Jesus, my Saviour ... ..	409	Oh! to spend each ... ..	436
Jesus, pour down Thy... ..	441	O Lord of glory ... ..	419
Jesus, the God ... ..	411	O mighty Redeemer .. ..	434
Jesus the Saviour ... ..	409	O mighty Saviour .. ..	416
Jesus, Thou art the ... ..	420	O miserable world ... ..	434
Jesus, Thou can'st ... ..	425	O my beloved ... ..	422
Jesus, whose Almighty ... ..	424	Our weary pilgrimage ... ..	431
Let me spend each ... ..	425	O visit, Lord, my soul ... ..	439
Let the remainder ... ..	411	Saviour, look on Thy ... ..	426
Lift your heads ... ..	437	Saviour of the guilty ... ..	427
Lo, a river of pure ... ..	438	Sweet Jesus, bear my ... ..	430
Look, my soul, unto ... ..	406	The enormous load ... ..	395
Look yonder to the ... ..	399	The gate of horrid death ... ..	398
Lord, accept a ... ..	427	The loftiness of man .. ..	401
Lord, do descend ... ..	409	The moon and all ... ..	405
Lord, how shall I... ..	411	The world wherein ... ..	408
Lord, how to sing the ... ..	401	Thou Arbiter of life ... ..	408
Lord, I groan under ... ..	426	Thou great Jehovah ... ..	412
Lord, I have put my ... ..	395	Thou great Jehovah ... ..	418
Lord, I long to be ... ..	424	Thou great Jehovah ... ..	440
Lord Jesus, whose ... ..	412	Thou great Omnipotent ... ..	396
Lord, let me gain ... ..	416	Thou great Redeemer... ..	407
Lord, let my spirit ... ..	432	Thou great Redeemer ... ..	410
Lord, let the world's ... ..	420	Thou, who bestowest ... ..	402
Lord, let Thy mercy shine ... ..	433	Three hours the sun ... ..	443
Lord, Thou art my ... ..	428	Through forests wild ... ..	417
Lord, Thy love is ... ..	421	Tir'd with a trifling... ..	431
Lord, when I make ... ..	422	Tir'd with the world ... ..	419
More sad or glorious ... ..	405	To Thee, my God ... ..	419
Mount, my soul ... ..	437	What is the world ... ..	400
Mount up, my soul ... ..	397	What pleasures shall ... ..	419
Mount up, my soul ... ..	441	When I made my... ..	429
My God and my Saviour ... ..	438	When most abas'd ... ..	442
My God, my God ... ..	400	When once I pass ... ..	407
My God, my life ... ..	440	White and ruddy is ... ..	422
My God, my portion ... ..	423	Who is the King of ... ..	398
My Saviour is my ... ..	394	Why should ambition ... ..	398
My soul, and dost thou ... ..	410	Why should my wand'ring ... ..	418
My soul forsakes each ... ..	421	Wonder, earth; be... ..	424
My soul, thou art... ..	396	Wouldst Thou divide ... ..	400
My soul, thy dear Redeemer... ..	396	Ye sons of men... ..	399
No object here ... ..	403		
Not on the world ... ..	413		

## *Caniadau ei Ieuengctyd:*

WEDI EU CYMERYD ALLAN

O

HEN YSGRIF-LYFR A BERTHYNAI I'R AWDWR.


## NODIADAU GAN Y GOLYGYDD.

**Y** MAE yn meddiant Mrs. Jones, priod y Parch. Josiah Jones, Machynlleth, a gorwyres i Williams Pantycelyn, hen Ysgrif-lyfr, wedi ei lanw o glawr i glawr â chynyrchion barddonol Williams, y rhai a ysgrifenyddwyd ganddo ef ei hun. Mewn maint, llyfr 12eg plyg ydyw, yn cynwys 150 o dudalennau—cloriau lledr, a chlasp pres. Rhag, pe dygwyddasai i'r Bardd, rywsut, fod yn esgeulus, i'r llyfr gael ei golli, y mae wedi ysgrifenu ar y ddalen gyntaf,—“*William Williams' Book.*” Ar ddalen wen, agos yn niwedd y llyfr—yr hon, rywfodd, na chafodd ei hanrhydeddu yn yr un modd a'r dalennau ereill—y mae yn ysgrifenedig â llaw arall,—“*This Book was given me from Mr. Williams, Dolau-gwynion, the Executor of the late Rev. J. Williams, Pantycelyn.*” Ar y tudalen olaf ceir y dyddiad, “*March 25, 1745,*” wedi ei ysgrifenu, mae yn amlwg, gan yr un llaw ag a lanwodd y llyfr.

Yn garedig iawn caniatawyd i mi gael gweled yr hen Ysgrif-lyfr, yn nghyda phapurau ereill a ddaethant o'r un ffynonell; ac yr wyf yn diolch—a gwn y cytuna llawer â mi i ddiolch—i Mrs. a Mr. Jones am eu caredigrwydd.

Beth am y cyfansoddiadau a geir yn yr Ysgrif-lyfr dyddorus? Y mae llawer ohonynt—yn agos i un ran o dair, mi feddylwng—wedi eu cyhoeddi gan yr Awdwr; ac y mae yr oll a gyhoeddwyd i'w cael yn yr *Aleluia*; yr hyn sydd yn profi mai Caniadau a gyfansoddwyd gan Williams yn ei ieuenctyd ydyw cynwys y llyfr yma, oblegyd cyhoeddwyd yr *Aleluia* y tro cyntaf, yn rhanau, rhwng y blynyddoedd 1744 a 1747.

Drachefn, y mae rhan fawr o'r Hymnau a geir yn yr Ysgrif-lyfr hwn wedi eu cyhoeddi o dan enw Rowland, Llangeitho. Y mae o'n blaen yn awr “Ychydig o Hymnau yn ychwaneg, gan y Parchedig D. Rowland,” y rhai a gyhoeddwyd yn nglŷn â Phregethau Rowland, oddeutu 1776, gan Thos. Davies, gerllaw Hwlfordd; y rhai hefyd, fel y mae yn amlwg, a werthid wrthynt eu hunain, heb y Pregethau. Y mae yr Hymnau uchod i'w gweled yn “Nghofiant a Gweithiau” Rowland, a olygwyd gan y diweddar Mr. Morris Davies, Bangor. Peth yn peri tipyn o syndod a dyrswch ydyw fod y rhan fwyaf o lawer o'r Hymnau uchod, a gyhoeddwyd fel eiddo Rowland, i'w cael yn yr Ysgrif-lyfr yma, heb fod dim yn arwyddo yn amgen nad gwaith Williams ydynt, oddieithr





fod tair o honynt yn dwyn nodiad fel hyn,—“Hymn, Cennick pag 149. by D: R:”—“Hymn, Ymddiddan rhwng Gwyr a Gwragedd. Cennick pag 186 D: R:”—a “Hymn arall, from Cennick pag 51 D: R:” Nid oes na “D. R.” na dim arall wrth yr un o'r Hymnau ereill yn awgrymu dim amgen nad eiddo Williams ydynt. Pa un ai Rowland ai Williams oedd eu hawdwr, nid ydym yn gwybod. Diau eu bod hwy ill dau yn deall pa fodd y dygwyddodd pethau; ond rhaid i ni “fod yn fodlon” (ys dywedai Williams) yn ein hanwybod-aeth. Pa fodd bynag, y mae Williams yn cymeryd dwy o'r Hymnau sydd wedi eu cyhoeddi fel eiddo Rowland, ac yn eu harddel fel ei eiddo ei hun; y ddwy hyny ydynt, y *gynaf* a'r *dydedd* yn yr *Aleluia*. Nage: yn hytrach Rowland, neu ei gyhoeddwr, Thos. Davies, a gymerodd y ddwy o waith Williams; oblegyd yr oedd yr *Aleluia*, a'r ddwy Hymn grybwylledig ynddo, wedi ei gyhoeddi lawer o flaen yr *Hymnau Duwiol*, a'r *Ychydig o Hymnau yn ychwaneg*, gan Rowland. Ar ol i'r *Aleluia*, ac wedi hyny, i'r *Hymnau Duwiol*, a'r *Ychydig o Hymnau yn ychwaneg*, gan Rowland, gymeryd eu dewis-ranau o gynwysiad yr hen Ysgrif-lyfr, y mae yn aros bedair-ar-hugain o Hymnau neu Ganiadau na chyhoeddwyd mo honynt erioed o'r blaen. Y mae y rhai hyn i'w cael bron i gyd yn nechreu neu yn agos i ddechreu yr Ysgrif-lyfr. Gellid meddwl, felly, mai y rhai hyn oedd ei gynyrchion barddonol cyntaf oll; ac y maent yn dra dyddorol ar fwy nag un cyfrif. Prin y dysgwylasai neb deallus fod y Caniadau hyn yn rhagori ar, nac y byddent yn gyfartal â chynyrchion diweddarach yr awdwr, mewn gwerth a theilyngdod llenyddol. Er nas gellid edrych ar Fardd Pantycelyn, hyd y nod yn ei ddyddiau goreu, yn awdurdod i neb i'w ddilyn mewn sillebiaeth ac orgraff, eto fe wneid cam âg ef pe meddylid ddarfod iddo aros yr un mor anghyfarwydd a thrwsgl yn y pethau hyny ag ydoedd pan yr ysgrif-enai y llyfr hwn.

Un peth a bâr i lawer ymddawru yn y Caniadau a ganlyn ydyw, am y ceir ynddynt weled awen a galluoedd “Pêr Ganiedydd Cymru” yn eu blagur. Ond yr hyn sydd yn rhoddi uwch gwerth arnynt yn ein golwg ni ydyw, fod yr awdwr ynddynt wedi ysgrifenu ei fywgraffiad ei hun yn ystod un o'r cyfnodau mwyaf pwysig yn ei oes. Un-ar-hugain oedd Williams pan y gwrandawai Howell Harries yn monwent Talgarth, ac y dwysbigwyd ef (1738); ac y mae yn debyg fod y dyddiad sydd yn niwedd yr hen lyfr (1745) yn golygu yr amser y gorphenwyd llenwi ei ddalenau; y mae yn bur sicr, gan hyny, i'r llyfr yma gael ei ysgrifenu pan oedd yr awdwr rhwng un-ar-hugain ac wyth-ar-hugain oed; ac,

fel yr awgrymwyd, mae yn debyg i'r Caniadau a welir yn canlyn gael eu hysgrifenu yn gynar yn y cyfnod hwnw. Ymdorai taranau anfesurool fwy arswydlawn na tharanau natur uwchben Talgarth, pan y gwrandawai yr ysgolor ieuanc ar *Boanerges*, a gwibiai mellu anfeidrol fwy marwol ac ofnadwy na'r gwefrdan o'i gwmpas. Fe ddychrynwyd ac fe glwyfwyd Williams ieuanc gan y rhai hyny; ac y mae swm ei ddydd-efiadau, mewn canlyniad, ac adsain ei ddolefain cryf i'w clywed yn y penillion sy'n canlyn. Yr ydym yn rhoi y Caniadau yn olynol yn yr un drefn ag y maent i'w cael yn y llyfr, ac yn ddiu yn y drefn amseryddol y cyfansoddwyd hwynt. Caiff y darlennydd felly y fantais o ddilyn yr Emynydd anwyl a hoff, a gweled ei ing a'i gyfyngder, yn nghyda'i ymdrech a'i obeithion, o'i argyhoeddiad hyd nes y mae yn cyrhaedd sicrwydd ffydd a gobaith—o'r dywell nos hyd nes y mae goleu dydd llachar yn tywynu arno yn ei nerth.

Y mae yr awdwr yn nodi mater neu destyn ychydig o'r Hymnau; am y rhai nad oedd wedi gwneuthur felly yn nglŷn â hwy, cymerasom ni ein rhyddid i lenwi y diffyg, er mwyn cael y cyfan yn unffurf.

## Caniadau ei Ieuengctyd.

### HYMN I.

*Rhodio mewn tywyllwch. \**

- P**E gwel'swn i, cyn myn'd i'm taith  
Mor ddyfnd yw ffordd Duw  
a'i waith,  
Anobeithiaswn yn y man  
Gyfodi o ddistryw byth i'r lan.
- 2 Ond pan y'm galwyd, fel Abraham,  
Gwnes ufuddhau heb wybod pa'm;  
Gan geisio gwel'd dyeithr DDUW,  
Ond ffaelu ei ffeindio yn fy myw.
- 3 Pe gwel'swn ddyd,—mi carwn ef,—  
A ddysgai'r ffordd i'm fyn'd i'r nef;  
Rhyw *guide* i'r nef, ei wel'd pe cawn,  
Fy enaid fyddai lawen iawn.
- 4 Ond och! sa' draw, ddymuniaid  
gwyw,  
A *drusto* i ddyd melldigaid yw;  
Rhaid iti aros amser CRIST,  
Er maint dy *hast*, fy enaid trist.
- 5 \* \* \* \* \*  
\* \* \* \* \*  
'Rwy'n ffaidd iawn, 'does fan yn  
lân,  
'Rwy'n gymhwys iawn i fyn'd i'r  
tân!
- 6 Po' fwyaf geisiaf fyn'd i'r lan  
Iselach aiff fy enaid gwan;  
Och! brysio raid,—gwel angyllwch,  
A mi prin gam o'r Aipht i maes!
- 7 Cymuno, darllen, gweddio'r wyf;  
Chwanegu mae rhai'n at fynghlwyf;  
Cyflawnder, angyllwch, euogrwydd du,  
Cytuno maent i'm damnio i!
- 8 Yn dra diobaith 'rwyf yn byw,  
Heb allael rhoi fy mhws ar DDUW;  
Ac, fel y graig mae 'nghalon gas,  
Och fi! gwae fi! beth wna'f am ras?
- \* Mae pen y ddalen, ar yr hwn yr oedd y  
Penill cyntaf, wedi ei rwygo ymaith.

- 9 'Rwy'n farw fel yr esgyrn sych  
A wel'sai 'Zeciel gynt trwy ddrych;  
Llabyddiwyd fi â'r ddeddfol saeth,  
'Does fawr o le i'm fyn'd yn waeth.
- 10 Chwi lân eneidiau, peraidd gaingc,  
Sy'n rhodio oddeutu'r orsedd-  
faingc,  
P'odd daethoch yma,—traethwch  
im',  
Bydd hyny'n well gen' i na dim.
- 11 O Moses, Esau,—mawr yw'ch  
bri,—  
A Daniel, Job,—p'odd daethoch  
chwi?  
Dros flin fynyddoedd buoch, fil,  
P'odd darfu i'ch gadw ffordd mor  
gul?
- 12 Chwi sy'n mwynhau'r goleuni glân,  
Dewr filwyr Duw mewn dwr a  
thân;  
P'odd darfu i chwi gongro'r byd  
Pan ddaethoch trwy'r anialwch  
drud!
- 13 Yn awr, caf ateb gan y rhai'n,  
Mewn geiriau amlwg, eglur, plaen;  
Medd Pedr, Iago, Jude ac Io'n,—  
"Daethom trwy ludded mawr a  
phoen."
- 14 "Yn crynu'n flin y buom ni,"—  
Medd Moses,—“ar y mynydd du;”  
“Minau,”—medd Dafydd,—  
“lawer pryd  
Wlychais â'm dagrau 'm gwely  
clyd.”
- 15 A! dyma'r ffordd, medd pawb yn  
nghyd,  
Sy'n arwain tua'r nefol fyd;  
Ffordd gul i'r cnawd, ffordd gyfyng  
yw,  
Sy'n arwain tua thŷ ein Duw.

- 16 Un waith cynygia'i eto i'r nef,  
A Duw wrandawo ar fy llef;  
O Arglwydd, clyw, a chlyw heb  
ball,  
Daer lefain dy greadur dall.
- 17 Rho i mi nerth i fyn'd yn mlaen  
Trwy ganol dyfroedd mawr a thân;  
Ni thawaf ddim nes caffwyf le  
Gyda fy Nuw o fewn i'r ne'.

### HYMN II.

*Gwedd.*

- P**A bryd, O IESU, caf fi fod  
Mewn anian llawn i ganu clod,  
Uwchlaw y byd, ar aden frydd,  
A chwant dwad adre 'n fwy bob  
dydd?
- 2 Yn agos atat gad im' fod,  
Yn llawn o gariad f'enaid dod;  
Blaen-*dast* o'r nef, gad imi gael;  
Clyw, ateb fi, O IESU hael!
- 3 Gwna i dy gariad, ARGWLWYDD glân,  
I losgi ynof megis tân:  
Glanha fy enaid, deisyf 'rwyf,  
Pura fi, ARGWLWYDD, gwella 'm clwyf.
- 4 Fy mhechod lladd, nac arbed un,  
Dy ddelw arnaf dod, a'th lun;  
I lawr a Satan, dan fy nhraed,  
Clyw, ateb fi, O f' anwyf Dad!
- 5 O tyr'd, gwna hyn o waith ar fyr,  
Fy holl gadwynau, IESU, tyr;  
Dechreuad gwan dwg Di i ben,  
O'm calon 'rwyf yn dweyd,—Amen.

### HYMN III.

*Toriad Gwawr.*

- O**F ENAID cân i'th Briod glân,  
Dod allan ei ogoniant;  
Ac na fydd drist, mae genyt dyst  
Fod Iesu CRIST i'th feddiant.
- 2 O cwn\* dy lef at DDUW i'r nef,  
Dy Dad yw Ef i'th wrando;  
A'r Iesu pur yw'th Frawd yn wir,  
Fu'n dyoddef cur i'th safio.

\* Cwn, cwnu—codi, dyrchafu. Gair cyff-  
redin ar lafar y Deheuwyr.

- 3 Mae Ysbryd cun fy Nuw ei hun  
Yn rhoi it' win dy lonaid;  
A llawer gwledd tu yma i'r bedd  
O rinwedd mawr i'r enaid.
- 4 Cei hefyd, clyw, tra f'och di byw  
Angylion Duw i'th wyllo;  
Nac ofna ŵg y ddraig na'i drwg,  
Can's Duw a'm dwg hyd ato.
- 5 Er bod yn was i bechod cas,  
Mae mawr Berthynas iti;  
Nacofna, paid, mae'r Nef o'th blaid,  
Yn wir nid rhaid it' ofni.
- 6 Bydd lawen, dos, serch goddef loes,  
Yn mlaen â'r Groes, cei groeso;  
A goddef wawd er mwyn dy Frawd,  
Tra yn y cnawd yn rhodio.
- 7 Fe ddaw rhyddhad, cei fyn'd i'r  
wlad  
Lle mae dy Dad yn tario;  
Yn fawr dy fraint i blith y saint,  
Gwyn fyd pa faint êl yno.
- 8 Rho foliant fyth tra ynot chwyth,  
Cei fyn'd i blith angylion;  
O! f'enaid, dod yn glir fawr glod  
I GRIST, dy Briod tirion.
- 9 O nefoedd wen, deffrowch uwch-  
ben!—  
O'r ddae'r i'r nen yn union  
Wyd finau'n hy' 'n dod atoch chwi  
I foli Iesu tirion.

### HYMN IV.

*Hyder.*

- G**WERTHFAWR yw'r IESU  
hawddgar, pur,  
I bawb o'r gwir fyddloniaid;  
Ei gariad rhad mor beraidd yw  
I'r enaid byw bendigaid.
- 2 Cyflawnder gwiw sydd ganddo Ef,  
A'i fraich yn gref wastadol;  
Fe ladd dy holl elynion cas  
A'i ras fe'th wna'n orchfygol.



3 O enaid gwan, tyr'd yn dy flaen,—  
Gwel anian dy Frawd nefol;  
Cei ganddo gymhorth i barhau,  
Cei ei fwynhau'n dragwyddol.

4 Glŷn wrth yr IESU yn ddigel,  
Ei gariad gwel yn helaeth;  
Dros d' enaid di yn dyodde' bu  
I brynu iachawdwriaeth.

### HYMN V.

*Ar yr un testyn.*

**O**CH! finau'n brudd, na ddeuai'r  
dydd

I fyn'd yn rhydd oddiyma,  
Tu hwnt i lygredd brwnt a brad,  
I Ganaan, gwlad Jehofah.

2 'Rwyf yma o fewn i ergyd saeth,  
Mewn carchar caeth yn fynych;  
Pan elwyf unwaith yno i fyw  
Yn nghariad Duw caf edrych.

3 Caf yno aros gyda'r Oen  
Mewn gwledd ddiboen yn para;  
Caf euraidd goron yn ddi-os,  
Pwy garai aros yma?

4 Caf euraidd delyn yn fy llaw  
Heb friw na braw i'm blino;  
Caf aros fyth mewn hyfryd hedd,  
Gwych ydyw'r wledd sydd yno.

5 Caf fi fod fyth uwch nefol len,  
Caf fwyta o Bren y Bywyd;  
Caf fod mewn lle o wleddoedd  
llawn,  
Caf yno gyflawn wynfyd.

6 Eneidiau gwiw, na ro'wch eich bryd  
Ar ol y gwagfyd yma;  
Chwi gewch, pan eloch at eich Ner,  
O'i nefol fêr eich gwala.

7 O gwyn ei fyd y sawl sy' a'i daith  
I'r etifeddiaeth yma,  
Y rhai sydd eisoes wedi cael  
Rhyw gyfran hael o'i manna.

8 Mae chwant, O Dad, ar f'enaid i  
Fod gyda Thi mewn urddas;  
Amen! amen! mi ddweda'n hŷ,—  
Prysura Di dy deyrnas!

### HYMN VI.

*Sicrwydd.*

**N**I wadaf mwy, iachaw'd fy  
nghlwy',  
Mi wn i bwy y credais;  
F' Anwylyd cu sydd eiddo i mi,  
Am hyny y llefarais.

2 Mi wn fy mod i dan ei nôd,  
Ac er ei glod y canaf;  
Fe'm canfu i, yn farw a du,  
Am hyny mi a'i caraf.

3 Clywais ei lef, a'm ffydd sydd gref  
Ca'i weled Ef ar fyrder;  
Can's Ef yw 'Mhen tu fewn i'r llen,  
Nef wen y goruchelder.

4 Am hyny pan âf yn y man  
O'r tŷ pridd allan unwaith,  
Tragwyddol dŷ sy'n nghadw i mi,  
Mi wn heb un amheuaeth.

5 Trwy'r Ysbryd pur a roist yn wir  
I dystio'n eglur imi,  
Mi wn fy mod,—O canaf glod,  
Trwy ras yn briod iti.

### HYMN VII.

*Ar Barhad mewn Gras.*

**D**UW Hollalluog yw'r Duw byw,  
Di-newid, dianwadal yw;  
Ei bwrpas doeth erioed cyn byd  
Diamheu dwg i ben ryw bryd.

2 Y sawl etholwyd trwy ras rhad  
Er tragwyddoldeb gan y Tad,  
Mewn pryd a brynwyd gan yr Oen  
A laddwyd trostynt trwy fawr boen.

3 Os collodd CRIST ei waed yn llyn,\*  
Diau ni cholli'r rhai hyn;  
Arfaethol ras (rhyfeddol yw!)  
A'u cwyd o'r byd i deyrnas Dduw.

4 Mewn pryd fe eilw'i ddewis had,  
Mewn pryd fe'u cyfiawhna yn rhad,  
Mewn pryd fe'u pura i deyrnas nef,  
Mewn pryd hwy dynir oll i dref.

\* "Yn llyn,"—Fel hyn, yn y modd yma.

5 Cadwedig fydd y cyfryw rai,  
Nid am nad ydynt heb eu bai,  
Ond am na newid Duw mo 'i waith  
A wnaeth er tragwyddoldeb maith.

6 Ni thyr Duw mawr mo'i air dilyth,  
Ei wir gyfamod bery byth;  
Bydd ffyddlon, Gristion; eto, clyw,  
Rho'th bwys ar lawn ffyddlondeb  
Duw.

### HYMN VIII.

*Mewn tywyllwch eto.*

**M**YFI, tebygwn,—Duw a'i gŵyr,  
Fod genyf lwyr ddymuniad  
I ladd pob drwg, a phechod trist,  
A dewis CRIST yn Geidwad.

2 Ac eto, er hyn, 'rwy'n nychu'n dost,  
Er maint fy most a'm siarad;  
Tosturied Duw! can's blin yw  
nghlwyf,  
Mewn pechod 'rwyf yn wastad.

3 Mae 'mhen yn llawn o eiriau Duw,  
Ond marw yw fy nghalon,  
A llawn o'r byd sydd ger ei bron;  
Duw doru hon yn deilchion!

4 Mae rhai'n fy nghym'ryd fel rhyw  
sant,  
Caf gwmni'r plant anwyfaf;  
'Rwy'n ofni, er hyn, pan ddel yr  
awr,  
Af lawr i'r t'wyllwch eithaf!

5 Chwi glywch fy nghwyn;—oes yma  
neb  
A dry ei wyneb tirion  
Hyd at y nef, i ddweyd wrth Dduw  
Mor galed yw fy nghalon?

### HYMN IX.

*Erledigaeth.*

**A** RAID i mi, rhag ofn dyn,  
Wrth'nebu Ysbryd Duw ei  
hun?

A digaloni, ar unrhyw awr,  
Rhag bod yn dyst i'm Harglwydd  
mawr?

2 Os ofni cnawdol ddynd a wnaif,  
A chelu gair fy ARGLWYDD Naf,  
Pa fodd y gallaf fi ryw bryd  
Sefyll mewn barn o dan ei lid?

3 O ddynd! O ddynd! dy waethaf,  
clyw,—  
Mi âf yn mlaen yn ngwaith fy Nuw;  
Ac os Efe a'm harddel i,  
Hawdd gallaf ddweyd,—Dy waethaf  
af di!

4 I'm cymhell i mae cariad Duw  
I fyn'd ar ol holl ddynol-ryw;  
Am hyny gwawdied pawb yn nghyd,  
Nid ofnaf groes na ch'wilydd byd.

5 A bodlon wyf i roi fy ngwaed  
Dros CRIST, i'w ddamsang dan eich  
traed:  
O ARGLWYDD! achub f' enaid i,  
Mi wnaif bob da trwy d' allu Di.

### HYMN X.

*Yn erbyn Gobaith a gredodd dan Obaith.*

**D**OS ymaith, ffrwrdd ar ffo  
Fy anghrediniaeth du,  
Er bod yr IESU ambell dro  
Yn cuddio'i wyneb cu:  
A lwfrhaf er hyn,  
A choelio'r gelyn cas?  
Na wnaif; yn enw'r IESU a'i rym  
Ni ildiaf ddim o'r maes.

2 Er bod fy enaid trwm  
Yn awr yn llwm o ras,  
Heb fawr ddaioni ynwy'i 'n bod,  
Ond crug o bechod cas;  
Er colli'm cysur llon,  
A'm doniau ffrwythlon ffrî,  
Mi obeithiaf yn fy Mhrynwr byw  
Fu farw drosof fi.

3 Yn erbyn gobaith, gwnaf,  
Mi gredaf ar bob pryd;  
Mi brofais f' Arglwydd gynt yn dda,  
Dysgwyliaf wrtho o hyd:  
Daw eto f' anwyl Frawd,  
Fe'm cyfyd i 'n ei gol,  
Ac yna cyst i'r byd a'r cnawd  
A'r diafol, droi yn ol.

## HYMN XI.

*Dyoddefodd trosaf fi.*

- Yn iach i'r byd, yn iach,  
A'i sothach dilesád,  
Yr Iesu garaf fi tra bwy',  
Fe golodd troswy' i waed :  
Dibrisio 'r byd a wnaef,  
A'i fawredd, a'i holl fri,  
'Does neb ond IESU wrth fy modd,  
Dyoddefodd trosaf fi.
- 2 'Dwy'n prisio gwybod dim  
Ond Iesu a grym ei groes,  
Yr Oen a laddwyd yn fy lle  
Cyn dechreu dyddiau f'oes ;  
I'm gwared i rhag poen  
Bn farw'r Oen heb fri,  
'Does neb ond Iesu wrth fy modd,  
Dyoddefodd trosaf fi.
- 3 Ar ol yr IESU 'r âf,  
Nid oedaf ddim yn hwy,  
Efe iacha fy enaid cla',  
Gan ddweyd—Nac ofna mwy ;  
Mae dwf'r bywyd llon  
Yn ffrydio o'i galon ffri ;  
'Does neb ond IESU wrth fy modd,  
Dyoddefodd trosaf fi.
- 4 Ar IESU rhof fy mhwys,  
Caf orphwys yn ei gol,  
Ac yn ei glwyfau gwnaf fy nyth,  
Ni chiliaf byth yn ol ;  
O brysia, f' enaid trist,  
Mae'r ffordd at GRIST yn ffri ;  
'Does neb ond Iesu wrth fy modd,  
Dyoddefodd trosaf fi.
- 5 Beth, er fy mod yn llawn  
O bechod a phob bai,  
Mae yma waed rhinweddol iawn  
I'm golchi a'm glanhau ;  
A hwn a'm gwna yn wyn  
Heb un brycheuyn du ;  
'Does neb ond IESU wrth fy modd,  
Dyoddefodd trosaf fi.
- 6 Pe codai plant y byd  
I'm herlid, fawr a mân,  
Trwy ras, adawa i mo'm Ffrynd,  
Er gorfod myn'd trwy'r tân ;  
Caiff ffydd ei nerthu'n wir,  
Fel aur, pan brofir hi ;  
'Does neb ond IESU wrth fy modd,  
Dyoddefodd trosaf fi.

- 7 Ei 'nabod Ef yn iawn  
Sydd fywyd llawn o hedd,  
A'm holl hapusrwydd ar y ddae'r  
Yw edrych ar ei wedd,  
A gwrando ei eiriau llon,  
A'i addewidion cu ;  
'Does neb ond IESU wrth fy modd,  
Dyoddefodd trosaf fi.
- 8 Ac O ! nas gallwn wawdd  
Fy holl gym'dogion trist,  
A dangos iddynt hwy yn hawdd  
Mor fawr yw cariad CRIST ;  
A'r rhinwedd sydd yn ngwaed  
Y serchog Geidwad cu !  
'Does neb ond IESU wrth fy modd,  
Dyoddefodd trosaf fi.
- 9 Ei ganmol haeddai ar g'oedd,  
Fe'm prynodd ar y pren,  
I'm gwared i rhag anghu caeth  
Gogwyddo wnaeth ei ben :  
Tra byddwyf byw a bod  
Dyrchafa 'i glod a'i fri ;  
'Does neb ond IESU wrth fy modd,  
Dyoddefodd trosaf fi.

## HYMN XII.

*Sail i fod yn hyderus.*

- ENAID ofnus, cwyd dy ben,  
A gwel dy Brynwr ar y pren ;  
Fe dalodd Ef dy ddyled fawr  
Pan ar y groes rho'i ben i lawr.
- 2 'Does gan y Gyfraith ddim i'w  
ddweyd,  
'Does gan Gyfiawnder ddim i'w  
wneud ;  
Fe roed boddlonrwydd llwyr i'r Tad,  
Gorphenwyd byth dy gyfiawnhad.
- 3 Dysgwyl, gredadyn, wrth dy Dduw,  
Fe ddaw, fe ddaw er hwyred yw ;  
Fe ddaw yn nerth yr Ysbryd Glân,  
Ac a'th fedyddia di â thân.
- 4 Caiff anghrediniaeth cyn bo hir,  
A'th holl elynion, golli'r tir ;  
Pan godo Haul Cyfiawnder glân  
Fe ffy'r tywyllwch oll o'th flaen.
- 5 Na chred a ddwedo 'r gelyn cas,  
Ymnertha 'n gryf yn NGRIST a'i  
ras ;  
Na chynyg ffoi, ond saf trwy ffydd,  
Trwy allu Duw enilli 'r dydd,

## HYMN XIII.

*Ffrynd troseddwy'r, Oen difai.*

- AWDWR iachawdwriaeth,  
clyw,  
I gredu dod im' nerth ;  
Nesaf yn syml at fy NUW,  
Can's prynaist fi er gwerth :  
Yn llawn euogrywydd, och, a gwae,  
Ond rhedeg wnaif i'th archoll Di ;  
Ffrynd troseddwy'r, Oen difai,  
Dyoddefaist trosaf fi.
- 2 'Rwy'n gorwedd fel un wedi'm lladd,  
Yn gruddfan dan fy mhwys ;  
Ond Ti wyt Feddyg i bob gradd  
O bechaduriaid dwys :  
Yr un wyt, ARGLWYDD, heddyw a  
doe,  
Byth mewn anrhydedd, parch a  
bri ;  
Ffrynd troseddwy'r, Oen difai,  
Dyoddefaist trosaf fi.
- 3 Yn llawn gwirionedd, hedd, a gras,  
Wyt Ti, O ARGLWYDD da ;  
Offrymaf i'ty nghalon gas,  
Sydd lawn o dwyll a phla :  
I'm prynu daethost Ti, heb lai,  
Trwy wared f' enaid rhag mawr  
gri ;  
Ffrynd troseddwy'r, Oen difai,  
Dyoddefaist trosaf fi.
- 4 I dalu it', Dduw, ni feddaf ddim,  
Nid wyt yn gofyn chwaith ;  
Yn rhad rho imi nerth a grym  
I deithio'r nefol daith :  
Truenus wyf, heb gael iachad,  
Pa fodd llefaraf wrthyt Ti ?  
Ffrynd troseddwy'r, Oen difai,  
Dyoddefaist trosaf fi.
- 5 Heb arian hefyd, ac heb werth,  
Na dim hunanol wedd,  
Yr âf i brynu maeth a nerth,  
A rhan mewn amod hedd :  
O cymer f' enaid fel y mae,  
A llanw ef â dy gariad Di,  
Ffrynd troseddwy'r, Oen difai,  
Dyoddefaist trosaf fi.
- 6 Nid gwaith, na gair, na meddwl da,  
Sy' geny' i geisio gras,  
Gollyngdod rhad trwy GRIST a gaf,  
Er imi fyw mor gas ;

Pwy wŷr na wnaiff Ef drugarhau ?  
Am hyny ato 'r âf yn hy' ;  
Ffrynd troseddwy'r, Oen difai,  
Dyoddefaist trosaf fi.

- 7 Cyffesu wnaif wrth IESU mwyn  
Fy meiau drwg eu sawr,  
Feallai gwrendy Ef fy nghwyn,  
A rhoi im' feddiant mawr ;  
A'th waed yn llwyr gwna Di lanhau  
Fy enaid gwael ! O clyw fy nghri ;  
Ffrynd troseddwy'r, Oen difai,  
Dyoddefaist trosaf fi.
- 8 Oddiwrth archollion gwaedlyd CRIST  
Ni wnaif ymadael byth,  
Nes pura Ef fy enaid trist,  
A'm dwyn i'w nefol nyth.  
Gweddiaf arno yn ddirai,  
Gan ddweyd,—Galw fy enaid fry !  
Frynd troseddwy'r, Oen difai,  
Dyoddefaist trosaf fi.

## HYMN XIV.

*Gweddi am sicrwydd Gobaith.*

- IESU'r Meddyg da,  
Iacha fy nghalon friw,  
Sy'n crefu am gael sicr nôd  
Fy mod yn eiddo Duw ;  
Pa hyd y byddaf brudd  
Yn dysgwyl dydd rhyddhad ?  
O tyn fi o'm holl gadwynau i maes,  
A châr fi o'th ras yn rhad.
- 2 Llais sy'n cyhoeddi o hyd  
I'th saint Efengyl lân ;  
Ofnadwy, fel banerog lu  
Hwy ânt yn hy' yn mlaen ;  
Cant nefoedd ar y ddae'r  
I lawenhau eu taith ;  
Caru a chredu yn eu Duw,  
Clodfori yw eu gwaith.
- 3 Dadguddia, anwyl Dduw,  
I'm henaid byw dy ras ;  
O tyn fy nghariad oll a'm bryd  
Yn llwyr o'r byd i maes ;  
Wel, dyma fydd fy llef  
Wrth borth y nef hyd byth,—  
Cael dod i'th fynwes Di, fy NUW,  
Ac yno wneud fy nyth.

- 4 Llefara wrth f' enaid prudd,  
A maddeu'n rhydd a rhad;  
O golch fy mriw, iacha fy nghur  
Mewn afon bur o waed :  
A gosod arna'i 'th nôd,  
Mai 'Nhad erioed yw Duw,  
Ac y bydd i Ti 'm dwyn yn hy'  
I Salem fry i fyw.
- 5 Am hyn mi lefa'n daer  
Tra ar y ddae'r yn byw,  
Ni pheidiaf ddim nes gweled gwedd  
A phrofi hedd fy Nuw ;  
Os dyma genyt gaf,  
Dy ganmol wnaif, fy Nuw,—  
Tragwyddol Sabbotu gadwaf byth  
I'th foli, IESU gwiw.

## HYMN XV.

*Ar ddechreu ASSOCIATION.*

- O IESU mawr, y Bugail mwyn,  
Sy'n caru 'r gwasgaredig wyn,  
Er gwaetha'r llid, dy weision llaith\*  
Ddaeth yma 'nghyd i wel'd dy waith.
- 2 Rhag brad y ceisiwn gadw 'th  
braidd,  
Rhag llid yr ysglyfaethus flaidd,  
A cheisio eu tynu i ben eu taith  
Trwy ddyrys lwybrau 'r anial  
maith.
- 3 Tyr'd yma dy hun, O IESU gwiw,  
Bugeilia dy fugeiliaid gwyw ;  
D' ewyllys a'th wirionedd pur  
Gwna ini heddyw eu gwel'd yn glir.
- 4 Darostwng bob cyndynrwydd cas  
Sydd ynom yn gwrth'nebu'th ras;  
Gwna ni yn foddlon iawn i'r lle  
Rho'wd ni ynddo gan Ragluniaeth  
ne'.
- 5 Rho oleu i weled pwy sy'n dwyn  
Hardd ddoniaiu da i arwain d' ŵyn;  
Rhai rhoddaist iddynt allu a gras  
I faeddu seil y gelyn cas.
- 6 Dy ddelw arnom dod, a'th lun,  
Bydd Di yn Ben, gwna ninau'n un;  
D' Ysgry:hyr Lân yn rheol glir,  
Pregethu heb baid d' Efengyl bur.

\* Llaith—blinedig. "The being divested of energy."—*Dr. Fugh.*

## HYMN XVI.

*Wrth ymadael o'r ASSOCIATION.*

- O GWEL ni'n myn'd i maes  
I ganol tywyll fyd,  
Rho ini nerth dy ras,  
Heb ofni 'r ddraig na'i llid,  
I drechu yr uffernol hil,  
A'r drygau fil sy'n d' erbyn Di.
- 2 Gwna ni 'n fugeiliaid glew  
I arwain d' ŵyn yn mlaen,  
Na chaffont ofni 'r llew,  
Na dyfroedd chwyrn na than :  
Heb orphwys byth nes dwyn dy  
braidd  
O wydd y blaidd, i'w nefol nyth.
- 3 O gwel aneirif lu  
Sy'n myn'd tuag uffern dân :  
Ac anfon ni i hy'  
Gyhoeddi 'r 'Fengyl lân.  
Danfon ni i maes i dynu yn ol  
Eneidiau o gol y gelyn cas.
- 3 Er bod yn weiniaid iawn,  
Anfedrus, at y gwaith  
O ddwyn eneidiau 'n ol,  
Trwy 'r holl anialwch maith,  
Par i ni fyn'd, ac enill myrdd  
O'u damniol ffyrdd at IESU glân.

## HYMN XVII.

*Ymgysuro yn ngobaith yr Efengyl.*

- GWRANDO fy ngwaedd, O  
IESU 'm ffyrnd,  
Am fyn'd i Salem wledd ;  
Lle nad oes ofnau byth na braw,  
Mewn gwlad tu draw i'r bedd ;
- 2 Lle byddai 'mhlith angylaid lu  
Yn chwyddo 'r anthem fyw,  
Mewn cariad pur yn pwyso 'mhen  
Ar fynwes wen fy Nuw.
- 3 Yn hardd fy ngwedd mewn disglaer  
wisg,  
Yn mysg angylion draw,  
A'r goron bur roir imi 'n rhwydd,  
A phalmwydd yn fy llaw.

## HYMN XIX.

*Meddwl am y Diwedd.*

- 4 Mi gana 'n iach i'm beiau 'n llu  
Pan elwy'i fry at Dduw ;  
Digonir fi â newydd wedd  
Wrth godi o'r bedd yn fyw.
- 5 'Does gelyn draw i'm gwneud yn  
drist,  
Yn nghol fy NGRIST caf fod ;  
Yn mhlith y llu yn codi 'm llef  
Nes seinio 'r nef â chlod.
- 6 Ymddyddan gaf â'r hyfryd saint,  
P'odd daethant ar eu taith ;  
A chydga hwy molianu wnaif  
I dragwyddoldeb maith.
- 7 Fe'm plenir yno yn nhŷ Dduw  
Fel colofn fyw,—mawr fraint !  
Heb achos i mi fyned byth  
O blith y nefol saint.
- 8 Caf droi fy wyneb yn fy ol  
I wel'd y ffordd bu'm taith ;  
Fel safodd IESU ar fy rhan  
Trwy 'r holl anialwch maith.
- 9 Nis gwn yn awr beth fyddaf fi  
Pan âf fi fry i'r ne',  
Ond gwn caf weled IESU, a bod  
Yn union fel Efe.

## HYMN XVIII.

*Wrth godi yn y Bore.*

- DIOLCH i Ti am fy ngwared  
Yn y nos, rhag pob croes,  
Blinder, loes, a niwed.
- 2 Mi ge's gyssgu mewn hyfrydwch ;  
Nefol hedd, hyfryd wledd  
Gefais yn ddyddanwch.
- 3 Wrth im' godi 'r bore 'n wrol,  
Heb ddim briw, fy nyled yw  
Gweled Duw a'i ganmol.
- 4 Bore ddaw wrth ddysgwyl enyd  
Gwelai 'n wir, cyn bo hir,  
Hyfryd dir y bywyd.
- 5 Pwysaf heddyw ar dy ddwyfron,  
Yna byth gwnaif fy nyth,  
Rhag pob rhith gelynyon.
- 6 Tra bwy'i heddyw'n diwyd weithio,  
Boed fy mryd i o hyd  
Ar y byd 'r af iddo.

## HYMN XX.

*Job. xix. 25.*

- MI wn mai byw yw 'Mhrynrw  
mawr,  
Ac ar y ddae'r ca'i wel'd ryw awr ;  
Er pryfed i ddyfetha 'm cnawd,  
Caf eto wel'd fy anwyl Frawd.
- 2 Duw gwyd yn bur fy llwch o'r bedd,  
I'm gwneud yn hardd mewn nefol  
wedd ;  
Pob gofid ffy ; heb friw na phoen  
Caf wel'd y gogoneddus Oen.
- 3 Ynof y mae'r Hwn a'm gwna i'n  
fyw,  
Sef Ysbryd Glân fy IESU gwiw ;  
Rhydd imi 'n awr dystiolaeth glir  
Ca'i wel'd wynebpryd Iesu pur.
- 4 Fy llygaid i fy hun, mewn hedd,  
Ga'ti wel'd y Brenin teg ei wedd,  
A derbyn ganddo 'r goron wiw  
Sy'n nghadw i bawb o deulu Duw.

## HYMN XXI.

*Amrywiol deimladau y Cristion.*

- FY enaid bach, tra yn y byd  
 Sy'n credu'n hawdd, ac amheu  
 o hyd ;  
 'Rwy'n farw swrth, ac eto'n fyw,  
 'Rwy'n mhell, 'rwy'n agos at fy  
 NUW.
- 2 Er 'mod i'n dlawd, cyfoethog wyf,  
 'Rwy'n iach, ac 'rwyf mewn dwn  
 glwyf,  
 'Rwy'n gaeth a rhwym, ac eto'n  
 rhydd,  
 Yn llawen iawn, ac eto'n brudd.
- 3 Myfi mewn hedd, mewn rhyfel sydd,  
 Yn colli'n deg, yn cario'r dydd ;  
 Gelynyon sy'n fy nwyn i'r llawr,  
 Ac eto fi'n gongwerwr mawr.
- 4 'Rwy'n ddwl, 'rwy'n ddall, 'rwy'n  
 gwel'd yn glir,  
 'Rwy'n llawn o fai, ac eto'n bur ;  
 Yn ddu gan waed, a'm gwisg yn wen,  
 'Rwy'n byw tu faes, tu fewn i'r llen.
- 5 Mae'm ffordd yn fer, mae'm siwrne'n  
 faith,  
 'Rwy'n gorphwys, ac 'rwyf ar fy  
 nhaith ;  
 Pell iawn wyf o'm cartrefol nyth,  
 'Rwy'n awr yn byw lle byddaf byth.
- 6 'Rwy'n deml Duw, i'r fall 'rwy'n  
 nyth,  
 Fy ngelyn yw fy nghyfaill byth ;  
 Mi haeddwn fyn'd i uffern ddu,  
 Mae genyf hawl i'r nefoedd fry.

## HYMN XXII.

*Salm xcii. 12—15.*

MOR hardd yw'r holl blaniogion  
 byw,  
 Sydd wedi eu planu yn nhŷ Dduw !

Cynyddu wnant hwy maes o law  
 Fel cedrwydd teg Libanus draw.

- 2 Blodeuo wnant fel palmwydd mawr,  
 Yn gynar ar y fore wawr ;  
 O ddydd i ddydd rho'nt ffrwyth o  
 hyd  
 Nes symud i'r tragwyddol fyd.
- 3 A thirfion fyddant pan yn hen,  
 Adlonir hwy â nefol wen ;  
 Bobmoment uwchlawgwyn a gwae,  
 Fel gardd cant hwy eu dyfrhau.
- 4 Hyd lan ffynonau bywiol bydd  
 Eu trigfa dros dragwyddol ddydd ;  
 A'u gwraidd gyrrhaeddant yn y blaen  
 Dan afon bywyd draw ar daen.

## HYMN XXIII.

*Pererindod y Cristion.*

- A T drag'wyddoldeb mae ein taith,  
 Dros arw fôr a stormydd maith ;  
 Ein cartref sydd mewn ardal bell,  
 Fry gyda Dŵw mewn dinas well.
- 2 Bwystfilod llym sydd ar bob llaw  
 Yn cylchu'm ffordd i'r Ganaan  
 draw ;  
 Ond cref yw braich Tywysog Ne',  
 Daw'r pererinion oll i dre'.
- 3 Mewn priddlyd dŷ, mewn dyrus dir,  
 Mewn môr o wae a stormydd hir,  
 Mewn daear gras, 'mhlith aflan ryw  
 Mae f' enaid bach yn awr yn byw.
- 4 Dwr chwerw ei flas, fel afon ddu,  
 Sy'n croesi'n ffordd i'n cartre' fry ;  
 Ond dyma'r ffordd i Ganaan Ner,  
 Y ffordd i esgyn uwch y ser.
- 5 Goleuni prin sydd yma'n wir,  
 Tywyllwch a nosweithiau hir ;  
 Y wlad 'ry'm yn myn'd iddi i fyw  
 Sydd ddisglaer gan oleuni Duw.

## Rhan o'r "Liber Miscellaneorum : neu Lyfr Amrywioldeb."\*

### ITEM. I WEINIDOGION IFAINGC Y GAIR. PARHAD.

- NA wnewch ddrws y nef mor  
 helaeth  
 Ag'r â'r aflan, ffaidd, cas,  
 Yno i mewn, pan font heb yfed  
 Eto erioed o'r dwyfol ras ;  
 Cofiwch nad â delw-addolwr,  
 Na phechadur o un rhyw,  
 Ag sy'n gwneud neu'n caru pechod,  
 Byth i mewn i ddinas Duw.
- 2 Torwch ymborth rhwng y bobl,  
 Megys ffyddlon, ufudd was ;  
 Gwnewch wahaniaeth, fel gwna'r  
 Beibl,  
 Rhwng y milyn cul a bras ;  
 O! cysurwch y drylliedig,  
 A chynheliwch liniau'r gwan ;  
 Ond ataliwch y rhyfygus  
 Ddringo'n uchel iawn i'r lan.

- 3 Chwi gewch deidiau, chwi gewch  
 frodyr,  
 A chwirydd diwair, pur,  
 A dry'n famau tirion, c'ruaidd,  
 Pan foch draw mewn dreigaidd  
 dir ;  
 Rhai'n a'ch tendia, ac a'ch gwylia,  
 A'ch cysura, a'ch câr yn fawr,  
 Pan bo'ch ysbryd gwan, lluddedig,  
 Wedi hollol gwympto i lawr.
- 4 Bydded sylwedd yn eich pulpud,  
 A boed yno fwyd o rym,  
 Ag nas gallo'r carpwr† teuog,  
 Calon-gyfan, ddwedyd dim ;  
 Boed awelon nef yn eistedd  
 Yno yn hyfyrd ar eich min,  
 Nes difero ofn neu gariad  
 Megys cafod ar bob un.
- 5 Nid yr ARGLWYDD ydyw Awdwr  
 Araeth dywyll, farw, faith ;—  
 Hofran geiriau yn yr wybren  
 Heb ddim synwyr, lawer gwaith ;
- † Carpwr—*One who carps.*

\* Cyhoeddwyd y *Liber* yn y flwyddyn 1773 ; a dywed yr Awdwr iddo ei ysgrifenu, mewn rhan o leiaf, yn 1769. Gwel Cyf. I., tudal. 598. Ysgrifenydd yr Ysgrif-lyfr sydd gan Mrs. Jones, Machynlleth, rhwng y flwyddyn 1738 a 1745. Gwel Nodiadau ar tudal. 3 yn y Gyfrol hon. Ond yma ac acw yn yr hen Ysgrif-lyfr, gadawsid ambell ddalen heb ei llenwi ; ac y mae yn eglur, debygem, mai cael hyd i'r hen lyfr a ddarfu y Bardd, a gweled ynddo rai dail gwynion, ac ysgrifenu arnynt rai rhanau o'r *Liber*, ywbryd tua'r amser a nodir ganddo uchod. Cafodd y Parch. Josiah Jones a minau gryn waith i fedru gwneud allan bob gair a llinell o'r penillion a ganlyn, oblegyd y maent wedi eu hysgrifenu yn fân ac aneglur, rhan ar ddalen yn y fan yma, a rhan ar ddalen fan arall ; ond trwy ddyfalwch ac amynedd yr wyf yn meddwl i ni lwyddo, heb fethu un gair. Gwelir fod yr hyn a gyhoeddodd yr Awdwr o'r *Liber* yn terfynu ar ganol penill, ac ar ganol "Item. I Weinidogion Ifaingc y Gair." Y mae yn dda genyf allu rhoddi yma barhad o'r *Item* hono ; ac hefyd un *Item* arall,—"I Segurwyr ;" y rhai, yr ydym yn credu, na chyhoeddwyd mo honynt erioed o'r blaen.

Paid ag agor drws y bywyd  
I dorfeydd o rai di-ras,  
Neu ynte fablan\* torf o nadau,  
Nes 'ynt ganad pawb i maes.

ITEM. I SEGURWYR.

**B**ELLACH, cyngbor ro'f i  
chwithau,  
Ofer, segur, ddiffwrwth rai,  
Heb gael galwad nef na daear,  
Sy'n ymwithio mewn i dai ;  
'Speilwyr cegin a seleri,  
'Speilwyr clofer, gwair, ac ŷd,  
Sy' fel lloiau rhwng dwy balfais,  
Yn rhyw flino pawb o'r byd.

2 Ewch i'r grefft y'ch dysgwyd ynddi,  
Fel y llaeso 'ch boliau mawr ;  
Ond i'ch fwyta 'r hyn enilloch,  
Fe ddaw 'ch cestau bras i lawr ;

\* Bablan—*To babble.*

Mawr drueni bod gwirioniaid  
Syml, pur, yn lloffa 'r ŷd,  
Chwithau, lygod ffraingc, yn sarnu,  
Ac yn bwyta hwnw i gyd.

3 Nid oes dyn o'r byd na 'r eglwys,  
O Dyddewi i Sir Fôn,  
Yn eich galw i bregethu,  
Ac yn ceisio gwranddo 'ch tôn ;  
I ddau dduwiau mae 'ch addoliad,—  
Ceffyl gloyw ydyw un ;  
Ond y llall sy' waeth, yn difa,—  
Eich cwmpasog foliau 'ch hun.

4 Nid oes mofyn, nid oes derbyn,  
I chwi yn Nghaernarfon draw,  
Môn, Meirionydd, Fflint, a Dinbych  
Sydd yn oer yn siglo 'ch llaw ;  
Mae Brycheiniog a Threfaldwyn,  
Penfro a Morganwg fwyn,—  
Pawb ond Myrddin a 'Berteifi  
Wedi blino 'n awr eich dwyn.



*Alleluia:*

NEU,

GASGLIAD O HYMNAU

AR

AMRYW YSTYRIAETHAU.

*William Williams, Pantycelyn.*



ALELUIA.



NODIADAU GAN Y GOLYGYDD.

YR ALELUIA oedd y Gwaith cyntaf a gyhoeddwyd gan Williams. Dywed y Parch. D. Silvan Evans, B.D., mewn nodiad sydd ganddo yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, tudal. 397, fod yn debyg i'r ALELUIA gael ei gyhoeddi y tro cyntaf mewn pump o Ranau bychain. Mae yn amlwg na welodd efe, na'r Parch. W. Rowlands (*Llyfryddiaeth y Cymry*), nac ychwaith y diweddar Mr. Morris Davies, Bangor, mo'r *Chweched* Ran, ac na wyddent ddim am dani; ond cynwysai yr Argraffiad Cyntaf Chwech o Ranau, ac feallai ychwaneg. Cyhoeddwyd y Chwe' Rhan, y tro cyntaf, yn ol y dyddiadau a ganlyn:—Rhan I. tua dechreu 1744; Ail Argraffiad o'r unrhyw tua diwedd yr un flwyddyn; Rhan II. yn 1745; Rhan III. yn yr un flwyddyn; Rhan IV. yn 1746; Rhan V. yn 1747; a Rhan VI. tua diwedd yr un flwyddyn.

Yn y flwyddyn 1758 cyhoeddodd y Rhanau uchod yn un Llyfr, yr hwn a alwai yn "Drydedd Argraffiad." Oddiwrth y geiriau y "drydedd argraffiad," tybia Mr. Silvan Evans ei fod wedi ei gyhoeddi felly yn un Llyfr cyflawn ddwy waith, rywbryd rhwng y flwyddyn 1747 a 1758. Ond sylwer ar y geiriau hyn yn Rhagymadrodd yr Awdwr i Argraffiad 1758:—"R wyf yn dy anerch â Llyfr Hymnau gafas ei argraffu mewn amryw gopïau ddwy waith o'r blaen, yn awr ei gyd yn un." Gwelir oddiwrth hyn ddarfod i'r ALELUIA



gael ei gyhoeddi ddwy waith yn Rhanau; ac mai y ddau argraffiad hyny a olygai efe y *Cyntaf a'r Ail*, pan y mae yn galw yr argraffiad cyntaf o'r cyfan yn un Llyfr yn "drydedd" Argraffiad. Ni buasai y geiriau uchod yn gyfaddas chwaith i *drydydd* argraffiad o'r Chwe' Rhan yn un Llyfr. Nis gwyddom pa bryd y cyhoeddwyd yr Ail Argraffiad o'r oll o'r gwahanol Ranau; ond mae yn bur sicr mai Argraffiad 1758 oedd y cyntaf o hono yn ei ffurf newydd—"ei gyd yn un, wedi gwella amrywiol feiau yr argraffwasg, ac ystyr rhai Gwersi mewn manau." Gallasai hefyd ychwanegu fod ynddo rai Hymnau newyddion, nad oeddynt yn y ddau argraffiad cyntaf.

Y mae ger ein bron yn awr gopi o'r Argraffiad cyntaf oll, ond fod rhai dalenau o hono yn ngholl, sef Argraffiad 1744—1747; ac yn hwnw daw un ffaith i'r golwg sydd yn dra anadnabyddus i'r oes hon, ac, yn wir, anadnabyddus, y mae yn amlwg, hyd yn nod i haneswyr ein Hemnyddiaeth, ac i bawb a ysgrifenasant ar Williams a'i Hymnau. Y ffaith hono yw mai nid Williams oedd awdwr yr oll o'r Hymnau yn yr ALELUIA. Y mae un Emyrn, o leiaf, yn y Bumed Ran âg enw Dafydd Jones, o Gaio, wedi ei gysylltu â hi fel ei hawdwr; ac y mae y rhan fwyaf o lawer o'r Chweched Ran yn waith awduron ereill. Yn y Rhan hon ceir enw Williams wrth ei Hymnau ef, ac enwau yr awduron ereill wrth yr eiddynt hwythau.

Cymerir yr oll o Hymnau y Chweched Ran, yn gystal a'r Rhanau ereill, i mewn i Argraffiad 1758, ac yn yr holl argraffiadau dilynol, eithr heb nod na sylw gyda golwg ar eu hawduriaeth mwy na phe buasant i gyd yn eiddo Williams ei hun. Pa gyfrif sydd i'w roddi am hyn nid ydym yn gwybod. Diau y buasai gan Williams ryw gyfrif boddhâol i'w roddi, pe gofynasid iddo mewn pryd; ond nis gallwn ni wneud dim yn awr ond dyfalu, a beth dâl hyny?

Yn hytrach na gadael dim o Emyrnau yr ALELUIA allan o'r Argraffiad presenol, yr ydym yn eu rhoddi i gyd i mewn, gan ddodi enwau y gwahanol awdwyr wrth yr eiddynt, megys y maent i'w cael yn yr Argraffiad Cyntaf. Y mae Williams, fel hyn, yn cael ei ddihatru o'r clod o fod yn awdwr rhai o'n hemynau mwyaf adnabyddus. Ond gall yn hawdd fforddio hyny: y mae swm yr anrhydedd a berthyn iddo mor fawr, fel na raid iddo wrth help neb i'w chwyddo. Ac y mae yn ddiâu na buasai neb yn fwy parod nag efe ei hun i roddi i'w gyfeillion a'i gydweithwyr mwy distadl, Dafydd Jones, J. D., J. Jones, W. Edwards, a Morgan Dafydd, yr anrhydedd a berthynai iddynt.

Cyhoeddwyd Pedwerydd Argraffiad o'r ALELUIA yn 1775, ond y mae amrai o'i Hymnau yn cael eu gadael allan o hwnw; cyhoeddwyd un arall drachefn hefyd yn oes yr Awdwr, nad ydym yn awr yn gallu nodi ei ddyddiad. Yr un a ddilynwyd gan ei fab, y Parch. J. Williams, yn argraffiad mawr 1811, oedd argraffiad 1758. Yn yr argraffiad hwnw, ac yn yr Ail Argraffiad o'r unrhyw yn 1839, fel yn Argraffiad Mackenzie yn 1867, ceir y geiriau *Gorfoleddus* neu *Galarus* uwch ben pob emyn, yn dynodi natur y pennillion, yn nghydag enwau y Tônau a arferid, neu a dybid yn gyfaddas i ganu yr emynau arnynt. Ni cheir mo'r naill na'r llall yn yr argraffiadau a gyhoeddwyd dan olygiaeth yr Awdwr; a gadewir hwynt allan o'r Argraffiad presenol.





RHAGYMDRODD YR AWDWR YN Y DRYDEDD  
ARGRAFFIAD.\*

—○—  
AT Y DARLLENYDD.

**R**WYF yn dy annerch â Llyfr Hymnau a gafas ei argraffu mewn amryw gopïau ddwywaith o'r blaen, yn awr i gyd yn un, wedi gwella amrywiol feiau'r Argraffwasg, ac ystyr rhai gwersi mewn manau. Yr wyf yn cyfaddef fod rhai (er nid llawer mewn cymhariaeth) o'r Hymnau cyntaf hyn, cuwch o ran sicrwydd ffydd, hiraeth am ymddatod, llawenydd ysbrydol, yn nghyda choncwest ar elynion, na's gall Crist'nogion gweinion yn hawdd eu canu; a hyny a ddygwyddodd nid cymaint am fod yr Arglwydd yn cadw fy enaid fy hun mewn hwyl weddol yr amser hyny, ond yn benaf am fod yr ysbryd hyny wedi cael ei dywallt yn ehelaeth iawn ar dduwiolion, at wasanaeth pa rai yn benaf y cyfansoddwyd hwynt; amryw o ba rai sydd yn awr yn gorwedd yn y llwch. Ond angenrhaid yw i mi amddiffyn fy hun mewn rhan yn hyn, trwy ddadleu o'm plaid:—

Yn iaf, Fod sŵn amrywiol iawn o'r Salmau, os nid y rhan fwyaf, o'r ysbryd hwn o sicrwydd ffydd, congwest ar elynion, ac ymfrost dduwiol;—Caniadau Solomon sydd yn llawn o gariad, mwynhâd, a sicrwydd ffydd; ac hyd yn oed Galarnad Jeremi ei hun sydd yn gwaeddi allan, *Yr Arglwydd yw fy rhan, medd fy enaid.*

Yn zil, Eglur yw mai dyled y saint yw yn hytrach ymestyn i fyny mewn profiad at Hymnau o sicrwydd ffydd, mwynhâd, llawenydd ysbrydol, a goruchafiaeth ar elynion, na cheisio cael holl ganiadau'r Eglwys at amheuaeth, tywyllwch, a llesgedd.

Ac yn olaf, Nid oes a gân yn hwylus ond sydd wedi profi Duw yn dda iddynt; ond eto mor belled y mae'r dymher hon heb ddim golwg ar waeledd dyn, ardderchawgrwydd y Cyfamod Newydd, ac ar ogoniant, doethineb, ac anfeidroldeb yr iechydwrriaeth yn Nghrist, nid yw yn cytuno â'r Gair, na gwir brofiad; ac yr wyf yn ceisio credu nad oes yma un Hymn o'r fath. Ond yr wyf fyth yn addef (er) pan y daethum

i adnabod mwy o honof fy hun, a gweled mai Aipt o dywyllwch, môr o afflendid, byd o falchder yw dyn, i'r iechydwrriaeth yn Nghrist i gael ei dyrchafu genyf i radd uwch, ac i ddyn a'i ddoniau gael eu diystyru yn rhagor; ac mi wnes fy ngoreu, pa beth bynag fyddai natur yr Hymn,—achwyniad, erfyniad, ymfrost dduwiol, neu fawl,—fod Crist yn ganol-bwynt i'r cwbl. Ac mi wn bod nifer fawr o Hymnau yn yr elfen hono o glodfori'r Iachawdwr, ei Berson, ei Swyddau, ei Naturiaethau, a'i Waith, yn ol y copi a roddir i ni yn y Dadguddiad; yr hwn yw y cywiraf i gyfansoddi Hymnau wrtho at oes y Testament Newydd, heb gofio agos cymaint am yr hyn a weithiwyd ynom ni o ras, ffydd, a phurdeb; ac o bosibl gymaint arall yn achwynion ar, a gweddi yn erbyn, anghrediniaeth, calon-galedwch, profedigaethau'r byd, y cnawd, a Satan; fel y gall y rhai gwanaf, a'r llesgaf, ag sydd yn fyd o amheuaeth, os yn unig y maent yn ymofyn am Grist, ac yn gofidio am eu pechod, i'w canu yn hawdd ac yn gydwybodol. Yr hyn sydd yn fy ngwahodd i roi ychydig gyfarwyddiad i rai fo yn eu rhoi hwynt allan, am fod rhai mor gamsyniol yn nghylch hyn, fel y rho'nt saith neu wyth o wersi allan i gynulleidfa y byddo tair gwers yn ddigon; a rhai ro'nt allan wersi uchel o sicrwydd a mwynhâd i dyrfa fo yn gwadu'r cyntaf, heb brofi mo'r ail; neu wersi o ddiolch am ras a maddeuant i rai nad yw yn ceisio, nac wedi cael y fath beth. Rhai eilwaith a ro'nt wersi o achwynion ac amheuaeth i bobl a fo wedi eu dyrchafu i'r nef, ac yn teimlo bywyd yn eu ffydd, a'r cythraul tan eu traed; megys pe bai un yn cymhell canu am oerfel y gauaf, pan bo'r haul yn twymo boethaf yr haf.

Am hyny, fe ddylai y cyfryw a fo yn eu rhoi hwynt, os posibl yw, fod yn gydnabyddus yn gyffredin pa fath yw y bobl sydd yn eu canu—pa un ai bod lle i obeithio bod llawer o honynt yn dduwiol ai peidio; neu os ydynt yn dduwiol, pa un ai rhai amheus, llesg, neu rai cryfion, ffyddiog ydynt hwy; ac hefyd pa un ai mewn hwyl o ddiolch neu mewn hwyl o weddi y maent; ac yn olaf, pa un ai yn fwy marw o ran eu teimlad yn bresenol, neu yn fwy byw y maent; ac yn ganlynol, rhoi Hymn i maes ag a fo yn perthyn fwyaf addas i'w cyflyrau. I ba ddyben y rhoddais ystyr pob un o'u blaen, mor neses ag oedd bosibl, wrth feddwl gynifer o faterion, profiadau, ac athrawiaethau y mae amryw o honynt yn ei gynnwys. A bod y cwbl er lleshâd tragywyddol i'ch eneidiau, yw gwir ddymuniad eich annheilyngaf frawd a'ch gwasanaethwr yn yr Efengyl.

W. W.

\* Hyny yw, y trydydd argraffiad, a chyfrif y ddau argraffiad blaenorol o hono yn Rhanau; ond yr argraffiad cyntaf o hono wedi ei grynhoi yn un llyfr. Gwel y Nodiadau blaenorol.



## Aleluia:



### HYMN XXIV.

*Yn cynwys mawl y Cristion i GRIST,  
am orchfygu gelynyon ei enaid.*

**T**RWY rinwedd nefol ras  
Rho'f glod i'r Iesu glân,  
Gorchfygodd angeu glâs,  
Fe 'm tynodd i o'r tân:  
Archollwyd Ef, ca's farwol friw,  
Mae E eto 'n fyw, fy enaid cân.

2 Fy nghalon, pa'm na's tyr  
Yn ddrylliau bob yr awr?  
Wrth wel'd fy Mhrynwr pur  
A'i waed yn llif i'r llawr?  
Gan wylo 'n daer ar Dduw ei Dad  
Am faddeu 'n rhad fy meiau mawr.

3 Rhyfelodd CRIST â'r Ddraig,  
Trwy angeu dirfawr boen;  
Gorchfygodd Hâd y wraig,  
I'r orsedd 'r aeth yr Oen:  
Tros f' enaid i mae E yno 'n awr,  
Fy Eiriolwr mawr, a'm hanwyl  
Iôn.

4 Congwerodd Iesu 'n llyn\*  
Ellyllon uffern faith,  
'D oes ynddynt bellach rym  
I'm rhwystro ar fy nhaith:  
Pa'm 'r ofnaf mwy? Anturia 'n hy',  
Trwy ganol llu 'ngelynyon llaith.†

5 Mae 'r ffordd yn awr yn rhydd  
I entrych nefoedd wen;  
Gall pob pechadur prudd  
Gael lle o fewn i'r llen:  
Mae Iesu fry â'i freichiau ar led,  
Fy enaid, cred. Amen, Amen.

\* "Yn llyn" = fel hyn, neu yn y modd yma.  
† "Llaith" = di-yni, diymadferth.

### HYMN XXV.

*Mawl i GRIST am ei Eiriolaeth.*

**O**'R holl gadwedig lu  
Sy 'n teithio i Salem lân,  
Myfi yw 'r mwya' du,  
Ar bawb yn dwyn y blaen:  
Tragwyddol ras, na buasai 'm nyth  
Mewn cadwyn byth yn uffern dân.

2 Er hyn nid ofnaf mwy,  
Er cynddrwg yw fy ngwedd,  
Ca's pechod farwol glwy'  
Gan Iesu glân a'i gledd:  
Mae 'r ddraig yn friw dan draed fy  
NGHRIST,  
Mae i'm henaid trist dragwyddol  
hedd.

3 Efe yw 'm Meichiau mawr,  
O flaen gorseddfaingc Iôn,  
Sy 'n eiriol bob yr awr,  
Gan gofio ei ddifawr boen:  
Pa'm 'r ofnaf mwy? Mae 'n llifio  
maes  
I orsedd gras bur waed yr Oen.

4 Mae briw y bicell fain,  
A thyllau 'r hoelion dur,  
Ac ôl y goron ddrain,  
A chwysau 'r groes a'i chur,  
Yn dadleu nerth cyfiawnder Nâf  
Dros f' enaid claf am heddwch pur.

5 Dyoddefaint IESU GRIST  
Orchfygodd lid Duw Iôn;  
Pob peth rŷ i'm henaid trist,  
Wrth feddwl am ei boen:  
Fy unig sail y bydd E 'n Dduw  
Im' tra f'wy byw, sy 'n ngwaed yr  
Oen.

6 Anfeidrol ryfedd yw  
Cael teimlo ei gariad rhad;  
Pa'm 'r ofnaf tra f'wyf byw?  
Fe'm prynodd CRIST â'i waed:  
Tr'wy' ar y ddae'r, mi wnaif fy nyth,  
I orphwys byth yn nghôl fy Nhad.

### HYMN XXVI.

*Hiraeth am weled dydd ymddatodiad.*

**Y**N ddystaw dysgwyl, f' enaid  
prudd,  
O'r diwedd daw, nesau mae 'r dydd,  
Pan caf roi naid i'm nefol nyth,  
Lle byddaf, byw yn berffaith byth.

2 Mi fliniais fod mewn anial fyd,  
Am fyn'd 'r wy'n glau i'm cartre'  
clyd;  
Lle 'r aeth o'm blaen i Frenin ne',  
Ac yn ei lys gwnaeth i mi le.

3 Lle na bydd brad im' mwy, na briw,  
Nac wylo i neb, yn nhŷ fy Nuw;  
Ond gorphwys byth mewn gwledd  
ddi boen,  
Gan edrych ar y nefol Oen.

4 Taw, f' enaid mwy, 'd yw 'r ffordd  
ddim maith  
I dŷ fy Nhad,—i ben fy nhaith;  
Bydd fodlon; cai, fy enaid cu,  
Nofio yn frau i'r nefoedd fry.

5 Ar fyr bydd lle i'm uwch y llen,  
Caf ddedwydd wawdd i'r nefoedd  
wen;  
Angylaidd wledd mewn nefol wlad,  
O fanna tŷ fy Nuw a'm Tad.

6 Lle bydda'i yn mhlith y sanctaidd lu,  
Yn seinio cân i'm Harglwydd cu;  
Yn berffaith lân heb bechod mwy,  
Oll yn gyffelyb iddynt hwy.

### HYMN XXVII.

*Llef y Cristion am gael ei ddwyn i  
win-dŷ Duw.*

**O** CLYW fy ngwaedd, a gwel fy  
ngwedd,  
Fel hydd am ddw'r 'r wy 'n brefu  
am hedd;

Tyr'd, O fy Nuw, neu côd fi uwch  
nen,  
I'th lwyr fwynhau o fewn i'r llen.

2 Gwel fi yn llesg a gwrando 'm llef,  
Mi wnes i'm nyth wrth borth dy  
nef;  
Lle 'rosaf byth tra fyddaf byw,  
Nes cael rhoi naid i gôl fy Nuw.

3 Fy nghlwyfau mawr a dd'wed i  
maes  
Im' ddyoddef cur gan elyn cas:  
Llesg wyf er's tro, gan hyny trin  
Fy nghalon wan â nefol win.

4 On'd oes mawr lu yn y nefol wlad,  
Yn nofio 'n rhwydd mewn cariad  
rhad?  
Peth 'hono tro i'm henaid trist,  
A gwrando 'nghwyn er mwyn fy  
NGHRIST.

5 'D oes dim wna les is nefol len,  
Nes teimlwy' 'mhwys ar GRIST fy  
Mhen;  
Mae 'nghalon fach yn awr yn friw,  
Trwy ddysgwyl wrth fy anwyl  
Dduw.

6 Pa bryd y gwela' i'r ddedwydd awr,  
I'm beiau yn llu gael myn'd i'r  
llawr?  
Yn bur heb len gael gwel'd fy  
NGHRIST,  
A myned trwy f' holl ofid trist?

7 O n' allwn beidio pechu 'n llyn,  
A dysgwyl fry ar Bisca fryn,  
Nes gwawrio o draw dragwyddol  
ddydd,  
At Iesu 'n rhwydd äi f' enaid rhydd.

8 Os na pherffeithi fi is nen,  
Nes myn'd o'm poen i grymu 'm pen,  
Rho dy fwynhau yn Nghedar drist,  
Gormod yw 'm cur heb gwmi 'm  
CRIST.

### HYMN XXVIII.

*Peperindod y Cristion.*

**F**Y ngweddi, dos i'r nef,  
Yn union at fy Nuw,  
A dywed wrtho Ef yn daer,  
"Atolwg, Arglwydd, clyw!

- Cyflawna 'th 'ddewid wych,  
I'm dwyn i'r nefoedd wen :  
Yn Salem fry par'to fy lle,  
Mewn llys o fewn i'r llen."
- 2 Pererin llesg a llaith,  
Dechreuais daith oedd bell,  
Trwy lu o elynion mawr eu brad,  
Gan geisio gwlad sydd well ;  
Am fioi mae f' enaid tlawd,  
At f' anwyl Frawd a'm Pen ;  
Yn Salem fry, &c.
- 3 Yn nglyn gwylofain trist,  
Lle bu fy NGRIST 'r wy'n byw ;  
Ac wrth ryfela 'm gelyn caeth,  
Fy nghalon aeth yn friw ;  
Iacha bob clwyf a brath,  
A dail y bywiol bren :  
Yn Salem fry, &c.
- 4 Mae 'mrodyr uwch y nen,  
Yn canu ar ben eu taith,  
A minau oedais lawer awr  
Ar siwrnai fawr a maith ;  
Ond bellach tyn fi 'n ddwys,  
Ar GRIST dod bwys fy mhen :  
Yn Salem fry, &c.
- 5 Gwna im' fyn'd yn mlaen yn ddewr'  
Trwy ddyfroedd mawr a than,  
Heb ofni Satan lew na 'i lu,  
Nes elwy' i Seion lân ;  
Gan ddiangc ar y byd,  
I'm cartref clyd uwch ben :  
Yn Salem fry, &c.
- 6 'R wy'n gwel'd yr oriau 'n hir  
I fod o dir fy ngwlad ;  
Bryd deuaft at fy mrodyr fry,  
Sy'n canu 'n nhŷ fy Nhad ?  
Gael gorphen ar fy nhaith,  
A'm siwrnai faith is nen :  
Yn Salem fry par'to fy lle,  
Mewn llys o fewn i'r llen.

## HYMN XXIX.

*Gweddi.*

- I ESU, 'Mre'nin mawr a'm Priod,  
Bydd wrth raid i mi 'n blaid,  
I orchfygu pechod.
- 2 Ti fu troswyf yn diferu  
Chwys a gwaed, lawr i'th draed :  
Ynddo gad im' olchi.

- 3 Tra f'wy'n trigo 'n yr anialwch  
Gwel'd yn wir, dy wyneb pur,  
Yw fy ngwir ddyddanwch.
- 4 Tua Salem euraidd arwain  
F' enaid llaith, ar ei daith,  
Nes bo 'm gwaith yn gorphen.
- 5 IESU, eisoes e'st a'm calon ;  
F' enaid cu, yn llechu sy'  
'N ddiifrad rhwng dy ddwyfron.
- 6 Pâr im' aros mwy 'n dy freichiau ;  
Boed fy nyth, dedwydd byth,  
Yn dy ddilyth glwyfau.
- 7 Na âd i'r gyfrwys ddraig fy nhwyllo,  
Ar un llaw, yma a thraw,  
Oddi wrthyt i ymado.
- 8 Nertha 'm traed blinedig ddringad,  
Fyny o hyd, maes o'r byd,  
Nes i'r nef im' ddwad.
- 9 Pan b'wy'n sengu 'n llwybrau  
angeu,  
Rhag pob braw, yn dy law,  
Dangos im' dy glwyfau.

## HYMN XXX.

*Ar yr un ystyr.*

- PERERIN wyf heb le,  
Blinedig ar fy nhaith ;  
Hiraethu 'r wyf am dre'  
Yn nhragwyddoldeb maith :  
O ddedwydd le ! pa bryd do' i fyw,  
Byth at fy Nuw, o fewn i'r ne' ?
- 2 Am ddiangc 'r wyf o'r byd,  
I blith y nefol gôr,  
Lle mae fy nhrysor drud  
I mi i'w gael yn stôr :  
O ddedwydd le, &c.
- 3 Rhyfela 'r wyf is nen  
A mawr elynion lu ;  
'D oes un yn Seion wen,  
I guro ar f' enaid cu :  
O ddedwydd le, &c.
- 4 Merthyron aeth yn mlaen  
Yn llu i ben eu taith,  
Heb ofni dw'r na than,  
Nes gorphen ar eu gwaith :  
O ddedwydd le, &c.

- 5 Wrth feddwl am y llu  
Sy'n moli 'r IESU glân,  
Fy enaid inau sy'  
Yn llawn o'r nefol dân :  
O ddedwydd le, &c.
- 6 Fy nghartref yno sy',  
A'm dedwydd orsedd wen,  
Mae 'ngwisgoedd gwerthfawr fry,  
Mewn llys o fewn i'r llen :  
O ddedwydd le, &c.
- 7 Yn Ngosen 'r wyf fi 'n byw,  
(Mewn anial wlad yn wir),  
Gan hiraeth 'r wyf yn friw  
Am wel'd fy Nghanaan dir :  
O ddedwydd le, &c.
- 8 'D oes gofid yno 'n bod,  
Na galar byth na phoen,  
Ond gwlad yn llawn o glod,  
I'r nefol anwyl Oen :  
O ddedwydd le, &c.
- 9 Fe ffy pob pechod ftwrdd,  
Pan neidwy' i dŷ fy Nhad,  
A Satan byth ni 'm cwrdd,  
O fewn Caersalem wlad :  
O ddedwydd le ! pa bryd do' i fyw,  
Byth at fy Nuw o fewn i'r ne' ?
- Oddi yno âf mewn nefol heddd,  
I'r nefoedd wen mewn newydd  
weddd,  
I blith angylaidd lu.
- 4 Mi fyddaf fry (O ryfedd fraint !)  
Yn boddi 'm swn yn mhllith y saint,  
Fy ngeraidd hyfryd dôn ;  
Cymdeithion hy' mewn nefol hwyl,  
Heb 'mado byth, ond cadw gwyl  
I'r tirion anwyl Oen.
- 5 Gwyn fyd yn awr f'ai gyda 'm Ner.,  
Fy nghartre' sydd uwchlaw y ser,  
Mewn Paradwysaidd fan ;  
On' chaf ar frys ehedeg fry,  
Gael prawf o wledd angylaidd lu,  
Fe dyr fy nghalon wan.
- 6 Pa'm oedai'n awr fyn'd uwch y nen ?  
Par'towd fy lle uwchlaw y llen,  
Fy ngalw mae fy Nuw  
Feddianu n frau yr hyfryd fraint,  
Ar nefol sir fydd gan y saint,  
Dyddanwch o bob rhyw.
- 7 'R wy 'n awr am ganu 'n iach i'r  
byd,  
Ei bleser gau a'i boen i gyd ;  
Pwy safai ynddo 'n hir !  
Dysgwyl a wnafe nes dêl fy Nuw  
I'm dwyn o'm gwae at IESU gwiw,  
I hyfryd Salem dir.

## HYMN XXXI.

*Hiraeth y Cristion am fyned i ben ei daith.*

- PERERIN wyf i'r Ganaan fry,  
I gyneis gôr fy IESU cu,  
Lle cai dragwyddoldeb nyth,  
'Mhell uwchlaw swn y ddraig a'i  
saeth,  
Na gelyn mwy i'm gwneud yn gaeth,  
Ca'i 'n dawel orphwys byth.
- 2 O bell mi wela 'm cartre 'n wir  
O fewn i byrth Caersalem bur,  
Pob rhai 'n meddianu heddd ;  
O ddinas deg ! o'th fewn nid oes  
Na haul na lloer, na thywyll nos,  
Gwyn fyd rhai draw i'r bedd !
- 3 Pan ddel yr Adgyfodiad mawr  
Caf godi 'n lân o'r ddaear lawr,  
I entrych awyr fry ;

## HYMN XXXII.

*Cryf obaith am weled gelynyon dan draed.*

- PRRERIN wyf tua Salem bur,  
Ddiangodd maes o'r Aiphtaid  
dir,  
Rho nerth, fy Nuw, i deithio yn  
mlaen  
Nes d'od i mewn i'r Ganaan lân.
- 2 Gelynyon taer sydd o bob tu,  
Fel cad am rwystro 'm henaidd cu  
Wel'd dy wyneb gwych, fy IESU  
gwiw,  
A theimlo o'th nefol heddd, fy Nuw.
- 3 Mi wn y cyll pob gelyn call,  
Caf rwygo dyrws rwydau 'r fall ;  
Caiff pechod drwg a uffern drist,  
I wel'd mai 'm ffrynd yw IESU  
GRIST.

- 4 Er maint yw llid fy mhechod llym,  
Ei erchyll rwyg a'i ryfedd rym,  
Fy Mhriod mae 'n Dywysog mawr,  
Fy meiau 'n llw fe 'u myn i'r llawr.
- 5 O IESU da, na âd mo 'th waith,  
Nes myn'd yn llwyr a'm henaidd  
llaith  
O'r anial fyd at nefol lu  
Sy 'n gongc'rwyrr yn Nghaersalem  
fry.
- 6 Mewn hyder ffydd mi âf yn mlaen,  
Trwy rwystrau mawr o ddw'r a  
thân;  
O ddydd i ddydd trwy rîn y gwaed,  
Caf sathru pechod dan fy nhraed.
- 7 Mi ddoe yn hy' i ben fy nhaith,  
Gorphena 'n wir fy llafur waith;  
Congcwero wnae fyn'd at fy NUW,  
Feddianu 'r wisg a'r goron wiw.

## HYMN XXXIII.

*Dedwyddwch y saint ar ol marwolaeth.*

- D**AW diwedd ar fy nhaith  
A'm pererindod trist,  
Gorphena 'm llafur waith,  
Caf orphwys gyda 'm CRIST;  
O fewn ei gôl y gwnaf fy nyth,  
Ddychwelaf byth i'r byd yn ol.
- 2 Pryd hyny mi âf trwy  
Bob blinder, brad, a llid,  
Fy nhemtio ni's daw mwy  
Na Satan, cnawd, na byd:  
Mewn newydd wedd caf fyn'd at  
Iôn,  
O'r byd a'i boen i'r hyfryd wledd.
- 3 Fe dderfydd mwyach son  
Am alar, tristwch, gwaed,  
Y pechod cas, a'r poen,  
I ffino 'r duwiol rai:  
(O hyfryd waith!) ond moli 'm Ner  
Uwchlaw y ser i oesoedd maith.
- 4 Caf wel'd aneirif lu  
O bererinion glân,  
O fewn Caersalem fry,  
A aethant yno o'm blaen,  
Oddeutu 'r faingc yn moli 'n hy'  
Fy IESU cu â pheraidd gaingc.

- 5 Caf wel'd fy anwyl Dad  
F' arweiniodd ar fy nhaith,  
A'm carodd i yn rhad  
O dragwyddoldeb maith;  
A'r anwyl Oen fu dros of fi  
Ar Galfari mewn dirfawr boen.
- 6 Caf fwyta uwch y nen  
Guddiedig fanna pur,  
Caf ddail y bywiol bren  
I laesu 'm briw a'm cur;  
Mi fyddaf iach, mi gaf yn wir,  
Driagl pur wrth f' enaid bach.
- 7 Wel, dyma 'r hyfryd wlad,  
Paradwys nefol wiw,  
A thy' fy anwyl Dad,  
Lle byddaf byth yn byw:  
Pa'm oedaf fyn'd? partoeo fy lle  
O fewn i'r ne' gan fy anwyl Ffrynd.

## HYMN XXXIV.

*Yn ymgadarnhau wrth gofio 'r cysuron  
gynt.*

- O**ARGLWYDD, gwel fi 'n llesg  
a gwan,  
Yn ffaelw dringo o'r byd i'r lan,  
Am fyn'd yn lew i'r Ganaan lân,  
Heb allu symud fawr yn mlaen.
- 2 Gynt credais cai fy enaid cu  
I fod yn frau 'n gongcwerwr fry;  
Ond eto heb feddianu 'r wlad  
Bwrcasodd IESU im' â'i waed.
- 3 Fy meiau 'n gryf sydd o bob gradd,  
Yn fawr eu llid am gael fy lladd,  
Gan ddadleu 'n rhwydd nad oes  
dim rhan  
Yn IESU gwiw gan f' enaid gwan.
- 4 Yn f' erbyn mae gelymol gâd,  
A'm henaidd trist bron dan eu traed;  
Och! och! p'le mae fy Mrenin  
mawr,  
I sathru llw o'r rhai 'n i'r llawr?

## HYMN XXXV.

*Yr Ail Ran.*

- O**DEFFRO, cod, fy enaid cu,  
Pa'm 'r ofnaf lew elynion lu?  
Er maint yw grym uffernol griw\*  
Fe maedda gwaed yr IESU gwiw.

\* *Crew.*

- 2 CRIST wyddai 'm bai 'n hir cyn bod  
byd,  
Mai pechod g'ai 'Fe ynyw' i gyd;  
A'i fryd oedd lawn, er uffern lu,  
I'm dwyn i fryn Caersalem fry.
- 3 Am hyn mi greda' tra f'wy' byw,  
Mai Cyfaill da caf wel'd fy NUW;  
Y dwg fy Nhad fi 'ben fy nhaith,  
Er gwaetha' llid gelynion llaith.
- 4 Cof ddyddiau gynt, fy enaid trist,  
Attolwg, cred hen eiriau 'th CRIST;  
Gwnaeth 'ddewid hael na ddigiai 'n  
hwy,  
A'm beiau mawr ni chofiai mwy.
- 5 Ce's wel'd yn rhodd fod DUW o'm  
rhan,  
Yn Briod gwiw i'm henaidd gwan;  
'N arfaethu 'm dwyn i ben fy nhaith,  
O eithaf tragwyddoldeb maith.
- 6 Pryd hyny teimlais waed yr Oen  
Yn tynu 'm pwn a llaesu 'm poen;  
Yn f' enaid llon 'r oedd cri a llef  
Am fyn'd ar nawf i deyrnas nef.
- 7 Byth cofiaf mwy y lle a'r man  
Dylifodd gwin i'm henaidd gwan,  
Yn ffrwd ddi-drai o'r nefoedd draw,  
Nes gwella 'm briw a dofi 'm brow.
- 8 Pryd hyny 'mlaen yr o'wn yn  
myn'd,  
Gan bwyso 'n ffri\* ar f' anwyl  
Ffrynd,  
A'm golwg beunydd ar y gwaed,  
Yn sathru pechod dan fy nhraed.
- 9 Dysgwyliaf dro, fe wawria draw  
Dragwyddol ddydd, fy IESU ddaw  
I'm dwyn o'm briw, lle na bydd  
brath,  
Na brow wrth swn un danllyd  
saeth.

## HYMN XXXVI.

*Myfyrdod ar ddedwyddwch y  
nefoedd.*

- O**FUGAIL Israel, dwg fi 'mlaen,  
I'r dawe! lân orphwysfa,  
I'th nefol lys, o'm poen a'm pla,  
I ganu Aleluia.

\* *Free.*

- 2 I Seion wych, paradwys wiw,  
Lle mae fy NUW 'n cartrefu,  
Gael rhoddi 'mhwys a chuddio  
'mhen  
Yn mynwes wen yr IESU.
- 3 Myfyrio fod fy hyfryd le  
O fewn i'r ne' yn barod,  
Sy 'n gwneud fy enaid cu bob cam  
Hiraethu am ymddatod.
- 4 Yn angeu caf nefolaidd gôr,  
Angylion o'r dysgleiria',  
I'm dwyn o'm briw at deulu bra',  
Sy 'n canu 'r Aleluia.
- 5 Ar aden cerub âf yn hy'  
Trwy ganol llw 'r gelynion,  
Nes d'od yn llwyr er gwaetha 'r llid,  
I hyfryd fynydd Seion.
- 6 Ond myn'd wrth lys Caersalem lon  
Caf gwrdd â'm fyddlon Frenin,  
Yn agor drws y nefoedd draw,  
Ac yn ei law fe 'm derbyn.
- 7 Cael cwrdd a wnae o fewn i'r ne'  
A'r sanctaidd bererinion;  
Ac yn eu plith caf foli 'm Ner  
A pher ganiadau Seion.
- 8 Ffarwel gaethiwed yno mwy,  
'Chaiff angeu 'n hwy deyrnasu;  
I dragwyddoldeb caf mewn hwy!  
Lawn gadw gŵyl i'r IESU.
- 9 Fel haul yn y ffurfafen bur,  
Caf fod mewn gwir ddysgleirdeb;  
Neu fel y ser llewyrchu ca'  
Hyd eitha' tragwyddoldeb.
- 10 Y wisg a'r goron caf i'm rhan,  
Sy 'n nghadw gan yr IESU;  
A'r hyfryd balmwydd yn fy llaw,  
Ca'i 'n Seion draw deyrnasu.
- 11 Ymborthi caf mewn gwlad uwch-  
ben  
Ar ffrwythau Pren y Bywyd,  
Ac yfed byth, heb boen na chur,  
O afon bur a hyfryd.
- 12 Lle nas daw pechod, byd, na  
chnawd,  
Na gwŷn, na gwawd, na thrist-  
wch,  
Ond perffaith hedda chariad pur,  
A nefol wir ddyddanwch.

- 13 Nis gwn yn iawn, tr' wy' ar y ddae'r,  
Fath hyfryd ffâr \* sydd yno ;  
Ond gwynfyd, medd fy enaid prudd,  
A wela 'i'r dydd yn gwawrio!

## HYMN XXXVII.

*Hiraeth am waredigaeth o gaethiwed.*

- O IESU, 'r Meddyg da,  
Iacha fy enaid caeth,  
A sicr seilia fi ar y Graig  
Sydd uwchlaw 'r ddraig a'i saeth ;  
Am ddiangc wyf i'th gôl,  
Mae 'n f'ol elynol griw ;  
O cofia 'mod mewn anial wlad,  
A châr fi 'n rhad tr' wy' byw.
- 2 Sodoma, 'r Aipht, y man  
Croeshoeliwyd 'r anwyl Oen,  
Yn mhell o olwg Canaan wiw,  
'R wy 'n byw mewn dygn boen,  
Yn mhlith gelynion, haid,  
Bydd im' yn blaid, fy Nuw ;  
O cofia 'mod, &c.
- 3 Ar lan y llyn, yn wir,  
Y bum yn hir a maith,  
Yn dyfal ddysgwyl gwneud yn iach  
Fy enaid bach oedd gaeth ;  
Un olwg ar dy waed  
Roiff im' iachad o'm briw ;  
O cofia 'mod, &c.
- 4 Fy mhechod maddeu, clyw,  
Er cymaint yw ei rif ;  
Mae afon bur o'th ystlys rad,  
O ddw'r a gwaed yn llif ;  
Ac yma golch fi 'n lân,  
Fel gwello 'm ffaidd friw ;  
O cofia 'mod, &c.
- 5 Bydd im' yn dirion Ffrynd ;  
Rhaid im' gael myn'd yn rhydd :  
P'odd galla' i aros yma 'n hwy ?  
Fy nghlwyfau 'n fwy, fwy sydd ;  
Ond llefain wnaif hyd fedd,  
Am hyfryd hedd fy Nuw ;  
O cofia 'mod, &c.
- 6 N'âd i mi ofni mwy  
Fyn'd trwy 'r anialwch maith ;  
Er gwaetha 'r lluoedd sydd is nen,  
Dwg fi i ben fy nhaith ;

\* *Fare.*

Cysura 'm calon wan,  
A sypiau 'r Ganaan wiw ;  
O cofia 'mod mewn anial wlad,  
A châr fi 'n rhad tr' wy' byw.

## HYMN XXXVIII.

*Gobaith am fyned trwy bob rhwystrau i'r Ganaan nefol.*

- O ANNGHREDINIAETH, clyw,  
Na flina 'm henaid llaith ;  
Tragwyddol gariad Duw  
A'm dwg i ben fy nhaith ;  
Pa'm 'r ofnaf lu ? mi âf yn mlaen,  
Trwy ddw'r a thân i'r Ganaan fry.
- 2 Er bod gelynion hy'  
Am gongcro 'm henaid gwan,  
Addawodd IESU cu  
Y byddai byth o'm rhan :  
Pa'm 'r ofnaf, &c.
- 3 Er cael fy rhwystro 'n hir  
Trwy ddichell Satan gaeth,  
Feddianu 'r hyfryd dir  
Sy 'n llifo o fêl a llaeth ;  
Pa'm 'r ofnaf, &c.
- 4 P'le mae 'r 'ddewidion rhad,  
A ffyddlon eiriau Duw,  
A seliwyd oll â gwaed,  
O galon IESU gwiw ?  
Pa'm 'r ofnaf, &c.
- 5 Arweiniodd Ef fi 'maes  
O'r dyrys anial dir ;  
A ball Ef mwy ei ras  
I'm dwyn i Seion bur ?  
Pa'm 'r ofnaf, &c.
- 6 Fy ffyddlon, nerthol Frawd,  
A'm Ffrynd yw 'r IESU cu ;  
Fe arwain f' enaid tlawd,  
I fryn Caersalem fry :  
Pa'm 'r ofnaf, &c.
- 7 Caf wel'd Iorddonen faith,  
Yn dal ei dyfroedd du,  
'N rhoi lle i'm henaid llaith  
I'r etifeddiaeth fry ;  
Pa'm 'r ofnaf, &c.

## HYMN XXXIX.

*Golwg Ffydd.*

- PE meddwn ar angylaid ddawn,  
Fy IESU âg ef, ei foli wnawn ;  
Trwy 'r anial wlad myn'd yn ei law  
'R wy' n awr idre' Caersalem draw.
- 2 I Bisca o'r diwedd fy enaid ddaeth,  
Wel'd gwlad yn llifo o fêl a llaeth ;  
Y Ganaan wiw, paradwys well,  
Gorphwysfa 'r pererinion pell.
- 3 Caersalem deg a chartre 'm Duw,  
Mae 'r IESU a laddwyd yno 'n fyw ;  
Yn awr y gwn fod yno gaingc,  
Gan seintiau fil oddeutu 'r faingc.
- 4 Yno mae gwaed dros f' enaid gwan  
Yn dadleu 'n rhwydd bob awr o'm  
rhan ;  
Mae yno lu, mi âf i'w plith,  
Heb 'mado na rhoi ffarwel byth.
- 5 Mi wela 'm lle o fewn i'r llen,  
A'm henw fry ar gareg wen ;  
Y goron bur a gadw trwy boen  
A gwaed y croeshoeliedig Oen.
- 6 Wele fe ga's fy nghalon gu  
Wledd ag sydd gan angylaid lu ;  
Mae f' enaid bach yn awr mewn  
hwyl  
Fyn'd at y saint i gadw gŵyl.
- 7 Pa bryd troi 'n ol, Iorddonen ddu ?  
Gael myn'd yn frau i'r Ganaan fry,  
Dan hyfryd wlith y nefol wlad,  
Ga's Abraham hy' a'i sanctaidd had.
- 8 Mi rof fy mhws ar f' anwyl GRIST,  
Nes pasio glyn wyfolain trist ;  
O nerth i nerth mi ddof i'r wledd  
Sydd gan y saint tu draw i'r bedd.
- 9 O tyr'd yn awr, cod fi, fy Ner,  
Ar aden eryr uwch y ser !  
'Gael myn'd ar naid i'm dedwydd  
nyth,  
O fewn i byrth Caersalem byth.

## HYMN XL.

*Gobeithio yn erbyn Gobaith.*

PAM 'r ofna 'm henaid gwan  
Wrth wel'd aneirif lu

Yn ceisio a mheu 'm rhan,  
A'm hawl i'r IESU cu ?  
Gwn mai dilyth wirionedd yw  
Fod cariad Duw yn parhau byth.

- 2 P'odd gall y Bugail mawr  
Anghofio ei anwyl wyn !  
Pan ddaeth o'r nef i lawr  
I farw er eu mwyn :  
Gwn mai dilyth, &c.
- 3 Os gad fy anwyl Dad  
Fi farw ar fy nhaith,  
Beth ddaw o'r arfaeth rad  
Yn nhragwyddoldeb maith ?  
Gwn mai dilyth, &c.
- 4 A ddfiodd cariad rhad ?  
Ai ofer geiriau Duw ?  
A gollir rhinwedd gwaed  
Ac angu IESU gwiw ?  
Gwn mai dilyth, &c.
- 5 A ro' i ffarwel i dyst  
O gariad CRIST a'i hedd,  
Gynt ga's fy enaid trist,  
O fyn'd i'r nefol wledd ?  
Gwn mai dilyth, &c.
- 6 Mi greda' eto 'n hy'  
Caf fyn'd i ben fy nhaith ;  
Fy nhowel arte'r fry  
O'm poen a'm llafur waith :  
Gwn mai dilyth, &c.
- 7 Er Satan, byd, a chnawd,  
A'm holl elynion cas,  
Fe ddygir f' enaid tlawd,  
O'i holl gadwynau 'maes ;  
Gwn mai dilyth, &c.

## HYMN XLI.

*Pererindod y Cristion.*

TRAFANELWYR ym i'r Ganaan  
glyd,  
Llesg bererinion yn y byd ;  
Ni glywsom lais yn gwawd i'r nef,  
I gael teyrmasu gydag Ef.

- 2 Yno mae 'n IESU ni a'n Tad,  
A'n brodyr gwiw bwrzasodd gwaed ;  
Mae 'n henwau newydd yno oll  
Ar fynwes CRIST, nid awn ar goll.

- 3 Mae yno fôr o waed yr Oen  
Yn llwyr amgylchu gorsedd Iôn;  
Mae cariad o lawenydd pur  
Yno fel afon grisial clir.
- 4 Pa beth all mwyach ddwyn ein  
bryd,  
Na 'n denu i aros yn y byd?  
Ein hiraeth ni a'n syched yw  
Gael myn'd i'r lan at deulu Duw.
- 5 Ar wagedd brau pa'm rho'wn ein  
bryd?  
Sy 'n erchyll dwyllo plant y byd!  
Dilynwn ôl y praidd yn dŷn,  
Nes dringo fry i Seion fryn.
- 6 'R hyd anial ffordd ni awn yn mlaen,  
O'r dywyll Aipht i'r Ganaan lân;  
Er rhwystrau mawr cawn fyn'd yn  
wir  
Ar fyr feddianu 'r hyfryd dir.
- 7 Gwnawd ffordd i'r nef gan IESU cu;  
'N awr gwel'd yr ym ein cartre'  
fry,  
A'r anwyl Oen a'i ddwylo 'n waed,  
Yn dangos lle yn nhŷ ein Tad.
- 8 Yn mhlith y gwych fendigaidd lu  
Fu 'n ymladd â gelynion hy',  
Aeth eto 'mlaen er gwaetha' llid,  
Yn moli 'n awr mewn nefol fyd.
- 9 Yn gorphwys fry heb friw na phoen,  
Ar feingciau oddeutu maingc yr  
Oen,  
Mae llwybrau 'r rhai 'n i'w gwel'd  
o hyd  
Nes d'od o fewn i'r nefol fyd.
- 10 Ymdrechu wnawn trwy nerth ein  
Duw  
Nes cael y wisg a'r goron wiw,  
O law 'n gelynion fyn'd yn rhydd,  
A chael yr uchel gamp a'r dydd.
- 11 Rhedwn ar frys, mawr yw y fraint,  
Y nef yw diwedd gyrfa 'r saint;  
Er maint yw 'r llid, par'toed ein  
lle,  
Yn mynwes Naf o fewn i'r ne'.

## HYMN XLII.

*Gorfoledd yn nghariad Duw.*

Yn mynwes glyd yr anwyl Oen  
Heb friw na phoen 'r wy 'n  
llechu,

- Ac oddi fewn ei glwyfau cu  
Mae f' enaid i 'n cartrefu.
- 2 Nid llygad wêl, na chlust a glyw,  
Nac un dyn byw ddychymyg,  
Y tawel hedd roiff Duw bob dydd  
I'r rhai sydd ddewisedig.
- 3 Er bod yn hir mewn anial fan  
Yn 'mofyn am orphwysfa,  
O'r diwedd de's (O ryfedd fraint!)  
I'r man mae 'r saint yn gwledda.
- 4 Wrth linyn rhad fe ddaeth i'm rhan,  
Y lle a'r man hyfryda';  
Mewn brasder bro, 'mhlith cwmni  
bra'  
Sy 'n canu Aleluia.
- 5 Nid rhyfedd yw bod seintiau gwiw  
Yn moli Duw a'i ganmol;  
Afonydd hael o'r nefol hedd  
Sydd im' yn wledd wastadol.
- 6 Mi wn pe cawn dafodau hy',  
Angylion fry sy 'n canu,  
Mi rown y rhai 'n i gyd o'r bron  
I ganmol graslon IESU.
- 7 Mi wn y dwg fi i deyrnas ne',  
Orphenu 'm pererindod;  
Ac yno byth, mewn tawel fan,  
Caf eistedd dan ei gysgod.
- 8 Caf fwyta ffrwythau prenau plan  
Ar hyd glan afon bywyd,  
Tragwyddol Sabboth gyda 'r Oen  
Heb friw, na phoen, na gofid.

## HYMN XLIII.

*Am adyoddefaint Crist.*

- O DEFFRO, tro, fy enaid trist,  
Gwel 'ffernol griw, oddeutu'th  
GRIST,  
Am ladd dy Brynwr pur:  
Yn 'mofyn gang o dystion gau,  
I Pilat i'w gondemnio 'n glau;  
O f' enaid, cofia ei gur!
- 2 Gan bwys y gwaith, 'Fe chwysai 'r  
gwaed,  
Yn llif didrai, o'i ben i'w draed;  
A hyn dros oriau hir;  
Fe yfai 'n rhwydd, o'i gariad rhad,  
Y cwpan du, o law ei Dad;  
O f' enaid, cofia ei gur!

## HYMN XLIV.

*Ymddyddan â Duw ar haner nos.  
Salm lxiii. 6.*

- O IESU 'r Bugail da,  
Fu 'n dyodde' ar y groes,  
Fy enaid brefu wna  
Am danat haner nos;  
Fy nghalon friw, yn ddeffro ca',  
I 'mddyddan â f' Anwylyd gwiw.
- 2 Tyr'd, arwain fi 'n y blaen,  
Nes myn'd i ben fy nhaith;  
Er dyfroedd mawr a thân,  
Nertha fi orphenu 'm gwaith;  
Fy ffyddlon Ffrynd, moes im' dy  
law,  
I'r Ganaan draw, gad i mi fyn'd.
- 3 F' Anwylyd, gwel fy mod  
Oddiwrth fy nghartre 'n mhell,  
Hiraethu 'r wyf am dd'od  
O fewn i'r wlad sydd well;  
'R wy' yma 'n byw mewn anial dir,  
A'r oriau 'n hir, heb wel'd fy Nuw.
- 4 Ys truan wyf, pa fodd  
'R arosaf is y nen?  
F' Anwylyd IESU ffordd  
I mewn i'r nefoedd wen;  
O d'wed pa bryd caf finau fod,  
Yn canu clod yn Seion glyd.
- 
- HYMN XLV.
- Gorfoledd mewn cymundeb â CHRIST.*
- MOLIANAF IESU GRIST,  
A alwodd ar fy ol,  
Sy 'n cuddio 'm henaid trist  
O fewn ei gyne gôl;  
O hyfryd fan, yn mreichiau 'r Oen,  
Heb friw na phoen, mae f' enaid  
gwan.
- 2 Yn awr, pleserau 'r byd  
Sydd ffaidd beth, a ffol;  
Y golud sy' ynddo 'gyd,  
Ni'm denant ar eu hol;  
O hyfryd fan, &c.
- 3 Trysorau 'r Aipht a'u bri,  
A golud India bell,—  
Cael heddd fy IESU cu,  
I mi sydd lawer gwell;  
O hyfryd fan, &c.
- 3 Y Ceidwad cu, ei gondemnio ga's;  
Ond llofrudd mawr a ddaeth i maes  
A geirwon hoelion dur:  
O dan y pwys, er maint y poen,  
Dystewi wnai fel addfwyn Oen;  
O f' enaid, cofia ei gur!
- 4 Gelynion llym a godai eu llef,—  
"Croeshoelia, O! croeshoelia Ef,  
Ni haeddai fyw yn hir:"  
Yn mhlith y llu, awd âg E 'n llyn,  
I farw fry i Galfaria fryn;  
O f' enaid, cofia ei gur!
- 5 Rhow'd mantell goch am dan yr  
Oen:  
Gan ddrain, ei ben ddyoddefai  
boen;  
'N awr wele 'r Brenin pur:  
Fflangellwyd Ef nes oedd E'n waed,  
A chwysau du, o'i ben i'w draed;  
O f' enaid, cofia ei gur!
- 6 Ca'dd gario 'r groes i ben y bryn,  
Nes llethu 'n llwyr fy IESU 'n llyn,  
Gan wawdio 'm Brynwr pur:  
A d'weyd,—Ai dyma Israel Sanct?  
Ei waed boed arnom ni a'n plant:  
O f' enaid, cofia ei gur!
- 7 Y ddaear fud, ro'i ei meirw 'n fyw,  
A'r creigard fry a holltai 'n friw,  
Wrth edrych ar fath gur;  
Yr haul a 'mguddiai wrth y loes,  
Yr lloer a'r ser ai 'n dywyll nos;  
O f' enaid, cofia ei gur!
- 8 Trywanwyd, do, fy Mhrynwr rhad,  
Nes daeth o'i galon ddw'r a gwaed  
Yn ffrwd fel afon bur:  
Oedd ar y llawr i'w wel'd yn llyn,  
Yn frwd ar ben Calfaria fryn;  
O f' enaid, cofia ei gur!
- 9 Mi glywa' ei lef, pan chwerwa 'r  
loes,  
A'i irad gri Ef ar y groes,  
Am faddeu i mi 'n wir;  
Ei weddi ai troswyf uwch y nen,  
A mi 'n ei hoelio ar y pren;  
O f' enaid, cofia ei gur!
- 10 Dros f' enaid i bu 'r addfwyn Oen,  
Fel hyn yn dyodde' dirfawr boen,  
I'm gwneud yn rhydd yn wir;  
'R oedd yn ei fryd orphenu 'r  
gwaith  
O eitha' tragwyddoldeb maith;  
O f' enaid, cofia ei gur!

- 4 Fe lecha 'm calon friw  
O fewn ei fynwes wen,  
Mae aswy law fy Nuw  
Dan fy mlinedig ben ;  
O hyfryd fan, &c.
- 5 Fel pwysi o nefol fyrr,  
Mae 'n dofi 'm poen a'm loes,  
A rhwng fy mronau, yn wir,  
Mae 'n aros tros y nos ;
- 6 Mi fyddaf yma byth,  
Er gwaethaf lliid y ddraig ;  
Can's cadarn yw fy nyth,  
O fewn i'r oesoedd Graig ;  
O hyfryd fan, &c.

## HYMN XLVI.

Esa. xxxv. 8: *Yna y bydd Prif-ffordd.*

- I'R nefoedd fry 'r aeth IESU gwiw,  
Ynddo gobeithiodd Israel Duw ;  
Ac fe balmantodd ffordd ddi-gryn  
O'r ddaer i fyny ato ei hun.
- 2 Y ffordd yr aeth prophwydi 'mlaen  
A'r mil myrddiynau fu 'n y tân ;  
Sw'n torf aneirif eilwaith cawn  
Ni glywed arni 'n beraidd iawn.
- 3 Ffordd sanctaidd bur, heb och na  
gwae,  
Nas teithia neb annuwiol rai ;  
Gormesol ddyn 'r hyd hon ni ddaw,  
A llew nis dring i'r nefoedd draw.
- 4 Crediniol ryw a gafodd ras,  
O'r cystudd mawr i dd'od i maes,  
Yw 'r gwaredigion mwynion cu,  
Sy 'n ffioi 'r hyd ffordd Caersalem  
fry.
- 5 Y pererinion glewion glân,  
Nis ofnant byth mo ddw'r na thân ;  
Dyeithriaid ar y ddaear ddu,  
Sy 'n teithio tua 'r Ganaan fry.
- 6 A phe ynyfdion fyddent hwy,  
Ni chaent ddim cyfeiliorni mwy ;  
Hwy aent yn mlaen trwy rin y  
gwaed,  
Nes d'od dan wlith i'r hyfryd wlad.

- 7 Fy NGRIST yw 'r drws i'r nefoedd  
draw,  
A'm Seren deg i'm harwain daw ;  
Ysgol fy NUW o'r ddaer i'r nen,  
I ddringo o'r llawr tu fewn i'r llen.

## HYMN XLVII.

Can. v. 8, 9, 10.

CHWI ferched Salem dre',  
Wrth rodio heolydd hon,  
A wel'soch chwi 'n un lle  
'R Hwn hoffa 'm henaidd llon ?  
R' wy 'n glaf am nyth, i mi gael  
byw,  
Dan aden wiw fy Mhrynwyr byth.

- 2 Os gwelwch f' anwyl GRIST,  
Mynegwch iddo 'n llwyr,  
Hiraetha 'm henaidd trist  
Am dano foreu a hwyr ;  
'R wy 'n glaf, &c.
- 3 Efe yw 'm sicr ran,  
A'm cysur oll yn oll ;  
Cryf Fugail f' enaidd gwan,  
Yn rhwystro i'm fyn'd ar goll ;  
'R wy 'n glaf, &c.
- 4 Mewn carchar o'wn yn brudd,  
Dan ddwyllaw Satan gas,  
Fe wnaeth y ffordd yn rhydd,  
Im' gael diangfa maes ;  
'R wy 'n glaf, &c.
- 5 Daeth afon frwd o waed  
O galon f' anwyl Frawd,  
Yn llifo lawr i'w draed,  
I olchi f' enaidd tlawd ;  
'R wy 'n glaf, &c.
- 6 'Nigoni wnaeth â gwledd  
O fanna pur y nen ;  
Ce's deimlo ei nefol hedd,  
Ac arno bwysio 'mhen ;  
'R wy 'n glaf, &c.
- 7 Mae 'n wridog oll a gwyn,  
Neb fel fy IESU cu  
'D oes ar y ddaear hyn,  
Nac yn y nefoedd fry ;  
'R wy 'n glaf, &c.

## HYMN XLIX.

*Amynedd dan Ddyoddefiadau.*

- O GARCHARORION prudd,  
Dysgwylw'n dipyn bach,  
Nesau mae 'r dedwydd ddydd  
I'n gwneud ni oll yn iach ;  
O'n poen a'n pla cawn fyn'd yn wir,  
I Salem dir, Aleluia.
- 2 Er dilyn IESU glân  
Mewn dyoddefiadau maith,  
Mewn dyfnder dw'r a thân,  
A dyrys anial daith ;  
O'n poen, &c.
- 3 Er yfed bustl cry'  
O ddwyllaw 'r anwyl Oen ;  
A'r afon ddwfn ddu,  
O gystudd, ing, a phoen ;  
O'n poen, &c.
- 4 Yn ddyfal 'drychwn draw  
Am waredigaeth lawn,  
Cawn fod i maes o law  
Yn ogoneddus iawn ;  
O'n poen, &c.
- 5 Er bod annuwiol fyd,  
Ellyllon uffern gas,  
Bob mynyd awr a'u bryd  
Am lwy'r ddyfetha 'n gras ;  
O'n poen a'n pla cawn fyn'd yn wir,  
I Salem dir, Aleluia.

## HYMN L.

*I'w Chanu wrth Ymadael.*

- 8 Arweiniodd Ef fi 'mlaen  
Er mai ynyfd o'wn a ffol ;  
Yn nghanol dw'r a thân,  
Fe 'm cym'rodd yn ei gól ;  
'R wy 'n glaf, &c.
- 9 Dangosodd f' anwyl GRIST,  
Do'i â fi 'ben fy nhaith,  
O'm pererindod trist,  
I dragwyddoldeb maith ;  
'R wy 'n glaf, &c.

## HYMN XLVIII.

*Rhyddid y Saint.*

- YN awr y gwn fod IESU cu  
Yn Seion fry 'n teyrnasu ;  
Mae 'n rhoddi im' arwyddion braf  
O'r rhyddid gaf feddianu.
- 2 Blwyddyn y carcharorion caeth  
O'r diwedd ddaeth i fyny ;  
Nesau mae gwaredigaeth lawn  
I rai sy 'n cyflawn gredu.
- 3 Bron darfod y mae 'r Aiphataidd nos,  
O'n poen a'n loes cawn orphwys ;  
CRIST, colofn dân mewn anial dir,  
A'm dwg i'r wir Baradwys.
- 4 Fy mhechod oll caf dan fy nhraed  
Trwy rinwedd gwaed yr IESU ;  
Diystyrai 'n llwyr eu grym a'u lliid,  
Ca' i gwel'd hwy 'gyd yn trengu.
- 5 Er gwaetha' grym uffernol griw,  
Hyd byth mae Duw a'i gariad ;  
Mae 'r IESU 'm Pen yn gadarn  
Graig,  
Diddyma 'r ddraig a'i bwriad.
- 6 Y cysur llon a'r gwynfyd llawn  
Gaiff rhai sy 'n cyflawn gredu,  
Sydd fwy nag all tafodau cu  
Angylion fry fynegu.
- 7 Ysbryd fy Nuw o'm mewn a drig,  
'R wy 'n deml ddiddig iddo ;  
Fe 'm dysg yn rhad byth foreu a  
hwyr,  
Nes caffwy 'm llwyr sancteiddio.
- 8 Am wybod mwy o'm IESU hael  
Mae fy enaidd gwael yn breffu ;  
Cyflawnder mawr ei gariad cu  
Wyf am gael ei feddianu.



- 5 N' âd ni 'nabod dim na 'i garu,  
Tra fo 'm byw, ond y gwiw  
Groeshoeliedig IESU.
- 6 Os gelynion ddaw i'n denu,  
Gwna ni 'n ddwys, fwrw 'n pwys  
I orphwys ar yr IESU.
- 7 N' âd i'r blaidd byth mo 'n gwas-  
garu,  
Bydd Di byth, yn ddi-lyth,  
Ben a Bugail ini.
- 8 Dwg ni i'r Baradwys euraidd,  
'Fyw heb boen gyda 'r Oen,  
Fry yn Seion sanctaidd.
- 9 Lle na's torir byth mo 'r undeb ;  
Cartre' bra' byth heb bla,  
Dedwydd dragwyddoldeb!

## HYMN LI.

*Addewidion.* Esa. ix. 6, 7, 8, 9.

- D**AW amser braf, can's gwawrio  
bron  
Mae haf-ddydd yr efengyl lon ;  
I'r 'nysoedd pell daw 'r trysor drud,  
A'i swm â hyd eithafoedd byd.
- 2 Ceir gwel'd y blaidd a'r Oen yn  
nghyd,  
Y myn a'r llewpart o'r un fryd ;  
Y llo, y llew, a'r 'nifail bras,  
Mewn heddwch mawr, heb gwympo  
'maes.
- 3 Bachgenyn bychan yn ei law  
A'u trin, a'u harwain yma a thraw ;  
Llid yn y rhai 'n byth mwy ni bydd,  
Yr anian newydd garia 'r dydd.
- 4 Y fuwch yn nghyd a'r arth a bawr,  
A'u llydnod fydd mewn heddwch  
mawr ;  
Annghofia 'r llew greulondeb cas,  
Fel 'ych 'fe boriff wellt y maes.
- 5 Y plentyn sugno chwery 'n ffraeth  
Wrth dwll yr asp, heb ofni brath ;  
'R hwn a ddiddyfnwyd, heb ddim  
braw,  
Ar ffau y wiber rhydd ei law.
- 6 Diniwaidd fyddant o bob rhyw,  
Ar hyd holl fynydd sanctaidd Duw ;  
Yn wirion iawn cyfnewid gras  
Y rhai fu gynt yn gyndyn cas.

- 7 Gwybodaeth IESU fydd yn 'stor,  
Fel dyfroedd mawr yn llanw 'r môr  
Daw De' a Gogledd at yr Iôn,  
Holl bwrcas gwaed yr anwyl Oen.
- 8 Llamma fel hydd tros fryniau pell ;  
Cyflawna 'r addewidion gwell ;  
O galw d' etholedig had  
I brofi rhagorfreintiau 'th waed.

## HYMN LII.

*I'w Chanu y Boreu.*

- D**EFFRO, f' enaid, deffro 'n  
ufudd,  
C'od yn awr gyda 'r wawr,  
Seinia ganiad newydd.
- 2 F' enaid bach ga's huno 'n gynes,  
Yn ddi-loes, tros y nos,  
Yn dy ddiddos fynwes.
- 3 Dan dy aden dawel dyner,  
Ce's heb wŷn, hyfryd hun :  
Buddiol fu 'm hesmwythder.
- 4 Heddyw rho fy mhwys ar ddwyfron  
IESU gwiw, 'm Tywysog yw,  
Rhag pob rhyw elynion.
- 5 Hyfryd foreu, o gaethiwed,  
Wawria draw, maes o law,  
IESU ddaw i 'ngwared.
- 6 Uwch creaduriaid, IESU, cadw  
F' enaid llon, ar dy fron  
Dirion, nes fy marw.

## HYMN LIII.

*Hiraeth am Ymddatodiad.*  
Phil. i. 23.

- O**ARGLWYDD, bryd cai fyn'd  
o'm briw,  
Yn iach o'r byd 'r wy'n awr yn byw ?  
Ei flino ca's fy enaid cu,  
Dwg fi i'r lan at nefol lu.
- 2 Dedwyddwch, gwn, 'does yma i'w  
gael,  
Ond cystudd, gwae, a phleser  
gwael ;  
Am artre' fry mae 'nghalon friw,  
Fy Mhriod byth yw 'r IESU byw.

## HYMN LV.

*Am barhaâ mewn Gras.*

- G**ELYNION creulon sy'  
Yn dorff aneirif fawr,  
A'r rhai 'n mewn cynghrair cry'  
I'm curo 'n lân i lawr ;  
Dal fi, fy Nuw, nes diengu i'r lan  
I'r hyfryd fan mae 'r saint yn byw.
- 2 Caseion IESU sydd  
Yn llwyr ddymuno cael  
Fy ngweled i ryw ddydd  
Yn syrthio yn llaw Saul :  
Dal fi, fy Nuw, &c.
- 3 'R annuwiol fyd, pe cai  
Fy ngweled ar y llawr,  
Gwn gorfoloddu wnai  
Ef yn fy nhriswch mawr :  
Dal fi, fy Nuw, &c.
- 4 Mae 'nghalon inau 'n wan,  
Yn mron llewygu 'n wir,  
Wrth geisio d'od i'r lan  
O'r dyrys anial dir :  
Dal fi, fy Nuw, &c.
- 5 Pechodau o bob lliw  
Sydd am fy nodi 'lawr ;  
A myrddiwn o bob rhyw  
O demtasiynau mawr ;  
Dal fi, fy Nuw, &c.
- 6 Planhigyn wyf mewn gras  
Yn ngardd fy anwyl Dad ;  
N' âd i'm gelynion cas  
I'm cael i dan eu traed :  
Dal fi, fy Nuw, &c.
- 7 O dwg fi yn y blaen,  
Nes gorphen ar fy nhaith :  
Mi seiniaf i Ti gân  
Yn nhragwyddoldeb maith :  
Dal fi, fy Nuw, nes diengu i'r lan  
I'r hyfryd fan mae 'r saint yn byw.
- O** IESU byw, Iachawdwr byd,  
Dwg fi yn glau i'th fynwes  
glyd,  
'Gael prawf o'th gariad cu,
- 3 Fy esgryn swrth blinedig sy'  
Am orphwys yn y ddaear ddu,  
Nes clywed bloedd Archangel mawr  
Yn galw 'm llwch i'r lan o'r llawr.
- 4 O IESU pur, d'wed im' ai pell  
Yw 'r ffordd i fyn'd i'r ddinas well ?  
Gelynion cas, a ddoent hwy 'm  
cwrdd,  
'N ol i mi ffoi o Fesech ffwrdd ?
- 5 Dwg fi i'r lan, moes im' dy law,  
Agored drws y nefoedd draw ;  
Angylion fil groesawent fi  
I dawel fryn Caersalem fry.
- 6 Fy nagrau sych, fy IESU, 'ffwrdd,  
A thristwch cas byth mwy ni 'm  
cwrdd :  
Mewn nefoedd glyd, heb arna 'i  
glwy',  
Lle na's ca' i wel'd gelynion mwy.
- 7 Yn gadarn byth y byddaf byw  
Yn golofn nâdd yn nhŷ fy Nuw :  
Ar Seion fryn, y lle heb frad,  
Yn nofio yn rhwydd mewn cariad  
rhad.

## HYMN LIV.

*Wrth fyn'd i Gysgu.*

- O** IESU 'm Ffrynd a'm Prynwr  
rhad ;  
O'th galon wiw daeth môr o waed,  
I olchi 'm ffaidd friw :  
Rho i mi nerth i wneud fy nyth,  
I'm henaidd bach i ymguddio byth,  
O fewn dy glwyfau gwiw.
- 2 Rho im' orwedd yn dy gôl yn glyd,  
Yn barod fyn'd i'r nefol fyd,  
Os galw wna fy Nuw :  
O boed o'm cylch angylion hy',  
I'm cadw 'n lân rhag uffern lu,  
Sy' am ddygu 'm henaidd byw.
- 3 Lletya heno, 'm Prynwr prudd,  
Rhwyng fy nwy fron, nes gwawrio 'r  
dydd,  
Fel pwysi o nefol fyrr :  
Y boreu, cymer fi 'n dy law,  
Ni roddwn dro i'r Ganaan draw,  
I wel'd P'radwysaidd dir.

- Sydd well na 'r gwin i'm henaid  
gwan,  
Am hyn 'r wy 'n daer am gael d'od  
dan  
Dy dirion aden Di.
- 2 Dy gariad dwys yn f' enaid d'od,  
Ac ynddo fyth gad i mi fod,  
Yn nofio tua 'r ne':  
Nes gado 'n deg yr anial dir,  
A landio o fewn i Salem bur;  
O'm gofid, och, a'm gwae.
- 3 Rhyfeddol rin arfaethol ras,  
I'm IESU mwyn fy nwyn i maes,  
O'r dwfn bydew prudd;  
Dros f' enaid bach dyoddefodd  
boen,  
Gan roddi iawn i'm hanwyl Iôn:  
Ce's inau fyn'd yn rhydd.
- 4 'R wy 'n awr yn d'od o'r Aiphtaid  
dir,  
Trwy fôr o waed fy IESU 'n wir,  
Tua 'r etifeddiaeth wiw:  
Trafaelu wnes, trafaclu wnafl,  
Nes i'm gael nyth yn nghôl fy Naf,  
Tragwyddol i mi fyw.
- 5 Wel, f' enaid, dos yn enw Duw,  
Gan sathru croes uffernol griw;  
Er maint eu lliid a'u brad;  
Ar fyr i'r llawr, mi gaf yn llu  
Bob gelyn cas sy 'm henaid cu,  
Trwy rinwedd gwyth y gwaed.
- 6 O wynfydedig, ddedwydd awr,  
Ddysglawrwen wir, O hyfryd wawr!  
Gaf esgyn uwch y nen:  
Gorphwysfa lân, tragwyddol wledd,  
Caf fi fwynhau mewn dinas hedd:  
Boed hyn ar frys, Amen.

## HYMN LVII.

*Credu yn erbyn Gobaith.* Rhuf. iv. 18.

- A**NTURIAF eto yn mlaen  
Tua 'r Baradwysaid wlad;  
Pa'm digalona i 'n lân?  
Mae 'n eiriol droswyf waed;  
Adnewyddaf nerth trwy rinwedd  
hwn;  
Gorchfygaf, gwn, elynion gâd.
- 2 Er ymladd lawer gwaith  
A llu o elynion llym,

Hen Satan gyfrwys faith,  
Yn eitha' ei rwyng a'i rym,  
Dysgwyliaf nerth o Seion draw,  
I maes o law daw cymhorth im'.

- 3 Er i mi dreio yn hir  
Orchfygu pechod cas;  
Mi fyddaf marw yn wir,  
Yn lân cyn colli 'r maes;  
Mewn nefol fyd mae brodyr im'  
A brofodd rym y gelyn cas.
- 4 Er bod fy meiau yn fawr,  
Fe maddeu IESU hael;  
P'le mae Manasse 'n awr,  
Mair Magdalen, a Saul?  
Trwy waed yr Oen sy 'n eiriol fry,  
Mae hedd yn lli' i bechadur gwael.
- 5 Er ofni o'm henaid clawd  
Ryfela âg angeu dewr;  
Ond yma 'n wylo cawd  
Yr Hezeciah fawr;  
Caf finau ras i fentro trwy  
Orchfygol glwy' yr angeu glas.
- 6 Er i mi amheu 'n lân  
Hael gariad IESU cu,  
Bu Thomas o fy mlaen  
Yn 'r unrhyw bydew du;  
Rho 'm llaw yn ôl yr hoelion dur;  
Bellach yn wir mi greda 'n hy'.

## HYMN LVIII.

*Hiraeth am Burdeb.*

- G**WEDDIO 'r wyf, och'neidio yn  
brudd,  
Rhyfela 'n deg am gael y dydd;  
Lleng sydd o fewn, llu sydd o faes,  
O 'ffernol griw am faeddu 'm gras.
- 2 Pa bryd cai deimlo cariad rhad,  
I'm henaid gwan, a rhin y gwae;  
I'm gwneud yn gryf yn erbyn grym  
Ac eitha' lliid gelynyon llym?
- 3 Bryd cai 'm glanhau o'm pen i'm  
traed,  
Mewn grisial fôr o werthfawr waed?  
Iacha fy mriwiau (dyfnion y'nt),  
A gefais yn Mharadwys gynt.

- 4 Bryd ca'i ddinystrio 'r delwau 'n  
llawn,  
Sy' am lechu dana' i yn ddirgel  
iawn?  
Llabyddio Agag yn ddi-barch,  
A Dagon gwympo o flaen yr arch?
- 5 F' adnabod wyt 'n hir cyn bod byd,  
Praw' 'nghalon a'm harenau i gyd;  
Fy Mhriod mwyn, rho allu mawr  
I gludo yn lân fy meiau 'lawr.
- 6 Rho win ac olew yn fy mriw,  
Gwisg fi yn deg â delw Duw;  
Par'to fi i fyn'd i blith y llu  
Sy 'n ddysglawr yn y netoedd fry.
- 7 Ond O! uffernol leisiau cas,  
Pa bryd y tewch? pa le mae gras?  
Pa le mae 'r IESU, yr Hwn a fu  
Yn meddwi 'gleddyf â'ch gwaed  
chwi?
- 8 O anwyl IESU, bryisia, bydd  
Yn awr fel iwrch, neu lwdn hydd;  
O tyr'd ar frys, a chluda 'lawr  
Fy holl elynion, fach a mawr.

## HYMN LX.

*Hanes am ddaioni Duw i'r Credadyn.*

**B**ENDIGAID fyth fo enw Duw,  
'R Hwn wnaeth fy enaid marw  
'n fyw;  
Ac a'm cyfododd fel o'm bedd,  
I gael mwynhau ei ras a'i hedd.

- O**EN Duw, tragwyddol Fab y  
Tad,  
'R Hwn dd'ost o'r nef i golli 'th  
waed  
Dros bechaduriaid gwael eu rhyw,  
Oedd gwedi myn'd dan felldith  
Duw.
- 2 Wyt yn tosturio wrth bob rhai  
Sy 'n d'od yn flin dan deimlo eu bai;  
Dan bwys f' aneirif feiau mawr,  
'R wy 'n llefain, DDUW, tosturia 'n  
awr.
- 3 Cymhwysiad llawn o'th waed trwy  
ffydd  
A wnaiff fy enaid caeth yn rhydd;  
Golwg ar dy glwyfau trist  
A ladd fy mhechod, anwyl GRIST.
- 4 Mae 'nghalon gas i'n llawn o bla,  
Ac ynddi yn aros 'd oes dim da;  
Ond rhin dy waed, O anwyl Oen!  
All fy nglanhau a llaesu 'mhoen
- 5 Mewn rhyfel blin 'r wyf nos a dydd,  
A'm henaid swrth mewn dalfa sydd;  
Dan law 'ngelynyon lawer prydd,  
Heb ganfod help o du 'n y byd.
- 6 Mae 'r nefoedd fry yn bres uwch-  
ben,  
Mae 'n fynych rhyngof a'm Duw  
len;  
A'm holl elynion yn ddi-ludd,  
Yn gwaeddi, De'wch, ni gawn y  
dydd.
- 2 Pan 'r o'wn yn gorwedd yn fy  
ngwae,  
Edrychodd Duw o'r nef yn rhad;  
A d'wedodd, Yn dy waed bydd fyw!  
Rho'f iddo glod, fy nyled yw.
- 3 Pan 'r oedd euogrwydd heb ddim  
hedd,  
Yn mron a'm gwasgu yn is na'r  
bedd,  
A'm holl bechodau 'n codi yn llu,  
Dadguddiodd Duw ei Fab i mi.
- 4 Pan 'r o'wn yn nyffryn Achor brudd,  
Mewn 'storom fawr heb oleu'r dydd;  
Na dim cysuron o un man,  
Ce's brofi 'n rhodd fod Duw o'm  
rhan.
- 5 Pan 'r o'wn ar ben Gilboa fry,  
Yn ymladd â'r uffernol lu,  
Mewn gofid mawr, a chur a braw,  
Cynaliodd Duw fi â'i nerthol law.
- 6 Pan 'r oedd gelynyon fwy na rhif  
Yn curo arna' i fel y lliif;  
A finau i'w holl saethau yn nôd,  
Cynaliodd Duw fi er ei glod.
- 7 Pan 'r o'wn i mewn llifeiriant mawr,  
'Mron soddi 'n lân bob mynd awr,  
Heb wel'd cynorthwy o un man,  
Rho'es Duw ei law i'm codi 'r lan.



## HYMN LXI.

*Yr Ail Ran.*

- 'R WY 'n awr yn teimlo 'r heddwch drud,  
Er gwaetha 'r cnawd, y ddraig a'r byd;  
'R wy 'n mynych brofi o'r hyfryd wledd,  
Sy' gan y saint tu draw i'r bedd.
- 2 'R wy 'n profi 'mod i 'n myn'd mewn hwyll,  
Tua 'r man mae 'r saint yn cadw gwyl;  
Mae ar fy enaid syched mawr  
Am wledda gyda hwy bob awr.
- 3 Mi wn yn awr, pwy bynag sy'  
O'r bydol blant, a'r 'ffernol lu,  
Yn codi yn erbyn f' enaid gwan,  
Caf gario 'r dydd; mae Duw o'm rhan.
- 4 'R wy 'n gwybod beth yw byw trwy ffydd,  
A rhodio yn nghariad Duw yn rhydd;  
Mi wn cai 'm dwyn o ras i ras,  
Nes myn'd yn lân o'r byd i maes.
- 5 'R wy 'n credu 'n awr cai ras i fyw,  
A gwneud pob peth er clod i'm Duw;  
A chwedi gorphen hyn o daith,  
Cai foli E'n nhragwyddoldeb maith.
- 6 De'wch, greaduriaid o bob rhyw,  
Trwy 'r ddae'r a'r nef rho'wch glod i'm Duw,  
Can's mewn cyfyngder bu im' yn dda,  
Rho'f iddo glod, heb orphwys gwna'.

## HYMN LXII.

*Dymuniad y Saint.*

PE cawn adenydd boreu wawr,  
Ehedeg wnawn tros foroedd mawr  
Nes bawn yn ngolwg Seion wiw,  
Lle mae fy Mhriod inau 'n byw.

- 2 Pe cawn ond teimlo 'r awel gref  
Aeth âg Elias gynt i'r nef,  
Gadawn yn ol fy ngwisg o gnawd,  
Ac Eliseus, f' anwylaf frawd.
- 3 Pe meddwn arch hen Noah ddewr,  
Nofio a wna'wn 'r hyd diluw mawr;  
Tua phen Ararat, lle mae 'r fraint,  
Y mynydd sy 'n orphwysfa 'r saint.
- 4 Y nos pe cawn i golofn dân,  
A niwl i'm ledio 'r dydd yn mlaen;  
O'r anialwch mawr mi ddown i maes,  
Nes landio trwy 'r Iorddonen las.
- 5 Pe cawn, fel Iago, ysgol gref,  
Gyrhaeddai o'r ddae'r i entrych nef;  
Dringo a wnawn o'r byd i maes,  
Heb orphwys liw ar gareg las.
- 6 Gwyn fyd gai rodio gyda Duw,  
Fel Enoch ffyddlon, tra f' wy' byw;  
Ehedeg wnawn o'r byd i maes,  
Heb ofni briw yr angeu glas.
- 7 Yn Peniel 'r wyt, fy enaid, clyw,  
Ymdrecha yn deg âg angel Duw,  
Pwy w'yr nas caf cyn codi 'r wawr,  
Wir etifeddu 'r fendith fawr!

## HYMN LXIII.

*Hivaeth am y Nefoedd.*

- DRAW 'r wlad,  
O'r lle 'r wy 'n dysgwyl llwyr ryddhad,  
O law 'm gelynyon mawr eu brad,  
Trwy rinwedd gwaed fy Iesu gwiv,  
'D oes gelyn mwy a ddaw i'r lan,  
I'r hyfryd fan, ar fyr cai fyw.
- 2 Y llen  
Sydd rhyngwy 'n awr a'r nefoedd wen,  
A rwyga 'Nuw o'r ddae'r i'r nen;  
I'r wlad uwchben fe 'm harwain Ef,  
Gaf ddringo i'm gorphwysfa braf,  
Sy 'n mynwes Naf o fewn i'r nef.
- 3 A byw  
Gai 'n dawel fry, heb boen na briw,  
A'm cynes nyth yn nghôl fy Nuw,  
Lle mae pob rhyw ddyddanwch llawn;

- Yn rhydd i'r llwch mi ro'wn fy nghnawd,  
Fyn'd at fy Mrawd yn awr pe cawn.
- 4 Môr fawr  
Yw 'r syched sy' ar fy enaid 'n awr  
Am wel'd dy wedd, O hyfryd wawr,  
Boreuddydd tragwyddoldeb pur!  
'Madawn yn rhydd â char a ffrynd,  
I mi gael myn'd i'r nefol dir.
- 5 Bob pryd,  
Ffarwel i ti, ddaearol fyd,  
'D oes yma i gael ond gwae i gyd;  
Mae 'm trysor drud mewn dinas draw;  
Fy nghalon fach sydd gyda 'm Brawd,  
Lle bydd fy nghnawd i maes o law.
- Trwy 'r 'nialwch mawr dwg fi 'n ei gôl  
'Mewn i'r ddymunol Ganaan.
- 7 'Fe 'm dysg, 'Fe 'm cyfarwydda trwy  
Bob rhwystrau wy 'n gyfarfod;  
Rhag cyfeiliorni yma a thraw,  
'Chai fyn'd o law fy Mhriod.
- 8 Fe 'm gwna mor ddoeth nes drysu'r fall,  
Yn ei chyfrwysgall ddichell;  
Dadrys ei rhwydau o bob rhyw,  
Can's Iesu yw fy Nghyfaill.
- 9 Eneinia fi eto i wel'd yn glir,  
Rho im' fôr o wir ddoethineb;  
I'm gywir deithio 'r llwybr bra'  
Sy 'n myn'd i dragwyddoldeb.

## HYMN LXIV.

I Cor. i. 30.

Sancteidrwydd im' yw 'r Oen di-nam,  
'Nghyfiawnder a'm doethineb;  
Fy mhrynedigaeth o bob pla,  
Fy Nuw i dragwyddoldeb.

CRIST, DOETHINEB Y SAINT.

FE 'm gwnaeth yn ddoeth wel'd  
fy hun yn ddall,  
Yn fab i'r fall wenwynig;  
Ac wedi rhoddi f' hun o'm bodd  
I gyflwr oedd ddamnedig.

- 2 Yn ddoeth i 'nabod IESU CRIST,  
Yn Ffrynd i drist eneidiau;  
Ac iddo roddi 'waed yn llif  
Tros fy aneirif feiau.
- 3 Ce's wel'd mai 'Fe yw 'm Brenin bra',  
Fy Mhrophwyd a'm Hoffeiriad;  
Fy Nerth, a 'Nhrysor mawr, a 'Nhw,  
F' Eiriolwr a fy Ngheidwad.
- 4 Fy nghyfaill byth, a'm ffyddlon Frawd,  
Mae f' enaid tlawd yn garu;  
Sy 'n 'nghofio i 'n awr o ganol ne',  
Y man mae E 'n teyrnasu.
- 5 Dysgodd fi 'deithio 'r llwybr bra'  
Sy 'n myn'd tua thragwyddoldeb;  
Tros fryniau mawr ac anial dir,  
On'd dyma wir ddoethineb?
- 6 Fel niwl a thân, bob nos a dydd,  
Fy arwain bydd ei hunan;
- Trwy 'r 'nialwch mawr dwg fi 'n ei gôl  
'Mewn i'r ddymunol Ganaan.
- 7 'Fe 'm dysg, 'Fe 'm cyfarwydda trwy  
Bob rhwystrau wy 'n gyfarfod;  
Rhag cyfeiliorni yma a thraw,  
'Chai fyn'd o law fy Mhriod.
- 8 Fe 'm gwna mor ddoeth nes drysu'r fall,  
Yn ei chyfrwysgall ddichell;  
Dadrys ei rhwydau o bob rhyw,  
Can's Iesu yw fy Nghyfaill.
- 9 Eneinia fi eto i wel'd yn glir,  
Rho im' fôr o wir ddoethineb;  
I'm gywir deithio 'r llwybr bra'  
Sy 'n myn'd i dragwyddoldeb.
- CRIST YN GYFIAWNDER.
- EUOGRWYDD pechod oedd yn bwn,  
A mi dan hwn yn trengu;  
Duw a'm rhyddhaodd; pwy 'm damnia mwy?  
I'r IESU 'r wy' yn credu.
- 2 Pur waed ei galon ddaeth yn llif  
Tros fy aneirif feiau;  
I'm cânu 'n wyn fel llian main;  
Oddiw'rth bob stae'n a brychau.
- 3 Fe ddofodd llied cyfiawnder llym,  
'Does ganddo ddim i'w wneuthur;  
Mae 'r gwaed yn gwaeddi heddw,  
yn daer,  
Trwy 'r nef a'r ddae'r yn eglur.
- 4 Ni all Satan, deddf, na gweddill bai,  
I ddamnio rhai crediniol;  
Mae gwaed yr Oen âg uchel lef  
O fewn i'r nef yn eiriol.
- 5 Mi wna 'm gorphwysfa dawel byth,  
Iesu, 'n dy ddilyth glwyfau;  
Bellach fy ngobaith fydd, a'm ple  
'Th fod yn fy lle yn dyodde'.
- 6 Ti yw 'r Meddyg mawr a'r Ffynon braf  
I bechod ac aflendid;  
Golch fi o'm beiau, fawr a mân,  
Fel byddwy 'n lân a hyfryd.
- 7 O golch fi beunydd, golch fi 'n lân,  
Golch fi yn gyfan, ARGLEWYDD;

Fy nwlaw a'm calon, pen a'm traed,  
Golch fi â'th waed yn ebrwydd.

## CRIST YN SANCTEIDDRWYDD.

PAHAM y digalona 'i mwy,  
Caiff bechod glwy' yn ebrwydd;  
Er maint ei lid, er dued lliw,  
Fy IESU yw 'm sancteiddrwydd.

2 Bedyddia fi â'r Ysbryd Glân,  
Fel tân pwerus nerthol;  
Caiff ysbryd barn, a llogfa fod  
Ar bechod yn wastadol.

3 Caf ganddo ddw'r, fy enaid cred,  
Dyr syched yn dragwyddol;  
O'm croth i'r lan, daw ffrwd ddi-  
drai,  
I'm dwf'rheu 'n wastadol.

4 Nes i fy mhechod gael ei ladd,  
O radd i radd nes gorphen  
Fy llygredigaeth o bob rhyw,  
Can's IESU yw fy Nghapten.

5 Fe duedda 'meddwl i bob cam,  
I frefu am fath burdeb,  
Ag a feddiana 'r seintiau bra'  
Sydd draw yn nhragwyddoldeb.

6 Teyrnasa, O DDUW, a bwrw i maes  
D' elynion cas gwrthwyneb;  
Ar f' enaid llesg rho 'th ddellw 'n  
llawn,  
Nes d'od i gyflawn burdeb.

7 Gwasgara weddill pechod cas,  
Sêl fi â'th ras yn drigfan;  
Yn berffaith hardd, yn deml wiw,  
Adeilad Duw ei hunan.

## CRIST YN BRYNEDIGAETH.

O IESU, fy Ngwaredwr llawn,  
Fy Iawn a'm Prynedigaeth!  
Trwy 'th angydd Di fy ngwared ca'  
O uffern a marwolaeth.

2 Fe 'm dwg i maes o'm gwae a'm  
gwŷn,  
Fy llafur blin a'm lludded;  
I'r tawel fan, i'w cwmni hwy  
Sy' heb newyn mwy na syched.

3 Ar ochor f' enaid tlawd fe fydd,  
Ar foreu dydd marwolaeth;  
Yn wyneb angydd caf wneud ple,  
Gan waeddi iechydwrïaeth.

4 Fe rwyma 'r ddraig, hen Satan syn  
Tr' wy' inau yn diangu,  
I'r ddinas fry, i blith y saint,  
Cai'r nefol fraint feddianu.

5 O fewn i'r wlad tu draw i'r bedd  
Caf weled gwedd ei wyneb;  
Ac yn ei fynwes llechu ca'  
Hyd eitha' tragwyddoldeb.

6 Fe gasgla 'm llwch o'r bedd i'r lan  
Yn gyfan ac yn gryno;  
Caf gorff fel fy Anwylyd gwiw,  
O hyfryd liw 'n dysgleirio.

## HYMN LXV.

Salm cvii. 1, 2.

CLODFORWCH bawb ein HAR-  
GLWYDD DDUW,  
Doed dynolryw i'w ganmol;  
Ei hedd, fel afon fawr ddi-drai,  
Gaiff ddyf'rheu ei bobol.

2 Uwch nefol len mae tanlyd lu  
Yn ei foli yn dragwydd;  
Nef, daear, dw'r, pob creadur byw,  
All dd'weyd mai da yw 'r AR-  
GLWYDD.

3 Ei air a'i amod cadw wna,  
Byth y parha 'i fyddlondeb;  
Nes dwyn ei braidd o'u poen a'u pla,  
I hyfryd dragwyddoldeb.

4 Ni *altra* ddim er gwelod bai  
O fewn i'w rai anwylla';  
Byth cofia waed Tywysog nen,  
A'i boen ar ben Calfaria.

5 Pan ballo ffafr pawb a'u hedd,  
Duw, o'i drugaredd odiaeth,  
Yn Dad, yn Frawd, yn Ffrynd a fydd  
Ar gyfyng ddydd marwolaeth.

6 Y gwaredigion ga's rhyddhau,  
O'u carchar a'u cadwynau;  
Dadseinient gân trwy 'r nef a'r  
llawr,  
Am ei fawr ryfeddodau.

7 Rhai fel yn feirw fu yn hir,  
Mewn tywyll dir yn trigo,

Yn gruddfan dro, heb lewyrch gras,  
I dd'od i maes oddi yno.

8 Mewn pydew dwfn du hwy gaed,  
Yn rhwym eu traed a'u dwylaw;  
Dan *bwer* Satan foreu a hwyr,  
Nes cael eu llwyr anrheithiau.

9 Fel cadarn wedi yfed gwin,  
Yn ngwasg ei glun a'i gleddau,  
Daeth tirion Frenin nef o'i b'las,  
I rwygo teyrnas angydd.

10 Trodd IESU 'maes yr arfog, cry',  
O'r neuadd bu 'n lleyta;  
Y carcharorion ddaeth o'u pla,  
O! canent Aleluia.

ADNODAU 3, 4, 5, 6, 7.

Y RHAI a gasglodd DUW yn nghyd,  
O eitha 'r byd a'i gyrau,  
O dir y dwyrain, mewn mawr hedd,  
Gorllewin, gogledd, dehau;

2 Rhai o bob man, rhai o bob iaith,  
Cenhedloedd maith ac achau;  
Yn ddoeth, yn ffol, fe 'u dygodd  
Duw  
'Nghyd o bob rhyw gyfyrâu.

3 Trwy yr anialwch, wydr draws hynt,  
Y buont gynt yn crwydro;  
Allan o'r ffordd, heb dref na llan,  
Lle caent hwy fan i drigo.

4 Digysur iawn, flynyddau hir,  
Mewn crasdir anngyhnefin;  
Bob pryd mewn ofn mawr a braw,  
Rhag cwmpo 'n llaw y gelyn.

5 Yn 'mofyn am yr hyfryd wlad,  
Tir Gilead, yr hen Eden;  
A'u tyb o hyd eu bod gerllaw  
I'r ochr draw 'r Iorddonen.

6 Mewn ofn mawr, dan Sinai lym,  
Dymhestlog, heb ddim heddwch;  
Tarth, tân, a mwg, echrydus bla,  
Sain udgorn a thywyllwch.

7 Mewn newyn mawr a syched tyn,  
A'u henaid yn llewygu;  
Oll i anobaith yn mron myn'd,  
Heb ganddynt ffrynd i'w helpu.

8 Yn yfed dyfroedd llwyd o'r llyn,  
Yn ngwresog ddyffryn Bacca;

Yn gorfod yfed, nid o'u bodd,  
O chwervon ddyfroedd Mara.

9 Gwaeddasant ar yr ARGWLWYDD nef,  
Yn eu cyfyngder enbyd,  
Am gael eu dwyn, cyn dyddiau hir,  
I mewn i dir 'r addewid.

10 Yna eu gwared hwynt a wnaeth  
O'u holl orthrym-gaeth foddion;  
'R hyd yr iawn ffordd fe 'u dwg  
mewn hedd,  
I dref gyfanedd dirion.

11 Gostegodd d'ranau Sinai draw,  
Yr ysbryd braw a'r ofnau;  
Daeth â hwy i Seion deg i fyw,  
At IESU gwiw a'i glwyfau.

12 Iorddonen wyllt fe drodd yn ol,  
Gwnai 'i gro fel ffordir Canaan;  
Nes daeth pob gwan, a llesg, a  
llaith,  
Trwy'r dyfroedd maith ei hunan.

13 Eu poen a'u gwae yn felustrodd,  
Oedd megys dyfroedd Mara;  
'N awr bwyta y maent bob boreu  
a nawn,  
O sypiau 'r grawn a'r manna.

## HYMN LXVI.

Dad. xvi. 11, 16, 19, 20, 22, 23, &amp;c.

COD, f' enaid gwan, yn fuan gwel  
Y wlad sy'n llifo o laeth a mel;  
Gorphwysa y rhai a ddaeth trwy ras  
O gystudd mawr y byd i maes.

2 Caersalem newydd, dinas Ner,  
Bar'towd i'r saint uwchlaw y ser;  
Adeilad pur o aur di-goll,  
Fel gwyrdd gloew 'n ddysglaer oll.

3 Ei theg rodfeydd a'i ph'lasau fry,  
A'i thyrâu *sound* yn hyfryd sy';  
Pob rhan o honi cyflawn yw  
O sanctaidd bresenoldeb Duw.

4 Ei huchel furiau nwaidd i gyd  
O feini Jaspis, hardd a drud;  
A deuddeg sylfaen iddi cawn,  
A'r rhai'n o geryg gwerthfawr iawn.

5 Ei phyrth o berl, O ryfedd waith!  
Aur yn palmantu ei heolydd maith;  
Ei llawr hi, gwydr gloew yw,  
Yn ddysglaer lân o hyfryd liw.

- 6 'D oes iddi deml o un rhyw,  
Can's Duw a'r Oen ei theml yw;  
Yma y saint yn eglur sydd  
Yn gwel'd ei wyneb nos a dydd.
- 7 Haul, lloer, a ser yma nis cawn,  
Gogoniant Duw sydd ynddi 'n  
llawn;  
Yr Oen fu â'i waed yn lli' i'r llawr,  
Sydd yn dysgleirio 'r ddinas fawr.
- 8 Y gwaredigion oll o'u bron  
Sy 'n rhodio yn ngoleuni hon;  
T'wysogion a breninoedd byd  
Ddwy eu hanrhydedd iddi 'gyd.
- 9 Ei phyrth ni cheuir ddim y dydd,  
Can's tywyll nos yno ni bydd;  
A dygir iddi 'mewn o hyd  
Ogoniant holl genhedloedd byd.

## HYMN LXVII.

*Yr Ail Ran.*

**Y**NO y mae fy Mrenin mawr  
Yn edrych rhwng y ser i lan  
Yn awr yn gwel'd fy enaid gwan;  
Yn teithio o'r anial fyd i'r lan.

- 2 Mi wela' draw fy anwyl Dad,  
Y nef sy 'n fflamio dan ei draed;  
Ar orsedd wen, ofnadwy 'n wir,  
Yn nghanol y goleuni pur.
- 3 Mae myrdd o angylion yn ei wydd,  
Ag enaid rhydd yn moli 'n rhwydd;  
Seraphaidd a cherubaidd lu  
Sy'n seinio 'n braf yn y nefoedd fry.
- 4 Mewn gwisg i'w draed, a gwregys  
aur,  
Fy Mhrynwr cadarn yno cair;  
Ger bron ei Dad yn cofio am loes  
Y goron ddrain ac angu 'r groes.
- 5 Teyrnasu mae fy Rhosyn per  
Yn mhlith y saint uwchlaw y ser;  
Mewn cariad, hedd, a gras di-drai,  
Yn eiriol dros ei anwyl rai.

## HYMN LXVIII.

*Y Drydedd Ran.*

**O** FLAEN y faingc mil miloedd  
mae,  
Pwrcas ei waed, ei chwys, a'i wae;

- Y dyrfa fawr fu gynt ar goll,  
Yn awr yn gorfoleddu oll.
- 2 Mae yno hen brophwydi hy'  
Gynt wedi dringo i'r nefoedd fry;  
Yn hardd eu lliw mewn gynau llaes,  
Yn ddysglær fel y gwyr dr glas,
- 3 'R hen wyliedyddion yno y'nt,  
'Nghyd a'r offeiriad sanctaidd gynt;  
Y patriarchiaid oll i gyd,  
Fu 'n bererinion yn y byd.
- 4 Rhai gwaredigol Israel sy',  
O bob rhyw lwyth yn moli fry;  
Caethion o'r Aipht, o Babel fawr,  
Ac o Assyria sy' yno 'n awr.
- 5 Pob un â'i goron ar ei ben,  
Yn ddysglær yn y nefoedd wen;  
Mewn gynau gwyn, hardd iawn eu  
gwaith,  
Bar'towd er tragwyddoldeb maith.
- 6 Dyma werth gwaed yr Iesu gwiw,  
Breninoedd ac offeiriad Duw;  
Blaen-ffrwyth o'r dyrfa ddaw trwy  
ras,  
O gystudd mawr y byd i maes.

## HYMN LXIX.

*Y Bedwaredd Ran.*

**Y**NO mae 'r Apostolion mawr,  
A'u gwisgoedd llaes hyd at y  
llawr;  
Yn canu yn beraidd i Fab Mair,  
Am dyrfa gredodd yn eu gair.

- 2 Myrddiynau o fertyron hy'  
A wnawd trwy dân yn ulw du;  
Ysgubion byd ddyoddefodd boen  
Tros air eu Duw ac Efengyl Iôn.
- 3 Rhai ni 's derbyniodd ddwlw a nôd,  
Nac enw 'r bwystfil mawr erioed;  
Ond rhoddi eu bywydau i lawr,  
Yn lle addoli 'r butain fawr.
- 4 Mae wedi landio yno 'n awr,  
Rai fu o flaen breninoedd mawr;  
Heb ofni 'r cleddau llym na 'r tân,  
Yn pledio tros Efengyl lân.
- 5 Babanod bychain yno sy'  
Fu feirw 'n ddystaw yn y bru;

A rhai ddyfethodd cleddau glas  
Yn newydd dd'od o'r groth i maes.

- 6 O flaen y faingc mae tyrfa faith  
O bob rhyw bobloedd, llwyth, ac  
iaith,  
Yn awr yn cael, heb boen na briw,  
Wyneb yn wyneb weled Duw.

## HYMN LXX.

*Y Bumed Ran.*

**W**EL, dyma hwy, 'r gadwedig  
hil,  
A gadwodd ar y llwybr cul;  
Trwy fôr o waed, trwy 'storm o wynt  
Y buont hwy yn teithio gynt.

- 2 Hwyt-hwy ga's heddwch gan y  
Tad,  
Hwyt-hwy a ganwyd yn y gwaed;  
Hwyt-hwy yw 'r llu sy' oddeutu 'r  
faingc,  
Yn canu'r waredigol gaingc.
- 3 Eu dagrau oll a sychwyd ffwrdd,  
Galar a thristwch byth nis cwrdd;  
Ni ddaw marwolaeth mwy na phoen  
I w'ydd y croeshoeliedig Oen.
- 4 Priod-ferch Iesu yw y rhai 'n,  
A wisgwyd oll â llian main;  
Yn edrych ar ei wedd bob awr,  
Yn nghanol y gogoniant mawr.
- 5 Coronau ar eu penau gair,  
Ac yn eu dwylaw d'lynuau aur;  
Yn canu Aleluia 'n hy'  
Nes dadsain yr holl nefoedd fry.
- 6 Gwyn fyd f'ai 'mhlith y miloedd  
myrdd  
Sy 'n awr yn gwisgo y palmwydd  
gwyrrdd;  
O ARGWYDD da, dywed a gai  
I fod yn un o'r dysglær rai?

## HYMN LXXI.

*Am ddyoddefaint Crist.*

**F**Y enaid, mae am ganu mawl  
Am roi im' hawl o'r nefoedd  
fry;

Trwy chwys a gwaed yr addfwyn  
Oen,  
A'i ddirfawr boen ar Galfari.

- 2 Yno y bu afonydd mawr  
O waed i'r llawr yn d'od yn lli';  
I'm dwyn i'r nef o'r 'ffernol nyth,  
Mi gofiaf byth am Galfari.
- 3 Mi gofia' ei gri Ef ar y groes,  
Yn eiriol dros ei ddefaid rhi';  
Gan 'bledio â'i Dad am faddeu eu  
bai,  
Byth cofio wna' i am Galfari.
- 4 Gwirion a llonydd fel yr oen  
Dyoddefai boen ein beiau ni;  
Yn fodlon yn ei chwys a'i wae;  
Byth cofio wna' i am Galfari.
- 5 'N ol aros oriau ar y pren,  
'Fe grymai 'ben tua'r ddaear ddu;  
Gorphenwyd iechydwrriaeth, do,  
Boed hyn mewn co' am Galfari.
- 6 Yno bu farw f' anwyl Ffrynd,  
I mi gael myn'd i'r nefoedd fry;  
Pan b'wy' yn mhlith angylaidd rai,  
Byth cofio wna' i am Galfari.
- 7 Trywanwyd yno waewffon  
Mewn tan ei fron, er maint ei fri;  
Daeth dw'r a gwaed i'r llawr yn  
llym,  
Byth cofiaf ben bryn Calfari.
- 8 Pryd hyny clow'd ar uffern drist,  
Trwy allu CRIST ein Prynwr ni;  
Agoriad hon sydd uwch y nen;  
Mi gofia' am ben bryn Calfari.

## HYMN LXXII.

*Cwestiynau.*

**D**'WED a gaf fi wel'd dysgleirdeb-  
D' wyneb bra', Iesu da,  
Draw yn nhragwyddoldeb?

- 2 D'wed i mi, a gai deyrnasu  
'Draw i'r bedd, byth mewn hedd,  
Gyda 'm hanwyl Iesu?
- 3 D'wed a gai y gwyrddlas balmwydd;  
Coron wen, ar fy mhen,  
I'w gwisgo yn dragwydd?

- 4 A ga' i fyn'd heibio uffern danllyd,  
Yn dy law, heb ddim braw,  
Mewn i dir y bywyd ?
- 5 Os ca' i bythol wel'd dy wyneb  
Dysglær hardd, fy enaid chwârdd,  
Draw yn nhragwyddoldeb.
- 6 Hiraeth sy' ar fy nghalon dyner,  
Wel'd y dydd, fyn'd yn rhydd,  
Maes o'm poen a'm blinder.
- 7 Gwynfyd a f'ai heddyw 'n canu  
'Mhlith y llu, sanctaidd fry,  
Sydd wedi gorchfygu.

## HYMN LXXIII.

*Gobeithio yn erbyn Gobaith.*

**P**AHAM yr ofna 'm henaid cu  
I landio i'r hafan hyfryd fry?  
On'd oes mil myrdd heb aeth na  
braw,  
O frodyr yn fy nghroeso i draw ?

- 2 Ac oni chaf fi fod yn mhlith  
Y ffryns a gâr fy nghalon byth?  
Gwryfyon pur, cywir i'r lôn,  
Cariadau 'r croeshoeliedig Oen.
- 3 Os fi bechadur gaiff fyn'd fry,  
Yn iach o'm briw i blith y llu  
Sy' a'u gwisgoedd hardd fel eira  
gwyn,  
Yn canu fry ar Seion fryn,
- 4 Fy llais a glywir uwch y llen  
Yn dadsain yr holl nefoedd wên,  
Yn mhlith y dorff bwrcasodd gwaed,  
Ag enaid rhydd yn gwaeddi—Rhad.
- 5 Wrth feddwl am yr hyfryd fraint  
O foddi 'm swyn yn mhlith y saint,  
Mae 'm henaid bach am godi 'n lân  
I'r nefoedd fry mewn fflam o dân.

## HYMN LXXIV.

*Rhyddid.*

**D**Y lwybrau di y'nt hyfryd iawn,  
Dy ffyrdd y'nt lawn hyfrydwch;  
Nag amlder yd neu win, fy Nŵw,  
Melusach yw dy heddwch.

- 2 I ni oedd gaeth rhoi'st ryddid bra',  
Daeth jubil gwaredigion;  
Rhwygasom lèn trwy rinwedd gwaed,  
Mae 'n dwylo a'n traed yn rhydd-  
ion.
- 3 Mae 'n traed yn awr ar wddf y  
ddraig,  
Trwy Hâd y Wraig sy 'n eiriol;  
Awn, gan fod IESU ar ein rhan,  
I'r lân, i'r lân yn wrol.
- 4 Yn mlaen heb ffoi trwy gyflawn  
ffydd,  
Tra fyddo 'r dydd yn para;  
Pob un ag sydd â'i sicr sail  
Yn haeddiant yr ail Adda.
- 5 Rho'ist in', O DUW, dy nerthol ras  
I gario 'r maes hyd yma:  
Ebenezer, ni gongwerodd,  
Hyd nefoedd, Aleluia.

## HYMN LXXV.

*Gweddi am Fadduuant a Nerth.*

- P**ECHADUR wyf erioed,  
O halogedig ryw;  
Gwrthwynebwr fynd i fod  
Yn erbyn gras fy Nŵw!  
Fy meiau mawr, O maddeu 'n rhad,  
Ar gyfrif gwaed f' Anwylyd gwiw.
- 2 Mae rhwystrau o fy mlaen  
I'r etifeddiaeth rad,  
Mae dyfroedd mawr a thân  
Oddi yma i dŷ fy Nhaid;  
O ARGLWYDD, gwel fi 'n llesg a  
gwan,  
A dwg fi 'r lân i'r nefol wlad.
- 3 Fe wŷr f' Anwylyd cu  
Fod llu o elynion im',  
Y rhai 'n yn gyfrwys sy',  
Yn nerthol, mawr eu grym;  
Rho i mi ras i anturio 'n hy',  
Trwy ganol llu 'ngelynyon llym.
- 4 Palmantâ 'r llwybr cul  
Sy 'n myn'd tua thŷ fy Nhaid,  
Nas gallo 'r ddraig a'i scil  
I syfryd dim o'm traed;  
O dwg fi mlaen tros fryniau pell,  
I'r ddinas well bwrcasodd gwaed.

- 5 'Rwy 'n gorwedd dan fy mhwn,  
Fy nghalon fach sydd friw;  
Fe 'm llehir i gan hwn,  
O, help, f' Anwylyd gwiw:  
O tyr'd yn glau, dwg fi i'r lân,  
I'r hyfryd fan mae 'r saint yn byw.
- 6 Pob llif, a firwd, a thôn,  
Pob gwawd ac erlid llym,  
Hwy aethant tros fy mron,  
Mi adwaen eitha' eu grym;  
Tros ronyn bach dysgwyl a wna',  
Mi wn daw gwaredigaeth im'.

## HYMN LXXVI.

*Gwroldeb a buddugoliaethau Ffydd.*

- F**FFYDD ydyw 'm sicr sail y daw  
'R hyn wy 'n ei ddysgwyl oddi  
draw;  
Fy nghadam sicrwydd yw a'm nôd,  
O'r peth nis gwelodd neb erioed.
- 2 Trwy ffydd ehedeg wyf yn hy'  
I entych awyr deneu fry;  
Ac yno 'n gwel'd gogoniant llawn,  
Trwy sicrwydd anffaeledig iawn.
- 3 Trwy ffydd, pan b'wy' yn uchel fry,  
Ac edrych tua 'r ddaear ddu,  
'R wy' yn ei gwel'd fel pellen gron,  
Na thâl rhoi calon byth ar hon.
- 4 'R wy 'n gwel'd peth yn guddiedig  
sydd  
I lygaid cnawd, yn blaen trwy ffydd;  
Fy rheswm balch a orfu dd'od  
I lechu o'r diwedd dan fy nhroed.
- 5 Trwy ffydd, fy ngobaith cadarn yw,  
Sylfaenw'd e' ar gyfawnder Duw;  
Er maint yw llid a brad y ddraig,  
Ni sodda'i byth tr'wy' ar fath graig.
- 6 Trwy ffydd, 'd wy 'n cyfri fy holl  
waith,  
Na 'm mhoen na 'm dyledswyddau  
chwaith,  
Ond colled, ac fel tom y byd,  
Ar waed yr Oen 'r wy 'n pwyso  
'gyd.
- 7 Trwy ffydd, rhow'd i mi allu cry',  
I daro lawr elynion lu;
- I orfoleddu ar angeu glâs,  
Pan b'wy' yn myn'd o'r byd i maes.
- 8 Trwy ffydd, 'r wy 'n sefyll pan b'wy'  
lawr,  
Dan d'wyllwch, mewn goleuni  
mawr;  
Ni alla' i gredu 'r af ar goll,  
Pan bo fy ngras o'r golwg oll.
- 9 Trwy ffydd, 'r wy 'n credu pardwn  
rhâd,  
'R hyn sydd yn d'rysu cig a gwaed,  
I feddwl fod Duw 'n cyfiawnhau  
Y rhai ag sydd yn llawn o fai.
- 10 Trwy ffydd 'r wy 'n cadw deddf fy  
Nŵw—  
Yn difa llygredd o bob rhyw;  
Dyma'r fath rinwedd sy 'n fy ffydd,  
Mae 'n puro 'nghalon nos a dydd.
- 11 Trwy ffydd, galara 'm henaid trist,  
Pan gwelwy' i'm drywanu'm CRIST;  
Fy nghalon fach yn ddyfroedd dôdd,  
Molianu Duw a wna'f ar goedd.
- 12 Fy ffydd, symud fynyddoedd im'  
O bechod ac euogrydd llym;  
Hi thawl i eigion môr yn wir—  
Y môr o waed a chariad pur.
- 13 Trwy ffydd yr wy 'n gongcwerwr  
llym,  
Er nad wyf fy hun yn gallu dim;  
Can's mentro 'r wyf i roddi 'n lân  
Fy Nŵw yn darian o fy mlaen.
- 14 Trwy ffydd 'r wy 'n rhoi 'm gelynyon  
glwy',  
Nad ofnwy' mo 'u bradwriaeth  
mwy;  
O herwydd rhoi JEHOFÂ 'ngrym  
Eilwaith o'r tu cefn im'.

## HYMN LXXVII.

Can. ii. 10, 11, 12.

**F**FARWEL, bleserau 'r byd,  
Ei freulyd fri a'i fraw;  
Ni 'hedwn mwy fel adar mân,  
I'n trigfan treiglwn draw:  
Cawn yno hyfryd hedd,  
A rhyfedd roddion rhâd;

- O dewch, O dewch, ni awn yn hy'  
Tua 'r wledd sy 'n nhŷ ein Tad.
- 2 Henffych, gyfeillion da,  
Fe ddaru 'r gaua' i gyd,  
Yn awr mae llais y durtur lon,  
Lân dirion yn y byd ;  
Fe ddaeth yr hyfryd haf,  
Yn beraidd braf i'n bro,  
Gogoniant fo i'r IESU byw,  
Fe'n carodd Duw ni, do.
- 3 Yn awr mae 'r adar mân  
Ar dân yn moli Duw,  
Yn awr mae 'r haul a'r nefol hin  
Ar rai o'r werin wiw ;  
Fe ddaeth y Jubili,  
On'd braf yw 'n bri a'n baint ?  
Cawn fyn'd i dre' ar fyr o dro  
I seinio gyda 'r saint.
- 4 Ein brodryr sydd o'u bron  
Yn morio i Seion wiw,  
Mewn hyfryd hwyly'n myn'd tua 'r  
wlad  
Lle mae ein Tad yn byw ;  
Cawn landio oll i'r lân,  
I'r hafan hyfryd fry,  
I blith y rhai sy 'n gwaeddi 'n rhâd  
Am gariad IESU cu.

## HYMN LXXVIII.

Can. viii. 5, 6, 7, 13, 14.

O'R DR. WATTS.

- O PWY yw hon sy 'n llesg a  
gwan,  
O'r anial fyd yn d'od i'r lân ?  
Gan faint ei bai, blinedig yw,  
Yn pwyso ar ei Hanwylyd gwiw.
- 2 Hon yw priodferch CRIST ein Duw,  
Gwerth gwaed ei galon dyner yw ;  
Mae 'n pledio âg Ef, braf yw ei  
braint,  
A'i phle' sy 'r un a phawb o'r saint.
- 3 'Sgrifena 'm henw 'n ddysglaer iawn,  
Rhwng dy ddwy fron mewn geiriau  
llawn ;  
Er mwyn fy nghadw 'n lân rhag  
braw,  
'Sgrifena fe eilwaith ar dy law.

- 4 Sêl fi ar dy fraich yn nôd di-lyth,  
Fy mod yn briod i ti byth ;  
Gwisg fi yno 'n arwydd iddynt hwy  
Nas galli fy anghofio i mwy.
- 5 Cryfach nag angyon, trech na 'r bedd,  
Yw nerth dy gariad a dy hedd ;  
Digofaint Duw, fel afon gref,  
A ffaelodd a'i ddiffoddi ef.
- 6 Er cytuno 'r ddae'r ac uffern ddu,  
A'r holl elyllon ynddi sy',  
Och, ofer iawn eu gwaith yn wir,  
I geisio diffodd tân mor bur,
- 7 Ond ofni 'r wyf i'm calon fyn'd  
Ryw bryd ar ffo oddiwrth fy Ffrynd ;  
Am hyny gwisg fy enw 'n llon,  
Fel *seinet*\* ddysglaer ar dy fron,
- 8 Nes dygost fi i'm tragwyddol nyth,  
Lle nad oes neb yn amheu byth,  
Gâd im' fwynhau dy nefol hedd,  
A'm lloni mewn gwastadol wledd.
- 9 O tyr'd, f' Anwylyd, brysia, bydd  
Yn awr fel iwrch neu lwdn hydd ;  
Nac oeda, ond tyred maes o law,  
Dros fynydd y pêr-lyisiau draw.

## HYMN LXXIX.

*Gwaed Crist yn sylfaen Gobaith.*

- 'N AWR sicr sail i 'ngobaith sy'  
'Ngwaed calon fy Anwylyd cu ;  
Bythol gyfiawnder IESU yw,  
Ataliodd, do, ddigofaint Duw.
- 2 Fel grisial fôr y gwaed sydd im',  
Fe gânodd f' enaid bach yn wŷn ;  
Ond hwn yw 'r Aberth, hwn yw 'r  
Iawn,  
Rydd i mi waredigaeth lawn.
- 3 Gwaed CRIST faddeuodd i mi'n rhad,  
Gwaed fy heddychodd i â'r Tad ;  
Gwaed seliodd y cyfamod hedd,  
Gwaed faeddodd bechod, angyon, a'r  
bedd.
- 4 Ar waed yr Oen yr wyf yn byw,  
Trwy nerth y gwaed 'r wy 'n caru  
Duw ;

\* *Signet*

- Trwy 'r gwaed 'r wy 'n congro  
uffern lu,  
Trwy 'r gwaed mi ddringa' i'r nef-  
oedd fry.

## HYMN LXXX.

*Y Gwin-dŷ.*

- O IESU hy', y Meddyg hael,  
Sy 'n ffyddlon Ffrynd trosedd-  
wyr gwael,  
F' anwylyd inau yw ;  
Angerddol dân dy gariad Di  
Gorchfygu wnaeth fy enaid i,  
Mi 'th garaf tra f'wy' byw.
- 2 P'odd galla' i ganmol IESU gwiw,  
I'm dwyn o'r dom mewn hedd â'm  
Duw ?  
Rhyfeddol oedd ei ras !  
Pan bo yn rhoi 'm o'i gariad rhad  
Blaen-ffrwyth ei wae, ei chwys, a'i  
wae'd,  
Mae 'n well na 'r gwin ei flas.
- 3 Dy olwg wiw a'th wridog wedd,  
Dy berson hardd, dy nefol hedd,  
Orchfygodd f' enaid gwan ;  
Mwy nerth yn glir nag angyon glas  
Yw hyfryd rin dy nefol ras ;  
Fe 'm dwg o'r byd i'r lan.
- 4 O'r diwedd de's i win-dŷ Duw  
Trwy rinwedd gwaed fy IESU gwiw,  
I dawel hyfryd wlad ;  
Mae yno i'w gael botelau gwin,  
Afalau, rhai o nefol rin,  
I'r cleifion gael iachad.

## HYMN LXXXI.

O'R DR. WATTS.

- O 'MUGAIL gwych, fy IESU  
gwiw,  
Hoff yw dy lais, hardd yw dy liw,  
Rhagori 'r wyt, f' Anwylyd cu,  
Ar ddengmil o'r angyon fry.
- 2 Ie, gwyn a gwridog, hawddgar oll,  
Cyfaill y rhai fu gynt ar goll ;

D

O melus odiaeth yw dy fin,  
A'th gusan fel llysieuog win.

- 3 Pan byddwy 'n teimlo bod dy waed  
Yn maddeu 'meiau mawr yn rhad,  
Fy nghalon fach enyna 'n wir  
Yn ddysglaer fflam o gariad pur.
- 4 Pan gallwy' ddweyd, Ti yw fy rhan,  
Pan teimlwy 'th hedd yn f' enaid  
gwan,  
Pryd hyn 'r wy 'n dringad uwch y  
byd,  
Yn damsiad ei bleserau 'gyd.
- 5 O ARLWYDD, hyfryd yw dy hedd,  
Melus ddanteithion sy 'n dy wledd ;  
'R angyon fry erioed ni cha's  
Un prawf o waredigol ras.
- 6 Pan, IESU da, bo 'th gariad Di  
I'm henaid llon yn d'od yn lli',  
Mi allwn aros yno 'n rhydd  
Ryw faith ac annerfynol ddydd.
- 7 Y nos â heibio cyn bo hir,  
Caf landio i wlad goleuni pur ;  
Caf fyn'd ar nawf, caf wneud fy  
nyth  
Yn mreichiau 'r Hwn a garaf byth.
- 8 Yno yn lli' mae gwynfyd llawn,  
Cysuron cu bob moment cawn,  
A gwel'd ein hanwyl Briod hardd  
Yn rhodio 'r Baradwysaidd ardd.
- 9 Cawn yfed byth o'r afon bur,  
A bwyta o Bren y Bywyd gwir ;  
Heb friw na phoen cawn fod yn  
mhlith  
Seraphiaid Duw yn moli byth.
- 10 O anwyl ARLWYDD, tyr'd mewn  
hedd,  
Arwain ni 'mewn i'r nefol wledd,  
I fwyta 'r llo pasgedig rhad,  
A dawnsio fry yn nhŷ ein Tad.

## HYMN LXXXII.

*Nefoedd yn Agoshau.*

- Y MAE  
Y dydd yn d'od i'r duwiol rai  
I felus foli Duw 'n ddi-drai,  
Yn mhlith y rhai sydd fry mewn  
hedd,  
I'r addfwyn Oen yn canu 'n rhwydd,  
Ac yn ei wŷydd gael gwel'd ei wedd.

- 2 Braf, braf  
Yw meddwl am fath hyfryd haf,  
Ei wel'd a'i brofi gwn y caf;  
Yn mlaen yr âf trwy nerth fy  
Nuw  
Nes myn'd i mewn i'r Ganaan fry,  
I fysg y llu sy 'n hardd eu lliw.
- 3 Pwy, pwy  
Lawenydd sy' i mi yma 'n hwy?  
'R wy 'n blino ar y byd lle 'r wy';  
Mae hiraeth trwy fy enaid i  
Am gael fy nwyn i maes o'r cnawd,  
I gôl fy Mrawd a'm Priod fry.
- 4 'Fe, 'Fe  
A'm carodd cyn bod dae'r na ne',  
Aeth dan law 'r lleiddiaid yn fy lle;  
A thyma 'r ple sydd gyda mi  
I *glaimio* hawl i'r nefoedd lân,  
Aftwyddo yn mlaen i'r Ganaan  
fry.
- 
- HYMN LXXXIII.
- I Cor. iii. 21, 22, 23.
- M**AWR drysor sydd yn eiddo 'r  
saint,  
Mewn ardal braf daeth iddynt  
fraint;  
Gwlad uwch y ser, gwlad *sound* ei  
sail,  
Mae 'n tywynu ar hon Gyfiawnder  
Haul.
- 2 'Tifeddion y'ch trwy Iesu gwiw  
O'r cyfan ag a greodd Duw;  
Mae genych hawl o'r pethau sy'  
O uffern drist i'r nefoedd fry.
- 3 Fe 'i rhwymwyd ich' mewn amod  
drud,  
Rhwng Duw a'i Fab cyn creu y byd;  
Hwy seliwyd ich' o oes i oes,  
Trwy waed yr IESU ar y groes.
- 4 Eich hyfryd fraint 'n awr, rhyfedd  
yw,  
Cyd-etifeddion â Mab Duw;  
Paul, 'Pollos, Cephas, bywyd, byd,  
Ac angu glas ro'wd i chwi 'gyd.
- 5 Jehofah Ner ydyw eich Tad,  
Yr Ysbryd yw 'ch Sancteiddydd  
rhad;  
CRIST yw eich Brawd a'ch ffyddlon  
Ffrynd—  
Eich Priod fyth, cewch ato fyn'd.

- 6 Myrdd o angylion dysglaer sy'  
Odden tu 'ch ffordd i'r nefoedd fry;  
Er maint cyfrwysdra'r ddraig a'i hil,  
Chwi gedwir ar y llwybr cul.
- 7 Chwi gewch eich dwyn o ras i ras,  
Nes myn'd yn lân o'r byd i maes;  
Ar fyr chwi gewch fyn'd fedd-  
ianu 'r fraint,  
'Tifeddiaeth siwr y ffyddlon, saint.
- 

HYMN LXXXIV.

Can. iii. 6, a vi. 10, a iii. 13;  
Esai. iv. 5.

**O**PWY yw hon sy 'n d'od yn hy',  
Yn lew i'r lan fel rhwng  
dau lu,  
O'r dywyll Aiphataidd wlad?  
Gan roddi pwys ei henaid pur  
Ar IESU gwiw, 'r Messiah gwir,  
Ei Ffrynd a'i Phrynwr rhad.

- 2 Fel colofnau mwg ei henaid mae,  
Mewn nefol hwyl yn llawenhau,  
'N awr yn meddianu 'n wir  
Ras o bob rhyw, cysuron rhad,  
Fel peraroglau pell a gaed,  
O hyfryd thus a myrr.
- 3 Dan Pharaoh hen mewn tywyllwch  
hir,  
Yn poeni 'n dost mewn anial dir,  
Yn y caethiwed draw,  
Yn llesg ei hwyl yn wir bu hon,  
Dan lawer ffrwd, a llif, a thon,  
Mewn dychryn mawr a braw.
- 4 O'r dyfnder du i'r lan y daeth,  
Tua 'r wlad sy 'n llifo o fêl a llaeth,  
Yr etifeddiaeth fras;  
Yn llawn o hedd mae 'n awr mewn  
hwyl,  
A'i nefol gaingc yn cadw gŵyl,  
Am dd'od o'r Aipht i maes.
- 5 Hi deithiodd yr anialwch mawr,  
Gan gludo Amalec i lawr,  
'Nghyda breninoedd gwych;  
Ca's ddw'r o'r graig, ca's fanna  
gwiw,  
Dan Sinai fe 'i cynaliodd Duw  
Pan oedd yn sal ei drych.

- 6 Duw sy' iddi 'n blaid, hi ga's o'i  
blaen  
Y cwmwl niwl a'r golofn dân,  
Eneiniad yr holl saint;  
Hi w'yr y ffordd i Ganaan draw,  
Ni chyfeiliorna hi ar un llaw  
Nes cael meddiann 'r fraint.
- 7 Fel boreu wawr fe welir hon,  
Teg fel y lloer mae ei hwyneb llon,  
Mewn cariad, gras, a hedd;  
Fel haul heb un brycheuyn du,  
Yn ofnadwy fel banerog lu;  
On'd hyfryd yw ei gwedd?
- 6 Yno ni ddaw annuwiol ddyn  
I ddeffro neb o'i felus hûn;  
Yno y caiff lluddedig rai  
I orphwys byth o'u poen a'u gwae.
- 7 Y rhai a fu mewn carchar prudd,  
Sydd yno oll yn awr yn rhydd;  
Y bach a'r mawr oll o'r un fryd,  
Yn llonydd iawn yn llechu yn nghyd,
- 8 'D oes yno ryfel o un math,  
Nac ofn briw un danllyd saeth;  
Ni ro un gelyn yno glwy',  
'Fydd llais gorthrymwr yno mwy.

HYMN LXXXV.

Preg. iv. 2, 3; Dad. xiv. 13;  
Job. iii. 13, &c.

Ar Gladdedigsaeth.

**W**RTH edrych ar y cystudd  
mawr  
Sydd yma i'w gael bob mynyd  
awr,

Y gofid trist, y poen a'r traul,  
Llafur a lludded sydd dan haul,—

- 2 Gwel'd dagrau 'r gorthrymedig rai,  
Yn gruddian dan eu dwfn wae:  
Eu teiswyr llym ni's clyw eu llef,  
Heb gysur iddynt dan y nef;
- 3 Yna mi a ganmolais, do,  
Y rhai sydd wedi marw er's tro,  
'N fwy na rhai byw sy 'n teithio 'n  
awr,  
Yn nghanol yr anialwch mawr.\*
- 4 Yno y cânt, heb wae na gwŷn,  
Yn mhlith y meirw, rhoddi hûn;  
A'u tŷ o glai mewn daear gyd,  
Yn mhell o swm daearol fyd,
- 5 'Mhlith tyrfa gymysgedig faith  
O bob rhyw bobloedd, llwyth, ac  
iaith,  
Sy' mewn dystawrwydd mawr a  
hedd  
O fewn 'stafelloedd oer y bedd.
- \* Yn nesaf at y penill hwn yn yr Argraffiad  
cyntaf, ond a adawyd allan o'r holl rai dil-  
ynol, y mae hwn,—  
A gwell na 'r ddau yw rhai a fu  
Farw 'n ddirgelaiud yn y brw,  
Neu 'r hwn yn ddystaw aeth mewn hedd  
Yn faban bach i waelod bedd.
- 10 Byr iawn yw 'r pleser sydd dan  
haul,  
Ar ol ei gael trwy boen a thraul;  
Fel meltlen fe ddiffana 'n llawn,  
Gwna, cyn cael gafael arno 'n iawn.
- 
- HYMN LXXXVI.
- Yr Ail Ran.
- B**ETH dal im' roi fy serch a'm  
bryd  
Ar ddim a wela' i yn y byd?  
Da, daear, dw'r, pwy gysur yw  
Y dydd y dêl digofaint Duw?
- 2 Och, pwy a roddai ei bwys ar ddyd  
Sy 'n llesg a gwan fel corsen grin!  
Ar beth mor frau, pwy roddai 'fryd?  
Plant Adda, gwagedd y'nt i gyd.
- 3 Pan byddwy'n myn'd o'r byd i maes,  
Yn siglo llaw âg angu glas,  
Pryd hyn pwy help fy enaid gwan  
I ddringo o'r anial fyd i'r lan?
- 4 O'r dywyll wlad pan b'wy' yn myn'd,  
Fy IESU fydd fy ffyddlon Ffrynd;  
Pwy frawd, pwy chwaer, pwy gyfaill  
gwell,  
Ddaw'm hebrwng i'r ardaloedd pell.
- 5 Efe yw 'm Brawd, Efe yw 'm Duw,  
Efe yw 'm Ffrynd a'm Priod gwiw,  
Efe yw 'm Hysgod i a'm Pen  
I ddringo i entrych nefoedd wen.



- 6 Fy Mrenin a fy Mhrophwyd mawr  
Fy nysgu wna bob mynyd awr ;  
F' Eiriolwr, f' Archoffeiriad braf,  
Mi cara' i dragwyddoldeb, gwnaf.
- 7 Fy Mugaill yw, fe 'm ceidw 'n glyd  
O fewn ei gôl tr'wy' yn y byd ;  
Fe 'm portha i â'i nefol ras  
Nes myn'd yn lân o'r byd i maes.

## HYMN LXXXVII.

*Achwyniad.*

- G**YNT gwelais lwybr rhydd  
O'r ddaer i entrych nen :  
Ond 'n awr tymhestloedd sydd  
Yn rhuo uwch fy mhen :  
Cofia, O Dad, nad wyf ond llwch,  
Maddeu o'r trwch fy meiau 'n rhad.
- 2 Fy mhechod, gwae fi erioed,  
A'm llygredd o bob rhyw,  
Sy 'n peri 'n llyn fy mod  
Heb brofi heddd fy Nw :  
Cofia, O Dad, &c.
- 3 Mi dreiais ddyddiau hir  
Gongcwerio pechod cas ;  
Mae fy enaid bach yn glir  
Yn ffaeluo cario 'r maes :  
Cofia, O Dad, &c.
- 4 Meddyliais lawer pryd  
Na ddoi fy mechod mwy  
Yn eitha' ei rym a'i lid,  
I roddi i mi glwy' :  
Cofia, O Dad, &c.
- 5 Ar ol cael congwest dro  
Ar fawr elynion lu,  
Yn union-gylch mi ddo'  
I ganol rhyfel du :
- 6 Mi addunedais, do,  
'I wrth'nebu yn nerth dy ras,  
Ac eilwaith lawer tro  
Cofeidiiais bechod cas :  
Cofia, O Dad, &c.
- 7 O ARGLWYDD, d'wed i mi,  
Ai fel hyn bydda' i byw ?  
Yn nychu f' enaid cu  
Gan lygredd o bob rhyw ?  
Cofia, O Dad, nad wyf ond llwch,  
Maddeu o'r trwch fy meiau 'n rhad.

## HYMN LXXXVIII.

Can v. 10: *Fy Anwylyd, &c.*

- M**AE 'm Prynwr mawr yn Dduw  
a dyn,  
Ac felly yn perthyn i mi,  
Tywysog cadarn, Brenin cry,  
Yw IESU fu 'n fy mhrynu.
- 2 Mae 'n wyn a gwrldog yn ddi-lai,  
Ar ddengmil mae 'n rhagori ;  
Nid oedd neb deilwng ond Efe  
Fod yn y ne 'n teyrnasu.
- 3 Mae 'n wrldog, fe ddyoddefodd<sup>1</sup> fry  
Ar Galfari farwolaeth ;  
Fe 'n prynodd trwy ei waed di-nam  
O ddygn ddamnedigaeth.
- 4 Mae 'n wyn, ni chafwyd ynddo fai,  
Un pechod neu anmhurdeb ;  
Mae 'n gymhwys iawn, fe bledia 'n  
bra',  
Yn mhebyll tragwyddoldeb.
- 5 Pwy a gymharir iddo Ef  
O fewn i'r nef ddysglaerwen ?  
'D oes angel, sant, na seraph fry  
Gyffelyb i fy Nghapten.
- 6 Pe chwilid fry yn mhlith y ser,  
Y byd a'r dyfnder isod,  
'D oes neb a fu, na neb y sy'  
Gyffelyb i fy Mhriod.
- 7 Mae ynddo ddwfn fôr di-drai  
O gariad a thosturi ;  
Mae 'n barod iawn i faddeu bai  
Ei briod a'i ddyweddi.
- 8 Ni fedda' i ffrynd, na mam, na thad,  
A'r cyfryw gariad i mi ;  
Mewn culni, gofid, poen, a gwae,  
Yn wastad mae 'n fy ngharu.
- 9 Fy Nghyfaill goreu yn y byd  
Yw fy anwylyd IESU ;  
Ffarwel, greaduriaid, i chwi mwy,  
'Fe 'n unig wy 'n ei garu.
- 10 'Fe blediodd troswyf ar y groes  
Pan oedd ei loes Ef chwera' ;  
Do ! 'Fe 'm haddefodd i yn llyn  
Ar gopa bryn Calfaria.
- 11 O fewn i'r byd ni bu yn bcd  
Neb im' erioed mor ffyddlon ;  
Gwirionedd yw, nid oes o'i fath,—  
O'r diwedd f' aeth â'm calon.

## HYMN LXXXIX.

*Ymadawiad â'r cwbl.*

- F**E ddarfu i mi 'n awr i gyd  
A darfodedig bethau 'r byd ;  
'R hyn sydd i dd'od, yn fuan ddaw,  
Diddiwedd dragwyddoldeb draw.
- 2 O dragwyddoldeb, ddedwydd ddydd,  
Yn oed ei sŵn e 'n hyfryd sydd ;  
Fy hapusrwydd mwy i bara sy'  
Tra paro Dŵw 'n y nefoedd fry.
- 3 Mae ynwyr' i ddymuniaidau 'n awr  
Na leinw 'r greadigaeth fawr ;  
Hwy 'n gyflawn ni ddigonir byth,  
Nes elwyf i'm tragwyddol nyth.
- 4 Caf yfed dw'r fel grisial clir,  
O lygad Ffynon bywyd gwir ;  
Ca 'm hadnewyddu yno 'n wir  
A ffrydiau o lawenydd pur.
- 5 Caf glywed yno y Tri yn Un,  
O galon gywir a chytun,  
Yn cyhoeddi i mi heddwch llawn,  
A chysur annhraethadwy iawn.

## HYMN XC.

*Gweddi am gadw ar lwybr y bywyd nes  
dyfod i hapusrwydd.*

- D**UW, cadw f' enaid bach o hyd  
Uwchlaw y byd a'i ddrygau,  
Gan lwyrr ddibrisio 'i boen a'i wae,  
Ei drallod a'i gystuddiau.
- 2 Fel na b'wy 'n gwranddo ar ei dwrf,  
Ei gynwrf a'i ruadau ;  
Gan deithio 'r llwybr cul bob cam,  
A meddwl am fy nghartre'.
- 3 Heb gyfeiliorni ar un llaw,  
Nes myn'd tu draw 'r Iorddonen,  
At seintiau flinodd ar y byd,  
Sy 'n awr i gyd yn llawen.
- 4 Yn gorphwys yn y Ganaan bur,  
Preswylfa 'r gwir dduwiolion ;  
Tir yr addewid hyfryd draw—  
Gwlad lle nas daw gelynon.
- 5 Gorphwysfa dawel, deg, ddi-'stwr,  
Sydd yno i'r gw'r lluddedig ;  
Afonydd gloew, pur, di drai,  
I ddiodi 'r rhai sychedig.

- 6 Ac yno mae fy Mrenin mawr  
Yn daer yn awr yn eiriol,  
Gan bledio ei angu ddydd a nos,  
Yn ffyddlon dros ei bobol.

## HYMN XCI.

*Gwyn fyd y pur o galon.*

- G**WYN FYD y rhai dileaist eu bai,  
Eu pechod a'u hanwiredd ;  
Gan roi iddynt nerth, ercnawd a byd,  
I bara hyd y diwedd.
- 2 Y rhai sy 'n cadw 'th heddo o hyd,  
Er gwaetha 'r byd a'i ddrygau,  
Gan wylie beunydd yn ddi-goll  
Ar gadw 'th holl gyfreithiau.
- 3 A'u cydwylbod fel lliain main,  
Heb arni staen na brychau ;  
Heb gyfeiliorni 'mlaen neu 'n ol,  
Ond dilyn ôl dy gamrau.
- 4 Pwy ddrwg wna 'r gelym i'r rhai hyn,  
Sy 'n rhodio yn dy ddeddfau ;  
Cyfeillach dawel bur â'u Dŵw  
Gânt yn mhob rhyw gyflyrau.
- 5 Fel pwysi myrr eu Hanwylyd tlws,  
Sydd liw nos rhwng eu bronau ;  
Nid yw eu Priod hwy 'n cyffroi,  
Na byth yn ffoi o'u breichiau.
- 6 Hwytnt-hwy sy 'n eistedd tan ei w'ydd,  
A'i ffrwythau sydd yn felus ;  
Ac ynddo ef yn llawenhau,  
A'u henaid mae 'n ddyddanus.
- 7 Ar drysor fry yn wastad mae  
Eu calon a'u dymuniad ;  
O fewn i'r gwin-dy, braf eu ffar,\*  
'N ymborthi ar ei gariad.

## HYMN XCIII.

**E**ŠGYNODD ein HIESU  
I fynwes ein Nêr,  
Gwnaeth i ni le dysglaer  
Yn mhell uwch y ser ;  
Dewch, dringwn o'r ddaear  
I'r nefoedd yn hy',  
Gael coron dragwyddol,  
Wych freiniol sydd fry.

\* *Fare.*

- 2 Cawn driagl peraidd,  
Cawn olew, cawn win,  
Cawn ddail Pren y Bywyd  
Sy 'n hyfryd eu rhin,  
Roi wrth ein doluriau,  
'N cystuddiau, a'n cur,  
Nes gwneuthur rhai afiach  
Yn holl-iach yn wir.
- 3 Cawn wared o'n hadfyd,  
A'n gofid i gyd,  
Pob terfysg, a dwndwr,  
A chynwrf y byd ;  
'Ddaw blinder, na thrallod,  
Na phechod, na phoen,  
Na gelyn na gormes  
I fynwes yr Oen.
- 4 'R ym yma mewn lludded  
Gan dwymed y dydd,  
Ond syched a blino  
Byth yno ni bydd ;  
Cawn yfed o'r afon  
Yn gyson i gyd,  
Sy 'n tarddu dan orsedd  
Y bywyd cyn byd.
- 5 Pryd hyny 'n gorthrymder  
A'n trymder awn trwy,  
Ni chyfyd un gelyn  
'N herbyn byth mwy ;  
Fe gloir ein gelynyon  
Yn gyson i gyd,  
Mewn pydew diwaelod  
Oedd barod cyn byd.
- 6 Héb gaethder na phrinder,  
Nac eisiau 'n y byd,  
Cawn drysor pur, parod,  
Diddarfod o hyd ;  
Cawn fanna cuddiedig  
Draw 'n ddididig heb drai,  
A 'falau o'r pren bywiol  
Rhinweddol bob rhai.
- 7 Cawn delyn i'w chanu,  
Cawn balmwydd i gyd,  
Coronau, *perls* dysglaer,  
Nid sorod y byd ;  
Cawn wel'd ein Hanwylyd  
Yn hyfryd mewn hedd,  
A'n gynau hardd gwynion  
Yn ddysglaer ein gwedd.
- 8 'Mhlith saint a phrophwydi,  
A'r merthyron i gyd,  
Seraphiaid, cerubiaid,  
Angylion yn nghyd,

Sy 'n dweyd Haleluia,  
Hosanna mor hy',  
A'u dyblu drachefn.  
Gwyn fydd a f'ai fry!

### HYMN XCIII.

*Y Cristion yn morio tuag adref.*

**Y**MDEITHYDD wy 'n y byd,  
Fel rhai o'm tadau gynt,  
Sjy 'n morio lawer pryd  
Yn erbyn llanw a gwynt :  
Mae ngolwg wiw tua 'r hyfryd wlad,  
Lle mae fy Nhad a'm ffryns yn byw.

2 Hen Abraham aeth o'r blaen,  
A'r holl brif seintiau gwych,  
Tua Salem, ddinas lân —  
Ei gweled oe'nt trwy ddrych ;  
Mae 'r rhai 'n i gyd 'n awr gyda 'u  
Duw,  
Mewn hedd yn byw, O gwyn eu  
byd!

3 Trwy ddyrys fôr y byd  
'R wyf finau 'n teithio 'n dŷn,  
Tuag at fy nghartre' clyd  
Sydd fry ar Seion fryn ;  
O hyfryd le! pwy awr, pwy bryd,  
Caiff f' enaid drud fyn'd yno i dre'?

4 Mae 'r tönau lawer gwaith,  
A'r 'stormydd mawr eu 'stwr,  
Yn curo f' enaid llaith,  
Nes byddo dan y dw'r :  
Ond Iesu ddaw, ac yn y man  
Fe 'm côd i'r lân â'i gadarn law.\*

5 Pan byddo hi 'n awyr glir,  
'R wy 'n gwel'd trwy ddrych difreg  
Rai manau o Salem dir,  
A'm hetifeddiaeth deg ;  
A'r olwg hon trwy gwrs fy nhaith  
Ddod f' enaid llaith i fyn'd yn llon.

6 Er bod y ffordd yn faith,  
A rhwystrau eto 'mlaen,  
Caf orphen ar fy nhaith,  
A landio i Salem lân ;

\* Yn yr argraffiad cyntaf, y pumed penill  
ydyw hwn:—

Drachefn yr ydwy' i 'n gry',  
'N ymroi i drafaelu 'n iach ;  
Y deheu wynt y sy'  
Yn chwythu ar f' enaid bach ;  
Tua Salem lân, er gwaetha 'r hin,  
A'r 'stormydd blin, mi â 'n y blaen.

Marwolaeth ddaw, caf fyn'd heb ble  
Yn iach i dre' yr ochor draw.

7 Ac yno gwyn fy myd,  
Tu draw i'r byd a'r bedd,  
Caf yno fyw o hyd  
Mewn hauddfyd ac mewn hedd,  
Yn canu 'n bur i'r IESU mwyn  
Am iddo 'n dwyn i Salem dir.

*Dafydd Jones, o Gaiio.*

### HYMN XCIV.

**A**I IESU mawr, Ffrynd dynolryw,  
Wy 'n weled fry, a'i gnawd  
yn friw,  
A'i waed yn lliwio 'r lle,  
Fel gŵr di-bris yn rhwym ar bren,  
A'r gwaed yn dorthau ar ei ben ?  
Ie, f' enaid, dyma 'Fe.

2 Ai 'm hanwyl Briod wela' i draw  
A hoelion llymion trwy bob llaw,  
A'u pwyo 'n drwm i dre',  
A bâr o ddir trwy ei dirion draed,  
Ac yntau 'n marw yn ei waed ?  
Ie, f' enaid, dyma 'Fe.

3 Ai 'Fe fu 'n maddeu idd ei gâs,  
A'i waed fel llif o'i glwyfau 'maes,  
Nes agor drws y ne',  
Rhoi ei ben tua 'r llawr gan boenau  
llym,  
Yn wirion deg heb yngan dim ?  
Ie, f' enaid, dyma 'Fe.

### HYMN XCV.

**U**N ynfyd wyf, heb fedru dim,  
Tlawd, gwan, a llesg, llaith, a  
di-rym,  
Yn llawn o ddygn dywyllwch du,  
Ac anwybodus iawn o'r bru.

2 Y gras, a'r hedd, a'r purdeb oll,  
Row'd i ni yn Eden aeth ar goll ;  
Ni ffeindia i bellder tra f' wy' byw  
Fy hen 'madawiad gynt â Duw.

3 Yn mh'radwys llithrais inan 'n llyn,  
'R wy 'n profi 'r effaith hyd yn hyn ;  
O'r nefoedd llithriwyd fi 'r llawr,  
'Mherffeithrwydd collais mewn un  
awr.

4 'R creaduriaid mân nid aeth mor  
bell,  
Eu braint cadwasant lawer gwell ;  
'Gyd yn eu lle 'n rhoi i'w HAR-  
GLWYDD glod,  
O ddechreu 'r byd heb bechu erioed.

5 Pa'm cyfyd hunan ynwy 'n hwy ?  
P'odd meiddia balchder i mi mwy ?  
Pa'm tybia i 'mod yn rhywbeth  
gwych ?  
Myfi 'r pechadur sala ei ddrych !

6 Rhyfeddu 'r wyf, rhyfeddu byth,  
Na buaswn 'n awr mewn 'ffernol  
nyth ;  
Rhyfeddaf fwy os f' enaid ddaw  
Trwy 'r d'rysni mewn i'r nefoedd  
draw.

7 Rhyfeddu wnaif im' ddyfod byth  
Trwy demtasiynau rif y gwllith,  
A gweled myrdd mewn pydew du,  
Gynt dybiais fod yn well na fi.

8 Rhyfeddai 'r arfaeth *sound* ddi-gryn  
Tragwyddol gynghor Tri yn Un,  
A'm cadwodd ar y llwybr cul  
Yn nghanol gwrthglliaidau fil.

### HYMN XCVI.

*Chwant Ymadael.*

**P**ERERIN wyf sydd ar fy nhaith,  
Yn myn'd tua thragwyddoldeb  
maith ;  
Am hyn 'rwy 'n edrych ar y byd  
Fel peth dyeithr im' o hyd.

2 'R wy 'n teimlo serch fy enaid gwan  
'N awr wedi myn'd o hono i'r lan ;  
Fe ddarfu i mi flino yn lân  
Ar y cre'duriaid fawr a mân.

3 Y man dymunwn i gael byw  
Yw 'r drydedd nef, preswylfa 'm  
Duw ;  
Lle mae y seintiau 'gyd heb boen  
Mewn hwyl yn cadw gŵyl i'r Oen.

4 Nid eisieu 'r byd a'i drysor maith,  
Nac ofn ei wae a'i ofid chwaith ;  
Ond am gael gwel'd f' Anwylyd cu,  
'R wy 'n brefu am fyn'd i'r nefoedd  
fry.



5 Diafol a phechod hefyd sydd  
Yn curo arna' i nos a dydd ;  
A gweled 'r wyf y tawel hedd  
Sy' i'r saint yr ochor draw i'r bedd.

6 Fy *ffryms* anwylaf yno sy',  
Merthyrion a phrophwydi lu,  
Yn seinio 'r nef yn gydgan iawn,  
Am dd'od eu gwaredigaeth lawn.

HYMN XCVII.

*CRIST yn bob peth.*

**D**Y glwyfau yw fy rhan,  
Fy nhirion IESU da ;  
Y rhai 'n yw nerth fy enaid gwan,  
Y rhai 'n a'm llwyr iachâ ;  
Er saled yw fy nrych,  
Er tloted wyf yn awr,  
Fy llenwi caf â llawnder Duw,  
A'm gweled fel y wawr.

2 Mi brofais DDuw yn dda ;  
Fy nhirion raslon Dad,  
Yn maddeu im' fy meiau mawr  
Yn rhwydd o'i gariad rhad ;  
Fe 'm seliodd i mewn hedd,  
On'd rhyfedd yw ei ras ?  
Fe 'm bwydodd i â'r manna pur,  
Mewn gwledd o hyfryd flas.

3 Mi wn i GRIST, mi wn,  
Fy ngharu cyn bod byd,  
Parhau 'fy ngharu gwn y gwna  
Yn ddi-drai yr un o hyd ;  
'Fe yw 'm Tywysog hardd,  
Efe yw 'r Meddyg mawr,  
Efe yw 'm Harchoffeiriad gwych  
Sydd trosywy 'n pledio 'n awr.

4 Fy Mrawd yw 'r IESU da,  
Fy Mherl o uchel bris,  
Fy Nghyfaill yw, a'm Cariad mwyn,  
Fy Ngobaith yn ddi-lys ;  
Fy Mhren y Bywyd mawr,  
Fy Nrws i fyn'd at DDuw,  
Fy Ffordd i fyned tua 'r wlad  
Lle mae fy Nhad yn byw.

5 Fy Rhosyn Saron gwych  
Yw 'r hyfryd IESU mwyn,  
Fy Mugail yw, a mi sydd un  
O'i dirion anwyl wyl yn ;

Fy Mhrynwr yw heb lai,  
Fy Mhriod yn ddi-gel,  
Fy Nharian gref a'm 'Fforddwr da,  
Fy sicr Ran a'm Sêl.

6 Omega, Alpha mawr,  
A'm Hawl yw 'r anwyl GRIST,  
Efe yw 'm Hamddiffynfa lon,  
Efe yw 'm Ffyddlon Dyst ;  
Fy Mhen, fy Nghorn, a'm Tŵr,  
Fy euraidd Allor lân,  
Fy Aberth drud a'm Prophwyd  
mawr,  
'Fe 'm tywys yn y blaen.

7 'Fe 'm portha i â'i ras  
Nes myn'd i ben fy nhaith,  
Fe ladd fy holl elynion cas,  
Caf gongcro uffern faith ;  
Fy Arch a'm Hysgol yw  
I'm codi tua 'r nen,  
Caf ddringo 'mlaen o nerth i nerth,  
Nes d'od i Seion wen.

HYMN XCVIII.

*CRIST y gwrthddrych goreu i'w garu.*

**N**ID oes un gwrthddrych yn y  
byd  
Sydd deilwng o fy serch a'm byd ;  
Mae tynfa f' enaid canaid, cu,  
At drysor tragwyddoldeb fry.

2 Pe cawn y byd i gyd yn grwn,  
A byw flynyddau fil yn hwn,  
Ni fyddai hyn ond gofid blin  
Heb gaffael ffafur Duw ei hun.

3 Wrth fyned trwy borth angeu du,  
Dan ymladd â gelynyon lu,  
Ni thycia cyfoeth, bri, na gwaed,  
Na brawd, na phriod, mam, na thad.

4 Wel, IESU gara' i yn ddi-lai,  
Efe a'm gwared i o'm gwae ;  
Fy Mhriod hynod yw o hyd,  
A'm Cyfaill goreu yn y byd.

5 Duw yw Efe i'm dwyn yn mlaen  
Trwy ddyfroedd mawr a fflamau  
tân ;  
O'r nefoedd fry rhoiff i mi nerth  
I ddringo creigiau mawrion serth.

6 Dyma f' Arweinydd i a'm Duw,  
Dyma 'r Un gara' i tra b'wy' byw ;

Ni flina' i garu tra 'nwy' chwyth,  
Er caru i dragwyddoldeb fyth.

7 Pan syrthio 'r ser fel ffigys ir,  
Pan ferwo 'r môr, pan losgo 'r tir,  
Pan droer yr haul a'r lloer yn ddu,  
Pryd hyn mi gara' 'Mhrynwr cu.

8 Doed fel y dêl, mi 'cara' o hyd,  
Dan bob rhyw drallod yn y byd ;  
Yn nydd y farn, yn angeu chwyth,  
Mi 'cara yn y nefoedd byth.

9 'Fe rwyma fy ngelynyon syth,  
'Fe 'u tawl i'r pydew dwfn byth ;  
'Fe 'm dwg yn ddi-ddig yn ei law  
O orsedd barn i'r nefoedd draw.

10 Er temtasiynau filoedd, myrdd,  
Caf delyn aur a phalmwydd gwyrdd,  
A gwisgo 'n gyson goron gun  
Roift ar fy mhen â'i law ei hun.

HYMN XCIX.

*Yr Ail Ran.*

**E**FE yw 'r Seren siriol sy'  
Yn ledio 'r saint tua Beth'em  
fry ;  
Y foreu wawr sy 'n tywynu 'n rhad  
Ar holl drigolion Canaan wlad.

2 Haul y Cyfiawnder a ddyd ras  
I dyfu megys llyisiau 'r maes ;  
Y cwmwl niwl a'r golofn dân  
I'm dwyn trwy 'r anial dir yn mlaen.

3 Fy 'Ffeiriad a fy Ngheidwad cu,  
F' Eiriolwr yn y nefoedd fry ;  
Fy Mhrophwyd, Brenin, a fy  
Mrawd,  
Ie, Ffrynd a Phriod f' enaid tlawd.

4 'Fe yw 'r Sarph bres a'r Manna  
mwyn,  
A'r Bugail da i 'mgeleddu 'r wyl ;  
A Ffynon fawr y dyfroedd byw,  
I olchi 'r etholedig ryw.

5 'Fe yw 'r Tywysog serchog sy'  
Yn congro fy ngelynyon lu ;  
Fy Ngobaith, Nerth, f' Hedd, a'm  
Parhad,  
F' Arweinydd tua 'r nefol wlad.

6 Fy Meichiau a fy Nghapten cry'  
Gongcwerodd ar ben Calfari ;

Fy Ysgol nerthol uwch y nen,  
Ac eilwaith Drws y nefoedd wen,

7 Trwy ei nerth nid âf i fyth ar goll,  
Mae 'n bob peth i mi, oll yn oll !  
Ac ynddo 'Fe 'wy 'n gyflawn iawn,  
Yn berffaith yn mhob gras a dawn.

HYMN C.

2 Sam. vii. 14.—*Mi a fyddaf iddo ef  
yn Dad, &c.*

**P**AROD yw 'm Duw i faddeu bai  
Sy' yn ei rai anwyla' ;  
Fel ffyddlon Ffrynd, neu dirion Dad,  
Yn wastad 'Fe a'n cara.

2 Canfod y mae Ef yn mhob man  
Ein bai a'n hannerthineb ;  
Ei feibion ym, ei ras barha  
I eitha' tragwyddoldeb.

3 'Fe 'n c'rydda am ein beiau ar  
g'oeodd,  
Cawn yfed dyfroedd Mara,  
Cystuddiau o newydd ddaw bob cam  
I'n cwrddyd am y cynta'.

4 Ond sicr yw y pery byth  
Ei ddilyth addewidion ;  
Nid nef nac uffern newid farn  
Creawdwr cadarn cyfion.

5 Nid yw ei gerydd E 'n parhau  
I ddyddiau tragwyddoldeb,  
Gyda 'i ffonodiau, gwn y ca'  
Drugaredd a thiriondeb.

HYMN CI.

*Ffydd yn edrych ar ddydddefaint y  
Messiah.*

**E**R cael fy maeddu yma dro  
Wrth dreiddio i'm nefol artre',  
Mi wela' fry orphwysfa bra'  
Heb drallod na chystuddiau.

2 Mi wela' fry yr addfwyn Oen  
Fu 'n dyodde' poen yn wirion ;  
Mi wela' ôl y goron ddrain,  
A'r pigau main echryslon.

- 3 Mi welaf ôl yr hoelion dur  
Fu 'n dyodde 'n hir eu pwyo ;  
Mi glywa' swm, debygwn i,  
'R mwrthwylion fu 'n eu curo.
- 4 Mi 'gwela 'n myn'd i'r lan o'r bedd,  
A'i fawredd yn rhagorol ;  
Yr awrhone mae E'n coffa ei loes,  
Gan bledio dros ei bobl.
- 5 Yn awr mae 'n ogoneddus iawn,  
Yn gyflawn o ddysgleirdeb ;  
Fy Nghyfaill yw, mi wn yn dda,  
Cyn hir yn nhragwyddoldeb.
- 6 Os wyf fi 'n colli llewyrch llon  
Ei wyneb tirion weithiau,  
Pan elwy' i'm tragwyddol nyth  
Ni wela' i byth o'i eisiau.
- 7 Fy swydd oddeutu 'r orsedd-faingc  
Fydd canu caingc Hosanna ;  
Rhyfeddu byth neillduol ras  
I'm dwyn i'r ddinas noddfa.
- 8 Cerubiaid a Seraphiaid pur,  
Angylion gwir oleuni  
A fydd oddeutu 'r orsedd lon  
Yn fwyn gyfeillion imi.
- 9 Caf wel'd yr holl ferthyrion da,  
'R apostolion a'r prophwydi,  
Yn canu clod, O beraidd ras !  
O fewn i deyrnas Iesu.
- 10 Yno y bydd trueiniaid gwael  
Sy 'n awr yn cael eu blino,  
Wedi diangc uwch ben y nen  
Yn llawen gyda 'u Shilo.
- 11 Caf wel'd y rhai fu 'n teithio gynt,  
Dyeithriaid oeddynt yma,  
Mewn tyllau ac og'feydd y maes,  
O fewn y ddinas noddfa.
- 12 O'r dehau ac o'r dwyrain draw,  
A'r gogledd daw rhai ffyddlon ;  
Ac hefyd o'r gorllewin dir,  
Pob un o'r gwir dduwiolion.

## HYMN CII.

*Dyoddefaint* CRIST.

'R WY 'n awr wrth gofio an-  
feidrol gur,  
Dyoddefaint y Messiah gwir,

- Fel un yn teimlo rhan o'i loes,  
A'i boenau drud, o'i gryd i'w groes.
- 2 'R wy 'n cofio am ei ymdreth mawr,  
Pan oedd ei chwys yn llifo 'r llawr,  
Ar noswaith oer yn ddafnau gwaed,  
Wrth yfed cwpan dig ei Dad.
- 3 Mi gofia 'r ffyrnig dorf a'u ffyn  
I ddala 'm Llywydd mawr yn llyn,  
Gan waeddi maes âg uchel lef,  
"Croeshoelia, O ! croeshoelia Ef."
- 4 'R wy 'n cofio ei ddiosg yn eu  
gwydd,  
Ac yntau 'n tewi â son yn rhwydd ;  
Rhai 'n poeri ac yn plygu glin,  
Tost ca's fy IESU mawr ei drin !
- 5 'R wy 'n cofio 'r goron ddrain a'i  
chur,  
Y fantell goch, a'r liccer \* sur ;  
Y gorsen wael, a'r gwawd, a'r cri,  
Wrth gario ei groes i Galfari.
- 6 'R wy 'n cofio 'r hoelion dewrion  
dur,  
A'u pwyo yn nwylo 'r Brenin pur ;  
A hoelio ei draed yn nghroes ar  
bren,  
Ac yntau heb 'nganyd gair o'i ben.
- 7 'R wy 'n cofio yno i'r Oen di-frac  
Weddio drostynt, "Maddeu, O  
Dad ;"  
Ac iddo yno ogwyddo ei ben,  
A d'weyd, "Gorphenwyd" ar y  
pren.
- 8 'R wy 'n cofio gyru 'r waywffon  
Gan filwr ffyrnig dan ei fron,  
Nes ffrydio o'i galon dddw'r a gwaed  
Wrth brynu imi bardwn rhad.
- 9 'R wy 'n cofio mai o'r chweched  
awr  
I'r nawfed, bu tywyllwch mawr ;  
Pryd hyny cododd CRIST ei gri,—  
"Éloi, Lama Sabachthani !"
- 10 'R wy 'n cofio i len y deml fawr  
I rwygo 'n ddau o fry hyd lawr ;  
A'r maen a'r beddau i agori 'n glau  
Pan ca's cyfiawnder ei foddhau.
- 11 'R wy 'n cofio claddu ei gorff yn  
friw,  
'Nol talu dyled dynol-ryw ;

\* *Liquor.*

'N ol tridiau 'Fe ddyrchafai ei ben,  
Boed iddo 'r moliant byth, Amen.

## HYMN CIII.

*Y cwbl yn rhad.*

- O ARGLWYDD, 'r Hwn sy 'n  
maddeu bai  
Yn rhad i'r edifeiriol rai,  
Fy unig hawl i'r nefoedd sy'  
Trwy 'th anegu ar ben Calfari.
- 2 Pe rho'wn fy nâ i'r tlawd yn lân,  
A'm corff i losgi yn y tân,  
A chongro 'm pechod mawr ei ri',  
Pwy enill fyddai hyn i Ti ?
- 3 Pe traethwn dy efengyl lân,  
Ac achub myrdd rhag myn'd i'r tân ;  
Beth yw hyn it', O ARGLWYDD cun ?  
Un gronyn ond dy ras dy Hun !
- 4 Rhyfeddu 'r wyf i'r coelbren dd'od  
A'r nefoedd wen i'm rhan erioed ;  
Os yno 'r âf, mi gara 'r gwaith  
O ganu i dragwyddoldeb maith.
- 5 O ARGLWYDD, d'wed beth wnes i  
well  
Na rhai sy 'n aros eto 'mhell ?  
A ydyw 'm beiau 'n llai na hwy ?  
Yn hytrach amlach ynt a mwy.
- 6 Yn rhad y ce's, yn rhad mae 'n bod  
Bob peth a roddwyd i mi erioed !  
Mae 'r cwbl oll yn rhad i mi  
O'r ddaear hyn i'r nefoedd fry.

## HYMN CIV.

*Pe'rerrindod.*

- PERERIN wyf, fy Nuw,  
Sy 'n myn'd trwy nerth dy ras,  
I Salem bur i fyw,  
O ddinas ddistryw 'maes.  
On' buasai i Ti ei ddal i'r lan  
Fy enaid gwan fuasai 'lawr.
- 2 Mi deithiais anial dir,  
Ce's gwrdd â ffosydd maith,  
Mieri a drain fel mur  
Yn aml ar fy nraith :  
On' buasai, &c.

- 3 Gofidiau o bob math  
Fu 'n pwyso ar fy mron,  
Yn f' erbyn curo wnaeth  
Pob llif, a firwd, a thon :  
On' buasai, &c.
- 4 O'm pen i'm traed 'r wy 'n friw,  
Fy nghlwyfau 'n gwaedu sy',  
Gelynyion o bob rhyw  
Fu 'n curo arna' i 'n llau :  
On' buasai, &c.
- 5 Bu 'r ddraig yn pledio 'n ffraeth  
Mai uffern oedd fy nyth,  
Do, na chawn i a'm bath  
Feddianu 'r goron byth :  
On' buasai, &c.
- 6 Bu pechod o bob rhyw  
Yn ceisio 'm cael i lawr ;  
Fe 'm daliodd f' anwyl Dduw  
Dan demtasiynau mawr :  
On' buasai, &c.
- 7 On' buasai 'r arfaeth rad,  
Gehenna fuasai 'm nyth,  
A'm henaid bach dan draed  
Y ddraig yn poeni byth :  
On' buasai, &c.

## HYMN CV.

*Meddyliau yn nghylch ein cyfeillion aeth  
i'r nef.*

- O ARGLWYDD, dena 'm serch  
a'm bryd  
Ar y gwrthddrychau sy' uwch y byd ;  
Trysorau hyfryd can' mil gwell,  
Cuddiedig draw ar fryniau pell.
- 2 Draw mae ein IESU mawr a'n Duw,  
A brodyr fyrddiwn i ni 'n byw ;  
Oes, mae yno rai 'n clodfori o hyd  
Fu 'n teithio gyda ni 'n y byd.
- 3 Dringasant hwy i ben eu taith,  
Gorphen'sant ar eu llafur waith ;  
O gwynfyd a f'ai yno byth  
Yn moli 'n beraidd yn eu plith !
- 4 Wel, cyn bo hir ni ddown yn nghyd  
O eithaf pedwar cwr y byd,  
O'r gogledd, de, a'r dwyrain bell  
I gael mwynhau cymdeithas well.
- 5 Yno y derfydd poen a gwae,  
A holl gystuddiau 'r duwiol rai ;

Caiff yr holl etholedig ryw  
Wyneb yn wyneb weled Duw.

## HYMN CVI.

2 Cor. iv. 17.—*Canys ein byr, ysgafn  
gystudd.*

OS yw 'n gofidiau yn y byd  
I bara hyd y diwedd,  
O fewn y nef fe dderfydd hyn,  
Troir tristwch yn orfoledd.

2 Pwy fwyaf gawn o wres y dydd  
Mwy yno fydd ein moliant;  
Cawn yn lle 'n cystudd byr a'n  
crwys \*  
Dragwyddol bwys gogoniant.

3 Fe orfu in' deithio, nid o'n bodd,  
Trwy filoedd o flinderau;  
Canwaith bu 'n tyb na ddoem uwch  
nen  
Byth, byth i ben ein siwrnai.

4 Ni orphwyswn mwy nes dringo 'n  
llawn,  
I'r man y cawn breswyllo;  
I'r lan i ben y tawel fryn  
Mae miloedd yn dysgleirio.

5 Aneirif dorf a chyson gôr,  
Angylion o'r dysgleiria',  
Seraphiaid pur a saint yn nghyd  
Sy 'n canu i gyd Hosanna.

6 F' enaid blinedig yn eu plith  
Yn dawel byth gaiff orphwys;  
'N ol teithio 'n ngwres yr haul a'r  
dydd  
Y nefoedd fydd yn felus.

7 Pryd hyn pereiidda Duw o'r bron  
Holl chwerwon ddyfroedd Mara;  
Pryd hyn y try pob chwerw nant  
Yn win i blant ИЕРОСАЛ.

## HYMN CVII.

*Gweddï am amryw bethau.*

ARGLWYDD, gweli 'r ddraig yn  
gyfrwys,  
Rhag bob tôn, ar dy fron  
Gad i'm henaid orphwys.

\* Crwys—ymdrechfeydd, croesau.

2 Fry, fry 'n wastad uwch cre'duriaid,  
Cu'wch a'r ser, O fy Ner,  
Cadw t' anwyl enaid.

3 Gwna fi 'n farw, farw 'n ddiau,  
Marw i'r byd, 'n awr yn nghyd,  
A'i holl wael bleserau.

4 Sang ar siol y ddraig wenwynig,  
Heibio ar frys, mewn i'th lys  
Minau âf yn ddiddig.

5 IESU, helpa f' enaid ddringo  
'N awr i'r lan, tua 'r man  
Y ca' i byth breswyllo.

6 C'rydded Duw di, Satan danbaid,  
Sydd o hyd, mewn llawn fryd  
I ddinystrio 'm henaid.

7 Pechod, paid, tra f'wy'n congwero  
'R uffernol griw, o bob rhyw,  
Sydd am fy ninystrio.

8 Rho'wch im' lonydd, O ellyllon,  
Ni chewch byth, tra ynoch  
chwyth,  
Feddu 'm henaid gwirion.

## HYMN CVIII.

Salm xlv. 10, 11.—*Gwrando, Ferch, &c.*

CLYW hyn, O ferch, a hefyd  
gwel,  
Ac â chlust isel gwrando,  
Mae 'n rhaid it' ollwng pawb o'th  
wlad,  
A thŷ dy Dad yn angho'.

2 'Rys am dy gael tros foroedd pell  
I'r wlad sydd well i drigo,  
Lle mae dy Brynwr gwridog, gwyn,  
Anwylaf yn preswyllo.

3 Gad yna 'r byd, yn nghyda 'i dda,  
Ei wagedd a'i deganau;  
Pechod a phleser o bob math,  
D' eilunod a'th gariadau.

4 Rho 'th serch a'th gariad, rho fe 'n  
rhwydd  
Ar ARGLWYDD yr arglwyddi;  
Y Tywysog brafa o bob rhai,  
Ar ddengmil mae 'n rhagori.

5 Yna bydd gan y Brenin gwyh  
Gael edrych ar dy burdeb;  
Fe 'th gâr o ddyfnder calon, gwna,  
Hyd eithaf tragwyddoldeb.

6 Yna fe 'th wél yn hawddgar iawn,  
Yn hardd, yn llawn hyfrydwch;  
Cai ganddo beunydd yn ddi-nag  
O'i gariad ac o'i heddwch.

7 Ymostwng dithau i'th ARGLWYDD da,  
Ac ufuddhâ yn ffyddlon;  
Cân iddo byth ganiadau mwyn  
Am iddo ddwyn dy galon.

## HYMN CIX.

Galar. iii. 24.—*Yr Arglwydd yw fy  
rhan, medd fy enaid.*

Y MAE yr ARGLWYDD i mi 'n  
rhan  
'Mhob lle a man p'odd byna',  
Ac er gwaetha' y gelyn llym,  
Ynddo mi ymddirieda'.

2 Ce's gareg wên, tystiolaeth rad,  
Gwir bwrcais gwae'd fy Nghapten;  
Ac enw newydd nas gall dyn  
Ond mi fy hun ei ddarllen.

3 Yn mhob rhyw 'storom para mae  
Ei 'ddewid a'i ffyddlondeb;  
'R gair ddaeth o'i enau cadw wna'  
Hyd eitha' tragwyddoldeb.

4 Pa'm ofnaf golyng angydd mwy?  
Anturiaf trwy farwolaeth;  
Dywedodd nas cawn (nis gwn pa'm)  
Fyn'd byth i ddamnedigaeth.

5 Cymhwysodd at fy enaid cla'  
Ei angydd a'i farwolaeth;  
Drachefn a thrachefn mae  
E 'n cadarnhau 'nhystiolaeth.

6 Dim ond ei hedd a wnaiff yn iach  
Fy enaid bach lluddedig;  
Pa fwyfa' gaffwy' o hono, 'r wy'  
O hyd yn fwy sychedig.

## HYMN CX.

Salm lxxxiv. 1, 2.—*Mor hawddgar yw  
dy Babell.*

DY babell Di mor hyfryd yw,  
O ARGLWYDD DDŪW y llu-  
oedd;

Mynych chwenychais weled hon,  
Rhag mor dra thirion ydoedd.

2 Y man b'ost ti, bîd fryn neu fro,  
Sydd gyflawn o ddyddanwch;  
Yn dy gynteddau 'n wastad mae,  
Oes, fôr didrai o heddwch.

3 Sawl drig i'th dŷ gaiff yn ddi-drai  
Dy gariad a dy ffafar;  
Cânt hwy ymborthi ar fath ffâr  
Sy 'n nefoedd ar y ddaear.

4 Dy wleddoedd di byth a barha  
I'r newynog a'r sychedig;  
A chyda thi gorphwys a wna  
'R diffygiol a'r lluddedig.

5 Fy enaid frysia am fyn'd ar frys  
I'th gysegr lys yn hylwydd;  
Mae 'm calon fach a'm cnawd, bob  
cam,  
Yn gwaeddi am yr ARGLWYDD.

6 Am dd'od i'th wydd 'r wy' nosa dydd,  
Fel hydd lluddedig gwirion  
A rêd dan frefu 'mlaen bob cam  
I 'mofyn am yr afon.

7 O dwg fy enaid llesg i'r lân,  
I'r man 'r wyt Ti 'n preswyllo;  
Wrth deithio 'r anial mawr yn hir  
'R wy' gwedi gwir ddiffygio.

## HYMN CXI.

Salm lxxxiv. 6.—*Y rhai yn myned  
trwy ddyffryn Bacca, &c.*

PE b'ai yn gorfod ar y rhai 'n  
'R hyd glyn wylofaïn dramwy,  
Gosodir ffynon iddynt hwy,  
A'r gwlaw a'u lleinw fwy-fwy.

2 Mewn dyrys dir ac anial daith,  
Yn nghanol maith anialwch,  
Cânt fanna'r nef, cânt ddyfroedd pur,  
Sef ffrydiau o wir ddyddanwch.

3 Pan bo 'r annuwiol fyd o'r bron  
Mewn dyfion gyfyngderau,  
Fe weryd Duw hwynt-hwythau,  
gwna,  
O'u trallod a'u cystuddiau.

4 Pa fwyaf fo eu cyfyngderau hwy,  
Bydd fwy-fwy eu cysuron;

Eu hedd, melusach na 'r dil mêl,  
A lifa fel yr afon.

- 3 Er gorfod teithio yn ngwres y dydd,  
Tros greigydd o'r diffeitha';  
Ni chaiff bod syched ar un gŵr,  
Cânt ganddo ddw'r eu gwala.

## HYMN CXII.

Salm lxxxiv. 7.—*Ant o nerth i nerth.*

- A**NT rhagdynt bawb, o nerth i  
nerth,  
Nes cael yn brydferth ddyfod  
I 'mddangos i Dduw ger ei fron  
Yn Seion ei breswylfod.
- 2 I'r lân, i'r lân tua phen y bryn,  
Lle mae eu Brenin IESU;  
Ddiffygiant ddim nes myn'd i'r nef,  
Gael gydag Ef deyrnasu.
- 3 Trwy 'fonydd mawrion, dyfnion du,  
Yn mlaen heb ofni gronyn,  
Gan ddringo creigydd mawrion,  
serth,  
I'r lân trwy nerth eu Brenin.
- 4 Rhyfelant â gelynion, gâd,  
Trwy rinwedd gwaed eu Capten;  
Congwerant, lladdant ar bob llaw,  
Nes myn'd tu draw 'r Iorddonen.
- 5 Ni flina neb, mae Duw i'w rhan,  
Y llesg, y gwan, a'r clwyfus;  
O ras i ras fe 'i dygiff ef  
I deyrnas nef i orphwys.
- 6 Lle derfydd byth eu poen a'u gwae,  
Eu tralod a'u cystuddiau;  
Cânt ganu yn y nefoedd wên,  
Yn iach ar ben eu siwrnau.

## HYMN CXIII.

*Pwysu yn mlaen at yr Etifeddiaeth.*

- O** TYR'D ar frys, f' Anwylyd pur,  
Cwblha 'th addewid, na fydd  
hir;  
Rhag im' ddiffygio a llesgâu,  
A nychu o hiraeth i'th fwynhau.

2 Teganau 'r byd, a'i bleser sydd  
'N fwy diflas im' o ddydd i ddydd,  
'D oes ganddynt swyn na meder mwy  
I'm denu idd' eu caru'n hwy.

3 Trwy ffydd 'r wy 'n gwel'd yr ardal  
bell,  
'Nghyd a gwrthddrychau llawer  
gwell;  
O ddydd i ddydd 'r wy 'n pwysu  
'mlaen,  
Nes-nes i'm hetifeddiaeth lân.

4 Caf gyflawn olwg ar fy Nuw,  
A'r Oen a laddwyd, yno 'n fyw;  
Wyneb yn wyneb âg E'n wir,  
Yn nghanol y goleuni pur.

5 'D oes gen' i neges yma 'n hwy,  
Nac achos oedi gronyn mwy;  
'Ngorphwysfa a fy nhrysor sy',  
Fy ngobaith a'm llawenydd, fry.

6 'R wy 'n brefu am gynteddau 'm Duw,  
Mewn tir sychedig 'r wyf yn byw;  
Fel pererin llesg, neu ddeieithr ddyn,  
Yn crwydro 'mhell o'i wlad ei hun.

7 Pa cy'd rhaid bod yn Mesech mwy?  
P'odd galla 'i 'n Nghedar fyw yn  
hwy?  
A orphena 'i 'm siwrnau maes o law,  
I'm cartre' yn nhragwyddoldeb  
draw?

8 Fy ffryns o'r blaen aeth yno 'n llu,  
Yn awr yn gorfoleddu fry;  
Heb ofn mwy, yn sicr iawn  
O'u congwest ac o'u taliad llawn.

9 Gan edrych gyda phleser mawr  
Ar faes y gwaed o bell yn awr;  
Yn gweled uffern, angeu, a'r byd,  
Wedi eu congwero oll i gyd.

10 A minau mewn gofidiau fil,  
A myrdd o demtasiynau cul;  
Bron colli 'r gamp, nes delo ffydd  
I ddweyd mai f' eiddo i yw 'r dydd.

## HYMN CXIV.

*Hymn yn nghylch Dydd y Farn.*

- O** ARGLWYDD, pa'm y rhed  
ein bryd  
Ar wâg bleserau sy 'n y byd?

Tu hwnt i'r bedd, mewn gwledydd  
pell,  
Rho'wd i ni olud can' mil gwell.

2 Fe ymddatod y gre'digaeth faith,  
Yr haul ar orphen ar ei thaith;\*  
Y byd a lysg, a'r ser a ffy,  
Pan ymddangoso 'n HIESU ni.

3 Archangel mawr mewn udgorn gân  
I wysio o'r beddau 'r lludw mân,  
O'r môr a'r tir, a'u galw yn llu  
I'w barnu, i entrych awyr fry.

4 Fe ddetgly 'r beddau ar doriaid  
gwawr  
Boreuddydd tragwyddoldeb mawr;  
Hwy rônt i'r lan fyrddiynau maith  
O bob rhyw bobloedd, llwyth, ac  
iaith.

5 Uffern a nef, ar hyn o bryd,  
A ymedy â'r eneidiau 'gyd;  
I gwrdd â'r cyrph oedd hyd yn awr  
Yn llechu yn y ddaear lawr.

6 Angylion gasgla 'r saint yn nghyd  
Yn gryno o bedwar cwr y byd;  
Yna hwy gipir oll yn llu  
I entrych y ffurfafen fry.

7 Saint orfoleddant bob yr un  
Pan welont arwydd Mab y Dyn,  
Fel boreu wawr o'r dwyrain draw  
Sy 'n dangos bod yr haul gerllaw.

8 Dysgleirdeb hardd ei wynebpryd  
Lewyrcha ar y saint i gyd,  
Nes dysgleiriont fel haul bob un,  
Yn gymhwys megys Ef ei Hun.

9 Ni weliff etifeddion hedd  
Ddim llid na digter yn ei wedd;  
Cariad gwna nhwy yn ewn i fyn'd  
At Frenin IESU fel at ffrynd.

10 'N ol danfon ei elynion chwith  
I'r dwfn bair 'gael berwi byth,  
A dodi 'r lloer, y ser, a'r byd  
Ar dân, yn wenfflam oleu 'gyd.

11 O orsedd barn c'od IESU 'n awr,  
Yn nghyda 'i dorf aneirif fawr;  
Angylion gyda saint mewn hedd  
A mewn i'r briodasol wledd.

\* Yn groes i'r arferiad cyffredin, sieryd  
Williams ar yr Haul yn wastad yn y rhyw  
fenywaidd.

12 Pob un â'i balmwydd yn ei law  
Yn myn'd tua drws y nefoedd draw;  
Coronau aur neu *berls* di-goll  
A wisga 'r etifeddion oll.

15 Cânt ynau gwyn, fel llian main,  
A th'lynau peraidd iawn eu sain,  
I ganu 'r hyfryd beraidd dôn,  
Tragwyddol Haleluia i'r Oen.

14 Pa bryd y gwela' i'r ddedwydd awr  
Boreuddydd tragwyddoldeb mawr,  
I ddihuno, a chodi o'r bedd yn fyw,  
A'm llawn ddigoni â delw Duw?

## HYMN CXV.

*Rhyfeddu Rhad Râs.*

**W**RTH feddwl am dy ryfedd  
waith,  
A dyfnder maith dy gariad;  
I eigion môr â'm henaidd gwan,  
Nes ffaelu i'r lan a dringad.

2 Pan elwy 'i chwilio 'th gariad hael  
Mae f' enaid gwael yn boddi;  
Ond plygu bellach, ARGLWYDD, wnaï  
Yn wastad a'i ryfeddu.

3 Pa'm ceraist fi, d'wed, un o fil  
O ganol hil lygredig?  
Wrth natur faeth fy ngwell heb lai  
I blith y rhai damnedig.

4 O safan drist Gehenna gaeth  
Fy ngwared wnaeth yr AR-  
GLWYDD;  
Fy enaid bach am hyn bob tro  
Gaiff lamu o lawenydd.

5 Pentewyn poeth yn nghanol tân  
Yn myn'd yn lân i'm llosgi;  
Achubodd IESU f' enaid, do,  
Yn dra enwog o drueni.

6 Glyned fy nghanol bellach byth,  
Duw, wrth dy ddilyth eiriau;  
Fel teithiwy 'n hoew 'mlaen o hyd  
Yn union 'r hyd dy lwybrau.

7 O cadw fi tra ynwy' chwyth,  
Heb i mi byth d' annghofio;  
Rhoi'st i mi ras, i Ti bo'r clod,  
Cyn i mi erioed ei geisio.

8 Fy enaid yn dy glwyfau boed;  
Mi 'th gara doed a ddelo,  
Nes delwy' mewn i'th nefoedd glyd,  
O gwyn ei fyd fai yno!

## HYMN CXVI.

Can. v. 16.—*Melus odiaeth yw ei enau, &c.*

**G**ENAU fy Mhrynwr brofodd flas  
Y bustl atgas chwera';  
Yn awr i'r saint (o'i gyfeillach sydd),  
Yn wastad rydd felusdra.

- 2 Tywalltwyd ar ei wefus fwyn  
Ras ag sy 'n dwyn y galon;  
Ei eiriau hyfryd Ef sy 'n hedd  
I'r holl wir lariaidd ddyinion.
- 3 Un gradd o'i lid, neu bwys ei ddwrn,  
Sy 'n 'ffernol ffwrn ddiffafar;  
Ei hyfryd wên a'i gusan gwâr  
Sy 'n nefoedd ar y ddaear.
- 4 O fewn y ddaear hon a'r nef  
Pwy sy' iddo Ef yn gymhar?  
Dymunol yw uwchlaw 'r holl fyd,  
Y mae Ef 'gyd yn hawddgar.
- 5 Rhyfeddu wna' i o hyn i maes  
Anfeidrol ras fy Ngheidwad;  
Nid oes na seraph fyth na saint  
All ddangos faint ei gariad.
- 6 Y nefoedd faith sy 'n plygu dan  
Gyfadd'e eu hanwybodaeth,  
O fawr ddoethineb Brenin ne',  
Cyfryngwr iechydwrriaeth.
- 7 Ei foli maent fwy-fwy bob dydd,  
Yn newydd eu caniadau;  
Gan frefu am ei foli 'n well,  
Ond ffael u o faith bell raddau.
- 8 Rhifedi 'r gwllth o angylion bra',  
Cerubiad a seraphiaid,  
A'u sŷn yn gymysg â'r holl saint  
Sy' am ddangos faint ei gariad.
- 9 Wrth geisio ei ganmol 'r wy' ar goll,  
Y mae E oll yn hyfryd;  
'D oes tafod un creadur byw  
Dd'wed pa fath yw f' Anwylyd.

## HYMN CXVII.

*Yr Ail Ran.*

**F**Y undeb i â'i Berson mwyn  
Sydd i mi 'n dwyn dyddanwch,

Ni ddaeth i galon dyn erioed  
I feddwl fod fath heddwch.

- 2 Er gwerthfawroced yw bob tro,  
'Rwy 'n eiddo Fo, mi 'cara;  
Ac Ef yn eiddo i minau sydd,  
Ac felly bydd i bara.
- 3 Pa fwyaf b'wy 'n mynegu ei glod  
A'i hynod ryfeddodau,  
Mwy gwerthfawr wy 'n ei wel'd o  
hyd,  
Mewn byd o dentasiynau.
- 4 Wel, merched Salem, dyma nôd  
Fy Mhriod hynod hawddgar;  
Mewn nef a daear tra ynoch chwyth  
Ni ffeindiwch byth o'i gymhar.
- 5 Eich cwestiwn yn rhy galed aeth,—  
D' Anwylyd, pa fath? meddwch;  
Ni all geiriau ei ganmol,—bellach,  
tewch,  
Yn fuan de'wch a gwelwch.

## HYMN CXVIII.

*Fy nefaid i, ni ddwg neb allan o'm llaw i.*

**M**I ge's ryddhad i'm henaidd  
swrth  
Unwaith oddiwrth yr ARGLWYDD;  
Yr amser o'wn i 'n llesg a gwan  
Yn gruddfan dan euogrywydd.

- 2 A gaf fi eto fyn'd yn ol,  
Fu yn ei gôl a'i gorlan?  
Na wna, 'Fe 'm ceidw â llaw gref,  
'Fe ddywedodd Ef ei hunan.
- 3 A golla' i 'r Ffrynd a wn i fod  
I mi erioed anwyla'?  
Yn well mi 'cerais ganwaith, do,  
Na phleser o'r melusa'.
- 4 Pwy sydd yn awr yn uffern drist  
Gwerth gwaed y CRIST anwyla'?  
Pwy etholedig, dywedwch hyn,  
Sy' o fewn i lyn Gehenna?
- 5 Ond gras effeithiol Duw oedd hyn  
A weithiwyd yn fy enaid!  
Ni all'sai neb tan nef ond 'Fo  
I'm gwared o'm caethiwed.

- 6 Efe 'm digonodd i yn hir  
A ffrydiau o wir ddyddanwch;  
Rho'ws arna' i serch; a baid Ef  
mwy  
I'm harwain trwy 'r anialwch?
- 7 Fy arwain i hyd yma wnaeth  
'R yn ffôrdd ag aeth ei bobol;  
'Fe 'm cynal eto ar fy nhaith  
Trwy 'stormydd maith llifeiriol.
- 8 Credais—mi gredaf tra fo chwyth,  
Na chaf i byth wrthgilio,  
Am fod fy Mhrynwr gwridog, gwyn,  
Yn wastad yn fy ngwyllo.

## HYMN CXIX.

*Peverindod.*

**C**HWI bererinion glân  
Sy 'n myn'd tua 'r Ganaan  
wlad,  
Ni thariaf finau ddim yn ol,  
Dilynaf ôl eich traed,  
Nes elwy' i Salem bur,  
Mewn cysur llawn i'm lle:  
O Ffrynd troseddwy, moes dy law,  
A thyn fi draw i dre'.

- 2 Mi ge's arwyddion gwir  
O gariad pur fy Nŵw;  
Ei ras a'i dawel hyfryd hedd  
I'm henaidd rhyfedd yw;  
Yn mhell o'r babell hon  
Mae 'nghalon gydag E':  
O Ffrynd, &c.
- 3 Mae 'r manna gwedi ei gael  
Mewn dyrys anial dir,  
Ymborthi caf, ond myn'd yn mlaen,  
Ar ffrythau 'r Ganaan bur;  
Mae yno sypiau grawn  
Yn llawn o fewn i'r lle:  
O Ffrynd, &c.
- 4 Mi fentra' 'mlaen yn hy',  
Gan gyrchu at y nôd;  
Mi gefais, do, im' ffyddlon Dyst,  
Fe archodd CRIST im' dd'od;  
Fy mhechod ymaith tyn,  
Mae 'n eiriol yn y ne':  
O Ffrynd, &c.
- 5 F' hyfrydwch yw dy waith,  
A'm pleser yn y byd;

E

Mae hiraeth llwyr yn f' enaid llaith  
Am wel'd dy wyneb-pryd;  
Cael hefyd roi fy mhws  
A gorphws ar dy dde';  
O Ffrynd, &c.

- 6 Wrth feddwl am y wlad  
A rhagbar'tow'd i'r plant,  
A chyflawn degwch tŷ fy Nhad,  
Mae ar fy nghalon chwant  
I landio uwch y nen  
Tu draw 'r Iorddonen gre':  
O Ffrynd, &c.
- 7 'R wy 'n gweled, trwy fy Nŵw,  
Conggwera 'i fyd a chnawd:  
O dan ei aden gwnaf fy nyth,  
Ni fyddaf byth yn dlawd;  
Mae 'm hetifeddiaeth wych  
O fewn i entrych ne':  
O Ffrynd troseddwy, moes dy law,  
A thyn fi draw i dre'

## HYMN CXX.

*Y daith o'r Aipht i Ganaan.*

**O**ARGLWYDD, Awdwr hedd,  
Tra rhyfedd yw dy ras;  
Ti 'm tynaist i, fel yn dy law,  
O'r tywyll Aipht i maes;  
Dy wialen Di a'th ffon  
Rydd im' gysuron rhad;  
Dy rasol hedd, fy Iesu hael,  
Yw 'm gwledd mewn anial wlad.

- 2 Pan 'r oedd yr Aiphtiaid blin  
Yn canlyn ar fy ol,—  
Traws, ffyrnig, lu hen Phar'o lym,  
Ti 'm cuddiaist yn dy gôl;  
Ni roist fy enaid gwan  
I gwmpo dan eu traed:  
Dy rasol, &c.
- 5 Pan 'r oedd fy ngobaith gwan  
Yn llesg wrth lan y môr,  
Heb genyf ffydd na nerth i ffoi,  
Yn ebrwydd do'i fy Ior,  
I'm tywys ar fy nhaith  
I'm hetifeddiaeth rad:  
Dy rasol, &c.
- 4 Tramwyaist o fy mlaen  
Trwy diroedd Basan draw;

Rhoddaist y llu, er maint eu llid,  
A'u bro i gyd mewn braw;  
Gelynyon yn mhob man  
A gwympaist dan fy nhraed:  
Dy rasol, &c.

5 Pan tynaist fi ar dy ol  
Oddiwrth fy nghnawdol chwant,  
Rhyddhaist fi o'm caethiwed blin,  
Ti 'm gwnaist fel un o'th blant;  
Arfaethost i mi fyw  
Uwch cystudd, briw, a brad:  
Dy rasol, &c.

6 Gwell wyt i'm henaid gwan  
Na tharian yn ddi-gêl;  
Ar fy ngelynyon cawd y dydd,  
D' addewid sydd dan sêl;  
Can's fyddlon wyt erioed  
Mewn amod o barhad:  
Dy rasol heddi, fy IESU hael,  
Yw 'm gwledd mewn anial wlad.

### HYMN CXXI.

*Yr ARGLWYDD yw fy nerth.*

**M**I âf yn mlaen, er pelled yw,  
I wlad 'r wy' am fyn'd iddi i  
fyw;  
O'r diwedd tiria 'm henaid gwan,  
O ddyfnder moroedd mawr i'r lan.

2 Anialwch mawr mi aethum trwy,  
Paham y digalona i mwy?  
Yr Hwn a'm nerthodd i hyd hyn  
A'm dwg i'r lan i ben y bryn.

3 Er i mi, do, wrthgilio 'n sal,  
A cholli 'r heddwch wedi ei gael;  
O Dduw, iachâ fi, câr fi 'n rhad,  
A chàna 'm henaid yn dy waed.

4 On' chaf fi dy gymdeithas wiw,  
Mae 'n uffern yn y byd im' fyw;  
'D oes pleser dan y nef, pe cawn,  
All lanw 'm calon fach yn llawn.

5 Gan' mil o weithiau gwyn fy myd,  
Gawn gongwest ar fy meiau 'gyd;  
Gael bod yn bur o mewn, o maes,  
A darfod son am bechod cas.

### HYMN CXXII.\*

*Maddeuant i Wrthgiliwr.*

**N**ID yw fy nyddiau yn y byd  
Ond megys dyrnfedd gron i  
gyd;

Ond darfod maent, nis gwn pa lun,  
Wrth bechu 'n erbyn Duw ei Hun.

2 'R wy 'n profi 'meiau fawr a mân  
'N awr am fy nigeloni 'n lân;  
Eu rhiif, eu nerth, yn nghyda 'u lliw,  
A wnaeth fy nghalon fach yn friw.

3 Fe 'm twyllwyd, do, gwae fi yn awr!  
I dori deddf f' Eiriolwr mawr;  
Edifar gen' i wneud annglodd  
I'r Un am carodd oreu erioed.

4 Maddeuaist ganwaith, maddeu hyn,  
O ARGLWYDD, câna fi eto 'n wyn;  
Rho i mi dyst, fy Anwylyd cu,  
I'm clirio yn y nefoedd fry.

5 Na tharo fi, 'r wy' dan fy maich,  
'D wy 'n abl dyodde' pwys dy  
fraich;  
Duw ydwyf Ti, 'd wyf fi ond dyn,  
P'am lleddi waith dy ddwylo 'th  
hun?

6 Gwn mai rhinweddol yw dy waed,  
I bledio 'm hawl o flaen y Tad;  
A chlirio 'm ffordd at orsedd gras,  
A blotio 'meiau mwya' 'maes.

7 Cofia mai gwagedd wyf a gwynt,  
A chofia 'm cwyp yn Eden gynt;  
A chofia 'mod yn teithio 'n awr  
Mewn byd sy 'n llawn o feiau mawr.

8 'R wy 'n gwel'd mai ofer yw fy  
ngrym,  
Na thal fy addunedau ddim;  
Pechadur wyf, fy Nuw a'i gŵyr,  
'N awr wedi colli ei nerth yn llwyr.

9 Paham y de'st o'r nefoedd fry  
Ond i gongcwero 'r 'ffernol lu?  
Cyflawna 'th waith, a gwna dy ran  
Yn fuan ar fy enaid gwan.

*William Williams.*

\* Dyma yr Hymn gyntaf yn y Chweched  
Ran (gwel y *Nodiadau* yn y dechreu).  
Rhoddir yma enwau yr Awdwyr fel y maent  
i'w cael yn hono.

### HYMN CXXIII.

*Peperindod.*

**Y**MDEITHYDD wyf fi 'n awr o  
hyd

Mewn maith a thralodedig fyd;  
Nid yma mae fy nghartre 'n wir,  
'R wy 'n teithio tua Salem bur.

2 Pa'm carai 'r byd na 'i wagedd  
mwy?

Hyd angeu 'n brin y deuant hwy;  
Gwell gen' i garu 'r Ffrynd a ddaw,  
Yn angeu i 'maflyd yn fy llaw.

3 'R wy 'n pwysu ar f' Anwylyd cu,  
Ei ddehau yn fy nghynnal sy';  
Paham y dof o'i gôl i maes  
Nes elwy' trwy 'r Iorddonen las?

4 Er maint yw llid a brad y ddraig,  
Fy nhraed osodwyd ar y graig;  
Mae IESU'n hwylio 'ngherddiad im',  
'Chai mwyach gyfeiliorni dim.

5 Yn gadarn dewch, fe gawd y dydd,  
Och! pwy a ffo'i 'fai ganddo ffydd?  
Mae 'r ffordd yn rhydd i'r rhai 'n i  
gyd  
Nes myn'd o fewn i'r nefol fyd.

*f. Dafydd, o Gaio.*

### HYMN CXXIV.

*Gwaed yr Oen.*

**O** ARGLWYDD, cofia 'th angeu  
drud!

A'th boenau mawrion yn y byd!  
A dadleu rhai 'n âg uchel lef  
Tros f' enaid tlawd yn nghanol nef.

2 O cofia 'th wae, a'th waed, a'th gur  
Ac ôl yr hoelion llymion dur!  
Dy chwys i'r llawr yn ddafnau  
gwaed.

A'th glwyfau mawr o'th ben i'th  
draed.

3 R wy 'n ceisio ymdreiglo at dy  
waed,

Gan gwympo 'n llaw trugaredd rad;  
'D oes gweithred dda yn eiddo fi  
All *gleimio* hawl i'r nefoedd fry.

*W. W.*

### HYMN CXXV.

**'R**WY' wedi bwrw 'r draul  
I fyn'd yn mlaen o hyd,  
Nes gwelwy 'r dydd yn gwawrio  
draw,

Mi wn y daw ryw bryd:  
Er gwaetha 'm llygredd cas,  
Mi ddihanga' maes o law,  
I gôl fy Nuw a'm Priod cu,  
Sy 'n eiriol droswy' draw.

2 Mewn gwlad o drafferth blin  
Os rhaid im' ronyn fod,  
Bu 'r IESU yn rhodio yma ei Hun,  
'R wy 'n dilyn ôl ei droed:  
Efe a'm gwnaiff yn rhydd  
Ryw ddedwydd ddydd a ddaw;  
O flaen y faingc mae 'Mhriod cu  
Yn eiriol troswy' draw.

3 Er maint yw llid y ddraig  
I ddenu 'm henaid llon,  
Mi wela' sanctaidd Had y Wraig,  
A'm henw ar ei fron:  
Dysgwyliaf eto 'n wych  
I edrych p'odd y daw:  
O flaen, &c.

4 'D oes pleser gen' i 'n awr  
Yn un lle tan y ne';  
Mewn newyn ac mewn syched mawr  
'R wy 'n teithio tua thre';  
Ca'm 'mhorthi â manna rhad  
O fewn i'r wlad a ddaw:  
O flaen, &c.

5 'R wy 'n awr trwy nefol ddrych,  
Wrth edrych tua thre',  
Yn gwel'd fy etifeddiaeth wych  
O fewn i entrych ne';  
Mi wela 'm IESU fry,  
A'm pardwn yn ei law:  
O flaen y faingc mae 'Mhriod cu  
Yn eiriol troswy' draw.

*f. D.*

### HYMN CXXVI.

*Yn erbyn ofn marw.*

**D**'WED pa'm yr ofni, 'm henaid  
cu,  
I fyn'd yn wyneb angeu du,—  
Y gelyn sathrwyd gynt dan draed  
Gan Frenin nefoedd yn ei waed.



- 2 On' chawd y dydd ar angeu 'n llyn  
Yn lân ar ben Calfaria fryn ?  
O b'le mae 'r colyn sy' iddo mwy ?  
A ph'le mae 'r gwenwyn sy 'n ei  
glwy' ?
- 3 Pa'm ofna' i 'mado â'r byd 'r wy 'n  
byw,  
Lle ce's ofidiau o bob rhyw,  
A myn'd i'r ddinas dawel bur,  
Sy' â'i heolydd fel y grisial clir ?
- 4 'D yw marw it', fy enaid trist,  
Ond naid o'r byd i fynwes CRIST ;  
At seintiau ac angylion sydd  
Yn gwe'd ei wyneb nos a dydd
- 5 Cai hedd o fewn i'r Ganaan bell  
Cai ffryns a brodyr lawer gwell ;  
Cai felus foli tra ynot chwyth,  
Heb gwympo 'n llaw 'r Philistiaid  
byth.
- 6 Mi gaf swpera gyda 'm Ner  
Yn mhlith y seintiau rif y ser,  
Aeth yno i'r lan, nis gwn pa lun,  
Trwy 'r unrhyw rwystrau a mi fy  
huan.
- 7 O hyfryd wledd, gwyn fyd fai 'n  
awr  
Yn mhlith y dorf aneirif fawr ;  
I gael diangu 'maes yn lân  
O bob rhyw lygredd fawr a mân.
- 8 Cai yno orphwys, f' enaid trist,  
Ar fron d' Eiriolwr, IESU CRIST ;  
Y Ffrynd a'th garodd cyn dy fod,  
A phan yr oeddit bella 'rioed.
- 9 Yn Un cai yno weled Tri  
Yn nyndod CRIST, fy Mhriod i ;  
Caf wel'd Creawdwr nef yn Ddyn  
Yn gwisgo corff fel fi fy hun.
- 10 Pryd hyny caf (gwyn fyd yr awr!)  
Wel'd myrdd o ryfeddodau mawr ;  
Cwmpeini 'r nef gaiff gyflawn waith  
Rhyfeddu i dragwyddoldeb maith.
- 11 Rhyfeddu 'r cariad mawr ei faint  
I droi troseddwy'r 'fod yn saint ;  
Rhyfeddu i lwch dd'od i'r fath le,  
Dysgleirio megys Brenin ne'.
- 12 'Nillodd fy NGRIST, nef i mi sydd  
Ar ben Calfaria cawd y dydd ;

Y man y congcrwyd Satan chwith,  
A hwn a gofia 'm henaidd byth

W. W.

### HYMN CXXVII.

CRIST y Meddyg.

**T**ROSEDDWR wyf, fy Nuw,  
(Da iawn y gwyddost hyn,)  
Annheilwng iawn i fyw  
Tu yma i uffern lyn :  
Fy enaid gwan sydd dan ei faich,  
Estyn dy fraich a dwg fi 'r lan.

- 2 O IESU, 'r Meddyg hael,  
Tydi wyt yn iachau,  
Wrth bechaduriaid gwael,  
A phublicanod rai :  
Fy enaid gwan, &c.
- 3 Meddyliais gynt cawn fod  
Cyn hyn yn gongcrwr mawr ;  
Camsyniais, gwae fi 'rioed,  
'R wy 'n pechu hyd yn awr ;  
Fy enaid gwan, &c.
- 4 Rhif fy mhechodau sydd  
Fel y mân wlith brydnawn ;  
A rhei'ny oll bob dydd  
O liwiau duon iawn :  
Fy enaid gwan, &c.
- 5 Mae genyf ras yn 'stor,  
A balm i wella 'm clwy',  
A chariad mawr fel môr,  
Na dderfydd mo hono mwy :  
Fy enaid gwan sydd dan ei faich,  
Estyn dy fraich a dwg fi 'r lan.
- W. W.
- 
- HYMN CXXVIII.**
- Cysur yn erbyn Marw.*
- P**A'M na b'ai chwant ar f' enaid  
gwan  
I landio o'r anial fyd i'r lan ?  
O'r dywyll Aipht, o Babel gaeth,  
I'r wlad sy 'n llifo o fêl a llaeth ?

- 2 Beth sy' i mi gael o fewn i'r byd ?  
Dim ond cystuddiau o'r bron i gyd ;  
P'odd treuliai 'r dyddiau sy' i mi  
fyw  
On' cha' i dy bresenoldeb gwiw ?
- 5 Wel, f' enaid, draw mae 'th drysor  
drud,  
A'th ffyddlon frodyr fwya' 'gyd ;  
Dy ARGLWYDD a dy Briod cu  
Sy' â'i deml yn y nefoedd fry.
- 4 Cai, f' enaid, weled yno 'nghyd  
Y saint o bedwar cwr y byd ;  
Cai orphen ar dy lafur waith,  
A charu i dragwyddoldeb maith.
- 5 Yn angeu cai, fy enaid cu,  
'Th gymhwysu 'n frau i'r nefoedd  
fry ;  
Cai, cai ddyfetha 'n llwyr bob gradd  
Elynion ag oedd bron dy ladd.
- 6 'D raid i mi yno gario 'r groes,  
Na 'mdrechu â phechod ddydd a  
nos,  
Nac ofni archoll byth na chlwy',  
Nac un o rwydau 'r gelyn mwy.
- W. W.

### HYMN CXXIX.

*Gwedi.*

- P**ECHADUR wyf, da gŵyr fy  
Nuw,  
Llawn o archollion o bob rhyw,  
Yn byw mewn eisieu o waed dy  
groes  
Bob mynyd awr o'r dydd a'r nos.
- 2 Yn nghanol cyfyngderau caeth,  
A myrddiwn o ofidiau maith,  
Gad i mi roddi pwys fy mhen  
I orphwys ar dy fynwes wen.
- 3 O cofia fi ger bron y Tad,  
A dangos iddo werth dy waed ;  
O pledia 'n awr yn nghanol ne'  
I Ti roi 'th fywyd yn fy lle.
- 4 Ti 'm ceraist i, O ryfedd waith !  
Mewn amryw o gyflrau maith ;  
O câr fi eto, tra ynwy' chwyth,  
A. châr fi 'n nhragwyddoldeb byth.

- 5 O cadw fi yn dy gôf bob awr,  
Wrth bledio yn nghanol nef, yn awr  
Dwg f' enw mewn llyth'renau llawn  
O flaen y faingc yn êon iawn.
- 6 Gad i mi dreulio 'm dyddiau 'gyd  
I edrych ar dy wyneb pryd,  
A difyru 'm hoes o awr i awr  
I garu fy Eiriolwr mawr.
- 7 Yn nghanol cyfyngderau du  
Yn agos atat cadw fi ;  
Rhoi 'm henaidd gwan ei felus hûn  
Byth rhwng dy ddwyfron Di dy hun.
- 8 Na'd bechod bellach roi i mi glwy',  
Nac ofn angeu 'mlino mwy ;  
Gwna fi 'n gyfarwydd iawn o hyd ;  
A'r llwybrau 'r ochor draw i'r byd.
- 9 Yn angeu ddydd bydd im' yn  
Ffrynd,  
A gad fy enaid atat fyn'd ;  
Saf ar fy nehau, a phledia 'n gry'  
Bod gen' i hawl i'r nefoedd fry.
- 10 O cofia fi, pan b'wy 'n y bedd,  
A chasgla 'm llwch i'r lan mewn  
hedd ;  
O arddel fi 'n y farn a ddaw,  
A gosod fi ar dy ddeheu-law.
- W. W.

### HYMN CXXX.

*Yr Ail Ran.*

- T**R'WY' yn dy gwmni, f' AR-  
GLWYDD mawr,  
'R wy' wrth fy modd bob mynyd  
awr ;  
A blino 'r wyf, fy Nuw, o hyd  
Yn nwndwr ac yn nhwrf y byd.
- 2 Iach wyf pan byddwy' yn dy wŷydd,  
A'm henaidd yn dy foli 'n rhwydd,  
Tr'wy' yma 'n byw, Duw gwna fy  
lle  
Yn agos iawn at borth y ne'.
- 3 A dyro im' dy gwmni o hyd  
Tra rhaid im' aros yn y byd ;  
Dyddana fi mewn anial dir  
A ffrydiau o ddyddanwch pur.



4 Gad i mi wel'd mai Ti yw 'm rhan,  
Gad i mi 'th ganfod yn mhob man;  
Gad i mi 'n wastad blygu 'lawr,  
I dy lân 'wyllys bob yr awr.

W. W.

## HYMN CXXXI.

Y Drydedd Ran.

**G**WNA, ARGLWYDD, fi yn golofn  
gry',  
Sefydlog yn dy deml Di,  
I lynu wrthyt Ti yn lân  
Yn mhob rhyw drallod fawr a mân.

2 Dal fi, fy Nuw, dal fi i'r lan,  
'N enwedig dal fi lle 'r wy 'n wan;  
Dal fi yn gryf nes myn'd i maes  
O'r byd sy 'n llawn o bechod cas.

3 Gwna fi 'n gyfoethog yn mhob  
dawn,  
Gwna fi fel halen peraidd iawn;  
Gwna fi fel seren oleu wiw,  
Ddysgleirio yn y byd 'r wy 'n byw.

4 Dysg fi mewn gorthymderau trist  
I bwysio ar f' anwylaf GRIST;  
Dysg fi wrth fyn'd o'r byd i maes  
I gario 'r dydd ar angeu glas.

5 Dysg fi 'mhob man, dysg fi pa fodd  
I ddwyed a gwneuthur wrth dy  
fodd;

Dysg fi ryfela 'r ddraig heb goll,  
A dysg fi gongero 'm pechod oll.

6 Tra caffwy' rodio 'r ddaear hon,  
Rho 'th hedd fel afon dan fy mron,  
Ac yn y diwedd moes dy law  
I'm ledio mewn i'r nefoedd draw.

W. W.

## HYMN CXXXII.

Tragwyddoldeb.

**F**Y enaid mewn gwir ofid mae,  
Yn gruddfan dan ei ddwfn wae,  
Am wel'd ei ddyddiau 'n d'od i ben,  
Gael myn'd i'r lle sy' o fewn i'r  
llen.

2 Corff y farwolaeth yma sydd  
Yn blino fy ysbryd nos a dydd;  
Gwyn fyd f'ai yn eu cwmni hwy  
Sydd lle na's daw marwolaeth mwy.

3 Yno cai wel'd fy Anwylyd gwiw  
Yn mysg angylion hardd eu lliw;  
Fy ffydd a droir yn olwg glir  
Yn nhragwyddoldeb cyn bo hir.

4 O pwy, wrth wel'd fath wlad o hedd,  
Arswydai angeu a'i farwol gledd?—  
I fyn'd yn nghôl angylion hy',  
I mewn i fro Caersalem fry?

5 'R wy' yn *resolvo* 'mado 'n lân,  
A'm holl eilunod fawr a mân,  
Er mwyn y Ffrynd a wela 'i 'n awr  
Yn eiriol tros fy meiau mawr.

6 'R wy 'n caru 'r IESU 'n awr bob  
dydd  
Am roddi 'm henaid bach yn rhydd;  
Mi cara 'n fwy pan gwelwy' ei wedd  
O fewn i'r wlad tu draw i'r bedd.

7 'D wy 'n awr ond gwel'd fy Mhriod  
gwych  
Ar fryniau draw yn mhell trwy  
ddrych;  
Pan codo 'm llwch o'r bedd, y cai  
Ei wel'd yn eglur fel y mae.

J. D.

## HYMN CXXXIII.

Newyddion Da.

**N**EWYDDION braf a ddaeth  
i'n bro,  
Hwy haeddent gael eu dwyn ar go';  
Mae 'r IESU wedi cario 'r dydd,  
Caiff carcharorion fyn'd yn rhydd.

2 Mae IESU GRIST o'n hochr ni,  
Fe gollodd Ef ei waed yn lli';  
Trwy rinwedd hwn fe 'n dwg yn  
iach  
I'r ochr draw 'mhen gronyn bach.

3 Wel f' enaid, weithian c'od dy ben,  
Mae 'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd  
wen;

Mae 'n g'lynyon oll i gyd yn awr  
Mewn cadwyn gan y Brenin mawr.

J. D.

## HYMN CXXXIV.

Y Peverinion.

**W**EL, dyma 'r pererinion dewr  
Achubwyd yn y 'stormydd  
mawr;

Dan Sinai fe 'u cynaliwyd hwy,  
Pwy elyn a'u gorchfyga mwy?

2 Dyma 'r rhai garodd Duw cyn byd,  
Ac yn eu caru mae o hyd,  
Yn rhad faddeuodd feiau rhai 'n,  
A gwisgodd oll â llian main.

3 A gwaed yr Oen eu prynu wnawd,  
Eu henwau 'mhlith y saint a gawd;  
Hwy a gyfrifwyd yn ddilal  
O rif y bendigedig rai.

4 Nid angeu mwy, nac erlid maith,  
Nid ofn dim mewn anial daith,  
Nid moroedd mawr o ddw'r a than,  
All rwystro 'r rhai 'n i fyn'd yn  
mlaen.

5 IESU yw eu Ffrynd a'u Prynwr  
drud,  
Eu Twr a'u Trysor yn y byd,  
Eu Harch, fe 'u caria 'maes o law  
Yn ddyogel trwy farwolaeth draw.

6 Pwy fater yw i'r rhai 'n i gyd  
Gael eu dirmygu gan y byd?  
Eu henwau da, a'u parch, a'u bri,  
Sy' n'ghadw yn y nefoedd fry.

J. D.

## HYMN CXXXV.

Rhuf. vii. 24.

**A**RGLWYDD, rhyddha fy enaid  
caeth,  
Sy 'n flin gan fath gaethiwed;  
Gan weddill pechod, trist iawn wy',  
Ys truan, pwy a'm gwared;

2 Fy llygredd sydd fel tywyll nos,  
'Yn codi dros fy enaid;  
'R wy 'n ffaelu 'th wel'd, hyn yw fy  
nghlwy';  
Ys truan, pwy a'm gwared?

3 Ewyllysio cadw 'th gyfraith gu  
Sydd genyf fi 'n arifred;  
Ond cwblhau'r hyn sy' dda nid wy':  
Ys truan, pwy a'm gwared?

4 Pan byddwy 'n d'od at Dduw trwy  
ffydd

I 'mofyn budd i'm henaid,  
Profi 'r drwg yn bresenol wy':  
Ys truan, pwy a'm gwared?

5 Yn awr 'r wy 'n gwel'd Iachawdwr  
rhad,  
(Clod fyddo i'r Tad bendigaid),  
Fy IESU yw, a Brenin nef,  
Yn hollol Ef a'm gwared.

6 O brysia, ARGLWYDD, yn ddi-lys,  
A thyr'd ar frys i'm gwared;  
Gad im' dy brofi oll yn oll,  
Tyn fi o'm holl gaethiwed.

J. Jones.

## HYMN CXXXVI.

Hymn ar Can. ii. 5.

**Y**N hir bum mewn trueni trist,  
Yn gwrthod CRIST yn Geidwad;  
Ond bellach ar ei ol mi âf,  
'R wy 'n awr yn glaf o'i gariad.

2 Mi fum dros dro mewn gauaf trist  
Yn wlo am GRIST yn Geidwad;  
Ond clod fo i Dduw, fe ddaeth yr  
haf,

'R wy 'n awr yn glaf o'i gariad.

3 Yn iach i'r byd a'i bethau braf,  
Oddiwrthych cym'raf genad;  
Ar ol fy anwyl IESU 'r âf,  
'R wy 'n awr yn glaf o'i gariad.

4 Chwychwi 'r rhai oll sy 'n caru  
CRIST,  
Rhô'wch heibio drist achwyniad;  
Fe ddaw ar fyr fel Meddyg braf  
I wella 'r claf o gariad.

5 Yn llawen dysgwyl, f' enaid llon,  
Mae 'r IESU bron a dwad,  
A'i gwmi gwyth a'i gerbyd braf,  
I nol y claf o gariad.

J. J.

## HYMN CXXXVII.

**T**RWY ras 'r wyf, ARGLWYDD,  
ger dy fron,  
Yn rhoi fy nghalon i Ti;  
Ti 'm cerais i, er maint yw 'm bai,  
Ni alla' i lai na 'th garu.

2 Mi haeddais fod yn awr a'm nyth  
Yn uffern byth yn poeni ;  
Wrthyl 'r wyt wedi trugarhau,  
Ni alla' i lai na 'th garu.

3 Pan bo corff y farwolaeth hon  
Yn fynych bron fy llethu,  
Ti o'm caethiwed a'm rhyddhei,  
Ni alla' i lai na 'th garu.

4 Yn hir bum mewn trueni mawr,  
Heb brisio fawr am IESU,  
Ond 'n awr i mi, mor werthfawr  
mae ;  
Ni alla' i lai na 'i garu.

5 Caf ddyfod i'r gogoniant maith  
I ben fy nhaith at IESU ;  
Caf fyned at y man lle mae,  
Ni alla' i lai na 'i garu.

6 I'r Tad, i'r Mab, a'r Ysbryd Glân  
Rhof glod ar gân heb dewi,  
Y Tri yn Un, a'r Un yn Dri,  
Mae f' enaid yn ei garu.

f. f.

## HYMN CXXXVIII.

*Yr enaid yn molianu Duw am ei  
rad ras.*

**M**OLIANAF byth yr anwyl  
Oen,  
Pa fodd y gallaf dewi son ?  
Rhows laeth a mêl o'r Ganaan fry,  
A melus yw i'm henaid cu.

2 'Fe 'm rhows i sefyll ar fy nhraed,  
Lle 'r o'wn yn gorwedd yn fy  
ngwaed ;  
'Fe 'm cododd fel o farw i fyw,  
Rhows win ac olew yn fy mriw.

3 Aeth rhinwedd gyda 'i eiriau Ef  
I'm clustiau i, ce's glywed llef  
Yn dywedyd wrthyl yn ddi-wad,  
" Mae 'r ffordd yn rhydd i'r nefol  
wlad."

4 Fy lloni wnaeth â nefol win,  
Rhows i mi fwyn gusanu ei fin,  
Nes myn'd â'm calon yn ddi-ble  
I'r lan ar nawf i ganol ne'.

5 Ce's enw newydd oddi fry,  
Ar gareg wen (pa'm 'r ofnaf fi ?)  
Yr hwn nis edwyn neb yn iawn  
Ond a'i derbyniodd ef yn llawn.

6 Pa fodd am hyn nas canaf glod  
I'r Hwn a'm carodd cyn fy mod ?  
O ! seintiau ac angyllion fry,  
Clodforwch chwi Ef drosof fi.

*William Edwards.*

## HYMN CXXXIX.

*Hiraeth enaid y Cristion dan  
dywyllwch.*

**O** FUGAIL doeth yr Israel had,  
Awdwr fy iechydwrïaeth rad,  
Rho i mi nerth i fyw o hyd  
Yn ddiargyhoedd yn y byd.

2 Erglyw a gwel, mae f' enaid gwan  
Mewn anial le am dd'od i'r lan ;  
Fel un dyeithr draw o bell  
Yn codi gwaedd am ddinas well.

3 Gofidian helaeth o bob rhyw  
Sydd yn y byd lle 'n awr 'r wy 'n  
byw ;  
Pa bryd cai dd'od i lawenhau,  
Lle nad oes gofid mwy na gwae ?

4 Hiraethus wyf am dd'od i blith  
Y ffryns a gâr fy nghalon byth ;  
Hiraethu wnaf tros ddyddiau mwy  
Nes cael mwynhau 'u cymdeithas  
hwy.

5 Er myn'd yn awr dan gwmwl du,  
Yn ffaelw gwel'd fy nghartre' fry ;  
Cof gen' i 'r pryd, y man, a'r lle,  
Ge's eglur olwg draw i dre'.

6 Er bod yn awr â'm henaid cu  
Fel un ar daith mewn gauaf du,  
Mi welais haf a melus hin,  
'N lle gofid, gwae, ce's yfed gwin.

7 Tro eto 'ngolwg at y gwaed,  
A maddeu 'meiau oll yn rhad ;  
O tyred, IESU, rhwyga 'r llen  
Sy' rhyngwy 'n awr a'r nefoedd  
wen.

## HYMN CXLI.

*Hiraeth am y nefoedd.*

**Y**MDEITHYDD wy 'n y byd,  
A'm golwg tua 'r wlad  
Lle mae fy nhrysor drud  
A'm hetfeddiaeth rad ;  
O hyfryd fraint, paradwys wiw,  
Lle bydda'i fyw yn mhllith y saint !

## HYMN CXL.

*Yr enaid yn cael profi cariad Duw.*

**F**FARWEL i'r holl bleserau gwael,  
'R wy' wedi cael amlygiad,  
O fewn y byd lle 'n awr 'r wy 'n  
byw,  
O heddwch Duw a'i gariad.

2 Mi fum yn hir cyn profi 'r hedd  
Sy 'n felus wledd i'm henaid ;  
O rhyfedd yw ! wel, pan y daeth,  
Nis gallaf chwaith ei amgyffred.

3 Rhyfeddu wnaf tra byddwy' byw  
Erioed i Dduw fy ngharu ;  
Rhyfeddu mwy wna 'm henaid cu,  
Pan elwy' fry i artrefu.

4 Mi gefais ddigon ar y byd,  
Mae 'm henaid drud yn breffu  
Am fyn'd trwy haeddiant CRIST a'i  
waed,  
I ganol gwlad goleuni.

5 Mae 'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd  
wen,  
Caf fyn'd i ben fy siwrnai ;  
Gwnaeth IESU 'm Llywydd yno 'm  
lle,  
Maddeuodd E fy meiau.

6 Ni phrisiaf waith gelynyon mwy,  
Fe'u rhoddwyd hwy dan glwyfau ;  
Fy Nghapten i sydd uwch y ser,  
'Fe a'u cwmpodd er ys dyddiau.

7 Trwy haeddeditigaeth IESU hael  
'R wy' wedi cael bodlondeb ;  
Mae 'm henaid yn cael golwg bra'  
O hyfryd dragwyddoldeb.

8 Yn iach i'r byd, ei boen, a'i wae,  
A phob rhyw rai gelynyon ;  
Mi gaf fy nwyn (O hyfryd ddydd !)  
I sanctaidd fynydd Seion.

*M. D.*

2 Fy mherson yma sy'  
Fel dyeithr yn y byd,  
Am fyn'd i'm cartre' fry,  
'R wy 'n gwel'd y dyddiau c'yd ;  
O ddedwydd le, heb boen na braw,  
Sy 'r ochr draw pan elwy' dre !

3 Hen frodyr Judas sydd  
'Fewn i'r anialwch hyn ;  
O brysied, doed y dydd  
'Gael myn'd i Seion fryn,  
Yn mhell o blith annuwiol rai,  
O'm poen a'm gwae i'm newydd-  
nyth.

4 Mae perffaith gariad CRIST,  
A nefol rin y gwaed  
'N troi ofnau 'm henaid trist  
Yn gwbl dan ei draed ;  
Mewn gobraith cryf mae 'm henaid'  
tlawd  
Fod iddo Frawd yn eiriol fry.

5 'Fe aeth â'm serch i gyd,  
A'm calon ar ei ol ;  
'R wy 'n awr o bryd i bryd  
Am orphwys yn ei gól ;  
Gorchymyn ddaw, cai fyn'd i dre',  
I'r hyfryd le i maes o law.

6 Yn awr 'r wy' nos a dydd  
Yn mynych edrych draw,  
A'm henaid felly sydd  
Yn gwyllo pryd y daw  
Yr oriau i ben i mi gael myn'd  
At f' anwyl Ffrynd tu fewn i'r  
llen.

*M. D.*

## HYMN CXLII.

*Canmolïaeth i gariad CRIST.*

**Y**R IESU 'n ddi-lai  
A'm gwared o'm gwae ;  
Fy safiodd fy mywyd,  
Maddeuodd fy mai.

- 2 Er pelled y ca's  
Fi 'n wir oddiwrth ras,  
'Fe 'm carodd yn amlwg  
Yn ngolwg fy nghas.
- 3 'Fe 'm golchodd i 'n rhad,  
Do 'n wir yn ei waed,  
Gan selio fy mhardwn,  
Rhoes i mi ryddhad.
- 4 O melus yw 'r wledd,  
Ce's weled ei wedd,  
Fy Mrenin a'm Prophwyd  
Mwyn hyfryd mewn hedd.
- 5 Fy Mhriod a'm Pen  
A rwygodd y llen,  
Ffordd newydd a bywiol  
Sy' i fyn'd uwch y nen.
- 6 F' Arweinydd i dre'  
Yw 'r IESU 'n ddi-ble,  
'Fe 'm cadw rhag niwed,  
Caf fyned i'r ne'.
- 7 Mi wela' fy mod  
Yn awr tan y nôd,  
O! 'm Priod cywiraf,  
Dilynafe ei droed.
- 8 Fy enaid i sydd  
Yn awr nos a dydd  
A'm ganmol fy IESU  
A'm rhoddodd yn rhydd.
- 9 Ffarwel fo i'r byd  
A'i bleser yn nghyd,  
Ar drysor y nefoedd  
Fe redodd fy mryd.
- 10 'Fe 'm cododd i'r lan  
Pan oeddwn yn wan,  
Amlygodd f' Anwylyd  
Fy rhyddid a'm rhan.
- 11 'Fe roes i mi faeth  
O win ac o laeth,  
O'r pydew fe 'm cododd,  
Yn gadarn fe 'm gwnaeth.
- 12 'R wy 'n gweled bob dydd  
Mai gwerthfawr yw ffydd,  
Pan elwy' 'borth aneu  
Fy angor a fydd.
- 13 Mwy gwerthfawr im' yw  
Na chyfoeth Peru,  
Mwy dyogel i'm cynal  
Ddydd dial ein Duw.

M. D.

## HYMN CXLIII.

*Hyder ar GRIST.*

- YR IESU mawr, Pentywysog ne',  
Perffeithydd ffydd, Llywydd  
y lle;  
O wynfydedig ddedwydd ddydd,  
O gariad rhad Ti 'm gwneust yn  
rhydd.
- 2 Fy ffyddlon Ffrynd a haeddai 'r  
clod,  
Am iddo 'ngharu cyn fy mod;  
Rhoi gorff a wnaeth i angeu chwith  
Er mwyn i mi gael bywyd byth.
- 3 Dyoddefodd felly dros of fi  
Rhwyng anwir rai ar Galfari;  
Fe 'i gwanwyd yno â gwaewffon  
Cyn i mi dd'od i'r ddaear hon.
- 4 Bu farw 'm IESU ar y groes,  
O gariad rhwydd ei fywyd rhoes,  
Yn ngwydd y byd rhwyng dae'r a ne'  
Fel Oen yn llariaidd yn fy lle.
- 5 Fy nghalon fach sy 'n awr yn flin  
Wrth gofio 'r modd y ca's ei drin;  
Ac o'r tu arall hefyd mae  
Wrth deimlo 'i hedd yn llawenhau.
- 6 Trwy 'i angeu Ef a'i werthfawr  
waed  
Y daeth i'm henaid wir ryddhad;  
A thrwyddo Ef 'r wy 'n awr yn hy'  
Yn *cleimio* hawl i'r nefoedd fry.
- 7 Fy enaid mewn dyogelwch mae,  
Yn awr mewn hedd yn llawenhau;  
Wrth gredu fyth cai yno fyw  
Yn ol fy nhaith yn ngwydd fy Nuw.
- 8 O IESU, arwain fi 'n ddioid  
Yn awr i dre' 'r hyd ôl dy droed;  
Bydd hefyd i mi 'n ffyddlon Ffrynd  
Pan byddwy' 'maes o'r byd yn  
myn'd.
- 9 Saf Di, O ARGLWYDD, yn fy mhlaidd,  
Rho gymhorth rhwydd wrth angen-  
rhaidd,  
Y dydd y bo 'r annuwiol rai  
Yn newid gwedd gan ofid gwae.

M. D.

## HYMN CXLIV.

*Hiraeth y Cristion am fyned tua thref.*

- PERERIN wyf tua Salem ber,  
Y ddinas hyfryd uwch y ser;  
O'r anial wlad heb oedi 'n hwy,  
Lle nid oes neb tan wae na chlwy'.
- 2 O gwyn fy mynd yn awr pe cai  
Fy enaid fyn'd i lawenhau;  
O fewn y nef ffoi gofid ffwrdd,  
Ac ni ddoi gelyn byth i'm cwrdd.
- 3 Yr IESU pur yw 'm Sail a'm Pen,  
F' Eiriolwr yn y nefoedd wen;  
F' Arweinydd mwyn o'r byd i maes,  
A'm Noddfa glyd yn angeu glas.
- 4 F' Anwylyd mwyn, hardd yw dy  
wedd,  
Dy gariad hael a'th nefol hedd,  
A'th bresenoldeb hefyd sy'  
Yn hyfryd iawn i'm henaid i.
- 5 Trwy ffydd mi wela 'r hyfryd wlad,  
Preswylfa deg fy anwyl Dad;  
Can's yno mae fy nhrysor drud,  
A'm IESU 'n byw, Iachawdwr byd.
- 6 Can's yno mewn goleuni mae  
'R holl lu mewn hedd yn llawenhau,  
I gyd mewn hwyl heb friw na phoen  
Yn amgylchynu gorsedd Ion.
- 7 Mae yno rai fu 'n dwyn y groes,  
O bob rhyw lwyth, ac iaith, ac oes,  
Yn moli 'r Oen 'n awr o'r un iaith,  
A'r Hwn fu 'n tywys ar eu taith.

M. D.

## HYMN CXLV.

*Adnabod CRIST sydd well na 'r cwbl.*

- FFARWEL i bechod a phob  
chwant,  
Pleserau blin y bydol blant,  
Trwy nerth fy Mhriod pur a'm Pen  
Mi âf yn wir i Seion wen.
- 2 Ymado wnaef o'm serch a'm bryd  
A holl bleserau gwael y byd;  
'D oes unrhyw bleser, dawn, na  
rhodd,  
'Ond IESU mwy a wna fy modd.
- 3 'Fe m cododd i o'r pydew du,  
Rhoes i mi faeth o'r nefoedd fry;  
O'm t'wllwch mawr tynodd fi 'maes,  
O rhyfedd yw ei nefol ras!
- 4 Er dued oedd lliw f' enaid llaith,  
'Fe 'm carodd i (O ryfedd waith!)  
'Fe 'm gwnaeth mewn heddwch, do,  
â'm Duw,  
Clodforaf byth fy IESU giwi.
- 5 Tra byddwy' yn yr anial wlad  
Canmolaf DDuw am gariad rad;  
A phan y tyno fi i'r ne',  
O cofiaf byth ei gariad E!
- 6 Pan byddwy' yma 'n cael mwynhad  
O'i gariad Ef, a rhin y gwaed,  
O gwerthfawr yw, a chanmil gwel  
I mi na 'r perl o'r India bell.
- 7 O hyfryd wedd dy wyneb-pryd!  
Fy IESU mwyn, Iachawdwr byd;  
Ti est â'm calon yn ddi-ble,  
Mi wela' 'n awr, i ganol ne'.
- 8 O tywys fi i ben y daith,  
I babbell tragwyddoldeb maith;  
Lle cai 'th fwynhau a'th wedd byth  
O fewn y nef lle bydd fy nyth.

M. D.

## HYMN CXLVI.

*Gwynfyd y Saint.*

- FFARWEL bob cnawdol chwant,  
Pleserau plant y byd;  
'D wy 'n rhoi fy serch ar beth mor  
sal,  
Sef gwagedd gwael i gyd;  
Fe addawodd f' anwyl Iôr  
Well trysor i mi 'n rhad,  
'Tifeddiaeth braf mewn hyfryd fan,  
O fewn i'r Ganaan wlad.
- 2 'Madawa' â char a ffrynd,  
Caf yno fyn'd mewn hedd,  
Un gelyn diglioni mwy nis daw  
I'r wlad tu draw i'r bedd;  
Ni bydd dim achos ffoi,  
Nac ofn troi yn ol,  
Pan bwy'n ddihangol gyda'm Duw,  
Yn hapus yn ei gôl.

- 3 'Ddaw pechod cas na phoen  
I flino 'm henaidd mwy,  
Pan landiwy' mewn i Salem dir  
Iacheir fi 'n glir o'm clwy';  
Caf yno wir ryddhad  
Oddiwrth bob brad a briw;  
'Ddaw gofid, gwŷn, nac och, na  
gwaie,  
I'r llys lle mae fy Nŵw.
- 4 O dedwydd fydd yr awr  
Pan ddelo 'r dydd i ben,  
Caf seinio clod, Hosanna byth,  
Yn llawen uwch y llen,  
I'm IESU mwyn ar g'oeidd  
Ddyoddefodd dros of fi;  
'N ol myn'd i dre' bydd melus dro,  
Cofio yno Galfari.

- 5 Wel, dyma 'r hyfryd fraint  
Ddygwyddodd i fy rhan;  
Pwy dafod fyth fynega faint  
Hapusrwydd f' enaid gwan?  
Pan elwy' uwch y nen  
I Salem wen i fyw,  
Rhof fawl i'r Oen o hyfryd wedd,  
A'm gwnaeth mewn hedd â Duw.

M. D.

## HYMN CXLVII.

Arall.

- O BRAF yw meddwl am y fraint,  
A'r gwynfyd sydd i bawb o'r  
saint;  
Y cyfiawn hil, brenhinawl had,  
Gwir etifeddion Canaan wlad.
- 2 Ac er bod Satan, gyda 'r byd,  
Yn curo arnynt â'u holl lid,  
Meddianant hwy yr hyfryd hedd,  
Er gwaetha' i gyd, tu draw i'r bedd.
- 3 Er teimlo gwae a dyodde' gwawd  
Wrth ado'r byd er mwyn eu Brawd,  
Trwy ganol llid hwy ânt yn llu  
Yn iach i fryn Caersalem fry.
- 4 'N ol hela eu pererindod maith,  
A gorphen ar eu llafur waith,  
Cânt fedi yn y nefoedd wen,  
O ffrwyth eu llafur, uwch y llen.

- 5 IESU a'u harwain hwy mewn hedd  
O'r anial wlad i'r nefol wledd;  
O ras i ras fe 'u ledia 'n rhodd  
I dir y bywyd wrth eu bodd.
- 6 Wel, dyma 'r dydd dihangant hwy,  
Ffarwel eu maith ofidiau mwy;  
O hapus awr a melus bryd,  
'R annghofiant eu cystuddiau 'gyd.
- 7 A dyma 'r dydd y derfydd gwae,  
Dydd dechreu hir o lawenhau;  
Dydd o gymundeb melus yw,  
Heb gwmwl du rhyngddynt a'u  
Duw.
- 8 Cânt yno edrych yn ddi-ball  
Fel cyfaill llon ar wedd y llall,  
Yn wyneb hardd eu Priod cu,  
A'u hena' Frawd sydd yno fry.
- 9 'Ddaw newyn byth na syched mwy,  
Na diffyg hedd i gwrrd â hwy;  
Cânt yno yfed yn ddi-lyth  
O afon bur y bywyd byth.
- 10 I Salem deg fel hyn y daw,  
O'r gogledd de, a'r dwyrain draw,  
Y bendigedig blant ein Duw,  
Y rhai a wnawd trwy ras yn fyw.

M. D.

## HYMN CXLVIII.

Gobeithio yn erbyn Gobaith.

- PA'm digalona 'm henaidd gwan?  
On'd wyt Ti, ARGLWYDD, ar  
fy rhan?  
Ac on'd wyf finau 'n un o ri'  
Rhai brynwyd ar ben Calfari?
- 2 Oni alwaist arna' i, ARGLWYDD cun,  
Do, ganwaith wrth f' enw fy hun;  
Ac oni wnest fi 'n gongc'rw'r llawn  
Ar dentasiynau lawer iawn.
- 3 Cyneliaist fi mewn dyrys daith  
Rhag cwmpo 'n erchyll lawer  
gwaith;  
Yn amddiffynfa buost im'  
Pan o'wn fy hun heb allael dim.
- 4 D'wed, fy enaid, pa'm na's cleimi 'n  
hy'  
Dragwyddol hawl i'r nefoedd fry;

## HYMN CL.

- A phledio 'n wyneb cnawd a byd  
Mai 'r ARGLWYDD yw fy Ffrynd o  
hyd.
- 5 Gwirionedd yw, fy meiau sydd  
Yn 'mhwyso i waered nos a dydd;  
Ond credu wna' tra ynw'y' chwyth  
Na fyni fy annghofio i byth.
- 6 'R wy 'n ffeiddio pechod o bob  
rhyw,  
'R wy 'n blino ar y byd 'r wy 'n  
byw;  
'R wy 'n caru 'th saint; on'd dyma  
'r nôd  
I tithau 'ngharu inau erio'd?

W. W.

## HYMN CXLIX.

Trysor y Saint.

- DUW yw fy Nhad, iddo bo 'r  
clod,  
Am iddo 'ngharu cyn fy mod;  
CRIST yw fy Nghyfaill i a'm Pen,  
Am gwlad artrefol sy' uwch y nen.
- 2 Fry mae fy Nhrysor pur di-lyth,  
A'r goron gaf fi wisgo byth;  
Fe sugnodd nefoedd Duw fy mryd,  
Nes 'd wy 'n ddyeithr yn y byd.
- 3 Myrdd o fy mrodyr anwyl sy'  
Yn gorphwys yn y nefoedd fry;  
'Nghyfeillion goreu sy' mewn hedd,  
Yn canu 'r ochr draw i'r bedd.
- 4 Hyd yma i'm deliaist trwy dy ras,  
Duw, dal fi eto o hyn i maes;  
Cryfha fy ysbyrd ar fy nhaith  
I landio tros ddyfnderoedd maith.
- 5 Mi ddringais greigydd, 'do'wn ond  
gwan,  
Rhyfeddu 'r wyf p'odd des i'r lan;  
Tebygol fod fy mhwys i fry  
'N ddirgelaidd ar f' Anwylud cu.
- 6 Rhyfeddol fel cyneliaist fi,  
Yn erbyn myrdd o elynion cry';  
Trwy ddyfroedd mi ês, nas gwyr yn  
dyn  
Mor ddwfn o'ent, ond Ti dy Hun.

W. W.

MAE 'm siwrnai trwy 'r anial-  
wch maith,  
Mae 'r tide a'r tonau a'r ein taith;  
Gelynyon erchyll ar bob llaw,  
Cyn enill tir y Ganaan draw.

- 2 Ond pan y landiom yno i'r lan  
Fe lwyr anghofia 'm henaidd gwan  
Y gofid trist, y poen, a'r traul  
A gawsom yma dan yr haul.
- 3 Mynydyn yn y nefol fyd  
A etyb ein holl boenau 'gyd:  
'Radd leiaf o ongoniant fry sydd well  
Na holl drysorau 'r India bell.
- 4 Pa'm ofna' fy ngelynyon mwy?  
Clwyfyd y cryfa' o honynt hwy,  
Can's pen y ddraig a sigwyd fry  
'N y frwydr fawr ar Galfari.

- 5 Mae gen' i hawl, doed fel y dêl,  
I addewidion sydd dan sêl;  
Mi gredaf mwy, pwy roiff im' nôd  
I DDUW i dori ei air erioed?
- 6 P'odd bydda' i dlawd? fy enw gaed  
Yn llyfr y cyfamod rhad;  
A golla' i 'r dydd a'm Mrawd yn  
ben  
A Chaptan yn y nefoedd wen?
- 7 Ni ildiai i ddim o'r maes yn llyn,  
Mi ddringais dylau mawr cyn hyn;  
Mi dynais oen o balfau 'r llew,  
Mi doraf ben Goliah glew.

- 8 'Rwy'n caru ei air a'i 'Fengyl faith'  
Ei g'famod mawr a'i ryfedd waith;  
'R wy 'n caru ei ordinhadau iach,  
A'i gyfraith bur bob iota fach.

- 9 'Rwy'n caru 'r man mae 'Mhriod cu,  
A hwnw ydwy 'r nefoedd fry;  
'R wy 'n caru maingc ei ras dan go',  
Lle ce's faddeuant lawer tro.

W. W.

## HYMN CXXI.

Dedwyddwch Tragwyddoldeb.

CAF fod yn llynydd byth  
Pan etifeddy' 'm mraint,

'D oes gofid mwy yn mhlith  
Y gogoneddus saint ;  
Caf yno fyw 'mhell uwch y byd,  
A'm serch i gyd ar IESU gwiw.

2 Ni 'hedeg Satan wan  
I'm cartre' uwch y nen,  
Ddring pechod byth i'r lan  
I drothwy 'r nefoedd wen ;  
'Ddaw dim i'm cwrdd yn Seion fry,  
Yn fuan ffy 'ngelynion 'ffwrdd.

3 'D oes gwrthddrych mwy i gael  
I demtio 'm henaid llaith,  
Nac unhryw bleser gwael  
Yn nhragwyddoldeb maith ;  
Dim gwagedd ffol mewn nefol fyd,  
I dynu 'm bryd byth ar ei ol.

W. W.

## HYMN CXLII.

*Priodoliaethau Dŵ.*

**C**LODFORWCH Frenin nefoedd  
fry,  
'Fe 'n ARLWYDD yr arglwyddi sy',  
Creawdwr bywyd pawb a'u bod,  
Fe sydd, Fe fydd, Fe oedd erioed.

2 Creawdwr y ffurfafen fawr,  
Sy 'n hongian uwch y ddaear lawr ;  
Yr haul, y lloer, y ser y sy'  
Yn gwibio 'n enrych nefoedd fry.

3 Trwy ei air fe wnaeth y ddaear gron,  
'Nghyd a'r môr mawr sy 'n rhuo ei  
dôn ;  
Dyffrynoedd a'r mynyddoedd maith,  
Plant Adda o bob llwyth ac iaith.

4 Fe sy 'n berchenog ar y 'stor,  
Mewn awyr, daear, dw'r, a môr ;  
A'r holl greaduriaid mân a'u hil  
Sy 'n eiddo fo ar fryniau fil.

5 Dal sylw craff mae ar bob un,  
Gan chwilio dyfnder calon dyn ;  
'D oes greadur o'r greadigaeth fawr  
Nas gwyr ei feddwl ef bob awr.

6 Myn barch, ac idd' ei enw glod  
Oddiwrth bob gweithred ag sy 'n bod,  
Ei ogoniant mawr fe 'i dwg i ben  
O uffern ac o'r nefoedd wên.

7 Mae 'r moroedd mawr a'r mynydd-  
oedd maith  
Yn seino 'maes mewn eglur iaith,  
A'r holl greaduriaid o bob rhyw  
Sy 'n dyweyd, " Mai rhyfedd iawn  
yw Dŵ!"

W. W.\*

## HYMN CLIII.

*O goffadwriaeth am farwolaeth amryw o  
rai duwiol oddiamgylch Llansawel.*

**F**Y myfyrdodau i 'n felus sy',  
Wrth gofio'r dorf sy 'n moli fry ;  
Pob un yn ddysglaer yn ei le,  
'N rhagori ar ser yn enrych ne'.

2 Fel y rhagora 'r perlau drud  
Ar dom a sorod sy 'n y byd,  
Mil mwy rhagoriaeth sy 'n eu gwedd  
Na 'r prydd yr oe'nt tu yma i'r bedd.

3 Yr haul g'wlyddia maes o law,  
Wrth wel'd y rhai 'n mewn dydd a  
ddaw ;  
Fe 'mguddia 'r lloer, ni ymddengys  
mwy,  
Gan lewyrch eu dysgleirdeb hwy.

4 Mae yno heddyw rai yn iach  
R'odd ffarwel in' dros ronyn bach ;  
Yn ddystaw iawn diangasant hwy  
I'r Sabbath fry sy heb ddiwedd mwy.

5 Aethant i maes o'r cystudd mawr,  
Eu gofid oll a ddarfu 'n awr ;  
Maent heddyw 'n canu, canant byth,  
Heb sw'n pechadur yn eu plith.

\* Yma y terfyna y Chweched Ran. Mae yn anhawdd bod yn sicr pa un ai ychwanegiad at y ddau argraffiad cyntaf, y rhai a gyhoeddwyd yn rhanau, ydyw yr Hymnau a geir oddiyma hyd ddiwedd yr *Aleluia*, a'i ynte a oedd y ddau argraffiad cyntaf yn cynwys mwy na chwe' rhan. Yr ydym yn tueddu i feddwl fod mwy na chwe' rhan wedi eu cyhoeddi, oblegdyd pe buasai cymaint ag a geir oddiyma i ddiwedd y llyfr yn Hymnau newyddion, yn cael eu cyhoeddi am y waith gyntaf yn argraffiad 1758, y mae yn lled debyg y buasai yr awdwr yn cyfeirio atynt yn ei Ragymadrodd. Eto, os cyhoeddwyd mwy na chwech, y mae yn rhyfedd na buasai rhywun yn y ganrif hon wedi eu gweld yn rhywle. Y mae llawer o Hymnau "J. Jones" a "William Edwards," a geir yn y Chweched Ran, wedi eu gadael allan o'r holl argraffiadau dilynol.

6 Myrddiynau a myrddiynau mwy,  
O gyfeillion newydd gawsant hwy ;  
Oll anrom ni 'n rhagori 'mhell,  
Ac yn eu caru 'n llawer gwell.

## HYMN CLIV.

*Yr ail ran.*

**H**WY gawsant wel'd, O gwyn eu  
byd!  
'R hen bererinion yno i gyd ;  
Gynt gwedi bod mewn dw'r a thân,  
A myn'd trwy 'r pyrth i mewn o'u  
blaen.

2 Rhai gwedi myn'd i ben eu taith  
Er's miloedd o flynyddoedd maith,  
Ac eto i'r IESU 'n canu clod,  
Mor felus a'r awr gynta' erioed.

3 Yn mhlith y rhai 'n hwynt-hwythau  
maen',  
'N awr yn eu helfen oll yn lân ;  
A'u hyfryd sw'n dybygwn sydd  
Yn beraidd iawn i glustiau 'm ffydd.

4 Wrth wel'd eu baint fy nghalon sy'  
Yn brefu am y nefoedd fry,  
Nes ydyw fy serchiadau 'n wir,  
Oll megys fflam o gariad pur.

5 Darfuant hwy yn lân yn awr  
Ag amryw derfysgiadau mawr ;  
Y poen a'r gofid oll i gyd,  
A'r temtasiynau sy 'n y byd.

6 Fel hyn y daeth, gadawyd ni  
I fyn'd i maes yn erbyn llw  
O elynion hyl dichellgar iawn,  
Heb wybod bryd eu congro gawn.

## HYMN CLV.

*Y drydedd ran.*

**C**YFEILLION oe'nt mewn dw'r  
a thân,  
Wrth deithio 'r llwybr cul yn mlaen,  
Yn ffyddlon iawn 'mhob man a lle,  
At 'r hyn berthynai i deyrnas ne'.

2 Mae cariad IESU, eu Prynwr drud,  
Wedi eu congwero 'n awr i gyd ;  
Fel na allant lai, o eitha 'r ne',  
Na chadw eu golwg arno 'fe.

3 Eu coronau dysglaer sy' ar eu pen,  
Yn rhodio yn y nefoedd wên,  
A'r palmwydd gwyrdd, eu harwydd  
hwy  
Na chânt fyn'd i ryfela mwy.

4 Eu tafod wedi 'i ddyysgu sy'  
Yn holl ganiadau 'r nefoedd fry ;  
A'u bysedd yn gyfarwydd cair,  
O chwareu ar y delyn aur.

5 Dysgwyl y maent bob mynydd awr  
Am wel'd yr adgyfodiad mawr,  
I'r cyrff sy 'n gorwedd yn y bedd  
Gael rhan o'r briodasol wledd.

## HYMN CLVI.

*Gwaredigaeth yn nesau.*

**O**'R diwedd fe iachaw'd fy nghlwy',  
Na lwfrhaed credadyn mwy ;  
Ei air a saif, a'i 'ddewid wên,  
Er oedi 'n hir, a ddaw i ben.

2 Dyma gyfarfod hyfryd iawn,  
Myfi yn llwm, a'r IESU 'n llawn ;  
Myfi yn dlawd hab feddu dim,  
Ac yntau 'n rhoddi pob peth im'.

3 Y bywyd wyf fi 'n awr yn fyw,  
Sy 'n meddu hapusrwydd o bob  
rhyw ;  
Hapusrwydd yw, O dywedwch yw  
A weliff ddiwedd arno mwy ?

4 Mae 'n brysio at bryd i ganu 'r gân,  
Congwest gelynion fawr a mân ;  
Cânir ni 'n wên, ni fyddwn iach  
O'n pechod oll 'mhen gronyn bach.

5 Yn awr mae 'r dyddiau 'n gwir nesâu  
At dragwyddoldeb sy 'n parhau ;  
Un fynyd at y llall, heb ble,  
Sy 'n myn'd â'm henaid tua thre'.

6 Na frysiwn mwy, credwn yn glau,  
Mae 'n gwaredigaeth yn nesâu ;  
Gwelwn arwyddion braf o'r dydd,  
Mewn corff ac enaid fyn'd yn rhydd.

7 Trwsiwn ein lampau ; rho'wn ein  
'stên  
Yn llawn o olew hyd yr ên ;  
Na chysgwn mwy, ond 'drychwn  
draw,  
Fe waedda'r, Pridfab maes o law.



## HYMN CLVII.

*Dydd Nadolig.*

- B**LANT ffyddlon Seion, dewch,  
A llawenhewch i gyd,  
Yn mlaen â chwi, fel milwyr da,  
Yn llon er gwaetha 'r llid;  
O hyfryd, ddedwydd awr,  
Messiah mawr a gaed,  
Henffych i'r dydd a'r boreu daeth  
Yr iechydwrïaeth rad.
- 2 Er i ni golli 'r hedd  
Oedd yn Mharadwys wiw,  
A bod yn fyr o gadw 'r fraint,  
Myn'd dan ddigofaint Dŵw;  
Ni gawsom Hād y Wraig  
Yn gadarn graig i'n traed:  
Henffych i'r dydd, &c.
- 3 Addewid gafwyd, do,  
'N ol i ni syrthio yn mhell,  
Arfaethol ras hawl in' a roed,  
Gaed ar gyfamod gwell;  
Mae 'r sylfaen yn ddi-gryn,  
Ni chollir un o'r hād:  
Henffych i'r dydd, &c.
- 4 O blant! y fendith fawr  
A ddaeth yn awr i ni,  
Mae genym dwnnai gyda Dŵw  
Yn cyhoeddi Jubili;  
Maes o'r caethiwed du  
Rhai gafodd y rhyddhād:  
Henffych i'r dydd, &c.
- 5 Er gwaetha Satan, sydd  
Yn temtio ddydd a nos,  
Mae genym hawl i'r trysor da,  
'Fe bara o oes i oes;  
Ffordd newydd gafwyd, do,  
I deithio at y Tad:  
Henffych i'r dydd, &c.
- 6 Drachefn llawenhewch,  
Chwi etholedig rai,  
Mae 'r oruchafiaeth gwedi d'od  
Trwy Grist ein Priod ni;  
Er cyfeiliorni 'n hir,  
Cawn dd'od i dir ein gwlad:  
Henffych i'r dydd, &c.
- 7 I'n gwared daeth ein Ffrynd,  
Pan o'en ni 'n myn'd ar goll;  
Mae pob cyfiawnder ynddo Ef  
Yn trigo oll yn oll;

Can's felly 'r Oen di-nam  
A wnaethpwyd gan y Tad:  
Henffych i'r dydd, &c.

- 8 Wel, dyma 'r newydd da  
A lawenycha 'r trist,  
Mae 'r ddraig a Satan, er ein mwyn,  
Mewn cadwyn gyda 'n CRIST;  
Pan 'sigodd Ef ei siol,  
Fe 'nillodd nefol wlad:  
Henffych i'r dydd a'r boreu daeth  
A'r iechydwrïaeth rad.

## HYMN CLVIII.

*Brefiadau am Ogoniant.*

- W**RTH gofio 'r Jerusalem fry,  
Y ddinas preswylfa fy Nŵw,  
Y seintiau a'r angylion y sy'  
Yn canu caniadau o bob rhyw,  
Am mai yno mae 'Nhrysor i gyd,  
'Nghyfeillion a'm brodyr o'r bron,  
Fy nghalon sy 'n brefu o hyd  
Yn fuan am fyned i hon.
- 2 'Ngelynyon yn greulon y sydd,  
'Nhwyr rwygent i' enaid pe caen';  
'R wy 'n profi bob mynyd o'r dydd  
Nerth saethau gwenwynllyd y  
rhaf 'n,  
Am fod fy ngofidiau mor fawr,  
A'r llewod uffernol fath lu,  
Pe cawn fy nymuniad yn awr,  
Trwy angeu dihangwn i fry.
- 3 Fy enaid sychedig i sydd  
Wrth deithio dros fryniau mor  
faith,  
Yn dysgwyl yn dawel bob dydd,  
I gwrddyd â diwedd fy nhaith;  
Fel darffo fy nghofid a ngwae,  
Fy nhrallod, fy mlinder, a 'mhoen,  
A dechreu 'm gorfoledd di-drai,  
Caniadau tragwyddol i'r Oen.
- 4 Er gofid a blinder o hyd,  
A rhwystrau bob mynyd o'r awr,  
Er gelynyon echrystlon o hyd,  
S 'n curo fy ysbyrd i lawr,  
Fy enaid lluddedig a ddaw  
Trwy dymhestl, trwy donau, trwy  
dân,  
Er gwaethaf pob dychryn a braw,  
I'm cartref tragwyddol yn lân.

- 5 Mi garaf f' Anwylyd o hyd,  
Fy Mhrynwr, fy Mhriod, a'm  
Pen,  
O'r diwedd fe sugnodd fy mryd,  
O'r ddaear i'r nefoedd uwchben;  
Gwyn fyd a f'ai 'n gorwedd yn awr,  
Yn llonydd yn ngwaelod fy medd,  
Mi godwn ar doriad y wawr  
Yn fuan i weled ei wedd.

## HYMN CLIX.

*Y Gongwest Ddiweddaf.*

- P**ECHADUR wyf, f' ARGLWYDD  
a'i gŵyr,  
Pechadur a garwyd yn rhad;  
Pechadur a gliriwyd yn llwyr,  
Yn rhyfedd trwy rinwedd y  
gwaed;  
Pechadur a orfu fyn'd trwy  
Ryw 'stormydd o ddyfroedd a  
thân,  
Pechadur na orphwys byth mwy  
Nes dringo i'r nefoedd yn lân.
- 2 Y rhyfel o'n hochr ni sydd,  
Er cymaint ein tuchan a'n cwyn;  
Pwy eto 'r rioed gollodd y dydd  
Trwy waed yr Emmanuel mwyn?  
Fe ddryllwyd fy ARGLWYDD i 'n  
friw,  
Rhwyng mwrddwyr ar Galfari fry,  
Wel, bellach mi mola tr'wy' byw,  
Fe brynodd y nefoedd i mi.
- 3 'Ngelynyon, er cymaint eu llid,  
Yn lluoedd a defir i'r llyn;  
Fe'u rhwymir yn 'sgubau yn nghyd,  
Dechreuad llawenydd yw hyn;  
Mwy eto, fy enaid, yw 'th fraint,  
Ond landio tu arall i'r bedd,  
Cael treulio yn mhlith yr holl saint  
Sabbothau tragwyddol o hedd.
- 4 Pryd hyny cai glywed y gair,  
Y gair sydd felusach nag un,  
Yn seinio ffurfafen y nef,  
O enau fy Anwylyd ei hun—  
Dewch blant bendigedig fy Nhad,  
Dewch etholedigion i gyd,  
Meddianwch y deyrnas yn rhad  
Bar'tow'd ich' cyn seiliad y byd.

- 5 Y Baradwys âf iddi cyn hir,  
Mae afon y bywyd yn hon,  
Yn llifo fel grisial yn glir  
I ddiodi 'r sychedig o'r bron;  
Mae hefyd yn nghartre' fy Naf  
Afonydd o laeth ac o fêl;  
Wel, bellach tuag yno yr âf,  
A deued hi fel ag y dêl.
- 6 Fe 'm cod i ben Nebo yn llyn,  
Caf weled gwlad Canaan o'r bron,  
Y ddinas ce's ganwaith cyn hyn  
Addewid o fyned i hon;  
Ac yma cai adael fy nghnawd,  
'Lawr eilwaith i'r ddaear y bu,  
A'm lwlan yn mreichiaw fy Mrawd,  
I ganol Jerusalem fry.

## HYMN CLX.

- P**ECHADUR wyf, ac un o'r rhi'  
A brynodd CRIST ar Galfari;  
Ac un a gafodd ei ryddhau,  
A'i wared o'r uffernol ffau.
- 2 Pechadur wyf a ga's y dydd,  
'N awr gwedi 'r IESU 'm gwneud yn  
rhydd;  
Amlygodd im', nid unwaith, dwy,  
Na chyfrif Ef fi 'n euog mwy.
- 3 Ei dystiolaethau sicr y'nt,  
Mi greda 'r gair a ddywedodd gynt;  
Byth ynddo Ef, o oes i oes,  
Un cyfnewidiad gwn nad oes.
- 4 Fe 'm cynorthwya i fyned trwy—  
Gwn nad anghofia Ef fi mwy;  
Dywedodd fy mod (dileodd fy mai)  
Yn un o'i etholedig rai.
- 5 Wel, dyma 'r unig Un a ddaeth  
I'm dwyn i maes o Edom gaeth;  
Mae nerth digonol yn ei law  
I'm dwyn i mewn i'r Ganaan draw.
- 6 Er amled temtasiynau sydd  
Yn fy amgylchu nos a dydd,  
Tywysa fi trwy ddw'r a thân,  
Gwna, fel tywysodd rai o'm blaen.
- 7 Na orfoledded gelyn mwy,  
Fe ga's y cryfa' o honynt glwy';  
Fy mhechod taer, gorchfygwyd di  
'N y frwydr ar ben Calfari.

## HYMN CLXI.

*Fy enaid sydd yn sychedig am danat.*

**M**AE 'nghalon i 'n friw,  
Mewn syched 'r wy 'n byw,  
Am yfed o'r dyfroedd  
Sy 'n nefoedd fy Nuw.

2 O ARGLWYDD, fy Naf,  
Bryd, dywed, y caf,  
Wel'd gwedd dy wynebpryd,  
Haul hyfryd yr haf?

3 Cof genyf fi 'r pryd  
Y buom yn nghyd,  
Yn rhodio mewn cariad,  
Uwch cyrhaedd y byd.

4 Tyr'd, sathra Di 'r llu,  
Uffernol rai sy'  
Yn atal fy enaid  
Rhag 'hedeg fry, fry.

5 Hiraethu 'r wy 'n brudd  
Am fwy-fwy o ffydd,  
A gallu i wrthsefyll,  
Ac enill y dydd.

6 Fy enaid dan wae,  
Mewn syched y mae,  
Drachefn am brofi  
Dy hedd a'th fwynhau.

7 Duw ffyddlon erioed  
Y credais dy fod,  
Dy heddwch fel afon  
Yn dirion im' d'od.

## HYMN CLXII.

*Etholedigaeth.*

**Y** RARGLWYDD a'm carodd  
I'n rhyfedd erioed,  
Fe 'm cywir adnabu  
Fi 'n mhell cyn fy mod;  
Arfaethodd yn gynar  
Fy nghadw 'n ddi-gêl,  
Pan gwnaeth ei gyfamod  
Yn sicr dan sêl.

2 A chariad tragwyddol  
Fe 'm carodd i, do,  
Clod iddo trwy 'r nefoedd,  
Fe 'm cadwodd mewn co' ;

'Sgrifenodd fy enw  
'Mhlith,—yno ryw bryd,—  
Y rhai gynt etholodd  
Cyn seiliad y byd.

3 Er i mi drosedd  
Glân gyfraith fy Nuw,  
Do ganwaith ei demtio,  
A'i flino, gwir yw,  
Ni altrir, ni thorir  
Y weithred a wnaed  
Gynt yn nghragwyddoldeb,  
Fe ddywedodd fy Nhaid.

4 Wel, dyma fel carodd  
Fi 'n rhodd ac yn rhad,  
Pwy drysor tan nefoedd  
Mwy gwerthfawr a gaed?  
Oen anwyl ei fynwes  
A gefais heb gél,  
Mae ynddo 'n guddiedig  
Fy mywyd dan sêl.

5 Mi ge's y Ffrynd goreu  
Fyth, fyth all'sai fod,  
'R addewid a roddodd  
Ni thorodd erioed;  
Er byw 'n ei ogoniant  
Yn nghanol y nef,  
Mewn awr o gyfyngder  
Fe wrendy fy llef.

## HYMN CLXIII.

*Y ffordd newydd trwy GRIST.*

**F**FORDD newydd wnawd gan  
IESU GRIST  
I basio heibio uffern drist,  
Wedi ei phalmantu ganddo fe  
O ganol byd i ganol ne'.

2 Agorodd Ef yn lled y pen  
Holl euraidd byrth y nefoedd wen,  
Roi rhydd-did i'w gariadau Ef  
I mewn i holl drigfanau 'r nef.

3 Gwnawd llwybr rhydd, 'does rwystr  
mwy  
Nas gall credadyn dori trwy;  
Gelynnion hyll ro'w'd dan ei draed,  
Ac angeu 'n ffrynd trwy rin y  
gwaed.

4 Pa'm'r ofnwn dragwyddoldeb mwy?  
Pa'm'r ofnwn forio atynt hwy,  
Y rhai, i'n tyb, a glywn yn bêr  
Yn canu heddyw uwch y sêr?

5 Os tonau gawn a 'stormydd chwith,  
Mae Duw o'n tu, ni foddwn byth;  
Credwn yn gryf 'down maes o law  
Yn iach i'r lan yr ochr draw.

6 Myrddiynau o frodyr anwyl sy'  
O'u gofid oll yn gorphwys fry;  
'Cha's neb o rhei'ny fyn'd yn rhydd  
Heb brofi o bwys a gwres y dydd.

7 Pa'm y dysgwylw'n fyn'd i'r nef  
Heb gario 'r groes a gariodd Ef?  
Mwy melus fydd y nefoedd pan  
Yr elom iddi lan y man.

## HYMN CLXIV.

*Cariad Duw yn rhyfeddod y Credadyn.*

**R**HYFEDDU 'r wyf, O AR-  
GLWYDD CUN,  
I Ti fy ngalw erioed yn un  
I maes o'r dorf annuwiol sy'  
Yn lliwio 'r ffordd tuag uffern ddu.

2 D'wed b'le mae'm bath a gafodd  
ras?  
Wedi ymdroi mewn pechod cas;  
A ffeindir un yn Salem fry  
Wrthgilioedd ganwaith fel myfi?

3 A wnaeth i'th enw fwy o annglodd  
'D oes lun it' garu neb erioed;  
Neu bechodd fwy, er cariad drud,  
Na mi, 'mhlith meibion Adda i gyd.

4 Pan gwelwy' f' hun yn ngoleuni  
gras,  
A gwel'd pwy wy', b'le de's i maes,  
Mae 'm tafod hy' yn myn'd yn fud,  
A minau yn gwaeddi, Gras i gyd.

5 Hyd yma arweiniaist fi yn rhodd,  
Nis gwn paham, nis gwn pa fodd;  
Ni fedrai neb ond Ti, yn wir,  
I'm ledio trwy 'r fath anial dir.

6 'D oedd neb a ddalsai 'm henaidd  
gwan,  
I ddringo creigydd mawr i'r lan,  
A myn'd trwy lynoedd dyfnion  
chwith,  
Y boddodd mil heb godi byth.

7 Wel, eto helpa 'm henaidd gwan,  
Nes d'od o'r moroedd oll i'r lan;  
A chael fy nhraed ar sanctaidd dir,  
O fewn i gaerau 'r ddinas bur.

8 Yn fynych, fynych, IESU cu,  
Dadguddia 'th fod yn eiddo i mi;  
Mewn 'stormydd mawr yn wastad  
gad  
Im' ddysgu llefain, Abba Dad.

## HYMN CLXV.

*Y Llew o lwyth Juda a orchfygodd, &c.*

**E**SGYNODD ein HARGLWYDD  
Mawr, hylwydd, mwyn, hy',  
Uwch cyraedd gelynnion,  
Rai creulon, ryw cry';  
Bygythiant a fynont  
Yn êon is nen,  
Nis gallant wneud niwed  
I'n Cadben uwch ben.

2 Gall Satan i orphwys,  
Er cymaint e'j lid,  
Er cael rhai blynyddau  
I'n blino yn y byd;  
Ac er fod e'n nerthol,  
A'r defaid yn wan,  
Ni ddwg ef un ddfad,  
Dwg IESU ni i'r lan.

3 Wel, blant, gorfoleddwch,  
Ni gawsom y dydd,  
Trow'd Satan oddiyno,  
Mae 'r nefoedd yn rhydd;  
Fe bechodd, fe gwmpodd  
O entrych y ne';  
Ni bech'som, fe 'n prynwyd,  
Ni gawsom ei 'n le.

4 Ar ffynydd Calfaría,  
Hiliogaeth y wraig  
Mewn rhyfel o'r teca'  
Orchfygodd y ddraig;  
'Fe sigodd ei choryn,  
Rho'ws iddi 'r fath glwy'  
Fel gallwn, er gwaned,  
Ei chongro hi mwy.

5 Wel, weithian cymerwch  
Eich arfau yn hy',  
Dewch allan i ryfel  
Yn erbyn y llu;



Ni rhoddwn hwy 'n fuan  
I lawr tan ein traed,  
Cawn ganu am gongcwest  
Yn rhinwedd y gwaed.

- 6 Molianwn yr IESU  
Am hyny bob un,  
Bu farw ar Galfaria  
'R Emmanuel ei Hun ;  
Fe gym'rodd ein beiau,  
Eu pwysau a'u poen,  
Dyoddefodd y cwbl  
Mor llariaidd a'r oen.
- 7 Daeth uffern, a'r ddaear,  
A'r nefoedd yn nghyd  
I gongcro 'r Messiah,  
Iachawdwr y byd ;  
Fe safodd i fyny,  
Fe 'nilodd fath glod,  
Bydd coffa am dano  
Tra 'r nefoedd yn bod.
- 8 Fe gurodd Gehenna,  
Fe gongcrodd y byd,  
Fe 'gorodd y nefoedd  
Oedd gauad o hyd ;  
Diffoddodd ar unwaith  
Yn gyfan â'i waed  
Holl felldith y gyfraith  
Ac angerdd ein Tad.
- 9 Pob bryn fe 'i gostyngodd,  
Gan lanw pob pant,  
'R adwyau fe 'u torodd,  
Fe sychodd bob nant ;  
Palmantodd bob llwybr  
O'r ddaear i'r ne' ;  
Fel gallai 'r briodas-ferch  
Gael digon o le.
- 10 Mae 'r Brenin ei hunan  
Yn cerdded o'r blaen,  
Yn treio grym dyfroedd  
A phoethder y tân ;  
Ni chaiff ei Anwylyd  
Fwyn, hyfryd, fyn'd gam  
Nes tori grym dyfroedd,  
A diffodd y fflam.
- 11 Wel, bellach dechreuwch,  
Mae 'n ddigon o bryd,  
I ganu caniadau  
I Iachawdwr y byd ;  
Ni seiwn y ddaear  
A'r nefoedd uwch ben,  
Hosanna, Haleluia,  
Hosanna, Amen.

## HYMN CLXVI.

Yr Ail Ran.

'R HEN Adda ga's gynyg  
Ar gadw ei holl  
Hiliogaeth heb bechu,  
A myned ar goll ;  
Fe gwypodd y Cynta',  
'R Ail 'nilodd y dydd,  
Ac yn ei or'chafiaeth  
Daeth miloedd yn rhydd.

- 2 Bu 'r frwydr yn amlwg  
Ar Galfari fry,—  
Fy ARGWYDD ei hunan  
Yn erbyn y llu ;  
Er cael hwy bob mantais,  
Eu byddin yn gref,  
Congcwerodd hwy 'n loew  
'Ngwydd daear a nef.
- 3 Pwy fentrai gymeryd  
Fath arfau a'r rhai'n,  
Yn erbyn llu uffern,  
Sef coron o ddrain,  
A mantell o 'sgarlad,  
A chroes o bren ir,  
Y gorsen a bustl,  
A hoelion o ddu !
- 4 Bu farw f' Anwylyd,  
Fe grymodd ei ben,  
Fe 'gorodd y beddau,  
Fe dduodd y nen ;  
A'r holl greadigaeth  
Ryfeddodd yn fawr,  
P'odd marw Creawdwr  
Y nefoedd a'r llawr ?
- 5 Fe esgynodd i fyny,  
Fe dalodd ein d'led,  
Fe 'gorodd holl ddrisau  
Y nefoedd ar led ;  
Fe 'n rhodd ni mewn heddwch  
Trwy farw ar y pren,  
A'r holl greadigaeth,  
O'r ddaear i'r nen.
- 6 Fe 'i rhoddwyd i'r ddaear ;  
'Fe gododd yn fyw ;  
Y maen a symudwyd  
Ar 'sgwyddau fy Nuw ;  
'Fe laddodd yr aneu,  
'Fe ddadglodd y bedd  
Wneud ffordd i'w anwylyd  
Agodi mewn heddwch.

7 Wel tyred, fy enaid  
O'th hunan i maes,  
Ymfrostia yn unig  
Yn IESU a'i ras ;  
Efe wnaeth y cwbl,  
Efe bia 'r clod,  
Bydd moliant i'w enw  
Tra nefoedd yn bod.

## HYMN CLXVII.

Y Drydedd Ran.

NI redwn yn wrol,  
Mae 'r Brenin o'n blaen,  
Pa'm ofnwn ni rwystrau  
O ddw'r ac o dân ?  
Mae 'r goron a'r palmwydd,  
A'n gwobr ni fry,  
Yn nghadw 'n llaw 'r Barnwr—  
Mae 'n perthyn i ni.

2 Rhaid cadw ar y llwybr,  
Heb bwyso ar un llaw,  
I ddehau neu aswy,  
Nac yma na thraw ;  
Os trown ni un ochr,  
Y llwybr sydd gul,  
Hyll iawn yw 'r gelynyon,  
A chyfrwys eu sgil.

3 Fe 'n gwneir ni 'n gyfarwydd,  
Ein cadben di-nam  
A deithiodd yn union  
Heb golli un cam ;  
Dilynwn ei gamrau,  
Trwy fywiol ffydd gref,  
Fe 'n dygir yn fuan  
I'r man yr aeth Ef.

4 Blinderau a chroesau  
Yn sicr ni gawn,  
Ca's yntef o'r rhei'ny  
Rifedi mawr iawn ;  
Yn wirion a llariaidd  
Dyoddefodd hwy 'gyd,  
Sancteiddiodd i'w bobl  
Holl drallod y byd.

5 Wel, bellach, gystuddiau,  
O safwch bob tu,  
Mi safu 'n y canol  
Yn ÷on a hy' ;  
A churwch eich gwaetha'  
Ar f' enaid o hyd,  
Fe dynodd fy ARGWYDD  
Eich gwenwyn i gyd.

6 Diolchaf byth iddo,  
Sancteiddiodd y groes,  
'Sgafnaodd ei phwysau,  
Fe laesodd ei loes ;  
'N awr nefoedd yw ei chario,  
A gwynfyd y sy'  
Yn canlyn yr IESU  
I Galfari fry.

## HYMN CLXVIII.

Y Bedwaredd Ran.

DEWCH, frodyr, yn ÷on  
Trwy 'r dw'r a thrwy 'r tân,  
Fe gwypiff gelynyon  
Cry', blinion o'n blaen ;  
Ni alliff hen Satan,  
Y bradwr, roi brath,  
Ar fynydd Galfaria  
Fe gollodd ei saeth.

2 Wel, gyda 'r Henuriaid  
Yn nghanol y nef,  
A'r pedwar anifail  
Yn uchel eu llef,  
I lawr ar ein gliniau,  
Ni roddwn bob prydd  
'R arnyddedd a'r gallu  
I Iachawdwr y byd.

3 D'oeedd neb ar y ddaear,  
Na neb yn y nef,  
Oedd deilwng i ddatod  
Y seliau ond Ef ;  
Agorodd y llyfr  
(Oedd gauad) â'i waed,  
Ni ddaethom i ddarllen  
Holl gwysel ein Tad.

4 Angylion ddaeth i wybod  
Peth guddiwyd o hyd,—  
Rhyw hen wirioneddau  
Cyn seiliad y byd ;  
Maent o'r drugareddfa  
Yn edrych i lawr  
I'r arch i gael gweled  
Dirgelion bob awr.

5 A minau ddaeth i wybod  
Dirgelion di-lyth,  
Na all'sai plant Adda  
Eu deall hwy byth ;—  
Cael nofio yn moroedd  
Mawr dyfnion ein Duw,  
I'w caru a'u credu,  
A'u canu tr'om byw.

- 6 Mae mur y gwahaniaeth ?  
Fe rwygwyd y llen  
Oedd rhyngom a'n HARGLWYDD,  
O'r ddaear i'r nen ;  
Ni welwn yn amlwg  
Trwy rinwedd ei waed,  
Y Shecina dysglaer,  
Wynebpryd ein Tad.
- 7 Ni welwn ein henwau  
Yn llyfr ein Tad  
'N awr wedi 'sgrifenu  
A dwfr a gwaed ;  
A hefyd ar ephod  
Yr ARLWYDD uwch ben,  
'R Offeiriad a basiodd  
Trwy ganol y llen.
- 8 Ni welwn ein caru,—  
O gariad mor ddrud !  
Yn nghwrsel y Drindod,  
Cyn seiliad y byd ;  
Mi wela 'r cyfamod  
Yn gadarn a wnaed  
Draw yn nhragwyddoldeb  
Rhwng IESU a'n Tad.
- 9 Ni welwn faddeuant  
Ar fynwes ein Duw,  
A heddwch diddiwedd,  
O rhyfedd ei ryw !  
Y nef yn agored,  
A chroeso i ni fry,  
Wel, dyma 'r dirgelion  
Ddadguddiwyd i ni.
- 10 Ni welwn yn amlwg  
Daw pechod i lawr,  
Trodd IESU ei arfau  
'N ei erbyn e 'n awr ;  
Pob trefn rhagluniaeth  
Sy 'n erbyn y ddraig ;  
Mae 'r nefoedd a'r ddaear  
O ochr y wraig.
- 11 Diolchwn i'r IESU  
'Gael gweld y dydd  
Y cododd goleuni  
I'n gollwng yn rhydd,  
O'r dwfn garchar-dŷ  
I Galfari fry,  
I wel'd y gogoniant  
Yn Seion y sy'.

## HYMN CLXIX.

*Y Bumed Ran.*

- M**AE 'n bryd i ni ganu,  
Ni gawsom y fraint,  
Mae 'r rhyfel yn cerdded  
O ochr y saint ;  
Mae 'n Brenin ni 'n dyfod  
A'i gledde ar ei glun,  
Fe sathrodd y gwinrwyf  
Bob gronyn ei Hun.
- 2 Mae 'i ddillad yn gochion,  
Llychwinwyd â gwaed,  
Fe gwmpodd gelynon  
Yn fyrdd tan ei draed ;  
Fe rwygodd wlad Edom  
(Diolchwn i'n Duw),  
Ni saff un gelyn  
Yn Edom yn fyw.
- 3 Nid gallu angylion  
Na gallu un dyn  
Gongcwerodd y gelyn,  
Ond ei allu ei Hun ;  
Fe 'nillodd ogoniant,  
Anrhydedd mor gref,  
Mae canu am dano  
Mewn daear a nef.
- 4 Er amled yw tywod,  
Er amled y ser,  
Mwy amal y cwmni  
Sy 'n nheyrnas fy Ner ;  
Er harddedd yw 'r haulwen  
Sy 'n tywynu ar bob gwlad,  
Mil harddach y cwmni  
Yn nheyrnas fy Nhad.
- 5 Fe ddarfu eu blinder  
A'u gofid i gyd,  
F' anghofiwyd ymdrechu  
'N rhyfeloedd y byd ;  
Fe basiodd eu gauaf,  
Newidiwyd yr hin,  
Yn awr maent yn canu,  
A charu bob un.
- 6 Ni chlywir dim ochain  
Gan angel na saint,  
Ond pur orfoleddu  
(On'd braf yw eu baint !  
Rhyfeddu 'r Messiah,  
Jehofah yn ddyd,  
A chraffu eu llygaid  
Ar IESU bob un !

## HYMN CLXX.

*CRIST yn bob peth mewn Profedigaeth.*

- O** IESU 'r Brenin mwya' ei fraint,  
Unig hyfrydwch yr holl saint ;  
Holl obaith, nerth, a noddfa glyd,  
Dy ddefaid gwirion yn y byd.
- 2 O edrych rhwng y ser i lawr  
I eitha' dyfnder moroedd mawr ;  
Yno cai wel'd fy ysbyrd gwan  
Yn gruddfan yn y dyfna' man.
- I nofio i fyny 'n fawr fy mryd  
Uwchlaw y ffrwd a'r tonau 'gyd ;  
Ymdrechu 'n lân, ond ffaelu 'r wy',  
Ac wrth ymdrechu 'n soddi mwy.
- 4 'R wy 'n gwel'd mai nerth fy enaid gwan  
Yw bod yn llonydd yn y fan :  
A gado 'm IESU gario 'n lân  
Y gwaith ddechreuodd yn y blaen.
- 5 Yn rhad rhaid it' roi 'r cwbl im',  
Ni fedda 'i werth, na nerth, na grym ;  
'N ol rhoddi, eilwaith trefnu 'm gras  
'Mhob brwydr, cyn y 'nillwy 'r maes.
- 6 Myrddiynau maith a gongcraist Di  
O elynion hyll ar Galfari ;  
'R wy 'n pwysu ar dy allu mawr,  
'Roi i' holl elynion inau 'lawr.

## HYMN CLXXI.

*Yn yr ARLWYDD (medd un) y maes i mi gyfiawnder a nerth.*

- F**Y unig gysur tan y ne'  
Fod IESU 'n sefyll yn fy lle ;  
Cym'ryd fy meichiau bob yr un,  
A'u rhoi hwy ar ei 'sgwyddau ei Hun.
- 2 Anfeidrol gryf ydyw dy fraich,  
Dim pwys i Ti, er maint fy maich ;  
Gynt ar y groes dyoddefaist lid  
A phwysau holl bechodau 'r byd.
- 3 Nid wy' ond gwan, O n' ad fi lawr  
Dan bob rhyw drallod fach a mawr ;  
Mi bwysaf arnat tra ynof chwyth,  
Digon wyt Ti, a digon byth.

- 4 Nerthaist dy blant, O faint dy ras !  
Er gwaned o'ent i gario 'r maes ;  
Pa faint yn llai a fydd dy rym  
Trwy estyn braich o gymhorth im' ?
- 5 Fy ngharu wnest, er maint fy mai,  
A'm galw o blith annuwllyd rai ;  
B'le dof fi bellach am iachad,  
A nerth i gongcro ond at fy Nhad ?

## HYMN CLXXII.

*Col. iii. 11—CRIST yn bob peth.*

- I**ESU yw 'm ffordd i'r nefol fyd,  
Rhy wan yw 'm dyledswyddau 'gyd ;  
'Nghyfiawnder eilwaith, a fy ngrym,  
Ti wyddost feddai o honynt ddim.
- 2 'R wy 'n dewis IESU, a'i farwol glwy',  
Yn Frawd a Phriod i mi mwy ;  
Ef yn Arweinydd, Ef yn Ben,  
I'm ledo o'r byd i'r nefoedd wen.
- 3 Wel, dyma Un, O dywedwch b'le  
Y ffeindir arall fel Efe ?  
A bery 'n ffyddlon im' o hyd  
Yn mhob ryw drallod yn y byd ?
- 4 'D oes gen' i mwy ddim tan y ne'  
'Mddigrifu ynddo ond Efe ;  
Neb a ddyddana f' enaid trist  
Yn ei holl flinderau, ond IESU GRIST.
- 5 Pwy wrendy ruddfan f' enaid gwan ?  
Pwy 'm cod o'm holl offidiau i'r lan ?  
Pwy garia'm baich fel Brenin ne' ?  
Pwy gydymdeimla fel Efe :
- 6 Wel, ynddo ymfrostitaf inau mwy ;  
Fy holl elynion, dywedwch, pwy  
O'ch cewri cedyrn mawr eu rhi'  
All glwyfo mwy f' Anwylyd i ?

## HYMN CLXXIII.

*Yr Ail Ran.*

- F**E gododd yn ei erbyn Ef  
Y ddaear, uffern,—do, a'r nef ;  
Ond sefyll wnaeth ein Prynwr drud  
Dan eitha' lliid y rhai 'n i gyd.

- 2 Cyfyngder mwya' n Prynwr rhad  
Oedd colli gweled gwedd y Tad,  
Pan llefodd ar ben Calfari,—  
" Eloi, lama sabachthani ! "
- 3 O feiau mawr, beth all' sech fwy  
Na rhoddi i Frenin nefoedd glwy' ?  
Lladd'soch yr Oen, fe drodd y rhod,  
Mae dydd eich dial chwi yn d'od.
- 4 O dewch, rhyfeddych rin ei waed,  
Rhoi torf o elynion dan ein traed ;  
Ei ddwyfol waed ddamsangodd  
griw  
I angeu, wnaeth fyrddiynau 'n fyw.
- 5 Dirgelwch o anfeidrol ryw  
I'm IESU farw, ac yntau 'n DDŪW ;  
Mae pleser gan angylion nef  
Fyfyrion ar ei angeu Ef.
- 6 Dyma lle bydd fy nhrigfan i  
O fewn i glwyfau 'Mhrynwr cu ;  
Y man na's tyr euogrydd trwy,  
Y man na's mentra Satan mwy.

## HYMN CLXXXIV.

CRIST, *Eiriolwr yn y Nef.*

- WRTH droi fy ngolwg yma  
'lawr  
I gyrau 'r greadigaeth fawr,  
Gwrthddrych ni wel fy enaid gwan  
Ond IESU i bwyso arno 'n rhan.
- 2 Dewisais Ef, ac Ef o hyd  
Ddewisai i mwy, tr'wy' yn y byd ;  
Can' gwynfyd ddaeth i'm henaid  
tawd,  
'Gael Brenin nefoedd i mi'n Frawd.
- 3 'Nghysuron oll oddiwrtho dardd,  
Mae 'n Dad, mae 'n Frawd, mae 'n  
Briod hardd ;  
F' Arweinydd llariaidd tua thre',  
F' Eiriolwr cyfiawn yn y ne'.
- 4 Fe gara' i bellach, tra f'wy' i byw,  
'N fwy na 'r creaduriaid o bob  
rhyw ;  
Er gwaetha' dae'r ac uffern drist,  
F' Anwylyd i fydd IESU GRIST.

- 5 O pa'm yr wyt, fy enaid, clyw,  
Am grwydro 'mhell oddiwrth fy  
Nuw ?  
Ni che's fath bleser tan y ne'  
Ag gefais yn ei gariad E'.
- 6 Melus fel manna 'r nefoedd fry  
Yw hyfryd hedd f' Anwylyd cu :  
Mwynhad o'i gariad Ef a'i ras,  
Na 'r diliau mel sy 'n well ei flas.

## HYMN CLXXXV.

*Chwenychu Diosg.—2 Cor. v. 4.*

- FY enaid athrist, ARGLWYDD, sy  
'N och'neidio tua 'r nefoedd  
fry ;  
Lluddedig, ar lewygu mae,  
Yn gruddfan am gael ei ryddhau.
- 2 Yn cyd-hiraethu, f' ARGLWYDD cu,  
A'r rhai sy' dan yr allor fry ;  
Fy ngweddi, fel yr eiddynt hwy,  
Sy 'n d'wedyd, " Tyr'd, nac oeda  
mwy."
- 3 Beth yw 'r greadigaeth hebst Ti,  
Ond fel rhyw bydew tywyll du ;  
Na ffeindir cysur ynddi 'maes,  
O ser y nef i'r ddaear las.
- 4 Am hyn 'r wy 'n blino ar y byd,  
Ac ar ei wrthddrychau oll i gyd ;  
A blino aros ynddo 'n hwy,  
Am nad wy 'n cael o'th gwmni 'n  
fwy.
- 5 'R wy 'n llawen eto ; 'r amser mae  
O awr i awr yn agoshau ;  
Yr amser hyny, gwyn fy myd,  
Cai 'mado â'm cystuddiau 'gyd.

## HYMN CLXXXVI.

*Y Cristion yn teimlo ei lesgedd.*

- CREAUDWR doeth y ddaear  
lawr,  
Ffurfafen las, a'r nefoedd fawr,  
Edrych o rhwng y ser i'r byd  
Wyt Ti ar feibion Adda 'gyd.

- 2 'Ngwel'd inau 'r wyt yn mhlith y  
llu  
Sy' â'u wynebau tua 'r nefoedd fry,  
Am deithio 'mlaen i'r nefol fyd,  
Y llesgao' o'honynt oll i gyd.
- 3 Y gwana' wyf, a rheitha' ei ddwyn  
O'r detaid gwirion ac o'r wyn ;  
A diau yw mi arosa 'n ol,  
Oni chod y Bugail fi 'n ei gól.
- 4 Ni alla' i gerdded cam yn mlaen  
Trwy nerth fy hun, mi gwada 'n  
lân ;  
'Nghyfiawnder a fy rheswm ffol  
Sy 'n hytrach yn fy nghadw 'n ol.
- 5 Ffael fel hyn yr wyf fi 'n awr,  
F' arfau fy hun mi rhof i lawr ;  
Mi dreiais wneud i'm hunan les  
Gan' waith, ac eto ronyn nes.
- 6 'D oes enw foddia 'm henaid trist  
Ond enw hyfryd IESU GRIST ;  
Wel, dyma 'r gwir, ni fedda' i 'r un  
Rhyw ddinas noddfa ond Ti dy  
Hun.
- 5 F' Anwylyd IESU aeth yn mlaen,  
'N awr gyda 'r dorf fel tywod mân,  
Yn gorphwys ar ddeheulaw 'Nhad,  
Yn pledio iechydwrriaeth rad.
- 6 Fe aeth ; mae 'm calon inau fry,  
Beth wna'r â'm corff ar ddaear  
ddu ;  
Gwnaf well gwasanaeth yn y ne',  
Pan byddwy 'n llawn o'i gariad E.

## HYMN CLXXXVIII.

*Na ofelwch dros Dranoeth.*

- O ARGLWYDD, d'wed i mi pa  
lun  
Y galla' i gario 'meichiau f' hun ?  
Mawrion y'nt hwy, ond fi sy' wan,  
P'odd coda' i'r lleia' o'r rhai 'n i'r  
lan ?
- 2 D' ysgwyddau Di ddal feichiau  
mawr,  
Arnynt mae 'n hongian nef a llawr :  
Am hyn fy holl ofidiau i  
Gaiff bwyso 'n gyfan arnat Ti.
- 3 Paham gofala 'm henaid mwy ?  
Na wna ; mi 'drycha' 'fyny, pwy  
Yw 'r Hwn sy'n awr yn entrych ne'  
Yn trefnu 'r cwbl yn fy lle ?
- 4 Mae 'r holl greadigaeth yn ei law,  
Fe sy 'n ei threfnu yma a thraw ;  
I ddodi 'maes ei anfeidrol glod  
Mae pob rhyw drefn ag sy 'n bod.
- 5 O nertha f' enaid gwan ei ffydd  
'Roi ofal arnat Ti bob dydd ;  
Heb fiino 'nghylch amseroedd draw,  
Y rhai o bosib' byth ni ddaw.
- 6 Pa'm, m' m' ddylliau gwibog, fel y  
gwllith,  
Y blinwch f' enaid gwirion byth,  
'Nghylch mil o bethau is y nen,  
Na ellir dysgwyl do'nt i ben ?
- 7 Taw, f' ysbryd, paid a chrwydro 'n  
hwy  
Oddiwrth yr Hwn a'th gân yn fwy  
Na'r holl wrthddrychau gwael i gyd  
Sy' am lanw 'm meddwl yn y byd.

## HYMN CLXXXVII.

*Gwagedd y Byd.*

- PWY bleser dan y nen a gawn  
All roddi im' foddlonrwydd  
llawn ?  
Pan 'drychwy' ar f' Anwylyd  
gwyh,  
Pob peth sydd am y sala ei ddrych.
- 2 Rhyfedd mor wael yw 'r pethau sy  
Am ddenu 'm serch o'r nefoedd fry !  
Un wên o eiddo 'm Prynwr drud  
Sydd ganmil mwy na 'r rhai'n i gyd.
- 3 Paham myfyria 'm henaid drud  
Ar gibau 'r moch, pleserau 'r byd ?  
A gado 'r llo pasgedig rhad,  
A'r gloyw win yn nhŷ fy Nhad !
- 4 Ffarwel y sorod sy 'n y byd,  
A'm hen drigfanau oll i gyd ;  
Tuag adre' 'r âf, er dw'r a thân,  
Mae sw'n fy mrodyr o fy mlaen.

## HYMN CLXXIX.

*Y penaf o Bechaduriaid.*

- Y**R Oen a laddwyd ydyw rhan  
A holl hyfrydwch f' enaid  
gwan ;  
Fy Mrawd a 'Mhriod fydd E mwy  
Yn mhob cyfyngder elwy' trwy.
- 2 A doed hi arna' i fel y dël,  
Mi 'mfrostiaf ynddo byth heb gél ;  
Fu neb o feibion Adda 'rioed  
A rhwymau mwy i ganu ei glod.
- 3 Pwy o honoch chwi, gerubiaid pur,  
Seraphiaid ac angylion gwir,  
A gafodd y fath fraint a mi,  
Trwy angeu 'r Iesu ar Galfari ?
- 4 Wel, bernwch chwithau, seintiau  
'gyd,  
Sy 'n teithio tua 'r nefol fyd,  
Mi 'r dua' oll, on'd 'nyled yw  
Molianu mwy ar f' anwyl Dduw ?
- 5 O barna dithau, ddaear faith,  
Sy 'n dal cenhedloedd o bob iaith,  
Neb arnat fu, neb arnat sy',  
Mwy rhwym i ddiolch na myfi.
- 6 Pe agorai 'r Iesu uffern goll,  
A rhoddi i'r ellyllon oll  
Ryw Jubil faith, heb boenau mwy,  
Byddai arna' i ddiolch fel hwynt-  
hwy.

## HYMN CLXXX.

*Fy Anwylyd sydd i mi yn bwysl myrr.  
Can. i. 13.*

- T**RA gallwyf byth anadlu a byw  
Molianu wnaif fy Iesu gwiw ;  
O eithafoedd nef i uffern drist,  
'Neb i mi erioed fel Iesu GRIST.
- 2 Pan byddwy 'n gorwedd tan fy  
maich,  
Heb neb i'm helpu i'r lan a'i fraich,  
Wel, dyma 'r pryd, f' Anwylyd, mae  
Yn arfer hoffi trugarhau.
- 3 Pryd hyn 'r wy 'n caru Iesu 'm  
Dduw  
Uwchlaw'r creaduriaid o bob rhyw ;  
A'm calon fach oll trwyddi 'n wir  
Yn llosgi megys marwor pur.

- 4 Ni phrofais ddim o tan y ne'  
Mor felus ag yw 'gariad E' ;  
Mi wn na ffeindir ddim i maes  
Trwy nefoedd fry bereiddiach blas.
- 5 Geiriau i ddadguddio, ofer yw,  
Beth yw melusdra hedd fy Nŵw ;  
Pe dywedwn cyd f'ai ynof chwyth,  
Melusach yw na ddywedwn byth.
- 6 Rhagori ar ddengmil mae ei wedd ;  
'R wy 'n llawn fodloni ar ei hedd ;  
'D wy 'n 'mofyn pleser tan y ne'  
Ond digon o'i gyfeillach E'.

## HYMN CLXXXI.

*Golwg Ffydd.*

- T**RWY ffydd 'r wy 'n gwel'd yn  
entrych nen  
Fan hyfryd ben fy siwrnai ;  
Y delyn aur, a'r goron fry,  
Trwy dywyll ddu gymylau.
- 2 Mi wela' draw tros fryniau pell  
Dragwyddol babell Iesu,  
A'r hyfryd wlad yr hon gaf fi  
Ar fyrder ei meddianu.
- 3 A'i bryniau fel Paradwys ardd  
Yn fiodau hardd a hyfryd ;  
A'i 'fonydd tawel, teg, di-stwr,  
Yn llifo o ddw'r y bywyd.
- 4 Pob rhan o honi, bryn a bro,  
Sydd gyflawn o ddyddanwch ;  
Dim son am ryfel, bai, na phla,  
Ond byth di-drai dawelwch.
- 5 Ei dinas hardd o risial sy',  
Neu wydr difrycheulyd ;  
Pob tŵr a mur o berlau drud,  
Mae oll i gyd yn hyfryd.

## HYMN CLXXXII.

*Golwg y Cristion arno ei hnn.*

- P**ECHADUR wyf, ie'r dua ei liw,  
O'r holl rai sydd tan nefoedd  
Dduw,  
A haeddai fod oddiwrth yr Oen  
Dan rym dy lid mewn eitha' poen.

- 2 'R wy 'n gwel'd fy mhechod fel y  
gwllith ;  
Angylion nef nis rhifant fyth ;  
Ond hawsach maddeu f' ARGLWYDD  
cun,  
Na chenyf faddeu im' fy hun.
- 3 'R wy 'n 'ëon, addefaf, arnat Náf,  
I gredu, fi bechadur, caf  
Wel'd hyfryd wedd dy wynebpryd,  
'N ol pechu 'm heinioes bron i gyd !
- 4 Ganwaith gwnes addunedau cry'  
I rodio 'n agos atat Ti ;  
Torais y rhai 'n, yr o'wn heb ble,  
Yn clwyfo 'm HARGLWYDD yn y ne'.
- 5 Dig'lonais addunedu 'n hwy,  
Ac eto addunedu 'r wy' ;  
Mae f' addunedau 'n dangos im'  
Mai onest wyf, ond eisieu grym.
- 6 Er mai aflan wyf, trwy'th Enw Di,  
O flaen y faingc mi ddoef yn hy',  
I geisio trysor nef yn rhad  
Trwy glwyfau Mhriod, gan fy Nhad.

## HYMN CLXXXIV.

*Ar yr un ystyr.*

**M**AE arna' i chwant, Ti wyddost  
p' un,  
Fy IESU da, fod yna 'n un  
O'r rhai sy 'n gwel'd dy wyneb cu  
Uwchlaw 'r ffurfafen risial fry.

## HYMN CLXXXIII.

*Teimlad y Cristion.*

- F**Y mawl a'm holl ganiadau i gyd  
Gaiff, IESU, 'th ganmol tr'wy  
'n y byd ;  
F' Anwylyd wyt, dy hedd mor fawr,  
Mil mwy na phleser nef a llawr.
- 2 Fy myfyrdodau i 'n felus mae,  
A'm holl ofalon yn lleihau,  
Pan byddwy 'n profi 'th gariad drud  
Yn enyn fy serchiadau 'gyd.
- 3 Mae 'ngobaith gwan, yn nghyd a'm  
ffydd,  
Yn d' addewidion di bob dydd,  
Yn rhoi melusdra i mi fy hun  
Byth na fynega calon dyn.
- 4 Tra fyddwy 'n dy freichiau 'n rhydd,  
'Does meddwl gwibiog garia'r dydd ;  
Mae gallu gan dy gariad drud  
I gongero fy mhechodau 'gyd.
- 5 Pan dywedost ar, yn union cawn  
Lawenydd annhraethadwy iawn ;  
Dy lais a dōdd fy enaid gwan,  
A'th hedd a'm lleinw i bob rhan.
- 6 Pan byddo 'n cuddio ei wyneb cu,  
Mae 'n gadael arwydd i myfi ;  
O fewn fy mynwes tystio mae,  
Ac felly 'm cysur yn parhau.
- 7 O'i absenoldeb pan b'wyf fi  
Yn achwyn ac yn wylo 'n lli',  
Ni chaf fi lefain felly 'n hir,  
Caf fanna 'r nef mewn anial dir.
- 8 Trwy heolydd Seion pan b'wy 'n  
myn'd,  
Yn holi 'r gwylwyr am fy Ffrynd,  
Rhyw bleser sy' mhob man a lle  
Yn unig wrth ei enwi E'.
- 2 Fy mhleser yma, er mod i 'mhell  
Oddi wrthyt Ti, a'm cwmni gwel,  
Yw caru 'th Berson, gwridog gwyn,  
Fu farw ar Galfaria fryn.
- 3 Teganau 'r byd 'n rhy fychan sy  
I haner lanw 'm henaid cu ;  
Mae 'nghalon fach yn oeri o hyd  
Ar y gwrthdychau sy 'n y byd.
- 4 Golwg o bell, a'r gynta' 'gyd,  
Yw 'r oreu ar deganau 'r byd ;  
Ond wrth eu teimlo, gweled gawn  
Eu gwraidd o wenwyn marw 'n  
llawn.
- 5 'D oes ffrynd i'w gael, angel na dyn,  
Neb, IESU, ond tydi dy hun,  
All arwain f' enaid i'n ddi-fraw  
Trwy ddyffryn cysgod angeu draw.
- 6 Y man mae angeu 'n fawr ei rym,  
Yn nerthol chware ei gleddau llym,  
Ti, IESU, all i'm dwyn mewn hedd  
Heb gaffael clwyf gan fin ei gledd.
- 7 Wel, tyr'd f' Anwylyd, tyr'd i lawr,  
Rho 'th gwmni yn 'r anialwch  
mawr ;  
Dwg fi heibio, yn dy fynwes glyd,  
I'r tanlyd seirph sy' yma 'gyd.

## HYMN CLXXXV.

*Adnabod yr IESU.*

- 1 D WY 'n 'nabod dim tu yma 'r bedd  
Ond IESU yn ei ras a'i hedd ;  
Ni cheisia' i 'nabod tra f'wy' 'mhlith  
Angylion DUW, ond IESU byth.
- 2 'D wy 'n profi mod i'n awr yn nglŷn  
Wrth ddaear, dw'r, na da, na dyn ;  
Rhyw olwg oer iawn a di-flas  
Sy ar bob peth tan yr awyr lās.
- 3 'D oes mêl na gwin i'm henaid gwan  
Yn y greadigaeth mewn un man ;  
Mi ddarfum yma, af yn mhell  
I 'mofyn am 'tifieddiaeth well.
- 4 Y perl a ge's, 'r wy' wrtho yn nglŷn,  
Ei fath ni fedd y nef ei hun ;  
O rhyfedd ! Gwrthddrych nefoedd  
fry  
Mewn amod priodas â myfi !
- 5 Ei ganmol bellach wna' i o hyd,  
Heb dewi mwy, tr'wy' yn y byd ;  
Dechreuais gân a bery 'n hwy  
Nag y ceir diwedd arni mwy.

## HYMN CLXXXVI.

*Rhosyn Saron.—Can. ii. 1.*

- P'ODD galla' i 'th ganmol, IESU  
cu,  
Am i Ti 'm dwyn o'r pydew du,  
A rhoddi nhraed yn awr yn rhydd  
Ag oedd yn rhwym er's llawer dydd ?
- 2 Fel rhosyn per, neu lili 'r maes  
Yn mhlith y drain a'r mieri cas,  
Felly mae tegwch d' wynebpryd  
Yn mhlith holl feibion Adda 'gyd.
- 3 Llyth'renau d' enw, IESU cu,  
Fel diliau mêl i'm henaid sy ;  
A'th wisgoedd yn arogl 'n wir  
Yn beraidd iawn o'r manna pur.
- 4 'D oes bellach ddim all sugno mryd  
A welais eto yn y byd :  
Wel, dyma 'r perl, mi cara' heb gél  
I dragwyddoldeb, doed a ddél.

- 5 A phleser f' enaid bach yn awr  
Yw caru fy Eiriolwr mawr ;  
Ni fedda' i mwy mewn dae'r na ne'  
Un peth 'r wy 'n garu fel Efe.

## HYMN CLXXXVIII.

*Hiraethu am Ymddatodiad.*

- O HYFRYD fan, y ddinas bêr,  
Bar'tow'd i'r saint uwchlaw y  
ser !  
Mae 'i henw 'n doddi chwant a blys  
Ar f' enaid bach fyn'd yno ar frys.
- 2 Mae tragwyddoldeb yn mhob man  
Yn enyn zel yn f' enaid gwan ;  
Mae 'r gair ei hunan lawer pryd  
Yn twymo fy serchiadau 'gyd.
- 3 Och fi, na chawn i glywed llef  
Archangel mawr o ganol nef,  
A gwel'd yn d'od fy Mhrynwyr drud  
I farnu meibion Adda 'gyd.
- 4 Codwn fy mhen, llefwn yn glau,  
Mae ngwardigaeth yn nesau ;  
A'm iechydwriaeth werthfawr rad  
Yn gwawrio draw o dŷ fy Nhad.
- 5 Cofia dy saint, O IESU cu,  
Sy 'n teithio ar y ddaear ddu ;  
A brysia 'n ebrwydd dd'od i lawr,  
'Roi 'n traed yn rhydd o'r cystudd  
mawr.
- 6 Mae'r hiraeth hyn, Ti wyddost p'un,  
O fewn fy nghalon fach yn nglŷn ;  
A'm mynych lef tua 'r nefoedd wên,  
Yw,—“ Tyr'd, f' Anwylyd, tyr'd.  
Amen !”

## HYMN CLXXXIX.

*Hiraeth am fwynhad o DDŴ.*

- CYSTUDDIAU mawrion o bob  
rhyw  
Sy' o fewn y byd 'r wy 'n awr yn  
byw :  
Pan ddarffo un, daw'r llall yn glau,  
Ac felly 'nghystudd i'n parhau.

- 2 Ond mwy na'm holl gystuddiau o'r  
bron  
Yw colli llewyrch dy wyneb llon ;  
Dy abenoldeb, IESU cu,  
'N rhyw ddirfawr boen i'm henaid  
sy.
- 3 Gronyn o'th hedd a'th gariad drud  
A etyb fy nghystuddiau 'gyd ;  
Ond rhyfedd iawn y rhinwedd sy  
Mewn lleied gradd o'r nefoedd fry !
- 4 Nertha fi â'th hedd, portha fi â'th  
ras,  
Nes myn'd yn lân o'r byd i maes ;  
Boddloni wnaf, O ARGLWYDD glân,  
I'm holl gystuddiau fawr a mân.
- 5 Ni ofna' i 'r gelyn gwycha ei wedd,  
Ni ofna' i angeu, ni ofna i 'r bedd,  
Ni ofna' i ddim ag sy 'n y byd,  
Ond cael bod yn dy gól o hyd.

## HYMN CXC.

*Dyoddefaint CRIST.*

- RHYFEDDA hyd a lled,  
Fy enaid trist,  
Uwchder a dyfnder maith,  
Marwolaeth CRIST ;  
Pan cym'rodd agwedd gwas,  
A phechod cās ei blant,  
Trwy farw yn ddi-gwyn,  
I'w dwyn i bant.
- 2 Fe gymerth arno 'n cnawd,  
(O ein Brawd ni !)  
Fe safai ar ben y bryn,  
Gwnai 'n erbyn llu ;  
Gan sathru dan ein traed,  
Trwy 'i briod waed ei hun,  
Ellyllon, ar fyr dro,  
Heb ado 'r un.
- 3 F' aeth tan y gyfraith faith,  
Hedd ddaeth i ni,  
Mwy t'raned Sinai gaeth,  
Beth waeth gen' i ?  
Mae 'r llwybr idd ei gól  
Yn rhydd i'r nefol hād :  
Ni feder Satan serth  
Ddwyn gwerth ei waed.

- 4 Fe dalai lawr ar led  
Ein dyled ni,  
Trwy ddyodde' angeu ar  
Ben Calfari ;  
A hyn o'i 'wyllys rhydd,  
Can's gwelai ddydd yn d'od,  
Ca 'i elynion cryf a gwan  
'Lawr tan ei droed.
- 5 'N ol rhoddi 'n HARGLWYDD hael,  
Yn wael ei wedd,  
(Rhyfeddod mwya' 'r iroed,)  
Yn ngwaelod bedd,  
Ond ar y trydydd dydd  
Yn rhydd yr aeth Efe :  
Palmantodd lwybr gwych  
I entrych ne'.
- 6 Congwerodd angeu glās,  
A'i deyrnas drist ;  
Fe rhodd ef dan ein traed,  
(Rhyfedd waed CRIST !)—  
Fe dynodd golyn hwn  
Yn gyfan, gwn, o'r gwraidd !  
Pwy ofnai mewn un modd  
Rhag bloedd y blaidd ?
- 7 'Nol gorphen ar ei waith,  
I'r nef 'r aeth Ef,  
Lle mae E' yr awr hon  
Yn gwrando 'n llef,  
Yn eiriol drosom draw,  
Ar fyr fe ddaw 'n rhyddhau ;  
Mae 'r amser, ddydd a nos,  
Yn agoshau.

## HYMN CXCI.

*CRIST, Drws y Nefoedd.*

- WRTH d' ystlys Di, O AR-  
GLWYDD cu,  
Mae holl allweddau 'r nefoedd fry ;  
Aiff myrdd i mewn, eto nid un  
Ond dy gariadau Di dy Hun.
- 2 'Rwy' finau 'n teithio i'r bythol fyd,  
Nis gwn 'nad nesa' wyf i gyd ;  
I bledio 'n wyneb angeu du,  
Ni fedda' i enw ond Tydi.
- 3 O agor byrth y ddinas bur,  
Na âd fi guro yno 'n hir ;

A derbyn finau 'mewn yn mhlith  
Y myrdd gaiff fod yn ddedwydd  
byth.

4 Beth byna' 'm swydd o fewn y ne',  
Bwy bynag radd, p'le byna' 'm lle,  
Yr holl hapusrwydd geisia' i fry  
Cael cadw 'ngolwg arnat Ti.

5 Pe 'mado â'r nef wnai f' ARGLWYDD  
cu,  
Fe d'wyllai 'r nef fel ufern ddu ;  
'D oes angel, sant, seraph, nac un  
Yn ddysglaer yno o hono ei hun.

6 'D yw deall cwmni 'r nef yn nghyd,  
A'r seintiau g'leua' sy 'n y byd,  
Ddim agos digon ffeindio 'maes  
Ogoniant IESU GRIST a'i ras.

7 'R wy 'n rhoi fy enaid yn dy law,  
Cofia fi yma, felly draw ;  
Rho i mi fôr o'th nefol hedd  
Tu yma a thu draw i'r bedd.

### HYMN CXCI.

*Chwilia, a phrawf fi, &c.*

**G**WYDDIT, fy NUW (o'nd rhyfedd  
hyn ?)  
Fath fyddwn cyn fy ffurfio ;  
A pha fath fyddwn i bob dydd,  
Yr amser sydd i dreulio.

2 O chwilia 'nghalon trwyddi 'n lân,  
Agor hi o flaen dy wyneb ;  
Pa'm cadwai fai 'ddiwrth un barha  
Yn Frawd i dragwyddoldeb ?

3 Ond da yw 'r bod, mae 'm da a'm  
drwg  
O fewn dy olwg beunydd ;  
I'th wydd mi ddoef yn bur ddi-nag,  
Ni 'mguddiaf rhag fy ARGLWYDD.

4 Llywodraetha 'nghalon, ARGLWYDD  
cun,  
I Ti dy Hun mae 'n perthyn ;  
Ar ei 'stafelloedd bob yr un  
Gosod dy Hun yn Frenin.

### HYMN CXCIII.

*Duw, Tarian y Cristion.*

**P**AN byddwy' 'nghanol rhyfel  
poeth,  
Mae f' ARGLWYDD doeth yn  
union,  
Yn troi pob arf a saeth di-goll  
Yn erbyn fy holl elynion.

2 Nis gwn pa fodd, fy serch 'fai tyn,  
Wrth edrych yn ei wyneb ;  
Yn union sugno f'enaid wna  
Ato i dragwyddoldeb.

3 Y ddaear gron yn nghyd â'i da  
Sydd wagedd a ffolineb ;  
Mi gara' mwy drysorau bra'—  
Trysorau tragwyddoldeb.

4 Congcrodd y ddraig, hen Satan gall,  
Trwy ei ddi-ball ddoethineb ;  
Fe'i rhwyma eto (on'd gwaith bra')  
I oesoedd tragwyddoldeb.

### HYMN CXCIV.

*Gogoniant yr ARGLWYDD IESU yn y  
Nefoedd.*

**M**AE 'r lle sancteiddiolaf yn  
rhydd,  
Fe rwygodd f' Anwylyd y llen ;  
Fe yw Haul y Cyfiawnder y sy'  
Yn goleuo 'r holl nefoedd uwch  
ben ;  
Mae yno dyrfa anfeidrol o faint,  
Ac eto ni wela' mo 'r un  
'Mhlith 'ngylion, seraphiaid, a saint,  
Neb fel fy Anwylyd ei Hun.

2 Mae 'n eistedd yn nghanol y llu  
Sy' â'i rhifedi fel glaswellt y  
maes,  
Yn helaeth yn rhoddi i bob un  
Ogoniant a harddwch a gras ;  
Fel haul yn yr wybren a f'ai  
Yn tywynu ar fyrddiwn o ser,  
A'i gwres a'i goleuni ddim llai,  
Fel hyn mae gogoniant ein Ner.

3 Tuag ato mae wyneb ei saint,  
Oddiamgylch yn rhes ar ol rhes  
Gwmpeni anerif o faint,  
Rhai 'mhellach oddi wrtho, rhai  
'nes ;  
Dysgleirdeb ein HARGLWYDD â  
'mhell,—  
Mil pellach na 'r haul yn ei rôd ;  
'Fwynhau E mae 'r pellaf yn well  
Nag allwyd amgyffred erioed.

4 'D oes angel, na seraph, na saint,  
Byth yno 'n dysgleirio 'hono ei  
hun ;  
Pe ciliai f' Anwylyd i bant  
Fe dywyllai, fe dduai pob un :  
Fe yw afon y bywyd sy' fry,  
Fe yw 'r manna cuddiedig a  
drud,  
Efe yw hyfrydwch y llu,  
Ie 'm IESU yw 'r nefoedd i gyd.

### HYMN CXCV.

*Yr Ail Ran.*

**Y** GOLEUNI sy 'n ninas ein  
Duw  
Sy tu hwnt i amgyffred un dyn ;  
'D oes neb all ei weled a byw,  
Ond y dorff ogoneddus ei hun ;  
'D yw grisial yn ngolwg yr haul,  
Neu wydr 'fai lawer mwy pur,  
I lewyrch y nefoedd ddim ail,  
Fy IESU yw 'r ffynon yn wir.

2 Mae yno Dri Pherson yn bod,  
Ac eto eu sylwedd ond Un ;  
Gogyfuwch mewn gallu a chlod,  
I wared plant Adda 'n gytun ;  
Yn hyn rhyw ddyfnderoedd y sy',  
Rhy fawrion i chwilio hwy  
'mlaen,  
Yn drech na hwynt-hwythau sy' fry  
I'w gwybod hwy allan yn lân.

3 'D oes mesur amseroedd byth fry,  
Dim oriau cyffelyb i'r byd ;  
Myn'd heibio rhyw oesoedd y sy'  
Wrth ganu i'r Drindod ynnglyd ;

'R holl nefoedd wrth weled ei ras,  
Sy 'n synu, yn canu 'n fwy hy'  
Ganiadau newyddion eu blas ;  
Wel, dyma 'r digrifwch sydd fry

### HYMN CXCVI.

*Y Drydedd Ran.*

**A**NGYLION, seraphiaid, a saint,  
Wrth ganu 'n soniarus yn  
nglyd,  
Eu hadsain sydd cyfuwch ei faint,  
Mae 'n crynu 'r holl nefoedd i  
gyd ;  
Neb yno yn glaiar ei gân,  
Neb yno 'n addoli mewn rhith,  
A'u c'lonau sy 'n llosgi fel tân,  
A gwynfyd a 'fai yn eu plith !

2 Caniadau newyddion sy' fry,  
Tebygwn o glywed eu llef ;  
Fy enaid blinedig i sy'  
Am ddysgu cerddoriaeth y nef :  
'R anrhydedd, a'r gallu, a'r clod,  
A'r parch, a'r gogoniant, a'r bri,  
Yr awrhon fel ag y bu 'rloed,  
I'n HARGLWYDD yn Un ac yn Dri !

3 Pan gofiont eu dyddiau 'n y byd,  
A'r amryw dymhestloedd o'r  
blaen,  
Fe 'nyna eu hysbrydoedd hwy 'gyd  
Yn fflamau angerddol o dân ;  
Gwel'd eu HIESU, er cymaint eu  
bai,  
Eu codi o bydew mor ddu ;  
P'odd gall eu calonau hwy lai  
Na seinio Jerusalem fry ?

4 Pan gofiont drachefn y dydd  
Y galwyd hwy o'r t'w'llwch i  
maes ;  
Dadglow'd eu gefynau hwy 'n rhydd,  
A'r carchar yn seinio, Rhad ras !  
Pwy allai i beidio rhoi clod,  
Tan olwg o rydd-did mor fawr ?  
Wel, dyma 'r caniadau sy 'n bod,  
Gogoniant trwy 'r nefoedd a'r  
llawr !



## HYMN CXCVII.

*Y Bedwaredd Ran.*

WRTH gofio dichellion y ddraig,  
A'i maglau mor aml a'r dail.  
Eu taenu yn erbyn y wraig,  
A'u tori gan Adda yr Ail;  
A'i weled E'n awr yn y ne',  
A'r bradwr hen obry 'n y llyn,  
Hwy ganant nes dawnsio 'r holl le,  
B'le arall mae canu fel hyn?

1 Wrth gofio drachefn am hyn—  
Ei glwyfau a chwerwder ei loes,  
A'i guro ar Galfari fryn,  
Ei eiriau diwedda' ar y groes;  
Y ddaear, ac uffern, a'r bedd,  
Ac angeu a'r gyfraith yn nghyd,  
I gwmpo gan archoll ei gledd,  
Bra' yw 'r canu sy' i Iachawdwr y byd.

3 Os ydyw rhai seintiau 'n rhoi tro  
I waered i'r bydoedd is nen,  
'D oes byth fyn'd o'u golwg a'u co'  
Ogoniant eu HARGLWYDD uwch ben;  
Mae E yn bresenol bob awr  
'Ddynt yma, fel canol y ne';  
Hwy gwelant mewn nefoedd a llawr;  
Mae 'm IESU yn llanw pob lle.

## HYMN CXCVIII.

*Y Bumed Ran*

RHAI yma canlynodd Efe  
Trwy 'r ffauau a'r fflamau 'n  
ddi-gryn,  
Rhai gynt a nofiasant i'r ne'  
Mewn 'fonydd o'u twymwaed eu  
hun,  
Yn awr yn cael myned yn mlaen  
Yn eon at orsedd yr Ion,  
A chanu bob amser y maen'  
Ganiadau newyddion i'r Oen.

2 'Ddaw syched, na newyn, na phoen,  
Na gofid, na galar, na chlwy',  
Nac anwyd yn nhehl yr Ion,  
Na gwres idd eu blino byth mwy;

Mae yno adenydd fy Ion  
Yn taenu fel nefoedd ar led,  
Yn cuddio priodas-ferch yr Oen,  
O f' enaid, i fyny ehed!

3 'R wy 'n teimlo arna' i hiraeth a  
chwant  
Wel'd datod f' holl deml o'i lle,  
A 'hedeg yn union i bant,  
Fel 'deryn i ganol y ne';  
A neidio 'mewn yno i blith  
Y dyrfa sy' â'u gwisgoedd yn wyn,  
A chanu i'm HARGLWYDD i byth,  
Fu farw ar Galfari fryn.

## HYMN CXCIX.

*Yr wyf yn dyfod ar frys.*

YR amser bellach, O na b'ai  
I'n HARGLWYDD ninau ddyfod  
O'r nefoedd wen, 'mhlith sanctaidd  
lu,  
Caf finau ei gyfarfod.

2 Pan dël, daw 'n ogoneddus iawn,  
Yn gyflawn o ddysgleirdeb;  
Tyr allan ei oleuni 'n rhydd,  
Oedd gudd er tragwyddoldeb.

3 'D yw 'r haul yn ei ffurfafen serth,  
Yn ngrym ei nerth yn tywynu,  
I harddwch ein Hanwlyd ni  
Un gronyn i gymharu.

4 Angylion pur, rif gwellt y maes,  
Yn rhes o gwmpas IESU,  
A'u t'lynau aur, a'u gwisgoedd gwyn,  
Yn beraidd yn ei foli.

5 'Postolion, Patriarchiaid fry,  
Angylion dirifedi;  
Myrddynau o saint o'i gylch yn  
dro,  
Mewn gwisgoedd o oleuni.

6 Pan gynta' codo 'r seintiau eu pen,  
A gwel'd y nen yn goleuo,  
Chwarddant a neidiant ar bob cam,  
'N hiraethu am fyn'd ato.

7 Pwy sant dristâ? nid ofna 'r un  
I gwrdd â'i Frenin IESU;  
Hedd yn ei wyneb Ef, nid llid,  
O gwyn ei fyd sy 'n credu.

## HYMN CC.

*Yr Ail Ran.*

FE wrida 'r awyr fry uwchben  
Cyn delo 'r Cadben IESU;  
Rhyw arwydd mawr o'r dwyrain  
draw  
Ry wŷs, a daw i farnu.

2 Dysgleiria wyneb-pryd pob sant  
Pan gynta' gwelant IESU,  
Ond rhyfedd hyn? fe fydd pob un  
Wrth wel'd ei hun yn synu.

3 Corff hardd a gawn, corff fel Efe,  
All yn y ne' breswyllo;  
Ac all o'r ddaer, nis gwn pa fodd,  
I entrych nefoedd neidio.

4 Wel, dyna 'r pryd y cenir clod  
Na chlyw'd erioed o'i gymhar;  
Angylion a seraphiaid pur  
A'r seintiau yn un eu llafar.

5 Caniadau 'r saint fydd gwaeddi,—  
" 'N rhad  
Iachawd ni 'ngwaed yr IESU;"  
Seraphiaid etyb hwy fel hyn,—  
" 'R ym ninau yn rhyfeddu."

## HYMN CCI.

*Y Drydedd Ran.*

PAN gwelont obry fwg y byd  
Yn codi hyd y nefoedd,  
Y dorf a gân (O hyfryd foes!)  
Ganiadau yn oes oesoedd.

2 Canant wrth feddwl na raid byth  
Fyn'd eto i blith gelynyon,  
Ond treulio Sabbothau yn y ne'  
'N ei gwmini E yn gyson.

3 Wrth feddwl cânt hwy weled gwedd,  
Ac yfed hedd yr IESU,  
I dragwyddoldeb yn ddi-drai,  
Pwy allai lai na 'i garu?

4 'Ni 'mddengys haul, na lloer, na ser,  
Ddim oll yr amser delo;  
Fel llewyrch canwyll ganol dydd  
Eu goleu fydd yn cilio.

5 Angel 'ry dro yn nghylch y byd  
I'n galw 'gyd i godi;  
Fe wrendy 'r meirw ar y wŷs,  
Hwy ddont ar frys i fyny.

6 Ar yr annuwiol dychryn fydd,  
Mewn llid y bydd E 'n dyfod;  
Ond b'le mae 'r sant? Daeth ei  
amser e,  
'N awr darfu ei bererindod.

7 'D oes angel, seraph, nac un sant,  
Er cymaint eu doethineb,  
Mewn geiriau 'n eglur i ni wna  
Ddedwyddwch tragwyddoldeb.

## HYMN CCII.

*Hymn i Gymanfa o Weinidogion.*

'R YM yn dy erfyn, ARLGWYDD  
mawr,  
Disgyn o entrych nef i lawr,  
'R hyd ysgol faith Jehofah 'n ddyd  
'Roi bendith Jacob i bob un.

2 Fel wŷn yn wirion gwna ni 'gyd  
Yn mhlith y bleiddiaid sy 'n y byd;  
Ac fel y seirph yn gyfrwys gall  
I wel'd a dadrys rhwydau 'r fall.

3 Gwel ni yn myn d i maes i blith  
Gelynyon cryfion rif y gwllith;  
O rho addewid i ni 'gyd  
'Y byddi o'n plaid hyd ddiwedd byd.

4 D'rostynger Satan fawr ei nerth,  
Fel mellten glau o'r nefoedd serth,  
I lawr o'n blaen, trwy d' allu cry',  
Fel cofiom byth am danat Ti.

5 Gad i mi dd'od i'r mynydd fry,  
I'r cwmwl goleu atat Ti,  
Fel y dysgleirio 'n wyneb-pryd,  
Nes synu Israel oll i gyd.

6 Rho 'r cleddyf dysglaer yn ein llaw  
Nertha ni ei chwareu yma thraw,  
A rhoddi i'n gelynyon glwy',  
Fel ag nas saf un gelyn mwy.



## HYMN CCIII.

*Yr Ail Ran.*

- Y**N mylchau 'r creigydd bydd o'n rhan,  
I ddringo ar ein gliniau i'r lan,  
A'n saethau gloewon ar ein clun,  
Nes lladd y Philistiaid bob yr un.
- 2 O deffro ni ar doriad gwawr,  
I gyhoeddi 'r ffoedigaeth fawr,  
I maes o'r tân sy 'n d'od yn lli'  
I lawr am ben ein dinas ni.
- 3 Gwna ni fel halen â dy ras,  
Yn wyn, yn beraidd iawn ei flas;  
Yn foddion yn dy law o hyd  
I dynu 'r adflas sy ar y byd.
- 4 Na'd ni amcanu, na'd ni wneud,  
Na cheisio meddwl dim, na d'weyd,  
Nac yn ddirgelaidd nac ar g'oeidd,  
Yn unig ond 'r hyn sy wrth dy fodd.
- 5 Gwna fod dy ogoniant pur di-lyth  
Yn nod a dyben i ni byth;  
Dy fywyd hardd a'th eiriau gwir,  
Yn wastad i ni 'n rheol bur.
- 6 O dena 'n serch oddi yma 'gyd,  
Fel gwir ddeyethriaidd yn y byd;  
O fan i fan i deithio 'n hy',  
Bob pryd ar ol d' orchymyn Di.
- 7 Doed gogledd, de, a'r dwyrain bell,  
I glywed y newyddion gwell;  
Aed sw'n d' efengyl, IESU, 'maes  
Yn glych oddeutu 'r ddaear las.
- 8 Mynydd yr Olewydd, holtt yn frau,  
Ac yn ei ganol rhan e 'n ddau;  
Gwna ddyffryn mawr, fel delo  
'mlaen  
Y Cenhedloedd i Gaersalem lân.
- 9 O doed i ben, hwnw yw 'r dydd,  
Nid goleu ac nid tywyll fydd;  
Nid dydd, nid nos (a Duw a'i gŵyr),  
Pan tardd goleuni yn yr hwyr.

## HYMN CCIV.

*Fy Anwylyd sydd wyn a gwridog.*

- O**NA chawn eiriau bra' o'u bron!  
I ganmol grason IESU!  
'Chair ar y ddae'r, neu 'fewn i'r ne'  
Neb iddo 'Fe i gymharu.
- 2 Pe b'ai doethineb seintiau fry,  
A'r 'ngylion dirifedi,  
Pell raddau 'n brin y'nt oll yn un,  
Doethineb ei hun yw 'r IESU.
- 3 Mwy ei nerth na 'r lluoedd fry i gyd  
Mae'n cadw 'r byd rhag cwmpo:  
Mae 'n DDUW, ar ei allu nid oes-  
feth;  
Fe wnaiff y peth a fyno.
- 4 Y nefoedd wen, a'r ddaear wael,  
Sy oddiwrtho 'n cael dysgleirdeb;  
Yn ei oleuni Ef llewyrchu wna  
Y seintiau i dragwyddoldeb.
- 5 Fel afon faith ry ei dw'r i maes,  
Tros wyneb gwyrddlas ddolau,  
Mae IESU â chyfoeth mawr ei ras  
Yn boddli 'n hatgas feiau.
- 6 Pan gwelo 'r Indiaid draw ei wedd,  
A phrofi ei hedd a'i gariad,  
Dont yn finteioedd ato 'n hy';  
Efe fydd eu dymuniad.
- 7 Pwy na ddoi 'wel'd o eitha' byd  
Ei degwch pryd, a'i fwynder?  
Pe myrddiwn ddoi, hwy ddywedent  
hyn,  
"Nas dywedwyd i ni 'r haner."

## HYMN CCV.

*Yr Ail Ran.*

- H**ARDD yn ei Dduwdod yw  
Efe,  
Mae 'n llanw ne' a daear;  
Hardd yw ei Ddyndod, ni fu mewn  
oes,  
Neu 'n awr nid oes o'i gymhar. ]

- 2 Hardd yw ei ddoniau o aneirif ryw,  
A'i swyddau yw f' Anwylyd;  
O Galfari i Gethseman' ardd  
Mae E oll yn hardd a hyfryd.
- 3 Myrddiynau a losgwyd (braf eu  
rhan!)  
Yn ulw gan elynion,  
Myrddiynau mwy ddyoddefai ar  
g'oeidd,  
Gan hardded oedd ei Berson.
- 4 Ni welwn degwch yn ein Duw  
Dan boenau o'r rhyw eitha';  
Yn deg ei bryd pan crymai ei ben  
Wrth farw ar ben Calfaria.

## HYMN CCVI.

*Y Drydedd Ran.*

- P**ERL India bell, aur o Beru,  
Gwell trysor yw ei gariad,  
Y rhai dihangol yma, a fry,  
Efe yw eu dymuniad.
- 2 Gorllewin bell ddaw ar ei ol  
I'w ganmol a'i ryfeddu,  
Yn mrig yr hwyr am brofi blas  
Y gwin sy 'n nheyrnas IESU.
- 3 Myrddiynau maith o eneidiau sy',  
Ië, torf aneirif heddy',  
Yn canu 'n bra' o fewn y ne'  
A ddenodd E i'w garu.
- 4 Morwynion saith, â'u bara a'u dw'r,  
Ddaw at y Gŵr o Idde',  
I weled gwedd ei wyneb gwyn,  
A 'maffyd yn ei odre.
- 5 Yr haulwen 'ry ei goleuni 'n dro  
Rhyw filoedd o fesurau;  
Ond pellach rhed ei lewyrch E  
O fewn y ne' yn oleu.
- 6 Pe 'mado wnaï tros fynyd awr  
A'r nefoedd fawr ei hunan,  
Doi tywyllwch fel sy 'n uffern goll  
O'i mewn hi oll yn fuan.
- 7 Y lluoedd fry iddo o'r un fryd  
Sy 'n canu 'gyd yn gyngan,  
Calonau pawb o fewn y ne'  
Sy arno fe ei hunan.

- 8 Ni wela' 'i neb mewn lle na man  
Y filfed ran yn haeddu,  
O'r ddaear fawr i'r nefoedd fry.  
I'm HARGLWYDD i gydmaru.

## HYMN CCVII.

*Hymnau Sacramentaidd.*

- W**EL, dyma wledd, gwledd ein  
Duw Ion,  
O basgedigion breision,  
A gwin puredig yn ddiraid  
I lawenhau y cleifion.
- 2 On'd gwledd yw hon gyfoethog  
hael?  
'D oes diwedd 'gael 'mo honi,  
O pwy n'anturiai 'mlaen yw  
rhwydd  
I wledd yr ARLWYDD IESU.
- 3 Yfwn yn ëon is y nen  
Ffrwyth y winwydden heddy';  
Ar fyrder ni gawn brofi ei blas  
O fewn i deyrnas IESU.
- 4 Bwytechw yn helaeth yn ei dŷ,  
Mae Ef i ni yn perthyn;  
Yfwch i dre', pa'm byddech sych?  
Cyfeillion y'ch i'r Brenin.
- 5 Os claf, os gwan, os tlawd o hedd,  
O dewch i'r wledd yn fuan;  
Dewch â'ch achwynion o bob rhyw,  
Fe 'u hateb Duw ei hunan.

## HYMN CCVIII.

*Yr Ail Ran.*

- Y**MA cewch wel'd eich HAR-  
GLWYDD mawr  
Yn rhoddi 'lawr yn hollol  
Ei Hun i angeu, angeu 'r groes,  
Yn ddiridig tros ei bobol.
- 2 Yma cawn wel'd ein HARGLWYDD-  
cun,  
Neb wrth ei glun; 'fe 'hunan  
Yn chwysu'r gwaed, (b'le bu 'r fath-  
ras?)  
Yn nghanol maes Gethseman'.

3 Cawn fwyta ei gnawd, (wel dyna rad!)  
Ac yfed gwaed yr IESU,  
P'odd gall ein c'lonau ni bob rhai  
'N dragwydd lai na 'i garu?

4 Mi gofia' eiriau 'm HARGLWYDD hael,  
Prydnawn cyn cael ei hoelio;  
I fwyta ei swper, minau ddo  
Yn mlaen er côf am dano.

## HYMN CCIX.

*Rhwymo 'r ddraig âros fil o flynyddau,  
tan gysgod Juwbili.*

'R OFFEIRIAID a ganant  
Ar doriad y wawr,  
Ganiadau newyddion,  
Yr wyl sy mor fawr;  
Hwy seiniant gyrn hyrddod,  
'Dyw 'r udgyrn ond gwael;  
Ond clywir sw'n Juwbil  
Trwy 'fferynnau mor sal.

2 Gwyl uchel fydd hono;  
'D oes neb a dristâ,  
Ond y rhai fydd yn caru  
Eu cyfoeth a'u da:  
'R holl rhai fydd mewn dyled,  
'A'r rhai fydd yn nghlwm,  
Ga gyd-orfoleddu,  
Fe delir y swm.

3 Wel, caned y caethion,  
Hwy gânt fyn'd yn rhydd,  
F' agorir carcharau  
Ar doriad y dydd:  
Rhodiant hwy 'n llawen  
Ffordd hyn a ffordd draw,  
Yn ngwydd eu gofynwyr  
Heb ofn na braw.

4 Daw 'r tiroedd a'r bryniau,  
A'r bronwydd yn rhydd;  
Gwynfyd sy 'n crechwenu  
Wrth weled y dydd;  
'Raid 'redig, na medi,  
Na gosod mo 'r had,  
Ond pur orfoleddu  
Yn IESU a'i waed.

5 Wel, caned trigolion  
Y ddaear bob un,  
I foli 'r Messiah  
'R Creawdwr yn ddyn;

Fe brynodd y rhydd-did,  
Fe 'i prynodd e'n ddrud  
I'r genedl sanctaidd  
Hyd eithaf y byd.

6 Caiff henaint a iengtyd,  
A gredo yn yr Oen,  
Eu gwneud yn w'r rhyddion  
O'u cystudd a'u poen;  
Mae 'r Juwbil yn dyfod,  
On'd hyfryd y dydd?  
Oes Juwbil dragwyddol,  
A Juwbil a fydd.

## HYMN CCX.

Esa. ix. 6.

BACHGEN a aned—Mab ro'wd  
in'—  
Ei enw sy 'n Rhyfeddol:  
Ar ei ysgwydd Ef llywodraeth gaed,  
Duw cadarn, Tad tragwyddol.

2 Chwilio ei Berson hardd a'i waith  
Sy 'n orchwyl maith anfeidrol;  
Gelwir yma ac yn y ne'  
Ei enw E'n Rhyfeddol.

3 Deonglwch hyn, ddsygedig rai,—  
Rhyfeddu mae 'r cenedloedd,—  
P'odd gall'sai Mair ei gynwys Ef,  
Na chynwys nef y nefoedd?

4 Duw mawr, Creawdwr dw'r a thir,  
I gael ei wir genedlu  
O forwyn, wnaethpwyd ganddo ei  
Hun,  
Fy enaid sy 'n rhyfeddu.

5 Mae holl ddoethineb Duw yn  
nghyd  
Yn cwrddydd yn ei Berson;  
Nid rhyfedd bod myrddynnau'r nef  
Yn ei foli Ef yn gyson.

6 'R oedd doniau ein Duw i gyd fel  
môr  
Dygyfor, heb eu rhifo,  
Gynt oll yn nghudd, ond yr awr  
hyn  
Trwy 'r IESU yn dysgleirio.

## HYMN CCXI.

*Yr Ail Ran.*

MAE'r Tad a'r Ysbryd ynddo 'n  
un;  
(Ond rhyfedd rin ei boenau!)  
Dw ar y nef ac uffern goll,  
Y byd a'i holl wrthddrychau!

2 Rhyfeddol yn ei ras a'i air,  
A'i Ysbryd, 'cair yr IESU;  
A'i ordinhadau pur difai  
Yn wastad mae i ryfeddu.

3 Cuddiwyd e'n hir (paham fath  
rodd?)  
Rai miloedd o flynyddau;  
Rhyfeddol pan cyhoeddwyd ef  
Trwy 'r ddaer a'r nef i ninau.

4 Mi wela Ddyn yn nghrog ar bren,  
Yn crymu ei ben i waered;  
Fy NUW yw Ef; caned y byd  
Ganiadau o gyd gynghanedd.

5 Philosophyddion y Dwyrain  
Ganlyna'i 'r seren heini,  
A'u thus, a'u myrr, aur melyn pur  
Yn ddifyr i'w addoli.

6 Er maint eu dysg, chlyw'sant erioed  
Fath beth i fod a hyny;  
Baban mewn preseb, gwael y lle,  
Yn dal y nef i fyny.

## HYMN CCXII.

*Y Drydedd Ran.*

P'ODD aeth ein Duw, yr Haul-  
wen deg,  
Yn ol i ddeg o raddau,  
I agwedd gwas, (O gariad bra'!)  
Cenfigen a doluriau?

2 Yr Hen Ddihenydd yn ddyn gwan,  
Mewn preseb dan ei rwymau;  
Y Gair tragwyddol ar lin Mair,  
Heb fedru gair o'i enau!

3 Pe y meddylwn filiwn faith  
O oesoedd ag aeth heibio,  
Pryd hyny cawn ei weled E  
O fewn y ne 'n dysgleirio.

4 Er creu y nefoedd faith o ddim,  
Trwy allu a grym ei fawredd,  
A chadw rhai'n rhag myn'd ar feth,  
'D yw hyn yn beth mor rhyfedd.

5 Er d'od â'r meirw bob yr un  
A'u cyrrf eu hun i fyny,  
Yn hyn 'd yw gallu 'r nefoedd fry  
Ddim cymaint i ryfeddu.

6 'D yw gwaith y ddaer neu'r nef-  
oedd fry,  
Er bod hwy 'n ddirifedi,  
I'r pethau yn Mherson IESU sy,  
Un gronyn i gymharu.

## HYMN CCXIII.

*Marwolaeth CRIST.*

'R HAUL guddiodd ei wyneb,  
Pan grymmodd ei ben,  
Agorodd y beddau,  
Fe dduodd y nen;  
Fe ofnodd y ddaear,—  
Hi grynodd yn wir,—  
Wrth wel'd ei Chreawdwr  
Dan hoelion o ddur.

2 Fe gododd y meirw,  
Fe rwygwyd y llen,  
Yn dangos fod heddwch  
Trwy 'r nefoedd uwch ben;  
Duw guddiodd ei wyneb  
(On'd chwerw y loes!)  
A'r Mab yn dyodde'  
Ei hoelio ar y gres.

3 Fel Joseph i garchar,  
Neu Jona i'r môr,  
Y rhoddwyd Etiffedd  
Y nefoedd a'i stor  
I waered i'r ddaear;  
Ond Duw oedd Efe—  
Fe gododd i fyny  
I ganol y ne'.

## HYMN CCXIV.

*Adgyfodiad CRIST a'i Esgyniad.*

MAWR iawn fu 'r gorfoedd  
Pan gododd ein Ner,  
Fe chwarddodd yr haulwen,  
Fe ddawnsiodd y ser,

- Fe neidiodd mynyddau  
A bryniau fel ŵyn,  
Gorfoledd i'r Iesu  
I godi er ein mwyn.
- 2 'D oedd neb yn y nefoedd  
Na neb ar y llawr,  
All'sai ofyn dim dyled  
I'n HARGLWYDD yn awr ;  
Pan dalodd y cwbl,  
Pan groeswyd y swm ;  
P'odd gall'sai ei ofynwyr  
Ei gadw E 'n nglwm ?
- 3 Y gwagedd godasant  
I edrych y bedd,  
I wel'd a gyfododd  
Eu HARGLWYDD mewn hedd ;  
Wrth edrych, ofnasant,  
Nid oeddent ond gwan ;  
Ni welsant eu HARGLWYDD,  
Ond gwelsant y fan.
- 4 Fe grynodd y ceidwaid,  
Cwympasant i lawr ;  
P'odd gall'sent hwy edrych  
Dysgleirdeb mor fawr ?  
Y weithred oedd ynyd,  
'Roi dynion mor wan  
I rwystro Creawdwr  
Y ddaear i'r lan.
- 5 Wel, saint, gorfoleddwch ;  
Fe gafodd y dydd—  
Fe rwymwyd ei ddyndod,  
Rhodd ei Dduwdod E'n rhydd.  
Mae 'i saint Ef yn dystion  
(Gwirionedd mawr yw),  
I'n HARGLWYDD adgodi  
O farw i fyw.
- 6 Rhyfeddol orfoledd  
Pan 'sgynodd yr Oen  
I gyntedd y nefoedd  
O'i lafur a'i boen ;  
Wnai saint na cherubiaid,  
Na 'r thronau bob rhai,  
Ond synu, a charu,  
A gwir lawenhau.
- 7 Fe ganodd hen seintiau  
Ddihangodd o'r byd,  
Yn dysgwyl cael gweled  
Eu HARGLWYDD o hyd,

Yn nghyda 'r seraphiaid,  
A'r 'ngylion, fath glod,  
Mewn newydd ganiadau  
Na chlywyd erioed.

- 8 Cawn ninau adgodi  
Ar doriad y dydd,  
Lladd ceidwad y carchar,  
A'n gollwng yn rhydd,  
A'n cym'ryd i fyny  
O'r ddaear i'r ne'  
Yn ngolwg angylion  
Fel ag y ca's E.

—  
HYMN CCXV.

*Michael a'r Ddraig.*

**M**AE 'r rhyfel o'n hochr,  
Ni gariwn y maes ;  
Fe friwir pob llygredd,  
Coronir pob gras ;  
Yn erbyn dy galon  
Di, Satan, yn awr,  
Mae 'th deyrnas yn siglo,  
Hi gwympiiff i lawr.

- 2 Gwŷr Michael sy 'n ddiogllon  
Yn cerdded yn mlaen,  
Heb brisio grym cewri,  
Y saethau, na 'r tân ;  
Ofnadwy yw 'r ymladd  
(Braf chware' mae gras !)  
Mae 'r mwg fel cymylau  
Tros wyneb y maes.
- 3 Mae Michael yn cario ;  
Rhowch hyny ar led ;  
Cymhellwch bob aden  
O'r fyddin 'roi cred ;  
Wel, chwythwch yr udgyrn,  
Nes dadsain pob man,  
A chodwch y faner  
Yn uchel i'r lan.
- 4 Fe gollodd hen Satan,  
Y bradwr, ei le,  
Fe 'i gwthiwyd e 'n lliidiog  
O ganol y ne' ;  
Fel seren o'r awyr  
Fe gwymppodd i lawr ;  
Mae 'n syrthio hyd heddyw,  
Y dyfnder sy fawr.

HYMN CCXVI.

*Gwagedd y byd a thegwch CRIST.*

**M**I wnaethum degan gynt o'r byd  
I gael aroglu hwn o hyd ;  
Pan cododd haul o'r dwyrain draw,  
Yn ddystaw gwywodd yn fy llaw.

- 2 Ni chara 'i mo 'i deganau mwy,  
'Pryd rheita', darfod y maent hwy ;  
'D oes yma lysiau o un rhyw  
A ddaliff lid digofaint Duw.

- 3 Fy nhegan mwy fydd Iesu gwiw,  
Aroglaf ef tra byddwyf byw ;  
Pob rhyw flodeuyn ag a dardd  
O hono sy 'n anfeidrol hardd.

- 4 Efe a'm gwnaeth ; fe nghlwyfo mae ;  
Ar ol fy nghlwyfo fe 'n iachau ;  
Fe 'm dryllia, fe 'm dōd yn fy lle,  
Fel hyn cymhwysa fi i'r ne'.

- 5 Pwy gyfaill wna 'r hyn wne'st heb  
ball ?  
Pwy ŵr fydd marw tros y llall ?  
Pwy 'madewai â mynwes glyd ei  
Dad  
Er mwyn y rhai a sugna ei waed ?

—  
HYMN CCXVII.

*Gweddî am heddwch Duw.*

**B**ETH ydwyf fi ! 'd oedd gen'i  
ond ffon  
Yn myn'd tros yr Iorddonen hon :  
Yr awr hon mae fy enaid gwan  
Yn cleimio f'ARGLWYDD i mi'n rhan.

- 2 Pan 'drychwy' 'mewn, ni fedda 'i  
ddim ;  
Ti yw fy heddwch i a 'ngrym ;  
Ac arnat Ti 'r wy 'n rhoi fy mryd  
I lanw 'nghalon oll i gyd.

- 3 Dof wrth dy borth ; a thyna 'r fan  
Y sefaf, nes i'm dwyn i'r lan ;  
Ateb yn glau, 'nte coda 'm llef,  
Nes seinio holl drigfanau 'r nef.

- 4 Newynog wyf, a hedd fy Nuw  
Wnaiff i mi ddywedyd, "Digon yw ;"  
Wel, dyma 'r dw'r, a gwynfyd hwy  
Y sawl a'i hyf, ni sych'ant mwy.

- 5 Pe cawn dy hedd a'th gariad drud,  
Y sawl a fynai gai y byd ;  
'D yw hwn ond tom ; ac mae dy ras  
Yn fwy na 'r perlau druta' maes.

—  
HYMN CCXVIII.

*Yr Ail Ran.*

**P**ROFAIS dy hedd ; y mae heb  
gêl  
Yn well ei flas na 'r diliau mel ;  
O llifed i mi 'n awr yn rhad  
Fel dw'r y dehau tros y wlad.

- 2 Pa'm mae 'm cydwybod, fel môr  
mawr,  
Yn ymderfysgu bob yr awr ?  
Tro d' wyneb yma, f' enaid gwan,  
I'r ddinas noddfa, mae yn y man.

- 3 'D yw cwmni meibion Adda ond  
poen ;  
Nefoedd ei hun yw cwmni 'r Oen ;  
Hyn wyf am gael tra byddwyf byw ;  
Digon i mi, ie digon yw.

- 4 Y lleiaf o'r saint, y llesga' 'maes,  
Er hyn 'r wy 'n pwyso ar dy ras ;  
Gad i mi rodio, tr'wy' yn y byd,  
Fel Enoch yn dy gwmi o hyd.

- 5 Cofia fi yn angeu, ac yn y bedd,  
Cofia fi yn fy newydd wedd,  
Cofia fi yn y farn, a d'wed,—  
"O tyr'd i mewn ! mae 'r porth-  
ar led."

—  
HYMN CCXIX.

*Dyoddefaint CRIST.*

**F**Y enaid, gwel i Galfari,  
Y poen angerddol yno fu ;  
Torfeydd di-rif, a'u harfau 'nghyd,  
O'r bron am gongcro Brenin byd.

2 Holl deyrnas Satan fawr ei grym,  
Pob ellyll du a'i arfau llym,  
Llid a chynddaredd cryf o'r trwch,  
Rhag i'w gogoniant fyn'd i'r llwch.

3 Pechodau dynol ryw o'r bron  
Gasglodd yn nghyd y fynyd hon;  
A bwysodd arno 'n dorff ddi-ri',  
Nes iddo chwysu 'r gwaed yn lli'.

4 A llid di-feius nefoedd fry  
Y gwasgu ar ei enaid cu;  
Mil mwy o bwysau oedd ei bwn  
Na bryniau 'r byd, pe 'gyd yn  
blwm.

5 A rhai'n a ruthrodd arno 'n llu,  
Fel c'nifer torf o elynion cry',  
Yn curo ysbryd f' ARGLWYDD cun,  
Heb ddim trugaredd yn yr un.

6 Eto er cynghrair dae'r a nen,  
A lladd fy ARGLWYDD ar y pren,  
Felly ysbelliwyd uffern fawr,  
Ac felly tynwyd ne' i lawr.

### HYMN CCXX.

*Gelwir ei enw Ef Rhyfeddol.*

**E**DRYCHWN draw ar Frenin  
hedd

Yn ngwaelod bedd yn gorwedd;  
Rhyfeddol bellach yn y byd  
Na welir hyd y diwedd.

2 On'd rhyfedd iddo grymu ei ben  
Fry ar y pren dyodde' ?  
Rhyfeddol pan rodd lef, " Fy Nhad,  
O maddeu 'n rhad eu beiau ? "

3 Yn cynal y greadigaeth faith,  
A threfnu gwaith ei fysedd,  
Yn rhwym tan hoelion ar y groes,  
Yn dyodde' tros ein camwedd.

4 Angylion nef yn rhyfedd syn  
Sy 'n edrych yn ei glwyfau,

Yn sugno eu dysg bob awr uwch  
nen  
Oddiwrth y pren dyodde'.

5 B'le 'n Bugail aeth tan angeu loes ?  
A hyny tros ei ddefaid ?  
A myn'd i waelod bedd dros dro  
I'w gwared o gaethiwed.

6 Crynhowch y doethion oll yn nghyd  
Sy fewn y byd yn trigo,  
Beth mwy rhyfeddol glywsoch chwi  
Na 'm Duw gael ei groeshoelio ?

### HYMN CCXXI.

*Buddugoliaeth CRIST.*

**G**WEL draw fy Mrenin ar y  
pren,  
Yn niwedd dydd yn crymu ei ben;  
Poen angeu mwy na buasai 'nghyd.  
Ddyoddefaint holl ferthyron byd.

2 Wel, angeu 'r groes, dy waetha'  
mwy,  
I Ben y bobloedd rhoddaist glwy';  
Cododd i'r lan; fe god i'r nef  
Fyrddiynau trwy 'i adgodiad Ef.

3 Os hoeliwyd Ef unwaith ar bren—  
Os gorfu arno grymu ei ben—  
Tros f' enaid i bu hyn i gyd,  
Mi gofia' ei boenau tr'wy' yn y byd.

4 'D oes golwg harddach ddydd na  
nos,  
Na 'm IESU 'n hongian ar y groes;  
Y dwylo a hoeliwyd ar y pren  
Ar fyr a egyr ddrws y nen.

5 Tebygwn 'mod i'n gwel'd ei waed  
Yn llifo 'n goch o'i ben i'w draed:  
Fy nghalon, pa'm nas tori 'n friw ?  
Fy Mhriod oedd Efe, a'm Duw.

6 Ei boenau gofir gan fy Nhad,  
Ni chollir un o ddafnau ei waed;  
Mae llid yn aros, cwmpw ryw ddydd  
Ar rai 'n elynion iddo sydd.

### HYMN CCXXII.

*Arall.*

**F**Y enaid, gwel dy Brynwr mawr  
A'i freichiau ar led rhwng nef  
a lawr;  
Creawdwr nef yn prynu dyn,  
Sef prynu gwaith ei ddwylo ei hun.

2 Pwy ddynion bwyai'r hoelion main ?  
Pwy wisgai 'm Duw â choron  
ddrain ?  
Edrych i'r lan, fy enaid trist,  
Gwel waewffion tan fron dy GRIST.

3 Oedd unrhyw angeu, f' ARGLWYDD  
mwyn,  
D'wed, ag oedd hawsach i Ti ddwyn ?  
Oedd unrhyw angeu dalai 'r iawn  
Ond hoelio, am fy meiau 'n llawn ?

4 Oedd dim a wnaethai fodd fy Nhad  
Ond gwisgo drain, a cholli gwaed ?  
A oedd rhaid marw, a marw 'n lân,  
Cyn maddeu 'meiau fawr a mân ?

5 Ai felly 'r oedd dy arfaeth faith ?  
Oedd neb i'th helpu yn y gwaith ?  
Sathrodd y gwinrwyf coch ei hun,  
Ac yn ei helpu nid oedd dyn.

6 Pe ddarfu ei wae, diangodd Ner  
I'r b'radwys ddysglaer uwch y ser;  
Ei goron ca's, 'n awr ddydd a nos  
Mae 'n medi ffrwyth cystuddiau 'r  
groes.

### HYMN CCXXIII.

*Arall.*

**T**I, f' ARGLWYDD mawr, a chwys-  
aist waed  
Y dydd y llefaist ar dy Dad,  
" Atal dy law, os posibl yw,  
Can's chwerw cwpan dig fy NUW." "

2 Y dw'r a'r gwaed yn ffrydiau mawr  
Yn rhedeg 'r hyd ei gorff i lawr;  
Ni all'sai byth fyn'd tan fath bla,  
On' buasai fod ei Hun yn JAH.

3 O dysg i'm ddilyn ôl dy droed  
Trwy bob rhyw groesau ag fo'n bod,  
Ac yfed hefyd yn ddi-gryn  
O'r cwpan yfaist Ti dy Hun.

4 'R wy 'n ofni 'r groes, ac mae arna'i  
chwant,—  
O tyn fy ofn, IESU, 'bant;  
N' ad fi i chwenych, ond os daw  
Rho i mi 'n fuan help dy law.

5 Pa'm gwelai 'n galed i mi ddwyn  
Croes gariodd IESU er fy mwyn ?  
Nid trosto ei Hun, ond troswyf fi  
Y congrocdd Ef ar Galfari.

6 Pwy all'sai hoelio ei ddwylo a'i  
draed ?  
A olchwyd hwythau yn ei waed ?  
Rhodd rhai o'th frodyr i Ti glwy',  
'D oes mesur ar dy gariad mwy.

7 Fy enaid, gwel Ef ar y pren  
Yn gaeth gan angeu yn crymu ei  
ben;  
Angeu 'r carcharor laddodd Ef,  
Ac esgyn wnaeth i ganol nef.

### HYMN CCXXIV.

*Am ryddid o gaethiwed.*

**Y**N dy gyfamod mae 'n fy ngho'  
Fod miloedd o 'ddewidion,  
Rhai 'n yn cyhoeddi llwyr iachad  
Trwy rin dy waed i'r clefion.

2 'R wy 'n gwaeddi wrth dy borth yn  
ewn  
Am dd'od i mewn i wleda;  
Nid bodlon wyf i fod tu faes  
I gaerau 'r ddinas noddfa.

3 Agor y môr, gwna 'r ffordd yn  
rhydd  
I welled dydd y rhydd-did,  
A chael teyrnasu cyn bo hir  
Yn ngwledydd yr addewid.

4 Dwg fi i Nebo fry i'r lan  
I wel'd y man cai drigo;  
Oddi yno dwg fi 'mlaen bob cam,  
'R wy 'n breffu am fyn'd yno.

- 5 Ar bechu f' enaid blino mae,  
Gwynfyd a gai ymwarded!  
Gwel'd dystryw fy ngelnyion oll,  
Darfyddai 'm holl gaethiwed.
- 6 Dysgwyl yr wyf, a hyn bob cam,  
Fel gwylywr am y boreu,  
I brofi cryfder braich dy ras  
I'm tynu 'maes o'm beiau.

## HYMN CCXXV.

*Yr Ail Ran.*

- O'R B'radwys fry doed dw'r i  
maes,  
Fel afon las yn gyson,  
A threulio 'm bywyd wrth ei chlin;  
Tydi dy Hun yw 'r afon.
- 2 O ddyfroedd Mara chwerwon iawn,  
Ti wyddost, llawn yw 'm phiol;  
Rho ynddi 'n fuan ddail y Pren  
Sydd uwch y nen yn eiriol.
- 3 Agor y creigydd mawrion serth  
'N awr trwy dy nerth yn eiriol,  
I gaethion Gosen dd'od, bob gŵr,  
At ddw'r rhedegog bywiol.
- 4 Breninoedd Canaan, d'od i lawr,  
Sy 'n bostio eu mawr awdurdod,  
Na arbed un, ond taro 'n ddwys,  
Fel profont bwys dy ddyrnod.
- 5 Helpa fy ffydd, 'r wy 'n teimlo  
*gang*  
O filwyr annghrediniol,  
A drygau ereill o bob gradd,  
'N awr am fy lladd yn hollol.
- 6 Yn nghanol môr bydd Di o'm blaen,  
Yn gwmwl tân diniwed,  
Yn fryn o dywyllwch tew fel mur  
Rhyngwy' a thir yr Aiphtiaid.
- 7 Pan byddwy' gan elynion llym  
Yn profi grym gwrthwyneb,  
O gylch fy mhabell tywynna o'r ne'  
Dy hyfryd bresenoldeb.

## HYMN CCXXVI.

*Gweddï am gyflawniad o'r Addewidion.*

- O MOES dy law, 'r Iorddonen  
mae  
Yn pledio 'd â'i ddim trwyddi;  
Wrth wel'd y dyfnder sy'n y dw'r  
'R wy 'n ofni 'n siwr o foddï.
- 2 O fewn dy air dywedaist yn llyn,  
(Dy air sydd yn wirionedd,  
Mai IESU wyt—y cae'm ryw ddydd  
I fyn'd yn rhydd o'n camwedd.
- 3 Dywedaist, os aet yn dy allu cry'  
I godi tŷ it' dy hunan,  
Ait' âg e i ben, can's llwyddo wnai  
Y man y mae dy amcan.
- 4 D'wedaist na chai neb o dy blant  
I'w dwyn i bant o'th ddwylo;  
Cedwit y rhein'y oll rhag brad  
Ro'wd gan y Tad i'w safio.
- 5 Y galon gareg gyndyn sal,  
Gad i ni gael ei newid;  
Y galon gig rho i ni 'n frau,  
Can's felly mae dy 'ddewid.
- 6 D'wedaist iacheit trwy rym dy ras  
Ein hatgas wrthgiliau;  
Cerit ni 'n rhad, diffoddid llid,  
Er maint i gyd yw 'n beiau.
- 7 Cyflawna rhai'n yn awr mewn pryd,  
'R wy 'n ceisio o hyd eu credu,  
A'u cymhwyso at fy hun a wnawn,  
Ond f' enaid cawn yn pallu.
- 8 Dy ddyfroedd gloew sy arna 'i  
chwant,  
Mae 'n tynu 'bant ofidiau;  
A'r hwn a yfo o waed yr Oen  
Ni theimla boen cystuddiaid.
- 9 Mi bwysaf atat eto 'n nes;  
Pwy les im' ddigaloni?  
Dy faith drugaredd Di eriod  
Nid oes dim darfod arni.

## HYMN CCXXVII.

*Gweddï tan deimlad o wrthgiliaid.*

- DYMA fi, ARGWLWYDD, wrth dy  
draed,  
Yn teimlo 'r eisieu o rin dy waed;  
Yr wyf yn dlawd, a phwy a ŵyr  
Ond Ti dy Hun fy eisieu 'n llwyr?
- 2 Gwrthgilio wnes, gwrthgilio 'r wy',  
On' safi o'm blaen gwrthgiliaf fwy;  
'R wy 'n blino ar deganau 'r byd,  
A'u caru 'r wyf er hyny 'gyd.
- 3 O bechod, pa'm y'm twylli 'n llyn?  
Beth wyt Ti well o wneuthur hyn?  
Er maint dy swm, gwirionedd yw,  
Nid Ti yw 'm ffrynd, fy Ffrynd yw  
Duw.
- 4 O IESU, fy Eiriolwr mawr,  
Nid felly caf fy meiau 'lawr;  
D'wed pa'm wyt cy'd yn sefyll  
drau?  
Bryd gwelwyd mwy o eisieu'th law?
- 5 Claf wyf am deimlo gwaed yr Oen,  
Yn rhodio beunydd mewn rhyw  
boen;  
'D oes unrhyw eli roiff iachad  
Yn unig, IESU, ond dy waed.
- 6 'R wy 'n addunedu, eto 'r wy'  
Bron dweyd na adduneda'i mwy?  
Mewn gofid treulia 'm dyddiau  
'maes  
On' roi Di 'm ffydd i gario 'r maes.
- 
- HYMN CCXXVIII.  
*Yr Ail Ran.*
- Y BYD 'r wy' ynddo sydd yn  
llawn  
O ryw fwystfilod rheibus iawn;  
Amrywiol ryw yn wastad sy  
Yn denu oddiwrth fy Mhriod cu.
- 2 Gwan yw fy ffydd, 'd oes ond ei  
bod,  
Nis gwn a fu ei llai eriod;  
Bron dweyd, gan leied yw ei grym,  
Yn fynych iawn, ni fedda' i ddim.

- 3 Craig yw fy nghalon, mewn un  
modd  
Ag wy 'n ei geisio wneud, ni's todd;  
Caled fel adamant, a thrwm  
O fewn fy mynwes megys plwm.
- 4 O pa'm wy 'n llawen yn fath fan,  
Heb weled bryd y dof i'r lan;  
Fy nghalon galed megys fflint  
'N awr dadlaith fel y dyddiau gynt.
- 5 Na 'd fi i fyn'd yn llyn i'm bedd,  
Arwain fi gynta' 'mewn i'th wledd,  
Fel 'n ol cael myn'd i'r nefol wlad,  
Y bo 'n aroglï ôl fy nhraed.

## HYMN CCXXIX.

*Y Goron Ddrain.*

- CORONWYD, do, Iachawdwr  
byd  
Gan fwrddwyr ffyrnig oll i gyd;  
A drain plethedig, dyma 'r bri,  
Fy enaid, ga's dy Brynwr cu.
- 2 O edrych ar dy Frenin glân,  
Fy nghalon, tor yn ddrylliau mân,  
A gwasgu 'lawr y pigau drain,  
A'r gwaed yn ffrydio 'n ôl y rhai'n.
- 3 Ai Brenin yw? Ie, Brenin byd,  
Uffern, a'r nefoedd wen i gyd,  
Yn dyodde' poen fwy nag un dyn  
O fewn i'w deyrnas faith ei hun.
- 4 Ai dyma 'r parch ga's Brenin ne'  
Wrth roddi 'fywyd yn fy lle?  
Wel, f' enaid, bellach dyodde 'n hy'  
Bob gwawd dros enw 'Mhrynwr cu.
- 5 Os cwrddyd wnaif â choron ddrain,  
Dysg fi i ddyodde' pigau 'r rhai'n.  
A'i wel'd e fyth yn rhyfedd faint  
I ddyodde' cystudd mwya' ei faint.
- 6 Mi gwela' mewn Paradwys bell  
Yn awr yn gwisgo coron well,  
Ie, gwell na'r aur, na'r perlau drud,  
Na dim coronau sy 'n y byd.

## HYMN CCXXX.

*Yr Ail Ran.*

- G**WELED yr oeddit' byddai 'th glod  
Yn fwy na 'th w'radwydd mwya' erioed;  
Mawr oedd, ond byr dy boenau chwith,  
Ond dy ogoniant bery byth.
- 2 Edifarhauw i'th wisgo 'n llyn,  
A'th wawdio i ben Calfaria fryn;  
Mae 'r dydd yn d'od, ar dd'od yn awr  
Gwelir d' ogoniant fel y wawr.
- 3 Myrddiynau dirifedi fydd  
Yn gwmni it' ryw foreu ddydd;  
Ceir gwel'd yr haul sy 'n fyd o dân  
Yn bellen bygddu o dy flaen.
- 4 Y g'leuni dry yn dywyll nos,  
Fel gynt pan oeddit ar y groes,  
Pan gwelont Di yn mhlith dy lu  
Yn nghanol y ffurfafen try.

- 5 Ar ysbryd rhai bydd ing a loes,  
Rhai gynt a'th hoeliodd ar y groes,  
(Ac yn dy hoelio eto o hyd)  
Pan delo 'th awr i farnu 'r byd.
- 6 Ond dyna 'r awr, a gwyn eu byd,  
Fydd i'th gariadau oll i gyd,  
Cânt eu gwobrwyo am y loes  
A'u holl gystuddiau 'n cario 'r groes.

## HYMN CCXXXI.

*Y Llaw Ddehau.*

- O**GWEL fi, ARGLWYDD, dan fy mhwn,  
Sef pechod cas, mae 'n pwyso 'n drwm;  
Gormesol yw, mae am gael lle  
Yn y 'stafell rois i Frenin ne'.

- 2 Du yw ei liw, a chyfrwys gall  
Yw yn ei natur fel y fall,  
Ac anodd iawn i ildio ei le  
Trwy unrhyw arfau tan y ne'.
- 3 Fy ngelyn mwyaf o bob un,  
Bwytaodd fy mwyl, yfodd fy ngwin;  
Yrodd fy enaid bach ar goll,  
Fe 'm 'speiliwyd o'm cysuron oll.
- 4 Efe yw 'r fraich, a'r llygad de'  
Sy 'n rhwystro f' enaid tua 'r ne';  
Colli f' aelodau trwy fawr boen  
Sydd well na cholli cwmni 'r Oen.
- 5 Fy ngelyn yw, O tyr'd o'm plaid;  
Mae 'n gryf—rho help yn awr wrth-raid;  
Na wna drugaredd, taro 'n gry'  
Mae 'n elyn hefyd i Dydi.
- 6 Y beiau mwya' ag fu 'n bod  
A leddaist â dy fraich erioed;—  
Rho 'r gair i maes, fe drenga 'n lân,  
Fy mrenin-bechod o dy flaen.

## HYMN CCXXXII.

*Yr Ail Ran.*

**P**'AM, f' enaid, cedwi ddelwau 'n hwy?  
Oni cha's delwau yn IESU glwy'?  
Pan crogi wnaeth rhwng dae'r a nef;  
A gara'i mwy'i elynion Ef?

- 2 I'm calon dest; mi gofia 'r awr,  
Rhwymaist elynion fach a mawr;  
Gwnest le it' dy Hun; paham y caif  
Neb rhyw rai ereill ei fwynhau?
- 3 Pan b'wyf yn meddwl bod fy mai  
Yn mhell, a minau 'n llawenau,  
Yn union daw, rhyfeddu 'r wy',  
Yn union rhoddiff i mi glwy'.
- 4 Bron digaloni 'r wyf ryw bryd  
Fyth, fyth na cha'i congwero e:  
gyd;  
Caf eilwaith nerth, a'm nerth i yw  
Ail gredu bod fy IESU 'n Dduw.

- 5 O cofia d' addewidion mawr,  
A thor fy meiau 'n lân i'r llawr;  
Llyth'renau dy enw, IESU, sy  
Yn dweyd caf fod yn gongrwr fry.
- 6 Minau 'th glodforaf Di bob dydd,  
Ond i mi gael fy nhroed yn rhydd;  
Can's byddaf iach, pan caffwyf ras,  
I dafu 'ngwenwyn oll i maes.

## HYMN CCXXXIII.

*Tan deimlad o Bechod yn ofni 'r Wialen.*

**D**AN draed yr wyf, na aros draw,  
Mi gwympa yn llaw dy fawr-  
edd;  
O'r dyfnder brefu 'r wyf bob cam,  
Sef brefu am drugaredd.

- 2 P'odd safu 'i tan y wialen hon?  
Mi gwela'i bron a dyfod:  
On' safi o'm plaid, sefyll nid gwiw,  
Mi gwympa' ryw ddiwrnod.
- 3 A gai weddio, ARGLWYDD hael,  
I'th wialen gael myn'd heibio?  
Os daw, p'odd safai 'r cystudd hyn?  
Fy enaid sy 'n arswydo.
- 4 Atal dy law, O ARGLWYDD da,  
'D wy 'n abl a'th ddyodde';  
Pa'm lleddi bryfyn gwael fel hyn,  
Sy â'i anadl yn ei ffroenau?
- 5 Arbedai rai, toraist dy ffon  
Pan oeddit bron a tharo,  
Os cait eu calon 'difarhau,  
Cyfadde' eu bai a pheidio.

## HYMN CCXXXIV.

*Y Greadigaeth yn moli 'r Oen.*

**G**WNA fi, ARGLWYDD, yn llawen  
O foreu hyd nos,  
'R hyd ochor Calfaria  
I gario dy groes;  
Mi 'th welaf yn gwaedu  
O'th ben i dy draed,  
'Rwy 'n dysgwyl bob mynyd  
Am rinwedd dy waed.

- 2 Yr holl greadigaeth,  
Bob enw, bob rhyw,  
Edrychwn i fyny,  
Bu farw fy NUW;  
Ac eto mae 'n llenwi  
Y ddaear i gyd,  
Anmhosib' yw marw  
Creawdwr y byd.

- 3 'R haul wrol, a'r lleuad,  
Pob planed o'r nen,  
Rhifedi 'r ser gwibiog  
Na rifwyd uwch ben,  
Cymylau o bob lliwiau,  
'R mân ddafnau sy fry,  
Cydfolwch Iachawdwr  
Ar Galfari fu.

- 4 Gwlith dysglaer fel grisial,  
A'r glaswellt yn nghyd,  
Porfeydd yr anialwch,  
A'r coedydd i gyd,  
Y brynau a'r mynyddoedd,  
A'r creigydd diri',  
Cyfodwch Iachawdwr  
Pen Calfari fry.

- 5 Ffynonau, a'r afonydd,  
'N enwedig y môr,  
Creaduriaid heb rifo  
Sydd ynot yn 'stor,  
O chwareu dy donau,  
Nes clywed dy lef  
O'r eigion yn moli  
Creawdwr y nef.

- 6 Yr nynysoedd a'r trefydd,  
A'r tyrau o'r bron,  
Ehediaid, ymlusgiaid,  
Pob anifal ar don,  
'N enwedig plant Adda,  
Dyrchefwch eich llef  
I foli 'n soniarus  
Greawdwr y nef.

## HYMN CCXXXV.

*Ymgysuro tan Waradwydd yr Annuwio.*

**P**AHAM y rhoist y cwn  
O'u tyn gadwynau 'n rhydd?  
A pha'm y caiff eu swn  
I'm gwneud fel hyn yn brudd?



Cadwyna 'n glau 'r uffernol *grïw*,  
Ti yw fy Nuw byth i barhau.

2 Os rho'w'd fy mhen i lawr  
I'r gelynyon gael eu gw'n,  
Cosp am fy meiau mawr,  
Fy Nuw ei Hun wnaeth hyn ;  
Fe god 'r lan, cair gwel'd rhyw  
bryd  
Uwchlaw y byd, fy enaid gwan.

3 Ac ar ol i mi gael  
Fflangellau gan fy Nhad,  
D'od yn bechadur gwael,  
A chwympo wrth ei draed,  
Fe dry y rhod, ar wddf y llu  
O elynion cry' caf roi fy nhroed.

4 'Nghaseion, byddwch brudd,  
Rhowch heibio' ch crechwen fawr,  
Arddelir fi ryw ddydd,  
Er tloted wyf yn awr ;  
Du wyf pryd hyn, fe god y wawr  
Mewn mynyd awr ca'm gwisgo'n  
wyn.

5 Pe i'm herbyn cod'sai 'r byd  
Yn un gynddeiriog gad,  
Dim dal'sai eu gwaith hwy 'gyd,  
O'm plaid pe buasai 'm Tad :  
Nid felly 'n awr, ond f' ARGWLWYDD  
mae  
O ran fy mai yn fy nghuro 'lawr.

### HYMN CCXXXVI.

*Gweddi am Amynedd.*

**R**HO i mi amynedd  
I ddyodde' pob poen,  
A gwel'd mai rhagorfraint  
Yw dilyn yr Oen ;  
Duw, maddeu fy nghystudd,  
Can's pechod a wnaeth  
I mi fod yr awrhon  
Mewn gofid yn gaeth.

2 Ti guraist fy mhechod  
Trwy gystudd i maes,  
Dy wialeu yn wastad  
Sy 'n enyn fy ngras ;

Ni fedraf fi gerdded  
Un droedfedd tua 'r ne'  
Nes teimlwy'i dy wialen  
Yn 'nghadw i yn fy lle.

3 Na ofidia, fy enaid,  
Llawenydd i ti,  
'R wy 'n gweled mai plentyn  
O briod wyf fi ;  
'R wy 'n barod i bechu  
Yn erbyn y ne',  
Ond parod yw 'm HARGWLWYDD  
I'm curo i dre'.

4 Os croes fydd yn bwysig,  
Fe 'm cynal i'r lan,  
Fe 'i cymer ei hunan  
(Gwel nad wyf ond gwan)  
Yn mlaen ar ei ysgwyddau,  
(B'le ceffir ei ail ?)  
Caiff glod pan darfyddo  
Y ddaear a'r haul.

### HYMN CCXXXVII.

*Llawenhau mewn gobaith o Ryddid.*

**Y** MAE  
Fy enaid bach am lawenhau,  
Wrth geisio ar fyrder gredu cai  
Fy llwyr ryddhau o'r pydew hyn,  
A gwel'd yr haul ddysglaerwen  
haf  
Yn tywynu'n braf tros Seion fryn.

2 O bra' !  
Wel, dyma 'r flwyddyn hyfryd ca'  
I dori holl gloiadau 'r ia,  
A thoddi 'r eira oedd yma 'r oed ;  
Wrth feddwl hyn fy meddwl mae  
Am lawenhau'n awr cyn ei dd'od.

3 Pa le  
Mae 'm henaid wedi myn'd o dre' ?  
Oes cyngrair rhwng rhyw beth ag e' ?  
Tu yma 'r ne 'd oes dim wna ei  
fodd ;  
Ac eto ymdreiglo 'r wyf yn sal  
Mewn gwagedd gwael, nis gwm  
pa fodd.

### HYMN CCXXXIX.

*Yr ail ran.*

**T**I yw fy Ngrym, fy Nghraig, a'm  
Twr,  
Fy Noddfa siwr o ymwared ;  
Fy nrygu mae yn ngallu pwy ?  
Ynot yr wy 'n ymddiried.

2 Fy hedd a'm cysur oddi fry,  
Yn tarddu sy yn gyson ;  
Oni bai hyn, gan sw'n pob gwae  
Llewygu wna'i fy nghalon.

3 Oni bai 'th fod yn fwy na'r byd,  
A'i ddrygau 'gyd yn gyson,  
Gan bechod foreu a phrydnawn  
Dig'loni wnawn yn union.

4 Fy nyddiau ddarfau fel y mwg  
O'm golwg heb eu rhifo ;  
Nis gwn ga'i wel'd cyn angyloes  
Un dydd na nos fyn'd heibio.

5 Castell wyt Ti, twr cadarn, cry',  
Yn nyddiau du caethiwd ;  
Dy enw, IESU, yn noddfa cawn,  
Cysurus iawn i'r gweiniaid.

6 Pan ddelo drygau rif y gwllith  
I mewn i blith dy bobol,  
A'r ffwrn saith boethach, y pryd hyn  
Ti fyddi yn y canol.

### HYMN CCXXL.

*Adgyfodiad CRIST,*

**D**EWCH, gwelwch D'wysog nef-  
oedd fawr,  
O radd i radd yn d'od i lawr,  
I groth y ddae'r i esmwythau  
Gwelïau 'r etholedig rai.

2 'Nol gorwedd dro, fe ddaeth i'r lan,  
Agorodd ddrws i mi oedd wan,  
I adgyfodi a d'od i maes,  
Er cadw'r porth gan angyloes glas.

'R wy 'n byw  
Yn awr yn mhlith dyeithriol ryw,  
Gelynyol iawn i ras fy Nuw ;  
O ARGWLWYDD, clyw fy ngweddi 'n  
frau ;

'Ddiwrth drothwy, 'r ne' nid â fy  
nhroed,  
Nes i Ti dd'od i'm llwyr ryddhau.

### HYMN CCXXXVIII.

*Ehediad yr Enaid.*

**F** FARWEL, mi âf yn mlaen i'r  
wlad,  
Lle mae fy Nhad yn trigo,  
Yn mhlith myrddiynau rif y gwllith,  
A gwynfyd fyth f'ai yno !

2 Mi ddringa i'r lan, can's uchel fry  
Mae 'r hyn wyf fi 'n ei geisio ;  
Gadawa i'r byd o'm hol heb lai,  
Yn wastad mae 'n fy rhwystro.

3 B'le trown fy ngwyneb, ARGWLWYDD  
cu,  
Ond atat Ti dy hunan ?  
Pob peth gweledig thâl e' ddim,  
Ond gwneuthur i mi ruddfan.

4 Gâd i mi lechu yn dy gôl,  
A na 'd fi 'n ol oddiyno,  
Ac yn y clwyfau dyfnion wnaed  
O fewn dy draed a'th ddwylo.

5 Gyfeillion, beth allwch wneud im' ?  
'D oes genych ddim cysuron ;  
Fy serch sydd mwy am fyn'd yn  
mhell  
Ar bethau gwell yn gyson.

6 Amryw o ffryns sy ar ben eu taith,  
Mewn newydd iaith yn canu ;  
Pwy bleser sy yma i mi mwy ?  
Dwg fi atynt hwy i fyny.

7 O dewch i mewn, mae eto le  
O fewn y nef yn barod ;  
Canys anfeidrol yw ei ras,  
Ni all pechod cas ei orfod.



3 Gwelwch fy Nuw, ne' i ddynol wedd,  
Yn gorwedd obry yn ngwaelod bedd;  
'R wy 'n gwybod fod fy IESU 'n  
DDUW,  
Pan codai ei hun o farw i fyw.

4 Poenau a gefaist yma i gyd,  
Cynefin â doluriau o hyd;  
Fflangellwyd, hoeliwyd Ti ar y pren,  
I angeu du crymaist dy ben.

5 Pwy ddrwg wna 'r bedd a'r pryfed  
mân?  
Bu f' ARGLWYDD yno o fy mlaen;  
P'am ofnai 'm henaid fyn'd i'r lle  
Gorweddodd yno Frenin ne'?

6 Mae angeu wedi myn'd i maes,  
Nid yno 'n awr mae 'n cadw ei blâs,  
Can's dyna 'r pryd y ca'dd fath  
glwy';  
Ni saif yn medd y seintiau mwy.

7 O'r holl allweddau 'speiliwyd ef,  
Sy 'n cauad ar bydewau 'r bedd:  
Rhai 'n, ac allweddau uffern ddu,  
Sydd oll wrth wregys f' ARGLWYDD  
cu.

8 Fy meiau mawrion oedd mor drwm,  
Neb ond fy Nuw a dalsai 'r swm;  
Gwasgodd Greawdwr nefoedd faith  
I ddyfnder daear ar ei daith.

### HYMN CCXLI.

*Gweddi am Ryddid o Gaethiwed.*

'R WY 'N dysgwyl, anwyl DDUW,  
Am waredigaeth lawn;  
Mor hapus fyddwn byw  
Yn unig hyn pe cawn;  
O dere 'n glau, a ch'od i'r lan  
Fy enaid gwan sy 'n llwfrhau.

2 O pledia troswyf fry,  
Cliria fi o flaen fy Nhad:  
Pwy wyr yn well na Thi  
Anfeidrol werth dy waed?  
O cofia 'th lef, pan ar y groes,  
Tan chwerwa loes, yn nghanol  
ne'.

3 O dysg fi gleimio rhan  
I ragorfreintiau 'th waed,  
A phan b'wyf fwyaf gwan,  
I lefain "Abba Dad!"  
Na'd gwmwl du gysgodi byth  
Tra ynof chwyth â'r hyfryd wlad.

4 Mae 'r Aiphtiaid yn eu nerth  
Yn gyru 'mlaen o hyd,  
A'r bryniau mawrion serth  
Yn cauad arna' i nghyd;  
Trwy 'r dyfroedd du gwawried y  
dydd  
Gael ffordd yn rhydd i'r Ganaan  
fry.

### HYMN CCXXLII.

*Crist yn gadernid y Cristion.*

A R dy enw Di, Greawdwr y byd,  
'R wy 'n rhoi f' ymddiried oll  
i gyd;  
Rhyfedd mor wan wyf ddydd a nos,  
'D wy 'n gwel'd dim gallu ond ar y  
groes.

2 'R wy 'n gruddfan eisieu rhoddi  
mhwys  
Ar Frenin nefoedd tan ei grwys,  
A gwel'd fy Nuw, sy 'n llanw 'r ne',  
Yn talu'r ddyled yn fy lle.

3 Deffro, fy ffydd, rho afael gref  
A'th freichiau 'n dÿn am dano ef;  
Er ofnau fyrrd na âd e'n rhydd,  
Tra yn dy freichiau cari 'r dydd.

4 Dyma fi, IESU, fel yr wy',  
Cuddia fi yn dy nefol glwy';  
Can's dyna'r graig y gwna' fy nyth;  
'D oes neb yn ofni yno byth.

5 Tyr'd, angeu, 'mlaen â'th gledddyf  
llym,  
Tra yn IESU b'wyf nid ofna' i ddim;  
Y cnawd, a Satan, pechod cry',  
Yn nghlwyfau'r IESU congcras chwi.

6 Gâd i mi, IESU, ddydd a nos,  
I dreulio 'm hamser tan dy groes  
'D oes gyflwr arall tan y ne',  
I'r ofnog rai yn addas le.

### HYMN CCXLIII.

*Hiraeth yr enaid am Dduw.*

G WEL arnaf, Feddyg, lawer  
clwy',  
O'm traed i'm coryn, gwaedu'r wy';  
Fe 'm 'speiliwyd, do, o'r gwisgoedd  
hardd,  
Fel fy rhieni yn yr ardd.

2 Deffro, fy ffydd, dyrchafa 'th ben  
I fyny tua 'r nefoedd wen;  
Gwel fy ngwrthddrychau hardd a  
gwiw  
I'w caru 'n anwyl tra f'ech byw.

3 A rhinwedd sugna 'lawr o'r ne';  
Rho f' holl rasmusau yn eu lle;  
Gwna im' wel'd hedd, a gwel'd fy  
mai,  
I wir alaru a llawenhau.

4 Pa bynag radd ge's gynt o ras,  
Faint bynag gollais inau o'r maes,  
Rho im' a gollais, rho yn lân  
Radd at fu gen'i fwy' o'r blaen.

3 'R wy 'n blino 'mado â fy Nuw;  
Byw hebst' dim ond trallod yw;  
Cysuron creaduriaid, mae  
Rhyw ddirfawr boen wrth eu  
mwynhau.

6 Yn ol 'r wy 'n d'od, Ti wyddost  
pa'm,  
Rhaid im' gael nerth, a nerth bob  
cam;  
D'wed air dy fod, mi credaf byth,  
Yn well na gwrthgiliadau chwith.

7 Ni allaf ddweud, er lleied grym,  
Nad wyt Ti eto 'n perthyn im';  
Pe credwn, llwfrhawn dy fod  
Yn elyn im', ac felly 'rioed.

8 Ond 'maflyd ynot' wyf o draw;  
O na bai gryfder yn fy llaw,  
I'th ddala o hyd, a'th ddwyn bob  
cam  
O dwrf y byd i dÿ fy mam.

### HYMN CCXLIV.

*Rad Ras.*

Y N rhad y mae 'n dyfod  
Bob bendith a dawn,

H

Fy mwrdd yn gyfoethog,  
A'm cwpan yn llawn,  
A gwisg i'm cynhesu,  
Fy anedd a'm tân,  
Fy einioes a'm iechyd,  
'Ddiwrth f' ARGLWYDD y maen'.

2 Yr awyr sy 'n dyfod  
O artre' fy Ner,  
A'r dyfroedd i yfed  
Yn mhell uwch y ser;  
Y tân o'r wybrenau,  
Y moroedd, a'r tir,  
Sy 'n d'od o rad gariad  
Fy ARGLWYDD yn wir.

3 Ond mwy na 'r bendithion  
Tymhorol gerllaw  
Yw 'r rhai sydd yn perthyn  
I'r amser a ddaw;  
Yn rhad a ddechreuwyd  
Cyn amser erioed,  
A bery 'n rhad eto  
Tra nefoedd yn bod.

4 Yn rhad yr etholwyd  
(Pa'm, ARGLWYDD, myfi?)  
Draw yn nhragwyddoldeb  
Yn nghwrsel y Tri;  
Yn rhad y'm dwys bigwyd;  
Datguddiwyd yn rhad  
Mai tros fy anwreidd  
Y collwyd y gwaed.

5 Yn rhad 'r wy 'n cael manna,  
A'r dyfroedd dibrin,  
O ffynon y bywyd,  
Yn rhad 'r wy 'n cael hyn;  
Yn rhad y cai gerdded  
Y siwrnai sy faith;  
Yn rhad y cai ganu  
Ar ddiwedd fy nhaith.

### HYMN CCXLV.

*Peverindod.*

F Y Nuw, rho 'r manna fry  
I'm bwydo i ar fy nhaith,  
A'm nerthu i'r tiroedd sy'  
Yn llofo o fêl a llaeth,  
Agor y Graig, doed allan ddw'r  
Gloyw distwr o Had y Wraig.

2 Ffarwel i'r Aiphataidd dir,  
A'i degwch oll o'r bron,  
Dechreuais siwrnai yn wir  
I maes o'r Gosen hon ;  
'D oes yma i gael yn mhlith y *criw*,  
Annuwïol ryw, ond pethau gwael.

3 Mi wela' draw trwy ffydd  
Ryw ragorfrentiau mawr,  
Mor sicr im' ryw ddydd  
A phe baent i mi 'n awr ;  
Ond moroedd sy, a mynyddau  
maith  
Ar hyd y daith rhyngwy' a hi.

4 Iorddonen saif yn serth,  
A'r creigydd hylt yn ddau,  
Ac angel mawr ei nerth  
A'm dwg i'r lan yn frau ;  
Breninoedd hy', trwy dy allu mawr  
A gwmp i'r llawr o'r bron yn llau.

### HYMN CCXLVI.

*Gweddi am nerth i Gongcwerio.*

**M**EWN Aipht heb nemawr  
oleu 'r dydd,  
Fy enaid sydd yn trigo ;  
Dwg fi yn mlaen o'r tiroedd caeth,  
At fêl a llaeth yn llifo.

2 Gwna waelod môr fel gwastad dir,  
A'r dw'r fel mur cadarna',  
O bobtu 'n gylch yn aros, doed  
Trwy'r dyfroedd droed y gwana'.

3 Difetha 'r g'lynyon dewrion dig  
Sy 'n ffyrnig yn fy nilyn ;  
Cryrhoed y dyfroedd mawr yn  
nghyd,  
Cyflawna 'th lid i'w herbyn.

4 O gad dy angel fyn'd o'm blaen,  
A'r golofn dân i'm g'leuo,  
Yn gwmwl tywyll rhyngwy' cau  
A Pharao, mae 'n fy mlino.

5 Gad 'ynt fy nghlywed maes o law  
Yr ochr draw yn canu ;  
A phawb i wel'd y myrdd dirif  
'Lawr tan y llif yn boddi.

6 O galw 'r tywod mân yn nghyd,  
'Dywallt eu llid yn erbyn,  
A soddi olwynion mawr eu grym  
Yr hwn sydd im' yn elyn.

### HYMN CCXLVII.

*Dyoddefaint CRIST.*

**E**I enaid doddodd gan y gwres,  
Fel ffwrnes yn ei galon ;  
A'r chwys a'r gwaed yn ddfafnau  
mawr  
Yn cwmpo 'lawr yn gyson.

2 A dyma 'r chwys, a dyma 'r gwaed  
Sy 'n rhoi iachad i'r cleifion ;  
O'i ystlys tardd yr afon bur  
Sy 'n dofi cur y galon.

3 Fforddion oll, sefwch o'r trwch,  
Yn awr edrychwch arno ;  
B'le ofid fel ein HARGLWYDD Ion  
A glywsoch son am dano ?

4 Ei apostolion, gwan eu ffydd,  
Yn ngwres y dydd a gysgodd ;  
Un gronyn help o'r ddae'r na'r ne',  
Ac eto fy gongcwerodd.

5 Fe rodd ffarwel pan ar y groes  
I'w fywyd tros ei elynion ;  
'N awr gwelwn uffern, dae'r, a ne'  
Yn mwrddro Brenin Seion.

### HYMN CCXLVIII.

*Diystyru Dyn a'i Ddrygau.*

**T**I wyddost, ARGWLWYDD, am gael  
ffydd  
Bob dydd 'r wy 'n gwaeddi 'n  
gyson ;  
Pe credu wnawn, er gwaetha' eu  
'sgil,  
Nid ofnwn fil o elynion.

2 Pa beth yw dynion ond fel gwynt,  
A'u helynt yn myn'd heibio ;  
Pa'm rho'i fy mhws ar beth mor  
wael,  
Sydd ar gael ei ddystrywio ?

3 Pwy a w'radwyddwyd, roes ei fryd  
A'i oglud arnat, ARGWLWYDD ?  
Rhoi'st iddynt barch a chlod am  
hyn,  
Ac enw yn dragywydd.

4 Gwan wyf erioed, a gwan o hyd,  
A'r llesga' i gyd o'm brodyr ;  
Os llewod creulon ddaw i'm cwrdd,  
O tyn Di ffwrdd eu natur !

5 Mi rof fy maich oll ar dy war,  
Mae 'n gyfyng ar fy enaid ;  
Tor fy nghadwynau 'n fuan, tro  
Fi allan o gaethiwed.

6 Os colla'i 'm henw yn y byd,  
Fy ffryns i gyd, a'm meddiant,  
Gad i mi gael, 'nol darfod hyn,  
I lechu yn dy haeddiant.

7 Mi gwmpaf, ARGWLWYDD, yn dy law,  
Mi ddof gerllaw i lechu ;  
Gwell gen'i o bawb tan nefoedd fry  
Dy Hun i Ti fy nghospi.

### HYMN CCXLIX.

*Bendithio am Drugareddau.*

**B**ETH, ARGWLWYDD, welaist ar fy  
llaw ?  
Pan tynaist f' ofnau 'bant, a'm  
braw ;  
P'am rhoi'st im' nerth o'r nefoedd  
fry  
I roi fy ngofal arnat Ti ?

2 Mil o fendithion, mil a mwy,  
I mi a ro'i'st, nid iddynt hwy ;  
'D wy'n gwel'd o gylch im' o bob tu  
Ond rhyw drugaredd i myfi.

3 Pob creadur arna 'i 'n gwenu sy  
Am 'mod mewn heddwch â Thydi ?  
O'm holl gyfeillion yma 'nghyd  
Tydi yw 'r Cyfaill goreu i gyd.

4 Oll tanat Ti mae'r rhai 'n yn gwau,  
Pob meddwl i Ti 'n ufuddhau !  
A fynost wnant, a llawer gwell  
Na gweision caeth mewn gwledydd  
pell.

5 Yn iach i mi mae 'th oerni a'th  
wres ;  
Dy fara sydd yn gwneud im' les ;  
Yr awyr, dw'r, pob beth o'r byd  
Sydd yn gyfeillion i mi 'gyd.

6 Chwychwi greaduriaid o bob rhyw,  
'R wy 'n cyhoeddi maes mai da yw  
Dduw  
Im' yn mhob peth, ond llawer gwell  
Am obaith llawn o'r Ganaan bell.

7 Hedda maddeuant i mi 'n rhad,  
A hyder llawn yn rhin y gwaed,  
I fentro 'n hy' at orsedd Ner,  
A lle yn barod uwch y ser.

### HYMN CCL.

*Y Drindod.*

**U**N wyt, fy Nuw, ac eto Tri,  
Dirgelwch yn rhy fawr i mi ;  
Goguwch tragwyddol, felly 'th gair  
Wedi 'th ddatguddio yn dy Air.

2 Pan cilio ffwrdd gysgodau 'r hwyr,  
A'r llen i'r llawr i'w rhwygo'n llwyr,  
Fe allai ceir trwy lewyrch gwell  
I ganfod mwy i'r dyfnder pell.

3 Fel d'wed dy Air, fy nyled yw  
Credu dy hanfod Di, fy Nuw ;  
Anghofio 'm rheswm, mae 'n rhy  
wan,  
Ni fedd ef nerth i'm tynu i'r lan.

4 Chwilio âg ef ddyfnderoedd 'r wy',  
Ac eto ffaelu a myned trwy ;  
Rhy faith yw 'r gwirioneddau fry  
I'w gwybôd, ond i'w credu sy.

5 Tad yn y Mab, Mab yn y Tad,  
Ac yr un wedd mae 'r Ysbryd rhad ;  
Y man bo un y lleill y sy ;  
O ryfedd Fod ! can's un yw Tri.

6 Y priodolaethau maith diball  
A geir yn un, geir yn y llall ;  
Fy Nhad, fy IESU, a'r Ysbryd cun,  
Sy' Dduw, ni fedda' i eto ond Un.

- 7 A chan y Drindod yma mae  
Yr unig allu i'm iachau ;  
Tair swydd yn angenrheidiol sy  
Cyn gallu 'm dwyn i'r nefoedd fry.
- 8 'R oedd rhaid fy newis gan y Tad,  
A IESU farw trosy 'n rhad ;  
A'r Ysbryd i gymhwysu 'gyd  
Ei iechydwrïaeth werthfawr ddrud.

## HYMN CCLI.

CRIST yn ateb y cysgodau, Arch Noah,  
Isaac, Jacob, Ysgol Jacob, Job, Joseph.

**T**YDI yw'm harch, pan gwlawio'r  
nef  
Mi goda 'm llef hyd atat ;  
O fewn dy glwyfau cuddia'i 'mhen  
Nes d'od i ben Ararat.

- 2 Caf ganu'th fawl, pan uwcha'r dw'r,  
Heb ofni 'stwr creadur,  
Ynot yr eirth a'r llewod cawn  
Yn wirion iawn eu natur.
- 3 Fy Isaac yw, colodd ei waed  
Trwy law ei Dad anwyla' ;  
Heb rwgnach dim i ddyodde' poen  
Mwy nag yw 'r oen i'r lladdfa.
- 4 Ein Jacob mawr, plediodd â'm Duw,  
Nes cael pob rhyw 'ddewidion,  
I'w finteioedd maith i dd'od bob  
rhan  
Yn rhydd o tan elynion.
- 5 Efe yw 'r ysgol gadarn fawr  
O ddyfnder llawr i'r nefoedd ;  
Angylion yn tramwyo wrth raid  
I fod o blaid ei bobloedd.
- 6 Efe yw 'r Job, ddyoddefodd wae  
Oddiwrt y rhai a'i carai,  
Cystuddiau mawrion, fel yr oen,  
Oedd fwy eu poen nag angeu.
- 7 Collodd ei blant, a'i dda bob rhan,  
Yn Eden pan y temtiwyd ;

Ond rhai'n a mwy i ddwyn i'r ne'  
'N awr iddo fe a roddwyd.

- 8 Efe yw 'r Joseph, Ffrynd ei Dad,  
Fu yn nghanol gwlad yr Aipht-  
iaid,  
A werthwyd gan ei frodyr draw  
O'u bodd i law 'r Midianiaid.
- 9 Carcharwyd yn y dywyll wlad,  
Fe ro'w'd ei draed mewn cyffion ;  
O'r carchar dwfn daeth i maes  
I balas Brenin Seion.
- 10 Fe ddwg ei frodyr mewn mawr  
'stad  
I maes o'r wlad newynllyd ;  
At ei drysorau mawrion iawn  
Sy 'n llawn o fara 'r bywyd.

Moses yn gysgod o GRIST.

**Y** MOSES mawr, o'r Aipht fe'm  
dwg,  
Fu yn nghanol mwg a th'ranau,  
Ar Sinai fryn o flaen y Tad,  
Yn colli ei waed yn ddafnau.

- 2 Pan gwnaethom lo, dadrysodd lid,  
Rhag cael i gyd ein difa ;  
Cyn collom wlad, ei Hun fe â  
'N anathema, Maranatha.
- 3 A'i wialen mae e'n tori 'r dw'r,  
Yn bentwr saf i fyny ;  
Pan delo 'r Aiphtiaid ar ei ôl,  
Fe 'u tery 'n ol i'w boddii.
- 4 Rhydd ddeddfau cywir idd ei had,  
A chan y Tad y dysgodd ;  
A'r teidiau i ddyysgu 'r plant bob  
oes  
Fel parent yn oes oesoedd.
- 5 Egyr y graig, daw ffrydiau mwy  
Llifeiriol trwy 'r anialwch ;  
A'n canlyn wna 'r afonydd pur,  
Digymhar wir ddyddanwch.
- 6 Dwg fanna 'lawr, pan delo trai  
Am does ar rai newynllyd ;  
Try ddyfroedd Mara i bob gw'r  
'R un flas a dw'r y bywyd.

Melcisedec, Gideon, Samson, Elias, yn  
Gysgodau o GRIST.

**M**ELCISEDEC ein Brenin  
cawn  
Sy ar Salem lawn o heddwch,  
Brenin Cyfiawnder hefyd yw,  
Sy 'n dwyn pob rhyw ddyddan-  
wch.

2 Heb dad o'r ddae'r, na mam o'r ne',  
Na dechreu dyddiau bywyd,  
Na diwedd oes, anfeidrol Dduw,  
Tragwyddol yw f' Anwylyd.

3 Tragwyddol Archoffeiriad, mae  
'N bendithio rhai sy 'n ffyddlon ;  
Dwg fara a gwin, pur yw 'n ddidrai,  
I Abra'm a'i 'tiffeddion.

4 Efe yw Gideon mawr ei rym  
A weithiodd in' ymward ;  
'N ol bod mewn cystudd mawr a  
braw  
Yn hir tan law 'r Midianiaid.

5 Efe yw Samson cadarn cry  
A laddodd lu 'r Philistiaid ;  
Wrth hyny fe ddyoddefodd loes  
Ddigymhar tros ei ddefaid.

6 Elias yw, gym'rwyd o'i fodd  
I mewn i'r nefoedd ganed ;  
Mwy gogoneddus caiff E fod  
Ryw ddydd i dd'od i waered.

Dafydd, Solomon, &c.

**E**FE yw 'r Brenin Dafydd bra',  
Gaiff goron a chasineb ;  
Y gadair freiniol cadw wna'  
Hyd eitha' tragwyddoldeb.

2 Yr amddiffynfa fawr, bob rhan  
Fu 'nghadw gan elynion,  
A dyr E 'lawr, ac yma bydd  
Wych deml fynydd Seion.

3 Rhyfelwr mawr yw Ef erioed,  
Myrddiynau gôd i'w erbyn ;  
Ond Ammon, Edom, cwympto wna',  
A Midian a Philistin.

4 Efe yw Selyf, Brenin heddi,  
Ac ar ei wedd mae beunydd  
Yn edrych filoedd isel drem  
O ferched Salem newydd.

5 Tywysog heddi, o'i flaen ni sa'  
Na Midian, na Philistin ;  
'Faidd Moab, Ammon, Syria draw  
I godi llaw i'w erbyn.

6 O aur fe leinw Salem lân  
Fel graian mân afonydd ;  
Trysorau i'w blant sy ganddo yn  
'stor  
Fwy nag fedd môr na mynydd.

7 Rhydd i bob un ei darian aur,  
A'i fwcled gair yn daclus ;  
A rhai'n yn cael eu cadw fry  
Yn nghoedwig dŷ Libanus.

8 Fe ddwg ei wraig o'r Aipht, dir  
sych,  
I balas gwych yn ufudd,  
Nid ifori, neu aur Ophir pell,  
Ond llawer gwel ei ddefnydd.

9 Efe yw Jonathan y saint  
Sy 'n rhoddi 'r fraint i'w frodyr,  
Sef teyrnas nefoedd wen i gyd  
Rydd 'ynt ryw bryd yn sicr.

10 Safodd yn hy' o flaen y Tad,  
Gan golli gwaged ei galon ;  
Trwy'i galon aeth y waewffon gry',  
Er achub ei gyfeillion.

11 Efe yw 'r ddinas gadarn sy  
Yn noddfa i'r llofruddion ;  
Ac yn ei ystlys lloches sydd  
Rhag y dialydd creulon.

12 Yr arch yw, sy 'n y deml fry,  
Hardd rhwng y llu o angylion ;  
A'r rhai'n yn troi eu hwynebau  
'lawr  
I wel'd ei fawr ddirgelion.

13 Yn gynwysedig ynddo ceir  
Y crochan aur a'r manna ;  
Y pererinion cânt o'r trwch  
Yn yr anialwch wledda.

- 14 Llyfr y gyfraith geir o'i fron  
Yn gyson yn yr IESU ;  
A'r wialen sydd yn fiodau gwyn,  
Ac hefyd yn fflangellu.
- 15 Ynddo mae enaint gwerthfawr pur,  
Yn nghanw'r yr gwir grediniol,  
Dywalltwyd arno ei Hun o'r nen,  
Rhydd yntau ar ben ei bobol.
- 16 Efe yw'r sarph ar drosol crwn  
Iachaiff yr hwn a gredo ;  
Fe laesa'r chwydd, o'r nef caiff  
hawl ;  
Gwynfyd y sawl edrycho !
- 17 Y manna gwyn, bwyd meibion  
Duw,  
Myrdd o bob rhyw ddyddanwch,  
I loni Israel ar eu taith  
O fewn y maith anialwch.
- 18 Môr pres wyt Ti sy'n llawn o  
ddw'r,  
Ac yma yn siwr mi ymolchaf ;  
Gwyn fyddaf mwy, caf fyn'd heb  
ble  
I mewn i'r lle sancteiddiaf.

## HYMN CCLII.

*Gorfoleddu mewn hyder o Fuddugoliaeth.*

**F**Y enaid, gwel i ben Calfaria  
Draw, rhyfeddod mwya' erioed,  
Creadwr nefoedd wen yn marw,  
A'r ddraig yn trengu tan ei droed ;  
Mi glywa' lais yn awr, debygwn,  
O agor byrth y ddinas fry ;  
Fy enaid, cân, fe ddarfu ofn,  
Prynwyd nefoedd wen i mi.

- 2 Tyr'd i fyny o'r anialwch,  
Wedi aros yna yn hir,  
Sypiau grawnwin mawrion addfed  
Sy'n dy aros yn y tir ;  
Brysia i ryfel, gwisg dy arfau,  
Cymer galon, mentra 'mlaen,  
Y ffordd ni's colli, mae'n dy ar-  
wain  
Gwmwl niwl a cholofn dân.

- 3 Ni all Amalec na Moab,  
'Nghyd â'r holl elynion hy',  
Wneuthur niwed im' tra cadwyf  
'N agos at dy babel Di ;  
Tan y cwmwl mi arosaf,  
Yno hefyd bydd fy nyth,  
Nes cael trigo mewn llawnydd  
Yn y wlad a bery byth.
- 4 Tro fy nghefn ar yr Aiphtiaid,  
Welais ond eu gwaetha' r'rioed ;  
Sathru f' ARGLWYDD, a'i ogoniant,  
Fel y glaswellt tan eu troed ;  
Dydd sy'n dyfod, daw ar fyrder,  
Gwelant hwy fy Mrenin fry,  
Cymylau'r nef yn gerbyd iddo,  
'R haul a'r lloer yn bellen ddu.
- 5 Gwnes y dewis goreu wnaethpwyd,  
Dewis Brenin nefoedd wen  
Yn Dad, yn Briod, ac yn Gyfaill,  
Yn Frawd, yn Geidwad, ac yn  
Ben ;  
Cyfoeth mawr di-drai, di-fesur  
Sydd yn nghanw'r i mi'n 'stor,  
A bendithion oll, pe rhifid,  
Megys tywod mân y môr.

## HYMN CCLIII.

*Am y Greadigaeth.*

- I**ESU ydyw fy Nghreadwr—  
Creadwr uffern, dae'r a ne',  
Y cwbl hefyd oll a wnaethpwyd  
Er gogoniant iddo Fe ;  
Ynddo'r cyfan sydd yn sefyll,  
Ei fyseidd yn eu cynal sy ;  
Fy enaid, dyma'r Un a hoeliwyd  
Draw ar fynydd Calfari.
- 2 Er mor rhyfedd ydoedd rhoddi  
I fydoedd dirifedi fod,  
Rhyfeddodau'r Aipht a Soan,  
Yn nghyd a glywodd clust erioed ;  
Hyn i gyd sydd yn diflannu,  
Can's mwy rhyfeddod wel'd E  
fry  
Ar y pren yn dyodde' ei hoelio,  
Draw ar fynydd Calfari.
- 3 Angylion pur sy o gylch ei orsedd  
Yn gwisgo g'leuni fel y wawr,

- Yr Hwn a'ch gwisgodd â'r fath  
harddwch,  
Ac 'ych yn ei addoli'n awr,  
Cig a gwaed a gym'rodd arno,  
Fel gallai gydymdeimlo â ni ;  
Er mai Gwrthddrych eich addoliad  
A fu farw ar Galfari.
- 4 Yr awyr gau ddi-fesur lydan,  
A'th gopa cu'wch a'r nefoedd sy,  
Bydoedd o faintioli ofnadwy  
Sy'n amgylchu yn dy fru ;  
Yr Hwn â'i air wnaeth dy adeilad,  
A'i fyseidd all dy fesur di,  
Dro'wd mewn cadach yn y preseb,  
Ac fu farw ar Galfari.
- 5 'R aneirif ser sydd yn dysgleirio  
Yn nghanol y tywyllwch du,  
Mae ynoch fôr o dân berweddig,  
Er mor fach i'n golwg ni ;  
'R Hwn ryw oesoedd cyn eich enyn,  
A bery pan diffodoch chwi,  
Fu'n Nazareth yn wael ei gyflwr.  
Ac fu farw ar Galfari.
- 6 Chwi blanedau o adenydd cyflym  
Sy'n teithio'n brysur foreu a  
hwyr,  
Fîl filiynau o fesurau,  
Yn cadw'r amser oll yn llwyr ;  
'R Hwn â'i fraich a'ch gyrodd  
gynta',  
Uwch eich llwybr wnaeth ei dŷ,  
Ga's ei erlid yma yn faban,  
Ac fu farw ar Galfari.
- 7 Ti, haul, y ffynon fawr ddi-hysbydd  
O'leuni, cysur, gwres, a thân,  
Sy'n danfon dydd oddeutu'r ddaear,  
Bywyd myrdd o lysiau mân ;  
'R Hwn a'th lanwodd o oleuni,  
Na ellir edrych ar dy wedd,  
Ymddihatrodd o'i ogoniant,  
Gorwedd wnaeth yn ngwaelod  
bedd.
- 8 Y lloer, yn mhlith y ser sy'n rhodio'  
Yn g'leuo mwy na hwynt i gyd,  
Y môr sy'n teithio wrth dy amser,  
Ti guddi'th wyneb ambell bryd ;  
'R Hwn rodd d'oleu oddiwrth yr  
haulwen,  
Ei lewyrch o hono ei Hun y sy ;
- 'Clips \* a redodd tros ei harddwch  
Pan fu farw ar Galfari.
- 9 Chwi daranau yn y cwmwl  
Pygddu'n ymderfysgu sydd,  
Yn crynu'r nef a'r ddae'r o tanom,  
Fel yn bygwth barn a fydd ;  
'R Hwn wnaeth ich' ddychrynu  
dynion,  
A gallu ich' i ruo yn llyn,  
Ei Hun a lefodd yn y preseb,  
Llefodd ar Galfaria fryn.
- 10 Chwi fellt cynddeiriog sydd yn  
taenu  
Yn llen o dân trwy'r nef i gyd,  
Ro'dd drigfa pechod gynt yn ulw,  
Ac o'r diwedd lysg y byd ;  
'R Hwn a'ch'nynodd, ac yn peri  
I'ch ladd, neu ynte *safio* sy,  
Ro'dd ei Berson gogoneddus  
'Gael ei hoelio ar Galfari.
- 11 Chwi dymhestloedd sydd yn dangos  
Eitha' gwaelod moroedd mawr,  
Briwio llongau'n erbyn creigydd,  
Tafu'r derwydd serth i lawr ;  
Yr Hwn rydd ffrwyn yn safn y  
dymhestl,  
Yn marchog ar y gwyntoedd fry,  
Fel yr oen yr aeth i'r lladdfa  
Tros ein beiau ar Galfari.
- 12 Chwi gymylau sydd yn hongian  
Yn yr awyr deneu fry,  
Weithiau'n gwneud i'r ddaear  
darddu,  
Weithiau'n pydru ei ffrwythau  
sy ;  
Yn chwer'der ei enaid bu'n am-  
ddifad  
O'r Presenoldeb Tadol fry,  
Wrth grymu ei ben i lawr a marw  
Draw ar fynydd Calfari.
- 13 Ti wres sy'n gwneud i'r ddaear  
losgi ;  
Ti oerni, sy'n ei rhwymo'n un,  
Wrth gymysg yn gwneud tymhor  
hyfryd,  
(Rhy greulon ar eich penau 'ch  
hun :)

\* *Eclipse.*

Rheolwr mawr yr holl greadigaeth,  
Mewn tŷ o glai un amser bu,  
Dyoddefodd eitha' gwres digofaint  
Draw ar fynydd Calfari.

### HYMN CCLIV.

*Golwg ar Lesgeidd.*

**D**ARFU fy nerth, 'r wy 'n llwfr-  
hau,  
Yn dy allu mae f' ymddiried ;  
Nerth mawr di-fesur, fel y môr,  
Genyt sy 'n 'stor i'r gweiniaid.

2 Mi glywais it' yn mrig yr hwyr  
I roddi llwyr faddeuant  
Mewn oesoedd gynt ; a ddarfu 'n  
awr  
Gyflawnder mawr dy haeddiant ?

3 Ti 'm tynaist i o ganol tân,  
A mi o'r blaen yn ofni ;  
Gwna hyny eto 'r fynydd hon,  
Mae f' enaid bron a threngu.

4 Rho im' ysbryd Caleb, fel o'r blaen,  
I fentro 'mlaen i ryfel ;  
Na phrisiwyf ronyn, er dy fwyn,  
P'un wneir a dwyn fy hoedd.

5 Dysg fi i 'nabod angeu llym,  
Heb ofni ei rym yn taro,  
I fentro 'mlaen, heb fod yn wan,  
I'w wyneb pan y delo.

6 Bydd coffa am danat yn mhob  
man  
I godi 'r gwan i fyny ;  
Eu calonau yn demlau i Ti cair,  
Sy wrth dy air yn crynu.

### HYMN CCLV.

*Teimlad o Wendid.*

**G**WRTHGILIAIS, do, oddi-  
wrthyt, Ner,  
Addolais dduwiau rif y ser ;  
Er fy ymfrost yn fy nerth fy hun,  
Ce's wel'd nad oeddwn i ond dyn.

2 Mi wada 'm hun, 'r wy 'n gwel'd fy  
ngrym,  
A'm holl fwriadau'n myn'd yn ddim:  
Yr amser ddaeth i fyn'd i maes  
I ymdroi a gorphwys yn dy ras.

3 Dysgwyl yr wyf, a meddwl bod  
Yn fil mwy cywir wrth dy droed ;  
Ond ofni 'r wy, 'n lle bod yn well,  
Fy mod yn crwydro i ryw le 'mhell.

4 B'le mae fy hawl ? pa'm bydda 'i 'n  
llyn !  
Côf i mi 'th ddewis Di cyn hyn ;  
Priodas wnawd, ceir gwel'd ryw  
bryd,  
A bery 'n hwy na phery 'r byd.

5 Pa bryd caiff g'lynyon grwydro  
'maes,  
A chwympo yn fintai ar fy ngras ?  
Ond y mae juwbil 'fod ryw ddydd  
I swnio cyn wrth fyn'd yn rhydd.

6 Pwy wyddai fod fath dorf i maes  
O elynion du i ddifa 'm gras ;  
Ddeallais i ddim, filwr gwan,  
Fod rhywd gan Satan yn mhob  
man.

### HYMN CCLVI.

*Cwymf.*

**D**WED, ARGWLWYDD, pa'm caiff  
pechod cas  
Fel hyn i sathru ar fy ngras ?  
A'm rhoddi 'lawr tan draed pob  
gradd,  
Fel un fuasai newydd 'ladd !

2 Tan draed mi âf, dyma fy lle ;  
Pwy bechodd fwy yn erbyn Ne' ?  
'R wy' yn ei wel'd yn rhyfedd  
frait  
I fod yn lleiaf un o'r saint.

3 Pa beth yw 'r mater, dywed im',  
Pa fodd 'r wy' wedi colli 'ngrym ?  
Ai'n wanach, wanach wyf yn myn'd ?  
On'd wyt Ti fyth yn para 'n Ffrynd ?

4 Diffygio wnes o eisieu grym,  
A sicr yw na fedda'i ddim ;  
Collais y dydd, mi ildia' mwy  
On' roddi Di i'm gelyn glwy'.

5 Mae cywilydd arna'i geisio gras,  
Na m'ddeuant fyth o hyn i maes ;  
Nid dyma 'r ffordd i fyn'd yn rhydd,  
Atat tro f' wyneb ar fath ddydd.

6 Mae 'nghalon galed fel y plwm,  
Neu 'r gareg adamantaidd drwm :  
O n' âd fi anobeithio 'n lân  
Y caiff ei thoddi yn y tân.

7 Help pellach, ARGWLWYDD, atat Ti  
Yn unig daw fy enaid cu ;  
Yr wyf fi 'n credu bod dy ras  
Yn llawer mwy na phechod cas.

### HYMN CCLVII.

*Gras a Dedwyddwch yn NGRIST.*

**N**ID fy nef yw ar y ddaear,  
Pe goreu man tan gwmpas  
haul :  
Fy nef yw tawel bresenoldeb  
Wyneb siriol Adda 'r Ail ;  
Gwena arna'i, ARGWLWYDD grasol,  
Gwaedda 'i allan, digon yw ;  
Yna 'nghanol cyfyngderau  
Fyth yn llawen bydda'i byw.

2 'R wybr faith sy'n llawn o fydoedd,  
Eto seren un ni fedd,  
Er mor fuan maent yn 'hedeg,  
'Hed mor gynted a dy hedd ;  
Myrdd weddïau a wrandewaist  
(Can's mor barod yw dy ras),  
Yn y fynydd gynta' eu lluniwyd,—  
Cyn eu d'od o'r genau 'maes.

3 Môr sydd ynot o fendithion  
Heb waelodion iddo 'n bod,  
Y mae 'n llanw 'mlaen bob mynyd,  
Nid oes diwedd ar dy glod ;  
Dy enw beunydd sy 'n helaethu,  
Beunydd yn ymdaenu 'maes ;  
Bydd telynnau yn canu iddo  
Fel rhifedi gwellt y maes.

4 Yn dy glwyfau y mae bywyd,  
Tyllau 'r hoelion yw fy nyth ;  
Ofna'i fyd, na chnawd, na phechod,  
Nac euogrwydd yno byth ;

Gwaed fy Mhriod wedi 'golli,  
Archoll fawr y waewfion,  
Yw fy Nghraig a'm Dinas Noddfa  
Sicr ar y ddaear hon.

5 Yno boed fy mwyd a'm diod,  
Tan ganghenau gwych y pren,  
Sydd â'i wreiddyn ar y ddaear,  
Ei frigau yn y nefoedd wen.  
Dyn â'r Duwdod ynddo 'n trigo,  
'Ffrwythau arno 'n tyfu 'n llawn,  
Cysgod tano i'r ffyddloniaid  
O foreuddydd hyd brydnawn.

6 Dedwydd ydyw 'n berchen arnat,  
Dedwydd yfo o dy hedd,  
Gallant chwerthin fyth wrth weled  
Cyngrair Satan, angeu, a'r bedd ;  
Bydd breninoedd mewn cadwynau  
Yn llechu yn isel tan eu traed,  
Hwy ar ddeheu 'r Oen yn moli  
Wedi d'od trwy rin y gwaed.

### HYMN CCLVIII.

*CRIST, y Trysor Goreu.*

**F**Y enaid, 'hed tua 'th etifedd-  
iaeth,  
Fy ngorddiwes tywyllwch mae ;  
Nid oes rhifo ar flynyddau  
'Nhragwyddoldeb sy 'n nesau ;  
Môr diderfyn heb ddim gwaelod,  
Gogledd, dwyrain, yw, na de',  
Na rhif ar oesoedd at ei ddechreu,  
Nac eilwaith ar ei ddiwedd e.

2 Yno 'r wyf fi yn ymdeithio,  
Yno mae fy Mrenin mawr,  
Can goleuach nag yw 'r danllwyth  
Yn dysgleirio uwch y llawr :  
O pwy bleser—pwy ddfyrywch  
A 'nigrafa i yn y byd,  
Pan Emmanuel groesholiwyd  
Oll yn gyfan aeth â 'mryd ?

3 Clywa'i lais gan bob rhyw raddau  
O'r creaduriaid mân i gyd,  
'Mod i wedi aros gormod,  
Hepian llawer yn y byd ;  
Gwisg dy aden, medd pob tafod  
Glywa'i tan yr awyr las ;  
Gormod hepiant, mae 'n ddiweddar  
Cyn it' ddechreu taro 'maes.

- 4 Ffarwel bellach bob creadur ;  
Chwi gewch weled hyn ryw  
bryd,—  
Medda'i drysor gwerthfawrocach  
Fil o weithiau nag yw 'r byd ;  
Tu hwnt i'r bedd 'does mesur arno,  
Rhan o fewn fy nghalon mae ;  
Ffynon fawr ydyw ei wreiddyn,  
Fyth ni welir arni drai.
- 5 A welodd haul erioed wrth redeg  
Ei thro diderfyn yn y ne',  
Neu yn y ser, neu ar y ddaear,  
Wrthdrysych tebyg iddo Fe ?  
A oes trysor, ond ei 'mofyn,  
Yn nyfnderoedd daear las,  
I'r filfed ran, pan yn y clorian,  
Bwysa IESU GRIST a'i ras ?
- 6 F' enaid, taw ; 'd oes dim trysorau,  
Na theganau ar y llawr,  
O India 'r dwyrain i'r gorllewin,  
China ac Arabia fawr,  
A fodlona glust neu lygad,  
Neu arogliaid enaid trist,  
Neu ynte dâl i gloddio am danynt,  
Ond yn mherchen IESU GRIST.
- 7 Nerth os caf, mi frysiaf mwyach  
'Fyny tua 'ngwlad fy hun,  
Lle mae 'Nuw yn gwisgo 'n gyson  
Mewn gogoniant natur dyn,  
Na enwer i mi yn antre' bellach  
Fangre arall ond y ne' ;  
Neb yn Dad, na neb yn Briod,  
Neb yn ARGLWYDD ond Efe.

## HYMN CCLIX.

*Cyfiawnhad.*

**P**E b'ai 'merawdwyr mwya 'r byd,  
A blodau 'r ddaear gron i gyd,  
I farw troswy 'n un,  
Rhy fach at faddeu 'mhechod yw,  
Rhaid marw Un ag sydd yn Dduw :  
Darfydded haeddiant dyn.

- 2 Angylion nef, 'baent yn eu plith,  
A gwisgo cyrph o rif y gwllith,  
A marw yn gytun ;  
Rhy ysgafn yn y glorian f'ai  
I bwysu 'r ganfed ran o'm mai ;  
Darfydded son am ddynd.

- 3 Fry, fry 'r cyfiawnder ddyry iawn  
I'r holl ofynwyr sy i mi 'n llawn,  
A'u galw bob yr un ;  
A fu tan hoelion gliria 'r nef,  
Un abl arall neb ond Ef ;  
Darfydded son am ddynd.
- 4 Er dyledswyddau rif y gwllith,  
Neu ynte 'r ser na rifir byth,  
Mae pechod eto 'nglŷn ;  
Yn berffaith eilwaith hwy pe cawn,  
Dim i gyfiawnder at wneud iawn ;  
Darfydded son am ddynd.
- 5 Caed y llieiniau yn y bedd,  
Fe adgyfododd Brenin hedd,  
Gan gongcro angydd ei hun,  
Mewn cwmwl gwyn fe esgynodd Ef  
I glirio llyfrau dua 'r nef ;  
Darfydded son am ddynd.
- 6 'N awr heddwch annherfynol sy  
O gwr i'r llall i'r nefoedd fry,  
Priodoliaethau yn un ;  
Cyfiawnder llym yn llawenhau  
Yn nghol trugaredd faith di-drai ;  
Darfydded son am ddynd.
- 7 Mae 'r pyrth yn agor, nef yn rhydd  
I rhai yn noethion, tlodion, sydd,  
A gwisgoedd i bob un ;  
Y wisg a brynwyd gynt â gwaed,  
A hoelion dur mewn dwylo a thraed ;  
Darfydded son am ddynd.

## HYMN CCLX.

*Diwedd pob peth a nesaodd.*

**Y** MAE 'r haulwen wedi blino  
Teithio yn yr awyr las ;  
Daear drom yn mron diffygio  
Porthi 'r llyisiau sy 'n y maes :  
Mae'r planedau'n gwaeddi, Diwedd ;  
Pob creadur yn ei ryw  
Yn och'neidio am gael gweled  
Gwir ddatguddiad meibion Duw.

- 2 Y mae 'r oriau yn fy ngalw  
'N ddyfal beunydd i bar'toi ;  
Tân yn d'od ar dddinas dystryw,  
Tua Soar i mi ffoi :

ARGLWYDD, 'mafael ynwy 'n fuan,  
Onide ni ddeuaf byth ;  
Tra fo 'r tân yn llosgi Sodom,  
Yn y bryniau gwnaf fy nyth.

- 3 Angeu 'n llawen sydd o'i afael,  
Beunydd mae yn pwysu 'mlaen ;  
Rhif fy esgyrn a'm haelodau  
Tan ei allu 'r awrhon maen' ;  
Pob gwythien fach o'i ochr,  
Y mae 'n cloddio dan fy sail,  
Gwela'i 'n ceisio taro 'r ergyd,  
Na raid taro fyth o'i hail.

4 Taro angeu, ond yn gynta'  
Edrych pwy sydd wrth fy nglŷn,—  
Alpha, Omega, Tad a welir  
'N awr yn gwisgo natur dyn ;  
Ar dy waith yn *lesto* ataf  
Idd ei glwyfau 'n union ffo ;  
Ti ostyngir ; ond ceir gweled  
Pwy wyf finau ar fyr dro.

- 5 Wel ! ellyllon, 'r y'ch yn deuog,  
Mil 'ych chwi, 'd wyf fi ond un ;  
Ond o f' ochr hyd yr eitha'  
Y mae Duw mewn natur dyn ;  
'D oes dim ofn, 'r wy 'n crechwenu,  
Nid yw angeu ddim ond hŷn  
I'r ffyddloniaid, er pwrpasodd  
Dŵw i wisgo natur dyn.

6 Cân, fy enaid, wrth ymadael  
A'r carchardy tywyll, du ;  
Mor llawn o bysg ag ydyw 'r mor-  
oedd,  
O hadau pob rhyw glefyd sy ;  
'Lawr â'r corph i ddyfnder daear,  
'Fyny, f' enaid, tua 'r nen,  
Rhaid i'm llwch, er maned ydyw,  
Godi eto i'r nefoedd wen.

## HYMN CCLXI.

*Cwmp Eden a chodiad Calfaria.*

**Y**N Eden, cofiaf hyny byth,  
Bendithion gollais rif y gwllith ;  
Syrthiodd fy nghoron wiw ;  
Ond buddugoliaeth Calfari  
Enillodd hon yn ol i mi ;  
Mi gana 'tra f'wy' byw.

- 2 Ar Galfari, yn ngwres y dydd,  
Y cawd y Gwystl mawr yn rhydd,  
Trwy gollu gwaed yn lli' ;  
'N awr dim heb dalu, rhodddwyd  
iawn  
Nes clirio llyfrau 'r nef yn llawn,  
Heb ofyn dim i mi.

- 3 Ffydd ! dacw'r man, a dacw'r pren  
Yr hoeliwyd arno D'wysog nen,  
Yn wirion yn fy lle ;  
Y ddraig a sigwyd gan yr Un,  
Can's clwyfwyd dau, congwerodd  
un,  
A IESU oedd Efe.

## HYMN CCLXII.

*Gras yn dechreu yn Ferusalem.*

**P**RIOD y dragwyddol Hanfod  
Wela'i 'n hongian ar y pren ;  
Dyn a'r Duwdod ynddo 'n trigo  
'N barod grymu 'lawr ei ben !  
Gwela'i eto fwy rhyfeddod,—  
Yn ei wyneb angeu loes ;  
Hedd yn rhedeg tros Galfaria  
Fel yr afon tan y groes !

- 2 Er mai bechan yw ei dechreu,  
Mae 'n cynyddu fyth i'r lan ;  
Cododd eisoes cu'wch a'r fferau,  
At y gwddf daw yn y man :  
Còd nes ffaelu 'n lân a'i rhydio,  
Yna hi leinw 'r ddaear gron ;  
Llawn o bysgod mawr a bychain,  
'Fengyl heddwch ydyw hon.

## HYMN CCLXIII.

*CRIST yr unig Iachawdwor.*

**T**ROSEDDODD Adda, pen bob  
dyn,  
Teyrnasodd angeu ar bob un :  
Deddf sydd heb obaith, lle ni fedd  
I edifeirwch nac i hedd.

- 2 A ffeindiwch chwi, gerubiaid fry,  
Seraphiaid ardderchoca' sy,  
Le i ddamnio pechod drwg ei ryw,  
A chadw 'r euog ddynd yn fyw ?



3 A feddwch nerth, pe oll yn nghyd,  
I ddyodde' pwys anfeidrol lid?  
P'un felly gâr druenus ddyn,  
Ac daw ef yn ei le fe ei hun?

4 Rhy drwm y gwaith; mae pawb  
yn fod  
Trwy ganol nefoedd fawr i gyd;  
'D oes ysbryd gogoneddus fry  
O'r grym na 'r cariad atom ni.

5 O ras di-drai! trueni dyn  
Mab Duw gymerodd arno ei Hun;  
Ar ffrwst o eitha 'r nen y daeth,  
A breichiau agored, marw wnaeth.

6 Cyfiawnder friwiodd Dduw dan  
draed,  
Gan fynu iawn â Dwyfol waed;  
Ca's deimlo angeu gwaetha' ei  
glwy';  
Ond ni all Sinai ei ofyn mwy.

7 O ryfedd waith! ti awyr fawr,  
Tro dy aml lygaid yma 'lawr,  
Rhyfedda, gyda 'r thronau fry,  
Y cariad mawr ar Galfari!

### HYMN CCLXIV.

*Gogoniant Duw yn Achubiad  
Pechaduriaid.*

**L**LAWN yw, O Dad, y nefoedd  
wen,  
A'r ddaeaeren o'th foliant;  
Mil o arwyddion bob yr awr  
Sy 'n canu 'th fawr ogoniant.

2 Dweyd mae y ser a'u troion serth,  
Dy sail a'th nerth yn rhyfedd:  
Yn 'sgrifenedig ar bob awr  
Y ceir dy fawr amynedd.

3 Ond gwel'd dyddyfais, pan y cawn,  
At rai sydd lawn o bechod,  
Cyfiawnder llym a gras yn nghyd  
Yn taro i gyd gyfarfod,

4 Sydd yn ein rhoi i foddî 'n wir  
Mewn cariad pur a syndod;  
'R angylion fry, o'r blaen ni ddaeth,  
I wel'd y fath ryteddod.

5 O'th Dduwdod mawr, fan yma  
cawn  
Ryw hyfryd lawn agoriad;  
Pwy fentra ddweyd, dysgleiriach yw  
Cyfiawnder Duw na 'i gariad?

6 Pan tor'som gyfraith bur ein Tad,  
Mab yn ei waed yn dadleu;  
O 'r fath ddirgelwch sy 'n ei groes!  
Fath rin sy o'i loes a'i boenau!

7 Yn awr mae ei ogoniant Ef  
Yn llanw nef y nefoedd;  
Llu 'r nef a ddysgodd ei enw mawr,  
A'i ganu 'n awr yn gyhoedd.

### HYMN CCLXV.

*Hiraeth am Hafusrwydd y Nefoedd.*

**O**ND ofer ceisio gwynfyd llawn,  
Can's gwynfyd perffaiath byth  
ni's cawn,  
Nes cyrhaedd at ein Prynwr pur,  
A sengu ar y sanctaidd dir.

2 'D oes dim o gylch yr awyr fry,  
Neu ynte oddeutu 'r ddaear ddu,  
Dim, fy enaid, dim lawenha ddyn,  
Neu dâl ei garu, ond Duw ei Hun.

3 Ond teimlo ei hedd a'i fywiol ras  
Yw 'r nefoedd sy ar ddaear las;  
A'm nefoedd fyth yn nef y nef  
Fydd edrych yn ei wyneb Ef.

4 Pa'm saif fy oriau draw mor bell  
C'yd, o fy Nuw, a'm dinas well?  
Hollted yr wybr fry uwch ben  
I nodi 'm ffordd i'r nefoedd wen.

5 Fy Nuw, tor y llinynau hyn  
Sy 'nghadw i wrth y clai mor dyn;  
Rhyw angel cryf, cymered fi,  
'Mestyned tua 'r nefoedd fry.

### HYMN CCLXVI.

*Pren y Bywyd.*

**P**REN bywiol sy'n y nefoedd fawr,  
Ac hyd y llawr a'i gangau;  
A ffrwythau 'n pyngo arno 'n llawn,  
Yn rhad prydawn a boreu.

2 Adar ein Duw, dewch yma 'gyd,  
O eitha 'r byd yn llawen;  
Yn ei ganghenan cewch wneud nyth,  
'Sychedwch fyth drachefn.

3 Aroglau yn diferu o'r nen,  
Sy fyth o Bren y Bywyd;  
Myrr, aloes, thus, a chasia gawn,  
Yn werthfawr iawn a hyfryd.

*Diwedd yr ALELUIA.*

Ceir yn yr hen argraffiad cyntaf o'r  
ALELUIA rai Hymnau a adawyd allan  
o argraffiad 1758, ac o'r holl argraff-  
iadau dilynol. Yn eu mysg y mae  
rhai ag y byddai yn resyn iddynt gael  
eu colli. Wele yn canlyn ychydig o  
honynt:

### HYMN CCLXVII.

PERERINDOD.

*Yr Ail Ran. \**

**M**I welaf stormydd cry',  
Mi welaf foreodd mwy,  
Yn rhuo eu tonau du,  
Nad aethum eto trwy;  
O ffyddlon Ffrynd trafferthus rai,  
O'm poen a'm gwae dwg fi i'r lân.

2 Gan wres y dydd, o braidd  
Na lewygai 'm henaid prudd;  
D'wed, ARGLWYDD, p'le mae 'r praidd  
Yn gorphwys ganol dydd?  
O ffyddlon Ffrynd trafferthus rai,  
O'm poen a'm gwae dwg fi i'r lân.

3 'R anialwch aethum trwy,  
Y drysni draw, a'r drain,  
Na'd imi eu gweled mwy,  
Na'm llithio gan y rhai'n;  
O ffyddlon Ffrynd trafferthus rai,  
O'm poen a'm gwae dwg fi i'r lân.

4 Pan byddo 'r moroedd maith  
Yn rhuo eu tonau draw,  
Yn curo 'm henaid llaith  
I'r dyfnder, maes o law,  
O ffyddlon Ffrynd trafferthus rai,  
O'm poen a'm gwae dwg fi i'r lân.

5 Cudd fi, O ARGLWYDD da,  
O fewn dy fynwes glyd,

\* Gwel y Rhan Gyntaf, Rhif civ.

Fel na'm terfysger mwy  
Gan storm na thwrf y byd;  
O ffyddlon Ffrynd trafferthus rai,  
O'm poen a'm gwae dwg fi i'r lân.

### HYMN CCLXVIII.

*Y Drydedd Ran.*

'**R**WY' i wedi blino byw,  
Disflasais ar y byd;  
Gofidiau o bob rhyw  
Wy 'n gwrddyd ynddo i gyd;  
I'r lan, i'r lan, i'th nefol lys  
Arwain ar frys fy enaid gwan.

2 Pe cawn adenydd cry',  
Dechreuwn ar fy nhaith,  
Trwy 'r awyr deneu fry,  
I dragwyddoldeb maith;  
I'r lan, i'r lan, i'th nefol lys  
Arwain ar frys fy enaid gwan.

3 Mi wela' filoedd myrdd  
Wedi diengu o'u pla,  
Yn cario 'r palmwydd gwyrdd,  
Yn canu 'n beraidd bra';  
I'r lan, i'r lan, i'th nefol lys  
Arwain ar frys fy enaid gwan.

4 'D oes pleser wna fy modd  
O'r De i'r Dwyrain bell,  
Fy nghalon fach a drodd  
At ffryns a gwlad sydd well;  
I'r lan, i'r lan, i'th nefol lys,  
Arwain ar frys fy enaid gwan.

5 Gwyn fyf f'ai gyda hwy  
Mewn tawel nefol nyth,  
Lle nad oes gofid mwy  
Na son am lygredd byth;  
I'r lan, i'r lan, i'th nefol lys,  
Arwain ar frys fy enaid gwan.

### HYMN CCLXIX.

“**D**YWED i mi, pa ddyn a drig  
I'th lys parchedig, AR-  
GLWYDD?  
A phwy a erys ac a fydd  
Yn mynydd dy sancteiddrwydd?”

## ATEB.

- 2 Yr hwn sy 'n credu yn ddi-gryn  
Yn nghadarn Frenin Seion,  
Heb siglo mwy, nac amheu byth  
Mo'i ddilyth addewidion.
- 3 'R hwn yn ddiragrith draetha'r gwir  
O galon gywir union;  
Ac sydd â'i ymdrech yn ddi-goll  
Ar gadw'i holl orch'mynion.
- 4 Yr hwn sy 'n gwel'd ei hun yn sâl,—  
Yn bryfyn gwael annheilwng;  
'N rhyfeddu i Ddŵ, trwy nerth ei  
ras,  
O garchar cas ei ollwng.
- 5 Yr hwn sy 'n caru ei Brynwr pur  
O galon gywir ddwys-lan;  
Ac, er ei fwyn, all ganu 'n iach  
I fywyd bach ei hunan.
- 6 'R hwn 'mad â thnad a mam a thir,  
Er mwyn Efyngyl dirion;  
Ac yn ffeiddio'r byd yn grwn,  
Ni cholli hwn mo'i goron.
- 7 'R hwn sy a'i gymdeithas gyda'r  
Tad,  
A'r Mab rhad,—Prynwr IESU;  
'R hwn sy a'i 'marweddiad yn y nef,  
Gaiff gydag Ef deyrnasu.
- 8 'R hwn bledia dros y weddw a'r  
tlawd,  
Heb ado brawd mewn eisieu;  
I'r rhai sy 'n gorwedd rhydd ei dda,  
Mewn carchar a chystuddiau.
- 9 'R hwn a ffeiddia, megys pla  
Ei bechod a'i anwiredd;  
Wrth'nebo'r diafol, cnawd, a byd,  
A phara hyd y diwedd.
- 10 Aed yn y blaen, y sawl wnel hyn,  
Yn erbyn aneu digllon;  
Nac ofned mwy, ni lithra byth,  
Fe gaiff y ddilyth goron.

## HYMN CCLXX.

Salm lxxxiv. 3. "*Aderyn y tô hefyd a  
gafodd dŵ,*" &c.

P'AM, ARGLWYDD, caiff yr adar  
mân  
I wneud eu trigfan dawel

- O fewn dy dŵ, a minau 'n mhell  
O'th sanctaidd babell araul?
- 2 Ei lety gwnaeth aderyn tô  
Mewn congl o'th gynteddu;  
A'r wenol wirion, hithau ei nyth,  
Yn agos i'th allorau.
- 3 'D oes neb, er hyn, mewn unrhyw  
gôr,  
Mewn awyr, môr, na mynydd,  
All glemio hawl, fel fi 'n ddi-brin  
Yn wastad yn yr ARGLWYDD.
- 4 Y Brenin mawr, Creawdwr cry'  
'R aneirif lu dysgleirlan,  
Sy 'n eiddo im, trwy 'ddewid gref  
A dyngodd Ef ei hunan.
- 5 Fy Mrenin i'm rheoli heb goll,  
A chongro 'm holl elynion;  
Fy Nŵ, i'm dwyn o'r cystudd llym,  
A rhoddi im' y goron.

## HYMN CCLXXI.

*Hapusrwydd y Nefoedd.*

FEL yr ymguddia 'r sêr i gyd  
Pan codo 'r haul i oleuo'r byd,  
Fel hyny gras a rydd ei le  
I bur ogoniant yn y ne'.

- 2 Y mae ein cwpan yma 'n llawn  
O ddyfroedd Marah, chwerwon  
iawn;  
Ond yno ein poen, ein gwae, a'n cur  
A foddur mewn llawenydd pur.
- 3 Ein ffydd, 'r hon yma 'n fynych sy  
Yn gwel'd mor dywyll ac mor ddu,  
Pryd hyny 'n llawen rydd ei lle  
I olwg eglur yn y ne'.
- 4 Ein telyn weithian yma sy  
Yn crogi ar yr helyg fry;  
Ond yno yn ddiiflino 'mhlith  
Y seintiau, cawn ni ganu byth.
- 5 Yma cymylau sydd uwch ben  
Yn cuddio tegwch nefoedd wen;  
Ond y cysgodau tywyll ffy  
Yn gyfan yn y nefoedd fry.

*Canïadau*

Y RHAI SYDD AR

*Y Mor o Wydr, &c.,*

I

FRENIN Y SAINT.

## NODIADAU GAN Y GOLYGYDD.

YN y flwyddyn 1751 cyhoeddwyd “Hosanna i Fab Dafydd: neu Gasgliad o Hymnau o waith William Williams.” Ar yr amlen caid yr hysbysiad a ganlyn:—“Bydded hysbys i bwy bynnac a bryno'r Hymnau yma, fod dwy Ran arall (os caniata Duw) i ganlyn, mor gynted ag yr elo hwn ymaith, o'r un Faintiolaeth, fel y gallo pwy bynnac a'i gwelo yn gymmwys (ond cadw hwn yn lân) gael y tri i'w cyd-rwymo.” Cyflawnwyd y bwriad uchod, a daeth yr Ail Ran allan yn 1753, a'r Drydedd yn 1754.

Cyhoeddodd yr Awdwr hefyd yn 1757—“Rhai Hymnau a Chaniadau Duwiol ar amryw Ystyriaethau.”

Yn y flwyddyn 1762 cyhoeddwyd yr Argraffiad Cyntaf o CANIADAU Y RHAI SYDD AR Y MOR O WYDR, &c., I FRENIN Y SAINT. Yr oedd y Llyfr hwn yn cynwys y tair Rhan uchod o “Hosanna i Fab Dafydd,” gyda chwanegiadau atynt, ac hefyd y “Rhai Hymnau a Chaniadau Duwiol” a gyhoeddwyd yn 1757. Dywed yr Awdwr ar y ddalen olaf o “Atteb Philo-Evangelius i Martha Philopur,” yr hwn a gyhoeddwyd yn 1763, “fod cymaint o alwad am y llyfrau Hymnau diweddar, sef CANIADAU Y RHAI SYDD AR Y MOR O WYDR, ag y gwerthwyd tros ddeuddeg cant ohonynt mewn 'chydig Fisoedd.” I ateb i'r alwad awchus yma, cyhoeddwyd Ail Argraffiad (trydydd a chyfrif yr “Hosanna” yn un) yn 1764. Rhenir y Llyfr yn dair Rhan yn yr Argraffiad yma, fel y canlyn:—I. Hymnau Ysbrydol ar amryw Destynau. II. Hymnau Sacramentaidd. III. Caniadau Moesol ar amryw Fesurau ac Ystyriaethau. Cyhoeddwyd Pedwerydd Argraffiad, gyda rhai chwanegiadau, yn y flwyddyn 1773.

Mae yn amlwg oddiwrth y Rhagymadrodd i'r Ail Argraffiad o'r ALELUIA, fod yr Awdwr wedi clywed cŵyn fod yr Emynau yn y Gwaith hwnw yn datgan cymaint o sicrwydd ffydd a gobaith, a phrofiadau ysbrydol mor ddyrchafedig, fel yr oedd llawer yn y cynulleidfaoedd yn petruso eu canu; ac ymddengys ddarod iddo, er ei hunan-amddiffyniad yn y Rhagymadrodd hwnw, ystyried y gŵyn hono, ac yn y Gwaith hwn geisio cyfarfod y diffyg; oherwydd dywed yn y Rhagymadrodd i'r Argraffiad Cyntaf o'r MOR O WYDR,—“Nid oes yma ond ychydig Hymnau nas gall y gwanaf yn yr eglwys eu canu, am eu bod, naill ai yn y dull o weddi am ryw rai o roddion y Cyfamod Newydd, neu achwyniad am bechod; lle y mae llawer o'r rhai cyntaf yn ffaelw cael eu canu gan rai

oherwydd y llawn sicrwydd ffydd sydd ynddynt am fywyd tragywyddol.” Gwel hefyd “Rhai Penillion ar Ystyriaethau y Llyfr hwn,” y rhai a welir yn canlyn. Dichon hefyd mai y rheswm dros newid y teitl o “Hosanna i Fab Dafydd” i CANIADAU Y RHAI SYDD AR Y MOR O WYDR ydoedd, fod yr Emynau wedi eu cyfaddasu yn gymaint at amgylchiadau a phrofiad y rhai ag oedd eto yn yr ymdrech, ac yn “cael y maes ar y bwystfil,” fel yr oedd yr enw olaf yn well mynegiant o ansawdd y Gwaith nag a fuasai y cyntaf. Y geiriau canlynol, yn ddiau, a awgrymodd deitl y Llyfr:—“Ac mi a welais megys môr o wydr wedi ei gymysgu â thân, a'r rhai oedd yn cael y maes ar y bwystfil, ac ar ei ddelw ef, ac ar ei nod ef, ac ar rifedi ei enw ef, yn sefyll ar y môr gwydr, a thelynau Duw ganddynt. A chanu y maent gân Moses, gwasanaethwr Duw, a chân yr Oen, gan ddywedyd,—Mawr a rhyfedd yw dy weithredoedd, O Arglwydd Dduw Holl-alluog; cyfiawn a chywir yw dy ffyrdd di, Brenin y saint.” Dad. xv. 2—3.

Er fod rhifedi yr Emynau yn yr argraffiad presenol yr un faint ag yn y MOR O WYDR yn Argraffiad 1811, gwelir fod amryw o'r Emynau yn hwn yn cynwys mwy o benillion nag a geir yn hwnw. Yr eglurhad ar hyny yw, ddarod i'r Parch. John Williams, wrth barotoi Emynau ei dad i'r wasg, gwtogi aml un ohonynt trwy adael rhai penillion allan. Mewn canlyniad, nid yw y penillion hyny i'w cael mewn argraffiadau diweddar,—nid ydynt i'w cael, yn wir, ond yn yr hen lyfrau a gyhoeddwyd gan yr Awdwr ei hun. Wrth edrych drostynt, methai y Golygydd presenol a gweled un rheswm dros eu gadael yn nhir anghof; y mae rhai ohonynt, debygid, yn cystadlu yn deg â phenillion yr Awdwr yn gyffredin. Oddigerth pedwar neu bump penill, y rhai y tybid a lyswyd gan Williams ei hun, y maent oll wedi eu hadferu i'w cysylltiadau cyntefig yn yr argraffiad presenol.



RHAI PENILLION AR YSTYRIAETHAU  
Y LLYFR HWN.

NI gan'som am gystuddiau,  
A chongwest gwaed y groes,  
Ac ymladd temtasiynau,  
O'r boreu hyd y nos ;  
Picellau 'r ddraig ac angeu,  
A dyfnder mawr y bedd,  
Hapusrwydd Merch y Brenin,  
O fewn i'r nefol wledd.

2 'R un peth a gan'som yma,  
'R un iechydwrïaeth gu,  
Ond in' gyweirio 'n telyn  
Nes i'r canïadau fry ;  
Ceisiasom ddilyn allwedd  
Eiriolaeth marwol glwy',  
Ac ymfrost wedi 'golli,  
I harddu 'r gân yn fwy.

3 Mae 'r tafod yma 'n profi  
O ddwfr y ffynon fawr,  
Pan byddo gorthymderau  
Yn curo cnawd i lawr ;

Pan b'o euogrwydd pechod  
Yn rhoddi 'n ffydd tan draed,  
Tan grynu, eto 'n nesu  
Mae yma at y gwaed.

4 Fe genir yma gredu  
Ac ofni yr un pryd,  
Am nerth plëserau gweigion,  
A'u ffeiddio eto 'nghyd,  
Am gongcwest ar elynion,  
Ac eilwaith fel maent hwy,  
Yn ddiarwybod ryfedd  
Yn rhoddi i ni glwy'.

5 Os ffaela 'r gwan wrth ganu  
Yr ALELUIA o'r blaen,  
A rhoddi ei sw'n yn eon  
Yn mhlith rhai llawn o dân,  
Fe all y gwana' yma,  
A fo 'n dymuno gras,  
Heb wlithyn ar ei dafod  
I roddi ei sw'n i maes.

Y Mor o Wydr.

HYMN CCLXXII.

Gweddi.

RHO i mi wel'd mai Ti yw 'm  
hedd,  
A llwyr ddifyru ar dy wedd ;  
A chym'ryd d' eiriau gwerthfawr,  
drud  
Yn unig bleser yn y byd.

2 Gad i mi gael dy Ysbryd pur  
Yn Gyfaill yn yr anial dir ;  
Fel byddo dy holl gyfraith lym  
Yn felus ac yn hyfryd im'.

3 'D oes le, mi wela', i ranu 'mryd  
Un amser rhyngot Ti a'r byd ;  
Cariadau ereill aeth yn ddim,  
Dy Hun cai fod yn Briod im'.

4 Pan gwelech fi yn crymu 'mhen  
At ryw wrthddrychau is y nen ;  
O dangos im' na thâl yr un  
I'w garu fyth, ond Ti dy Hun.

5 O côd fi o'r pydewau i'r lan,  
A gwna fi'n gadarn pan b'wy'n wan ;  
A dangos i'r annuwiol ryw,  
Na fedda'i gyfaill ond fy Nuw.

6 Na fydded i'r llifeiriant mawr  
I soddi 'm henaïd gwan i lawr ;  
Ac na chaed cystudd byth fy nhrin  
Heb ei gyfeillach Ef ei Hun.

7 Y 'stormydd ag wy 'n myned trwy,  
Fe'i cas hwy 'Hun yn llawer mwy ;  
Er gwaned wyf, ond yn ei rym,  
Pe baent yn fwy, nid ofnaf ddim.

HYMN CCLXXIII.

Gweddi mewn Cystudd.

TAN y don yr wyf yn llefain,  
Mae mynyddau ar fy mhen,  
Haen ar haen sydd o gymylau  
Duon rhyngof fi a'r nen ;  
Ni fydd rhan o'm cnawd na' m hys-  
bryd,  
Tra f'wy' yma, fyth yn iach ;  
Tyred, ARGWLWYDD, a datguddia  
Dy hunan i mi ronyn bach.

2 Codi 'm llygaid 'r wyf i fyny,  
Edrych beunydd tua 'r nef,  
Felly 'r wyf yn treulio 'r orïau,  
Dim ond dysgwyl wrtho Ef ;  
Dagrau ac och'neidiau trymion,  
Yw fy mywyd yn y byd,  
Dim dibenu ar ruddfanau,  
Oni chaf wel'd dy wyneb-pryd.

3 Mae fy nghalon wedi gwywo,  
Fel y ddae'r mewn sychder mawr,  
Pan na byddo cafod hyfryd  
Yn diferu arni 'lawr ;  
Mae 'm meddyddiau i gyd mewn  
terfysg,  
Ac yn ddyrus iawn yn gwau,  
Nid oes diben ar fy nghystudd,  
Ond yn unig dy fywnhau.

4 Ffynon wyt o bob tosturi,  
Nid oes gwybod faint dy ras,  
Dy haelioni sydd yn cynal,  
Pob-peth dan yr awyr las ;  
Dal fy ysbryd gwan i fyny,  
Edrych ar y brynïau mawr,  
Sydd yn pwyso ar fy nghalon,  
Ac yn ceisio 'm doddi 'lawr.

5 Edrych ar y pair 'r wy' ynddo,  
N'ad i'r fflamau mawr eu grym,  
Sydd o'm cych yn awr yn llosgi  
Wneuthur drwg tragwyddol im' ;  
C'wilydd, gwarth, a chroesau trym-  
ion,  
Sydd yn curo arnai 'n un,  
Ac nid oes a'm dal i fyfny  
Ond dy Ysbyrd Di dy Hun.

## HYMN CCLXXXIV.

Duw a *Digon*.

O AM nerth i dreulio'm dyddiau  
Yn nghynteddau tŷ fy Nhad ;  
Byw yn nghanol y goleuni,  
Tywyllwch obry tan fy nhraed ;  
Byw heb fachlud haul un amser,  
Byw heb gwmwl, byw heb boen,  
Byw ar gariad anorchfygol,  
Pur, y croeshoeliedig Oen.

2 Dyro olwg ar dy haeddiant,  
Golwg ar dy deyrnas rad,  
Brynwyd i mi ac a seliwyd,  
Seliwyd i mi â dy waed :  
Rho im' gyrchu tuag ati,  
Peidio fyth a llwfrhau,  
Ar fy nhaith, ni cheisiaf genyt,  
Ond yn unig dy fwynhau.

Ac ni cheisia'i drysor arall,  
Ond Tydi tr'wy' yn y byd ;  
'R wyt Ti'n ddigon byth dy Hunan,  
Dim ond Ti a lanw 'm bryd ;  
Nid oes cystudd fyth wna niwed,  
Pan b'wy'n pwysu ar dy rym ;  
Hebot, nid oes rhwyd gan Satan,  
Na wna 'n rhyw-fodd niwed im'.

Gyda Thi mi âf trwy 'r fyddin,  
Gyda Thi mi âf trwy 'r tân ;  
Nid ofnaf ymchwydd yr Iorddonen,  
Ond i Ti fyn'd o fy mlaen ;  
Ti yw 'm hamddiffynfa gadarn,  
Ti yw 'Mrenin a fy Nhad ;  
Ti dy Hunan oll yn unig,  
Yw fy iechydriaeth rad

## HYMN CCLXXXV.

*Grudfan mewn Tywyllwch.*

GWLAD o dywyllwch wyf yn  
trigo,  
Aipht yw 'r man lle 'r wyf yn  
byw,  
Y mae tywyllwch wedi 'm d'rysu,  
Tywyllwch anorchfygol yw :  
Cyfod, Haul Cyfiawnder goleu,  
'N awr llewyrcha yn dy nerth,  
Danfon feddyginiaeth rasol,  
Dros y creigydd mawrion serth.

2 N' âd i bechod fy nghongcwero,  
Iesu, n' âd e felly 'nhrin ;  
Y mae elfen yn fy ysbyrd,  
Sydd â'th gyfraith Di yn un ;  
Hoff yw d' eiriau, môr sydd yn-  
ddynt,  
Buan doed yr amser bydd,  
Ar fy nwydau afreolus,  
Iddynt hollol gario 'r dydd.

3 D'wed pa bryd cai yfed dyfroedd,  
Dyfroedd gloew sy 'n iachau,  
Pob rhyw bleser wedi darfod,  
Ond yn unig dy fwynhau :  
Pwysu 'm henaid ar dy fynwes,  
Edrych yn dy wyneb llon,  
Caru nes anghofio 'r oriau  
Sy i mi ar y ddaear hon.

4 Dyddiau byrion sydd fel blwyddyn,  
Rhyfedd faithder hyd yr oes,  
Os amddifad o'th gwmpeini  
Fydd fy enaid ddydd a nos :  
Rho i mi deimlo grym dy gariad,  
Cariad wna na ofnwy'i mwy  
'R holl fwystfildol rheibus, creulon,  
Sydd yn bygwth i mi glwy'.

5 Pa'm mae 'm llygaid gwag yn sylwi  
Ar un tegan sy 'n y byd ?  
Nid oes yn nherfynau natur  
Ddim sy ddigon 'lanw 'mryd :  
'Gwela'i 'r beddrod wrth fy ochor,  
Yn agor arna'i safn fawr,  
A'm hadeilad yn dadfeilio,  
Bron a syrthio iddo 'lawr.

6 Eto, gwell nid wyf un gronyn,  
Bywyd, bedd, nac angeu du,  
Ni dd'od argraff pur dy natur  
Mewn un modd ar f' enaid i :

Gwel'd dy wyneb, byw 'n dy  
gwmni,  
Teimlo 'th anorchfygol ras,  
Ar fy meiau mawr yn unig  
All yn gyfan gario 'r maes.

## HYMN CCLXXXVI.

*Pob peth er Daioni.*

TYRED, ARGWLWYDD, tyr'd yn  
fuan,  
Dim ni 'm boddia tan y ne',  
Dim ond Ti a ddeil fy ysbyrd  
Gwan, lluddedig yn ei le ;  
Neb ond Ti a god fy enaid  
Llesg o'r pydew du i'r lan ;  
Os Tydi sy 'n gwneud im' ochain,  
Ti 'm gwna'i 'n llawen yn y man.

2 Hwyl fy enaid sy wrth dy ewyllys,  
Fel y mynot mae yn bod,  
Oll o mewn, ac oll oddi allan,  
Ddygwedd i mi 's y rhod :  
'N awr Ti'm codi i'r lan i'r nefoedd,  
Eilwaith Ti 'm gostyngi 'lawr ;  
Mae dy gerydd a dy gariad,  
Im' yr un rhyfeddod mawr.

3 Tyr'd, rho gerydd im' neu gariad,  
Yr un a fynech Ti dy Hun,  
Ond trwy 'r cwbl cadw fy ysbyrd  
Yn sefydlog wrth dy glun :  
Tros y bryniau gwna i mi gerdded  
Tuag adre 'n ddi-nacad,  
Heb yn un-llle i mi edrych  
Ond ar degwch tŷ fy Nhad.

## HYMN CCLXXXVII.

*Gwedd i am Bresenoldeb Duw.*

PA'M y caiff bwystfildol rheibus  
Dori 'r egin mân i lawr ?  
Pa'm caiff blodau peraidd ieuainge  
Fethu gan y sychder mawr ?  
Dere â'r cafodydd hyfryd,  
Sy 'n cynyddu 'r egin grawn,  
Cafod hyfryd yn y boreu,  
Ac un arall y prydawn.

2 Gosod babell yn ngwlad Gosen,  
Dere, ARGWLWYDD, yno dy Hun,  
Gostwng o'r uchelder goleu,  
Gwna dy drifan gyda dyn ;  
Trig yn Seion, aros yno  
Lle mae 'r llwythau 'n d'od yn  
nghyd,  
Byth na 'mâd oddiwrth dy bobl,  
Nes yn ulw yr elo 'r byd.

3 Blinai ar afonydd Babel,  
Nid oes yno ond wylo i gyd,  
Llais telynau hyfryd Seion  
Sydd yn gyson dynu 'mryd :  
Tyr'd â ni yn dorff gariadus  
O gaethiwed Babel fawr,  
Ac nes b'om ar fynydd Seion  
N'ad ni osod clin i lawr.

4 Dacw 'r Brenin yn ei degwch,  
Wele ei Briod wrth ei glun,  
Gwedd ei wyneb sy 'n rhagori  
'Mhell ar wedd wynebpryd dyn ;  
Dyma ddydd, dydd ei ddywedd,  
Dyma 'r briodasol wledd,  
Dyma 'r dydd caiff pererinion  
Yfed o'i dragwyddol hedd.

## HYMN CCLXXXVIII.

*Duw yn Angeu yn Ddigon.*

O IACHAWDWR pechaduriaid,  
Sydd â'r gallu yn dy law,  
Rho oleuni, hwyliâ 'm henaid  
Tros y cefnfor garw draw ;  
Gad i'r wawr fod o fy wyneb,  
Rho fy enaid llesg yn rhydd,  
Nes i'r haulwen ddysglaer godi,  
Tywys fi wrth y seren ddydd.

2 A oes neb o'm holl gyfeillion  
A ddaw 'n ddiiddig gyda mi,  
Ac a orwedd wrth fy ochr  
Obry yn y ddaear ddu ?  
A yw cyfaill ddim ond hyny,—  
Tafu dagrau, newid gwedd,  
Pan bo 'r pridd, a'r clai, a'r ceryg  
Arnai 'n cwmpo yn y bedd ?

3 O ynfyrwydd ! O ffolineb !  
I mi erioed i roddi 'mryd  
Ar un tegan, ar un pleser,  
Welais i eto yn y byd ;

Y mae 'r byd yn myned heibio  
A'i deganau o bob rhyw,  
Tan y nef ni thâl ei garu  
Wrthddrych arall ond fy Nuw.

## HYMN CCLXXXIX.

*Dydd y Farn.*

WELE 'n dyfod ar y cwmwl,  
Mawr yw 'r enw sy iddo 'n  
awr,

Ar ei fraich ac ar ei forddwyd  
Ysgrifenyd ef i lawr ;  
Haleluia, Haleluia,  
Groeso, groeso, addfwyn Oen.

2 Mil o filoedd, myrdd myrddiynau  
O gwmpeini hardd eu gwedd,  
Welai draw yn codi fyny  
I'w gyfarfod Ef o'r bedd ;  
Darfu galar, darfu galar,  
Dyma iechydwrïaeth lawn.

3 Dacw 'r Brenin mawr ei Hunan  
Yn adnabod bob yr un,  
Dacw bawb yn tynu fyny  
Yn union ato Ef ei Hun ;  
Cariad perffaith, cariad perffaith,  
Bellach cai deyrnasu byth.

4 Nid oes yno gofio beiau,  
Dim ond llawn faddeuant rhad,  
Poenu 'r groes, a grym y cariad,  
A rhinweddau maith y gwaed :  
Darfu ofn, darfu ofn,  
Daeth llawenydd yn ei le.

5 Dewch yn mlaen, a dewch yn eon,  
Fendigedig blant fy Nhad,  
Dewch, meddianwch yr ardaloedd  
Brynwyd i chwi â fy ngwaed ;  
Dewch yn llawen, dewch yn llawen,  
Rhodd yw hon cyn selio 'r byd.

6 Dewch, derbyniwch yma goron  
Bur annifanedig wiw,  
Dim yn unig ond o gariad  
Roddwyd i chwi gan eich Duw ;  
Tragwyddoldeb, tragwyddoldeb,  
Cy'd a hyny perych braint.

7 Buoch gyda mi 'n fy ngofid,  
Cyda mi 'n fy mhoenau 'gyd,  
Buoch yn gyfeillion ffyddlon  
I'm gw'radwyddiad yn y byd ;  
Yfwch bellach, yfwch bellach,  
Loew win yn nhŷ fy Nhad.

## HYMN CCLXXX.

*Gweddï am Nerth i fyned trwy Anialwch y Byd.*

ARGLWYDD, arwain trwy 'r  
anialwch  
Fi bererin gwael ei wedd,  
Nad oes ynof nerth na bywyd,  
Fel yn gorwedd yn y bedd ;  
Hollalluog, &c.,  
Ydyw 'r Un a'm cwyd i'r lan.

2 Mÿfi grwydrais hir flynyddau,  
Ac heb weled codi 'r wawr,  
Anobeithiais heb dy allu  
Dd'od o'r anial dir yn awr ;  
Dere dy Hunan, &c.,  
Dyna 'r pryd y dof i maes.

3 Rho 'r golofn dân y nos i'm har-  
wain,  
A rho 'r golofn niwl y dydd,  
Dal fi pan b'wy 'n teithio 'r manau  
Geirwon yn fy ffordd y sydd ;  
Rho i mi fanna, &c.,  
Fel na b'wyf i lwfrhau.

4 Agor y ffynonau melus  
Sydd yn tarddu o'r graig i maes ;  
'R hyd yr anial mawr canlyned  
Afon iechydwrïaeth gras ;  
Rho i mi hyny, &c.,  
Dim i mi ond dy fwynhau.

5 Pan b'wy 'n myned trwy 'r Ior-  
ddonen,  
Angeu creulon yn ei rym,  
Ti est trwyddi gynt dy Hunan,  
P'am yr ofnaf bellach ddim ?  
Buddugoliaeth, &c.,  
Gwna i mi waeddi yn y llif.

6 Mi ymddiriedaf yn dy allu,  
Mawr yw 'r gwaith a wnest  
erioed,

Ti ge'st angeu, ti ge'st uffern,  
Ti ge'st Satan tan dy droed ;  
Pen Calfaria, &c.,  
Nac aed hwnw byth o'm côf.

## HYMN CCLXXXI.

*Tragwyddoldeb.*

DYMA 'r byd y mae taranau,  
Mellt a chenllysg, daear-  
gryn ;  
Yn y wlad 'r wy 'n myned iddi  
Nis cai weled yno 'r un ;  
Mynych ceir cystuddiau yma,  
Rhogluniaethau chwerwon iawn,  
Ton ar ol y llall yn rhuo  
O foreuddydd hyd brydnawn.

2 Dysgwyl pethau gwych i ddyfod,  
Croes i hyny maent yn d'od,  
Meddwl 'fory daw gorfoledd,  
'Fory 'r tristwch mwya' erioed ;  
Meddwl byw, ac eto marw,  
Yw 'r lleferydd tan fy mron,  
Bob yn ronyn mi ro'f ffarwel,  
Ffarwel glân i'r ddaear hon.

3 Trof fy llygaid gylch o gwmpas,  
B'le cai bleser tan yr haul ?  
Os âi garu un creadur,  
Megys pe na b'ai o'i ail,  
Hwnw yn fuan ddiangc arnaf,  
Neu myfinau arno ef,  
Ni chai bleser 'gyd-ymgerddo  
A fi yn un-lle tan y nef.

4 Tragwyddoldeb mawr yw d' enw,  
Ti mae 'n debyg yw fy lle,  
Huriwr un diwrnod ydwyf,  
Fry mae 'm cartref yn y ne' ;  
Mae 'm diwrnod bron a gorphen,  
Mae fy haul bron myn'd i lawr,  
Mae pob awel yn fy chwythu  
Tua 'r tragwyddoldeb mawr.

5 'R wyf yn foddlon iawn i 'mado,  
Trefna 'r awr, a threfna 'r man ;  
Ond yn ymchwyyd yr Iorrdonen,  
Dal fy ysbryd llesg i'r lan ;

N'ad fi soddi tan y tonau,  
Pan bo angeu yn fawr ei rym,  
'Mafael ynof yn dy freichiau,  
N'ad i'm henaid ofni dim.

6 P'am ymafael tristwch ynof  
Wrth fyfyrïo 'mado â'r byd ?  
Pechod a chystuddiau duon  
Welais ynddo oll i gyd ;  
Ni ddaeth haner fy nysgwyliad  
Yma eto erioed i ben,  
O na wnaethwn yn foreuach  
Fy nghartrefle uwch y nen !

7 Mae 'nghyfeillion wedi myned  
Draw yn lluoedd o fy mlaen,  
Rhai fu 'n myn'd trwy ddyffryn  
Bacca,  
Gyda mi i Salem lân ;  
Yn y dyffryn tywyll, garw,  
Ffydd i'r lan a'u daliodd hwy,  
Mae 'r addewid lawn i minau,  
P'am yr ofna 'm henaid mwy ?

## HYMN CCLXXXII.

Wedi ei chymeryd allan o'r Salm xlii.

DUW yw fy nerth a'm noddfa  
lawn,  
Mewn cyfyngderau creulon iawn,  
Pan galwom arno mae gerllaw ;  
Ped âi 'r mynyddoedd mwya' i'r  
môr,  
Pe chwalai 'r ddaear fawr a'i stor,  
Ni ofna 'm henaid i ddim braw.

2 A phed âi 'r moroedd tros y byd,  
Yn genllif garw coch i gyd,  
Nes soddi'r brynïau fel o'r blaen ;  
Mae afon bur i lawenhau  
A'i ffrydiau, ddimas Duw 'n ddi-  
drai,  
Preswylfa ei saint, a'i babel lân.

3 A Duw sydd yno yn eu plith,  
Ni 'sgogir un o honynt byth,  
Fe 'u cymhorth hwy 'yn foreu  
iawn ;  
Y boreu byddo mwy na mwy  
O bob gwasgfeun arnynt hwy,  
Ceir gwel'd ei 'ddewid Ef yn  
llawn.



- 4 Terfysgodd cenhedlaethau 'r byd,  
A breniniaethau aeth yn llid,  
Yn erbyn ei Eneiniog Ef ;  
Ing, cyfyng-gynghor, llewygfau,  
Ac arswyd ddaeth ar gedyrn rai,  
Y ddaear doddodd gan ei lef.
- 5 ARGLWYDD y lluoedd sydd o'n plaid,  
Duw Iago'n gymhorth in' wrth raid,  
Gobeithiwn ynddo byth am hyn ;  
Dewch, 'drychwrch ar ei ryfedd  
waith,  
Fath ddystryw wnaeth trwy 'r  
ddaear faith,  
Mae 'n siwr bydd yn amddiffyn  
in' :
- 6 Fe wnaeth ryfeloedd mawr eu llid  
I beidio hyd eithafoedd byd ;  
Y cedyrn mawr ddychryna o'i  
flaen ;  
Fe ddryllia 'r bwa dur yn glau,  
Fe dyr y waewffon yn ddaau,  
Fe lysg eu holl gerbydau â than.
- 3 Ond fy mhrofiad sydd yn tystio,  
Er nad ydwyf fi ond gwan,

Fod rhaid i mi eto ddringo  
'R unrhyw greigydd serth i'r lan ;  
Gorphwys gronyn bach, a chanu,  
Yn rhydd o'm cystudd oll i gyd,  
Yn y man och'neidio a gruddfan  
Fydd fy nghyflwr t'rwy 'n y byd.

- 4 'D oes ond cariad a gongcwera  
Oll sydd ynwyf 'n awr yn ddrwg,  
Dy wên yn unig wna im' ganu,  
Tori 'nghalon wna dy wg ;  
Fy nghof, fy neall, a'm synwryau,  
Sydd yn mron llewygu i gyd ;  
Ac yn ffaelw cadw eu trefn,  
Eisieu gwel'd dy wynebpryd.
- 5 O dyrchafa 'm henaid egwan !  
Y mae bellach yn hwyrhau,  
Hir yw 'r amser i och'neidio,  
Gwna fi o'r diwedd lawenhau :  
Moroedd mawr a bryniau lawer,  
Pellder annyoddefol sy,  
Ac anialwch maith digymar,  
Rhyngwyf â'm Hanwylyd cu.

- 6 Poen fy nghalon yw o gariad,  
Estron nid yw 'n deall dim,  
Gair fy Mhriod laesa 'mhoenau,  
Ei eiriau sy 'n effeithiol im' ;  
Lladd yn ddystaw mae ei gariad,  
Heb gael gwel'd ei nefol wledd,  
Mae eiddigedd yn ei gwmmi,  
Sydd yn greulon fel y bedd.

- 7 O na b'ai rhyw ddyfais hyfryd,  
Tan yr wybr las i gyd,  
Allai gadw 'm henaid egwan  
Yn dy gwmmi Di o hyd ;  
Byth ni phrisiwn, doed a ddelo,  
Beth ddygwyrddo is y nen,  
Ar dy fynwes deg berffeithlan,  
Byth y pwyswn i fy mhen.

- 8 O foreuddydd y briodas !  
Gwynfyd welai'r ddedwydd awr ;  
Gwel'd wynebpryd y Priodfab,  
Clywed llais y delyn fawr ;  
Awn tan ganu tros y moroedd  
Meithion tua 'r hyfryd wlad,  
Ac anghofiwn hen gariadau,  
Gwag bleserau t'f y nhad.

## HYMN CCLXXXIII.

*Ochenaid.*

Y MAE gwres o fewn fy mynwes,  
Y mae cystudd tan fy mron,  
Ac nid oes a'm d'od yn llawen  
Gylch oddeutu 'r ddaear hon ;  
Rhaid i mi fod yn dy gwmmi,  
Rhaid i mi gael gwel'd dy wedd,  
Ynte ni wna'i fyth ond nychu,  
Tra f'wy 'r ochr yma i'r bedd.

2 Mae pob tristwch gyda 'u gilydd,  
Pob cystuddiau yn gyntun,  
Heb ystryed waned ydwyf,  
Oll yn curo arna'i 'n un ;  
Teithio i'r lan yn erbyn tylau,  
Meddwl hefyd ar bob bryn,  
Nad rhaid cerdded cyn im' orphwys,  
Bellach byth o'r llwybr hyn.

## HYMN CCLXXXIV.

*Ymddatod oddiwyth y Creaduriaid.*

A RAID i groesau fyth yn llyn  
I ganlyn f' enaid bant a bryn ?  
Rhyw beth bob awr i'm gwneud  
yn brudd ;  
Rhyw beth i soddi 'm henaid gwan,  
Yn union pan bo 'n codi i'r lan,  
Trwy gydol faith y nos a'r dydd ?

2 Mae 'n debyg nad oes nef i'w gael,  
Mewn un rhyw fath greadur gwael,  
Na man o'r byd i wneud fy nyth ;  
Y cyflwr b'wyf am ei fwynhau,  
Yn dawel heb gystuddiau a gwae,  
'D oes llonydd i mi yno fyth.

3 Os ydwyf am fy nhori 'lawr,  
O dwrf a dwndwr daear fawr,  
A'm rhoddi i orwedd yn y bedd,  
O danfon waedd ar foreu ddydd,  
O'm rhwymau mawr i'm rhoddi 'n  
rhydd,  
I fyw byth bellach yn dy hedd.

4 Mae brodyr i mi aeth yn mlaen,  
Trwy ddyfnach dw'r a phoethach  
tân,  
Ac eto gorchfygasant hwy :  
'D wy 'r dyfroedd aethum trwy-  
ddynt ddim,  
Mewn lled a dyfnder, nerth a grym,  
Paham yr ofnaf inau mwy ?

5 Fy enaid cred byth yn dy DDUW,  
Na fydd anfoddlon tra f'ech byw,  
Yr ydwyf beunydd yn nesau  
I wlad mae cariad fel y môr,  
Yn uno 'r saint â'r seraph gôr,  
Tragwyddol gydsain burddi-drai.

6 'D wy' 'nabod dim o'r nefol le,  
Ond gwynfyd a f'ai ynddo fe,  
'R wy 'n caru pawb o fewn y  
wlad ;  
Y dymher nefol fwyn sydd fry,  
Yn awr ddymunwn genyf fi,  
Fy nghatref ydyw t'f y Nhad.

7 'R wy'n awr bron ar derfynau'r wlad  
Nad yw teganau cig a gwaed  
A gallu i demtio 'm llygaid mwy :  
Mae gwedd y rhai yr âf i'w plith,  
Fel haul, yn ogoneddus byth,  
Ond arall yw eu cariad hwy.

## HYMN CCLXXXV.

*Duw ei hun yn Angeu.*

MAE 'R anialwch wedi 'm blino,  
Chwant sydd arnaf wel'd y  
tir

Roddwyd i mi gan fy ARGLWYDD  
Cadarn mewn addewid wir ;  
Gwlad o oleuni heb dywyllwch,  
Gwlad o gariad heb ddim trai,  
Gwlad heb hawddfyd na phleserau  
Ond yn unig ei fwynhau.

2 P'odd yr âf fi trwy 'r Iorddonen,  
Oni ddeui Di dy Hun  
Yno i dori grym y tonau,  
Ac i sefyll wrth fy nghlun ?  
Dal fy mhen i'r lan yn gadarn,  
Pan bo angeu yn fawr ei rym,  
Pledia yn êon yn ei wyneb,  
Pan na b'wyf yn gallu dim.

3 N'ad fy mhechod i'm congwero  
Tra f'wyf ar y ddaer yn byw,  
N'ad rwystro i'm 'gymdeithasu  
Yn fynych fynych â fy Nuw :  
N'ad ei fod yn awr marwolaeth  
Megys mynydd mawr o blwm,  
Pan b'wyf am ddihengu i fyny,  
I fy ngwasgu lawr yn drwm.

4 'R un yw 'm Meichiau a fy Mhryn-  
wr,  
A fy Mrenin, a fy Nuw,  
Od oes neb a'm gwna yn ddedwydd,  
Efe ei hun yn unig yw :  
Nid yw 'r holl greaduriaid isod,  
O ba enwau maent i gyd,  
Yn abl rhoddi dim esmwythder,  
Pe baent yn cytuno 'nghyd.

5 Dacw 'r un sydd â thosturi,  
Fe fu yn hongian ar y groes,  
Fe fu 'n gruddfan tan dywyllwch—  
Tywyllwch dudew fel y nos ;  
Mil o boenau wasgodd arno,  
Eto darfu iddo eu dwyn,  
Aeth i garchar gan yr angeu  
Ran o dridiau, er fy mwyn.

6 On' chaf fywyd ynddo ei hunan  
Darfu im' obeithio mwy ;  
Nid oes dim ond gwaed ei galon  
All yn unig wella nghlwy' :

Mawr yw 'm poen heb gael ei gwmi,  
Mwy dymunol yw na'r byd,  
Rhosyn Saron yw f' Anwylyd,  
'D oes ond tegwch ynddo i gyd.

## HYMN CCLXXXVI.

CRIST, *Craig yr Oesoedd.*

**M**I deithiais ran o'r anial maith,  
'D wy 'n deall pellder pen fy nhaith,

Mewn gwledydd sychion, dw'r nid oedd ;

Yn awr 'r wy 'n dysgwyl foreu a nawn,

O'r nefoedd ddw'r a sypiau grawn,  
Wna 'm henaidd egwan wrth ei fodd.

2 O'r graig y mae 'n dylifo 'maes,  
Yn afon ddysglaer, loew, las,  
Sef Craig yr Oesoedd gadarn yw ;  
A thyma 'r man y gwnaf fy lle,  
Tan gysgod tawel furiau 'r ne',  
Lle caf ddyddanwch tra f'wy' byw.

3 'R wy 'n cofio gair fy IESU mawr  
Y doi 'r Dyddanydd ata'i lawr,  
Na chawn i farw o dristwch mwy ;  
O DDUW, cyflawna 'th air i ben,  
Rho im' arweinydd is y nen,  
Ddangoso 'r ffordd, iachao' nghlwy'.

4 Mae im' elynion o bob gradd,  
A'r lleia 'n abl sydd i'm lladd,  
'R wy 'n ofni 'r gelyn fo heb rym ;  
Cryfha fy ffydd i edrych fry,  
I wel'd y lluoedd sydd o'm tu,  
Ac nad yw fy ngelynion ddim.

5 A raid i gystudd garw 'r groes  
I ganlyn fy ysbyrd ddydd a nos ?  
Os rhaid, gwna fi yn foddlon iawn ;  
Tan ganu gwna fi fyn'd yn mlaen,  
Sef canu yn y dw'r a'r tân,  
O foreu mywyd hyd brydnawn.

6 'R wy 'n blino gan fy chwantau blin,  
Gorthrymwr oll i'm henaidd yn',  
'R wy 'n dysgwyl cyfan wir ryddhad ;  
A raid myn'd dros y cefnfor mawr,  
Cynddeiriog donau angeu i lawr,  
Cyn gweled hyfryd dŷ fy Nhad ?

7 Yn ymchwydd yr Iorddonen gref,  
Dal, f' enaid, atael ynddo Ef,  
Mae 'r tonau 'n fawrion iawn eu grym ;  
Mi â trwyddynt er nad wyf ond gwan,  
Os cedwi di fy mhen i' lan,  
Fydd tonau mawrion i mi ddim.

## HYMN CCLXXXVII.

*Eiddigedd.*

**G**WRANDO 'nghwyn, Dywysog heddwch,  
Mae eiddigedd ynwy 'n llawn ;  
Ofni nad wyt yn fy ngharu—  
'Ngharu yn ffyddlon ac yn iawn ;  
Nid oes unrhyw feddyginiaeth  
Rhagddo bellach, all iachau,  
Ond cael gweled gwedd dy wyneb,  
A chael hefyd dy fwynhau.

2 Pan y bost yn cuddio d' wyneb,  
Y mae ofnau o bob gradd,  
O tu mewn ac o tu allan,  
Gyda eu gilydd bron fy lladd ;  
Gwasgu ar fy enaid gwirion,  
Ffaelu symud troed o'r man ;  
Diau derfydd byth am danaf  
Oni chodi Di fi i'r lan.

3 Mae rhyw foroedd o drugaredd,  
ARGLWYDD, ynôd Ti dy Hun,  
Annherfynol a thragyddol  
Yw dy gariad at y dyn ;  
Mewn cyfyngder buost ffyddlon,  
Yno rhoist dy nerth i maes,  
Yn y dyfnder mawr 'r wyf finau  
'N awr yn llefain am dy ras.

4 Wrth y beddrod 'r wyf yn gwaeddi,  
Mae 'n agored i mi yn awr,  
Nid oes im' ond rhai mynydau  
Cyn rhaid gorwedd yno 'lawr :  
Nid oes arnaf ofn angeu,  
Os Ti sefi wrth fy nghlun ;  
Fe fu 'r bedd a'i ddychryniadau  
Gynt yn wely i Ti dy Hun.

5 Derfydd i mi garu ac ofni  
Dim o'r nefoedd fawr i'r byd,  
Pan y caffwy 'r olwg gyntaf,  
Deced yw dy wynebpryd ;

Gwedd dy wyneb sy 'n dwyn bywyd,  
Gwedd dy wyneb sy 'n dwyn heddi,  
Gwedd dy wyneb ydyw 'r cwbl  
Yma a thu draw i'r bedd.

## HYMN CCLXXXVIII.

*Grym Cariad.*

**M**AE fy nghalon am ehedeg  
Unwaith eto fyfry,  
I gael profi 'r hen gymdeithas  
Gynt fu rhyngwyf â Thydi ;  
Mi a grwydrais anial garw  
Heb un gradd o oleu 'r dydd ;  
Un wreichionen o dy gariad  
Wna fy rhwymau oll yn rhydd.

2 Ni raid i mi guddio 'th gariad,  
Fel cariadau gwag y byd,  
Mi gyhoedda o flaen y werin  
Dy fod wedi dwyn fy mryd ;  
Mae dy enw mawr mor werthfawr,  
Ni chywilyddia' o hono mwy,  
Mae dy gariad pur mor gryfed,  
Anorchfygol yw ei glwy'.

3 Pe b'ai holl gystuddiau mwyaf  
Yn wasgu ar fy enaid gwan,  
A'r gelynion oll yn rhwystro  
'R nefol dân i godi i'r lan,  
Pan ddechreuo, nid oes terfyn,  
Cadarn natur cariad yw,  
Sydd yn dystaw fyn'd a'r enaid,  
O hono ei hun i fynwes Duw.

4 Mae fy nghalon yn 'sgrifenu,  
Ac yn adrodd wrthi ei hun,  
Enw hyfryd a rhinweddol  
Duw yn gwisgo natur dyn ;  
Iechydwrriaeth, iechydwrriaeth,  
Iechydwrriaeth werthfawr iawn,  
Ydyw enw fy Ngwaredwr,  
Genyf foreu a phrydnawn.

## HYMN CCLXXXIX.

*Cyflawnder a Nerth.*

**O**FER iawn mae 'r nef ei hunan  
Yn fy ngheisio i oll i gyd,  
Tra fo haner lawn fy nghalon  
Mewn rhyw eilun sy 'n y byd ;

Natur wrthryfelgar, gyndyn,  
Yn fy nal i yma yn dŷn,  
Tra fo 'm henaidd gwan am hedeg  
Fyny 'n llwyr i Seion fryn.

2 Ni all ympryd trist a gweddi  
Fyn'd yn lân â mi i'r lan,  
Nac un cylch o ddyledswyddau  
'Nghodi ronyn bach o'r man ;  
Grym y llygredd sy 'n fy nghalon  
Cryf ac anorchfygol yw,  
Nid oes fythoedd a'i gorchfyga  
Ond yn unig nerth fy Nuw.

3 Pe b'ai bosibl i mi dreulio  
'R graig wrth roi fy ngliniau lawr,  
Gwneud afonydd o fy nagrau,  
Llanw hefyd foroedd mawr :  
Rhanu trysor y mynyddau  
Rhwng y tlodion yn mhob man,  
Anhaeddianol eilwaith fyddwn  
Fyth o gael fy nghodi i'r lan.

4 Rhed fy enaid i'w gyfeillach,  
Cynta' man y caffech E ;  
Trist yw 'm hysbryd wrth ymofyn  
Un creadur yn ei le ;  
Blino edrych gylch o gwmpas,  
Nid oes meddyg ar y don,  
'N unig ond Tydi dy hunan  
Wella 'r archoll dan fy mron.

5 Llawn a llawen, iach a diddig,  
Wyf pan b'wyf yn teimlo 'th heddi ;  
Ond meddylgar iawn ac athrist  
Pan b'wy'n ffaelu gwel'd dy weddi ;  
'R wy 'n diflasu ar y cwbl  
Pan na welwy' i 'th wyneb cu,  
Ond, mae 'm bywyd im' yn nefoedd  
Pan bwy 'n agos atat Ti.

## HYMN CCXC.

*Golwg ar y Wlad.*

**D**YN dyeithr ydywif yma,  
Draw mae 'm genedigol wlad,  
Draw i'r moroedd mawr tymhestlog,  
Ac o fewn i'r Ganaan rad ;  
Stormydd hir o demtasiynau  
'Nghurodd i yn llyn mor bell ;  
Tyred ddeheu-wynt pereiddiaf,  
Chwyth fi i'r Baradwys well.

2 Ac er gwaethaf grym y tonau  
Sydd yn curo o bob tu,  
Dof trwy 'r storom, dof trwy 'r  
gwyntoedd,  
Rywbryd i'r Baradwys fry;  
Gair fy Nuw sy 'n drech na 'r mor-  
oedd,  
Gair fy Nuw sy 'n drech na'r don,  
Ac mi anturiaf oll a feddwyf  
Fythoedd i'r addewid hon.

3 Ac ni fydda' i 'n hir cyn gorphen,—  
Ddim yn hir cyn landio fry;  
Pob gorchymyn, pob bygythiad,  
Pob addewid sydd o'm tu;  
Nid y dyfnder fydd fy nhrigfan,  
Gwn y deuaſ yn y man,  
'Nol fy ngolchi yn y tonau,  
Yn ddiangol iawn i'r lan.

4 'R wyf fi 'n dechreu teimlo eisoes  
Beraroglau 'r gwledydd draw,  
Cyda 'r awel bur yn hedeg,  
Diau fod y wlad gerllaw:  
Dere 'r tir dymunol hyfryd,  
Dere 'r ardal sy heb drai,  
Dy bleserau o bob rhywiau  
Gad im' bellach eu mwynhau.

## HYMN CCXCI.

*Duw ei hun yn ddigon.*

'NAWR boddlon wyf, can's digon  
yw,  
Dy fod yn eiddo i mi fy Nuw:  
Yn t'wynu yn dy wyneb-pryd  
Mae mwy na holl drysorau 'r byd.

2 Cymerant hwy, sawl fo am gael  
Mwynhau o'i holl drysorau gwael;  
Ond boed fy awydd tra f'wyf byw  
Am wel'd dy wyneb Di, fy Nuw.

3 Dy gariad sy arnaf eisieu o hyd,  
Dy gariad wy 'n ddymuno i gyd;  
Fy mwyd a'm diod oll yn wir,  
A'm iechyd, yw dy gariad pur.

4 Y nef ei hun yw 'r man b'ech Di,  
A lle na b'ech yw uffern ddu;  
Am hyn, yn holl droiadau 'r llawr  
Boed f'enaidd gyda'm IESU mawr.

5 Pan gallwyf gredu, ond yn wan,  
Dy fod dy Hunan imi 'n rhan,  
Mae hyn yn troi-fy mhoen o'r bron  
Yn rhyw lawenydd dan fy mron.

6 Pan b'wyf yn wan, gwna hyn fi 'n  
gryf,  
A phan bwy 'n ofni, gwna fi 'n hyf;  
Pan byddwy 'n rhwym, fe 'm gwna  
yn rhydd;  
Fath rinwedd yn Dy gariad sydd!

## HYMN CCXCII.

*IESU ei Hunan.*

FY NUW, fy Nuw, fy Nhrysor  
drud,  
A'm hunig gysur yn y byd;  
Ond d'wed pa le, a ph'odd y mae  
I'm wedd dy wyneb-pryd fwynhau?

2 Mae nymuniadau yma yn un,  
Ti yw fy mhleser mawr Dy Hun;  
Os cuddi 'th wyneb, O fy Nuw,  
Darfu 'm hyfrydwch o bob rhyw.

3 A phe diangai sêr y ne',  
Pe hedai 'r ddaear fawr o'i lle,  
Fy holl hapusrwydd, IESU cu,  
Fyddai 'n terfynu ynot Ti.

4 Nid dynion a phleserau 'r byd  
Sy 'n haner abl llanw mryd;  
Mae 'r cyfan ynot Ti 'n ddi-drai  
Ag sy arnaf eisieu ei fwynhau.

5 'R wy 'n dysgwyl dy leferydd glân,  
Sy 'n rhoi fy nghalon lesg ar dân;  
Un rhan o'th enw pur, pe cawn,  
A'm dodai oll yn llawen iawn.

## HYMN CCXCIII.

*Duw i'w fwynhau yw 'r cwbl.*

ONA allwn godi 'm henaidd gwan,  
I'r nefol baradwysaidd fan,  
Lle cawn i wel'd mewn mynudd awr  
Fwy na thrysorau 'r ddaear fawr.

2 Mae golwg arnat Ti, fy Nuw,  
Yn drysor digon tra bwy' i byw;  
Mae golwg arnat Ti dy Hun  
Yn dweyd mor salw ydyw dyn.

3 Pan caffwyf wel'd dy wyneb-pryd,  
Mae 'n darford freniniaethau 'r byd;  
Pob enw tan yr awyr lās  
Sy 'n myn'd yn ddim yn ngoleu 'th  
ras.

4 O Frenin mawr, tragwyddol, cun,  
Wyt oll yn oll, wyt oll yn un;  
Rho imi wel'd dy hyfryd wedd,  
Ni cheisiaf fwy tu yma i'r bedd.

## HYMN CCXCIV.

*Duw ei Hun yw pob llawenydd.*

OARGLWYDD, pa fath bleser  
sy  
Yn awr gan y nefolaidd lu?  
Pan mae difterion bychain iawn  
Yn rhoddi 'm henaidd llesg yn llawn.

2 Pan byddom ni yn cael mwynhad  
O'r pethau brynwyd â dy waed,  
Mae 'r amser yn myn'd heibio 'n  
glau  
Tan ganu a than lawenhau.

3 Neu ond os troi dy wyneb pur,  
A chuddio 'r haul ddysglaerwen glir,  
Mae galar, gruddfan trist, a gwae  
Yn cario 'r dydd ar lawenhau.

4 O beth i'r llall ymgrwydro wnawn,  
Heb gael llonyddwch fore a nawn;  
Rho, IESU, 'th gariad i ni 'n rhodd,  
Ac yna byddwn wrth ein bodd.

## HYMN CCXCV.

*CRIST—Rhosyn y Greadigaeth.*

NID yw 'r haul a'i faith fendith-  
ion,  
Bywyd hardd y ddaear lās,  
Sy 'n llawenu pob creadur,  
Yn enwedig llyisiau 'r maes,

'D yw ei harddwch a'i oleuni,  
A'i effeithiau ar y llawr,  
Onid dim wrth eu cymharu  
A rhinweddau IESU mawr.

2 Bynag beth sydd mewn creadur  
Fry, neu yma is y rhod,  
Neu beth bynag a ddychmygwyd  
Mewn creaduriaid enwog fod,—  
Saint, merthyron, a phrophwydi,  
Draw o ddechreu i ddiwedd byd,  
Canmil mwy o bethau 'n rhagor  
Sydd yn IESU mawr yn nghyd.

3 Holl angylion nef gwmpasog  
Sydd o nifer gwllith y wawr,  
Pe bae 'u tegwch a'u rhinweddau  
Oll mewn un rhyw angel mawr,  
T'wyllai 'i harddwch mewn mynudd-  
yn,  
Toddai 'i ddoniau maith yn un  
Wrth ymddangos, o'i gymharu  
A'r Hwn a wisgodd natur dyn.

4 O dystewa 'nghalon ynfyd!  
Na chais wrthddrych arall mwy;  
Digon, mwy na digon ydyw  
A ddyoddefodd farwol glwy';  
Ffarwel ddaear a'i gwrthdrysychau,  
Nid wyt ond y twyll i gyd,  
Uwch y wybren mae 'r Blaguryn  
Dâl roi arno 'm serch a'm bryd.

## HYMN CCXCVI.

*Pledio am bresenoldeb Duw trwy far-  
farwolaeth CRIST.*

DUW, achub fi er mwyn y gwae  
A'r clwyfau sydd yn dweyd  
iachad;  
Yr Oen, yr Hwn i brynu dyn,  
'Madawodd a'i gwmpeni ei Hun.

2 O gariad heb derfynau 'n bodd!  
Uwch cyrhaedd meddwl neb erioed,  
I achub hil syrthiedig ddyn,  
Ddygodd ei fywyd Ef ei Hun.

3 O bechod! cymaint yw dy bwys,  
Rhoi Brenin nefoedd tan ei grwys!\*

\* Croes, yn y rhif lluosog.

4 Ei fraich sy 'n dal y ddaear ddu,  
A holl golofnau 'r nefoedd fry;  
Er maint eu pwys, cymaint ei rym,  
O tano i gyd ni chwysodd ddim!

5 Ond tan y pwys o bechod drud,  
Budreddi holl gredinwyr byd,  
Cwmpodd a chwysodd gan y loes,  
Ac yna marw ar y groes.

6 Duw, boed dy gwmp yn godiad im',  
A'th wendid yn rhyfeddol rym;  
Dy angeu 'n fywid ym' di-lyth,  
A'th boenus groes yn goron byth.

7 O rho im' brawf o'th gariad cu,  
Neu dwg fi i'w brofi fyny fry:  
'Does arall ddim mewn anial daith,  
A'm dal dan feichiau sy mor faith.

—  
HYMN CCXCVII.

*Y gwahaniaeth rhwng Daeor a Nef.*

FY ffol yma sydd yn llawn  
O ddyfroedd Mara chwerwon  
iawn;  
Ond gofid, yn y nefol dir,  
A lyngcir gan lawenydd pur.

2 'D yw cariad yma yn uwcha man,  
Ond megys rhyw ddymuniad gwan;  
Ond y wreichionen leiaf sy  
Yn wen-fflam yn y nefoedd fry.

3 Llawnydd mwya' yma gawn,  
Sydd fel rhyw ddafnau bychain  
iawn;  
Ond yno yn foroedd mawr di-drai,  
Yn boddi 'r etholedig rai.

4 Fy ffydd sy 'n ffaelu gwel'd yn glir,  
Ond yno try yn olwg bur;  
Fy ngobaith am y nefol wlad,  
A lyngcir yno mewn mwynhad.

5 Briwsionyn yw fy rhan i 'n awr,  
Ond yno gwledd dragwyddol fawr;  
Fy mawl sydd yma 'n oer a syth,  
Mi ganaf yno heb flino byth.

6 Cysgodau 'r hwyr yn tywyllu sy,  
Hwy ffoant ffwrdd yn Seion fry;  
Heb len y caf ei weled Ef,  
Wyneb yn wyneb yn y nef.

7 Gelynion amal sydd yn awr  
Yn greulon yn fy nghuro i lawr;  
Ond yno gwisga'i 'r goron gun  
Gan ddwyn y clod iddo Fe ei Hun.

—  
HYMN CCXCVIII.

*Pob peth yn cyfnewid ond CRIST.*

FE dderfydd y llyisiau  
Sydd aml o ryw,  
Y blodau aroglaidd  
A llonwedd eu lliw;  
Eu tegwch a wywa,  
Ant eilwaith i'w lle,  
Ond pery hawddgarwch  
Tywysog y ne'.

2 A glaswellt yw 'r bobl,  
Fe dderfydd pob un,  
Y trawsion a'r cedyrn,  
A'r tlawd yn gytun;  
Cyfnewid eu tegwch,  
Salwineb yw e,  
Ond byth ni chyfnewid  
Mo Frenin y ne'.

3 Daw tristwch i newid  
Llawenydd rhyw rai,  
Yn lle cyflawnderau,  
Rhyw gulni a gwae;  
Am iechyd a hawddfyd,  
Clefydau 'n eu lle,  
Ond byth ni chyfnewid  
Tywysog y ne'.

4 Am hyny mi garaf  
Fy Mhriod tr'wy' byw,  
Na redo fy nghalon  
Ar greadur anwiw;  
Mi gwelaf yn llanw  
Yr eisieu 'mhob lle,  
A thyma ragoriaeth  
Tywysog y ne'.

5 Fe bery yn gywir  
Mewn tristwch a thrai  
Yn Gyfaill ffyddlonaf,  
Pan ballo bob rhai;

Fe bery yn angeu,  
Fe 'm cymer i dre',  
Mi gara 'n dragwydd  
Dywysog y ne'.

—  
HYMN CCXCIX.

*CRIST yn Angeu.*

COFIA, f' enaid, cyn it' dreulio  
D' oriau gwerthfawr yn y byd,  
Cyn ehedeg ffwrdd oddi yma,  
Pa un a ge'st y trysor drud;  
Yn mhwy ardal bydd fy llety?  
Fath pryd hyny fydd fy ngwedd?  
P'un ai llawen neu gystuddiol  
Fyddai 'r ochr draw i'r bedd?

2 Pan bo'r llygaid yma yn t'wyllu,  
Yn eu pyllau 'n llechu 'lawr,  
Troi oddi amgylch wrth ymdrechu  
A galluoedd angeu mawr;  
P'odd dyoddefaf y fath gystudd?  
Pwy adfera 'r golled hyn,  
Oni chuddia' i 'mhen yn nghlwyfau  
'R Oen fu ar Galfaria fryn.

3 IESU hawddgar, 'r wy 'n dy ddewis,  
Nerth fi ddilyn ôl dy droed,  
Yna caiff fy enaid 'hedeg  
I'r hapusrwydd uwch y rhod;  
Tra fo'm pridd yn myn'd i ym-  
gymysg  
A'r un gwnaethpwyd ef ryw bryd,  
Llewyrch wyneb Duw ddysgleiria  
Ranau f' enaid oll i gyd.

4 Wedi 'm golchi oddiwrth sorod,  
Pechod ffaidd drwg ei ryw,  
Fel drych goleu i dderbyn delw  
Holl sancteiddrwydd pur fy Nŵw;  
Ni raid teithio 'r ddaear mwyach,  
Yn mhlith pryfed gwael y llawr,  
Ond dysgleirio 'mhlith myrddiynau  
Gylch yr orsedd fel y wawr.

—  
HYMN CCC.

*Rhyfeddod y Rhyfeddodau.*

UFUDD-DOD IESU, a'i angeu  
chwith,  
Haeddodd fendithion rif y gwllith;

A'r rhei'ny ydynt bob yr un  
Uwch deall angel pur na dyn.

2 Maddeuant pechod pur di-drai,  
Rhydd-did oddiwrth y ddamniol  
wae;  
A hedd di-dor at Un a fu  
Mewn eitha' llid i'n herbyn ni.

3 O gariad anhaeddianol rhad!  
Ac anfesurool ei barhad!  
At rai afradlon, cyndyn, cas,  
Bradychwyr gwaredigol ras.

4 Gynt yn elynion fu 'n ddi-wad,  
Yn awr ei alw Ef yn Dad;  
A chael d'od yn mhob cystudd blin,  
Yn rhydd i'w fynwes Ef ei Hun.

5 Mewn gobaith o fod gydag Ef  
Byth yn teyrnasu yn y nef,  
A gwel'd ei wyneb hyfryd, cun,  
Yn trigo 'n awr mewn natur dyn.

6 A fu rhyw ras fel hyn erioed,  
Neu fendith megys hon yn bod?  
A brynwyd dim a'i bris mor ddrud  
O ddechreu pell i ddiwedd byd?

7 Chwi roddion maith trangcedig fyd,  
Sef aur ac arian, perlau drud,  
Nid ydych oll ond megys dim,  
Wrth wel'd yr IESU 'n eiddo im'.

8 'D yw cyfoeth maith mwyn-glodd-  
iau 'r byd,  
Pe 'stofid \* ar y tlawd i gyd,  
Ond rhodd ddistadla, waela' 'maes  
Wrth eu cymharu â'i nefol ras.

9 Mae 'n dysgu 'r annoeth, mae 'n  
iachau  
Archollion y dolurus rai;  
Ac nid oes *medsant*† a gytun  
A'm clwyfau ond ei waed ei Hun.

10 A thyma 'r cariad, cariad yw  
Sy 'n anchwiliadwy i ddynolryw;  
Uwchlaw gwybodaeth, nid i ni,  
Ond hefyd i'r angylaid lu.

\* *Ystofi*—trefnu, cadw.  
† *Medicine*.

## HYMN CCCI.

*Caethiwed.*

- 'R WY 'n gorwedd yn y carchar du,  
A'm henaid cu 'n och'neidio ;  
A'r gadwyn fawr yn gwasgu 'n dyn  
Heb neb a'm tyn o hono.
- 2 Fy meiau megys gwllith y wawr,  
Anfeidrol fawr eu cyfri',  
Sy 'n pwyso 'n galed ar fy mron,  
'A minau bron llewygu.
- 3 Och'neidio 'r wyf am dd'od yn rhydd,  
A gweled dydd gollyngdod ;  
I rodio 'r bryniau sanctaidd, pur,  
Nefolaidd dir fy Mhriod.
- 4 Ti, IESU mawr, y Meddyg pur,  
Sy 'n tori 'r dur caleta';  
Tor fy nghadwynau mawr â'th ras,  
Fel delwyf maes oddi yma.
- 5 Mae 'r gallu yn gyfan yn dy law,  
Fel dwedost daw 'r canlyniad,  
Ac nid yw 'n orchest i fy Nuw,  
I roi fy ngwiw ddymuniaid.

## HYMN CCCII.

*Achwyniad.*

- PAN mae fy enaid bach mor syn,  
A'm calon yn och'neidio 'n llyn,  
Un olwg ar fy IESU cun  
Iachai fy nghlwyfau bob yr un.
- 2 O tyr'd er mwyn d' addewid rad,  
Rho brawf im' o'r maddeuol waed ;  
Gwel y pechadur mwya' erioed,  
Yn gruddfan yma wrth dy droed.
- 3 Fy ffydd sy 'n soddi obry 'lawr  
Dan donau f' anghrediniaeth mawr,  
Yn gwrthod addewidion llawn  
O drugareddau gwerthfawr iawn.

- 4 Trwy wrthddadleuon gwag, di-sail,  
A mân resymau rif y dail,  
'R wy 'n ffaelu pwyso ar f' AR-  
GLWYDD cun,  
A ffaelu bwyta 'mwyd fy hun.
- 5 A bwyswyd neb o dan fath bwn,  
A ddaliodd neb fath faich a hwn ?  
Gwel'd Duw yn cuddio ei wyneb  
pur,  
A chalon galed fel y dur !
- 6 Gobeithio, heb obeithio dim,  
Yn credu erioed heb fawr o rym ;  
Bywyd di-fywyd, heb ddim rhin,  
Ond poen wastadol i'm fy hun.
- 7 O rho i mi fanna 'r nefoedd fawr,  
Wrth ddrws fy mhabelll syrthio i  
lawr :  
Ond gwybod 'rwy'i ddaw dim o'r  
nen,  
Nes delo dy oriau Di i ben.
- 8 Mae'n bryd, O tyred, ARGWLWYDD CU,  
Pwy sy mewn cyflwr fel myfi,—  
Yn ceisio gruddfan tan ei wae  
Heb ewyllys ganddo i'w ryddhau !
- 9 O dyro arwydd i mi 'n glau,  
Fy mod i wedi 'm cyfiawnhau ;  
Mi gana' i'th enw pur di-lyth  
Nefolaidd gaingc tra paro chwyth.
- 10 Ar fryniau 'th drugareddau mawr  
Difyrwn fy oes o awr i awr ;  
Yn fil mwy llawen yn fy mryd  
Na'r rhai sy'n berchen cyrau'r byd.
- 11 Doethineb mawr all fy mhar'toi,  
I fythol heddd trwy amserol wae ;  
A thrwy gystuddiau chwerwon  
chwith,  
Gall roi 'r llawenydd bery byth.
- 12 Mwy n'ad fi rwnnach, f' AR-  
GLWYDD CU,  
Dy lwybrau 'n anchwiliadwy sy ;  
Rho i mi nerth i droi pob gwae,  
A grwgnach cas, yn llawenhau.
- 13 Gwna fi yn fodlon tra f'wy'i byw,  
Ac adde'th farn, mai cyfiawn yw ;  
Na ddiffodd dy drugaredd rad,  
Trwy 'm anobeithio ei pharhad.

- 14 O ran mai trwy fy mhechod sych  
Y collais i 'm gogoniant gwyth,  
'Ngheryddu 'r 'ys, ac nid fy nghau  
I deimlo yn uffern bwys fy mai.
- 15 Yn fy nghyfyngderau galwa' 'mlaen  
Am ddyddiau dy ddeheulaw lân ;  
Gan adde'th dywyll lwybrau i gyd  
Yn fuddiol, dda, er dechreu 'r byd.

## HYMN CCCIII.

*Dyoddefaint y Messiah.*

- COD d' olwg, f' enaid, fyny fry,  
I wel'd yr Oen ar Galfari,  
Yn dyodde 'n ddiddig ac yn fwyn,  
Wedi 'gondemnio er ein mwyn.
- 2 'R Hwn a ordeiniwyd i angeu yw,  
Tros bechaduriaid gwaetha' eu  
rhyw ;  
A'i ganlyn gwelwch y fath lu,  
Yn gwaeddi o'i ol i Galfari.
- 3 Taenwyd ei freichiau sanctaidd,  
pur,  
A rhoddyd ynddynt hoelion dur ;  
Estynwyd, hoeliwyd nefol draed,  
Heb orchudd drostynt ond ei waed.
- 4 Gwelwch y goron bigog gref,  
Yn gorwedd ar ei arlais Ef ;  
A'r afon goch lifeiriol fawr  
Yn tarddu o tan ei fron i lawr.
- 5 Edrychwch arno, dyma 'r Dyn,  
A phwy oedd Ef ond Duw ei Hun ?  
Pechodau 'r holl grediniol fyd  
A bwysodd ar ei 'sgwyddau 'nghyd.
- 6 O IESU, 'r croeshoeliedig DDuw !  
Sy 'n för o ras at ddynolryw ;  
Rho nerth i yfed gwaed y groes,  
A phrofi cariad d' angeu loes !

## HYMN CCCIV.

*Gweddi.*

- O IESU mawr y Meddyg gwell,  
Gobaith yr holl ynysoedd  
pell !  
K

Dysg fi i seinio 'maes dy glod,  
Mai digyfnawid wyt erioed.

- 2 O hoelia 'meddwl, ddydd a nos,  
Crwydredig wrth dy nefol groes ;  
A phlana 'm hysbryd yn y tir  
Sy 'n llifo o lawenydd pur.
- 3 Fel bo fy nwydau drwg, yn lân  
Yn cael eu difa â'r nefol dân ;  
A chariad yn melysu 'r groes,  
Trwy olwg ar dy farwol loes.
- 4 Ti fuost farw (rhyfedd yw)  
Er mwyn d' elynion i gael byw ;  
Derbyn i'th gôl, O rho ryddhad  
I'r sawl a brynaist â dy waed.
- 5 Doethineb anfesurolo sy,  
A gallu anfeidrol ynot Ti ;  
A phob cyfiawnder sy 'n dy ran,  
Sy 'n eisieu ar fy enaid gwan.
- 6 Fe gaiff dy enw anwyl glod,  
Pan darfo i'r ddaer a'r nefoedd  
fod,  
Am achub un mor wael ei lun,  
Na all'sai ei achub ond dy Hun.

## HYMN CCCV.

*Gogoniant yr Oen,*

- O DDEDWYDD le, preswylfa'm  
Ner,  
Yn yr eangder uwch y ser ;  
Y man dysgleiria 'm IESU 'maes,  
Yn nghyflawderau maith ei ras.
- 2 Mawrhydi a chariad parchus iawn,  
Sydd yn ei wyneb Ef yn llawn ;  
A'r lluoedd sy 'n ymgyrnu 'n un,  
O flaen ein Duw yn natur dyn.
- 3 Wel dacw 'r pen a glwyfodd drain  
Yn goron bleth â'u pigau main ;  
A choron euraidd arno Ef  
Yn dallu holl gwmpaini 'r nef.
- 4 O dyma'r Dyn, Duw ynddo 'n bod,  
A gar'som heb ei wel'd erioed ;  
Ond credu ynddo a llawenhau,  
A charu fyth heb 'difarhau.

- 5 Ond pan y gwelom yn y nef,  
Gan' waith yn rhagor carwn Ef;  
Ac nid rhaid yno ddim wrth fydd,  
Mwynhad yn ymborth i ni fydd.

—  
HYMN CCCVI.

*Cyfiawnder anfeidrôl y Messiah.*

- T**ALWYD y swm gan Jehofah  
ddyn,  
Gofyn y nefoedd faith ei hun;  
Ac nid oedd ond trysorau 'r nef  
Yn abl fyth ei dalu Ef.
- 2 Trysorau na ddarfyddent fyth,  
Pe telid oesoedd rif y gwlith;  
Gwerth uwch pob gwerth a glywyd  
son,  
Oedd gwaed y croeshoeliedig Oen.
- 3 Ni allodd y nefolion lu,  
Yr arch-angylion pena' sy;  
Er bod hwy 'n ddoeth uwch ben, fe  
wys,  
I gyfri' fyny fyth ei bris.
- 4 Iawn mwy o bwys na buasai 'nghyd  
Aneirif anwireddau 'r byd;  
A dim ond gwaed fy IESU mawr  
A droesai 'r glorian hyd y llawr.
- 5 Anturia, 'nghalon euog, ddu,  
At orsedd gras yn awr yn hy';  
Mae'r faingc yn rhydd, a'r rhodd  
yn rhad,  
Os gelli gredu yn ei waed.

—  
HYMN CCCVII.

*Y Cystuddiedig a'r Truan.*

- Y** NOETH, y tlawd, a'r llwythog  
sy  
'N och'neidio tua 'r nefoedd fry;

- A'r cystuddiedig gwael ei lun,  
Wna IESU 'n briod iddo ei hun.
- 2 Newyddion da er seiliad byd,  
A ro'w'd yn nghadw i'r rhai'n i  
gyd;  
A phan addfedo awr y Tad,  
Datguddir iddynt oll yn rhad.
- 3 I'r rhai 'n mae rhagorfreintiau ei  
waed;  
I'r rhai'n mae cyflawn wir iachad;  
I'r rhai'n mae heddwch llawn ryw  
bryd,  
Rhydd-did oddiwrth anfeidrôl lid.
- 4 Galarwyr Seion sydd yn awr,  
Yn gruddfan yn y cystudd mawr;  
Na wylwch mwy, newyddion mae,  
A bair i'ch calon lawenhau.
- 5 Am hyn dyrchafwch fyny fry,  
Cydseiniwch a'r angylaidd lu;  
Tra fyddwch byw na foed i'ch son  
Ond am rinweddau gwaed yr Oen.

—  
HYMN CCCVIII.

*Meddyginiacth yn Angeu.*

- M**AE 'm ffydd yn gwel'd fy  
Mhriod draw  
Yn cym'ryd angeu yn ei law;  
Yn gwneuthur iddo daflu 'maes  
Ei gelyn main a'i wenwyn cas.
- 2 Ac yna T'wysog mawr y nef  
Ei Hun yn yfed 'hono ef;  
Ei godi 'tyny ar ei ben,  
A d'weyd, Gorphenwyd, ar y pren.
- 3 Pa'm ofnaf angeu a'i farwol glwy',  
Pan nad oes colyn ganddo mwy?  
Er mai angeu yw, nid yw ei rym,  
Na 'i wenwyn, yn y diwedd ddim.
- 4 Mil o ryw farwolaethau 'nglŷn  
Wy 'n brofi, ond wrth ofni un;  
A deng mil o gysuron sy  
Wrth wneuthur ffrynd âg angeu du

HYMN CCCIX.

Rhai gwersi o'r Salm lxix., wedi eu  
rhoi ar gân yn agosaf ag allwyd at  
eiriau'r Salm, a rhoi pob gwers ar  
ei phen ei hun ac yn dwyn ei hystyr  
ei hun, heb eu cymysgu â gwersi  
ereill sydd yn dwyn ystyr arall, a  
rhoi swm y geiriau i berthyn i  
GRIST, fel nad yw Dafydd ond *teip*  
o hono.

**A**CHUB, O Dduw, fy enaid  
caeth,  
O tan ei faith ofidiau,  
Sy 'n cael wrth geisio d'od i'r lan  
Ei guro tan y tonau.

- 2 Soddais mewn dom, aethum y'nglŷn,  
Mewn lle heb un sefyllfa;  
A'r dyfroedd dyfnion, pwysau 'r  
groes,  
Yn llifo dros fy nghopa.
- 3 Sychodd fy ngheg, a'm llygaid swrth  
Dywyllodd wrth wylofain;  
A thrwy dy ddysgwyl tan bob ton,  
Mi fliniais bron a llefain.
- 4 Rhifedi 'm gwallt, heb wybod pa'm,  
O elynion sy am fy niwed;  
A minau, telais hwynt o'm bodd  
Yr hyn nid oedd fy nyled.
- 5 Ond ti adwaenost, ARGLWYDD da,  
Fy ynyfdrwydd a'm ffolineb;  
Nid yw 'nghamweddau mawr eu  
rhi'  
Guddiedig i dy wyneb.
- 6 O'm plegid i, Duw'r lluoedd maith,  
N'ad gywilydd, chwaith na  
g'wradwydd  
I'r rhai a'th ofnant tan y ne',  
Neu geisiant d'enw beunydd.
- 7 Can's er dy fwyn Di, ARGLWYDD  
DDUW,  
Y dygais bob rhyw warthrudd;  
Trwy 'th ganlyn, dryg-air i mi  
ro'w'd,  
A'm hwyneb dow'd â chywilydd.

- 8 Dyeithr mi ès i blant fy mam,  
I'm brodyr a'm cyfeillion;  
Pwy sy 'n gwneud cyfri' o honof,  
well  
Na phererin pell neu estron?
- 9 Can's serch i'th waith, a'th gyf-  
raith gu,  
A sel i'th dŷ a'm hysodd;  
A chabl y rhai a'th gablent Di,  
Oll arnaf fi ddisgynodd.

—  
HYMN CCCX.

O waith y Dr. Watts (tudalen 172).

- M**OR wag, ac mor dywyllodrus  
yw  
'R holl bethau sy yma yn deg eu  
lliw!  
Yn ein pleserau gwenwyn cawn,  
A'r melus sydd yn chwerw iawn.
- 2 Dysgleiriaf bethau yn y byd,  
Twyll yw eu llewyrch oll i gyd;  
Wrth eu mwynhau mae aeth a  
braw,  
Rhag ofn bod rhyw ddrwg gerllaw.
- 3 Perth'nasau a chyfeillion llawn,  
Yn fynych yn elynion cawn,  
Wrth gadw rhan o honof 'lawr,  
A 'speilio rhan ar IESU mawr.
- 4 O boed dy degwch, IESU cu,  
Yn ymborth pur i'm henaid i,  
A gras i'm harwain gydag Ef,  
O bob creadur tan y nef.

—  
HYMN CCCXI.

*Gruddfan am Gyfiawnder a Nerth.*

**M**AITH yw 'r nos a mawr yw 'r  
t'w'llwch,  
P'odd y galla'i threulio 'maes?  
Heb gael, ARGLWYDD, dygwmpeni,  
Nerth dy anorchfygol ras;  
Gormod gofid, &c.,  
Hebot allu yma i fyw.



- 2 Mil a mwy o wag feddyliau  
Trwy fy nghalon sydd yn gwau,  
Nid oes meddwl nad yw 'n ceisio  
Fy rhoi yn llwyr i lwfrhau ;  
Anghrediniaeth, &c.,  
Rhyfedd yw dy nerth erioed.
- 3 Mae fy mhechod yn fy erbyn  
Fel y moroedd mawr eu grym,  
Diluw cryf heb fesur arno,  
Nid oes a'i gwrthneba ddim ;  
Tad tosturi, &c.,  
Rho gyfiawnder im' a nerth.
- 4 Os dangosi 'n eglur i mi,  
Dyna 'r pryd i lawenhau,  
Fod dy lyfr wedi ei groesi,  
Ac nad oes yn aros fai ;  
Cymer feddiant, &c.,  
Yna o honof oll yn lân.
- 5 Os agori im' dy fynwes,  
I gael gwel'd y cariad llawn  
Lifodd allan fel y moroedd  
Ar Galfaria un prydawn ;  
Ti gai 'r cwbl, &c.,  
Roddai st i mi yn fy rhan.
- 6 Aed y ddaear ffordd y myno,  
Aed i'r sawl fo arni a'i fryd,  
Aed creaduriaid o bob enwau  
Yn elynion i mi 'gyd ;  
Bodlon ddigon, &c.,  
Byddaf byw heb ffrynd ond Ti.
- 7 Doed eilunod o bob rhywiaw,  
Doed y gwrthddrych teca' ei  
bryd,  
Doed pleserau maith brenhinoedd,  
Ac anturiant sugno 'mryd.  
Ofer, ofer, &c.,  
Tra fo genyf wrthddrych mwy.
- 8 Deued Satan a'i holl rwydau,  
Deued a'i bicellau tân,  
Casgled gyfoeth mawr yr India,  
A gosoded hwy o'm blaen ;  
Byth ni 'm temtia, &c.,  
Tra fo 'm henaid yn dy gôl.
- 9 Nis gall hwnw, bai fy meiau,  
Sydd yn bostio ei anferth rym,

Os amgylchu wnai fy enaid,  
Wneuthur niwed i mi ddim ;  
Rho dy Ysbryd, &c.,  
Mi gongcwera' feiau maith.

10 Ond os troi dy gefn arnaf,  
Darfu 'm cysur yma i fyw ;  
Y mae 'r cwbl oll a feddaf  
Yn cartrefu yn fy Nuw ;  
Llwyr annedwydd, &c.,  
Ydwyf hebot Ti dy Hun.

11 Nid oes rhwyd, ac nid oes magl,  
Heddyw gan y gelyn mawr,  
Nid oes pydew, heb dy allu,  
Nas tramgyddaf iddo 'lawr ;  
Dal fi fyny, &c.,  
Yn dy allu 'r wyf yn byw.

12 Mae 'ngyfeillion, mae 'm perth'-  
nasau,  
Mae 'nghelynyon bob yr awr,  
Fel mewn cyngrair gyda'u gilydd  
Am fy nghael yn lân i lawr ;  
O ! Jehofah, &c.,  
N'ad fi golli 'ngafael byth !

## HYMN CCCXII.

*Digalondid.*

**L**LAWN euogrwydd, llawn o  
ddychryn,  
Llawn o boen yw'm henaid gwan,  
Anghrediniaeth cryf yn haeru  
Byth na ddof oddi yma i'r lan ;  
Balm yn Gilead, &c.,  
A oes dim i wella 'nghlwyf ?

2 Mae'm blynyddau hirion, meithion,  
Wedi eu treulio oll yn ddim ;  
'D yw 'm pechodau o'r dechreud  
Eto nemawr llai eu grym ;  
O na allwn, &c.,  
Gredud bod ei ddydd gerllaw !

3 Mi feddyliais yn y boreu,  
Byddwn amser maith cyn hyn,  
Wedi maeddu fy mhechodau,  
Ac yna canu ar Seion fryn ;  
Swn y rhyfel, &c.,  
Ydyw eto 'r man 'r wyf yn byw.

- 4 Weithiau bron yr wyf a chredu  
Na ches mo 'th effeithiol ras,  
Credu bron mai fy mhechodau  
Yn y diwedd bia 'r maes ;  
Dwg fi, ARGWLWYDD, &c.,  
Dwg fi o'r caethiwed hyn.

## HYMN CCCXIII.

*Ymbil am Nerth a Goleuni.*

**T**YWYLLWCH dudew sydd  
oddeutu,  
Ffaelw codi 'mhen i'r lan,  
Nid wyf fi tan feichiau mawrion  
Eto erioed ond eiddil gwan ;  
Gwrando 'ngweddi, &c.,  
Oni 's gwnai, mi lwfrha.

2 Dadrys y cadwynau tynion,  
Rho fy enaid gwan yn rhydd,  
Tyn fi 'maes o'r pydew tywyll  
I gael gwel'd y goleu ddydd ;  
Gwardedgaeth, &c.,  
Gwna i mi waeddi tra f'wyf byw.

3 Mwy o weithiau nag a rifr,  
Gwn yn sicr, Ior, dy fod  
I mi 'n well nag un creadur  
Eto welais tan y rhod ;  
Gwna i mi anghofio, &c.,  
Fy holl eilunod er dy fwyn.

## HYMN CCCXIV.

*Gweddi am Bresenolddeb Duw, a Nerth  
yn erbyn Pechod.*

**N**ID oes arnaf faich yn gorphwys  
Dim ond eisieu dy fwynhau ;  
Nid oes arall tan y nefoedd  
All fy enaid i iachau ;  
Rho dy gwmmi, &c.,  
Cyn im' fyn'd i'r cefnfor glas.

2 Mae fy nyddiau 'n hir i'w rhifo,  
Ac nid y'nt i'w cyfri' ddim,  
Maent yn diang beunydd arnaf  
Fel yr awel deneu lym ;  
Darfod, darfod, &c.,  
Mae fy oes bob mynyd awr.

3 Tyn yr ofn hen o farw  
Sydd yn llechu tan fy mron ;  
Rho i mi heddwch, rho orfoledd  
Tra f'wy' ar y ddaear hon ;  
Na therfysged, &c.,  
F' enaid gwan yn ngrym y dw'r.

4 Mae fy anadl, mae fy esgyrn,  
Mae 'ngwythienau oll o'r bron,  
Heddyw yn haeru mai fy ngwely  
Fydd yn foreu tan y don ;  
'N wyneb angeu, &c.,  
IESU, dere yno dy Hun !

5 O na âd fi ymdrabaeddu  
Yn anialwch mawr y byd ;  
Mae yma eirth, mae yma lewod,  
Yn elynion i mi i gyd ;  
Tyn fi allan, &c.,  
'N awr o balfau 'r gelyn mawr.

6 Nid wy 'n caru fy mhechodau,  
Poenau ydynt oll i gyd,  
Hwnw sy 'n fy mhoeni fwyaf  
Ag sy 'n ceisio myn'd â 'mryd ;  
Tyn hwy 'n fuan, &c.,  
Dyna finau wrth fy modd.

7 Doed dy Eglwys, a galared  
Tros fy meiau oll o'r bron,  
Nid yw hyny un egwyddor  
Ond sy 'n aros tan fy mron ;  
Do mi flinai, &c.,  
Ar fy meiau fawr a mân.

8 IESU, cymer f anwireddau  
Trymion ar dy ysgwydd gref,  
Nid oes nerth i sefyll tanynt,  
Onid gallu mawr y nef ;  
Gwaed ei hunan, &c.,  
All yn unig dynu 'm baich.

9 Dyma yn gwbl fy neisyfiad,  
I mi gael bod yn dy gôl ;  
Er na theithiais eto nemawr,  
N'ad fi dynu hyny 'n ol ;  
Gwna i mi gadw, &c.,  
'Ngolwg tua 'r hyfryd wlad.

## HYMN CCCXV.

**M**AE arnaf ofn tentasiynau,  
Nid wyf fi ond llesg erioed,

Mae 'r un wana 'n ddigon abl  
Fyn'd â'm henaïd tan ei throed ;  
Gwaed yn llifo, &c.,  
Ar Galfaria a'm dal i'r lan.

2 Mae rhyw awel wyllt ei natur,  
A chynndeiuriog iawn ei grym,  
Ar y moroedd mawr yn dyfod,  
Fy ofn a dd'wedodd hyny im' ;  
Gwaed yn llifo, &c.,  
Ar Galfaria a'm dal i'r lan.

3 Ynof fy hunan mae hi 'n rhuo,  
Yn fy ysbryd mae hi 'gyd,  
Dyma yn unig a'i congwera,—  
Golwg ar dy wyneb pryd ;  
Gwaed yn llifo, &c.,  
Ar Galfaria a'm dal i'r lan.

4 Paid, fy enaid gwan, ag ofni,  
Nid rhyw ddrygau sy 'n nesau,  
Newydd da sy o dir y bywyd  
Lle mae carïad yn parhau ;  
Gwaed yn llifo, &c.,  
Ar Galfaria a'm dal i'r lan.

5 Er bod arnaf ofnau filoedd,  
Pan y delo 'r drwg yn mlaen,  
F' allai caf fi nerth i sefyll  
Fel y graig yn nghanol tân ;  
Gwaed yn llifo, &c.,  
Ar Galfaria a'm dal i'r lan.

6 Mi ês heibio i lewod lawer,  
Mi gongwerais eirth cyn hyn,  
Do, mi nofais trwy 'r lorrddonen,  
Ac mi ddringais anferth fryn ;  
Gwaed yn llifo, &c.,  
Ar Galfaria a'm dal i'r lan.

7 Darfu ofn temtasiynau,  
Darfu ofn drwg i dd'od,  
Darfu ofn marwolaethau,  
A phob cystudd sydd yn bod :  
Gwaed yn llifo, &c.,  
Ar Galfaria a'm dal i'r lan.

### HYMN CCCXVI.

*Mwynhad o Dduw yn Nerth a Goleuni.*

O TYRED, Awdwr heddw,  
Rho i mi brawf o'th wledd  
Dragwyddol, rad ;

'D oes yma ddim ond trai,  
Cystuddiau, poen, a gwae,  
I'r diwedd yn parhau,  
Mewn anial wlad.

2 Mae pechod o bob gradd,  
Yn fawr am gael fy lladd,  
A minau 'n wan ;  
O estyn fraich i maes,  
Dangos dy effeithiol ras,  
O'r tiroedd anial cras,  
Dwg fi i'r lan.

3 Mor greulon yw fy nghlwyf,  
Ti, IESU, weli 'r wyf  
Bron llwfrhau ;  
'D oes arall ond dy waed,  
A ddyry i'm iachad,  
Na dim a nertha 'm traed,  
Ond dy fwynhau.

4 Un olwg ar dy wedd  
A'm c'od i'r lan o'r bedd,  
I'r goleu clir ;  
I deithio yn y blaen,  
Trwy ganol dwr a than,  
Er gelynyon fawr a mân,  
I'r sanctaidd dir.

5 Gwna f' enaid bach yn nglŷn,  
Duw, wrthyt Ti dy Hun,  
Gael dy fwynhau ;  
Ac yna gallaf fyw,  
Tan gystudd o bob rhyw,  
Mewn llawn dawelwch gwiw,  
Byth i barhau.

### HYMN CCCXVII.

*Gwaed y Groes yn unig Feddyginiaeth.*

I ACHAWDWR dynolryw,  
Tydi yn unig yw,  
Fy Mugail da ;  
Mae angyf 'r groes yn llawn,  
O bob rhinweddol ddawn,  
A ffrwythau melus iawn,  
Rhai'n a'm iacha.

2 'D oes meddwm laesa 'm poen,  
Ond gwaed yr addfwyn Oen,  
Pur waed fy Nuw ;

Mae ei Hun yn fwy na 'r byd,  
Na 'r trysor sy ynddo 'gyd,  
A thecach yw ei fryd,  
Na dynolryw.

3 Mae torf aneirif fawr,  
Yn ddysglaer fel y wawr  
'N awr yn y nef ;  
Trwy ganol gwawd a llid,  
A gwrth'nebiadau 'r byd,  
Ac angyf glas yn nghyd,  
A'i carodd Ef.

4 'Thâl holl bleserau 'r byd,  
Na phob teganau yn nghyd  
Ddim i'm boddhau ;  
Y gwrthddrych mwya' erioed,  
O gariad ac o glod,  
Sydd uwch nen is y rhod,  
Wyf yn fwynhau.

### HYMN CCCXVIII.

*Gweddi am bob Gras i fyw i DDUW.*

CHEISIAIS, ARGLWYDD, ddim  
ond hyny,  
Dim ond treulio'm dyddiau maes,  
I dy garu a'th ryfeddu,  
Ac ymborthi ar dy ras ;  
Dyna ddiagon, &c.,  
Cheisiaf 'nabod dim ond hyn.

2 Dal fy llygad, dal heb wyro,  
Dal ef ar dy addewid wir,  
Dal fy nhraed heb gynyg ysgog  
Allan o dy gyfraith bur ;  
Boed dy orchymynion, &c.,  
I mi yn gysur ac yn heddw.

3 O darfydded i mi garu  
Unrhyw bleser is y ne',  
A darfydded im' fyfyrïo  
Ar un gwrthddrych yn dy le ;  
Aed fy ysbryd, &c.,  
Oll o'i fron yn eiddot Ti.

4 Rho 'r tymherau, rho 'r grasusau,  
Yn fy enaid bach yn nghyd,  
Roddai't Ti i'th rai anwyllaf  
Oll yn rhad o ddechreu byd ;  
Dedwydd, dedwydd, &c.,  
Fyddaf byth tra nef yn bod.

5 Os rhaid dwyn y groes dymhestlog,  
A'r cystuddiau sydd o'i hol,  
O gad i mi, IESU, orphwys  
Yna yn dy gynnes gôl ;  
Yn mhob cystudd, &c.,  
Dwg fy meichiau oll dy Hun.

### HYMN CCCXIX.

*Anghrediniaeth, a Gweddi am Ffydd.*

Y MAE ofn yn fy nghalon,  
Gan mor lleied yw fy ngrym,  
Rhag ryw awr i'm temtasiynau  
Creulon i fy ngwneud yn ddim ;  
Nid oes gryfder, &c.,  
Trwy fy ysbryd mewn un man.

2 Mae dyfnderoedd anghrediniaeth  
Wedi 'm rhoddi 'n llesg a gwan,  
Pechod yn fy ngwneud i ofni,  
Ofni yn fy rhwystro i'r lan ;  
Gwna i mi gredu, &c.,  
Dyna 'm henaïd wrth ei fodd.

3 Oll o mewn nid oes ond t'w'llwch,  
Oll o mewn nid oes ond poen,  
Rhyw ddyeithruch oer di-gariad  
At y croeshoeliedig Oen ;  
O na roddit, &c.,  
I mi, ARGLWYDD, dy fwynhau.

4 Mae eiddigedd yn fy nghalon  
Weled canoedd yn gytun,  
Oll i gyd mewn gwisgoedd gwynion,  
Ac yn canu i Ti yn un ;  
Yn y carchar, &c.,  
Yr wyf finau oll yn rhwym.

5 Mae mor bosibl i mi glymu  
Haul a daear fawr yn un,  
Ag yw im' ddyrchafu 'nghalon  
I fyny atat Ti dy Hun ;  
Gair o'th enau, &c.,  
A'th wna Di a minau 'n un.

### HYMN CCCXX.

*Gobeithio yn erbyn Gobaith.*

SEFWCH bellach, fy ngelynyon,  
Sy 'n fy nghuro bron erioed,

- Dal'soch f' enaid yn amddifad,  
Cawsoch fy ysbryd tan eich troed;  
'Chydig oriau, &c.,  
Dof o'ch rhwydau oll yn lân.
- 2 Mae fy Mhriod, mae f' Anwylyd,  
'N awr yn dangos i mi wlad,  
Nas gall dyfais temtasiynau  
Fyth i syflyd dim o'm traed:  
Mi âf yno, &c.,  
Dyna 'r man caf ddedwydd fyw.
- 3 Uwch y bryniau, uwch y gwyntoedd,  
Uwch y stormydd mawrion, cry',  
Uwch cymylau tew o d'wllwch,  
Mae 'r tawelwch hyfryd fry;  
Mae fy nghysur, &c.,  
Oll yn trigo uwch y byd.
- 4 Mi dde's yma i'r anialwch,  
Byd o newyn, byd o wae,  
Heb un achos, heb un neges,  
Ond yn unig dy fwynhau;  
Hyn ei hunan, &c.,  
Fydd fy ymgais tra f'wyf byw.
- 5 Ac ni's cefais sylwedd ynddo,  
Ac ni's cafodd neb erioed,  
Neu gyfeillion, neu drysorau,  
Nid y'nt bleser im' eu bod;  
Duw ei Hunan, &c.,  
Ydyw 'm cwbl yn y byd.

## HYMN CCCXXI.

CRIST *oll yn oll.*

FY nghadwedigol ras  
O honot dardd i maes,  
IESU 'n ddi-drai;  
Daioni ni fu yn bod,  
O fewn i mi erioed,  
Tydi a bia 'r clod,  
Fyth i barhau.

- 2 'D oedd ond dy anfeidrol ras  
A'm tynai i i maes  
O'r 'ffernol ffau;  
Anfeidrol rym a scil  
I nerthu un o fil,  
I gadw 'r llwybr cul,  
Byth i barhau.

- 3 Dy enw Di, fy NUW,  
Ei hunan digon yw,  
I'w ei fwynhau;  
Pob peth o fewn y byd,  
Y gwerthfawroca' a drud,  
Sy 'n gryno yno 'nghyd,  
Byth i barhau.
- 4 Y myrr a'r aloes pur,  
Y cassia gwerthfawr gwir,  
Ynddo y mae;  
Y per-aroglau drud,  
Gwell na rhai eitha'r byd,  
Sydd ynddo Ef yn nghyd,  
Byth i barhau.
- 5 Mae doniau f' ARGLWYDD mawr,  
Yn llifo oll i lawr,  
Fel môr di-drai;  
Tros dir Immanuel,  
Yr hyfryd laeth a mêl  
O sicrwydd pur a sel,  
Byth i barhau.
- 6 Yn gwisgo gynau gwyn,  
Pan gwelir saint am hyn,  
Dydd sy 'n nesau;  
Caniadau am ei glwy'  
Fydd eu caniadau hwy,  
A'r rhei'ny fyddant mwy  
Byth i barhau.

## HYMN CCCXXII.

*Gogoniant yr Oen, ac ymbil am Ras.*

ANGYLION doent yn gyson,  
Rifedi gwllth y wawr,  
Rhoent eu coronau euraidd  
O flaen y faingc i lawr,  
A chwariant eu telynau  
Yn nghyd â'r saint yn un,  
Fyth, fyth ni chanant ddigon  
Am Dduwdod yn y dyn.

- 2 Ni fuasai genyf obaith  
Am ddim ond fflamau syth,  
Y pryf nad yw yn marw,  
A'r t'wllwch du-dew byth;  
On' buasai 'r Hwn a hoeliwyd  
Ar fynydd Calfari,  
O ryw anfeidrol gariad  
I gofio am danaf fi.

- 3 'R wy 'n edrych arnaf fy hunan  
A rhyw gasineb mawr,  
Mwy di-ddim, mwy di-sylwedd  
Na phryfed mân y llawr;  
'D oes ond yr aberth hwnw  
Wnawd ar Gaersalem fryn,  
A'm crea oll yn newydd,  
A'm golch i oll yn wyn.

- 4 Ti Farnwr byw a meirw,  
Sydd ág allweddau 'r bedd,  
Terfynau eitha'r ddaear  
Sy 'n dysgwyl am dy hedd;  
'D yw gras i Ti ond gronyn,  
Mae gras ar hyn o bryd  
Ryw filoedd maith o weithiau  
I mi yn well na 'r byd.

- 5 O flaen y faingc rhaid sefyll,  
Ie, sefyll cyn bo hir,  
Nid oes a'm nertha yno  
Ond dy gyfiawnder pur;  
Myfi anturia' yn eon  
Trwy ddyfroedd a thrwy dân,  
Heb oleu ac heb lewyrch  
Ond dy gyfiawnder glân.

- 6 Os ai Di i chwilio 'nghalon,  
Ni chai Di yno fawr,  
Ond beiau maith mor amlod  
A gwllth y boreu wawr;  
Pechodau o'r dechreuad,  
Rhai 'n awr ac yn y man,  
Sydd yn cytuno â'u gilydd  
I wasgu 'm henaidd gwan.

- 7 Yn natur fy ngweddïau  
A'm dyledswyddau mae  
Rhyw fryniau o anghrediniaeth,  
Rhyw fôr o lwfrhau;  
Y weithred ga's ei chanmol  
Yn uchel iawn gan ddyn,  
Mae torf o lygredd ynddi  
I wel'd i mi fy hun.

- 8 Am hyn bydd i mi ymwadu  
A'r cwbl yn gytun,  
Pob cylch o ddyledswyddau  
Goreu-deg hardd yn un;  
Yn angu 'r groes yn unig  
Mae 'm iechydwriaeth lawn,  
Ac am y groes mi ganaf  
O foreu hyd brydnawn.

- 9 Myfi abertha 'r cyfan  
Yn union i dy waed,  
A thyna 'r balm, oddiwtho  
'R wy 'n dysgwyl gwir iachad;  
Nid oedd o tan yr haulwen,  
Nid oedd o tan y ne'  
Ddim all'sai faddeu pechod  
Yn unig ond Efe.

## HYMN CCCXXIII.

*Hyder Ffydd ar yr Addewid mewn  
Cyfyngderau.*

AR dy enw mae 'r Cenhedloedd  
Yn nherfynau eitha'r byd  
Yn rhoi goglod, gan ddymunio  
Gweled tegwch d' wyneb pryd:  
Mae dy eiriau oll yn gywir,  
Llwon mawrion dynt hwy,  
I'th sancteiddrwydd pyr y tyngaist,  
All'sit dyngu i ddim oedd twy.

- 2 Bellach minau 'n eon deuaif,  
Mi ymgrymaf wrth dy draed,  
Ac mi blediaf am drysorau  
Wedi eu haddo oll yn rhad;  
Nid oes neb o tan yr wybr  
Mewn mwy diffyg, mewn mwy  
traf,  
Tlawd o'r cyfan, ond yn benaf  
Tlawd wyf, ARGLWYDD, o'th  
fwynhau.

- 3 Mae cyfyngder mawr yn rhuo,  
Ac yn bygwth f' enaid gwan,  
Profedigaeth drom ei phwysau  
Sy 'n fy rhwystro i godi i'r lan;  
Ar d' addewid 'r wyf yn gorphwys,  
Cadwa 'nghafael yno yn dyn,  
Nid oes ond y nerth tragwyddol  
Ag all faeddu 'r tralod hyn.

- 4 Nis gadawa 'r sillaf leia'  
O'th addewid fyn'd ar goll,  
Mae yn ddigon, dim ond digon,  
I mi ei hunan oll yn oll;  
P'odd y gallaf golli 'ngafael,  
Pe cawn fydoedd maith yn rhodd,  
Ar addewid sydd mor gyflawn  
O drysorau wrth fy modd?

- 5 Rhyw drysorau heb eu mesur,  
Rhyw drysorau heb ddim trai,  
Rhyw ddyfnderoedd heb ddim  
gwaelod  
Yn dy addewidion mae :  
Crynu 'r wyf ac ymafaelau,  
Glynu yn galed wrth dy air,  
F' enaid byth tra ar y ddaear,  
Dyna yr unig fan y'i cair.
- 6 Os gwaredi fi o'm cyfyngder,  
Ac os sefi ar fy rhan,  
Os gostegi rym y storom,  
Os cynheli fi i'r lan,  
Ti gai 'nhafod, Ti gai 'nghalon,  
Ti gai feddyf yn y byd,  
Ti gai 'r clod, a Thi gai 'r moliant,  
Ti gai 'r enw i Ti 'gyd.
- 7 Nid yw 'r holl greaduriaid isod,  
O ba enwau, o ba lun,  
Ddim yn ddiogol dinas noddfa,  
Pe baent yn cytuno yn un ;  
Nid oes, IESU, ond dy Hunan,  
Nid oes ond dy effeithiol ras,  
O'r pydewau dyfnion mawrion,  
Caethion, all fy nhynu 'maes.
- 8 Addunedau fy nghyfyngder,  
Deuent, ARGLWYDD, ger dy fron,  
Er dy enw, er dy ogoniant,  
Tor fy ofnau 'lawr o'r bron ;  
Ddw tosturi yw dy enw,  
Ddw sy 'n arfer trugarhau,  
Cod fy ysbryd llesg o'r moroedd,  
Tyn fy enaid bach o'r ffau.

## HYMN CCCXXIV.

*Ymestyn at y Nod.*

**N**ID yw y ddaear fawr i gyd  
Ddim teilwng o fy serch a'm  
bryd,  
Nac unrhyw wrthddrych yn y byd ;  
'Rwy 'n caru gwrthddrych mwy ;  
Nid llai y sawl wy 'n garu yw,  
Na pherffaith ddyn, a pherffaith  
Ddw,\*  
Dyoddefodd unwaith farwol friw,  
O werthfawrocac glwy'!

\* Yn Argraffiad 1762 fel hyn,—"Na pher-  
ffaith ddyn yn un & Ddw."

- 2 Ni fedr tafod mewn un modd,  
I ddodi 'th ras i maes ar g'oedd,  
Nag anfeidroldeb maith dy rodd,  
Dy gariad a dy hedd :  
Pe deuai 'r saint o'u bron i gyd,  
Sy 'n canu 'n awr mewn nefol fyd,  
Nis gallent fyth i draethu 'nghyd,  
Mor deced yw dy wedd.
- 3 Ti roddest ynof 'n awr yn nglŷn,  
Egwyddor nefol bur ei rhin,  
Fel nad oes dim ond Ti dy Hun,  
Fyth bellach wna fy modd :  
O dere, ARGLWYDD, dere yn glau,  
Gad i mi bellach dy fwynhau,  
Ateba 'r tuedd pur di-drai,  
A roddest i mi 'n rhodd.
- 4 Ni fyddai bywyd maith pe cawn,  
Ond di-ddim a di-sylwedd iawn,  
Heb gael rhyw ran o'th nefol ddawn  
Yn wastad i'w mwynhau ;  
'D oes un o'm holl synwyrâu i gyd,  
Nac un o nwydau 'm henaidd drud,  
A gwrthddrych iddo yn y byd ;  
Am hyny dere yn glau.
- 5 'Rwy 'n dlawd, 'r wy 'n dlawd o oll  
yn awr,  
Nid wy 'n cytuno dim â'r llawr,  
'R wy 'n gruddfan tan anobaith  
mawr,  
Os hebot rhaid im' fyw ;  
Ac nid oes dim o tan y ne'  
Wna fyny 'r golled o hono Fe,  
Na dim ateba' yn ei le,  
Anfeidrol yw fy Nuw.

- 6 Yr holl wrthddrychau teg 'eu pryd,  
Ag wy 'n eu caru oreu 'gyd,  
O gongl faith i'r llall o'r byd,  
Ddiflanant wrth dy glun ;  
Os unrhyw eilun ar y don  
A gais rhyw loches tan fy mron,  
Yn union mi ffeiddiaf hon,  
Mi 'th garaf Di dy Hun.
- 7 Wel dyma 'r cariad sydd yn awr,  
Yn curo pob cariadau 'lawr,  
Yn llyngcu enwau gwael y llawr  
Oll yn ei enw ei Hun ;  
O fflam angerddol, gadarn, gref,  
O dân enynwyd yn y nef !  
Tragwyddol gariad ydyw Ef,  
Wnaeth Ddw a minau yn un.

- 8 'Dyw tad a mam, a brawd a chwaer,  
A gwraig a phlant, a phawb a'm câr,  
A'm holl gyfeillion ar y ddaear,  
Ond di-ddim wrth dy glun ;  
Hebot 'd ynt ond dim erioed,  
O honot mae eu da yn d'od,  
Ni raid 'chwanegiad yno i fod,  
Y lle b'ost Ti dy Hun.

## HYMN CCCXXV.

*Yr Ail Ran.*

- N**ID oes ond f' ARGLWYDD, mawr  
ei ddawn,  
A leinw f' enaid bach yn llawn,  
Ni's gallwn ddala mwy pe cawn,  
Mae Ef yn ddigon mawr ;  
A digon, digon, digon yw  
Dy hyfyd bresenoldeb gwiw,  
Yn angu ceidw hyn fi 'n fyw,  
A bodlon wyf yn awr.
- 2 Doed y trueiniaid bawb yn nghyd,  
A rhanent holl drysorau 'r byd,  
Meddiant ei bleserau i gyd,  
Mewn eithaf blys a chwant ;  
Nid yw y rhai'n ond llwch y llawr  
I bwyso heddwch f' ARGLWYDD  
mawr ;  
A gwedd ei wyneb, oleu wawr,  
Sy 'n gyru 'r nos i bant.
- 3 Anfeidrol berffaith sanctaidd Fod,  
Gwna i mi wel'd na chawd erioed,  
Ac na cheir pleser tan y rhod,  
Yn rhagor na 'th fwynhau ;  
Wel dyma 'r oriau gofawr mwy,  
A'r pleser gefais ynddynt hwy  
Ddymunaf bellach fyth tra f' wy',  
Yn unig i barhau.
- 4 Wel fflowch ar ffrwst, bleserau 'gyd,  
Diflenwch oll, wrthddrychau'r byd,  
Na b'och gael effaith ar fy mryd,  
I'm dwyn oddiwrth fy Nuw,  
Doed tân a diluw yn gyntun,  
Aed dw'r a daear fawr yn un,  
Mi fyddaf yr hapusaf ddyn,  
Mae 'm IESU eto 'n fyw.

- 5 A phe diffodai 'r haulwen fawr,  
Pe syrthiai ser y nen i lawr,  
A phe diffygai 'r foreu wawr,  
A thywyllwch gael ei le ;  
Cawn drigo mewn sancteiddiol dir,  
Yn llewyrch Haul cyfiawnder pur,  
Tragwyddol faith ddiwrnod clir,  
O fewn i furiau 'r ne'.
- 6 Pan collo gwellt y maes eu dawn,  
A'r wybr faith ei boreu a nawn,  
A distryw dd'od yn gyfan iawn  
Ar nef a daear lawr ;  
Caf weled sanctaidd newydd dir,  
O degwch ac o bleser pur,  
Yn tarddu 'maes o'r Duwdod gwir,  
Gyda gogoniant mawr.
- 7 Ac yno, f' enaid bach, ti gai  
Dragwyddol bleser i'w fwynhau,  
N' all angel fyth, ond dyn yn llai,  
Yn hollol ddodi 'maes ;  
Ond digon yw i'm henaidd gwan,  
Myfi gaf esgyn, gwn, i'r lan,  
Ac yfed yno yn y man  
Fyth o afonydd gras.
- 8 O tor fy llyfetheiriau 'n glau,  
Mae hiraeth arnaf dy fwynhau,  
A dwg fi 'maes o'r carchar clai,  
Rho fy nghadwynau 'n rhydd ;  
Rhy fach, rhy brin i mi yn awr,  
Yw 'r holl greadigaeth eang, fawr,  
'R wy 'n gruddfan beunydd ar y  
llawr.  
Am wel'd y boreu ddydd.
- 9 Myfyrio am fyn'd sydd felus iawn,  
Mae f' enaid eisoes foreu a nawn  
Am gynefino ei nefol ddawn,  
A chwareu ei adain bur :  
Fel pe b'ai am anturio 'n hy',  
Trwy ganol y cymylau fry,  
A neidio i mewn i blith y llu,  
Lle mae 'r Messiah gwir.

## HYMN CCCXXVI.

*Yr Ailwch a'r Canaanaeid.*

**P**A beth a wnaif fi yma yn byw,  
Yn mhell, yn mhell oddiwrth  
fy Nuw ?  
Mewn gwledydd sychion drwg eu  
rhyw,  
Lle diange pob mwynhau ;

- Os llewyrch bach o oleuni cawn  
Ar ol cymylau duon iawn,  
Daw tymhestl eilwaith cyn pryd-  
nawn  
O ddychryn, aeth, a gwae.
- 2 Mae 'ngofid yn yr ardal hon  
Yn d'od yn mlaen o don i don,  
'D oes ond gruddfanau tan fy mron,  
'D wy 'n gwneuthur dim lleshad ;  
Yn mysg dyeithriad eon, hy',  
Gelynlion duon, creulon, cry',  
Oddiwrth y sawl a garaf fi,  
Yn mhell o dŷ fy Nhad.
- 3 Wel dyma 'r ardal, dyma 'r maes,  
Lle y teyrnasa angeu glas,  
A phechod cryf, a Satan gas,  
A drygau o bob rhyw ;  
Mae 'ngwlad a 'mhleser i i gyd,  
Fy serch, fy ngobaith, a fy mryd,  
Fy Nghariad gwerthfawrocaf drud,  
Mewn gwledydd gwell yn byw.
- 4 O gwna i mi wyllo bob yr awr,  
'R wy'n rhodio tan beryglon mawr,  
Ac nid oes dim ond llewyrch gwawr  
Dy wyneb gwridog, gwyn,  
Wna i mi deithio 'r anial nos,  
'R hyd llwybr cyfyng angeu'r groes,  
Myfyrio am dy farwol loes,  
Ac hefyd canu hyn.
- 5 Pan ymddatodo 'r tŷ o bridd,  
A'm henaid i ddihengau yn rhydd,  
O'r holl gadwynau cryfion sydd  
Yn dala 'n awr yn dyn,  
Caf deimlo pleser uwch y rhod,  
Na ddaeth i galon dyn erioed,  
I feddwl nac i greu fod  
Y fath fwynhad a hyn.
- 6 Chwy-chwi, ffynonau'r bywyd gwir,  
Afonydd o bleserau pur.  
Chwi lifwch tros holl anial dir  
Fy enaid llesg ei wedd ;  
Chwi lenwch yr eangder mawr,  
Y nwydau sydd yn wag yn awr,  
Ac yn hiraethu bob yr awr  
Am bleser draw i'r bedd.
- 7 Fe gaiff fy serch, fe gaiff fy mryd,  
Ei lanw yn lân ar hyn o bryd,  
Pob rhan yn llwyr o'm henaid drud,  
A gaiff ei nefol ddawn ;

Pob rhywddymuniad gaiff fwynhad  
Anfeidrol faith, anfeidrol rad,  
Pan ddihunwyf yn y nefol wlad,  
A'th ddelw Di yn llawn.

- 8 Pob hiraeth, pob sychedig ddawn,  
Fydd marw mewn llawenydd llawn,  
Ac enw gobaith mwy ni's cawn,  
Nac cisieu byth na thrai :  
Ond rhyw bleserau maith di-lyth  
Heb drai na therfyn iddynt fyth,  
Yn sicr fel mynyddau syth,  
Cawn bellach i'w mwynhau.
- 9 Fy Nw, fy Nw i gyd ei Hun  
Fydd fy anfeidrol gariad cun,  
Llawenydd anchwiliadwy 'n un,  
A chariad o hono dardd ;  
Eangder o oleuni clir,  
Mwy dysglaer nag o'r dwyrain dir,  
Môr o bleserau perffaith, pur,  
Gwrthddrychau nefol hardd.
- 10 Llawenydd bythol i'w fwynhau,  
Byth ar fy nghoryn yn ddi-drai,  
A chariad perffaith i barhau,  
Heb 'nabod diwedd mwy ;  
Galar a gruddfan ymaith ffy,  
Achwynion a chystuddiau lu,  
A 'medy yn y nefoedd fry,  
Trwy rinwedd marwol glwy'.

### HYMN CCCXXVII.

*Hiraeth am fwynhad o DDUW.*

O ARGLWYDD, gad im' dy  
fwynhau,  
Ac onide 'r wy 'n llwfrhau,  
B'le ffeindir i mi tan y ne'  
Un math o gysur yn dy le.

- 2 Pan byddost Ti, y Ffynon fawr,  
Yn cadw 'th ffrydiau gloew 'lawr,  
Beth wna 'r pererin gwael ei lun,  
Ond trengu o syched wrtho ei hun ?
- 3 Rhy drwm yw 'm hofnau 'gyd o'r  
bron,  
Rhy drwm yw 'r cystudd tan fy  
mron,  
Ni wna fy ofnau ond parhau,  
Nes cael dy wyneb i'w fwynhau.

- 4 Pe cawn gysuron o bob rhyw,  
O fewn dy holl greadigaeth wiw,  
Os cuddio wnaid dy wyneb cu,  
Mae 'n uffern eilwaith arnaf fi.
- 5 Duw 'r Heddwch boed dy enw im',  
'Wna creadur wed'yn imi ddim ;  
Os nid yn oll bydd fy ARGLWYDD  
cun  
Ni chytuna 'm henaid âg e' i hun.
- 6 Fel dysgwyl y gwyllydd prudd,  
O awr i awr am oleu 'r dydd ;  
A felly finau, o bryd i bryd,  
Sy 'n dysgwyl am dy wyneb pryd.

### HYMN CCCXXVIII.

*Cariad.*

- 'R WY 'n dy garu, fy anwyl  
DDUW,  
Yn well na phleser o bob rhyw,  
'R wy' yn dy garu, dyna i gyd  
Fy holl ddyddanwch yn y byd.
- 2 Ni 's gallaf ddim fynegi p'odd  
Yr wyt Ti 'n ddigon wrth fy modd ;  
Datgudir y dirgelwch pur  
Yn hollol yn y nefol dir.
- 3 Pan dysgwyf 'nabod iaith y wlad,  
A pher ganiadau tŷ fy Nhad,  
Dechreuaf gân am farwol glwy'  
Na chlywir diwedd arni mwy.
- 4 Can's mae dy harddwch, IESU  
mawr,  
Yn fwy na harddwch nef a llawr ;  
A harddach, harddach fyth o hyd,  
Yw hyfryd wedd dy wyneb pryd.
- 5 Yn mhen rhyw oesoedd rif y gwllith,  
Fe wel y saint Di harddach fyth ;  
A blas o newydd iddynt hwy,  
Fydd canu am dy farwol glwy'.

### HYMN CCCXXIX.

*Dysgwyliad wrth DDUW.*

O NA ymguddia, f' ARGLWYDD  
cun,  
Oddiwrth fath bryfyn gwael ei lun,

- Sy 'n teithio trwy bob poen a gwae,  
Yn methu beunydd dy fwynhau.
- 2 Dy bresenoldeb sy mor fawr,  
Yn llanw yn hollol nef a llawr,  
Ond heb gael gwel'd dy wyneb cu,  
Pa gysur ydyw hyn i mi ?
- 3 'R wy'n 'mofyn yn dy deml lân  
Dy wel'd fel gwelais Di o'r blaen ;  
'D oes ond dy ŵg wna im' dristau,  
Dy wên yn wastad lawenhau.
- 4 Mi welais wedd dy wyneb gwyn,  
Mewn dirgel leoeidd, do cyn hyn ;  
'R un syched heddyw, a'r un cais,  
Sydd ynof am dy hyfryd lais.
- 5 A gaf ond hyny wel'd dy wedd ?  
Ond hyny brofi o dy hedd ?  
Dy heddwch sy mor fawr ei rym,  
Mae 'm nerth i hebddo 'n myn'd  
yn ddim.
- 6 Pa bryd gwasgara 'r tywyllwch du,  
Cymylau o anobaith cry' ?  
A'r boreu 'r wawr i dywynu 'n rhad  
O bur gynteddau tŷ fy Nhad !

### HYMN CCCXXX.

*Duw oll yn oll.*

- Y MAN b'ech Di, fy ARGLWYDD-  
mawr,  
Yn rhoi dy nefol hedd i lawr,  
Mae holl hapusrwydd maith y byd,  
A'r nef ei hunan yno i gyd.
- 2 Ac nid oes dim ond uffern ddu  
O fewn y fynwes na b'ost Di ;  
Tywyllwch yn amgylchu mae,  
Ac ofn, ac aeth, a dychrynfâu.
- 3 Nid oes na haul, na ser, na lloer,  
Na daear fawr a'i holl ystor,  
Na brawd, na chyfaill, dâ, na dyn  
A'm plesia hebot Ti dy Hun.
- 4 Nis gall angylion nef o'r trwch,  
I godi 'm hysbryd gwan o'r llwch ;  
'D yw peth creuedig ddim i mi,  
Heb fod mewn undeb â Thydi.

5 'D yw 'r gair maddeuant i mi ddim,  
Nid oes mewn gweddi rony'n grym;  
Llais heb ddim sylwedd y'nt i gyd,  
Heb i mi wel'd dy wyneb pryd.

6 Na soniwch am un pleser mawr,  
Na dim gogoniant ar y llawr;  
Nid oes gogoniant o un rhyw,  
Na neb rhyw bleser ond fy Nuw.

7 Pan byddo 'n cuddio ei wyneb cu,  
Beth wna teganau 'r byd i mi?  
Rhith a breuddwydion diau yw  
Pob peth a welir, ond fy Nuw.

8 Os collaf wedd ei wyneb pryd,  
'D oes dim wna iawn o fewn y byd;  
'D oes dim yn bod o'r ddae'r i'r nen  
A ddwg y golled hyn i ben.

### HYMN CCCXXXI.

Can. vii. 6.—*Tegwch yr Eglwys.*

**P**RIOD-FERCH IESU tan ei nod  
Sydd iddo erioed yn ffyddlon,  
Wedi ei phwrcasu i'r nefol wlad  
A gwerthfawr waed ei galon.

2 Yn ngwres y dydd, yn mhoethder  
ha',  
Yn bur parha dy harddwch;  
Nis gall y bedd, er maint ei rym,  
Salwino dim o'th degwch.

3 Fy nghariad wyt, fy nghariad pur,  
Mi ddes o dir y bywyd,  
Des er dy fwyn o fynwes Ion,  
I ddyoddef poen a gofid.

4 A phe b'ai raid, mi ddewn yn awr  
O'r nefoedd fawr yn union;  
Dyoddefwn eto angeu du  
Tros un ag sy mor ffyddlon.

5 Nid dyfais dyn, nid geiriau 'n wir,  
Nid angel pur ei hunan,  
All ddodi 'th harddwch mawr i  
maes,  
Na'th nefol ras yn gyfan.

6 Dy degwch mawr, a'th ddoniau cu,  
Rhyfeddol eu rhifedi,  
Sy'n rhoi rhyw bleser im' fy hun,  
Na fedr dyn ei gyfri'.

7 Dy wisg sy o aur y gwledydd pell,  
A pherlau gwell eu hunain;  
Cyfiawnder annherfynol yw,  
Cyfiawnder Duw ei hunan.

8 Gwaith edau a nodwydd, grasau  
hardd  
O'th fewn a dardd yn gyson;  
Yn ffrydiau peraidd mae fy ngras,  
Yn tarddu maes o'th galon.

9 Ni welaf yn y nef i gyd,  
Nac yn y byd oddeutu,  
'D oes un mor gywir, un mor wyn,  
A hon wyf yn ei charu.

10 Y mae fy nghalon, mae fy mryd,  
Bob awr o hyd yn tynu,  
Am im' fod yno yn ddi-ffael,  
Y man b'wy 'n cael dy gwmni.

### HYMN CCCXXXII.

*Yr Ail Ran.*

**Y**R wyt Ti 'n deg, yn deg i gyd,  
O fewn y byd cwmpasog,  
Yn mhlith y rhai a gawd o ddyn,  
Nid oes yr un mor serchog.

2 Mae 'th wisgoedd gwyn yn hyfryd  
iawn,  
Fy nefol ddawn fy hunan;  
Fy aur a'm perlau dysglaer i  
A'th wisgodd di yn gyfan.

3 Fy angeu du ar ben y bryn  
Yw 'r lliain gwyn dysglaer-lan,  
Sy 'n cuddio'th noethni oll yn lân,  
Bob pryd o'm blaen fy hunan.

4 Ti est a'm bryd, ti est a'm serch,  
Anwylaf ferch y Brenin;  
Fe fydd i'm Hysbryd bellach byth,  
Tra ynot chwyth dy ganly'n.

5 Tydi yw tegwch mawr y byd,  
O gylch i gyd yn gyhoedd;  
Yr wyt ti bron, ti fyddi 'n awr,  
Yn degwch mawr y nefoedd.

### HYMN CCCXXXIII.

O'r Caniadau viii. 6.

**O** IESU 'r Arch-offeiriad mawr,  
Rho 'm henw ar dy fraich i  
lawr;  
Rho eilwaith mewn llyth'renau clir  
'Fe ar dy ddwyfron sanctaidd bur.

2 Fel, deued arnaf bob rhyw dro,  
Fyth gallwyf tod o fewn dy go':  
Na byddo arnaf unrhyw faich,  
Ond fyddo 'n pwysu ar dy fraich.

3 Na bo na phoen, na chystudd, nwyf,  
Na phrofedigaeth fyth na chlwyf,  
Na dim och'neidiau, na dim dir,\*  
Ond pwysu ar dy galon bur.

4 Fel gallwyf fyth yn sicr fod,  
Yn briod ffyddlon tan dy nod;  
Ac na bo unrhyw ofn mwy,  
Yn ddigel yn rhoi i mi glwy'.

5 A gwna fy nghariad inau 'n rhydd  
I redeg atat Ti bob dydd;  
A gwisgo 'th Enw sanctaidd llon,  
Fel seren ddysglaer ar fy mron.

6 A dod fy nghalon wag yn llawn  
O'th gariad peraidd foreu a nawn;  
Car dithau finau yn ddi-drai,  
A'r undeb yma fyth barhau.

### HYMN CCCXXXIV.

*Yr Ail Ran.*

**T**I 'r Arch-offeiriad mawr ei  
ddawn,  
Sydd o bob rhyw rinweddau 'n  
llawn,  
Gwna fi fel perlau gwerthfawr drud,  
Yn fawr, yn anwyl yn dy fryd.

\* *Dir.*—Un ystyr i'r gair yma yw *rheid-  
srydd, gorfod*; a dyma yr ystyr, mae yn  
debyg, sydd id. o yn y fau hon.

2 Dy briod wyf, ac 'r wyf yn wan,  
Dy unig nerth a'm dal i'r lan;  
Dy nerth a'th gariad, dyna hwy,  
Nid ofnaf ddim gelynnion mwy.

3 Mi ddringa 'r creigydd mawrion  
serth,  
Mi gongra Satan trwy dy nerth;  
'D yw eirth a llewod i mi ddim,  
Pan bo dy freichiau i mi yn rym.

4 Os bydd dy galon gynhes gu,  
Unwaith yn caru 'm hysbryd i,  
'D oes gofid bellach, nid oes gwae;  
Fath nefoedd ydyw dy fwynhau!

### HYMN CCCXXXV.

O'r Can. viii. 6.—*Cariad sydd gryf, &c.*

**A**NFEIDROL felus yw dy hedd,  
A chryf yw 'th gariad fel y  
bedd;  
Lle carost Di, 'd oes dw'r na tân,  
Nac unrhyw rwystr saif o'th flaen.

2 Dy gariad neidiodd uwchder mawr,  
O faith eithafoedd nef i lawr;  
Nis gall'sai tân nac afon gref,  
'I atal dim o hono ef.

3 Nis gall'sai 'r creigydd mwya' serth,  
Na fflamau uffern yn eu nerth,  
Na dim oddiar, neu is y rhod,  
Yn drech na'th gariad pur i fod.

4 Mae 'n difa 'r dw'r, mae 'n difa 'r  
tân,  
Mae 'n difa 'r cwbl oll o'i flaen;  
Y mae yn cario yn ei wedd  
Rhyw beth ag sydd yn congro 'r  
bedd.

5 Rhyw fflam angerddol, gadarn, gref,  
O fewn i'm hysbryd ydyw ef;  
Gwreichionen yw, mawr iawn ei  
rhin,  
O'r fflamau sy ynot Ti dy Hun.

6 Ac er nad ydwyf fi ond gwan,  
Ar ei adenydd âf i'r lan;  
Neu huno mewn awelon pur,  
A rhoi ffarwel i'r anial dir.



7 Anngghofio 'm cnawd, anngghofio 'r byd,  
Anngghofio 'm holl deganau i gyd;  
Ac wrth fyfyrrio ar dy hedd,  
Anngghofio angeu glâs a'r bedd.

8 Mae'th gariad gwerthfawrocaf drud  
Yn fwyd, yn ddioid i mi o hyd:  
Mae 'n gwmni, mae 'n llawenydd  
llawn,  
Mae 'n bob peth i mi foreu a nawn.

### HYMN CCCXXXVI.

O'r Can. viii. 6.

*Eiddigedd sydd gryf fel angeu.*

OND oh! eiddigedd sydd yn lladd,  
Yn greulon iawn o radd i radd;  
'D oes iddo feddyginiaeth ddim,  
Ond profi 'th gariad yn ei rym.

2 Rhyw ofnau ynwy 'n fynych mae,  
Nad yw dy gariad yn parhau;  
Neu ofni eilwaith nad wyf fi  
Yn ffyddlon yn dy garu Di.

3 'R wy 'n ofni gâd dy Ysbryd cun  
Fi deithio 'r llwybr cul fy hun;  
'R rwy 'n ofni na chaf ddim o'th  
hedd,  
Yn erbyn uffern fawr a'r bedd.

4 'R wy 'n ofni'r twyll, 'r wy 'n ofni'r  
grym  
Sydd yn mhob eilun tanbaid llym;  
'R wy 'n ofni ryw-bryd gwelai'r awr  
Y caiff fy meiau cas fi 'lawr.

5 Ond yno mae fy eiddigedd hyf,  
Yn fwyaf creulon, fwyaf cryf,  
Pan byddwyf bron ag amheu'th fod  
Heb eto 'ngharu 'n wir erioed,

6 O n'ad fy ffydd byth i wanbau,  
Nad yw dy gariad i barbau,  
Fel bo eiddigedd mawr ei rym  
O'r diwedd wedi myn'd yn ddim.

### HYMN CCCXXXVII.

Can. viii. 7.—*Dyfroedd lawer ni allant  
ddiffodd cariad, &c.*

ANFEIDROL yw dy gariad  
drud,  
A threch na 'r cwbl yn y byd;  
Rhyw fflam angerddol, gadarn, lym,  
'D oes tan y nef a'i maedda ddim.

2 Mae 'n drech na 'r dyfroedd mawr  
eu llid,  
A'r fflamau tanllyd oll i gyd;  
Nid all'sai 'r groes, a'r bicell gref,  
I ddiffodd dim o hono ef.

3 Nis gall'sai dynion creulon, hy',  
Na Satan a'i uffernol lu,  
Nac uffern fawr, na'r nef o'r bron,  
I ladd y cariad tan ei fron.

4 Gwreigionen yw o'r fflamau fry  
Enynwyd yn fy nghalon i;  
Pwy fôr, pwy ddw'r, pwy afon fawr  
A dyr fy nghariad inau 'lawr?

5 Nid ofnau, nid deniadau 'n hwy,  
Wna im' anngghofio ei farwol glwy';  
Nid uffern fawr a'r ddaear hon,  
A ladd yr awel tan fy mron.

6 Mae ynof fflamau pur o dân  
A lysg y cwbl oll o'u blaen;  
Nid einioes, ac nid angeu mwy,  
A ddiffodd ddim o honynt hwy.

7 Nid goleu 'r dydd, na thywyll nos,  
Na gwynfyd llawn, neu ynte'r groes,  
Neu angel pur, neu ynte ddyn,  
Na chnawd, na Satan yn gyfun.

8 Pe c'nygid cyfoeth i mi 'n rhodd,  
Neu fri neu bleser wrth fy modd,  
Gwrthodid hwynt gan gariad drud;  
I gariad, gwagedd y'nt i gyd.

9 Diystyra cariad,—cariad cu,  
Oll a gystadlo â Thydi;  
'D yw gorsedd-feingciau iddo fe  
Ddim ond rhyw sorod yn dy le.

### HYMN CCCXXXVIII.

Job xxxv. 10.—*Yr Hwn sydd yn rhoi  
achosion i ganu y nos.*

TYDI fu 'n dyoddef ar y groes,  
Wna 'n henaid ganu ganol  
nos  
Mewn t'w'llwch, mewn cymylau o  
lid,  
Nes elo 'r t'w'llwch heibio 'gyd.

2 'Does dim a ddeil ein henaid gwan  
Tan orthrymderau 'r byd i'r lan,  
Ond rhyw lawenydd dystaw, main,  
I ganu, a diystyru rhai'n.

3 Wel dyma 'r gân ddymunaf mwy,  
Sef canu am dy farwol glwy';  
Ac nid oes arall wna iachad,  
Ond canu yn unig am dy waed.

4 Tan holl gystuddiau 'r ddaear hon,  
Tan bob gorthrymder oll o'u bron,—  
Mi âf trwy 'r dw'r, mi âf trwy 'r  
tân,  
Ond cael d' orfoledd i mi 'n gân.

5 Ni ddaw picellau'r ddraigim' m'cwrrd,  
Mi gana 'm temtasiynau 'ffwrdd;  
Nid ofnaf ddim a fo o'm blaen  
Ond cael d' orfoledd i mi 'n gân.

### HYMN CCCXXXIX.

Can. Solomon iv. 16.—*Deffro ogledd-  
wynt, tyred ddeheu-wynt, chwyth ar fy  
ngardd, &c.*

OTYRED y gogledd-wynt clir,  
Anadla ar dy lysiau pur;  
Ac oni ddeui mewn iawn bryd,  
Fe wywa 'r grasau oll i gyd.

2 Tyr'd â'r awelon hyny 'lawr,  
Sy 'n deffro 'r arg'oeddiadau mawr;  
Tyr'd dithau y deheu-wynt drud  
Sy 'n codi 'n henaid uwch y byd.

3 Doed pob awelon yn eu lle,  
I godi 'm hysbryd tua thre';  
Gwnaed pob rhyw foddion, pob  
rhyw ddawn,  
I'th lysiau ber-argli 'n iawn.

4 Fel byddo pob rhyw nefol ras,  
Yn taenu sawyr pur i maes;  
A phob tymherau yn eu rhyw,  
Oll yn croesawi fy anwyl DDUW.

5 O tyr'd i'th ardd, f' Anwylyd pur,  
Mae 'r amser hebot yma 'n hir,  
Bwyta dy frwyth o nefol rin,  
Y llyisiau blenaist Ti dy Hun.

### HYMN CCCXL.

*Fy Anwylyd sydd wyn a gwridog.*

OS gofyn neb sydd ar y llawr,  
P'am cara'i 'n llyn fy IESU  
mawr?  
Pe gwelai pawb Ef fel y mae,  
Doi 'r byd i'w garu yn ddi-lai.

2 'D oes unrhyw harddwch yn y byd,  
Nac un o fewn y nef i gyd,  
Na gras, doethineb, nerth, na dawn,  
Nad yw ef yn fy IESU 'n llawn.

3 Mae 'n wyn, mae 'n sanctaidd,  
mae 'n ddi-fai,  
Mae 'n wridog,—colli ei waed a  
wnai;  
Mae 'n iawn tragwyddol, aberth  
mawr,  
Yn gymhwys i mi, llwch y llawr.

4 'N awr Brenin y breninoedd yw,  
Uwch i'w gymharu â dynolryw;  
Rhinweddau 'r Duwdod yn gyfun,  
Sy 'n awr yn ddysglaer ynddo ei  
Hun.

5 Mewn pleser di-drai, iddo Ef  
Mae 'n canu 'n gyson nef y nef;  
Cerubiadaid a seraphiaid cun,  
I gyd yn seinio eu cân yn un.

### HYMN CCCXLI.

*Yr Ail Ran.*

RHAGORI mae ar oll i gyd,  
O'r gwyhaf bethau yn y byd,  
Nid yw breninoedd mawr eu grym;  
I sefyll wrth ei ochr ddim.

2 'D yw 'r aur a'r arian yma i gael,  
Na 'r perlau 'gyd, ond sorod sal;  
Na 'r holl fwn-gloddiau mawr eu  
bri,  
Yn gymhar ddim i'm HARGLWYDD  
cu.

3 Pe byddai wedi eu casglu yn nghyd,  
Holl werthfawroca' bethau 'r byd,  
Y mae ei Hun yn ganmil mwy  
Na chymaint arall 'honynt hwy.

4 'D yw tad a mam, a brawd a  
chwaer,  
Na gwraig, na phlant, a phawb a'm  
câr,  
Ond pethau i 'madael â hwy yn un,  
Cyn colli ei gwmni Ef ei Hun.

5 Mae sugn yn ei gariad cu,  
Mae 'n dwyn fy enaid fyny fry;  
Pan bwyf yn aros wrth ei glin  
Nid wyf fi ddim yn eiddo f' hun.

6 Ped awn i geisio dodi 'maes  
Hawddgarwch dy anorchfygol ras,  
Mi lwfrhawn—fyth, fyth nid gwiw,  
A d'wedwn—Annraethadwy yw.

7 Deng mil o angylion nef o'u bron,  
Deng mil o seintiau 'r ddaear hon,  
A deng mil ereill lawn, nid yw  
Ond dim yn ochr Iesu 'm Duw.

### HYMN CCCXLII.

Can. iii. 11.—*Ewch allan, ferched Seion,  
ac edrychwch ar y Brenin, &c.*

**D**EWCH, ferched Seion, dewch  
yn llu,  
Dewch allan i ryfeddu,  
A gwel'd eich Brenin gwrïdog,  
gwyn,  
Yr awr hon yn teyrnasu.

2 Fe wisgodd unwaith cyn prydawn,  
Yn dawel iawn a diddig,  
Er cymaint poen oedd pigau main  
Y goron ddrain blethedig.

3 Fe ddarfuei boen, 'nawr gwelwch E  
O fewn y ne'n dysgleirio;  
Mewn gwisg gogoniant pur, di-nam,  
A rodd ei fam am dano.

4 Tragwyddol glod, a mawl di-drai,  
Yw 'r goron mae yn wisgo;  
Ei nerth, a'i ras, a'i farwol glwy',  
Yw 'r cariad mwy fydd iddo.

5 Dewch allan bellach, dewch ar frys,  
Gadewch eich blys anwyla';  
Edrychwch ar y Brenin, dewch,  
Ac yna cewch eich gwala.

6 Dydd ei ddyweddi heddyw yw,  
Diwrnod Duw ei Hunan;  
Ei Hun bu 'r achos hono fod,  
Boed iddo 'r clod yn gyfan.

### HYMN CCCXLIII.

*Yr Ail Ran.*

**O**H, Brenin mawr! Oh, D'wysog  
cun!  
'D oes iddo un yn gymhar;  
Na neb i wisgo gydag Ef  
Ogoniant nef a daear.

2 Wel dyma'r dydd mae'n llawenhau  
I wel'd ei rai anwyla',  
Yn ei briodas bur yn cwrdd,  
Ac ar ei fwrdd yn gwledda.

3 Priodas yw, a rhwym di-lyth,  
Na thorir fyth o'r undeb;  
Gorfoledd yw, a hwn barha  
Hyd eitha' tragwyddoldeb.

4 Rhowch arno 'ch goglud oll i gyd,  
Eich serch a'ch bryd yn gryno;  
Ac nid oes arall a gaiff hawl  
Ond ef, y sawl a gredo.

5 Gadewch y byd, mae 'n myn'd ar  
goll,  
Gadewch ei holl eilunod;  
Dewch i'r briodas bawb yn nghyd,  
Pob peth sy 'gyd yn barod.

6 Mae 'r Brenin mawr yn hardd ei  
ddrych,  
A'i wisgoedd gwych oddeutu,  
Mae perlau drud ei werthfawr ras  
I gyd i maes yn tywynu.

7 Mae 'r goron werthfawr, auraidd,  
glir,  
Effeithiau pur ei haeddiant,  
Na phan y cafodd farwol glwy'  
Yn llawer mwy 'i gogoniant.

### HYMN CCCXLIV.

*Y Drydedd Ran.*

**W**EL, dyma'r dydd, nid yw ond  
gwawr,  
Goleuni mawr sy 'n dyfod;  
Pan delo Ef, a'i lu i gyd,  
I gwrdd yn nghyd â'i briod.

2 Pryd hyn y cân nefolaidd lu,  
Angylion di-rifedi;  
I wel'd yr undeb mwya' erioed  
'N awr wedi d'od i fyny.

3 A chlod ar glod di-drai ei ras  
Ledaena 'maes mor helaeth,  
Nes seinio trwy holl entrych ne',  
Am ddyfais iechydwrïaeth.

4 Gad in', Dywysog mawr ei fri,  
I fod a Thi mewn undeb;  
Ac eistedd yn dy wleddoedd braf  
Hyd eithaf tragwyddoldeb.

### HYMN CCCXLV.

Can. i. 12.—*Tra yw y Brenin ar ei  
fwrdd, &c.*

**'N**AWR ar ei fwrdd mae 'r  
Brenin mawr,  
Mewn gwisg o gariad hyd y llawr;  
Yn rhoddi 'n rhad o'i hyfryd wledd  
I mi faddeuant llawn a hedd.

2 Pan byddo 'n eistedd yno ei Hun,  
Mae 'm holl rasusau yn gytun,  
O fwy rhinweddau 'n tori 'maes,  
Nag afon ar y crin-dir cras.

3 Mae per-aroglau cariad pur,  
Yn myn'd ar adain dawel, bur;

Ac yn cofleidio oll i gyd  
Gyfeillion Iesu yn y byd.

4 Pan b'wy'n dy weled wrth fy nghlun  
'Rwy'n canu'n beraidd wrth fy hun;  
'D oes ynwy' ras, ac nid oes dawn  
Nad yw 'n blaguro 'n hyfryd iawn.

5 Haul hyfryd yw i'm henaid gwan,  
Sy 'n rhoddi 'r grasau dardda i'r  
lan;  
Mae 'm henaid egwan wrth ei fodd  
Pan t'wyno ei lewyrch arna'i 'n  
rhodd.

6 Ond os absenol fydd Efe,  
A chwmwl dudew yn ei le,  
Ni feddaf ddim ond poen a gwae,  
Dim ond anghredu a llwfrhau.

7 Yn union pan y delo 'n ol,  
A minau 'n huno yn ei gol,  
'D oes ynof ras, 'd oes ynof ddawn,  
Nad yw 'n arogl 'n hyfryd iawn.

8 Yn fuan tyr'd, fy ARGWLWYDD cun,  
O eistedd wrth dy fwrdd dy Hun,  
A boed dy wleddoedd i barhau,  
A minau byth i lawenhau.

### HYMN CCCXLVI.

Can. viii. 3.—*Ei law aswy, &c.*

**F**Y IESU, Pentywysog nef,  
Nid oes gyffelyb iddo Ef;  
Cael huno yn ei gariad drud,  
Sydd fil o weithiau'n well na'r byd.

2 Mae ei law aswy fawr ei grym  
O tan fy mhen, nid ofnai ddim;  
Ei ddeheu sydd yn fy mawrhau,  
A phob cysuron pur di-drai.

3 Ei bresenoldeb sydd yn d'od  
I mi â'r pleser mwya' erioed;  
Ei allu mawr a'i gariad drud,  
Sydd yn gymdeithion im' o hyd.

4 Wel, dyma f' enaid wedi d'od,  
I'r man dymunais ganwaith fod,  
I gael mwynhad o'i gariad Ef,  
Arfaethwyd cyn sylfaenu 'r nef.

- 5 O groeso, groeso, nefol rodd,  
'D oes arall bellach wrth fy modd,  
Ond cael bod yn dy freichiau mwy,  
A chanu am dy farwol glwy'.

—  
HYMN CCCXLVII.

Can. i. 2.—*Dy gariad sydd yn well  
na'r gwin, &c.*

**Y** MAE dy gariad mawr ei rin  
Yn llawer gwell na'r melus  
win ;

Fe ddwg, fe god fy enaid gwan,  
O ddyfnder ofnau mawr i'r lan.

- 2 Pan byddwyf mewn tywyllwch du,  
Yn nghanol torf o elynion hy',  
Fe dyn dy gariad pur fi maes,  
I ganu 'r gwaredigol ras.

- 3 Pan byddo ofnau o bob gradd  
Yn gwasgu 'n galed bron fy lladd,  
Rhyw nerth sydd gan dy gariad cun  
I dd'od a'm henaid ato ei hun.

- 4 Mi deithia'r nos, mi deithia'r dydd,  
Mi deithia'r creigydd mwya' sydd ;  
Nid ofnaf eirth a llewod ddim,  
Ond bod dy gariad i mi 'n rym.

- 5 Nid ofuaf ddim o'r diluw mawr  
Sy 'n bygwth i orchuddio 'r llawr ;  
Na'r afon gref, a'r môr a'i don,  
Ond bod dy gariad tan fy mron.

- 6 Mi allaf fod wrthf fy hun,  
Heb gwmi'r byd, neu gwmi dyn,  
Heb unrhyw gysur tan y nef  
Ond huno yn ei gariad Ef.

—  
HYMN CCCXLVIII.

Can. vii. 11.—*Tyred, fy Anwylyd, awn  
i'r maes, a lletywn yn y pentrefydd.*

**T**YR'D, fy Anwylyd, tyr'd i maes,  
O dwrf y byd a'i ddwndwr  
cas ;

I mi gael dy gymdeithas gan,  
Yn ddystaw lonydd wrthf f' hun.

- 2 Ac yno caf fi wir dristau,  
Ac yno hefyd lawenhau ;  
A gwel'd yn eglur yn y fan  
Dy fod dy Hunan i mi 'n rhan.

- 3 Yn dy gwmpeini gwerthfawr, drud,  
Mae pob pleserau yn casglu 'nghyd ;  
Un awr, un fynyd fach o'th hedd  
Sydd fwy na'r werthfawrocwaf wledd.

- 4 Awn i'r pentrefydd cyn hwyrhau,  
Lle mae terfysgau 'r byd yn llai ;  
Cawn garu yno o awr i awr  
Nes gwawrio tragwyddoldeb mawr.

- 5 Cawn lechu 'n dawel yno 'nghyd,  
Anghofio poen, anghofio 'r byd,  
Dibrisio 'r cwbl fis y rhod,  
A llawenhau mewn dydd sy'n d'od.

- 6 O dere, ARGLWYDD, dere 'n glau,  
Mae 'n awr yn tynu at hwyrhau ;  
Mae twrf a rhwysg y ddinas fawr  
Yn curo 'm henaid bach i lawr.

—  
HYMN CCCXLIX.

Can. i. 3.—*O ran arogl dy enaint dai-  
onus, enaint tywalltedig yw dy enw,  
am hyny y llangesau a'th garant.*

**T**I yw 'r Arch-offeiriad mawr ei  
ddawn,  
Tywalltwyd enaint arno 'n llawn ;  
Olew llawenydd mawr ei rin,  
Uwch dy gyfeillion bob yr un.

- 2 Mae dy aroglau 'n taenu 'r maes  
Yn mhlith gwryfon, nefol ras ;  
Yn enyn tân, ond braf ei ddawn,  
Sy 'n llosgi foreu a phrydnawn.

- 3 Dy gariad Di yw 'r enaint gwir  
Sy 'n tynu serch gwryfon pur,  
Fel nad oes cariad gan yr un  
Tu yma 'r nef ond Ti dy Hun.

- 4 Mae dy enwau, o ba bynag ryw,—  
Dy enw yn ddyd, dy enw yn DDUW,

HYMN CCCLI.

*Haeddiant yr Oen.*

'**D**OES arnaf eisieu yn y byd  
Ond golwg ar dy haeddiant  
drud,  
A chael rhyw brawf o'i nefol rin,  
I 'mado yn lân â mi fy hun.

- 2 'R wy' yn ei wel'd, ei wel'd o bell,  
Na'r cwbl dan yr haul yn well,  
Ond O! na allwn ddringo 'n awr  
I'r man lle mae 'n dyferu 'lawr.

- 3 Er bod dy haeddiant gwerthfawr,  
drud,  
Yn fwy na 'r nef, yn fwy na'r byd,  
Yn rhyw anfeidrol berffaith iawn,  
'R wy 'n methu gorphwys arno 'n  
llawn.

- 4 Rhyw ymdrybaeddu yn fy ngwaed,  
Yn nghanol dyrus anial wlad ;  
Yn ceisio dringo fyth i'r lan,  
Heb eto dd'od i'r hyfryd fan.

- 5 O flaen y drugareddfa fawr,  
Yn trengu wrth dy draed i lawr,  
Gwel y pechadur dua gaed  
Yn brefu am rinweddau 'th waed.

—  
HYMN CCCLII.

*Brefu am Gyfiawnder.*

**Y**N yr anial 'r wyf yn gruddfan,  
Ymdrybaeddu yn fy ngwaed,  
Nid yw 'r chwant sydd arnaf godi  
'N abl fy rhoi ar fy nhraed ;  
Do, fe 'm lladdwyd gan ddymuniad,  
Ac nid yw dymuno im',  
Ragor na gwneud i mi 'n oleu  
Nad oes ynof ronyn grym.

- 2 Mae oedfaon yn myn'd heibio,  
Dyddiau wedi eu treulio 'maes,  
Heb ddim cyfri 'n awr o honynt,  
Ond gruddfanu am dy ras,  
Rhaid i mi gael mwy na hyny,  
Dy gyfiawnder i mi 'n rhan,  
Onide yn siwr mi drengaf  
Cyn y delwyf byth i'r lan.

Offeriad, Prophwyd, Brenin mawr,  
Oll yn arogl yn bêr yn awr.

- 5 Y mae gwryfon sanctaidd, cun,  
Yn canu i'th Enw yn gytun ;  
Ac mae dy deitlau yn rhoi blas,  
Uwch holl bleserau 'r ddaear las.

- 6 IESU 'r Offeiriad sydd yn awr  
Yn pledio o flaen yr orsedd fawr ;  
A IESU 'r Brenin mawr ei fraint  
Sy 'n llywodraethu yn mhlith y  
saint.

- 7 Ni 'th garwn Di, anwylaf Oen,  
Pa gyflwr bynag ynddo b'on ;  
Ni 'th garwn mwy tra ynom  
chwyth,  
Ac yn y nef ni 'th garwn fyth.

—  
HYMN CCCL.

*Yr ARGLWYDD yw fy Nerth.*

**G**ELYNION sydd o fesur mawr,  
Yn curo f' enaid bach i lawr ;  
Rhaid i mi gael dy nefol ras  
Cyn gallwy 'n hollol gario 'r maes.

- 2 Cryf yw dy fraich, mawr yw dy  
rym,  
Nid oes a saif i'w herbyn ddim ;  
Gair o dy enau Di dy Hun  
Ladd fy ngelynyon bob yr un.

- 3 Mawr iawn yw 'r gongcwest hyny  
gaed  
O ddechreu 'r byd yn rhin dy waed,  
'R un rhyw elynion ydynt hwy,  
'N awr sy 'n gwrth'nebu 'th farwol  
glwy'.

- 4 Dy Hunan yw yr oll i gyd  
A welir yma yn y byd ;  
Dy Hunan yw rydd farwol glwy'  
I'm holl elynion, pe baent fwy.

- 5 Rho i mi lechu yma yn glyd,  
Tu hwnt i swm fy meiau 'gyd ;  
Uwch twrf a themtasiynau 'r llawr,  
Tan gysgod dy gyfiawnder mawr.

3 Pa le bynag yr edrychwyl,  
Tua 'r llawr, neu ynte i'r lan,  
D'rysu 'n rhyw le ynof f' hunan  
'R wyf heb symud dim o'r fan ;  
Ceisio gwneuthur, methu gwneuthur,  
Ffaeluw pwyso ar dy rym,  
Oni ddeui i'r maes dy Hunan,  
A fy nymuniadau 'n ddim.

4 O gyfiawnder pur tragwyddol !  
O gyfiawnder maith di-drai !  
Rhaid i'm henaidd noeth, newynllyd,  
Gael yn fuan dy fwynhau ;  
Rho dy wisg ddysglaer-wen, oleu,  
Cuddia 'm noethni hyd y llawr,  
Fel nad ofnwyf mwy ymddangos  
Fyth o flaen dy orsedd fawr.

5 Nid oes genyf ddim ond bratiau,  
Dail yw'm gwisgoedd goreu 'gyd,  
Tân digofaint oll a'u difa,  
Llysg y sofr cras yn nghyd ;  
Gem a pherlau gwerthfawrocaf,  
Gwell nag eiddo 'r India draw,  
Yw 'th gyfiawnder i ymddangos  
O fy mhlaidd y dydd a ddaw.

6 Wrth yr orsedd n'ad fi feddwl  
Am ddim haeddiant tra f'wyf  
byw,  
Nac adduned, na dymuniad,  
Na dyledswydd o un rhyw ;  
IESU yn unig tan y fflangell,  
IESU yn hongian ar y groes,  
Bydded i mi yn ddifyrwrch  
O foreuddydd hyd y nos.

7 Dyma 'r fan, a thyma 'r cysgod,  
Dyma'r trysor gwerthfawr, drud,  
Ddal fy enaid yn y corwynt,  
Dyfroedd mawr anfeidrol lid ;  
Dyma yn unig wyf yn geisio,  
Dyma geisiaf tra f' wyf byw,  
Bwyta, yfed byth, a gwisgo  
O gyfiawnder pur fy Nuw.

## HYMN CCCLIII.

CRIST *oll yn oll.*

O'I ystlys bur yn cwmpo 'lawr,  
Yn afon fawr lifeiriol ;

Hedd a maddeuant sy 'n ddi-drai,  
Fyth i barhau 'n dragwyddol.

2 Rhaid i mi gael pob gras, pob dawn,  
O'th drysor llawn yn gyfan ;  
Ac oni chaf, fy enaid prudd  
A goll y dydd yn fuan.

3 Dy wisg dy hun, cyfiawnder hael,  
Sydd raid im' gael yn mlaenaf ;  
Nid oes ond ofni tan fy mron,  
Nes caffwyf hon am danaf.

4 Dy nerth drachefn rho i'm rhan,  
Nid wyf ond gwan yn erbyn  
Torf o elynion creulon, cry',  
Yn wastad sy 'n fy nghanlyn.

5 O fy Iachawdwr gwerthfawr rhad,  
Nid oes ond gwaed dy galon,  
Yn unig gysur tan y ne',  
Ddyddana 'r pererinion.

6 Y sawl a ddelo, doed yn ewn,  
Yn awr i mewn i wledda ;  
Fe gaiff ddanteithion mawr eu rhin,  
A melus win ei wala.

7 Fe gaiff y manna pur o'r nen,  
Sy 'n tyfu ar bren y bywyd ;  
A'r dw'r sy 'n llifo 'n afon bur  
O greigydd tir y bywyd.

8 Caiff niwl a than byth ar ei daith,  
Nes byddo ei waith yn gorphen,  
A gorphwys yn ei farwol glwy'  
Nes myned trwy 'r Iorrdonen.

## HYMN CCCLIV.

*Y Briodas.*

DEUWCH, hil syrthiedig Adda,  
Daeth y Juwbil fawr o heddi,  
'R 'ys yn galw pawb o'r enw  
I fwynhau tragwyddol wledd ;  
Bwrdd yn llawn, yma gawn,  
O foreuddydd hyd brydnawn.

2 Dewch y deillion, dewch y cloffion,  
Dewch y gwywedigion rai,

Ymadewch o'r blaen ag oeddech  
Yn cael pleser i'w fwynhau ;  
Chwi gewch win, nefol rin,  
Yma i'w yfed yn ddi-brin.

3 Ceisiwch wisgoedd y briodas,  
Gwisgoedd hyfryd hardd eu lliw,  
Nid oes enw teilwng arnynt,  
Ond cyfiawnder pur fy Nuw ;  
Lliain main, yw y rhai'n,  
Sydd yn cuddio pob rhyw staen.

4 Dyma 'r wledd y cewch ddant-  
eithion,  
Yma cewch faddeuant rhad ;  
Yma cewch chwi brofi 'r cariad,  
Hedd yn nofio yn y gwaed ;  
Dewch yn awr, dyrfa fawr,  
Ac eisteddych yma 'lawr.

5 Yma cewch chwi wel'd y ffynon,  
Dw'r a gwaed yn afon fawr,  
O'r archollion wnaeth y bicell  
Ar Galfaria 'n d'od i lawr ;  
Cewch lanhad, a iachad,  
Cewch eich beiau tan eich traed.

6 Chwi gewch yfed yn ddi-  
ofn,  
Chwi gewch fwyta yn ddi-drai,  
Pob rhyw beth ddymuno 'ch calon,  
Chwi gewch yno i'w fwynhau ;  
Gydag E', hyfryd le,  
Byth o fewn terfynau 'r ne'.

## HYMN CCCLV.

*Ofnau.*

Y MAE arnaf fil o ofnau,  
Ofnau mawrion o bob gradd,  
Oll yn gwasgu gyda 'u gilydd  
Ar fy ysbryd bron fy lladd ;  
Nid oes gallu all gongcwero  
Torf o elynion sydd yn un,  
Congra ofn, gelyn mwyaf,  
Ond dy allu Di dy Hun.

2 Ofni 'r wyf nas ce's faddeuant,  
Ac na's caf faddeuant mwy ;  
Ofni 'n fynych na che's olwg  
Eto ar dy farwol glwy' ;  
Ofni bod fy meiau 'n taro  
Yn erbyn iechydwrriaeth rad,  
Ac na chaiff fy enaid egwan,  
Fyth ei olchi yn y gwaed.

3 Gweled eraill yn trafaelio,  
Fyny fry i ben y bryn,  
Mi 'n trybaeddu yn y pechod,  
Pechod acw, 'r pechod hyn ;  
Gwneud fy hunan heddyw 'n euog,  
Heno 'n ceisio 'difarhau,  
Ofn marw sy 'n rheoli,  
Eto 'n ffaeluw ufuddhau.

4 Nid oes awel fach yn dyfod  
Fyth o'r gogledd draw, na 'r de'  
Nad yw yn fy ysbryd ofnog  
Yma 'n fuan gael ei lle ;  
Nid oes gweddi, nid oes oedfa,  
Nid oes cam ro'i ar y don,  
Nad yw ofn yn teyrmasu  
Yn ddirgelaidd tan fy mron.

6 Tyred yr awelon hyfryd,  
Tyred dros y brynau pell,  
Tan eich adain dawel rasol,  
Dygwch y newyddion gwell ;  
Dygwch newydd at fy enaid,—  
Fy enw inau yno gaed,  
Dedwydd enw 'n argraffedig  
Yn yr iechydwrriaeth rad.

7 Boed cyfiawnder maith y nefoedd  
Yno i sefyll o fy mlaen,  
Yn nyfnderoedd mwyaf ofn,  
Yn nyfnderoedd dw'r a than ;  
O gyfiawnder, aros yno !  
Ar fy mron ar hyn o bryd,  
Pan bo angeu yn gwahanu  
'M corph a'm henaidd yn ei lid.

7 Annoddefol ydyw meddwl  
Marw heb im' wybod p'un,  
A bod dy gyfiawnder perffaith,  
Wrth fy enaid bach yn nglŷn ;  
Dyna 'r awr wyf fi 'n ei ofni,  
Dyna 'r awr yn gyfyng fydd,  
Rho im' nerthoedd y pryd hyny,  
Nes bo im' ddihengu 'n rhydd.

## HYMN CCCLVI.

*Gwlad Well.*

O TYRED, Awdwr heddi,  
A chyfod ni o'r bedd,  
Y pydew prudd ;

Ein henaid gruddfan mae  
Am gael ei wir iachau,  
O dere, dere yn glau,  
Rho ni yn rhydd.

2 Ond gweled 'r y'm y wlad,  
A dedwydd dŷ ein Tad,  
Tros fryniau pell;  
Ardaloedd lle y mae,  
Ffynonau 'n dyfrhau,  
Llawenydd yn ddi-drai,  
Paradwys well.

3 'D oes yma ddim i gael,  
Ond rhyw bleserau gwael,  
Na thâl mwynhau;  
Mae 'm hysbryd mewn rhyw gur  
Am fyned cyn bo hir  
I'r man mae gwynfyd pur  
Byth i barhau.

4 Mae cymaint yma o boen,  
Heb gwmni 'r anwyl Oen,  
Bob awr o'r dydd;  
Gelynon creulon, cry',  
Hen lewod mawrion lu,  
A dreigiau yn drygu sy,  
O na bawn rydd!

### HYMN CCCLVII.

*Yr Anialwch.*

**CYFARWYDDA** 'm henaid, AR-  
GLWYDD,  
Pan b'wy'n teithio 'mlaen ar hyd  
Llwybrau culion, dyrus, anodd  
Sydd i'w cerdded yn y byd;  
Cnawd ac ysbryd yn rhyfela,  
Weithiau cariad, weithiau cas,  
Ton ar don sydd yn gorchuddio  
Egwyddorion nefol ras.

2 Weithiau trof yr ochr aswy,  
Weithiau trof yr ochr dde',  
Ffaelau a deall p'un sy 'n canlyn  
Hyfryd lwybrau Brenin ne';  
D'rysu mewn rhyw fyfyrnodau,  
Methu cael y gwir yn lân,  
Ymbalfalu wrthyf fy hunan,  
Ac heb symud cam yn mlaen.

3 \*Cul yw 'r llwybr i mi gerdded,  
Is fy llaw mae dyfnder mawr,  
Mae arnaf ofn yn fy nghalon  
Rhag i'm troed i lithro 'lawr;  
Yn dy law y gallaf sefyll,  
Yn dy law y dof i'r lan,  
Yn dy law fyth ni ddiffygiaf,  
Er nad ydwyf fi ond gwan.

4 ARGLWYDD, dadrys g'lymau dyrus,  
C'lymau wnaethum i fy hun,  
Ac ni feddaf ddim goleuni  
Ddyfod allan fyth o'r un;  
Perffaith gyfan anwybodus  
Wyf o'r cwbl is y nen,  
Bydd i mi yn mhob rhyw ddrysni  
Fyth yn ARGLWYDD ac yn Ben.

5 Wrth dy orsedd 'r wyf yn cwmpo,  
Annheilyngaf ddyd erioed,  
Mewn anwiredd y'm cenedlwyd,  
Mewn anwiredd mynaf fod;  
Darfu 'm nerth, a darfu 'm goleu,  
Darfu 'm haeddiant yn gyntun,  
Mae 'm hapusrwydd oll yn gor-  
phwys  
Ar a wisgodd natur dyn.

6 Nertha 'm henaid egwan bellach  
Deithio 'n fanwl lwybr cull,  
Ac na byddo i'm gael fy nifa,  
Gan bicellau 'r ddraig a'i hil;  
Cadw yn gywir fy ngerddediad,  
Na ogwyddwyf ar un llaw,  
Nac i garu y creadur,  
Na'i ffeiddio trwyddo draw.

\* Ar y ffordd sydd yn arwain o Llanym-  
ddyfri i Dregaron—fordd y teithiodd y Bar dd  
Efengylaidd lawer ar hyd-ddi—heb fod yn  
mhell o "hen Gapel Ystrad Ffin," ac yn  
nghalon "creigiau 'lywi," yn agos i amaeth-  
dy adnabyddus a enwir y Fannog, y mae lle  
gerwin iawn, ac arswydlawn i edrych arno.  
Ymnydda y ffordd ar draws llechwedd greig-  
iog a serth; clogwyni ys ythrog oddiarnodd,  
ac aifwys ddofn, a bendronau y mwyaf gew-  
ynog, yr ochr arall; a'r ffordd—yn hytrach y  
llwybr—yn "gul i'w gerdded," heb ddim ond  
yr awyr rhwng y teithiwr a'r "dyfnder mawr."  
Y mae traddodiad yn y gymydogeath yn sicr-  
hau mai yn y fan hon y cyfansoddwyd yr  
Eryn uchod. Os gadewir i ni feddwl mai ar  
ol myned drosto, ac nid *werth* fyned drosto y  
gwnaed hi, y mae y traddodiad yn un hawdd  
iawn i'w gredu. Diau nad esgeuluswyd yr  
olygfa, a'r argraff a wnaed gan y fath olygfa,  
heb wneuthur y defnydd goreu ohonynt gan y  
Bardd.

### HYMN CCCLVIII.

*Ffarwel.*

**N**ID oes enw yn mhlith angylion,  
Yn mhlith dynion, ac ni chaed  
All fod i mi yn ddnas noddfa,  
Yn unig ond Iachawdwr rhad;  
Mae'r afonydd 'r wy'n myn'd trwy-  
ddynt,  
Ac mae 'r tonau mawr mor gryf,  
Nad oes dim ond nerth tragwyddol  
Ddal fy enaid yn y llif.

2 Cân ffarwel o gylch y ddaear,  
Cân ffarwel i bawb o'r bron,  
Cân ffarwel i'r gwerthfawrocaf  
Bethau enwir ar y don;  
Da a dynion aeth yn annghof,  
A phleserau o bob rhyw;  
Bellach i mi, dim ond canu,  
Canu cariad i fy Nŵw.

3 Duw yn unig sydd o'm hochr,  
Ni thal dynion i mi ddim,  
Llawer trymach ydyw 'meichiau  
Nag yw cewri 'r byd o rym;  
IESU ddal fy maich, er cymaint,  
IESU ei Hunan laesa 'm loes,  
Eitha' llid y nef ac uffern  
Ddaliodd unwaith ar y groes.

### HYMN CCCLIX.

**'R**WY 'n morio tua chartre 'm  
Ner,  
Rhwing tonau maith yn byw;  
A dyn heb neges tan y ser,  
Ond 'mofyn am ei DDUW.

2 Mae 'r gwyntoedd yn fy nghuro  
i'n ol,  
A finau 'd wyf ond gwan;  
O cymer, IESU, fi yn dy gôl,  
Yn fuan dwg fi i'r lan.

3 N'ad fi ar aswy nac ar dde'  
I redeg o dy flaen,  
Ond dilyn llwybrau Brenin ne',  
Trwy ddyfnder dw'r a thân.

7 Na foed gelyn im' yn unlle,  
'N fwy na 'm hunan is y rhod,  
Lletach na 'r moroedd gwna fy  
nghariad  
A'm tosturi 'n wastad fod;  
Dysg fi ddweyd, a dysg fi wneuthur,  
Dysg fi gymdeithasu 'n llwyr,  
Dysg fi drefnu fy meddyliau  
O foreu-ddydd hyd yr hwyr.

8 Dysg fi gerdded trwy 'r afonydd,  
Ac na 'm hofnir gan y llif,  
Na b'wy 'n ildio gyda 'r tonau,  
Temtasiynau fwy na rhif;  
Cadw 'ngolwg ar y bryniau  
Uchel, hardd, tu draw i'r dw'r,  
Cadw 'ngafael yn yr afon,  
Ar yr IESU 'r blaenaf ŵr.

9 Ond i demtasiynau 'm ganwyd,  
Cefais hyn gan arfaeth rad;  
A'r un arfaeth a ordeiniodd  
I fy ngolchi yn y gwaed,  
Demtasiynau! 'r 'ych chwi 'n aml,  
Eto 'r 'ych chwi 'n gymhorth im'  
I chwanegu 'm ffydd a'm cariad,  
Eilwaith i chwanegu 'ngrym.

10 Oni b'ai miloedd o elynion  
Sydd yn curo o bob tu,  
Oddi mewn ac oddi allan,  
Diau cysgu buaswn i;  
Torfeydd, torfeydd yn gwasgu  
arnaf,  
Ac yn gwaeddi am fy ngwaed,  
Sydd yn doddi 'm henaid orphwys  
Yn yr iechedwriaeth rad.

11 Am fyf mod i yn y rhyfel,  
Yn y rhyfel nos a dydd,  
Dyna pa'm yr wy 'n hiraethu  
Cymaint am gael cario 'r dydd;  
Maith rifedi fy ngelynon  
Wnaeth i'm henaid ganu 'n llyn,  
Cwmpo hefyd 'r hyd y creigydd,  
Wna i'm sychedu ar Seion fryn.

12 O! anialwch maith o dd'rynsi,  
O! afonydd mawr eu grym;  
Pa faint o amser roddwyd i chwi  
Fod yn ddigalondid im' ?  
Derfydd t'w'llwch, derfydd galar,  
Derfydd pechod o bob rhyw,  
Nid yw 'r wlad caf ynddi drigo  
Ddim ond presenoldeb Duw.

- 4 O gwna fy nghalon redeg trwy  
Oll ataf Ti dy Hun,  
Na bo difyrwch gen'i mwy  
Mewn daear, da, na dyn.
- 5 A phan bo 'n curo f' enaid gwan  
Elynyon fel y ser,  
Dyrchafa 'm hysbryd llesg i'r lan  
I fynwes bur fy Ner.
- 6 Na byddo gwrth'nebiadau 'r byd,  
Na chroesau o un rhyw,  
I'm hoeri, nac i sugno 'mryd  
Un dim oddiwrth fy Nuw.
- 7 Boed dyoddefiadau pur y groes  
I laesu 'm cur a'm gwae,  
Gruddfanau dwfn angyu loes  
I'm rhoddi lawenhau.
- 8 Marwolaeth fy Ngwardwr mawr,  
Yn fywyd pur i mi,  
Fel gallwy' roddi 'm oll i lawr  
Yn gof am Galfari.

## HYMN CCCLX.

**M**AE rhyw ddirgelwch llawer  
mwy,  
Oes, IESU, yn dy farwol glwy',  
Nag y gall sant tra ynddo chwyth,  
Na seraph pur ei ddeall byth.

- 2 Ni cheisia'i 'n lloches ond dy glwy'  
Tan donau mawrion fwy na mwy;  
Mae 'th waed, yn nyfnder culni a  
gwae,  
Yn abl fy rhoi i lawenhau.
- 3 Cyflawna 'th air, doed i mi ddel,  
Dy eiriau Di sy i gyd dan sel;  
Nid rhaid ond gair, a thyna 'gyd,  
I godi 'm henaid i o'r byd.
- 4 Mae hyfryd sw'n dy Ysbryd pur,  
Sy 'n chwythu yr awelon gwir,  
Yn peri im' anghofio 'r byd  
Yn gyfan, a'i deganau 'gyd.

- 5 'R wy' wedi blino ar fyd o wae,  
Lle nad oes pleser i'w fwynhau,  
A'm blinder fyth yw 'r un ag oedd,  
Sef ffaelu 'th garu wrth fy modd.
- 6 Os caf fi'th garu, rho Di 'r byd  
I'r rhei'ny, sawl sydd arno 'u bryd;  
Rho iddynt hawddfyd, parch, a bri,  
Ni cheisiaf ond dy garu Di.

## HYMN CCCLXI.

**Y** MAE hapusrwydd pawb o'r  
byd  
Yn gorphwys yn dy angyu drud;  
Hyfrydaf waith angylion fry  
Yw canu am fynydd Calfari.

- 2 O holl weithredoedd nef yn un,  
Y benaf oll oedd prynu dyn;  
Rhyfeddod mwyaf o bob oes  
Yw 'm IESU 'n hongian ar y groes.
- 3 Wel dyma 'r trysor mwyaf' drud,  
Gwaed IESU 'n llifo tros y byd;  
Fyth na foed ond ei farwol glwy'  
Yn sylfaen pob caniadau mwy.
- 4 Darfydded canmawl neb rhyw un,  
Darfydded son am haeddiant dyn,  
Darfydded ymfrost o bob rhyw;  
'D oes ymfrost ond yn ngwaed fy  
Nuw.
- 5 Darfydded caru tref a gwlad,  
Na brawd na phriod, mam na thad;  
'D oes unrhyw gariad is y rhod  
Ond IESU dâl ei garu erioed.
- 6 Ffarwel, ffarwel gariadau 'r byd,  
Ffarwel bleserau oll yn nghyd,  
Ffarwel yr harddaf, decaf un,  
Mae 'r IESU yn ddiagon im' ei Hun.

## HYMN CCCLXII.

**W**EL dacw 'r Brenin mawr yn  
d'od,  
Mewn rhwysg na welodd neberioed;  
Mae angyu, uffern fawr, a'r bedd,  
Yn ofni edrych ar ei wedd.

- 2 Ond holl gariadau gwych fy Nuw,  
Fu gynt yn farw, ond 'nawr yn fyw;  
Llawenydd annrhaethadwy dardd,  
Wrth edrych yn ei wyneb hardd.
- 3 Ni wel y rhai'n ond gras i gyd,—  
Gras a ddechreuodd cyn bod byd;  
Llifefiriol afon fawr o hedd,  
A chariad unig yn ei wedd.
- 4 Fe lysg y byd yn ulw mân,  
Fe dry 'r greadigaeth fel o'r blaen,  
Cwmp y planedau er eu maint;  
Bydd IESU 'n frenin ar ei saint.
- 5 O dere ddedwydd, hapus awr,  
Boreu-ddydd tragwyddoldeb mawr,  
Poen yw 'mhleserau, poen yw 'm  
loes,  
Wrth bechu yn erbyn gwaed y  
groes,
- 6 Mi wela 'n codi 'r seren ddydd,  
Mi glywa 'r canu yno fydd,  
Angylion gyda 'r saint yn un,  
Yn cadw cwmni Mab y dyn.

## HYMN CCCLXIII.

**C**HWY-CHWI 'mhechodau o  
bob gradd,  
Sydd fwyaf' cedyrn am fy lladd,  
Er maint eich grym, er maint eich  
clwy',  
Mae angyu 'm IESU 'n llawer mwy.

- 2 Mwy rhinwedd sy mewn marwol  
loes,  
Mwy grym, mwy nerth yn mhoen-  
au 'r groes,  
Nag saif y pechod cryf o'i flaen,  
Nac angyu ei hun, nac uffern dân.
- 3 Y mwyaf' ei bwysau oll i gyd  
Ydy euogrydd beiau 'r byd;  
Mae 'r aberth ar Galfaria fryn  
Yn golchi 'r euog cas yn wyn.

- 4 Mae heddwch llawn yn angyu loes,  
Llawenydd pur yn ngwaed y groes,  
Mae cariad annrhaethadwy 'n lli'  
Gan ruddfan hyfryd Calfari.

- 5 Doed im' a ddel, bodlonaf mwy,  
Tan dawel adain marwol glwy';  
Doed melld, doed stormydd o bob  
rhyw,  
Mae gydaf Un a'm ceidw 'n fyw.
- 6 Ffowch, ofnau, ffwrdd, doed yn eich  
lle  
Awelon hyfryd pur y ne';  
Doed pob grasusau pur eu rhin  
I lanw 'm henaid bach yn un.

## HYMN CCCLXIV.

**P**ERERIN gwan, heb rym, heb  
sail,  
I deithio wyf yn mlaen,  
Trwy gynifer llwybr dyrus, cul,  
Dyeithr im' o'r blaen.

- 2 Yr ochr draw a'r ochr hyn,  
Pob peth sy am wneud fy mrad;  
Mae mil o dentasiynau yn un,  
Yn ceisio rhwydo 'm traed.
- 3 Yn nyfnder profedigaeth ddu,  
Dos dy Hunan o ty mlaen;  
Ond i mi gael bod gyda Thi  
Nid ofnaf ddw'r a thân,
- 4 At wedd dy wyneb nid yw ddim  
Drysorau maith y llawr;  
Mae haner gair o'th enau yn fwy  
Ei rym nag uffern fawr.
- 5 Mae angyu a'r bedd, ac uffern ddu  
Yn hongian wrth dy groes,  
Mil o elynyon gongcraist Ti  
Trwy ddyodde' angyu loes.
- 6 Dy allu yw fy nerth a 'ngrym,  
Yn dy allu bydda'i byw,  
'Rwy 'n wan, 'rwy 'n llesg, ni alla'i  
ddim  
Un fynydd heb fy Nuw.

## HYMN CCCLXV.

**I**ESU 'r dirmygedig un  
Ddyoddefodd angyu loes,  
Gan ryw ddienyddwyr llym,  
Yn wirion ar y groes;



- Y gruddfanau rodd E' 'maes  
Ddaeth â'r trueiniaid oll yn  
rhydd,  
Bellach holl ganiadau 'r nef,  
Fyth am Galfaria fydd.
- 2 Bydd torf o angylion gwych,  
Cerubiad pur yn un,  
A maith dorfeydd o seraphim  
Yn canu i Fab y dyn ;  
A chaniadau fydd y rhai'n  
Na ddaeth i feddwl dyn erioed,  
Ag sy 'n trigo is y nen,  
I fod eu bath yn bod.
- 3 O foreu-ddydd dedwydd iawn,  
Pan delo 'r dorf yn un,  
O bob cwr i'r ddaear faith,  
I gwrrd â'n HARGLWYDD cun ;  
Derfydd gofid a phob gwaed,  
Derfydd temtasiynau maith ;  
Derfydd pechod mawr ei rwysg,  
A derfydd dyrus daith.
- 4 Ac wrth wel'd yn agoshau  
'R fath hyfryd foreu wawr,  
Un diwrnod goleu clir  
Maith dragwyddoldeb mawr ;  
P'am na bawn yn llawen iawn,  
Hyn wy 'n 'mofyn ei fwynhau,  
A thyma fref fy enaid gwan,  
Ei wel'd yn agoshau.

## HYMN CCCLXVI.

- C**YN ystyried, mi ddechreuais  
Daith o'r Aipht i'r Ganaan  
wlad,  
Fod fath anial mawr mor ddyrus  
Rhyngwy' erioed a thŷ fy Nhad ;  
Pharao a'i lu, creulon cry'  
Gyntaf a'm gwrth'nebodd i.
- 2 Yna torf a thorf drachefn,  
Bob yn fyrdd, neu bob yn un,  
Moab, Midian, a Philistin',  
Oll yn cyngrair yn gytun ;  
Gosod wnaed, rwydau i'm traed,  
Fyrdd rhwng yma a thŷ fy Nhad.
- 3 Weithiau fe, Golia gadarn,  
Ddeuai yn mlaen yn ngrym ei  
nerth ;

Weithiau Midian fyddai 'n lliwio  
Pen y creigydd mawrion serth ;  
Cyn pen awr, f' ARGLWYDD mawr,  
Wnai i'm gelynyon gwympo 'lawr.

- 4 Da i mi fod yr addewid,  
Wedi ei rhoddi gan fy Nuw,  
A bod gair o enau 'r nefoedd  
Uwch gelynyon o bob rhyw ;  
Ei addewid Ef, gadarn gref,  
Arwain eiddil gwan i'r nef.
- 5 Ac er bod y llwybrau yn ddyrus,  
Ar ba rai y senga 'm traed,  
Ac na bum i'n teithio arnynt  
Er 'madewais i â'm gwlad ;  
Caf o'm blaen, ddw'r a thân,  
Ac a'm dwg i'r Ganaan lân.
- 6 Bron yr wyf a digaloni,  
Pan b'wy'n gwel'd rhyw lwybr  
cul,  
Rhwng rhyw greigydd serth dych-  
rynllyd,  
Lle tramgywyddodd llawer mil ;  
Fy enaid gwan, yn y man,  
Ddringa eto fyny i'r lan.
- 7 Mi ryw syna' ar rai oriau,  
Pan debygwyr nad oes dyn  
Sydd yn teithio llwybrau newydd,  
Beunydd ond myfi fy hun ;  
Eto llu, wela'i fry,  
Fu 'n gyfeillion i myfi.

- 8 Dyna 'r pryd mae fwy' cyfyng,  
Pan bo gelyn ar bob llaw,  
Un o'm hol am fy mradychu,  
Un o'm blaen i'm hofni draw ;  
Eto i'r lan, f' enaid gwan,  
A tra IESU i mi yn rhan.

## HYMN CCCLXVII.

**R**HWNG Pihairoth a Balsephon,  
Tra fwy' byw mi gofia 'r lle,  
Mewn cyfyngder eitha' caled  
Gwaeddodd f' enaid tua 'r ne' ;  
Yn ddioid, dyma 'n d'od,  
Waredigaeth fwy' erioed.

- 2 Aros ronyn berwyd i mi,  
Ti gai weled cyn prydawn,  
Fyrdd yn soddi yn y dyfnder  
O elynion creulon iawn ;  
Maes o law gwynfyd ddaw,  
Ti gai ganu yr ochr draw.
- 3 Dacw 'r gelyn, ebe f' ARGLWYDD,  
Ganwaith faeddodd d'enaidd gwan,  
'N awr yn methu gan y tonau  
Godi ei wyneb dig i'r lan ;  
Tyr'd yn mlaen, dechreu 'th gân,  
Dy holl elynion boddi wnan'.
- 4 Y mae dyfroedd Mara yn chwerau  
Fyth i'w hyfed ddydd a nos,  
IESU, gwyddost Ti beth ydyw  
Dwyn y bwysig boenus groes :  
Rho i mi wir gariad pur,  
Ffrwythau peraidd Canaan dir.
- 5 O gwna i mi brofi sypiau,  
Sypiau peraiddrawn y wlad,  
Blas maddeuant pur a heddwch,  
Gwleddoedd hyfryd tŷ fy Nhad ;  
Dyma hwy, perlau mwy,  
Gloddiwyd yn ei farwol glwy'.
- 4 Arosaf ddydd a nos  
Byth bellach tan dy groes  
I'th lon fwynhau :  
Mi wn mae 'r taliad hyn,  
Wnawd ar Galfaria fryn,  
A'm cana i oll yn wyn  
Oddiwrth fy mai.
- 5 Yn nyfnder dw'r a thân  
Calfaria fydd fy nghân,  
Calfaria mwy,  
Y bryn ordeiniodd Duw  
Yn nhragwyddoldeb yw,  
I godi 'r marw yn fyw  
Trwy farwol glwy'.
- 6 Mi âf bellach tua 'r wlad  
Bwrcaswyd im' â gwaed,  
'R wy' yn nesau ;  
Caf yno oll i'm rhan  
Sydd eisieu ar fy enaid gwan,  
A hyny yn y man,  
I'w wir fwynhau.

## HYMN CCCLXIX.

**P**WY ddyry i'm falm o Gilead,  
Maddeuant pur a hedd !  
Nes gwneud i'm hysbryd edrych  
Yn eon ar y bedd ;  
A dianc ar wasgfeun  
Euogrydd creulon cry',  
'D oes neb ond Ef a hoeliwyd  
Ar fynydd Calfari.

## HYMN CCCLXVIII.

**O** TYRED, ARGLWYDD mawr,  
Dyhidla o'r nef i lawr,  
Gawodydd pur,  
Fel byddo 'r egin grawn,  
Foreu-ddydd a phrydnawn,  
I darddu yn beraidd iawn  
O'r anial dir.

- 2 Mae per-aroglau 'th ras  
Yn taenu o gylch i maes  
Awelon hedd ;  
Estroniaid sydd yn d'od,  
O'r pellder eitha' erioed,  
I gwympo wrth dy droed,  
A gwel'd dy wedd.
- 3 Mae tegwch dy wynebpriod  
Yn maeddu oll i gyd  
Sy ar ddaear las ;  
Mae pob rhyw nefol ddawn  
Oll yno yn gryno llawn,  
Yn tarddu yn hyfryd iawn,  
O'th glwyfau 'maes.
- 2 Yr hoelion geirwon caled  
Gynt a'i trywanodd E',  
Sy 'n awr yn dal y nefoedd  
Gwmpasog yn ei lle ;  
Cyfiawnder di-drugaredd,  
A chariad di-nacad,  
Sydd yn cofeiddio 'r euog  
Yn llawen yn y gwaed.
- 3 Cyfiawnder amddiffynwyd,  
A chariad, yn dy glwy' ;  
A rhagor nag amddiffyn,—  
'N awr fe dyrchafwyd hwy :  
O weithred o ryfeddod !  
Dirgelwch mawr ei hun,  
Nid arall all'sai ei ffeindio,  
Yn unig Duw ei Hun.

4 Mae 'r fath feddyliau mawrion  
Yn codi 'm hysbryd gwan  
Oddiar bob peth creuedig  
Yn uchel iawn i'r lan ;  
Yn prisio aur ac arian,  
Y perlau mwya' drud,  
Wrth glun cyflawnder dwyfol,  
Yn sorod cas i gyd.

5 'N ol edrych ar ol edrych,  
O gwmpas i mi mae  
Rhyw fyrdd o ryfeddodau  
Newyddion yn parhau ;  
Pan b'wy 'n rhyfeddu un peth,  
Un arall ddaw i'm bryd,  
O iechydwrtaeth rasol,  
Rhyfeddol wyt ti 'gyd.

6 Bendithion ar fendithion,  
Trysorau angu loes,  
Grawn sypiau mawrion addfed  
Yn hongian ar y groes,  
Sydd yn cwmpasu 'm henaid,  
Rhinweddau mawr eu grym,  
A minau yn eu canol  
Heb allael d'weddy dim.

7 Mi wela' yn ei fywyd  
Y ffordd i'r nefoedd fry,  
Ac yn ei angu 'r taliad  
A roddwyd trosol fi,  
Yn ei esgyniad gwelaf  
Drigfanau pur y nef,  
A'r wledd dragwyddol berffaith  
Ga'i yno gydag Ef.\*

### HYMN CCCLXX.

Y mhell uwch swm daearol fyd  
Mae fy nhrysorau oll i gyd !  
Y wlad lle mae, y wlad lle mae  
Rhyw fôr di-drai o berffaith hedd.

\* Nid yw yn anhawdd dyfalu, weithiau, beth allaf awgrymu i feddwl yr Awdwr fater a delweddion ei Emynau. Byddai yn hawdd genym feddwl ei fod, pan y cyfansoddodd yr Emyn uchod, newydd ddarllen *Young's Night Thoughts*. Edryched y darlennydd dros *Night Fourth: The Christian's Triumph*, ac ond odid na wel y drychfeddyliau a ymfaglent yn enaid y Bardd Saesonig yn llifo allan yn Emyn o fawl gorfoleddus o galon y Bardd Cymreig.

2 Wel dacw 'r man, tra paro chwyth  
Sycheda'i am fod ynddo byth ;  
Fe dry fy ngwae, fe dry fy ngwae  
Yn llawenhau yn nhŷ fy Nhad.

3 Mi gofia' yno am y dydd  
Y rho'wd fy llyftheiriau 'n rhydd ;  
Ac am y gair, ac am y gair  
Dedwyddaf bair i'w gofio byth.

4 O ddedwydd, hapus, berffaith le,  
Mae f' enaid eisoes ynddo fe !  
Cwmpeini 'Nuw, cwmpeini 'Nuw  
Yw 'r cyfan yw sydd yno i gael.

5 Ffarwel i oll feddylia'i fod  
Yn hyfryd yma is y rhod ;  
Nid da, nid dyn, nid da, nid dyn,  
Ond Iesu ei Hun sy 'n fwy na'r  
nef.

6 'R wy 'n awr ar adain ysgafn ffydd  
Yn edrych ar drysorau fydd ;  
Mae llawer mwy, mae llawer mwy  
Mewn marwol glwy' nag fedd y byd.

### HYMN CCCLXXI.

TYDI, fy Nuw, Tydi i gyd,  
Yw 'r cwbl fedda'i yn y byd ;  
Yr wyt Ti 'n well, yr wyt Ti 'n well  
Na 'r India bell a'i pherlau drud.

2 O fewn i'r anial dyrus, maith,  
Yn dysgwyl hyfryd ben fy nhaith,  
'R wy 'n gwel'd yn wir, 'r wy 'n  
gwel'd yn wir  
Yr oriau 'n hir heb dy fwynhau.

3 Yn nyfnder pob rhyw dralod mae  
Un radd o'th wedd yn llawenhau ;  
Dyddanwch sy, dyddanwch sy  
Yn dy wyneb cu sydd fwy na'r byd.

4 Rho im' yfed afon loew las,  
Mewn tiroedd anial, dyrus, cras ;  
Maddeuant gwir, maddeuant gwir  
O'r ffynon bur sydd tan y faingc.

5 Mwy yw fy mhleser, mwy fy rhodd,  
A mwy yw f' enaid wrth ei fodd,  
I wel'd dy wedd, i wel'd dy wedd,  
A phrofi 'th hedd na'r byd i gyd.

### HYMN CCCLXXIII.

MAE pyrth y nef o led y pen,  
Mi wela' fôr o waed,  
Y gallaf fi 'r ffeiddiaf ddyn  
Yn hollol gael iachad.

2 Mae 'r orsedd fawr yn awr yn  
rhydd,  
Gwrandewir llais y gwan ;  
Wel cyfod bellach, fy enaid prudd,  
Anadla tua 'r lan.

3 Wel anfon eirchion aml ri'  
I mewn i byrth y nef ;  
Gwrandewir pob amddifad gfi  
Yn union ganddo Ef.

4 Myfi anturia 'n awr yn mlaen  
Heb alwad is y ne',  
Ond bod perffethrwydd mawr y  
groes  
Yn ateb yn fy lle.

5 Calfaria fryn yw 'r unig sail  
Adeil'af arno mwy ;  
A gwraidd fy nghysur fyth gaiff fod  
Mewn dwyfol farwol glwy'.

6 Ellyllon uffern nis gall ddim  
Er cymaint yw eu rhi',  
Myrddiynau o weithiau mwy eu  
pwys  
Och'neidiau Calfari.

### HYMN CCCLXXIV.

MI dafla 'maich oddiar fy ngwar  
Wrth deimlo dwyfol loes ;  
Euogrydd fel mynyddau 'r byd  
Dry 'n ganu wrth dy groes.

2 Os edrych wna'f i'r Dwyrain draw,  
Os edrych wna'f i'r De',  
Yn mhlith a fu neu ynte ddaw  
'D oes tebyg iddo Fe.

3 Fe rodd ei ddwylaw pur ar led,  
Fe wisgodd goron ddrain,  
Er mwyn i'r brwnt gael bod yn wyn  
Fel hyfryd liain main.

6 Mae 'r fynyd leiaf fach o'r awr  
I garu fy Iachawdwr mawr,  
Yn well rhyw ddydd, yn well rhyw  
ddydd  
Na'r cwbl sydd o tan yr haul.

7 Aed heibio 'm dyddiau bob yr un  
Wrth garu'm Crewr mawr yn ddyn ;  
Fy enaid cân, fy enaid cân  
I'th Brynwr glân, a dos i'r bedd.

### HYMN CCCLXXII.

FY mywyd wyt, fy Nuw, fy  
Nhad,  
Cynheliaist fy enaid ar ei draed ;  
De'st â fi 'maes, de'st â fi maes,  
Er angu glas o groth y bedd.

2 Pan 'r o'wn i 'n gyru yn y blaen  
'R hyd llwybr rhydd i uffern dân,  
Ti dd'wedaist air, Ti dd'wedaist air,  
A hwnw bair tra paro nef.

3 Ti roddest blaau lawer iawn  
Ar fy mhechodau fore a nawn ;  
Fe wawria 'r dydd, fe wawria 'r  
dydd  
I'm dd'od yn rhydd, mae hyn ger-  
llaw.

4 Pan elo 'm syched i yn fawr,  
Dyhidla 'r nefoedd fanna 'lawr,  
Daw dw'r i maes, daw dw'r i maes  
Yn afon las o greigydd byw.

5 Fe ddarsotyngir, er eu grym,  
Bob gelyn ag sy 'n greulon im'  
Fe fawdd y llu, fe fawdd y llu  
Yn awr ag sy'n gobeithio 'ngwmp.

6 Mae Satan gadarn yn y blaen,  
O'i ol ef luoedd mawr a mân,  
I'm rhwygo 'n friw, i'm rhwygo 'n  
friw ;  
Ond mae fy Nuw yn drech nag ef.

- 4 Esgyn a wnaeth i entrych ne'  
I eiriol dros y gwan ;  
Fe sugna f' enaid inau 'n lân  
I'w fynwes yn y man.
- 5 Ac yna caf fod gydag Ef  
Pan êl y byd ar dân,  
I edrych yn ei hyfryd wedd,  
Gan' harddach nag o'r blaen.

## HYMN CCCLXXV.

- M**AE 'r Brenin yn y blaen  
'Rym ninau oll yn hy' ;  
Ni saif na dw'r na than  
O flaen fath arfog lu ;  
Ni awn, ni awn dan ganu i'r lan,  
Cawn wel'd ein congwest yn y man.
- 2 Ni welir un yn llesg  
Yn myddin Brenin nef,  
Can's derbyn maent o hyd  
O'i nerthoedd hyfryd Ef ;  
Ni gawn, ni gawn y gloew win  
Melus ei ryw, sancteiddiol rin.
- 3 Dechreuod tafod mwy,  
Os tafod fedr gân,  
Na foed ond dwyfol glwy'  
Holl ddyddiau 'i oes o'i flaen ;  
Fe gawd, fe gawd o'r diwedd fraint  
Na phrofodd Seraphim ei maint.
- 4 Gerubiaid, dewch yn mlaen,  
Edrychwch yma 'lawr  
Ar dewynion uffern dân  
Yn nghanol nef yn awr :  
Pob un yn gwel'd ei hyfryd wlad,  
A phyrth sancteiddiol tŷ ei Dad,
- 5 Fe ddarfur 'r ofn du,  
'R euogrywydd cas a'r braw,  
Pan gwelsom aberth fu  
Ar ben Calfaria draw ;  
Fe dalwyd iawn ar bren, mor ddrud  
Oedd fwy na holl ffeidd-dra 'r byd.
- 6 Un sillaf ar y groes  
O enau Crewr byd,  
Yn nyfnder angu loes,  
Sydd fwy na 'n beiau 'gyd ;  
O! maddeu, 'Nhad, fy eiddo i,—  
Lama, Lama, Sabachthani !

## HYMN CCCLXXVI.

- M**AE lluoedd maith yn mlaen  
'N awr o'u carcharau 'n  
rhydd,  
A gorfoleddu wnan'  
Oll wedi cario 'r dydd ;  
I'r lan, i'r lan diang'sant hwy,  
Yn ôl eu traed y sangwn mwy.
- 2 Gadawn y byd ar ol,  
Y byd y cawsom wae,  
Y byd ag sydd bob dydd  
Yn ceisio 'n llwfrhau ;  
Ni welwn wlad rhwng ser y nef  
Sydd fil o weithiau 'n well nag ef.
- 3 A fawdd 'tifeddion gras  
Yn nyfnder môr i lawr,  
Un waith a ddaeth i maes  
O'r dwfn gystudd mawr ?  
Na wna, na wna, ni ddown i'r lan,  
I dir y bywyd yn y man.
- 4 Cawn landio 'mewn i fysg  
Y rhai y clywsom son,  
Ganasant bawb ei wisg  
Yn nwyfol waed yr Oen ;  
A dawnsto gwledd heb ddiwedd mwy  
Yn bur yn eu cwmpeini hwy.
- 5 Cawn wel'd yr addfwyn Oen  
Fu farw ar y bryn,  
Yn medi ffrwyth ei boen  
Yn hyfryd y pryd hyn ;  
Myrddiynau heb rif yn canu 'nghyd  
I'r Hwn fu farw dros y byd.
- 6 Fe genir coron ddrain  
Wrth ganu gwaed y groes ;  
Fe gofir picell fain  
Wrth gofio angu loes :  
Fe seinia 'r holl dorfeydd yn un  
Bob rhan o boenau Mab y dyn.
- 
- H**YMN CCCLXXVII.
- E**R bod saethyddion lu,  
A rhwydau fwy na mwy  
'R hyd llwybrau Salem fry,  
A dyrus iawn y'nt hwy,  
Fe dyr y rhwyd, fe dry y saeth  
Oddiwrth y saint, nid oes ei fath.

- 2 Mae 'r byd yn taenu 'maes  
Mewn cydsain ddyrus iawn,  
Ei demtasiynau cas  
O fore hyd brydnawn ;  
Fe ddeil i'r lan ei nefol hil,  
Er cwrdd â hwy mewn llwybrau cul.
- 3 Ni hwyliwn gyda 'r gwynt,  
Mae 'r gwynt o dŷ ein Tad ;  
Awelon hyfryd y'nt  
Dros fryniau amod rhad ;  
Yr y'm mewn hwy, ni seiniwn gân  
Nes myn'd i glustiau 'r rhai sy o'r  
blaen.
- 4 Er maint yw lled y dw'r  
Er maint yw grym y don,  
Ac er i'r dymhestl gref  
I guro ar fy mron,  
'D yw 'r tonau maith, 'd yw 'r dym-  
hestl ddim  
I nerth yr Hwn sy 'n Briod im'.

## HYMN CCCLXXVIII.

- F**FARWEL, bleserau o bob  
rhyw,  
Ffarwel i'r cyfan ond fy Nuw ;  
'D oes dim a dâl o fewn y ne'  
I'w garu yn unig ond Efe.
- 2 'N awr y creadur breulyd sydd  
Yn myn'd ar goll o ddydd i ddydd ;  
'D oes dim fodlona 'm henaidd gwan  
Ond Iesu ei Hunan i mi 'n rhan.
- 3 Mae ynddo Ef drysorau hael  
Sydd eisieu arnaf fi eu cael ;  
Mae ynddo Ef drysorau llawn  
Wna 'r tlataf yn gyfoethog iawn.
- 4 Mi 'drychaf dros y dwfn fedd  
'N awr i gyffiniau 'r wlad o hedd ;  
Mi welaf fwy nag aur Peru  
Mewn defnyn bach o waed fy Nuw.
- 5 'D oes dim wna imi lawenhau  
Yn nghanol stormydd mawr o wae,  
Na dim a ddeil fy enaid gwan  
Ond gweled Iesu i mi 'n rhan.

## HYMN CCCLXXIX.

- O**'R holl fendithion ga's y byd,  
Wel dyma 'r fwyaf un i gyd,  
I'm IESU ei Hun, i'm IESU ei Hun  
Dros aflan ddyrn roi 'fywyd pur.
- 2 Wel, f'enaidd, bellach dos yn mlaen,  
Nac ofna dddw'r, nac ofna dân ;  
Aeth tan y groes, aeth tan y groes,  
Ac angu loes ei hun o'm blaen.
- 3 Fe gongcrodd angu a'i farwol  
gled,  
Fe faeddodd uffern fawr a'r bedd ;  
Gwnaeth fordd i mi, gwnaeth fordd  
i mi  
Ar Galfari o'r ddae'r i'r nef.
- 4 Boed iddo mwy ganiadau o glod,  
Tra nefoedd fawr a dae'r mewn bod ;  
Ac na boed son, ac na boed son  
Ond am yr Oen a'i farwol glwy'.
- 5 O! d'wedded pawb am rin y gwaed,  
Maddeuant llawn, maddeuant rhad,  
Dim achwyn mwy, dim achwyn  
mwy,  
Ond canu am glwy' Calfaria fryn.

## HYMN CCCLXXX.

- D**ACW 'r hyfryd fan ca'i drigo,  
Gwn ca'i drigo cyn bo hir,  
Draw i'r bryniau oer, tymhestlog,  
Yn y sanctaidd hyfryd dir ;  
Gwelai 'n awr, foreu wawr  
Glir, o dragwyddoldeb mawr.
- 2 O ddwyrein-dir cras mae'n t'wynu,  
Lle mae teml fawr fy Nhad,  
Lle mae'r arch, a lle mae'r manna,  
Lle mae'r drugareddfa rad ;  
Un prydnawn chwerw gawn,  
Yno wed'yn diengu wnawn.
- 3 Ni gawn yno wel'd a garwn  
Mewn gogoniant llawer mwy  
Nag y gwelsom ar y croesbren  
Tan ei farwol ddywyfol glwy' ;  
Lluoedd mawr sydd yn awr  
Yn ei garu bob yr awr.

- 4 Ni gawn wel'd a'i carodd yma,  
Yn y man, yr ochr draw ;  
Oll yn gwledda ar ei gariad,  
T'lynau auraidd yn eu llaw ;  
Oll yn un a chytun  
Yn moli 'r Duwodd yn y dyn.

## HYMN CCCLXXXI.

EMYNAU SACRAMENTAIDD.

**R**HYFEDDOL yw effeithiol rin  
Y moddion 'pwyntiaist Ti dy  
Hun ;  
Dy gnawd yw bara 'r bywyd gwir,  
O'th glwyfau tardd y ddiod glir.

- 2 Mae syched ynof, ARGWYDD mawr,  
Am brofi 'r gloyw win i lawr ;  
Ac i mi gael chwanegu 'ngrym,  
Trwy fod dy gnawd yn ymborth im'.
- 3 'Rwy 'n ofni 'r dyfroedd, ofni'r tân,  
'Rwy 'n ofni 'r creigydd sydd o'm  
blaen,  
'Rwy 'n ofni 'r pethau lleia' i maes  
Nes cael ymborthi ar dy ras.
- 4 Y dyfroedd gloyw, pur, di-drai,  
Gad i mi 'r awrhon eu mwynhau ;  
Dwg fi o dwrf daearol griw,  
I wledda ar dy fwrdd t'rwy' byw.

## HYMN CCCLXXXII.

**A**'i dyma 'r arwydd roist i mi  
O angeu poenfawr Calfari ?  
A all 'r elfenau hyn yn un  
I'm tywys atat Ti dy Hun ?

- 2 Ai bara a fynega 'th loës  
A'th glwyfau mawrion ar y groes ?  
A draetha 'r gwinwydd di-lesad  
Anfeidrol haeddiant pur dy waed ?
- 3 Na wna, fy Nw; O tyr'd yn awr,  
A danfon d' Ysbryd pur i lawr ;  
Dy Ysbryd Di gymhwysa 'r gwaed,  
Gymhwysa 'r iachawdwriaeth rad.

- 4 O dal fi, n'ad fi gwympo mwy,  
N'ad fi annghofio 'th farwol glwy' ;  
O gwna fy lloches ddydd a nos  
O dan ddyferion gwaed y groes.

- 5 N'ad im' i'th fwrdd i fentro 'n  
mlaen  
Heb wisgoedd gwynion pur a glân ;  
Gwaith edau a nodwydd hardd eu  
llun,—  
Dy ras a'th haeddiant Ti dy Hun.

## HYMN CCCLXXXIII.

**D**Y fwrdd sydd yn gyfoethog  
iawn  
O bob danteithion foreu a nawn,  
Ac nid oes ond dy wleddoedd drud  
Rydd fywyd i golledig fydd.

- 2 Cariad yn ddwfn fel y bedd  
Sydd yn mhob rhan o'th nefol  
wledd ;  
A beth yw 'r newydd win di-drai  
Ond cariad hyfryd i barhau.
- 3 Tlawd oeddem ni, a chloff a dall  
Yn gorwedd yn nghadwynau 'r fall ;  
Heb chwant na gallu i godi 'm llef  
I fyny tua theyrnas nef.
- 4 Tydi dy Hun a ddaeth i'n hol,  
Tydi a'n cym'rodd yn dy gôl ;  
Nis gall'sai ond anorchfygol ras  
I'n dwyn o'r pydew mawr i maes.
- 5 O'r diffaeth ddyrus anial dir  
Lle buom ni yn crwydro 'n hir,  
Ni ddaethom yma i dy dŷ,  
A chwant cael gwel'd dy wyneb cu.
- 6 O tyr'd dy Hunan, dere i'r wledd,  
Digon i ni yw gwel'd dy wedd ;  
Ac ar dy ffordd mae 'n ofid blin  
I aros hebot Ti dy Hun.

## HYMN CCCLXXXIV.

**O** ANWYL Iesu, tyr'd i'n cwrdd,  
A gwel drueiniaid ar dy  
fwrdd ;  
I gyd yn ffol heb fedru o'r un  
I bledio gronyn drosto ei hun.

- 2 Nid yn y bara hwn na'r gwin,  
Ond yn dy gnawd a'th waed mae  
rhin,  
Gad i ni wel'd dy angeu drud  
Yn ein dyrchafu i'r lan o'r byd.

- 3 Ti roist dy fywyd pur i lawr,  
A phwy all bwyso gwerth mor  
fawr !  
'D oes neb a fesur faint dy wae,  
Na firwythau 'th gariad i barhau.

- 4 Ti roist i lawr dy fywyd drud  
I brynu im' dragwyddol fydd :  
Myn'd dan fath boen, fath dristwch  
chwith,  
I minau fod yn llawen byth.

## HYMN CCCLXXXV.

**O**! ROSYN Saron hardd,  
O'r lili wen ei lliw !  
Nid oes o'r ddaer a dardd  
Flaguryn fel fy Nw ;  
Yn mhlith y coed rhyw ganghen lawn  
O sypiau grawn, fy Anwylyd yw.

- 2 Pan 'r oeddwn i yn wan,  
Yn mron llewygu 'n wir,  
Fe 'm cododd i i'r lan  
I mew'n i'w win-dŷ pur ;  
Ce's yfed gwin, hyd heddyw mae  
Fyth yn parhau ei nefol rin.
- 3 Ce's eistedd tan ei wŷydd,  
A'i firwyth oedd felus iawn,  
Goleuni ynddynt sydd,  
A phob rhinweddol ddawn ;  
Bwyteais yn hy', ei wir fwynhad  
A'i gariad rhad congwerodd fi.
- 4 Mae 'm nwydau i'n awr yn wan,  
Gras sy 'n gorchfygu 'n llwyr,  
'R wy 'n aros yn y fan  
Dymunwn foreu a hwyr ;  
'R wy 'n glaf, yn wir, o'i gariad cu,  
Cysurwch fi â 'falau pur.

- 5 'N awr gwedd wynebpryd im'  
Holl feibion Adda o'r trwch,  
Eu nerth, eu rhwysg, a'u grym  
Sy 'n darfod yn y llwch ;

Ond pan el chwyth (on'd rhyfedd  
yw !)  
Fe bery Duw yn Briod byth.

## HYMN CCCLXXXVI.

**W**RTH edrych, Iesu, ar dy  
groes,  
A meddwl dyfnder d' angeu loes,  
Pryd hyn 'r wy' yn dibrisio 'r byd  
A'r holl ogoniant sy ynddo i gyd.

- 2 N'ad fi ymddiried tra f' wyf byw,  
Ond yn dy angeu Di, fy Nw ;  
Dy boenau a dy farwol glwy'  
Gaiff fod yn ymfrost i mi mwy.
- 3 Myfi aberthaf i dy glod  
Bob eilun sydd o dan y rhod ;  
Ac wrth fyfyrion ar dy waed  
Fe gwmp pob delw dan fy nhraed.
- 4 Gwelwch yn nwyllaw 'Mhrynwyr pur,  
Ac yn ei draed Ef, hoelion dur !  
Edrychwch ar y waew-ffon  
Yn tori 'r archoll tan ei fron !
- 5 Dyma lle 'r ydoedd, ar brydawn,  
Rasusau yn dysgleirio 'n llawn ;  
Mil o rinweddau yn gytun  
Yn prynu 'r gwrthgiledig ddy.
- 6 Poen a llawenydd tan y loes,  
Tristwch a chariad ar y groes ;  
B'le bu rhinweddau fath y rhai'n  
Eriodd o'r blaen dan goron ddrain ?
- 7 Pa'm carai 'r byd a'i dda yn hwy,  
On'd dyma wrthddrych llawer mwy ?  
A dal ei garu tra ynof chwyth,  
A thragwyddoldeb wedy'n byth.
- 8 Pe byddai 'r byd yn eiddo fi,  
A'r holl deganau ynddo sy,  
On'd diflas yw eu pleser hwy  
Wrth brofi pleser canmil mwy ?
- 9 A chariad mor anfeidrol yw,—  
Mor llawn o haeddiant o bob rhyw,  
Na feiddiaf lai, er dw'r na than,  
Na rhoi fy mywyd iddo 'n lân.

## HYMN CCCLXXXVII.

**P**WY na fwytai y ffrwyth o'r nen  
 Sy 'n tyfu ar bren y bywyd ?  
 A phwy na roddai wrth ei fin  
 Rinweddol win mor hyfryd ?

2 Ti yw'r winwydden hyfryd, lawn,  
 Sy â'i sypiau grawn yn hongian,  
 Ac yn dyferu 'r gwin o'r nen  
 Fyth, fyth uwchben dy winllan.

3 Hon yw dy ardd, braf yw ei bri,  
 Dy blaniad Di dy Hunan ;  
 O tyr'd i mewn, ac arni chwyth,  
 Gwna ynddi fyth dy drigfan.

4 Casgl dy fyrr a'th aloes pur,  
 Grasusau gwir dy Ysbryd ;  
 Bwyta dy ddil yn nghyd â'th fêl  
 I ni gael sel o fywyd.

5 Wel ff dy win a'th laeth yn hael,  
 Boed hyn yn dal o'th lafur ;  
 Am it' ddyoddef ar y groes  
 Anfeidrol loes a dolur.

## HYMN CCCLXXXVIII.

**D**Y gnawd yw 'r bara, hyfryd  
 fwyd,  
 Yn unig gwyd ein henaid ;  
 Pan gwelom ynddo 'r waewffon  
 Fe 'n dadrus o'n caethiwed,

2 Y chwys dyferol gollaist Ti  
 A'n canodd ni mor wnyed ;  
 Pan gwelom ôl y waewffon,  
 Fe'n dadrus o'n caethiwed.

3 O rho i ni ffydd oleuwen glir  
 Fo'n dangos tir y bywyd :  
 Hir buom lesg, symuda 'n traed  
 Tua'r wlad ddymunol hyfryd.

4 Gad i ni wledda, gwledda o hyd,  
 Annghofio 'r byd yn gyfan ;  
 A boed ein trigfan yn dy dŷ,  
 I'th weled Di dy Hunan.

## HYMN CCCLXXXIX.

**B**'LE mae tosturi dan y nef  
 Cyffelyb i'w dosturi Ef ?  
 Creawdwr dae'r a nefoedd fawr  
 Yn rhoddi ei fywyd oll i lawr !

2 O 'wyllys rydd, o gariad rhad,  
 Y colodd Ef ei werthfawr waed ;  
 Fe 'nillodd enw mawr di-lyth,  
 A chlod na dderfydd o hono byth.

3 Troseddwy'r oeddem ni i gyd,  
 Yn rhwym o dan anfeidrol lid ;  
 Neb yn y nef neu 'r ddae'r y sydd  
 A roisai 'n cadwyn fawr yn rhydd,

4 Y felldith fawr fe cym'rai 'n un,  
 Fe'i hoeliai wrth ei groes ei Hun ;  
 Rhwng nef a dae'r congwero  
 wnaeth  
 Holl awdurdodau uffern gaeth.

5 Wrth ddyodde'r anngghymarol loes,  
 Y felldith hoeliodd ar y groes ;  
 Fe brynodd fendith yn ei lle  
 Sydd fwy ei phris na dae'r a ne'.

6 Ac nid rhaid ofni 'r gyfraith mwy  
 Gan neb a gredodd yn ei glwy' ;  
 'D yw 'r holl fgythion mawrion,  
 llym,—  
 Mynyddoedd Sinai,—'r awrhon  
 ddim.

7 Bendithion braf, newyddion, sy  
 Fel moroedd mawr ar Galfari,  
 Yn llifo tros sancteiddiol dir  
 Yn ffrydiau o lawenydd pur.

8 Mi olchaf yma 'n awr yn rhad  
 Fy ngwisgoedd budron oll â gwaed ;  
 Ac yno y iachaf fy nghlwy',  
 Fel na bo ofn angeu mwy.

9 O! Ffynon fendigedig, wiw,  
 Torodd o honi waed fy Nuw !  
 A dyma 'r gwaed a'r dwfr drud  
 Sy 'n golchi holl bechodau 'r byd.

## HYMN CCCXC.

**F**E, Pren y Bywyd, gwerthfawr sy  
 Yn tyfu yn y nefoedd fry ;  
 A'i gangau per yn pwyso i'r llawr,  
 Yn llawn o ffrwythau bob yr awr.

2 Y ffrwythau penaf oll i gyd  
 Yw cariad anfesurrol, drud ;  
 Maddeuant, hedd, doethineb, grym,  
 'D oes o'r cyffelyb iddynt ddim.

3 Tra fo'm yn eistedd tan ei wdd  
 Rhyw nefoedd anorchfygol fydd ;  
 Hardd idd eu gwel'd yw ffrwythau  
 A melus hyfryd yw eu blas. [ei ras,

4 Rho'nt fywyd o rinweddol ddawn  
 I galon fyddo 'n galed iawn ;  
 Nerth a llawenydd pur sy'n bod,  
 Heb unrhyw wenwyn ynddo erioed.

5 Y cleddyf tanllyd, doed yn mlaen,  
 A chadwent Eden goed yn lân ;  
 'D oes pren o fewn Parawys, gwn,  
 Ddwg ffrwythau peraidd megys hwn.

## HYMN CCCXCI.

**D**UW, er mor èang yw dy waith,  
 Yn llanw 'r holl greadigaeth  
 faith,

'Does dim trwy waith dy ddwyllaw oll  
 At gadw dyn fu gynt ar goll.

2 Dyma lle mae dy anfeidrol ras  
 Hyd eitha 'n cael ei daenu 'maes ;  
 A holl lyth'renau dy enw gawn  
 Yn cael eu dangos yma 'n llawn,

3 Ar Galfari, rhwng dae'r a ne',  
 Llewyrchodd ei ogoniant E ;  
 Un haul ymguddiodd y prydawn,  
 A'r llall a wnaed yn eglur iawn.

4 Nid oedd ond gwaed 'sgrifennai 'gyd  
 Ddyfnderoedd sy'n anfeidrol lid ;  
 Nid oedd ond gwaed osodai 'maes  
 Derfynau 'r gwaredigol ras.

5 Pwy ddawn sy yn y Duwdod mawr  
 Nad yw e'n 'sgrifeni yma 'lawr ?  
 Beth all'sai ddangos pwy wyt Ti  
 Yn well nag angeu Calfari ?

6 A ddywed dysg, y fynyd hon,  
 Neu holl resymau 'r byd o'i fron,  
 P'un ynte ai doethineb llym,  
 Neu gariad yno oedd fwy' ei rym ?

7 Mi wela' gariad yma 'nghyd,  
 A digter, ac anfeidrol lid,  
 Yn gwaedu ei Fab i'r llawr yn lli',  
 I wneuthur pler i myfi.

8 O fyrddiwn rhyfeddodau 'r groes !  
 Dyoddefodd f' ARLWYDD angeu  
 loes !  
 Caru hyd at ddyoddef lliid,  
 Caru a marw yr un pryd !

9 Fy ysbryd a fy mywyd drud  
 Sy'n cael ei faeth oddiyma 'gyd ;  
 Y dw'r a'r gwaed ddaeth yma 'n lli'  
 Yw nerth a gallu 'm hysbryd i.

10 Dymunwn roi dy glod i maes  
 Mewn iaith na's deall daear las,  
 O flaen y faingc yn mhlith y llu  
 O seintiau ac angelion fry.

## HYMN CCCXCII.

**'R**'YM wrth dy fwrdd, O AR-  
 GLWYDD cun,  
 Yn ceisio 'th weled Di dy Hun ;  
 Gwag ydyw 'r bwrdd, trist ydyw 'r  
 wledd  
 Heb weled dull dy hyfryd wedd.

2 D' ogoniant mawr a'th angeu drud,  
 Dywyno arnom ni i gyd ;  
 A hyn wna 'n gwleddoedd ni 'n  
 ddi-drai,  
 A hyn wna ini lawenhau.

3 Yfasom win, fel peraist in',  
 Bwytasom fara,—beth dal hyn,  
 On' chawn fwyta'th gnawd yn rhad,  
 Ac yfed yn lle gwin, dy waed ?

4 Fel gallom fyth i lawenhau  
 Mewn gobaieth perffaieth o fwynhau  
 Cymdeithas o nefolaidd rin,  
 Mewn gwledd wastadol, â Thi 'th  
 Hun.

5 Ni gawn ymddangos, cyn bo hir,  
 O flaen yr orsedd ddysglaer, glir,  
 Mewn gwisgoedd gwynion, laesion,  
 rhad,  
 Wedi eu taenellu yn y gwaed.

6 Treuliwn ein bywyd bellach byth  
 Mewn un llawenydd pur di-lyth ;  
 Cofiw'n ei enw, canwn glod  
 Tra nefoedd wen hyd fyth yn bod.

*Diwedd yr Emynau Sacramentaidd.*

## HYMN CCCXCIII.

HYMNAU AR AMRYW YSTYR-  
IAETHAU.

- T**I, IESU, ydwyt oll dy Hun  
Fy meddiant ar y llawr,  
A Thi dy Hunan fydd fy oll  
O fewn i'r nefoedd fawr.
- 2 Mae'n ymuniadau maith eu hyd  
Yn pwyntio oll yn un,  
Tros bob gwrthdrysychau is y ser,  
Ac atat Ti dy Hun.
- 3 O! Ffynon trugareddau maith,  
Di-derfyn yw dy ras!  
I roi trysorau pena'r nef  
I'r tlotaf un i maes.
- 4 Fy nghysur unig tan bob gwae  
Dy fod Di imi 'n Dduw;  
Ac yn dy gysgod mi âf trwy  
Gystuddiau o bob rhyw.
- 5 Ac ynot mi ymffrostia 'n hy'  
'Mod i yn gyfoethog iawn,  
Am fod trysorau maith fy ngras  
Fel Ti 'n anfeidrol iawn.
- 6 Anghyfnewidiol gair y ne',  
Ond cyfnewidiol fi;  
Am hyn mi safaf, doed a ddel,  
Mae'r afael sicraf fry.

## HYMN CCCXCIV.

- G**WELL yw 'th drugaredd a dy  
hedd  
Na'r byd, na'r bywyd chwaith;  
Ac nid oes angel gyfri' ei werth  
I dragwyddoldeb maith.
- 2 Ac mae pob peth yn eiddo im',  
Heb eisieu ac heb drai;  
Ac nid oes diffyg ddaw i'r lle  
Y cefir dy fwynhau.
- 3 Mae pob dymuniad, a phob chwant  
Fyth yno 'n eitha' llawn;

Ac yr wy'n tystio, 'd oes ond Duw  
A'm gwna i 'n ddedwydd iawn.

- 4 Doed y tymhestloedd penaf ddel,  
Digonol gallu 'r ne';  
A rhued moroedd dros y tir,  
Anfeidrol yw Efe.
- 5 Mi waeddaf yn y storom fawr,  
Dan donau fwy na rhi';  
Ac fe esgyna 'm drylliog lef  
I entrych nefoedd fry.
- 6 Fe ffy 'r tywyllwch wrth fy nghri  
Yn nghyfyngderau 'r nos,  
Can's nid â 'n ofer gais fy Nw  
A waeddodd E ar y groes.

## HYMN CCCXCV.

**Y** MAE holl ddysgwyliaidau 'r  
llawr  
Yn siomi a myn'd yn ddim;  
Ac mae gwrthdrysychau 'n methu 'n  
lân  
Ag oedd yn fawr eu grym.

- 2 Ond eto mi ge's afael lawn  
Ar wrthdrysych gwell na hwy,  
Ac na's cyfnewid byth mo'i ras  
I dragwyddoldeb mwy.
- 3 Rhyw gariad a ffyddlondeb maith,  
A thrugareddau 'n un,  
Ydyw yr enwau garodd Ef  
I roddi arno ei Hun.
- 4 Fe 'm carodd, ac fe 'm car i byth,  
Doed y troiadau ddel,  
Ac fe row'd geiriau ei gariad pur  
Yn gryno iawn dan sel.
- 5 Am hyn fe gwmp fy meiau o'r  
bron,  
Ond aros gwel'd y dydd;  
Can's mae cadwynau uffern faith  
Yn siwr o fyn'd yn rhydd.
- 6 Fe gollodd chwant ei afael gref,  
Mae beunydd yn gwanhau;  
Ac yn ei gollod minau wyf  
Yn hyfryd lawenhau.

RHAI HYMNAU NEWYDDION  
*a chwanegwyd at y pedwerydd argraffiad o*  
CANIADAU Y RHAI SYDD AR Y MOR O  
WYDR.\*

## HYMN CCCXCVI.

**DOED** uffern, angeu, a holl rym  
Fy mhechod yn gytun,  
Cryfach a thrymach lawer yw  
Ffyddlondeb Duw ei Hun.

- 2 Ac yn eu herbyn gwaedda'i maes,  
"Yr ARGLWYDD yw fy rhan;"  
Ac yn ei glwyfau mi ga'r dydd  
Yn hollol yn y gan.
- 3 Ac mi rof f' angot yma 'lawr  
Mewn moroedd dyfnion maith,  
Nes im' gael landio yno i'r lan,  
I'r wlad o fel a llaeth.
- 4 A ellir congoco dwyfol rym,  
A diftodd dwyfol dân?  
Na wna, fe arwain cariad pur  
O'r dywyll Aipht fi 'm laen.
- 5 Pan gellir briwio gallu 'm Duw,  
Tori ffyddlondeb nen,  
A thyna 'r unig amser 'r â  
Tymhestloedd tros fy mhen.

## HYMN CCCXCVII.

**T**YDI, fy ARGLWYDD, yw fy rhan,  
A doed y drygau ddel;  
Ac er bygythion uffern fawr  
Dy gariad sydd dan sel.

- 2 Oddiwrthyt rhed, fel afon faith,  
Fy nghysur yn ddi-drai;  
O hwy'r i fore fyth yn gylch  
Dy gariad sy'n parhau.
- 3 Uwch pob rhyw gariad is y nef  
Yw cariad pur fy Nw;  
Anfeidrol foroedd dyfnion, maith,  
Heb fesur arno yw.

\* Argraffwyd y rhai hyn—o leiaf yr argraffiad sydd genym ni ohonynt—yn Aberhonddu, gan E. Evans, yn y flwyddyn 1773. Y mae yr Emynau hyn yn gwneud i fyny Khib CCCLXIX. hyd CCCLXXXII. yn Argraffiad 1811, dan olygiaeth y Parch. John Williams.

- 4 Dechreuodd draw cyn creu y byd,  
Fe bery fyth yn mlaen;  
Heb un cyfnewid, ac heb drai  
Pan elo 'r byd yn dân.
- 5 O dewch a gwelwch, chwiliwch Ef,  
Anfeidrol gariad mawr,  
Ag sydd yn maddeu miloedd myrdd  
O feiau yn yr awr;
- 6 Yn para 'n ffyddlon fyth heb drai  
P'odd bynag troddo 'r byd;  
A phe cymysgai tir a môr  
Yr un yw 'm Duw o hyd.

## HYMN CCCXCVIII.

**P**AN delo angeu yn ei rwygs  
I dori fy oll i lawr,  
Fy unig noddfa werthfawr fydd  
Yn fy Ngwardwr mawr.

- 2 Pan y diflano enwau o'r bron,  
A ffrynd, a mam, a thad,  
Yr enw hyfryd unig fydd  
Yr iechydwrriaeth rad.
- 3 Fe saif cyfamod pur y nef  
Pryd hyny yn ei rym,  
Pan bo pob cysur is y nef  
Wedi diflanu 'n ddim.
- 4 Y cyfan wedi rhoi ffarwel  
A welwyd is y rhod,  
Yno fy IESU fydd y Ffrynd  
Anwyla' gawd erioed.
- 5 O gad im' mewn tangnefedd pur  
Roi 'm hanadl ola' i maes;  
Ac mewn gorfoledd hwylio dros  
Y cefnfor garw glas;
- 6 A myn'd tan ganu tua 'r wlad  
Bwrpaswyd imi fyw,  
Ac wedi gado 'mhell o'm hol  
Gystuddiau o bob rhyw.

## HYMN CCCXCIX.

**Y** MAE trysorau 'r dwyfol ras  
O lawer uwch eu rhyw,  
Na dim o'r nefoedd faith i'r byd  
Erioed a greodd Duw.



2 Tra caffwyf yfed ar fy nhaith  
O'r ffynon loew, glir,  
Nid ofna i ronyn, er eu grym,  
O ddrygau 'r anial dir.

3 Er fod picellau tanlyd iawn  
Yn 'hedeg yn eu grym,  
Yn erbyn cariad dwyfol, pur,  
Nis gallant ddrygu dim.

4 Ac mi ymfrostia' yn nerth y nef,  
Yn nerth y nef ei hun,  
Fe bwysa haeddiant dwyfol, pur,  
Fwy na phechodau dyn.

5 Fe ddygwyd beiau heb ddim rhi'  
I ben Calfarfa fryn;  
A minau ymolchaf fyth tra b'wyf  
O fewn y ffynon hyn.

6 Anfeidrol ddwyfol gariad rhad,  
Yn unig yw fy ngrym;  
Ac nid oes arall fyth a'm dal  
I deithio i'r bywyd ddim.

### HYMN CCCC.

**W**EL dyma 'r eiddil, dyma 'r  
gwan,  
Yn gruddfan wrth dy draed;  
Tu hwnt pob gobaith i gael byw  
Ond trwy dy ddwyfol waed.

2 Rhifedi 'meiau sydd dros ben  
Pob haeddiant oll o ddyn;  
Ac nid oes gen'i yn noddfa im'  
Ond haeddiant Duw ei Hun.

3 Mor anobeithiol yw fy mriw,  
'Da'i mofyn meddyg mwy,  
Ond ato ei Hunan ar y pren  
Ddyoddefodd farwol glwy'.

4 Am iddo yno grymu ei ben,  
A marw ar y groes,  
Mwy na rhifedi beiau 'r byd  
Yw haeddiant dwyfol loes.

5 Wel dyma 'r unig fan y mae,  
Os oes i'm gael iachad;  
Ac yma creda'i os cai rym,  
Mewn dynol ddwyfol waed.

6 Ac yna gwnaed y ddaear fawr  
Ei gwaetha' fore a nawn,  
O fewn fy noddfa sanctaidd, bur,  
Y byddai 'n ddedwydd iawn.

### HYMN CCCC.I.

**O** TYRED, Ysbryd sanctaidd,  
pur,  
Nertha 'm blinedig draed;  
A rho i mi olwg oleu, glir,  
Ar hyfryd dir fy ngwlad.

2 Gad imi ado 'r anial maith,  
Gwlad galar, a gwlad gwae,  
A myned rhagof tua 'r tir  
Sy â'i bleser yn parhau.

3 'R wy'i fel y gwylwr ar y mur,  
Yn dysgwyl bob yr awr  
Am wel'd yn gwawrio Jubil fwyn,  
Fy muddugoliaeth fawr.

4 Pleserau 'r ddaear wedi ffoi,  
Pob chwantau 'gyd yn un;  
Heb un difyrwch is y rhod,  
Ond Iesu mawr ei Hun.

5 A meddwl am gwmpeini 'r nef,  
A meddwl am y gwaith  
Ag a fydd gen'i 'n treulio 'maes  
Holl dragwyddoldeb maith.

6 Yn mhlith cwmpeini rif y ser,  
Llawn ddysglaer uwch y nen,  
Yn cymysg cariad ato Ef  
Fu farw ar y pren.

### HYMN CCCCII.\*

**M**I wela' dyrfa draw o'm blaen  
Yn canu ar ben eu taith,  
Ac wedi gorphen d'rysu ar hyd  
Yr anial garw, maith,

\* Y mae yr amgylchiad a gynhyrfodd yr Awdwr i gyfansoddi yr Emyr brydferth hon, yn nghyda'r ddwy ganlynol, yn ddigon iychwanegu ein dyddordeb ynddi yn fawr. Hysbysa yr Awdwr mai Emyrnau ydynt "a gyfansoddwyd wrth glywed am farwolaeth Mr. Harries." Beth bynag oedd yr oerfelgarwch a fu rhwng y tadau Methodistaidd yn nglyn â'r Ymranïad, mae'n amlwg, nid yn unig, "nad aeth un o'u nwydau i mewn i'r nef," ond ei fod wedi cilio hefyd yn bur llwyr tra yr oeddynt yma ar y llawr.

### HYMN CCCCIV.

**D**ARFU d'rysu yn y rhwydau,  
Aeth pob maglau 'n awr yn  
rhydd;

Nid rhyw achub yma ac acw,  
Ond rhyw garu heddyw sydd;  
Nid yw gartre' yn y meddwl  
Pan yr elo 'r ffun i maes,  
Y mae 'r nef yn peri anghofio  
Holl bleserau 'r ddaear las.

2 Ni ddaw hunan-dyb, na rhyfyg,  
Na 'r awelon oer o'r blaen  
Ddim i mewn i blith cwmpeini  
Ag sy 'n llawn o'r nefol dân:  
Nid oes dyn, na da, na chyfoeth  
Yno 'n meddu gronyn grym;  
Cariad maith yr addfwyn Iesu  
A wnaeth bobpeth oll yn ddim.

3 Maent hwy yno wedi darfod  
Ofni yr Iorrdonon ddu,—  
Angeu ag oedd yn croesi eu llwybr  
I'r Baradwys hyfryd fry;  
Tros brydnawn y bu wylofain,  
Yn y bore hyfryd aeth—  
Ant i mewn gyda gorfoledd  
I wladwriaeth mel a llaeth.

4 Cân, fy enaid, mwy bydd lawen,  
Minau ddoif, er tonau maith,  
Cynddeirioca' eu rhyw a'u pwysau,  
Cyn bo hir i ben fy nhaith;  
Mi gaf orphen dyrus anial,  
Mi gaf landio i mewn i'w plith,  
A chaf fod heb ddim i'm blino,  
Yn eu cwmni dedwydd byth.

### HYMN CCCC.V.

**T**I yw fy ARGLWYDD i, a'm Duw—  
Fy Noddfa gadarn, gref;  
Fy unig gysur, fy unig Ffrynd,  
Fy nghwbl is y nef.

2 Ac atat caiff fy och'neidiau fyn'd  
Yn aml fel y ser.  
Nes d'od dyddanwch dwyfol ryw  
O fynwes bur fy Ner.

3 Fe ballodd dyn, fe ballodd da,  
A'r creadur o bob rhyw;  
Minau ge's deimlo nad oes dim  
I'm garu ond fy Nuw.

2 'N ol cyfeiliorni ar y dde',  
Ac ar yr aswy law,  
Heb un cyfeiliorn maent hwy'n awr  
Yn canu 'n beraidd draw.

3 Fe ddarfu eu rhyfel, er ei rym,  
Fe ddarfu eu poen a'u gwae;  
Ac maent yn yfed heddyw o'r  
wledd  
Dragwyddol sy 'n parhau.

5 Pob parch a haeddiant, gras a dawn,  
Pob enw oll o ddyn,  
Sydd yno 'n hollol suddo 'lawr  
Yn Iesu mawr ei Hun.

6 Mae dyfais parch, mae dyfais clod,  
Mae dyfais myn'd yn fwy,  
A phob rhyw awydd wedi ffoi  
Yn lân o'u cwmni hwy.

7 Mae IESU ei Hun yn awr yn fwy  
Na'r cwbl is y ne';  
A'u holl ddifyrwrch fyth, a byth,  
Yw edrych arno Fe.

### HYMN CCCCIII.

*Yr Ail Ran.*

**M**AENT wedi anghofio yn lân  
yn awr  
Eu nythau is y rhod,  
Ac y mae harddwch daear faith  
Megys pe b'ai heb fod.

2 'D oes un genfigen ddaw i blith  
Y dyrfa hyfryd fry;  
Na dim ond nefol faith fwynhad  
O gariad IESU cu.

3 'D oes neb a hiraeth am un ffrynd  
Adawodd ts y rhod;  
Ond maent yn canu i'r Oen yn  
mhlith  
Y ffryns ffyddlona' erioed.

4 Wedi anghofio 'r groes a'r gwae,  
A thristwch anial dir;  
Ac heddyw yfed cariad rhad  
Fel dwfr gloew, pur.

5 Dod ynwy'i hiraeth, IESU mwyn,  
Am y dragwyddol wledd;  
A rho i mi brofi yma flas  
Pleserau draw i'r bedd.

- 4 Mi rof fy ngofal arno ei Hun,  
Doel y blinderau ddel ;  
A'r addewidion gaiff fod im'  
Megys y diliau mel.
- 5 Ffarwel, greaduriaid o bob llun,  
Eich cwmni 'dyw ond gwae ;  
Rhaid im' gael pleser ag y sy  
Dragwyddol yn parhau.
- 6 Ac nid oes onid gallu 'm Duw,  
A'm dal i'r lan yn lân ;  
Ac mi rof arno 'mhwys a 'mryd,  
Ac aed y byd ar dân.

## HYMN CCCCVI.

- 'D YW y blinderau yma fu,  
Neu y blinderau ddaw,  
Ddim i'w cymharu â gwobr gras  
Gai feddu maes o law.
- 2 Mi 'drycha' ar y gwynfyd drud,  
Pleserau 'r byd a ddaw ;  
Ac mi ddbrisia 'r cystudd fu,  
A'r cystudd sy ger llaw.
- 3 Ni phery 'r byd, a'i rwsyg, a'i rod,  
A'i ofid o bob rhyw,  
Ond megys mynud at y wledd,  
Tragwyddol hedd fy Nuw.
- 4 Mi ymddifyra f' oes i maes  
Mewn myfyrdodau maith,  
Ar bur bleserau Seion wen  
Sy draw yn mhen fy nhaith.
- 5 Doed dynion heddyw imi 'n ffryns,  
A 'fory aent yn gas ;  
Ond fy nghysuron inau dardd  
Oddiwrth dy ddwfol ras.
- 6 A phe b'ai 'n gorwedd yn y bedd  
Anwylaf ffryns y llawr,  
Nid wyf amddifad, tra fo byw  
Fy unig ARGWYDD mawr.
- 7 Y mae E'i Hun yn llawer mwy  
Na'r cwbl yma yn un ;  
'R wyf yn gyfoethog uwch pob rhif  
Heb ddim ond Ef ei Hun.

## HYMN CCCCVII.

- M AE hiraeth trwyddwy' am  
fwynhau  
Trysorau 'r 'ddewid ddrud,  
Ac gallo 'm hysbryd fyn'd o war  
Blinderau 'r anial fyd.
- 2 Fel bo fy ngwleddoedd yn parhau,  
Mewn rhyw feddyliau pur ;  
A chariad hyfryd yn rhoi blas  
Ar sypiau 'r Ganaan dir
- 3 A minau 'n teithio 'mlaen yn gryf  
Trwy 'fonydd mawr oe grym ;  
Ac er myrddiynau o ofnau maith,  
Myfi heb ofni dim.
- 4 A thyma 'r fan dymunwn fyw,  
Tan adain Brenin nef ;  
Ond cael bod yno, yfed wnaf  
O'r cwpan yfodd Ef.
- 5 Y mae dyfnderoedd maith ei ras  
Yn abl dal i'r lan  
Fy enaid egwan sydd yn cael  
Ei guro yn mhob man.
- 6 Cryfhaed y gwyntoedd fel bo raid,  
Cured yr awel gref,  
Nid yw 'r tymhestloedd mwyaf  
'maes  
Ond dim i ras y nef.

## HYMN CCCCVIII.

- 'R WY 'n chwenych gwel'd ei  
degwch Ef,  
Sy uwch pobpeth is y rhod,  
Na's gwelodd lluoedd nefoedd wen  
Gyffelyb iddo erioed.
- 2 Efe yw ffynon fawr pob dawn,  
Gwraidd holl o'goniant dyn ;  
A rhyw drysorau fel y môr  
A guddiwyd ynddo ei Hun.
- 3 'R wyf finau 'n breffu am gael prawf  
O'r maith bleserau sy  
Yn cael eu hyfed, heb ddim trai,  
Gan yr angelion fry.

## HYMN CCCCX.\*

- D ROS y brynau tywyll, niwlog,  
Yn dawel, f' enaid, edrych  
draw,  
Ar addewidion sydd i esgor  
Ar rhyw ddyddiau braf gerllaw ;  
Nefol Jubil, &c.,  
Gad im' wel'd y bore' wawr.
- 2 Doed yr Indiaid, doed barbariaid,  
Doed y Negros du yn llu,  
I ryfeddu 'r ddwyfol gongcwst  
Unwaith gaed ar Galfari ;  
Sw'n y frwydr, &c.,  
Dreiddio i eitha congla'u 'r byd.
- 3 Ar ardaloedd maith o d'wllwch  
Tywynu a wnelo 'r haulwen lân,  
Ac ymlidied i'r Gorllewin  
Y nos, o'r Dwyrain draw o'i blaen ;  
Iechydwrtaeth, &c.,  
Ti yn unig gario 'r dydd.
- 4 Gwawria, gwawria, hyfryd fore',  
Ar ddi-derfyn fagddu fawr,  
Nes bo bloedd yr auraid udgorn  
Yn dadseinio 'r nen a'r llawr,  
Holl derfynau, &c.,  
Tir Immanuel i gyd.
- 5 Hed fel mellten, bur efengyl,  
A gorchfyga oll yn lân ;  
Bydded i'th gyffiniau eang  
Ymhelaethu fyth yn mlaen ;  
A'th lywodraeth, &c.,  
Dros y moroedd mawr i gyd.
- 4 Mae 'nymuniadau 'n 'hedeg fry  
Uwch creadigol fyd,  
Ac yn diystyru 'r ddaear hon  
A'i da o'r bron i gyd.
- 5 Fe 'm ganwyd i lawenydd uwch  
Nag sy 'n mhleserau 'r llawr,  
I gariad dwyfol gwleddoedd pur  
Angelion nefoedd fawr.
- 6 O p'am nas caf fi ddechreu 'n awr  
Fy nefoedd yn y byd ?  
A threulio 'mywyd mewn mwynhad  
O'th gariad gwerthfawr, drud.

## HYMN CCCCIX.

- I ESU, Ti wyt ffynon bywyd,  
Bywyd dedwydd i barhau ;  
Pob cysuron is y nefoedd  
Ynot Ti dy Hun y mae :  
Nis gall croes, na gwae, na chystudd  
Wneuthur niwaidd iddynt hwy  
Gafodd nerth i wneud eu noddfa  
Yn dy ddwyfol farwol glwy'.
- 2 Dyna 'r man na ddaw euogrwydd,  
Dyfais Satan fyth, na chwant ;  
Awel nef sydd yno 'n cadw  
Pob rhyw ddrygau oll i bant ;  
Nid oes rhuad môr na'i donau,  
Na thymhestloedd o un rhyw,  
Ond rhyw bur dangnefedd hyfryd  
Yn archollion f' anwyl Dduw.
- 3 Dring, fy enaid, i'th orphwysfa,  
Uwch y gwynt tymhestlog oer,  
Maes o sw'n rhuadau 'r llewod,  
Maes o gyrhaedd tonau 'r môr :  
Mi gaf yno tan bob blinder  
Hyfryd dreulio 'nyddiau maes,  
Heb gael briw, na chlais, nac ar-  
choll,  
Gan ryw neb gelynnion cas.

\* Yn argraffiad 1811, y mae y Golygydd, y Parch. John Williams, wedi rhoddi yr Emyn hon, gyda 'r hysbysiad yma yn ei chylch :—  
"Yr Hymn uchod a gyfansoddwyd yn Saesneg gan yr Awdwr, William Williams, ac a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan y Cyhoeddwr, John Williams."

*Ffarwel Weledig,*

*Groesaw*

*Anweledig Bethau:*

NEU

RAI HYMNAU O FAWL

I

DDUW A'R OEN.

NODIADAU GAN Y GOLYGYDD.

---

**D**AETH y Gwaith hwn allan, ar y cyntaf, yn dair Rhan. Argraffwyd y Rhan gyntaf yn Nghaerfyrddin, gan J. Ross, yn y flwyddyn 1763. Cyhoeddwyd yr ail Ran, wedi ei hargraffu gan yr un gŵr, yn 1766; a daeth y drydedd Ran allan yn 1769, wedi ei hargraffu yn Llanymddyfri, gan Rys Tomas.

Yn nghyswllt â'r Rhan gyntaf, ceir marwnad *Mana Sophia*, merch fechan yr awdwr. Yn nglŷn â'r ail Ran, ceir y Rhagymadrodd a welir yn dilyn. Gadawodd Williams y Rhagymadrodd yma allan, pan yn cyhoeddi "Haleluia Drachefn;" ond y mae yn rhy werthfawr, ar fwy nag un cyfrif, i adael iddo fyned ar ddifancoll; felly yr ydym yn ei argraffu, ond ein bod yn symud ei le o ddechreu yr ail Ran, i ddechreu y gyntaf. Ceir ar amlen y drydedd Ran hysbysiad am brif waith rhyddiaethol yr awdwr, sef y *Pantheologia*; ond yr ydym eisoes wedi cymeryd syw o'r "hysbysiad" doniol a dyddorus hwnw yn hanes bywyd yr awdwr.

Heblaw y Rhanau uchod, y mae o'n blaen lyfr a elwir "Haleluia Drachefn: neu dair Rhan o'r Hymnau gyfenwyd Ffarwel Weledig, groesaw Anweledig Bethau, wedi eu hargraffu yn un Llyfr, a'u diwygio." Argraffwyd hwn yn Nghaerfyrddin, gan Ioan Daniel; nid yw y flwyddyn yn cael ei nodi. Gesyd Rowlands ef (*Llyfryddiaeth y Cymry*) dan y flwyddyn 1770. Yn yr argraffiad yma y mae yr awdwr wedi newid cryn lawer ar drefn ac olynad yr Emynau, a gwelir ei fod wedi diwygio llawer penill yma ac acw. Yn yr argraffiad presenol ceir yr Emynau yn yr un drefn ag yn y Rhanau cyntefig, ac yn yr un drefn ag argraffiad 1811. Ychydig, os dim, defnydd a wnaeth y Parch. J. Williams yn yr argraffiad hwnw, o waith ei dad yn diwygio ei waith. Wrth barotoi i'r wasg y tro hwn, yr oeddyd yn cadw ein llygaid ar yr "Haleluia Drachefn," ac yn mabwysiadu bron yr oll o'r cyfnewidiadau a wnaed.

## RHAGYMATRODD YR AWDWR.

**M**AE cymaint o Hymnau wedi dyfod atom yn ddiweddar fel y mae yn edrych yn waith diangenrhaid i argraffu rhagor; ond gwybydded y sawl sydd yn meddwl hyn, mai nid dynion â chanu ynndynt yw y rhai sydd yn gweled digon a gormod o Hymnau; fel mai nid y rhai sydd yn cael budd wrth wrandaw yw y rhai sydd yn gweled digon a gormod o bregethu. Y rhai sydd am ganu mawl i Dduw, nis digonir hwy â chaniadau mawl, mwy nag y digonir gwir wrandawyr â gwrandaw; ac nid oes neb o berchen dysg, synwyr, a phrofiad, nad yw yn gwybod fod amryw ddoniau yn adeiladol.

Er mai ceisio tynu at yr un sylwedd, ac at yr un athrawiaeth, y mae y rhan fwyaf o'r Hymnau a gyfansoddwyd eisoes, eto fel y maent wedi eu gwisgo â phrofiadau newyddion, goleuni newydd, troell-ymadroddion a mesurau newyddion, mae eu hamrywioldeb, yn llaw yr Ysbryd tragwyddol, i gyffroi teimlad o gariad Duw. Buasai y Beibl ei hun yn llawer llai pe buasai heb ddim ail-adrodd ynddo. Buasai ychydig chwanegiad at un o'r pedwar Efengylwr yn cyflawni lle y tri ereill; buasai haner y Salmau yn cyflawni ystyr y lleill oll; ni fuasai raid wrth amryw benodau o lyfrau Moses, nac ychwaith amryw fanau o'r Breninoedd a'r Croniclau, oni buasai fod Duw am fendithio ail-adrodd gwirioneddau, ac amrywioldeb yn ei Air; rhoi i ni lin ar lin, gorchymyn ar orchymyn, pregeth ar ol pregeth, hymn ar ol hymn; ac *ysgrifenu yr un pethau atoch*, medd yr Apostol, *genyf fi yn wir nid yw flin, ac i chwithau y mae yn ddiogel*.

Ond y trueni mwyaf yw fod llawer ohonom yn rhyfygu cyffwrdd âg arch Duw heb alwad; ac, o bosibl, o awydd i barch, i gael eu henwau mewn *print*, yn cyfansoddi hymnau heb gorph, enaid, cymalau, na mër; heb brofiad nac ysbryd ag sydd yn cael argraff ar galonau difrifol. Nid yw gymaint i'w feio fod dynion di-ddysg yn cymeryd y gwaith mewn llaw, canys y mae Duw yn gwneud defnydd o'r dynion gwaelaf at orchwyllion mawrion yn fynych; ac nid dysg Deborah, Barac, a Miriam, a'u gwnaeth hwy, na Dafydd chwaith, a'i gwnaeth yntau, y fath feirdd hynod yn Llyfr Duw, ond ysbryd, a zel, mwynhad o Dduw, a phrofiad, yn

nghyda grym hwyl nefol, yn cydferwi o mewn, nes tori o'r tân allan mewn caniadau melus a bery byth. Ond yr hyn sydd i'w feio yw, fod yr ysbryd hwn yn eisieu yn amryw o'r papyrau diweddar.

Harddwch y Salmau yw eu hysbryd, eu ffydd, a'u profiad, heblaw eu bod wedi eu rhoddi gan yr Ysbryd Glân; ac nid un o'r nodau lleiaf fod Llyfr y Caniadau yn ganonaidd, yw y blas ag y mae y saint yn ei gael ynddo; ac o'r tu arall, yr ysbryd dyeithr sydd yn llyfrau yr Apocrypha sydd un dystiolaeth eglur na roddwyd o honynt gan yr Ysbryd Glân; ac os collir blas ar hymnau, aent tros fynyddoedd yr India, lle na chlywo Cymro o honynt byth mwy.

Mi a gynghorwn yn ostyngedig i bwy bynageto addanfono hymnau i'r argraff-wasg, yn 1.—I ymofyn am wir ras eu hunain; gwir adnabod Duw yn ei Fab; heb ba beth y mae yn rhyfyg ofnadwy i gyftwrdd âg arch Duw. 2. Darllen yn Saesneg, os nad allant ddarllen mewn ieithoedd ereill, bob llyfrau o brydyddiaeth addas a allont gyrhaedd, er mwyn helaethu eu deall, i adnabod prydyddiaeth—pa le y mae ei thegwch hi yn gorphwys, at ba ddyben y mae, a'r amryw reolau sydd yn perthyn iddi. 3. Pa un bynag a'u bod ai peidio yn gallu cyrhaedd y peth olaf, eto darllent drachefn a thrachefn lyfrau y Prophwydi, a'r Salmau, y Galarnad, y Caniadau, Job, a'r Dadguddiad, y rhai sydd nid yn unig yn llawn o ehediadau prydyddiaeth, troell-ymadroddion, amrywioldeb, esmwythder iaith, a chyffelybiaethau bywiog, ond ag ysbryd hefyd ag sydd yn enyn tân, zel, a bywyd yn y darllynydd tu hwnt (am mai llyfrau Duw y'nt) i bob llyfrau yn y byd. 4. Peidio gwneud un Hymn fyth nes y byddont yn teimlo eu heneidiau yn agos i'r nef, tan awelon yr Ysbryd Glân; a'r Ysbryd hwnw a fydd barod i fendithio ei waith. Amen.

Mae yma ychydig fesurau newyddion, a mi a fynaf, ar ol fy addewid, roddi y mesurau, (h.y. tonau) i ryw ychydig a fedr eu tynu hwynt allan. Mae deg neu ddeuddeg yn ddigon o honynt tros Ddeheudir Cymru, os bydd ewyllys i'w taenu hwynt ar led.

Ffarwel.

Eich Brawd,

W. W.

# Ffarwel Weledig, Groesaw Anweledig Bethau.

## HYMN CCCCX.

*Mawl am Iechydwrïaeth.*

- 'R WY'n dy garu, er na's gwelais,  
Mae dy gariad fel y tân;  
Nis gall nwydau cryfa 'm natur  
Sefyll mymryn bach o'th flaen;  
Fflam angherddol, &c.,  
Rywryd ddifa 'm sorod yw.
- 2 Pell uwch geiriau, pell uwch deall,  
Pell uwch rheswm goreu 'r byd,  
Yw cyrhaeddiad \* perffaith gariad  
Pan enyno yn fy mryd;  
Nid oes tebyg, &c.,  
Gras yn holl drysorau 'r nef.
- 3 Rhaid im' adael ei ddirgelion  
Hyfryd, heb eu chwilio 'maes,  
Am nas gallaf, maent mor ddwfn  
Ag yw gwaelod cefnfor glas:  
Tragwyddoldeb, &c.,  
Yw ei orsedd-faingc ddi-drai.
- 4 Mi gaf weled, † mi gaf ddeall,  
Mi gaf yno berffaith ras,  
I gael ffeindio hen ddyfnderoedd  
Pen Calfaria 'n well i maes:  
Tyred wyntoedd, &c.,  
I gael chwythu 'r nos i bant.
- 5 Yno caf fi ddweyd yr hanes,  
P'odd y dringodd eiddil, gwan,  
Trwy afonydd a thros greigydd  
Dyrus, anial, serth, i'r lan:  
Iesu ei Hunan, &c.,  
Gaiff y clod trwy eitha 'r nef.

\* *Cyrhaeddyd* yw y gair a geir yn ein Llyfrau Hymnau, ac yn yr holl argraffiadau diweddard. Y mae y newidiad yn newid y meddylddrych, ac yn tywyllu ystyr y penill.

† Dyma fel y mae yn yr argraffiad cyntaf (1763)—“Mi gaf ieithoedd, mi gaf ddeall.”

- 6 Nid oes yno ddiwedd canu,  
Nid oes yno ddiwedd clod,  
Nid oes yno ddiwedd cofio  
Pob cystuddiau ag fu 'n bod;  
Byth ni dderfydd, &c.,  
Canmawl Duw yn nhŷ fy Nhad.

- 7 Dechreu canu, dechreu canmawl  
Yn mhen mil o filoedd maith,  
Iesu, bydd y pererinion  
Hyfryd, draw ar ben y daith;  
Ni cheir diwedd, &c.,  
Fyth ar swm y delyn aur.

## HYMN CCCCXI.

*Iesu ei Hunan yn ddigon.*

- G WY'n a gwridog yw fy AR-  
GLWYDD,  
Gwyn a gwridog yw ei wedd;  
Brenin y brenhinoedd ydyw  
Yma a thu draw i'r bedd;  
Mae dy degwch, &c.,  
Wedi 'm henill ar dy ol.
- 2 Cant ffarwel i bob peth arall,  
'R wyt Ti 'n ddigon mawr dy  
Hun;  
Derfydd nefoedd, derfydd daear,  
Derfydd tegwch wyneb dyn:  
Sawl dy gaffo, &c.,  
Gaiff y cwbl oll yn un.
- 3 Sawl dy gaffo gaiff bleserau,  
Pleser yma is y rhod,  
Ei ddyfnderoedd ni ddeallodd  
Cnawd na rheswm eto erioed;  
O gad imi, &c.,  
I mi 'n fuan dy fwynhau.

- 4 Paid a'm gadael yn yr anial  
Dyrus, maith, wrthyf fy hun;  
'R wyt Ti 'nabod aml ofnau  
A gwendidau natur dyn:  
Dal dy afael, &c.,  
Yn dy afael mae fy ngrym.

- 3 Mae dy wedd yn drech na'r fyddin  
O elynion mwya 'u grym;  
Nid oes yn y nef na'r ddaear  
Saif o flaen dy wyneb ddim:  
Gair o'th enau, &c.,  
A wna 'r dywyll nos yn dydd.

## HYMN CCCCXII.

*Gweddï.*

- R HWY anifail wyf heb ddeall,  
A rhyw eiddil llesg heb rym;  
Tywyllwch dudew a ffeidd-dra,  
Nid oes genyf arall ddim;  
Iechydwrïaeth, &c.,  
Rad i mi, neu golli 'r nef.
- 2 Tor fy nghalon galed, gyndyn,  
Tor hi 'n awr yn ddrylliau mân;  
Tor pob rhwystr sydd yn atal  
I Ti 'th Hunan dd'od yn mlaen;  
Eistedd yma, &c.,  
A'th deyrnwialen yn dy law.
- 3 Ti agoraist Di fy llygaid  
I gael gwel'd fy nwf'n glwy';  
P'odd gall ymfrost, p'odd gall  
hunan  
Lechu yn fy nghalon mwy?  
Rho dy allu, &c.,  
Cadarn gyda goleu 'r dydd.
- 4 Pa'm 'r wy 'n temtio 'r Duw wy 'n  
garu?  
Duw a'm carodd cyn fy mod!  
B'le creadur mwy gwrthnysig  
Ellir ffeindio is y rhod?  
Maddeu! maddeu! &c.,  
Trwy it' faddeu bydda'i byw.
- 5 Er it' wisgo corph am danat,  
Er it' farw ar y pren,  
Er it' agor ffordd o'r ddaear  
Trwy dy gnawd i'r nefoedd wen,  
Dim ond pechod, &c.,  
Wyt Ti eto ynwy'i 'n gael.

## HYMN CCCCXIII.

*Gras wedi amlhau.*

N ID oes mynyd bach o'm bywyd  
Na fuost, ARGLWYDD, i mi 'n  
dda;  
Ti 'm gwaredaist fil o weithiau,  
Yma ac acw rhag rhyw bla:  
Fe 'm hachubwyd, &c.,  
Am it' sefyll o fy mhlaid.

- 2 Dengmil llawn o gyfyngderau,  
Ac o nwydau cyfrwys fwy,  
Fu gan Satan i fy maglu,  
Cwymp'swn inau iddynt hwy;  
Ti dy Hunan, &c.,  
Oedd a'n daliodd i i'r lan.

- 3 Mi dueddais gant o weithiau  
O ochr fy ngelynyon cas,  
Gwell oedd genyf golli 'r frwydr  
Nag oedd genyf gario 'r maes;  
Ti 'm hachubaist, &c.,  
Pan o'wn inau 'n myn'd i'r tân.\*

- 4 'R wyt Ti 'n drech na 'm calon  
galed,  
'R wyt Ti 'n drech na 'm pechod  
cas,  
Ti wna'i i'm hanwyl chwant a minau  
Pryd y mynost, gwympto i maes;  
Croesa 'mhechod, &c.,  
Croesa 'r peth wyf am fwynhau.

- 5 Dy ddoethineb a dy allu  
Sydd yn abl tori 'lawr,  
D'rysu, mwrddro, a newynu  
'R penaf un o'm meiau mawr:  
Gwna i mi ganu, &c.,  
Congerwyd gelyn mwy na 'r byd.

\* Yn argraffiad 1793, rhwng y 3ydd a'r 4ydd penill, y mae yr un canlynol:—

Mi wrth'nebaist bur ragluniaeth  
Oedd yn dodi 'm traed yn rhydd;  
Gwell oedd genyf gadw 'mhechod;  
Pa mor felus bara cudd!  
O fy anodd, &c.,  
D'est a'm beiau tan fy nhraed.

Digon tebyg mai yr athrawiaeth sydd yn y ddwy linell olaf a barodd i'r Awdwr llysu y penill hwn.



## HYMN CCCCXIV.

*Yr ARGLWYDD yw fy Nerth.*

- C**YMER, IESU, fi fel ydwyf,  
Fyth ni alla'i fod yn well;  
Dy allu Di a'm gwna i'n agos,  
F' ewyllys i yw myn'd yn mhell;  
Yn dy glwyfau, &c.,  
Bydda'i'n unig fyth yn iach.
- 2 Mi ddiffygiais deithio 'r cras-dir  
Dyrus, anial, wrthyf fy hun,  
Ac mi fethais a chongwero  
O'm gelynion lleiaf un;  
Mae dy enw, &c.,  
Yn abl rhoddi 'r cryfa' i ffoi.
- 3 Gwaed dy groes sy'n codi 'fyny  
'R eiddil yn gongcwerwr mawr,  
Gwaed dy groes sydd yn darostwng  
Cewri cedyrn fyrdd i lawr;  
Gad im' deimlo, &c.,  
Awel o Galfaria fryn.
- 4 Mwy yw dy eiriau ar y croesbren,  
Geiriau gwerthfawr, geiriau drud,  
Mwy yw 'r sillaf leia' o honynt  
Na'm holl ddyledswyddau 'gyd;  
Edrychaf yno, &c.,  
Yno mae fy nerth a'm grym.
- 5 Clywed dy ruddfanau chwerwon  
Wnaiff i'm henaid lawenhau,  
Teimlo 'th gariad wna i'm gelynion  
Cynddeiriocaf lwfrhau;  
Boed fy nhrigfan, &c.,  
Hyfryd ar Galfaria fryn.

## HYMN CCCCXV.

*Cariad Duw, fflam angerddol.*

- '**R**WY 'n dy garu, Ti a'i gwydd-  
ost,  
'R wy 'n dy garu, f' ARGLWYDD  
mawr,  
'R wy 'n dy garu yn anwylach  
Na'r gwrthdychau ar y llawr;  
Darllen yma, &c.,  
Ar fy ysbyrd waith dy law.

- 2 Nid oedd dim o fewn y ddaear,  
Nid oedd dim o fewn y nef,  
Nid oedd bys wna'i 'r fath adeilad  
'N unig ond ei fysedd Ef;  
Dymuniadau, &c.,  
Y'nt a ddaeth o eitha 'r nef.

- 3 Fflam o dân o ganol nefoedd  
Yw, ddisgynodd yma i'r byd,  
Tân i losgi 'm natur gyndyn,  
Tân i lanw 'm heang fryd;  
Hwn ni's diffodd, &c.,  
Tra parhao Duw mewn bod.
- 4 F'enaidd gwag oedd gynt yn crwydro,  
Weithiau i'r dwyrain, weithiau  
i'r de',  
Nid oedd dim a'i gwna'i e'n esmwyth  
'N unig ond ei gariad E;  
Anfeidroldeb, &c.,  
All'sai 'm llanw i oll yn llyn.
- 5 Oni b'ai 'th fod Di dy Hunan,  
ARGLWYDD, i mi'n ddigon mawr,  
Mi addolwn ac a garwn  
Greaduriaid gwag y llawr;  
D' ardderchawgrwydd, &c.,  
Berodd im' dd'od ar dy oll.
- 6 B'le enynodd fy nymuniad?  
B'le ca's fy serchiadau i dân?  
B'le daeth hiraeth im' am bethau  
Oeddwn yn gashau o'r blaen?  
Addfwyn IESU, &c.,  
'R cwbl ydyw gwaith dy law.
- 7 Dymuniadau pell eu hamcan  
Wy 'n eu teimlo ynwy' 'nglŷn,  
Dacw 'r ffynon bur tarddasant,  
Anfeidroldeb mawr ei hun;  
Dyma 'ngobaith, &c.,  
Bellach byth cânt hwy barhau.

## HYMN CCCCXVI.

*Duw, gwir Wrthdych Cariad.*

- N**ID oes ar y ddaear lydan  
Ond breuddwydion gwag i gyd,  
Twyll sydd yma, twyll sydd acw,  
Yn cytuno i dynu 'mryd;  
Mi grwydaswn, &c.,  
Rhwng gwag ddelwau on' b'ai Ti.

- 2 Aml yw gwrthdychau teimlad,  
Agos y'nt i'm natur wan,  
A hwy 'm denent heddyw i'w caru  
On' b'ai Ti sy'n nal i'r lan;  
Dened, dened, &c.,  
Anweledig bethau 'mryd.
- 3 Ar fy neheu mae teganau,  
Tegan ar fy aswy law,  
Pleser hyfryd, melus, yma,  
Rhwysg ac ardderchawgrwydd  
draw;  
Dangos i mi, &c.,  
'Th fod dy Hun yn well nag oll.
- 4 Tyn fy llygaid, n'ad hwy wibio,  
'D yw gwrthdychau teimlad  
ddim;  
Gradd o'th gariad sydd fwy'i  
bwysau,  
Gradd o'th gariad sydd fwy'i rym;  
Mae dy degwch, &c.,  
Uwch a welwyd is y nef.
- 5 Ffarwel, ffarwel i bob pleser  
Welodd dyn o dan y rhod,  
Ffarwel i bob rhyw deganau  
Ag feddylodd neb i fod;  
Digon, digon, &c.,  
Digon byth sydd yn fy NUW.

## HYMN CCCCXVII.

*Gras yn Gorchfygu.*

- L**WCH wyf fi, o'r llwch y  
daethum,  
Pryf yw 'mrrawd, y ddaer yw  
'mam,  
Eto 'r wyf fi 'n 'mofyn teyrnas,  
Ddi-sigledig, bur, ddimam;  
Pryf y ddaear, &c.,  
A ddaw hwnw 'mewn i'r nef!
- 2 Dof, mi ddof trwy 'r anial garw,  
Dof er gwaetha 'r moroedd glas;  
Dof trwy 'r cenllysg a'r tymhestl-  
oedd,  
Sydd yn curo ar fy ngras;  
Am mai cadarn, &c.,  
Yw 'r Hwn ydwyf yn ei gôl.
- 3 Fe enynwyd ynwy' fflamau,  
Tân mor hyfryd, tân mor gry',  
Nid o'r ddaear daeth ei wreiddyn,  
Cariad pur y nefoedd fry;  
Awel beraidd, &c.,  
O fynyddau hyfryd ras.
- 4 Chwi angylion sydd yn edrych  
Ar ei wyneb gwrldog, gwyn,  
Traethwch i mi p'odd dechreuodd  
Fflam mor berffaith bur a hyn?  
Nef ei hunan, &c.,  
'Nynodd ynwy' i helpen bur.
- 5 Fe 'r Hwn roddodd i mi anadl  
Eilwaith roddodd i mi ras,  
Ac a bery pan ddihang  
'M hanadl llesg o'm ffroenau  
'maes;  
Neb ond IESU, &c.,  
Wnaethai'r marw hen yn fyw.

## HYMN CCCCXVIII.

*Anian Gras yn diystyru pob peth tu yma  
i DDUW.*

**D**YNA pa'm 'r wy' yn hiraethu  
Beunydd tua 'r nefoedd fry,  
Am oddi yno yr anadlwyd  
Bywyd pur i'm henaid i:  
P'odd gorphwysaf, &c.,  
Rhaid i'm hysbryd fyn'd i'r lan.

- 2 Anian nef a dyr trwy rwystrau,  
Anian nef a dyr trwy 'r tân;  
Ceidw ei gyrfa trwy 'r creadur  
At ei gwreiddyn pur yn mlaen;  
Heibio i degwch, &c.,  
At y tegwch gwir ei hun.
- 3 Nid yw harddwch maith y ddaear,  
Harddwch o amrywiol ryw,  
Tegwch dysglauer y ffurfafen  
Ddim yn ochr IESU 'm Duw;  
Mae 'n diflanu, &c.,  
'R holl greadigaeth wrth dy glun.
- 4 Dirmygedig yw gogoniant  
Oll a welais i eto 'n un,  
Pan edrychwy' ar ogoniant  
Fy Nghreawdwr mawr yn ddyn;  
Di-ddim, di-ddim, &c.,  
Oll a enwir ond Efe.

- 5 O na allwn gau fy llygaid  
Rhag pob gwrthddrych yn y byd,  
Ymddangosent fel y mynont  
Er mwyn ceisio denu 'mryd ;  
Mae fy mhleser, &c.,  
Uwch y ser ar ddehau 'Nhad.

## HYMN CCCCXIX.

*Gwlad yr Addewid.*

- N**ID oes dim erioed a welwyd,  
Nid oes dim a deimlodd llaw ;  
Dim a glywyd son am dano,  
O eitha 'r de' i'r dwyrain draw ;  
Yn ddigonol, &c.,  
Wneud fy enaid llesg yn llawn.
- 2 O na dd'ai 'r amserodd bellach  
I mi gael mwynhau o hyd,  
Bethau leinw fy nymuniad,  
Pethau nad y'nt yn y byd ;  
Ni ddaw 'r ddaear, &c.,  
Fawr a minau fyth yn un.
- 3 Mae fy enaid yn ehedeg  
Ar adenydd ysgafn ffydd,  
Ac yn syllu trwy 'r eangder  
Uchel, maith, at bethau fydd ;  
'N awr mi wela', &c.,  
Wlad o hedd yn agoshau.
- 4 Rhwng cymylau duon, tywyll  
Gwela'i draw yr hyfryd wlad ;  
Mae fy ffydd yn llefain allan,  
Dacw o'r diwedd dŷ fy Nhad ;  
Digon, digon, &c.,  
Mi anghofia' ngwae a 'mhoen.
- 5 Y mae anghrediniaeth gadarn  
Pan bo'r goleuni'n myn'd yn wan,  
Yna yn haeru yn fy wyneb  
Rhwystra 'r tywyllwch fi i'r lan ;  
Nid yw 'r golofn, &c.,  
Dàn yn mhell, yn nghanol nos.
- 6 O gwasgerwch, dew gymylau,  
I'r addewid rhoddwch le ;  
Nid i'r ddaear yma 'nganwyd,  
Tragwyddoldeb yw fy lle ;  
'N ol tywyllwch, &c.,  
C'od o'r diwedd foreu wawr.

## HYMN CCCCXX.

*Nef y Nefoedd.*

- O**S yw tegwch dy wyneb yma  
Yn rhoi myrdd i'th garu'n awr,  
Beth a wna dy degwch hyfryd  
Yna yn nhragwyddoldeb mawr ;  
Nef y nefoedd, &c.,  
Dy ryfedda fyth heb drai.
- 2 Pa fath uwchder rhed fy nghariad ?  
Pa fath syndod y pryd hyn ?  
Pan y gwelwy' dy ogoniant  
Perffaith, llawn, ar Seion fryn ?  
Anfeidroldeb, &c.,  
O bob tegwch maith yn un.
- 3 Pa feddyliau uwch eu deall  
Gaf fi yno ynof fy hun ?  
Wrth ystyried bod y Duwdod  
Perffaith, pur, a minau 'n un ?  
Dyma gwlm, &c.,  
Nid oes iaith a'i d'od e' 'maes.
- 4 Cwlwm wnaed yn nhragwyddoldeb,  
Sicr, cadarn, mawr ei rym ;  
Na's gall miliwn o flynyddau  
Ei dori, neu ei ddadrys ddim ;  
Gwna, fe bery, &c.,  
Tra parhau 'm Duw mewn bod.
- 5 C'lymau natur oll a friwir,  
A'i chyfreithiau ânt yn ddim ;  
Ond fy undeb i â'r nefoedd  
Sydd yn llawer mwy ei rym ;  
Di-gyfnwid, &c.,  
Yw yn gymwys fel fy Nuw.
- 6 Nis gall einioes, nis gall angeu,  
Nis gall angel cadarn, cry' ;  
Cherubim nac awdurdodau,  
Na holl luoedd nefoedd fry ;  
I'm gwahanu, &c.,  
Fythoedd fyth o'i gariad E.

## HYMN CCCCXXI.

*Congwest y Groes.*

**D**EWCH, gwelwch y preseb,  
A chofiwch yr awr,

## HYMN CCCCXXII.

*Yr Ail Ran.*

- F**E hoeliwyd y gyfraith  
Pan dduodd y nen,  
A haeddiant fy Iesu  
Yn sicr wrth bren ;  
Nis gall hi gondemnio,  
Er cymaint ei chri,  
Fe dorwyd ei gallu  
Ar Galfari fry.
- 2 Ca's pechod fath archoll  
Ar groesbren yn awr,  
Er cymaint ei ddichell,  
Na's gall efe fawr ;  
Fe glwyfodd fy Iesu,  
Ac yntau ga's glwy'  
Na's gall ef ddyfetha  
Fy enaid i mwy.
- 3 Wel bellach mi gredaf,  
Er nad wyf ond gwan,  
Mi 'drychaf o ddyfnder  
Y ddaear i'r lan ;  
Fe wnaethpwyd o'r diwedd  
Ffordd newydd, a byw,  
O ganol tywyllwch  
I fynwes fy Nuw.
- 4 Rho nerth i mi 'madael  
A thywyllwch y nos,  
A cherdded yn wrol  
'R hyd angeu dy groes,  
Gwna i mi ymddifyru  
Oddiyma i'r bedd,  
Am ddyfnder dy gariad  
A dyfnder dy hedd.
- 5 Na'd i mi ymdeimlo  
A chystudd a loes,  
Ond cerdded tan ganu  
Am angeu dy groes ;  
Heb edrych o gwmpas,  
Na gwibio o un tu,  
Ond gwrando a dysgu  
'R caniadau sy fry.
- F**E 'm llyngwyd i fyny  
Mewn syndod i gyd,
- Disgynodd Creawdwr  
Y nefoedd i lawr ;  
Doed saint a cherubiaid,  
A chanent yn un,  
I'w Crewr hwy wisgo  
Naturiaeth y dyn.
- 2 Cymerodd fabandod,  
Cymerodd ein poen,  
Fe ddug ein doluriau  
Mor wirion a'r oen ;  
Dyoddefodd ein tlodi,  
Gorchfygodd ein cas,  
Fe aeth â'n calonau  
O'r ddaear i maes.
- 3 Dyosgwyd ei wisgoedd  
Ef, Brenin y ne',  
O watwar rho'wd mantell  
O 'sgarlad i'w lle,  
Rho'wd iddo 'n deyrn-wialen  
Ryw gorsen las, fain,  
Fe wisgodd ei goryn  
Ef goron o ddrain.
- 4 Fe 'i holwyd yn galed,  
Nis cawd ynddo fai,  
Yn eirwir, yn ffyddlon  
'R oedd fyth yn parhau ;  
Fe hoeliwyd ei ddwyllaw,  
Fe hoeliwyd ei draed,  
Fe redodd o'i ystlys  
Ef ddwfr a gwaed.
- 5 Yn awr Fe orphenodd,  
Fe grymmodd ei ben ;  
Mae nos yn perch'nogi  
'R holl ddaear a'r nen,  
Mae 'r meirw 'n cyfodi,  
Fe gongcrodd y bedd,  
Gwnaeth feibion digofaint  
Yn feibion o hedd.
- 6 Mae angeu mewn cadwyn,  
Nis gall ef roi clwy',  
'D oes elyn all fostio  
Ei gongwest byth mwy ;  
Ni all Satan er cryfed,  
Er called yw ef,  
I rwystro credadyn,  
Y llesgaf i'r nef.

## HYMN CCCCXXIII.

*Y Drydedd Ran.*

Wrth feddwl am angeu  
Iachawdwr y byd ;  
Trysorau o gariad,  
Trysorau o ras,  
Na fedr angylion  
Eu mesur hwy 'maes.

2 O henfych ddirgelion !  
Anfeidrol eu rhyw !  
A ddaeth i'r goleuni  
Trwy glwyfau fy Nuw !  
Ni fydd tragwyddoldeb  
Ddim gormod ei hun  
I chwilio dyfnderoedd  
Fy ARGWLWYDD yn ddyn.

3 Ysbryoedd rhai cyfiawn  
Ddihangodd o'r byd,  
A hyn sy 'n difyru  
Eu hunain o hyd,  
Gan edrych i'r orsedd  
Ddysgleirwen o'u blaen,  
A dyblu fyth eilwaith,  
Ac eilwaith eu cân.

4 Eu cân sydd am gariad  
Yn gwared y byd,  
Am undeb angylion  
A seintiau yn nghyd,  
Am ddoniau 'r Messiah,  
Am feithder ei loes,  
Ac am anfeidroldeb  
Holl bwrkas y groes.

5 " Y nerth a'r gogoniant,  
A'r gallu a'r clod,  
Fo i'r Hwn sydd yr awrhon,  
A'r Hwn sydd erioed ;  
I'r Alpha, Omega,  
I'r Drindod yn Un,  
I'r Oen a fu farw  
Dros bechod y dyn.

6 " D oes neb ar y ddaear,  
Ni ddaw, ac ni fu,  
Yn deilwng i dderbyn  
Yr enw ond Ti ;  
Ti brynaist y cwbl,  
Ti a'u rhoddaist yn rhad,  
Ti a'u prynaist â'th fywyd,  
Ti a'u prynaist â'th waed."

## HYMN CCCCXXIV.

*Y Bedwaredd Ran.*

SER dysglaer y boreu,  
Wel bellach na thewch,  
Rhyfeddod, a newydd,  
Ar fyrder chwi gewch ;  
Fe goda plant dynion  
O'r ddaear yn fyw,  
Cawn dra-phlith â chwithau  
I ganmawl ein Duw.

2 Cawn weled ein HARGWLWYDD  
Heb glwyfau na briw,  
A gweled ein natur  
Mewn undeb â'n DUW ;  
Y Duwdod yn Drindod  
A'r Drindod yn Un,  
Uwch cyrhaedd pob deall  
Yn mherson y dyn.

3 Fe ddaw i'n meddyliion  
Ei w'radwydd i gyd,  
Pob loesau a ddyoddefodd  
Am bechod y byd ;  
Adgofio ei archollion  
A'i gystudd erioed,  
A wna i mi ei garu  
Tra nefoedd yn bod.

4 Ni gofiwn y croesbren  
O newydd pryd hyn,  
Ni gofiwn Golgotha  
A Chalfari fryn ;  
Ni gofiwn yr hoelion,  
Ac archoll y rhai'n,  
A phigau plethedig  
Y goron o ddrain.

5 Ni gofiwn y bustl  
A'r finegr sur,  
Ro'wd iddo Fe i'w yfed  
Tan hoelion o ddur ;  
Yn nyfnder ei boenau  
Ni gofiwn ei gri,  
" Dad, maddeu, nis gwyddant  
Hwy pwy ydwyf Fi."

6 O ddedwydd ddyoddefaint !  
Cysuron y byd  
Ddechreuodd ddylifo  
Ar groesbren i gyd ;

Gwaed seliodd ein bywyd,  
Gwaed brynodd y ne',  
Gwaed rwyddod briodas  
Fyth rhyngom ag E.

## HYMN CCCCXXV.

*Yn yr ARGWLWYDD mae fy nerth.*

Y MAE 'm nerth i yn diffygio,  
Ofni moroedd mawr o'm  
blaen ;  
Llynoedd ac afonydd dyfnion,  
A mynyddau maith o dân ;  
Gras di-derfyn, &c.,  
Ddeil y gwan heb ofni dim.

2 Ti wnai wyrthiau, os bydd achos  
Cyn yr elo 'r llesg i lawr,  
Mae dy enw, er y cynfyd,  
Wedi swnio 'maes yn fawr ;  
Tor fy ofnau, &c.,  
Mae fy ofnau 'n waeth na 'r tân.

3 Tueddiadau drwg fy natur  
Sy 'n rhoi i fy ofnau rym,  
On' b'ai 'r twyll sydd yn fy ewyllys  
Ni wnai 'n hofnau i mi ddim ;  
Trwy bob arswyd, &c.,  
Yn dy law mi gerdda' 'mlaen.

4 Gwel'd fy meiau fel y gwyntoedd,  
Oll yn rhuthro arna'i 'n un,  
Rhai 'n fwy nerthol, rhai'n fwy  
cyfrwys,  
Rhai yn sicrach ynwy' 'nglŷn ;  
'Mhechod penaf, &c.,  
Gwmp mewn mynydd wrth dy air.

5 Pan y gwelwy' neb o'th bobl,  
Trwy demtasiwn pleser gau,  
Wedi colli eu gafael arnat,  
Ac yn awr yn llwfrhau ;  
Swn y daran, &c.,  
Wy 'n ei ofni draw o bell.

6 'Fory yw 'm diwrnod inau,  
'Fory, medd fy enaid gwan,  
'Lawr i ddwyllaw Saul y syrthiaf  
Oni ddeli Di fi 'r lan ;  
B'le mae 'r gallu, &c.,  
Sydd yn arfer trugarhau ?

## HYMN CCCCXXVI.

*Yr Ail Ran.*

F' ENAID egwan, paid ag ofni,  
'Dyw dy elynion bob yr un,  
Ond rhai eisoes wedi eu congro  
Gan-a wisgodd natur dyn ;  
Fe fyn weled, &c.,  
Pob rhyw elyn tan fy nhraed.

2 Nid all Satan a'i holl allu,  
Ysbryd cyfrwys mawr ei rym,  
Am ei fod o fewn y gadwyn,  
Heb ei genad, wneuthur dim ;  
Hollalluog, &c.,  
Ydyw enw mawr fy Nuw.

3 Pa'm yr ofna'i 'meiau mawrion,  
Trymach ydyw marwol glwy' ;  
Mwy yw gair o enau f' ARGWLWYDD  
Na myrddiynau o honynt hwy ;  
Gwna i mi gredu, &c.,  
Rhued môr, terfysged tir.

4 Heddyw, nid y cynta' i minau,  
Lynoedd dyfnion fyned trwy ;  
Cant rhyfeddod im' fy hunan  
Fod yn awr y man yr wy' ;  
Mi âf eto, &c.,  
Trwy bob rhwystrau, yn fy Nuw.

5 Mi gaf deimlo chwant yn colli  
Cyn yr elo 'm haul i lawr ;  
Mi gaf flino ar fy mhechod  
Cyn y codu 'r foreu wawr ;  
'R wyf yn fodlon, &c.,  
Rhwing y saethau nes del dydd.

6 Gwaith y nefoedd yw dyoddef  
Ynwy' nwydau croes eu rhyw,  
Cenad Satan i'm cernodio,  
Ac i'm cadw i byth yn fyw ;  
Gras berffeithir, &c.,  
Yna pan b'wy leia' 'ngrym.

7 Swmbwl yn fy nghnawd adawyd  
Yw i'm cadw i yn ddiun ;  
Dolur ddoe, a dolur heddyw  
Ga'i oddiwrtho tra fo 'nglŷn ;  
Goruwchfaeth, &c.,  
Fydd yn hyfryd pan y del.



## HYMN CCCCXXVII.

*Y Nefoedd.*

- 'N AWR 'r wy 'n gwel'd yr ardal hyfryd,  
Hen artrefe fy Anwylyd;  
Gwlad lle mae pob rhyw gysuron,  
Yn llifeirio fel yr afon.
- 2 Ffarwel bellach, hen bleserau,  
Dwyllodd fy ysbryd fil o weithiau;  
'Nawr 'rwy' wedi ffeindio hawddfryd  
Nad oes ynddo radd o ofid.
- 3 Mi ge's berl gwell nag o'r India,  
Nef a daear fyth na phrisia;  
Iesu a'i drysor, dyna ei sylwedd,  
Nef y nefoedd yn y diwedd.
- 4 Fe ddangosodd i mi 'n oleu  
Fod fy mhechod wedi 'faddeu,  
Ac ca'i nerth i wir gongcwero  
Pob rhyw elyn sy'n fy mlino.
- 5 Er bod Satan hen yn barod  
Heddyw i fostio ei faith awdurdod;  
Ond fe droir ei holl orfoledd  
I mi 'n gongcwest yn y diwedd.
- 6 Fe ddaw 'r dydd y caf fi ganu  
Congcwest bai oedd yn fy maeddu,  
Haleluia nefol, hyfryd,  
Diwedd pechu, diwedd gofid.
- 7 Blwyddau hirion o ryfela  
Yn oruwchafiaeth a derfyna;  
Fe dry galar am bob beiau,  
Yn Hosanna, ond eu maddeu.

## HYMN CCCCXXVIII.

*Yr Ail Ran.*

- F' ENAID, cred, annghofia 'th ofid,  
Edrych i'r ardaloedd hyfryd;  
'Hed o'r byd sy mron a'th orfod,  
Y mae gwleddoedd i ti 'n barod.
- 2 Dacw 'r gwledydd hyfryd, helaeth,  
Roddwyd i mi yn etifeddiaeth;

Lle mae cariad pur yn llifo  
Tros ardaloedd gras heb flino.

- 3 Dacw 'r wlad caf fi deyrnasu  
Cyda 'm hanwyl Briod IESU;  
Gwledda o'i gariad, gwel'd ei wyneb,  
Draw i derfyn tragwyddoldeb.
- 4 O na fedrwn 'n awr i ddringad  
Haner gynted a'm dymuniad!  
Mi awn gyda 'r awel hyfryd  
'Maes o'r byd i dir y bywyd.
- 5 'Rwyf fi'n clywed myrdd o seintiau  
'N awr yn canu eu telynau;  
Ac yn taro ar Hosanna,  
Dechreu Anthem pen Calfaria.
- 6 Dengmil o delynau 'n canlyn,  
Cân heb ddechreu, cân heb derfyn;  
Y cerubiaid gyda 'r seintiau,  
Yr un sylwedd eu caniaidau.
- 7 Minau gaf fod yn eu cwmni  
Cyn pen gronyn yno 'n canu;  
Edrych gyda hwy yn wyneb  
Dysglaer Brenin tragwyddoldeb.

## HYMN CCCCXXIX.

WEL, f' enaid, c'od, sefydla 'th wamal fryd,  
Mae heibio'n myn'd bleserau pena'r byd;  
O dring i fyny, ac annghofia 'n awr  
Bob peth a eilw 'r ddaear yma 'n fawr.

- 2 Draw, draw, yn mhell tu hwnt i'r dwfn fedd,  
Mae 'th gysur oll, dy bleser, a dy hedd;  
Mae 'th Iesu yno, Fe ei Hunan yw  
'R cwbl a feddi yn farw a byw.
- 3 Nid oes dim trai, nid oes dim eisieu 'n bod  
O neb rhyw beth a enwir is y rhod;  
Mae nef a daear wrthf fi yn nglŷn  
Er pan y rhoddaist i mi gynt dy Hun.

- 4 Ffarwel, mi âf mwy tua 'r wlad o hedd,  
Mi anturia' 'mlaen, er dychryn-  
iadau 'r bedd;  
Mi wela' 'Mhriod pur addfwynaf  
draw,  
Yn nghysgod angeu ar fy neheulaw.
- 5 Wel, tyr'd yn mlaen, alluoedd uffern  
faith,  
'R wy'r awrhon bron dybenu ar fy  
nhaith;  
'D wy' ddim yn ofni 'ch saethau o  
un rhyw,  
Tra fyddo gydaf Un ag sydd yn  
Dduw.
- 6 Mae enw 'm Iôr fel ysol, nerthol  
dân,  
Dim tan y nef ni seffif fyth o'i flaen;  
Yr iechydwrriaeth werthfawrocaf,  
ddrud,  
Sy 'n gwneuthur uffern dân i grynu  
i gyd.
- 7 A chanu cydsain dragwyddol yn un,  
Digon ni fyddai i'r Duw mawr yn  
ddyn.
- 5 Rho allu im', fy Nuw, o hyn i maes,  
I ddweyd yn dda am dan dy anfeid-  
rol ras;  
Na byddo neges gen' i yma mwy,  
Ond ymhyfrydu yn dy farwol glwy'.
- 6 Hosana byth a fo 'ngwastadol gân,  
Hosana i'r Hwn a'm tynodd i o'r tân;  
Hosana hyfryd o'r ddaear i'r nen,  
Tafod na thawed heb dd'wedyd,  
Amen.
- 7 Fe ddarfu poen, fe ddarfu gofid mwy,  
Ar Galfari 'r un awr congwerwyd  
hwy;  
Torwyd yr ofnau i lawr gantho Ef,  
Nid oes ond canu oddi yma i'r nef.

## HYMN CCCCXXXI.

*Gwedd.*

## HYMN CCCCXXX.

*Yr Ail Ran.*

- O'R enwau 'gyd a roddir i fy Nuw,  
Hwnw ei hun y gwerthfawrocaf yw,  
Hwnw a gafodd Ef ar Galfari,  
Pan y dyoddefodd tros fy enaid i.
- 2 Wel, Calfari, boed dy enw tra fo  
byd,  
A phan êl yn danllwyth goch i gyd;  
Boed iddo bara tra fo nef y nef,  
Am i fy Iesu farw arno ef.
- 3 Gerubiaid pur, dyrchafwch bellach  
glod,  
Yn llawer uwch nag can'soch eto  
erioed;  
A chyda'r awel rhoddwch maes yn  
awr,  
Adsain eich geiriau i ninau ar y  
llawr.
- 4 Pe byddai 'r nef a'i lluoedd maith  
o'r bron,  
Yn nghyd a'r dorf sydd ar y ddaear  
hon,
- O DERE, f' Anwylyd,  
Fy ARGWLWYDD yn ddyw,  
Preswylia mewn teml  
A godaist dy hun;  
Dy lais sy mor beraidd,  
Mor hyfryd dy wedd,  
Dy olwg sy 'n congero  
Marwolaeth, a'r bedd.
- 2 Ti wne'st yma adeilad,  
Trig ynddo dy Hun,  
Gwna 'nghalon fod wrthyt  
Bob amser yn nglŷn;  
Nas gallo na pheciod,  
Na Satan, na 'r byd,  
Fyth, fyth i wahanu  
'R hyn g'lymaist Ti 'nghyd.
- 3 Yn nghanol pob cystudd,  
Rho i mi dy law,  
Nas collwy' mo 'r llwybr  
Tu yma, tu draw;  
Saf rhyngwy' a'r gelyd,  
Bob brwydr a fydd,  
Fel na b'wyf i ofni  
Yn mhoethder y dydd.

- 4 O na'd i mi gwmpo,  
Nid ydwyf ond gwan,  
Bydd rhyngwyf a'r saethau,  
A chynaf fi 'r lan ;  
Fe 'th glwyfwyd Di unwaith  
Ar Galfari fry,  
Oddi yno doed rhydd-did  
Yn unig i mi.
- 5 Ffoed ymaith fy ofnau  
Finteioedd diri',  
Rho adsain maddeuant  
Yn eglur i mi :  
A dysg i mi ganu  
Caniadau o glod,  
Am farw ar groes-bren,  
Tra 'm tafod mewn bod.
- 6 Boed cof am y mynydd,  
Boed cof am yr awr,  
Daeth ffrydiau o ystlys  
Fy ARGLWYDD i lawr ;  
Gwaed gwedi gymysgu  
A dwir yn nghyd,  
Mwy gwerthfawr bob dafan  
O hono na 'r byd.
- 7 Boed i mi 'n hyfrydwch  
O foreu hyd nos,  
I ganu am gariad  
A chongwest y groes ;  
Gogoniant ei Berson,  
Rhinweddau pob gras,  
Trwy boenau ofnadwy  
Yn enill y maes.

## HYMN CCCCXXXII.

*Yr Ail Ran.*

**M**EWN anial 'r wy 'n trigo,  
Dyeithr yw 'r wlad,  
'R wy 'n 'mofyn ardaloedd  
A brynwyd â gwaed ;  
Cyf'rwydda fy llwybr  
Yn union i'r ne',  
Heb wyro ar aswy,  
Heb wyro ar dde'.

- 2 Rho i mi 'r ddoethineb  
Sydd ynot Ti 'n bod,  
Ni cholodd a'i meddodd  
Y llwybr erioed ;

Goleuni yw dy eiriau  
Pob sillaf y sydd,  
Yn gwneud y tywyllwch  
Yn ganol y dydd.

- 3 Gad i mi gael heddwch,  
Y perl sy 'n fwy drud  
Na meddiant holl India 'r  
Gorllewin i gyd ;  
Mae gra'd o dangnefedd  
Fy IESU mor fawr,  
Fe bwysa ei hunan  
Y nefoedd a'r llawr.
- 4 Crwydro sydd chwerw,  
Mae cwmpo yn gwneud briw,  
Lle goreu im' gerdded  
Yn ochr fy Nuw ;  
'R wy 'n ofni pob gwyro,  
Mae 'r g'lynyon yn gry',  
Dy ddilyn dy hunan  
Sydd oreu i mi.
- 5 Boed dy Ysbryd i'm harwain  
Trwy ddrysni mor fawr,  
Gwlad seirph a 'scorpionau,  
A llewod, yw 'r llawr ;  
Fe 'm brathir, fe 'm clwyfir,  
Fe 'm gyrrir o'm lle,  
Oni ddoi Di 'r Dyddanydd  
A'm harwain i'r ne'.
- 6 'R wy 'n ofni dyodde',  
Ac eto 'r wy 'n hy'  
I ddyodde' pob gw'radwydd  
Yn agos i Ti ;  
Dyoddefir yn dy ochr,  
Er chwerwed yw rhai'n,  
Yr hoelion, a'r wermwd,  
A'r goron o ddrain.

## HYMN CCCCXXXIII.

**O** NA'D i mi garu,  
Fy IESU 'n dy le,  
Un gwrthdrrych sy 'n trigo  
O'r ddaear i'r ne' ;  
Mae ynot dy hunan  
Bob tegwch yn nghyd,  
O uwchder y nefoedd  
I ddyfnder y byd.

- 2 Mae 'th 'nabod yn ddigon,  
Dy ffeindio Di maes  
Yw cyflawn ddymuniad  
Pob nwyd a phob gras ;  
Mae ynot dy hunan  
Drysorau mor fawr,  
Dy gaffo ddiystyra  
Ogoniant y llawr.

- 3 Tydi wy 'n briodi,  
Dy gael Di dy hun  
Wna 'm holl ddymuniadau  
I yn gyflawn bob un ;  
Darfydded fy ewyllys,  
Darfydded fy ngrym,  
Boed ymfrost am IESU,  
Neu ymfrost am ddim.

- 4 Dy orch'mynion boed felus,  
A melus y boed  
Pob cymal a redodd  
O'th enau erioed ;  
Gwna im' garu dy eiriau  
A'u perchi o hyd,  
Yn fwy na gorch'mynion  
Breninoedd y byd.

- 5 Na fydded un plaser  
Tan wybren y sy,  
I dywyllu mynyddyn  
Rhyngof a Thydi ;  
Na dim rhyw eilunod  
O'r Dwyrain i'r De',  
I wneuthur un cwmwl  
Fyth rhyngwyf a'r ne'.

- 6 Na fydded llawenydd  
Trangcedig a ffol,  
I dwyllo fy enaid  
Bob amser i'w ol ;  
Tangnefedd, tangnefedd,  
Pur gariad a hedd,  
F'om gwleddoedd gwastadol,  
Nes myned i'm bedd.

## HYMN CCCCXXXIV.

*Gweddi.*

**D**YCHWEL, ARGLWYDD, i'th  
orphwysfa,  
Pa'm y cuddi dy wynebpryd ?  
Pwy hyfrydwch gaiff y rhei'ny  
Sy 'n dy garu yn y byd ?

Poen a gofid o'r boreu-ddydd  
Du, cymylog, hyd yr hwyr,  
Rhyw gystuddiau yn cytuno  
'N llyn i'm digaloni 'n llwyr.

- 2 Colli 'th gariad yw pob colled,  
Colli 'th heddwch yw pob gwae,  
Fyth ni alla'i heb dy gwmni  
Ond och'neidio a llwfrhau ;  
Tyr'd, gan hyny, tros ffynhau,  
Tyr'd trwy 'fonydd, tyr'd trwy  
dân ;  
Dere, ARGLWYDD, eto ataf  
Fel y daethost Ti o'r blaen.

- 3 Do, mi haeddais fil o weithiau  
I Ti ddelio â mi yn llyn,  
Darfu 'm calon dy ddiystyru  
Eilwaith, 'n ol it' faddeu hyn ;  
Na ro'ed dy Ysbryd fi i fyny,  
Er mai fy haeddiant cyflawn yw ;  
Delia â mi fel pechadur,  
Dangos dy hunan megys Duw.

- 4 Ti 'm cofleidiaist yn dy freichiau,  
Minau es at eilunod cas ;  
Yno curodd fy ngelynyon  
Heb fy arbed, ar fy ngras ;  
Yn y llwch 'r wy 'n awr yn dyfo'd,  
Ac yn gorwedd wrth y bedd ;  
Maddeu, maddeu, yw fy ngweddi,  
Gad im' eto wel'd dy wedd.

## HYMN CCCCXXXV.

*Yr Ail Ran.*

**P**'ODD y galla'i ddweyd sydd  
ynwy' ?  
Pwy all ddeall faint yw 'nghri ?  
'R wyf o'r cwbl yn ymddifad,  
Os ymddifad o honot Ti ;  
Aed fy ngweddi trwy 'r cymylau,  
A'm hoch'neidiau trwm diri',  
Nes im' gael maddeuant newydd,  
A chael gwel'd dy wyneb cu.

- 2 Nid yw 'ngweddi, nid yw 'nagrau,  
Nid yw f' addunedau ddim,  
Ni wna mil o ddyledswyddau  
Unrhyw bechod lai ei rym ;  
Cofia 'r Hwn fu ar Galfaria,  
Tan yr hoelion llymion main,  
Gwel y waewffon a'r gorsen,

- 3 Ac er mwyn y gwaed a gollwyd,  
Cymysg ddw'r o'i ystlys E',  
Tyn bob cwmwl dudew tywyll  
Ag sydd rhyngwy 'n awr a'r ne' ;  
Maddeu i mi feiau mawrion,  
Beiau lawer fwy na rhi' ;  
Dim ond edrych ar Galfaria,  
Nid wrth edrych arnaf fi.
- 4 Os am bechod y'th w'radwyddwyd,  
Ac trywanwyd gwaewffon,  
Nes gwneud archôll na annghofir  
Tra f'o nefoedd, tan dy fron ;  
Gad i mi gael ffrwyth dy glwyfau,  
Gad i mi gael rhin dy waed,  
Maddeu 'mhechod, gwel'd dy wyneb  
Di fy Mhrynwr a fy Nhad.
- 5 Golchi 'm henaid yn yr afon,  
Gwneud yr euog brwnt yn lân,  
Llanw 'nghalon oer, ddi-gariad,  
O dy nefol hyfryd dân,  
A chael rhan o bob rhinweddau,  
Ag sydd ynot Ti dy Hun ;  
Ddoe yn aflan, wedi 'm dychwel  
Heddyw 'n berffaith ar dy lun.
- 6 Fel bo'm dyddiau oll yn ganu,  
Nid yn alar fel mae 'n awr,  
Cariad yn congwero 'm henaid,  
Ac yn boddi sw'n y llawr :  
Ar adenydd pur yn 'hedeg  
Trwy bob rhwystrau maith yn  
mlaen,  
Credu, caru, gorfoleddu,  
Yn y dyfroedd mawr a'r tân.

## HYMN CCCCXXXVI.

*Gwaed y Groes.*

- YR afon a lifodd  
Rhwng nefoedd a llawr,  
Yw gwraidd fy ngorfoledd  
A 'nghysur i'n awr ;  
Calfaria rows haeddiant,  
Calfaria rows hedd,  
Calfaria syn 'n cadw  
Agoriad y bedd.
- 2 Mae angu ei hunan,  
Ei ofnau a'i loes,  
Mewn cadwyn gadarnaf  
Yn rhwym wrth dy groes :

Allweddau hen uffern  
Ddychrynlyd i gyd,  
Sy'n hongian wrth ystlys  
Iachawdwr y byd.

- 3 'D oedd dim all'sai ostegu  
Pob terfysg a loes,  
Cydwybod a'i dychryn.,  
Ond angu dy groes ;  
Can' miloedd o ofnau  
Oedd ynwy 'n gytun,  
Nes clywed fod Crewr  
Y ddaear yn ddyn.
- 4 Wel bellach gad i mi  
Roi ffarwel i'r byd,  
Ffarwel i'w drysorau  
A'i bleser yn nghyd ;  
Un gorchwyl sydd genyf  
Fyth mwyach i gyd,  
Sef caru a chanu  
I Iachawdwr y byd.
- 5 Fy mywyd boed bellach  
Yn fywyd o ffydd,  
Dy orch'mynion i'm henaid  
Yn bleser bob dydd ;  
Na boed gen'i bleser  
Byth bellach tr'wy' byw,  
Ond rhodio ar y ddaear  
I foddio fy Nuw.

## HYMN CCCCXXXVII.

*Yr Ail Ran.*

- TYN f' enaid lluddedig,  
Sy'n crwydro i bob man,  
I orphwys yn llonydd,  
O'r ddaear i'r lan ;  
O gwna na b'wy 'n medru  
Byth, byth lawenhau,  
Mewn pethau sy'n darfod,  
Ond pethau i barhau.
- 2 Gogoniant y ddaear,  
Ei llwyddiant a'i dawn,  
Ddysgleiria yn y boreu,  
Ddiffana brydnawn ;  
Mae 'r tegwch a welir  
Yn diangc o hyd ;  
Ar bethau tragwyddol  
Sefydla fy myrd.

- 3 Pleserau heb gymysg,  
Pleserau heb drai,  
Pleserau di-ddarfod  
Wy' am gael fwynhau ;  
Pleserau wna 'r ddaear  
Sy'n uffern i rai,  
I mi 'n orfoleddu,  
I mi 'n llawenhau.
- 4 Yn ngwleddoedd dy gariad  
A'th heddwch di-lyth  
Gorphwysed fy enaid  
Lluddedig i byth ;  
Uwch dwndwr creadur,  
Uwch cynhwrf pob gwaed,  
Mewn gruddfan a galar  
O bur lawenhau.
- 5 Tan gysgod dy aden  
Mi ddysgaf y gân  
A ddysgodd angylion  
Ryw oesoedd o'm blaen ;  
I'r nef ac i'r ddaear  
Llawenydd yn nghyd,  
Fe aned mewn preseb  
Iachawdwr y byd.
- 6 Wel rhedodd fy nghariad  
Fel afon i maes,  
At Brynwr addfwynaf,  
Cyfoethog ei ras,  
Diffanwch, wrthddrychau  
Aneirif eu rhi',  
Mae Iesu ei Hunan  
Yn ddigon i mi.

## HYMN CCCCXXXVIII.

*Y Nefoedd.*

- EANGODD fy nghalon,  
'D wy 'n deall pa fodd,  
'D oes dim ar y ddaear  
Wna bellach fy modd ;  
Fy ysbryd amcana  
Ond hyny tr'wy' byw,  
At bethau tragwyddol  
Yn mynwes fy Nuw.
- 2 Yr ardal mae 'r dyrfa  
Bwrcasodd y gwaed,  
Yn hyfryd yn edrych  
Yn wyneb fy Nhad,
- Mil myrdd o delynau  
Aur melyn i gyd,  
Yn canu heb fino  
I Brynwr y byd.
- 3 A heibio rai oriau,  
Daw udgorn o'r ne',  
Caf alwad o'r ddaear  
I symud fy lle,  
Fe dorir y carchar,  
A'm henaid yn rhydd,  
Fe'm dygir i'r ardal  
Mae 'n wastad yn rhydd.
- 4 Ac yno caf aros  
Heb archoll na chlwy',  
Mewn gwleddydd heb 'storom  
Na chwmwl byth mwy ;  
'Ddaw ofn, na gofid,  
Na phechod i blith  
Trigolion fy ninas  
Sancteiddiaf i byth.
- 5 Caf gyda 'm Hanwylyd  
Deyrnasu mewn hedd,  
Yn mhell uwch cyrhaeddiad  
Holl ddychryn y bedd,  
Cawn wisgo coronau  
Filiynau yn nghyd,  
A chanmawl fyth fythoedd  
Iachawdwr y byd.

## HYMN CCCCXXXIX.

*Y Wlad Bell.*

- O FY enaid, gorfoledda,  
Er mai tristwch sy yma 'n  
llawn,  
Edrych tros y brynau mawrion  
I'r ardaloedd hyfryd iawn ;  
Uwch tymhorol, &c.,  
Feddiant mae fy nhrysor drud.
- 2 Gwel tu hwnt i fyrrd o oesoedd,  
Gwel hapusrwydd maith y nef,  
Edrych ddengmii eto 'mbellach  
Di-gyfnawid fyth yw Ef ;  
Tragwyddoldeb, &c.,  
Hwn sy 'n eiddo im' fy hun.
- 3 'R wyf yn edrych ar y cwbl  
Ag sydd yn y bydoedd draw,



- Pethau pell yn bethau agos,  
Pethau fu yn bethau ddaw ;  
Môr heb waelod, &c.,  
O bleserau ddaeth i'm rhan.
- 4 Nid oes terfyn ar fy ngobaith,  
Cyrhaedd mae yn mlaen o hyd ;  
Gyd â'r Duwdod mae 'n cyd-redeg,  
Dyddiau 'r ddau sy 'n un yn  
nghyd ;  
Annherfynol, &c.,  
Ydyw fy llawenydd mwy.
- 5 Anfeidroldeb maith ei hunan  
Sydd yn awr yn eiddo fi,  
Yn rhad y ca's ei roddi i mi  
Ar fynyddau Calfari ;  
Tyr'd yn fuan, &c.,  
Hyfryd haf o berffaith hedd.

## HYMN CCCCXL.

*Duw ei Hunan.*

- D**UW anfeidrol yw dy enw,  
Llanw'r uefoedd, llanw'r byd,  
Fy enaid inau sy 'n dy olrhain  
Trwy 'r greadigaeth faith i gyd ;  
Ffaelu 'th ffeindio, &c.,  
I'r cyflawnder sy arna'i chwant.
- 2 D'wed a ellir nesu atat,  
D'wed a ellir dy fwynhau,  
Heb un gorchudd ar dy wyneb,  
Nac un gwg i'm llwfrhau ;  
Dyma 'r nefoedd, &c.,  
Wy' am gael tu yma i'r bedd.
- 3 Ffaelu 'r wyf fi a' th orddiwes,  
Ffaelu dyfod i Ti 'n lân,  
Er fy mod i 'n gwel'd dy gamrau  
Perffaith, hyfryd draw o'm blaen,  
Tyred amser, &c.,  
Na bo awr heb dy fwynhau.
- 4 Yn y man b'ost Ti 'n cartrefu,  
Yno 'r wy' inau am gyweirio 'm  
nyth,  
Gwedd dy wyneb fydd fy nefoedd  
Yma, ac oddi yma byth ;  
Nid oes pleser, &c.,  
Tan yr haul gyflawna 'th le.

- 5 Dallu'm llygaid mae gwrthddrychau  
Teg yr olwg yn y byd,  
Salw iawn, gwag, a di-sylwedd,  
Ond eu chwilio, y'nt i gyd ;  
Diflas, diflas, &c.,  
I mi 'r cwbl ond fy Nuw.
- 6 Duw wy 'n 'mofyn, Duw wy 'n  
chwilio,  
Duw rhaid i mi ffeindio 'maes,  
Nid yw 'r ddae'r yn cynyg i mi  
Ddim ond sy 'n enynu 'nghas ;  
Pob gwrthddrychau, &c.,  
Sydd yn wagedd wrth eu trin.

## HYMN CCCCXLI.

*Yr Ail Ran.*

- F**Y nymuniad paid a gorphwys  
Ar un tegan is y nef,  
Eto erioed ni welodd llygad  
Wrthddrych tebyg iddo Ef ;  
Cerdda rhagot, &c.,  
'R wyt Ti bron a'i wir fwynhau.
- 2 Ffarwel i chwi oll wy 'n weled,  
Oll sydd ar y ddae'r yn byw,  
Gadewch i mi ond mynydyn  
Gael yn rhyw le gwrdd â 'Nuw ;  
Dyma lanw, &c.,  
'Nymuniadau oll yn un.
- 3 Pa'm mae 'r cwmwl yn dy or-  
chuddio ?  
Pa'm mae 'm Duw yn caru bod  
Yn guddiedig i'r rhai hyny  
Ag a'u carodd oreu erioed ?  
Gwna dy orsedd, &c.,  
I'r hwn brynodd gwaed, yn rhydd.
- 4 Dy air a wnaeth y moroedd helaeth,  
Dy air a wnaeth y ddaear fawr,  
Dy air a greodd lu 'r ffurfafen  
Sydd yn hongian uwch y llawr ;  
'Mysg a greaist, &c.,  
Dim cyffelyb it' dy Hun.
- 5 Tyr'd yr Hwn wyt yn hawddgarach  
Na 'th greaduriaid maith eu rhi' ;  
Bryd y deui, gwnai dy drigfan  
Bob mynydyn gyda mi ?  
Dere yn fuan, &c.,  
ARGLWYDD, at y sawl dy gâr.

- 6 Os nad wy 'n dy garu 'n gywir,  
F' anwybodaeth yw i gyd ;  
Chwilia gonglau maith fy nghalon,  
Pa le arall mae fy mryd ?  
'R wy 'n appello, &c.,  
I'th wybodaeth fawr dy Hun.

## HYMN CCCCXLII.

*Y Drydedd Ran.*

- F**E gynygiodd dyfroedd lawer,  
Dyfroedd dyfnion mawr eu  
grym,  
Oeri 'nghariad tuag atat,  
Gras, mae'n debyg, ddiffydd dim ;  
Rhan o'th natur, &c.,  
Yw wy 'n deimlo ynw'y' fy hun.
- 2 Eisieu 'th wel'd yr wy' mor llwfr,  
Eisieu 'th wel'd yr wy' mor wan,  
Golwg ar dy wyneb hyfryd  
God yr eiddil cloff i'r lan ;  
Dwfr bywiol, &c.,  
Ydwy't i'r lluddiedig rai.
- 3 'D oes gyffelybiaeth is y nefoedd  
All yn gywir draethu 'maes,  
Ddystaw, ddirgel, bur brofiadau  
Ac och'neidiau 'th nefol ras ;  
Mi wn ronyn, &c.,  
Wrth beth ydyw, beth a ddaw.
- 4 Y mae cyfoeth a gogoniant,  
A pherth'nasau yn gytun,  
A phleserau o bob rhywiaw  
'N colli eu henwau wrth dy glun,  
I dy ganlyn, &c.,  
Mi gadawa' oll yn oll.
- 5 Rhof ffarwel i'r holl greadigaeth,  
Ffarwel, faesydd gwych eu rhyw ;  
Ffarwel, deiau teg yr olwg ;  
Ffarwel, ddyinion goreu 'n fyw ;  
Gwych gyfnewid, &c.,  
Duw ei Hunan yn lle 'r byd.
- 6 Beth wy' gwaeth pe llyngcai 'r  
moroedd  
Ddaear eang yn eu croth ?

Beth wy' gwaeth pe doi gwaelodion  
Dyfroedd mawr yn berffaith noeth ?  
Beth yw colli, &c.,  
Môr a daear ond cael Duw.

## HYMN CCCCXLIII.

*Y Bedwaredd Ran.*

- N**ID oes eisieu un creadur,  
Yn bresenol lle bo 'm Duw,  
Mae E'n fwyd, y mae E'n ddioid  
Nerth fy natur egwan yw ;  
Pob hapusrwydd, &c.,  
Sydd yn aros ynddo ei Hun.
- 2 Gyrwch fi i eitha' t'w'llwch,  
Tu hwnt i derfyn oll sy'n bod,  
I ryw wagle dudew, anial,  
Na fu creadur ynddo erioed ;  
Hapus, hapus, &c.,  
Fyddda'i yno gyda Thi.
- 3 Nis gall dychryn, nis gall ofnau,  
Nis gall pechod yn gytun,  
I gael effaith ar fy enaid  
Pan y byddwy' wrth dy glun,  
Ofer iddynt, &c.,  
Geisio 'm cwrddyd yn dy gôl.
- 4 Nid oes un man i mi 'n artref,  
Nid oes trigfan o un rhyw,  
Alla'i alw yn hyfrydwch  
I mi 'n awr ond mynwes Duw ;  
Yn ei fynwes, &c.,  
Mae fy naear i a'm nef.
- 5 Gallaf fyw yn mhlith gelynyon  
Pan bo 'm henaid yn dy gôl,  
Safa 'm hun yn ngwyneb llawer,  
Ac heb ofn tynu 'n ol,  
Dy gymdeithas, &c.,  
'N unig ydyw 'm nerth a'm grym.

## HYMN CCCCXLIV.

*Ymfyniad.*

**P**WY gyfarwydda wael bererin  
Dd'od o'r anial maith i'r lan ?

Sydd yn 'mofyn 'r Hwn chwenycha  
'M henaidd egwan yn mhob man ;  
Nis gall seintiau, &c.,  
Nac angylion i mi ddim.

2 Mi ddymunwn wel'd yn rhwygo  
Holl gymylau dua 'r nef,  
I bechadur weled gronyn  
O'i ogoniant hyfryd Ef ;  
O datguddia, &c.,  
I mi ran o'th enw mawr.

3 Rhan o'th degwch a wna 'n dywyll  
Ddysglaer bethau gwych y byd,  
Oll sydd isod a ddfifana  
Yn ngoleuni dy wynebpryd ;  
Rhai mynydau, &c.,  
Rho i mi brofi 'r hyn sydd fry.

### HYMN CCCCXLV.

*Cariad CRIST.*

**N**I ganwn am gariad  
Creawdwr yn ddyn,  
Enynodd cyn oesoedd  
O fewn iddo ei Hun ;  
Na chwilia na cherub,  
Na seraph, na saint,  
Na'i ddyfnder, na'i uwchder,  
Nag eangder ei faint.

2 Rhyfeddod angylion  
Yn nghanol y nef,  
Rhyfeddod galluoedd  
A thronau yw Ef :  
Diffygia 'r ffurfafen  
A'i ser o bob rhyw,  
Cyn blinwyf i ganu  
Am gariad fy Nuw.

3 B'le, ARGWYDD, dechreuaf,  
Pwy ochr, pwy du ?  
Ai yn nhragwyddoldeb  
Neu Galfari fry ?  
Di-ddechreu, di-ddiwedd,  
Anfeidrol, a rhad,  
Yw cariad a brynwyd  
A dim ond â gwaed,

4 Edrychwch ar gariad  
Yn dyodde' pob gwae,  
Trwy ddirmyg a gw'radwydd  
Fyth, fyth yn parhau ;

Yn profi o'r bustl  
A'r finegr sur,  
Yn llonydd tan hoelion,  
Tan hoelion o ddir.

5 Fy enaid, gwel gariad  
Yn fyw ar y pren,  
Ac uffern yn methu  
Darostwng ei ben ;  
Er marw fy IESU,  
Er hoelio fy Nuw,  
Fe barodd ei gariad  
Trwy angu yn fyw.

6 O ryfedd ddoethineb!  
Rhyfeddod ei hun,  
A ffeindia 'r fath foddion  
I brynu 'r fath un ;  
Fy IESU yn marw,  
Fy IESU oedd Dduw,  
Yn marw ar groesbren  
I minau gael byw.

### HYMN CCCCXLVI.

*Yr Ail Ran.*

**H**EN amser arfaethodd  
I mi gael iachad,  
Trwy 'm IESU i goll  
Pob dafan o'i waed ;  
'D oes elyn is nefoedd  
A ddanod mwy ddim,  
Dyoddefaint fy Anwylyd,  
Byth bellach yw 'ngrym.

2 O gyfoeth di-derfyn,  
O gariad a gras,  
A redodd fel afon  
Lifeirtol i maes !  
Gras daena i'r dehaus  
A'r dwyrain o'r bron,  
Fe nafia myrddiynau  
I'r bywyd yn hon.

3 Bydd canu am angu  
Tra nefoedd yn bod,  
Yr angu creulona'  
Ddyfeisiwyd erioed ;  
Caiff cariad deyrnasu  
O'r ddaear i'r nen,  
Y cariad ddyoddefodd  
Ei hoelio ar bren.

### HYMN CCCCXLVIII.

*Yr Ail Ran.*

**M**AE fy meiau uwch eu rhifo,  
Yn cytuno oll yn nghyd,  
A fy ofnau 'n rhoi i'm amheu  
Fyth na wela'i dy wynebpryd ;  
Eto credu, &c.,  
Credu 'r wyf tan lwfrhau.

2 Fe ro'wd i mi ddyuniadau  
Nad oes dim o fewn y byd,  
Yn y dwyrain a'r gorllewin  
Ag all hainer lanw 'mryd ;  
Tragwyddoldeb, &c.,  
Yna llenwir fi yn llawn.

3 Mi gaf garu yno fynwyf,  
Cariad perffaith, pur, di-drai,  
Cariad trwy ryw oesoedd mawrion  
Nad â fymryn bach yn llai ;  
Môr di-derfyn, &c.,  
Byth yn berffaith, byth yn llawn.

4 Mi gaf yno wel'd a garwyf,  
Gwel'd fy IESU, gwel'd fy Nuw,  
Gynt fu farw ar y croesbren,  
Heddyw 'n ddysglaer, heddyw 'n  
fyw ;  
Nef y nefoedd, &c.,  
Sydd yn suddo yn ei hedd.

5 Mi gaf yn y wlad 'r wy 'n myned  
Ddihengu'n lân i maes o'm poen,  
Gorphwys, draw i derfyn gofid,  
Gyda 'r addfwyn, anwyl Oen ;  
Ni ddaw tristwch, &c.,  
Fyth i mewn tros furiau 'r nef.

### HYMN CCCCXLIX.

*Y Drydedd Ran.*

**D**O, mi fliniais ar a welais,  
Twyll sydd oll o fewn y byd  
Twyll sydd yma yn denu 'm llygad,  
Twyll sydd acw 'n denu 'mryd ;  
O am ddarfod, &c.,  
A phob gwagedd is y rhod.

4 Dewch bellach, angylion,  
Nid y'ch heb eich braint,  
O farw ar groesbren,  
Ef, Brenin y saint ;  
Na ateliwch ddim chwareu 'ch  
Telynau un pryd,  
Ond cenwch am gariad  
Iachawdwr y byd.

### HYMN CCCCXLVII.

*Tragwyddoldeb.*

**N**ID oes draw gyferbyn i mi  
Ddim ond tragwyddoldeb  
mawr,  
Minau 'n morio tuag yno,  
Nes, nes ato bob yr awr ;  
Ffarwel, bellach, &c.,  
Bob gwrthddrychau is y rhod.

2 Yno mae fy holl drysorau,  
A fy nhlysau gwych eu rhyw ;  
Yno mae fy addfwynaf IESU,  
Yno yn unig mae fy Nuw ;  
O ardaloedd ! &c.,  
Yno mi gaf finau dd'od.

3 Mae llawenydd yn fy nghalon,  
Er bod ofnau yn fy nghnawd,  
Gwrdd â Barnwr byw a meirw,  
IESU 'Mhrynwr, IESU 'Mrawd,  
Mae 'n ardderchog, &c.,  
Eto anwyl yw i mi.

4 Y mae 'r cariad sy 'n fy nghalon,  
Y mae 'r fflam sy tan fy mron,  
Yn congwero mil o ofnau,  
Ofnau 'r farn y fynyd hon ;  
Trwy bob dychryn, &c.,  
IESU, IESU yw fy rhan.

5 Ni ro'i 'ngafael arno i fyny,  
Doed ellyllon fyrdd yn mlaen,  
A bygythient i fy suddo  
O'r ddaear yn nyfnder uffern dân ;  
Wrth ei orsedd, &c.,  
Mi 'mafaelaf am ei draed.

- 2 Y mae gwagedd trwy holl natur  
Y gwrthdychau ar y llawr,  
Nid oes sylwedd yn a brofais,  
Nac mewn dim ond IESU mawr ;  
Gradd o'th heddwch, &c.,  
Sydd yn well na 'r India o'r bron.
- 3 Nid yw hwn ond byd o brofiad,  
Nid yw hwn ond byd o wae,  
Yn y wlad na rifir dyddiau,  
Fy nedwyddwch penaf mae ;  
'R wyf yn edrych, &c.,  
Trwy 'r tymhestloedd yno 'n awr.
- 4 Yno mi gaf yfed pleser,  
Megys dyfroedd gloew, pur,  
I'r pererin llesg, lluddiedig,  
Mewn rhyw wresog anial dir ;  
Ffynon bywyd, &c.,  
Tan y faingc mae 'n d'od i maes.
- 5 Mi gaf fyw ar ryfeddodau  
Sydd yn natur Duw ei Hun,  
Ac ymborthi ar ddysgleirdeb  
Crewr nef yn natur dyn ;  
Ca'i yno rador, &c.,  
Mewn un awr nag yma byth.

— —  
HYMN CCCCL.

*Gweddi.*

DYSGLEIRIA, foreu wawr,  
'R ol nos o faith barhad,  
Datguddia i mi 'n awr  
Ryw ran o'm hyfryd wlad ;  
Lle rhedeg cariad pur i maes  
Fel môr di-drai tros faesydd gras.

2 Mae dyddiau 'r Aipht yn faith,  
Mae 'r tywyllwch yno 'n hir,  
A dyrus iawn yw 'r daith  
I'r Ganaan nefol, bur ;  
O dere 'n glau, a dadglo 'r bedd,  
Byrha yr oriau sy 'n dwyn hedd.

3 'R wy 'n blino 'r fynyd hon  
Tan draed pob gelyn cas,  
Mi roddwn fyd o'r bron  
Am deimlo nerth dy ras ;  
Dim ond dy wel'd tros fynyd awr  
A'm d'od i 'n fwy na chongrwr  
mawr.

4 'R wyf yno wrth fy modd  
Ond edrych ar dy wedd,  
Fy nghalon galed dodd  
Wrth brofi o dy hedd ;  
Ti wyt fy oll, fy ARGLWYDD mawr,  
O fewn y nef ac ar y llawr.

5 A phe darfyddai 'th ras,  
Darfyddai i mi 'n llwyr  
'Gael pleser na chaed blas,  
O foreu hyd yr hwyr ;  
Ffoed tir a môr a'u tegwch gwiw,  
Cyn b'wy' heb heddwch pur fy  
Nuw.

6 Aed goleu 'r dydd yn nos,  
Teyrnased nos o'r bron,  
Doed moroedd mawrion tros  
Holl wyneb maith y don,  
Aed y greadigaeth faith i'w bedd,  
Mae 'n well i mi na cholli 'th hedd.

7 Am hyny dere 'n awr,  
Ti, IESU, aeth â'm bryd,  
O'th lysoedd teg i lawr  
I elyniaethol fyd,  
N'ad fi ar w'yr, yma na thraw,  
Arwain bob mynyd fi yn dy lawr.

8 Pan denir fi o'r ffordd  
Gan elyn is y rhod,  
Yn fuan tyn fi 'n ol  
Yn agos at dy droed ;  
Dos â fi 'mlaen, mae rhwystrau 'n  
faith,  
A phell i'r llesg yw pen y daith.

— —  
HYMN CCCCLI.

*Ffydd.*

O! 'R Ganaan hyfryd, wiw,  
Addawyd i myfi  
Cartrefle pur fy Nuw  
Uwch y ffurfafen fry !  
Mi ddof, mi ddof i'r lan ryw awr,  
Er maint sydd am fy nghadw i lawr.

2 O ! luoedd uffern faith,  
Er cymaint yw eich grym,  
Tra f' ARGLWYDD o fy mhlaid  
Ni thycia 'ch gallu ddim ;  
Un olwg syn, un gair o'i lid,  
A dyr i lawr eich rhwysg i gyd.

3 Mi wela 'r nef yn awr  
Yn cwmpo o flaen un Duw,  
Fyth, fyth anfeidrol fawr,  
A'm IESU inau yw ;  
Duw yw Efe a'm dwg i 'mlaen,  
Er llid y ddraig ac uffern dân.

4 Yn ei ryfeloedd 'r wyf,  
Ei ryfel Ef ei Hun,  
Ac nis caf yno glwyf  
Tra fyddwyf wrth ei glun ;  
Ei hyfryd air a'm ceidw 'n fyw,  
'D oes dim orchfyga air fy Nuw.

5 'D oes ofn tan fy mron  
Yn agos atat Ti,  
Ti gongcraist ofnau o'r bron  
Ar fynydd Calfari ;  
Ti faeddaist fyrdd â marwol glwy',  
Nid oes ond canu i mi mwy.

6 Llawn Haleluia mwy  
I Frenin dae'r a ne',  
Ddyoddefodd farwol glwy'  
Yn wirion yn fy lle ;  
O ddedwydd awr ! O ddedwydd loes !  
Bu'm Duw yn hongian ar y groes !

— —  
HYMN CCCCLII.

*Gweddi.*

GOLWG, ARGLWYDD, ar dy  
wyneb  
Sydd yn codi 'r marw o'r bedd,  
Mae agoriad nef ac uffern  
Yna i'w deimlo ar dy wedd ;  
Gair dy ras, pur ei flas,  
'N awr a ddedgly 'nghalon gas.

2 ARGLWYDD, danfon dy leferydd,  
Heddyw yn ei rwysg a'i rym,  
Dangos fod dy lais yn gryfach  
Nag all dyn wrthsefyll ddim :  
Cerdd yn mlaen, nefol dân,  
Cymer yma feddiant glân.

3 Y mae 'r ddraig yn chware'n gyf-  
rwy's,  
Ysbryd yw ef, cadarn, cry' ;  
Heb na dyfais faith na medr  
Eiddil egwan ydwyf fi ;  
Neb ond E', Brenin ne',  
Wna i'r gelyn golli ei le.

4 Tyred allan yn dy arfau  
O balasau tég y ne',  
Achub bwrkas dy ddyoddefaint,  
Mi ddystrywir onite ;  
Mawr yw 'r llid, sy 'n y byd,  
I gongcwero 'm henaid drud.

5 'R wyf yn credu na's dyoddefaist  
Ar y croes-bren farwol glwy',  
Tros rhyw rai nad o'it yn garu  
Nag yn 'nabod o honynt hwy ;  
Y mae brâd, di-nacâd,  
Yma 'n awr i werth dy waed.

6 Dere bellach, dere yn ebrwydd,  
Ac anadla 'r gwyntoedd cry',  
Sydd yn nerthu 'r pererinion  
I wynebu g'lynyion by' ;  
Yn gwneud grym, Satan llym.  
Mewn mynydyn fyn'd yn ddim.

— —  
HYMN CCCCLIII.

*Llwyddiant yr Efengyl.*

DERE, IESU, i'r ardaloedd,  
Lle teyrnasa tywyll nos ;  
N'ad fod rhan o'r byd heb wybod  
Am dy chwerw angeu loes ;  
P'am bydd poen, addfwyn Oen,  
Am dano 'n eitha 'r byd heb son.

2 Aed i'r Dwyrain a'r Gorllewin,  
Aed i eitha 'r India draw,  
I fod hoelion dur cadarnaf  
Yn ei draed ac yn ei law,  
Doed yn nghyd, eitha 'r byd,  
I wel'd tegwch dy wynebpryd.

3 Doed Pagoniaid yn eu t'w'llwch,  
Doed y Negros dua eu lliw,  
Doed addolwyr yr eilunod  
Weled tegwch IESU 'n DDUW ;  
Doed pob un, yn gytnu,  
Mewn i wleddoedd wedi eu trin.

4 O darfydded Canaaneaid  
Mwy i drigo yn y wlad,  
Na ddoed sillaf bach o enau  
Neb, ond am rinweddau 'th waed ;  
Deued llu, heb ddim rhi',  
Fyth i ganu am Galfari.

## HYMN CCCCLIV.

*Dyoddefaint y Messia.*

**M**AE grasusau pen Calfaria,  
Mae rhinweddau marwol  
glwy',  
Uwch eu prisio, uwch eu deall,  
Gan angylion o honynt hwy ;  
Bywyd byd, sy yma 'gyd,  
Wedi ei gasglu 'n gryno 'nghyd.

- 2 Pan oedd uffern fawr yn berwi,  
Fflamau 'maes i eitha 'r byd,  
Ac yn bygwith llosgi 'n ulw  
Ei drigolion oll i gyd ;  
F' ARGLWYDD glân ddaeth yn  
mlaen,  
Aç a'm tynodd i o'r tân.
- 3 Rhaid dyodde 'r chwerw boenau,  
Rhaid oedd hefyd fyned trwy  
Holl wasgeuon caled angeu,  
Er mor feulon oeddynt hwy ;  
Cariad Duw yn unig yw,  
A trwy rwystrau gwaetha' eu rhyw.

- 4 Rhaid oedd congcro trwy ddyodde',  
Nid congcwero wrth ei rym ;  
Gallu 'r nefoedd fawr ei hunan  
Heb ddyodde', thal'sai ddim ;  
Talu 'n llawn, ar brydnawn,  
Ar y croesbren gwnaeth E 'n iawn.

- 5 Diddig, diddig, Ef w'radwyddwyd,  
Tan ei boenau fel yr Oen,  
Ni fu neb cyffelyb iddo  
Is yr wybr glywyd son ;  
Maddeu 'n rhad, dyma waed,  
Oedd ei weddi ar ei Dad.

## HYMN CCCCLV.

*Gweddi.*

**T**YRED, ARGLWYDD, â'r am-  
seroedd,  
Mae fy enaid am fwynhau,  
Pur dangnefedd heb dymhestloedd,  
Cariad hyfryd a di-drai ;  
Gwledd o heddi, tu yma i'r bedd,  
Nid oes ond dy blant a'i medd.

- 2 Rho i mi arwydd cryf, di-sigl,  
Heb amheuaeth ynddo ddim ;  
Gano beth fo arna'i 'n eisieu  
Dy fod Di yn Briod im' ;  
Gwel'd fy rhan, ddeil i'r lan,  
Yn mhob brwydr f' enaid gwan.

- 3 Nid all dim o'r storom danbaidd,  
Nid all dim o'r gwyntoedd cry',  
Guro 'lawr yr enaid egwan  
Welo ei drysor ynot Ti ;  
Teimlo 'th heddi, gwel'd dy wedd,  
Gongcra angeu tu yma i'r bedd.

- 4 Mi â 'r hyd fy ffordd yn ddiddig,  
Mi â 'r hyd fy ffordd yn hy',  
Teithia 'r anial mewn gorfoledd  
O hyd golwg atat Ti ;  
Dy eiriau Di, melus cu,  
Sydd yn ddigon i myfi.

- 5 Pan y collwyf wel'd dy wyneb,  
Pan annghofiwyf waed dy groes,  
Dyna yn dyfod fel y diluw  
Dywyll, anial, ddyrus nos ;  
Gradd o ffydd wedi 'n sydd,  
Dawel, deg yn d'od â'r dydd.

## HYMN CCCCLVI.

*Nefoedd.*

**D**ACW 'r ardal nefol hyfryd  
Pwrcas poen a gwaed fy Nuw ;  
Gwlad mae hiraeth yn fy nghalon  
Am fod heddyw ynddi 'n byw,  
Lle nad oes poen na loes,  
Nac un cystudd chwerw, croes.

- 2 Hawddfyd eilwaith ar ol hawddfyd  
I sy 'n gorwedd yn y bedd ;  
Ac yn canu tu hwnt i ofid,  
'Nawr yn nghanol gwlad o heddi ;  
Llawenhau yn ddi-drai,  
Wedi annghofio eu poen a'u gwae.

- 3 Mae myfyrio ar fy nghartre',  
Mae myfyrio ar dŷ fy Nhad,  
Wedi 'm gwneuthur i ddiflasu  
Ar bleserau cig a gwaed ;  
'D oes i gyd, yn y byd,  
Unrhyw beth a leinw 'm mryd.

- 4 Nid yw 'r ddaear a'i thrysorau,  
Eilw ei phlant yn werthfawr  
iawn,  
Ddim yn abl llanw 'nghalon,  
Na 'm digoni byth yn llawn ;  
Draw i'r bedd mae fy heddi,  
Gyda 'Mhrynwr hardd ei wedd.

## HYMN CCCCLVII.

*Yr ARGLWYDD yw fy Nerth.*

**I**ESU, nid oes ond dy allu,  
IESU, nid oes ond dy rym,  
Atal fy enaid tros fynyddyn  
Bechu yn dy erbyn ddim ;  
Rhoddion rhad, gwerthfawr waed,  
Wna im' sefyll ar fy nhraed.

- 2 Mi a grwydrwn draw i'r dwyrain,  
Mi a grwydrwn draw i'r de',  
Ond b'ai 'r golofn dân sy 'n arwain,  
Llewyrch hyfryd pur y ne' ;  
Fe bia 'r clod, byth erioed,  
Iddo gyfarwyddo 'm troed.

- 3 Dyma brofedigaeth heddyw,  
Dacw brofedigaeth ddo',  
Fuasai yn fy llithro i'n fuan,  
Oni buasai ei Ysbryd O ;  
Mae ei ddawn, dystaw iawn,  
Yn fy nghadw i foreu a nawn.

- 4 Weithiau fe ddyd ei ragluniaeth,  
Weithiau dyd ei hyfryd ras,  
I fy ngwarchod a fy nghadw  
Rhad fy chwantau ffaidd, cas ;  
Boed fy nghân iddo 'n lân,  
Pan êl daear fawr yn dân.

## HYMN CCCCLVIII.

*Yr Ail Ran.*

**I**ESU ei Hunan yw fy mywyd,  
IESU 'n hongian ar y groes ;  
Y trysorau mwya'f feddaf  
Yw ei chwerw angeu loes ;

Gwagder annherfynol ydyw  
Meddu daear, da, na dyn,  
Colled, enill pob peth arall  
Os na 'nillir Di dy Hun.

- 2 Dyma ddyfnder o drysorau,  
Dyma ryw anfeidrol rodd,  
Dyma wrthddrych ge's o'r diwedd,  
Ag sydd hollol wrth fy modd ;  
Nid oes syched arna'i mwyach  
Am drysorau gwag y byd,  
Pob peth gwerthfawr a drysorwyd  
Yn fy Mhrynwr mawr yn nghyd.

- 3 Mi orphwysa' fy enaid bellach  
Ar yr annherfynol 'stor,  
Ac mi ganaf yn y dymhestl  
Ar y graig sydd yn y môr ;  
Dyma 'r man na feiddia Satan,  
Uffern ddwfn, fawr, a'r bedd,  
Er eu dyfais faith a'u rhuaed,  
I derfysgu dim o'm heddi.

- 4 Do, mi ddringais uwch y gwyntoedd  
Wedi bod mewn stormydd mawr,  
Dinas noddfa ge's o'r diwedd  
Mewn ardaloedd uwch y llawr ;  
Gobaith cadarn patriarchiaid,  
Craig yr oesoedd gynt a fu,  
Wnaeth yr arfaeth faith, ddi-  
ddechreu,  
'N awr sy 'n fywyd i myfi.

## HYMN CCCCLIX.

*Gwahoddiad.*

**D**EUED pechaduriaid truain  
Yn finteioedd mawr yn nghyd,  
Doed ynysodd pell y moroedd  
I gael gwel'd dy wynebpryd ;  
Cloffion, deillion, gwywedigion,  
O bob enwau, o bob gradd,  
I Galfaria un prydawn-gwaith,  
I wel'd yr Oen sydd wedi ei ladd.

- 2 Dacw 'r nefoedd fawr ei hunan  
'N awr yn dyodde' angeu loes,  
Dacw obaith yr holl ddaear  
Heddyw 'n hongian ar y groes ;  
Dacw noddfa pechaduriaid,  
Dacw 'r Meddyg, dacw 'r fan  
Caf fi wella 'r holl archollion  
Dyfnion sy ar fy enaid gwan.

3 Dacw 'r unig feddyginiaeth  
Gadarn i druenus ddynd,  
Mae pob gobaith wedi darfod  
Maes o hono fe ei Hun ;  
Trwm a llwythog yw fy meichiau,  
Poen euogrwydd sydd yn fawr,  
Nid oes fan ond pen Calfaria  
Galla'i ddodi 'mhen i lawr.

4 Mi nis gallaf wneud fy hunan  
Ddyddiau meithion ronyn gwell,  
Pob egwyddor yn fy enaid  
Beunydd sydd am fyn'd yn mhell ;  
Nid oes dim ond i Ti faddeu,  
Gwneud yr Ethiop du yn wyn,  
Wna i'm henaidd gofio 'th angu  
Poenus ar Galfaria fryn.

### HYMN CCCCLX.

*CRIST yn dwyn ein Beichiau.*

**F**E ro'wd arno bwys euogrwydd,  
Pwys na's gall ei ddal mo  
ddyn,  
Cosp pechodau myrdd o ddyndion,  
Heb un pechod ynddo ei Hun ;  
Do, fe 'i gwisgwyd â chystuddiau,  
Ffrwyth fy meiau mawr a mân,  
Fel cawn ninau, wael bechadur,  
Aflan, euog, fod yn lân.

2 Ac yn nyfnder grym ei boenau,  
Tan ergydion angu loes,  
Fe weddiodd am faddeuant,  
Maddeu i mi ar y groes ;  
Fe gofeidiodd f' enaid aflan  
Rhwyg y nefoedd fawr a'r nen ;  
Do, fe 'ngharodd, ac fe 'nghofiodd  
Tan yr hoelion ar y pren.

3 O anfeidrol berffaith gariad !  
Cariad na's gall dawn na gras  
Dyndon na 'r angylion penaf,  
Fyth yn hollol ddodi 'maes ;  
Cariad fydd yn sylfaen gadarn  
O bob anthem yn y nef,  
Seintiau ac angylion draphlith  
Ganant am ei gariad Ef.

4 Ac ni fydd mo dragwyddoldeb  
Ddim yn ormod er ei hyd,

I ddatguddio hen ddyfnderoedd  
Cariad IESU 'maes i gyd ;  
Holl rinweddau maith ei glwyfau,  
Poenu 'r hoelion meinion, llym,  
A wna oesoedd i fyn'd heibio,  
Eto heb eu gweled ddim.

### HYMN CCCCLXI.

*Gair y Bywyd.*

**A**RGLWYDD, ynot ymddiried-  
ais,  
Tywysog cadarn wyt o rym,  
Nis gall uffern gall na 'r ddaear  
I wrth'nebu dy 'wyllys ddim ;  
Os o 'mhlaid, fe ddarfu fy ofnau,  
Ti wnai i'm gelynyon ffoi,  
Gynta' bryd gosodant arnaf  
Bob yn un, neu bob yn ddau.

2 Dyn nid wyt sy 'n edifaru,  
'R gair a dd'wedost ddaw i ben,  
Seliwyd dy arfaeth, seliwyd dy  
eiriau  
Pan fuost farw ar y pren ;  
Nid oes sillaf o'th fygythion,  
Nid oes sillaf bach o'th ras,  
Pan y delo 'r dydd i fyny,  
Na's caiff hwnw ei wneud i maes.

3 Ar dy air yn mhob tymhestloedd  
Y gorhwysaf fy hun i lawr ;  
Ac mi greda' bod dy eiriau  
Lawer trech na'r 'storom fawr ;  
'R unig sylfaen 'n awr sydd genyf,  
Bwys ar dy addewid drud  
Yw, bod ynot Ti gyflawnder,  
A 'mod inau yn eisieu 'gyd.

4 O gad i mi brofi a welaf,  
'R wyf fi 'n gwel'd rhyw wledydd  
draw  
Ag dymunwn fil o weithiau  
Brofi eu ffrwythau maes o law ;  
Grym dy eiriau wy' am deimlo,  
Mae dy eiriau yn drech na'r byd,  
Cleddyf tanllyd o dy enau  
Gongra uffern faith i gyd.

### HYMN CCCCLXII.

*Yr Ail Ran.*

**D**OED y cystuddiedig truan  
Sy mewn ofn bob yr awr,  
Ac edryched ar y croesbren,  
Pwy sy 'n hongian arno 'n awr ;  
Pa'm dychryna 'r euog aflan ?  
Heibio 'r aeth cymylau 'r nen,  
Dyma le i gladdu euogrwydd,  
Yn y beddrod tan y pren.

2 Yma rhed yr afon allan,  
Ffrydiau ar ol ffrydiau o hyd,  
Gloew ddw'r di-drai, di-gymysg,  
Sydd yn golchi beiau 'r byd ;  
Dacw 'r ffynon yn agored,  
Dyma 'r brwnt yn myn'd yn  
mlaen,  
Dyma 'r aflan, dyma 'r euog,  
Wedi ei ganu fel y gwlan.

3 Aed fy enaid mwy yn ddibris  
Rhwyng gwrthddrychau gwag y  
byd,  
Heb ddal sylw ar un gwagedd,  
Heb un pleser fyn'd â'm bryd ;  
Cerddaf yn fy ngwisgoedd gwynion  
Trwy bob d'rysni 'n ddi-nacad,  
Ond i'r golofn dân i'm harwain  
I gynteddoedd tŷ fy Nhad.

4 Ni thramgwyddaf yn y ffosydd,  
Ond i'th Ysbryd fyn'd o'm blaen,  
Na 'r pydewau dyfnion, anial,  
Ofnais lawer gwaith o'r blaen ;  
Os ca'i ddim ond cadw llygad  
Syml, union, tua 'r ne',  
Heb w'radwyddo 'th air a'th enw,  
Gwna', mi gerdda 'n lân i dre'.

### HYMN CCCCLXIII.

*Yr Addewidion.*

**G**OLEU a nerthol yw ei eiriau,  
Melus fel y diliau mêl,  
Cadarn fel y brynau pwysig,  
Angeu 'm IESU yw eu sêl ;

Rhai'n a nertha 'm henaidd gerdded  
Dyrys anial ffordd yn mlaen,  
Rhai'n a gynal f' enaid egwan  
Yn y dw'r ac yn y tân.

2 Holl bleserau maith y ddaear,  
Rhei'ny gais breninoedd byd,—  
Cyfoeth, rhwysg, gogoniant, mawr-  
edd,  
A rhyw fyrdd o bethau 'nghyd ;  
Fyth ni cheisaf tra fo bywyd  
Ddim ond edrych ar dy wedd,  
Teimlo arwyddion hyfryd gariad  
Nes disgynwy' lawr i'r bedd.

3 Gwedd dy wyneb sy 'n rhagori  
Ar drysorau 'r India draw,  
Mae awelon pur dy gariad  
Yn dwyn gwobr yn eu llaw ;  
Perffaith bleser heb ddim diwedd,  
Perffaith gysur heb ddim trai,  
Yn y 'stormydd mawr cynddeiriog  
Yw yn unig dy fwynhau.

4 Dere gyda mi trwy 'r fyddin,  
Gyda mi yn erbyn llu,  
Yn dy enw mi gongwera  
Bawb sy 'n sathru d' enw cu ;  
Dy enw Di a faeddodd angu,  
Faeddodd uffern fawr ei grym,  
Ni wyneba cnawd a phechod  
Bellach mo dy enw ddim.

### HYMN CCCCLXIV.

*Angeu 'r IESU.*

**W**EL, weithian c'od, fy enaid cu,  
Dy lygad tua 'r nefoedd fry,  
Gwel yr anfeidrol berffaith Iawn,  
Sy 'n maddeu 'th bechod oll yn  
llawn.

2 Y moroedd mawr, a'r ddaear faith,  
A llu 'r ffurfafan yw ei waith ;  
Er hyny rhodd ei fywyd cu  
I angeu chwerw trosod fi.

3 Y dwylo wnaeth yr wybr lân  
A all'sai gadw angu i maes ;  
Ond ufuddhaodd iddo 'n rhydd,  
I gariad perffaith gario 'r dydd.

4 Dyfnderoedd annhraethadwy mwy,  
Di-drai, di-fesur, sy 'n ei glwy';  
Ein hanwireddau F'e yn eu dwyn,  
A rhyddion ninau er ei fwyn.

5 Mae haeddiant fy Iachawdwr mawr  
Yn dyodde' poen rhwng nef a llawr,  
Filiynau maith yn fwy ei rin  
Na haeddiant seintiau 'r byd yn un.

6 Wel, dyma 'r awr y talodd Ef  
Ofynion mwya', tryma 'r nef;  
Yn awr mae 'r carcharorion prudd  
Yn llawen hyfryd dd'od yn rhydd.

### HYMN CCCCLXV.

*Addewidion Gwell.*

**F**E dalodd swm y ddyled ddrud  
Tros fyrrd sy eto heb dd'od  
i'r byd;  
Pan gwelo rhai'n rinweddau ei glwy'  
Fyth canu iddo byddant hwy.

2 Pan clywo 'r Indiaid draw am loes  
Creawdwr nefoedd ar y groes,  
Rhinweddau hyfryd marwol glwy'  
Fydd sylwedd eu caniaidau hwy.

3 O na foed ardal cyn bo hir,  
O'r Dwyrain draw i'r Deheu dir,  
Na byddo 'r iachawdwriaeth ddrud,  
Yn llaw cyrau rhai 'n i gyd.

4 O dere i ben, hapusaf ddydd,  
Darfydded son am bethau sydd;  
Na 'r byd, na 'i rwysg, na 'i wae,  
na 'i boen,  
Ond canu byth am waed yr Oen.

5 Boed IESU a'i annherfynol 'stor  
Yn llanw 'r tir, yn llanw 'r môr,  
Ei ddoniau maith, a'i gariad drud,  
Yn sylfaen cysur pawb o'r byd.

6 Dewch, addewidion, dewch yn awr,  
Dyhidlwch eich trysorau 'lawr;  
Myrddiynau ar fyrddiynau sydd  
Yn dysgwyl am eich boreu ddydd.

### HYMN CCCCLXVI.

*Gwawrio 'r Dydd.*

**O** DEUED iechydwrriaeth gras  
A'i hael drysorau mawr  
i maes;  
Cymer allweddau 'r nefoedd faith  
A dadglo 'r carchar tywyll, caeth.

2 'R wy 'n rhwym, 'r wy n rhwym,  
a'r t'wllwch mawr  
Sydd yn fy nghadw 'n llyn i lawr;  
Y leiaf radd o oleu 'r dydd  
A ddatod f' enaid bach yn rhydd.

3 Pe cawn fy nhraed ar sanctaidd dir,  
A gwel'd fy nghartre' draw yn glir,  
Er g'lynnion fyrrd nid ofnwn mwy  
Y cryfaf un o honynt hwy.

4 Fi bia 'r dydd, er llwfrhau,  
Marwolaeth IESU yn fywyd mae;  
A phoenau 'r groes, anfeidrol rin,  
Sy 'n ddigon trech nag angeu ei  
hun.

5 Mae lleiaf loes Iachawdwr drud  
Yn llawer mwy na beiau 'r byd;  
Un dafan gwaed, un dwfn glwy',  
Sydd drymach na 'u heuogrwydd  
hwy.

6 Wel, f' enaid, bellach, dere 'm laen,  
A dechreu 'th baradwysaidd gân;  
Aberthwyd Pasg, tywalltwyd  
gwaed,  
Fe gliriwyd ffordd i dŷ fy Nhad.

### HYMN CCCCLXVII.

*Ffordd yn Rhydd.*

**D**AETH arfaeth fawr y nef i ben,  
Bu 'm IESU farw ar y pren;  
Agorodd ddrws trwy 'i boen a'i wae  
I'r Ganaan nefol sy 'n parhau.

2 Pwy rwystrau sy ar fy ffordd i mwy  
Nad aeth fy ARLWYDD trwy-  
ddynt hwy?  
Yr Hwn ddyoddefodd angeu loes  
A'm nertha inau i ddwyn ei groes.

3 Mi wela 'n awr yn oleu wiw  
Fy enw fry yn llyfr Duw;  
Pan losgo 'r holl elfenau 'nghyd,  
Fe bery 'm heddw mewn nefol fydd.

4 Wel, dacw 'r man mae 'm sylfaen  
gref,  
Cyfiawnder bythol Brenin nef;  
A dyma 'r graig gadarnaf syth  
Na ofna'i elyn arni byth.

5 Doed pob rhyw dymhestl yn gytun,  
A rhuent arna'i oll yn un;  
'D oes achos braw na dychryn im',  
Can's IESU cadarn yw fy ngrym.

5 'D oes dim wna fodd fy nymuniadau  
mawr,  
O eitha'r nen i eitha'r ddaear 'lawr;  
Maith, annherfynol fy serchiadau  
yw,  
Nid oes a'u lleinw ond anfeidrol  
DDUW.

6 Pa'm wyt, fy NUW, fy nghobaith i i  
gyd,  
Yn sefyll draw amserau meithion  
cy'd?  
O dere, ateb, 'd oes llais tan y ne'  
Ag sydd yn beraidd i mi yn dy le.

### HYMN CCCCLXIX.

*Yr Ail Ran.*

**P**'LE 'r wyt yn myn'd, pa'm wyt  
yn aros draw?  
Tyr'd, O fy NUW, ymafla yn fy llaw;  
Tegwch heb sylwedd sydd yma yn  
gytun,  
Y cwbl sy 'n werthfawr sydd ynot  
Ti dy Hun.

2 Fy NUW, fy NUW, fy Mhriod a fy  
Nhad,  
Fy Ngobaith oll, a'm Iechydwrriaeth  
rad;  
Ti fuost noddfa gadarn i myfi,  
Gad i mi eto wel'd dy wyneb cu.

3 Nag aed o'th gof dy ffyddlon amod  
drud,  
Yn sicr wnawd cyn rhoi sylfaeni 'r  
byd;  
Ti roist im' yno drysorau di-drai,  
Gad i mi heddyw dy gywir fwynhau.

4 O cofia 'th heddw rai prydiau roist i  
lawr  
I'm benaid trist mewn cyfyngderau  
mawr;  
O edrych eto, mae fy enaid gwan  
Ar drengu o syched 'r awr hon yn y  
fan.

5 'Raid i Ti ddim, ond dweyd un gair  
o heddw,  
Fy syched dry yn dawel, nefol  
wledd;

### HYMN CCCCLXVIII.

*CRIST yn fwy dymunol na 'r Byd.*

**M**I ro'wn y byd ac oll sy ynddo'n  
awr;  
Am dy fwynhau un fynyd fach o'r  
awr;  
Mae golwg arnat lawer iawn yn  
well  
Na llawnder trysor yn yr India bell.

2 'D yw colli 'r ddaer ddim colled i  
mi mwy,  
Pan ce's i brawf o'i nefol, farwol  
glwy';  
Mae yma drysor nad oes tan yr  
haul,  
O dde' i ddwyrain bell i gael o'i ail.

3 Ffarwel, ffarwel i welaf Is y ne',  
Ond im' gael Duw yn unig yn eu  
lle;  
Mae fy nymuniad' yn terfynu'n un,  
Heb ddim yn eisieu, ynddo Fe ei  
Hun.

4 Fe wy' am gael, Fe wy 'n ei geisio  
o hyd,  
Trwy bob rhyw dwrf a dwndwr yn  
y byd;  
Mi fyddaf lonydd, 'chaiff creadur  
mwy  
Derfysgu fy enaid, yn ei farwol  
glwy'.



Fe dderfydd gofid, ac fe dderfydd  
gwae,  
Llyngcir fy nhriswch pan caf dy  
fwynhau.

—  
HYMN CCCCLXX.

*Ffordd Newydd.*

- T**I, IESU mawr, Iachawdwr  
dynol ryw,  
Yn dy wynebpryd 'r wyf yn gweled  
gwedd fy Nuw;  
Ti dde'st o'r nefoedd, hapus oedd  
yr awr,  
I gyfeillachu â ni, llwch y llawr.
- 2 Agorais ffôrdd, o'th annherfynol  
ras,  
O fyd sydd lawn o demtasiynau  
'maes;  
Hyfryd yw'r llwybr a balmantodd E  
O ben Calfaria fryn i ganol y ne'.
- 3 Fe rwygodd len, wnaeth pechod cas  
ei ryw,  
Yn Eden gynt, rhwng fy enaid i a'm  
Duw;  
Ac er mwyn dangos im' ei gariad  
llawn  
Dyoddefodd angeu chwerw un pryd-  
nawn.
- 4 Danfon i lawr dy Ysbryd sanctaidd  
mwy,  
Datguddia rin dy nefol, farwol  
glwy';  
A gwna i'm deithio trwy wynfyd a  
chroes,  
Dan ganu am danat nes darfyddo 'r  
nos.
- 5 Na foed i'r ddraig i'm temtio uwch  
fy ngrym,  
Heb dy allu Di Ti wyddost fedda'i  
ddim;  
Na'r pechod ffaidd roddi mi glwy',  
It' wenu arnaf, oll a'u maedda hwy.
- 6 O flaen dy faingc 'r wy' yma yn  
cwmpo 'lawr,  
Bydd im' yn Dduw ac yn Iach-  
awdwr mawr;

Cadw fi o rwydau pob ryw elyn cas,  
Cadw fi 'nghysgod d' annherfynol  
ras.

—  
HYMN CCCCLXXI.

*Dysgwyliad.*

- O** GWAWRIA 'n glau, dded-  
wyddaf, hapus ddydd,  
O'r carchar caeth i'm henaid fyn'd  
yn rhydd;  
Pan ddel yr oriau, deuent yn glau,  
Fe dry fy ngalar yn llawenhau.
- 2 Dysgwyl yr wyf yn mron a llwfrhau,  
O law fy ngelyn am gael fy rhydd-  
hau;  
Nid yw 'r gwyllydydd prysur a  
phrudd  
Yn dysgwyl cymaint am y boreu-  
ddydd.
- 3 Dy hyfryd wedd, pan caffwyf wel'd  
yn llawn,  
Wna ynof ryw gyfnewid rhyfedd  
iawn;  
Dim ond cael gwel'd dy wyneb  
hyfryd sydd  
Yn troi tywyllwch nos yn ganol  
dydd.
- 4 Pe teimlwn Di, a rhin dy farwol  
glwy',  
Colli dy hedd ni ofnwn bellach  
mwy;  
Nid oes a'm cadw i tan y ne'  
Ond grym dy gariad ronyn yn fy lle.
- 5 Tynghedwn hwy, fy eilunod o bob  
gradd,  
Sydd am fy nwyn, ac hefyd a'm  
fy lladd,  
Na b'ont i ddeffro fy Anwylyd cun  
O rhwng fy mreichiau nes myno Ef  
ei Hun.

—  
HYMN CCCCLXXII.

*Gweddi.*

- O** DYCHWEL, ARGLWYDD  
mawr,  
Mae 'r oriau yn faith eu hyd,

I'th drigfan dere 'lawr,  
Lle dyrus iawn yw 'r byd;  
A maglau drwg plethedig sy  
Heb rif rhyngof â'r Ganaan fry.

- 2 Rhyw drydar wyf heb rym,  
Och'neidio a llwfrhau;  
'D wy 'n abl dala dim  
O bwys fy mhoen a'm gwae;  
O dere 'n glau fy Anwylyd pur,  
Rho ffrwd o'th hedd mewn anial dir.
- 3 'D yw 'mywyd hebddot Ti,  
Pe pob peth arall gawn,  
Ond cystudd i myfi  
O foreu hyd brydnawn;  
Dychwel, fy Nuw, i'm calon syth,  
A gwna hi yn deml i Ti byth.
- 4 Darfydded pob rhyw chwant,  
Ond chwant i dy fwynhau;  
Pob cariad ffoed i bant,  
Ond cariad i barhau;  
Darfydded sw'n a therfysg byd,  
Bydd Di yn gyfan i mi 'gyd.
- 5 Bydd Di yn ymborth pur  
I'm henaid ddydd a nos,  
Fy holl ddyddanwch gwir  
Fo yn tarddu o waed y groes,  
Dystewi wna't, mae trysor mwy  
Nag fedd y byd mewn marwol glwy'.

—  
HYMN CCCCLXXIII.

**'D**OES dim o tân y rhod  
Dyr undeb perffaith rad,  
Ddechreuodd gynta' erioed  
Mewn nefol, ddwyfol waed;  
Myfyrio ar hyn rai prydiau 'n awr  
Sydd yn fy nal mewn 'stormydd  
mawr.

- 2 Na flined f' enaid llaith,  
Er lleied yw dy rym,  
'D all dyfais uffern faith,  
Na pŕechod wneuthur dim;  
Ar Galfari fe'u maeddwyd hwy,  
Torwyd eu nerth â marwol glwy'.

- 3 Mae 'r gyfraith, er ei grym,  
A'i dychrynedig loes,  
A'i holl felldithion llym  
Yn hongian ar y groes;  
Ac angeu ei hun mewn cadwyn  
gref,  
Wedi fy Iesu ei 'speilio ef.
- 4 Mae llwybr hyfryd iawn  
O'r ddaer i'r nefoedd fry,  
Agorwyd un prydawn  
Ar fynydd Calfari;  
Myrdd o fendithion maith yn nghyd  
Ddygodd y groes i anial fyd.
- 5 'D oes aberth is y nef  
A dalai 'r d'led yn llawn,  
Ond marw o hono Ef  
Ar groesbren un prydawn;  
Mwy gwerthfawr loes na phe  
buasai byd  
O'r bron yn marw troswy' 'gyd.

—  
HYMN CCCXXIV.

*Gwaed yn dilleu Euogrywydd.*

**W**EL, f' enaid, edrych mwy  
O'th holl gystuddiau 'maes,  
Mewn un rhyw farwol glwy'  
Gwel allu angeu glas;  
Mae 'r bedd yn bur gan f' AR-  
GLWYDD cun,  
Efe sancteiddiodd hi ei Hun.

- 2 Mae gallu 'r ddraig yn awr,  
Pan gongrcrwyd angeu glas,  
Yn gorfod cwmpo 'lawr  
O flaen effeithiol ras;  
Ca's Iesu 'r dydd, fe ga's y clwy',  
Mawr iawn yw 'r enw sy iddo  
mwy.
- 3 Y gelynon mwya' eu grym  
A gafodd farwol glwy'  
Ar ben Calfaria fryn,  
Pa'm ofna'i bellach hwy' ?  
Mae haeddiant gwaed yn uwch ei  
gri  
Na 'm holl elynion mawr eu rhi' !

4 Mae dafn bach o waed  
Yn drymach yn y nef  
Na 'r pechod mwya' gaed,  
A'i holl euogrywydd ef;  
'Gwrandewir llais y dwyfol glwy',  
O flaen eu damniol floeddiad hwy.

5 'D oes un rhyw bechod cas  
A glyw'd am dano son,  
Ag all ddystewi llais  
'Eiriolaeth gwaed yr Oen;  
'N awr mainge y nef, fy ngorsedd  
yw,  
Lle mae yn eiriol waed fy Nuw.

—  
HYMN CCCCLXXXV.

*Gwaed y Groes yn erbyn ofn.*

WEL, ymgysura 'n awr,  
Fy enaid eiddil gwan,  
Sy 'n cwrddydd bob yr awr  
A rhwystrau yn mhob man;  
Mae Duw o'm tu, caf, cyn bo hir,  
I wel'd fy meiau yn colli tir.

2 Ni chollwyd gwaed y groes  
Eriod am ddim i'r llawr;  
'Ddyoddefwyd angeu loes  
Heb ryw ddybenion mawr;  
A thyma oedd ei amcan Ef,  
Ein dwyn o'r byd i deyrnas nef.

3 Ffoed euogrywydd bellach ffwrdd,  
Doed heddwach yn ei le;  
Ac na ddoed ofnau i'm cwrdd,  
Dim ond awelon ne';  
Pwrcas y gwaed anfeidrol ddrud,  
Rho hyn yn fuan i mi gyd.

4 Na'd i mi garu mwy  
O'r pechod drwg ei ryw,  
Y pechod roddodd glwy'  
I Mhrynwr, O fy Nuw!  
N'ad i mi garu dim ond Ti,  
O'r ddar i eitha 'r nefoedd fry.

HYMN CCCCLXXXVI.

*Yr Arglwydd yw fy Nerth.*

'D OES oddi mewn i mi i gyd  
Ond beiau mawr eu grym,  
Rhaid i mi gael dy haeddiant drud,  
Neu ynte fod heb ddim.

2 Y dyledswyddau goreu eu rhyw,  
Twyllodrus y'nt a gwan;  
Ac nid oes ond anfeidrol Dduw  
A all fy nghodi i'r lan.

3 Mi fwriais addunedau mawr,  
Amserau maith heb ri',  
Ac nid oes gysur gen' i 'n awr  
Mewn dim ond Calfari.

4 Pa 'm trystaf fi fy nghalon mwy  
A'm denodd i yn llyn?  
Gwell gen' i drysto yn y clwy  
Ro'wd ar Galfaria fryn.

5 Boed gorsedd gras yn rhydd i mi,  
Tan bob euogrywydd llym,  
Fel gallwyf orfoleddu 'n hy'  
Ar elynion mawr eu grym.

—  
HYMN CCCCLXXXVII.

*Yr Ail Ran.*

YN fuan tyr'd yn mlaen, fy Nuw,  
Mae ynot nerth di-drai;  
N'ad y gelynyon o un rhyw  
Fyth arna'i lawenhau.

2 Mae anghrediniaeth fel y môr,  
A 'meiau yw ei sail,  
Yn gwneuthur uffern fawr a'r bedd  
I'm curo i bob yn ail.

3 A minau wela' 'nghongwest fry  
Yn gongwest hyfryd iawn,  
Enillwyd gynt ar Galfari  
Yn rhyfedd un prydawn.

4 Mae angeu 'r groes yn awr yn hy'  
Yn pledio tros y gwan;  
Ac angeu fy Iachawdwr cu  
Yn unig gwyd fi i'r lan.

HYMN CCCCLXXXVIII.

*Y Drydedd Ran.*

WEL, f' enaid, gorfoledda mwy,  
Tra f' ARGLWYDD mawr yn  
DDUW,

Mae 'r gair a dd'wedo yn llawer  
mwy  
Na pechod o un rhyw.

2 Tan bob cystuddiau fwy na mwy,  
Rhuadau cnawd a byd,  
Mae digon nerth mewn marwol  
glwy'  
I'w briwio hwy oll yn nghyd.

3 Awdwr y cariad sy 'n parhau,  
Na welir fyth o'i fath,  
Sydd ddigon abl fy rhyddhau  
O bob rhyw garchar caeth.

4 'Does gen'i mwy ond Duw yn Dad  
Yn erbyn pob rhyw wae;  
'D oes gen'i ond ei gariad rhad  
Yn sylfaen i barhau.

—  
HYMN CCCCLXXXIX.

*Congwest Ofn.*

F' ENAID egwan, paid ag ofni  
Bod rhyw ddrygau mawr  
gerllaw,  
Ofni gwyntoedd oer y gogledd,  
Ofni gwynt y dwyrain draw;  
Ofni 'r cwbl, &c.,  
Ac heb achos ofni 'n bod.

2 Newydd mawr, a newydd llawen,  
Newydd gwir, a newydd rhad,  
Sy 'n marchogaeth ar y cwmwl  
Goleu draw o dŷ fy Nhad:  
Fe faddeuwyd, &c.,  
Beiau rif y ser i mi.

3 Os daw gw'radwydd, os daw gofid,  
Trwy ragluniaeth bar fy Nuw,  
Hyny fyth ni ladd fy enaid,  
Cadw 'nghalon wna fe 'n friw,  
Bydd ei fflangell, &c.,  
Yn y diwedd fel y gwin.

4 Os ar wely rhaid fy rhoddi,  
Ryw bryd yn y dyddiau ddaw,  
I gystuddiau nes bo 'm brodyr  
Goreu oll yn cilio draw;  
Mi ddoe allan, &c.,  
Fel yr aur y seithfed tro.

5 Os rhaid i mi gael blynyddau  
O'r cystuddiaugwaetha' eu rhyw,  
Am ffynydau bach o bleser  
Ge's i dori deddf fy Nuw,  
Fe ddaw diwedd, &c.,  
Ar bob gofid yn y nef.

—  
HYMN CCCCLXXX.

*Yr Ail Ran.*

MI fodlonaf, doed a ddelo.  
Os ca'i wel'd yr hapus awr,  
Trwy ryw foddion crai neu chwerr  
I fy mhechod fyn'd i lawr;  
Digon bodlon, &c.,  
Congro bai trwy ddwyn y groes.

2 Mi weddiâis fil o weithiau  
Am orchfygu pechod cas,  
Ac er gweddi, ac er gofid,  
Pechod oedd yn cario 'r maes;  
Rhaid cytuno, &c.,  
O nef ac uffern ladd fy mai.

3 Fe gawd croesau lle ni pechwyd,  
Pa'm gwrth'nebaf inau 'r groes  
Fe ga's Crewr nef ei Hunan  
Ar Galfaria angeu loes;  
Yr un llwybrau, &c.,  
Raid im' gerdded âg Efe.

4 Groesaw, bellach, wrth a ddelo,  
Y mae gen'i loches gref,  
Er im' golli 'm ffryns anwylaf,  
'Cholla'i ddim o hono Ef;  
O gystuddiau! &c.,  
Mwy na chwi yw cwmni Duw.

5 Boed fy lloches mewn lluesty,  
Heb gysuron o un rhyw,  
'B'wyf yn warth o'r de' i'r dwyrain  
Rhwng gelynyon cas fy Nuw;  
Darfu gofid, &c.,  
Ond yn unig dy fwynhau.

## HYMN CCCCLXXXI.

*Ofn.*

**Y** MAE 'm nerth i yn diffygio  
Gan gystuddiau o bob gradd,  
Seirph a llewod yr anialwch  
Sy 'n feunyddiol bron fy lladd;  
Moroedd mawr o maes sy'n bygwth,  
Tonau o mewn sy'n curo o hyd,  
Daear, nefoedd faith, ac uffern  
Sydd yn gwasgu arna'i 'nghyd.

- 2 Minau 'n ofni 'r awel leia',  
Ofni 'r 'storom sydd heb rym;  
Nid oes ynwy' i'w gwrthsefyll  
Ond euogrywydd, arall ddim;  
Ofni 'r drwg sy'n d'od yfory,  
Ofni 'r pechod wnaethum ddoe,  
Ofni 'm llygad sydd yn gwibio,  
Ofni 'nghalon sydd yn nghlo.
- 3 Anghrediniaeth sy 'n fy ngwasgu,  
Anghrediniaeth sy 'n cael grym  
Gan bob pechod ac euogrywydd,  
Onide nis gall e' ddim;  
Tua 'r nef mi dro fy llygad,  
Dyna 'ngobaith i bob gradd,  
On' ddaw nerth ar fyr oddi yno,  
Mae fy ofnau 'n siwr o'm lladd.
- 4 Cyfod, haul, sy'n rhwygo 'r t'w'll-  
wch,  
Cyfod, nerth, sy'n briwio chwant,  
Gyr holl ofnau anghrediniaeth  
Fel rhyw niwlen bygddu bant;  
Rho im' wel'd yr ardal hyfryd,  
Man lle mae fy ngobaith gwell,  
A chael pleser yn yr anial  
I edrych ar y gwledydd pell.

## HYMN CCCCLXXXII.

*Ffydd yn congawero Angeu.*

**N**ID wy 'n ofni tir y bywyd,  
Hwnw 'nghartre' hyfryd yw;  
Ond 'r wy 'n ofni yr agendor  
Fawr sydd rhwng y marw a'r  
byw;

Afon ddwfn ydyw angeu  
Rhyngwyf sydd â thi, fy ngwlad;  
Tonau y'nt sydd raid myn'd trwy-  
ddynt  
'Maes o'r byd i dŷ fy Nhad.

- 2 Mi anturiaf, rhaid yw cynyg  
Morio tonau, er maint eu grym,  
Na fum eto er pan 'ganwyd  
Yn fath donau mawrion ddim;  
Gallu 'r nefoedd fawr ei hunan  
Ddeil fy enaid llesg i'r lan,  
Gras yn marw ar Galfaria  
Ydyw noddfa 'm hysbryd gwan.
- 3 O bob enw yn mhlith dynion  
Dyna 'r enw goreu 'gyd,  
Duw tan hoelion ar y croesbren,  
Yno yn marw tros y byd;  
Gwaed yn llofo ar Galfaria,  
Môr o haeddiant, môr o hedd,  
Od oes dim a saif i fyny,  
Saif yn erbyn angeu a'r bedd.
- 4 Ofni 'r wyf, ac eto canu,  
Canu wrth feddwl am y dydd,  
Tan ymdrechu âg angeu creulon  
'R â pob cadwyn gref yn rhydd;  
Cyll pleserau yn lân eu gafael  
Os bydd angeu'n gongrcwr mawr,  
Os y bedd ga 'r fuddugoliaeth  
Fe gwmp pechod yntau 'lawr.
- 5 Cyll y pechod hwnw ei afael  
Fyna i fy ysbryd tan ei droed;  
Hwnw berodd i mi ruddfan  
Lawer cant o weithiau erioed;  
Diwedd caru unrhyw bleser,  
Dechreu hyfryd haf o hedd;  
Pan bo angeu 'n gorfoleddu,  
Ac yn chwerthin ar y bedd.

## HYMN CCCCLXXXIII.

*Yr Ail Ran.*

**B**ETH yw raid im' ofni ymadael  
A chyfeillion o bob rhyw?  
Nid yw dynion goreu 'r ddaear  
Ddim yn gymhar i fy Nuw;

Saint, seraphiaid, a cherubiaid,  
Llu o angylion hardd eu gwedd,  
I drefynau tragwyddoldeb,  
Ga'i fwynhau tu draw i'r bedd.

- 2 Mi âf heibio i'r creadur,  
'D oes ond gwagedd ynddo 'gyd;  
Twyll a golwg heb ddim sylwedd  
Yw a welais yn y byd;  
Dacw 'r unig wlad o sylwedd  
Draw i'r bryniau, man lle mae  
Afon bywyd fel y grisial,  
Faesydd gras yn dyfrhau.
- 3 Ti dy Hunan wy 'n ei 'mofyn,  
Ynot Ti mae heddwch llawn;  
Ynot Ti ca'i fod yn ddedwydd,  
Ynot Ti yn hyfryd iawn;  
Nid oes ofn i'r sawl dy garo,  
I dy garo nid oes gwae;  
Fe gaiff pob rhyw dristwch atgas  
Iddynt droi yn llawenhau.
- 4 Tyred bellach o'r creadur,  
Mae 'r creadur bron dy ladd,  
Troi, ymddadrus, ac ymdd'rysu  
Fwy-fwy 'mlaen o radd i radd;  
Fyth ni chaff fy enaid egwan  
Loches hyfryd fyth ond un,  
Rhag y 'stormydd sy 'n fy nghuro,  
Yn dy glwyfau Di dy Hun.
- 3 Fy euogrywydd sydd yn danllyd,  
Mawr ei bwys, a mawr ei rym,  
Nid yw 'm dyledswyddau penaf  
I sefyll yn eu herbryn ddim;  
Gwaed yn llofo ar Galfaria  
'N unig a'i gostega ef;  
Rhaid i'm henaid redeg yno,  
Neu *resolvo* colli 'r nef.
- 6 Tros bechadur buost farw,  
Tros bechadur ar y pren,  
Y dyoddefaist hoelion llymion  
Nes it' ofrod crymu 'th ben;  
Dwed i mi ai fi oedd hwnw  
Gofiodd cariad rhad mor fawr?  
Marw tros un bron a suddo  
Yn Gehenna boeth i lawr!
- 7 Dwed i mi a wyt yn maddeu  
Cwmpyo gan'waith i'r un bai?  
Dwed a ddeui fyth i galon  
Nas gall gynyg 'difarhau?
- 8 ARGLWYDD, rhaid i mi gael bywyd,  
Mae fy meiau yn rhy fawr,  
Fy euogrywydd sydd yn gyd-bwys  
A mynyddau mwya 'r llawr;  
Rhad faddeuant, gwawria bellach,  
Gwna garcharor caeth yn rhydd,  
Fu 'n ymdreiglo mewn tywyllwch  
'N awr i weled goleu 'r dydd.

## HYMN CCCCLXXXIV.

*Gwedd.*

**G**RYM y 'stormydd sydd yn curo  
Yn danbaid ar fy enaid gwan;  
Gwynt y gogledd oer, tymhestlog,  
Sy'n fy rhwystro ddringo i'r lan;  
Awydd teithio, heb ddim gallu,  
Ymorchestu heb ddim grym;  
Yn y frwydr rhaid im' gollï  
Oni fyddi 'n gymhorth im'.

- 2 Tyred, ARGLWYDD, i'r anialwch,  
Yma buost Ti o'r blaen,  
Arwain bererin llesg, di-fedr,  
A dy golofn niwl a thân;  
Dal fy ysbryd sy 'n llewygu  
Gan ryw ofnau o bob man;  
Yn dy allu 'r wyf yn gadarn,  
Hebost Ti nid wyf ond gwan.
- 3 Wrth dy orsedd bydd fy nhrifgan,  
A dy orsedd unig yw,  
Od oes dim tu yma i angeu  
Wna fy enaid marw yn fyw;  
Pechod, gofid, ac euogrywydd,  
O bob natur, o bob gradd,  
Syched am gael teimlo'th heddwch  
Sydd yr awrhon bron fy lladd.
- 4 O drugaredd pen Galfaria,  
Sydd yn llawer lled na 'r byd,  
Yma yn unig mae fy ngobaith  
Sefyll mewn anfeidrol lid;  
'R wy 'n ymwadu â'r oll a feddaf,  
Ac yn addef fedda'i ddim;  
Iesu ei Hunan yw fy haeddiant,  
Iesu ei Hunan yw fy ngrym.

## HYMN CCCCLXXXV.

*Angeu.*

- 'R WYF yn gwel'd yr afon ddwfn  
Yn agosach i mi 'n awr,  
Mae arwyddion am yr amlaf  
Mai mewn mynyd 'r âf fi 'lawr ;  
'R wyf yn ofni fy ngrasusau,  
Ofni 'r tonau bob yr un,  
Nid wyf fi yn wyneb angeu  
Ond y gwaelaf, lesgaf ddyn.
- 2 Eto angen roddwyd arnaf,  
Ddyddiau byr i fentro 'r maes,  
Colli brwydr neu ynte ei henill  
Gledd yn nghledd âg angeu glas ;  
Iechydwrïaeth yw fy ngobaith,  
Iechydwrïaeth yw fy ngrym ;  
Ac os colla'i 'ngafael yno,  
Arall fedda'i i ymaffyd ddim.
- 3 P'odd daw nerth im' yn y frwydr  
Pan 'r wy 'n awr yn llwfrhau ?  
Oddiwrth amllder maith fy meiau  
Mae fy ofnau yn cryfhau ;  
Fy anghrediniaeth sydd yn gadarn  
Am fod ynwy'i leied grym ;  
Pe bawn ond congweru 'mhechod  
Ni wnai ofn niwed im'.
- 4 O fy enaid gwan, nac ofna,  
Nid congweru unrhyw fai,  
Na chongwero cant o feiau  
Rwystra 'm hysbryd lwfrhau :  
Gwel'd y gras sydd yn yr IESU,  
Mor ddigonol yw i'r gwan,  
Mewn dyfnderoedd angeu creulon  
Ddeil fy ysbryd llesg i'r lan.
- 5 Cant o weithiau, ol a gwrthol,  
Y dilynais i fy mai,  
Pechu cyn adnabod pechod,  
Pechu wedi 'difarhau ;  
Dacw 'r graig rhaid im' ymddiried,  
Dacw 'r lloches, dacw 'r fan,  
Yn nghanghenau Pren y Bywyd,  
Arall ddim nis deil fi i'r lan.

## HYMN CCCCLXXXVI.

*Yr Ail Ran.*

F FARWEL i chwi gynt a gerais,  
Nid yw 'ch cwmni, nid yw 'ch  
gwedd,

Nid yw 'r cariad sy 'n eich calon  
Ragor na d'od hyd y bedd ;  
Pan ddel angeu, chwi ffowch ymaith,  
Da i mi fod genyf DDUW,  
Ffrynd fo gydaf wedi marw,  
Hwnw garaf fi yn fyw.

- 2 Ffarwel, ffarwel oll a welais,  
'R wyf fi bron a myn'd i fyd  
Lle mae ffryns, a lle mae trysor  
Newydd genyf oll i gyd ;  
Eto nid wyf fi ond blaenu,  
Daw 'm perth'nasau yn y man ;  
Ni gyfodwn gyda 'n gilydd  
Yn y boreu 'n bur i'r lan.
- 3 'R wyf fi 'n awr yn gryf i farw,  
'R wyf fi 'n awr yn gryf i fyw,  
Er mor waned wyf i ymdrech  
Fe gongwerodd Iesu 'm Duw :  
Yn ei goncwest 'r wy 'n ymddiried,  
Syllfaen yw ei angeu loes,  
Lladd fy mhechod fi mewn mynyd,  
Oni edrycha'i at ei groes.

- 4 'N awr 'r wy 'n barod i anturio  
Yn dy allu mawr dy Hun,  
I anturio yn wyneb angeu,  
Sydd yn gryfach nag yw dyn ;  
Gwaed yn llifo ar y croesbren,  
Dynol, farwol, ddwyfol glwy',  
Wna i'm henaidd, er mor waned,  
Loesion angeu fyned trwy.

## HYMN CCCCLXXXVII.

*Gwaed y Groes.*

A RAID im' rodio anial dir,  
Trwy 'stormydd a thym-  
hestloedd hir ?  
Nid ofna'i ddim, doed dydd, doed  
nos,  
Yn ngolwg hyfryd waed y groes.

- 2 Ni saif y gelyn mwya' ei rym  
Yn erbyn pen Calfaria ddim ;  
Ac ar Galfaria hyfryd mwy  
Yw 'r unig fan congwera'i hwy.
- 3 Gwnaeth pechod i mi lwfrhau,  
Fe rwystrodd pechod fi'th fwyn-  
hau ;

Mewn dudew nos 'r wy 'n dysgwyl  
dydd  
I'th gariad wneud fy nhraed yn  
rhydd.

- 4 Paham caiff nwydau 'm natur gref  
I atal awel bur y nef ?  
Mae gradd yn well o'th gariad drud  
Na 'r ddaear fawr a'r nef i gyd.
- 5 Ni fedd y dwyrain faith na'r de',  
Bleserau fel pleserau 'r ne !  
Mae môr di-drai mewn marwol  
glwy'  
Sy heb ddechreu ac heb ddarfod  
mwy.
- 6 Rho i mi brawf o'th gariad drud,  
I'r sawl a fynech dyro 'r byd ;  
Dy gwmi dry mewn mynyd awr  
Y ddaear megys nefoedd fawr.

3 N'ad ragfarn fyth i gario 'r dydd  
Ar rai a roddodd gras yn rhydd ;  
Pa'm colla'i 'r dydd wrth feiau'r un,  
Pan 'nillais i wrth fy meiau fy hun ?

4 Pa'm syrthia'i wrth eu beiau hwy ?  
I mi maddeuwyd beiau mwy ;  
Yr Hwn sy'n maddeu, maddeu mae  
Y mwya' fel y lleiaf fai.

5 O dercha, f' enaid llesg, i'r lan,  
I garu 'th seintiau yn mhob man ;  
I 'nabod cariad pur y nef,  
Na adnabu 'r byd o hono ef.

6 Eanga 'm doniau byr i maes,  
I lifo tros ardaloedd gras ;  
Na b'wyf yn berchen gras na dawn,  
Ond i Ti 'th Hunan, foreu a nawn.

## HYMN CCCCLXXXIX.

*Yr Ail Ran.*

UN llais, un swm, un enw pur,  
Fo o'r gogledd hyd y dwyrain  
dir,  
O fôr i fôr, gylch cwmmpas byd,  
Sef enw 'r IESU oll i gyd.

2 Darfydded son yn mhob rhyw fan  
Am ddoniau mawr a doniau gwan ;  
Darfydded enwau pob rhyw ddyn,  
Aed oll yn ddim ond Ti dy Hun.

3 Na foed ar dafod pererin mwy  
Ganiadau am ddim ond marwol  
glwy' ;  
Pan y teyrnasa ei Ysbryd Ef  
Y ddaear dywyll dry yn nef.

4 O gwna ni, IESU, bob yr un,  
I adnabod Duwod yn y dyn ;  
Ac mai 'n hapusrwydd tan y nef  
Yn unig yw ei 'nabod Ef.

5 O tyr'd yn frau, Iachawdwr mawr,  
Disgyned dy Ysbryd yma 'lawr ;  
Gwna i'r torfeydd a brynodd gwaed  
Gyd gerdded tua 'r hyfryd wlad.

## HYMN CCCCLXXXVIII.

Am undeb ysbrydol rhwng pawb o bob  
enwau ag sy'n dilyn CRIST. (A gyfan-  
soddwyd ar ddymuniaid H—H—  
Esq. \*)

DUW, dere â'th saint o tan y ne',  
O eitha'r dwyrain bell i'r de',  
I fod yn dlawd, i fod yn un,  
Yn ddedwydd ynot Ti dy Hun.

- 2 N'ad rai gwmpodd, rhai sy'n wan,  
I ddringo yn uchel fry i'r lan ;  
Rhag i'n diweddiad olaf fod  
Yn waeth na chyn in' gredu erioed.

\* Yr H—H— Esq. hwn, yn ddiarheu,  
oedd Howel Harries. Wrth ystyried fel yr  
oedd gwahaniaeth barn ar bynciau athraw-  
iaethol yn pellau dynion da oddiwrth eu  
gilydd, ac yn fynych yn drygu cariad ac undeb  
Cristionogol, yn enwedig yn eu hamser hwy, y  
mae "dymuniad" Harries, ac yn enwedig  
eangder a chatholigrwydd deisyfiadau yr Em-  
mynydd ewyllysgar, yn canmol y cariad a'r  
ysbryd rhagorol oedd yn y naill a'r llall. Yr  
ydyd yn credu fod gan yr Eglwys Gristion-  
ogol yn ein gwlad waith dringo eto cyn y cyr-  
haedda i awyrgylch eang a di-dramgwydd  
yr Emynau hyn.

Cyd fyn'd o hyd tan ganu'n mlaen,  
Cyd ddyodde' yn y dw'r a'r tân ;  
Cyd gario 'r groes, cyd lawenhau,  
A chyd gystuddio tan bob gwaë.

— — —  
HYMN CCCCXC.

*Y Drydedd Ran.*

**Y** RHAI bwrcasodd gwaed y nef  
Sy heb enw ond ei enw Ef ;  
Hwy 'mhob cystudd, hwy 'n mhob  
gwaë,  
A gaiff yn unig lawenhau.

2 Trech fydd y rhai'n na gwawd na  
llid,  
A'r holl elynion sy 'n y byd ;  
Yn un mewn culni, un mewn poen,  
Aelodau 'r croeshoeliedig Oen.

3 O na ddoi dydd yr India i ben  
I wel'd yr Hwn fu ar y pren ;  
A minau yn un, yn un â hwy,  
Yn canu am ei farwol glwy'.

4 Britania Fawr yn llawn o dân  
O gariad at y Prynwr glân ;  
A holl ynysoedd pella 'r byd  
Yn boddi mewn caniadau 'gyd.

5 Amen, amen, boed môr a thir  
Mewn perffaith hedd, mewn cariad  
pur ;  
Heb ganddynt bleser o un rhyw,  
Ond caru 'n IESU mawr a'n Duw.

— — —  
HYMN CCCCXCI.

*Tlodi.*

**Y**R wy'n teimlo'm nerth yn pallu,  
Nid yw 'm ffydd ond hedyn  
gwan ;  
Rhaid i mi gael mwy o allu  
I ddringo'r 'nialwch mawr i'r lan ;  
Y mae 'r tân sydd yn fy ysbryd  
Yn gwrth'nebu 'r nefol rodd,  
Ac yn gwneud fy enaid ochain  
Am amseroedd wrth ei fodd.

2 Nid oes le 'gysgodi 'r 'storom  
Ond yn nghlwyfau pur fy NUW,  
Gwyntoedd uffern sydd greulonach  
Na dyledswydd o un rhyw ;  
Mae euogrydd du mor ddwfn,  
Mawr ei floeddiad, mawr ei boen,  
Nid oes is y nef dystawa,  
Onid gwaed yr addfwyn Oen.

3 On' fydd i Ti olchi 'm henaid  
A dy waed, mi gwympa 'n awr ;  
Heb dy waed, 'r wy' bob mynydyn  
Eisoës obry ar y llawr ;  
Nid wyf fi yn erbyn uffern  
Eang, fawr, ond gwaelaf ddyd,  
'R wy'n diffygio ddim ond meddwl,  
Oni ddeli Di fi 'th Hun.

4 Mae im' frodyr hen ac ifaingc,  
Rhai yn fychain, rhai yn fawr,  
Ag sy 'n ofni yn eu calon  
Rhag im' rywbyrd syrthio 'lawr ;  
Fe gaiff Satan hen ei wynfyd,  
Oni ddeil dy ras fi i'r lan,  
Ddoe mi syrthiais, 'n awr wy 'n  
syrthio,  
Syrthiaf eto yn y man.

— — —  
HYMN CCCCXCII.

*Yr Ail Ran.*

**S**AITH o weithiau, ol a gwrthol  
Torais dy orch'mynion glân,  
Saith adduned fawr a wnaethum  
I ymgadw rhag y tân ;  
Yn y dyfnder ce's i gynta'  
Wel'd dy wridog wyneb gwyn,  
Oni buasai fflam euogryydd  
Ddaethwn fyth i Seion fryn.

2 Fe wnaeth pechod, fe wnaeth uffern,  
Fe wnaeth t'w'llwch dudew'r nos  
I'm roi naid trwy ddyledswyddau  
Meirwon, llesg, at waed dy groes ;  
Ar fin uffern ce's i'r nefoedd,  
Ac yn angyu ce's i fyw,  
Yn nharanau mynydd Sina  
Gynta' des i gwrdd â'm Duw.

3 Mellt a tharanau, mwg a chenllysg,  
Oedd euogryydd i mi 'r pryd  
Des i wel'd maddeuant pechod,  
Fil o weithiau yn fwy na 'r byd ;

Gwnaf, mi gofia 'r oriau hyny,  
Oriau fy mhriodas gun,  
Pan ddaeth Crewr nef a daear  
At bechadur gwaelaf un.

— — —  
HYMN CCCCXCIII.

**D**RAW, mi wela'r nos yn darfod.  
Draw, mi wela' oleu llawn,  
Yn dysgleirio tros y bryniau,  
Gyda llewyrch hyfryd iawn ;  
Ffy gelynyon pan del goleu,  
Ni all pechod, er ei rym,  
A'i holl wreiddiau yn fy natur,  
Sefyll haul cyfiawnder ddim.

2 Daw i ben, aed byd yn ulw,  
Bob rhyw air a dd'wedo 'Nhad,  
Sathrir Satan, sathrir angyu,  
Sathrir uffern tan fy nhraed ;  
Buddugoliaeth ddaw o'r diwedd,  
A phan ddel melusa' fydd,  
Mil o flwyddau gyda 'm HAR-  
GLWYDD  
Nid yw ragor ddim na dydd.

3 Yn y rhyfel mi arosaf,  
Yn y rhyfel mae fy lle,  
Boed fy ngenau wrth y ddaear,  
Boed fy llygaid tua 'r ne' ;  
Doed y gongcwest bryd y delo,  
Dysgwyl wrth fy 'Nuw a wnaif,  
Nes o'r diwedd wel'd yn trengu  
Pechod ag oedd bron fy lladd.

— — —  
YR AIL RAN.

— — —  
HYMN CCCCXCIV.

**M**AWR iawn yw gwres y tân,  
Fy nwydau o bob rhyw  
Sy am ddifa oll o'u blaen  
Rasusau pur fy NUW ;  
Ond eto trech yw gallu 'r nef  
Na'i fflamau cynddeiriocaf ef.

2 Mae enw Calfari,  
Fu gynt yn w'radwydd mawr,  
Yn ngolwg fy enaid cu,  
Yn fwy na'r nef yn awr ;  
O ddedwydd fryn ! sancteiddiaf le !  
Dderbyniodd ddwyfol waed y ne'.

3 'R wy 'n caru 'r hyfryd awr,  
Mi gara 'r hyfryd le,

Mi gara' bren y groes,  
Orweddodd arno fe ;  
Dyma fy NUW, dyma fy Mhen,  
Ac oll a feddaf ar y pren.

4 Ffarwel, deganau 'r byd,  
Mae 'ch blodau hyfryd iawn  
Oll yn diflanu 'nghyd,  
Ar Galfari brydnawn ;  
Mae da, mae dyn, er maint eu grym,  
Yn ngwydd y groes yn myn'd yn  
ddim.

5 Na thawed tafod saint,  
Na laesed nefol dân,  
Ond canu fyth am fraint  
Calfaria yn y blaen ;  
Aed sw'n ei glod i maes o law,  
O'r India hyn i'r India draw.

## HYMN CCCCXCV.

**M**AE'r faner fawr yn mlaen,  
Ei efengyl Ef yw hon;  
Mae uffern lawn o dân  
Yn crynu 'n awr o'r bron;  
Hi gwmp, hi gwmp, er maint ei  
grym,  
O flaen fy Iesu 'd yw hi ddim.

2 Fe bwysa hoelion dur,  
Fe bwysa coron ddrain,  
Ar goryn Brenin nef  
Euogrwydd mwya' rhai'n;  
Rhyfeddod fil, dewch, gwelwch hyn,  
Y mwya' du yn fwy' gwyn!

3 Caned a welodd wawr  
Yn codi o'r t'w'llwch du,  
Caned a brofodd flas  
Grawn-sypiau 'r Ganaan fry;  
Ni ddewn, ni ddewn, i Seion fryn,  
Er maint yr holl anialwch hyn.

4 Na lwfrhaed ein ffydd,  
Mae 'n ffydd fel colofn dân,  
A blannod Brenin nef  
I'm harwain yn y blaen;  
Mi wela 'r wlad, mi ga'i mwynhau,  
Lle pery 'm hedd heb drangc na  
thrai.

5 O ffynon fawr o hedd,  
O anchwiliadwy fôr,  
Sy 'n cynwys ynddo ei hun  
Ryw annherfynol 'stor;  
Ti bia 'r clod, wel cymer ef,  
Trwy 'r ddaear, uffern fawr, a'r nef.

## HYMN CCCCXCVI.

**O**GWRANDO, nefol Oen,  
Ruddfanau 'r gwael ei lun,  
Sydd tan ryw ddfwn boen,  
Yn d'rysu ynddo ei hun;  
Gelynyon fil, bob awr o'r dydd,  
O mew'n, o maes, yn nghuro'i sydd

2 Er temtasiynau cnawd,  
A holl bwysiau byd,  
Llid uffern fawr a'i gwawd,  
Mewn cyngrair *glos*\* yn nghyd,  
Mae gwynt y nef, pan leia' ei rym,  
Yn gwneud eu temtasiynau'n ddim.

\* *Close.*

3 Mae nerthoedd mawr fy Nuw,  
A'i nerthoedd yw ei ras,  
Yn llawer trech eu rhyw,  
Na'm beiau cyndyn, cas;  
A pheraroglau Seion fryn  
A'm dal i yn yr anial hyn.

4 Pe caent fy mhen i lawr,  
A'm mynwes tan y don,  
Gelynyon cryfion, hy',  
A lawenhaent o'u bron;  
Neb ond Tydi fu ar y groes,  
A'm dal i fyny ddydd a nos.

5 O ddedwydd wych brydnawn,  
Pan seinio 'r nef i maes,  
Trwy udgorn peraidd iawn,  
Fuddugoliaethau gras;  
Telynau aur yn canu 'n un,  
Effeithiol gongcwest Mab y dyn.

## HYMN CCCCXCVII.

**W**EL, bellach tyr'd yn mlaen,  
Nac ofna, f' enaid mwy,  
Llai grym sy 'n uffern dân  
Na dwyfol, farwol glwy';  
Mae'r dwyfol waed a gollodd Ef  
Yn uwcha' ei bris o fewn i'r nef.

2 Mae 'r orsedd wen yn rhydd,  
Aeth Magdalen yn mlaen,  
Manasse hefyd sydd  
Yn canu 'r nefol gân;  
Mi glywa 'r sw'n, sw'n peraidd yw,  
Am ddwyfol, nefol waed fy Nuw.

3 Dystewch, elynion, mwy,  
Rhow'ch le tua phen fy nhaith,  
Chwi roisoch i mi glwy'  
Disymwth lawer gwaith!  
Yn mlaen, yn mlaen mae 'm trysor  
drud,  
Tu hwnt i derfyn eitha 'r byd.

4 O fewn Caersalem lân  
Mi wela' fyrdd o saint,  
Wedi diengu 'mlaen,  
Tros fryniau mawr eu maint,  
Dilynaf ôl y dyrfa hon,  
Er dw'r a thân, a llif a thon.

## HYMN CCCCXCIX.

**I**ESU, IESU, 'r wyt Ti 'n ddiagon,  
'R wyt Ti 'n llawer mwy na'r  
byd;  
Mwy trysorau sy 'n dy enw  
Na thrysorau 'r India 'gyd;  
Oll yn gyfan, &c.,  
Ddaeth i'm meddiant gyda'm Duw.

2 Y mae gwedd dy wyneb grasol  
Yn rhagori llawer iawn,  
Ar bob peth a welodd llygad  
Ar hyd wyneb daear lawn;  
Rhosyn Saron, &c.,  
Ti yw tegwch nef y nef.

3 Tarian gadarn yw dy enw  
Pan bo 'r gelyn yn nesau,  
Angeu ei hunan sydd yn ofni,  
Angeu sydd yn llwfrhau;  
Ti gongcweiraist, &c.,  
'Does ond canu 'n awr i mi.

4 Nis gall fy enaid, er ei gyrrhaedd,  
Fyth i geisio cyrrhaedd mwy  
Nag sydd wedi ei roi yn nghadw  
Yn y dwyfol, farwol glwy';  
Cariad, cariad, &c.,  
Nad oes dyfnder iddo 'n bod.

5 Dyma 'r *beger* gyfoethogwyd.  
A'r carcharor wnaed yn rhydd,  
Ddoe oedd yn y pydew obry,  
Heddyw yma 'n canu 'n rhydd;  
Nid oes genyf, &c.,  
Ddim ond diolch tra f'wy' byw.

## HYMN D.

**I**ESU, gwyddost fy nghystuddiau,  
'R wyt Ti 'n rhifo pob yr un,  
Pob rhyw w'radwydd, pob rhyw  
groesau,  
Ti dyoddefaist hwynt dy Hun;  
Dal fi fyny, &c.,  
Man bo 'r meichiau 'n fwy' trwm.

2 Ti, fy ARGWYDD, a'm cenedlaist,  
Gwaith dy fyssedd wyf i gyd,

5 Pe duai 'r wybr wen,  
Mi gana' o hyn i maes,  
Tra tafod yn fy mhen,  
Am effaith hyfryd ras;  
Pa ofn mwy, mae 'r cwmwl tân,  
A'r niwl y nos yn ledio 'mlaen.

6 O tyred, ARGWYDD mawr,  
'D oes yma ddim ond gwae,  
O eitha 'r nen i lawr,  
Oni cha' i dy fwynhau;  
Y wledd, y wledd a'm gwna i'n llon,  
Yw cael dy wel'd y fynd hon.

## HYMN CCCCXCVIII.

**M**I wela' draw o bell  
Baradwys hardd ei gwedd,  
A phrenau lawer gwell  
Yn perarogli hedd;  
O hyfryd hedd! tu draw bob gwae,  
Gwynfyd ga'i heddyw dy fwynhau.

2 Mae 'r byd ac uffern fawr,  
A 'nghalon gas yn un,  
Yn ceisio 'm sugno i lawr  
Yn hollol ato ei hun;  
Fy Nuw, fy Nuw, sy'n dal y gwan,  
Rho nerth i'm henaidd ddringo i'r  
lan!

3 Fe laesa 'r 'storom fawr,  
Fe laesa 'r awel gref,  
Pan delo gair i lawr  
O'i sanctaidd enau Ef;  
Duw yw Efe, os Ef a bair,  
Cwmp nef ac uffern at ei air.

4 Bwystfilod rheibus iawn  
Sy'n bwyta 'r egin gwan;  
O foreu hyd brydnawn  
Yn rhwystro 'm gras i'r lan;  
I'r lan mi ddof, i'r gwledydd draw,  
Mae 'm Iesu 'n 'maflyd yn fy llaw.

5 Melusach tŷ fy Nhad  
Ar ol y 'storom gre',  
Pa fwy' croesau gaed,  
Mae 'n hawsach gado tre';  
O hyfryd wel'd fydd yn y man  
Pob bryn a ddringais i i'r lan!



Pob gwthien fach, pob asgwrn,  
Rifwyd yn dy arfaeth ddrud :  
Cod fi fyny, &c.,  
Nid wy 'n abl hebost ddim.

3 Cofia 'th boenau ar Galfaria,  
Cofia i Ti gario 'r groes,  
Cofia gur yr hoelion llymion,  
Cofia 'th chwerw angeu loes ;  
Rho i mi heddwch, &c.,  
Rho i mi nefoedd er eu mwyn.

4 Er dy fod Di heddyw 'n eistedd  
Yn ngogoniant nef y nef,  
Mewn goleuni mor ddysgleiried  
Na ellir nesu ato ef,  
'R wyt Ti 'n edrych, &c.,  
Ar dy anwylaf yn y byd.

5 Dyma 'th gariad, dyma 'th briod,  
Heddyw 'n gruddfan o dy flaen,  
Tros ein henaid y dyoddefaist  
Boenau megys uffern dân ;  
Ti yw 'r cwbl, &c.,  
Heddyw feddwn yn y byd.

## HYMN DI.

**D**ATGUDDIWIYD dirgelion i  
maes,  
Dirgelion cuddiedig i'r byd,  
Meddyliau trugaredd a gras  
I'r penaf bechadur i gyd ;  
A glo'wd mewn addewid sydd gref,  
Na welir fyth fythoedd ei hail,  
O ddyfnder y ddaear i'r nef,  
Mor gywir, mor sicr ei sail.

2 Fe 'm boddwyd mewn syndod yn  
lân  
Wrth chwilio eu natur hwy 'maes ;  
'D oes angel na seraph a gân  
Am ddyfnder anorphen ei ras ;  
Pwy bwysa ei ddyoddefaint ar  
bren ?  
Pwy bwysa lawn haeddiant ei  
loes ?  
Tra tafod yn chwareu 'n fy mhen,  
Mi ganaf am gongcwest ei groes.

3 'R anrhydedd, a'r gallu, a'r clod,  
Y moliant a'r parch yn gytun,  
O'r nefoedd i'r ddaear gaiff fod,  
Yn gyfan i'm HARGLWYDD ei  
Hun ;  
Aed sw'n dy farwolaeth i maes  
O'r dwyrain luosog i'r de',  
Helaethed terfynau dy ras,  
Mor belled ag cyrhaedd y ne'.

4 Aed ein Haleluia ni i'r lan  
Trwy 'r awyr anfeidrol ei maint,  
Cymysged caniadau rhai gwan  
A thyrfa luosog o saint ;  
Ni gawsom gant cymaint a'r byd,  
Gant cymaint drachefn a hyn,  
Gant cymaint a'r nefoedd i gyd,  
Brydnawn-gwaith ar Galfari fryn.

## HYMN DII.

**E**NYNAIST ynwyf dân,  
Perffeithiaf dân y nef,  
Na's gall y moroedd mawr  
I ddiffodd mo hono ef ;  
Mae'th lais, mae'th wedd, mae  
gwel'd dy waed,  
**Yn troi 'ngelynlion tan fy nhraed.**

2 **Mae caru** 'Mhrynwr mawr,  
Mae edrych ar ei wedd,  
Y pleser mwya 'n awr  
Sy gael tu yma i'r bedd ;  
O gariad rhad, O gariad drud,  
Sydd fil o weithiau'n fwy na'r byd.

3 Wel, dyma 'r gwrthdrrych cun,  
A thyma 'r awr a'r lle,  
Cysegra' i fy hun  
Yn gyfan iddo Fe :  
Ffarwel, ffarwel, bob eilun mwy,  
Mae cariad IESU 'n drech na hwy.

4 Er cymaint ydyw grym  
Teganau maith y byd,  
Parodrwydd Satan lym  
Eu galw hwynt yn nghyd,  
Ond llawer mwy nag fedd y nef,  
Sy o bleser yn ei gwmi Ef.

## HYMN DIII.

**A**RGLWYDD, dere â'r newydd-  
ion  
Sydd yn gweithio llawenhau,  
Ac aed heibio 'r noswaith dywyll  
O och'neidio a thristau ;  
I mi 'n glir wel'd y tir  
Brynwyd trwy ddyoddefaint gwir.

2 Gad i'm henaid landio yno,  
Y mae 'r tonau 'n fawr eu grym,  
Ac ni all fy enaid ofnus  
Ddala eu pwysau anferth ddim ;  
Dy angeu drud, tr' wy'n y byd,  
Fydd fy nghysur oll i gyd.

3 O na welwn gopa 'r brynau,  
Lle mae fy Anwyl i yn byw,  
'Rwyf yn caru 'r gwynt sy'n 'hedeg  
Tros fy Nghanaan hyfryd, wiw ;  
'Fedd y llawr ddim yn awr  
Leinw lle fy ARGLWYDD mawr.

4 Mae pleserau o bob rhywiâu,  
Yn rhy brin i lanw 'r man  
Gym'rodd Tywysog mawr y bywyd,  
Er ei enw, iddo 'n rhan ;  
Da a dyn yn gytun,  
Mae E'n ganmil mwy ei Hun.

5 Wyneb dyn sydd yn salwino,  
Ynfyd yw a gân ei wedd,  
Aur ac arian sydd yn treulio,  
Enw lyngcir yn y bedd ;  
Pery Fe, Tywysog ne',  
Pan y collo 'r ser eu lle.

## HYMN DIV.

Yr Ail Ran.

'**R**WYF fi heddyw 'n teimlo  
undeb  
A rhai sydd yn lludw mân,  
Mwy na rhai wy 'n wel'd yn 'hedeg  
Ar adenydd rhwysg yn mlaen ;  
Yr un wedd, yn y bedd,  
Ca'i fod gyda hwynt mewn hedd.

2 'Fory daw yr oriau i'm galw,  
'Fory rhaid i'm cnawd lesgau,

'Fory rhaid i'm gras enynu,  
Ac i'm hegwan ffydd gryfhau ;  
F' enaid cân, tyr'd yn mlaen,  
Gad dy hen drigfanau 'n lân.

3 Tros rhyw ddyddiau byr, di-bleser,  
De's i'r ddaear i gael lle,  
Dyddiau i'm temtio, a'm haddfedu,  
I drigfanau pur y ne' ;  
Gwynfyd ddaw, maes o law,  
Ar y brynau 'r ochr draw.

4 Dacw gariad fel yr afon,  
Dacw heddwch fel y llif,  
Wedi 'mrodyr gael ei feddu,  
Brodyr anwyl fwy na rhif ;  
Gyda hwy caiff fod mwy  
F' enaid heb na briw na chlw'y'.

5 Angeu, bellach, gwna dy waetha',  
Nid yw 'th ddychryniadau ddim,  
Mwy o hedd sy 'n mhen Calfaria  
Nag sydd yn dy saethau o rym ;  
Mi âf trwy farwol glwy',  
'N erbyn tonau mawrion mwy.

## HYMN DV.

**H**EDDYW yw 'r dydd 'r wy 'n  
ofni syrthio,  
Diau heddyw yw efe,  
Eto sefyll 'r wyf, er gwaned,  
Trwy awdurdod mawr y ne' ;  
'R wyf yn credu, &c.,  
'R âf tan ofni i ben fy nhaith.

2 Nid oes ond fy nghnawd yn ofni,  
Fy ysbryd sydd yn cadw ei le,  
Ac ni fyn e' gollu ei afael  
Ar addewid Brenin ne' ;  
Gair dy enau, &c.,  
Bair im' sefyll tra fo chwyth.

3 Y mae yn y gair lefaraist  
Fwy o fywyd, fwy o ras,  
Nag sy o rym yn uffern dywyll,  
A'i byddinoedd creulon, cas ;  
Dywed sillaf, &c.,  
Dyna 'r nef yn cario 'r dydd.

4 Mi ddysgwyliaf, doed a ddelo,  
Deued boreu, deued nos,  
Deued corwynt, deued tymhestl,  
Nes cael teimlo gwaed y groes ;  
Gwel'd dy glwyfau, &c.,  
Yw 'r ddedwyddaf awr i mi.

5 Hyn yw 'm nefoedd, hyn yw 'm  
hawddfyd,  
Yn nymhestloedd oer y byd,  
Caf fi 'nal fyn'd tros y bryniau  
'Stormus, wel'd dy wynebpryd ;  
Fe â heibio, &c.,  
Swm y dymhestl fawr a'r gwynt.

### HYMN DVI.

**D**ACW uffern yn ei harfau,  
Dyma bechod yn ei rym,  
Dyma fy ofnau inau 'n bygwth  
Na allaf eu congwero ddim ;  
Gallu 'r nefoedd, &c.,  
Tyr'd i waered, dyma 'r awr.

2 Dadrus rwydau sydd heb rifo  
Wedi eu taenu draw o 'mlaen,  
Llosg pob gefyn sy 'n fy rhwymo,  
A dy ddwyfol, nefol dân ;  
Gwna i garcharor, &c.,  
Heddyw gael ei draed yn rhydd.

3 Dysg y galon drist i chwerthin,  
Dysg y mudan seinio cân,  
Dysg yr ofnus gwan i gludo,  
Uffern fawr i lawr o'i flaen ;  
D'od wylofain, &c.,  
Yn ganiadau Calfari.

4 O na roi 'r Winwydden hyfryd  
Beth o'i ffrwythau i lawenhau  
Enaid flinodd gan och'neidio,  
Enaid flinodd gan dristau ;  
Deued bellach, &c.,  
Deued blodau, deued haf.

Llais y durtur doed i loni  
Rhai na cha's ond gaua' erioed ;  
Mi yr hwn ag sydd yn methu  
Cael fy meiau tan fy nbroed ;  
Atal, ARGLWYDD, &c.,  
Angeu, nes cael gweled dydd.

6 Pe cawn gredu i Ti farw,  
A dyodde' yn fy lle,  
Ac i Ti bwrcau trigfan  
I fy enaid yn y ne',  
Byth ni phwyswn, &c.,  
Faint fy ngofid, faint fy ngwae.

### HYMN DVII.

**D**YMA'r pechod sydd yn gwasgu,  
Hwn sy'n curo fy enaid gwan ;  
Hwn sy 'n rhwymo 'm traed a'm  
dwylo,  
Yn fy rhwystro i ddringo i'r lan ;  
Dim nis dadrys, &c.,  
Ond galluoedd mawr y ne'.

2 Weithiau mae e'n enyn gofid,  
Weithiau mae e'n myn'd â 'mryd ;  
Weithiau 'n cludo fy meddyliau  
Ato ei hun yn gryno 'nghyd ;  
Minau 'n dysgwyl, &c.,  
Wel'd y boreu o ryddhad.

3 Dysgwyl y deheu-wynt tawel,  
Awel beraidd o'th fwynhau,  
Weithiau dysgwyl gwynt y gogledd,  
Argyhoeddiad am fy mai ;  
Cant rhyw hiraeth, &c.,  
Sy arna'i am gyfnwyd lle.

4 Dyna 'r man dymunwn drigo,  
Wrth afonydd gloewon llawn,  
Sydd yn llifo o ddw'r y bywyd,  
O las foreu hyd brydnawn ;  
Lle cawn yfed, &c.,  
Hyfryd gariad fyth a hedd.

5 Lle cawn wel'd yr Hwn wy'n garu,  
'R Hwn fu farw ar y groes,  
A myfyrio ar ei gariad  
Yn dyoddef angyhoed ;  
A chael gorphwys, &c.,  
Draw yn mhell o dwr fy mhla.

6 Yno cawn gongwero ofn  
Ag anadliad pur y ne' ;  
Yno cawn gongwero angyhoed,  
A'i hen golyng ydych e' ;  
Tyred amser, &c.,  
Tyred bellach, mae 'n brydnawn.

### HYMN DVIII.

**A**HEIBIO 'r dywyll nos,  
Fe ffy cymylau 'r nen ;  
Fe ddaw 'r addewid wir  
A'i geiriau pur i ben ;  
Ceir gwel'd, ceir gwel'd yr hyfryd  
dir,  
Ar fyr o dro yn oleu clir.

Mae 'r oriau maith eu rhif  
Yn dirwyn yn y blaen,  
Er bod nosweithiau yn hir,  
O'r diwedd darfod wnan' ;  
Cymylau 'r nen, er maint eu grym,  
O flaen y wawr ni safant ddim.

3 Pan tywyno arna'i 'r dydd,  
Mi wed'yn garia 'r groes  
Ag oedd yn gwasgu 'lawr  
Yn llwythog ganol nos ;  
Mi neidiaf tros y ffosydd maith  
Ond cael dy gwmmi ar fy nhaith.

4 'D yw profedigaeth ddim,  
'Dyw 'r holl gystuddiau ond gwan  
I guro hwnw 'lawr  
A ddaliech Ti i'r lan ;  
Mae nerth dy ras yn fwy na'r byd,  
A'r myrdd o ddrwgau sy ynddo 'gyd.

5 Ni atal ddim o'r môr,  
A'i donau cedyrn, cry',  
Rhad myn'd i ben ei-daith  
Yr hwn gynhaliech Ti ;  
'D yw 'r moroedd maith, 'd yw  
Pharao ddim,  
I'w ei gydmaru â dy rym.

### HYMN DIX.

**F**E gân 'tiffeddion gras  
Yn beraidd maes o law,  
Wrth wel'd yn boddi 'r Aipht,  
A hwythau 'r ochr draw ;  
Fy enaid, 'hed i ben y bryn  
I wel'd y gongcwest ryfedd hyn.

2 Yn uchel fry ar fryn,  
Rhwng daear gron a net,

Holl rwysg Gehenna fawr  
A'i grym orchfygodd Ef ;  
Tan hoelion dur godfodd glwy',  
Pa sut ymfrostia uffern mwy !

3 Wel, dacw 'r ffordd yn rhydd,  
Agorwyd hi o bob tu,  
O ddyfnder daear las  
I uwchder nefoedd fry ;  
O dring, O dring, fy enaid mwy,  
Mae nerth i'w gael mewn dwyfol  
glwy'.

4 Wel, deuwn yn y blaen,  
Fe gwmpodd ofnau mawr  
Ar y gelynyon hy'  
Oedd am ein cael ni 'lawr ;  
Fe gawd y dydd, mi glywa 'r nen  
Yn canu 'r gongcwest ar y pren.

### HYMN DX.

**N**I chefais i yma erioed  
Ond gwaetha' cnawd a byd,  
O mewn, o maes bob awr,  
Yn curo arna'i yn nghyd ;  
Mi ffo, mi ffo ryw ddydd i'r lan,  
Ceir gwel'd fod congwest gan y  
gwan.

2 Mi fliniais gan fy chwant,  
Mae fy serchiadau i 'n bwn,  
'R wy 'n gruddfan bron o hyd  
O tan yr archoll hwn ;  
O doed yr awr na bo 'n fy mryd  
Ond caru 'Mhrynwyr mawr o hyd.

3 Wel dere, foreu ddydd,  
Diwrnod goreu 'n fyw,  
Ac na bo gen' i ddim  
I'w garu ond fy Nuw ;  
Efe a'i groes, Efe a'i wae,  
Wna i'm henaidd egwan la wenhau.

4 Mae ei groes E'n well na 'r gwin,  
Mae 'r hoelion fel y mêl,  
Mi ymbortha' ar y rhai'n,  
A doed hi fel y dèl ;  
Mae mwy o wledd ar groes fy Nuw  
Nag allwn draethu tra fo'm byw.

- 5 Caned breninoedd gwych  
Am rwyg a gallu 'r byd ;  
A chaned India byth  
Am aur a pherlau drud ;  
Fy enaid i, bob dydd, bob nos,  
A gân i'r Hwn fu ar y groes.

## HYMN DXI.

- N**IS gall dysgedigion doethaf,  
Er i'nt gyrrhaedd fry i'r ne',  
Chwilio troion ser yr wybr,  
Gwel'd eu maint, a gwel'd eu lle ;  
Fyth i bwyso, &c.,  
Gwerthfawrogrwydd gwaed dy  
groes.
- 2 Nis gall dysg, ac nis gall doniau,  
Wel'd y pechod drwg ei ryw,—  
Pwyso ei haeddiant maith a'i fesur  
O flaen gorsedd bur fy Nŵw ;  
Ar Galfaria, &c.,  
Gwela'i e 'n ei liw a'i lun.
- 3 Pechod yma, cariad acw,  
Fu yno yn y glorian fawr,  
Ac er trymed oedd y pechod  
Cariad bwysodd hyd y llawr ;  
'N awr "Gorphenwyd," &c.,  
Wnaeth i'r glorian bwysig droi.
- 4 Haeddiant Duwodod a'i gydmara  
Yn erbyn uffern fawr o'i bron,  
Dafn gwaed sy 'n ganmil rhagor  
Nag affendid dudew hon ;  
Gw'radwyddiadau, &c.,  
Duw, ry'iawn am feiau 'r byd.
- 5 Fe ddystewa myrdd o elylllon,  
Fe ddystewa 'r ddeddf o'r bron,  
Fe ddystewa pur gyfiawnder  
Sy'n ymddial cweryl hon,  
Cyntaf enwir, &c.,  
Sillaf prin am waed y groes.

## HYMN DXII.

- D**ACW gariad, dacw bechod,  
Heddyw 'u dau ar ben y bryn,

Hwn sy'n gryf, hwn acw 'n gadarn,  
Pwy enilla 'r ymgyrch hyn ?  
Cariad, cariad, &c.,  
Wela'i 'n perfffaith gario 'r dydd.

- 2 Dringaf fyny i'r Olewydd  
I gael gweled maint fy mai,  
Nid oes arall ts yr wybren  
Fan i'w weled fel y mae ;  
Anwyl fy enaid, &c.,  
Yno yn chwysu dafnau gwaed.
- 3 Gwel'd yr Hwn fu 'n prynu im'  
bardwn,  
Prynu pardwn maith y byd ;  
Gwel'd ei wallt, a gwel'd ei wisg-  
oedd,  
Gwel'd ei ruddiau yn waed i gyd ;  
Fe fy mhechod, &c.,  
Yrodd allan ddwyfol waed.
- 4 Pechod greodd ynddo 'r poenau,  
Pechod roddodd arno 'r pwn,  
Pechod berodd iddo ochain,  
Fy unig haeddiant i oedd hwn ;  
O na welwn, &c.,  
Foreu byth na phechwn mwy.
- 5 Profed hwnw nad yw 'n medru  
Caru Prynw'r mawr y byd,  
Beth o'r dw'r a'r gwaed a lifodd  
Gyda 'r bicell fawr ei hyd ;  
Hwn sy 'n magu, &c.,  
Fflamau o gariad heb ddim trai.

- 6 Cariad oll i mi oedd yno,  
Chwer'der ydoedd i fy Nŵw,  
Lle dyoddefodd un diwrnod  
Boenau o amrywiol ryw ;  
O'r winwydden, &c.,  
Gwasgwyd pechod i mi 'n win.

## HYMN DXIII.

- F**Y meddyliau sydd yn 'hedeg,  
Weithiau i'r dwyrain, weithiau  
i'r de',  
Treulio 'm dyddiau gwerthfawr,  
goreu,  
Bob mynydyn oddi tre' ;

Lleng 'n ol lleng, olynol ganlyn,  
Ynwy' o feddyliau gau,  
Heddyw yn newid, ddoe yn d'rysu,  
Ddoe a heddyw yn parhau.

- 2 Bryniau mawr uwch pwys o wagedd  
Am un meddwl nefol, pur,  
Mwy yw 'r Aipht o flaen fy ngolwg  
Nag yw 'r Ganaan nefol, bur ;  
O amseroedd, tyred bellach,  
Coded haul a gwawried dydd  
I'r cadwynau pres a haiarn,  
Sy am fy enaid, fyn'd yn rhydd.
- 3 Nid yw 'm ffydd, ac nid yw 'm  
cariad,  
Os y'nt gadwedigol ras,  
Ond y mymryn lleia' welwyd,  
Yn fath lu o lygredd cas ;  
Eto mae o fewn dy allu  
I roi 'th ddelw arna'i 'n awr ;  
A darostwng mewn mynydyn  
F' anwireddau oll i lawr.

- 4 Prin 'r wyf arnat yn och'neidio  
Gan cyn drymed yw fy mai,  
Pe cawn gyfoeth maith yr India,  
Fyth ni allwn lawenhau ;  
Eto 'raid i Ti ond mynyd,  
Mynydd i'm gongcwero bair,  
Mae crediniaeth wedi ei gwneuthur  
Gyntaf pryd llefarost air.

- 5 Ti 'sgrifenaist gynt ar geryg,  
Ddeddfau cywir, sanctaidd, pur,  
Nid anhawsach it' 'sgrifenu  
Eto 'n awr ar galon ddur ;  
Os buost farw dros un ffaidd,  
Aflan, ARGWLWYDD, fel myfi,  
O n'ad i mi fod yn ddyeithr  
I rasmusau 'r nefoedd fry.

- 6 Rho i mi heddwch fel yr afon,  
Rho faddeuant fel y môr,  
Rho im' ronyn bach o brofi  
'N awr o'th anorchfygol 'stor ;  
Na b'wy 'n newynu yn yr anial,  
Lle nad oes na dw'r na gwin,  
Ond cael teimlo pur gafodydd  
Ag addewaist Ti dy Hun.

## HYMN DXIV.

- P**WY sy 'n abl, fy Anwyllyd,  
Rifo 'th boenau mawr o'u  
bron ?  
P'un ai dail y coed gydmara',  
Neu ynte gwellt y ddaear gron ?  
Mae 'th ruddfanau, &c.,  
Yn fwy nag ellir bwysu byth.
- 2 Seren ddaeth i gyfarwyddo  
Atat rai o eitha 'r byd,  
Ac mae ser y nef hyd heddyw  
Yn dangos dy allu mawr yn  
nghyd ;  
Mi fy hunan, &c.,  
Sydd yn ddiffirwyth a difudd.
- 3 O na byddai oriau 'm bywyd  
Yn ymborthi ar oriau 'th boen,  
Fel y gallwyf fi gyd redeg  
A chystuddiau 'r addfwyn Oen ;  
Fe ga'i 'mhechod, &c.,  
Felly 'n fuan golli 'r dydd.

- 4 Felly cawn gan f' enaid ddilyn  
Ei ofidiau hyfryd Ef,  
Fel mae goleu 'r dydd yn cadw  
Cwmni dysglaer haul y nef ;  
'Chai 'm gorddiwes, &c.,  
Cwmwl du, na thywyll nos.
- 5 Fel bo 'r dorf ddi-rif o fetau  
Wybod hyn yn ddi-nacad,  
Yn mha glwyf, ac yn mha ofid,  
Yn mha archoll mae 'm iachad ;  
Fel y gallwyf, &c.,  
Heb hir oedi fod yn lân.

## HYMN DXV.

- O** NA b'ai cystuddiau f' AR-  
GLWYDD  
Yn fy nghalon i gael lle,  
Pob rhyw loes, a phob rhyw ddolur,  
Pob rhyw fflangell gafodd E ;  
Fel b'ai 'mhechod, &c.,  
Ildio 'r dydd a myn'd i maes.

- 2 Ti dy Hunan yno 'n Frenin,  
Ti dy Hunan yno 'n Dduw,  
Dy eiriau dy Hunan yno 'n uwcha',  
Dy eiriau gwerthfawrocaf ryw ;  
Ti wnai felly, &c.,  
Bydew du yn deml lân.
- 3 Yno gwna dy drigfan hyfryd,  
Trigfan croeshoeliedig Oen,  
Ac na chilia 'maes oddi yno  
Tra fo anadl yn fy ffroen ;  
Rhag i'm pechod, &c.,  
Ffiaidd geisio d'od yn ol.
- 4 O 'sgrifena 'n eglur, eglur,  
Mewn llyth'renau llawn i gyd,  
Bob rhyw sillaf bach o'th gyfraith  
Ar fy mynwes yma 'nghyd ;  
Fel na anghofiwyf, &c.,  
Fyth dy eiriau mawr eu pris.
- 5 Gwaed 'sgrifennodd ar y croesbren  
Gariad nerthol, dwyfol, rhad ;  
Ni 'sgrifeni'r ar fy nghalon  
Fyth dy eiriau ond â gwaed ;  
Dyma 'r 'sgrifena, &c.,  
Bery yn hwy nag pery 'r byd.

## HYMN DXVI.

**M**I feddyliais cawn i f' AR-  
GLWYDD  
Yn nghwmpeini mawrion byd ;  
Yn mhlith mawrddwyr, yn mhlith  
lladron  
Gwelais gynta' ei wyneb-pryd ;  
Ar y croesbren, &c.,  
Nid yn llys breninoedd byd.

- 2 Dacw lofrudd ar ei aswy,  
Dacw leidr ar ei dde',  
Draw fe'i hoeliwyd yn y canol,  
Frenin daear, Frenin ne' ;  
Mi apelia, &c.,  
At yr orsedd ar y groes.

- 3 Ni raid esgyn fry i'r nefoedd,  
Y mae 'r nefoedd ar y pren,  
Fe ddaeth mynydd hen Galfaria,  
'N awr er's dyddiau'n un â'r nen ;  
Daeth Moria, &c.,  
'N awr yn ysgol *sownd* i'r nef.

- 4 Dring, fy enaid, i'th orphwysfa,  
Y mae 'r nefoedd wrth dy glun,  
'R Hwn a greodd haul a lleuad  
'N awr a wisgodd natur dyn ;  
Edrych arno, &c.,  
Credw ydyw pen y daith.

## HYMN DXVII.

**W**EL, f' enaid, 'hed yn mlaen o  
hyd,  
Yn mhell, yn mhell o wâr y byd,  
I'r gwledydd sydd heb wae na  
phoen,  
Ond canu cariad addfwyn Oen.

- 2 Lle 'r eiste 'r seintiau yn gytun  
Tan eu gwinwydden ber eu hun ;  
A'r melus win yn ffrydio 'lawr,  
Yn lloni eu hysbryd bob yr awr.
- 3 Y manna o'u cylch, y manna o'u  
blaen,  
Mor wyndd a'r coriander mân ;  
A dw'r o'r graig i gael bob pryd,  
Fy Iesu ydyw y rhai'n i gyd.
- 4 O ! wleddoedd hyfryd eu mwynhad  
Mor hyfryd eilwaith eu parhad !  
Gwleddoedd na w'r y byd eu dawn  
Gaiff loni 'm henaidd foreu a nawn.

- 5 Ffowch holl bleserau 'r byd i maes,  
Rho'wch le i effeithiol, fywiol ras ;  
Mae 'r dydd yn d'od pan ca'i fwyn-  
hau  
Fy Anwyl, Anwyl i barhau.

## HYMN DXVIII.

**M**AE 'r ffordd yn awr yn rhydd,  
O'r ddaer i entrych ne',  
Er pan y daeth fy Nuw  
I ddyoddef yn fy lle ;  
Mae 'r nef ei hun o led y pen,  
Can's hi ddyoddefodd ar y pren.

- 2 Wel, bellach, ffown i maes,  
Edrychwn yn y blaen,

Mae golwg hyll yn ol,  
Sodoma sydd ar dân ;  
Yn mlaen, yn mlaen i'r creigydd  
byw,  
Y Soar fach lle mae fy Nuw.

- 3 Yn y mynyddau hyn  
Ca'i roi fy mhen i lawr,  
A gorphwys byth yn iach,  
Oddiwrth y 'storom fawr ;  
Ni all dw'r na than i gloddio'm sail,  
Er curo arna'i bob yn ail.

- 4 Daeth y llinynau i mi  
A rhan ddedwydda' o'r wlad,  
Lle 'r wy 'n cael weithiau wel'd  
Wynebpryd heddd fy Nhada ;  
Fe ddaeth y nef i mi yn nghyd  
A'i thylsau gwerthfawroca' i gyd.

## HYMN DXIX.

**B**OED bryn y groes, boed Cal-  
fari  
Yn uwch na'r bryniau mwya' eu bri,  
Am mai yma collwyd gwaed fy  
Nuw ;  
Ac yma rhedodd cariad pur  
Yn afon ddi-frycheulyd, glir,  
I'm golchi 'r ffiaidd, dua ei liw.

- 2 Na foed i'm feddwl ddydd na nos,  
Ond cariad perffaith gwaed y groes,  
Hwn alwa'i mwy yn orseddgras ;  
Ar Galfari mae maingc y ne',  
Yn agos at ei groesbren E,  
Oddi yno rhoddir heddd i maes.

- 3 Beth bellach wna'i â'r anial fyd,  
Sydd yn dymhestloedd trwyddo  
'gyd,  
Bwystfilod rheibus ynddo o'r  
bron ?  
Mae genyf fil hyfrytach lle,  
Mae 'm Iesu eisoes ynddo fe,  
Ond rhoi ffarwel i'r ddaear hon.

- 4 'D wy 'n ofni ond yr afon ddu  
Sy rhyngwy' a fy nghartre' fry—  
Yr angu glas wnaeth fyrdd yn  
wan ;

Fy enaid, 'mafael yno yn llaw  
Yr Hwn ei Hun aeth trwyddi  
draw,  
Ac yn ei law mi ddoed i'r lan.

## HYMN DXX.

**M**I wela' fyrdd yr ochr draw,  
O rai 'maflasant yn ei law,  
Yn canu heddyw yn beraiidd  
iawn ;  
Mae ofnau yn darfod yn y wlad,  
Lle mae fy Nuw, lle mae fy Nhada,  
Ac yn eu lle llawenydd llawn.

- 2 O hyfryd, ddedwydd, nefol le,  
Gwyn fyd bob rhai sydd ynddo fe,  
Y ddinas ddysglaer, nefol, glir ;  
Y man na fu, y man nad oes,  
Na phoen nac ing, na gwae na loes,  
Ond heddwch llawn a chariad pur.

- 3 A thyma 'r wlad y ffy pob gradd  
O'r ofnau mawrion sy am fy lladd,  
'Ddaw aeth nac arswyd yno ddim ;  
Y gelynyon sy yma yn y byd  
A rwyimir y pryd hyny yn nghyd,  
Er maint eu rhwysg, er maint eu  
grym.

- 4 'Ddaw anghrediniaeth cadarn, cry'  
Fyth, fyth o fewn i'r Ganaan fry,  
Na chariad chwerw cas y byd,  
A miloedd mwy cynddeiriog radd,  
Sydd yn yr anial bron fy lladd,  
Yn 'sgubau rwyimir yno 'nghyd.

## HYMN DXXI.

**N**ID o'r ddaear mae fy mhleser,  
Nid o'r ddaear mae fy ngrym ;  
Nid o'r ddaear mae 'm llawenydd,  
Tlawd wy' yma, fedda'i ddim :  
Draw 'r Iorddonen, &c.,  
Mae fy nghyfoeth, a fy ngwlad.

- 2 Nef yw meddiant yr angylion,  
Daear ydyw meddiant dyn ;

Ond fe ddarfu 'm ffydd i wneuthur  
Nef a daear fawr yn un ;  
'R wyf yn cleimio, &c.,  
Hawl i oll sydd gan fy Nuw.

3 Mae fy enaid yn ehedeg,  
Ac yn dringo fyny fry ;  
Mae fy esgryn yn ymdrwsio,  
I lechu yn y ddaear ddu :  
Mi ddo 'n gryno, &c.,  
Eto 'nghyd ryw ddydd a ddaw.

4 Cnawd yw 'm sylwedd, 'd yw ond  
salw,  
Hardd yw'r wisg sy arno 'n bod ;  
Hono wnaeth Tywysog bywyd,  
Pan yr hongiodd ar y coed,  
Fil o weithiau, &c.,  
Werthfawrocach na Pheru.

### HYMN DXXII.

PAN b'wy 'n profi pleser yma,  
Buan rhaid im' godi 'mhen ;  
Nid oes le i mi 'mddifyru  
Wrth un pleser is y nen ;  
Mi gaf ar fyrder, &c.,  
Yfed hedd heb ddiwedd mwy.

2 Mae 'mhleserau i 'n awr yn ddwbl,  
Yma beth, ac yno fwy ;  
Mae 'm cystuddiau aml eilwaith,  
Oll yn gonglog megys hwy ;  
Ond fe â heibio, &c.,  
Ryw bryd gwpan chwerw 'r groes.

3 Fe ddaw 'm gwâr i eto 'n union,  
Heddyw sy 'n ymgrymu 'lawr,  
Byd ac angy 'n cludo arnaf,  
'R un diwrnod feichiau mawr :  
Yn lle gruddfan, &c.,  
Mi gaf ganu maes o law.

4 Dere hyfryd foreu tawel,  
Dere hapus, ddedwydd ddydd,  
Pan bo 'r dorau pres i agor,  
A'r carcharorion fyn'd yn rhydd ;  
Rho arwyddion, &c.,  
I fod hyny yn agoshau.

### HYMN DXXIII.

MAE dydd at ddydd yn d'od i  
ben,  
A'm taith drafferthus is y nen,  
Fe ddirwyn amser at y nod ;  
Ac yna 'mhechod fe gaiff friw,  
A thyna 'r pryd congwera'm Duw  
Bob rhyw ffeidd-dra ynwy'  
erioed.

2 O ddedwydd nefol hyfryd awr  
Ca'i roddi 'meichiau trwm i lawr,  
Ag sy 'n fy mlino foreu a nawn ;  
A myn'd i wlad lle nad oes bai,  
Ond cariad perffaith i barhau,  
Llawenydd pur a heddwch llawn.

3 'R wy' bron a gorfoleddu 'n awr  
Wrth feddwl daw fy meiau 'lawr,  
A bod y dydd yn agoshau ;  
Dydd o orphwysfa berffaith yw  
I'r neb sy 'n blino ei guro 'n friw  
Gan nerth trachwantau a phob  
gwae.

4 Wel, dere hyfryd ddedwydd ddydd  
Rho fy nghadwynau tyn yn rhydd,  
Gad i mi brofi 'r hyfryd wledd ;  
Lladd anghrediniaeth sydd yn awr  
Yn curo f' enaid bach i lawr,  
Ac ymaith tyn holl ofnau'r bedd.

### HYMN DXXIV.

DAU ryw auaf maith a chwerw,  
Drefnodd f' ARGLWYDD i mi  
yn un,  
Tymhestil oer yn fy meddyliau,  
Ac oddi allan yn gyttun ;  
Dwy farwolaeth, &c.,  
Drefnodd gras i mi fyn'd trwy.

2 Eto fy nghystuddiau mawrion  
Sydd yn feddyginiaeth lym,  
Ac fe fedr gras i wneuthur  
Croesau hyll yn ganu im' ;  
Mwya' 'nghroesau, &c.,  
Mwya' rywbyrd fydd fy ngân.

3 'R wyf fi ar y cefnfor garw,  
'N mentro edrych drwodd draw,

Ac o gefn y don yn canfod  
Tir y bywyd pell, gerllaw ;  
Mewn addewid, &c.,  
'R wyf mor agos at y wlad.

4 Mae fy nghred wedi 'm afaelu,  
Yn y 'storom, am y tir,  
Y mae 'r cefnfor hyll mewn undeb  
Heddyw â'r Baradwys bur ;  
Dewch yn ÷on, &c.,  
Tir y bywyd, dacw fe.

### HYMN DXXV.

FEL y rhed llifogydd mawrion.  
Fel anadla 'r awel gref,  
Bydded telly fy ochneidiau  
I ddyrchafu tua 'r nef ;  
Gwn na's gellit atal rhagof,  
Gwn na's gellit roi nacad,  
O un fendith is y nefoedd  
Ag sydd i mi er iachad.

2 Mae tymhestloedd er daioni,  
Er eu bod yn gweithio braw,  
Magu dychryn cas ac ofnau,  
Ofni sy, ac ofni ddaw ;  
Galw beiau pell i'r golwg,  
Rhwympo pechod fyrdd yn nghyd,  
Cofio henaint, cofio iengctyd,  
Eto bendith y'nt i gyd.

3 Mae rhyw 'stormydd mewn nat-  
uriaeth,  
Ca's goreuon byd y rhai'n ;  
Cafodd seintiau a merthyrion,  
Cafodd IESU goron ddrain ;  
Mae cydwybod mewn ymderfysg,  
Mae ysbrydoedd fo mewn poen  
Wedi chwilio gylch o gwmpas,  
Yn lletya yn nghlwyfau 'r Oen.

4 Uffern yn fy enaid euog  
Sydd, er bod y fflam yn gry',  
Yn fy ngyru at borth y bywyd,  
Trwy 'r cymylau dua' sy ;  
Tân y pydew a'm dihunodd,  
Tawch y ffwrn gynddeiriog, gref,  
Wnaeth i'm henaidd yn y 'storom  
Ymafaelu 'n llyn â'r nef.

Q

5 Yno mae e'n awr yn curo,  
Yno mae e'n pledio 'n hy',  
Ag nis gosteg hyd nes caffo  
Ei dderbyn gan yr orsedd fry :  
Ac fel pura 'r 'stormydd mawrion  
Ddrygau yn yr awyr las,  
Felly holl gystuddiau 'm bywyd,  
Chwerwon, meithion bura'm gras.

### HYMN DXXVI.

BETH yw 'r achos bod fy AR-  
GLWYDD  
Hawddgar, grasol, yn pellau ?  
Neu yn guddiedig, neu yn gyhoedd  
Mae rhyw bechod yn parhau ;  
Tyr'd yn awr, tor i lawr  
Fy anwiredd fach a mawr.

2 Gallu f' ARGLWYDD sy'n fy ateb,  
Gallu ei hunan ydyw ef,  
Cariad nis gall ballu hefyd  
Pe bawn yn ceisio ganddo 'r nef ;  
Ond fy mai sy'n parhau,  
Hyny sy'n chwaneu 'm gwae.

3 Chwilia, f' enaid, gyrau 'th galon,  
Chwilia i llwybrau maith o'r bron,  
Chwilia bob rhyw 'stafell ddirgel  
Sydd o fewn i gonglau hon ;  
Myn i maes bob peth cas  
Sydd yn atal nefol ras.

4 'N awr 'r wy 'n gwel'd, y mae 'n  
ehedeg  
Mewn i'm calon, ac i maes,  
Fil o bethau sydd wrthwyneb  
I egwyddor dwyfol ras ;  
Uffern lid y'nt i gyd,  
Sydd yn erbyn f' enaid drud.

5 Dyma ryfgy yn ei allu,  
Dacw anghrediniaeth mawr,  
Bob yn ail yn curo f' enaid,  
Yn cytuno 'nghael i lawr ;  
Dal fi i'r lan, 'd wyf ond gwan,  
Mi gaf gongcwest yn y man.

6 'R wyf yn ffeindio mil o elynion  
Yn fy mynwes yn parhau,

Oll am lethu f' enaid euog,  
Bob yn un, a phob yn ddau;  
Nid oes dim, ond dy rym,  
All fod yn gynorthwy im'.

## HYMN DXXXVII.

**O** BOB trysorau tan y nef  
Y penaf yw ei heddwch Ef,  
Ei fath ni fedd yr India fawr;  
Yn unig hwn a'm ceidw 'n hy'  
Yn erbyn g'lynion mwya' cry',  
Nachafont byth mo 'mhen i lawr.

2 Heb onni dim mi deithia' 'mlaen  
Tros rosydd rhew, a bryniau tân,  
Tan gysgod cryf dy nefol hedd;  
Y gwyntoedd cynddeirioca' eu  
rhyw,  
A'r dymhestl gryfa' erioed yn fyw  
Ni'm hatal fyn'd i'th nefol wledd.

3 O gariad uwcha' fu erioed!  
Neu fry o wâr, neu is y rhod,  
Blaen-ffrwyth o'r gwleddoedd  
nefol, pur;  
Ni cheisia'i byth tra tan y nef  
Ond teimlo ei awel hyfryd ef,  
Digonir fi yn y nefol dir.

4 O dewch yn mlaen yn ddi-nacad,  
Mi glywa' sw'n caniadau 'r wlad,  
Peth o'r gorfoledd, peth o'r clod;  
Difyrwrch yn nghwmpeini Duw,  
Nad oes o tan y ser yn byw  
Adnabu am ei fath erioed.

## HYMN DXXXVIII.

**O** DYMA 'r ddyfais mwya' i  
maes,  
Y fwyfa' ei chariad, fwyfa' ei gras,  
Agorodd ffordd o'r ddae'r i'r nef;  
Cariad heb gymhar iddo 'r un  
A nofodd yn ei waed ei hun  
Trwy angu, oedd ei gariad Ef.

2 Fe gongcrodd trwy angeuol glwy',  
O elynion creulon, nerthol fwy  
Nag all'sai byd i gongcro yn un:  
Fe faeddodd uffern eang, lawn,  
Ar ben Calfaria un prydawn,  
Yn lân heb neb ond Ef ei Hun.

3 Doed bellach Indiaid pella 'r byd,  
Doed gogledd, dwyrain, de' yn  
nghyd,  
Canent ei iechydwrriaeth Ef;  
Dadseinied holl dafodau 'r byd,  
Ag euraidd d'lynau'r nef yn nghyd,  
Na pheidient tra fo nef y nef.

4 Boed oesoedd meithion fwy na  
mwy,  
Heb rif, heb ddarfod arnynt hwy,  
I ganu am dy ddirfawr boen;  
Na thawed tafod o un rhyw,  
Na dim o tan y nef sy'n byw,  
Ond son am gongcwest addfwyn  
Oen.

## HYMN DXXXIX.

**N**IS gall angylion nef y nef  
Fynegi faint ei gariad Ef,  
Mae angyu'r groes yn drech na'u  
dawn;  
Bydd canu uwch am Galfari  
Nag glywodd yr angylion fry,  
Pan ddelo Salem bur yn llawn.

2 Nis teimlodd neb ond Ef ei Hun  
Anfeidrol werth fy enaid cun,—  
Uwch da, uwch aur, uwch perlau  
drud;  
Ni thalai dim ond gwaed fy Nuw,  
Angeuol, farwol loes, a byw,  
A'm prynai o dragwyddol lid.

3 Y penaf drysor heddyw yw  
O fewn y nefoedd, gwaed fy Nuw,  
Holl sylwedd y caniadau 'gyd;  
A thyna 'r gwaed a roddodd iawn,  
I ddwyfol ddipter perffaith lawn,  
Fy hedd a'm cysur yn y byd.

4 Am iddo farw ar y bryn  
Ca's f' enaid bach ei brynu 'n llyn,  
A'i dynu o'i gadwynau 'n rhydd;

Wel bellach, tan ei haeddiant Ef,  
Fel cysgod cedrwydden gref,  
Gorphwysa 'i mwy yn ngwres y  
dydd.

## HYMN DXXX.

**P**AN godo 'r haul, pan 'nyno 'r  
gwres,  
A sw'n cystuddiau 'n d'od yn nes,  
Ac ofnau 'n tyfu gyda hwy:  
Ni saif fy enaid fynd ddim,  
Tan 'stormydd duon o'r fath rym,  
Nes llechu mewn tragwyddol  
glwy'.

2 Wel, dyma mwy yr unig le,  
Wel aros, f' enaid, ynddo fe,  
A bydd ddyddanus tra f'ech byw;  
'D yw'r 'storum fawr, a'r cwmwldu  
Yn hongian uwch fy nghoryn sy  
Mewn cymhar ddim i glwyfau'm  
Duw.

3 Pa'm ofna'i dew gymylau 'r nos?  
Ffo, f' enaid ofnus, at y groes,  
A gwel y croesbren oll yn waed!  
A dacw 'r man mae llawenhau  
Pan bo cystuddiau yn nesau,  
Y noddfa bwyntiwyd gan fy  
Nhad.

4 Bu gruddfan caled arno Ef,  
Nes crynu 'r ddae'r a duo 'r nef,  
Nes rhwygo 'r creigydd serth yn  
friw:  
Gruddfanodd Ef, dyoddefodd wae,  
Fel gallwn inau lawenhau,  
A hoffi fyth a charu 'm Duw.

## HYMN DXXXI.

**N**IS gall angylion pur y nef,  
A'u doniau aml hwy,  
I osod allan werthfawr bris,  
Anfeidrol ddwyfol glwy'.

2 Dyoddefodd angyu, dygn boen,  
A gofir tra fo 'r nef;  
Fy nerth, fy nghyfoeth, a fy mraint,  
A'm noddfa lawn yw Ef.

3 Fe 'm denodd i yn ddirgel iawn,  
A dystaw ar ei ol;  
Ac mewn afonydd dyfnion, llawn,  
Fe 'm cym'rodd yn ei gól.

4 Na foed fy mywyd bellach mwy  
Yn eiddo im' fy hun;  
Ond treulier fy mynyddau 'gyd  
Yn glod i'm HARGLWYDD cun.

5 A gad i'm brofi 'th nefol hedd  
Yn mhob anadliad pur;  
Ac felly myn'd o'r byd i'r bedd,  
Mewn hun nefolaidd wir.

6 Pe cawn bob mynydd dy fwynhau,  
Mwynhad o'th gariad bair  
I'm fod yn fodlon 'mado a'r byd  
Yn union wrth dy air.

## HYMN DXXXII.

**P**AN byddo f' ARGLWYDD i mi 'n  
rhoi  
Ond golwg arno ei Hun,  
Mae oll a weler tan yr haul  
Yn ddi-ddim wrth dy glun.

2 Mae ardderchawgrwydd, rhwysg,  
a grym  
Y ddae'r fawr i gyd,  
Wrth deimlo 'r gronyn lleia' o'th  
hedd,  
Oll yn diflanu 'nghyd.

3 A gwellt yw 'r bobl oll o'u bron,  
A gwywo mae eu dawn;  
Ac nid oes tegwch a barha,  
Ond yn fy IESU 'n llawn.

4 Mi rof fy ymddiried ynddo Ef,  
Mae 'n noddfa lawn i'r gwan;  
Ac er y curo sy arna'i 'lawr,  
Fe god fy mhen i'r lan.



## HYMN DXXXIII.

- N**I feddaf ar y ddaear fawr,  
Ni feddaf yn y ne',  
Neb aga bery yn anwyl im',  
Yn unig ond Efe.
- 2 Mae ynddo ei Hunan drysor mwy  
Nag fedd yr India lawn ;  
Fe brynodd i mi fwy na 'r byd  
Ar groesbren un prydawn.
- 3 Fe brynodd i mi euraidd wisg  
Trwy ddyoddef marwol glwy' ;  
A'i angeu Ef a guddia 'm gwarth  
I dragwyddoldeb mwy.
- 4 O na allwn rodio er ei glod,  
Ac iddo bellach fyw !  
A phob anadliad fyn'd i maes  
I ganmawl gras fy Nuw.
- 
- A**C er bod draw afonydd mawr,  
Holl ofnau angeu loes,  
Mi â trwyddynt, er eu grym a'u  
maint,  
Tan gysgod gwaed y groes.
- 2 Mi glywa' lais merthyron lu,  
A seintiau yn y blaen,  
'N awr wedi cyrhaedd pen y daith,  
Er gwaethaf dw'r a thân.
- 3 Fy enaid, diangc tua 'r lan,  
Nag ofna 'r drygau hyn :  
A chadw dy olwg yn y blaen  
Yn union at y bryn.
- 4 Mi 'drychaf ar y croesbren trwm  
Fu ar ei ysgwydd Ef ;  
A'r goron ddrain fu ar ei ben  
Pan brynodd i mi 'r nef.
- 5 Mae 'n eiriol heddyw o flaen y  
faingc,  
Yn cofio ei boen a'i waed ;  
Ac wedi gwneud tragwyddol hedd  
'N awr rhyngof fi a'm Tad.

## HYMN DXXXIV.

## HYMN DXXXV.

- F**Y meiau aml, mawr eu grym,  
Yw sail fy ofnau 'nghyd ;  
Ond gwel'd fy Nuw yn dyoddef loes  
A'u congrea hwynt i gyd.
- 2 Galluoedd uffern fawr o'u bron,  
A'u nerthoedd mwyaf croes,  
Sydd fyrdd o weithiau yn rhy wan  
I wrthsefyll dwyfol loes.
- 3 Dysgwyliaf wrth y ddedwydd awr,  
Mae 'r oriau yn d'od yn mlaen,  
Pan byddo angeu 'r groes i ladd  
Fy meiau fawr a mân.
- 4 Trech yw un gair o enau 'm Duw  
Na 'r pechod cryfa' erioed ;  
Pan dd'wedo 'r gair, fe gwmp fy  
mai  
Yn chwilfriw tan fy nbroed.
- 5 Am hyn arosaf wrth ei faingc—  
Mi ymgrymaf wrth ei draed ;  
Ac fyth ni phledia'i yno ddim,  
Ond iddo golli ei waed.

## HYMN DXXXVI.

- O**CYMER fy serchiadau'n glau,  
Fy IESU, bob yr un,  
A gwna hwy yn eisteddfod bur,  
Sancteiddiaf it' dy Hun.
- 2 A gwna bob meddwl, a phob chwant  
I dynu 'fyny fry :  
Na's gwthio holl derfysgau 'r byd  
Fi 'maes o'th gariad cu.
- 3 Gorchymyn i mi yno fyn'd,  
Yno mi âf yn hy' ;  
Heb flino ar un gair a ddel  
O'th enau sanctaidd, cu.
- 4 A doed deniadau 'r byd yn lli'  
O'r dwyrain faith a'r de' ;  
Ni thry fy serch i fyth yn ol,  
Er neb o ganol ne'.
- 5 'R wy 'n teimlo f' enaid yn marw-  
hau  
I'r cwbl ar y llawr ;

Mae holl feddianau 'r byd a'r nef  
Yn trigo 'n fy ARGWYDD mawr.

- 6 Ni wnaed yr enaid hyn erioed  
I garu llwch y llawr ;  
Ond i gael meddu braint a ro'wd  
I gadw i fy ARGWYDD mawr.

## HYMN DXXXVII.

**F**FOED, negeseuon gwag y dydd,  
Trafferthion o bob rhyw ;  
Ac na pharhaed o tan y nef  
Ond cariad pur fy Nuw.

- 2 Aed tegwch pryd a'i gariad 'ffwrdd,  
A'i swynion aed yn ddim ;  
Ni welaf heddyw is y nef  
Ond cariad IESU o rym.
- 3 Perch'nogodd Ef a'i ddwyfol ras  
Fy holl serchiadau 'n un ;  
Na chaed o fewn i'm hysbryd fod  
Neb ond fy IESU ei Hun.
- 4 IESU sy 'n fwy na 'r nef ei hun,  
Yn fwy na 'r ddaear laes ;  
A IESU yn unig fydd fy oll  
Fyth, fyth o hyn i maes.

- 5 Cyflawnder nerth, cyflawnder gras,  
Cyflawnder nef y nef,  
Uwch deall seraphim a saint,  
Sy 'n trigo ynddo Ef.

## HYMN DXXXVIII.

**I**B'LE 'r â i 'mofyn heddwch  
drud ?  
At bwy greadur yn y byd ?  
Pwy laesa 'mhoen ? pwy dyn fy  
maich ?  
Nid marwol, ddynol, gnawdol  
fraich ;  
Neb ond Tydi fu ar y pren,  
Yn dyodde' rhwng y ddae'r a'r nen ;  
Mil mwy na 'r byd yw dafnau 'th  
waed,  
I roi i'm hysbryd esmwythad.

2 Fe bwysa gwaed dy groes fy mai,  
Er c'yd o amser mae 'n parhau—  
Er cynddeirioced yw ei ryw,  
Ac er mor ddued yw ei liw ;  
Dow ydwyt Ti, mae mynydd awr  
O'th wasgu tan y groes i lawr,  
Yn fwy ei bris, ceir gwel'd ryw  
bryd,  
Na holl bechodau ffeiddia 'r byd.

3 O dere i ben, ddedwyddaf ddydd,  
A gâd i'm hysbryd fyn'd yn rhydd ;  
Rho brawf, rho brawf ar frys i mi  
O ddwyfol haeddian Calfari ;  
Fel gallwyf rodio 'n ddi-nacad,  
Tan awel hyfryd rhin y gwaed,  
A threulio 'm hamser ddydd a nos  
Mewn myfyr am dy angeu loes.

4 Ac na bo gras o fewn y ne'  
Na chaffwyf ran o hono fe ;  
A gwna na bo gen'i ddim blas  
Ond yn dy gariad a dy ras ;  
Fy lloches a fy noddfa glyd  
Fo wrth edrych ar dy wyneb-pryd ;  
A'm hamser elo heibio 'n llawn,  
Wrth ganu i'th enw foreu a nawn.

## HYMN DXXXIX.

**M**AEGofid yma yn cadw ei le,  
'D oes fan i ymguddio rhag-  
ddo fe ;  
Fe chwilia 'maes bob twll o'r bron  
Sydd yn fy nghal ddyrus hon ;  
Ac yno yn ddirgel gwna ei nyth,  
I'm blino i yn feunyddiol fyth ;  
Nid oes, fy IESU, ond dy ras  
All dafu 'ngofid oll i maes.

- 2 Pan ddel fy Nuw i ben â'i awr  
I roi cystuddiau i mhwyso i lawr,  
Rhaid i ergydion pur y ne'  
I gadw eu pryd a chadw eu lle ;  
Nis rho'wd i'm lladd, ond i gael  
byw,  
Mi âf inau trwyddynt yn fy Nuw ;  
Tros byth caiff genyf gân ddi-goll,  
Am iddo 'm dwyn i trwyddynt oll.
- 3 Mae 'n perthyn i mi bob rhyw bla,  
O'r pridd y des, i'r pridd yr â' ;

Ffe yr cystuddiau maith ryw bryd,  
Fy enaid llesg i maes o'r byd ;  
Ac mi gaf yn mhob chwerw loes  
I wel'd yr Hwn fu ar y groes :  
A chael cydymaith yn mhob man  
A ddeil fy ysbryd llesg i'r lan.

4 Fy enaid, tua 'r nefoedd 'hed,  
A thaen dy galon yno ar led,  
A doed cystuddiau 'mewn yn lli',  
Mi a'u tafla' i dy fynwes Di ;  
'D oes unrhyw ofid, unrhyw boen  
Na wasgodd ar yr addfwyn Oen,  
Ac yn ei ofid Ef a'i gri  
Mae holl esmwythder f' enaid i.

5 Mi wn mai 'm beiau duon, drud  
Yw 'r achos o'm cystuddiau 'gyd ;  
Symud fy mai, fe gwmp y ffon  
O'th sanctaidd law y fynyd hon ;  
'D oes yn dy galon ond lleshad,  
Maddeuant, hedda, a gwir iachad ;  
Cymer dy ffordd, ynot yr wyf  
Yn credu 'n awr, iacha fy nghlwyf.

—  
HYMN DXL.

**L**AWN o ofid, llawn o wae,  
A llawn o euogrywydd du,  
Byth y byddaf yn parhau  
Heb gael dy gwmni cu ;  
Golwg unwaith ar dy wedd  
A'm côd i'r lan o'r pydew mawr  
O fy Nuw, na oeda 'n hwy,  
Rho 'r olwg i mi 'n awr.

2 Gwel y truan, gwel y tlawd  
Yn gorwedd wrth dy draed ;  
O Samariad, bydd yn frawd,  
Adfera im' iachad ;  
Dyro olew yn fy mriw,  
A chôd fi ar dy anifail cun,  
Ac nis gall fyth, fyth fy nwyn  
Ond dy allu Di dy Hun.

3 'Mofyn am orphwysfa glyd,  
Heb gwrdd â 'stormydd mwy,  
Lloches nid oes yn y byd  
At hyn ond yn dy glwy' ;  
Tro fy ngolwg at y fan  
Y llaesa fy ofnau i oll a 'mraw,  
Fyth na ddychrynywyf wel'd  
Y boreu ddydd a ddaw.

4 IESU anwyl, dos o'm blaen,  
Mae ofnau o bob tu,  
Llid wel'd eiddil gwan yn myn'd  
O'r byd i'r nefoedd fry ;  
Bydd yn nerth, a bydd yn dŵr,  
Rhag pob rhyw drallod ddel i'm  
cwrdd,  
Yn nyfnderoedd tân a dw'r,  
N'ad y tân a'r dw'r i'm cwrdd.

—  
HYMN DXLI.

**P**WY all 'nabod faint fy mai ?  
Pwy rifa 'm hofnau 'gyd ?  
Fyth ni ddeil mo ddynol fraich  
Un radd o ddywyfol lid ;  
Brysia, fy Nuw, brysia yn glau,  
Neidia tros bob bryn, bob nant,  
Dim ond gwel'd dy wyneb llon  
A yr fy ofnau i bant.

2 Collais y Baradwys wiw,  
A'm nerth at oll sydd dda ;  
Llawn wyf heddyw, gwyr fy Nuw,  
O bob uffernol bla ;  
At y nef appelio 'r wyf,  
Can's yno mae fy ngyrm o'i fron,  
Ac ar fynydd Calfari  
Mae dechreu 'm taith i hon.

3 Dyrus daith, a mi sydd wan,  
A bryniau maith o'm blaen ;  
Mi frawychais lawer gwaith  
Rhag grym y filantau tân ;  
Mae 'r Iorrdonen heddyw yn fawr,  
Os gwir ddychymyg f' enaid  
gwan,—  
Dere, ARGLWYDD, iddi 'lawr,  
Ac yna dof i'r lan.

—  
HYMN DXLII.

**'R**WYT Ti 'n adnabod oll, fy  
Nuw,  
'Mai 'nghanol anial 'r wyf yn byw,  
Sydd lawn o ofid, llawn o wae ;  
Rhyw brofedigaeth fawr gerllaw,  
Yr ochr hyn, yr ochr draw,  
Yn peri 'm hofnau i barhau.

2 Mae Satan cyfrwys, llawn o lid,  
Yn chwareu'n ddewr o blaid y byd,  
A'm cnawd gwrthnysig yn gytun ;  
Pob un yn fyddlon yn ei ryw  
I lawn wrthsefyll gras fy Nuw,  
A chongro 'r nefoedd faith ei  
hun.

3 Am hyny daeth yr oriau i ben,  
Pan taro'n rhaid sy o blaid y nen,  
A chredu gyda dwyfol ras ;  
Galluog iawn yw geiriau 'r Nef,  
'D oes neb ddiddyma ei feddwl Ef,  
A'i air sydd siwr o gario 'r maes.

4 Am hyny, f' enaid, dos yn mlaen,  
'D oes ar dy ffordd na dw'r na than,  
Nac unrhyw rwystr nad â'i trwy ;  
Mae gwedd yr Hwn sydd o dy du  
Yn ddychryn i'r uffernol lu,  
Fe ddarfu am eu hofni mwy.

5 Wel, ARGLWYDD, arwain fi 'n dy  
law,  
A doed bryd del yr hyn a ddaw,  
'R wyt Ti dy Hun yn fwy na'r  
byd ;  
Yn fwy na 'r holl uffernol lu,  
A'r drygau yn fy nghanlyn sy,  
Pe byddent i gytuno 'nghyd.

—  
HYMN DXLIII.

**W**EL, f' enaid, dos yn mlaen,  
'Dyw 'r bryniau sydd gerllaw  
Un gronyn uwch, un gronyn mwy  
Na hwy a gwrddaist draw ;  
Dy anghrediniaeth gaeth,  
A'th ofnau maith eu rhi',  
Sy'n peri it' feddwl rhwystrau ddaw  
Yn fwy na rhwystrau fu.

2 'R un nerth sydd yn fy Nuw,  
A'r un yw geiriau 'r nef ;  
'R un gras a'r un fyddlondeb sy  
'N cartrefu ynddo Ef ;  
Fy ngwendid o bob math,  
A'm llygredigaeth cry',  
Ddiffoddant, er eu natur gas,  
Hyd fyth mo 'r gras sy fry.

3 Mi wela' fyrdd tan sêl  
Fu yn ofni fel fy hun,  
'N awr wedi dringo'r creigydd serth  
I gyd, trwy nerth yr Un ;  
Yn canu 'r ochr draw,  
Heb arnynt fraw na phoen,  
Ganiadau hyfryd Calfari,  
Dyoddefaint addfwyn Oen.

4 'D oes modd im' fyn'd yn mlaen,  
Heibio bob gelyn llym,  
On' fyddi Di yn niwl a than—  
Yn gledd a tharian im' ;  
A rhywgo 'r môr yn ddau,  
Palmantu 'r tywod mân,  
Ac yna ei gaudd ar fy ol,  
I rwystro Pharao yn mlaen.

5 Mi ddihanga' ar yr Aipht  
Fel yma wrth dy glun,  
Ac mi ro 'r clod, ac mi ro 'r mawl  
Yn gyfan it' dy Hun ;  
Yn nghyd â'r dyrfa faith  
O'r dyfroedd ddaeth i'r lan :  
Cawn seinio anthem bur yn nghyd  
Yn hyfryd yn y man.

—  
HYMN DXLIV.

**'R**WY 'n ofni 'm nerth yn ddim  
Pan elwy' i rym y don ;  
Mae terfysg yma cyn ei dd'od,  
A syndod tan fy mron ;  
Mae ofnau o bob rhyw,  
Oll fel y diluw 'nghyd  
Yn bygwth i fy nhorï 'lawr,  
Pan del eu hawr ryw bryd.

2 A minau sydd am ffoi,  
Neu ynte droi yn ol,  
Yn methu credu saif i'r lan  
Un truan gwan a ffol ;  
Ac eto 'r wyf o hyd  
Yn symud peth yn mlaen ;  
Nid fi yw 'r cyntaf eiddil ŵr  
Congcwerodd ddw'r a than.

3 'R wyf yn terfynu 'nghred,  
'N ol pwyso oll yn nghyd,  
Mai cyfnewidiol ydyw dyn,  
Ond Duw sydd un o hyd ;

Ar ei ffyddlondeb Ef,  
Sy 'n noddfa gref i'r gwan,  
Migreda' do'i 'mhengronyn bach  
O'r tonau 'n iach i'r lan.

- 4 Cyfiawnder marwol glwy',  
A haeddiant dwyfol loes—  
Y pris, y gwerth, yr aberth drud,  
A dalwyd ar y groes—  
A gliria 'meiau i yn llwyr,  
A'm golch i yn hyfryd lân,  
Ac, od oes dim o tan y nef,  
A'm nertha i fyn'd yn mlaen.

---  
HYMN DXLV.

WEL, deuoch tua 'r wlad,  
Y ffordd a gaed yn rhydd,  
Ar ol rhyw noswaith dywyll, gaeth  
'N awr gwawrio wnaeth y dydd;  
Oddi yma i Peru  
Mae efengyl Dŵw 'n rhoi bloedd,  
Drugaredd Dŵw ar g'oedd.

- Yn cyhoeddi i'r Negros dua eu lliw,  
2 Dyoddefaint pur y groes,  
Angeuol loes fy Nŵw,  
Sy fwy o fewn y ne' mewn co'  
Na 'm beiau o bob rhyw:  
'D yw pechod, er ei rif,  
Ei gongcwest cryf a'i rym,  
Yn abl sefyll fynyd awr  
I'm HARGLWYDD mawr i ddim.

- 3 Aed bellach bawb o'u bron  
Yn ÷on tua 'r nen,  
Mae 'n iechydwriaeth werthfawr,  
ddrud  
Yn awr i gyd ar ben;  
Mae Calfari a'i ddawn  
Yn rhyfedd lawn o faeth,  
Ar fyr cawn brofi gwleddoedd hael  
Nad oes i'w cael mo 'u bath.

- 4 Y manna pur ar g'oedd,  
Dyferion nefoedd fry,  
Sydd yn dyhidlo foreu a nawn  
Yn beraidd iawn i ni;  
Y diliau hyfryd hyn  
Gawn brofi yn y man,  
Afonydd gloew, felus win  
O nefol rin i'n rhan.

- 5 Fe nertha hyn ein traed  
Fyn'd tua gwlad ein Dŵw,  
Na bo 'r gelynyon i'n gwanhau,  
Na 'n llwfrhau tr'om byw;  
Ond morio yn ein hynt  
Gyda 'r deheu-wynt clir,  
A chyn gostyngo haul brydnawn  
Meddianu gawn y tir.

---  
HYMN DXLVI.

CLAF wyfa llesg, bron llwfrhau,  
Dy absenoldeb sydd fawr  
iawn;  
Dy fod Di cyhyd yn pellau  
Sy 'n peri im' ruddfan foreu a  
nawn;  
Rho wel'd dy wedd, fy ARGLWYDD  
cun,  
Neu cymer fi 'th breswylfa'th Hun.

- 2 Wedi it' ddyodde' marwol glwy',  
P'odd gelli atal nefol ras?  
A chuddio 'th gariad fwy na mwy,  
Rhag lllifo 'n genllif pur i maes;  
Rho wel'd, &c.
- 3 On'd troswyf fi, fy ARGLWYDD  
mawr,  
Daeth dafnau tros dy ruddiau  
pur?  
Ac er fy mwyn ce'st goron ddrain,  
Dwfn glwyf y bicell ddur;  
Rho wel'd, &c.

- 4 Dy gariad 'drychodd gyntaf 'lawr  
Pan ydoedd dyn yn lân ar goll,  
'D oedd help i'w gael mewn nef na  
llawr,  
Ond ynot dy Hunan oll yn oll;  
Rho wel'd, &c.

- 5 Dy drigfan yn y nef a gair,  
Ond Ti dde'st i gystuddiau heb ri',  
Gan ado 'r holl delynuau aur  
Er mwyn gwaredu f' enaid i;  
Rho wel'd, &c.

- 6 A fyddi mwy yn ddyeithr im' ?  
A all cariad dwyfol pur, di-drai  
Fy ngadael i elynion llym?  
Neu ynte newid, neu lesgau?  
Rho wel'd, &c.

## HYMN DXLVII.

OS oedi 'r wyt, beth wnaf a'r  
byd,  
'D oes dim ond tristwch, och, a  
gwae,  
O gw'r i'r llall gael ynddo 'gyd,  
A rhyw ofidiau sy 'n parhau;  
Nerth bellach rho rhag im' lesgau,  
Dy ras yw 'm sylfaen i barhau.

- 2 Rho'ist yn fy nghalon ruddfan cry',  
Nad oes a'i tyrn ef allan ddim;  
Pob plaser ts na 'r nefoedd fry  
Sydd heddyw wedi colli eu grym;  
Nerth bellach rho, &c.

- 3 Pellhewch, freuddwydion gwag i  
gyd,  
Nid breuddwyd ydyw marwol  
glwy';  
A phleser, neu ag elw 'r byd  
Byth na watwerwch o honwy'  
mwy;  
Nerth bellach rho, &c.

- 4 Galar a phechod, colled, poen,  
Yw oll a welwn yma yn un,  
Gorphwysfa nid oes yma i'w gael  
Mewn dim ond ynot Ti dy Hun;  
Nerth bellach rho, &c.

- 5 'D oes yma un cynhaua' i'w gael;  
Yn nhragwyddoldeb mae e' draw;  
Pan ddel y Sabboth perffaith, hael,  
Cawn adfedd ffrwythau maes o  
law;  
Nerth bellach rho, &c.

---  
HYMN DXLVIII.

MAE, mae  
Diwrnod hyfryd yn nesâu,  
Wna berffaith derfyn ar bob gwae,  
O'r bron i'r rhai sy'n wylonawr;  
Eu g'lynyon hyll, er maint eu rhi',  
A'u hofnau 'n llau a gwmp i'r  
llawr.

- 2 Fe fydd  
Myrddiynau ar y boreu ddydd  
O seintiau a merthyrion ffydd  
Yn canu 'n rhydd o fewn i'r nef,  
Wedi adgodi 'nawr mewn hedd,  
Yn synu wrth wedd ei wyneb Ef.

- 3 Fe bair  
I'r nef wahanu wrth ei air,  
Ac uffern fawr yn crynu cair  
O flaen yr Hwn fu ar y groes;  
Anfeidrol barch fydd yn y man,  
I'r Hwn fu tan angeuol loes.

- 4 Fe ffy  
Elfenau 'r ddaer a'r awyr fry,  
O flaen ein Iesu mawr y sy  
Yn pledio trosom yn y nef,  
Y gwaith gymerodd arno ei Hun  
Wrth brynu dyn a'i c'rona Ef.

- 5 Fath fri  
Pryd hyny gaiff fy Anwylyd cu,  
Pan na allo angel rifo 'r llu,  
O'r nef, o'r ddaer, ac o'r bedd;  
Fe dywylla 'r haul, fe ddau'r lloer,  
Fe sych y môr wrth wel'd ei  
wedd.

- 6 Fe gryn  
Gan ofn, bob annuwiol ddyn,  
Wrth edrych heddyw ar ei lun,  
A'i fyddin ddydsllaer, gadarn,  
gref;  
Fe ysa 'r pryf 'r annuwiol ryw  
Wrth wel'd mai Dŵw mawr  
ydoedd Ef.

- 7 Fe gân  
Myrddiynau blith draphlith o'i  
flaen,  
Cerubiad, saint, angylion glân,  
I gyd yn dân o gariad gwir,  
O'r awyr fry tua phorth y ne',  
Oll gydag E'n gwmpeini pur.

- 8 A rhai'n  
A wisgir oll â lliain main;  
A th'lynuau aur o beraidd sain  
A ganant anthem faith o glod  
I'r Hwn sydd yn teyrnasu mwy,  
Fe gafodd glwy', Fe oedd erioedd.

- 9 Eu cân  
Fydd am Galfaria fel o'r blaen,  
Ac oll yn gariad, oll yn dân;  
Yn gwel'd yn lân fod yn cwblhau  
Bob gair a ddaeth o'i enau Ef,  
A'u bod na 'r nef yn hwy 'n par-  
hau.

## 10 A dydd

Yw hwn na welir neb yn brudd  
O'r rhai a roddodd IESU 'n rhydd;  
Eu g'lynyon fydd wedi cael clwy',  
Holl uffern fawr a phechod cas,  
Gan ddwyfol ras, na chodant  
mwy.

## 11 Wel doed

Yr hyfryd foreu goreu erioed  
I'r sawl sy 'n dilyn ôl dy droed;  
Pob ofn ffoed, darfydded braw,  
Rho'th gariad im', addfwynaf Oen,  
Mi garaf son am ddydd a ddaw.

## HYMN DXLIX.

**T**I 'mi gwaredaist rhag fy meiau,  
Beiau oedd yn tynu 'mlaen,  
Ac fel 'stormydd yn addfedu  
F' enaid gwan i uffern dân;  
Fe 'm hachubwyd, &c.,  
Dim ond gallu 'r nef ei hun.

2 Draw mi wela 'r tân yn enyn—  
Draw mi wela 'r ffwrn a'r fflam,  
Ac yn rhodio yn ei hymyl  
Gwela'i rai o blant fy mam;  
IESU, IESU, &c.,  
Caua rhwng dy wŷn a'r tân.

3 Tyred, ARGLWYDD, dangos d' allu,  
Cofia 'th chwerw angeu loes;  
N'âd i'th ddefaid fyn'd yn 'sglyfaeth,  
Achub, achub cyn del nos;  
Ti gei 'r canu, &c.,  
Ti gei 'r cariad, Ti gei 'r clod.

4 Dangos i mi nas gall angeu,  
Dangos i mi nas gall dyn,  
Dangos i mi nas gall uffern  
Faith a phechod cas ei hun,  
Fyth i friwio, &c.,  
Cymal bacho amod hedd.

5 Ser y nen o'r bron a syrthiant,  
Haul a lleuad gyll eu lle,  
Cyn yr êl un sillaf heibio  
Fyth o eiriau pur y ne';  
Ar dy amod, &c.,  
Rad 'r wy'n bwrw 'gyd fy mhwys.

## HYMN DL.

**B**OED fy mywyd oll yn ddiolch  
Dim ond diolch yw fy lle;  
Ni wna gwaredigaeth ragor  
I greadur is y ne';  
Gallu 'r nefoedd, &c.,  
Oedd a'm daliodd i 'r lan.

2 Ar y dibyn bum yn chwareu;  
'Lawrpe aethai 'm henaid gwan  
Nid oedd bosibl i mi godi  
Fyth o'r dyfnder hwnw i'r lan;  
IESU, IESU, &c.,  
Ti sy'n trefnu oll dy Hun.

3 Rhaid oedd bod rhagluniaeth ddys-  
taw,  
Rhaid oedd bod rhyw arfaeth  
gref  
Yn fy rhwymo i heb im' wybod  
Wrth golofnau pur y nef;  
O ragluniaeth, &c.,  
Ti sy 'n trefnu 'r ddaear faith.

4 Rhyfedd, ARGLWYDD, yw'th ddoeth-  
ineb,  
Rhyfedd, ARGLWYDD, yw dy rym!  
Nid oes is y nef luosog  
Ag all dy wrth'nebu ddim;  
Try 'r greadigaeth, &c.,  
Ol a gwrthol wrth dy air.

5 Dy air sy'n gwneud y byw yn farw,  
Eilwaith gwneud y marw'n fyw;  
Dy air a greodd, ac sy'n cynal  
Y greadigaeth o bob rhyw;  
Ti dy Hunan, &c.,  
Ydyw bywyd maith y byd.

## HYMN DLI.

**G**WEL'D dy gariad anorch-  
fygol,  
Gwel'd dy chwerw angeu loes,  
Gwel'd dy ofal maith, diffino  
Ata'i 'n gyson yn fy oes,  
Sydd yn dofi, &c.,  
Grym fy nwydau cryfa' eu rhyw.

2 O na welwn ddydd yn gwawrio,  
Boreu hyfryd, tawel iawn,  
Haul yn codi heb un cwmwl,  
Felly 'n machlud y prydnawn;  
Un diwrnod, &c.,  
Goleu eglur boed fy oes.

3 Heb euogrydd dudew, tywyll,  
Na dim nwydau ffaidd, croes,  
Nac un pleser sy 'n cyfnewid  
Goleu ddydd yn dywyll nos:  
Ti a minau, &c.,  
Addfwyn IESU, fyth yn un.

4 Digon, digon fyddai hyny,  
Dim ond gwel'd dy wyneb-pryd;  
A chael fy ysbyrd llesg i ddringad  
Fry yn mhell uwch swm y byd;  
I ardaloedd, &c.,  
Nad oes teimlo beth yw poen.

5 Yno canu gawn yn wastad  
Yn nghwmpeini 'm HARGLWYDD  
cun,  
O fewn golwg, heb ddim amheu,  
I fy nefol wlad fy hun;  
Dere, bellach, &c.,  
Dere yn fuan, hyfryd haf.

6 Nid oes gen'i ond dysgwyl wrthyt,  
Gwynfyd a gai dy fwynhau;  
Ynot Ti y mae fy nhrysor,  
Trysor bythol i barhau;  
O n'âd i mi, &c.,  
Edrych fyth ond tua 'r ne'.

## HYMN DLII.

**M**I feddylia 'th fod Di yno,  
Pan na b'ech Ti yno ddim,  
Mae dy eiriau mor felused,  
Mae dy gariad o'r fath rym;  
Diliau mêl, oll dan sêl,  
Minau greda', doed a ddêl.

2 Mae dy air yn abl f' arwain  
Trwy'r anialwch mawr yn mlaen,  
Mae e'n golofn oleu, eglur,  
Weithiau o niwl, ac weithiau o  
dân;  
Mae 'n ddible ynddo fe,  
Fwy na 'r ddaear, fwy na 'r ne'.

3 'R wyf fi 'n meddwl am yr oriau  
Caffwyf fynyd o'th fwynhau,  
Ac mae adsain bell dy eiriau  
Yn peri i mi lawenhau;  
O'r fath wledd, 'draw i'r bedd,  
Fyth cael edrych ar dy wedd!

4 Dyna 'r pryd 'r wy 'n dechreu  
'mywyd,  
Pan y caffwyf wel'd yn glir,  
Im' gael prawf, ac y ca'i ragor  
O rawn-syplau 'r Ganaan bur;  
Dyma 'ngwledd, dyma fy hedd,  
Dyma 'm congwest ar y bedd.

5 O gad i mi 'n fuan, ARGLWYDD,  
Glywed geiriau dystaw 'r ne',  
Rhag im' redeg, heb im' wybod,  
Ar ryw law i maes o'm lle;  
Yn dy law, heb ddim braw,  
Cerdda'i 'n union yma a thraw.

## HYMN DLIII.

**M**AE fy Nuw yn fy ngheryddu,  
Ond fy ngharu y mae Ef;  
Ergyd ddoe, ac ergyd heddyw  
I fy nghofio i a y nef;  
Nid oes awr o boen a dolur,  
Nid oes mynyd fach nad yw  
Fel ffynonau 'n tarddu allan  
O dragwyddol hedd fy Nuw.

2 Rhaid cael rhywbeth i fy nghofio,  
Onide mi winga' o hyd;  
Mi goffeidia' ddelw yn union,  
Pleser cnawd, neu bleser byd;  
Rhaid fy ngoglais â chystuddiau,  
Onide mi gysgaf hân,  
Ac mi hepia' mewn esmwythder  
Pan fo angeu wrth fy nghlun.

3 Eto nid yw fy ergydion  
Ond ergydion ysgafn iawn;  
Ac awelon pur o gariad  
Sydd yn gymysg â hwy 'n llawn;  
Cariad, heddwch pur, a cherydd,  
A gydblethwyd mewn un we',  
Rhaff dair caingc yw sy'n fy nhynu  
'Maes o'r ddaear tua 'r ne'.

4 Mae fy nghroesau a'm cystuddiau  
Oll yn chwilio 'maes fy mai,  
Ac mewn cydsain i ddiwreiddio  
'R ddelw hyny sy 'n parhau ;  
Ymladd 'r wyf â'm gorthrymderau,  
Ond mae 'n debyg iawn mai gras,  
A phob cystudd bach o'i ochr  
Yn y diwedd garia 'r maes.

5 Mi gaf wel'd deg cymaint rhagor  
Mewn un cystudd bach ond un,  
Nag a ddysga'i mewn blynyddoedd  
'Maes o eiriau goreu dyn ;  
Mi ga' wel'd dichellion lawer,  
Mi ga' wel'd uffernol dân,  
Mewn llochesau yn fy nghalon,  
Na chydabum i o'r blaen.

6 Ar fy ngwely, mewn cystuddiau,  
Ce's i gynta' olwg lawn  
Ar holl swynion cnawd a natur  
Mewn goleuni rhyfedd iawn ;  
Yno gwelais y creadur,  
Faint ei ddichell, faint ei rym,  
Ac nad oedd ond gras y nefoedd  
Allai ei ddangos i mi ddim.

## HYMN DLIV.

**D**YDD yw hwn sy'n pasio heibio,  
Dydd o alar, dydd o wae,  
'N ol eu gilydd o flinderau,  
Fel y tonau sy 'n parhau ;  
IESU cun, nef ei hun,  
Yw fy nghysur oll yn un.

2 Draw mae 'r gwynt yn chwythu 'n  
arw,  
Ac y mae ei swm ef bron  
A chenedlu mil o ofnau  
Yn ddirgelaidd tan fy mron ;  
O fy Nŵw! yn fuan clyw  
Brudd och'neidiau calon friw.

3 Agor ddrws, 'r wyf bron llewygu,  
O'm cystuddiau 'fyn'd i maes ;  
Nid yw 'm cadwyn, er mor gryfed,  
Ddim at etholedig ras ;  
Dy unig air i mi bair,  
Dl'ol i maes o'r berw bair.

4 Mi ddof allan, ond fy nhrefod,  
Fel yr aur o ganol tân,  
'N ol y saif y sgum a'r sorod,  
Dyma 'r dydd ca'i fyn'd yn lân ;  
Dere 'n glau at fy mai,  
N'ad im' pechod i barhau.

5 Fel y gallwyf orfoleddu,  
Byw yn wastad yn dy hedd,  
Edrych angeu yn ei wyneb,  
Ymhfyrydu yn y bedd ;  
Congro 'n lân, myn'd yn mlaen,  
Mewn rhyw ddwyfol, nefol dân.

## HYMN DLV.

**R**HO i mi yfed, 'rwy'n sychedig  
Ddw'r y ffynon loew, lawn,  
Darddodd allan o dy ystlys  
Ar Galfaria un prydawn ;  
Gwaed fy Nŵw, unig yw,  
Ylch fy meiau dua' o ryw.

2 Mae fy anwireddau 'n gwaeddi  
Am ddialedd ac am lid—  
Am bentyrn barn ddychrynlyd  
Ar fy enaid bach yn nghyd ;  
Dadleu 'n awr, IESU mawr,  
N'ad y dial gwympo 'lawr.

3 Edrych arna'i mewn tangnefedd,  
Dy dangnefedd hyfryd mae  
Fel rhyw afon fawr lifeiriol,  
Yn llifeiriol fo 'n parhau ;  
Môr o hedd yw dy wedd,  
Sy 'n goleuo 'r byd a'r bedd.

4 Maddeu fel y cyfeiliornais,  
Weithiau i'r dwyrain, weithiau i'r  
de' ;  
Maddeu drachwant cas fy nghalon  
I ymado 'maes o dre' ;  
Dwg yn ol, fy ysbryd ffol,  
I dy dirion, dawel gól.

5 N'ad i'r bleiddiaid fy ngwasgaru,  
N'ad i'r arth fy nghael i lawr ;  
Palfau llew, a safn uffern  
Sydd yn eang ac yn fawr ;  
Fedda'i ddim, O bydd im'  
Yn achubydd ac yn rym.

## HYMN DLVI.

**M**EWN anialwch 'rwyf yn trigo,  
Alltud unig wrthyf fy hun ;  
Llewod rheibus oll oddeutu  
Am fy rhwygo i bob yr un ;  
Minau sydd yma 'n brudd  
Yn hiraethu am y dydd.

2 Mi wnes ryw long-ddrylliad creulon  
Pan y collais oleu 'r dydd,  
Creigydd celyd, hyll a d'rawodd  
Yn ddisymwth wrth fy ffydd ;  
De's i'r lan, 'd o'wn ond gwan,  
Am fod IESU ar fy rhan.

3 'N awr 'r wy 'n tramwy yma ac  
acw,  
Methu eto d'od i'r lan,  
Crwydro 'r anial dyrus, garw,  
I gael gorphwys mewn rhyw fan ;  
Nid oes le, is y nef,  
I mi ond ei fynwes Ef.

4 Dyma'r man y byddai'n ddedwydd  
Yma bydda'i wrth fy modd ;  
Yma ofna'i unrhyw elyn  
Nac yn ddirgel nac ar g'oedd ;  
IESU 'gyd, yn y byd,  
Yw fy amddiffynfa glyd.

5 Dere, ARGLWYDD, 'r wyf yn d'rysu,  
Ac mae arnaf ofn mawr,  
Ffynon wyf yn chwilio allan,  
Dangos i mi'r fan yn awr ;  
Ti yw 'r gwir fanna pur,  
Ti yw 'r ffynon loew, glir.

## HYMN DLVII.

**M**I ge's gongcwest heb ddymuno,  
Ar y pechod gwaetha' ei  
ryw,

Gelyn mwy nag i fy enaid  
Oedd ef i ogoniant Dŵw ;  
Enw f' ARGLWYDD, &c.,  
Gaffo 'r clod o oes i oes.

2 N'ad i'm beiau cas eu natur  
Byth i ddyfod yn eu hol ;

Na foed i mi gym'ryd pleser  
O un natur yn fy nghol ;  
Ti dy Hunan, &c.,  
Llanw le holl ddelwau 'r byd.

3 Boed fy nghalon i Ti 'n deml,  
Boed fy ysbryd i Ti 'n nyth,  
Ac o fewn y drigfan yma  
Aros, IESU, aros byth ;  
Gwledd wastadol, &c.,  
Fydd dy bresenoldeb im'.

4 Awr o dy gymdeithas felus,  
Awr o wel'd dy wyneb-pryd,  
Sy'n rhagori fil o weithiau  
Ar bleserau gwag y byd ;  
Mi ro 'r cwbl, &c.,  
Am gwmpeini pur fy Nuw.

5 Dadrus, dadrus fy nghadwynau,  
Gad i'm hysbryd fyn'd yn rhydd ;  
'R wyf fi 'n blino ar y t'wil'wch,  
Deued hyfryd oleu 'r dydd ;  
Yn y goleu, &c.,  
Mae fy enaid wrth ei fodd.

6 Gwawrddydd, gwawrddydd yw fy  
mywyd,  
Gwel'd y wawrddydd 'r wyf yn  
iach,  
Mi arosaf hyd nes delo,—  
Hi ddaw, hi ddaw 'mhen gronyn  
bach ;  
Dere, dere, &c.,  
I'm gael gwel'd fy ngwlad fy hun.

## HYMN DLVIII.

**M**AE fy meiau fel mynyddau,  
Amlach hefyd yw eu rhi'  
Nag yw gwllith y boreu wawrddydd,  
Nag yw ser y nefoedd fry ;  
Gwaed fy ARGLWYDD, &c.,  
Sydd yn abl golchi 'mai.

2 Golchi 'r ddu gydwybod aflan  
Llawer gwynach eira mân,  
Gwneud y brwnt gan'waith ddi-  
fwynodd  
Yn y domen, fel y gwlan ;  
Ni ellir mesur, &c.,  
Lled a dyfnder maith dy ras.

- 3 Mae ei gyrhaedd ef mor eang,  
Mae e' i gwmpasu 'r byd ;  
Fe ddaw 'r Indiaid tywyll, deillion  
Tan ei gysgod ef ryw bryd ;  
Yn ei frigau, &c.,  
Llecha 'r adar oll yn nghyd.
- 4 Dengmil llawnion o dalantau,  
Dengmil eilwaith faith, pe b'ai,  
Yn nghlorianau pur y nefoedd,  
Fy ynydrwydd i a'm bai ;  
Hyd yr hatling, &c.,  
Fe a'i talodd ar y groes.
- 5 Ei ruddfanau ar y groesbren  
Oedd yn pwysy beiau 'r byd,  
Poenu pechod oedd ofnadwy,  
Poenu f' ARGLWYDD oedd fwy  
drud ;  
'N awr mae cariad, &c.,  
Yn congwero dwyfol lid.

## HYMN DLIX.

- M**EWN rhyw anialwch 'r wyf yn  
byw,  
A'r llesgaf un erioed o'm rhyw,  
Peryglon mawrion yn mhob man ;  
Mae yma Anac yn ei rym,  
A thraw Golia gadarn, lym,  
I gyd am gongcro 'm hysbryd  
gwan.
- 2 Mae oddi fewn im' fwy na mwy  
O nwydau croes i'th farwol glwy',  
Pob nwyd yn gadarn ac yn gref,  
Yn curo 'n danbaidd bob yr awr  
Fy ysbryd egwan, llesg i lawr ;  
Fy unig noddfa yw y nef.
- 3 Dy fraich sydd gadarn iawn o rym,  
Ni all uffern i'w gwrth'nebu ddim,  
Mwy nerth dy air na dw'r na  
thân ;  
O dere i'r frwydr, mae 'n bryd-  
nawn,  
Mae saethau 'r fall yn llymion  
iawn ;  
O dal fi i'r lan, a dwg fi 'mlaen.

- 4 Danfon i mi 'r Dyddanydd pur,  
Y golofn dân mewn anial dir  
Sy 'n ledio 'r praidd o'r Aiphth  
i'r nef ;  
Yr Hwn â'i oleu perffaith sydd  
Yn gwneuthur nos yn ganol dydd,  
Fy holl ddyddanwch ydyw Ef.

## HYMN DLX.

- F**Y enaid llesg sy 'n llwfrhau  
Gan fy nhrachwantau sy'n par-  
hau,  
A'm beiau maith yn llaesu dim ;  
O! b'le mae effaith dwyfol waed,  
Y Balm o Gilead ry' iachad,  
A dyr y nwydau mwya' eu grym ?
- 2 O! b'le mae 'r manna perffaith  
gwir,  
A'r dyfroedd tawel, sanctaidd, pur ?  
Mae 'm syched, ARGLWYDD, yn  
parhau ;  
'R wy'n methu tynu dw'r yn awr,  
Fy anghrediniaeth sydd mor fawr ;  
Agor y graig, 'r wy' bron llesgau.
- 3 'Rwy' oll yn friw, 'rwy' oll yn wan,  
A neb ond Ti a'm deil i'r lan,  
Dy Hunan wyt yn fwy na 'r byd ;  
Yr olwg leia' ar dy wedd  
Sy 'n drech nag angu, trech na 'r  
bedd,  
Dy Hunan wy 'n ddimuno 'gyd.

- 4 Na phall fy nghais, mae yn bryd-  
nawn,  
A minau 'n llesg ac eiddil iawn,  
A'r afon fawr heb fyned trwy ;  
'R wy 'n ofni ei lled a'i dyfnder du,  
A'i thonau maith cynddeiriog sy  
Yn magu ynyw' ofnau mwy.
- 5 Pa pryd ca'i 'n lân i gario 'r maes  
Ar holl derfysgoedd angu glas,  
Heb mwy frawychu wrth ei  
wedd ?  
Dy gariad dyro o'r fath rym,  
Ag wnelo wyneb angu 'n ddim,  
Dy unig gariad gongcra ei gledd.

## HYMN DLXI.

- P**A'M, ARGLWYDD, yma, pa'm  
mae draw  
Rhyw elyn marwol ar bob llaw,  
Pleser a gofid bob yn ail,  
Yn tynu 'm llygad, tynu 'm bryd  
At ryw wrthdrysychau sy'n y byd,—  
Rhyw dwyll di-sylwedd a di-sail ?
- 2 Trwy dardh, trwy niwl mi wela 'r  
fan  
Ddymuna 'm henaidd gael i'w ran ;  
Ardaloedd gras, ardaloedd hedd,  
Y wlad mae cariad pur, di-drai,  
Fel afon yn ei dyfrhau,  
Tu hwnt i angu dn a'r bedd.
- 3 Myfi gaf yno 'n dawel fyw,  
Uwch brad gelynyon o bob rhyw—  
Uwch pob rhyw drafferth, pob  
rhyw wae ;  
Ca'i dreulio tragwyddoldeb mwy  
I ganu am ei ddwyfol glwy',  
Mewn anthem fythol i barhau.
- 4 Pwy a chwenychai fyw 'n y byd  
Sy 'n dwyll, sy'n drafferth trwyddo  
'gyd ?  
Mil mwy ei ofid nag ei flas ;  
Yn lladd o hyd heb fyth fywhau,  
A'i groesau trymion yn parhau ;  
O am drigfanau nefol ras !

## HYMN DLXII.

- C**YN tynir f' enaid gwan  
O'i loches gref i maes,  
Mae 'n rhaid dystyrio o'r bron  
Holl ddyfais dwyfol ras ;  
Anfeidrol fraich a gyll ei grym  
Cyn collo 'm henaidd egwan ddim.
- 2 Ffyddlondeb mawr y nef  
Sydd siwr o bara byth,  
'D oes dim a'i briwiau ef  
O'r ddae'r i uffern syth ;  
Mae ei arfaeth fawr a'i air yn un,  
A gwaed y groes oll yn gytun.
- 3 Tra cwmpo lluoedd n ef,  
A lluoedd daer fawr,  
A'r lluoedd is y ddae'r  
I'm hanwyl IESU 'lawr,  
Fe geidw ei blant o fewn ei gôl,  
Na chaffont fyth i syrthio 'n ol.
- 4 Cyfnewid y mae dyn,  
Troedig yw erioed,  
Ond digyfnawid Duw,  
Fel haul, neu ser y rhod ;  
Ac ar ei faith ffyddlondeb Ef  
Y try gogoniant nef y nef.
- 5 O fendith heb ddim trai,  
Cysuron heb ddim rhi',  
Sy 'n tarddu, IESU, 'maes  
Bob awr o honot Ti !  
Ni alla'i fyth ddimuno mwy  
Trysorau nag sydd yn ei glwy'.

## HYMN DLXIII.

- G**WEDDIO 'rwyf yn min y don,  
Ac ofnau filoedd tan fy mron ;  
Dynderoedd mawr sydd o fy mlaen,  
Na's treiddiais trwyddo erioed o'r  
blaen.
- 2 Ac cfni 'r wyf, can's 'd wyf ond  
gwan,  
Na's dof o'r anial hyn i'r lan ;  
'D oes dim ond gallu dwyfol ras  
A'm dwg o'm hofnau oll i maes.
- 3 'R wy 'n ofni 'm nerth pan delo 'r  
dydd,  
Fy ngallu mwya 'n wendid sydd ;  
'Rwy' trwyddwy 'n llesg, O dyma'r  
awr,  
Wel, dere 'n glau cyn cwmpwy'  
'lawr.
- 4 O cofia 'th angu ar y pren,  
A'r goron ddrain fu ar dy ben ;  
Ac mai tros weiniaid fel myfi  
Y collaist Ti dy waed yn lli'.
- 5 'D oes is yr haul, b'le benaf mae,  
Gymhwysach un i Ti iachau ;  
Pa ddyfna 'r clwyf, mwy fydd dy  
glod,  
A mi yw 'r dyfna' ei glwy' erioed.



6 'D wy' gymhwys, f' ARGLWYDD  
mawr, i ddim,  
Dy ras a'th allu yw fy ngrym;  
Crwydro yr wyf o'r ddaer i'r ne',  
I 'mofyn gwrthddrych yn dy le.

7 O tyred, IESU, cyn dêl nos,  
Marchog yn haeddiant gwaed dy  
groes,  
Neidia tros fryniau ffaidd, ffol,  
A chymer f' enaid yn dy gôl.

### HYMN DLXIV.

PAN elwy' 'maes yn erbyn llu,  
Boed ar fy ne' dy allu Di;  
Boed dy ddoethineb mawr, di-lyth,  
Drachefn ar fy aswy byth.

2 Fel gallwy 'n wrol fyn'd yn mlaen,  
Trwy ganol dw'r, trwy ganol tân;  
Ac edrych yn wynebau llu  
Yn êon yn dy allu Di.

3 'D oes is y nef a ddeil i'r lan,  
Ond Ti dy Hun, fy ysbryd gwan;  
Nerth yw dy air, mae 'n fwy ei rym  
Nag ellir ei wrth'nebu ddim.

4 Mi âf yn mlaen, er t'w'llled yw,  
Tua 'r wlad 'r wyf am fyn'd 'iddi  
fyw;  
Fe gôd y wawr, mae 'ddewid bur  
O wel'd fy nghartre' cyn bo hir.

5 'Rwy 'n ofni 'r bryniau uchel draw,  
A'r ffosydd sy ar fy neheu-law;  
Ac nid oes ond dy Ysbryd Glân  
A'm harwain trwyddynt oll yn  
mlaen.

### HYMN DLXV.

N'AD fi adeiladu 'n ysgafn  
Ar un sylfaen is y ne',  
Na chymeryd craig i orphwys  
Tu yma i angeu yn dy le;  
Ti, fy Nuw, tra f'wyf byw,  
Gaiff fod fy ngorphwysia wiw.

2 Dyma 'r maen sydd yn y gongl,  
Dyma 'r gareg werthfawr, bur  
Gloddiwyd allan yn y bryniau,  
Bryniau tragwyddoldeb dir;  
Nid oes le is y ne',  
I adeiladu ond efe.

3 Byth ni dderfydd canu am dano,  
Byth ni dderfydd am ei glod;  
Tra fo caru pery canu,  
Caru sydd heb ddechreu 'n bod;  
Nefoedd fry, 'n gyson sy,  
Oll yn canu i'm HARGLWYDD CU.

4 Minau 'r gwaela' o bechaduriaid,  
Yn y diwedd rof fy nhroed  
Ar y graig sydd yn y moroedd,  
Craig gadarna' fu erioed;  
Ceidw hon, rhag pob ton,  
Ofnau 'ffwrdd o tan fy mron.

5 Ni all hwnw sy 'n dy adnabod  
Lai na dilyn ôl dy droed;  
Ac ni chadd a welodd d' wyneb  
Wel'd cyffelyb iddo erioed;  
Tyr'd yn glau, IESU, mae  
F' enaid euog bron llesgau.

### HYMN DLXVI.

DACW 'r ffynon wedi ei hagog,  
A ddysgwyliwyd amryw oes,  
'N awr yn llifo fel y grisial  
'Maes o'i ystlys ar y groes;  
Dw'r a gwaed, ry iachad,  
I'r pechadur mwya' gaed.

2 Dacw 'r hoelion geirwon, llymion  
Wedi eu curo 'n awr i dref,  
Dacw 'r bicell yn trywanu  
I mew'n o tan ei ystlys Ef;  
Dacw boen, addfwyn Oen,  
Yn rhoi 'r nefoedd dewi son.

3 'N awr mi glywa 'r gair, Gorphen-  
wyd!  
Gorphen iechydwrriaeth wir!  
Ac mi' wela 'r gwaed yn hidlo  
Tros ei ruddiau sanctaidd, pur!  
Wele 'r nef, gadarn gref,  
'N awr yn t'w'llu wrth ei lef.

4 Dyma 'r creigydd serth yn rhwygo,  
Dyma 'r meirw 'n codi 'n fyw;  
Pwy greadur ag all ddyodde'  
Gruddfan chwerw f' ARGLWYDD  
Dduw?  
Ochain mae, fe ga'dd wae,  
Fel cawn inau fy rhyddhau.

5 Minau bellach a obeithiaf,  
Gobaith ag all estyn f' oes;  
Gobaith wedi ei sylfaenu  
Ar och'neidiau pur y groes;  
Dyma wlad caf iachad,  
A chaf gyflawn wir ryddhad.

### HYMN DLXVII.

MAE cyflawnder maith o haedd-  
iant  
Annherfynol yn dy waed;  
Sawl a'i teimlodd sy 'n rhyfeddu,  
Ac yn caru 'r ddyfais rad;  
Cariad drud, tros y byd,  
Ddaeth yn genllif coch i gyd.

2 Dwyfol waed, a dwyfol boenau,  
Haeddiant ydoedd hwn mor  
ddrud,  
Ag oedd dafan bach o hono  
'N abl ddiagon brynu byd,  
A phe b'ai faint ei fai  
Gannil drymach nag y mae.

3 Bod Creawdwr nef yn dyoddef,  
'Rodd anfeidrol werth a rhin,  
Yn mhob gwyn, yn mhob ochenaidd,  
O ddyoddefaint Mab y dyn;  
Nid yw llid euogrwydd byd  
Ddim i bwysio ei haeddiant drud.

4 Yma tardd cyflawnder allan,  
Fel rhyw ddiluw mawr, di-drai,  
Ac er golchi miloedd ynddo,  
Nid yw 'r dyfroedd ronyn llai:  
Gwaed fy Nuw, haeddiant yw,  
Trech na 'r beiau dua' eu lliw.

5 Yma rhedeg, fel yr afon,  
Rhyw gysuron perffaith, gwiw,  
R

Gyda 'r dw'r a'r gwaed rhedegog  
'Maes o ystlys bur fy Nuw,  
Ddeil i'r lan f' enaid gwan,  
Ac a'm nertha i yn mhob man.

### HYMN DLXVIII.

ER nad ydwyf ond anifail,  
Aflan iawn er pan ce's fyw;  
Eto mwy na 'm holl aflendid  
Yw cyflawnder maith fy Nuw;  
Yma mae ffrwd di-drai,  
Sydd yn golchi pob rhyw fai.

2 Pe b'ai dengmil lawn o ddynion  
A'u heuogrwydd oll yn un,  
Dengmil eilwaith faith o fydoedd,  
Ffaidd, euog yn gytun;  
Yma cawn, un prydawn,  
Aberth berffaith dâl yn iawn.

3 Pe b'ai 'm pechod fel y porphor,  
Ac yn pwysio 'r bryniau mawr;  
A'u rhifedi hwynt mor amled  
A rhifedi gwllith y wawr;  
Mae dy waed dwyfol, rhad,  
Yn abal maddeu rhai 'n yn rhad.

4 Yn y domen ce'st fi ganwaith,  
Yna eilwaith de'st i'm hol;  
Golchaist f' enaid o'i ffaidd-dra,  
Ac a'm cym'raist yn dy gôl;  
Neb ond Ti, ARGLWYDD CU,  
Yw fy amddiffynfa hy'.

### HYMN DLXIX.

O TYRED i lawr, fy ARGLWYDD,  
yn awr,  
Rho im' 'nabod dy enw, dy enw  
sydd fawr.

2 Mae ynot dy Hun well cyfoeth ei  
rin,  
Na ffeindiodd marsiandwyr yr  
India 'n gytun.

3 Plant dynion ni chas, un trysor i  
maes,  
O'r dwyrain i'r gogledd, cyffelyb  
i'th ras.

- 4 Is wybr ni bu fath fendith i mi,  
A'n IESU i farw ar Galfari fry.
- 5 Rhyfeddod y byd yw angeu mor  
ddrud,  
A gwreiddyn caniadau 'r ffyddlon-  
iaid i gyd.
- 6 Af bellach yn hy' tua 'r Ganaan sy  
fry,  
Mi wela 'r addewid yn gadarn  
o'm tu.
- 7 A geiriau fy Nuw sy 'n gadarn o  
ryw ;  
Fe dd'wedodd cawn gongcro 'ngel-  
nyion bob rhyw.
- 8 Er bod i mi lu o greulon rai cry',  
Mi safaf yn wrol, mae'm IESU o'm tu.

## HYMN DLXX.

- 'R WY' bron, 'r wy' bron a  
llwfrhau,  
Wrth wel'd grasau yn llesgau,  
A'm temtasynau yn parhau  
Yn danllyd yn y blaen ;  
O tyr'd, awelon sanctaidd dir,  
Tan adain dawel Ysbryd pur,  
Disgynwch arna'i cyn bo hir,  
Diffoddwch uffern dân.
- 2 Mae 'r ffwrnes fawr yn awr yn  
llawn,  
O las-ddydd boreu hyd brydnawn,  
O nwydau croes, cynddeiriog iawn,  
Amrywiol faith eu rhyw ;  
O tyr'd dy Hun i ganol tân,  
Gwna 'r aflan, ffaidd, cas yn lân,  
Gwna rhyngwy' heddyw ysgar  
glân  
A'm beiau, 'r wyt Ti 'n Dduw.
- 3 'R wy 'n blino eisieu gwel'd y wlad,  
Ro'w'd i mi 'mewn addewid rad,  
A phrofi cyflawn wir fwynhad,  
O sypiau 'r Ganaan wiw ;  
Awn tros fynyddau mawrion, maith,  
A'r brynau mwyaf ar fy nhaith,  
Heb fino dim, na gorphwys  
chwaith,  
Nes awn i dŷ fy Nuw.

- 4 Rhaid i mi gael rhyw faint o'r  
grawn  
Sy 'n werthfawr, ac yn felus iawn ;  
Yn tarddu o'r Winwydden lawn  
A wasgwyd ar y groes ;  
'D oes dim a ddeil fy ysbryd gwan  
I ddringo creigydd hyll i'r lan,  
Nes teimlwyf i mi brofi rhan  
O'r dwyfol, farwol loes.
- 5 Fel hyn mi â' 'mlaen tua 'r  
Ganaan fry,  
Rhwng maith dorfeydd o elynion  
hy',  
Heb ofni eu saethau o un tu,  
Ond canu am y wledd.  
'Mhen gronyn bach a ga'i fwynhau  
Ar fryniau o heddwch heb ddim  
traï,  
Llawenydd bythol i barhau,  
Dysgleidiau draw i'r bedd.

## HYMN DLXXI.

- MAE 'r graig mae f' enaid arni'n  
byw  
Yn well na'r perlaw goreu eu rhyw,  
Cyfawnder dwyfol, bythol, drud  
A bwysa ei hunan fwy na'r byd.
- 2 Ni fedd angylion, er eu bri,  
Na neb o'r holl seraphiaid fry,  
Na holl alluoedd maith y nef,  
Un haeddiant fel ei haeddiant Ef.
- 3 Os daw y gyfraith yn ei grym,  
A gofyn am berffeithrwydd im',  
'Does geny' ond dangos angeu loes,  
A gwaed yn llofo ar y groes.
- 4 'R wy 'n dlawd, gofyned deddf e  
hiawn,  
Ar ben Calfaria caiff hi e'n llawn ;  
Fy IESU'n feichiau llawn aeth im',  
Sy 'n abl talu hyd at ddim.
- 5 Fe etyb ei gyfawnder Ef  
Berffeithrwydd cyfraith Brenin nef ;  
Fe ddeil ei waed ar groesbren i'r  
Bob gofyn i sancteiddrwydd pur.

## HYMN DLXXXIII.

TRUENUS wyf, O ARGLWYDD  
cu,  
Yn mhlith gelynyion o bob tu ;  
Beunydd yn ymddifwyno 'n gas  
Gan feiau o mewn, a beiau o maes.

- 2 Rhyw nifer faith o elynion sydd  
Yn cwmpo arna'i yn y dydd ;  
Yn tynu euogrydd yn mhob man,  
Fy IESU wyt, bydd i mi 'n rhan.
- 3 Estyn dy anfeidrol fraich i maes,  
Datguddia nerth dy ddwyfol ras ;  
Dangos i mi, dangos i'r byd  
It' brynu f' enaid bach yn ddrud.
- 4 N'ad i'r tywyllwch gario 'r dydd,  
Tywyllwch ynwy' 'gyd y sydd ;  
Bydd im' dy Hun yn golofn dân,  
I'm ledio trwy'r holl dd'ryzni 'mlaen

5 'R wy 'n llwyr ymddiried yn dy ras  
I'm cadw 'mewn, i'm cadw 'maes ;  
A gwneud fy nyrus ffordd yn glir  
O'r dywyll Aiph't i'r Ganaan bur.

- 6 Rhaid i Ti dy Hunan gwmpo 'lawr  
Elynyion creulon nifer fawr ;  
A thori eu rhwydau dyrus, du,  
Neu cwmpo ar y ffordd wnaif fi.
- 7 'D oes neb a welwyd is y rhod  
Fu dlotach eiddil na mi erioed ;  
Rhaid i Ti roddi 'r cwbl im',  
Dyrodion Di yw'm nerth a 'ngrym.

8 Ar fyr rhaid sefyll o dy flaen,  
Fe brofir fy ysbryd gwan trwy dân ;  
Fe chwilir gwraidd pob nwyd a  
dawn,  
Fe nithir, pwysir fi yn llawn.

9 Dy Ysbryd, fel y fflamau pur,  
Sy 'n gwel'd fy nghalon trwyddi 'n  
glir ;  
Yn tremio 'mewn, yn canfod bai,  
'D oes arall neb wŷr fan y mae.

10 Am hyny, ARGLWYDD, rho dy waed  
I guddio 'meiau mawr yn rhad ;  
A golch fy mhechod oll yn wyn  
Mewn afon lifodd ar y bryn.

- 6 Pe delid f' enaid gwan yn nghyd,  
Gan ddwyfol burdeb, dwyfol lid,  
Mi rho' hwy i gwmpo yn eu grym  
Ar IESU, sydd yn Feichiau im'.

## HYMN DLXXXII.

FY haeddiant mawr yn nghanol  
ne',  
Yw IESU'n Feichiau yn fy lle ;  
A'i boenau Ef yn unig sydd  
Yn gwneud yr orsedd wen yn rhydd.

2 Tystiodd fy Nuw o ganol nef,—  
Ce's lawn fodlondeb ynddo Ef ;  
A bod ei saint, o fawr i fân,  
Yn haeddiant IESU oll yn lân.

3 Mae ynddo hefyd allu mawr  
I gael fy meiau mwya' 'lawr ;  
Ei holl ddoethineb Ef a'i ras  
O rwydau 'r ddraig a'm tyn i maes.

4 Ac er i bechod yn mhob man  
I wreiddio yn fy enaid gwan,  
A dyblu ei afael fwy na mwy,  
Fe 'i maedda rhinwedd marwol  
glwy'.

Er plethu o bechod cas yn nghyd  
A phob rhyw ewin i mi 'gyd,  
Fe'i dadrys ef ; rhy tan ei droed  
Y nwydau cryfa' fu ynwy' erioed.

6 Fe wastadha 'r mynyddau maith,  
Fe symud dramgwyddiadau 'r  
draith ;  
Fe wna 'm serchiadau gwyrngam,  
cas,  
Yn wastad bur i nefol ras.

7 Lleng o elynion cas eu rhyw,  
A nwydau croes, gwmp i fy Nuw,  
Fe leinw 'm calon cyn bo hir  
A ffrydiau gloew o gariad pur.

11 'Rwy 'n ofni grym fy meiau maith,  
'Rwy 'n aflan yn mhob cam o'm  
taith ;  
'Rwy 'n ddwl, 'rwy 'n ddall, mae  
arna'i fraw  
I glywed gwŷs i'r farn a ddaw.

12 O trugarha, can's heddyw mae  
Fy ngobaith oll mewn trugarhau ;  
Trugaredd lawn yn unig yw  
A geidw f' enaid bach yn fyw.

13 'D oes ond rhyw faith, anfeidrol  
ras,  
A'm dwg o'm holl bechodau 'maes ;  
Nid oes ond haeddiant Duw yn  
ddyn,  
Ry nefoedd bur i aflan un.

### HYMN DLXXIV.

**M**AE ein taith i'r nefol fyd,  
Trwy anialwch mawr ei hyd ;  
A bwystfilod ynddo 'n llawn,  
Oll i gyd yn greulon iawn ;  
IĒSU, nid oes ond dy ras  
Ddeil fy enaid trwyddo 'maes.

2 Dacw 'r llew sy 'n gwyllo o hyd  
Demtasiynau maith y byd ;  
Taenu ei rwydau yn mhob man,  
Cwmpo 'r cadarn, cwmpo 'r  
gwan ;  
IĒSU, dyro allu 'r nef,  
Gair o'th enau maedda ef.

3 Nid yw 'm pechod mawr ei rym,  
At dy anfeidrol allu ddim :  
Mwy dy bwer, mwy dy ras,  
Na chyfrwysdra uffern gas ;  
Ti gongcweiraist er dy glod  
Y gelyncry cryfa' erioed.

4 Draw bu 'r fuddugoliaeth lawn  
Ar Galfaria un prydawn ;  
Rhwyng y ddaear fawr a'r nef,  
Ildiodd Satan iddo Ef ;  
Gwerthfawr air ei gongcwest drud,  
Wel, gorphenwyd dwyfol lid.

5 Do, gorphenwyd dyodde' mwy,  
Poenu hoelion, marwol glwy ;  
Er trwy 'r llid, fe ddarfu 'ngwae,  
Prynais haeddiant i barhau ;  
Ffrwd i 'mhobl bur, di-lyth,  
Rhed cysuron o honi byth.

6 Dyma 'r dw'r, a thyma 'r gwaed,  
Sylfaen iechydwriaeth rad ;  
Dyma 'r lle mae 'r nef ei hun  
Yn ymfodloni yn y dyn ;  
Dyma fy hawl i a'm ple,  
I feddianu teyrnas ne'.

### HYMN DLXXV.

**D**ACW 'r ffynon ! heddyw caed  
Dwfr gloew, pur, a gwaed ;  
Dacw hi 'n tarddu ar y bryn,  
Ylch fy enaid bach yn wyn ;  
Dyma 'm nerth i fyn'd yn mlaen,  
Dyma sylfaen bur fy nghan.

2 Gair o'i enau sanctaidd Ef  
'N awr a'm dwg i ganol nef ;  
Yn ei eiriau mae 'r fath rin,  
Dodant nef a dae'r yn un ;  
Gwrando ei lais, a gwel'd ei wedd  
Yw fy mywyd tu yma i'r bedd.

3 Tegwch hardd ei wyneb-pryd  
Can' hawddgarach yw na'r byd ;  
Mae trysorau nefol ras  
O dy enau 'n d'od i maes ;  
Ac ar wedd dy wyneb-pryd  
Mae 'm hapusrwydd oll i gyd.

4 IĒSU, gorphwys yn dy glwy'  
Wna fy enaid bellach mwy ;  
Dyma 'm noddfa werthfawr, lawn,  
Fyth o foreu hyd brydnawn ;  
Dyma 'nghysur oll i gyd,  
Dyma 'm nerth i'r nefol fyd.

5 Yn dy allu âf yn mlaen,  
Congraf ddw'r, a chongraf dân,  
Er eu meithder, er eu grym,  
'Ni all ofnau i mi ddim ;  
Mae dy allu 'n fwy ei rin  
Na 'm rhesymau bob yr un.

### HYMN DLXXXVI.

**'R**WY 'n diffygio ar fy nhaith,  
Hir yw'r anial dir, a maith ;  
Drygau mawrion ar bob llaw  
Sydd o'r Aipht i'r Ganaan draw ;  
Llewyrch niwl, a llewyrch tân  
'N unig all fy nwyn yn mlaen.

2 Ti, dy Hunan, IĒSU mawr ;  
Yw fy noddfa ar y llawr,  
Ni ddaw fyth, ni fu erioed  
Dy gyffelyb is y rhod ;  
Dere 'n glau, 'd oes is y ne'  
Arall un a leinw 'th le.

3 Dyma y ffeiddiaf gaed  
'N awr yn gorwedd yn ei waed ;  
Nid oes neb all fy iachau,  
Congero 'm pechod, maddeu 'mai,  
Ond a roddodd gadarn lef  
Rhwyng y ddaear fawr a'r nef.

4 Fe fu 'n hongian ar y pren,  
Fe ddiffoddodd lid y nen,  
Fe ddyoddefodd hoelion dur  
Trwy ei gnawd ar groesbren tr ;  
Nid oes uwch y nef ond Ef  
Gliria 'm ffordd i ganol nef.

5 Ti wnai fyddo yn dy fryd,  
'D oes a'th rwystra yn y byd ;  
Cadarn, cadarn yw dy law,  
Gweithio yma, gweithio draw ;  
Dae'r fawr a nef yn un  
It' sy 'n cwmpo yn gytun.

6 Rhosyn Saron teca' ei ddawn,  
Seren foreu ddysglaer iawn,  
Sydd yn arwain hyfryd wawr,  
Trwy 'r anialwch dyrus, mawr,  
Yn goleuo 'r llwybr maith  
Tua 'r wlad o fêl a llaeth.

7 Tyr'd o 'mlaen trwy 'r dywyll nos,  
Dwg fi tros bob anial ffos ;  
Dal fi 'r lan, O 'nâd fi 'lawr,  
Serth yw 'r graig, mae 'r cwmpo  
yn fawr,  
'N ol fy nghlwyfo, 'd oes iachad,  
Ond yn unig yn dy waed.

8 O bydd im' yn nerth bob pryd,  
Yn holl gyfyngderau 'r byd ;

N'âd fy ysbryd syrthio 'lawr,  
Wrth wynebu angeu dewr ;  
Cadw yn dy fynwes gu  
F' enaid yn y frwydr ddu.

### HYMN DLXXXVII.

**D**YMA'r tlawd a'r llesga' erioed,  
Fethodd ddilyn ôl dy droed ;  
Llwybrau pur yw 'th lwybrau Di ;  
Oll yn sanctaidd, oll yn gu,  
Rhaid fy ngolchi 'n hyfryd wyn  
Cyn y teithiwy 'r llwybr hyn.

2 P'odd ger bron dy orsedd fawr  
Gallaf dd'od ? 'r wy 'n ofni 'r awr,  
Golch f' euogrydd yn dy waed,  
Bôdd bob bai, rho im' iachad,  
Yna deuf ger dy fron  
Heb ddychrynu gan y don.

3 Miloedd o feddyliau gau  
Yn fy nghalon sy 'n parhau ;  
Nes 'rwy 'n treulio 'm dyddiau 'gyd  
Yn gystuddiol yn y byd ;  
Neb ond anfeidroldeb yw  
Ddeil fy enaid gwan yn fyw.

4 Mae 'nghymalau fel i gyd  
Gan fy ofnau 'n curo 'nghyd ;  
Angeu, uffern fawr, a'r bedd ;  
Llid y Barnwr mawr, a'i wedd,  
Sydd yn gwneud i mi lwfrhau,  
Daeth dy amser i drugarhau.

5 Danfon i mi 'r olew gwir,  
Ysbryd y llawenydd pur ;  
Dangos dy fod im' yn Dduw,  
Gwella 'r esgryn wnest yn friw ;  
Prawf o'th heddd rho im' ar frys,  
Ffrwythau 'th waed, a ffrwythau 'th  
chwys.

6 Mae 'nghydwibod foreu a nawn  
Yn fy marnu 'n euog iawn ;  
Gwaeddi 'maes mae 'r ddeddf yn  
hy',  
Na faddeuwid i mi fry ;  
O cyhoedda 'r dawel hedd,  
IĒSU, 'r ochr yma i'r bedd.

7 D'wed, maddeuwyd i ti 'n lân  
D' anwireddau fawr a mân ;  
N'ád annghredu gael ei le  
Ar orseddfa Brenin ne' ;  
Tafll y prynwyr oll i maes,  
Pura heddyw deml gras.

## HYMN DLXXXVIII.

'D OES gyffelyb iddo Ef  
Ar y ddaear, yn y nef ;  
Trech ei allu, trech ei ras  
Na dyfnderau calon gas ;  
A'i ffyddlondeb sydd yn fwy  
Nag angeuol, ddwyfol glwy'.

2 Caned cenedlaethau 'r byd  
Am ei enw mawr yn nghyd ;  
Aed i gyrau pella 'r ne',  
India 'r dwyrain, India 'r de',  
Bloeddied moroedd gyda thir,  
Ddyfnder iechydwrtaeth bur.

3 Na foed un dyn is y rhod  
Heb ddadseinio 'maes ei glod !  
Na foed neb is awyr las  
Heb gael prawf o' th nefol ras ;  
Doed y ddaear fawr yn gron,  
Yfent ddw'r y ffynon hon.

4 Deffro, f' enaid, edrych draw,  
Gwel Galfaria fryn gerllaw,  
Dacw 'r hoel a'r bicell fain,  
Dacw 'r goron bigog ddrain  
'N awr yn gorwedd ar ei ben ;  
Cryned dae'r, a dued nen !

5 Wele f' ARGLWYDD sydd mewn  
poen,  
Ffrynd troseddwyd, addfwyn Oen ;  
Poen i angeu, poen at waed,  
Balm o Gilead ry iachad ;  
Ti, Physygyr, perffaith DDŪW,  
Geidw f' enaid bach yn fyw.

6 O dy glwyfau rhed i maes  
Afon ddwyfol, loew, las,  
Sydd yn achub, sy 'n iachau,  
Myrddiwn o'r aflanaf rai ;  
Ac yn rhoddi cyflawn hedd  
I rai tlota' erioed eu gwedd.

7 Na foed dafan fyth o'r gwaed  
Gollwyd ar Galfaria 'n rhad,  
Fyn'd yn ofer, mwy ei bris  
Na 'r ffurfafen faith, fe wys ;  
Dyma 'r trysor mwyaf drud,  
Gwell na'r nefoedd, gwell na'r byd.

## Y DRYDEDD RAN.

## HYMN DLXXXIX.

O ! HAEDDIANT y gwaed,  
Anfeidrol barhad !  
'D oes arall ddim osod  
Fy meiau tan draed.

2 Mi wela 'n ei glwy'  
Gyfiawnder sydd fwy  
Na meithder y moroedd,  
Er lleied y'nt hwy.

3 Mae 'meiau o'r fath liw,  
Mor ffaidd eu rhyw,  
'D oes dim all eu golchi  
Ond ffynon fy Nuw.

4 'R wy 'n cwympto wrth dy draed  
Yn 'mofyn iachad,  
A Balm o Galfaria,  
Defnydd o waed.

5 'D oes araf \* a gaed  
Ry 'meiau tan draed,  
O'r nefoedd i'r ddaear,  
Ond rhinwedd dy waed.

## HYMN DLXXX.

O ARDALOEDD nefol hyfryd,  
'Draw 'r Iorrdonen, tir y  
bywyd ;  
Gwlad lle mae fy ffryns yn gyson  
Wedi darfod a'u siwrneion ;  
Nid oes lludded, nid oes blino  
Ar y pererinion yno ;  
Nid oes poen gyda 'r Oen,  
Llafur na lludded ;  
Torodd angeu, elyn diried,  
Holl gadwynau eu caethiwed.

2 Sychwyd ymaith eu holl ddaerau,  
Darfu eu gruddfan a'u hoch'neidiau ;  
'Faidd euogrwydd poeth na gofid  
Ddim i mewn trwy borth y bywyd ;  
Ni ddaw 'r temtasiynau hyny  
Ddim i ymosod arnynt heddy',  
Clwyfodd hwy 'n llawer mwy  
Nag allasant draethu ;  
Nid oes yn y gwledydd hyny  
'Maes o'r llwybr ddim i ddenu.

3 Nid yw eu llygaid heddyw'n gweled  
Dim a'u harwain i gaethiwed ;  
Nid yw eu nwydau poeth yn  
cwrddyd  
Dim ag sydd yn enyn gofid ;  
Nid yw 'r serch yn cael eu 'nynu  
At un gwrthdrys na thâl garu ;  
Y mae 'r byd oll i gyd,  
A'i wag deganau,  
Wedi rhedeg o'u meddyliau,  
Wrth gael ergyd marwol angeu.

4 Nid rhaid ofni 'r cystudd chwerw,  
Croes ragluniaeth, mwy na marw ;  
Nid rhaid ofni 'r cryd na'r dwymyn  
Farwol, boeth, yn llys y Brenin ;

\* Arf, erfyn.

Y mae golwg ar ddysgleirdeb  
Duw yn mhalas tragwyddoldeb,  
Yn dwyn hedd, nefol wledd,  
Rhyw annghof hyfryd  
O bob poen, a gwae, a gofid  
Gawsant yma yn eu hywyd.

5 Rhan o'u pleser hyfryd heddy'  
Ydyw canmawl a rhyfeddu ;  
Torf gerubiaid yn llawn bywyd  
Sydd yn ledio 'r anthem hyfryd ;  
Hwythau yn taro 'mewn yn ÷on,  
Nôt am nôd, a'i gadw yn gyson,  
Nefol dân, saint sy a'r blaen,—  
Saint ga's eu prynu !  
Hwy yw 'r dyrfa ddaeth i fyny  
O'r caethiwed wedi maeddu !

## HYMN DLXXXI.

O ! NA roddai f' ARGLWYDD  
tirion  
Ronyn trai ar ddw'r yr afon ;  
Fel y gallai 'r gwan fyn'd trosodd  
Heb ei fodd y dyfroedd ;  
O'r Iorrdonen ! angeu chwerw !  
Dyna f' ofn, ofnwyf hwnw !  
Onide, 'n awr i'r ne',  
Brefwn am fyned ;  
Can's mi flinai o'm caethiwed,  
Tan elynion dewrion diried.

2 Mae fy nghnawd, ac mae fy nwydau  
Wedi 'mlino er ys dyddiau ;  
Maddeu mae fy mrodyr i mi  
Feiau mawrion, garn\* aneiri' ;  
Maddeu mwy rhyw fil o weithiau  
Im' fy hun nag allaf faddeu ;  
Deued gras, foreu glas,  
Nefol pur hyfryd,  
I fy ngwared o f' afechyd,  
A fy nwyn i dir y bywyd.

3 B'le dihangaf rhag gelynyon  
Sydd bob dydd yn 'nghuro i'n  
gyson ?  
Cael fy 'sigo gan eu danedd,  
Rhwng eu palfau 'rwyf yn gorwedd ;

\* Carn—pentwr, cruglwyth, carnedd.

Tan y pulpud gyda 'r werin,  
Yno yn cwmpo ar fy neulin,  
Y mae nhwy 'n bwyta 'nglwy',  
Bryfed heb orphwys ;  
Nid oes i mi drigfan gymhwys  
Ond y beddrod a Pharadwys.

4 'D yw fy ngwaith, nid yw fy noniau  
Ond rhyw sorod heb eu heisieu ;  
Bedd i'm puro oddiwrth fy mrynti,  
Yw 'r un 'berthyn oreu i mi ;  
Pridd i'r pridd, a lludw i'r lludw,  
'Madrodd hyfryd ydyw hwnw  
Iddynt hwy sydd dan glwy',  
Pechod yn gyson,  
Ac yn methu trwy bob moddion  
Glririo gwaelod eu harchollion.

5 O fy enaid, cerdd yn ÷on  
Tua brynau hyfryd Seion ;  
Fyth nis canlyn dy wendidau  
Di i'r lan i ben dy siwrnau ;  
Na ro' fyny, paid a gorphwys,  
Cadw dy olwg ar Baradwys ;  
Gras y ne' oedd efe  
A'th nerthodd yn hyfryd ;  
Fe berffeithir yn dy wendid,  
Ac fe 'th ddwg i dir y bywyd.

### HYMN DLXXXII.

**T**YRED, IESU, i'r anialwch,  
At bechardur gwael ei lun ;  
Ganwaith dd'trysodd mewn rhyw  
rwydau—  
Rhwydau weithiodd ef ei hun ;  
Llog fieri sydd o'm cwmpas,  
Rho fi sefyll ar fy nhraed,  
Moes dy law, ac arwain trosodd  
F' enaid gwan i dir ei wlad.

2 Manna nefol sy arnaf eisieu,  
Dw'r rhedegog, gloew, byw,  
Sydd yn tarddu o tan riniog  
Teml sanctaidd bur fy Nŵw ;  
Golchi 'r aflan, cânu 'r Ethiop,  
Gwneud yr euog brwnt yn lân,  
Ti gei 'r clod ryw fyrdd o' oesoedd,  
'N ol i'r ddaear fyn'd yn dân.

3 Fyth ni all'sai 'm dyledswyddau,  
Fyth ni all'sai ffrwyth y brw,  
Mil o nentydd maith o olew  
Foddio dim o honot Ti ;  
Dengmil hyfryd o fyheryn,  
Neu ynte 'r peraroglan mân,  
Nac un dim o tan y nefoedd  
Allai olchi 'r brwnt yn lân.

4 Ar dy allu 'r wy 'n ymddiried,  
Mi anturia, doed a ddel,  
Dreiddio trwy 'r afonydd dyfnion,  
Mae dy eiriau oll tan sêl ;  
Fyth ni fetha gredo ynot,  
Safodd un erioed yn ol ;  
Mi a 'mlaen, a doed a ddelo,  
Graig a thylau ar dy ol.

### HYMN DLXXXIII.

**M**AE dy lwybrau cul yn hyfryd,  
Mae dy gwmni 'n dawel  
fwyn ;  
Mae dy iau yn dirion esmwyth,  
Tra dy Hunan yn eu dwyn ;  
Mae dy feichiau yn rhyfedd ysgafn,  
Oll yn perthyn it' sy 'n hedd ;  
Fel y mêl gwnest groesau diried,  
Angeu haerllug dewr a'r bedd.

2 Dyma 'r llwybr a ddewisais,  
Eto 'r wyf heb 'difarhau ;  
Dysgwyl f' etifeddiaeth ydywf,  
Eto heb gael ei mwynhau ;  
Cyfoeth mawr heb fesur arno,  
Trysor mwy na'r moroedd maith,  
Wela'i draw yn nghadw i mi,  
Hir brydnawn ar ben fy nhaith.

3 Diangc wnes i maes o Sodom,  
Ar y gwastad 'r wyf yn byw ;  
Mae fy nghefn ar Gomorra,  
Fy wyneb tua gwlad fy Nŵw ;  
Fyny i'r brynau 'rwyf am ddiangc,  
'Maes o sawr y mwg a'r tân ;  
Rho dy law, Dywysog bywyd,  
Tyn fy enaid yn y blaen.

4 Ffarwel deiau, ffarwel diroedd,  
A'r eilunod pena' erioed ;

Mi 'ch tynggheda' 'ngwydd y nef-  
oedd  
Na ddilynoch ôl fy nhroed ;  
Myn'd 'r wy 'n llwm tua thir y  
bywyd,  
Ffon yn unig yn fy llaw,  
Mi â' mlaen tros yr Iorddonen,  
Mae 'nghyfeillion anwyl draw.

### HYMN DLXXXIV.

**'R**WYF fi 'n ymladd, 'r wyf fi 'n  
methu,  
Colli, ac yn cario 'r dydd ;  
Cwmpo, codi, cael f' archolli,  
Ac archolli rhai bob dydd ;  
Mae fy meiau 'n gwneud im' rudd-  
fan,  
Hyn fy ngyra'i am iachad,  
On' b'ai 'mai, ni welai f' enaid  
Bris tragwyddol dwyfol waed.

2 Arna'i ofn croesau trymion,  
Fyn'd i ymladd â fy mai ; ;  
Arna'i ofn o'r tu arall  
I fy mhechod i barhau ;  
Aed dy gariad âg e'n chwilfrw!—  
Golwg ar dy angeu loes,  
Gwel'd dy draed a'th ddwylo tirion  
Tan yr hoelion ar y groes !

3 Gwell yw d' Ysbryd pur ei Hunan  
Na dim croesau yn y byd,  
I ddatguddio ac i fwrddro,  
Gwraidd a changen o hono 'gyd ;  
'Lawr fe gwmp pan dd'wedo 'th  
Ysbryd  
Sancteiddiolaf, gymal gair,  
Ti dy Hun, trwy unrhyw foddion,  
I fy mhechod ildio bair.

4 O rho i mi nerth i adael  
Bai a chongwest it' dy Hun ;  
Ti bia 'r nef, a Thi bia uffern,  
Ti bia newid calon dyn ;  
Ti wnai 'r mynydd cribog, cadarn  
A dy air yn wastad 'lawr ;  
Wrth dy air fy holl eilunod  
Mewn mynydyn gwmp i lawr.

### HYMN DLXXXV.

**P**A'M 'rwy 'n 'mryson âg eilunod  
Sydd yn tori gwallt fy mhen ?  
Pa'm 'r wy 'n edrych ar un gwrth-  
ddrych  
Gwerthfawrocaf is y nen ?  
Twyll yw 'r cwbl wy 'n ei 'nabod,  
Twyll yw eu cariad, twyll yw eu  
llid ;  
Ac nid gwell yw 'm cariad inau  
Iddynt hwythau oll i gyd.

2 Gwrthddrych arall wy' am garu,  
Gwel'd ei degwch hyfryd wawr,—  
Peidied da, a pheidied dynion,  
Peidied cyfoeth daear fawr,  
Peidient sefyll yn ei gysgod,  
Ciliwch, ciliwch, rhoddwch le,  
Ni chaiff dim o dan yr wybren  
Rwystro f' enaid ato Fe !

3 Mi ddof at ei fwrdd yn ÷on,  
Mi ge's ganddo 'ngwa'dd, ei Hun ;  
Y mae yno basgedigion,  
Y mae yno loew win ;  
Y mae yno gwmni hyfryd,  
Gwisgoedd gwynion i bob rhai ;  
Nid oes un heb wisg briodas,  
Nid oes un yn berchen bai.

4 Mi gaf yfed yno gariad,  
Ffrwyth Gwinwydden nef y nef—  
Yr un cariad nefol hyfryd  
Ag oedd yn ei gwpan Ef ;  
Cariad wna fyrdd o fyrddiynau  
Mewn rhyw gwllwm cryf yn un,  
Ac â 'mlaen i dragwyddoldeb  
Yn ei Ysbryd Ef ei Hun.

### HYMN DLXXXVI.

**T**LAWD yw 'r cwbl wy 'n ei  
weled,  
Gwlad heb oleu, gwlad heb wres ;  
Gwlad heb degwch mewn creadur,  
Fel b'wy'n myned ato 'n nes ;  
Gwlad heb dad, heb frawd, heb  
gyfaill,  
Gwlad 'r wy' ynddi 'n blino byw,  
Mi â draw i'r gwledydd hyfryd  
At fy Anwyllyd hyfryd, gwiw.

- 2 Mae gelynion yma 'n llechu,  
Wn i bryd daw llew i maes,  
Ac y rhua fe arnai 'n greulon,  
Bygwth llarpio 'th ofnus was ;  
Eirth, llewpartiaid, seirph, gwi-  
berod,  
Yn cytuno 'm lladd i 'n un ;  
Nid oes dim a geidw f' enaid  
Ond dy allu Di dy Hun.
- 3 Weithiau arall fe ddaw gelyn,  
Ac a'm dena 'n ddirgel iawn,  
Mi heb wel'd mai gelyn ydoedd,  
Nes o'r ffordd fy nwyn i'n llawn ;  
Yno mi ga' mriwio yn chwilfrw  
Rhwng fy ngofid a fy chwant,  
IESU, tyr'd ac arwain f' enaid  
O'r anialwch yma i bant.
- 4 Gwna fi 'n oleu i wel'd y llwybr,  
Dal fi yn union ar fy nhraed ;  
N'ad un gelyn i fy nhwylo  
Fyth oddi yma i dŷ fy Nhad ;  
Rho gadwynau am fy natur,  
Rho ryw fystl ar fy mai,  
Ar fy ffordd yn union, union  
Gwna, tra bywyd, fi barhau.

## HYMN DLXXXVII.

**N**I welodd llygad dyn erioed,  
Ni chlywodd clust o tan y  
rhod,  
Am neb cyffelyb iddo Ef ;  
O Rosyn Saron hardd ei liw,  
Pwy dd'od i maes rinweddau 'm  
Duw ?  
Efe yw bywyd nef y nef.

- 2 Mae yn ei glwyfau drysor drud  
I faddeu beiau pena 'r byd,  
O flaen yr orsedd bura' sydd ;  
Ni all euogrywydd yno ddim,  
Fe gyll holl ddeddfau Seina'u grym,  
Maddeuant perffaith garia'r dydd.
- 3 Fe ddaw diwrnod, doed pan ddel,  
A'r llygaid yma 'u hunain gwel,  
Pan ymddangoso ei fawredd Ef ;  
Mewn rhwysg a harddwch, parch  
a bri,  
Yn mhlith cwmpeini aneirif ri'  
Fydd yn rhyfeddod nef y nef.

- 4 O f' enaid, edrych arno 'n awr,  
Yn llanw 'r nef, yn llanw 'r llawr,  
Yn holl ogoniant dw'r a thir ;  
Nid oes, ni fu erioed, ni ddaw,  
O'r dwyrain i'r gorllewin draw,  
Gyffelyb i'm Hanwylyd pur.
- 5 Mi garaf fy Anwylyd mwy  
'Ddyoddefodd troswy' farwol glwy' ;  
Agorodd ffynon loew, fyw,  
I olchi hen archollion wnaed  
Gan bechod cas o'm pen i'm traed,  
Y dyfroedd dardd tan groes fy  
Nuw.

## HYMN DLXXXVIII.

**W**EL, f' enaid, 'cerdd y ffordd  
yn hy',  
Yn union tua Seion fry,  
A chadw 'th lygad at y nod ;  
Calfaria fryn lle gweli 'r groes,  
A'r aberth arni tan ei loes,  
Rhyfeddod mwya 'r nef erioed.

- 2 Mae 'r bryn yn uchel, uchel iawn,  
A'r aberth drud yn eglur llawn,  
Fel gallo'r dwyrain bell a'r de',—  
Y dynion lle mae 'n dywyll nos,  
Er tywyllled, i edrych tua 'r groes,  
A gwelod ei drywanu E.
- 3 Fe all yr Indiaid pella' ga'd,  
I wel'd yr hoelion yn ei draed,  
A gwel'd ei ben yn crymu 'lawr ;  
Fe ylch y pelledigion hyn  
Yn gánaid fel yr eira gwyn,  
Oddiwrth eu beiau fach a mawr.

- 4 'D oes un afindid, unrhyw fai  
Nad yw ei haeddiant yn glanhau ;  
Pechodau dua' glywyd son,  
A foddir yn yr afon fawr,  
Mewn amryw liwiau ddaeth i lawr  
O ystlys addfwyn, nefol Oen.

## HYMN DLXXXIX.

**F**Y ngwrthgiliadau o bob rhyw,  
A'm beiau mwya', dua' eulliw ;  
Wyf, IESU, yn roddi i Ti yn un ;

'D oes neb all sefyll tros fath rai,  
Na neb anturia 'nghyfiawnhau,  
O flaen y nef, ond Ti dy Hun.

- 2 Pe gwypent hwy, 'r annuwiol fyd,  
Y ganfed ran o'm beiau i gyd,  
Hwy haerent nad oes dim iachad ;  
Ond o'u hardaloedd 'r wyf yn troi,  
A thua 'r nefoedd 'r wyf yn ffoi  
At haeddiant llawn y dwyfol  
waed.

- 3 Mae 'm bai mor fynych, ac mor  
gas,  
Na wela'i neb is awyr las  
Yn gwyro o'r llwybr fel fy hun ;  
'D oes gyflwr fyth b'wyf ynddo 'n  
byw,  
Na fedra'i ddiangc ar fy Nuw,  
I greigydd collwyd llawer un.

- 4 Yr ochor draw i'r anial hyn,  
Lle nad oes niwl, na ffos, na llyn,  
Ond haul yn codi yn foreu clir,  
'R wyf yn hiraethu bod fy lle  
Yn agos i gynteddau 'r ne',  
Ar sanctaidd nefol, hyfryd dir,

## HYMN DXC.

**Y** MAE 'r Aipht a'i th'w'llwch  
dudew  
Wedi 'mlino i 'n drwm erioed,  
Gwneud priddfeini heb ddim cyn-  
wydd,  
Gofid mwya' sydd yn bod ;  
Tir y bywyd, &c.,  
Bryd ca'i fwyta 'th ffrwythau pur.

- 2 Y mae syched ar fy nghalon  
Heddyw am gael gwir fwynhau  
Dyfroedd hyfryd ffynon Bethl'em—  
Dyfroedd gloew sy 'n parhau ;  
Pe cawn hyny, &c.,  
'Mlaen mi gerddwn ar fy nhaith.
- 3 Y mae gwres y dydd mor danbaidd,  
Grym fy nwydau fel y tân,

A gwrthddrychau gwag o'm cwmpas  
Am fy rhwystro i fyn'd yn mlaen ;  
Rho i mi gyssgod, &c.,  
Addfwyn IESU, ganol dydd.

- 4 Ti gongcweri natur gyndyn  
A brycheuyn o dy ras ;  
Trwy rhyw foddion lleia' fynost,  
Teffi fy mechodau i maes ;  
Dere yn fuan, &c.,  
Onide mi lwfrhaf.

## HYMN DXCI.

**G**WYN a gwridog yw f' Anwylyd,  
Mae'n rhagori oll i gyd  
Ar y cwbl eto grewyd  
Yn yr wybr faith, a'r byd ;  
Bodlon fyddaf, &c.,  
I mi ond ei gael E ei Hun.

- 2 Mi af trwy 'r cystuddiau trymaf,  
Mi af trwy 'r afonydd maith,  
Ac mi dreiddiaf trwy 'r anialwch  
Garw, hir, i ben fy nhaith ;  
Ond i'm HARGLWYDD, &c.,  
Gadw beunydd wrth fy nghlun.

- 3 Nid oes elyn is y nefoedd,  
Ac ddaw yno 'roi i mi glwy',  
Yn dy gwmmi, nid oes gallu  
Gan un gelyn cadarn mwy ;  
Ar dy deyrnas, &c.,  
Nid oes diwedd, nid oes trangc.

- 4 Dae'r a nef, ac uffern greulon,  
Sydd yn hollol tan dy law ;  
Dy ddoethineb sydd yn trefnu  
'R dwyrain, de', a'r gogledd draw ;  
Ti bia 'r cwbl, &c.,  
Cymer fy enaid it' dy Hun.

## HYMN DXC . II.

**N**'AD fod genyf ond dy ogoniant  
Pur, sancteiddiol yma a  
thraw—  
Union nod o flaen fy amrant,  
Pa beth bynag wnelo 'm llaw ;  
Treulio 'mywyd, &c.,  
Unig fywyd, i dy glod.



- 2 A phleserau o bob rhywiau  
Wedi darfod oll i gyd—  
Cnawd a natur wedi marw,  
A holl fwyniant gwag y byd;  
Iesu ei Hunan, &c.,  
Fo fy enaid iddo 'n fyw.
- 3 'Stwr a dwndwr y creadur,  
Ag sy fel y moroedd mawr,  
Terfysg parch, a therfysg cyfoeth,  
Sy yma ar y ddaear lawr,  
Elo i gerdded, &c.,  
O fy nghlustiau i 'n lân i maes.
- 4 O dystewch, gynddeiriog donau,  
Tra f'wy 'n gwrando llais y nef,  
Swn mwy hoff, a swn mwy nefol  
Glywir yn ei eiriau Ef;  
F' enaid, gwrando, &c.,  
Lais tangnefedd pur a hedd.

---

## HYMN DXCIII.

C HWI, ffynonau bywiol, hyfryd,  
Craig agorwyd ar y pren,  
I iachau archollion diried  
Dynion aflan is y nen,  
Dyma 'r euog, &c.,  
Sydd ag eisieu 'r dyfroedd byw.

- 2 Duw, nid oes ond Ti dy Hunan  
Ddaw â'm henaid llesg i'r lan,  
Sydd yn suddo mewn dyfnderoedd  
Dyfnion tywyll yn mhob man;  
Gwna fi gredu, &c.,  
Creda a cherdded 'r hyd y môr.
- 3 'R hyd y llwybr dwg fi 'n union,  
Rhag i'm wÿro ar un llaw;  
Mae tueddiad yn fy natur  
I ymgrwydro yma a thraw;  
Gair o'th enau, &c.,  
Wna i'm henaid gadw ei le.
- 4 Mae dy Ysbryd Di yn fywyd,  
Mae dy Ysbryd Di yn dân,  
Fe sy 'n dwyn yr holl fforddoliau  
Cywir, sanctaidd, pur yn mlaen;  
Cyfarwyddwr, &c.,  
Pererinion, arwain fi.

## HYMN DXCIV.

- W RTH dy orsedd 'r wyf yn  
gorwedd,  
Dysgwyl am y ddedwydd awr,  
Pan ca'i glywed llais gorfoledd,  
Pan ca'i wel'd fy meiau 'lawr;  
Ti gai enw, &c.,  
'R fuddugoliaeth it' dy Hun.
- 2 Doed dy heddwch bryd y delo,  
Mi ddysgwyliaf ddydd a nos,  
Annherfynol ydyw haeddiant—  
Haeddiant pur dy angu loes;  
Dere yn fuan, &c.,  
Mae dy hedd yn fwy na 'r byd.
- 3 Bywyd perffaith yw'th gymdeithas,  
Diliau mêl yw'th heddwch drud;  
Gwerthfawrocach yw dy gariad  
Na holl berlau 'r India 'gyd;  
Gwlad o gyfoeth, &c.,  
Yw yn unig dy fwynhau.

- 4 Bydded lawen rhai am enw,  
Rhai am elw mawr y byd,  
Rhai am bleser o bob rhywiau,  
Rhai am degwch wyneb-pryd;  
Fy ngorfoledd, &c.,  
Unig gaiff bod yn fy Nuw.

---

## HYMN DXCV.

- O SANCTEIDDIA f' enaid, AR-  
GLWYDD,  
Yn mhob nwyd, ac yn mhob  
dawn;  
Rho egwyddor bur y nefoedd  
Yn fy ysbryd llesg yn llawn;  
N'ad fi grwydro, &c.,  
Draw nac yma o fy lle.
- 2 Llwybr cul gwna yn llwybr es-  
mwyth,  
Tylau serth yn wastad iawn,  
Cyfyngderau chwith a chroesau,  
O ddyddanwch pur yn llawn;  
Edrych trwyddynt, &c.,  
I fynyddau tŷ fy Nhaid.
- 3 Ti dy Hunan all fy nghadw,  
Rhag i'm wÿro ar y dde',

Rhedeg eilwaith ar yr aswy,  
Methu cadw llwybrau 'r ne';  
O tosturia, &c.,  
Mewn anialwch 'r wyf yn byw.

- 4 Plana 'r egwyddorion hyn  
Yn fy enaid bob yr un,  
Ag sydd megys peraroglau  
Yn dy natur Di dy Hun;  
Blodau hyfryd, &c.,  
Fo 'n dysgleirio dae'r a nef.
- 5 Fel na chaiff o'r pechod atgas,  
Mwg na tharth o'r pydew mawr,  
I fy nallu ar y llwybr,  
Na fy nhaflu fyth i lawr;  
Gwna im' gerdded, &c.,  
Union ffordd, wrth oleu dydd.

---

## HYMN DXCVI.

G WLAD ddyeithr oddi cartref,  
Ardal bell o dŷ fy Nuw,  
Yn mhlith lluoedd o elynion  
Chwerw, atgas, 'r wyf yn byw;  
Pawb yn ceisio, &c.,  
Cael fy nghoryn tan eu traed.

- 2 Minau weithiau 'n digaloni,  
Minau weithiau 'n ymgyrfhau,  
Weithiau yn ofni croesau trymion,  
Weithiau yn ofni grym fy mai;  
Bydd dy Hunan, &c.,  
I mi 'n Amddiffynwr mawr.
- 3 N'ad y lleuod fyth i'm llarpio,  
N'ad y seirph 'roi i mi frath;  
N'ad y saethydd sydd yn gwylio  
Fyth i'm cwrddydd i â'i saith;  
Er eu hamcan, &c.,  
Dal fy enaid rhag cael clwyf.
- 4 Mil o werin chwarddai 'n loew  
Wel'd y boreu b'wyf i lawr;  
Gorfoleddent pe troi 'r frwydr  
Gadarn gydag uffern fawr;  
Dal fy mreichiau, &c.,  
Trymion heddyw yn ngwres y dydd.

- 5 Cadw ysbryd gweddi i fyny,  
Ynte Amalec bia 'r dydd;

Rhosydd Moab diffaith ydynt,  
Minau bron llewygu sydd;  
Estyn gleddyf, &c.,  
Dywysog cadarn, heddyw 'maes.

- 6 Safed haul uwchben Gibeon,  
Safed lleuad yn y ne';  
Safed ser a'r holl blanedau  
Yn llonydd heddyw yn eu lle,  
Cyn y collo, &c.,  
F' enaid gwan baradwys well.

---

## HYMN DXCVII.

M AE gelynion i mi yn chwerw,  
Cedryn y'nt a mawr eu grym,  
Ond y rhai wy 'n ofni fwyaf,  
I Ti, f' ARGWYDD, 'd ynt hwy  
ddim;  
Gair o'th enau, &c.,  
Gwypma fyrdd mewn mynyd awr.

- 2 Moab ffy wrth rym dy gleddyf,  
Midian gwypm pan d'wedost air,  
Swn dy daran ddychrynadwy,  
I Philistiaid ildio bair;  
Ti dy Hunan, &c.,  
Yn mhob brwydr bia 'r dydd.
- 3 Ffordd y mynost y congwerir,  
Man y mynost bydd iachad,  
Sawl a fynost gaiff ei elynion  
Yn fyrddiynau tan ei draed;  
Minau ddeuaf, &c.,  
Wrth dy orsedd i gael grym.
- 4 Pan caiff hwnw unwaith brynaist  
Ar Galfaria yn ngwydd y ne',  
Lechu 'mewn rhyw bydew tywyll,  
Dwfn obry 'maes o'i le?  
Pen y bryniau, &c.,  
Mae fy llygaid i yn fwynhau.
- 5 Draed lluddedig, dewch i fyny,  
Ymestynwch ddwylo 'mlaen,  
Draw mae'r wobr, draw mae'r goron,  
Draw mae 'Mhriod hawddgar,  
glân;  
Ffarwel bellach, &c.,  
'Chofia' ddim ond pan fy'n haith.

## HYMN DXCVIII.

WRTH fy nghuro gan y gwynt-  
oedd,  
Wrth my maeddu gan y don,  
Wrth fy nryllio yn erbyn creigydd,  
Blinais ar y ddaear hon ;  
O am ddyddiau, &c.,  
Pan ddarfyddo pechu yn lân.

2 Yn y boreu 'r wyf yn meddwl  
Cadwa'i 'r llwybr hyd brydnawn,  
Eto gŵyro 'n ddiarwybod  
'R wyf oddiarno 'n fuan iawn ;  
Camsyniadau, &c.,  
Fwyaf sydd yn llanw f' oes.

3 Mae fy nghwymp yn peri 'nghodiad,  
Mae gorthrymder uffern fawr  
Oll yn peri im' 'mofyn pleser  
Uwch a deimlwyd ar y llawr ;  
O hyfrydwch, &c.,  
Paradwysaidd nefol dir.

4 Brysiwch, oriau, dewch i fyfny,  
Pan y caffwyf weled haf,  
A rhyw flodau 'n tarddu allan—  
Pob grasusau dwyfol, braf ;  
Pob aderyn, &c.,  
Yn ymbyncio gyda 'r dydd.

5 O ddedwyddwch annglydmarol,—  
Dysgwyl ydwyf foreu a nawn,  
I gael profi 'm calon ffaidd  
O rasusau 'r nef yn llawn ;  
Tyred, ARGLWYDD, &c.,  
Mae dy gwmni yn well na 'r gwin.

## HYMN DXCIX.

ANWELEDIG, 'r wy 'n dy garu,  
Rhyfedd ydyw nerth dy ras,  
Dynu f' enaid i mor hyfryd  
O'i bleserau pena' 'maes ;  
Ti wnest fwy mewn un mynydyn  
Nag a wnaethai 'r byd o'i fron—  
Enill it' eisteddfod dawel  
Yn y galon gareg hon.

2 'Chlywodd clust, ni welodd llygad,  
Ac ni ddaeth i galon dyn,

I ddychymyg nag i ddeall  
Natur dy hanfod Di dy Hun ;  
Eto yr ydwyf yn dy garu,  
Tu hwnt i welais is y rhod,  
A thu hwnt fy nghlust a glywodd,  
Neu a welais eto erioed.

3 Uwchder nefoedd yw dy drigfan,  
Llawer uwch na meddwl dyn,  
Minau mewn iselder daear,  
Bechadurus, waelaf un ;  
Eto agosach wyt i'm henaidd,  
A'th gyfeillach bur yn fwy,  
A chan' gwell pan byddost bellaf,  
Na'u cyfeillach benaf hwy.

4 Clustiau cnawd ni allant glywed  
Fythol, dy leferydd pur,  
Eto 'nabod 'r wyf dy feddwl,  
A d' amcanion sanctaidd, gwir ;  
'N awr 'r wy' yn ymddiried ynot,  
Ac yn pwyso ar dy ras,  
Lawer mwy nag ymddiriedaf  
Yn y cyfaill goreu 'maes.

5 Glynu wrthyt mae fy nghalon  
Fel ei noddfa gadarn, glyd ;  
Ac 'r wy 'n ffeindio ynot ffynon  
O gysuron dirgel, drud ;  
Dyma 'r dyfroedd a'm dyddana,  
Dyma 'r dyfroedd hyfryd flas  
A wna i mi 'n ddiiddig, ddiiddig  
Dreulio 'm dyddiau oll i maes.

6 'R wyf fi 'n dyfod at dy orsedd  
O ryw hyder cryf yn llawn,  
Ac yn edrych ar dy hanfod,  
Fy hapusrwydd foreu a nawn :  
Ac mae 'r olwg hyny yn creu  
Yn fy ysbryd rhyw gryfhau,  
Gan roi clwyf ar fy mehodau  
Yn dy wyddfod, sy 'n gwanhau.

7 Llawen wyf fi fod dy Hanfod  
Fawr yn ddedwydd ynddo ei hun,  
Ac na raid i Ti ymddiried  
Mewn creadur unrhyw lun ;  
O teyrnasa fel y mynost, †  
Doed dy amcan mawr i ben,  
Swried pawb, mewn nef a daear,  
Haleluia fyth, Amen.

8 Minau, bryfyn gwael o'r ddaear,  
Rof fy llais yn mhlith y llu,

Saint, cerubiaid, ac angylion,  
A'r seraphiaid bywiog fry ;  
O na chawn ni ymgymysgu  
A ser y boreu mewn un dôn,  
Rho'wn fy llais i mewn i'r anthem,  
Am ddyoddefaint addfwyn Oen.

## HYMN DC.

'RWY'n dy garu, addfwyn Iesu,  
Uwch pob geiriau i dd'od i  
maes

Yw dy gariad, yw dy heddwch,  
Yw d' anfeidrol, ddwyfol ras ;  
Yn nhafodiaith nefoedd oleu  
Caf fi draethu yn mhlith y llu,  
Gyda blas na ellir ddeall,  
Hen ddirgelion nefoedd fry.

2 Yna caf fi ddechreu hanes,  
Hanes o lawenydd pur,  
Fyth na chlywir diwedd arno  
Yn y Paradwysaidd dir ;  
Bob mynydyn bydd yn dechreu  
Swnio 'maes heb dewi a son,  
Ddoniau maith anfeidrol hyfryd  
Croeshoeliedig, addfwyn Oen.

3 Bydd dy degwch fyth yn newydd,  
Fyth o newydd enyn dân,  
Tros holl oesoedd tragwyddoldeb  
Fyth heb flino yn y blaen ;  
Fflam angerddol heb un terfyn  
Trwy holl raddau 'r nef yn un,  
Hi barha i losgi yn oleu  
Tra parhau DUW ei Hun.

4 Nid oedd ond dy fawredd dwyfol,  
Yn y nef ac ar y llawr,  
All'sai enyn y fath gariad  
Ag wy 'n brofi ynwy 'n awr ;  
Pwy sefydla 'm hysbryd gwamal ?  
Pwy 'm gosod'sai yn fy lle ?  
Ond yr Hwn sy heb derfyn arno,  
Pen perffeithrwydd dae'r a ne'.

## HYMN DCI.

Y MAE tragwyddoldeb eang  
'N awr yn ddysglair o fy  
mlaen,

Ac 'r wyf finau fel yn darfod  
A'r greadigaeth fawr yn lân ;  
Aeth fy nghartre' hon yn annghof,  
Oer a diflas yw e' 'gyd,  
Mae fy lle o heddyw allan  
Mewn tragwyddol, nefol fydd.

2 Nid oes terfyn ar flynyddau  
Yn y wlad a wela'i draw,  
Nid yw myrdd o oesoedd hlirion  
Yno yn unig ond lled llaw ;  
Sylwedd ydyw oll sy 'n dyfod,  
Oll sy 'n dyfod sy'n parhau,  
Pethau braf heb eu cymysgu  
Ga'i ar fyrder eu mwynhau.

3 Yno erys fy nedwyddwch  
Heb gymysgu fyth yn un,  
Di-gyfnawd Gwrthddrych cariad,  
Felly cariad pur ei hun ;  
'Run fydd Duw i dragwyddoldeb—  
Môr o gariad heb ddim trai ;  
Fel Efe bydd fy hapusrwydd,  
Ffrwd lifeiriol yn parhau.

4 O mor hyfryd yw 'r meddyliau,  
Fod yr amser hyny ar dd'od ;  
Y mae 'r hiraeth sy 'n fy nghalon  
Heb un terfyn iddo 'n bod ;  
Ni all yr holl greadigaeth eang,  
Na'i gogoniant o un rhyw,  
Laesu 'nghri, na llanw f' enaid,  
Na dim arall ond fy Nuw.

5 Yno llenwir fy nymuniad,  
Er ei faint ac er ei gri,  
Fy holl wagter wneir i fyfny  
Gyda 'r Duwdd Un yn Dri ;  
Mi gaf yfed o ffynonau  
Pleser, a fy nyfrhau  
A datguddiad pur o fyfnyd,  
A llawenydd i barhau.

6 Mi gaf glywed cydsain hyfryd  
Di-greuedig Dri yn Un,  
Yn cyhoeddi heddwch nefol,  
Perffaith, wrthf fi fy hun ;  
Saint, seraphiaid, ac angylion,  
Mewn rhyw gydsain bena' erioed,  
Gyda mi yn seinio 'r anthem  
Am anfeidrol, ddwyfol glod.

## HYMN DCII.

- M**AE 'm hymdaith tros fryniau  
I'r gwledydd tu draw,  
Mae 'n diangc o'm golwg  
Bob ardal gerllaw ;  
'R wy'n gwel'd trwy addewid  
Lawn, sicr, a drud,  
Y tiroedd bwrpaswyd  
Cyn seiliad y byd.
- 2 Rhewogydd sydd yma,  
Llifogydd a gwres,  
Tangnefedd sy 'n gwawrio  
Fel tynom ni 'n nes ;  
Mae cariad o heddwch  
Di-derfyn a maith,  
Yn llifo yn llanw  
At ddiwedd ein taith.
- 3 Os melus oedd dechreu,  
Mwy melus yr hedd,  
Pa nesa' cyrhaeddodd  
I ardal y bedd ;  
Mae angeu, mae pechod,  
O'u bron yn gwanhau,  
I diroedd y bywyd  
A mi 'n agoshau.
- 4 Mae penau 'r mynyddau,  
Mynyddau ca'i fod,  
Maent heddyw 'n agosach  
Nag buont erioed ;  
Mae 'm dyfais ddaearol  
Yn darfod bob rhyw,  
Fy nghartre' tragwyddol  
Yw teml fy Nuw.
- 5 Mae enw f' Anwylyd  
Mor anwyl, mor fawr,  
Hyfrydwch y nefoedd,  
Hyfrydwch y llawr ;  
Ni dderfydd ei garu,  
Ni dderfydd ei glod,  
Pan byddo heb seren  
Yn uwchder y rhod.

## HYMN DCIII.

**F**E ddarfu pob ofn,  
Y gair ddaeth i m aes

O arfaeth y nefoedd,  
Sy 'n rym ac yn ras ;  
Yr hyn a 'sgrifenwyd  
Yn llyfr y nen,  
Pe uffern f'ai 'n erbyn,  
Sydd siwr dd'od i ben.

- 2 Y geiriau lefaru  
Sydd nerthol a byw,  
Fe holltodd y creigydd  
Pan lefodd fy Nuw ;  
'D yw pechod, 'd yw Satan,  
Er cymaint eu grym,  
Yn ngwyddfod y nefoedd,  
Ond amwyd neu ddim.
- 3 Chwibana fy ARGLWYDD  
Ei fyddin yn nghyd,  
O'r dwyrain a'r dehau,  
O eithaf y byd ;  
O'r Aipht daw gwybedyn,  
Gwenynen o Seir,  
Hwy fwrddrant fy mhechod,  
Er cryfed y ceir.
- 4 Caiff tralod a chystudd,  
A gwialen a gwae,  
Gwawd, ing, ac erlidiau  
I guro fy mai ;  
Caiff angeu ei hunan  
I'm gwneuthur yn rhydd,  
O'm cedyrn gadwynau  
Cyn collwyf f'i 'r dydd.
- 5 Y clod a'r gogoniant,  
A'r gallu bob rhyw,  
A redo fel moroedd  
I enw fy Nuw ;  
Y dechreu a'r diwedd  
O'r ddaear i'r nef  
O ras ac o haeddiant  
Ei Hunan yw Ef.

## HYMN DCIV.

**F**E welir rhyw ddyddiau,  
Fy ARGLWYDD a'i gŵyr,  
Pan tarddo goleuni  
Yn nghysgod yr hwyr—  
Pan delo 'r gorllewin,  
Y dwyrain, a'r de',  
I brofi cawodydd  
Hyfrydaf y ne'.

- 2 Fe basia 'r gwlawogydd  
A'r oerfel yn nghyd,  
Daw adar i ganu  
Trwy gonglau 'r holl fyd—  
Gwinllanoedd a'r bryniau,  
A ffrwythydd ryw 'stor,  
A blodau ar unwaith  
O foroedd i fôr.
- 3 Fe gwmp yr addewid  
Ar ddinas a gwlad,  
Addewid bereiddiaf,  
Addewid y Tad ;  
Tywalltir yr Ysbryd,  
Fel moroedd di-drai,  
Ar lwythau hen Jacob  
Yn fwy' ac yn llai.
- 4 Y meibion a'r merched,  
Blith draphlith yn nghyd  
Brophwydant, ganmolant  
Iachawdwr y byd ;  
Henafgwyr freuddwydiant  
Freuddwydion o hedd,  
Prin gallant eu credu,  
Er profi 'r fath wledd.
- 5 Gwŷr ieuaingc a welant,—  
A gweled a wnan'  
Rai pethau mor rhyfedd  
Na welsant o'r blaen ;  
Llawn felus, llawn hyfryd,  
Llawn werthfawr a drud,  
Fydd y weledigaeth  
Am Brynwr y byd.
- 6 O ddyddiau dedwyddaf !  
Wel, brysiwch yn mlaen,  
Mae 'r arfaeth yn galw,  
Mae pechod yn dân—  
Mae pob peth yn addfed,  
Mae gweddi mewn grym,  
O tyred ddeheuwynt,  
Yn atal 'd oes dim.

## HYMN DCV.

**W**EL, brysiwch i'r frwydr,  
Gelynion y sydd  
Yn chwareu yn ddyfal  
Am enill y dydd,  
s

- Yn gwylio o gwmpas  
Bob mynyd, bob awr,  
I gwmpo byddinoedd  
Ein HARGLWYDD ni 'lawr.
- 2 Mae 'r faner i fyny,  
Hi liwiwyd mewn gwaed,  
'D oes heddwch i'r gelyn  
Nes cwmpo dan draed ;  
Ni ildia, ni orphwys  
Tywysog y nef,  
Nes byddo 'r holl ddaear  
Yn eiddo iddo Ef.
- 3 Nid oes gan blant dynion  
Un gronyn o law,  
Yn rhyfel ein HARGLWYDD,  
Nag yma na thraw ;  
Efe sy'n lladd pechod,  
A phlanu pob gras,  
Efe bia 'r enw  
I mewn ac i maes.
- 4 Wel, canwn y gongcwest  
Yn ÷on a rhydd,  
Nid da bod yn segur  
Yn ymdrech y dydd ;  
Mae 'r llwybr yn union,  
Goleuni fe ddaw,  
Mae 'r Brenin ei Hunan  
Yn cerdded gerllaw.
- 5 Wel, saint, gorfoleddwch,  
Gorfoledd y sydd,  
Fe gariodd Immanuel  
Tirion y dydd ;  
Bydd daear a nefoedd,  
Ac uffern bob darn,  
Mewn poen neu lawenydd  
Yn derbyn ei farn.

## HYMN DCVI.

- D**UW, bydd i mi 'n gymhorth,  
Yn gymhorth yn awr,  
Mae 'nghlwyf yn anaele,  
Mae 'meichiau mor fawr ;  
Yr iau sydd yn gwasgu,  
A minau mor wan,  
Yn methu gan ofn  
Ddyrchafu i'r lan.
- 2 Euogrydd sydd yma,  
Cystuddiau sydd draw,

Grym pechod ac ofn  
 Sy'n curo ar bob llaw ;  
 Mae pob rhyw elynion  
 Cynddeiriog eu gwedd,  
 Mewn cyngrair â'u gilydd  
 Am friwio fy hedd.

3 Ti wyddost fy meddwl,  
 Ti glywaist fy nghri,  
 Ni chuddiwyd ochenaid,  
 Er gwaned, i Ti ;  
 Ti wyddost fy sylwedd,  
 Ti weli fy ngrym,  
 Mai eiddil heb allu,  
 Heb ddeall, heb ddim.

4 Ti dde'st i'm hymweled,  
 Ti 'm cym'raist i'th gôl,  
 Pan nad o'wn i 'n 'mofyn  
 Un dim ar dy ol ;  
 Ac wedi fy nhynu  
 O'r carchar yn rhydd,  
 A beidi a'm harddel  
 Yn mhoethder y dydd ?

5 A gaiff fy ngruddfanau,  
 Gruddfanau mor fawr,  
 I esgyn i fyny  
 Heb ddyfod i lawr ?  
 O aed fy och'neidiau  
 Trwm-lwythog i'r ne',  
 A deuant â bendith  
 Cant deublyg i dre'.

### HYMN DCVII.

**N**ID yw 'r holl greadigaeth  
 helaeth,  
 Daear, awyr, dw'r a môr,  
 'Nghyd â'u llwythau maith, di-  
 derfyn,  
 'Nghyd â'u hannherfynol 'stor,  
 Ond dy weision gyda eu gilydd,  
 Fel y mynost felly gwnaen',  
 A hwy ddont, er pob gwrth'neb-  
 rwydd,  
 Fyn'd â'th enw yn y blaen.

2 Ti wnai 'r hyn fo 'n wenwyn per-  
 ffaith,  
 Rai amserau i wella clwy' ;  
 Ti wnai 'r eli goreu gafwyd  
 Rai amserau i glwyfo mwy

Ti wnai haf, a pharch, a gwynfyd,  
 Losgi 'r llyisiau gan y gwres,  
 Ti wnai rew a chystudd dierid  
 Atat Ti i'm gyru 'n nes.

3 Tân dry 'n ddw'r, a dw'r yn wen-  
 fflam,  
 Os d' ewyllys iddynt bair,  
 Gwnai i'r morfil mawr, esgrynog  
 I lesmeirio wrth dy air ;  
 Beth yw 'mhechod it' ond gwryfyn,  
 Er ei ruad, er ei rym !  
 Gwna, fe gwmp ond wrth dy am-  
 naid,  
 Ni raid i Ti dd'wedid dim.

4 Croes a chystudd gaiff ei guro,  
 A llawenydd, a mwynhau ;  
 Fe gaiff cosp, ac fe gaiff cerydd  
 Rwystro ei deyrnas ef barhau ;  
 Fe ddiwreiddir hen adeilad  
 Gadarn, nerthol maes o law,  
 Y mae bys tragwyddol allu  
 Tan ei wadn yma a thraw.

### HYMN DCVIII.

**N**I all rhaid, ac ni all natur,  
 I wrth'nebu dim o d' air ;  
 Saif yr haul a'r holl blanedau,  
 Os fy Iesu iddynt bair ;  
 Esmwyth it' yw gwneud a fynost,  
 D'wed y gair a thyna fi  
 'Mhell uwchlaw fy holl elynion  
 Ar y bryniau hyfryd fry.

2 D'wed, "goleuni boed," fe fyddiff ;  
 D'wed, "dysgleiriad ser y ne',"  
 Fe ddysgleiria haul a lleuad  
 Oll yn hyfryd yn eu lle ;  
 Edrych arna'i bydd tangnefedd,  
 Derfydd 'stwr y storom fawr,  
 Tawel hedd, fel boreu hyfryd  
 A dywyna arna'i 'n awr.

3 Gwena arna'i, Dywysog bywyd,  
 Yna gwged arna'i 'r byd,  
 Ynot f' enaid sy 'n ymddiried  
 Uwch law meibion Adda 'gyd ;

### HYMN DCX.

**'D**OES bleser dâl tu yma i'r ne',  
 Nac un dyddanwch ateb le  
 Cymdeithas fy Iachawdwr cun ;  
 'D oes eisieu dim lle bo fy Nuw,  
 Gwagder na thlodi o un rhyw,  
 Mae 'n llanw 'r nefoedd fawr ei  
 hun.

2 Y sawl a'th gaffo, gwynfyd hwy,  
 Ni allant fyth ddymuno mwy,  
 Ti lenwi eu heisieu 'gyd o'r bron ;  
 Mae môr a thir, a da a dyn,  
 Oll yn dy heddwch Di dy Hun,  
 A mwy nag fedd y ddaear hon.

3 Anghenus wyf, bechadur gwan,  
 Am hyn 'r wy 'n tynu tua 'r lan,  
 Yn gweled digon gan fy Nuw ;  
 Trysorau pe cawn eu mwynhau,  
 A laddai 'ngofid, laddai 'ngwae,  
 A 'ngwnai yn llawen tra fawn  
 byw.

4 Mi ddof o flaen dy faingc yn hy',  
 A'm llygad tua 'r nefoedd fry,  
 A mi ddysgwyliaf ddydd a nos ;  
 Na phalled nefoedd wen mo'i gras  
 I'r archolledig, ffaith, cas,  
 Sy 'n farw yn gorwedd tan y  
 groes.

### HYMN DCXI.

**M**AE pen ein taith gerllaw,  
 Ar fyrdur gwawria 'r dydd ;  
 O fy nghadwynau caeth bob rhyw,  
 Fe tyn fy Nuw fi 'n rhydd ;  
 Tros yr Iorddonen las  
 Caf landio maes o law,  
 I fwyta ffrwythau nefol, pur,  
 Yr hyfryd dir sydd draw.

2 Ac yna darfod wna  
 Fy ngofid a fy ngwae,  
 Ac y dechreuir cadw gwledd,  
 Gorfoledd i barhau ;  
 Yn nghanol tyrfa faith,  
 Pob llwyth, ac iaith, a dawn,  
 Un Sabboth, heb na haul na lloer,  
 Na boreu na phrydnawn.

Rho addewid byddi gydaf,  
 Un rhyw rwystr is y nef,  
 Doed o'r ddae'r neu uffern gadarn,  
 Ofna'i ddim o hono ef.

4 Ti yw Gwrthdrrych mawr fy ofnau  
 Gwrthdrrych fy llawenydd pur,  
 Atat mae fy nymuniadau,  
 Atat mae fy ngobaith pur ;  
 Pob peth eto welodd llygad,  
 A ddiifanodd arna'i 'n lân,  
 Aeth eu bod, ac aeth eu henwau,  
 Oll yn ddi-ddim o fy mlaen.

### HYMN DCIX.

**G**ORCHUDD ar dy bethau  
 mawrion  
 Yw teganau gwag y byd,  
 Cadarn fur rhyngof a'th Ysbryd  
 Yw 'm pleserau oll i gyd ;  
 Gad im' gloddio trwy 'r parwydydd  
 Tewion, trwodd at fy Nuw,  
 I gael gwel'd trysorau gwerthfawr  
 Fedd y ddaear ddim o'u rhyw.

2 N'ad fi daflu golwg cariad  
 Ar un gwrthdrrych is y rhod,  
 Na gwneud gwrthdrrych i fy  
 ngobaith  
 O greadur sydd yn bod ;  
 Cadw 'ngolwg wan i fyny,  
 Yn syml atat Ti dy Hun  
 Heibioi barch, acheibio ianmharch,  
 Heibio i ddaear, heibio i ddyd.

3 Gad fi ganfod a diystyru  
 'R holl greadigaeth faith i gyd,  
 Yn y nefoedd, ac yn uffern,  
 Yn y moroedd, yn y byd,  
 Fel yn hollol analluog  
 Wneuthur da, neu niwed im',  
 Nes bo rhai'n yn cael eu danfon  
 Trwy 'th gydsyniad a dy rym.

4 Wrth fy ochor bydd i'm harwain,  
 Yn mhob d'rysni rho dy law,  
 Gad im' aros tan dy gysgod,  
 Cafod yma, cafod draw ;  
 Atat 'r wyf yn ffoi am noddfa,  
 Rhag y drygau sydd o'm hol,  
 Cymer fi, Dywysog bywyd,  
 Dwg fi yn dy ddwyfol gôl.

3 Cyrhaeddwn yn y blaen,  
 'N awr nes-nes yw y nod;  
 Na lldiwn' ddim, mawr yw ein  
 braint,  
 Ni cholodd saint erioed;  
 Pob peth sy 'n galw am frys  
 'Fyn'd tua llys ein Tad,  
 Nyni gawn fwyta yn y man  
 Ddanteithion Canaan wlad.

4 Ni thycia swynion ddim  
 Yn erbyn grym fy Nw, w  
 Fe gyll dichellion mwyaf call,  
 A rhwydau 'r fall bob rhyw;  
 Mae gallu 'r nef yn fwy  
 Na'u dyfais hwy i gyd;  
 Fe lysg efengyl nef a'i sain  
 Fyrdiynau o'r rhai'n yn nghyd.

---  
 HYMN DCXII.

**P**ALMANTIR llwybr 'n  
 Trwy ganol moroedd maith,  
 Ac er gelynyon fawr a mân  
 Cawn fyn'd yn mlaen i'n taith;  
 Ar drostan heddyw yn nes  
 Mae 'r sarph o bres yn glir,  
 Os clwyfir un pererin gwan,  
 Sy'n myn'd i'r Ganaan dir.

2 Mawr iawn yw nerth y nef,  
 Mae ei arfaeth ef yn dân,  
 Yn llosgi yn mhob bryn a bro,  
 Bob rhwystr fo o'i blaen;  
 'D yw Moab, er ei llid,  
 Na Seir yn nghyd ond dim,  
 Mil mwy doethineb nefoedd fry,  
 A rhagor yw ei rym.

3 Iorddonen dry yn ol,  
 Roi lle i'r nefol had,  
 I etifeddu 'r hyfryd fan  
 Addawyd gan y Tad;  
 Ni all pechod nac un chwant  
 I atal plant y nef  
 I dreiddio trwy bob llif a thon  
 Yn union ato Ef.

4 'D yw terfysg mawr y byd,  
 A'i ddwndwr o un rhyw,  
 Na sain ei udgyrn croch a'i glych,  
 N' 'i' bleser mwya' byw,

Sy'n curo 'r seintiau o hyd,  
 Ar aswy, 'nghyd â'r dde',  
 Yn abl ddim i'w cadw yn hir,  
 O deyrnas bur y ne'.

---  
 HYMN DCXIII.

**Y**N nydd y frwydr fawr,  
 Rhwng dae'r a nef yn nghyd,  
 Ymddial creulon ar bob llaw,  
 Oll yma a thraw mewn llid;  
 Y nefoedd saif o'n plaid  
 Wrth angenrhaid yn wir,  
 Fe gauir Satan yn y man,  
 Ni bia 'r Ganaan dir.

2 Wel, ferched Seion, dewch  
 Yn finteioedd yn y blaen,  
 Efe ei Hun yw 'r blaenaf Wr  
 Yn nghanol dw'r a thân;  
 Mae 'n Gyfaill yn mhob man,  
 I'r lless, a'r gwan, a'r gwyw,  
 Ni welwyd ar ein daear ni  
 Neb tebyg i fy Nw.

3 Yn nydd y dwyrain wynt,  
 A'r stormydd mwyaf cry',  
 Fe dry 'r cymylau cyn prydawn  
 Yn dawel iawn i ni;  
 Mewn ffwrnes fawr o dân  
 Ei Hunan sefiff Ef,  
 Fe gaiff y poenwyr wel'd yn awr  
 Alluoedd mawr y nef.

4 Y Brenin aeth yn mlaen,  
 A'i allu Ef sydd fawr,  
 Y gareg leia' ddél o'i law,  
 A dŷr Golia 'lawr;  
 Gwersylloedd Duw yn nghyd,  
 A gân yn hyfryd iawn,  
 I'r Crewr mawr, nad oes o'i ail,  
 Cyn machlud haul brydnawn.

---  
 HYMN DCXIV.

**M**AE 'n decach yn ei wedd  
 O'u bron na dynolryw,  
 Nid oes greadur is y rhod  
 Sydd debyg i fy Nw;

Rhyfeddod yr holl fyd,  
 Rhyfeddod mawr y nef,  
 Rhyfeddod oesoedd eto a ddaw  
 Fydd ei ogoniant Ef.

Dyoddefodd ar y pren  
 I hoelio ei ddwyllaw a'i draed,  
 Trywanwyd idd ei ystlys bur,  
 Daeth allan ddw'r a gwaed;  
 Fel ca'i y dua' ei liw  
 Ei ganu 'n hyfryd wyn  
 Mewn afon bur o waed a dw'r,  
 Ddylifodd ar y bryn.

Wel, dyma 'r unig fan,  
 Tan goresbren garw tr,  
 Ar ben Galfaria, hir brydnawn,  
 'N awr gwleed cawn y tir;  
 Cliriodd ei haeddiant Ef  
 Gymylau 'r nef o'u bron,  
 'D oes heddyw gysgod mewn un  
 man  
 Rhyngom a'r Ganaan hon.

Mae 'r llwybr heddyw 'n rhydd,  
 Ein Tywysog sydd yn mlaen,  
 Yn agor holl adwyau 'r ddraig,  
 Oddi yma i Seion lân;  
 Bydd canu braf am hyn  
 Yn Salem cyn bo hir,  
 Pan ddelo'r nefoedd fawr a'r ddae'r  
 I seinio 'r anthem bur.

---  
 HYMN DCXV.

**A**RGLWYDD, ffoed cymylau  
 mwy,  
 Grym euogrydd damniol glwy';  
 Rho i mi brofi 'th ddwyfol hedd,  
 Afon bur tu yma i'r bedd,  
 Fel y gallwyf ddydd a nos,  
 Ymddigryfu yn dy groes.

2 Oll a wela' i tan y ne',  
 Sy 'n feunyddiol golli eu lle;  
 Angeu yn teyrnasu 'n lân  
 Ar greaduriaid fawr a mân;  
 Heno marw, heno bedd,  
 'Fory codwn ar ei wedd.

3 Ffarwel bob peth yn y byd,  
 Twyll a gwagedd y'ch i gyd;

Y melusdra pena' gawn,  
 Gwenwyn du sy ynddo 'n llawn;  
 IESU, 'd oes o nefol rin  
 Ond dy wleddoedd Di dy hun.

4 Nid wy 'n ceisio gan fy Nw,  
 Heddyw, hawddfyd o un rhyw;  
 Rho i mi feddu 'th Ysbryd cun—  
 Llechu 'n agos it' dy hun:  
 Ti gai 'm cynal tan bob croes,  
 Goleu dydd, neu dywyll nos.

5 Ac er lleied yw fy ngrwm,  
 Tan dy aden ofna' i ddim;  
 Mymryn bach o'th gariad drud  
 Sydd yn fwy nag uffern lid;  
 Gwel'd dy wedd, a chredu 'th waith,  
 F' enaid ddwg i ben ei daith.

6 F' enaid, gwel Galfaria fryn,  
 Yno congrwyd angeu yn llyn—  
 Yno maeddwyd gallu 'r bedd,  
 Yno prynwyd dwyfol hedd;  
 Y greadigaeth heddyw sy  
 Tan awdurdod IESU cu.

---  
 HYMN DCXVI.

**D**ACW gariad nefoedd wen  
 Yn dysgleirio ar y pren;  
 Dacw daledigaeth lawn  
 I ofnyion trymion iawn;  
 IESU gollodd ddwyfol waed  
 Minau gafodd wir iachad.

2 Wele 'r llwybr heddyw 'n glir  
 Tua Chanaan hyfryd dir;  
 Y mae 'r faner fawr yn mlaen,  
 Fy holl elynion cwympo wnan';  
 Rhed yr oriau eu rhif i maes,  
 Caf fyn'd trwy 'r Iorddonen las.

3 Wele 'r Ganaan hyfryd wiw,  
 Dyma 'r ardal caf fi fyw—  
 Gwlad heb ofid, gwlad heb wae,  
 Gwleddoedd hyfryd i barhau;  
 Dwyfol gariad, dwyfol hedd,  
 Ga' i fwynhau tu draw i'r bedd.

4 Na ddoed gwael wrthddrychau 'r  
 byd  
 Fyth i artrefu yn fy mryd;

Digon, fy enaid, digon yw,  
Myfyrdodau dwyfol friw ;  
Mae mwy pleser yn dy glwy',  
Na 'u llawenydd penaf hwy.

- 5 IESU gollodd ddwyfol waed,  
Minau gafodd wir iachad ;  
Darfu ymfrost mawr y byd,  
IESU bia 'r clod i gyd ;  
Wrth ei draed dymunwn fyw,  
Holl hapusrwydd fy enaid yw.

## HYMN DCXVII.

**M**I bellach goda' maes  
Ar foreu glas y wawr  
I wel'd y blodau hardd  
Sy 'ngardd fy IESU mawr ;  
Amrywiol ryw rasmusau pur,  
A ffrwythau 'r Paradwysaidd dir.

- 2 Edrychwch draw i'r de'  
A'r gogledd, y mae rhes  
O harddach brenau lliw  
Pa fwyta' b'om yn nes ;  
Eu peraidd flas, a'u 'roglau llawn,  
Sy'n dangos nefol, ddwyfol ddawn.

- 3 O! anghyffelyb flas!  
O! amrywioldeb lliw!  
Hyfryda' erioed a gaed  
Ar erddi gwlad fy Nw!  
Hi, Gilead fwyn, a'i harogla pur,  
Bereiddiodd awel Ganaan dir.

- 4 Mae 'r pomgranadau pur,  
Mae 'r perarogla rhad,  
Yn magu hiraeth cry'  
Am hyfryd dŷ fy Nhad ;  
O! Salem bur! O! Seion wiw!  
Fy nghartre' i, a chartre 'm Duw.

- 5 'Does le i aros dim,  
Mi glywa' rym y ne'  
'N awr yn fy ngalw i 'mlaen  
Yn fuan ato Fe ;  
Ffarwel, ffarwel, ddeniadau 'r byd,  
Methodd eich tegwch fyn'd â'm bryd.

## HYMN DCXVIII.

**M**IL o bwysiau sydd  
Bob awr o'r dydd a'r nos,  
Yn gwyllo uwch pob cred,  
Ar hyd, ar led, ar groes,  
Am ddwyn yn lân fy enaid drud  
I maes o'i loches gynnes glyd.

- 2 Ond ceidw gallu 'r nef  
Fy llygaid eto yn glir,  
I graffu 'n gywir ddwys  
Ar Baradwysaidd dir ;  
Na chaffo 'r rhai'n, er maint eu grym,  
I rwystro f' enaid egwan ddim.

- 3 Mae Satan a'i holl scil,  
A'i rwydau manwl, mân,  
Yn gwneud fy llwybr cul  
Yn gulach nag o'r blaen ;  
Ond mi âf trwy, yn nerth y nef,  
Ei rwydau cynddeiriocaf ef.

- 4 Fe ddeil anfeidrol nerth  
Ar dylau serth fi 'mlaen,  
Mi ddiangaf er pob 'stwr  
I'r lan trwy ddw'r a thân ;  
Ar ben y bryn, caf cyn bo hir  
I ganu 'r anthem nefol bur.

- 5 'R un testyn a'r un dôn  
Fydd y caniadau o'r bron,  
Angylion yn y nef,  
A seintiau 'r ddaear hon ;  
Y mawl, y clod, a'r enw mwy  
Fo i'r hwn ddyoddefodd farwol glwy'.

## HYMN DCXIX.

**W**EL, darfod fwy fwy mae  
'Nysgwyliaid yn y byd,  
'Nghas a nghyfeillion sy  
'N anghywir i mi gyd ;  
Ond Ti yw 'r graig gadarnaf gref,  
Fy ngrym a ngobaith tan y nef.

- 2 Mae angeu ac uffern faith,  
Yn lesio eu saethau llym,  
Yn fy erbyn o bob rhyw,  
Ac anferth yw eu grym ;  
Mewn lloches craig, heb 'stwr na sain,  
Ca'i fyw uwch dwndwr cas y rhai'n.

## HYMN DCXXI.

**Y** CYFOETH i mi ddaeth,  
Nid oes o'i fath na'i ryw,  
'Tifeddiaeth hyfryd rad,  
Pereiddiaf wlad fy Nw ;  
Mwy nid oes dim o tan y nef,  
All fy ngwahanu i oddiwrtho Ef.

- 2 O uwchder heb ei faint!  
O ddyfnder heb ddim rhi!  
O led a hyd heb fath  
Yw 'n iachawdwriaeth ni!  
Pwy ŵyr? pwy dd'wed, seraph neu  
saint,  
O'r ddaer i'r nef beth ydyw 'm  
mraint?

- 3 Mae 'r ddaear a'i holl swyn,  
Oll yn diflanu 'n awr,  
A'i themtasiynau cry'  
Sy'n cwmpo 'n llu i'r llawr ;  
Holl flodau 'r byd sydd heb eu lliw,  
'D oes dim yn hyfryd ond fy Nw.

- 4 Mae haul a ser y rhod  
Yn darfod o fy mlaen,  
Mae t'willwch dudew yn d'od  
Ar bob peth hyfryd, glân ;  
Fy Nw ei Hun sy'n hardd, sy'n fawr,  
Ac oll yn oll mewn nef a llawr.

- 5 Ti, IESU, yw ein Duw,  
Ydyw caniadau 'r nef,  
A'r anthem gyda blas  
Sy'n myn'd i'w glustiau Ef ;  
'D oes seraph un, angel na saint,  
Nad iachawdwriaeth yw eu braint.

- 6 'D oes terfyn o un tu  
Yn eu llawenydd hwy,  
Môr yw di-derfyn sy,—  
Bob terfyn yn myn'd trwy ;  
Paradwys wiw, hyfrydaf le,  
A Phren y Bywyd yw Efe.

## HYMN DCXXII.

**F**Y noddfa gadarn, gry',  
A'm tarian wyt, fy Nw,  
Yn erbyn angeu du,  
A chynllwyn uffern griw ;

- 3 Pa dymestl bynag gwyd,  
Pa dywyllwch bynag fo,  
Ond am ei fod yn Dduw  
Ffyddlonaf ar bob tro,  
Arno rho'm llef, y 'storom gref  
Ddiflana wrth ei enw Ef.

- 4 Ymfrostied daear faith  
Oll yn ei gwaith ei hun,  
Ac ymddirieded rhai  
Mewn daear neu mewn dyn ;  
Ni ymddirieda 'i tr'wy' byw,  
Yn nim o tan y nef ond Duw.

- 5 Gwnaed rhai gyfeillion gwir  
O ddynion pur eu dawn,  
Edryched rhai ar barch,  
A'u henwau yn hyfryd iawn ;  
'R wy'n rhoi ffarwel i freintiau'r byd,  
A dim ond IESU i mi gyd.

## HYMN DCXX.

**F**ARWEL i'r byd a'i ffryns,  
Yn llawen ddiddig iawn,  
Fe gollodd ar ei flas,  
Er cynar laes brydnawn ;  
Mi âf yn mlaen i ganol nef,  
Y fan mae 'm noddfa gadarn gref.

- 2 Fe ddeil yr afael gref  
Sydd gan fy enaid gwan,  
Ar IESU 'r blaenaf ŵr,  
Mewn ymdrech dwg fi 'r lan ;  
Pan diango 'r byd, a'i ffryns, a'i dda,  
Fy IESU fydd y ffrynd barha.

- 3 Oddiwrtho yn unig daw  
'Ngorfoledd a fy hedd,  
Oddi yno rhed yn gylch,  
Tu yma a draw i'r bedd ;  
Er darfod haul a ser y nef,  
Ni dderfydd mo 'i ffyddlondeb Ef.

- 4 Pan tyno angeu glas  
Ei holl bilerau 'lawr,  
A gorfod canu yn iach  
I enwau fach a mawr ;  
Enw fy Nw fydd fwy 'r pryd hyn,  
Na holl gysuron bro na bryn.



'Rwy'n pwyso 'nghred, ac fedda'i gyd,  
I'th air fyddlonaf, pur, a drud.

2 Tra f'ost yn eiddo im',  
Beth raid fy ofni mwy?  
Anfeidrol yw dy rym,  
Pwy ddichon roi it' glwy'?  
A thyna'r pryd, pan metho'r nef,  
Y maeddir finau gydag Ef.

3 Y gair melusa' erioedd,  
Y cryfaf air ei rym,  
Mi a'i hail adroddaf ef,—  
Fod Duw yn Briod im'!  
Mae hyfryd sw'n a sylwedd hwn  
Yn tynu 'ffwrdd fy maich a 'mhwn.

4 Rhyw weithiau filoedd maith,  
Adrodda' i'm testyn trwy,  
Mi gyhoedda' o flaen y byd,  
Fy Mhriod yw Ef mwy:  
Mae'r hyfryd sw'n yn enyn tân  
Na saif na byd na chnawd o'i flaen.

5 Beth yw'r telynau aur  
Sydd gan angylion fry?  
Sut yw'r tafodau geir  
Gan nefol berffaith lu?  
A feddant hwy felusach tôn  
Nag am eu hawl i'r addfwyn Oen.

### HYMN DCXXIII.

**M**AE yr Iorrdonen fawr  
Yn dal yn awr ei dw'r,  
Mae Israel Dŵw trwy ganol hon,  
Yn myn'd yn llon bob gŵr;  
Mae'n sefyll ynddi'r arch,  
Yn fawr ei pharch a'i bri;  
Ac yno bydd ein tirion Ffrynd  
Nes trosodd fyn'd â ni.

2 Ni chaiff y dyfroedd maith,  
I rwystro ein taith ni 'mlaen;  
Fe grona'r dw'r, fe hyllt bob bryn,  
Fe ddiffydd grym y tân;  
'D oes pobl tudd fath fraint  
A'r saint o tan y nef,  
Sy'n cael eu dwyn trwy lif a thon  
Yn fyddlon ato Ef.

3 'D oes bellach ddim ond mawl,  
A chanmawl fyth ein Dŵw,

Ein twr a'n tarian yn mhob man,  
Efe ei Hunan yw;  
'D yw pechod, er ei rym,  
Ei euogrwydd llym a'i boen,  
O bwysau ddim o flaen y Tad,  
At werthfawr waed yr Oen.

4 Ffarwel fo i haeddiant dyn,  
Ffarwel at ddyn i fyn'd;  
Ffarwel, doethineb a phob dawn,  
Fo i natur lawn yn ffrynd:  
Aeth dyn a'i allu mawr  
Yn awr i lawr yn ddim;  
IESU, fydd bellach yn mhob man  
Fy nharian a fy ngrym.

### HYMN DCXXIV.

**I**'R IESU boed y clod,  
Tra fyddo bod a byd,  
Efe oedd cyn y diluw mawr,  
Efe sy'n awr o hyd  
Yn Gyfaill, ac yn Ddŵw;  
Pob llwythau, rhyw, ac iaith,  
Efe a'n harwain ni uwch nen,  
Yn gryno i ben ein taith.

2 Fe gongera yn ddi-gel  
Bob gelyn ddêl i'n cwrdd,  
Fe wna i'r ddraig, er maint ei 'sgil,  
Yn fuan gilio 'ffwrdd;  
Y ddaear fawr, os rhaid,  
A saif o'n plaid ryw ddydd,  
Ac yno etifeddion nef  
A wared Ef yn rhydd.

3 Pryd hyny daw yn rhydd  
Y rhei'ny sydd yn graeth;  
Fe gaiff rhai oedd ar drengu 'mron  
Ryw dirion dyner faeth,  
Agorwyd ar brydnawn,  
Ryw ffynon lawn o hedd,  
Ar Galfari i ddiodi'r sawl  
Sy ganddynt hawl i'r wledd.

4 O foreu llawn o hedd,  
Bydd hon yn wledd o fri,  
Pan y cyhoeddir Jubil lawn  
Yn hyfryd iawn i ni;  
A'r udgyrn arian glas  
Yn rhoddi 'maes y sain,  
Fod iachawdwriaeth gyflawn, gun,  
I'r gwaelaf un o'r rhai'n.

### HYMN DCXXV.

**A**R grasdir, crindir, cras,  
Disgynodd gras ein Dŵw,  
Yn loew firwd afonydd daeth,  
Mewn'anial gwaetha' ei ryw;  
Maddeuant rhyfedd, rhad  
I'r gwaetha' gaed is nen,  
Yr hwn a gredo yn yr Iawn  
Fu un prydawn ar bren.

2 A doed breninoedd byd  
Yn unfryd ato Ef,  
A rhoddant eu coronau 'lawr  
O flaen ei orsedd gref;  
Ei enw led-led sydd,  
A'i glod Ef fydd uwchlaw  
Y cwbl ag sy yma 'gyd  
Ac yn y byd a ddaw.

3 Daw'r dwyrain gyda'r de'  
O flaen y ne' i gyd,  
I dderbyn barn gyfiawnaf, wir  
O'i enau pur ryw bryd;  
Yr efrau gaiff fod draw  
Ar ei aswy law, a'r us;  
A'r gwenith pur bob gradd, bob  
lliw  
Dderbynr i'w ei lys.

4 Wel, dyna'r pryd y clywn  
A gair sydd arnom chwant,  
Wel, dewch i mewn, a dewch ar  
frys,  
Chwi fendigedig blant;  
'Tifeddwch drysor rhad  
Baroto'wd cyn seiliad byd,  
Rhyw deyrnas lawn o bob rhyw  
faeth,  
Fy haeddiant gwnaeth i gyd.

### HYMN DCXXVI.

**'D**OES yn yr anial hyn,  
Mewn bro, na bryn, na  
phant,  
Ddim ag a dâl ei garu byth,  
Na dim sydd arna'i chwant;  
Yr ochr draw i'r bedd,  
Am wlad o hedd mae 'nghri,  
I wel'd Tywysog mawr y nef,  
A Ffrynd yw Ef i mi.

2 'D oes genyf ond ei Hun  
Yn erbyn angydd glas;  
Fe gurodd ar Galfaria fryn  
Y gelyn hyn i maes;  
Mae ei ofn Ef yn awr  
Ar uffern fawr a'r byd,  
Fe grym y ddraig yn siwr ryw  
ddydd  
Wel'd cymaint fydd ei lid!

3 Fy mhechod gwypm i lawr,  
Can's mawr yw gallu Dŵw,  
'D oes nwyf, na phleser, gwŷn, na  
chwant  
Nas gyr e' 'bant bob rhyw;  
O mewn, ac o tu maes,  
Mwy yw ei ras a'i hedd  
Nag yw dichellion Satan hy',  
Nag uffern ddu na'r bedd.

4 O dere, f' ARGLWYDD da,  
Mae bellach yn brydnawn;  
O dere yn glau, estyn i maes  
Nerthoedd dy ras a'th ddawn;  
Na oeda ddim yn hir,  
Mae 'm beiau'n wir yn flin,  
Ac nid oes dim ysgafna'r baich  
Ond nerth dy fraich dy Hun.

### HYMN DCXXVII.

**'R**WY 'n gorwedd tan fy mhwn  
Yn isel wrth dy draed,  
Yn adde' 'mod yn waelach dyn  
Nag eto un a gaed;  
Rhyw ddyfnder sy yn fy nghlwy',  
Yn fwy nag ddeall dyn,  
Ac nid oes yn fy 'nabod sy  
Neb ond Tydi dy Hun.

2 O gwrando weddi'r tlawd,  
On'd fyddlon Frawd wyt Ti  
I'r rhai cystuddiol, clwyfus, gwan,  
Sy'n 'n mofyn rhan o fry?  
Ti wyddost Ti fy mhla,  
Fy ngofid a fy mhwn,  
Ac nid oes ond dy anfeidrol rym  
All symud dim o hwn.

3 Mi rof fy meiau o'r bron  
Yn gyson o dy flaen;  
Taf hwy i fôr o annghof pur,  
Mewn anial dir yn lân;

Na safed y rhai hyn  
Fyth yn fy erbyn draw,  
Pan y cyhoeddir beiau cudd  
O fewn y dydd a ddaw.

- 4 Ond boed maddeuant rhad  
Yn hyfryd waed yr Oen,  
Yn destun moliant yn mhob man  
I mi sydd tan fy mhoen ;  
Yr anthem faith ei hyd,  
Fo 'gyd am Galfari ;  
A'r iachawdwriaeth fawr ei dawn,  
Ro'wd un prydawn i ni.

## HYMN DCXXVIII.

NA foed im' garu mwy  
Un gwrthdrys is y ne',  
Ond hwnw fu yn plygu ei ben  
Ar groesbren yn fy lle ;  
'D oes dim, 'd oes neb ond Ef  
Mewn daear, nef, a llawr,  
Ac na cheisied neb o'r clod  
Sy 'n eiddo 'n Iesu mawr.

- 2 O ARGLWYDD, bydd yn Ffrynd,  
'R wy' bron a myn'd ar w'yr,  
I gyfeiliornad o bob rhyw,  
Fy unig Dduw a'i g'wyr ;  
O IESU, dal fi i'r lan,  
Nid wyf ond gwan a gwyw,  
'D oes dim all olchi 'mrynti cas  
Ond unig ras fy Nuw.

- 3 O dere yn fuan iawn,  
Mae 'm beiau yn llawn o rym,  
Ac er mai dyfnion bob yr un,  
I d' allu 'd y'nt hwy ddim ;  
Dy Ysbryd yr i bant  
Bob tanbaid chwant yn un,  
A Thi wnai 'r galon galed hon  
Yn ffyddlon it' dy Hun.

- 4 Fe fethodd f' enaid gwan  
Yn unrhyw fan a ffoi,  
Oddiwrth symbylaur llymion, cry',  
Euogrwydd sy 'n ei gnoi ;  
'D oes ond maddeuant rhad  
Trwy ddwyfol waed wna 'r tro ;  
Gad i mi deimlo 'th heddi di-lyth,  
A'i gadw fyth mewn co'.

## HYMN DCXXXIX.

FY IESU yw fy Nuw,  
Fy Noddfa gadarn, gref ;  
Ni fedd fy enaid gwan  
Ddim arall tan y nef ;  
Mae Ef ei Hun, a'i angeu drud,  
Yn fwy na 'r nef, yn fwy na 'r byd.

- 2 O ffynon fawr ei rhin,  
O ddwyfol win a llaeth,  
Sydd yn ei haeddiant Ef,  
'D oes yn y nef o'i bath ;  
Dewch bawb yn nghyd, gwelwch y  
fraint  
A ga'dd y lleiaf un o'r saint.

- 3 Anfeidrol wyt, fy Nuw,  
Anfeidrol yw dy ras,  
A thyma 'r man y mae  
'M dedwyddwch mwya' 'maes ;  
Anghyfnewidiol yw Efe,  
Am hyn Fe 'm dwg i deyrnas ne'.

- 4 Mae genyf oll yn oll  
Wrth yn unig dy fwynhau,  
Y fan b'ost Di dy Hun  
'D oes eisieu dyn na dau ;  
Dy hyfryd ras a'm lleinw i gyd,  
Heb ran yn wag o'm henaid drud.

- 5 Fy nymuniadau i gyd  
Sy 'n cael atebiad llawn,  
A'm holl serchiadau i 'nghyd  
Hyfrydwch nefol iawn ;  
Pan byddwy 'n gwel'd wrth oleu 'r  
wawr,  
Mai eiddo im' yw f' ARGLWYDD mawr.

## HYMN DCXXX.

YMDDIFAD, fedda'i ddim,  
Na haeddiant, grym, na dawn  
Ond rhyw euogrwydd cry',  
A phechod du yn llawn ;  
Dysgwyl y dydd, a'r dydd heb dd'od,  
I gael fy meiau tan fy nhroed.

- 2 'R wy 'n dywyll, lless, a gwan,  
Yn gweithio tan fy llaw ;

Gobeithio myn'd yn rhydd  
Cyn dèl y dydd a ddaw ;  
Ac eto rhwym tan gadwyn fawr ;  
O hedd y nefoedd, dere 'lawr !

- 3 Och'neidiau o bob rhyw  
Yn fynych yw fy ngwledd ;  
Ac ofnau cedyrn, cry'  
Yr angeu du a'r bedd ;  
Fy enaid bron llewygu sydd  
Wrth feddwl am dragwyddol ddydd.

- 4 O tyred, addfwyn Dad  
Ein trugareddau 'gyd ;  
Rho brawf o'th gariad rhad  
I'r euog gwan ryw bryd ;  
Gollwng yn rhydd y gadwyn fawr,  
A'r baich sydd yn fy nghadw i lawr.

## HYMN DCXXXI.

OTYRED, ARGLWYDD, saf wrth  
raid  
Yn awr o blaid y gwan,  
Mi soddaf mewn dyfnderoedd du  
Oni ddeli Di fi 'r lan.

- 2 Mae nerth dy ras yn llawer mwy  
Na 'm beiau i oll o'r bron ;  
Dy hyfryd wên sy 'n abl lladd  
'R euogrwydd tan fy mron.

- 3 Ni all fy meiau, er eu rhif,  
A'u cynddeiriogrwydd cas,  
Eu sgil, eu dyfais faith, a'u grym,  
I faeddu dim o'th ras.

- 4 Mae ynot foroedd pur, di-lyth,  
Heb ddiffyg fyth na thrai,  
O gariad anghydmorol, cu,  
Fyth, fythoedd i barhau.

- 5 O tywallt hwn i'm henaid gwan,  
Sy 'n fynych tan ei boen,  
Yn methu credu, i'w faeddu'n rhad,  
Yn ngwerthfawr waed yr Oen.

## HYMN DCXXXII.

MAE ofnau yn finteioedd llawn,  
Rai creulon iawn eu rhyw,  
Yn pledio yn fy wyneb gwan,  
Na fedda'i ran yn Nuw.

- 2 A minau 'n llwfrhau yn lân,  
Heb wybod ffordd i droi,  
Nac ysbryd gen'i fentro 'mlaen,  
Nac ysbryd gen'i ffoi.
- 3 Chwilio, a manwl chwilio 'r wyf,  
Ar aswy ac ar dde',  
Ac eto methu symud cam  
I fyny tua 'r ne'.
- 4 O edrych arnaf, ARGLWYDD mawr,  
Mae bellach yn brydnawn ;  
O llanw 'r euog tlawd sy heb ddim  
O'th nefol ddwyfol ddawn.
- 5 Rho brawf o'r gwin wasgwyd i maes  
O'r bêr winwydden fry,  
Fel gallwyf fyth i lawenhau  
Yn dy ogoniant Di.

## HYMN DCXXXIII.

MEWN cyfyngderau bydd yn  
Dduw,  
Nid wyf ond gwyw a gwan ;  
Nid oes ond gallu mawr y nen  
A ddeil fy mhen i'r lan.

- 2 Mae 'r byd â'i degwch, ac â'i fri,  
A'i swynion o bob rhyw,  
Yn ceisio 'm denu 'bant yn glir  
O lwybrau pur fy Nuw.

- 3 Ni fedda'i mewn, nac o tu maes,  
Ond nerthol ras y nef  
Yn erbyn pob tymhestloedd llym,  
A'r 'storom gadarn, gref.

- 4 Cysurwch fi, afonydd pur,  
Rhedegog ddyfroedd byw,  
Sy 'n tarddu o dan riniog cu  
Sancteiddiaf dy fy Nuw.

- 5 Rho brawf im' o'r winwydden rydd,  
O fywyd sydd yn llawn ;  
Y ffynon fawr agorwyd fry  
Ar Galfari brydnawn.

## HYMN DCXXXIV.

**D**YMA bechadur truan, gwan  
Yn gruddfan tan ei boen,  
Yn methu d'od i'r ffynon rad,  
Sancteiddiaf waed yr Oen.

- 2 Eucgrwydd megys cenllif mawr  
Sy 'n curo 'lawr fy mhen,  
Yn atal f' enaid egwan, cu  
I edrych tua 'r nen.

- 3 Pechodau yn finteioedd maith  
Oll yn byddino 'nghyd,  
Megys rhyw iuriau ar fy nhaith,  
Rhyngof a'r nefol fydd.

- 4 O dere, ARGLWYDD, saf ar fy rhan,  
Mae 'n gyfan ar dy law  
I'm cadw rhag pob drwg a phla,  
Tu yma, neu tu draw.

- 5 Fe saif fy mhechod, er ei rym,  
Ni rua ddim o'm chwant,  
Pan tynech Ti, trwy'th ddwyfol ras,  
Ei wenwyn cas i bant.

## HYMN DCXXXV.

**D**UW, dere 'n glau, mae 'n  
gyflawn bryd,  
Mae bellach yn hwyrhau,  
A grym fy mhla sydd wedi 'm rhoi  
I hollol lwfrhau.

- 2 Ar aswy eilwaith, ac ar dde'  
Mae cwmwl du uwch ben,  
A minau 'n methu edrych trwy  
Dymhestloedd dig y nen.

- 3 Mae muriau cedyrn fel y pres  
Rhyngof yn rhes a'm Dŵw,  
A gruddfan ydwyf, ARGLWYDD hael,  
Am wel'd eu cael hwy 'n friw.

- 4 Rheded yr oriau yn ddioed,  
A'r fynydd doed i ben,  
Pan caffo caethwas angeu du  
Ei godi tua 'r nen.

- 5 O tyred at yr eiddil hyn  
Sy er's tridiau yn y bedd,  
A d'od yr Ethiop, casa' ei liw,  
Yn gánaid ar dy wedd.

- 6 Ti fedri wneud y porphor du,  
A'r 'scarlat cocha' ei ryw,  
Megys yr eira ar y bryn,  
A'r lliain gwyn ei liw.

## HYMN DCXXXVI.

**Y** BAICH sydd arna'i nos 'a  
dydd,  
Ac wrthyf sydd yn nghlŷn,  
Sydd ysgafn, er ei 'bwysau ef,  
I'th ysgwydd gref dy Hun.

- 2 Ti ddelliaist holl euogrwydd byd  
Crediniol, ar y pren ;  
Ac 'r wyt Ti heddyw yn eiriol tros-  
Eu beiau uwch y nen.

- 3 Cymer fy maich, cymer fy mhoen,  
A'm hofnau maith i gyd,  
A rho i mi heddwch yn dy glwy'  
Sydd lawer mwy na'r byd.

- 4 Fe gwmp fy ofnau 'gyd o flaen  
Dy gariad glân a'th hedd ;  
Holl ddychryniadau angeu hy',  
Ac uffern ddu a'r bedd.

- 5 Mae prawf o'th gariad dwyfol, gwir-  
Fel diliau pur ei flas ;  
Fe ddeil tan demtasiynau i'r lan  
Fy enaid gwan i maes.

- 6 O fanna pur ! O ddwyfol bris,  
Anwylaf is y ne' ;  
Gad i'r newynllyd heddyw gael  
Un dafn o hono fe.

- 7 Fe gerdd fynhraed yn hwylus iawn,  
Dof cyn prydawn i'r lan ;  
Os caf ond bwyta'r gwleddoedd hyn  
Caf ganu yn y man.

- 8 Ni ofna'i 'r byd, ni ofna'i 'r bedd,  
Rho brawf o'th hedd a'th rym ;  
Y cwbl sy 'n nychrynu 'n awr  
A gwmp i lawr yn ddim.

- 9 Fy enaid gwan fydd fel y graig,  
Yn gadarn yn ei le ;  
Ni thyn na byd, na chnawd, na 'r  
ddraig,  
O freichiau Brenin ne'.

## HYMN DCXXXVII.

**O** DERE 'lawr, Dywysog nen,  
A thyn fy mhen i 'n rhydd ;  
'R wy' wedi rhoi fy hun yn gaeth  
I elynion gwaetha' sydd.

- 2 Myfi fy hunan yw fy mhla,  
Fy nghalon yw fy nghlwy' ;  
Ac yma mae llochesau drwg,  
Cuddiedig fwy na mwy.

- 3 'D oes a'i glanha ond gallu 'r nef,  
A gallu 'r nef ei hun ;  
Yr hwn a chwilia 'maes ei bai,  
Ac a'i congwera hi 'n un.

- 4 Dere, awelon peraidd iawn,  
O'r bryniau graslawn draw ;  
Dadleithia\* 'm calon galed, gas,  
A hyny maes o law.

- 5 Y baich, y poen, a'r gwae,  
A'r euogrwydd maith yn nghyd,  
Rhaid i Ti gym'ryd ar dy wâr  
Yn gryno oll yn nghyd.

- 6 Can's 'r wyf yn teimlo 'm nerth yn  
ddim,  
Ac wanach 'r wyf yn myn'd ;  
Ac nid oes ynwyf ronyn grym  
On' fyddi im' yn Ffrynd.

- 7 O tódd yr adamantaidd, gas,—  
Gwna 'r gareg gras yn fwyn,  
I dderbyn pob rhyw feichiau f'ost  
Yn osod arni ddwyn.

\* Dadleithia—meiriola, todda.

## HYMN DCXXXVIII.

**M**AE 'r Ganaan hyfryd draw  
Yn dangos fel gerllaw,  
Yn ngoleu 'r ne',  
Dewch bellach tua 'r wlad,  
Gartrefle bur ein Tad,  
Na flined dim o'n traed  
Nes myn'd i'r ne'.

- 2 Grawn-sypiau yno sydd  
Yn hongian nos a dydd  
A'r winwydd pur,  
I ddi-sychedu y rhai  
Fu yn gruddfan tan eu gwae  
O gystudd a phob trai,  
Mewn anial dir.

- 3 Y pleser dwyfol rhad  
Yn sanctaidd dŷ fy Nhad,  
Anfeidrol ddrudd,  
Ei natur ddwyfol, gu,  
Yn burach fyrddiwn sy  
Na hwnw erioed a fu  
Gan fawrion byd.

- 4 Rhyw gariad fel y môr,  
Anfeidrol berffaith 'stor,  
Heb derfyn mwy,  
Sy 'n llifo 'n loew las,  
O tan y faingc i maes,  
I etifeddion gras,—  
Eu bywyd hwy.

- 5 O heddwch pur y ne' !  
'D oes neb a'i 'nebydd e'  
Tu yma i'r bedd !  
Ddeallodd neb erioed,  
Sy 'n trigo is y rhod,  
Y pleser sydd yn bod  
Mewn nefol hedd.

## HYMN DCXXXIX.

**M**AE ofnau, er eu grym,  
Yn methu gwneuthur dim  
'Nawr yn y nef ;  
Mae perffaith gariad pur  
O fewn i'r nefol dir,  
Yn gwel'd yn oleu clir  
Ei ogoniant Ef.

2 O nefol hyfryd wlad !  
Gartrefle bur fy Nhad,  
Ffynon o hedd !  
Mae fy ysbryd yn llesgau,  
Tan gystudd a phob trai,  
A hiraeth am fwynhau  
'Th dragwyddol wledd.

3 Mae pechod o bob rhyw  
Yn mron a'm curo i 'n fyw  
O tan fy maich,  
O ARGLWYDD, nertha 'm traed,  
Ti yw fy Nuw a'm Tad,  
Ac arwain fi i'r wlad,  
A nerth dy fraich.

4 Mae tonau 'r moroedd mawr  
Yn nghuro i'n lân i lawr,  
I'r dwfn dir ;  
O IESU, rho dy law,  
A dwg fi maes o law,  
I landio 'r ochr draw,  
I'r hafan bur.

#### HYMN DCXL.

O EDRYCH, IESU lawr,  
I waelod dyfnder mawr,  
Ar glwyfus ddyn,  
Sy wedi ei ddryllio 'n friw  
Gan bechod o bob rhyw,  
A gelynyon mawrion, griw,  
Oll yn gytun.

2 Euogrwydd o bob gradd,  
Sydd heddyw yn mron fy lladd,  
Fe 'm gwnaeth yn wan ;  
'R wy 'n methu sefyll dim  
O flaen gelynyon llym  
Sy 'n bostio eu hanferth rym,  
Yn mhob rhyw fan.

3 O dere, fywiol Air,  
'D oes gelyn oll a gair  
Wrthsaif dy ras ;  
Yr hyn fo yn dy fryd  
A ddaw i ben i gyd,  
Pe uffern fawr a'r byd  
A safai maes.

4 Ysbryd sancteiddiol rhad,  
Cymhwysa rin dy waed  
At aflan ddyn ;

Gwna 'r euog enaid hyn  
Fel canaid eira gwyn,  
A chongra ei feiau yn llyn  
Lawr tan dy draed.

5 Dy elynion y'nt, fy Nuw,  
Rho Di dy hun hwy 'n friw,  
Ti yn unig wnai ;  
Bydd canu am dy ddawn,  
Pan darfo boreu a nawn,  
Yn beraidd hyfryd iawn  
Byth yn parhau.

#### HYMN DCXLI.

'N AWR, achub, O fy Nuw ;  
Fy meiau i o bob rhyw  
Yn danbaid sydd ;  
I 'nghuro i yn ddi-baid,  
Fy maeddu yn y llaid,  
Ellyllon sydd yn blaid ;  
O rho fi yn rhydd.

2 Ond atat mae fy nghri,  
'D oes unig ond Tydi  
All fy nglanbau ;  
Mwy haeddiant sy 'n dy waed  
Na 'r pechod mwyaf gaed,  
A chryfach cariad rhad,  
Na grym fy mai.

3 'R wy 'n gorwedd wrth dy draed,  
Yr un aflana gaed  
O tan y nef ;  
Mor ffaidd yw fy mriw  
Na ffeindier fyth yn fyw,  
Ond gwaed fy anwyl Dduw  
A'i gwella ef.

4 O ffynon werthfawr rad !  
Yr afon fawr o waed,  
Ar Galfari !  
Rhed yma lawr i'r byd,  
A chudd fy meiau i gyd  
Yn nyfnder cariad drud  
Dy haeddiant cu.

5 Ac yna mi af trwy  
Gystuddiau fwy na mwy,  
Ond fy iachau ;  
Mi ddringa 'r creigydd fryd,  
Mi nosia 'r afon ddu,  
Mi gongra elynion lu,  
Heb lwfrhau,

#### HYMN DCXLII.

O'R mana nefol gwiw,  
Sy i'w gael yn ngardd fy Nuw,  
Rho dy fwynhau ;  
Fy enaid sydd yn wan,  
Yn methu dringo i'r lan,  
Yn prudd och'neidio tan  
Gystuddiau a gwae.

2 Mae yma nwydau cas,  
Yn ngyru i ffwrdd, i maes,  
O'r gwleddoedd rhad ;  
Mae euogrwydd tywyll draw,  
Ynte ar fy neheulaw,  
Yn magu ofnau a braw,  
Yn rhwystro 'm traed.

3 O gwawria, foreu ddydd,  
Pan cafwyf fyn'd yn rhydd  
O'm carchar caeth—  
Pan cwympo 'r muriau pres,  
A'r dorau sydd yn rhes,  
A minau fyn'd yn nes  
I ben fy nhaith.

4 Pryd hyny mi af trwy  
Elynion fwy na mwy ;  
O ddedwydd ddydd !  
Mae meddwl am y wawr,  
A'r Jubil hyfryd fawr,  
Yn peri i mi 'n awr  
Bron fyn'd yn rhydd.

#### HYMN DCXLIII.

PA le dechreuaf ganu  
Am ddwyfol farwol loes,  
A haeddiant mawr yr Aberth  
Fu yn hongian ar y groes ?  
Anfeidrol bwysau pechod  
A wasgwyd arno Ef,  
A'r pris anfeidrol dalwyd  
I groesi llyfrau 'r nef.

3 Mi ganaf tra fo anadl  
O fewn i'r ffroenau hyn  
Am gariad yn dyoddef  
Ar ben Calfaria fryn ;  
Am goron ddrain blethedig,  
Am hoelion garwa' eu rhyw,  
I ganu 'm henaid euog  
Fel eira gwyna' ei liw.

3 Fe rwygwyd muriau cedyrn,  
Fe dorwyd dorau prës  
Oedd rhyngom ni a'r bywyd,—  
Mae 'r bywyd heddyw yn nes ;  
Palmantwyd yr holl lwybrau,  
Mae 'r pyrth o led y pen,  
O ddyfnder dinas dystryw  
I eitha 'r nefoedd wen.

4 Mae 'r gelynyon oll mewn ofn,  
Ac ofn iddynt sy ;  
Cwmp arnynt, rhyw ddiwrnod,  
Ddigofaint nefoedd fry ;  
Mae 'n IESU mawr yn dyfod  
O Edom yn ei waed,—  
Fe syrth ein holl elynion,  
Fel Dagon, tan ein traed.

5 Wel, dewch yn mlaen yn ëon,  
Mae 'r Brenin gyda ni ;  
Mawr yw ei nerth a'i allu,  
Aneirif yw ei lu ;  
Rhai fyddlon, etholedig,  
Megys seraphiaid nef,  
A gollant waed eu calon,  
Os achos, trosto Ef.

6 Fydd neb yn llesg neu egwan  
Yn mhlith ei finteioedd maith,  
Ond cadarn, megys Dafydd,  
Gwna 'r llesgaf un, a'r llaith ;  
Ni saif o'n blaen ni elyn,  
Er cymaint fydd ei rym ;  
'D oes araf byth a lwydda  
Yn erbyn Seion ddim.

7 Mae 'r afon fawr yn canlyn  
Yn ddysglaer, dawel, glir,  
O'r graig y torodd allan,  
Hyd at gyffiniau 'r tir ;  
Mae 'r manna yn dyferu  
O'r nefoedd wen, yn rhad ;  
Ni dderfydd hwn nes bwyta  
O 'yd y nefol wlad.

8 Fe bery trugareddau  
'R cyfamod gwerthfawr drud,  
Pan darfo 'r greadigaeth  
Ddi-derfyn oll i gyd ;  
Ni bydd ond dechreu gwleed  
Daioni mawr y ne',  
Pan collo haul a lleuad,  
A'r holl blanedau eu lle.

9 'D yw 'r holl greadigaeth eang,  
Ddi-drai, aneirif lawn,  
Ddim agos yn datguddio  
Ei ogoniant Ef yn iawn ;—  
Fel y datguddia maddeu  
Y pechod du, a'r bai,  
Ei hedd, ei ras, a'i gariad,  
I'w etholedig rai.

10 Fe gliria 'n ffordd ei hunan  
Oddi yma i'r nefol wlad,  
Fe grea heddwch perffaith  
Rhyngom a'n hanwyl Dad ;  
Fe hwylia 'n traed i gerdded,  
Fe dyn ein beichiau lawr,  
Fe ddysg i'n tafod ganu  
Yn y caethiwed mawr.

—  
HYMN DCXLIV.

**N**I welwn ben ein siwrnai—  
Aeth miloedd yn y blaen,  
Ar hyd prif-flordd y Brenin,  
Trwy ganol dw'r a than ;  
Mae adsain yn ein clustiau  
O ryw aneirif lu,  
Yn chwareu eu haur delynnau  
O fewn i Seion fry.

2 Mae Salem heb ei llanw,  
Rhaid cael y llwythau 'nghyd,  
Pob rhyw, ac iaith o bobl,  
O bedwar gwynt y byd ;  
Daw tlodion ac efryddion,  
A gwywedigion gwan,  
Yn finteioedd heb eu rhifo,  
I Seion yn y man.

3 O enau plant dysylwedd,  
Sy heb feddu rhwysg na rhod,  
Ar fyrder iawn o amser,  
Perffeithia Duw ei glod ;  
Ei enw gaiff ogoniant,  
Mawr fydd ei deyrnas E',  
O'r gogledd i'r gorllewin,  
O'r dwyrain hyd y de'.

4 Dedwydd yr awr ein ganed,  
Yr awr y cawsom ras ;  
Dedwydd yr awr ein tynwyd  
O deyrnas dystryw 'maes ;

Dedwydd yr awr etholwyd  
Ni gan Dywysog nen,  
A'r hyfryd awr ein prynwyd  
Gan Iesu ar y pren.

5 'D oes heddyw neb i'w ganmawl  
Ond Tywysog mawr y ne',  
Ddyoddefodd ddiystyrwch,  
A phoenau yn ein lle ;  
Dystawed pob rhyw dafod  
Am neb rhinweddau dyn,  
Ond cludwn y gogoniant  
I'r Iesu mawr ei Hun.

—  
HYMN DCXLV.

**D**EWCH i'r frwydr, dewch yn  
union,  
Filwyr Iesu, yn foreu iawn,  
Chwi gewch weled buddugoliaeth  
Lân a helaeth y prydnewn ;  
Ef ei Hun, heb un dyn,  
Dery 'r gelyn yn ddi-gryn.

2 Y mae 'r 'fengyl wen yn curo,  
Ac yn codi baner gras,  
Mewn rhyw filoedd o ardaloedd,  
Ar y mynydd, yn y maes ;  
Y mae llef bur y nef  
Yn cyhoeddi ei haeddiant Ef.

3 Y mae gwleddoedd y briodas  
Heddyw wedi eu parotoi ;  
Y mae 'r Priod-fab â hiraeth  
Am ei briod-ferch yn glau ;  
Dewch i'r wledd, dyma hedd,  
Gwyd y meirw i'r lan o'r bedd.

4 O gwrandewch ar lais y delyn  
Euraidd fawr yn nhŷ ein Tad ;  
Sŵn y dawnsio sydd yn hyfryd,  
Sŵn eu tafod, sŵn eu traed ;  
Gwyn ei fyd, neb o'r byd,  
Ag a welo dy wynebpryd.

5 Ffarwel i chwi, bob eilunod,  
'Phwysa mil o'ch rhoddion un  
O'r rhai hyny roddir i mi  
Yn nghwmpeni Duw ei hun ;  
Gyda 'm Duw, anwyl yw,  
Mae pleserau uwch eu rhyw.

HYMN DCXLVI.

**N**ID oes, fy ARGWLWYDD mawr,  
Ar wyneb daear lawr  
Neb ond dy Hun,  
A ddeil fy enaid gwan  
Yn mhob cystuddiau i'r lan,  
A'i gweryd yn y man  
O bob yr un.

2 Yr wyt Ti yn fwy na'r byd,  
Na'r trysor sy ynddo 'gyd ;  
Yr wyt Ti 'n Dduw ;  
Y gronyn lleia' o'th hedd  
Sydd yn wastadol wledd,  
Fe gongra angu a'r bedd,  
Mor hyfryd yw.

3 On'd dedwydd ydyw 'r fan  
A syrhiodd i fy rhan,  
'Tifeddiaeth rad ?  
Rhyw wleddoedd pur a ga'i  
Fyth bellach eu mwynhau,  
Heb ddiwedd fyth na thrai  
Yn Salem wlad.

4 Caersalem hyfryd, wiw,  
Cartrefle bur fy Nuw,  
Dinas yr hedd ;  
'D yw 'r ddaear, er ei dawn,  
O foreu hyd brydnawn,  
Yn 'nabod dim yn iawn  
O'm hyfryd wledd.

—  
HYMN DCXLVII.

**N**I fedr dim o'r byd,  
A'i ddoethion oll i gyd  
Ddeall lle 'r wyf ;  
Mae 'm hysbryd fry uwchlaw  
Ei bleser yma a thraw,  
Neu ei ofid ar bob llaw,  
Mewn dwyfol glwyf.

2 Deganau, de'wch yn mlaen,  
Enynwch ynof dân,  
Yr y'ch yn wan ;  
Mae 'r pleser uwch y rhod,  
Melusa' fu erioed,  
O'r diwedd wedi d'od  
I'm henaid gwan.

T

3 'R wy 'n teithio yn y blaen,  
Mae f' enaid bach yn dân,  
Fe ddaeth y dydd ;  
Fe dywynodd arnai 'n awr,  
O'r nefoedd wen i lawr,  
Ryw hyfryd foreu wawr  
A'm gwnaeth i'n rhydd.

4 'D yw pechod, er ei rym,  
At allu 'r nefoedd ddim,  
Duw bia 'r dydd ;  
Myn ei ogoniant E  
Trwy uffern, dywyll le,  
Fe dyr pob cadwyn gre',  
Gwna ni yn rhydd.

5 'Fe ei Hunan bia 'r clod,  
Nid oes o'i fath E 'n bod,  
Oll, oll i gyd ;  
O'r dwyrain hyd y de'  
O gwr i gwr i'r ne',  
'Chaiff enw ond Efe  
I farnu 'r byd.

—  
HYMN DCXLVIII.

**W**EL, f' enaid, dos yn mlaen  
Heb ofni dw'r na than,  
Mae genyt Dduw ;  
'D yw 'r gelyn mwya' ei rym  
I'w allu anfeidrol ddim,  
Fe gongra 'm pechod llym,  
Ei elyn yw.

2 Mae gwaed ei groes yn fwy  
Na 'u natur danbaid hwy,  
Na 'u nifer faith ;  
Fe faddeu fawr a mân,  
Fe 'm golch yn hyfryd lân,  
Fe 'm dwg i yn y blaen  
I ben fy nhaith.

3 'D oes rhwystr ts y ne'  
Ag all ei atal E  
Wneud fo 'n ei fryd ;  
Rhy wan yw uffern griw,  
A'u dichell o bob rhyw,  
I wrthladd gallu 'm Duw,  
Fe baent yn nghyd.

4 O Brynwr mawr y byd,  
Tyr'd bellach mae 'n llawn bryd,  
Mae yn brydnawn ;

Gad i ni wel'd dy ras  
Ar frys yn tori 'maes  
Tros wyneb daear las,  
Yn genllif llawn.

- 5 Y geiriau oll i gyd  
Ro'ist in' o bryd i bryd,  
Am ddydd dy ras,  
Gad i ni glywed llef  
Efengyl gadarn, gref,  
O gwr i'r llall o'r nef,  
Yn swnio 'maes.

HYMN DCXLIX.

**F**Y IESU yw fy NUW,  
Fy Mrawd a'm Priod yw,  
Ffyddlonaf, gwir;  
Fy enaid arwain wnaeth,  
O'r gwledydd tywyll, caeth,  
I wlad o fêl a llaeth,  
Paradwys bur.

- 2 Efe aeth o fy mlaen  
Trwy ddyfnder dw'r a than,  
I'r llyfryd wlad;  
Mae 'n eiriol yno 'n awr  
O flaen yr orsedd fawr,  
Yn maddeu fach a mawr  
O'm beiau 'n rhad.
- 3 Mae lluoedd maith y ne'  
Yn cwmpo iddo Fe,  
Anfeidrol Dduw;  
Yn canu t'lynau clir  
Mewn gwyl dragwyddol bur,  
Am waredigaeth wir  
I ddydolryw.

- 4 Pan delo 'i saint yn nghyd  
O derfyn eitha 'r byd  
I deyrnas nef,  
Cânt dreulio oesoedd fry,  
Heb fesur, ac heb ri',  
I ganu am angeu du  
Ddyoddefodd Ef.

- 5 Bydd canu nefol, drud,  
Yn llanw 'r nef i gyd,  
Fyth, fythoedd mwy;

Seraphiaid tanllyd lu,  
Cerubiaid cywir, cu,  
A saint ffyddlonaf hy'  
Blith dra-phlith trwy.

HYMN DCL.

**C**RYFACH addewid Duw  
Na'r pechod gwaetha' ei ryw,  
Ni saif e' ddim;  
'D yw natur gadarn, gref  
Ond dim i dân y nef;  
Mae gair o'i enau Ef  
Yn fwy ei rym.

- 2 'R wy 'n awr yn llawenhau,  
Mewn gobaith ca'i fwynhau  
Y gongcwest glir  
Ar bechod o bob rhyw,  
Elynol uffern griw,  
Sy 'n rhwystro f' enaid gwiw  
I'r sanctaidd dir.

- 3 Fy meiau, fân a mawr,  
Sydd raid eu cael hwy 'lawr  
Cyn byddo hir;  
Fe fyn cyfreithiau 'r ne'  
I dynu 'r llygad de',  
A thori 'r fraich o'i lle,  
Ei air sydd wir.

- 4 Rhaid in' roi ffarwel lân  
'N chwantau, fawr a mân,  
Pleserau i gyd;  
Caf bleser maes o law  
Yn nhragwyddoldeb draw,  
Ei fath ni fu, ni ddaw,  
Gan fawrion byd.

HYMN DCLI.

**D**ACW 'r ardal, dacw 'r hafan,  
Dacw 'r nefol, hyfryd wlad,  
Dacw 'r llwybr pur yn amlwg,  
'R awr hon tua thŷ fy Nhad;  
Y mae hiraeth yn fy nghalon  
Am fod heddyw draw yn nhref',  
Gyda myrdd sy 'n canu 'r anthem,  
Anthem cariad iddo Fe.

- 2 Bynag beth a welodd llygad,  
Neu a deimlwyd is y rhod,  
Bynag beth a glywodd clustiau,  
Neu beth bynag a all fod;  
Holl wrthddrychau 'r ddaear isod,  
Mewn un fynyd ddarfu yn nghyd,  
Er pan ce's yr olwg leiaf  
Ar Iachawdwr mawr y byd.

- 3 Mae fy hwyliu heddyw yn chwareu  
Yn llawen yn yr awel bur,  
Ac 'r wy 'n clywed swm caniadau  
Peraidd paradwysaidd dir;  
Ffarwel haul, a lloer, a thrysor,  
Ffarwel ddaear, ffarwel ddyn;  
Nid oes dim, o tan yr wybren,  
Ag sy 'n fawr, ond Duw ei Hun.

- 4 Cauwch lygaid, nac agorwch  
Ar un gwrthddrych is y nef,  
Craffa, f' enaid, olwg syml  
Ar ei ogoniant ddwyfol Ef;  
Mae ei hanfod, mae ei enw,  
Mae ei Berson sanctaidd, pur,  
Cu'wch o war teganau natur  
Ag yw 'r nefoedd uwch y tir.

HYMN DCLII.

**'R** WYF yn teimlo gwynt y  
dehau  
Yn anadlu awel bur,  
Ac yn ysgafn gario f' enaid  
'Draw i fryniau Canaan dir;  
Aeth y gaua' garw heibio,  
Darfu 'r oer, dymhestlog wynt,  
Na ddoed mwy 'r cawodydd duon  
I fy mlino i megys gynt.

- 2 Anhawdd yfed dyfroedd chwervon,  
Er mai dyfroedd chwervon iawn  
Ydyw haeddiant fy mhechodau,  
O foreu-ddydd glas i nawn;  
Tro fy chwerv'der yn felusdra,  
Tro fy ngwenwyn cas yn win;  
Mi rof glod, mi ro' r gogoniant  
I'th ddoethineb Di dy Hun.

- 3 Tua Seion gwna i mi ddringad,  
Er mai serth yw 'r bryniau fry,  
A gelynlion hyll heb rifo  
Yn finteioedd o bob tu;

Dal dy afael ar fy enaid,  
N'ad un gelyn, er ei rym,  
Lithro'm troedd, neu wyro'm llygad,  
Na fy nialoni ddim.

- 4 Os i'r dwyrain cais i'm harwain,  
Draw i'r gogledd, neu i'r de',  
'R wyt Ti 'n gallach, 'r wyt Ti 'n  
ddoethach  
Na'i ddichellion cyfrwys e';  
Dwg fy enaid yn dy freichiau  
Tros y dyrus, ddiffaith dir,  
Ac na saif i neb gelynlion  
Nes myn'd trwy'r Iorddonen glir.

HYMN DCLIII.

**'R** WYF fi 'n ofni bob mynydyn  
'R wyf fi 'n edrych yma a  
thraw,  
Meddwl pan na bo gelynlion  
Bod gelynlion cas gerllaw;  
Mae fy mhechod yn fy mhwnian,  
Mae galluoedd uffern fawr,  
Gyda 'm chwant, yn mron a'm  
maeddu,  
Ac am gael fy mhen i lawr.

- 2 Yn y frwydr yr wyf finau,  
Curo ar aswy, curo ar dde',  
Ceisio edrych ar y Brenin,  
Meddwl p'odd y daliodd E';  
Nid oes gen'i ond edrych arno,  
Edrych arno ddeil i'r lan—  
Os gall dim o'r nef i'r ddaear—  
Mewn cyfyngder f' enaid gwan.

- 3 O fy Iesu, Ffrynd troseddwy,  
Achub heddyw, heddyw yw 'r  
dydd;  
Tor y pres a'r efydd cadarn,  
Gollwng f' enaid gwan yn rhydd;  
Dysg fy mysedd i ryfela,  
Dysg fi gadw 'm harfau 'n llym;  
Ac na âd etifedd bywyd  
Golli yn y frwydr ddim.

- 4 Mi â' 'mlaen heb aeth nac ofn,  
Ond it' sefyll ar fy ne';  
Nid yw uffern na'i chyfrwysdra  
Fwy na tharth i Frenin ne';



Fe ddiflana 'r holl elynion  
Fel yr ũs o flaen y gwynt,  
Heddyw'n awr, ond it' ymddangos,  
Megys yn y dyddiau gynt.

## HYMN DCLIV.

**Y** MAE gobaith wedi darfod,  
Gobaith daear, gobaith dyn ;  
Gobaith holl deganau natur,  
G'lymwyd ynot Ti dy Hun ;  
Ti yw 'r pleser, Ti yw 'r tegan,  
Ti yw 'r gwrthdrrych, Ti yw 'r  
Un,  
Ag y rhois fy holl serchiadau,  
Yn offrwm peraidd iddo ei Hun.

2 Nid yw meibion, nid yw merched,  
Sy á'u hwynebaw fel y wawr,  
Nid yw goglais aur ac arian  
Ddim at heddwch f' ARGLWYDD  
mawr ;  
Teiau, tiroedd, dewch yn finteioedd,  
Dewch á'ch trysor bob yn ddarn,  
Ewch yn ddim, pan gyntaf gwelir  
F' anwyl IESU yn d'od i'r farn.

3 Er fy mod yn ofni marw,  
Gwell yw marw im' na byw  
Mewn rhyw fywyd o och'neidiau  
Gan elynion o bob rhyw ;  
Eto 'd wyf fi 'n blino ymladd,  
Os Ti, ARGLWYDD, fydd o'm rhan ;  
Ti yw 'r nef, a Thi yw 'r ddaear,  
Oll yn oll i'm henaidd gwan.

4 Dere dy Hun i lawr i'r frwydr,  
Cyhoedda faddeu, cyhoedda  
hedd ;  
Rho i mi ronyn bach o deimlo  
Peraroglaui 'r nefol wledd ;  
Byw neu farw, fel y mynost,  
Ti ga'i drefnu oll i gyd,  
Dda a drwg, ddygwydda i mi,  
Tra f'wy 'n aros yn y byd.

## HYMN DCLV.

**E**R fod angeu yn fy mygwith,  
Er fod angeu yn fawr ei rym

Er fod pechod cas o'i ochor,  
Sina dywyll, yntau yn llym ;  
Duw sy 'n fwy na nef nac uffern,  
Mwy na 'mhechod, mwy na 'mai ;  
Ofna'i fyrddiwn o'u rhifedi  
Os ca'i fynyd o'th fwynhau.

2 Mae dy gariad uwch pob ofnau,  
Mae yn dy gariad fentro 'mlaen  
Trwy 'r afonydd dyfnion, geirwon,  
Tros fynyddau, a thrwy dân ;  
Caru gongra fy mhechodau,  
Caru ddal fy enaid gwan,  
Er pob dim a guro arna'i,  
Yn gadarnaf un i'r lan.

3 'R wyf fi'n darfod ág wy'n weled,  
Mi ddarfyddais heddyw á dyn ;  
'R wyf fi 'n twymo at fy IESU  
Uwch beth bynag sy wrthwy'  
'nglŷn ;  
Mi ddyoddefaf w'g a chariad,  
Erlid atgas neu fwynhau,  
Ac mi áf i fynydd Seion  
Heb fy siomi gan y ddau.

4 Dringa' i fyny i'r Balmwydden,  
Mi gaf fwyta 'r sypiau pur,  
Sy 'n digoni y rhai sychedig,  
Pererinion Salem dir !  
Mi gaf weled gwlad addewid  
Sydd yn llifo o laeth a mêl,  
Mi gaf fyned i'w meddianu,  
Doed y croesau pena' ddel.

## HYMN DCLVI.

**O**TAN y nef nid oes  
Ond dwyfol loes fy Nuw ;  
Ag all gongcwerio 'n lân  
Fy mhechod o bob rhyw ;  
Ni all byd, ni all cnawd, ac uffern lu  
I wynebu dim o'm HARGLWDD cu.

2 Ei Hun boed iddo 'r clod  
Am iddo fod yn fwy,  
A bod ei amnaid Ef  
Yn drech na 'u dyfais hwy ;  
Gwna ddial llawn, ryw ddydd sy 'n  
d'od,  
Ar feiau maeddodd i erioed.

3 Ti, annghrediniaeth gas,  
Wrth'nebodd ras y nef,  
A geisiaist osod maingc  
O fewn i'w babell Ef ;  
Dysgwyliaf dro caf wel'd yr awr  
Caiff dy eisteddfa ei threiglo 'lawr.

4 'R wy'n teimlo hiraeth cry',  
R wy'n teimlo syched mawr,  
Bob mynyd awr o'r dydd  
Am gael fy meiau 'lawr ;  
O Ysbryd pur, Gweithydd y nen,  
Y gwaith ddechreuaist dwg i ben.

5 Rho argyhoeddiad cry',  
Rho ofid heb ei ryw,  
Am bob rhyw gwmwl du  
Sy rhyngof fi a'm Duw ;  
Gwna awyr glir rhyngof a'r nen,  
A haul ddysgleir-wen uwch fy mhen.

6 Rho im' gawodydd pur,  
Ar gynar hir brydnawn,  
I ddofi 'r wresog hin,  
A maethu 'r egin grawn ;  
O hyfryd haf, danfon i maes  
Holl beraroglaui pur dy ras.

## HYMN DCLVII.

**N**I thrig awelon ne'  
Mewn dyfnder pydew cas,  
Ni thrig cysuron neb  
Mewn ysbryd heb dy ras ;  
Pur yw dy swydd, pur yw dy le,  
Fy Nuw, o fewn i'r ddaer a'r ne'.

2 O ARGLWYDD, tyr'd i lawr,  
Gwna drigfan it' dy Hun,  
Teml sancteiddiol fawr,  
O galon aflan dyn,  
A thrig yn hon, fel Seion gynt,  
Er pob rhyw dywyll 'stormus wynt.

3 Mae 'r corph o aflan wedd,  
Mae 'r cnawd yn ffaidd iawn ;  
Ar frys rhaid iddo fedd  
Idd ei sancteiddio 'n llawn ;  
Fe ddaw i'r lan, ar foreu wawr,  
Yn gymhwys fel ei ARGLWYDD mawr.

4 Ac yno bydd yn un  
Y corph a'r enaid hyn,  
Yn moli Duw ei Hun  
Fu farw ar y bryn ;  
Wedi anghofio 'r byd a'i wae,  
Yn yfed dyfroedd i barhau.

5 Tr'wy', ARGLWYDD, yn y byd,  
Rho 'm golwg ar y wlad,  
Yr etifeddiaeth fry,  
Pleserau t'f fy Nhadr ;  
A'r gwleddoedd maith sydd yn par-  
hau,  
Lle nad oes gofid, poen, na gwae.

## HYMN DCLVIII.

**N**ID tegwch daear gron,  
Na thrysor hon na'i da,  
Na'i holl bleserau maith o'u bron  
Yr awrhon a'm boddha ;  
Ond trysor uwch y ser,  
Yn ninas bêr fy Nhadr,  
Yn mhlith y dorff, mewn gwisgoedd  
gwyn,  
A ganwyd yn y gwaed.

2 Mae 'r holl greadigaeth faith,  
Amrywiol waith dy law,  
A'r holl deganau o bob tu,  
Rhai yma sy', neu draw,  
Yn mhell yn fyr eu pwys  
I'w cynwys yn dy le ;  
Ni leinw 'm calon ddim yn awr  
Ond Brenin mawr y ne'.

3 Ti droist y ffrwd yn oll,  
Ti wne'st i gnawd roi lle,  
Er ei gyndynrwydd, er ei rym,  
I gyfraith lem y ne' ;  
Ail natur heddyw im'  
Yw ymladd grym y don,  
Mae awydd ynof fwy na mwy  
Fyn'd trwy 'r Iorddonen hon.

4 'D oes gwrthdrrych heddyw i'w  
gael  
O gwmpas daear fras,  
Ag etyb nwydau cryfion, cun,  
Ond IESU ei Hun a'i ras ;  
'D oes gysur wrthwy' 'nglŷn,  
'R wy 'n dlotaf, un ei ryw,  
Os yn ymddifad bydda 'n hir  
O gwmmi pur fy Nuw.

- 5 'R wy 'n anobeithio 'n lân  
O'r cyfan ts y rhod,  
Dystrywir fi, pa beth a wnaif,  
Os hebot caf fi fod!  
'D oes barn o tan y ne'  
Fel im' fod heb dy ras;  
'D oes trysor maith, mewn bro na  
bryn,  
Wna 'r golled hyn i maes.
- 6 Rhois heibio, er dy fwyn,  
Bob peth a glywais son;  
Ni chaiff un dim, o tan y ne',  
Artrefle 'r addfwyn Oen;  
Pan unwaith delo 'mewn  
Deganau cnawd a byd,  
I'w eu cystadlu â dwyfol glwyf,  
Eu ffeiddio 'r wyf yn nghyd.
- 7 A thyma 'r fflam sydd fwy  
Yn congro pob rhyw dân,  
Yn llosgi sothach gwag y byd  
I gyd yn ulw mân;  
Yn maeddu 'm natur gref,  
Yn gwneud i'r nef gael lle,  
Ac yn fy nghymell i roi 'r mawl  
Yn hollow iddo Fe,
- 8 Darfu perth'nasau a gwaed,  
Y fam, a'r tad, a'r brawd,  
A phriod hefyd aeth yn ddim,  
Holl achau, a grym, a chnawd;  
Ni ddyry 'r enwau hyn,  
P'odd bynag maent yn gun,  
Lawenydd na gorfoledd im'  
Heb dy enw Di dy Hun.

## HYMN DCLIX.

**T**I dy Hunan yw fy Mhriod,  
Ti dy Hunan yw fy NUW;  
Ti dy Hunan yw fy ngobaith,  
A'm hapusrwydd tra f'wyf byw;  
'R wyf fi 'n llawn, ddiddig iawn,  
Ddala i ragor ddim pe cawn.

- 2 Tyr'd, greadigaeth, rhana 'th  
gyfoeth,  
Peth i'r dwyrain, peth i'r de',  
A chais lanw awydd dynion,  
Gwna hwy 'n ddiddig yn eu lle;  
All y byd lanw 'mryd,  
Dim ond cariad gwerthfawr, drud.

- 3 Nid wy 'n cenfigenu gronyn  
Ar y rhei'ny sy 'n mwynhau  
Tiroedd meithion, teg a hyfryd,  
A phalasau sy 'n parhau;  
Teyrnas ne', gydag E,  
Yw fy sanctaidd, hyfryd le.
- 4 Nid yw holl bleserau natur  
Yn y glorian bwysig, fawr,  
Ond fel llwch na phwysa ronyon  
Tuag at ei thynu 'lawr,  
I fwynhad, cariad rhad,  
Sy 'n drag'wyddol ei barhad.
- 5 'Nawr 'rwy 'n darfod â marwoldeb,  
Holl bleserau cig a gwaed,  
Ac yn clywed plant afradlon  
Heddyw yn canu yn nhŷ fy Nhad  
Blant y byd, de'wch yn nghyd,  
Cym'rwch ei bleserau 'gyd.
- 6 Y mae gen'i bleser ddigon  
Yn ngoleuni pur y ne',  
'R wyf fi 'n bwyta pur ddanteithion  
Dim ond edrych arno Fe;  
Gwel'd ei wedd, profi ei hedd,  
Sydd yn rhyw dragwyddol wledd.

## HYMN DCLX.

**Y**MNEILLDUWCH, bethau 'r  
ddaear,  
Pethau natur, pethau 'r byd;  
'R wy 'n dymuno peidio gwrando  
Ar eich holl ddeniadau 'nghyd;  
Unig Un, uwch na dyn,  
Mae fy enaid wrtho yn nghlyn.

- 2 Doed y diluw i deyrnasu  
Eto unwaith fel o'r blaen,  
Doed hen *Gaos* i gymysgu  
Daeaar, awyr, dw'r, a thân;  
Dedwydd fi, *Chaos* lli',  
Tra fo 'm Duw 'n teyrnasu fry.
- 3 Colled pob blodeuyn hyfryd  
Ei holl degwch is y rhod,  
Doed salwineb ar bob wyneb  
Y creaduriaid sydd yn bod;  
Tegwch byd sydd yn nghyd,  
Oll yn wyneb Prynwr drud.

## HYMN DCLXII.

**P**'AM y trigaf mewn anialwch,  
'Mhlith bwystfilod cas eu  
rhyw,  
Lle y colodd myrdd y llwybrau,  
Llwybrau heddwch, llwybrau  
byw;  
At y tir sanctaidd, pur,  
Mae fy amcan cywir, gwir.

- 2 Mae yma darth, a niwl, a llynoedd,  
Ag sydd yn gwenwyno 'r lle;  
Mae yma rywbeth sydd yn mogi  
Goleuadau pur y ne';  
Dere 'n awr', Iesu mawr,  
I'r anialwch ata'i 'lawr.

## HYMN DCLXI.

**P**AN bo glaswellt gwyrdd y  
ddaear  
Wedi methu d'od i'r lan,  
Pan bo tegwch dae'r luosog  
Wedi darfod yn mhob man;  
Mi gaf wlad, hyfryd rad,  
Faith, dragwyddol ei pharhad.

- 2 Fe agorir i mi yno  
Ryw eangder maith heb ri'  
O ddirgelion na ddeallir  
Heddyw ar ein daear ni;  
Cariad rhad, yn y Tad,  
A ddatguddiwyd yn y gwaed.
- 3 Fe amlygir rhyw ogoniant  
Na ddeallodd calon dyn,  
Yn yr iechydwrriaeth eang,  
Dyfais Duwdod mawr ei Hun;  
Ar y llawr, neb yn awr,  
Ni all ddal fath bethau mawr.
- 4 Pa mor ddwyfol, pa mor hyfryd,  
Pa mor orfoleddus fydd,  
Pan tywyno gyntaf allan  
Foreu 'r tragwyddoldeb ddydd,  
Gael mwynhau, heb ddim trai,  
Bethau bellach fo 'n parhau!
- 5 Pa mor aml, mor amrywiol,  
Mor anfeidrol, mor ddi-drai,  
Fydd y pethau uwch pob deall  
Yn y bywyd ga'i fwynhau!  
Nid wyf 'n awr, ar y llawr,  
Ddim yn gwel'd na deall fawr.

## HYMN DCLXIII.

**B**ETH wna'i yma yn nghyn-  
teddau  
Angeu a phechod, ofnau a phoen?  
Lle mae holl ellyllon uffern  
Yn gwrth'nebu 'r addfwyn Oen;  
Tir o wae, tir o drai,  
Tir o dralloed i barhau.

- 2 Maglau dyrus, manwl sy yma,  
Maglau dyrus, manwl draw,  
Dysgwyl mae ellyllon creulon  
I'm dyfetha i ar bob llaw :  
Rho dy ras, tyn fi 'maes  
O'r anialwch tywyll, cras.
- 3 Ond, fy Iesu, Ti a wyddost  
Nad oes gan elynion un  
Hawl mewn enaid ag dyoddefaist  
Ar y groesbren drosto dy Hun ;  
'R wyt Ti 'n fwy oll na hwy,  
Mi ymddiriedaf ynot mwy.
- 4 Mi 'madewais â phob gwagedd  
Welais i eto yn y byd,  
Deiliad wyf i Frenin arall—  
Deiliad wyf i'm Prynwr drud ;  
Nid oes dim, er ei rym,  
Wna i'm henaid ildio dim.
- 5 Nid oes i mi wneud cytundeb,  
Na dim heddwch o un tu,  
Ag un ellyll, pa ryw bynag,  
Hen elynion nefoedd fry ;  
'Ngelyn yw, gelyn Duw,  
Mi ryfela' tra f'wyf byw.
- 6 Gwên a chariad y creadur  
Sydd yn elyn tyn i'r nef ;  
Angeu, dystryw, a marwolaeth  
Ydyw gwrando arno ef ;  
Dal fi 'r lan, 'd wyf ond gwan,  
Gwna i mi wylled yn mhob man.
- 7 Dal fi 'n gadarn hyd nes delo  
Amser hyfryd o ryddhau,  
A chael yn lle temtasiynau  
Yn dragywydd dy fwynhau ;  
Dyna 'r pryd, gwyn fy myd,  
Derfydd fy ngofidiau 'gyd.



## *Gloria in Excelsis:*

NEU

HYMNAU O FAWL

I

DDUW A'R OEN.

NODIADAU GAN Y GOLYGYDD.

FEL y Gweithiau blaenorol, daeth GLORIA IN EXCELSIS allan ar y cyntaf yn rhanau. Mae yn ddiamheu fod rhyw resymau am eu cyhoeddi felly. Yr oedd cyhoeddi llyfr o dipyn o faint yn gryn anturiaeth y pryd hwnw. Ychydig iawn o'r werin oedd yn medru darllen; ac yr oedd yn rhaid i'r Awdwr ddibynu bron yn gwbl arnynt hwy am gefnogwyr. Trwy gyhoeddi ei weithiau yn dafleni iselbris, yr oedd yr anturiaeth yn fwy diberygl iddo ef, ac ar yr un pryd yr oedd yn eu gwneuthur yn fwy cyrhaeddadwy i'r bobl.

Cyhoeddwyd y Rhan Gyntaf yn 1771, wedi ei hargraffu yn Llanymddyfri, gan Rees Tomas; a'r Ail Ran yn 1772, wedi ei hargraffu yn Nghaerfyrddin, gan Ioan Daniel.

Prin y gallasai neb ystyriol ddysgwyl hyd yn oed i Williams ei hun wneuthur dim yn well na'r Emynau a geir yn y Casgliadau blaenorol; ond yr ydym yn meddwl fod y GLORIA, ar rai ystyriaethau, yn rhagori arnynt oll. Heblaw fod yr Awdwr yn treiddio yn uwch, uwch, ac yn ddyfnach, ddyfnach i ddirgelwch duwioldeb, a'i odlau yn myned yn fwy-fwy dyferol dan yr eneniad dwyfol, y mae ei grebwyll a'i ddychymyg bywiog dan lywodraeth barn addfetach, a chwaeth oedd yn myned yn fwy pur a sobr. Yr ydym hefyd yn tybied fod, ar gyfartaledd, fwy o Emynau o'r Gwaith hwn wedi glynu yn nghalonau y Cymry, nag o'r un o'i weithiau ereill.



## Gloria in Excelsis.



### HYMN DCLXIV.

- D**OES unrhyw bleser yn y byd  
Trafferthus ag all lanw  
'mryd,  
Dim ond cael edrych ar dy wedd ;  
Fy nymuniadau oll yn un,  
Sy â'u terfyn ynot Ti dy Hun ;  
Fy holl ddigrifwch a fy hedd.
- 2 Mi dora 'r c'lymau oll i gyd  
Sy rhyngwyf â gwrthddrychau 'r  
byd,—  
A phob cariadau gwag y llawr ;  
Mi adawaf enwau brawd a ffrynd,  
A char a phriod anwyl fyn'd  
Yn ddim, er mwyn dy enw mawr.
- 3 O rhwyga 'r cwmwl dudew sy  
Yn cuddio gwedd dy wyneb cu,  
Yr Hwn yn llanw'r nefoedd sydd :  
Mae pelydr dy ddwyfol wedd  
Yn goleuo conglaun tywylla 'r bedd,  
Ac yn troi 'r nos yn berffaith  
ddydd.
- 4 Mae yma gystudd, mae yma wae,  
O un i'r llall yn llwfrhau,  
Ac yn rhyw ddirwyn yn y blaen :  
Ac oni chaf fi oleuni 'r dydd  
I gerdded llwybrau 'n dywyll sydd,  
Mi golla 'r ffordd i Salem lân.
- 5 Un peth wyf arno ddydd a nos,  
Neu deued cystudd, deued croes,—  
Hiraethu 'n ddyfal am fy Nuw ;  
'D oes unrhyw bleser, nac na dawn,  
O'r boreu gwyrddlas hyd brydnawn,  
Rydd i mi gysur tra f'wyf byw.

- 6 Pan 'drychwyf i'r dwyrain, neu i'r  
de',  
'D oes neb yn anwyl fel Efe,  
Mae 'n llanw fy ysbyrd oll o'r  
bron :  
Dyoddefaf golled o bob rhyw  
Yn mhresenoldeb pur fy Nuw,  
A holl gystuddiau 'r ddaear hon.

### HYMN DCLXV.

- D**YHIDLA, IESU, 'th nefol ras,  
Ar f' enaid egwan, crindir,  
cras ;  
Gysuron gloew, perffaith, gwiw ;  
'Chaiff unrhyw eilun yna i fod,  
A welodd llygad is y rhod,  
Yn gwmwl rhyngof fi â'm Duw.
- 2 'Chaiff pleser na theganau 'r un,  
O enw mawr, neu hyfryd lun,  
Un loches ddirgel yn fy mryd :  
Ond fy ysbyrd wedi ei wir ryddhau,  
A neidiai atat Ti yn glau,  
Tros bob rhyw eilun yn y byd.
- 3 Ar unwaith 'r wy 'n ymado 'n lân  
A'r holl greadigaeth fawr a mân,  
Ac nid wy 'n 'mofyn yn eu lle  
Ond cael, fy ARGWLWYDD, dy fwyn-  
hau,  
Mewn llawnder, neu mewn eitha'  
traï,  
'R wy'n drech na'r cwbl tan y ne'
- 4 Ti lenwi fy meddyliau yn llawn,  
A'm dymuniadau yn berffaith iawn ;  
'D oes dim yn eisieu lle bo 'm  
Duw ;

Bydd Di yn drysor, bydd yn rhan,  
Mi anghofia 'r ddaear yn y fan,  
A'i holl wrthddrychau pena' eu  
rhyw.

- 5 Mwy na therfysger f' enaid drud  
Gan rwysg a dwdwr gwag y byd,  
Ond llyncer fi yn ddystaw iawn  
Yn y llawenydd sy 'n parhau  
'N dragwydd, heb na maeth na  
thraï,  
Fel diluw cryf, neu foroedd llawn.
- 6 Datguddia 'n gyflawn im' ar frys  
Ogoniant maith dy nefol lys,  
Di-drangc bleserau 'r sanctaidd  
dir ;  
O dangos im' mai Ti yw 'm rhan,  
A d'wed ca'i ddyfod yna i'r lan,  
I'th gyflawn weled cyn bo hir.

### HYMN DCLXVI.

**A**NWYLAF wrthddrych f' enaid  
drud,  
Fy holl hyfrydwch yn y byd,  
Na 'mad â mi, un eiddil, gwan,  
Sy'n teimlo'th eisieu yn mhob man.

- 2 O aros yma yn ngwres y dydd,  
Fy nghystudd yn chwanegu sydd ;  
Aros, 'r wy 'n gruddfan tan y groes,  
Nes ymaith ffoi cymylau 'r nos.
- 3 Aros, nes codi 'r seren sydd  
Yn arwain hyfryd oleu 'r dydd,  
A chodi 'r haul oleu-wen, glir,  
Sy 'n dangos bryniau Salem dir.
- 4 F' Anwlyd, tro dy wyneb pur,  
'D oes yn y byd un pleser gwir ;  
Pob gobaith a phob cysur cun  
Sy 'n aros ynot Ti dy Hun.
- 5 Ond yn dy absenoldeb mae  
'R pleserau goreu yn troi 'n wae ;  
'D oes a 'nigona i tra f'wy' byw  
Ond profi hyfryd heddd fy Nuw.

### HYMN DCLXVII.

- P**ERERIN wyf mewn anial dir,  
Sychedig am gysuron gwir ;  
Crwydro fy amser, a llesgau  
O hiraeth cywir dy fwynhau.
- 2 O tyred oriau, tyred ddydd,  
I'm henaid i gael myn'd yn rhydd ;  
Carcharwr wyf mewn anial wlad,  
Yn dysgwyl beunydd am ryddhad.
- 3 Tan ryw gaethiwed poenus iawn,  
Yn dysgwyl foreu, dysgwyl nawn ;  
Mi gara 'r fan, mi gara 'r dydd  
Osodo f' enaid bach yn rhydd.
- 4 Ac mi ddysgwyliaf ddydd a nos,  
Fel un lluddiedig tan dy groes ;  
Ac nid oes arall fan lle mae  
Un gronyn gobaith o'm iachau.
- 5 Haul y Cyfiawnder ddysglaer, gu,\*  
Tywynna trwy bob cwmwl du ;  
O tan dy esgyll dwyfol mae  
Y Balm o Gilead sy 'n iachau.
- 6 Mae gras yn rhyw anfeidrol 'stor,  
A doniau ynot fel y môr !  
O gad i druenusaf ddyn  
Gael profi gronyn bach o'i rin.
- 7 Ac os bydd i Ti faddeu 'mai,  
Ac o fy archollion fy iachau,  
Dy glod, dy ras, a'th enw gwiw  
Gaiff fod yn bleser im' tr'w'y byw.

### HYMN DCLXVIII.

- T**YDI fy unig ARGWLWYDD yw,  
Terfyniad pob cystuddiau 'n  
fyw,  
A diwedd gofal, diwedd gwae ;  
Pob trallod sy o fewn y byd  
Sy 'n darfod ynot Ti yn nghyd ;  
'D oes yn dy gwmmi boen na  
thraï.
- \* Mae y Darllenwydd yn hysbys, bellach,  
fod Williams yn wastad yn cyfrif yr baul yn  
y rhyw fenywaidd.

- 2 Pa bryd y ffy cymylau 'r nos  
Sy 'n cuddio rhinwedd gwaed y  
groes?  
Pa bryd ca'i wel'd yn oleu clir  
Yr etifeddiaeth ddaeth i'm rhan,  
Wrth goelbren nef, yn oreu fan  
O'r hyfryd, sanctaidd, nefol dir.
- 3 Mae oerfelgarwch yn fy mryd  
At oll wy 'n weled yn y byd;  
Rhyw dwyll di-ddiwedd y'nt o'r  
bron:  
Ymddangos mewn rhyw degwch  
llawn,  
Ond gwenwyn poeth a thanllyd  
iawn  
Sy'n holl wrthddrychau'r ddaear  
hon.
- 4 Am hyny dangos im' yn glau  
Wrthddrychau 'r bywyd sy 'n  
parhau,  
Trysorau sydd o fewn i'r llen;  
Y tegwch a'r gogoniant sy  
'N dysgleirio yn dy wyneb cu,  
Nad oes o'i debyg is y nen.
- 5 Ni chas y byd ei brofi erioed,  
Na gwybod beth sydd yno 'n bod;  
Llygad nis gwel, a chlust nis  
clyw,  
Ni ddaeth i feddwl dyn ychwaith  
Y pethau er tragwyddoldeb maith,  
Sydd yn guddiedig yn fy Nuw.
- 6 Pan caffwy 'th deimlo yn mhob  
dawn,  
Fe lenwir fy holl nwydau yn llawn,  
Ac yn myn'd trosodd, gariad  
pur;  
Llawenydd di-drangc fel y môr,  
A hedd yn annherfynol 'stor,  
Wrth wel'd cyflawni 'r 'ddewid  
bur.
- 7 Mae meddwl am yr oriau pur,  
Ca'i rodio 'r Paradrwysaidd dir,  
Ac yfed pleser sy 'n parhau,  
Mewn gwlad heb lewyrch haul na  
lloer,  
Na thertysg tir, na thwrf y môr,  
Yn fy rhoi 'n awr i lawenhau.

## HYMN DCLXIX.

- M**AE'r holl greadigaeth faith yn  
nghyd,  
Neu yn y môr, neu yn y byd,  
Yn eitha' eu rhwysg, eu rhif, eu  
rhyw, —  
Yr holl ogoniant maith yn un,  
A welodd neu a glywodd dyn,  
Grynho'wd yn hollol yn fy Nuw.
- 2 Tydi yw 'r ffynon fawr, ddi-drai,  
Sy 'n rhoddi dyfroedd i barhau,  
A ffrydiau o anfeidrol ryw;  
Rhyw dir o gariad yw dy hedd,  
A nef y nef yw gwel'd dy wedd,  
Y nawdd a'r cysur mwya 'n fyw.
- 8 'D oes doniau tan yr wybr las  
A ddyd dy enw mawr i maes,  
Na geiriau etyb is y rhod;  
Ac nis gall yr angylion 'chwaith  
Trwy gymysg pur ganiadau maith  
Ddadseinio'r ganfedd ran o'th glod.
- 4 Pa bryd ca'i deimlo 'r awel gref  
Sy 'n chwythu 'ffwrdd gymylau 'r  
nef,  
I mi gael gweled Salem bur?  
Gogoniant dwyfol uwch y rhod  
Nas gwelodd llygad dyn erioed,  
Ac nas mwynheir mewn anial dir.
- 5 Pe cawn ond hollol dy fwynhau,  
Darfyddai 'mhoen, darfyddai  
'ngwae,  
Fe lenwid rhanau f' enaid drnd;  
'D oes euogrydd, ofn, na dim  
poen  
Fyth yn ngorphwysfa lân yr Oen,  
Fe sy 'n teyrnasu yno 'gyd.
- T**I, IESU, Frenin nef,  
Fy Anwylyd a fy Nuw;  
Yn eitha' pell o dŷ fy Nhad,  
Mewn anial wlad 'r wy 'n byw;  
Mewn ofnau 'r wyf a braw,  
Bob llaw gelynyon sydd;  
O addfwyn IESU, saf o'm rhan,  
A thyn y gwan yn rhydd.

## HYMN DCLXX.

**T**I, IESU, Frenin nef,  
Fy Anwylyd a fy Nuw;  
Yn eitha' pell o dŷ fy Nhad,  
Mewn anial wlad 'r wy 'n byw;  
Mewn ofnau 'r wyf a braw,  
Bob llaw gelynyon sydd;  
O addfwyn IESU, saf o'm rhan,  
A thyn y gwan yn rhydd.

- 2 Mae Satan ar fy ne'  
Yn pleidio grym fy chwant,  
Ac mae euogrydd, gwmwl du,  
Yn cadw 'r goleu 'bant:  
Mae pechod gyda 'r rhai'n,  
A'i uffernol sain mor gry';  
'R wyf finau 'n diangc rhag i'm dal,  
I fynydd Calfari!
- 3 Ac yna tan y groes  
Mi glywaf gryfach llef;  
Mi glywa' och'neidiau dwyfol, gwir,  
Gruddfanau pur y nef:  
Ac yna gwna'i fy nyth,  
Yn mhlith rhai dua' eu rhyw;  
Mi dafaf fy euogrydd du  
Yn hollol i fy Nuw.
- 4 Mae rhinwedd yn ei waed  
I faddeu beiau mwy  
Nag y gall angel fyth na dyn  
I rifo mo honynt hwy;  
Mae ffynon ar y bryn  
A ylch yn wyn a gâl  
Bechodau o ryw ffeiddia' erioed,  
Rifedi 'r tywod mân.
- 5 'D oes diwedd fyth, na thrai,  
Ar gariad angeu loes;  
Uwch pris o'r gwerthfawrocafgaed  
Yw haeddiant gwaed y groes;  
Fe gana 'r *Negroes* du,  
Fe gana 'r *Indian* draw;  
Fe faddeu i'r aflan oes y sy,  
Fe faddeu i'r oes a ddaw.
- W**EL, mi ddarfyddaf mwy  
Yn lân â haeddiant dyn;  
Ni chym'rir iawn o flaen fy Nhad,  
Ond dwyfol waed ei hun:  
Gofynion nef sydd fwy,  
A'u taliad hwy mor ddrud,  
Nas tâl mynyddau 'r ddaear hon  
Pe 'n berlau o'r bron i gyd.
- 2 O'r afon loew hon  
Tardd cysur o bob rhyw;  
Mil o rasusau hyfryd, pur,  
Fel blodau clir eu lliw;
- Er bod pob llwyth ac iaith  
Yn finteioedd maith, di-rân,  
Yn dirwyn at y loew nant,  
Cânt dd'od i bant yn lân,
- 3 Mae 'r deillion yma 'n gwel'd,  
A'r cloffion hefyd sydd  
Wedi cael hollol, lwyr iachad,  
Yn llamu â'u traed yn rhydd;  
Mae rhai sydd â ffaidd friw,  
Uwch meddyg i'w iachau,  
Yn cael wrth brofi'r bywiol ddw'r,  
Eu gwella a'u glanhau.
- 4 Minau, ffeiddiaf un  
O'r pelerinion gwan,  
Ond cael fy ngolchi oddiwrth fy  
mai  
Fyth dringo wna'i i'r lan;  
Y dwyfol, nefol loes,  
Cystuddiau 'r groes a'i briw,  
A'm nertha fyn'd o'r byd a'i wae  
I'r man lle mae fy Nuw.
- 5 Os gelynyon ddaw i'm cwrdd,  
A rhyw ddaearol swyn,  
Mi 'drycha 'r aberth ar y pren,  
Ddyoddefodd er fy mwyn;  
Fe ddiffodd cariad pur  
Fu ar hoelion dur bob ple  
Sy gan y byd, y cnawd, a chwant,  
I'm denu o ffordd y ne'.

## HYMN DCLXXII.

- M**EWN anial, dyrus le,  
Heb neb cwmpeini dyn,  
Y gallwn, ond cael cwm'ni Duw,  
Yn dawel fyw fy hun:  
Fe leinw oll yn lân,  
Tu mewn, ac o tu maes;  
Nid yw 'r creadur, er ei rym,  
Yn helpu dim o'i ras.
- 2 Mae tywyll, anial nos,  
Peryglon o bob rhyw,  
Holl ofnau 'r bedd, pob meddwl  
gwan,  
Sy 'n ffoi o'r fan bo 'm Duw;  
Ond tegwch dwyfol, clir,  
A chariad pur, a hedd,  
Gaif fod yn wleddoedd pur, di-drai  
I'r rhai sy 'n gwel'd ei wedd.



- 3 Y fan b'ost Ti, fy Nuw,  
Anfarwol fywyd sy  
Yn tarddu megys dw'r o'r graig,  
I'r lan i'r nefoedd fry :  
Rhyw wawr ddysglaerwen sydd  
Yn tywynu o hono Ef,  
Yn arwain trwy bob ffos a nant  
Holl ffyddlon blant y nef.
- 4 Ffarwel, chwi haul a lloer,  
Ffarwel, chwi ser y ne' ;  
Mae presenoldeb pur fy Nuw  
Yn well yn llanw 'r lle ;  
Rhyw faith dragwyddol ddydd,  
Goleuni sydd yn fwy  
Yw'r hwn sy 'n d'od oddiwrth ei  
wedd  
Na 'u holl fuddioldeb hwy.

—

## HYMN DCLXXIII.

*Yr Ail Ran.*

**D**RAW mi wela 'r ardal hyfryd  
Lle mae 'm trysor, lle mae  
'mryd ;  
Lle mae 'm henw i yn guddiedig,  
Lle mae 'nghysur oll i gyd ;  
Draw fy Mhriod, draw fy 'Nghariad,  
Draw fy Anwylyd, draw fy Nhod ;  
A fy nghartref nefol, tawel  
Yn y Baradwysaidd wlad.

- 2 Mi âf yno, doed a ddelo,  
Doed cymylau, deued dydd ;  
Dyma 'r unig fan 'r w 'n dysgwyl  
Cael yn hollol fod yn rhydd ;  
Y mae hiraeth yn fy nghalon,  
Y mae syched trwy fy mryd,  
Am gael bod yn dy gwmpeni  
Yn nghystuddiau pena 'r byd.

—

## HYMN DCLXXIV.

**M**AE 'm siwrnai yn y blaen,  
'D oes diwedd ar fy nhaith,  
Nes landio 'mewn yn lân  
I dragwyddoldeb maith ;  
Yr ochr draw, fy nghartref yw,  
O fewn y wlad lle mae fy Nuw.

- 2 Ar ei addewid Ef  
Sydd fwy na geiriau dyn,  
Er holl gymylau 'r nef,  
Gorphwysaf fi fy hun ;  
Fe 'm deil i'r lan, a doed a ddél,  
A ddaeth o'i enau sydd dan sêl.

- 3 Mi bwysaf ar ei air,  
A deued oll yn groes,  
Fy noddfa unig yw,  
Tan eithaf tywyll nos ;  
Fe wawria'r dydd, pob tro is nen  
Ddaw âg addewid nef i ben.

- 4 Pob 'storom arw hynt,  
Pob tymbestl gadarn, gref,  
Pob cwmwl tywyll, du  
Sy 'n hongian yn y nef,  
A'm chwyth i 'm laen i wlad fy  
Nuw,  
Y fan mae 'm henaid fyth am fyw.

- 5 Ar fyr mi fyddaf iach,  
Ni chaf i glywed mwy  
Lais y gorthrymwy'r cas,  
Eu gwawd na 'u dirmyg hwy ;  
'D oes sw'n na chri o fewn y wlad  
Lle mae fy Mhriod a fy Nhod.

—

## HYMN DCLXXV.

**M**I ès trwy 'r afonydd dyfnion,  
Gwyllta eu natur is y nen,  
Pan oedd tonau mawr yn rhuo  
Fel y moroedd uwch fy mhen ;  
Ti dy Hunan, &c.,  
Oedd a safodd o fy mhlaid.

- 2 Fe 'm llyngasid gan fy ngofid,  
Oni buasai 'th fod dy Hun,  
Yn rhoi goleu ar fy llwybr,  
Ac yn sefyll wrth fy nghlun ;  
Gwelai 'n eglur, &c.,  
Try 'nghystuddiau oll yn win.

- 3 Croesau geirwon sydd yn felus  
Pan yr elo hi yn brydnawn,  
Dyfnider galar sydd yn esgor  
Ar lawenydd hyfryd iawn ;  
O am weled, &c.,  
Heno dawel foreu wawr.

## HYMN DCLXXVII.

**N**ID fy nghongwest yw 'ngor-  
foledd,  
Ynte fedda'i o hono ddim,  
Yn fy ngwendid 'rwy 'n ymfrostio,  
Ni ymfrostiaf yn fy ngrym ;  
Ar dy gongwest, &c.,  
Addfwyn Iesu, 'r wyf yn byw.

- 2 Fe ddyoddefodd angeu creulon,  
Poenus—chwerwaf angeu'r groes ;  
Ac fe gongcrodd luoedd uffern  
Trwy ei ddwyfol, farwol loes ;  
'N awr gorphenwyd, &c.,  
Iechydwrriaeth ddaeth i mi.

- 3 Dyma p'am 'r wy' heddyw 'n canu,  
Dyma p'odd ce's fy iachad,  
Nid wrth ymladd â 'mhechodau,  
Ond wrth gongwest pur y gwaed ;  
Ni saif gelyn, &c.,  
Fyth yn ngolwg Calfari.

- 4 Satan sydd yn digaloni,  
Satan sydd yn llwfrhau,  
Er pan ddaeth y cariad dwyfol  
I ddysgleirio fel y mae ;  
Ffo'wch gariadau, &c.,  
Fedda'i gyfaill ond fy Nuw.

—

## HYMN DCLXXVIII.

**D**ACW 'r ffynion i'w dymuno,  
Fywiol sy 'n yr anial dir,  
Dacw 'r unig ddw'r sy 'n rhoddi  
Hedd ac anfarwoldeb clir ;  
Ar Galfaria, &c.,  
Tardd yr afon loew 'maes.

- 2 Yno 'r âf i 'mofyn pleser,  
Unig bleser i barhau ;  
Yno caf fi lawn faddeuant  
Am bob trosedd, am bob bai  
Yno 'n unig, &c.,  
Caf g'wilyddio o hono f' hun.

- 3 Iachawdwriaeth rad ei hunan,  
Yw fy mhle o flaen y nef ;

- 4 Y mae hiraeth yn fy nghalon  
Heddyw am gael gwel'd y dydd,  
Caffo fy nghadwyni eu tori,  
A fy enaid fyn'd yn rhydd ;  
Yn lle rhyfel, &c.,  
Dim ond sw'n telynnau hedd.
- 5 ARGLWYDD tirion, n' âd fi ym-  
gmysg,  
A phleserau gwag y byd,  
Na rhoi 'm serch ar dda na dynion,  
Na'i deganau pena' yn nghyd ;  
Uwch yr wybren, &c.,  
Mae sydd anwyl geny' 'gyd.

—

## HYMN DCLXXVI.

**P**'AM mae llewod am fy llarpio ?  
P'am mae 'r Aiphtiaid am fy  
lladd ?  
Nid wy 'n cenfenu eu golud,  
Na'u pleserau leiaf radd ;  
Mae fy nbeyrnas, &c.,  
A'm llawenydd uwch y ser.

- 2 Mi ddyoddefaf eiriau chwerwon,  
Mi ddyoddefaf ddynol lid,  
Mi ddyoddefaf bob gw'radwyddiad  
Gaffwyf gan annuwiol fyd,  
Ond i'm HARGLWYDD, &c.,  
Roi i mi flas ei nefol win.

- 3 Nis gall tanlyd seirph wenwyno,  
Ac nis gallant roddi clwy',  
Yn y fan mae gras y nefoedd  
Yn diffoddi eu gwenwyn hwy ;  
Trech na 'r cwbl, &c.,  
Yw angerddol dân fy Nuw.

- 4 Doed yr Aipht yn fint'oedd llidus,  
A'i harfogaeth gadarn, gref,  
Rhwng Balsephon serth a'r tonau,  
Minau waeddaf tua 'r nef ;  
Fe ddaw 'ngweddi, &c.,  
I'm â gwaredigaeth lawn.

- 5 Mi gâf weled môr yn caud  
Gyda chodiad boreu wawr,  
A myrddiynau maith yn suddo  
Yn ngwaelodion dyfnider mawr ;  
Ni cha'i weled, &c.,  
O 'ngelynyon cyfrwys mwy.

U

A ffarwel am dana'i fythol,  
Oni chaf ei haeddiant ef;  
Iesu ei Hunan, &c.,  
Oll o flaen y faingc i mi.

- 4 Yn nymhestloedd angeu creulon,  
Sydd yn rhuo yn ei rym,  
Ac yn bygwth nad wy 'n abl  
Dala nerth ei donau ddim;  
Gwaed a gollwyd, &c.,  
Ar Galfaria yw fy mhle.

### HYMN DCLXXIX.

**M**AE'n nghystuddiau i'n chwane-  
egu  
Megys tonau moroedd maith,  
'R hyd rhyw lwybrau dyrus,  
tywyll,  
Anial geirwon mae fy nhaith;  
Mae 'ngelynion, &c.,  
Mewn rhyw gyngrair am fy lladd.

- 2 Ar ddysgwylfa uchel, gribog,  
Yr wyf finau er's hir brydnawn,  
Edrych am yr hindda hyfryd  
'N ol cafodydd geirwon iawn;  
Ac i'm hysbryd, &c.,  
Trwy 'r cymylau wel'd y wlad.

- 3 Ac 'rwy'n credu, trwy bob cystudd,  
Daw llawenydd yn y man,  
Pan y delwyf i feddianu  
'R etifeddiaeth ddaeth i'm rhan;  
Oll a dderfydd, &c.,  
Onid sw'n y delyn aur.

- 4 Gwlad o heddwch, gwlad o sylwedd,  
Gwlad o gariad pur, di-drai,  
Gwlad o wleda 'r pererinion,  
A'r llawenydd i barhau;  
Dacw 'r ardal, &c.,  
Mae 'nghysuron oll i gyd.

- 5 Aed y nos derfysglyd heibio,  
Doed y boreu cyn bo hir,  
Pan y caffo 'm henaidd wleda  
Yn y Ganaan hyfryd, bur,  
,Gyda myrddiwn, &c.,  
O'i rai anwyl, ffyddlon Ef.

### HYMN DCLXXX.

**O** AWELON croes eu natur!  
O dymhorau gwynt a than!  
P'am dyoddefa nefoedd i chwi  
Yn eich rhwysg i fyn'd yn mlaen?  
Fe dry 'r 'storon, &c.,  
Eto 'n dawel hyfryd haf.

- 2 Fe ddaw 'r groes ag sydd yn peri  
'M henaidd heddyw grynu 'lawr,  
Ar y wawrddydd deg yfory,  
A rhyw faith orfoledd mawr;  
Mi ddysgwylaf, &c.,  
'R wyf fi megys gwel'd y wawr.

- 3 O tu mewn y mae 'ngelynion,  
Hen ellyllon mawr eu grym,  
Ag sy 'n ceisio trwy bob moddion  
Wneud fy enaid llesg yn ddim;  
Ti dy Hunan, &c.,  
All eu hatal, er eu grym.

- 4 'D wyf ond eiddil gwan i ymladd,  
Ac nid wyf yn abl lladd  
Lluoedd mawrion o elynion,  
Cryfa', cynddeirioca' eu gradd;  
Ar dy allu, &c.,  
'R wyf yn edrych nos a dydd.

### HYMN DCLXXXI.

**T**I, fy IESU, yw 'm Hanwlyd,  
Ac ni fedda'i yn y byd  
Un creadur sy mor werthfawr  
Ag a dâl rhoi arno 'mryd;  
Sw'n a siarad, &c.,  
Yw 'r gogoniant tan yr haul.

- 2 Tro'wch ar dde', a thro'wch ar  
aswy,  
Gwagedd wedi ei gasglu yn  
nghyd,  
Hardd ei liw, heb ronyn sylwedd,  
Sydd o gwr i'r llall o'r byd;  
Ffrwyth Gomorra, &c.,  
Er ei liw, sydd ulw mân.

- 3 Minau, ARGWYDD, ro'is fy mwriad  
Ar drysorau 'r gwledydd draw,

Ac ar 'Tifedd mawr y bywyd,  
Sydd â'r nefoedd yn ei law;  
Mae fy ngwynfyd, &c.,  
Oll yr ochr draw i'r dw'r.

- 4 Ffarwel bellach y creadur,  
Yn ei rwysg, ac yn ei rôd;  
Ffarwel natur lawn o nwydau,  
Nis dilynaf ôl dy droed;  
Pleser rhagor, &c.,  
A ddygyddodd i fy rhan.

- 5 Dyma 'r ffordd sy 'n ledio'n union  
At bleserau pur, di-drai;  
Dyma 'r dw'r rhedegog, bywiol,  
Ga'i ar fyrder ei fwynhau,  
Fyth sy 'n tarddu, &c.,  
O tan drothwy tŷ fy Nhad.

### HYMN DCLXXXII.

**H**EDDYW 'r ffynon a agorwyd,  
'Ddysglaer fel y grisial clir,  
Y mae 'n llanw ac yn llifo  
Tros wastadedd Salem dir;  
Bro a bryniau, &c.,  
A gaiff brofi rhin y dw'r.

- 2 Dere, f' enaid gwan, lluddedig,  
Ag a 'droddodd yn y llaid,  
Yf, a neidia 'mewn i'r ffynon  
Loew wrth dy angenrhaid,  
Ni ddifwyni, &c.,  
A dy feiau 'r gloew ddw'r.

- 3 Y mae rhinwedd gras y nefoedd  
O dragwyddol faith barhad;  
Nid oes darfod dim ar effaith,  
Perffaith haeddiant dwyfol waed;  
Ac er golchi, &c.,  
Nant heb lwydo, nant heb drai.

- 4 Minau ddof i'r ffynon loew  
Darddodd allan ar bryn,  
Ac mi olcha 'm henaidd euog  
Ganwaith yn y dw'r hyn;  
Myrdd o feiau, &c.,  
Dafia' i lawr i rym y dw'r.

- 5 Dyma 'r man y caiff fy nwydau  
Gwylt, cynddeiriog, hyfryd friw;

Dyma 'r fan ca'i gongcro natur,  
A'i gwrthdrrychau o bob rhyw;  
Caf deyrnasu, &c.,  
Ar bob eilun teg ei lun.

- 6 O dirwynwch, oriau, i fyny,  
A gadewch im' wel'd y dydd,  
Pan y torir fy nghadwynau,  
Ac ca'i rodio 'n berffaith rydd;  
Ysbryd caethwas, &c.,  
Wedi troi yn ysbryd hedd.

### HYMN DCLXXXIII.

**I**ESU, rhedaf at dy orsedd,  
Dyna 'r man fy enaid ca'dd  
Iechyd, pan yr oedd gelynion  
Duon, atgas, bron fy lladd;  
Nid oes noddfa, &c.,  
Is y nefoedd ond dy Hun.

- 2 Wrth dy orsedd Di mae bywyd,  
Wrth dy orsedd Di mae grym,  
Ac ni fethodd is y nefoedd  
Ag a geisiodd genyt ddim;  
Minau aflan, &c.,  
Fentraf at orseddfa hedd.

- 3 Lliw fy meiau sydd o'r duaf,  
Mae euogrwydd yn fy nhrin,  
Fel pe wedi 'm blotio byddwn  
'Maes o'th arfaeth Di dy Hun;  
Rho drugaredd, &c.,  
D' unig gariad a'm iacha.

- 4 Tyr'd am hyny, IESU 'n fuan,  
Saf o blaid yr euog, gwan,  
Sy 'n lluddedig gan gystuddiau  
Dyfnion, trymion yn mhob man;  
Rho ddyddanwch, &c.,  
Tra f'wy 'n teithio 'r anial dir.

- 5 Deued dydd,—doed nos drachefn,  
Deued boreu, deued nawn,  
Deued tês, a deued oerni,  
Doed tymhestloedd chwerw iawn;  
Yna yn unig, &c.,  
Caiff fy lloches inau fod.

## HYMN DCLXXXIV.

**P**'AM y cwyd bwystfilod rheibus  
Fel mewn cyngrair ar y gwan?  
P'am caiff holl gynddaredd uffern  
Rwystro enaid briw i'r lan?  
Gwna i mi ddringo, &c.,  
Hyfryd fryniau tŷ fy Nhad.

2 Tan dy aden y rhyfelaf,  
Tan dy aden mae fy ngrym;  
Tan dy aden y congweraf,  
Ynte ni chongcweraf ddim;  
Neb ond Iesu, &c.,  
Fostia 'm henaidd tra fo byw,

3 Mae dy enw mor ardderchog,  
Fel yn ngrym y 'storom gref,  
Llaesa'r gwyntoedd, llaesa'r tonau,  
Dim ond i mi ei enwi Ef;  
Noddfa gadarn, &c.,  
Yw yn eitha' grym y dw'r.

4 Ffy tywyllwch du, di-gysur  
Pan y codo ei heulwen Ef,  
Gwedd ei wyneb sy 'n gwasgaru  
Holl gymylau tewa 'r nef;  
Dedwydd, dedwydd, &c.,  
Yw sy 'n gwel'd dy wyneb cu.

5 Nid oes yno ddim yn eisieu,  
Nac un pleser, nac un dawn,  
Fan y byddech Di dy Hunan,  
Fyth na boreu na phrydnawn;  
Môr o gysur, &c.,  
Yw cael trigo yn dy wydd!

## HYMN DCLXXXV.

**N**ID trysor o arian pur,  
Na 'r aur sydd lawer gwell,  
Na 'r perlau mwya' drud  
Sydd yn yr India bell,  
Ond am fy Nw 'r wy 'n brefu o hyd,  
Sydd fil o weithiau 'n well na 'r byd.

2 Nid y llawenydd gwag,  
Mawrhydi plant y byd,  
Eu balchder maith a'u rhwysg,  
Pan ceir e'n gryno yn nghyd;  
Ond pleser gwell cael dy fwynhau,  
Ac yfed dw'r sydd yn parhau.

3 Y cariad hyfryd sy  
Yn boddî cwmni 'r nef,  
Ac yn difyru 'r llu  
Wrth edrych arno Ef;  
Y trysor hyn wy' am fwynhau,  
Ag sy 'n dragwyddol yn parhau.

4 Y pethau mawrion hyn  
Wy' yn eu ceisio 'gyd,  
Ac nid oes dim a'u tyn  
Hwy 'n hollol o fy mryd;  
Mi rof fiarwel heb 'stwr na phle  
I bob peth arall is y ne'.

## HYMN DCLXXXVI.

**O**FER i mi wel'd y ddaear  
Yn eginio ei hegin grawn—  
Ofer i mi wel'd yr haulwen  
Fawr yn estyn ei phrydnawn;  
Ofer i mi wel'd y blodau  
Yn datguddio eu haneirif liw,  
Tra fo neb rhyw un creadur  
Yn cysgodi gwedd fy Nuw.

2 Ofer i mi gael cwmpeini  
Hyfryd, llawen, addas, gwiw,  
Ieungctyd yn eu rhwysg a'u  
nwyfiant,  
Fel y blodau teca' eu lliw;  
Ni wna hyn ond tori 'nghalon  
A fy nodi 'n fwy-fwy briw,  
Tra fo bryniau maith a dyrus  
Rhyngof fi a hedd fy Nuw.

3 Ond os wyneb hardd fy Iesu,  
Sydd yn well na goleu 'r dydd,  
Yr y cwmwl dudew i gerdded,  
Ac dywyna ar f' enaid prudd,  
Boed fy nghwmni fel y mynont,  
Ffoed pleserau byd yn un,  
Bydda'i byw yn berffaith ddedwydd!  
Mewn rhyw ogof fach fy hun.

4 Ymwel, ARGWYDD, â phererin  
Sydd yn teithio tua thre',  
Ag a flinodd ar y ddaear,  
Heddyw yn brefu am y ne';  
Tyred, haulwen gliir, dysgleiria,  
Ni saif cwmwl lle bo 'th ras,  
'Storom gref a dry 'n dawelwch,  
Fel y gallom rodio 'maes.

5 O pa bryd ca'i wel'd dy wyneb  
Oll yn heddwch, oll yn ras,  
Heb un pechod yn fy nghlwyfo,  
Nac yn ddirgel gario 'r maes;  
Heb un llen rhyngof a'r bywyd,  
Nac un ysbyrd marw, syth;  
Heb un waedd yn fy nghydwibod,  
Ond tangnefedd pur, di-lyth.

6 Bryd ca'i wel'd y tir dymunol,  
Hyfryd Baradwysaidd wlad?  
Lle mae brodyr i mi filiwn,  
Lle mae 'Mhriod, lle mae 'Nhad?  
Lle ca'i orphwys o fy llafur,  
Lle ca'i wella 'm clwyfau a'm  
briw;  
A chael gwledd dragwyddol gyson  
Fyth yn nghwmni 'm Tad a'm  
Duw.

## HYMN DCLXXXVII.

**E**IDDO fi ydyw fy Anwylyd,  
Gwnawd cyfamod gwerthfawr,  
rhad,  
Nid â pherlaw 'r byd y seliwyd,  
Ond â dwyfol, nefol waed;  
Nerth tragwyddol a ymrwymodd,  
Holl ddoethineb fawr y nen,  
I gael gwel'd yr iota leia'  
O'r cyfamod hwn i ben.

2 Ymadewch, fy ofnau, bellach,  
Rhagor, beth allasai 'r nef?  
P'odd dangosa'i gariad rhagor  
Nag ar bren ddangosodd Ef?  
Rhoddi ei fywyd tros elynion,  
Tuag at eu cael hwy yn un  
Briod-ferch addasaf, fyddlon,  
Gywir iddo Ef ei Hun!

3 Cadarnhaw'd fy ffydd grynedig,  
Ni ro'i 'ngobaith ddim i lawr,  
Ac o'm hawl ni illia'i ronyn  
I gyfamod sy mor fawr;  
Ac ni chym'ra'i 'r India helaeth  
A'i thrysorau sydd heb ri',  
Am fy mraint, ac ni chymeraf  
Holl feddianau 'r nefoedd fry.

4 Nid wy 'n cenfigenu hapusrwydd  
A gogoniant plant y byd,

Rhanent hwy y ddaear rhyngddynt,  
Nefoedd Iesu aeth â 'mryd;  
Tir dymunol yw 'nhiffeddiaeth,  
Gwlad heb newyn ac heb drai;  
Gwlad y caf dros dragwyddoldeb  
Fy Anwylyd i'w fwynhau.

## HYMN DCLXXXVIII.

**P**A gyfnewidiau bynag  
Welo 'm bywyd ar y llawr,  
Llwyddiant, ynte neu aflwyddiant,  
Tywyniad-haul, new 'stormydd  
mawr;  
Enw hyfryd fy Iachawdwr  
Gaiff ddifyrn 'm dyddiau 'maes;  
Canu ei glod, a chant rhyfeddu  
Nerth ei nefol, ddwyfol ras.

2 Y mae meddwl am ei haeddiant,  
Meddwl am ei gariad pur;  
Fel rhyw ffynon o lawenydd,  
Llaw'n o ddwfr gloew, clir;  
Fe ei Hunan yw 'm gogoniant,  
Fe yw 'm hymffrost a fy ngrym,  
Enw pawb o tan yr wybren,  
Ond ei Hunan elo 'n ddim.

3 Fy holl obaith sy 'n ei enw,  
Enw godidoca 'r ne',  
Yr wy 'n gwadu ac yn gwrthod  
Unrhyw noddfa ond Efe;  
Fe yw 'm iechydwriaeth werthfawr,  
F' amddifynfa, a fy Nuw;  
Fe a'i ras gaiff fod yn sylwedd  
Fy nghaniadau tra f'wy' byw.

4 Mae ei angylion yn cwmpasu  
'Rhai sy 'n aros yn ei glwy';  
Fe wna fyny eu hangenion,  
'Chaiff bod eisieu arnynt mwya';  
Fe gyf'rwyddia eu holl gerddedïad  
Ac fe wylia ddydd a nos,  
Fel na bo na gwae nac ochain  
Ar 'tiffeddion gwaed y groes.

5 Mae ei glustiau yn agored  
I'w gweddïau bob yr un,  
Ac yn addfwyn Ef a gymer  
Eu gofalon arno ei Hun;

Pan bo t'w'llwch ac anobaith  
Yn amgylchu eu llwybrau o'r  
bron,  
Fe ei Hun fydd eu Harweinydd,  
Fe a'u cynal tan bob ton.

6 Maith drugaredd a gwirionedd,  
A'r tiriondeb mwya' 'maes,  
Sy fel haulwen haf yn ddysglaer  
Trwy holl ranau pur ei ras ;  
Boed fy nhafod fyth tra fyddwyf  
Gerdded ar yr anthem hyn,  
Cariad pur yn dyoddef marw  
Tros bechadur ar y bryn.

## HYMN DCLXXXIX.

**M**I af trwy 'r Iorddonen arw,  
Ac anturia' wrth'nebu'r don,  
Pob temtasiwn gaffo 'm nwydau,  
Gan wrthdrrychau'r ddaear hon,  
Ond it' sefyll wrth fy ochr,  
Ond it' maflyd yn fy llaw ;  
Ti gei 'r clod, Ti gei 'r gogoniant,  
Oll yn oll yr ochr draw.

2 N'ad i'r cenllysg i fy nghuro,  
Grym fy mhleser a fy chwant,  
Ac i yru dy Ysbryd sanctaidd  
A'i awelon pur i bant ;  
Gwna 'nghydwibod ynwy 'n dan-  
llwyth,  
Na ddyoddefwyf ddim o'r bai  
Ag sy 'n gwneuthur oriau 'mywyd  
Fel rhyw oes o 'difarhau.

3 O'r wy 'n breffu am yr oriau  
Pan y caffwy' 'nhraed yn rhydd !  
Dyna Jubil fy nghysuron,  
Dyna 'ngwaredigol ddydd ;  
Dyna wledd 'r wy 'n breffu am dani  
Pan na byddo pechod mwy,  
I ladrata 'r meddwl lleiaf,  
Nac i roddi i mi glwy'.

4 Tyred, Ysbryd sancteiddiolaf,  
A glanha dy dŷ dy Hun,  
Lladd y beiau yn fy natur ;  
O'r boreu-ddydd sydd yn nglŷn ;

Dwg dy eiddo 'maes o'r pydew,  
Minau ond cael myn'd yn rhydd  
A'th folianaf tra fo anadl  
Am fy ngwaredigol ddydd.

## HYMN DCXC.

**O**! a raid i mi wrth'nebu  
Yr unrhyw 'storom, 'r un-  
rhyw wynt  
Ag bu pererinion Seion  
Bron eu maeddu ynddi gynt !  
Mi ni fedra'i ddringo creigiau  
Sy mor arw ac mor faith ;  
Tyr'd am hyny, Dywysog bywyd,  
Dwg fi i'r lan i ben fy nhaith.

2 Fedda'i gyfaill is yr wybren  
Galla'i ddodi 'maich ar led ;  
Arnat Ti, fy Nuw, dy Hunan  
'R wy 'n rhoi 'mhwys, ac 'r wy 'n  
rhoi 'nghred ;  
'R wy 'n gobeithio t'wyna 'r wawr-  
ddydd,  
Cod yr haulwen cyn bo hir,  
Pan ca'i wel'd yn ddysglaer oleu  
Ryddid llawn y nefol dir.

3 Pan bo cariad yn teyrnasu,  
Cariad perffaith, dwyfol, cun,  
Cariad fyth na 'nebydd o hono  
Natur gnawdol neb rhyw ddyn ;  
Ysbryd bywyd nef ei hunan  
Sy 'n cysuro, sy 'n rhyddhau,  
Sydd yn fwyd ac sydd yn ddioid,  
I'r sancteiddiol, nefol rai.

## HYMN DCXCI.

**N**I feddyliais fod fy siwrnai  
Trwy lifeiriant oedd mor gry',  
A bod afon ar ol afon,  
Heb un diwedd, heb un rhi' ;  
Yn eu canol, &c.,  
'R wyf yn gwel'd yr ochr draw.

2 Mi orchfyga 'r tonau mawrion  
Er eu cynwrf, er eu 'stwr

Yn lle 'm suddo i'r dyfnderoedd,  
Caf fy ngholchi gan y dw'r ;  
Mi ddof allan, &c.,  
Tua 'r nefoedd mae fy nhaith.

3 Nid oes drwg gael fy nghystuddio,  
Lle bo cystudd i mi yn well ;  
Rhaidd trwy 'r anial i mi deithio  
Cyn cael meddu 'r Ganaan bell ;  
Wrth y cleddyf, &c.,  
Dof i feddu tir fy ngwlad.

4 Pan y gwelais rai fforddoliion  
Tan y cenllif coch i lawr,  
Mi feddyliais na ddawn inau  
Fyth o donau moroedd mawr ;  
Rhaidd im' deithio, &c.,  
Llwybrau geirwon plant fy Nhad.

5 'R wyf fi 'n caru 'r pererinion  
Ar y tylau serth y sy,  
Ar eu traed ac ar eu dwylo,  
'N ceisio dringo fyny fry ;  
Ar fy neulin, &c.,  
Minau ddof i ben y bryn.

## HYMN DCXCII.

**O** DIFLANED 'stwr creadur,  
Sy 'n fy syfrdanu c'yd ;  
'D yw ei werth, nid yw ei bleser,  
Ddim yn deilwng o fy mryd ;  
Gwrthdrrych arall, &c.,  
Wna fy enaid wrth ei fodd.

2 'R wyf fi 'n gwybod try 'mhleserau  
I mi 'n wermod oll i gyd,  
Ac na chaf fi wneud fy nhrigfan,  
Na fy nefoedd yn y byd ;  
Gwlad o heddwch, &c.,  
Ydyw 'r wlad a ro'w'd i mi.

3 P'am mae gwrthdrrych nad yw  
deilwng,  
Yn cael meddiant ar y fan  
Ag a wnest trwy bwrcas perffaith  
I Ti yn dragwyddol ran ?  
Cymer feddiant, &c.,  
Ar a brynaist â dy waed.

4 N'ad un eilion, n'ad un pleser,  
Unrhyw degan is y rhod,

Wyro fy ysbryd, wyro 'nghalon,  
Oddiar union lwybrau 'th droedd ;  
Ti dy Hunan, &c.,  
Fo 'nifyrwch i tr'wy' byw.

## HYMN DCXCIII.

**A**DDFWYN IESU, tyn fy meddwl  
Ar wrthdrrychau 'r gwledydd  
mae

Bywyd pur, ac anfarwoldeb,  
Megys moroedd heb ddim trai ;  
Lle na 'mddengys, &c.,  
Unrhyw bleser nac un chwant.

2 Mae fy nwydau wedi 'mlino  
Ganwaith yn yr ardal hyn,  
Lle b'wyf fi, maent hwythau yno,  
B'wyf ar foroedd, b'wyf ar fryn ;  
O am deimlo, &c.,  
Rhyddid Parawysaidd dir.

3 Nid oes gofid, nid oes terfysg,  
Nid oes achwyn o un rhyw—  
Nid oes poen, ac nid oes galar,  
O fewn dinas bur fy Nuw ;  
Cariad perffaith, &c.,  
Sy yno yn anadlu 'r lle.

4 Ni ddaw 'r llygad gwibiog yno  
Ag sy 'n crwydro i bob lle,  
Ae yn peri 'r galon oeri  
At wrthdrrychau pur y ne' ;  
Unrhyw gariad, &c.,  
Yno yn unig aiff â'm bryd.

5 Ni ddaw cwmwl du, terfysglyd,  
Ni ddaw anghrediniaeth mwy ;  
Ni ddaw yntau, ofn marw,  
Fyth roi archoll i mi mwy ;  
Teyrnas sicr, &c.,  
Heb un gelyn, heb un gwaed.

## HYMN DCXCIV.

**I**ESU, nid oes terfyn arnat,  
Mae cyflawnder mawr dy ras  
Yn fwy helaeth, yn fwy dwfn  
Ganwaith nag yw 'mhechod cas ;  
Fyth yn anwyl, &c.,  
Meibion dynion mwy a'th gâr.

- 2 Mae angylion yn cael bywyd  
Yn dy ddwyfol nefol hedd,  
Ac yn sugno eu holl bleserau  
Oddiwrth olwg ar dy wedd ;  
Byd o heddwch &c.,  
Yw cael aros yn dy wÿydd.
- 3 Ti faddeuaist fil o feiau  
I'r pechadur gwaetha' ei ryw,  
ARGLWYDD, maddeu eto i minau,  
Ar faddeuant 'r wyf yn byw :  
Dy unig haeddiant, &c.,  
Yw 'ngorfoledd a fy ngrym.
- 4 Heddyw 'r wyf fi'n frwnt o newydd,  
Rhaid fy ngolchi heddyw'n wyn,  
Yn yr afon ag wna'r aflan  
Fel yr eira ar y bryn ;  
Dim ni's càna, &c.,  
On dy ddwyfol nefol waed.
- 5 Nid oes ddofa fy nghydwybod  
Ond cyfiawnder mawr y nef,  
Ac ni thâl rhoi aberth arall  
Is y nefoedd iddo Ef ;  
Maddeu, f' ARGLWYDD, &c.,  
Gwrando'r gruddfan ar y groes.

## HYMN DCXCV.

F' ENAID, pa'm rhed dy fyfyr-  
dod

Ar un gwrthddrych is y nef ?  
Y mae 'r leiaf radd o heddwch  
IESU 'n llawer gwell nag ef ;  
Nid yw 'r ddaear fawr ei chwmpas,  
A'i phleserau mwya' maes,  
Fwy na dim o fewn y glorian  
Wrth ei bwysio â dy ras.

- 2 Gwrthddrych pur heb gymhar iddo,  
Gwrthddrych gwerthfawroca'n  
fyw,  
Ddeil fy enaid ar lifeiriant  
Mwyaf creulon, yw fy Nuw ;  
Tan ei aden bydda'i ddiogel,  
Deued 'storom, deued gwynt,  
Fe ddiuhun pan godo 'r tonau  
Yn gynddeiriog megys gynt.
- 3 Trwy'r afonydd mwya' dyfnion,  
Tros fynyddau, a thrwy dân,

Mae E 'n fyddlon, mae E 'n abal,  
Fe ei Hunan â o'm mlaen ;  
Nid oes geny' i bwysio arno,  
Nid oes neb wrth anghenrhaid,  
Ond ei Hun yn hollol abal  
Idd i sefyll o fy mhlaid.

- 4 Rhued Satan, rhued dynion,  
A fy nwydau gyda hwy,  
A gwnaent gyngrair i fy rhwydo,  
A rhoi i mi farwol glwy' ;  
Mi ni cheisiaf i'w gorchfygu  
Ond un awel fach o'r nef ;  
Ac fe gwmp gelynyon fyrddiwn  
Wrth un gair o'i enau Ef.
- 5 Ef a ddadrys flaglau filoedd,  
Ac yn rhydd fe ry fy nbroed,  
Pan b'wy' wedi rhoddi fy hunan,  
Yn y cyffion cryfa' erioed ;  
Ac fe dd'rysa fy ngelynyon  
Trwy eu gilydd yma a thraw,  
Ac fe 'm dwg i maes o Sodom  
Yn anwylaf yn ei law.
- 6 'Chaiff mo'r danllwyth fyglyd  
ddisgyn  
Fythoedd ar ei eiddo Ff,  
Fe gaiff Soar fach fy nghadw,  
Pan dël brwmstan poeth o'r nef ;  
Mi gyrrhaedda 'r mynydd hyfryd  
Lle mae f' ARGLWYDD mawr yn  
byw,  
Doed sawl ddêl yn fy nghwmpeni,  
Mi ddihangaf at fy Nuw.

## HYMN DCXCVI.

- 'R WY'N hiraethu am fyn'd o'm  
pabell,  
Maes o'r anial trwodd draw,  
Lle nad oes dim creigydd geirwon,  
Serth, llithredig ar un llaw :  
Gwlad heb nwydau afreolus,  
Gwlad heb ddychryn, gwlad heb  
wÿn,  
Lle nad oes ond cariad perffaith  
Yn teyrnasu oll yn un.
- 2 Yr wyf finau yn yr ardal  
Lle mae poethder, lle mae chwant,  
Lle mae balchder cās yn chwythu  
Pur awelon nef i bant ;

- Lle mae llyffetheiriau tynion,  
Yn cadwyno, yn llwyfrhau,  
Y rhai sydd o tan eu poenau  
Am gael gweled eu rhyddhau.
- 3 Mae fy nghalon tan ryw gadwyn,  
Cadwyn ddurffing, gadarn, gref,  
Ac nid oes un gallu a'i detyd,  
Onid gallu mawr y nef ;  
Llwybr sy'n myn'd tua'r anial,  
Wyf am gerdded, fel un ffol,  
Ac mi gwympa i bydewau,  
Oni thyni Di fi'n ol.
- 4 Ti dy hunan all fy nghadw,  
Ti wnai 'r ofnog llesg yn hy'  
Ti wnai 'r eiddil gwana welwyd  
Yn gadarnaf gongrcwr cry' ;  
Ti'm dadrysi o'm holl rwydau,  
Pan del gair o'th enau maes,  
Trech na'r ddaear, trech nag uffern,  
Yw dy ddwyfol nefol ras.

## HYMN DCXCVII.

PAM 'r wy'n 'mofyn gwlad o  
heddwch  
Lle nad oes ond gwlad o wae ?  
Dysgwyl cariad a fyddlondeb,  
Mewn ardaloedd o gasâu ?  
'Mofyn bywyd mewn marwolaeth,  
'Mofyn cysur lle nad yw ?  
Nid oes dim a foddia'm henaid  
Is y nefoedd ond fy Nuw,

- 2 Byddwch yn anffyddlon i mi,  
Greaduriaid o bob llun,  
De'wch ac ewch fel gweloch oreu,  
A gadewch fi wrthyf fy hun :  
Nid wy'n unig tra fo'm HARGLWYDD  
Cadarn, nerthol, mawr gerllaw,  
Fe ry' ei hedd i loni'm henaid,  
Ac a 'm harwain yn ei law.
- 3 Bellach, aed creaduriaid i mi  
Yn elynion oll o'u bron,  
A diffodded tân cariadau  
Gwamal ar y ddaear hon ;  
Mi gymeraf Dywysog heddwch  
I mi'n Briad, i mi'n Dduw ;  
Mi â heibio'r holl gre'digaeth,  
Wrth fy modd y byddaf byw.

- 4 Dechreu 'r wyf fi'n awr ehedeg  
I'r ardaloedd mae fy mryd,  
Ac 'r wy' am ddiffoddi 'm hiraeth,  
'N'ol pleserau gwag y byd ;  
Ni chaiff dyn, na da, nac enw,  
Ni chaiff bleser, ni chaiff gwae,  
Argraff mwy i'm dodi 'n llawen,  
Nac 'm dodi i lwfrhau.
- 5 Treuliais ddyddiau 'n methu  
chwerthin,  
Dyddiau o och'neidio 'n brudd,  
Dysgwyl oriau o lawenydd  
'R wy' trwy gydol faith y dydd :  
Dysgwyl gwel'd llifogydd llwydion  
Yn loew megys gwyr glas,  
A phob nwyd wedi 'thawelu,  
Gan dy ddwyfol nefol ras.
- 6 Mi â maes o blith y werin  
I ryw loches wrthyf fy hun,  
Lle na bo dim 'stwr creadur,  
Dim ond dy Sbyrd sanctaidd  
cun ;  
Mi wna 'mhleser yn dy fynwes,  
Mi wna 'm nefoedd yn dy hedd,  
Ac mi gwela'i im' yn bleser  
I gael gorwedd yn y bedd.

## HYMN DCXCVIII.

O ARGLWYDD, tyr'd yn glau,  
Tyn fy nghadwynau 'n rhydd,  
A gad im' weled gwawr  
Fy ngwaredigol ddydd ;  
Mae 'r nos yn hir, p'odd gallaf fyw  
Mewn pydew tywyll heb fy Nuw !

- 2 Mae fy nhrueni 'n fawr,  
'R wy'n methu gwir gasau  
Yr hyn ag sydd bob awr  
Yn nodi 'lwfrhau ;  
Gruddfan, a gwae, ac euog loes  
Yw gwledd fy enaid ddydd a nos.
- 3 Och'neidiau athrist iawn,  
A gruddfan yn parhau,  
Sy 'n llanw mewn bob awr  
Fel tonau mawr di-drai ;  
O am rhyddhad ! pwy bleser sydd,  
Nes gwelo fy enaid gwan y dydd.

4 Pa fodd 'r wy'n caru myn'd  
O lwybrau 'r nefoedd fry?  
Pleserau ucha' eu rhyw  
Sy (ARGLWYDD) gyda thi:  
Fy enaid a gaiff, maes o law,  
Drysorau tragwyddoldeb draw.

5 Ar ol rhyw noswaith faith  
O boenus wir dristau,  
Mi welaf oriau clir  
O hyfryd lawenhau:  
Lle na rydd da, na dyn, im' glwy',  
Trwy gariad neu gasineb mwy.

## HYMN DCXCIX.

O ADDFWYN IESU, tyn  
Fy meichiau trwm i lawr;  
Y rhai a drodd fy nydd  
Yn dywyllwch dudew mawr:  
Pob garw nant, pob llif, pob ton  
Sydd oll yn curo ar fy mron.

2 Gwybedyn lleia' erioed  
Sy 'n abl heddyw'm lladd;  
Rhy drwm, rhy fawr yw 'r baich,  
Boed lleiaf un ei radd:  
Oni ddaw nerth o'r nefoedd wen,  
Fe â'r llifogydd tros fy mhen.

3 Pan 'drychwy' ar y dde',  
Llifogydd sy yno i gyd;  
Ac ar yr aswy mae  
Cymylau'n casglu 'nghyd:  
Mae 'r byd a'r bedd, mae'r ddae'r  
a'r nen,  
Yn tynu 'm siwrniau fach i ben.

4 Ond eto mi ddo'i maes  
O'r fwrnes ddwfn fawr,  
Megys y gwydr glas,  
Yn hyfryd bur fy ngawr:  
Caiff dw'r, caiff tân, caiff da, caiff dyn,  
Fy ngyru tua 'm gwlad fy hnn.

5 Fe gaiff yr awel gefn,  
Sydd yn fy chwythu 'n ol,  
I 'ngyru ato ef,  
A gorphwys yn ei gol:  
Nid oes ond hyn a dry fy ngwae  
Yn hyfryd dawl lawenhau.

## HYMN DCC.

FY ENAID, at dy DDUW,  
Fel gwyrthdrrych mawr o'th  
gred,  
Trwy gystudd o bob rhyw,  
A phob temtasiwn rhed:  
Caf ganddo ef gysuron gwir,  
Fwy nag ar foroedd, nac ar dir.

2 Pan peidio plant fy mam  
A dala rhan o'm baich,  
Ond gado 'r llwythog groes,  
I bwyso ar fy mraich:  
Tydi dy hun, fy addfwyn Dad,  
A'm dal i fyny ar fy nhraed.

3 O! na allwn roddi 'mhwys  
Ar dy ardderchog law;  
A gadael cystudd dd'od  
Oddi yma, ac o draw:  
A byw tan nawdd y dwyfol waed,  
Yn ngolwg hyfryd dy fy Nhad.

4 'D oes dim a wna fy modd,  
Dim help i'm henaid gwan;  
Dim ladd ruddfanau sydd  
Yn berwi 'r dydd i'r lan;  
Ond dy fwynhau, a phrofi 'th hedd,  
Sydd yn wastadol hyfryd hedd.

5 Mi fyddaf lawen iawn,  
A 'ngofid tan fy nhraed,  
O foreu hyd brydnawn,  
Tan aden gwir fwynhad:  
'D oes arall ddim is ser y nef  
A ddaw a'm henaid tua thref.

## HYMN DCCII.

F' ENAID, deffro i ryfeloedd,  
Mae torfeydd yn d'od yn  
mlaen;  
Oll yn arfog ac yn gedyrn,  
Meddwl maeddu f' enaid maen';  
Dyma'm T'wysog wrth fy ochr,  
Dyma 'Mhriod, dyma 'Nhad;  
Ar ei nerth 'r wy' yn hyderu  
Sathru Satan tan fy nhraed.

2 Er fod arna'i o archollion  
Fwy rhifedi ser y nen;  
Ac er bod cleddyfau llymion  
Fel y gwenyn cylch fy mhen,  
Pren sy 'n tyfu yn Mharadwys,  
Balm sy 'n rhedeg o hono 'maes,  
A iacha, er maint eu gwenwyn,  
Ddyfnion, farwol glwyfau cas.

3 Caiff y gwenwyn cas fy mhuro,  
Caiff fy mhechod gwaetha' ei ryw  
Swnio 'maes fel udgorn arian,  
Haeddiant dwyfol, farwol friw;  
Mi bregetha' o flaen y werin  
Fod y Negro dua' gaed  
Fel y gwlan, neu liain mainwyn,  
Wedi ei gânu yn y gwaed.

4 Troi 'r wy' beunydd yn y llaca,  
Nes 'r wy' bron a llwfrhau;  
Mellt a chenllysg yn un 'storum  
Sy 'n fy nghuro i yn ddi-drai;  
Ond mi wela 'r seren foreu  
Ag sy 'n ledio 'r hyfryd wawr;  
Ac mae 'n dweyd, Fe ffy'r cymylau  
Cyn pen 'chydig fwy nag awr.

5 Minau fyddaf ddiddig ronyn,  
Ac edrychaf tua 'r wlad  
Lle mae 'mrodyr, lle mae 'Mhriod,  
Lle mae 'Mhrynwr, lle mae  
'Nhad;  
Blinais fyw tu yma i'r afon,  
Mae fy Anwylyd yn y ne';  
Mi â 'mlaen, er cu'wch y bryniau,  
'R hyd y llwybr 'r aeth Efe.

## HYMN DCCIII.

N'AD y gwyntoedd cryf, dych-  
rynllid,  
Gwyntoedd oer y gogledd draw,  
Ddwyn i'm hysbryd gwan, tra-  
ferthus,  
Ofnau am ryw ddrwgau ddaw;  
Tro 'r awelon, &c.,  
Oera' eu rhyw yn nefol hin.

2 Gwna i mi wel'd y byd a'i 'storm-  
ydd  
Yn diflanu cyn bo hir;

Doed i'r golwg tros y bryniau  
Ran o'r nefol, hyfryd dir;  
Im' gael llonydd, &c.,  
Gan holl derfysgiadau 'r llawr.

3 Grym fy nwydau sy 'n fy mhoeni,  
Grym fy euogrydd, a fy mai;  
Methu eilwaith beidio pechu,  
Eilwaith methu 'difarhau;  
I 'ngwaredu, &c.,  
O na welwn foreu wawr!

4 Dysgwyl wyf trwy hyd yr hinos,  
Dysgwyl am y boreu ddydd;  
Dysgwyl clywed pyrth yn agor,  
A chadwynau'n my'nd yn rhydd;  
Dysgwyl goleu, &c.,  
Pur yn nh'w'llwch tewa 'r nos.

5 Daw, fe ddaw y wawr-wen oleu,  
Nes bo 'r cwmwl du yn ffoi;  
Tarth a niwl yn cyd-ddiflanu,  
Ag oedd wedi cyd-grynhoi;  
Dyma 'r oriau, &c.,  
Wy 'n eu gweled draw trwy ffydd.

## HYMN DCCIII.

PECHOD, bellach gad fi 'n  
llonydd,  
Y mae fy oriau bron ar ben;  
Fil o weithiau poenaist f' enaid  
A rhyw wagedd is y nen;  
'Draw 'r lforddonen, &c.,  
Mae fy enaid am gael byw.

2 Maes o'r wlad lle mae teganau,  
Maes o'r wlad lle 'r wy 'n cael  
briw;  
Maes o'r wlad lle 'r wyf fi 'n d'rysu  
Mewn anialwch o bob rhyw;  
Tan adenydd, &c.,  
Mwyn, llareiddiaf Brenin nef.

3 Prin 'rwy 'n awr yn ofni'r beddrod,  
Tiroedd perffraith fy iachad;  
Lle ca 'm corph i gysgu noswaith  
Faith, annherfyn ei pharhad;  
Uwch temtasiwn, &c.,  
A phob gelyn cas yn un.



- 4 Rho i mi nerth tros oriau bychain,  
Gerdded gronyn bach yn mlaen;  
N' âd im' ofni gwynt na thymhestl,  
Bryn nac afon, dw'r na thân:  
Ond tan ganu, &c.,  
Gwna i mi fyn'd i ben fy nhaith.

—

## HYMN DCCIV.

NID oes pleser, nid oes tegan,  
Nid oes enw mewn un man,  
Er ei fri a'i holl ogoniant,  
Fyth a lesia i'm henaid gwan;  
Ond fy Iesu, &c.,  
Fe ei Hunan yw fy Nuw.

Mae deng myrddiwn o rinweddau  
Dwyfol yn ei enw pur;  
Yn ei wedd mae rhagor tegwch  
Nag a welodd môr na thir;  
'Mo'i gyffelyb, &c.,  
Erioed ni welodd nef y nef.

- 3 Mae E'n maddeu beiau mawrion,  
Mae E'n caru yn ddi-drai;  
A lle caro, mae ei gariad  
Yn dragwyddol yn parhau;  
Nid oes terfyn, &c.,  
Ar ei amynedd, ar ei ras.

- 4 Ynddo mae afonydd mawrion  
O ffyddlondeb ac o hedd,  
Er fy mwyn dyoddefodd angyu,  
A gorweddodd yn y bedd;  
Fel y gallwn, &c.,  
Fyn'd i mewn i'r ddinas bur.

—

## HYMN DCCV.

ARNAT, IESU, boed fy meddwl,  
Am dy gariad boed fy nghân;  
Dyged swm dy ddyoddefiadau  
Fy serchiadau oll yn lân;  
Mae dy gariad, &c.,  
Uwch y clywodd neb erioed.

- 2 O na chawn ddifyru 'nyddiau  
Llwythog tan dy ddwyfol groes!

A phob meddwl wedi ei glymu  
Wrth dy Berson ddydd a nos;  
Byw bob mynyd, &c.,  
Mewn tangnefedd pur a hedd.

- 3 Mae rhyw hiraeth ar fy nghalon  
Am ddihengu o dwrf y byd;  
A gwel'd dyddiau colla'i 'ngolwg  
Ar bob tegan ynddo 'nghyd;  
Cael ymborthi, &c.,  
Fyth ar sylwedd pur y nef.

- 4 IESU 'n ffrynd, a IESU 'n Briod,  
IESU 'n gariad uwch bob rhai;  
Fe yn Broffwyd i fy nysgu,  
Fe yn 'Ffeiriad 'faddeu 'mai:  
Tan ei gysgod, &c.,  
Mi gongcwerwn feiau heb rif.

- 5 Os Efe saif o fy ochr,  
Ofna'i mo 'ngelynyon ddim,  
Er eu cynddeiriogrwydd creulon,  
Er eu dyfais, er eu grym:  
Trech yn hollol, &c.,  
Ydyw congwest Calfari.

—

## HYMN DCCVI.

'R WYF fi 'n haeddu,—AR-  
GLWYDD,—arbed,  
Wialenodau heb ddim rhi',  
Y mae 'm beiau duon, creulon  
Wedi llanw fel y lli';  
Wael bechadur, &c.,  
'R wyf fi 'n gruddfan wrth dy groes.

- 2 Os gadewi 'mhechod ddamsiad  
F'i enaid eiddil tan ei droed,  
Fe wna 'm hannghrediniaeth 'sglyf-  
aeth  
Penaf o honwy' fu erioed:  
Dal fi fyny, &c.,  
Onide mi lwfrha.

- 3 Ofni ddoe, ac ofni heddyw,  
Ofni foreu, ofni nawn,  
Caiff y gelyn sy 'n fy mhoeni  
Rywbyrd arna'i gongwest lawn:  
A than ofni, &c.,  
'R wy 'n gogwyddo i ben fy nhaith.

## HYMN DCCVIII.

'R WYF fi 'n haeddu,—AR-  
GLWYDD, arbed,—  
Cael cystuddiau 'r Aipht yn un;  
Mi ymgaledais yn dy erbyn,  
'N awr 'rwy'n annheilyngaf ddyd;  
Er dy ogoniant, &c.,  
Dwg fi 'maes o'r tiroedd caeth.

- 2 Plâau sy 'n yr Aipht wenwynig,  
Gwlad heb lewyrch goleu dydd,  
Lle mae pererinion Seion  
Mewn carcharau caeth yn  
nghudd;  
Minau 'n gruddfan, &c.,  
Beunydd am fy llwyr ryddhad.

- 4 At yr orsedd 'r wy 'n apelio,  
Wedi 'm hollol golli 'ngrym;  
Tlawd o mewn, a thlawd oddi allan,  
IESU, bydd yn gymhorth im';  
Dal fi fyny, &c.,  
Yn nhywyllwch dedew 'r nos.
- 5 Cuddia fi y dydd b'wy 'n ofni,  
Os y fath ddiwrnod ddaw;  
Nid wy 'n abl dala gwyntoedd  
Oerion, cryf y gogledd draw:  
Ond Ti fedri, &c.,  
Droi 'r tymhestloedd oll yn haf.

—

## HYMN DCCVII.

W RTH dy orsedd 'r wyf yn  
gorphwys,  
Llefain arnat foreu a nawn;  
Im' gael clywed llawn ddystaw-  
rwydd  
O'm heuogrwydd tanllyd iawn;  
A thangnefedd, &c.,  
Pur o mewn yn cadw ei le.

- 2 Clwyfau dyfnion yn mhob brwydr,  
Wyf yn ddyoddef am fy mai,  
Methu ffeiddio fy mhechodau,  
Methu eilwaith 'difarhau;  
Tan ryw wasgfa, &c.,  
Rhwing fy ngalar a fy chwant.

- 3 'D oes ond gras yn eitha' ei allu  
Ddaw â'm henaid idd ei le,  
'D oes ond unig ras a'm ceidw  
O fewn muriau ei gariad E;  
Uwchlaw dyfais, &c.,  
Dyn a'i allu, mae ei rym.

- 4 Llef ddrylliedig, gref y croesbren  
Sydd yn abl maddeu 'mai,  
Llef y croesbren sydd yn abl  
Dodi 'm henaid 'difarhau;  
Ar Galfaria, &c.,  
Fynydd sanctaidd, mae fy ngrym.

- 5 Mi ddysgwyliaf yno 'n dawel,  
Ac mi gredaf ryw bryd daw  
Gwardedigaeth i garcharor,  
Bur oddi yno maes o law;  
Doed pan delo, &c.,  
Mi ddysgwyliaf nes ei d'od.

- 3 Ffordd nid oes o waredigaeth  
Ond agorwyd ar y pren,  
Llwbwr pechaduriaid euog,  
Mewn i byrth y nefoedd wen;  
Dyma 'r gefnffordd, &c.,  
Gwna i mi ei cherdded tra f'wy  
byw.

- 4 Nid myfi sydd yn rhyfela,  
'D yw fy ngallu penaf ddim,  
Ond mi roi's fy holl ryfeloedd  
I'r un godidoca' ei rym;  
Yn ei allu, &c.,  
Minau ddof trwy 'r cefnfor coch.

—

## HYMN DCCIX.

DISGYN, IESU, o'th gyntedd-  
oedd,  
Lle mae moroedd mawr o hedd;  
Gwel bechadur sydd yn gruddfan  
Ar ymyloedd oer y bedd;  
Rhó i mi brofi, &c.,  
Pethau nad adnabu 'r byd.

- 2 Rho oleuni, rho ddoethineb,  
Rho dangnefedd fo 'n parhau,  
Rho lawenydd heb ddim diwedd,  
Rho faddeuant am bob bai;  
Triged dy Ysbryd, &c.,  
Yn ei deml tan fy mron.

3 Ynot mae fy iechydwrïaeth,  
Ynte yn wir mi lwfrhawn,  
Ac mae 'r poenau a ddyoddefaist  
Ar Galfaria yn berffaith iawn,  
Tros bechodau, &c.,  
'R pechaduriaid dua' eu lliw.

4 Yn y fffynon hon agorwyd  
Yn dy ystlys ar y pren,  
'R wyf fi 'n d'od â'm gwisg yn fudr,  
Idd ei chânau 'n awr yn wen;  
Mi ddof allan, &c.,  
Fel yr eira ar y bryn.

## HYMN DCCX.

MI wela 'r cwmwl du  
Yn awr yn mron a ffoi,  
A gwynt y gogledd sy  
Ychydig bach yn troi;  
'N ol tymhestl fawr, daw yn y man  
Ryw hyfryd hin ar f' enaid gwan.

2 Ni phery dim yn hir  
O'r ddu, dymhestlog nos,  
Ni phwyntiwyd oesoedd maith  
I neb i gario 'r groes;  
Mae 'r hyfryd wawr sy'n goleuo draw  
Yn dweyd fod boreu braf gerllaw.

3 Mi welaf oleu 'r haul  
Ar fryniau tŷ fy Nhad,  
Yn dangos i mi sail  
Fy iechydwrïaeth rad;  
Fod fy enw i fry ar lyfrau 'r nef,  
Ac nad oes dim a'i blotia ef.

4 Ac er im' fflwyddi hir  
I deithio 'r anial nos,  
Ac yfed llawer dracht  
O gwpan chwerw 'r groes;  
Dyodde 'r iau ydoedd fy ngrym,  
Ac nid aiff fy nyodde 'n ddim.

5 Y pwn oedd ar fy ngwâr  
A dynodd nef i lawr,  
Ac a sancteiddiodd im'  
Fy nygn gystudd mawr;  
Fy ngweddi daer a drodd y rhod,  
Gwnaeth fêl o'r gwenwyn chwerwa'  
erioed.

6 Melus fel diliau mêl,  
A maethlon er iachad,  
Yw holl geryddon nef,  
A gwialenodau 'Nhad:  
Pob croes, pob gwae, pob awel gref  
Sydd yn addfedu saint y nef.

## HYMN DCCXI.

MI fum mewn ofnau mawr  
Yn ymbil ar y nef,  
A'm pechod yn rhoi sail  
I'm hanngfrediniaeth gref;  
Anfeidrol ras ddaeth maes o law,  
A chariad 'maffodd yn fy llaw.

2 A phan y de's i'r lan,  
Mi ge's oleuni clir  
I wel'd mynyddau 'r Aipht,  
A bryniau Canaan dir;  
Ffarwel i'r byd, 'r wy 'n dewis byw  
Yn nglweddoedd goleu pur fy Nuw.

3 Nid oes yn nhir fy ngwlad  
Ond tristwch o bob rhyw,  
Hen loches gadarn gudd  
Gelynyon f' ARGLWYDD yw;  
O flaen y gwynt, awelon nef,  
Mi foria tuag ato Ef.

4 'D oes arna'i ronyn chwant,  
Na hiraeth troi yn ol,  
Na gadael pleser sal  
Letya yn fy nghôl;  
Mae Duw yn well ganwaith ei Hun  
Na dim mewn daear nac mewn dyn.

5 'R wy 'n blino ar bob chwant,  
A holl bleserau 'r byd,  
Maent heddyw 'n methu rhoi  
Rhyw sylwedd i fy mryd;  
Mae poen a loes, ac ofnau 'nghyd,  
Yn nglŷn wrth holl deganau 'r byd.

## HYMN DCCXII.

TI 'm rhoddaist i tan draed,  
Mae gelynyon o bob rhyw,  
Y cynddeirioca' gaed  
'N awr wedi 'm gwneud yn friw  
Tydi dy Hun a'm cwyd i'r lan,  
Tydi yw unig frynd y gwan.

2 Ac atat 'r wyf yn ffoi,  
Fy Mrenin a fy Nhad,  
Dy allu fedr roi  
'Nghelynyon tan fy nhraed,  
Mi ddof yn rhydd trwy nerth dy  
fraich,  
I Ti 'd oes pwysau yn fy mhaich.

3 Tewch, elynion drwg eu rhyw,  
Nis cewch o honwy' 'lawr,  
On'd cariad yw fy Nuw?  
A'i allu sydd yn fawr;  
Fe 'm dwg i'r lan o'r dywyll nos,  
Tan gysgod tawel gwaed ei groes.

4 Caiff byd ac uffern faith,  
O'r diwedd i dristau,  
I wel'd fy ARGLWYDD mawr,  
Yn maddeu dyfnion fai;  
Y mae ei ras ei hun yn fwy  
Nag y gall uffern faith roi clwy'.

5 A thyna 'r boreu ddydd  
Caf finau seinio cân,  
'N ol fy nghaethiweid maith,  
Am waredigaeth lân;  
O foreu ddydd! pa bryd y daw?  
F' Anwylyd, tyred maes o law.

## HYMN DCCXIII.

PA'M y caiff y gwyntoedd creulon  
Chwythu 'n wastad yr un  
man?  
Pa'm y caiff y 'storom gadarn  
Guro 'n wastad ar y gwan?  
Dal i fyny, &c.,  
Yr hwn a faeddwyd gan y don.

2 Mae fy ofnau i fel y moroedd,  
Oll yn gwasgu arna'i yn un—  
Ofni pechod, ofni angeu,  
Ofni 'm hunan, ofni dyn;  
'D oes a 'ngheidw i, &c.,  
'N dawel onid gallu 'r nef.

3 Ac er llauws mawr fy ofnau,  
Am a basiodd ac y sydd,  
Mwy 'r wy 'n crynu rhag y cystudd  
Ag wy 'n ddychymygu fydd;  
Mi ymguddiaf, &c.,  
Yn ogfydd tawela 'r nef.

4 Gallu 'r nef a dry bob ofn  
Yn rhyw gongcwest mawr, di-  
drai,  
Gallu 'r nef a dry fy nhriswch  
Yn llawenydd i barhau:  
Minau seiniaf, &c.,  
Ganiad newydd tra f' wy' byw.

5 Os fy rhwydau i oll a dori,  
Os fy nghadwyn dyni 'n rhydd,  
Ac os troi 'r tywyllwch dudew  
Sy 'n fy nrysu 'n oleu ddydd,  
Ti gai 'r cariad, &c.,  
Ti gai 'r enw, Ti gai 'r clod.

## HYMN DCCXIV.

N'AD fy ngelyn gael ei gongc-  
west,  
N'ad fy meiau i fy lladd,  
Gorfoleddu yn fy wyneb  
Y mae pechod o bob gradd:  
Tan wasgfeuron, &c.,  
Caled beunydd 'r wyf yn byw.

2 Trist o tan fy mhwn yn gorwedd  
Dysgwyl am y foreu wawr,  
Pan bo 'r arfaeth rad yn addfed  
I gael tynu 'meichiau 'lawr;  
A chael profi, &c.,  
Rhydd-did gwaredigol wledd.

3 Heb un pleser yn fy nhemtio,  
Heb un ddelw 'n myn'd â 'mryd,  
Trech na Satan, trech nag angeu,  
Trech nag uffern, trech na'r byd;  
Byw mewn ardal, &c.,  
O lawenydd pur a hedd.

4 Hedd o mewn yn afon loew,  
Lawn, redegog bur o hyd,  
A'r creadur yn ei ogoniant  
Oll yn methu myn'd â mryd;  
Ys' yd cyflawn, &c.,  
O awelon pur y nef.

5 Dyna 'r man dymunwn aros,  
O fewn pabell bur fy Nuw,  
Uwch terfysgoedd ysbryd euog,  
A themtasiwn o bob rhyw;  
Tan awelon, &c.,  
Peraidd hyfryd tir fy ngwlad.

## HYMN DCCXV.

- N**I thâl im' gyfadde' 'meiau,  
Yn un-ll e ond o flaen y ne';  
Duw maddeugar, Tad tosturi,  
Duw anfeidrol yw Efe;  
At ei orsedd, &c.,  
Deuf tan fy nwf n bla.
- 2 On'd oes ganddo ras i achub,  
Ffarwel achub is y rhod!  
Nid oes eto ddyn dosturiodd  
Fel tosturiodd Ef erioed;  
Gwaredigaeth, &c.,  
Sydd yn unig ar ei law.
- 3 Gorwedd ar fy ngwely cystudd,  
At y pared troi fy mhen,  
Gruddfan ydwyf ac och'neidio,  
Wylo tua 'r nefoedd wen:  
Yn y diwedd, &c.,  
F' allai caf fi deimlo hedd.
- 4 'D oes ond gwagedd yn fy nhemtio,  
Pethau na thâl rhoi fy mryd,  
Lleia' para yn eu tegwch,  
Lleia' eu sylwedd yn y byd;  
Dim yn hyfryd, &c.,  
Is y nefoedd ond fy Nuw.
- 5 Rho i mi 'nabod dy anwyl enw,  
Yn anwylaf enw un;  
Rho i mi ddarfod â'r creadur,  
Glynu wrthyt Ti dy Hun;  
'D oes dedwyddwch, &c.,  
I mi arall is y nef.
- 
- HYMN DCCXVI.
- N**'AD fi, IESU, fyn'd yn w'rad-  
wydd  
I ynyfdion gwag y byd,  
N'ad fy nwydau fod yn chwerthin  
I dy elynion Di yn nghyd;  
Gair o'th enau, &c.,  
Ddeil fy ysbryd llesg i'r lan.
- 2 Mil sy 'n dysgwyl, myrdd sydd  
lawen  
Wel'd fy enaid gwan tan draed;

- 'R hyn i mi sydd ddwfn ar choll,  
Iddynt hwy sy 'n llawn iachad;  
Ond mae dy allu, &c.,  
Yn llawer mwy nag uffern fawr.
- 3 Ac er cryfied yw y maglau,  
Er cadarned yw y swyn,  
Er mor fynych tentasiynau,  
Ac er gwaned wyf i'w dwyn,  
'Chaf fi gollu, &c.,  
Dim o'r goron, dim o'r dydd.
- 4 Cof y dyddiau rhoddaist i mi  
Gysur mwy nag eiddo 'r byd;  
Cof y dyddiau ce's dy gwmni  
Yn yr anial maith ei hyd;  
N'ad fi anghofio, &c.,  
Dyddiau 'm hiechydwrriaeth wiw.
- 5 Dychwel im' gysuron gloew,  
Fel y dyddiau goreu erioed,  
Gad im' gerdded fel yn fachgen,  
Eto unwaith wrth dy droed;  
A chael aros, &c.,  
Tan dy gysgod nos a dydd.

## HYMN DCCXVII.

- C**UDD fy meiau rhag y werin,  
Cudd hwy rhag cyfiawnder ne';  
Cofia 'r gwaed un waith a gollwyd  
Ar y croesbren yn fy lle;  
Yn y dyfnder, &c.,  
Bodd y cyfan sy 'n wy 'n fai.
- 2 N'ad fi wneuthur llys na llety,  
Pleser i mi ddydd a nos,  
Ond difyr 'm henaid yno  
Ar gyfiawnder pur y groes;  
Llawn orfoledd, &c.,  
Bob mynydyn yw 'th fwynhau.
- 3 Rho gydwybod wedi ei chànu  
'N beraidd yn y dwyfol waed,  
Cnawd a natur wedi darfod,  
Clwyfau wedi cael iachad;  
Minau 'n aros, &c.,  
Yn fy ninas foreu a nawn.
- 4 Rho fy nwydau fel cantorion  
Oll yn chwareu eu bysedd cur,

## HYMN DCCXIX.

- Ar y delyn sydd yn seinio  
Enw IESU mawr ei Hun;  
Neb ond IESU, &c.,  
Fo 'n ddfyrwch ddydd a nos.
- 5 Gwna ddystawrwydd ar ganiadau  
Cras, afrywiog, hen y byd,  
Diffodd dân cyndeiriog natur  
Sydd yn difa gras o hyd;  
Fel y gallwyf, &c.,  
Glywed pur ganiadau 'r nef.
- 
- HYMN DCCXVIII.
- D**ARFU noddfa mewn creadur,  
Rhaid cael noddfa nes i'r nef,  
Nid oes gadarn le im' orphwys  
Fythol ond ei fynwes Ef;  
Dyna 'r unig, &c.,  
Fan caiff f' enaid wir iachad.
- 2 Dyma 'r euog ofnus aflan  
Eto 'n chwenych bod yn wyn,  
Yn yr afon gymysg liwiau  
Dorodd allan ar y bryn;  
Balm o Gilead, &c.,  
Anghydmareol yw dy waed.
- 3 On' chair yma nerth a gallu,  
A maddeuant perffaith, gwiw,  
Ofer im' obeithio am dano  
Yn dragwyddol lle nad yw;  
Mi ro 'ngobaith, &c.,  
Unig ynot Ti dy Hun.
- 4 Tan dy aden cedwir f' enaid,  
Tan dy aden bydda'i byw,  
Tan dy aden y gwaredir  
Fi o'r beiau gwaetha' eu rhyw;  
'R wyt yn gysgod, &c.,  
Rhag euogrwydd yn ei rym.
- 5 Cysgod rhag ellyllon uffern,  
Pleser, nwydau drwg, a chwant,  
Sydd yn atal pur awelon,  
Neu ynte yn eu gyru 'bant;  
Rho fod yma, &c.,  
Tra f'wy' yn y byd yn byw.
- v
- D**EUED dyddiau o bob cymysg  
Ar fy nherfyndedig oes,  
Tywyned haul oleuddeg llwyddiant,  
Neu ynte gwasged garw groes;  
Clod fy Nuw gaiff lanw 'ngenau  
Trwy bob tymhestl, trwy bob hin,  
A phob enw gaiff ei lyngcu  
Yn ei enw Ef ei Hun.
- 2 Ynddo 'n unig 'r wy 'n ymddiried,  
Hollalluog yw fy Nuw,  
A phob noddfa wy 'n ffeiddio,  
Arall, annigonol yw;  
Yn ei iechydwrriaeth rasol  
Unig 'r wyf yn llawenhau,  
Dyma 'r fan y tardd cysuron  
Sy 'n dragwyddol yn parhau.
- 3 Mae 'n gofalu am fy nghadw  
Trwy bob cystudd mwya' r byd,  
A chyflawni pan bo hi 'n gyfyng  
Fy anghenion oll i gyd;  
Mae E 'n arwain fy ngherddediad,  
Yn fy nhywys yn y blaen,  
Ac yn gwylio ar fy nghamrau  
Bob ysgogiad fawr a mân.
- 4 Mae ei glustiau yn agored  
I bob rhyw ddrylliedig lef,  
Ac mae 'r drom ochenaidd glwyfus  
Yn cyrhaeddyd ato Ef;  
Pan bo t'w'llwch ac anobaith  
Yn amgylchu 'm llwybrau cudd,  
Fe ddaw 'mlaen, fe dry y cyfnos  
Gan' goleuach haner dydd.
- 5 Llwybrau bendith yw 'i orch-  
mynion,  
Llwybrau bywyd, llwybrau gwir,  
Trwy bob cwmwl mae E'n  
gweithio,  
Mewn goleuni dysglaer, pur;  
Mae 'i ddyfodiad fel yr haulwen,  
Byth ni allwn yma fyw  
Heb gael profi presenoldeb  
Llawn, hyfrydaf, pur fy Nuw.
- 6 Boed fy nhafod fyth gan hynny  
'N seinio ei anghydmareol glod,  
Rhyfeddodau maith ei gariad  
Penaf welodd dyn erioed;

Caiff angylion a seraphiaid  
Blethu eu cân â mi yn un,  
Gyda llu heb un rhifedi  
Am ogoniant Mab y dyn.

## HYMN DCCXX.

**O**LLEFARA, addfwyn IESU!  
Mae dy eiriau fel y gwin,  
Oll yn dwyn i mewn dangnefedd  
Ag sy o anfeidrol rin;  
Mae holl leisiau 'r greadigaeth,  
Holl ddeniadau cnawd a byd,  
Wrth dy lais hyfrydaf, tawel  
Yn dystewi, a myn'd yn fud.

2 Nis gall holl hyfrydwch natur,  
A'i melusdra penaf 'maes,  
Fyth gydmaru â lleferydd  
Hyfryd, pur maddeuol ras;  
Gad im' glywed swm dy eiriau,  
Awdurdodol eiriau 'r nef,  
Oddi mewn yn creu heddwch  
Nad oes mo'i gyffelyb ef.

3 D'wed dy fod yn eiddo i mi  
Mewn llyth'renau eglur, clir,  
Tor amheuaeth sych, di-gysur,  
Tywyll, dyrus cyn bo hir;  
'R wy 'n hiraethu am gael clywed  
Un o eiriau pur y ne',  
Nes bo ofn du a thristwch  
Yn tragwyddol gollu eu lle.

## HYMN DCCXXI.

**T**I yw 'mywyd, Ti yw 'ngobaith,  
Ti yw 'nghysur, IESU, 'gyd;  
Ac i Ti 'r wyf am ddatguddio  
Fy nirgelion pena' nghyd;  
Arnat Ti 'r wy 'n rhoi fy ngofal,  
Trefnu 'm llwybrau oll yn lân,  
Rho i mi gerdded wrth dy ochor  
Mewn llifeiriant mawr a than.

2 'R wyt Ti 'n chwilio dyfnder f' ys-  
bryd,  
'R wyt Ti 'n treiddio 'n hollol  
trwy  
Fyrddiwn o ryw fân feddyliau,  
Nad wy'n 'nabod mo honynthwy;

Ti yw 'Marnwr, dal fi fynd,  
A chongcwera mewn iawn bryd,  
Bob rhyw eilun cas addoliaeth  
Ag sy 'n aros yn fy mryd.

3 Teml berffaith, addas, gywir  
Yn fy nghalon gwna it' dy Hun,  
Ac na thriged yno gyda th'  
Ddw'r na daear, da na dyn;  
N'ad fod swm creadur mwyach,  
'Chwaith nag un o ofnau 'r bedd,  
Yn cymylu cariad perffaith  
Yno, na therfysgu 'm hedd.

4 B'le 'r â' i yfed dw'r redegog  
Ond i afon bur fy Nuw?  
B'le cair ffrwythau dwyfol, peraidd  
Ond ar Bren y Bywyd gwiw?  
Atat Ti dy Hun 'r wy 'n dyfod  
I feddianu breintiau 'r ne';  
Nid oes neb o tan yr wybren  
Geidw gronyn bach o'th le.

## HYMN DCCXXII.

Ar Luc xv. 14, 15, &amp;c.

**D**YMA 'r truan a'r anghenus  
Wedi treulio ei dda o'r bron,  
Holl drysorau pur Paradwys,  
Ar wrthdychau 'r ddaear hon;  
Yn awr yn noeth, yn glaf, yn  
glwyfus,  
Ac mewn gwlad o eisiau 'n byw,  
Newyn mawr, heb neb yn rhoddi,  
Sy 'n yr ardal na bo 'm Duw.

2 Cibau yr ymborthais arnynt,  
Bwyd y moch ffeiddiaf, cas;  
Wedi 'm unwaith i gael profi  
O ddanteithion Eden fras;  
Pob rhyw chwant o dan y nefoedd  
Bwyodd f' enaid llesg yn friw,  
Nes wy 'n awr gan bawb a'm  
'nebydd  
Fel y *Negro* dua' ei liw.

3 Mae cyflawnder yno o gyfoeth,  
Fel y moroedd mawr, di-drai,  
O dragwyddol mae ei ddechreu,  
I dragwyddol sy 'n parhau;

Gweision cyflog fy hen artref,  
Fyth sy'n llawen, fyth sy'n llawn,  
Heb na phoen, na thrai, na phrin-  
der,  
Fyth na boreu na phrydnawn.

4 Minau godaf tuag yno,  
Hen ardaloedd tir fy ngwlad,  
Ac mi gwmpaf yn fy nghlwyfau  
A fy mrynti, o flaen fy Nhad;  
D'wedaf wrthyt, Pechais, AR-  
GLWYDD,  
Trwy ryw ryfyg gadarn, gref,  
O'th flaen Di yn anystyriol,  
Hefyd ac yn erbyn nef.

5 Nid wy'n deilwng, am fy nhrosedd,  
Gael dy enw arna'i mwy,  
Gwna fi 'n un o'th weision cyflog,  
A rho arna'i henwau hwy;  
Llawn o ras heb fesur arno,  
Llawn o annherfynol hedd,  
Gaiff y rhai cystuddiol, euog,  
Weled yn ei hyfryd wedd.

## HYMN DCCXXIII.

Luc xv. 20, 21, &amp;c.

**F**Y addwynaf Dad a'm derbyn,  
Er im' dreulio oll i gyd  
O bob da a rodd E i mi  
Ar bob gwagedd yn y byd;  
Fe 'm gwelodd i o bell yn dyfod,  
Ac fe berodd i mi dd'od,  
Daeth i'm cwrdd, ac fe'm cusanodd,  
Cariad penaf fu erioed.

2 Dygodd allan lo pasgedig,  
Ac a'i lladdodd yn ddoed,  
Ac a roddodd im' ddanteithion  
Ag na cha'wd o'u bath erioed;  
Dygodd Ef fy ngwisgoedd budron,  
Ac fe 'm gwisgodd i yn lân  
A'r cyflawnder dwyfol hyny  
Na fu am dana'i erioed o'r blaen.

3 Rhoddodd fodrwy ar fy mysedd,  
Ac esgidiau am fy nhraed:  
Gwnaeth fi 'n hardd o mewn, oddi-  
allan,  
Fel ei etifeidd penaf ga ed;

Cadwodd wledd o ddawns a chanu,  
A phob rhyw bleserau 'nghyd,  
'Chafwyd er y trosedd cyntaf  
Eu cyffelyb yn y byd.

## HYMN DCCXXIV.

**F**Y meiau trymion, luoedd maith,  
A waeddodd tua 'r nen,  
A thyna p'am 'r oedd rhaid i'm  
Duw  
I ddyoddef ar y pren.

2 Hwyl dy fradychodd, anwyl Oen,  
Hwyl oedd y goron ddrain;  
Hwyl oedd y fflangell greulon, gref,  
Hwyl oedd yr hoelion main.

3 Fy meiau oedd y waewffon  
Drywanodd ei ystlys bur;  
Fel rheddodd ffrwd o tan ei fron  
O waed a dyfroedd clir.

4 O gariad anorchfygol, maith,  
Heb gymhar iddo 'n bod!  
Cariad i angel ac i saint,  
O anngydmawr nod!

5 O maddeu 'mai, a chliria 'n llwyr  
F' euogrwydd oll i gyd;  
Ac n'ad fi glwyfo 'th fawredd mwy  
Tr'wy 'n aros yn y byd.

6 O! bechod, ffo, rho lonydd im',  
Ti sethraist tan dy droed,  
Ac roi'st i angeu, fywyd Un  
A'm carodd oreu erioed!

7 O chwilia 'nghalon, addfwyn Oen,  
Ac eiste' yma dy Hun;  
A thafli' i lawr gadeiriau hen  
Pob eilun gwael ei lun.

## HYMN DCCXXV.

*A gyfansoddwyd mewn oriau cystudd.*

**D**ERE, ARGWYDD, fedd y  
ddaear  
Fawr, na'r nefoedd mo dy gymhar;

Nid oes neb a fedr faddeu  
Fel Tydi, aneirif feiau ;  
'Rwyt Ti'n gwel'd i gyd fy nbroion,  
Ac yn deall gwreiddiau 'nghalon ;  
Yma a thraw, ar bob llaw,  
'R ydwyf yn gŵyro,  
Ydoedd o dy flaen yn gryno  
Cyn cael yn y groth fy llunio.

2 'R wy'n rhoi 'mhechod, 'r wy'n rhoi 'nghamwedd,  
'N awr yn gryno wrth dy orsedd ;  
Maddeu i'r brwnt, a maddeu i'r aflan,  
Sydd o flaen dy faingc yn gruddfan ;  
Maith drugaredd wyf yn bledio,  
Darfu haeddiant dyn yn gryno ;  
Nid oes dim noddfa im'  
Rhag grym yr angau,  
Ond yr aberth wnaed er's dyddiau  
Ar Galfaria tros bechodau.

3 Dacw 'r ffynon bur, hawddgara',  
Gânodd filoedd fel yr eira ;  
Dacw 'r nant, a dacw 'r afon,  
Sydd yn genllif o gysuron ;  
Dacw 'r dw'r—mi gwmpaf iddo,  
Doed o honwy 'r peth a ddelo ;  
Bellach mwy treiddiaf trwy  
Filoedd o ofnau ;  
Mwy yw 'r Hwn a fu yn dyodde'  
Nag aneirif faint fy meiau.

4 Fel un faeddwyd wyf yn gymhwys,  
Eto a'm gobraith am Baradwys ;  
Mae fy chwant, ac mae fy nwydau,  
Yn fy nwyn tros bob terfynau ;  
Eto mae yma ryw afaelion  
Am dorfeydd o addewidion ;  
Deued gras, foreu glas,  
Hyfryd i'w weled,  
Tored rwydau, a gwareded  
F' enaid euog o'i gaethiwed.

5 Fi gaf ddial yn mhen gronyn  
Ar elynion sy'n fy nghanlyn ;  
Fe fwyf' pryfed dorf o 'nwydau,  
Oedd yn 'mlino i er's dyddiau ;  
Pan ddél angeu caf ddihangu  
Ar elynion oedd yn gwasgu,  
Uffern griw yn gwneud briw,  
Clwyfau a sigdod,  
Nad oes medsw'n all eu gorfod  
'Ond dw'r ffynon Bethl'em uchod.

## HYMN DCCXXVI.

Yr Ail Ran.

'R WYF fi 'n myn'd i wlad i  
drigo  
Lle mae gloew ras yn llifio ;  
At gyfeillion mil mwy hawddgar  
Na neb welwyd ar y ddaear ;  
Lle mae cyfoeth heb un terfyn,  
Pleser nefol, dwyfol, dirfyn,  
Yn ngwydd yr Oen, heb ddim  
poen  
Pechod nac adfyd,  
Ond ymborthi ar wleddoedd hyfryd  
Fyth ac fyth yn nhir y bywyd.

2 Nid oes yno ddim i demtio,  
Nac un pleser a bair wylo ;  
Nid oes tai na maesydd hyfryd  
Bair i'w caru 'n nhir y bywyd ;  
Nid oes arian glas yn swnio,  
Na dim aur melynion yno ;  
Cariad pur trwy 'r holl dir,  
Pleser ac undeb,  
Gwir lawenydd, a ffyddlondeb,  
Hyd eithafoedd tragwyddoldeb.

3 Ni ddaw llygad trythyll yno,  
Lle nad oes un cnawd i dwymo ;  
Ni ddaw aflan chwant priodi  
Fyth ar y trigolion hyny ;  
Gwreica a gwra, elfen danbaid,  
Yn y bedd a fwyty 'r pryfed,  
Bydd pob un, hyfryd lun,  
Fel yr angylion,  
Yfed rhyw bleseuau 'n gyson  
Uwch nag cyrhaedd deall dynion.

4 Llid nac un genfigen hefyd,  
Fyth ni ddaw i drothwy 'r bywyd ;  
Ni ddaw 'r ymadrodd coeg a'r  
celwydd  
Ddim o fewn Paradwys newydd ;  
Tafod wedi lwyr sancteiddio,  
Llygad wedi ei berffaith buro,  
Sy 'n y wlad, gyda 'Nhad  
Anwyl yn trigo,  
'R wyf fi yma wedi blino,  
Hiraeth sy arna'i am fyn'd yno.

5 Bellach gorfoledda, fy enaid,  
'Rwyt ar ddiangc o'th gaethiwed ;

Fe agorwyd rhydiau 'r afon,  
Y mae 'r arch o'th flaen yn gyson :  
Cadw afael, pan ddél galwad,  
Gadarn yn dy Archoffeiriad :  
Dos i'r dw'r, cryf yw'r Gŵr,  
Sydd yn dy dderbyn,  
Ti ai drosodd, yn mhen gronyn,  
'Mewn i'r wlad 'r ys yn dy erfyn.\*

## HYMN DCCXXVII.

DYMA'r tlawd, a thyma'r truan,  
Sydd er's trist flynyddau hir,  
Ol a gwrthol yn ymdd'rysu  
'R hyd y dyrys anial dir ;  
Creigydd Piahiroth yma,  
A Baal-sephon arw draw ;  
Aipht o mewn, ac Aipht oddi allan  
Sy 'n fy ofni ar bob llaw.

2 Mae 'ngelynyon yn gynddeiriog,  
Cynddeiriocaf glywyd son ;  
Ar fy neulin 'r wyf yn ymladd,  
Weithiau a phleser, weithiau a  
phoen ;  
Addfwyn Iesu, tyr'd i'r frwydr,  
Pob rhyw lyn gwmp i lawr ;  
Byd a chnawd, ac uffern dywyll,  
Sy 'n arswydo dy Enw mawr.

3 Ac nid oes ond Ti dy Hunan  
Fentra sefyll o fy nhu ;  
Trech na 'r cwbl arall enwir  
Yw 'ngelynyon mawr eu rhi' ;  
Gwn y cwmpa' i yn eu dwylo  
Oni safi Di o'm rhan ;  
Wrth dy ystlys, cryf a chadarn,  
Ydyw 'r eiddil mwyaf gwan.

4 Achub, achub, mae 'n ddiweddar,  
Nid oes genyf ond byr brydnawn ;  
Ac mae 'r fyddin sydd i'm herbyn  
Yn cynyddu 'n danbaid iawn :  
Danfon allan saethau 'r nefoedd,  
Cyfod fi, d'od fi yn dy gól,  
A thro 'r llu sy 'n erbyn Seion,  
Gan ryw ddychryn yn eu hol.

\* *Erfyn*.—Arferir y gair hwn yn fynych yn  
y Deheubarth am *ddyngwyl*, neu *ymofyn*.

## HYMN DCCXXVIII.

FY meiau sydd heb rif,  
Ac mae fy maich yn drwm,  
Oll yn fy ngwasgu 'lawr  
Fel mynydd mawr o blwm :  
Ar ddwyfol Iawn mae 'mhws a'm  
ffydd,  
Y caf fi dd'od ryw awr yn rhydd.

2 Cyfiawnder addfwyn Oen,  
Dyferion marwol glwy',  
Sydd yn nghlorianau 'r nef  
Yn pwyso mwy na hwy :  
Mae 'r faingc yn rhydd, os pleidia  
f' hedd,  
Caf weled cariad yn ei wedd.

3 Ac os ei gariad ddaw  
I'm cwrdd i, ffaidd ddyn ;  
Wel, dyna 'r unig awr  
Ffeiddiaf fy fu hun ;  
Gwel'd gras y nef yn afon waed,  
Yn golchi 'r aflan brynta' gaed.

4 'D oes dim o fewn i'r nef,  
'D oes dim o fewn i'r llawr,  
Ag allai flotio 'maes  
Euogrwydd sy mor fawr ;  
Fy meiau sydd o rif a rhyw  
Nad oes a'u maddeu ond fy Nuw.

5 Pan ddelo 'r hyfryd ddydd  
I mi gael gwel'd ei wedd,  
Ac yfed ffrydiau pur  
O'i annherfynol hedd,  
'Mhlith lluoedd maith gwmpeini 'r  
neu,  
Mi gana 'r cariad fu ar y pren.

## HYMN DCCXXIX.

O NEFOL, addfwyn Oen,  
Sy 'n llawer mwy na 'r byd,  
A lluoedd maith y nef  
Yn rhedeg arno eu bryd ;  
Mae 'th ddawn, a'th ras, a'th gariad  
drud,  
Yn llanw 'r nef, yn llanw 'r byd.



- 2 Noddfa pechadur trist  
Tan bob drylliedig friw,  
A phwys euogrwydd llym  
Yn unig yw fy Nuw ;  
'D oes enw i'w gael o tan y nef  
Yn unig ond ei enw Ef.
- 3 Ymgrymed pawb i lawr  
I enw 'r addfwyn Oen,  
Yr enw mwyaf mawr  
Erioed a glywyd son :  
Y clod, a'r nerth, y gallu, a'r bri,  
Fo fyth i enw 'n HARGLWYDD ni.
- 4 Dyoddefodd hoelion dur,  
Fe gollodd ddwyfol waed :  
Gwnaeth ni 'n offeriaid pur,  
'Was'naethu ei anwyl Dad ;  
Breninoedd y'm o ddwyfol ryw,  
Perthynas agos iawn i'n Duw.

- 5 Cawn goronau cyn bo hir,  
Oll fel ei goron Ef,  
A gwel'd ei ogoniant pur  
Yn ddysglaer yn y nef ;  
A seinio ei glod, a'i ryfedd waith,  
I eithaf tragwyddoldeb maith.

## HYMN DCCXXX.

- N**ID newid lle, neu amser maith,  
Na chroesau, dig, na chys-  
tudd 'chwaith,  
Neu arall drallod o un rhyw,  
Ddiffydd fy nghariad at fy Nuw.
- 2 Nis gall teganau gwag y byd,  
Sydd yn gwenieithu im' o hyd,  
I symud dim o'm meddwl cu  
Oddiwrth wrthddrychau 'r nefoedd  
fry.
- 3 Pe holl ellyllon uffern fawr,  
Mewn cyngrair â phleserau'r llawr,  
Nis gallant ddiffodd fyth yn un  
Mo 'r tân enynodd Ef ei Hun.
- 4 Nis gallant â'u pwysiau gau,  
Neu 'u bygwth cryf, a'u dychryn-  
fau,  
Na 'm denu i droi oddiar fy nhaith,  
Na 'm hofni ar fy siwrnai 'chwaith.

- 5 Yn ofer dena tegwch byd,  
Yn ofer dwg pleserau 'mryd,  
Yn ofer cais anrhydedd mawr,  
A rhwysg y byd, i'm tynu 'lawr.
- 6 Nis gall erlidwyr yn eu grym,  
Nac angeu glas ei hunan ddina ;  
Ond i Ti 'nghadw, f' ARGWLWYDD-  
cun,  
Yn agos atat Ti dy Hun.
- 7 Y nefol dân, ar 'denydd ffydd,  
Heb ddiffodd, gwyd i'r lan yn  
rhydd ;  
A heibio 'r byd, ac angeu, a dyn,  
A gorphwys yn ei le ei hun.

## HYMN DCCXXXI.

**T**U draw i oll a welir,  
Tu draw i fryniau 'r byd,  
Tu draw i haul a lleuad,  
A ser y nef i gyd ;  
Tu draw i derfyn mesur,  
O fewn y nefoedd wen,  
Cartrefa 'r Hwn wy 'n garu  
Yn well na dim is nen.

- 2 Mae brawd, mae chwaer, mae priod,  
Neu fe 'r anwylaf ddy  
Yn toddi, yn diflanu,  
Yn darfod wrth ei glun ;  
Mae 'n cario oll ei Hunan,  
Yn enw, ac yn glod ;  
Ni welodd nef na daear  
Gyffelyb iddo erioed.
- 3 Chwi, ferched Seion sanctaidd,  
Sy 'n rhodio 'r ddinas rydd,  
Yn canfod eich Anwyl  
Serchocaf un y sydd ;  
Pan gweloch gynta' ei wyneb,  
Mynegwch iddo 'n glau,  
Fy mod i'n glaf o'i gariad,  
Ac am gael ei fwynhau.
- 4 Mynegwch fy och'neidiau,  
Fy ngofid a fy nghwyn,  
Yr hiraeth a'r gruddfanau  
Mae fy ysbyrd am ei ddwyn ;

Mynegwch cy'd yw 'r oriau,  
A chymaint yw fy ngwae ;  
Tra yw E 'n oedi ei amser  
I mi gael ei fwynhau.

- 5 A bod ei absenoldeb,  
Ei siriol, nefol wedd,  
Yn 'speilio oddiar fy enaid  
Orphwysfa dawl hedd :  
A bod eiddigedd creulon,  
Sy 'n llosgi oll o'i flaen,  
Yn enyn yn fy mynwes,  
Yn rhyw angerddol dân.
- 6 Mynegwch bod fy meddwl  
Terfysglyd, ar bob llaw,  
Yn methu cael un pleser,  
Pan byddo 'n sefyll draw ;  
A bod fy holl ddyddanwch  
Gylch ogyrch is y nef,  
Yn gorphwys a chartrefu  
'N lân ar ei gariad Ef.

## HYMN DCCXXXII.

Ar Salm xlix. *gwersi* 1, 2 ; *Achub, &c.*

**U**NIG Geidwad rhai cystuddiol,  
Sy 'n rheoli 'r nef a'r llawr,  
Achub f' enaid sydd yn soddi  
Tan y ceullif garw, mawr ;  
Lleoedd dyfnion, geirwon, chwerw,  
A rhyw greigydd drwg eu rhyw,  
Lle mae gwynt a thonau 'n creu  
Tymhestl greulon, 'rwyf yn byw.

*Gwers* 3.

- 2 Minau lefais arnat, ARGWLWYDD,  
Nes im' flino llefain mwy ;  
A fy llygaid sydd yn pallu  
Syllu 'r cwmwl dudew trwy ;  
Dysgwyl 'r wyf o'r plygain tywyll,  
Hyd at fachlud haul brydnawn,  
Am dy hedd, ac eto 'n methu  
Cael ei feddu ef yn llawn.

*Gwers* 4.

- 3 Amlach y'nt na 'm gwallt lluosog,  
Byddin atgas, gyfrwys, fawr,

Heddyw o mewn, a 'fory oddi allan,  
Sydd yn ceisio 'nghael i lawr ;  
Hwy 'm difethent, wraidd a  
changen,  
Truenusaf ce's fy nhrin ;  
Ac nid oes ag all eu talu  
Yn eu mynwes ond dy Hun.

*Gwers* 5.

- 4 Ti adwaenost fy ynfydrwydd,  
A fy mhechod mawr ei rym ;  
Ac nid yw fy holl gamweddu  
Yn guddiedig rhagot ddim :  
Lle 'r wy 'n wan, yn dlawd, yn  
llwfr,  
Lle 'r wy 'n crwydro, lle 'r wy 'n  
ffol,  
Dal fi i'r lan, a chadw 'mywyd,  
Cliria 'm llwybr, dwg fi 'n ol.

*Gwers* 6.

- 5 N'ad fi, Iesu, fod yn w'radwydd  
I'th sancteiddiaf, anwyl rai ;  
Na ch'wilyddier wyneb grasol  
Am fy mhechod i a 'mai :  
Rho i mi loches i ymguddio,  
Gallwy' gadw 'ngwisg yn wen ;  
Na bo neb o dan yr wybren  
'Gael eu gwynfyd am fy mhen.

*Gwers* 7.

- 6 Er dy fwyn y dygais warthrudd,  
Tan dy iau Di nos a dydd ;  
Ac yn ffyddlon yn dy orchwyl,  
Fyth heb geisio myn'd yn rhydd ;  
Pe buaswn gyda 'r werin  
Sy 'n wrthwyneb it' yn troi,  
Fuasai fyth na gwawd na chw'ilydd  
O fy wyneb trist yn troi.

*Gwers* 8.

- 7 Ond yn awr yr wy 'n ddeieithr  
I'm perth 'nasau nesa' 'nghyd ;  
Nid oes neb ag sy 'n fy ngharu,  
O dy elynion Di i gyd ;  
Plant fy mam yn nghanol cartref  
Sy 'n fy nghyfrin 'n estron pell,  
Am i mi, fy Nuw, dy ddewis  
Megys unig drysor gwel.

*Gwersi* 9, 10, 11.

- 8 Am fy mod o'th blaid yn ffyddlon,  
Ac am ddrchu 'th Enw mawr ;



Sêl i'th dŷ, a sêl i'th Enw,  
Sydd yn tynu 'mhen i lawr :  
Gwawd a gaf oddiwrth bob doniau,  
Gwawd a gaf oddiwrth bob gras ;  
Wylo, ympryd, neu weddio,  
Alwant hwy yn rhagrith cas.

*Gwers 12.*

9 Yn fy erbyn y chwedleua  
Cyfoethogion mawr y byd ;  
Gwawd i'r meddwon atgas, segur,  
Unig ydwyf fi bob pryd ;  
'Mofyn beiau, credu anwir,  
A chwedleua 'n uchel iawn  
Am fy nghwymp, a minau'n sefyll  
Yn dy freichiau foreu a nawn.

*Gwers 13.*

10 Ond myfi sy 'n danfon gweddi  
Yn mhob cwmwl tywyll, du,  
Yn mhob 'storom, yn mhob cyst-  
tudd,  
Mewn mynydyn atat Ti :  
Ti 'm gwrandewaist, Ti 'm gwran-  
dewi  
Yn dy iachawdwriaeth rad,  
Fel na chaff fy enaid ofnus  
Ddim ei ddamsang tan eu traed.

*Gwersi 14, 15.*

11 N'ad fi soddi yn y dyfnder,  
N'ad fi yn y dom yn nglŷn ;  
Tyn fi o balfau fy nghaseion,  
I dy fynwes Di dy Hun ;  
N'ad i'r dyfnder mawr fy llyngcu,  
N'ad i'r pydew dwfn, du,  
Gauad fyth o'i safn arnaf ;  
F' unig Geidwad ydwyf Ti.

*Gwersi 16, 17, 18.*

12 'N ol helaethrwydd dy drugaredd,  
'N ol cyflawnder mawr dy ras,  
Achub fi o law 'ngelynyon,  
Mae cyfyngder ar dy was :  
O na chudd dy wyneb rhagof !  
Prysura 'ngwrando i yn glau ;  
Y mae llid a dyfais uffern  
Yn wastadol yn parhau.

*Gwers 19.*

13 Ti dy Hun sy'n gwel'd fy ngwarth-  
rudd,  
Ti adwaenost trwyddo draw

Bob rhyw g'wilydd, pob rhyw  
w'radwydd  
Basiodd, neu ynte sy gerllaw,  
Mae holl falais fy ngelynyon,  
Mae eu dyfais, mae eu llid,  
Megys haul ganol-dydd tanbaid,  
'N gryno o dy flaen i gyd.

*Gwers 20.*

14 Mi ddysgwyliais am gysurwyr,  
Ac am frodyr ffyddlon rai ;  
Dysgwyl wnes, eto nis cefais  
Neb a ddygai 'm llwythog iau ;  
Gwarthrudd, yntau, a'm cystudd-  
iodd,  
Ac a'm rhodd yn gyfan friw ;  
Ac yr wyf mewn eitha' gofid,  
Ond fy ngobaith yw fy Nuw.

*Gwersi 21, 22.*

15 Yn fy mwyd rhoddasant fustl,  
Yn fy nghwpan fineg sur,  
Fel b'ai 'm newyn a fy syched  
I gael para 'n ddigon hir :  
Taled nefoedd hithau iddynt,  
Boed eu byrddau glwthion,  
llawn,  
A'u holl dda iddynt yn fagl,  
O las foreu hyd brydnawn.

*Gwersi 24, 25.*

16 Tywallt arnynt dy ddigofaint,  
A chyrrhaedded grym dy lid  
Bob-peth ganddynt sy ddymunol  
Ar y ddaear, yn y byd :  
Gwna eu preswylfa 'n anngly-  
fanedd,  
Ac ysgubed angeu chwith,  
Fel na byddo neb i drigo  
Yn eu pebyll llawnion byth.

*Gwersi 26.*

17 Am ofidiau rhai archollaist,  
Am y'nt chwerthin yn gytun,  
Ac am erlid gyda malais  
'R hwn a d'rewsit Ti dy Hun ;  
Tyn eu henwau 'maes o'th lyfr,  
Tor eu hesgobaeth, dwg eu dawn,  
Fel na b'ont o fewn i furiau  
Seion, foreu na phrydnawn.

*Gwers 29.*

18 Minau, truan a gofidus,  
Bob amserau tan yr iau ;  
Ac nid oes ond iechydwrriaeth  
All yn unig fy iachau :  
Gwarded f' enaid o'i gaethiwed,  
Dyrcha 'mhen, Ti yw fy Nuw,  
Minau ganaf am dy fawredd  
Yn fy nghalon tra f'wy' byw.

*Gwersi 31, 32.*

19 Hyn y sydd felusach genyt  
Na 'r aberthau oll i gyd ;  
Mae 'th folianu yn fwy hyfyd  
Nag yw gwaed y bustach drud :  
A'r trueiniaid tlawd, di-gyfoeth,  
Llawenhant pan glywant hyn,  
Nad oes iawn trwy unrhyw aberth  
Ond wnawd ar Galfaria fryn.

### HYMN DCCXXXIII.

Dat. vii. 14—17.

**D**YMA 'r rhai ddaeth i maes  
O'r cystudd mawr a'r poen ;  
Oll wedi golchi 'n hardd  
Eu gwisg yn ngwaed yr Oen ;  
Cânasant bawb ei w'n yn wyn  
Yn y cyflawnder perffaith hyn.

2 Am hyny 'n awr y maent  
Ger bron gorseddfaingc Duw ;  
Ac wedi llwyr iachau  
Eu beiau o bob rhyw :  
Ei garu Ef maent ddydd a nos,  
A chanu cariad angeu 'r goes.

3 O fewn ei deml bur  
Lle nad oes och na gwae,  
Na gofid cas na phoen,  
Na dim sydd yn tristau ;  
Yn yfed hedd yn ffrwd ddi-drai,  
Ag sy 'n dragwyddol yn parhau.

4 Ac yntau 'r Brenin mawr,  
Eu Ffrynd a'u Priod fyth,  
Sy 'n eistedd ar y faingc  
O risial yn eu plith ;  
Cânt wel'd ei wedd, fel haulwen glir,  
Heb gwmwl, yn y ddinas bur.

5 Fydd arnynt newyn fyth,  
Na syched poenus mwy,  
Ac ni ry' gwres na haul  
Ond hyny iddynt glwy' ;  
Pob croes, pob gwae, pob briw, pob  
poen,  
Ni chlywir fyth am dano son.

6 Yr Oen sydd ar y faingc  
Bugeilia hwynt ei Hun,  
Ac at ffynonau byw  
Fe'u harwain bob yr un ;  
A Duw a sych bob deigr mân  
Oddiwrth ei llygaid hwynt yn lân.\*

### HYMN DCCXXXIV.

**C**YFFELYB i fy Nuw  
Ni welodd dae'r na ne' ;  
'D oes un creadur byw  
Gymharir iddo Fe :  
Cyflawnder mawr ei ras di-drai  
Sydd ynddo fythol yn parhau.

2 Fe dry bob melus chwant  
Yn alar hyfryd flas,  
Ac edifeirwch gwiw  
A baro gario 'r maes ;  
Felly fe dd'od fy mhoen a 'ngwae  
Am bechod cas yn llawenhau.

3 Yn nyfnder t'w'llwch nos  
Mi bwysaf ar ei ras,  
O'r t'w'llwch mwya' tew  
Fe ddwg oleuni 'maes ;  
Os gwg, os llid, mi af i'w gôl,  
Mae 'r wawr yn cerdded ar ei ol.

4 Pan toro fi i'r llawr  
Mae 'n siwr o'm codi i'r lan,  
Nis gedy fi yn hir  
I ymgreinaid † yn y fan :  
Ei ras a'i hedd sydd lawer mwy  
Nag y gall uffern faith roi clwy'.

\* Yn dilyn yr Emyn hon yn *Gloria in Excelsis*, Rhan I., y mae dwy Emyn sydd wedi ymddangos o'r blaen, sef Rhif DCCXII. a DCCXIII. Heb ganfod hyn, y mae Argraffiad 1811, a bid sicr, Argraffiad Mackenzie, yn dilyn yn ffyddlon, yn eu hargraffu ddwywaith.

† Ymgreinaid, ymgreinio—ymdreiglo ar y llawr.

5 Mi ymfrostitaf ynddo Fe  
Pe ymderfysgai 'r byd,  
A diluw eilwaith dd'od  
I guddio 'r ddaer i gyd;  
Rhyw noddfa lawn a lloches sy  
Uwch tymhestl, yn fy Anwylyd cu.

HYMN DCCXXXV.

**T**YDI, fy Nuw, Tydi dy Hun  
Yw gwraidd fy nghysur oll  
yn un;  
Meddyliau am danat sy'n rhoi blas  
Ar ragluniaethau croesa' 'maes.

2 Pan caffwy' wel'd dy nefol wledd,  
A phrofi blas dy ddwyfol heddi;  
'R wy 'n gwel'd gogoniant mwya' 'r  
byd  
Fel peth annheilwng o fy mryd.

3 'R wy 'n gwel'd y pethau hyny o'r  
bron  
Sy'n nghudd erioed i'r ddaear hon,  
Yn sylwedd, ac yn 'stor ddi-drai,  
Anfeidrol gyfoeth i barhau.

4 Yn ngwledigaeth nefoedd fry  
'R wy 'n prisio pethau yn werth-  
fawr sy;  
Pan yr agoro pyrth y nef  
'R wy 'n canfod ei ogoniant Ef.

5 'Rwy'n gwel'd dirgelion yn ei waed,  
Na chafwyd eto fwy mwynhad;  
Gras a gogoniant ynddo ei Hun,  
Uwchlaw erioed meddyliond dyn.

6 Wel, dyma 'r unig fan, fy Nuw,  
Dymuna' i aros tra f'wy' byw;  
Blaen-firwyth yw hyn o'r hyfryd  
wledd,  
Ga'i ei mwynhau tu draw i'r bedd.

7 Gád yma im' fyw, fan goreu erioed,  
Heb wel'd, heb glywed beth sy 'n  
bod;  
Heb wybod beth mae 'r werin fawr  
Yn wneud, a dadrys, 'r hyd y llawr.

8 Ond bod fy nghlustiau 'n gwranddo  
o hyd  
Ddirgelion dystaw nefol fyd;  
A'm pleser unig ddydd a nos  
Yn nwf n wrioneddau 'r groes.

HYMN DCCXXXVI.

**T**YDI, fy Nuw, sylfaenodd gri  
O'm mewn am bethau 'r  
nefoedd fry;  
Rho im' yn fuan dy fwynhau,  
Ac onidè, 'r wy 'n llwfrhau.

2 Nid oes greadur ts y ne'  
A leinw ronyn bach o'th le;  
Gogoniant a phleserau 'r byd,  
Ofer y temtiant ddenu 'mryd.

3 'D oes dim ry' im' orphwysfa lawn  
Ond cael dy gwmni foreu a nawn;  
Mae yma bleser, mae yma rodd  
A'm dyd yn hollol wrth fy modd.

4 Wel, dyma 'm heddi a'm noddfa  
glyd,  
Ffarwel holl wagedd oer y byd;  
Mi gym'ra' hân nefolaidd, wiw,  
Ar fynwes f' ARGLWYDD tra f'wy'  
byw.

5 Doed terfysg byd, doed terfysg ne'  
I geisio 'm gwthio i o fy lle;  
'D oes dim i dd'od, 'd oes dim y sy  
A'm tyn o freichiau 'n HARGLWYDD  
cu.

HYMN DCCXXXVII.

*I'w chanu yn nyddiau Gwyliau Nadolig*  
CRIST. Mat. ii. 1, 2, 3, 4, &c.

*Gwjr.*

**F**E gododd rhyw seren  
Tu dwyrain i'r nen,  
Mae 'n agos i'r ddaear,  
Mae 'n oleu, mae 'n wen;

Mae 'n cerdded yn araf,  
Fel colofn o dân,  
Mae 'n congro tywyllwch  
Y cyfnos o'i blaen.

*Gwagedd.*

2 Mae 'n myn'd i Judea,  
Heb wyro ar un llaw,  
Mae 'n arwydd diamheu  
O ryw beth a ddaw;  
Mae acw ryfeddod,  
Rhyfeddod y fydd,  
Cawn glywed am dano  
Cyn haner y dydd.

*Gwjr.*

3 Yn wir 'r ym yn tybied  
In' glywed â'n clust,  
Yn awr 'r ym yn gweled,  
Mae 'n llygaid yn dyst,  
Fod cwmni yn ei chanlyn  
O eithaf y byd,  
A'u golwg hwy arni  
Yn gyson o hyd.

*Gwagedd.*

4 Mae 'n taro i Fethl'em,  
A hono yw 'r dref  
Y genir ryw amser  
Dywyssog y nef;  
Fe dd'wedodd hen Brophwyd  
Doi Tywysog o hon  
Fugeilia holl Israel  
A gwialen a ffon.

*Gwjr.*

5 Gwir, gwir fyddo 'r newydd,  
'D oes newydd sydd well,  
Mae mantais i'r agos,  
Mae mantais i'r pell;  
Mae 'n Dywyssog i Israel,  
A Juda yn nghyd;  
Mae 'n Dywyssog i'r Indian  
Yn eithaf y byd.

*Gwagedd.*

6 Dewch, ninau ddilynwn  
Yn gywir eu troed,  
'Cherddasom well llwybr  
Er ganwyd ni erioed;

Awn yno, mae 'r werin  
Luosog yn nghyd,  
Yn dyfod i'w trethu  
O eithaf y byd.

*Gwjr.*

7 Dewch, canwn ganiadau  
Wrth fyned yn mlaen,  
Caniadau lachawdwr,  
A'n gwared ni 'n lân.

*Gwjr a Gwagedd.*

Cyd-ganed y ddaear  
A'r moroedd yn un,  
Am eni Achubwr  
Galluog i ddyn.

8 Ein cân boed am gongcwest,  
Ein cân boed am ras,  
Ein cân boed am wared  
Y caethion i maes;  
Am Jubil o rydd-did,  
Am drysor mor ddrud,  
I rai oedd yn dlodion  
Hyd eithaf y byd.

HYMN DCCXXXVIII.

*Yr Ail Ran.*

**F**E safodd y seren  
Yn nghanol y dre',  
Wrth 'stabal o'r tlotaf,  
A'r gwaelfaf o le;  
Ac yno mae 'n debyg  
(Er ei ogoniant i gyd)  
Y ganwyd Ef, — Brenin  
Breninoedd y byd.

2 Dewch bellach yn ëon,  
Fe agorwyd y drws,  
Mae pob un o'r doethion  
Yn cynyg ei dlws;  
I lawr ar ein gliniau,  
Mi gwela' nhwy 'gyd  
Yn rhoddi trysorau  
I lachawdwr y byd.

3 Rhai myrrh, a rhai aloes,  
Rhai aur, a rhai thus,

Pob un a'i holl galon  
 Sy 'n rhoddi a'r frys ;  
 Mae hyn yn arwyddo  
 Daw 'r dwyrain a'r de',—  
 Eu calon a'u cyfoeth  
 I gyd iddo Fe.

4 Awn ninau 'mlaen, bellach,  
 Heb arian, heb ddim,  
 Heb nerth, ac heb burdeb,  
 Heb ddeall, heb rym ;  
 Rho'wn iddo 'n ffeidd-dra  
 A'n pechod i gyd,  
 I wella 'n harchollion  
 Y daeth Ef i'r byd.

5 Mae Herod yn llidus,  
 Cenfigen sy 'n gref  
 Am dori holl ddyfais  
 Sancteiddiaf y nef ;  
 Am ladd y Messiah,  
 Yn eiddil a gwan,  
 Khag neb o hil Adda  
 'Gael codiad i'r lan.

6 Mae 'r nefoedd yn atal,  
 'Chwmp blewyn o'i ben  
 Nes delo 'r hen arfaeth  
 Ag amser y nen ;  
 Datguddir i'r doethion  
 Ffordd arall yn ol,  
 A Joseph a'r Iesu,  
 I'r Aipht, yn ei gôl.

7 Fe sefif Rhagluniaeth  
 O ochor y nef,  
 'D oes neb ar y ddaear  
 A gwrdiff ág Ef ;  
 Nes delo 'r amseroedd  
 Derynwyd i ben  
 I'w roddi tan hoelion  
 Pur lymion ar bren.

### HYMN DCCXXXIX.

*P'w chauu ar Ddydd Nadolig.*  
 Luc ii. 8, &c.

**M**AE awyr y dwyrain  
 Yn ddysglaer uwch ben,  
 Mae arwydd o'r mwya'  
 Yn entrych y nen ;

Mae 'r goleu 'n ddysgleiriach  
 O lawer na 'r wawr,  
 Mae 'n nesu 'n agosach,  
 Mae 'n dyfod i lawr.

2 Mae llais rhyw ganiadau  
 Pereiddiaf o bell,  
 Melusach na 'r symbal,  
 Na 'r organ yn well ;  
 Fel cymysg ganiadau  
 Angylion y nef,  
 A'r awyr sy 'n chwareu  
 Yn adsain y llef.

3 Edrychwch, a deliwch  
 Eich golwg yn nglŷn,  
 Mae acw greaduriaid  
 Serchocaf eu llun :  
 Mae mil o dafodau  
 Pereiddiaf a glân,  
 Mewn cydsain soniarus  
 Yn seinio 'r un gân.

4 Mi glywaf y caniad,—  
 Gogoniant i Dduw  
 Fyth fythol sydd yn yr  
 Uchelder yn byw !  
 Tangnefedd ar y ddaear,  
 A chariad i ddyn,  
 Fe aned Gwardedwr  
 Yn Methl'em wrth glun.

5 Mae angel yr ARGLWYDD  
 Yn sefyll gerllaw,  
 Dysgleirdeb y nefoedd  
 Sydd yma, sydd draw ;  
 Ac ofn sydd arnom,  
 A dychryn yn nghyd,  
 Rhag nesu yr awrhon  
 O ddiwedd y byd.

6 Nac ofnwn, mae 'r angel  
 Yn peri 'n ddi-lai,  
 Yn peri i ni chwerthin  
 A gwir lawenhau ;  
 Mae 'n dweyd i ni newydd  
 Y goreu fu erioed,  
 I bobloedd y ddaear  
 Yn gyfan mae 'n bod.

7 Fe anwyd i'n Geidwad  
 Yn Bethl'em gerllaw,  
 Y CRIST dysgwylieidig,  
 I'n gwared fe ddaw ;

Efe yw ein HARGLWYDD,  
 A fe yw ein Duw,  
 Fe ddug ein heuogrwydd  
 A'n beiau bob rhyw.

8 Awn yno, cawn arwydd,  
 Cawn weled y dyn

Yn rhwym mewn cadachau,  
 Y gwanaf ei lun ;  
 A'i ddodi mewn preseb  
 Heb bechod, heb nam,  
 A nemawr o gwmi  
 Ond Joseph a'i fam.

## Y R A I L R A N .

### HYMN DCCXL.

**F**EM siomwyd gan bleserau 'r  
 llawr,  
 Fe 'm twyllodd bob yr un ;  
 Ffowch bob cariadau, rho'is ffarwel  
 I ddaear ac i ddyn.

2 Ni thro'i fy wyneb byth yn ol,  
 I 'mofyn pleser gau ;  
 Ond mi a gerdda' tua 'r wlad  
 Sy a'i phleser yn parhau.

3 Mae holl deganau 'r ddaear hon,  
 Fu gynt yn fawr eu grym,  
 Yn ngwydd fy Iesu yn gwywo i gyd,  
 Ac yn diflanu 'n ddim,

4 Y mae aroglau pur ei ras,  
 Megis aroglau 'r ne',  
 Ac nid oes cymhar is yr haul  
 Yn un-lle iddo Fe.

5 Mae 'n denu 'm serch trwy wynt-  
 oedd oer,  
 Yn gyfan ato ei Hun ;  
 Ac Fe ddiffoddod pob rhyw  
 chwant,  
 At ddaear ac at ddyn.

6 Y parch a'r enw, aed or bron  
 I benedfgion byd ;  
 Ond gad fy enaid, Iesu, i gael  
 Dy gwmi gwerthfawr drud.

7 Fe dorwyd rhyngof fi a'm chwant,  
 Daeth ar fy mhleser drai ;  
 Ond fy hapusrwydd perffaith sydd  
 Dy garu a'th fwynhau.

### HYMN DCCXLI.

**U**WCHLAW terfynau maith  
 y ser,  
 Mewn Paradywys nefol wiw,  
 Yn mhlith myrddiynau fel y gwllith,  
 F' Anwylyd sydd yn byw.

2 Mi reda 'mlaen heb edrych dim  
 Ar aswy nac ar dde',  
 Nes im' gyrhaeddyd at y faingc  
 Ag yr eisteddodd E'.

3 Mae seintiau yn dihengu i'r lan  
 Yn fyrddiwn o fy mlaen,  
 Minau ymddifad yma 'n byw,  
 Yn nghanol dw'r a thân.

- 4 Mae hiraeth pur yn gweithio trwy  
Fy enaid am fwynhau  
Pleserau dwyfol, perffaith, pur,  
Sydd fythol yn parhau.
- 5 Mi anturia' yr Iorddonen trwy,  
Er cymaint grym y dw'r ;  
Ond im' gael teimlo bod o'm plaid  
Iachusol, ddwyfol Wr.

- 6 Tan ei adenydd mae fy nerth,  
A'i Dduwdod yw fy ngrym ;  
Heb ei gwmpeini 'dyw fy nawn  
Na 'm rhoddion penaf ddim.

## HYMN DCCXLII.

**I**ESU, difyrwch fy enaid drud  
Yw edrych ar dy wedd ;  
Ac mae llyth'renau dy enw pur  
Yn fywyd ac yn hedd.

- 2 A than dy aden dawel bur  
'R wyf yn dymuno byw,  
Heb ymbleseru fyth mewn dim,  
Ond cariad at fy Nuw.
- 3 O cau fy llygaid rhag im' wel'd  
Pleserau gwag y byd,  
Ac i mi wyro byth oddiar  
Dy lwybrau gwerthfawr drud.
- 4 'D oes genyf ond dy allu mawr  
I'm nerthu i fyn'd yn mlaen ;  
Dy iachawdwriaeth yw fy ngrym,  
Fy nghongwest a fy nghân.
- 5 Melusach nag yw 'r diliau mêl,  
Yw mynyd o' th fwynhau—  
Ac nid oes genyf bleser sydd  
Ond hyny yn parhau.
- 6 A phan y syrthio ser y nen,  
Fel ffigys ir i'r llawr,  
Bydd fy nyddanwch heb ddim trai,  
Oll yn fy ARGLWYDD mawr.

## HYMN DCCXLIII.

**'R**WY'N edrych dros y bryniau  
pell,  
Am danat bob yr awr ;  
Tyr'd, fy Anwylyd, mae'n hwyrhau,  
A'm haul bron myn'd i lawr.

- 2 Trodd fy nghariadau oll i gyd  
'N awr yn anffyddlon im' ;  
Ond yr wyf finau 'n hyfryd glaf  
O gariad mwy ei rym !
- 3 Cariad na 'nabu plant y llawr  
Mo'i rinwedd, nac mo'i ras,  
Ag sydd yn sugno 'm serch a'm  
bryd  
O'r creadur oll i maes.
- 4 O gwna fi 'n ffyddlon tra f'wy' byw,  
A'm lefel at dy glod.  
Ac na fo pleser fyn'd â 'mryd,  
A welwyd is y rhod.
- 5 Tyn fy serchiadau 'n gryno iawn  
Oddiwrth wrthddrychau gau,  
At yr un gwrthddrych ag sydd fyth  
Yn ffyddlon yn parhau.
- 6 'D oes gyflwr tan yr awyr laes  
'R wy' ynddo yn chwenych byw ;  
Ond fy hyfrydwch fyth gaiff fod  
O fewn cynteddau 'm Duw.
- 7 Fe ddarfu blas, fe ddarfu chwant,  
At holl bwysiau 'r byd ;  
Nid oes ond gwagedd heb ddim  
trai  
Yn rhedeg trwyddo i gyd.

## HYMN DCCXLIV.

**A**R holl wrthddrychau cig a  
gwaed  
Fy ngafael aeth yn rhydd ;  
Ond mi ge's wrthddrych fydd yn  
Ffrynd  
I dragwyddoldeb ddydd.

- 2 Ei iachawdwriaeth werthfawr lawn  
Yw 'mhleser ddydd a nos ;  
Ac mi gaf dreilio 'mywyd mwy,  
O tan ei ddwyfol groes.
- 3 Ni chenfigena' i'r rhai sy'n cael  
Eu holl bleserau i ben ;  
Y mae fy Mhriod, a fy Nuw,  
A'm pleser, uwch y nen.

- 4 Fe aeth teganau 'r ddaear hon,  
Yn fy ngoleuni yn ddim ;  
Ond 'r wy'n cael pleser yn ei wedd,  
Sydd lawer mwy ei rym.

- 5 Fy ymfrost gaiff fod am ei ras,  
A'm nefoedd fydd fy hedd ;  
Ac mi orwedda' gydag Ef,  
Yn foddlon yn y bedd.

- 6 Gadawodd y llyeiniau 'n ol,  
Yn arwydd i myfi,  
Na raid wrth wisgoedd o un rhyw  
Yn y Baradwys fry.

## HYMN DCCXLV.

**O** ANNGHREDINIAETH fawr  
ei grym,  
Ti roddaist i mi glwy',  
Ond d'wed a fynost, credu wna'i  
Fod doniau 'r nef yn fwy.

- 2 Rhifedi 'meiau mawr, a'u lliw,  
Ydyw a'm gwnaeth yn wan ;  
Ond mi ddo' fyny trwy bob gwae,  
Cair gweled yn y man.

- 3 Fe 'm golchir gan fy nghystudd  
trwm,  
Fe 'm purir yn y tân ;  
Ac mi ddof allan pan ddel dydd,  
Wedi fy nghân 'n lân.

- 4 Anffyddlon i mi trodd y byd,  
Anffyddlon ddynolryw ;  
Ond mi sy 'n rhedeg trwyddynt oll  
I fynwes bur fy Nuw.

- 5 A rhwng ei ddwyfron gwna'i fy  
nyth,  
Oddi yno 'drycha'i maes ;  
Ac mi rof *shalens* i bob peth  
A welodd daear las.

## HYMN DCCXLVI.

**F**EL pwysi o fyrrh aroglaidd pur,  
Ydyw f' Anwylyd gwiw ;  
Ac y mae ynddo Ef i'w gael  
Gysuron o bob rhyw.

- 2 A rhwng fy mronau caiff E' fod,  
Trwy gydol faith y nos ;  
Nes gwel'd yn gwawrio 'r boreu  
ddydd  
Bwrcasodd dwyfol loes.

- 3 Ac mi dynggheda 'n lân o'r bron,  
Holl ferched Salem dre',  
Na b'och i demtio, na chyffroi,  
Na blino o hono 'Fe.

- 4 Ni theimlodd cnawd erioed, na byd,  
Un cariad c'uwch ei ryw,  
Na 'r hyn wy'n brofi, hyfryd wres  
Tufewnol at fy Nuw.

- 5 Nid dyfnder ac nid uwchder maith,  
Na chreadur is y ne',  
Einioes, nac angeu,—ni's gall ddim,  
I'm gwahanu oddi wrtho 'Fe.

## HYMN DCCXLVII.

**F'** ANWYLYD sydd fel lili  
hardd,  
Hyfryda erioed ei liw ;  
Ag sydd yn maeddu blodau 'r byd,  
Pwysiau pena' eu rhyw.

- 2 Yn mysg gwryfon Seion fry,  
Fel lili yn mysg y drain ;  
Efe yw 'r gwrthddrych goreu ei  
wedd,  
A chariad pur y rhai 'n.

3 Ac megys pren afalau pêr,  
Yn nghanol prenau 'r coed ;  
Felly f' Anwylyd, yntau, 'mhlith  
Y meibion sy 'n cael clod.

4 Eisteddais dan ei gysod Ef,  
A'i firwyth oedd felus iawn ;  
Ac yma treiliwn ddyddiau f' oes,  
Fyth fyth yn ddedwydd iawn.

5 Darfyddwn son am bleser mwy,  
Yn agos ac yn mhell,  
Tra cawn ni yfed dyfroedd pur  
O ffynon lawer gwell.

6 Darfydded nos, darfydded dydd,  
Fel myndd fechan awr,  
Tra fawn yn caru a rhoi 'mhwys  
Ar fynwes f' ARLWYDD mawr.

---

## HYMN DCCXLVIII.

O HYFRYD wleddoedd Canaan  
wiv,  
Gwleddoedd sychedig rai ;  
Lle y cawn yfed gloew win,  
Fffynonau sy 'n parhau.

2 Ac yn ei win-dŷ ni gawn fyw,  
A drachtio nefol hedd ;  
Ac ymbleseru yn nhegwch pryd  
Ei ddwyfol ddynol wedd.

3 Ei faner gadarn trosom fydd,  
'Sef cariad marwol glwy' ;  
Cariad heb ddarofod ac heb drai  
I dragwyddoldeb mwy.

4 Cyneliwch fi â photelau gwin,  
Cysuron dwyfol gwir ;  
Claf wyf o gariad, cariad nef,  
Tuag at fy Mhrynwr pur.

5 Ei aswy law sydd dan fy mhen,  
Nis tyn mo honi 'n ol ;  
A fy nghofeidio mae a'i dde',  
'R wy'n gorwedd yn ei gôl.

6 Ac mi d yngheda bawb o'r byd,  
Pob pleser is y nef,  
Na font i siomi mwyach fyth,  
Mo'i Ysbryd sanctaidd Ef.

## HYMN DCCXLIX.

O'R diwedd trodd y sychdwr  
mawr  
Yn dawel hyfryd hîn ;  
A daeth cawodydd Seion fryn  
I wlychu f' enaid cun.

2 Yn awr mae 'r gwyntoedd oerion  
draw  
Wedi gostegu gyd ;  
Ac y mae gwyntoedd mwyn y de'  
'N awr yn pereiddio 'mryd.

3 Mae ofn angu, ofn bedd,  
Ac ofnau o bob rhyw,  
Oll yn diflanu un ac un,  
Pan tywynodd gras fy Nuw.

4 'R wy 'n ffrynd i'r bedd, 'r wy 'n  
ffrynd i'r groes,  
Cystuddiau 'r aswy a'r dde' ;  
Er par ddaeth Iesu a'i gariad pur,  
Yn fy enaid gadw ei le.

5 Mae holl hapusrwydd mwya'r byd,  
A'i gyfoeth drud yn un,  
A mil o wynfyd maith a mwy,  
Yn aros ynddo ei Hun.

6 A thyma 'r wledd a ddaeth i'm rhan,  
'Tifeddiaeth gwledydd pell ;  
Cariad tragwyddol i mi rodd  
Yr hyfryd drysor gwell.

---

## HYMN DCCL.

AETH heibio 'r gauaf chwerw du,  
Y 'storom oer a'r gwlaw ;  
Ac fe nesaodd hyfryd haul  
Cyfiawnder pur gerllaw.

2 Fe wnaeth ei babell yn ein plith,  
A'i bresenoldeb sy  
Yn troi pob cystudd chwerw loes  
Yn hyfryd hedd i ni.

3 Fe welwyd blodau ar y ddae'r,  
Grasusau pur y nef ;  
Oll yn arogl i'n beraidd iawn,  
Oddiwrth ei wisgoedd Ef.

4 O hyfryd, dawel, nefol hin,  
Mi glywa'r adar mân  
'N awr yn ymbyngio 'n felus iawn  
'Y waredigol gân.

5 Mae durtur yr efengyl fwyn  
Yn llanw bro a bryn ;  
O de'wn, a dringwn fyny fry  
'Nawr gyda 'r awel hyn.

6 Mae 'r haul yn ddysglaer yn y nef,  
Cyfiawnder Dwyfol Ddyn ;  
Ac mae 'n tywynu 'n hyfryd iawn  
Ar bob drylliedig un.

---

## HYMN DCCLI.

TAN fy maich yr wyf yn grudd-  
fan,  
Dysgwyl amser o ryddhau ;  
Dysgwyl fy mhechodau i dreulio,  
Eto 'mhechod sy 'n parhau ;  
Dysgwyl caf gasineb hollol,  
Caria f' addunedau 'r dydd ;  
Eto finau yn y gadwyn,  
Ac yn methu myn'd yn rhydd.

2 O na chlyw 'n yr udgorn arian  
Rywbryd yn rhoi bloedd i maes ;  
Ac yn cyhoeddi i f' enaid llwythog  
Heddwch a maddeuo! ras ;  
O na ddeuai nerth i waered  
Fel llifeiriant mawr ei rym,  
Fel na allai 'm nwydau penaf  
Bellach i'w wrthsefyll ddim.

3 Mi ro'wn fydoedd maith, pe  
meddwn,  
Am gael gweled tori 'lawr  
Bethau ag sy 'n myn'd â 'meddwl  
Fil o weithiau yn yr awr ;  
Trais a gorchest sy ar fy ysbryd,  
Cryf yw 'm gelyn, minau 'n wan ;  
Addfwyn Oen, yn fuan brysia,  
Help fi o'r pydew hyn i'r lan.

4 Tor y rhwydau sydd gan Satan,  
Lloss gadwyni yn y tân ;  
Tyred, argyhoeddiad nerthol,  
Difa 'mhechod o dy flaen :

w

Deued peraidd heddwch yntau,  
Nes congewero melus chwant,—  
Nes bo 'm bai trwy bob rhyw  
foddion,  
Felly i ddiflanu 'bant.

---

## HYMN DCCLII.

TAN fy maich yr wyf yn grudd-  
fan,  
Baich o euogrwydd, baich o wae ;  
Methu ymladd â fy nwydau,  
'Methu cywir 'difarhau ;  
Codi 'ngolwg 'r wyf o'r pydew  
Obry tua thŷ fy Nhad ;  
Ac yn dysgwyl, er y plygain,  
Glywed newydd fy rhyddhad.

2 Aros fry ar ben y muriau,  
Yno 'mron a llwfrhau ;  
Mwy cymylau, d'wyllach, d'wyll-  
ach,  
Fel 'wy 'n dysgwyl dydd nesau :  
A phe bawn i ond gwel'd y seren  
Sydd yn ledio 'r dydd yn mlaen,  
Wrth y wawr mi fentrwn gerdded  
Trwy bob rhywstrau fawr a mân.

3 Ofni 'r creigydd, ofni 'r hafan,  
Ofni 'r garw ogledd wynt ;  
Ofni 'r anial dryrys buais  
Yn dy fynwes ddwyfol, lân ;  
'Mron a d'rysu ynddo gynt ;  
Iesu, 'r wyf yn teimlo angen  
O gael help dy nerthol law ;  
Onidê, Dywysog heddwch,  
Fe 'm dyfethir maes o law.

4 Gruddfan yw fy mwyd a'm diod,  
Ac och'neidio yw fy nghan ;  
Eisieu cael fy ysbryd i lechu  
Yn dy fynwes ddwyfol, lân ;  
Lle mae heddwch a thangnefedd  
Gloew, hyfryd, heb ddim trai ;  
Lle mae ofn wedi 'faeddu,  
Cariad perffaith yn parhau.

5 Dyma 'r man y bydda'i marw,  
A fy ngolwg tua 'r nef ;  
Dysgwyl fyth tra fyddo anadl,  
Am ei bresenoldeb Ef :

Ac er fod fy haul yn gostwng,  
A fy meiau 'n fawr eu grym,  
Mi ro 'm ffydd ar ei addewid,  
Ac ni thwyllir 'mo honwy' ddim.

---

## HYMN DCCLIII.

**D**YNA 'r dyddiau wyf yn ddys-  
gwyl,  
Dyddiau 'r addewidion rhad :  
D'wedwyd cawn fy meiau cryfaf -  
Dua' eu lliwiau, tan fy nhraed :  
Ei enw hyfryd ydyw IESU,  
Ac fe ddyry wared llawn ;  
O! am wel'd y boreu 'n dyfod,  
Rhyfedd hyd y maith brydna wn.

2 Gŵyro yma, gŵyro acw,  
Weithiau gŵyro ar y dde,  
Ganwaith ragor ar yr aswy,  
Oddiwrth lwybrau Brenin ne' :  
Mae yma reddf o waredigaeth,  
Mae yma reddf o dd'od yn rhydd ;  
A gruddfanau i'r lan yn llanw,  
Am yr hyfryd foreu ddydd.

3 Mi feddylia' fod y wawr-ddydd  
Wen, ar godi 'maes o law ;  
Mi debygaf, trwy 'r cymylau,  
Gwela'i oleu 'r ochr draw :  
Tyred wyntoedd mwyn y dehau,  
Gwthiwch y cymylau o'u lle,  
Im' gael gwel'd yn ei ogoniant,  
Bresenoldeb Brenin ne'.

4 Tan ei aden bydda'i 'n ddedwydd,  
Tan ei aden ca'i gasau,  
A galaru yn ddrylliedig  
Am bob pechod, am bob bai ;  
Tan ei aden ar bob chwantau  
Caf fi fuddugoliaeth lawn,  
Ac y caf ddifyrwrch cyson,  
O foreu-ddydd hyd brydnawn.

---

## HYMN DCCLIV.

**T**YRED, f' enaid, ar i fyny,  
Allan o'r anialwch maith ;

Hiraeth sy arna'i am gael gweled  
Gwledydd hyfryd pen fy nhaitth ;  
Blino teithio 'r creigydd geirwon,  
Lle 'r wy 'n wastad yn cael briw ;  
Ac fe 'm clwyfid i farwolaeth,  
On' b'ai cariad rhad fy Nŵw.

2 Lleoedd dyfnion sy ar yr aswy,  
Lleoedd dyrys ar y dde' ;  
Ac mae 'n anhawdd cadw'r llwybr  
Ag a deithiodd Brenin ne' ;  
Rhag im' gollu, neu trwy ryfyg,  
Neu anghredu, neu trwy flys,  
Help, fy Nŵw, luddiedig enaid  
Ddringo 'r bryniau serth ar frys.

3 Anghrediniaeth sy am fy llarpio,  
Megys llew rhuadwy, cry' ;  
Seirph, gwiberod glas, gwenwynig,  
Yw fy nwydau aml ri' ;  
Mae arna'i ofn yn fy nghalon,  
Cyn yr elwyf drwodd draw,  
Bydd im' ryw bryd ddigaloni,  
Neu ynte gwympto yn eu llaw.

4 Dal fi fyny, addfwyn IESU,  
Arwain f' enaid yn dy law ;  
Nes bwy 'n landio tros bob ofnau,  
I'r ardaloedd hyfryd draw ;  
Ac os yno fyth y deuaif,  
Dyna 'ngwaith o fewn y lle ;  
Chwareu ar y delyn euraidd,  
Am rinweddau ei gariad E.

---

## HYMN DCCLV.

**T**ORI wnes fy addunedau,  
Gant o weithiau maith eu rhi' ;  
Ac mae 'n rhaid ryw ras anfeidrol  
Gadw euog fel myfi ;  
Wrth yr orsedd 'r wyf yn cwmpo,  
Ac nid oes un enw 'maes  
Ag a ry' im' feddyginaeth,  
Ond yn unig gorsedd gras.

2 Gras fel moroedd all fy achub,  
Perffaith gyflawn yn mhob rhan ;  
Gras a roddo nerth a bywyd,  
Ac a wnelo 'n gryf y gwan ;  
Rhaid cyfiawnder, rhaid doethineb,  
A phob grasau, fawr a mân,  
Cyn yr elo f' enaid eiddil,  
Sy mewn cadwyn, gam yn mlaen.

3 Rhaid cael llygaid fel y gwelwyf  
Hyfryd, beraidd lwybrau'r dydd ;  
A chael holl allweddau 'r nefoedd  
I ddadgloi cadwynau 'n rhydd :  
A chael llusern fawr y bywyd  
Fyth i gerdded o fy mlaen,  
Ganol dydd yn gwmwl goleu,  
Ganol nos yn golofn dân.

4 Tywysog bywyd, bydd o'm hochr,  
'R wyf fi 'mron a llwfrhau ;  
'D yw 'ngelynyon mewn rhifedi,  
Na'u cydynrwydd, ronyn llai :  
Torf o maes o bethau 'n temtio,  
Torf o mewn o'u cymaint hwy,  
Ac mewn cyngrair gyda 'u gilydd  
Am roi i mi farwol glwy'.

5 Minau roi's fy holl ymddiried,  
IESU, arnat Ti dy Hun ;  
Ac nid oes un enw arall  
Ag all achub y fath un :  
Tyn fi 'mlaen i'r ardal hyfryd,  
'Maes o'r anial maith ei hyd ;  
Ti gei 'r clod a'r holl ogoniant  
Pan yn ulw yr elo 'r byd.

---

## HYMN DCCLVI.

**I**ESU, dyro dy gymdeithas  
Nefol, yn yr anial fyd ;  
Lle mae maglau ar ol maglau  
Yn fy n'rysu 'mron o hyd ;  
Y mae hiraeth yn fy nghalon,  
Ac och'neidiau heb ddim trai,  
Am wel'd oriau 'ngwaredigaeth  
Ddedwydd, hyfryd, yn nesau.

2 Mae fy meddwl i yn crwydro  
Gant o weithiau 'maes o dre' ;  
Ac yn c'lymu â gwrthdychau  
Gwag, di-sylwedd is y ne' :  
Mae fy mywyd i mi 'n ofid,  
Mae fy nyddiau i mi 'n boen,  
Eisieu cael fy holl ddifyrwrch  
Yn dy gwmmi, addfwyn Oen.

3 Ti faddeuaist fil o feiau,  
Beiau cynddeirioca' eu rhyw ;  
Ac Ti guddiaist rhag y werin  
Fel y porphor rai eu lliw ;

Cliria fy nghydwbybod euog,  
Càna f' enaid yn y gwaedd,  
A rho 'r bai ag sy 'n fy maeddau  
A fy nryllio, tan fy nhraed.

4 O na ildia f' enaid ronyn,  
Er ei bod hi 'n fyr brydnawn,  
Y mae trugareddau 'r nefoedd,  
Fel y moroedd mawrion, llawn :  
F' allai try deheu-wynt tawel,  
Cyn machludo 'm haul i 'n lân ;  
Ac yn lle rhyw drwm och'neidio,  
Caf fi swnio 'r hyfryd gân.

---

## HYMN DCCLVII.

**M**AE addewid nef o'm hochor,  
Fod fy IESU yn ffrynd i'r  
gwan ;  
O'r pydewau dwg ei Hunan  
Garcharorion llesg i'r lan ;  
Tor y boltau pres yn gandryll,  
Tyn y barau heigr yn ol ;  
Gad fy enaid o'r dyfnderoedd  
'Hedeg yna i dy gól.

2 Nid wy 'n haeddu dim trugaredd,  
Trois fy nghefn ar y nef,  
A choffeidiâs fy eilunod,  
'N ol meddianu 'gariad Ef :  
Gwerthais drysor mwy na'r ddaear  
Am bleserau mnyd awr ;  
Ac 'r wy' bron a thori 'nghalon  
Am ei heddwch Ef yn awr.

3 T'wyned haul-wen ar fy enaid,  
Blinais ganwaith gan y nos ;  
Nid yw 'mhleser, na 'nheganau,  
Na'm heilunod, ond fy nghroes ;  
Mynwes IESU yw 'm hapusrwydd,  
O na chawn i yno fod !  
Fe roi cariad dwyfol, perffaith  
Fy mhleserau i tan fy nhroed.

4 Eto unwaith mi ddyrchafaf  
Un ochenaid tna 'r nef ;  
Ac a wylaf ddagrau 'n hidl  
Am ei bresenoldeb Ef ;  
Pwy a wŷr na wrendy clustiau  
'R Hwn a greodd ddae'r a nen ;  
Ac y daw fy nymuniadau  
Trist, hiraethlon oll i ben.



## HYMN DCCLVIII.

**N**ID oes dim o dan yr wybr  
A wna i mi ronyn lles ;  
Un difyrwch nac un plaser,  
Ynte yn mhell, neu ynte yn nes ;  
Darfu chwant a'i holl hyfrydwch,  
Ei lawenydd gwag a ffodd ;  
Presenoldeb IESU ei Hunan  
Yw yn unig, wna fy modd.

2 Y mae nefoedd yn ei gwmni,  
Y mae bywyd yn ei wedd,  
Ag sy 'n gwneuthur anghu'n gyfaill,  
Ac sy 'n peri congro 'r bedd :  
Rho 'th gyfeillach, IESU addfwyn,  
Dyna wy 'n ei geisio 'gyd ;  
Ac mi fyddaf fodlon, ddiddig  
I oll a gwrddwyf yn y byd.

3 Yno deued gauaf chwerw,  
A rhyw wyntoedd oerion iawn ;  
Croes ar groes yn cludo arnaf,  
Drymach, drymach hyd bryd-  
nawn ;  
Ond i'th Ysbryd pur i'm dala,  
Minau sefa 'n gryf i'r lan ;  
Ond os troi dy gefn arnaf  
Ni chawd un erioedd mor wan.

4 Tyr'd am hyny, Ffrynd troseddwyr,  
At yr eiddil gwaela' ei lun ;  
Gollodd afael ar bob haeddiant,  
A rhinweddau sydd gan ddyn :—  
Mi ymddyethriaes o'r creadur,  
Felly yntau oddi wrthyf fi ;  
Ac ni fedd fy enaid egwan  
Gyfaill heddyw ond Tydi.

## HYMN DCCLIX.

**E**DRYCH 'rwyf fi tros y bryniau,  
Dysgwyl am addewid nen ;  
Ac och'neidio am y fynyd,  
Bur, ddedwyddaf dd'od i ben :  
'Rwy 'n gobeithio yn erbyn gobaith  
Caria fy ngruddfanau 'r dydd,  
Ac ar fyrder tŷr cadwynau,  
Ca'i fy nhraed a'm dwylo 'n  
rhydd.

2 Mi edrychaf ar i fyny,  
Deued t'w'llwch, deued nos ;  
Os daw heddwch im' o un-lle,  
Fe ddaw oddiwrth waed y groes ;  
Dyna 'r man y gwna' fy nhrifan,  
Dyna 'r man gobeithiaf mwy ;  
Nid oes iechyd fyth i'm henaid  
Ond mewn dwyfol, farwol glwy'.

3 Gobaith f' enaid yw ei haeddiant,  
Gobaith f' enaid yw ei rym ;  
Tlawd, a llesg, a gwan, ac ynfyd,  
Ydwyf fi heb feddu dim ;  
Trwodd draw yr wyf yn edrych,  
Dros y bryniau mawrion, pell ;  
Ac yn dysgwyl fy ngorphwysfa  
O gyfiawnder llawer gwel.

4 Nid oes ffynon wedi ei hagar  
Ag all olchi 'r euog hyn,  
Ond y ffynon a agorodd  
Cariad ar Galfaria fryn ;  
Gwaed all dalu 'n llwyr am feiau,  
Gwaed all agor porth y nef ;  
Ac nid oes fodlona 'r nefoedd  
Ond ei haeddiant dwyfol Ef.

## HYMN DCCLX.

**M**AE holl gariadau'r ddaear hon  
Fy ngado i yn gytnu ;  
Ond mae f' Anwylyd inau 'n well  
Fyrddiynau maith nag un.

2 Ac er fod mil a lawenha  
'Gael sengu ar fy mhen ;  
Mae fy ngruddfanau inau 'n rhes  
Yn dringo tua 'r nen.

3 Er ofni beiau 'm deheulaw  
Ryw awr i dori 'maes ;  
Eto 'r wy 'n credu geiriau 'r nef,  
Mai trech yw dwyfol ras.

4 Mi gredaf, er mor hwyred yw,  
Ca'i gongcwest ar fy mai ;  
Ac am fod IESU yn gadarn un  
Mi beidia' a llwfrhau.

5 Tan greu mi anturia' 'mlaen,  
Crediniaeth yw fy ngrym ;  
A than awelon cadarn gred  
All fy mhechodau i ddim.

## HYMN DCCLXI.

**I**ESU yw 'm Ffrynd, a'm Priod  
pur,  
Ac iddo rho'is fy nghred ;  
Neb ond ei Hunan ddwg fy maich,  
Ei Hunan dâl fy n'led.

2 Fe wrendy 'nghri pan elwy 'n wan,  
Ei gariad sydd yn fawr ;  
Ac fyth nis gedy 'n hir fi gael  
Fy nghuro ar y llawr.

3 Ni fethodd gweddi daer erioedd  
A chyrrhaedd hyd y nef ;  
Ac mewn cyfyngder f' enaid rhed  
Yn union ato Ef.

4 Ac nid oes gyfaill mewn un man  
Cyffelyb iddo yn bod ;  
Pe baen' i chwilio 'r ddaear faith,  
A holl derfynau 'r rhod.

5 Yn mhob rhyw ddoniau mae E 'n  
fawr,  
Anfeidrol yw ei rym ;  
Ac nid oes pwysau ar ei ras,  
Na'i haeddiant dwyfol ddim.

6 Mae ei ffyddlondeb fel y môr,  
Heb fesur ac heb drai ;  
A'i drugareddau hyfryd sy  
'N dragywydd yn parhau.

## HYMN DCCLXII.

**Y**N fuan diangc, f' enaid cu,  
O wrthddrychau 'r ddaear  
hon ;  
Nid oes, er chwilio ynddynt hwy,  
Ond blinder oll o'r bron.

2 Nid yw 'r creadur oll i gyd  
Ond trwm a llwythog faich ;  
Ond mi ddihanga, a rho' fy mhws  
Ar gref a dwyfol fraich.

3 Efe ei Hun a'm gwna i 'n ddoeth,  
Efe a'm cwyd i'r lan ;

Efe ei Hunan ydyw tŵr  
A noddfa f' enaid gwan.

4 Mi anturia' at ei orsedd fwyn,  
Tan eitha' tywyll nos ;  
Ac mi orphwysaf, doed a ddêl,  
Ar haeddiant gwaed ei groes.

5 Mae ynddo drugareddau fil,  
A chariad heb ddim trai ;  
A rhyw ffyddlondeb fel y môr  
At ei gystuddiol rai.

## HYMN DCCLXIII.

**M**YFI ddysgwyliais amser hir  
Gyflawni geiriau 'r nef ;  
O'r diwedd gwawriodd dwyfol  
ddydd  
Ei bur addewid Ef.

2 Mi ofnais rhag i'm nwydau cryf  
Ryw awr i gario 'r dydd ;  
Ond mi ge's brofi ffyddlon Ffrynd,  
A'm tynodd i yn rhydd.

3 Fe ro'dd fy nhraed i ar y graig,  
Ac fe ro'dd i mi rym ;  
A thrwy ei allu mawr a'i ras,  
Ni ofna'i 'ngelyn ddim.

4 Fe ddaeth y Jubil werthfawr, lawn,  
Ar ol och'neidio 'n hir ;  
Ac mi ge's weled hyfryd ran  
O'r baradwysaidd dir.

5 Fy ngwared wnawd, er maint fy  
mai,  
O'm hofnau, ac o'm braw ;  
Ac fe fynegodd nefoedd im',  
Caf landio 'r ochor draw.

## HYMN DCCLXIV.

**Y**N awr fe ffodd cymylau 'r nos,  
Fe dorodd boreu wawr ;  
Ac y mae dysgwyl wedi dwyn  
Ffyddlondeb nef i lawr.

2 Fel ffy tywyllwch dudew 'ffwrdd  
O flaen goleuni 'r dydd ;  
Felly fy ofnau i, hwythau ffodd,  
A minau wnawd yn rhydd.

3 Pe c'nygid im' fynyddau 'r byd,  
A'r rhai'n yn arian pur ;  
Mi a'u gwrthodwn hwynt yn lân  
Am ddwyfol heddwch gwir.

4 Mi ro ffarwel i bob rhyw chwant,  
Pob pleser ts y nen ;  
Ac yr wy'n cym'ryd IESU o'm bodd  
Yn Briod ac yn Ben.

5 Ni wela'i wrthddrych mewn un  
man,  
O'r ddaear las i'r ne',  
A dâl ei garu tra f'wy' byw  
Yn unig ond Efe.

## HYMN DCCLXV.

IESU, Ti ydyw fy mywyd,  
Mwy nag oll ydwyt dy Hun :  
Nid oes angel it' gyffelyb,  
Nid oes seraph, nid oes dyn ;  
Pleser, cariad, a llawenydd  
Rodiant ar dy ddeheulaw,  
Ac i'th wydd na phoen, nac ofn,  
Nac euogrwydd byth ni ddaw.

2 Mi alla' yn ddedwydd, pan f'ost  
agos,  
Fyw trwy gydol faith y dydd,  
Er pob gelyn cryf a chyfrwys  
Ag yn curo arna'i sydd ;  
Neb nis dwg fy etifeddiaeth  
Tra fo 'n eiddo IESU 'm Duw ;  
Trysor mawr wedi idd ei rwympo  
Mewn tragwyddol gariad yw.

3 Os oddiwrthyt Ti y crwydra'i  
De' neu aswy, o un tu,  
Ac im' nesu at bren gwybodaeth  
A waharddaist i myfi ;  
Tyn fi 'maes o'r ffwrnes danllyd,  
Tor fy nwydau, tro fi 'n ol ;  
A gad i mi yno aros  
Yn dragwyddol yn dy gôl.

## HYMN DCCLXVI.

ARGLWYDD, gwel dy berer-  
inion,  
Edrych ar eu cystudd mawr,  
Wrth briddfeini Pharao greulon,  
Wedieu curo yn dost i lawr ;  
'Mofyn am y tiroedd hyfryd  
Mewn addewid ro'w'd tan sêl,  
Sydd a'i bur afonydd tirion  
Fyth yn lllifo o laeth a mêl.

2 Rho i ni nerth i dreiddio trosodd  
Pob rhyw afon, pob rhyw fryn ;  
Ac na bo i'n digaloni  
'R cystudd draw, na 'r cystudd  
hyn ;  
Rho i ni ffydd, a rho amynedd,  
Rho oleuni, rho i ni rym,  
Ag nas gallo nerth gelynyon  
Wneuthur niwed i ni ddim.

3 Oni fyddi yn Arweinydd  
I ni foreu, i ni 'nawn,  
I beryglon duon, dyrys,  
Heb i'n wybod, syrthio wnawn ;  
Yn nydd caled yr ymladdfa,  
Addfwyn IESU, saf o'n plaid ;  
Rho i ni nerth, a rho ddoethineb,  
Yn y rhyfel fel bo rhaid.

4 Pan bo 'r tonau mawr yn rhuo,  
Hollt gynddeiriog firwd yn ddau,  
A rho nerth i'th etifeddion  
Basio 'r dyfroedd mawr yn frau ;  
N'ad yr ofn cas i gwympo  
Ar y llesgaf, wanaf ŵr,  
Nes bo 'n traed yn sengu 'n gadarn  
Ar y Graig tu draw i'r dw'r.

## HYMN DCCLXVII.

PAN dël lluoedd o gystuddiau  
Yna i wasgu arna'i yn un,  
N'ad fi dychan, n'ad fi anghredu,  
N'ad fi achwyn fyth wrth ddynd ;  
Dod dy gariad megys ffynon  
Loew, yn fy enaid gwan,  
A gad i mi bwysio arnat  
Wrth o'r anial dd'od i'r lan.

## HYMN DCCLXIX.

IESU, llawnder mawr y nefoedd,  
Gwrando lef un eiddil, gwan,  
Sydd yn gorwedd wrth dy orsedd,  
Ac yn codi ei lef i'r lan ;  
Mae 'ngelynyon heb rifedi  
Yn fy nghuro o bob tu ;  
Ac nid oes a all fy achub  
Is y nefoedd ond Tydi.

2 Yn dy haeddiant 'r wyf yn gyflawn,  
Yn dy oleuni gwela'i 'n glir,  
Yn dy wisgoedd dwyfol, dysglaer,  
Bydda'i ogoneddus, bur ;  
Yn dy techydwriaeth gyflawn,  
Er mor waned wyf yn awr,  
Cair fy ngweled ryw ddiwrnod  
Yn dysgleirio fel y wawr.

3 D'wed y gair, fy addfwyn IESU,  
Yna f' enaid lawenha,  
Gair o addewid ca'i fy mhuro  
O bob pechod, o bob pla ;  
Gwrendy f' enaid mewn dystaw-  
rwydd  
Ar dy adlais ddystaw, fain,  
Ac fe neidia o orfoledd  
Pan y clywo 'th nefol sain.

4 Mae dy lais yn rhoi dystawrwydd  
Ar holl fwrtais wag y byd,  
Yn gwastatu pob rhyw derfysg  
Fago nwydau croes yn nghyd ;  
Y mae 'r gwynt yn troi i'r deheu,  
Ac mae 'r hin yn dawel iawn,  
Pan bo 'm Duw 'n cyhoeddi heddwch,  
Er mor arwed bu 'r prydawn.

## HYMN DCCLXX.

EDRYCH, IESU, ar dy ddyweddi,  
Saf yn gadarn wrth ei chlun ;  
N'ad y gelyn i ddiwyo  
Gwinllan blanaist Ti dy Hun ;  
Dyfrha hi ar bob mynydyn  
A'r cafodydd hyfryd sy  
Fel y gwllith tirionaf, dystaw,  
Yn dihidlo oddi fry.

2 Dangos i mi 'r ardal hyfryd,  
Etifeddiaeth sanctaidd rai,  
Lle nad oes na phoen nac wylo,  
Dim ond pleser yn parhau ;  
Cadw 'ngolwg gydsein yno,  
Cadw f' ysbryd mewn mwynhad,  
Tra f'wy 'n teithio 'r ochor yma,  
O bleserau tŷ fy Nhad.

3 Boed fy mryd a'm hyfryd fwrtais,  
A fy mhleser tra f'wy' byw,  
Uwch teganau gwag y ddaear,  
Ar gymdeithas bur fy Nuw ;  
Boed dy iechydwrriaeth rasol  
I mi yn wastadol wledd,  
A rho brawf o bleser hyfryd,  
Seintiau 'r ochor draw i'r bedd.

## HYMN DCCLXVIII.

GRUDDFAN 'r wyf o tan fy  
meichiau  
Yn y dywyll Aiphtaid dir,  
Ac och'neidia am gael gweled  
Bryniau hyfryd Gilead bur ;  
Dwg fi o tan lywodraeth Pharao—  
Grym fy meiau o bob rhyw,  
'Mewn i wlad y gongcwest hyfryd  
Ag addawyd gan fy Nuw.

2 Agor ddorau pres cauedig  
Yn dy nerth, ac yn dy lid,  
Tor efynau heigrn yn ddrylliau  
Ag sy 'n dal dy briod cy'd ;  
Fel y gallont wel'd dedwyddwch  
Ag in' lawenyachu bair,  
A chael profi 'r gras addewaist  
Gant o weithiau yn dy air.

3 Dy Iechydwrriaeth yw fy noddfa,  
Dy Iechydwrriaeth yw fy ngrym ;  
Dyna f' etifeddiaeth gyflawn,  
Ac nid oes a'i dwg hi ddim :  
Gwn i'm coelbren dedwydd gwympo  
Ar ardaloedd cariad pur ;  
A di-derfyn ydyw 'r trysor  
Ga'i feddianu cyn bo hir.

2 IESU, tro afonydd bywyd  
Tros y sychdir creiglyd, cras,  
Fel bo 'r egin yno dyfu  
Megys blodau yn y maes ;  
Rho i hwnw o'r ffynon yfed  
Ag yn mron llewygu sydd  
Gan y gwres, heb ronyn cysgod,  
O dan oriau poetha 'r dydd.

3 Yn dy fynwes mae dyogelwch,  
Ac ni ffeindia'i arall fan  
Nad yw uffern fawr yn curo,  
Nad wyf finau 'n hollol wan ;  
Dysg fi aros yma 'n llonydd,  
Peidio gwibio yma a thraw,  
Tyn fi 'n ol, os colla'i fymryn,  
Megys priod yn dy law.

HYMN DCCLXXI.

I E S U, tro fy ngwae a'm cystudd  
Yn orfoledd im' ryw bryd ;  
P'am y rhoddi 'r gwan i'w guro  
Gan elynion sarug cy'd ?  
Yn mhob cyflwr y b'wyf ynddo  
O'r ddaearen faith i'r ne',  
Doed y troion chwerwa' ddelo,  
Dod fi sefyll ar y dde'.

2 Dedwydd yw sy yn dy glwyfau,  
Nid rhyw ofnau yno sydd,  
Ond llawenydd, hedd, a chariad,  
Oll yn oll yn cario 'r dydd ;  
Gwledd wastadol yw dy gwmni,  
Pell uwchlaw pob deall dyn,  
Ond y rhei'ny ga's ei phrofi  
Gan dy Ysbryd Di dy Hun.

3 Minau 'r noeth a'r tlawd a ddeuaf  
Yn fy ofnau, yn fy mai,  
Ac heb fedr na rhyfela,  
'Chwaith na medru 'difarhau ;  
Rho i mi nerth, a gras, a doniau,  
Rho i mi 'r cwbl oll i gyd ;  
Nid oes dim ond trysor dwyfol  
Ag all lanw fy awyddfryd.

4 Ar drugaredd 'r wyf yn cwmpo,  
Maith drugaredd dwyfol Fod,  
A ddadguddiodd ar y croesbren  
Gariad mwya' fu erioed ;

Wedi ymdroi yn holl rinweddau  
'R nefoedd fawr, y dof yn mlaen,  
Ac fe all rhinweddau 'r nefoedd  
Faeddu dyfroedd, faeddu tân.

HYMN DCCLXXII.

C HWILIO am danat, addfwyn  
ARGLWYDD,  
Mae fy enaid yma a thraw ;  
Teimlo 'mod i'n berffaith ddedwydd  
Pan y byddost Ti gerllaw ;  
Gwedd dy wyneb, &c.,  
Yw fy mywyd yn y byd.

2 Heddwch perffaith yw dy gwmni,  
Mae llawenydd ar dy dde' ;  
Ond i Ti fod yn bresenol,  
Pob peth sydd yn llanw 'r lle ;  
Ni ddaw tristwch, &c.,  
Fyth i'th gwmni tra fo nef.

3 Yn y ffwrnes danllyd, greulon,  
Os Tydi a ddaw yn mlaen,  
'D oes ond heddwch a mwyeidd-  
dra,  
A thiriondeb yn y tân ;  
Gwèn dy gariad, &c.,  
Wna bob cystudd yn ddi-rym.

4 Ti wy 'n 'mofyn, ARGLWYDD tyred,  
Yn mhob tralod bydd gerllaw ;  
Dilyn fi, 'r wy 'n ofni yma,  
Dilyn fi, 'r wy 'n ofni draw ;  
Tan dy aden, &c.,  
Mi edrycha' yn wyneb llu.

HYMN DCCLXXIII.

D UW anfeidrol yw dy enw,  
Llanw 'r nefoedd, llanw 'r  
llawr,  
Ac mae 'th lwybrau 'n anweledig  
Yn nyfnderoedd moroedd mawr ;  
Dy feddyliau, &c.,  
Sy is nag uffern, uwch na 'r nef.

2 Minau 'n ddyfal sydd yn 'mofyn  
Ar yr aswy, ar y dde',

Ceisio ffeindio dwfn gynghor  
A dybenion Brenin ne' ;  
Hyn a ffeindiais, &c.,  
Mai daioni yw oll i mi.

3 Pan b'wy' tan y tonau mawrion,  
A llifeiriant yn ei rym ;  
Dae'r ac uffern gyda'u gilydd  
Am fy nghuro'i 'lawr i ddim :  
Af tan grynu, &c.,  
'Maffaf yn addewid nef.

4 Dyben nefoedd sydd yn gywir,  
Bynag beth yw dyben dyn ;  
Ac mi anturiaf fy holl fywyd  
Ar ei eiriau Ef ei Hun ;  
Doed pob cystudd, &c.,  
Ddygwydd dim ond da i mi.

5 Da yw 'r groes, a da yw gwasgfa,  
Da yw profedigaeth lym ;  
Oll a'm tyn i o'r creadur,  
O fy haeddiant, o fy ngrym ;  
Minau 'r truan, &c.,  
Ffo'f tan aden Brenin nef.

HYMN DCCLXXIV.

A NWELEDIG, 'r wy 'n dy garu,  
Ac ni fedda'i yn y byd  
Wrthddrych alla'i bwyso arno,  
Wrthddrych dâl rho'i iddo 'mryd ;  
'D oes fy lleinw, &c.,  
O bob pleser ond dy Hun.

2 Ti 'm harweinaist o'r creadur  
Ar hyd llwybrau geirwon iawn ;  
Ni che's lonydd gyda 'mhleser  
Fyth na boreu na phrydnawn ;  
Yn yr anial, &c.,  
'Dwedaist eirieu wrth fy modd.

3 'R wyf yn fodlon i'th geryddon,  
Pan 'nabyddwyf mai dy lais  
Sy 'n fy nwyn o blith y llewod,  
O bob gormes, o bob trais ;  
Gwell na diliau, &c.,  
Yw deniadau geiriau 'r nef.

4 'Chlywodd clust, ni welodd llygad,  
Ac ni ddaeth i galon dyn,  
Erioed feddwl, na dychymyg,  
Y fath ydwyf Ti dy Hun ;  
Rhagor decach, &c.,  
Wyt nag welodd nef na llawr.

5 Ac 'r wyf finau yn dy garu  
Uwch a welais eto erioed,  
Uwch a glywais son am dano,  
Neu ynte a ddych'mygais fod ;  
Dyma fflamau, &c.,  
Perffaith mwyn trigtanau 'r nef.

HYMN DCCLXXXV.

E R dy fod yn uwchder nefoedd,  
Uwch cyrhaeddyd meddwl  
dyn,  
Eto mae 'th greaduriaid lleiaf  
Yn dy olwg bob yr un ;  
Nid oes meddwl, &c.,  
Ond yw 'n oleu o dy flaen.

2 Ti yw 'Nhad, a Thi yw 'Mhriod,  
Ti yw 'm HARGLWYDD, Ti yw 'm  
Duw,  
Fy unig Dŵr, a'm hunig Noddfa,  
Neu i farw, neu i fyw ;  
Cymer f' enaid, &c.,  
Tan dy aden tua 'r nef.

3 Tro 'ngelynyon yn eu gwrthol,  
A phalmanta 'r ffordd i'r wlad,  
Tra f'wy 'n yfed addewidion  
Pur, a iechydwrïaeth rad ;  
Fel y gallwyf, &c.,  
O fy nghystudd ymgryfhau.

4 Minau ymddigrifaf ynot,  
A chanmolaf fyth dy ras ;  
Tra fo 'r anadl bur yn para,  
Neu ynte wedi 'r êl i maes ;  
Tragwyddoldeb, &c.,  
Ni chaiff ddiwedd ar fy nghân.

HYMN DCCLXXXVI.

I E S U, Ti yw 'm hunig noddfa,  
Ac mae ynot Ti ddi-drai

- Ffrwd lifeiriol o gysuron,  
Yn dragwyddol yn parhau ;  
Fyth ni dderfydd, &c.,  
Mo dy gariad a dy ras.
- 2 Dy hanfod berffaith yw 'm hapus  
rwydd,  
Mae 'nghysuron bob yr un  
Yn terfynu, ac yn casglu  
'N gryno ynot Ti dy Hun ;  
Bywyd f' enaid, &c.,  
Man b'wyf finau, yno bydd.
- 3 Mewn rhyw hyder nefol, hyfryd,  
'R wy 'n rhoi fy achos o dy flaen,  
Ac yn credu caf fyn'd trwodd,  
Neu lifeiriant, neu ynte dân ;  
Ac caiff f' enaid, &c.,  
Tlawd i ganu yr ochr draw.
- 4 Pan edrychwylf ar dy fawredd,  
Gwel'd dy ogoniant maith a'th  
ras,  
Mae fy nghalon gan lawenydd  
Hyfryd, pur, yn tori 'maes !  
Gan roi pleser, &c.,  
Fil uwchlaw pleserau 'r byd.
- 
- HYMN DCCLXXVII.
- D**UW, teyrnasa ar y ddaear,  
O'r gorllewin pell i'r de',  
Cymer feddiant ar ardaloedd  
Pella', t'wylla', is y ne' ;  
Haul Cyfiawnder, &c.,  
Llanw 'r ddaear fawr â'th ras.
- 2 Deued yr India fawr, gyfoethog,  
Heddyw tan dywyllwch sydd,  
I gael gwel'd efengyl hyfryd  
Yn dwyn trosodd oleu 'r dydd ;  
Nes bo heddwch, &c.,  
Yn teyrnasu o fôr i fôr.
- 3 Taened gweinidogion bywyd  
Iechydwrïaeth IESU ar led ;  
Caried moroedd addewidion  
Trosodd draw i'r rhai di-gred ;  
Aed efengyl, &c.,  
Ar adenydd dwyfol wynt.

- 4 Doed preswylwyr yr anialwch,  
Doed trigolion bro a bryn,  
Doed y rhai sydd ar y cefnfor,  
I garu 'r iechydwrïaeth hyn ;  
Nes bo adsain, &c.,  
Moliant yn amgylchu 'r byd.
- 5 Pur ganiadau i Frenin Seion  
Fyddo yn llawenydd llawn,  
Draw o'r dwyrain lle mae'n codi,  
I fachludiad haul brydnawn ;  
Fyth na sonier, &c.,  
Ond am degwch Brenin nef.

---

HYMN DCCLXXVIII.

**H**YN yw 'm pleser, hyn yw 'm  
hymffrost,  
Hyn yw 'nghysur yn y byd,  
'Mod i'n caru 'r addfwyn IESU,  
Dyna 'meddiant i oll i gyd ;  
Mwy yw 'nhrysor, &c.,  
Nag a fedd y byd o'i fron.

- 2 Ac ni alla' i fyth fynegu,  
Pe anturiwn, tra fawn byw,  
Pa mor hyfryd, pa mor felus,  
Pa mor gryf ei gariad yw ;  
Fflam ddi-derfyn, &c.,  
Ddaeth o ganol nef i lawr.
- 3 Yn y bywyd fyth a bery  
Caf fi ddwfn chwilio i maes,  
Faith dyfnderoedd cariad dwyfol,  
A changenau dwyfol ras ;  
Ehengir f' enaid, &c.,  
I 'nabod dadguddiaethau 'r nef.
- 4 Derfydd awyr, derfydd daear,  
Derfydd grewyd is y ne',  
Derfydd haul, a sêr, a lleuad,  
Daw tywyllwch yn eu lle ;  
Fyth ni dderfydd, &c.,  
Canu iechydwrïaeth gras.
- 5 Bydd cerubiad a seraphiaid,  
Ac angyllion nef yn un,  
Yn cymysgu Haleluia  
A Hosanna bur â dyn ;  
Anthem cariad, &c.,  
Fydd yr anthem tra f'o 'r nef.

HYMN DCCLXXIX.

**'R**WY' yma yn teithio crindir  
cras,  
Gwlad galar, a gwlad gwae,  
Heb unrhyw bleser ynddi i'w gael  
Sy o sylwedd i barhau.

- 2 Mae ynof finau wagder mawr,  
Ac nid oes is y nef  
Ond hwnw ei hunan, enw pur,  
Fy IESU, lleinw ef.
- 3 Ei addewidion sydd tan sêl,  
Fel rhyw ffononau pur  
Ag sy 'n rhoi allan loew ffrwd  
Tros hyfryd Salem dir.
- 4 Mi gerdda' mlaen tros greigydd  
serth,  
Trwy dd'rysni a thrwy ddrain,  
Ond im' gael profi ar fy nhaith,  
O hyfryd flas y rhai'n.
- 5 Caf nerth i'w ganlyn Ef tr'wy' byw,  
A doed hi fel y dël ;  
Mae prawf o'i gariad fel y gwin,  
Neu hyfryd ddiliau mêl,

---

HYMN DCCLXXX.

**O** IESU, gobaith yr holl fyd,  
Gobaith yr Indiaid draw,  
Cyflawna 'ddewid bur dy ras  
I'r truan maes o law.

- 2 Ti wyddost, ARGLWYDD, beth yw  
traï,  
O eisieu dyfroedd pur,  
A bod yr anial maith yn gras,  
Heb gael cysuron gwir.
- 3 Mae temtasiynau 'r ddraig yn gry',  
A minau 'd wyf ond gwan ;  
Nid oes ond dwyfol nerth y nef  
A'm deil i fyth i'r lan.
- 4 Mae llid o'r dwyrain ac o'r de'  
Am gongro 'm 'chydig ras ;  
Tragwyddol gariad ydyw Ef  
Wna i'r truan gario 'r maes.

- 5 Un radd o haeddiant addfwyn Oen  
Sy 'n fwy na 'm beiau i o'r bron ;  
'Ac yn ei rinwedd llawenhaf  
Tan groesau 'r ddaear hon.

---

HYMN DCCLXXXI.

**O** DEFFRO 'n foreu, f' enaid  
gwan,  
Ar doriad cynta 'r dydd,  
A llwyr gysegra ddyddiau d' oes  
I'r gwrthddrych goreu sydd.

- 2 Caf yfed yma gariad pur,  
Na phrofodd cnawd mo'i ryw,  
Ac ymddifyru uwch y byd  
Ar bur bleserau 'm Duw.
- 3 Mi fliniais yfed dyfroedd sur,  
Teganau daear lawr ;  
Ni fydda'i hapus ond wrth flas  
Pleserau 'r nefoedd fawr.
- 4 Uwch cyrhaedd pob serchiadau  
gwael,  
Yw 'r cariad pur ei flas,  
Ag sydd yn llifo 'n loew ffrwd  
O iechydwrïaeth gras.
- 5 Yma dymunwn dreulio 'm hoes,  
O foreu hyd brydnawn,  
Lle cawn i wlo cariad pur  
Yn ddagrau melus iawn.

---

HYMN DCCLXXXII.

**P**ERERIN wyf mewn anial dir,  
Yn crwydro yma a thraw ;  
Ac yn rhyw ddysgwyl bob yr awr  
Fod tŷ fy Nhadr gwirllaw.

- 2 Ac mi debygaf clywa'i swm  
Nefolaidd rai o'm blaen,  
Wedi congwero, a myn'd trwy  
Dymhestlodd dw'r a thân.
- 3 Tyr'd, Ysbryd sanctaidd, ledia 'r  
ffordd,  
Bydd i mi 'n niwl a thân ;  
Ni cherdda'i 'n gywir haner cam  
Nes elost o fy mlaen.

- 4 Mi ŵyraf weithiau ar y dde',  
Ac ar yr aswy law ;  
Am hyny arwain gam a cham  
Fi i'r Baradwys draw.
- 5 Mae hiraeth arna'i am y wlad,  
Lle mae torfeydd diri',  
Yn canu 'r anthem ddyddiau eu  
hoes  
Am anegu Calfari.

## HYMN DCCLXXXIII.

**H**YD yma ni ddych'mygodd  
dyn,  
Tan entrych awyr las,  
Y fath ddynderoedd hyfryd sydd  
Mewn gwaredigol ras.

- 2 Ni fu trugaredd faith, na gras,  
Na chariad is y nef,  
Yn mhlith angylion ucha' eu gradd,  
Gyffelyb sy ynddo Ef.
- 3 O annherfynol fôr di-drai  
O haeddiant ac o ras !  
Ni all tragwyddoldeb er ei hyd  
I'w ffeindio e' fyth i maes.
- 4 Ac yn ei gariad dwfn maith,  
Mi nofia' tua 'r nef,  
Ac nid oes tymhestl fyth, na thon,  
Yn rhuo ynddo Ef.
- 5 Ac mi gaf, 'n ol blinderau maith,  
Yn hyfryd landio draw,  
Ac yfed gwleddoedd sanctaidd pur,  
Rhyw ddedwydd ddydd a ddaw.

## HYMN DCCLXXXIV.

**F**ARWEL, greaduriaid gwycha'  
eu rhyw,  
Pob enwau is y ne';  
Ni wela'i wrthddrych wna fy modd,  
Yn unig ond Efe.

- 2 Mae ei ddoniau yn rhagori 'mhell  
Ar holl frenhinoedd byd,  
Ac 'r wy 'n teimlo ei fod E' ei hun  
Yn hollol lanw 'mryd.

- 3 Mae ei eiriau fel y diliau mêl,  
A'i holl orch'mynion sy  
I gyd yn dangos rhinwedd maith  
Sancteiddrwydd nefoedd fry,

- 4 Mae ei addewidion fel yr haul  
Yn sicr gadw eu lle ;  
Ac nid â'r sillaf leia' ar goll  
O'i hyfryd eiriau E'.
- 5 A minau 'n hollol rho fy mhwys  
Ar allu 'Mrenin mawr ;  
Yr hwn a'm nertha' i fyned trwy  
Gystuddiau maith y llawr.

## HYMN DCCLXXXV.

**'D**A'I 'mofyn haeddiant fyth na  
nerth,  
Na ffafor neb na'i hedd,  
Ond hwnw 'n unig gôd fy llwch  
Yn fyw i'r lan o'r bedd.

- 2 Mae'n eistedd ar ddeheulaw 'r Tad,  
Ar orsedd fawr y nef ;  
Ac y mae 'r cyfan sydd mewn bod,  
Tan ei awdurdod Ef.
- 3 Fe grŷn y ddae'r ac uffern fawr,  
Wrth amnaid Tywysog nen ;  
O ! fath ogoniant hwnw fu  
Yn dyoddef ar y pren.
- 4 O Iesu, cymer fi i gyd,  
Fel mynost gad im' fod,  
Ond im' gael treulio bob yr awr  
Yn hollol i dy glod.
- 5 Neu ar y llawr, neu ar y lan,  
Os byddaf ddydd na nos,  
Gad i mi orphwys yno tan  
Ddyferion gwaed y groes.

## HYMN DCCLXXXVI.

**T**YR'D, ARGWYDD, â'th addewid'  
rad,  
Pur eiriau 'r nef i ben ;  
Dyddiau fy rhyddid ro'w'd tan sêl  
Yn llyfr mawr y nen.

## HYMN DCCLXXXVIII.

**A**WN, bechaduriaid, at y dw'r  
A darddodd ar y bryn ;  
Ac ni gawn ddrachtio fyth heb drai  
O'r afon loew hyn.

- 2 Mae dyddiau gruddfau i mi 'n hir,  
Caethiwed Babel fawr ;  
O ! na chawn deimlo 'r Jubil fwyn  
Yn agor dorau 'r wawr.
- 3 Ac O ! na thro'i y barau pres,  
A'r bolltydd heigrn yn ol,  
Fel cawn ni gadw cariad pur  
A heddwch yn fy nghol.
- 4 Mi awn tua Seion ar y wawr,  
Lle buais gynt yn byw ;  
Ac ni chymervn gwmmi im'  
Yn unig ond fy Nŵw.
- 5 Tebygwn pe b'ai 'm troed yn rhydd  
Maes o'r caethiwed hyn,  
Na wnawn ond canu fyth tra f'wyf  
Am ras Calfaria fryn.

## HYMN DCCLXXXVII.

**M**AE 'm golwg acw tua 'r wlad,  
Lle mae fy heddwch llawn ;  
Ac 'r wyf am deimlo eu gwledd-  
oedd pur  
O foreu hyd brydnawn.

- 2 'D oes dim difyrwch yma i'w gael,  
A leinw 'm henaid cu ;  
Ond mi ymborthaf ar y wledd  
Sydd gan angylion fry.
- 3 Mi yfaf ddw'r y ffynon glir  
Sy o tan y fainge yn d'od ;  
Ac y mae rhinwedd ynddo 'n llawn  
I adferu nerth i'm troed.
- 4 Ddiffygia' i ddim er cyd fy nhaith,  
Tra paro gras y nef ;  
Ac er mor lleied yw fy ngrym,  
Mae digon ynddo Ef.
- 5 Mae 'r iechydwrriaeth fel y môr  
Yn chwyddo byth i'r lan ;  
Mae yma ddigon, digon byth,  
I'r truan ac i'r gwan.

- 2 Mae yma drugareddau rhad  
I'r tlawd a'r llariaidd rai ;  
A rhyw fendithion maith yn 'stor  
Sy fythol yn parhau.

- 3 'D oes yma eisieu fyth yn bod,  
Trysorau gras yn llawn,  
Er maint yr yfed a'r glanhau  
Sy o fore hyd brydnawn.

- 4 Nis blinwn ganu tra fo 'm byw  
Am yr oruchafiaeth hyn,  
Weithiodd ein HARGLWYDD un  
prydnawn  
Ar ben Calfaria fryn.

- 5 Fe welir myrdd 'mhen gronyn bach,  
O'r dwyrain ac or de,  
Yn cydadseinio 'n hyfryd am  
Ei ryfedd gariad E.

## HYMN DCCLXXXIX.

**I**ESU, teyrnasa yn dy rym,  
A d'wed dy fod yn Dduw ;  
O tyr'd a damsang dan dy draed,  
Fy mhechod o bob rhyw.

- 2 Mae uffern fawr, a'm nwydau yn un,  
Mewn cyngrair dinacâd,  
I stopio 'r llwybr dwyfol pur  
Sy 'n ledio i dŷ fy NHAD.

- 3 Dos rhagot, Dywysog mawr y nef,  
A chliria 'r ffordd o'm blaen ;  
A threia ddyfnder dyfroedd maith,  
Ac eilwaith treia 'r tân.

- 4 A than dy aden mi af trwy  
Bob rhywstrau is y rhod ;  
Ni cheisiaf genyt onid nerth  
I ddilyn ol dy droed.

- 5 Tydi gai enw tra fo haul,  
Nac angel fyth, na saint ;  
Am y fath bwrkas, 'chlywodd nef  
Na daear am ei faint.

## HYMN DCCXC.

**O** ARGLWYDD, tyr'd i lawr,  
Mae 'n frwydr chwerw iawn  
O foreu las-ddydd heb ei hail  
Hyd fachlyd haul brydnawn ;  
Mae 'meiau i megys llu  
Yn gyndyn gry' o ryw,  
Ac nid oes fodd i'w cael hwy 'lawr  
Ond gallu mawr fy Nuw.

- 2 Am hyn rhof arno 'mhwys,  
Er maint eu cyfrwys lu ;  
Fel un cystuddiol, mi rof floedd  
I entrych nefoedd fry ;  
Mi goda 'm dwylo i'r lan,  
Lluddedig gwan a gwyw,  
Ac ni wan greda' i gario 'r dydd,  
Fy nghymhorth fydd fy Nuw.
- 3 Fe 'm ceidw ar y dde',  
Can's Ffrynd yw E i'r gwan ;  
Fe 'm dal i ar yr aswy law,  
Mae E yma a thraw 'mhob man ;  
Caiff Ameleciaid glwy',  
Pe baent hwy fwy eu grym,  
Saif uffern, a fy mbechod cas,  
O flaen ei ras Ef ddim.

- 4 Fe egyr gadarn graig  
Nes ffrydio dw'r i maes  
Yn llif ar hyd sychedig dòn,  
I etiffeddion gras ;  
Dyhidla fanna pur,  
Mewn dyrus dir heb drai ;  
Cysuron sylwedd pur i ni,  
Cysuron sy 'n parhau.

## HYMN DCCXCI.

**W**EL mi â tua 'r wlad,  
Sy a'i chyfoeth rhad heb  
drai ;

Y wlad ca'i yfed sylwedd pur,  
Sy fyth yn gwir barhau ;  
Gwledd pasgedigion rhad,  
Bar'todd fy Nhad a'm Duw,  
O hyfryd ddwyfol felusrawn  
Iachusol iawn ei ryw.

- 2 Gyfeillion ffyddlon, dewch,  
Ar fyrder cewch eich rhan ;  
Coronau euraidd pur o'r trwch  
Dderbyniwch yn y man ;  
Heb bwys, beb rif, heb goll,  
Mae holl drysorau 'r nen ;  
A Iesu 'Mhrynwr, a fy Nuw,  
Yn unig yw sy 'n Ben.
- 3 Cawn weled wyneb pur  
Tywysog gwir y ne' ;  
Ac edrych fel cariadau 'nghyd  
Yn hyfryd arno Fe ;  
Ac ymddifyru cawn  
Ar wrthddrych llawn i'n bryd,  
Uwch temtasiynau tir na môr,  
Na therfysg oer y byd.

- 4 'R wy 'n teimlo hiraeth gwir,  
Trwy eigion f' enaid gwan,  
Am wel'd gorphenu 'r ddyrus daith  
Sy o'r anial maith i'r lan ;  
I landio 'r ochr draw,  
Uwch euogrwydd, braw, a phoen,  
At fyrddiwn o fertyron glân  
Sy 'n canu cân yr Oen.

## HYMN DCCXCII.

**W**EL, dacw 'r hyfryd fan  
Mewn golwg gan fy ffydd ;  
Ac fel mae'r gwyntoedd yn cryfhau,  
Mae E'n nesâu bob dydd ;  
Yn siwr o gario 'r dydd  
Trwy gystudd o bob rhyw,  
Fe gura 'r 'storom hir barhad  
Ni mewn i wlad ein Duw.

- 2 'D oes le in' golli 'r ffordd,  
Mae niwl y dydd o'n blaen ;  
Fe 'n tywysir trwy 'r anialwch hir  
Gan golofn bur o dân ;

Fe arwain dwyfol ras  
Ni yn gywir maes o law,  
Trwy ganol maith sychedig dir  
I'r Ganaan bur sydd draw.

- 3 Saif Moab ddim o flaen  
Ei fraich anfeidrol gref ;  
Trech na holl ddyfais uffern  
faith,  
Effeithiol waith y nef ;  
Y dyfroedd gloewon pur  
Sy o Fethl'em dir yn d'od,  
A'n nertha ni, rai llesg a gwan,  
Gael pechod dan ein troed.

- 4 Pe b'ai teganau 'r byd,  
Am hyn y ulw mân,  
Mae 'nghysur ac mae 'nghyfoeth  
siwr  
Uwch dystryw dw'r a thân ;  
O addewidion gras  
Ca'i dderbyn, maes o law,  
Drysorau mwy tu hwnt i'r bedd,  
Nag fedd yr India draw.

## HYMN DCCXCIII.

**'R** WY 'n ofni grym y dw'r  
Yn yr Iorddonen gref ;  
'R wy 'n syllu ar y creigydd maith  
Sydd ar fy nhaith i dref ;  
Duw bydd yn nerth i'r gwan,  
A dal fi i'r lan yn gry',  
Tan demtasiynau gefnllif llym  
Sy a'u tonau heb ddim rhi'.

- 2 Gostega 'r 'storom gref,  
Diflanaed tarth yn lân ;  
A gad i'm llygaid weled dydd,  
Yn oleu rhydd o'm blaen ;  
Dwg fi i'r ardal glir  
Uwch diffaith dir ei ryw,  
Ac na ddoed cwmwl fyth i'r mân  
Bo f' enaid gwan yn byw.

- 3 Mewn trallod rho dy help,  
Ti wyddost 'd wyl ond gwan,  
A chynal â dy anfeidrol fraich  
Tan lwythog faich fi i'r lan ;  
Fel teithiwy 'r tylau serth,  
Yn nghadarn nerth y ne',  
Heb ofni gelyn ar un llaw,  
Nes myned draw i dre'.

- 4 Cyflawnir gair fy Nuw,  
A doed hi fel y dël :  
Can's holl amcanion nefoedd fry,  
Bob sillaf sy tan sêl ;  
Ac ar ei air a'i nerth,  
A dwyfol werth ei waed,  
Mi âf trwy holl elynion hy'  
I mewn i dŷ fy Nhad.

## HYMN DCCXCIV.

**F**E 'nillodd Iesu 'r dydd  
Mewn buddgoliaeth lawn,  
Yn erbyn uffern fawr ei hun  
Yn loew un prydawn :  
Fe agorodd byrth y nen,  
O led y pen i rai  
Cystuddiol, gorthrymedig, gwan,  
Sy 'n gruddfan dan eu bai.

- 2 Am hyny awn yn hy'  
Trwy ganol lluoedd maith,  
Heb ofni dyfais, grym, na 'r llid,  
Sy 'n cwrddyd ar ein taith ;  
Awn yno i Galfari,  
Bu 'r gwaed yn lli' i'r llawr ;  
Ni gofiwn gariad pur dinam,  
Ni ganwn am yr awr.
- 3 Ni deithiwn yn y blaen,  
Cawn weled Seion fryn,  
Lle mae myrddiynau maith mewn  
hwyl,  
Yn cadw gwyl am hyn ;  
Cawn fyn'd i mewn i'w plith,  
I yfed fyth o'u hedd,  
Anfeidrol gariad perffaith giwi,  
Tragwyddol yw y wledd.

## HYMN DCCXCV.

**B**ENDIGAID fyddo 'r awr  
Y clywais ddwyfol lef,  
O'r anial fyd yn 'ngalw i maes,  
Tua hyfryd deyrnas nef ;  
Fe gododd seren ddydd,  
A'i goleu sydd yn rhoi  
Cymylau tyw'lla', tewa', llawn  
Yn fuan iawn i ffoi.



2 Ce's brofi 'r dwyfol hedd,  
Gyda gorfoledd mawr,  
'R wy'n cofio'r effaith, cofio'r pryd,  
Yn hyfryd hyd yn awr,  
Pan gefais wir ryddhad,  
Trwy werthfawr waed fy Nuw,  
Ei gariad oedd yn felus braf,  
A'i garu wnaft tr' wy' byw.

3 A thyma 'r cyntaf bryd,  
Yr aeth y byd yn ddim,  
A cholodd hithau uffern fawr,  
O! hyfryd awr, ei grym;  
Fy enaid aeth yn rhydd,  
Pan ddaeth y dydd i ben,  
Ni all cadwynau ddala awr,  
Tros arfaeth fawr y nen.

4 Dangoswyd im' pryd hyn,  
Y baradwysaidd wlad,  
A'r holl bleserau hyfryd sy  
O fewn i dŷ fy Nhad;  
Y manna nefol cudd,  
Sy i'w gael yn rhydd heb drai,  
Dros dragwyddoldeb yn y ne'  
I'r dewisedig rai.

5 'R oedd pob gwageddol flys,  
A gefais is y nef,  
Yn toddi, ac yn myn'd yn ddim,  
Yn ngrwm ei gariad Ef;  
Fe ddarfu pob rhyw flas,  
Ar bleser cas ei ryw,  
Pan gefais yfed dyfroedd clir  
O ffynon bur fy Nuw.

—  
HYMN DCCXCVI.

**G**OLEUNI, ac anfeidrol rym,  
Yw hyfryd eiriau 'r nen;  
A phob sillafyn dd'wedodd Ef  
Sydd siwr o dd'od i ben.

2 Fe berodd i mi dori 'r fraich,  
A thynu 'r llygad de',  
Minau gaf allu mewn iawn bryd  
I wneud a barodd E.

3 Ac 'r wy 'n resolfo myn'd yn gloff  
I mewn i deyrnas nef,  
Yn well na chadw 'm melus chwant  
A cholli ei gwmi Ef.

4 Mi ymddirieda' yn ei air,  
Er cymaint yw fy mai;  
Ac fe derfynwyd dydd, ac awr,  
Pan caffwy 'm gwir ryddhau.

5 Mi orfoledda' draw o bell  
Wrth feddwl am y dydd,  
Pan ddel addewid fawr ei grym  
A'm henaidd gwan yn rhydd.

—  
HYMN DCCXCVII.

**'R** WY'N dysgwyl wrth dy addewid bur  
O'r bore hyd y nawn;  
Ac os ca'i brofi 'r gloew ddw'r,  
Mi fyddaf ddedwydd iawn.

2 Ti dd'wedaist fod rhinweddau 'th waed  
Yn fwy na beiau 'r byd;  
O rho im' weled dwyfol glwy'  
Yn dofi anfeidrol lid.

3 Gad i mi brofi 'r heddwch llawn,  
Y dw'r rhinweddol gwiw,  
Ag sydd yn tarddu yn loew ffrwd  
O orsedd bur fy Nuw.

4 Rho i mi yfed cariad rhad,  
Mewn dyrws anial dir;  
A phrofi rhinwedd dwyfol ddawn,  
Cysuron gloew clir.

5 Mi deithia 'n ddifyr yn y blaen,  
Dros greigydd serth i'r lân;  
A dof i olwg Seion bur  
Yn gynar yn y man.

—  
HYMN DCCXCVIII.

**M**AE pererinion draw o'm blaen  
Yn canu 'r anthem bur,  
Ac heddyw 'n edrych fel o bell  
Ar dd'rynsi 'r diffaith dir.

HYMN DCCC.

**'R**WY 'N edrych drwodd draw,  
Yn dysgwyl gwledd gerllaw,—  
Addewid bur  
Yn esgor ar ei dawn,  
Sylweddol peraidd iawn,  
Sef cariad perffaith llawn,  
A heddwch gwir.

2 Pan neso 'r haul yn mlaen,  
Fe dyf y llyisiau mân,  
Egin y nef;  
Grasusau hardd eu lliw,  
Ffrwyth angeu loes fy Nuw,  
Anwyla' erioed eu rhiw,  
Genedlodd Ef.

3 Rhaid i fy meiau 'n lân,  
Pan delo Ef yn mlaen,  
I ildio 'r dydd;  
Mae nerth ei Ysbryd cu  
Yn drech nag uffern ddu,  
A'r gadwyn fwya' cry'  
A dyr E'n rhydd.

4 Mae gwyliau 'r hyfryd wlad,  
Gwledd iechydwrriaeth rad,  
Efengyl gras,  
A'i hadsain ddwyfol ddrud,  
Yn gydsain hardd yn nghyd,  
'N awr hyd eithafoedd byd  
Yn swnio 'maes.

5 Fe glywa 'r Indiaid draw  
'R efengyl maes o law,  
Yn eitha' ei grym;  
Daw cyrau pella 'r byd,  
Yn ddu a gwyn yn nghyd,  
I'w golchi yma 'gyd,—  
Nid oedant ddim.

—  
HYMN DCCCI.

**O**, F' enaid, moria 'n ddewr,  
Mae tonau mawr yn groes;  
Cynddeiriog rai yn canlyn sydd,  
Olymol ddydd a nos;

2 Maent hwy 'n rhyfeddu 'r dwyfol ras  
A'u nerthodd ar eu taith;  
A chanu cariad addfwyn Oen,  
Ffyddlonaf yw eu gwaith.

3 O, nertha finau i edrych draw,  
Heb wro o un tu,  
Nes i mi gyraedd mewn i byrth  
Caersalem newydd fry.

4 Rho 'r delyn euraidd yn ein llaw,  
Ac yn ein hysbryd dân;  
Ac yn mheryglon anial dir,  
Erfyniau pur a chân.

5 Ni awn fel hyn yn ngwres y nef,  
Fel un lluosog lu,  
Trwy demtasiynau heb ddim rhif,  
I mewn i'r nefoedd fry.

—  
HYMN DCCXCIX.

**F**E flinodd f' enaid bach yn nghri'  
A dwndwr oer y byd;  
Ond mae difyrwch llawer mwy,  
Gaiff hollol lanw 'mryd.

2 Nid yw trysorau 'r India bell,  
A chyfoeth maith Peru,  
Ond rhyw ddi-sylwedd sorod gwael,  
I'w pwysu â fy Nuw.

3 Mae yn ei heddwch bethau mwy  
Na fedd y byd yn un;  
A phrawf o'i gariad ydyw 'r fraint  
Oruchaf gafodd dyn.

4 Fy nymuniadau maith eu rhif,  
Pe cawn hwy oll yn un,  
Ydyw meddianu ei nefol hedd,  
Anfeidrol ddwyfol rin.

5 Mi ymddigrifwn yn ei ras,  
Mewn cystudd ac mewn gwae;  
A byddwn lawen, doed a ddel,  
Mewn sylwedd sy 'n parhau.

- Mae cystudd ar bob llaw,  
Fyth yma a thraw 'n parhau,  
A'm hysbryd egwan tan bob ton  
Yn mron a llwfrhau.
- 2 Mae 'm beiau i'n fawr eu grym,  
Megys rhyw fyddin gref,  
Yn sefyll fel y creigydd serth  
Yn erbyn nerth y nef;  
Tyr'd, anorchfygol ras,  
Perch'noga 'r maes yn awr,  
A thor elynion mawr eu llid,  
Yn gryno 'gyd i'r llawr.
- 3 Dysgwyliaf ddydd i dd'od,  
Hapusa' erioed a gaed,  
Pan gaffo gras effeithiol, pur,  
I feddu tir ei wlad;  
Rhaid i'r gelynon ffoi,  
Er 'ynt grynhoi yn nghyd,  
Cwmp dyfais uffern fawr bob darn  
Tan farn anfeidrol lid.
- 4 Wel, bellach âf yn hyf,  
Mae Brenin cryf gerllaw,  
Ac nid oes ddwg o tan y nef  
Ei ddefaid Ef o'i law;  
Ei air sy 'n nerthol wir,  
A'i Ysbryd pur yn dân,  
Na's gall y gelyn mwya' ei rym  
I sefyll ddim o'i flaen.
- 
- HYMN DCCCII.
- F**E ga'w'd y manna pur  
Mewn dyrys, ddiffaith dir,  
Ymborth y nef;  
Ei ddwyfol, nefol ras,  
Hyfryda' erioed ei flas,  
Sy 'n gafod 'rhyd y maes,  
De'wch, profwch ef.
- 2 O'r diwedd daeth yr awr,  
Yn nhragwyddoldeb mawr,  
Arfaethwyd ef;  
Bu farw Brenin nen  
O gariad ar y pren,  
Agorwyd led y pen  
Holl byrth y nef.

3 Wel, bellach awn yn mlaen,  
Nac ofnwn ddw'r na thân,  
Ni bia 'r dydd;  
Ein Brenin cadarn, cry',  
Yn mlaenaf un o'r llu,  
Yn tori rhwystrau sy,  
Mae 'r ffordd yn rhydd.

4 Mae heddyw yn y nef  
Fyrddiynau gydag Ef  
Yn canu ei glod;  
Dewch, dringwn tua 'r lan,  
Cawn feddu yn y man  
Yr ardal ddaeth i'n rhan,  
Hyfryda' erioed.

5 Daw diwedd ar ein poen  
Yn nghwmni 'r addfwyn Oen,  
A phob ryw chwant;  
Ein temtasiynau 'n llu,  
Ein beiau cedyrn, cry',  
A phob rhyw gwmwl du,  
A ffy i bant.

—

HYMN DCCCIII.

**N**I gerddwn tua 'r wlad  
Bwrcasodd dwyfol waed,  
Y mae gerllaw;  
Fe ledia 'r golofn dân  
Trwy foroedd maith ni 'mlaen,  
Ac ni gawn seinio cân  
Yr ochor draw.

2 Ac fe gaiff dyfroedd sur,  
Gwenwynllyd, diffaith dir,  
Weithio lleshad;  
Pereiddiaf nefol ras,  
Y cystudd chwerwa' ei flas,  
A thyn o hono i maes  
Ddwyfol iachad.

3 Fe chwala 'r llwythog groes  
Sy 'n gwasgu ddydd a nos  
Gornwydydd cas,  
Y cystudd fo 'n trymhau,  
Sy 'n pwyntio 'maes y bai,  
Ac yna 'mhechod' mae  
Yn colli ei flas.

HYMN DCCCC.

**D**YMA 'r eiddil yn ymdreiglo  
At y ffynon loew, rad;  
Dacw 'r aberth pur yn gwaedu,  
Golch fy enaid yn y gwaed;  
Rhoddwyd briw i fy Nuw,  
Golchir beiau dua' eu lliw.

2 Y mae pyrth tragwyddol fywyd  
Heddyw 'n agor led y pen,  
Ac mae 'r ffordd wedi 'phalmantu  
'Maes o'r byd i'r nefoedd wen;  
Cariad rhad roddodd gwaed  
Calon ddwyfol, er iachad.

3 Dinas noddfa gawd o'r diwedd  
Fry o fewn ystlysau 'r nef,  
Ac na's gall fyth mo 'r dalydd  
Dreiddio i mewn i drothwy 'r  
dref;  
Tŷ fy Nhad, dinas rad,  
A bwrcasodd dwyfol waed.

4 Yn awr mae ffrwythau 'r nef,  
Gwerth ei ddyoddefaint Ef,  
Hyfryd gerllaw;  
Grawn sypiau dwyfol, gwir,  
Gwell nag o Escol dir,  
Sy 'n d'od ar drostan pur,  
O'r Ganaan draw.

5 Mae 'n ddiau fod y wlad,  
Dragwyddol ei pharhad,  
O ffrwythau 'n llawn;  
Mae 'n tyfu ar groesbren i'r  
Almonau hyfryd, pur,  
Ffrwyth paradwysaidd dir,  
Pereiddiaf rawn.

—

HYMN DCCCIV.

**D**ERE, f' enaid, tua 'r bryniau  
Mae gorfoledd yn parhau,  
Gant o weithiau ce's fy mlino  
Yn ardaloedd poen a gwae;  
Dacw 'r wlad, hyfryd, rad,  
Ac 'r wy 'n dysgwyl llwyr ryddhad.

2 Mae fy mhechod wedi 'mlino,  
Nes i'm calon fyn'd yn friw;  
Mae fy nwydau yn cyrwydro  
Bob yr awr oddiwrth fy Nuw;  
IESU mawr, tyr'd i lawr,  
A chyflawna dy air yn awr.

3 Gad im' brofi dy addewid  
Yma yn disgyn yn ei grym,  
Ac na bo yn mhower uffern  
Danbaid, i'w gwrth'nebu ddim;  
Cnawd a byd, rhaid rhyw bryd  
I chwi gwympto i Brynwr byd.

4 Aros, Iesu, yn y rhyfel,  
Fy enaid yn lluddedig sydd;  
Ti bia d'rysu fy gelynyon,  
Ti bia 'r enw, Ti bia 'r dydd;  
Yn dy ddawn unig cawn  
Fuddugoliaeth werthfawr iawn.

5 Ar dy fynwes minau bwysaf,  
Doed llifogydd mwya' ddêl,  
Can's dy gariad a'th ffyddlondeb  
Gadarnhaw'd â dwyfol sêl;  
Daw i ben arfaeth nen,  
Chwardded uffern am ei phen.

—

HYMN DCCCVI.

**D**EFFRO, f' enaid, mae 'n  
ddiweddgar,  
C'od i maes o'r anial dir,  
Trist yw bod yn rhosydd Moab  
Gyda gelynyon dig yn hir;  
Lle nad oes, ddydd na nos,  
Ddim ond gruddfan dan y groes.

2 Y mae 'r Aiphtaid dir yn greulon,  
Lle mae Pharao yn fawr ei lid;  
Pechod atgas yn gorthrymu  
F' enaid gwirion ar bob pryd;  
Agor fôr, dangos 'stor  
Anfeidroldeb cariad Ior.

3 Rho i mi ddiangar ellyllon  
Sydd yn curo arna'i erioed,

Gad im' weled pen Goliah  
Gadarn, nerthol dan fy nhroed ;  
Parch a bri, fydd i Ti,  
Yma ac yn dragywydd fry.

4 Ti gai 'r enw a'r anrhydedd,  
A'r gogoniant yn y man,  
Am o ddyfnder maith trueni  
I Ti wared f' enaid gwan ;  
Nid oedd un, ond dy Hun,  
All'sai wared aflan ddyn.

5 Mi â' trwy fyddinoedd cryfion  
Yr estroniaid gwaetha' eu rhyw,  
Ond cael gweled bod o'm hochor  
Addewidion gwir fy Nuw :  
Congro wnair, ar ei air,  
Y gelynyon gwaetha' gair.

#### HYMN DCCCVII.

**A**RGLWYDD, edrych ar bererin  
Sy 'n myn'd tua 'r Baradwys  
well,  
Ac yn ofni swn llyfogydd,  
Ond eu clywed draw o bell ;  
'D wyf ond gwan, dal fi 'r lan,  
Gwna fi 'n gongrcwr yn y man.

2 Ar y tylau serth, llithredig,  
Dal fi 'n gadarn â dy law ;  
N'ad fi fymryn gollu 'ngolwg  
Ar y bryniau hyfryd draw,  
Sanctaidd wlad, tŷ fy Nhad,  
Pwrcas perffaith dwyfol waed.

3 Rho i mi ddrachtio 'r dyfroedd  
bywiol  
Sydd yn atal llwfrhau,  
Ac yn creu ysbrydoedd cadarn,  
Hyd y diwedd o barhau ;  
Gloew nant ylch i bant  
Euogrywydd, ac a ladd y chwant.

4 Dw'r a dorodd tan y trothwy  
Wna i mi gerdded yn y blaen,  
A gwrth'nebu 'r cenllysg mwyaf,  
Maeddu 'r tonau, maeddu 'r tân ;  
Nid oes dim o'r fath rym  
Ag yw d' Ysbryd sanctaidd im'.

5 Ac os rhoi i mi 'r dwfr bywiol,  
Hwnw dardd o honwy' 'maes  
Megys afon faith, nofiadwy,  
Pur effeithiau 'r dwyfol ras ;  
Cysur gwir, heddwch pur,  
Rhan o wleddoedd Canaan dir.

#### HYMN DCCCVIII.

**Y** MAE hiraeth yn fy nghalon  
Am gael teimlo hyfryd flas.  
Congwest nyw dau sydd hyd  
heddyw  
Yn gwrth'nebu 'r nefol ras ;  
Dyma ddawn, hyfryd iawn,  
Wy 'n ei 'mofyn foreu a nawn.

2 'R wy' fi 'n gweled bryniau uchel  
Gwaredigaeth werthfawr, lawm,  
Och ! na chawn i eu meddianu  
Cyn machludo haul brydnawn ;  
Dyna 'm llef, tua 'r nef,  
Addfwyn IESU, gwrando ef.

3 Marchog yn dy freiniol allu,  
Gwisg dy gleddau yn ngwasg dy  
glun ;  
Estyn fraich, a thor elynion,  
Achub wael, druenus ddyn ;  
Gelyn llym ni saif ddim  
Fyth o flaen dy anfeidrol rym.

4 Minau gerddaf trwy 'r byddinoedd  
Ond it' gerdded o fy mlaen ;  
Mae dy gamrau 'n tori 'r tonau,  
Mae dy gamrau 'n diffodd tân ;  
'N ôl dy droed gwna i mi dd'od,  
Fy hyfrydwch mwya' erioed.

5 Cerdd yn mlaen, mae 'm hofnau i'n  
darfod  
Ond dy weled Di gerllaw ;  
Ond dychwelant mewn mynydyn  
Os Tydi a sefi draw ;  
Gwna bob pryd f' enaid drud,  
I bwyso ar dy fynwes glyd.

#### HYMN DCCCIX.

**M**I â 'mlaen, a doed a ddelo,  
Tra fo hyfryd eiriau 'r nef

Yn cyhoeddi iechydwrriaeth  
Lawn, o'i sanctaidd enau Ef ;  
Nid yw grym gelyn llym  
At ei anfeidrol ras Ef ddim.

2 Mewn gwasgfeuon mwya' caled  
Eto brofodd dyn erioed,  
Mae Ef yn nerth, mae E'n ddydd-  
anwch,  
Mae E' yn gyfan is y rhod ;  
Melus win, dwyfol rin,  
Yw Ef i'r trallodedig ddyn.

3 Fe yw 'm hunig wir Anwylyd,  
Y ffyddlonaf Un erioed ;  
Minau seinia' 'maes tra anadl  
Ei anfeidrol, ddwyfol glod ;  
Neb ond Fe, is y ne',  
Yn fy nghalon a gaiff le.

4 Ar y cefnfor mawr, terfysglyd,  
Pan 'r o'wn i yn eitha' gwan,  
Tonau bron fy llwyr orchuddio,  
Yntau 'm daliodd i i'r lan ;  
Daeth fy Nuw â fi 'n fyw  
'Mewn i'r hafan hyfryd, wiw.

5 Minau ganaf am ei enw,  
Ac a draethaf 'maes ar led,  
Mai Efe sydd unig deilwng  
O fy nghariad a fy nghred ;  
Mwy na 'r ne' yw Efe,  
Neb nis gall gyflawni ei le.

#### HYMN DCCCX.

**Y** MAE Midian faith yn aml,  
Ac yn curo ar un llaw ;  
Seir anesmwyth yma 'n bygwth,  
Eilwaith Ammon greulon draw ;  
Ti fy Nuw, unig yw,  
All fy nghadw i yn fyw.

2 Fe ddaw amser buddugoliaeth  
Ar Philistia greulon, gref,  
Ac fe wneir i'm beiau penaf  
Ildio 'n lân i allu 'r nef ;  
Cadarn yw 'ddewid Duw,  
Sawl a dd'wedo hi fydd byw.

3 Y mae lluoedd Pharaon 'n canlyn,  
Beiau lliidiog, cedyrn, cry' ;  
Moroedd maith yn rhoio eu tonau,  
Rhwystrau creulon o bob tu ;  
Tyr'd yn mlaen, IESU glân,  
Ti bia 'r dyfroedd mawr a'r tân.

4 Mi debygwn gwela' i 'r boreu,  
Haul yn codi oddi draw ;  
Iechydwrriaeth rad yn nesu,  
Hedd a phardwn yn ei llaw ;  
Y mae 'r wawr, hyfryd awr,  
Bron a thori 'maes yn awr.

5 Minau ar y mur ddysgwyliaf,  
Gwn na oeda dim o'i droed ;  
Ni w'radwyddwyd is y nefoedd  
Neb ddysgwyliondd wrtho erioed ;  
Pan dêl dydd, mi â 'n rhydd  
O'r hyn yn fy mhoeni sydd.

#### HYMN DCCCXI.

**Y** MAE 'r byd a'i demtasiynau  
Wedi 'mlino i'n awr yn  
llwyr ;  
Nid â'r unpeith mae 'n fy mhrofi,  
Blygain, boreu, nawn, a hwyr ;  
Yma a thraw, ar bob llaw,  
A'i bicellau mae 'n gwneud braw.

2 Weithiau haera fy mhechodau  
Na pharha mo 'r dwyfol ras,  
Ac na's gall ffyddlondeb nefol  
Ddim hyd fyth i ddala 'maes ;  
Ond fy Nuw, cariad yw,  
Ag sy 'n para yr un rhyw.

3 Bellach, f' enaid, pa'm yr ofni ?  
Cu'wch a'r nefoedd, uwch y byd,  
Yw anfeidrol led a dyfnder  
Perffaith ddwyfol gariad drud ;  
Sy 'n ddi-lai yn parhau  
Yn nghanol gorthrymderau a gwae.

4 Credu 'r wyf daw rhyw bryd ddy-  
ryw  
Ar elynion o bob gradd,  
Ag sydd heddyw trwy bob dyfais  
Fedro uffern am fy lladd ;  
O yn awr, am yr awr,  
I gael gwel'd fy meiau 'lawr.

- 5 Yn nyfnderoedd garwa' 'nhrallod,  
Pan y b'wyf o flaen y tân,  
Saethau'n 'hedeg gylch fy nghoryn,  
Iesu, aros o fy mlaen ;  
Cadw 'maes, â dy ras,  
Holl bicellau 'r gelyn cas.

## HYMN DCCCXII.

**R**HWNG y creigydd pan b'wy'n  
cerdded  
Mewn llithredig anial le,  
Dal fy llygaid trwy 'r cymylau  
Ar dy Hun yn nghanol ne' ;  
Ti est trwy dd'rysni mwy,  
Congraist a difethaist hwy.

- 2 Gwna i minau, pan b'wy 'n ofni,  
Sengu 'n uniawn yno 'nbroed,  
Y fan y sengaist Ti dy Hunan,  
Fan cywiraf sydd yn bod ;  
Yn dy ddaawn, hyfryd iawn,  
Cadwaf finau 'm lle yn llawn.

- 3 Wrth dy ystlys 'r wyf am aros,  
Wrth dy ystlys mae fy lle ;  
Yn dy fynwes mae fy llety  
Dyogelaf is y ne' ;  
Noddfa yw, byddaf byw,  
Tan gystuddiau o bob rhyw.

- 4 Caled yw dyoddef cystudd  
Mewn anialwch maith yn hir,  
Methu teimlo pur ddyddanwch  
Addewidion Canaan dir ;  
Ond fe ddaw, maes o law,  
Sypiau peraidd oddi draw.

- 5 Ffarwel oll o tan yr wybren,  
Mi wnes ddewis hyfryd, gwiw,  
O drysorau uwch pob meddwl,  
Sy 'n guddiedig yn fy Nuw ;  
Fe ry' 'lawr gafod fawr  
Pan y delo 'r gyfyng awr.

## HYMN DCCCXIII.

**O**ARGLWYDD, tyr'd i lawr,  
Nac oeda, dere yn awr,  
Nid wyf ond gwan ;

'R wy 'n gorwedd yn fy ngwaed,  
Yn glwyfau o'm pen i'm traed,  
O dyro im' iachad,  
A chod fi i'r lan.

- 2 Dwg fi yn dy fynwes gu  
Trwy ganol tanllyd lu,  
Gwrthnysig ryw ;  
Bydd yno yn gymhorth im',  
Y fan mae 'r gelyn llym  
Yn curo yn ei rym,  
Ti yw fy Nuw.

- 3 Os unwaith tery fe  
Fi ar yr ochor dde,  
Saf Di o'm blaen ;  
Os ar yr aswy law  
Bygythir fi o draw,  
Fyth yno bydd gerllaw,  
Fel mur o dân.

- 4 Ac er nad wyf ond gwan,  
Fel hyn mi safaf i'r lan,  
Ni 'm maedda dim ;  
Mae nerth dy fraich yn fwy  
Na 'u holl fyddinoedd hwy  
Sy 'n rhoddi i mi glwy',  
Er maint eu grym.

- 5 'R wy' yn *resolfo* byw  
Tan aden bur fy Nuw,  
Mewn lloches bur ;  
Ac yna mi â' yn hy'  
Trwy luoedd creulon, cry',  
Lle mae fy IESU cu,  
Cyn y bo hir.

## HYMN DCCCXIV.

**C**AF weled cyn bo hir  
Bellenig hyfryd dir  
Immanuel ;  
Yr ardal ddwyfol, fras,  
O beraidd hyfryd ras,  
Sy 'n llifo tros y maes  
O laeth a mêl.

- 2 Torf o addewidion llawn,  
O ddyfroedd gloew iawn,  
Sy ar dori 'maes ;

Fe red yr afon hyn  
Trwy ganol Seion fryn,  
Hi gâna fyrdd yn wyn  
Mewn nefol ras.

- 3 Fy llygaid tu yma i'r bedd  
Gaiff weled dinas hedd,  
Caersalem bur ;  
Yn disgyn fry o'r nen,  
Fel dyffryn-lili wen,  
Priod-ferch Brenin nen,  
Mewn anial dir.

- 4 Wel, dyma 'r deml fawr  
Na thynir 'mo honi 'lawr,  
Pabell ein Duw ;  
Ei hoelion syffir un,  
Ei rhaffau 'n gedyrn y'n',  
Adeilad Ef ei Hun  
Tragwyddol yw.

- 5 Trigolion Seion mwy  
Ni dd'wed un,—afach wy',  
Iachaw'd eu briw,  
Ei physt ystlysau cry',  
Ei drws gapanau fry,  
Wedi eu taenellu sy  
A gwaed fy Nuw.

## HYMN DCCCXV.

**E**R cu'wch y brynau uchel, fry,  
A sw'n tymhestloedd tywyll,  
du,  
A'r holl freuddwydio ofnau sy',  
Mi anturia' eto 'mlaen ;  
Mae nerth y nefoedd fry yn fwy  
Na myrdd o'u dychryniadau hwy ;  
Mae haeddiant dwyfol, farwol glwy'  
Yn drech na dw'r na than.

- 2 Fy Noddfa gadarn, fythol yw  
Y gair a ddaeth o enau 'm Duw,  
Y ceidw Ef fi fyth yn fyw,  
Ffyddlondeb yw ei ras ;  
Mi wela' olion traed ei saint,  
Tan y cystuddiau mwya' eu maint,  
Yn cadw eu cysur, cadw eu braint,  
Yn wyneb angeu glas.

- 3 Os rhaid im' gwrddyd ar fy nhaith  
A rhyw gystuddiau mawrion, maith,  
A thrallod eto erioed ni ddaeth  
Yn gafod ar fy mhen ;  
Caf yfed o'r afonydd clir  
Sy 'n tarddu fry yn Salem dir,  
O tan yr orsedd ddwyfol, bur,  
Cysuron nefoedd wen.

- 4 Am hyn mi ro' fy ymddiried llawn  
Yn ngeiriau 'r nefoedd, foreu a  
nawn,  
Y ca'i ddyddanwch hyfryd iawn  
Pan gwasgir fi i'r llawr ;  
Yn mynydd Duw ceir yn ddi-lai,  
Pan bo cystuddiau yn trymchau,  
Wel'd gwaredigaeth fawr.

## HYMN DCCCXVI.

**F**Y ngoelbren gwmpodd ar y  
wlad,  
Yr etifeddiaeth oreu gaed,  
Bwrcasodd dwyfol, nefol waed,  
Fy Anwylyd a fy Nuw ;  
Fy Mrawd a 'Mhriod yw Efe,  
Fy Eiriolwr addfwyn yn y ne',  
Ag sydd ei Hun yn llanw lle  
Pob rhyw gariadau 'n fyw.

- 2 Yn mhlith plant dynion ni chair un  
Yn para yn gywir fel ei Hun,  
Nid yw ei gariad, megys dyn,  
Yn gŵyro yma a thraw ;  
Ond rhad anfeidrol yw ei ras  
I bechaduriaid cyndyn, cas ;  
A garodd Ef, Fe 'u dwg i maes  
O'u pechod ac o'u brow.

- 3 A chu'wch ag yw 'r ffurfafen fawr,  
Yn hongian fry oddiwrth y llawr,  
Neu belled ag yw 'r dwyrain wawr  
Oddiwrth orllewin bell,  
Pellha Fe 'n pechod ni a'n bai  
Oddiwrth ein llwyr haeddianol wae ;  
Na thad i'w blentyn caru mae  
A chariad lawer gwell.

- 4 O addfwyn IESU, gad im' fod  
O fewn dy gorlan, tan dy nod,  
A phob rhyw nwydau dan fy nbroed,  
Yn gyflawn o dy hedd ;

Yn nghanol terfysg a phob gwae,  
Croes a chystuddiau 'n amlhau,  
Heb fedru dim ond llawenhau,  
Nes gorwedd yn y bedd.

—  
HYMN DCCCXVII.

'R WYF yma yn byw mewn tir o  
wae,

Lle mae pob dim yn llwfrhau,  
A themtasiynau yn parhau  
I ddirwyn yn y blaen ;  
Tyr'd, Iesu, help fi gario 'r maes,  
Fy unig noddfa yw dy ras,  
O atal fy ngelynyon cas ;  
Dy ogoniant fydd fy nghân.

2 'R wy' wedi pwyso oll yn nghyd,  
I 'mado â theganau 'r byd,  
Fel peth annheilwng o fy mryd,  
A pheth di-les, di-rym ;  
Fy iechydwrtaeth werthfawr, gu,  
Sydd, Iesu, yn unig ynot Ti,  
Ac yno mi ymddirieda 'n hy'  
Yn ngwydd pob gelyn llym.

3 Fe 'm galwodd â'i effeithiol ras  
Pan o'wn ni 'n gorwedd yn y maes  
Yn archolledig gan fy nghas,  
Heb neb yn trugarhau ;  
Mi wn na âd 'mo honwy' mwy,  
Er dyfend, ffeiddied yw fy nghlwy',  
Tragwyddol gariad sydd yn fwy  
Na phwysau maith fy mai.

4 Ac yn ei freichiau mi â 'mlaen  
Trwy 'stormydd, a thrwy fflamau  
tân ;  
Caf wel'd fy etifeddiaeth lân,  
Dragwyddol maes o law ;  
Ac heddyw mae fy enaid prudd,  
Trwy obaith, hiraeth, a thrwy ffydd,  
Yn creu golwg siriol sydd,  
Fel pe b'ai 'r tir gerllaw.

—  
HYMN DCCCXVIII.

'N AWR mae cymylau 'r nos,  
Barhaodd amser mawr,

Yn agor ac yn ffoi  
O flaen yr hyfryd wawr ;  
Fe gôd yr haul, cawn wel'd yn glir  
Ein hetifeddiaeth cyn bo hir.

2 Fe roddwyd in' tan sêl,  
Yn llawn o fêl a llaeth,  
Rhyw addewidion drud,  
Na fedd y byd o'u bath ;  
Dyfera rhai'n ar frys eu rhin,  
Fel rhyw bereiddiaf, felus win.

3 Daw minteoedd heb un rhif  
O rai tywyllaf gaed,  
O gyrau pella 'r byd  
I brofi rhin y gwaed ;  
Daw mil a mil o'r udgryn glas  
I gyhoeddi 'r gwardigol ras.

4 Cyflawna, Iesu, 'th air,  
N'âd sillaf fyn'd ar goll,  
Nes d'od pob iota fach  
I fyny oll yn oll ;  
A dyfod oll, fu, sy, neu i dd'od,  
O'r nef i uffern tan dy droed.

—  
HYMN DCCCXIX.

M AË 'r gangen beraidd, fwyn,  
Gyda gogoniant mawr,  
O Jesse ddaeth i maes  
Yn flodau hardd o'u ffaidd friw ;  
Yn gwa'dd pob rhai, pob iaith, pob  
llwyth,  
I dd'od yn mlaen i brofi o'i ffrwyth.

2 Doed carcharorion caeth  
O eithaf tywyll fyd,  
Tan lwythau eithaf trwm,  
Yn finteoedd yma 'nghyd ;  
Hwy gânt iachad o'u ffaidd friw,  
A'u beiau fyrdd, yn ngwaed fy Nuw.

3 Fe gaiff ynfydion pell,  
Di-sylwedd, a di-fri,  
Yma ddoethineb llawn  
O drysor nefoedd fry ;  
Fe ledia tân a'r niwl y nos,  
Holl etifeddiion gwaed y groes.

4 Fe gaiff galarwyr trist  
Yma lawenydd llawn,

Difyrwch heb ei fath,  
O foreu hyd brydnawn ;  
Cânt ganu cân, yr un ag sy  
O fewn i furiau Salem fry.

5 Fe gaiff y *Negro* du,  
A'r *Indiad* pella' gaed,  
Yfed y melus win  
O hyfryd rin y gwaed ;  
Difyru fyth mewn marwol glwy',  
Yn drech na deniad pechod mwy.

—  
HYMN DCCCXX.

W EL, Iesu, yw fy Nhŵr,  
A'i angeu yw fy ngrym,  
Ac hebdio, dall a chloff,  
A thlawd heb feddu dim ;  
Am hyn ei hedd, a'i ddwyfol glwy',  
A'i gariad, fydd fy nghân i mwy.

2 Y cwbl sy arna'i chwant  
Yw canu am ei ras,  
A gorphwys yn ei hedd  
Tr'wy' ar y ddaear las ;  
Fe gaiff ei waed, a'i loesau drud,  
I swnio ei glod o gylch y byd.

3 O Enw anwyl iawn,  
Anwylaf un yn bod,  
Na chlywodd angylion nef  
Gyffelyb iddo erioed ;  
Arno rho'i 'mhwys, doed dydd, doed  
nos,  
Fe 'm dal i'r lan tan bob rhyw groes.

4 Cryf yw ei ddeheulaw,  
Anfeidrol yw ei rym,  
Ac nid oes fyth a saif  
O flaen ei wyneb ddim ;  
Rho'is iddo fy hun, fy amddiffyn  
gwna  
Rhag dyfais uffern faith a'i phla.

—  
HYMN DCCCXXI.

M AË fy enaid am eliedeg  
'Maes o'r anial tywyll, du,

I ardaloedd perffaith gariad,  
Mynwes T'wysog nefoedd fry ;  
Gwel'd ei wedd, profi ei hedd,  
Fy nefoedd yw tu yma i'r bedd.

2 'Drycha'i heddyw tua 'r gogledd,  
'Drycha'i eilwaith tua 'r de,  
Nid wy 'n canfod dim i'w brisio  
Megys ei ffyddlondeb E :  
Pleser llawn yma gawn,  
Pur, sylweddol, foreu a nawn.

3 Afon bywyd sydd yn rhedeg  
Tan ei orsedd bur i maes,  
Nant sy 'n golchi, ac yn cânu  
Y rhai dua', ffeiddia' maes ;  
Fe ddaw 'nghyd fyrdd ryw bryd,  
I'w folianu E o eitha' byd.

4 Minau yn nghanol gorthrymderau  
Reda' idd ei fynwes fwyn,  
Ac ar ryw ddiwrnod tywyll,  
O'r pydewau du Fe 'm dwyn ;  
Dwg ei was tlawd i maes,  
Can's anfeidrol yw ei ras.

—  
HYMN DCCCXXII.

P AN yr o'wn i mewn anialwch  
Tywyll, yn galaru yn brudd,  
Fe ddadrysodd hen gadwynau,  
Ac a rodd fy nhraed yn rhydd ;  
Daeth i'r lan â fi, un gwan,  
Rhodd ei Hunan i mi 'n rhan.

2 Mi ge's wel'd wrth oleu haulwen  
Fod fy Mhriod yn y ne',  
Ac cawn inau, 'r gwaelaef, eistedd  
Yno rywbryd ar ei dde' ;  
Doed y byd, oll i gyd,  
I'w glodfori o'r bron yn nghyd.

3 Mi dynghedaf bob creadur  
Glywodd eto am dano ddyn,  
Na b'ont ddenu fy serchiauau  
Fyth oddi wrtho Ef ei Hun ;  
Yn ei groes, farwol loes,  
Bo 'm difyrwch ddydd a nos.

4 Gwell na 'r bywyd yw ei heddwch  
Gwell na'r ddaear, gwell na'r nef ;,

Nis gall angel fyth i ffeindio  
Cydmar idd ei gariad Ef ;  
Dyma 'r dawn, hyfryd iawn,  
Wyf am feddu foreu a nawn.

### HYMN DCCCXXIII.

**W**EL, f' enaid, mentra 'mlaen,  
Mae 'r nefoedd fawr o'm tu,  
Fe seliwyd congwest im'  
O fewn addewid cry' ;  
Fe wawria 'r dydd, mi gaf ryddhad,  
Can's mawr yw haeddiant dwyfol  
waed.

2 Minau ddysgwyliaf draw,  
Ar fryn addewid hedd,  
Trwy gymylau mwya' du,  
Am wel'd ei hyfryd wedd ;  
Y sawl fo a'i chwant, rhanant y byd,  
Ond im' gael gwel'd dy wyneb-pryd.

3 Mae ynwyf hiraeth cry',  
'D oes dim a laesa 'mhoen  
Nes cuddio 'm henaid trist  
Yn nghlwyfau 'r addfwyn Oen ;  
'D oes blas mewn dim o tan y nef  
Gyffelyb sy 'n ei gariad Ef.

4 'R wy 'n awr yn canu 'n iach  
I oll sydd is y rhod,  
'Nol profi, yn adde' che's  
Ddim sylwedd yma erioed ;  
Mae 'r lleia' brawf o'th gariad drud  
Yn fwy na holl bleserau 'r byd.

### HYMN DCCCXXIV.

**G**WEL fi, ARGLWYDD, wedi  
'maeddu,  
Gan elynion cyfrwys, cry',  
Y rhai beunydd yn 'chwanegu  
Nerth, a chynddeiriogrwydd sy ;  
Curo ar dde, a churo ar aswy,  
Temtasiynau mawr a mân ;  
Tyr'd i lawr, Dwywsog heddwch,  
Nid oes dim a saif o'th flaen.

2 Dim ond i Ti dd'od i'r rhyfel,  
Wele 'r gelynyon oll a fy,  
Mae dy bresenoldeb cadarn  
Yn dychrynu uffern ddu ;  
Ni saif pechod, ni saif chwantau,  
Ni saif pleser is y nen,  
Mwy na niwl o flaen y gwyntoedd,  
O flaen T'wysog nefoedd wen.

3 Ac am hyny Ti ga'i enw,  
Ti gai 'r fuddugoliaeth lawn,  
Ti gai 'r clod, y nerth, a'r gallu,  
A'r gogoniant foreu a nawn ;  
Fe gaiff seintiau ac angylion,  
A cherubiaid pur yn un,  
Swnio maes i dragwyddoldeb  
It' wneud pabell gyda dyn.

### HYMN DCCCXXV.

**D**UW, bydd yn gymhorth ar fy  
nhaith,  
'R wy 'n ofni morio cefnfor maith  
Tymhestlog angeu, sydd o'm  
blaen ;  
Am hyny, ARGLWYDD, bydd ger-  
llaw,  
Yn cadw dychryniadau draw,  
Mewn cyfyngderau dw'r a than.

2 Ti 'm dygaist drwy d' anfeidrol ras  
O'r elyniaethol Aipht i maes,  
Tir o euogrwydd a phob bai ;  
Dwg fi eto trwy 'r anialwch maith  
Heb gyfeiliorni i ben fy nhaith,  
Lle ca'i 'n dragwyddol dy fwyn-  
hau.

3 Er amled, cryfed, ac mor hy'  
Yw y gelynyon i mi sy,  
Mwy ydyw nerth dy anfeidrol ras ;  
Dystewa 'r dorf, gorchfyga 'r gâd,  
Sydd am fy rhoddi tan eu traed,  
A dwg fi o'u cadwynau 'maes.

4 Ti, Ffynon bywyd, beraidd, ddwys,  
Arnat dy Hun 'r wy 'n rhoddi  
'mhwys,  
Ti yw fy Mrenin a fy Nuw ;  
P'le tro i fy wyneb, IESU cun,  
Ond yno atat Ti dy Hun,  
Gwraidd fy nyddanwch o bob  
rhyw.

### HYMN DCCCXXVI.

**O** IESU, dwg yn mlaen dy ras,  
Cryf yw 'ngelynyon cyndyn,  
cas,  
A minau 'n ofni o bob tu,  
Rhag ryw bryd gael fy sathru 'lawr  
Gan dyrfa elyniaethol fawr,  
Mae gwaedd fy enaid atat Ti.

2 Ti 'm cedwaist i i'r lan tan saith  
A rhagor o gystuddiau maith,  
'Cha's fy ngelynyon ddim o'u  
gwyn ;  
O n'ad fi, IESU, fyth gael clwy'  
Gan unig brofedigaeth mwy,  
Nes gorphen y rhyfeloedd hyn.

3 Fy unig noddfa yw dy ras,  
Ca'i 'm cynal ganddo o hyn i maes,  
Heb wro i'r aswy nac i'r dde ;  
O fewn dy fynwes boed fy nyth,  
Gorphwysfa f' enaid ofnus fyth,  
Nes landio 'mewn i deyrnas ne'.

4 Mi greda' mai ffyddlondeb yw  
Pob gair a ddaeth o enau 'm DUW,  
Ie ac Amen y'nt oll i gyd ;  
Holl bwras dwyfol arfaeth rad,  
A gadarnhawyd â dwyfol waed,  
Fe brynwyd i mi gongcwest drud.

### HYMN DCCCXXVII.

**O** ADDFWYN IESU, rho i mi  
rym,  
Yn anhawdd wedi'n ni fydd dim ;  
'R wyt Ti dy Hun yn fwy na  
'maich,  
Mae e'n ysgafn ond it' fod o'm tu,  
A'th iau yn hyfryd esmwyth sy,  
Anfeidrol ydyw grym dy fraich.

2 O gwna fi farw, ARGLWYDD cun,  
I bob rhyw 'wyllys sy gan ddyn,  
I bob rhyw bleser, pob rhyw  
chwant ;  
Fy rhydd-did a fy newis yw  
Sancteidol feddwl pur fy Nuw,  
Diflaned f' eiddo fy hun i bant.

3 'R wy 'n rho'i ffarwel i oll i gyd  
A ffeindiodd natur yn y byd,  
Gwagedd o wagedd y'nt o'r bron ;  
'R wy'n gwel'd mai etifeddiaeth yw  
Tragwyddol gariad pur fy Nuw,  
Fy nghysur ar y ddaear hon.

4 Rho, ARGLWYDD, im' fo yn dy  
fryd,  
Dy 'wyllys gaffo ei gwneud i gyd,  
Boed fy amserau yn dy law ;  
Cyfarwydda fi trwy 'r anial maith,  
Saf wrth fy ochor ar fy nhaith,  
A dwg fi i'r Baradwys draw.

### HYMN DCCCXXVIII.

**O** N'AD fi, ARGLWYDD, tra f'wyf  
byw,  
I dynu gwaradwydd o un rhyw  
Ar dy etengyl ddwyfol, wir ;  
Na g'wro oddiwrth dy Ysbryd  
rhad,  
Neu ddamsang gwirion, ddwyfol  
waed  
Yr aberth llawn haeddianol, pur.

2 O para yn ffyddlon im' o hyd  
Yn mhob rhyw droion yn y byd,  
Saf wrth dy air, dy air yw  
'ngrym ;  
Ni cholla'i 'ngafael, doed a ddél,  
Ar addewidion sydd dan sêl,  
Y rhai'n yw 'r unig noddfa im'.

3 Mi foria yn nerth addewid rad  
Trwy 'r tonau cynddeirioca' gaed,  
Fe ostega 'r 'storum wrth dy air ;  
Fy mhechod, er eu rhif a'u grym,  
O flaen dy addewid safant ddim,  
Dy addewid yn ffyddlondeb gair.

4 'R wy 'n ofni 'r aswy, ofni 'r dde,  
Am hyn mi bwysaf arno Fe,  
Ac yn ei freichiau âf trwy 'r tân ;  
Mi nofia 'r tonau mawrion trwy,  
Er mor arswydus ydynt hwy,  
Ond iddo fyned o fy mlaen.



## HYMN DCCCXXIX.

'DOES arall fan i roi fy mhwys,  
Ond ar dy addewidion dwys,  
Y geiriau dyngwyd yn y nef;  
Ni ildia'i o fy ngobaith ddim,  
Fy ngobaith yw fy unig rym,  
Yn ei addewid gadarn Ef.

2 A thyma 'r trysor sydd yn well  
Na golud maith yr India bell,  
Ni adewa'i iota fyn'd ar goll;  
Dysgwyliaf foreu a phrydnawn,  
Nes gwlawio 'r fendith berffaith,  
lawn,  
Ar f' enaid egwan oll yn oll.

3 Mae'th drugareddau maith eu rhin  
Yn d'od i lawr fel melus win,  
O oes i oes, heb drangc, heb drai;  
Dy gariad sy 'n anfeidrol 'stor,  
Yn gyflawn berffaith fel y môr,  
Ac yn dragwyddol yn parhau.

4 Mae 'n fwy, mae 'n llawer gwell  
na 'r byd,  
A'r holl drysorau sy ynddo i gyd,  
Bywyd a heddwch yw o'r bron  
I ni, 'n mhob cystudd tan y ne',  
Ond im' gael aros ynddo Fe,  
Ni ofnaf ddrygau 'r ddaear hon.

## HYMN DCCCXXX.

A TAT, ARGWLWYDD, 'r wy 'n troi  
fy wyneb,  
Ti yw 'm hunig Noddfa lawn,  
Pan fo cyfyngderau 'n gwasgu,  
Cyfyngderau trymion iawn,  
Dal fi 'fyny yn ngrym y tonau,  
'D oes ond dychryn ar bob llaw;  
Rho dy help, Dywysog bywyd,  
I gael landio 'r ochor draw.

2 Neb is nef ond Ti dy Hunan  
Ddeil i fyny f' enaid gwan,  
'R wy'n diystyru 'r holl greadigaeth  
Fel peth di-ddim, tlawd, a gwan;  
Ac os Ti roi dy fendithion  
I mi, yr annheilyngaf ddyn,  
Ti gai 'n ol y cwbl roddaist  
I dy fynwes lân dy Hun.

3 Ti gai 'mywyd, Ti gai f' amser,  
Ti gai 'm doniau o bob rhyw,  
P'odd y meiddia' i gadw mymryn  
O fendithion pur fy Nuw?  
Ffrydia 'r nefoedd wen i wared,  
Tyn garcharwr caeth i maes,  
Fe gaiff nef a daear glywed  
Adsain gwaredigol ras.

4 Ac am hyny mi ymdroaf  
'N awr, yn ngallu mawr y nef,  
Mae pob llwybr wedi ei gauad  
Ond y llwybr ato Ef;  
Mae allweddau nef ac uffern  
Acw yn hongian ar ei glun,  
Ato yr âf yn mhob caledi,  
Ceidwad y truenus ddyn.

## HYMN DCCCXXXI.

MI âf yn mlaen yn nerth y nef  
Tua 'r paradwysaidd dir,  
Ac ni orphwysaf nes cael gwel'd  
Fy etifeddiaeth bur.

2 Mae llais yn 'ngalw i maes o'r byd,  
A'i bleser o bob rhyw;  
Minau wrandawa 'r hyfryd swm,  
Llais fy Anwylyd yw.

3 'D wy'n gwel'd ar aswy nac ar dde,  
'Mhlith holl wrthddrychau'r byd,  
Ddim dâl ymddiried yn ei nerth,  
Na rhoddi arno 'mryd.

4 IESU yw tegwch mawr y byd,  
A thegwch pena 'r nef,  
Ac y mae 'r cwbl sydd o werth  
Yn trigo ynddo Ef.

5 A boed fy mhleser bellach byth  
O tan ei aden wiw;  
Na foed difyrwch genyf mwy  
Mewn dim ond yn fy Nuw.

## HYMN DCCCXXXII.

MEWN anialwch 'rwyf yn trigo,  
Temptasiynau ar bob llaw,

Heddyw tanllyd saethau yma,  
'Fory tanllyd saethau draw;  
Minau yn gorfod aros yno  
Yn y canol rhwng y tân,  
Tyr'd, fy Nuw, a gwel f' amgylch-  
iad,  
Yn dy allu dere yn mlaen.

2 Marchog, IESU, yn llwyddianus,  
Gwisg dy gleddyf yn ngwasg dy  
glun,  
Ni all daear dy wrth'nebu,  
'Chwaith nag uffern fawr ei hun;  
Mae dy enw mor ardderchog,  
Pob rhyw elyn gilia draw,  
Mae rhyw arswyd trwy 'r gread-  
igaeth,  
Tyr'd am hyny maes o law.

3 Tyn fy enaid o'i gaethiwed,  
Gwawried bellach foreu ddydd,  
Rhwyga 'n chwilfrw dderau Babel,  
Tyn y barau heiyron yn rhydd;

Gwthied caethion yn finteoedd  
Allan megys tonau llif,  
Torf, a thorf, tan orfoleddu,  
Heb na diwedd fyth na rhif.

4 Mi debygaf clywa'i heddyw  
Swm caniadau draw o bell,  
Torf yn moli am waredigaeth,  
Ac am rydd-did llawer gwell;  
Gynau gwynion yw eu gwisgoedd,  
Palmwydd hyfryd yn eu llaw,  
Ac hwy ânt gyda gogoniant  
Mewn i'r bywyd maes o law.

5 Minau bellach orfoleddaf  
Fod y Jubil fawr yn d'od,  
A chyflawnir pob sillafyn  
A lefarodd IESU erioed;  
De a gogledd yn fyrddiynau,  
Ddaw o eithaf tywyll fyd,  
Gyda dawns ac udgyrn arian,  
Mewn i Salem bur yn nghyd.



RHAI

*Hymnau Newyddion*

AR

FESURAU NEWYDDION,

A GYFANSODDWDYD AR GAIS CYNULLEIDFAOEDD SIR ABERTEIFI  
A SIR GAERFYRDDIN.

NODIADAU GAN Y GOLYGYDD.

CYHOEDDODD yr Awdwr dri o Bampbledau gwahanol, yn cynwys deuddeg tudalen bob un, yn dwyn yr enw uchod, ond na ddywedir ar yr olaf ei fod wedi ei gyfansoddi ar gais y Cynulleidfaoedd crybwylledig. Cyhoeddwyd y Cyntaf yn y flwyddyn 1781, yr Ail Ran yn 1782—y ddau wedi eu hargraflu yn Aberhonddu, gan E. Evans,—a'r Trydydd yn 1787, wedi eu argraffu yn Nhrefecca.

*Rhai Hymnau Newyddion.*

HYMN DCCCXXXIII.

- Y MAE 'r dyddiau 'n d'od i ben,  
Haleluia,  
Y dyrchefir Brenin nen,  
Haleluia,  
Fe â dwyfol angeu drud,  
Haleluia,  
Trwy ardaloedd pella 'r byd,  
Haleluia.
- 2 Fe bregethir Iesu a'i ras,  
Haleluia,  
Yn yr India eang, fras,  
Haleluia ;  
Fe â swyn yr udgorn clir,  
Haleluia,  
I'r Gorllewin, anial dir,  
Haleluia.
- 3 Fe yw 'r T'wysog cadarn, cry',  
Haleluia,  
Ag sy 'n ledio 'r nefol lu,  
Haleluia ;  
A thrwy ei angeu Ef ei Hun,  
Haleluia,  
Saint a seraph ddaeth yn un,  
Haleluia.
- 4 Minau gredaf yn fy Nuw,  
Haleluia,  
Ag fu 'n farw, 'n awr sy 'n fyw,  
Haleluia ;  
Ac er mwyn ei chwys a'i waed,  
Haleluia,  
Ca'i 'ngelynyon tan fy nhraed,  
Haleluia.\*

HYMN DCCCXXXIV.

- O GALFARIA mae fy heddi,  
A fy mywyd,  
Ac oddi yno mae fy ngwledd,  
Nefol hyfryd ;  
Ac o tan ei aden wiw  
Fyth arosa',  
Ac mi gana' tra f'wyf byw,  
Haleluia.
- 2 Mi ymddifyra' wrth ei groes  
Yn fy mlinfyd,  
Ac mi gofia' ei ddwyfol loes,  
Nerth fy mywyd ;  
Yn mhob cystudd a phob gwae  
Mi fodlona',  
Y mae 'r diwedd yn nesau,  
Haleluia.
- 3 Dedwydd wyf, mi gana' mwy,  
Dydd sy 'n gwawrio  
Pan ca'i roi 'm gelynyon glwy',  
Sy 'n fy mlino ;  
Nes d'od allan o bob pla,  
Mi ddysgwylia',  
Ac ar fyrder canu wna',  
Haleluia.
- 4 Wel, o'r diwedd daeth y dydd  
Pan caiff caethion  
Eu traed a'u dwylo oll yn rhydd,  
Oedd mewn cyffion ;  
Dyma Jubil nefol wiw,  
Pen Calfaria,  
Minau ganaf tra f'wyf byw,  
Haleluia.

HYMN DCCCXXXV.

- 'NOL tywyllwch hir y nos  
Gwawr sy 'n codi,

\* Y mae o'n blaen ddau argraffiad gwahanol dan olyfaeth yr Awdwr o'r "Rhai Hymnau Newyddion"; ac fel yma y ceir yr Emyn uchod yn y ddau.

- A thrwy haeddiant dwyfol loes  
Daeth goleuni;  
Ledio y mae'r haulwen bur,  
Fwyn bereiddia',  
Tua'r sanctaidd, hyfryd dir,  
Haleluia.
- 2 Bellach fe â'r môr yn ddau,  
Er creuloned,  
Fe wna lwybr i ni'n glau  
O'n caethiwed;  
Ni gawn yn yr anial dir  
Hyfryd fanna;  
Ninaw ganwn fyth yn wir,  
Haleluia.
- 3 Fe ddaw afon loew, glir,  
Dwfr y bywyd,  
O'r Messia dwyfol, gwir,  
Ein Hanwylyd;  
Ni gawn ddrachtio'r dyfroedd byw,  
Fyth ein gwala;  
Canu'n awr ein dyled yw,  
Haleluia.
- 4 Fe gwmp Amelec i lawr,  
Er ei allu,  
Fy mhechodau fach a mawr  
Oll yn trengu;  
IESU mawr a dalodd Iawn,  
Fe orchfyga,  
Ninaw ganwn foreu a nawn,  
Haleluia.

## HYMN DCCCXXXVI.

- E**I gyfiawnder dwyfol Ef,  
Haleluia,  
Ydyw'n cadarn noddfa gref,  
Haleluia;  
'Cholla'i' ngafael ynddo ddim,  
Haleluia,  
Pan bo 'mhechod yn ei rym,  
Haleluia.
- 2 Tan ei gysgod bydda'i byw,  
Haleluia,  
Uwch pob trysor, gwaed fy Nuw,  
Haleluia;  
Nis gall *power* uffern faith,  
Haleluia,  
Ddim fy nrygu ar fy nhaith,  
Haleluia.

- 3 Fe achubodd Ef fy mlaen,  
Haleluia,  
Ar y ffordd i uffern dân,  
Haleluia;  
Yn ei allu de's yn ol,  
Haleluia,  
'N awr'r wy'n dawel yn ei gôl,  
Haleluia.
- 4 Nid yw'n orchest i mi'n awr,  
Haleluia,  
Garu fy Eiriolwr mawr,  
Haleluia;  
Nid oes genyf ond Efe,  
Haleluia,  
Ar y ddae'r ac yn y ne',  
Haleluia.
- 5 Ar Galfaria un prydawn,  
Haleluia,  
Cawsom gongcwest hyfryd iawn,  
Haleluia;  
Uffern faith a'i hanferth rym,  
Haleluia,  
Ddarostyngwyd 'lawr i ddim,  
Haleluia.

## HYMN DCCCXXXVII.

- I**ECHYDWRIAETH sydd yn  
awr,  
Dawel hyfryd,  
Yn dylifo'n braf i lawr,  
Ddwfr y bywyd;  
Dyma ryfeddodau Duw,—  
Y ffeiddia'  
O rai meirw'n d'od yn fyw!  
Haleluia.
- 2 Darfu'r gauaf chwerw, hir,  
Amser sythdod,  
Pan oedd cwsg yn llanw'r tir  
A phob nychdod;  
Daeth y ddwyfol, nefol hin,  
Fwyn bereiddia',  
Minaw ddrachtia'r nefol win.  
Haleluia.
- 3 Tarddu'maes mae'r egin grawn  
Mewn cysondeb,  
Hauwyd gynt yn arfaeth Iawn  
Tragwyddoldeb;

- Ac ni chollir un o'r had,  
Y rhai lleia'  
Blanwyd yno gan ein Tad.  
Haleluia.
- 4 Dyma orchwyl Brenin ne',  
Ein Hanwylyd,  
Nid oedd arall ond Efe,  
Roi in' iechyd;  
Am ei ras a'i ddwyfol glwy',  
Tra fom yma,  
Cawn ni seinio bellach mwy,  
Haleluia.
- 5 Buddugoliaeth lân a ddaw,  
Yn mhen' chydig,  
Ni ddysgwyliwn oddi draw,  
Wrthi'n ddiiddig;  
Ar ei allu mae ein ffydd,  
Fe gongcwera,  
Canu ein pleser ninaw fydd,  
Haleluia.

## HYMN DCCCXXXVIII.

- B**UDDUGOLIAETH werthfawr  
lawn  
Ddaeth o'r diwedd,  
Trwy ddyoddefaint Iesu a'i ddawn  
I rai ffaidd!  
Er cyrwydro yma a thraw,  
Dir diffeitha',  
Daeth i dre' â ni'n ei law.  
Haleluia.
- 2 Ni chaiff fyth o'i ddefaid rhi  
Fyn'd yn angho',  
Ar ei ysgwydd cwyd Ef ni,  
Er in' grwydro;  
Ar lan afon ddwyfol, wiw,  
Cawn ein gwala,  
Porfa fras a dyfroedd byw,  
Haleluia.
- 3 Bugail yw, fe roes ei waed  
Dros ei ddefaid,  
Ac Fe'n prynodd ni yn rhad  
O'n caethiwed;  
Dygodd ni i brofi blas  
Dwyfol fanna,  
Bellach canwn am ei ras,  
Haleluia.

- 4 Nid oes terfyn fyth i'w gael  
Ar ei gariad,  
Mae ei drysorau mawrion, hael,  
Uwch eu dirnad;  
Ynddo ei Hunan mae yn llwyr  
Oll ddymunna',  
Minaw a ganaf foreu a hwyr,  
Haleluia.

## HYMN DCCCXXXIX.

- T**I, ARGWLWYDD, yw fy rhan  
A'm trysor mawr, di-drai,  
A noddfa gadarn f' enaid gwan  
Yn mhob gwae;  
Ac atat'r wyf yn ffoi,  
Dy fynwes yw fy nyth,  
Pan bo gelynlion yn crynhoi,  
Rifedi'r gwllith.
- 2 O dangos d' allu mawr,  
Dy faith, anfeidrol ras,  
A dywed wrthyf fi yn awr  
Caf gario'r maes;  
Ac atat'r wyf yn ffoi,  
Dy fynwes yw fy nyth,  
Pan bo gelynlion yn crynhoi,  
Rifedi'r gwllith.
- 3 Tydi, fy Nuw, ei Hun,  
Anfeidrol berffaith Fod,  
Sy'n trefnu daear, da, a dyn,  
I'th ddwyfol glod;  
Cyfrwydda f' enaid gwan  
Trwy'r anial dd'od yn mlaen,  
Ac arwain fi'mhob drys faran  
A'th golofn dân.
- 4 Dy Ysbryd sanctaidd, cun,  
Dywysodd fyrdd o saint,  
Rho i mi brofi ei felus rin,  
Anfeidrol fraint;  
Fel dyfroedd gloew, clir,  
I loni'r llesg a'r gwan,  
Dyddanwch yn yr anial dir  
I'm dal i'r lan.

## HYMN DCCCXL.

- O**F' ENAID, 'hed i'r lan,  
Tros fryniau uwcha'r byd,  
A gwel dy gyfoeth, gwel dy ran  
Anfeidrol ddrud!

Trysorau o ddwyfol rin  
Bwrcaswyd i mi 'n llawn  
Gan fy Ngwaredw'r addfwyn, cun,  
Ar un prydawn.

2 Fe bellach fydd fy nghân,  
A'm Hamddiffynfa glyd,  
Fy Nhŵr, fy Nghraig, a'm Noddfa lân  
Tr'wy' yn y byd ;  
Pan talodd dwyfol waed,  
Pwy ofyn i mi mwy ?  
Can's anfeidroldeb maith a gaed  
Mewn dwyfol glwy'.

3 Mae angeu 'r groes yn fwy  
Na haeddiant yr holl fyd,  
Y mae gruddfanau dwyfol glwy'  
Yn gyfoeth drud ;  
Fe genir myrdd yn wyn,  
Oll fel yr eira mân,  
Cair gwel'd rhai ffaidd ar ol hyn  
Yn berffaith lân.

4 Wel, minau anturia' mwy,  
Er cymaint yw fy mai,  
Trwy'r haeddiant dwyfol sy'n ei glwy'  
Heb lwfrhau ;  
O flaen yr orsedd wen,  
Ffieiddiaf ddy'n o'r blaen,  
Gan gredu gall Tywysog nen  
Fy ngwneud yn lân.

## HYMN DCCCXLI.

DEWCH yma, gwelwch un  
O ryfeddodau 'r ne' ;  
Fy IESU 'n rhoddi ei fywyd cun  
'Lawr yn fy lle !  
Nes rhoi 'r ffeiddia' ei ryw  
Yn ddysglaer, berffaith wyn,  
Ac nid oedd ond anfeidrol Dduw  
A wnaethai hyn.

2 O angeu pur y groes,  
Ti bellach fydd fy nghân ;  
'D oedd dw'r i'w gael ond ar y groes  
A'm gwna'i yn lân ;  
Y ffynon loew hyn  
Sydd ar y bryn o hyd,  
I olchi Ethiop du yn wyn  
I eitha 'r byd.

3 Wel, minau ddoe yn awr,  
Yn ffaidd fel yr wyf,  
A soddi fy hunan wnaif i lawr  
Mewn dwyfol glwyf ;  
Daeth allan ddw'r a gwaed,  
Er gwir iachad i mi,  
Ni cholla'i ddim o'r trysor gaed  
Ar Galfari.

4 Fy enaid cred yn awr,  
Mae 'r ffordd i'r nef yn rhydd,  
Fe ro'w'd anfeidrol swm i lawr  
Am jubil ddydd ;  
Ein cyfoeth ddaeth yn ol  
Trwy bwrcas dwyfol waed,  
Trwy 'r IESU cawsom dd'od i gôl  
Ein hanwyl Dad.

## HYMN DCCCXLII.

'D WYF ond pererin tlawd a  
gwan  
I deithio o'r anial fyd i'r lan ;  
Am hyn rho i mi lechu o hyd  
Yn dawel yn dy fynwes glyd.

2 Pan bo euogrywydd tanllyd, llym,  
Yn 'nghuro'i lawr yn eitha' ei ryw,  
Datguddia im' drysorau gras  
Yn ffrwd o'th ystlys ddaeth i maes.

3 O gad im' ffoi i'r noddfa glyd,  
Sydd uwchlaw uffern, uwchlaw 'r  
byd ;  
Tan gysgod y cyfamod rhad  
A seliwyd gynt â dwyfol waed.

4 Wel, dyma 'r lloches ddedwydd  
iawn,  
Gaiff fod fy noddfa foreu a nawn ;  
Heb un difyrwch ts y ne'  
Ond caru ac edrych arno Fe.

## HYMN DCCCXLIII.

'D OES dim ar wyneb daear  
lawr  
Ag eilw meibion Adda 'n fawr,  
A bwysa yn y glorian fry  
Dragwyddol hedd fy IESU cu.

2 A thyma 'r cyfoeth ro'w'd i mi,  
Anfeidrol drysor Calfari,  
A brynwyd yno ar y groes  
Trwy ddagrau cryf a chwerw loes.

3 O gariad o anfeidrol ryw,  
Rhaid marw'n lân o IESU 'm Duw ;  
'D oedd yn y nefoedd ronyn llai  
A roisai daliad am fy mai.

4 Wel, minau bellach wna fy nyth  
O tan ei aden dawel byth ;  
Ac mi adawa' ts y ne'  
Bob peth yn anngho' ond Efe.

5 Mi gym'ra fy nifyrwch mwy  
Fyfyrio ar ei ddwyfol glwy' ;  
Mi dreulia ddiweddd byr fy oes  
Ar ben Calfaria tan y groes.

2 Pererin fel fy nheidiau o'r blaen  
Wyf fi, o'r byd i Salem lân ;  
I ben fy siwrnai myn'd yw 'ngwaith,  
A charu 'm HARGLWYDD ar fy  
nhaith.

3 Pa'm yr edrychaf ar un llaw ?  
Heb neges yma 'r wyf, na thraw ;  
Mae 'm rhan a'm neges oll mewn  
gwlad  
Sydd yn dragwyddol ei pharhad.

4 O IESU, fy Iachawdwr mawr,  
Tyr'd, gwlawia fendith bur i lawr,  
Fel bo 'nifyrwch tra f'wyf byw  
Yn dy gymdeithas felus, wiw.

5 Fel pan bo terfysg, pan bo gwae,  
Oll yn cynyddu, yn parhau,  
Fod f' enaid i, heb fraw na phoen,  
Yn llechu yn mynwes addfwyn Oen.

## HYMN DCCCXLIV.

FFARWEL i'r byd a'i gystudd  
blin,  
Ei barch a'i olud yn gyntun ;  
'D yw ei anrhydedd mwy na'i wae  
Ond tros fynydyn yn parhau.

2 Ond mi â i 'mofyn trysor draw  
Na welodd llygad, deimlodd llaw,  
Sy 'nghadw 'n y cyfamod drud,  
Ac nid yn nghreigydd oer y byd.

3 Ar ben Calfaria un prydawn  
Y daeth fy nghyfoeth i mi 'n llawn ;  
Ac fyth caiff bellach f' enaid gwan  
I lawenychu yn ei ran.

4 Fy nghlustia caudad bellach wnaï  
Rhag twrf y byd, ei glod, a'i wae ;  
Ond mi a dreulia 'm dyddiau 'maes  
Mewn myfyr ar drysorau gras.

## HYMN DCCCXLV.

'D WY 'n dysgwyl cael o fewn y  
byd  
Ond siomedigaeth oll i gyd ;  
Paham dych'mga i ynddo fe  
Well triniaeth na ga'dd Brenin ne'?

## HYMN DCCCXLVI.

GWYN a gwridog, hawddgar  
iawn,  
Yw f' Anwylyd,  
Doniau'r nefoedd sy ynddo'n llawn,  
Peraidd, hyfryd ;  
Daear faith ac uchder ne'  
Fyth ni ffeindia  
Arall debyg iddo Fe,  
Haleluia.

2 Dygodd f' enaid ar ei ol  
Yn dra rhyfedd,  
Minau orphwysaf yn ei gôl  
Hyd y diwedd ;  
Ffowch greaduriaid o bob rhyw,  
Mwy ni chara'  
Wrthdrysych arall ond fy Nuw,  
Haleluia.

3 Ynddo ei Hunan mae yn llawn  
Bob trysorau,  
Dwyfol berffaith, werthfawr iawn  
Am fy meiau ;  
Gwir ddoethineb, hedd, a gras  
'Gwerthfawroca',  
Nerth i hollol gario 'r maes,  
Haleluia.

- 4 Dyma sylfaen gadarn, gre',  
Trwy fy mywyd,  
Credu ac edrych arno Fe  
Yw fy ngwynfyd;  
Ynddo bellach trwy bob pla  
Y gobeithiaf,  
Ac mewn rhyfel canu wnafl,  
Haleluia.

## HYMN DCCCXLVII.

**W**RTH ei ochr bydda'i 'n hy',  
Dywysog ffyddlon,  
Yn ei fynwes maedda'i lu  
O'm gelynyon;  
Uffern fawr aeth tan ei draed  
Ar Galfaria,  
Congwest gawd â dwyfol waed,  
Haleluia.

- 2 Yno rho'w'd i Satan glwy',  
Fyth na's gorfydd,  
Ergyd oedd a gofier mwy  
Yn dragwydd;  
Dim ond marw o'm Iesu 'n lân;  
A wnai 'r lladdfa,  
Sawl a'i caro, seinied gân,  
Haleluia.

- 3 Dyfais fawr anfeidrol Fod  
Ydoedd ffeindio  
Iawn am bechod, sydd erioed  
Am ein damnio;  
Rhodd fy Nuw yn natur dyn,  
Dâl o'r pena',  
Angeu o anfeidrol rin,  
Haleluia.

- 4 Bellach âf yn nerth y nef  
'Mlaen heb ofni,  
Yn ei gwmi cadarn Ef  
Nid oes methu;  
Ar ei faith ffyddlondeb gwir  
Bellach mi greda',  
Ac a gana 'r anthem bur,  
Haleluia.

## HYMN DCCCXLVIII.

**Y**TIR dymunol peraidd,  
Yr ardal hyfryd, euraidd,  
Ag oedd yn mhell yn sefyll draw,  
A ddaeth gerllaw o'i diwedd :

Er lludded ac er blino,  
Na fydded in' ddiffygio,  
Yr y'm yn nes-nes, awn ar frys  
I mewn i'r llys yn gryno.

2 Ac yno ni gawn ganu  
Y gongcwest wrol hyny  
Ag o'em ni 'n 'mofyn yn y byd  
O hyd, o hyd ei feddu;  
A rhwymo mewn cadwynau  
Hen Satan, a'n cystuddiau  
Heb allu ein temtio ar ol hyn,  
Na danod in' ein beiau.

3 Ond gorphwys yn ddihangol,  
O'n temtasiynau 'n hollol,  
Mewn maith dangnefedd pur, di-drai,  
Sydd yn parhau 'n dragwyddol;  
A hyfryd ymddifyru  
Yn ein hanwlyd Iesu,  
A threulio Sabbath melus, gwiw,  
Tragwyddol i'w folianu.

4 Seraphiaid ac angylion,  
Un cwmni dwyfol, ffyddlon,  
Blith dra-phlith a'r holl seintiau  
'nghyd,  
Yn canu 'gyd yn gyson;  
Oll mewn rhyw syndod rhyfedd  
Yn edrych tua 'r orsedd,  
Yn drachtio cariad pur, di-lyth,  
Heb deimlo fyth o'i ddiwedd.

## HYMN DCCCXLIX.

**M**AE 'r dydd yn d'od i fyny  
Cawn gwrdd yn un cwm-  
peini,  
O fewn i'r wlad sy heb elyn caeth,  
Na phechod 'chwaith i'n drygu;  
Ac yno ni gawn orphwys  
O fewn i'r wir Baradwys,  
Tan gysgod Pren y Bywyd cun,  
Yr hwn ei hun a'n prynws.

2 Fe dderfydd ein cystuddiau  
Pryd hyn, a'n temtasiynau,  
Fydd neb roi beichiau ar ein gwar,  
Na 'n denu oddiar y llwybrau;  
Pob niwed wedi symud  
O'r ffordd gan ein Hanwlyd,  
Heb wylo na galaru mwy,  
Na phoen, na chlwyl', na gofid.

3 Ond canu 'r gân dragwyddol,  
Am alw ac am ethol,  
Am gariad ag fu ar y groes  
Yn marw tros ei bobol;  
Am fynydd bach Calfaria,  
Gliriodd y dyled mwya',  
Na's gall'sai ei dalu neb yn fyw,  
Ei Hun ond Duw gorucha'.

## HYMN DCCCL.

**E**R maint fy llygredd o bob rhyw,  
Er cymaint yw eu rhif,  
Ac er fy nwydau cyndyn, chwith,  
Sy 'n para fyth yn gryf;  
Afon loew redodd allan,  
O tan drothwy 'r nef ei hunan,  
I olchi 'r euog, i olchi 'r aflan;  
Haleluia, Haleluia,  
Dw'r heb ddarfod, dw'r heb drai.

2 Af at yr orsedd fel yr wyf,  
Anfeidrol orsedd gras,  
Datguddia'i yno 'nghlwyfau maith,  
A'm holl archollion cas;  
Afon loew, &c., &c.

3 Mi welaf lu anfeidrol wyn,  
Yn aml fel y ser,  
Ag fu fel finau oll yn frwnt,  
Yn bur yn nghwmni 'm Ner:  
Afon loew, &c., &c.

3 Wel, finau 'r eiddil gwana ei lun,  
Heb ddim ond ffaidd friw,  
Anturiaf at drysorau 'r nef,  
Cyfawnder pur fy Nuw:  
Afon loew, &c., &c.

## HYMN DCCCLI.

**T**EITHIO 'rwyf fynyddau maith  
Dyrys anial,  
A gelynyon ar fy nhaith  
Sy 'n fy atal;

Ond mi wela 'm hyfryd wlad  
Trwy 'r eangder,  
Ac i mewn i dy fy Nhad  
Dof ar fyrder.

2 Mi gaf gongcwest yno 'n lân  
Ar elynion,  
Nwydau oedd yn curo o'r blaen  
Arna'i 'n gyson,  
Ni ddaw pechod o'n rhyw  
Fyth i'm blino,  
Na'r demtasiwn oreu ei lliw  
I mewn yno.

3 Ond llawenydd fel y môr  
Sy wrth ei orsedd,  
A thangnefedd ddwyfol 'stor,  
Fyth heb ddiwedd;  
Mi gaf ddrachtio 'r hyfryd hedd,  
Fynon bywyd,  
Sydd yn tarddu o waelod bedd  
Fy Anwlyd.

## HYMN DCCCLII.

**M**I ro' ffarwel berffaith, glir,  
I deganau  
Ag a'm daliodd i yn hir  
Yn eu rhywddau;  
'N awr â Gwrthdrrych gwerthfawr  
'r wy'  
Mewn gwir undeb,  
Cwlwm yw a bery trwy  
Dragwyddoldeb.

2 Ac yn haeddiant dwyfol glwy'  
Bydd fy nhrigfan,  
Fyth ni cheisaf drysor mwy  
Nag E ei Hunan;  
Yn ei boen a'i farwol friw  
Mae fy mywyd,  
A'i ddyoddefaint perffaith yw  
Fy ngwir iechyd.

3 Ac am dano boed fy nghân,  
Doed a ddelo,  
Fe yn unig sydd o'n blaen  
Yn congwero;  
Ar ei allu rho'i fy mhwy,  
Ni ofnaf niwed,  
O'r cystuddiau mwya'u pwys  
Ef a'm gwared.



## HYMN DCCCLIII.

O Galfaria llifodd hedd,  
Dwyfol, dirfîn,  
Congwest uffern, angeu, a'r bedd,  
Maith, di-derfyn ;  
Dyna 'r awr a thyna 'r fan  
Clwyfwyd hwythau  
Ag a' gurodd f' enaid gwa  
Fil o weithiau.

2 Dyma'r ffrwythau gwerthfawr iawn,  
Melus, hyfryd,  
Gawd yn pyngo un prydawn  
Ar Bren y Bywyd ;  
Dyma 'r pomgranadau pur,  
Doniau dwyfol,  
Ag a'n dwg o'r anial dir  
I'r wlad nefol.

3 Bellach ninau caru wuawn  
Ein Hanwylyd,  
Yn ei eiriau gwerthfawr, llawn,  
Cawsom fywyd ;  
Tan ei aden gynes, glyd,  
Boed in' dreulio,  
A difyrw 'n hoës o hyd  
Nes êl heibio.

## HYMN DCCCLIV.

Y NOSWEITHIAU hirion sy  
'Mron myn'd heibio,  
A'r cymylau tywyll, du,  
Sydd yn cilio ;  
Fe ddaw 'r haf a'r egin gwan  
I lawn fywyd,  
A hwy ddygant yn y man  
Ffrwythau hyfryd.

2 Dyddiau hyfryd dwyfol ras  
Ddaeth o'r diwedd,  
Ac fe dyr effeithiau 'maes,  
Nefol rhyfedd ;  
Fe ddaw gwinllan f' ARGLWYDD  
mawr  
I oresgyn  
Anial fanau pella 'r byd,  
Heb un terfyn.

3 Pan agorwyd teml Duw  
Daeth i'r golwg,  
Arch ei amod newydd, wiw,  
Yn bur amlwg ;  
Yr efengyl hyfryd, lân,  
I gongcwero,  
Ac i gario oll o'i blaen  
Ffordd y cerddo.

## HYMN DCCCLV.

DAETH fy nghoelbren dwyfol  
gwir,  
Im' a gwynfyd,  
Etifeddiaeth Salem bur,  
Tir y bywyd ;  
Lle mae uffern, angeu, a'r bedd  
Wedi 'u maeddu,  
A llawenydd pur a hedd  
Yn teyrnasu.

2 Yno cadwa'i 'ngolwg wiw,  
Doed a ddelo,  
Yn ddedwyddaf bydda'i byw,  
Er fy mlino ;  
Mae 'nhrysorau o bob rhyw  
Yn guddiedig  
Yn fy Mhrynwyr serchog, gwiw,  
A fy Meddyg.

3 Rhaid i d'w'llwch ffoi o flaen  
Ei ddysgleirdeb,  
Fflam angerddol, dwyfol dân  
Yw ei wyneb ;  
Mae 'r cymylau sy 'n crynhoi  
'N gorfod cilio,  
Am fod rhaid i bobpeth ffoi  
A'i gwrth'nebo.

## HYMN DCCCLVI.

Y CWBL fedda'i oll yn un,  
O entrych nen i'r llawr,  
A ro'w'd yn nghadw 'nghyd tan  
sêl  
Yn haeddiant IESU mawr ;

Dewch ac yfchw o'r bendithion  
Sydd yn llifo fel yr afon,  
O Galfaria 'maes yn gyson,  
Maith gyflawnder, maith gyflawn-  
der,  
Heb na therfyn fyth na thrai.

2 Mae yma ffynon sy 'n glanhau  
Budreddi brwnt yn lân,  
A hyfryd olchi 'r ffaidd, cas,  
Yn loew fel y gwlan ;  
Dewch ac yfchw o'r bendithion, &c.

3 'D oes unrhyw gyflwr ts y ne',  
A glyw'd am dano son,  
Ac pwysa ei anwiredau fwy  
Na gwerthfawr waed yr .Oen ;  
Dewch ac yfchw, &c.

4 Maddeuant sy yma perffaith, llawn,  
I'r cystuddiedig rai ;  
Mae 'r haeddiant fry yn clirio'n lân  
Bob rhyw aneirif fai ;  
Dewch ac yfchw, &c.

## HYMN DCCCLVII.

'R WY 'n trigo mewn anialwch  
maith,  
Gwlad galar a gwlad gwae ;  
A themtasiynau ar fy nhaith  
Sy 'mron a'm llwfrhau ;  
Dyna 'r man y gwna'i fy nhrigfan,  
O fewn muriau nef ei hunan,  
Uwchlaw cyrhaedd byd a Satan,  
Dinas gadarn, dinas gadarn,  
Ar anfeidrol, ddwyfol Graig.

2 Mae'r gwyntoedd poethion, sychion,  
cry,  
Yn chwythu yn eu grym,  
Taranau a chymylau du  
Sy 'n bygwith niwed im' ;  
Dyna 'r man, &c.

3 Pwys fy anwiredd o bob rhyw  
Ydyw a'm gwnaeth i'n wan ;  
F' euogrwydd, yntau megys baich  
Sy 'n rhwystro i fyn'd i'r lan ;  
Dyna 'r man, &c.

4 'R wy 'n dysgwyl am yr hyfryd awr  
'R â fy nghadwynau 'n rhydd,  
Ac mi a orfoledda 'n awr  
Wrth feddwl am y dydd ;  
Dyna 'r man, &c.

## HYMN DCCCLVIII.

Y N mhlith holl ryfeddodau 'r nef  
Hwn yw y mwyaf Un,  
I wel'd anfeidrol, ddwyfol Fod  
Yn gwisgo natur dyn ;  
Mae ynddo drysor fel y cefnfor,  
Byth ni cheisiaf ddim yn rhagor,  
Hedd a bywyd yw ei ffafwr ;  
Nefoedd berffaith, nefoedd ber-  
ffaith  
Yw cael drachtio ei ddwyfol hedd.

2 Ni chaiff bod eisieu byth na thrai  
Tra seren yn y nef,  
Ar neb o'r rhei'ny roddo 'u pwys  
Ar ei gyfiawnder Ef ;  
Mae ynddo drysor, &c.

3 Doed y trueiniaid yma yn nghyd  
Yn finteoedd heb ddim rhi',  
Cânt eu diwallu oll yn llawn  
O ras y nefoedd fry ;  
Mae ynddo drysor, &c.

4 Fe ylch ein beiau 'ffwrdd â'i waed,  
Fe 'n câna oll yn wyn,  
Fe 'n dwg o'r anial maith i maes  
I ganu ar Seion fryn ;  
Mae ynddo drysor, &c.

## HYMN DCCCLIX.

FY IESU, Brenin nef a dae'r,  
Ei Hunan unig yw,  
Trwy bwrcas llawn ei werthfawr  
waed,  
Iachawdwr dynolryw ;  
Aed ei air i blith y werin  
Sy 'n y dwyrain a'r gorllewin,  
Fel bo 'i Enw mawr heb derfyn,  
Canu iddo, canu iddo  
Haleluia gylch y byd.

- 2 Mae clywed newydd am ei waed  
Yn llofo ar Galfari,  
Yn un o'r pethau mwya' ei fraint  
A fedd ein daear ni ;  
Aed ei air i blith y werin, &c.
- 3 Fe câr y *Negro* tywyll, du,  
E'n hyfryd maes o law,  
Pan t'wyno gwawr efengyl gras  
I dir yr India draw :  
Aed ei air i blith y werin, &c.
- 4 Fe ddaw 'r blynyddau pur i ben  
Pan t'wyno efengyl gras,  
Fel haul ddysglaerwen yn y nef,  
Yn gylch i'r ddaear las ;  
Aed ei air i blith y werin, &c.
- 5 Ac mi ddysgwylia 'r hyfryd awr,  
Boreu-ddydd Jubili,  
Pan delo holl dylwythau 'r byd  
I deithio i Galfari ;  
Aed ei air i blith y werin, &c.

## HYMN DCCCLX.

**O** DEWCH, genedloedd, dewch  
yn un,  
Tros rwystrau maith eu rhi',  
A gwir ryfeddwch tra f'och byw  
Ddyoddefaint Calfari :  
Clod di-derfyn fo i'r Brenin,  
Ddaeth o Jesse, hardd flaguryn,  
Alpha, Omega, dwyfol wreiddyn,  
Ffynon bywyd, Ffynon bywyd  
I rai 'n teithio yn ngwres y dydd.

- 2 Fe dalodd yr anfeidrol swm  
Fel meichiau yn ein lle,  
Ac felly fe gymododd holl  
Briodoliaethau 'r ne' :  
Clod di-derfyn fo i'r Brenin, &c.
- 3 Mae cofio heddyw am ei waed,  
O flaen yr orsedd fry,  
Yn creu heddwch dwyfol, pur,  
I'r holl grediniol ri' :  
Clod di-derfyn, &c.
- 4 Fe ddwg y saint i'r euraidd fan  
Y dringodd iddo ei Hun,

A hwy gânt wel'd y dwyfol wedd  
A wisgodd natur dyn :  
Clod di-derfyn, &c.

## HYMN DCCCLXI.

**W**EL, dyma gyfoeth, gwerth-  
fawr, llawn,  
Uwch holl drysorau 'r llawr,  
Wedi ei roi gadw oll yn nghyd  
Yn haeddiant IESU mawr ;  
Boed tragwyddol barch a moliant  
Fyth i Frenin y gogoniant,  
Ar ei 'fengyl wen bo 'r llwyddiant,  
I ddwyn heddwch, i ddwyn heddwch,  
I derfynau eitha 'r byd.

- 2 Ei gariad lifodd ar y bryn,  
Fel moroedd mawr, di-drai,  
Ac fe bwrcasodd yno hedd  
Tragwyddol i barhau :  
Boed tragwyddol barch a moliant,  
&c.
- 3 Ei gariad bery pan bo 'r byd,  
A'r haulwen fawr, yn ddim,  
Ac nid oes gariad yn y byd  
Gyffelyb idd ei rym :  
Boed tragwyddol barch a moliant,  
&c.
- 4 Pan syrthio 'r ser fel ffygys tr,  
Fe bery gras fy Nuw,  
A'i faith ffyddlondeb tra fo 'r nef  
Annghyfnewidiol yw :  
Boed tragwyddol barch a moliant,  
&c.

## HYMN DCCCLXII.

*A gyfansoddwyd ar ddeisyfiad y Parch-  
edig D. Jones, o Langanna. Ar fesur  
newydd.*

**Y** CYSUR i gyd  
Sy 'n llanw fy mryd,  
Fod genyf drysorau  
Uwch gwybod y byd ;

Ac er bod hwy 'nghudd,  
Na's gwel hwynt ond fydd,  
Cair eglur ddatguddiad  
O honynt ryw ddydd.

- 2 Rhodd y'nt ro'w'd yn rhad  
Gan IESU, a'n Tad,  
A brynwyd yn gyfiawn  
Trwy gleisiau a gwaed ;  
Fel b'ai genym ble,  
A haeddiant i'r ne',  
Trwy rinwedd y poenau  
Ddyoddefodd Efe.
- 3 Anfeidrol oedd lliid  
Creaudwr y byd  
Yn erbyn y pechod  
Sy 'n damnio o hyd ;  
Ond Tywysog a gaed,  
A golodd ei waed,  
Fe brynodd faddeuant  
A heddwch y Tad.

- 4 Ffordd wnaethpwyd yn llyn  
Ar Galfari fryn,  
I sicrach paradwys  
Nag goll'som cyn hyn ;  
Ac yno ni gawn  
I yfed yn llawn  
O wleddoedd y bywyd,  
Heb foreu na nawn.

## HYMN DCCCLXIII.

**G**AD im', ARGWLWYDD, tra f'wy'  
byw,  
I gael gwledda  
Ar dy ddywyfol, farwol friw  
Y gwir fanna ;  
Dy ddyoddefaint yw fy nerth,  
A fy iechyd,  
Tros y bryniau mwya' serth  
I dir y bywyd.

- 2 Y mae chwantau yn llesgau  
Yn ngwedd dy wyneb,  
Congwest bythol i barhau  
Yw 'th bresenoldeb ;  
Gyda Thi mi anturia' trwy  
Lu o elynion,  
Mae dy allu 'n llawer mwy  
Na 'm caseion.

- 3 Dedwydd yw sy 'n profi 'th hedd,  
A'th gymundeb,  
Dedwydd yw sy 'n gweled gwedd  
Dy lân wyneb ;  
Dy gyfeillach nefol, wiw,  
Sy 'n wir fywyd,  
A dy heddwch dwyfol yw  
'M perffaith iechyd.

## HYMN DCCCLXIV.

**I**ESU, cymer fi 'n dy gol  
Rhag diffygio,  
N'ad fy enaid bach yn ol  
Sydd yn crwydro ;  
Arwain fi trwy 'r anial maith,  
Aml rwydau,  
Fel na flinwyf ar fy nhaith  
Nes myn'd adre'.

- 2 Rho dy heddwch tan fy mron,  
Ffynon loew,  
Ffrydiau tawel, nefol hon  
Fyth a'm ceidw ;  
Os ca'i ddrachtio 'r dwfr pur,  
Mi drafaelaf  
Fryniau ucha 'r anial dir,  
Ni ddiffygiat.

- 3 Gwedd dy wyneb siriol sy  
Yn gorchfygu  
Y gelynyon creulon, cry'  
Oedd yn 'maeddu ;  
Gwedd dy wyneb serchog yw  
Fy holl iechyd,  
Dyna alwa'i tra f'wy' byw  
Im' yn wynfyd.

## HYMN DCCCLXV.

**O** TYRED, addfwyn Oen,  
Iachawdwr dynolryw,  
At wael bechadur sy tan boen,  
Ac ofnau 'n byw ;  
O helpa 'r llesg yn awr  
I ddringo o'r llawr yn hy'  
Tros greigydd geirwon, serth  
I'r lan i Ganaan fry.

2 Mae 'r gelyn llym o hyd  
Yn *lesto* ei danlyd saeth,  
A minau 'n ofni ca'i rhyw bryd  
I deimlo ei brath;  
O fewn dy fynwes bur  
Dwg fi i dir fy ngwlad,  
I gael meddianu 'r 'ddewid wir  
A brynodd gwaed.

3 O dal fi, 'r wyf heb rym,  
Yr ochr hyn na thraw,  
Os sefyll wna'i, ni safaf i ddim  
Ond yn dy law;  
Addewid nefoedd faith  
Yw 'm cymorth perffaith, wir,  
Na chyfeiliornaf ar fy nhaith  
I Salem bur.

4 Yn eitha' grym y dw'r,  
A'r tonau 'n curo 'lawr,  
Tywysog nefoedd yw fy Nhŵr,  
A'm Ceidwad mawr;  
Fe ddeil fy mhen i'r lan,  
Can's Ffrynd i'r gwan yw Ef,  
Fe 'm dwg o'm cystudd yn y man  
I deyrnas nef.

5 Dewch bellach yn eich grym,  
Elynyon llym yn haid,  
Er maint eich nifer, 'faeddwoch ddim  
O'r dwyfol blaidd;  
F' a'r lluoedd ar eu taith,  
Trwy 'r dyfroedd maith yn mlaen  
I'r wlad sy 'n llifo o fêl a llaeth,  
Y Ganaan lân

### HYMN DCCCLXVI.

PE âi 'r ddaear fawr ei rhod  
'Lawr i'r dyfnder,  
A phe 'r cyfan sy arni 'n bod,  
A ddiddymmer,  
Ar ei gariad dwyfol, pur,  
A'i drugaredd,  
Bydd fy ngobaith cadarn, clir,  
Hyd y diwedd.

2 Pe âi dynion, fawr a mân,  
I mi 'n elynion,  
Ac amddifad awn yn lân  
O gyfeillion;

Un yw 'Nghyfaill a fy Nuw,  
Frawd ffyddlonaf,  
Minau 'n farw ac yn fyw  
Fyth a'i caraf.

3 Pe doi cystudd yn ei rym  
I fy nhreio,  
Gwasgu 'r eiddil gwan yn ddim,  
A'i gongcwero;  
Edrych wnawn i'r dwfn fedd,  
Ac ni 'm syffid,  
Ond cael teimlo nefol hedd  
Fy Anwylyd.

4 Pe doi dae'r ac uffern fawr  
Yn eu gallu,  
I dafu f' enaid bach i lawr  
Yn eu gallu,  
I dafu f' enaid bach i lawr,  
Sy 'n llewygu;  
Ond os tan ei aden wiw  
Ca'i ymguddio,  
Sefa'i 'r 'storom waetha' ei rhyw  
Nes êl heibio.

### HYMN DCCCLXVII.

DYMA gariad o'r fath rym,  
Fyth ni chlywir  
Y cyffelyb iddo ddim,  
Gan greadur;  
Tywysog mawr y nefoedd fry,  
Ar Galfaria,  
Yn rhoi ei fywyd tros of fi,  
Y ffeiddia'.

2 Gwaedd fy Nuw ar Galfari,  
Sy 'n rhoi 'n agored  
Euraidd byrth y nefoedd fry,  
Ag oedd gauad;  
Y mae dwyfol wirion waed  
O'r fath rinwedd,  
Ac mae in' yn nhŷ ein Tad  
Wledd ddi-ddiwedd.

3 Pan bo g'lynyon yn eu grym  
Am fy rhwygo,  
Minau f' hun yn gallu dim  
I'w concwero,  
Lawr ar haeddiant gwaed ei groes  
Mi orphwysa',  
Beth na faedda dwyfol loes  
Ar Galfaria.

### HYMN DCCCLXIX.

NID oes aberth o un rhyw,  
Yn mhlith miloedd,  
Dâl am drosedd lleia' o ryw  
Yn oes oesoedd;  
Dim ond aberth dwyfol Ddyn  
Foddia Dduwdod,  
Angeu T'wysog nef ei Hun  
Bwysa 'mhechod.

2 Dyma 'r angeu 'n abal sy  
I drosglwyddo  
Fy euogrydd dwfn, du  
I dir angho';  
Fe wnaeth pechod y fath glwy'  
Ar fy enaid,  
'D oes ond gwaed anfeidrol mwy  
All fy ngwared.

3 Dyma 'r Aberth mae erioed  
Son am dano,  
Ar y ddaear 'd oes yn bod,  
Debyg iddo;  
Mae seraphiaid pena 'r nen  
Yn rhyfeddu,  
Wel'd eu Brenin ar y pren,  
'N awr yn trengu.

### HYMN DCCCLXX.

BRYDNAWN,  
Ar y ddedwyddaf awr a gawn,  
Y talodd IESU 'n eitha' llawn,  
Y dwyfol Iawn i'm hanwyl Dad;  
Palmantodd ffordd o Galfari  
I'r nefoedd fry, trwy rin ei waed.

2 Mae 'n awr  
Yn eistedd ar yr orsedd fawr,  
Yn ARGLEWYDD uffern, nef, a llawr,  
Hyd fore wawr adgodiaid dydd;  
Pan gollwng ei ddyweddi ddrud  
O lwch y byd yn berffaith rydd.

3 Yn wir,  
Pryd hyn, 'fe wawdd ei Briod bur—  
Tyr'd yma 'mewn i'th nefol dir,  
Ro'w'd i ti 'n hir cym seiliad byd;  
Dy etifeddiaeth nefol yw,  
Gwerth gwaed dy DDUW a'i boenau  
drud.

4 Deued daear, deued nef, —  
Bro a bryniau,  
I folianu ei enw Ef,  
Fu yn dyodde';  
Prynu 'r etholedig fyd  
Wna E 'n ffyddlon,  
Trwy farwolaeth eitha' drud,  
Garcharorion.

### HYMN DCCCLXVIII.

GWNAWD cyfamod gwerthfawr  
rhad  
I fy ngwared,  
Rhwing fy IESU a'm hanwyl Dad,—  
O'm caethiwed,  
Ar amodau cadarn, drud,  
Na all ond hyny,  
Satan, uffern fawr, a'r byd,  
Eu diddymu.

2 'R oedd ei bleser cyn bod byd  
Gyda dynion,  
Ac yn caru 'r oedd o hyd  
Ei gaseion;  
Ac fe dalodd drostynt Iawn  
Pan o'ent eto  
Mewn tywyllwch dudew 'n llawn,  
Heb ddihuno.

3 Cyn rhoi bod i'r ddaear gron,  
Na dim sy arni,  
Gwnawd y ddwyfol drefn hon  
I'm gwaredu;  
IESU addawodd golli ei waed,  
Yn llawn fodlon,  
Yn ol arch ei anwyl Dad,  
Tros elynion.

4 Fe ga's enw, fe ga's glod,  
O ddyodde'—  
Fe ga's daliad pena' erioed  
O'i gystuddiau;  
Fe gyflawnodd ei anwyl Dad  
Ei addeidwion  
A ro'dd E iddo am golli ei waed  
Yn dra ffyddlon.

4 'Fydd son  
Am alar, gruddfan, gwae, na phoen,  
Yn nghwmni 'r addfwyn anwyl Oen,  
O fewn i Seion sanctaidd fry;  
Ond yfed dyfroedd dwyfol flas,  
Darddodd i maes o Galfari.

5 Ni fydd  
Dim caudad ar ei phyrth hi 'r dydd,  
A thywyll nos o'i mewn ni bydd,  
Na galar, gruddfan, gwae, na phoen;  
'D oes haul na lloer 'n goleuo 'r dre',  
Can's yn eu lle, ei goleu hi yw 'r Oen.

## HYMN DCCCLXXI.

NID oes,  
Ni fu, ni ddaw, mewn unrhyw oes,

O gymaint gwerth a gwaed y groes,  
Y ddwyfol loes ddyoddefodd Ef;  
O gariad mawr! di-derfyn 'stor,  
Sy fel y môr, mewn dwyfol lef.

2 Efe  
Yw 'r unig Wrthddrych is y ne',  
Dâl yn fy nghalon roi 'ddo le;  
Un arall b'le sy 'n deilwng fod?  
Ei gariad pur i derfyn byd,  
Mewn lled a hyd, sy 'n dwyn y clod.

3 Af trwy  
Fy nhemtasiynau aml mwy  
Tan aden cariad dwyfol glwy',  
Mi a'u conggraf hwy 'n ei gong-  
cwest Ef;  
A'i allu yw fy noddfa glyd,  
I ddringo o'r byd, i ganol nef.

4 Erioedd  
Mae 'n dal y rhai sydd dan ei nod,  
Na lithro mymryn byth o'u troedd,  
Heb iddynt dd'od ar frys yn ol;  
Ei Ysbryd sy 'n eu cadw 'n glyd,  
Mewn dyrys fyd, o fewn ei gôl,

## HYMN DCCCLXXII.

NID oes,  
Trwy gydol ddyddiau byr fy oes,

Yn gyfan i mi ond y groes,  
Rhyw chwervw loes o fore i nawn;  
Ond os dy allu 'm dal i'r lan,  
Fi yn y fan fydd gongcwrw llawn.

2 O, pwy  
Ymguddiodd yn dy ddwyfol glwy',  
Ac yno fethodd dori trwy  
Gystuddiau mwy na gwellt y maes?  
Mae 'r fuddugoliaeth fawr yn d'od,  
Hyd heddyw erioedd, oddiwrth dy ras.

3 Dy ras  
A ddeil fy enaid bach i maes,  
I ymladd â gelynyon cās,  
Nes cario 'r maes, yn lân rhyw ddydd;  
Ac yno caf orphwysfa bur,  
Mewn nefol dir, yn berffaith rydd.

4 Nid oes  
A ddeil fy ysbryd dan bob croes,  
Ond dwyfol nefol farwol loes,  
Estyniad f'oes, yw ei fwynhau;  
'D oes arall gysur mewn un man,  
'Fe yw fy rhan, byth i barhau.

5 'D oes drai,  
Nac eisieu dim y man y mae—  
Mae 'n llenwi 'r cyfan yn ddilai;  
Pawb O! na baent yn gwel'd ei wedd;  
Sychedent am ei wir fwynhau  
Mewn gwledd di-drai, a  
Drachtio'i hedd.

## HYMN DCCCLXXIII.

EI glod  
Sydd heb un terfyn iddo 'n bod;

O aed yn mlaen fwy nag erioedd  
O gwmpas rhod y ddaear fawr,  
Nes elo sw'n efengyl bur  
I dori 'n glir fyrddiynau i lawr.

2 Mwy, mwy  
Yw buddugoliaeth dwyfol glwy',  
A'i gongcwest helaeth gyrhaedd  
trwy  
Galonau mwy na rhif y gwllith;  
Yn nydd ei nerth y gwanaf un  
Wrtho a lŷn yn fyddlon byth.

3 Mae, mae  
Rhyw hiraeth ynwyf yn parhau,  
Am wel'd yr amser hyny 'n glau,  
Y pryd y mae fy ARGLWYDD rhad  
I dderbyn ei ogoniant mawr  
Gan nef a llawr, am roddi ei waed.

4 O, 'n awr,  
Addfwynaf IESU, tyr'd i lawr,  
Helaetha dy freniniaeth fawr;  
C'od ddedydd awr iachusol  
ddydd;  
Rho 'r carcharorion fyn'd i maes  
O'r pydew cas, heb ddwfr sydd.

## HYMN DCCCLXXIV.

FE ddaw  
Ar y cymylau maes o law,  
I rai er dychryn mawr a braw,  
Yn mhell uwchlaw dychymyg  
dyn;  
Ac yna barna 'r ddaear faith  
Yn ol y gwaith a wnaeth pob un.

2 Heb gél  
Pob llygad yno 'n lân a'i gwel;  
Ac 'n ol cyfiawnder pur y dël,  
Fe rydd ei sêl ar blant ei Dad;—  
O! deuwch, fendigedig rai,  
Rho'w'd yn ddi-lai i'ch deyrnas  
rad.

3 Cyn byd  
Amodwyd i chwi 'n eithaf drud,  
Yn awr meddianwch hi yn nghyd;  
'D yw hon i gyd, ond gwerth fy  
ngwaed;  
Cewch wel'd y gogoneddus fri  
Enillais i, ar law fy Nhad.

4 Y wlad,  
Ac oll ro'w'd i mi gan fy Nhad,  
Rof fi i chwithau 'n awr yn rhad!  
Eich enw gaed yn Wraig yr Oen;  
Anfeidrol fraint, anfeidrol fri,  
'R wy 'n un â chwi, trwy ddirfawr  
boen.

5 'Fydd mwy,  
Ddim diwedd o'u llawenydd hwy,  
Eu temtasiynau aethant trwy;  
Gwaed marwol glwy' fydd gwraidd  
eu gwledd,  
Tragwyddol gân, heb dewi son,  
I DDŴ a'r Oen, am ddwyfol  
hedd.

## HYMN DCCCLXXV.

YN awr  
Sancteiddiol Ysbryd, tyr'd i  
lawr—  
Dysgleiria hyfryd fore wawr,  
Goleuni mawr o entrych nef;  
Fel delo 'm henaid wel'd yn glir  
Yr hyfryd dir bwrcasodd Ef.

2 'Does fan  
Ar ddaear foddia 'm henaid gwan;  
Diangodd rhwng y sêr i'r lan,  
I 'mofyn rhan sydd uwch yr haul;  
Yn mynwes f' ARGLWYDD mawr y  
mae  
Gwledd i barhau, nad oes o'i hail.

3 Y gwin  
Sydd yno, mae o nefol rin,  
I nerthu 'm henaid pan fo flin  
Gan groesau blin sy 'n curo o hyd;  
Wrth ddrachtio hwn, myfi âf trwy  
Gystuddiau mwy nag wŷr y byd.

## HYMN DCCCLXXVI.

A TAT, f' ARGLWYDD, dyrcha fy  
enaid,  
Rho f' och'neidiau ger dy fron;  
Unrhyw ateb i'm gruddfanau  
Dyfnion, 'fedd y ddaear hon;

- Nid oes ond dy enw 'n unig  
Ag a gynwys lawn iachad,  
Ac a goncra 'r holl elynion  
Sy 'n fy rhoddi tan eu traed.
- 2 Mae 'm gofalon oll yn darfod,  
Cynted caffwy' wel'd dy wedd;  
A diflanu 'n berffaith gwbl  
Y mae ofnau 'r byd a'r bedd;  
Mae fy nhemtasiynau creulon,  
Er mor aml oe'nt o'r blaen,  
Megys cwmwl tew 'n myn'd heibio,  
Yn dy bresnoldeb glân.
- 3 Nid oes grym yn fy nhrachwantau  
I edrych yn dy wynebpryd;  
Y mae natur wyllt yn dofi,  
Ac yn suddo lawr i gyd;  
Ti yw nghyfoeth a'm dedwyddwch,  
Ti yw 'ngobaith, Ti yw 'ngrym;  
Heb'ost 'd wyf ond tlawd ac egwan,  
Heb'ost, IESU, 'd wyf fi ddim.
- 4 Mae fy nghalon yn ehedeg,  
Mae fy nymuniadau 'n llw,  
Yn diangu uwch troiadau  
Haul a ser y nefoedd fry;  
Ac yn damsang pob cynygion  
O ddymunol bethau 'r llawr,  
Er mwyn meddu braint sy nghadw,  
I m' yn nhragwyddoldeb mawr.

## HYMN DCCCLXXVII.

**N**YNI,  
Mewn cydsain â'r angylaid  
lu,  
A folwn Dduwdod, Un yn Dri,  
Am ddyfais iechydwrïaeth rad;  
Yn awr nid oes ar orsedd ne'  
Ddim garia ble, ond dwyfol waed.

- 2 O pwy  
All chwilio dyfais dwyfol glwy',  
Sy 'n anchwiliadwy hollol trwy  
Bob darn o hono oll i gyd?  
Dynderau mawr ei gariad Ef,  
Ddadseinia 'r nef, pan ddarfo 'r  
byd.

- 3 'D oes dim,  
O tan y nefoedd fawr o rym,  
A'm deil i'r lan tan gystudd llym,  
Ond cariad pur fy ARGLWYDD cu;  
A hwn a'm nertha fyn'd yn mlaen  
Trwy ddw'r a thân, i'r nefoedd  
fry.
- 4 Ei waed  
Oedd pwrkas drud yr hyfryd wlad,  
Bartodd E' i mi 'n eitha' rhad,  
Ei gariad annherfynol maith  
A'm nertha' i bellach fyn'd yn  
mlaen,  
I Salem lân, sy' ar ben fy nhaith.

## HYMN DCCCLXXVIII.

**N**ID oes angel, nid oes seraph,  
Yn y nefoedd fawr a gaed,  
All'sai ffeindio allan foddion  
I fy enaid gael iachad;  
Mae yma ddyfnder o ddirgelion,  
Maith goruchel iawn eu rhyw,  
A ddyfeisiwyd cyn bod amser,  
Gan ddoethineb bur fy Nŵ.

- 2 Mae priodoliaethau 'r Duwdod  
Yma 'n cael eu cyflawn le—  
Ei gyfiawnder a'i wirionedd,  
A'i sancteiddrwydd perffaith E;  
Y mae cariad a thrugaredd,  
A doethineb, wnaeth y *plan*,  
Yn cael hyfryd ymhyfrydu  
Yn achubiaeth f' enaid gwan.
- 3 Mae 'm cydwbybod oedd mewn  
terfysg,  
Ac yn ofni n arw iawn,  
Heddyw 'n dechreu a llonyddu,  
Wel'd y Meichiau'n talu'n llawn;  
Taliad holl ofynion Duwdod,  
Ag sydd o anfeidrol fri—  
Taliad holl ofynion cyfraith,  
Taliad sicr iawn i mi.
- 4 P'odd wrth olrhain yn y meddwl,  
Yn ngoleuni 'r nefoedd fry,  
Ar y rhagorfreintiau aml  
Brynnodd f' ARGLWYDD mawr i mi

## HYMN DCCCLXXX.

**O** ARGLWYDD grasol, bydd  
o'm plaid  
Yn mhob gwasgfeuron fel bo raid;  
Rho 'th Ysbryd sanctaidd i mi 'n  
sêl  
Yn mhob troiadau, doed a ddêl.

- 2 'R wy 'n hollol dlawd, heb feddu  
dim,  
Dy nerth anfeidrol yw fy ngrym;  
A'th bur ffyddlondeb sydd heb drai  
Wna hyd y diwedd im' barhau.
- 3 Dy bresnoldeb gwerthfawr, drud,  
Yw fy nyddanwch yn y byd;  
Ac heb dy bresnoldeb gwiw  
Fel un ymddifad 'r wyf yn byw.
- 4 Mae 'm holl gariadau yn y byd  
Ddyeithriach, ddyeithriach im' o  
hyd;  
Ac nid wy 'n ceisio yn eu lle  
Ond cwmni Brenin mawr y ne'.
- 5 Ac yna aed y nef ar dân,  
A'r ddaear fawr yn ulw mân;  
Nid ofna'i 'r drygau mwya' sy  
Tra 'm haddfwyn IESU gyda mi.

## HYMN DCCCLXXXIX.

**O** IESU, atat 'r wyf yn d'od,  
Y truenusaf ddyn erioed;  
I ymguddio tan dy aden glyd,  
Tan demtasiynau maith y byd.

- 2 'Does unrhyw gyflwr, unrhyw fan,  
Heb dorï yn curo ar f' enaid gwan;  
Ond er d'ogoniant, ARGLWYDD cun,  
Lladd dy elynion cas dy Hun.
- 3 Gwisg fi â'r fantell ddysglaer iawn,  
A wnaed ar Galfari brydnawn;  
A throcha aneirif feiau f' oes  
Yn nwr pur a gwaed y groes.
- 4 Mae 'm dyddiau 'n treulio o awr i  
awr,  
Nesau mae tragwyddoldeb mawr;  
Gad i mi wel'd yn oleu clir,  
Wrth fyn'd o'r byd, dy wyneb pur.
- 5 Gwasgara y cymylau sydd  
Yn cadw'th nefol wedd yn nghudd,  
A dyfrha fi â'th hyfryd hedd,  
Yn erbyn ofnau, angeu, a'r bedd.

## HYMN DCCCLXXXI.

**D**'WED, IESU, a ydyw 'm henw  
i lawr  
Yn rhol ddi-feth yr arfaeth fawr?  
A roddwyd finau gan y Tad  
Yn un y rhoddaist trosto 'th waed?

- 2 Os felly, ARGLWYDD, gwna im' fod  
Yn gywir, ffyddlon ar dy nod;  
A threulio 'm bywyd byr i gyd  
Yn dy wasanaeth tr'wy 'n y byd.
- 3 Gwna im' fyfyrïo ddydd a nos  
Ar werth anfeidrol angeu 'r groes;  
A holl bleserau 'r anial dir  
I soddi yn dy gariad pur.

- 4 Fel gallwyf lwy'r anghofio 'r llawr,  
A phobpeth eilw 'r byd yn fawr ;  
A'm holl bleserau 'n tarddu i maes  
O ffynon dwyfol, nefol ras.

## HYMN DCCCLXXXII.

MAE 'r dyrfa fawr ag aeth o'r  
blaen

Wedi congro heddyw 'n lân ;  
Ac adsain eu caniadau hwy  
Sy 'n enyn cariad dwyfol mwy.

- 2 O hyfryd foreu, hyfryd awr,  
Tywyniad tragwyddoldeb mawr,  
Pan yr agoro 'r beddau pridd  
I roddi seintiau Duw yn rhydd.

- 3 Wel dyna 'r awr, a thyna 'r pryd  
Cair gwel'd 'tifeddion nef yn nghyd ;  
Yn dechreu taith, o'u carchar caeth,  
Tua 'r wlad sy'n llifo o fêl a llaeth.

- 4 Y fan bydd terfyn ar bob gwae,  
A dechreu 'n hir i lawenhau ;  
Yn nheml Dduw eu cartref fydd  
Yn ei was'naethu nos a dydd.

- 5 A'r Hwn sydd ar yr orsedd fawr  
Gysgoda dystynt bob yr awr ;  
Newyn a syched ni ddaw mwy,  
Na haul, na gwres, i'w drygu hwy.

- 6 Yr Oen sydd ar yr orsedd fawr  
Bugeilia hwynt bob mynydd awr ;  
Fe 'u harwain at ffynonau clir  
O ddyfroedd bywiol, dwyfol, pur.

- 7 Sycha ei Hun bob deigr mân  
Oddiwrth eu llygaid hwynt yn lân ;  
Tristwch, marwolaeth hen, a phoen  
Fyth fythol ffy o gwmni 'r Oen.

## HYMN DCCCLXXXIII.

HENFFYCH, IESU, 'r DUW  
tragwyddol,

Gwir a sanctaidd, perffaith ddyn !  
Dwy ryw nanat mewn un Person,  
Syndod nefoedd fawr ei hun !

A phob natur a phriodoledd  
Eto 'n hollol gadw 'u lle,—  
Dyndod heb gymysgu â Duwdod ;  
Priod f' enaid byth yw E.

- 2 Ti yn unig ydwy 'n addef  
Yn llawn deilwng o fy mryd ;  
Ti yn unig ydyw Gwrthddrych  
Fy serchiadau oll i gyd ;  
Tan dy aden rasol, dyner,  
Trwy dy ddyoddefiadau maith,  
'R wyf yn dysgwyl, yn ddiangol  
Hyfryd gyrhaedd pen fy nhaith.

DIWEDD Y "RHAI HYMNAU  
NEWYDDION."

## LLOFFION.

[Nid yw yr Hymnau a ganlyn i'w  
cael yn y naill na'r llall o'r gwahanol  
Gasgliadau blaenorol. Cawsom hyd  
iddynt yn nglŷn â'r gwahanol Weith-  
iau Rhyddiaethol a gyhoeddwyd gan  
Williams. Casglwyd amryw o'r rhai  
gyhoeddwyd felly ganddo i'r *Gloria  
in Excelsis* ac i'r *Rhai Hymnau Newydd-  
ion* ; ond ryw fodd, gadawyd y rhai a  
ganlyn allan, ac nid ydynt i'w cael yn  
unlle ond yn yr hen lyfrau a gyhoedd-  
wyd gan yr Awdwr ei hun. Gwyddom  
fod ambell Hymn ar lafar gan rai hen  
bobl yma ac acw, ac ambell un wedi  
ei chyhoeddi, nad ydynt i'w cael yn  
y Casgliad hwn, y rai a briodolir i  
Williams. Ond i bawb cyfarwydd â  
theithi odlau ein Per Ganiedydd, ceir  
ynddynt ddigon o brofion mewnl, pe  
na buasai dim arall, i sicrhau na  
ddaethant oddiwrth ei ysgrifell ef.—  
GOLVGYDD.]

## HYMN DCCCLXXXIV.\*

DEWCH yma, gystuddiedig rai,  
Sy'n gruddfan tan eich baich ;

\* Yn niwedd y llyfr a gyhoeddodd yr  
Awdwr ar *Antimoniaeth*, yn y flwyddyn  
1774, ceir chwech o'i Hymnau. Oddigerth  
yr Hymn uchod, y maent oll yn y "Rhai  
Hymnau Newyddion."

Fe'ch dal i'r lan yn mhob rhyw wae,  
Anfeidrol yw ei fraich :  
Fel y cefnfor mawr dygyfor,  
Yw ei ras, a llawer rhagor,—  
Nid oes terfyn ar ei drysor,  
Haleluia, Haleluia, Haleluia fyth,  
Amen.

- 2 Fe faddeu ein beiau o bob rhyw,  
Fe 'n gwna ni oll yn iach ;  
Ac ni gawn orphwys ar ei dde',  
Ond aros gronyn bach :  
Fel y cefnfor mawr dygyfor, &c.

- 3 Fydd yno eisieu fyth na thrai,  
Nac wylo dagrau mwy ;  
Ond yfed cariad fel y môr—  
Ffrwyth dwyfol, farwol glwy' :  
Fel y cefnfor mawr dygyfor, &c.

- 4 Wel, dyna 'r pryd, a thyna 'r fan  
Caiff gras ei hollol le,  
O hyny allan welir mwy  
Ddim terfyn arno fe :  
Fel y cefnfor mawr dygyfor, &c.

## HYMN DCCCLXXXV.\*

YMDDIGRIFA, f' enaid, bellach  
Yn ei iechydwrwriaeth lawn,  
Melus boed fy myfyrdodau  
Am ei gariad foreu a nawn ;  
Os ca'i suddo 'm henaidd ynddo,  
Gwn y daw fy nbroed yn rhydd  
O'r cadwynau sydd gan Satan  
Yn fy atal nos a dydd.

- 2 Nid yw 'r gelyn mwya' ei allu,  
Mwya' cyfrwys, mwya' ei lid,  
'N abl dygyd un o'i ddefaid  
Ar Iachawdwr mawr y byd ;  
Ar ei ysgwydd dyner, esmwyth,  
Dwg ei grwydriaid yn eu hol,  
Ac fe 'u hymgeledda 'n rasol  
A diangol yn ei gól.

\* Ymddangosodd Rhif dcccclxxxv., dcccclxxxvi.-  
dcccclxxxix., dcccxc., a dcccxcii. yn niwedd  
"Ateb i Wr Boneddig," a gyhoeddwyd yn  
1784.

## HYMN DCCCLXXXVI.

O FFORDDOLION, 'drychwch  
arno,  
Dyma gariad,—cariad yw !  
Dwyfol Ddyn yn dyoddef mawr  
Dros elynion salwa eu rhyw ;  
O fy enaid, gwranddo adsain  
Glir o'i ddynol, ddwyfol lef,—  
Dere adre', dere adre',  
I yfed o'i dangnefedd Ef.

- 2 Mae yma heddwch, mae yma  
fywyd,  
Mae llawenydd yma 'n lli',  
Mae yma gyfraith, 'd oes a'i pwysa  
Ddim sydd ar ein daer ni ;  
Trugareddau maith, di-derfyn  
I drueiniaid gwaela' eu rhyw,  
A thrwy rinwedd dwyfol glwyfau,  
Ffافر fythol gyda Duw.

## HYMN DCCCLXXXVII.\*

O ARGLWYDD, saf o'm tu,  
Dal f' enaid cu i'r lan,  
Mae im' elynion creulon, cry',  
A minau 'n wan ;  
'R wy 'n ofni 'r anial maith,  
Rhag gŵyru 'm taith un llaw,  
Am hyny arwain f' enaid llaith  
I'r ochor draw.

- 2 Gostega 'r 'storom gref  
Sy 'n curo ar fy mron,—  
Nes wyf yn methu codi 'm llef  
O war y don ;  
A dofa 'r tonau maith,  
Y diluw mawr ei rym,  
A chynal finau ar fy nhaith  
Heb ofni dim.

\* Yn yr Amgueddfa Brydeinig, yn Llun-  
dain, gwelsom lyfr a gyhoeddwyd gan  
Williams, yn y flwyddyn 1779, o'r enw,  
"Hanes Troedigaeth ryfedd a hynod y Parch.  
Thos. Goodwin, D.D." Yn ei ddiwedd ceir  
amryw Emynau. Yn eu mysg y mae yr  
uchod, yn nghyda'r nesaf, y rhai nad ydynt  
i'w cael yn y naill na'r llall o gasgliadau yr  
Awdwr.



3 Ti 'r Meddyg pena' erioed,  
Sydd yn iachau pob briw,  
Fy unig drysor is y rhod,  
A 'Mhriod gwiw,  
Wel arnat rho i fy mhwys  
I orphwys fyth yn lân,  
O tan bob rhyw gystuddiau mwy,  
Fawrion a mân.

4 Ti fuost yn y byd  
Yn cael dy dreio 'n llym,  
Tan demtasiynau o bryd i bryd,  
Tanbaid eu grym ;  
Trwy ddyodde' dwyfol glwy'  
Ti congtraist hwy yn lân,  
Ac ymfrost yn dy allu mwy  
A fydd fy ngân.

5 'R un g'lynyon, ARGLWYDD mawr,  
Oedd genyt Ti dy Hun,  
Ag sydd yn diwyd guro i lawr  
Fy enaid cun ;  
Am hyny, tyr'd yn mlaen  
A chongra 'n lân yn awr  
Fy holl elynion, fawr a mân,  
O'th flaen i lawr.

## HYMN DCCCLXXXVIII.

O ARGLWYDD, dyro nerth  
I wael bechadur gwan,  
I ddringo tylau mawrion, serth,  
Llithrig i'r lan ;  
Mae 'r gwyntoedd foreu a nawn  
Yn greulon iawn eu grym,  
Yn curo f' enaid llesg, di-ddawn,  
Yn eitha' llym.

2 Fy IESU yw nerth fy nhaith,  
Fy Noddfa sicr, siwr,  
Fy Nghraig yn nyfnder dyfroedd  
maith,  
A'm cadarn Dŵr ;  
Ac yno rho i fy mhen  
O tan ei aden wiw,  
Gan orphwys ar ei fynwes wen  
Byth tra f' wy' i byw.

3 Fy llygredd o bob gradd  
A gongra er ei rym,  
Ei allu Ef sy 'n abl lladd  
Gelynyon llym ;

Mae uffern gadarn, gref,  
Er maint ei llef a'i llid,  
Tan ei awdurdod ddwyfol Ef,  
Yn ofni i gyd.

4 Ei gariad yw fy ngrym  
Yn mhob rhyw 'stormydd maith,  
Ni feddai arall gysur ddim,  
Mewn anial daith ;  
Fe achub f' enaid gwan,  
Fe'i dwg i'r lan yn rhydd,  
O'i holl gadwynau yn y man,  
Pan dêl y dydd.

## HYMN DCCCLXXXIX.

M AE fy nghalon lwfr, ofnus  
'N awr yn gosod o fy mlaen  
Wae a blinfyd, heb rifedi,—  
Dyfroedd dyfnion, fflamau tân ;  
Minau 'maflaf, er mor waned,  
Yn ei fantell ddwyfol, wen,  
A'i gyfiawnder wisga'i 'n hollol  
O flaen gorsedd fawr y nen.

2 Fe ateb ei gyfiawnder perffaith  
Lid y gytraith yn ddi-drai,  
Ac fe ddofa wres digofaint  
Dwyfol at ei anwyl rai ;  
Dyna 'r pryd terfynwyd talu  
Pan ddyoddefodd angeu loes,  
Ac fe brynodd gyflawn ryddid  
I rai caethion ar y groes.

3 Minau bellach âf heb ofni,  
Bellach âf heb lwfrhau ;  
Ysgafn wyf, fe dynodd ymaith  
Rym f' euogrywyd a fy mai ;  
Yn ei nerth mi gerdda 'n êon  
Dros y bryniau ucha' gaed,  
Ac ni flina' i fyth, na gorphwys,  
Nes im' gyrhaedd ty fy Nhad.

## HYMN DCCCXC.

M AE 'ngelynyon heb rifedi  
Ac yn adnewyddu eu grym ;  
Minau eiddil, gwan heb allu  
Yn eu herbyn sefyll ddim ;

Fy unig nerth, fy unig gysur  
I'w fod T'wysog mawr ei fri,  
Trech nag angeu, trech nag uffern,  
Yn y frwydr gyda mi.

2 Rhaid i'r gelynyon rhag ei ofn,  
Pan f'ont fwyaf yn crynhoi,  
'Ddiwrth ei bresenoldeb cadarn  
Yn w'radwyddus iawn i ffoi ;  
Yn ei freichiau dwyfol, tyner,  
Yn ddi-ofn mi â 'm laen,  
Ac nid ofna' i'r tonau mawrion,  
Dyfinder dw'r, na fflamau tân.

3 Y mae rhinwedd yn ei gariad  
Ag a wnaiff y caeth yn rhydd,  
Tywyll nos heb ronyn llewyrch  
Yn oleuni haner dydd ;  
Mi drafaela 'r anial garw,  
Creigydd uchel diffaith dir,  
Ac ni cheisiaf ddawn na meder  
Ond ei nerthol gariad pur.

## HYMN DCCCXCI.

M AE llyfogydd mawr yn  
chwyddo,  
Rhwystrau 'n dyblu o fy mlaen,  
Ton 'n ol ton o hyd yn canlyn,  
Bygwith soddi 'm henaid maen' ;  
Ond mi â trwy 'r 'fonydd dyfnion,  
Ac mi anturia 'r dwfn li',  
Am fod Tywysog mawr y bywyd  
Yn y dyfroedd gyda mi.

2 Ar ei allu 'r wyf yn pwyso,  
Yn ei allu mae fy ngrym ;  
Boed ei allu mawr o'm cwmpas  
Fel na chollwy 'r frwydr ddim :  
Mi ro' shallens i bob gelyn,  
Tan ei aden 'r wyf yn byw,  
Dyma 'r man y gorfoledda'i  
Yn nghyflawnder mawr fy Nuw.

3 Nerth a chariad, a fyddlondeb  
Duwdod all fy nal i'r lan,  
Rhagor o ogoniant sy iddo  
Am fy mod i 'n eiddil, gwan :

Iddo boed y clod a'r enw,  
Iddo boed y parch a'r bri,  
Oen yw laddwyd ar Galfaria,  
Oen a laddwyd tros of fi.

## HYMN DCCCXCII.

M AE 'n wy 'r awrhon ddymun-  
iadau  
Am drysorau uwch y byd ;  
Rhaid myn'd trwy'r Iorddonen arw  
Cyn y llenwir hwynt i gyd ;  
Mae 'nhwy am ymestyn beunydd  
Ac am gyrhaedd drwodd draw,  
Neu gael profi mwy o'r gwleddoedd  
Hyny yma maes o law.

2 Nid yw 'r pethau welodd llygad,  
Nid yw 'r pethau deimlodd llaw,  
Nac un peth a flysia natur  
Gymharu ddim i'r pethau draw ;  
Cael ymborthi ar ddwyfol fara  
Yn ddi-derfyn, yn ddi-drai,  
Yfed o afonydd bywyd  
Ydwy 'n unig am fywnehau.

3 Dyma Graig y rheda dyfroedd,  
Dyfroedd bywiol, dwyfol, pur,—  
Iachawdwriaeth dorodd allan  
Ar Galfaria 'n loew, glir :  
Yma daw fy enaid egwan  
'N awr i 'mofyn gwir iachad  
Perffaith at fy nghlwyfau dyfnion,  
Dim yn llai na dwyfol waed.

## HYMN DCCCXCIII.

Y MAE 'r ddaear a'i theganau  
Yn diflanu fawr a mân ;  
Tragwyddoldeb mawr yn unig  
Fel rhyw gefnfor sydd o 'm laen ;  
Yno bydda'i 'mhen ychydig,  
Dyna 'nghartre', dyna 'r fan  
Ca'i drysorau iachawdwriaeth  
Anchwiliadwy yn fy rhan.

2 Mae meddyliau am ben fy siwrnai  
 I mi 'n llwyr ddiffasu 'r byd,  
 Ac o ddwyfol wir hyfrydwch  
 Yn ei le, yn llanw 'mryd;  
 Dyna wlad fy muddugoliaeth,  
 Dyna 'r man y dof fi 'n rhydd,  
 O'r aneirif rwydau blinion  
 Sy 'n fy maeddu nos a dydd.

3 Bodlon wyf bryd bynag myno  
 F' ARGLWYDD, i ffarwelio a'r  
 llawr,  
 Ond im' gael ei bresenoldeb  
 Yn nynderau 'r afon fawr ;

Goleu Haul Cyfiawnder yno  
 Yn goleuo o fy mlaen,  
 Laesa 'r gwyntoedd, ddofa'r tonau,  
 Ac a ddiffydd rym y tân.\*

\* Mae yn ddigon tebyg mai y ddwy Hymn ddiweddaf oedd y rhai olaf a gyfansoddwyd gan Beraidd-Ganiedydd Cymru. Argraffwyd hwy ganddo ar ddalen olaf Traethawd a gyfieithwyd ac a gyhoeddwyd ganddo yn 1786, a elwir "Immanuel: neu ddirgelwch dyfodiad Mab Duw yn y cnawd." Bu Williams farw yn Ionawr, 1791; felly, mae yn debyg ei fod yn cyfansoddi y ddwy Emyn uchod oddeutu pedair blynedd cyn gadael y ddaear am "wlad ei fuddugoliaeth." Nid ydym yn gwybod am un Emyn a ddaeth oddi wrtho ar ol hyn. Fel yma yr ydym yn ei golli yn yr Iorddonen, — ond yn myned trwyddi mewn goleuni ac mewn tawelwch.

## *Hosannah to the Son of David:*

OR,

HYMNS OF PRAISE TO GOD,

FOR OUR GLORIOUS REDEMPTION BY CHRIST.

---

Some few translated from the Welsh Hymn Book, but mostly  
 composed on new subjects.



NOTES BY THE EDITOR.

---

THE first of the following Collections of his English Hymns was published by the Author in the year 1759. It will be seen that several of these are translations of some of the Author's well-known Welsh Hymns, while most of them were new and original.

The second, *Gloria in Excelsis*, was composed at the request of Lady Huntingdon, to be used in the service of some Hospital for Orphans which Whitfield had established in America. It was published in 1772, and printed at Carmarthen by John Ross.

The reader cannot avoid observing in the following pages the carelessness that is so characteristic of the Author's Welsh writings; but this blemish is more than compensated for by the elevated tone, the easy rhythm, the freshness of thought and imagery, and—what is better still—by the true and deep spiritual feeling which permeates most of the Hymns. There are no Hymns in the English language more widely known and oftener sung by Christian congregations than some of these sweet songs of Williams, Pant-y-celyn; and we are persuaded that a far greater number of his Hymns would have obtained a more general currency in Church Hymn Books, and would have gained similar popularity, but for the lamentable fact that the taste of the Compilers is too often regulated by their Sectarianism.

The Editor has strictly prohibited himself and the Printer to tamper with the original text; the reader, therefore, will find here the Hymns of the great Christian Poet of Wales, with all their faults and their merits, just as he left them.

## Hosannah to the Son of David.

### HYMN I.

#### *A Passion Hymn.*

- B**E still, my soul, love and behold  
The Victim on the tree;  
The God, the Saviour, groans and  
dies  
For miserable me.
- 2 His spotless soul was melted by  
The heat of pain and scorn,  
And wrath eternal; but Himself,  
No other, could have borne.
- 3 His sweat, in bloody crimson hue,  
Drops thick unto the ground;  
The blood and water issued forth  
In streams from every wound.
- 4 Earth, hell profound, and horrid  
death,  
In all their raging sway,  
Assault His harmless soul alone;  
But He hath won the day.
- 5 Hath heaven seen, in all her realms,  
Some one that could sustain  
Such weight immense of wrath  
divine,  
And execrable pain?
- 6 Sure, this the sweat, and this the  
blood,  
And there the wounds, that are  
A balsam to the bruised hearts  
That languish in despair.
- 7 Ye that pass by, look to the tree,  
The harmless crucified;  
Behold the Victim! Stand amaz'd!  
And love the God that died.

- 8 Hark to His sighs and doleful  
groans,  
And feel His pain, and smart,  
When every tender muscle reach'd  
The centre of His heart.
- 9 Have men or angels ever known  
Such power and such love?  
Or does a more celestial flame  
Reign in the realms above!

### HYMN II.

#### *Welcome to JESUS.*

- M**Y Saviour is my only life,  
My treasure is His cross;  
And everything besides Himself  
Is emptiness and loss.
- 2 Here treasure lies, whoever hath,  
He thirsts, he wants no more;  
And yet professes still to be  
Both indigent and poor.
- 3 He stays himself npon the rock  
Of his Redeemer's breast,  
Where envious Satan, death, or  
hell  
Can ne'er disturb his rest.
- 4 Come, sinners, then, in num'rous  
throngs,  
The blind, the halt, the poor,  
To JESUS, wretched as ye are,  
And ye shall fear no more.
- 5 Nor qualify, nor first compose  
Yourselves into a frame;  
Which would you do a thousand  
times,  
You would be just the same.

- 6 Come then a sinner as thou art,  
A miserable one,  
And thou shalt find th' atoning  
blood  
Thy comfort here alone.

### HYMN III.

#### *Love Unspeakable.*

- T**HE enormous load of human  
guilt  
Was on my Saviour laid;  
With woes, as with a garment, He  
For sinners was array'd.
- 2 And in the horrid pangs of death  
He wept, He pray'd for me,  
Lov'd and embrac'd my guilty soul  
When nailed to the tree.
- 3 O love amazing! love beyond  
The reach of human tongue;  
Love which shall be the subject of  
An everlasting song.
- 4 Eternity, though infinite,  
Is short enough to trace  
The virtues of His healing wounds,  
The wonders of His Grace.
- 5 Ye men, rejoice in JESU's blood,  
Ye angels, join your lays;  
In one harmonious endless choir  
Sing His eternal praise.

### HYMN IV.

#### *Faith in JESUS.*

- L**ORD, I have put my trust in  
Thee,  
On Thee my soul depends;  
I know Thou shalt, when foes sur-  
round,  
Be my secure defence.
- 2 He is not man, that 's wont to fail,  
Nor as the son of man;

What e'er He promis'd He 'll fulfil,  
What e'er He said He can.

- 3 Not on myself do I depend,  
Else I shall surely fall,  
But on the Rock of Israel, He  
Whose might is over all.
- 4 In thund'ring storms of gloomy  
woes,  
And terrors all around,  
My soul rejoicing on Thy breast  
For ever shall be found.
- 5 The titles of Thy glorious name  
In sprightly types display,  
And show Thy promises to be  
A real Yea and Nay.
- 6 My refuge Thou, since I was call'd,  
My Rock, my sure defence;  
And in my Saviour I shall trust  
Until He calls me hence.

### HYMN V.

Matt. xi. 28, 29.

- C**OME, heavy laden, come and  
rest  
Your souls from fear and pain;  
JESUS the GOD was crucified,  
And died and rose again.
- 2 His holy yoke is easy and smooth,  
His burdens all are light;  
In His commandments (though  
severe)  
There 's infinite delight.
- 3 Sweet are His words, sweet is His  
voice,  
His smiles are heaven below;  
Of all the pleasures in the world,  
'Tis JESUS I would know.
- 4 O! would He raise my feeble soul  
To a celestial flame,  
I would for JESUS either do,  
Or suffer all the same.

- 5 Delicious are the cordials mixt  
Both in His love and frown ;  
Sweet comforts do attend His cross,  
And joys attend His crown.

---

HYMN VI.

*The Atonement.*

- M**Y soul, thou art immerg'd in sin,  
So deep that none can trace ;  
Look to the Ransom GOD decreed  
To clear the guilty race.
- 2 The atonement once made on the  
tree,  
Can balance many more  
Than all the sins of Adam's race,  
If number'd o'er and o'er.
- 3 He paid the mighty sum, and died  
For sinners yet unborn ;  
From men, the works of His own  
hands,  
He suffer'd shame and scorn.
- 4 Had I the guilt of all the world,  
He 's able to forgive :  
Why should I fear? The debt is  
paid,  
If only I believe.

---

HYMN VII.

*The Crucifixion,*

- M**Y soul, thy dear Redeemer see,  
Mock'd, scourg'd, and nailed to  
the tree ;  
To cruel death then bowing down  
To purchase those that were His  
own.
- 2 What horrid judge could give com-  
mands  
To pierce His feet, to pierce His  
hands ?

What heart so hard that could not  
flow  
In tears, by pushing iron through ?

- 3 What adamant breast could bear  
To pierce His side with iron spear ?  
Could Adam's race their GOD  
disown,  
And dress His head with thorny  
crown ?
- 4 Or could no other sufferings do  
That Thou couldst easier undergo ?  
And could no other death but this  
Set ope the gate t' immortal bliss ?
- 5 Could nothing else appease my GOD  
But wearing thorns and spilling  
blood ?  
And must Thou die, and die in pain,  
Or all my sin and guilt remain ?
- 6 Was Thy decree decisive so  
That none assist in all Thy woe ?  
He trod the wine-press, He alone,  
And all the praise shall be His own.
- 7 He finish'd thus His bitter pains,  
And now above the stars He reigns ;  
Triumphant o'er His raging foes,  
Receives the fruit of all His woes.

---

HYMN VIII.

*The Omnipotence and Mercy of GOD,  
the Strength of Faith.*

- T**HOU great Omnipotent, Who  
can  
Measure the heavens with Thy span,  
Who dwellest in the height of gloire,  
Above where human thought can  
soar.
- 2 And in whose face no thrones can  
look,  
Whose voice the earth and heaven  
shook ;  
Whose mighty arms in works  
abound,  
Whose awe fills the creation round.

- 3 And yet Thy mercy, love, and grace  
Abound to the rebellious race,  
That sinners may draw nigh and  
prove  
The droppings of Thy holy love.
- 4 May I rely much more on Thee  
Than all that I can know or see ;  
Men are but dross but, Lord, Thou  
art  
The consolation of my heart.
- 5 My refuge Thou where'er I go,  
My secret comfort here below ;  
My life, my food, my whole delight,  
The source of everlasting light.
- 6 Thou art alive, I'll never die,  
'Tis in Thyself my bliss does lie ;  
When Thy existence pure I view  
It fills my heart with strength anew.
- 7 I'm pleas'd and do rejoice in thrall,  
When seen Thou art Thyself in all ;  
Control the world, my GOD, and  
reign,  
And take the glory all again.

---

HYMN IX.

Isaiah ii. 11.

- J**ESUS alone we will exalt,  
JESUS we will adore,  
And JESUS only be our King  
Both now and evermore.
- 2 His righteousness our glory and  
boast,  
His power is our might,  
His dying love the endless source  
Of everlasting light.
- 3 Both great and glorious is His name,  
Great is His love divine ;  
And all the glories of a GOD  
Do in His person shine.
- 4 Soon as the word goes from His  
mouth,  
The proud and lofty fall,  
And gifts and haughty reason stoop  
To JESUS all in all.
- 5 O when shall dawn that happy day  
When my corruption must  
Submit to His almighty power,  
And moulder in the dust ?
- 6 That all the hills of pride and sin,  
Each lofty mountain may  
Melt by His love, and by degrees  
Consume and pine away.

---

HYMN X.

*Communion with GOD.*

- M**OUNT up, my soul, and  
humbly seek  
The bliss of saints above,  
Communion with the GOD of Peace,  
Immortal joy and love.
- 2 The world, its pleasure and its  
wealth,  
Without Him are but dross ;  
All these to gain, and Him to want,  
Is but the greatest loss.
- 3 Heaven and peace and endless joy  
Do in His favour dwell ;  
But in His frowns are thousand  
woes,  
A miserable hell.
- 4 A word drop'd from His gracious  
mouth  
Revives our hearts with joy ;  
He hides His face, and instantly  
Our enemies annoy.
- 5 O ! could I sit beneath the Tree  
That hungry souls doth fill,  
Whose leaves do heal, whose sacred  
fruits  
Immortal life distil.
- 6 I'd suffer all contentedly  
And joyful by His side !  
How could I faint, or fruitless be  
Whilst in Him I abide ?

## HYMN XI.

CHRIST *the King of Glory.*

WHO is the King of Glory?  
Who?

He is our Saviour GOD,  
Who hath put on our nature frail,  
And bought us with His blood.

2 'Tis He who left the glorious throne,  
And chose the pangs of death,  
Conquered hell and sin at once,  
When He resign'd His breath.

3 'Tis He who foil'd the bloody foes,  
That glut on human race,  
And brought the mournful captives  
out  
By His redeeming grace.

4 He is the King of glory, who  
Fills all the heaven above  
With admiration of His grace,  
Amazement of His love;

5 Where cherubim, dominions bright,  
And angels always trace,  
But are bewilder'd by the theme  
Of His redeeming grace.

## HYMN XII.

*Contentment.*

WHY should ambition, proud  
and vain  
Our deathless souls invade?  
And discontentment e'er prevail  
To starve our tender blade?

2 If wealth's our aim, the more we  
seek  
The greater is our pain;  
Ambition blind disturbs our rest,  
Embitters all our gain.

3 Thus wearied of the carnal mind,  
I earnestly do groan,

And nothing wish beside Thyself,  
Thou art enough alone.

4 Had I the world and all its wealth,  
Its pleasures and its gain,  
Without Thyself, the greatest bliss,  
All other were but vain.

5 My heavy laden soul would wish  
Its rest in Thee to find;  
'Tis only Thou that can compose  
My ever roving mind.

## HYMN XIII.

*Death.*

THE gate of horrid death stands  
ope  
In an enormous wide;  
Though millions daily enter  
through,  
Death ne'er is satisfied.

2 And soon with pleasure or regret,  
There enter through I must,  
And hear that awful word pro-  
nounc'd,  
Which ever is but just.

3 O! how could mortal man appear  
Before that awful throne,  
Had not salvation been reveal'd  
In JESU'S blood alone!

4 My guilty head He can defend;  
When terrors do surround,  
And all the world to chaos turn'd,  
In Him I would be found.

5 Then, should I tremble at the hour,  
Start at the final stroke?  
Or fear that once victorious dart  
Which my Redeemer broke?

6 O, King of Terrors, where's thy  
sting?  
Thy power all is lost;  
And where, O Grave, thy victory?  
Triumphant canst thou boast?

## HYMN XIV.

*The Cross.*

LOOK yonder to the cursed tree,  
See an amazing sight,  
A horrid scene, but its effects  
Of infinite delight.

2 The great Creator under wrath,  
The greatest pain and woes,  
Encount'ring death, and hell, and  
sin,  
For His rebellious foes.

3 And here the spring and sacred  
fount,  
Whence endless pleasures flow;  
And only here I shall resort,  
In grappling with my foe.

4 Let me in thoughts of dying love,  
Spend all my time away,  
Till I am summon'd to arrive  
In everlasting day.

## HYMN XV.

*The Second Part.*

YE sons of men, lift up your  
heads,  
The greatest wonder see:  
JESUS, the Saviour and the GOD,  
Nail'd to the cursed tree.

2 He brought in life immortal, pure,  
By His redeeming grace,  
Pardon, and holiness, and bliss,  
For the believing race.

3 Grim death here lost its poisonous  
dart,  
By spilling precious blood;  
Hell swallow'd up in victory—  
Now man enjoys his GOD.

4 O mystery! That life should spring  
From death,—that mortal foe;

And cruel death, to JESUS, should  
Deliver us from woe.

5 My GOD, my GOD! how couldst  
Thou die  
For poor and worthless me?  
I am astonished, and must say  
That all Thy grace is free.

6 Shall worms presume to understand  
The secrets of His love?  
Reason is mute, and all the choir  
Of cherubim above.

## HYMN XVI.

*GOD Alone.*

IT is enough, I am content,  
Since Thou, O LORD, art mine;  
More than the glories of the world  
Do in Thy presence shine.

2 Let those who will possess its  
wealth,  
Let them its glories share;  
Saviour, to see Thy holy face  
Shall be my only care.

3 Thy love is all I wish, I want,  
Thy love is all I crave;  
Thy love my only food and health,  
Yea, all that I would have.

4 'Tis heaven itself where'er Thou art,  
Where not, a gloomy hell;  
And therefore in all turns of fate  
With JESUS I would dwell.

5 A faint belief that Thou art mine  
Reduces all my pain;  
When I am weak, it makes me  
strong;  
When bound, sets free again.



## HYMN XVII.

*Longing for Communion with God.*

- M**Y God, my God ! Who art my all,  
Where art Thou to be found ?  
Thy presence is my sole abode,  
My comforts there abound.
- 2 My wishes terminate above ;  
Thou art my whole delight ;  
Why dost Thou hide Thy holy face,  
And roll Thyself in night ?
- 3 Let earth and heaven flee away,  
And all the planets fall,  
My bliss and happiness depend  
Upon Thee, all in all.
- 4 Nor friends nor comforts shall I wish,  
Nor pleasures want to know ;  
Thou art a source of perfect bliss,  
Thou art a heaven below.
- 5 I cast my longing eyes around,  
Before, above, behind,  
And trace the spheres and creatures through,  
But Thee I cannot find.
- 6 I listen for Thy silent voice,  
Which burns my heart to flame ;  
Wouldst Thou but send, I would rejoice,  
A letter of Thy name.

## HYMN XVIII.

*The Second Part.*

- W**OULDST Thou divide the wat'ry clouds,  
And heaven rend above,  
Display Thy beauties to my eyes,  
Thy glory and Thy love ?
- 2 And in a world of vanity,  
And scenes of mean delight,  
Wouldst Thou afford one moment's taste  
Of what they feel in light ?

- 3 Can thrones, who live upon His smiles,  
And hear His constant voice,  
Direct a mournful wanderer  
To his beloved choice ?
- 4 'Tis Thou I seek, Thou canst fulfil  
My infinite desire ;  
Inflame my gloomy heart anew  
With Thy celestial fire.
- 5 Was all delusion I enjoyed,  
And not a real flame ?  
No ! my Redeemer, Thou dost know ;  
O ! why not still the same ?
- 6 More welcome would be Thy return,  
Of greater far delight,  
Than to the pilgrm beauteous morn,  
Who wander'd all the night.
- 7 Wouldst Thou appear, I would adore  
Temptations of all kind,  
Not to offend, and not to stir  
Thy presence in my mind.

## HYMN XIX.

*The Third Part.*

- W**HAT is the world, and what is life,  
And what are honours vain,  
When Thou art absent from my soul,  
But only grief and pain ?
- 2 I ask not those seraphic flames  
That ravish thrones above,  
Nor what the perfect spirits taste  
Of that immortal love ;
- 3 But bliss that Thou art wont to give,  
And promis'd in Thy word ;

## HYMN XXI.

Isaiah ii. 16, 17, 18, 19, &amp;c.

- Communion with Thyself alone  
Is all I want, my LORD.
- 4 O ! let me see those beams of light,  
Feel that celestial spark  
That veils the beauties of the world  
In an eternal dark.
- 5 One drop of that o'erflowing stream  
That angels taste above,  
One smile from my Redeemer's face  
Would kindle all to love ;
- 6 And make the passage of my life,  
Though rough, both smooth and bright ;  
Direct my slow, unconstant steps  
Unto the realms of light.
- 7 But whilst Thou hid'st Thy gracious face,  
I groan, I pine, I die ;  
Thy absence is a hell below,  
Thy presence liberty.

## HYMN XX.

*JESUS, the greatest Treasure.*

**J**ESUS, my Saviour, reigns above,  
'Tis He I want, 'tis He I love ;  
Himself to death who willing gave,  
And He alone my soul can save.

- 2 If worlds were offer'd to my choice,  
Or JESUS, which I would embrace,  
Him I would choose, Him I would call  
My happiness, and hate them all.
- 3 All 's vanity below the moon,  
But that which dwells in Him alone ;  
All that believe will never miss  
To find in Him both life and bliss.
- 4 O ! let me spend my sliding days  
To sing Thy everlasting praise ;  
And scan these fleeting minutes o'er,  
To love my JESUS more and more.

**T**HE loftiness of man shall be  
Bow'd by my Saviour down ;  
And none below the sun but He  
Is worthy of the crown.

- 2 O sinful man ! unhappy wretch !  
Wouldst thou be exalted so ?  
And by thy exaltation fall  
To everlasting woe ?
- 3 Stoop down, my soul, stoop to the dust,  
Study thyself, and boast  
That thou art worthy for thy sins  
For ever to be lost.
- 4 Exalt, my soul, the dying God,  
Who lov'd the sinful race,  
And on the cursed tree procur'd  
Free pardon and free grace.
- 5 Here humble at His gracious feet,  
I'll sit, I'll spend away,  
In contemplation of His love,  
An everlasting day.

## HYMN XXII.

*The Wonders of Redeeming Love.*

**L**ORD, how to sing the glorious theme  
Of Thy redeeming love,  
Can man attempt what angels scarce  
Can rightly do above ?

- 2 Archangels bow before Thy throne,  
And silently amaze,  
And peep into the great design,  
Adore, and love, and gaze.
- 3 LORD JESUS, yet 'tis not for them,  
But for a sinful me ;  
That Thou hast suffered and died  
Upon the cursed tree.

4 O worthless me! am I enroll'd  
In the profound decree  
Of free salvation, stedfast bound  
To glorious liberty?

5 Whose plan was set before the skies,  
Or mountain, vale, or field,  
But in the fulness of the time  
To sinners was reveal'd.

6 But why to me, the filthiest worm,  
The vilest of the race,  
Should from the throne exhaustless  
flow  
This free redeeming grace?

7 The highest thoughts and words are  
low,  
They creep, they cannot raise  
Thy mercy infinite and love  
Unspeakable to praise.

### HYMN XXIII.

*The Second Part.*

ALL hail! divine mysterious plan,  
Though in it I am lost;  
The path unsearchable I trace,  
And of its glory boast.

2 Within this sphere of mysteries  
Their thoughts, pure spirits, move,  
And fix their contemplation here,  
And sing redeeming love.

3 And whilst they sing the mysteries,  
The wonders of His blood,  
They ascribe the honour and the  
praise  
To JESUS and the GOD.

4 "Thou on the throne art worthy of  
All honour to Thy name;  
And worthy Thou, O Lamb wast  
slain,  
For ever of the same."

5 Our praise can add none to Thy  
height,  
Or draw Thee nothing down:

Above what men or thrones can add  
Exalted is Thy crown.

6 Yet in Thy mercy, in Thy grace,  
From 'midst the ethereal throng,  
Thy ear is open, open to  
Our prayers and our song;

7 Our feeble notes to mingle with  
Their pure ethereal chord;  
And all accepted in the blood  
Of our redeeming LORD.

### HYMN XXIV.

*Free Grace.*

THOU, who bestowest pardon  
free  
On guilty sinners such as me,  
My humble claim to heaven above  
Is, JESUS, in Thy dying love.

2 If all my goods I would bestow  
To feed the helpless, poor, and low,  
And give my body to the flame,  
Would that exalt Thy holy name?

3 Or should I preach Thy gospel-  
word,  
Convert some millions to my LORD,  
And o'er my sins a conq'rer be,  
What gain, what profit, this to  
Thee?

4 What I receiv'd is all Thy own,  
Thy grace, Thy glory, and Thy  
crown;  
What now I am, what I have been,  
Is all but filthiness and sin.

5 My Saviour freely doth bestow  
His gift upon the poor and low;  
And all is free, and all is love,  
Both from beneath and from above.

### HYMN XXV.

*CHRIST all in all.*

NO object here of any kind  
Is able to inflame my mind;  
My whole affections and my love  
Have fix'd on objects far above.

2 Had I the world to rule alone,  
And all its wealth and joys in one,  
To trace its empty pleasures o'er  
A thousand rolling years and more,

3 All would be but a fleeting rest,  
While conscience burneth in my  
breast;  
But mercy and grace forgiving sin  
Create a lasting feast within.

4 'Tis JESUS, my redeeming God,  
That pour'd for me His precious  
blood;  
'Tis He I'll love, and Him I'll sing,  
My GOD, my Captain, and my King.

5 He will deliver me from woes,  
All outward snares and inward foes;  
He will direct my steps to trace  
Unwearied through this wildy maze.

### HYMN XXVI.

*The Second Part.*

HE is my Leader and my Guide,  
That ever faithful will abide;  
Better in miseries and pain  
Than worlds of men, and worlds of  
gain.

2 Him would I love with all my might,  
My only pleasure and delight;  
Even He below, and He above,  
Shall be the treasure of my love.

3 Happy I am and ever blest,  
The while it harbours in my breast;  
Nor can the cherubim above  
Perceive the treasures of His love.

4 The tongues of martyrs, did they  
trace  
The boundless ocean of His grace,  
Cannot in endless verse or prose  
His conq'ring grace and love dis-  
close.

5 O may I taste! O may I prove  
And relish nothing but His love!  
All that His glorious person know,  
Affirm he is the All below

### HYMN XXVII.

*A Prayer for Grace.*

COME, Holy Spirit, now descend,  
And shower from above,  
Upon my dry and wither'd soul,  
Thy everlasting love.

2 Reveal Thy glories and Thy grace,  
The beauties of Thy name;  
Remove my sin, that heavy load  
Of painful guilt and shame.

3 Allure my soul above the world,  
Where vanities abound;  
And lull'd secure upon Thy breast  
May I be ever found;

4 Taught to be wise above the wiles  
Of the malicious foe,  
And trample on his secret snares  
Wherever I may go.

5 Thou, GOD, alone canst make me  
strong,  
Thy word can faith convey;  
When with Thy strength I am en-  
dued  
I'll never more dismay.

### HYMN XXVIII.

*The best Treasure.*

GLOOMY darkness now ap-  
proaches,  
As a horrid deluge, o'er

- The creation which shall perish  
In oblivion evermore ;  
The elements shall to their former  
Rude and massy chaos turn,  
And the starry hosts of heaven  
In the conflagration burn.
- 2 Other worlds I must inhabit,  
There where Time imperial reigns,  
And in streams of endless pleasures  
Overflow the eternal plains ;  
Ocean without bounds or limits,  
A beginning or an end,  
Millions of revolving ages  
Can't its vastness comprehend.
- 3 In those mansions ends my journey,  
Where my God sits on the throne,  
And my dearest Mediator  
For His brethren does atone.  
O what pleasures, O what comforts,  
Shall detain my lingering flight  
From a world of woe and trouble  
To the realms of purest light ?
- 4 All the creatures in connection  
Loudly summon, "Come away,  
Thou thy precious time hast loiter'd,  
Careless on the narrow way ;"  
Every tongue now bids me hasten  
On the wing whilst I have breath,  
Lest the shades of night eternal  
Draw the curtain o'er in death.
- 5 Have the glorious luminaries,  
From their rising to their set,  
In the vast extensive heavens  
With such object ever met ?  
Are these treasures in the moun-  
tains,  
Or the bottom of the sea,  
In the thousandth part as precious  
As my dear Redeemer be ?
- 2 O! how could He, the great I AM,  
Thus suffer pangs and throes ?  
And willing to the grave descend  
For His rebellious foes ?
- 3 How could the voice that call'd the  
earth  
From nothing thus to be,  
Sweat, groan, and cry (nail'd to the  
cross),  
*Lama Sabachthani ?*
- 4 That He, who held the heaven and  
earth  
In order and due grace,  
Should thus be scourged, bound,  
and mock'd,  
And blood besmear His face !
- 5 Angels amaze ! love and amaze,  
Submissively adore,  
And when they see all done for men  
They wonder still the more.
- 6 And as they contemplate His pains,  
Study His bitter wounds,  
Their knowledge grows, their love  
inflames,  
Their fervour more abounds.
- 7 The Cross their wonder and their  
gain,  
'Tis by the Cross they stand ;  
The doctrine of the Cross their song,  
Their duty and command.
- 8 Have other shepherds e'er been  
known,  
That harbour'd love so deep,  
As to resign their only breath  
For their lost wandering sheep ?
- 9 Ye men of reason, wit, or fame,  
That always nature trace,  
Tell, how could the Creator die ?  
Tell me the depth of grace !

## HYMN XXIX.

*The Wonders of Redemption.*

BEHOLD Omnipotence itself  
In bloody sweat and gore,  
A wonder this below the sun  
That shall be seen no more.

## HYMN XXX.

*JESUS Dying and Conquering.*

AMAZE, my soul, and yonder see  
My JESUS nailed to the tree,

- Beneath such weight of pain and  
scorn  
As all the Martyrs ne'er have borne.
- 2 His holy soul has felt within  
The weight of others' guilt and sin,  
And patiently endur'd such woes  
As earth and hell could ne'er  
impose.
- 3 O cruel death ! What cans't thou  
more ?  
No farther reaches out thy power :  
The Shepherd thou hast smote, but  
now  
The weakest lamb escapes thy blow.
- 4 But He hath risen by His might,  
And mounted to the realms of light,  
Where He shall lead His glorious  
train  
Above the reach of death again.
- 5 Why fear we Death or Satan more,  
Since JESUS all their fury bore ?  
Our way is pav'd to mount above  
To sing His conquest and His love.
- 4 My heart, why canst not break to  
see  
Such gloomy train of woes for thee ?  
The least of His tormenting pain  
Is more than worlds, and worlds  
again.
- 5 But all His sufferings and love  
Are written in the heaven above ;  
His friends shall reap their fruit  
direct,  
His foes shall feel their dire effect.

## HYMN XXXII.

1 Peter iv. 7. *The End of all Things  
is at Hand.*

THE Moon and all her train sur-  
rounding,  
With the lofty dazzling Sun,  
Now are wearied in the heavens  
Their laborious course to run ;  
Earth and sea in mighty travail  
With their creatures never cease,  
Groaning for the revelation,  
Glorious, of the sons of peace.

## HYMN XXXI.

*The Second Part.*

MORE sad or glorious is't to see  
My Saviour nailed to the  
tree ?

- O! would His bitter pain and  
shame  
With love supreme my heart in-  
flame.
- 2 Those hands that felt the cruel pain  
Through every tendon, every vein,  
Shall open soon in glorious wide  
The gates of glory to His bride.
- 3 Methinks I see the rivers meet  
Both from His hands and from  
His feet ;  
Then gushes out a crimson tide  
Of blood and water from His side.
- 3 Death is fond in expectation,  
Creeping forward unaware ;  
All my frail and feeble members  
Under his dominion are ;  
Every artery and muscle  
His approaching conquest beat,  
Here he aims a blow decisive  
Which he never needs repeat.
- 4 Strike, O Death, but first consider  
Who is He that 's on my side ;  
Alpha, Omega, the Creator,  
Cloth'd in human flesh and died.

- Whilst thou level'st at my structure,  
To His bleeding wounds I'll flee:  
I shall live and be exalted  
When confusion shatters thee.
- 5 Ye, my foes are bold and daring,  
And are many—I but one;  
But the mighty glorious JESUS  
Conquest over all hath won.  
Fear is banish'd, death is nothing,  
And the grave an easy bed  
To believers, since our nature  
To the Godhead hath been wed.
- 6 Sing, my soul, at the approaching  
From the prison to depart,  
Where abundance of distempers  
Death hath sow'd in every part,  
Soul, mount to thy holy mansion.  
Body, slumber in the ground;  
In the morning every atom  
Of thy ashes will be found.
- 
- HYMN XXXIII.
- Cant. iv. 8.
- 6 A glance of bliss, and sigh again,  
One moment's scarce delight;  
New clouds hang o'er, new storms  
approach,  
And threaten endless night.
- 7 I waste my precious time away  
In groans, complaints, and sighs;  
But I would sing, I would rejoice  
Were I above the skies.
- 8 Here Satan, sin, and horrid guilt  
In close connection reign;  
And lead destruction and the grave  
As their enormous train.
- 9 Afflictions black invade our souls  
Within this gloomy vale,  
Subdue our thoughts, and silent  
bring  
Our passions to a thrall.
- 10 Each mortal foe smiles to delude  
Our souls, serpentine-wise;  
Stand on thy guard, thou art each  
hour  
In danger of surprise.

—

HYMN XXXIV.

*Rejoicing in hopes of victory.*

- H**OW long shall I not bid adieu  
To earth's delusive clime;  
And eat and drink realities  
Beyond the sphere of time?
- 2 Here dreams and phantoms proudly  
O'er the deluded soul,  
Assault our passions at their will,  
And faculties control.
- 3 LORD, break my chains, I pant, I  
wait  
Thy glorious liberty!  
The utmost limits of the earth  
Too narrow are for me.
- 4 Though here confin'd I see my rest  
Beyond the bounds of clay;  
Be ready, soul, practise thy wings,  
Soon thou shalt soar away.
- 5 Why such delay in this vast wild  
Where savage beasts do prey,  
'Mongst strangers, tyrants, bloody  
foes?  
Arise and come away.
- L**OOK, my soul, unto the mount-  
ain  
Where the greatest wonders meet,  
He, our great Creator, dying,  
Satan vanquish'd at His feet.  
Methinks I see the gates of glory  
Now melodious open flee:  
Rise, my soul, and cease thy  
trembling,  
Heaven now is bought for thee.
- 2 Hasten to the land of promise,  
Where no enemies annoy;  
Wine and honey in abundance  
Wait thy coming to enjoy;  
Thou hast trac'd the hills of dark-  
ness,  
And the wilderness, among  
Beasts of prey and fiery serpents  
Forty rolling years along.

- 3 War proclaim, put on thy armour,  
Be courageous, ne'er delay,  
Thy guide by night shall be a pillar  
Of fire, and then a cloud by day;  
Horrid darkness shall thee cover  
Harmless from the mortal foe,  
He shall sink in mighty waters,  
Whilst thou walkest fearless  
through.
- 4 Neither Amalek nor Moab,  
Nor the whole infernal train,  
Shall annoy me while secure  
Near Thy dwelling I remain;  
And the radiant cloud of glory  
Shall for ever be my rest,  
Till I reach the land of promise,  
There to mingle with the bless'd.
- 5 Gloomy Egypt I abandon'd,  
And the raging tribe disown,  
Where they crucify'd my Saviour,  
And His glory trampil'd down;  
But His mighty, great appearance  
Glides in silent moments near,  
Where the firmament of glory  
Shall before Him disappear.
- 6 Good and pleasant are the places,  
Fair unfeigned is the spot,  
In the plan of grace abounding,  
That hath fallen to my lot;  
Now my treasures are exhaustless,  
Full my cup and running o'er,  
And my blessings are in number  
As the sands upon the shore.

—

HYMN XXXV.

*A Prayer for Grace.*

- T**HOU, great Redeemer of man-  
kind,  
Whose blood in living streams  
hath flow'd  
For the rebellious and the vile,  
To make their hearts Thy own  
abode,
- 2 O let me feel the full effects  
And virtues of Thy cruel death;
- And let Thy glory be my aim,  
My only aim, whilst I have  
breath.
- 3 Think on the execrable pain,  
The bloody sweat, the agony  
And wrath divine pour'd to the full,  
And then bestow Thy peace on  
me.
- 4 Do, for the sake of all Thy woes,  
Deliver me from guilt and sin;  
'Tis by Thy merits, LORD, I crave  
All good without and good  
within.
- 5 Pardon and peace are all Thy own,  
Wisdom and righteousness, and  
love;  
On whom Thou wilt Thou canst  
bestow  
Grace on the earth, glory above.

—

HYMN XXXVI.

*Heaven.*

- W**HEN once I pass the gulf of  
death,  
The message from above,  
New scenes abundantly shall flow,  
And drown my soul in love.
- 2 Soon as the fickle fabric falls  
My spirit takes the flight,  
And leaves the region dark beneath,  
Mounts to the realms of light.
- 3 Rivers of bliss and constant joy  
Shall there resistless flow;  
And on the glorious Tree of life  
Shall peace and concord grow.
- 4 My hopes, my wishes of all kinds  
Their objects shall enjoy;  
My passions, though of large extent,  
Shall have their full employ.
- 5 Faith, that encounter'd guilt and sin,  
Shall finish there its race;

And love reign, conquer, and  
abound,  
In an eternal chase.

6 No hopes, no expectation more,  
No groan, no sigh, nor wish,  
Unbounded satisfaction will  
Enthroned my soul in bliss.

7 Raptures and ecstasies of love,  
No sorrows to annoy;  
New scenes of beauty and delight  
Feed everlasting joy.

### HYMN XXXVII.

*The World a Desert.*

**T**HE world wherein we dwell  
Hath lost its ancient fame,  
Its former glory turn'd  
To filthiness and shame;  
We gaze around, and cannot see  
But misery and sin abound.

2 Where dreams and shadows do  
Lead simple souls away  
To labyrinths of woe,  
And wilds of black dismay;  
There wander through in hard dis-  
tress,  
Nor happiness more want to know.

3 And there the lion lurks  
In ambush for his prey,  
And gluts upon the blood  
Of such as go astray;  
Does every hour incessant aim  
The soul to claim, tear, and devour.

4 Reserved in the pit,  
And chain'd by darkest night,  
Nor suffered once to peep  
Into the realms of light;  
Though nothing sees, yet does rejoice,  
Nor likes the voice of liberty.

5 All this endears our thoughts  
To the redeeming blood,  
Pour'd from the pierced side  
Of our Creator God;  
That Surety of mine who fully paid,  
And hath allay'd the wrath divine.

6 Under His sacred wings  
I'll take my sweet repose,  
Whilst storms and tempest beat  
On my enormous foes;  
There I may stand when worlds dis-  
may  
And fly away at His command.

### HYMN XXXVIII.

*The Sinner's Petition.*

**T**HOU Arbiter of life and death,  
And all the good below,  
One of Thy mercies, but the least,  
On wretched me bestow.

2 Inferior to the worm I am,  
Below the dust I tread,  
And vile affections have throughout  
My soul immortal spread.

3 But Thou, JEHOVAH, hast ordain'd  
In Thy eternal grace,  
Though vile, yet the relenting soul  
To shelter and embrace.

4 The heavy load of guilt and sin  
Doth crush me to the grave;  
No peace, no comfort, no relief  
Except Thyself will save.

5 O be my Saviour and my God  
Till I return to dust,  
And in Thy strength I shall rejoice,  
And know in whom I trust.

### HYMN XXXIX.

*The turns of Fate call for Redeeming  
Comforts.*

**H**OW shocking is the scene!  
How dreadful 'tis to see  
Such numbers plung'd, of men,  
In endless misery!  
Who only groan for life and health,  
Honour and wealth below the moon.

2 Sometimes the guiltless do,  
And righteous, suffer ill,  
When haughty sinners are  
Deliver'd at their will;  
'Tis often found that pain and thrall  
Do heavy fall where grace abound.

3 In all the turns of fate,  
In every misery  
No refuge, no relief,  
One only remedy,  
The Saviour died, and with His blood  
The wrath of God He satisfied.

4 There's nought that can allay  
All tumults from abroad,  
Nor bear the heavy cross,  
But the redeeming blood,  
And quench the smart of guilt and sin,  
That burns within the trembling heart.

5 Faith in His dying wounds  
The fear of death abates,  
And pure contentedness  
Immediately creates  
And entertains our hearts with peace,  
Such as will ease all inward pains.

6 Lord, to Thy bounteous grace  
May I delight to peep,  
And gaze away my time  
To search that boundless deep,  
And steer above the woes of fate,  
Or mortal hate or mortal love.

### HYMN XL.

*Breathing after God.*

**L**ORD, do descend and visit me,  
I cannot bear the loss;  
All the creation does afford  
But vanity and dross.

2 My spirit follows after Thee,  
Renew'd by special grace,  
And cannot, will not, thus inclin'd,  
Renew its former chase.

3 LORD, why hast Thou created me?  
My mind, to what employ?  
Why passions planted in my soul,  
But Thee I might enjoy?

4 O Holy, Holy, Holy LORD,  
Be my companion still,  
That so each corner of my heart,  
May have its plenteous fill.

5 Then all I leave, I all resign  
That flesh and blood approve,  
All earthly objects of delight,  
And only for Thy love.

### HYMN XLI.

*Against Fear. Psalm xxvii. 3.*

**J**ESUS the Saviour reigns  
Both here and above,  
And every providence  
Endears His dying love;  
To raise His name so all shall turn,  
And sweetly burn our hearts to flame.

2 If hell was in uproar,  
His strength can enter through,  
Encounter and subdue  
All that the world can do,  
And elevate our souls above  
Or mortal love or mortal hate.

3 When sin assaults our souls  
With thousand arrows keen,  
He can resist each dart—  
Then in His wisdom seen;  
He will relieve and keep from harm  
In each alarm such as believe.

4 The lions loudly roar,  
And rage the haughty men;  
Though earth and mountains shake,  
And deluge come again,  
JESUS, my All, shall be my God,  
And in His blood shall never fall.

### HYMN XLII.

*JESUS All in All.*

**J**ESUS, my Saviour, is enough  
When all is gone and spent;  
He fills and over-fills my soul,  
Thus I am pure content.

- 2 My covenant with flesh and blood,  
And every sinful thing,  
Is broken, and is stedfast made  
With JESUS CHRIST, my king.
- 3 Let the ambitious world, and vain,  
Its misery divide,  
Its honours, pleasures, and its  
wealth,  
Its glory, and its pride.
- 4 My only bliss is of Thy love  
Sincerely still to taste;  
I'll envy none, I shall not wish  
To share of their repast.
- 5 The glories of the dying GOD,  
Reveal'd within my breast,  
Still entertain my spirit with  
Unutterable feast.
- 6 Vanish from me, ye objects vain,  
All scenes of lower kind;  
A pleasure equal to my wish  
In GOD alone I find.

---

HYMN XLIII.

*The Mysteries of Divine Love.*

- T**HOU great Redeemer of man-  
kind,  
Who pitied the forsaken race,  
Nor put'st th' angelic nature on,  
But flesh and blood Thou did'st  
embrace.
- 2 O grace immense! beyond the reach  
Of all the purer minds above;  
Eternity can never find  
In all its ages such a love.
- 3 Archangels peep with holy awe  
Into Thy glorious ark, and prove  
The depths of wisdom pure, divine,  
In myst'ries of redeeming love.
- 4 O! let the ancient plan of grace,  
Which far beyond our knowledge  
is,  
Inflame our breast with love and joy,  
Till we arrive in perfect bliss.

- 5 There we shall know, there we shall  
<sup>see</sup>  
The myst'ries deep of love and  
grace;  
And there adore, and there admire  
Our dear Redeemer face to face.

---

HYMN XLIV.

*Faith.* Psalm xlvi. 1, 2, 3, &c.

- I**F the creation were defac'd,  
And worlds to chaos turn'd,  
And all the elements were in  
A conflagration burn'd,
- 2 The GOD of Nature, GOD of Grace,  
Still reigns, is still alive;  
I'd trust in Him, in Him would live,  
Rejoice, and love, and thrive.
- 3 When that superior lamp of day  
Shall yield to endless night,  
And these the stars their faces veil,  
Then I shall dwell in light.
- 4 My GOD shall totally supply  
The want of all below,  
And rivers of eternal bliss  
Shall from His presence flow.
- 5 The Eternal One shall then reveal  
His glories and His might  
Unto my soul, extended wide  
To bear the glorious sight.

---

HYMN XLV.

*Hope against Hope.*

- M**Y soul, and dost thou fear to  
die?  
What trembling else within?  
Art thou so loath to leave behind  
A world of woe and sin?
- 2 Few rolling years since I receiv'd  
This sluggish load of clay;  
Few single minutes more, perhaps,  
And it will wear away.

- 3 Or art thou fainted thus because  
Death is a potent king?  
Our dear Redeemer spoil'd the foe—  
He fights without a sting.
- 4 My fellow-pilgrims there exist  
Where nothing shall annoy;  
My GOD and Saviour their reside,  
The object of my joy.

- 
- 5 Fly there, my soul, where JESUS  
reigns  
Amidst the holy throng  
Of angels, seraphims, and thrones,  
That praise Him with a song.

---

HYMN XLVI.

*A Prayer for Strength.*

- J**ESUS, the GOD who reigns above  
Those glorious luminaries bright,  
Let me, poor sinner, taste that love  
Which overflows the realms of  
light.
- 2 One drop of that celestial cheer  
Pour on me in this world of woe,  
That I the scorching heat may bear,  
And trace the fiery desert through.
- 3 Who can abide in barren land,  
Surrounded with ten thousand  
foes?  
Weak and unable to withstand,  
Much less to conquer one of  
those.
- 4 No, dear Redeemer, let Thy might  
Invincible be poured down;  
And Thou our bloody battles fight,  
Confess and challenge us Thy  
Own.

- 5 Direct our feeble feet to stand  
Firm and unshaken by Thy side;

Let us admire Thy mighty hand,  
And in Thy bleeding wounds  
abide.

- 6 Then we shall sing and humbly tune  
Our harps in a melodious strain,  
Admire Thy glories and repeat  
Thy love, Thy sufferings, and  
pain.

---

HYMN XLVII.

*The fear of Death.*

**L**ORD, how shall I, a filthy  
wretch,  
Launch to a world unknown,  
Unless Thou great immortal king  
Confess me for Thy own?

- 2 I fear the agonies of death,  
I fear its final stroke,  
I fear that awful Majesty  
Whom daily I provoke.
- 3 My heart does tremble at the sound,  
The summons of His throne;  
My guilty soul shall never stand,  
Or answer there alone.
- 4 I want a Saviour, want a GOD,  
An advocate for me,  
T' apply that blood once spilled for  
My glorious liberty.
- 5 Apply Thy blood, O gracious GOD,  
Cleanse me from every stain;  
I'll mount on wings of faith above,  
And never fear again.

---

HYMN XLVIII.

*Communion with GOD.*

**L**ET the remainder of my days  
In holy contemplation be,  
And all my pleasures silent run  
In sweet communion, LORD, with  
Thee,



- 2 Let peace immortal down descend,  
As gentle showers from above,  
And overflow my thirsty soul  
Which now does languish for Thy  
love.
- 3 LORD, many times I did repose  
My soul in dangers on Thy breast,  
Continue and renew Thy love  
Till death shall call me hence to  
rest.
- 4 Love me when enemies surround,  
And crush their furious raging  
lust ;  
Love me when I depart this life,  
And love me mould'ring in the  
dust.
- 5 Let sin with its alluring charms  
Never my wounded spirit move,  
Nor fears of death nor hell prevail,  
To quench my little spark of love.

---

### HYMN XLIX.

*How long wilt Thou hide Thy Face from  
me? Psalm xiii. 1.*

- LORD JESUS, whose unfathom'd  
love  
Fills all th' ethereal realms above,  
Favour me with one simple ray  
To chase this gloomy dark away.
- 2 I waited long Thy glorious light,  
And yet but feel a gloomy night ;  
Thy face as welcomed would be  
As thousand worlds and more to me.
- 3 Nor can the world and all its modes,  
Its various honours and abodes,  
Amuse me in the least degree  
When I deprived am of Thee.
- 4 To none but Thee I make my moan,  
Thy presence is my life alone ;

Upon Thy countenance does dwell  
Or highest heaven or deepest hell.

- 5 When Thou dost smile in darkest  
night  
It kindles darkness into light ;  
When Thou dost hide Thy gracious  
face  
A gloomy night o'ershades our  
grace.

---

### HYMN L.

*Blood Cleansing.*

THOU great JEHOVAH, eternal  
Mind,  
Who knowest all my thoughts  
within,  
O pity me, deluded soul,  
Polluted over all with sin.

- 2 My inward man is quite defil'd,  
Each part, each noble faculty ;  
Nought but Thy blood can make  
me clean,  
And set my soul at liberty.
- 3 Thy blood each minute, nothing  
less,  
Must purge and sprinkle every  
stain,  
Else after Thou hast wash'd me o'er,  
Next moment I'll be foul again.
- 4 Therefore I want to sit and rest  
Myself beneath the cursed tree,  
Where blood flows out in crimson  
streams  
For guilty sinners such as me.
- 5 There, only there, I shall be whole,  
And there securely I shall hide  
My guilty soul, void of all fear,  
For ever in Thy pierced side.

### HYMN LI.

*A Prayer for Communion.*

NOT on the world, its wealth, or  
friends,  
My lasting happiness depends,  
JESUS, on Thee in loss and gain,  
Without Thee heaven were but  
vain.

- 2 O happy they who cannot miss  
To find these ecstasies of bliss ;

Give me to drink those streams that  
flow  
Above the spheres of night and woe.

- 3 Favour me, LORD, here with Thy  
love  
Before I shall arrive above ;  
And often see Thee, Gracious King,  
And drink Thy peace, and drink  
and sing.
- 4 Above the world then I'll attain,  
And feel it tempts me all in vain,  
And still make friendship with Thy  
throne,  
And live to Thee and Thee alone.



*Gloria in Excelsis:*

OR,

HYMNS OF PRAISE TO

GOD AND THE LAMB.

---

REV. VII. 9, 10. "AFTER THIS I BEHELD, AND, LO, A GREAT MULTITUDE, WHICH NO MAN COULD NUMBER, OF ALL NATIONS, AND KINDREDS, AND PEOPLE, AND TONGUES, STOOD BEFORE THE THRONE, AND BEFORE THE LAMB, CLOTHED WITH WHITE ROBES, AND PALMS IN THEIR HANDS; AND CRIED WITH A LOUD VOICE, SAYING, SALVATION TO OUR GOD WHICH SITTETH UPON THE THRONE, AND UNTO THE LAMB."

## Gloria in Excelsis.

### HYMN LII.

EACH letter of Thy holy name,  
Sweet JESUS, sounds of life,  
Thy love and favour can expel  
All tumults, fears, and strife.

- 2 Under Thy gracious wings repos'd  
I'd always wish to be,  
Renounce all pleasures for that one  
Of ever loving Thee.
- 3 The earth and seas, with all their  
rich  
And unexhausted store,  
Are comprehended in Thyself  
Ten thousand times and more.
- 4 Salvation is my happy rest,  
Salvation is my home ;  
And let salvation be engrav'd  
Upon my silent tomb.
- 5 From guilt and sin, from death and  
hell,  
And every misery,  
Most freely ransom'd, now I taste  
The glorious liberty.

### HYMN LIII.

O MIGHTY Saviour! me assist,  
Thy power can destroy  
The strong and subtle foes that  
would  
My feeble soul annoy.

- 2 Within, without, a num'rous throng  
Combine to quench that flame,  
Which Thou hast kindled in my  
soul  
Unto Thy holy name.

- 3 The roaring wave, though none can  
rule,  
Do Thou but speak shall stand,  
And the tumult'ous ocean cleave  
In twain at Thy command.
- 4 The everlasting hills shall rend ;  
Hard rocks shall then obey,  
And spout pure rivers from their  
womb  
In streams without delay.
- 5 Why then, O GOD, dost Thou not  
bid  
My wanton foes to rest ?  
So that my inward peace and joy  
They never may molest.
- 6 O speak the word, and all is done,  
My sins shall flee away,  
Just like the curtain of the night  
Before the rising day.
- 7 Then I shall rest in bliss secure,  
Peace and tranquility,  
Until that jubil when I'm call'd  
To glorious liberty.

### HYMN LIV.

LORD, let me gain that happy  
rest,  
The rest I long to see,  
And taste the immortal love divine  
That wholly springs from Thee.

- 2 Let cares and troubles, fears, and  
strife,  
Far from my thoughts remove,  
And let me wander in the shade  
Of everlasting love.

- 3 Feed me with that delicious feast,  
That inward peace and joy,  
Which all my troubles, pain and  
woes,  
Shall instantly destroy.
- 4 Within the bounds of dying love  
Securely let me stray  
In endless mazes, till the dawn  
Of everlasting day.
- 5 Those scenes my happy thoughts  
shall fill,  
And keep me from the noise,  
The tumults of the lower sphere,  
Or its terrestrial joys.

### HYMN LV.

I TRACE a mournful, dreary  
ground  
Like the Arabian sand,  
Scorched and weary, I long to see  
The happy promis'd land.

- 2 No living streams of peace and  
joy,  
No fruitful tree of life,  
But thorns and briars here do breed  
Immortal hate and strife.
- 3 The Egyptian stream, curs'd in our  
fall,  
Now turned to blood I find,  
That raise our passions to a flame  
And fluctuate the mind.
- 4 And here we travel day by day,  
Yet with unwearied feet,  
Refresh'd and strengthen'd by Thy  
grace  
To encounter all we meet.
- 5 JESUS stand by, Thy mighty arm  
Can break each passage through,  
And level each triumphant arch  
Erected by the foe.
- 6 Stand in the front, Thou glorious  
King ;  
When savage beasts do roam,  
Guide us through every winding  
maze,  
To Thy eternal home.

B 2

- 7 Lighten our path in darkest night  
With that illustrious ray,  
The fiery pillar in the dark,  
The glorious cloud by day.
- 8 Strengthen my faith and languid  
hope,  
And chase my fears away ;  
Give me a glimpse, in dreary wilds,  
Of everlasting day.

### HYMN LVI.

THROUGH forests wild we  
travel on,  
Where savage beasts devour,  
Ten thousand perils on each side  
We encounter every hour.

- 2 Here dungeons deep, or dark re-  
treats  
Of rav'ning wolves, we meet ;  
Their subtle snares, contriv'd by  
hell,  
Endanger still our feet.
- 3 LORD, keep us from the broader  
path,  
To tread the narrow road,  
That leads straight on, o'er raging  
seas,  
Unto our blest abode.
- 4 Yield not, my soul, to earthly toys,  
But travel onward still,  
And climb high rocks impendent up  
Unto Thy holy hill.
- 5 Though thousand perils meet thy  
face,  
Thought once unconquering ills,  
Those fearful waters deep are found,  
On trial, to be rills.
- 6 When flowing torrents, in the night,  
O'er rocks impendent fall,  
We, fearful pilgrims, dread our fate,  
And tremble over all.
- 7 But when the dawning of the day,  
And glimmering light draws near,  
Celestial ardour warms our faith,  
And mitigates our fear.



## HYMN LVII.

THOU great JEHOVAH! eternal  
Might!

Thy glorious sceptre sway ;  
And quash the haughtiness of foes  
That would obstruct my way.

2 Thou, on the cross, hast publicly  
Made them an open shame ;  
And to Thy glorious self procur'd  
An everlasting name.

3 Thou hast encounter'd death and  
hell,  
In all their strength and might ;  
So purchas'd to Thy chosen race  
To eternal bliss a right.

4 Thou hast paid the ransom to the  
full,  
Upon the cursed tree ;  
And I, a pris'ner, daily wait  
My glorious liberty.

5 O let not Satan and the world,  
Nor sinful flesh combine,  
To tread, or conquer, or delude,  
By purchase what is Thine.

6 But let me always live in sight  
Of all Thy pangs and woes,  
In climes celestial far above  
The illusions of my foes.

## HYMN LVIII.

WHY should my wand'ring feet  
find rest

In any thing below ?  
The whole creation in its pomp  
Can only trifles show.

2 Tea thousand scenes of worldly joys  
Were I by turns to trace,  
One smile, one glimse, would far  
excel,  
Of Thy reviving face.

3 I long to see that blessed hour  
When I shall settle there,  
Where dark'ning clouds Thy holy  
face  
Shall never interfere.

4 But when I'm left unto my will,  
As soon I turn aside,  
Adore those idols I have made,  
Of vanity and pride.

5 LORD, be my refuge and my all,  
I'll to Thy glory sing ;  
My Shepherd, Prophet, and my  
Priest,  
Physician, and my King.

## HYMN LIX

ETERNAL Saviour, suffer me,  
A wretch, to call Thee mine ;  
And let each moment of my life  
For evermore be Thine.

2 O let my life and all I have  
Be consecrated still  
Unto Thy pleasures and commands,  
With a resigned will.

3 Let not the vain and trifling world,  
Nor all its charms below,  
Ever divert me from the joys  
That from my Saviour flow.

4 But let each drop of blood divine,  
Each word be, and each pain,  
The contemplation of my thoughts,  
And ever so remain,

5 Let loves and joys of lower birth,  
All lost and swallow'd be,  
In that full stream of happier love  
That died upon the tree.

6 Our fears, like mist before the wind,  
Shall vanish far away,  
As soon as opens to our view  
The least redeeming ray.

## HYMN LX.

TIR'D with the world and all its  
vain,

Illusive, empty boast,  
I long with martyrs there to land  
On Sion 's happier coast.

2 Here lions roar, here tigers sway,  
And cruel foes destroy ;  
But in those purer realms above  
Nothing shall e'er annoy.

3 O happy they that now have  
reach'd  
Their long'd-for joyful home,  
Whose unmolested dust remains  
Within a hollow tomb !

4 Satan, with all his subtle wiles,  
Shall never more molest,  
Nor all the impetuous force of sin  
Disturb their silent rest.

5 Beyond those seas of guilt and woes,  
With golden harps they stand,  
Praising for evermore Thy name  
Within that holy land.

6 JESUS is all the anthem there,  
Amidst the glorious throng ;  
His grace, His love, and agony,  
In a repeated song.

## HYMN LXI.

TO THEE, my God, to Thee  
alone,  
To Thee I sigh, to Thee I groan ;  
Not for the world, with all its gay  
Delusions, which evade away.

2 Had I its pleasures, empty boast,  
Its riches on the eastern coast,  
Its honours to the last degree,  
I would resign the whole for Thee.

3 From Thy dear face one glorious  
ray  
Will chase my troubles more away,  
Than all the innumerable springs  
Of nature, or of earthly things.

4 Thy blissful smiles my soul renew,  
And all my passions strong subdue,  
Chase all the darkness of the night,  
And put my doubts to total flight.

5 These blessings on my soul bestow,  
And I'll resign the things below :  
Myself, and all, shall ever be  
Devoted, sacred, LORD, to Thee.

## HYMN LXII.

WHAT pleasures shall the world  
bestow,  
Of all its various kinds below,  
Unto whose arms I may resign  
This longing, gaping soul of mine ?

2 Its empty joys, its golden stores,  
Its riches on the Indian shores,  
Its glories in the highest kind,  
Are only trifles to my mind.

3 In vain they tempt, in vain they try  
My drooping soul to satisfy,  
They allure in vain to their em-  
brace  
While JESUS hides His lovely face.

4 O visit me, eternal Dove !  
And from my soul all doubts re-  
move ;  
Rise, morning Star, illustrious,  
bright,  
And dissipate the shades of night.

5 I long to see that happy day,  
When all my fears are gone away ;  
When peace, and joy, and love  
shall reign  
In one combin'd triumphant train .

## HYMN LXIII.

OLORD of glory, LORD of grace!  
I long to see Thy lovely face,  
When every vail that stands be-  
tween  
Are rent, and never more are seen.

2 The shades of night, in lower skies,  
Do vanish when the sun doth rise ;  
So shall my terrors flee away  
Before the least immortal ray.

3 How shall I live and wander  
through  
A world of misery and woe,—  
Where sin and Satan do combine,  
Tempt me to err in things divine,

4 Except, O Saviour, Thou dost stand  
Faithful and firm at my right hand,  
Resist and conquer every foe,  
And guide my steps where'er I go ?

5 Reveal Thy secrets in my heart,  
And from my spirit never part,  
Shine on my soul, Thou God of  
love !  
Which shall my darkness all re-  
move.

#### HYMN LXIV.

**L**ORD, let the world's unworthy  
love  
Far from my weary thoughts re-  
move,  
And let my passions all incline  
To objects that are pure, divine.

2 Let fears and cares of every kind  
Dissolve and vanish from my mind ;  
And let Thyself, Thou brightest  
One,  
Be the object of my love alone.

Let each desire, each passion find  
Some comforts of celestial kind,  
And let my flying moments be  
All consecrated, LORD, to Thee.

4 I'll envy ne'er the wordly crowd,  
The rich, the valiant, and the  
proud,  
I'll never at their state repine,  
But only boast that Thou art mine.

5 Within Thy arms I'd ever rest,  
And lean my head upon Thy breast,  
Then whisper silent in my ear  
Such comforts as my heart will  
cheer.

#### HYMN LXV.

**D**EAR Saviour, all my doubts  
remove,  
And clear Thy own eternal love,  
Assure me, for with grief I pine,  
Lest after all Thou art not mine.

2 Why should I doubt and disbelieve,  
And Thy most Holy Spirit grieve ;  
Thy blood hath seal'd upon the tree  
A pardon for such poor as me.

3 My fears dissolve, fly doubts away,  
Dawn on my soul immortal day ;  
Reveal Thyself, and let me see  
The depths of love repos'd in Thee.

4 O love immense ! can angels trace  
The eternal mazes of Thy grace ?  
Through death and hell, which  
broke its way,  
And snatch'd my soul from thence  
away.

5 I do believe—I'll not resign  
Any portion in the blood divine ;  
Nor will I e'er exchange His love  
For all in earth or heaven above.

#### HYMN LXVI.

**J**ESUS, Thou art the source of all,  
Or great, or good, or dear we  
call ;  
To Thee my fainting soul aspires,  
Thou art the whole of my desires.

2 The heavenly host rejoice above,  
And sing the depths of dying love,  
They stoop, admire, and love to see  
The wonders Thou hast done for me.

3 But all confess, though e'er they  
peep,  
'Tis love unfathomable deep ;  
An ocean wide of living grace,  
To wash the guilty chosen race.

4 Awake, my soul, and mourn to see,  
Thy Saviour groaning on a tree ;  
For guilty me he suffered pain,  
For me, not angels, He was slain.

5 Let me, a sinner, evermore,  
His sov'reign grace and love adore,  
And sing with angels round the  
throne  
The glories of His name alone.

#### HYMN LXVII.

**B**ENEATH Thy cross I lay me  
down,  
Love drops in blood from every vein,  
Love is the spring of all His pain.

2 Here, JESUS, I shall ever stay,  
And spend my longing hours away,  
Think on Thy bleeding wounds and  
pain,  
And contemplate Thy woes again.

3 The rage of Satan and of sin,  
Of foes without, and fears within,  
Shall ne'er my conquering soul  
remove,  
Or from Thy cross, or from Thy  
love.

4 Secur'd from harms beneath Thy  
shade,  
Here death and hell shall ne'er in-  
vade,  
Nor Sinai, with its thund'ring noise,  
Shall e'er disturb my happier joys.

5 O unmolested happy rest !  
Where inward fears are all suppress'd,  
Here I shall love, and live secure,  
And patiently my cross endure.

#### HYMN LXVIII.

**M**Y soul forsakes each tempting  
show,  
Each vain and pleasing dream  
below ;  
Toys that allure the mind to stray  
Out of the safe, the narrow way.

2 Whatever treasures princes boast,  
On western or on eastern coast,  
Too mean to love, too weak t' im-  
part  
True satisfaction to my heart.

3 That happiness would I attain,  
Which in all tempests doth remain ;  
The sweetest fruit of sov'reign love,  
Which shall my cares and fears  
remove.

4 My thoughts releas'd would mount  
above,  
And soar to regions warm of love ;  
There rove through fields of bliss  
divine,  
And all my nobler powers refine.

5 Here joys in living torrents flow,  
Refin'd from all their dross below ;  
Here streams of peace glide in a  
maze,  
O'er verdant vales of saving grace.

#### HYMN LXIX.

**L**ORD, Thy love is overcoming,  
Strong and clear consuming fire  
That effectually burneth  
Every base and low desire ;  
My corruption, &c.,  
By Thy love shall waste away.

2 Far beyond the reach of reason  
Most refined is Thy love ;  
Nature never, never tasted  
What descended from above ;  
Heaven of heavens, &c.,  
Knows not a sublimer flame.

3 I'll admire and gaze with pleasure,  
At the deep mysterious plan ;  
Cherubims unfold Thy eternal  
Love to sinners never can ;  
Sweeter knowledge, &c.,  
Is to render love for love.

4 On that other side of Jordan,  
With ten thousand saints in one,  
I shall know my God and Saviour,  
And His love, as I am known ;  
Winds eternal, &c.,  
Blow this gloomy night away.

5 There I'll spend ten thousand ages,  
In pure contemplation free,  
Look into those depths eternal  
Of redeeming Calvary ;  
Ever praising, &c.,  
Him that loved, Him that died.

- 6 There shall I repeat my troubles,  
My temptations and my woe;  
How I climb'd high rocks impendent,  
How I launched rivers thro';  
All the glory, &c.,  
To my Saviour shall redound.
- 7 There will be no end of praising,  
Never finishing the song;  
Nor forgetting of our journey,  
All eternity along;  
Never ceasing, &c.,  
Shall I praise my God above.
- 8 Love and praise, and joys beginning,  
In the gloried shall be found,  
When ten thousand, thousand ages  
Silently revolve around;  
All will vanish, &c.,  
But the glorious golden lyre.

## HYMN LXX.

WHITE and ruddy is my Beloved,  
All His heavenly beauties shine;  
Nature can't produce an object,  
Nor so glorious, so divine;  
He hath wholly, &c.,  
Won my soul to realms above.

- 2 Farewell all ye meaner creatures,  
For in Him is every store;  
Wealth, or friends, or darling beauty,  
Shall not draw me any more;  
In my Saviour, &c.,  
I have found a glorious whole.
- 3 Such as found Thee found such sweetness,  
Deep, mysterious, and unknown;  
Far above all worldly pleasures,  
If they were to meet in one;  
My Beloved, &c.,  
O'er the mountains haste away.
- 4 JESUS, leave me not to wander  
In these howling wilds alone,  
All my inward fears and weakness,  
Everywhere to Thee are known;

- Keep me stedfast, &c.,  
Lo! the enemy at hand.
- 5 All temptations, in Thy presence,  
Vanish instantly away;  
And my foes, when Thou art near,  
Feel their doom with wild dismay;  
LORD, a visit, &c.,  
From Thyself shall make me strong.

## HYMN LXXI.

LORD, when I make my passage  
through  
Great Jordan, that doth overflow  
Its banks eternal, deep and wide,  
Stretch forth Thy hand without delay,  
Give not my soul to death a prey—  
In deepest stream stand by my side.

- 2 There by my side when Thee I have,  
I do not fear the strongest wave;  
Though I am weak, great is Thy might:  
Thy strength can hold me on my way,  
When thousand perils do dismay,  
And thousand enemies affright.
- 3 Blessed are all that trust in Thee,  
And Thy salvation long to see;  
Thy promises Thou wilt fulfil:  
Our souls shall taste those streams of love  
That issue from the throne above,  
The fruits of Thy eternal will.

## HYMN LXXII.

O MY Beloved! haste away,  
Thy gracious coming don't delay,  
Leap o'er the hills like a young roe;  
O meet a soul in mournful pain,  
My peace, my joys, let me regain,  
And be my God where'er I go.

- 2 A dark delusive scene of woe,  
Is every thing I meet below;  
Snares and temptations all around;  
Objects of sense here boldly sway,  
And silent steal my soul away,  
O let Thy grace much more abound.
- 3 All my afflictions flee away,  
As night before the dawning day,  
When my Beloved fair draws near,  
Guilt and despair, the train of fate,  
As morning clouds shall dissipate,  
And love shall wholly conquer fear.
- 4 I sigh, and groan, and faint away,  
Lest I am left like sheep astray,  
My enemies are fierce and strong;  
On Thee, O SAVIOUR! I rely,  
Or let me live, or let me die,  
Be Thy salvation all my song.

## HYMN LXXIII.

MY God, my portion, and my love!  
My all on earth, my all above,  
My all when in the tomb;  
The treasures of this world below,  
Are but a vain delusive show,  
Thy bosom is my home.

- 2 Or friends, or wealth, relations near,  
And every thing the world calls dear,  
Are vanity and night;  
Thyself, who fillest every space,  
Will thoroughly supply their place,  
Thyself my whole delight.
- 3 Let others grasp the golden store,  
The treasures of the Indian shore,  
Embrace this earthly ball;  
But my desires, in channels free,  
Shall gently flow, and flow to Thee,  
And Thou shalt be my all.

- 4 The glorious visits of Thy grace,  
Will every gloomy darkness chase,  
And drive my fears away;  
Thy only sweeter beams can show  
The blessed path I am to go,  
And turn my night to day.

## HYMN LXXIV.

I LONG to feel that blessed rest,  
When I shall lean upon Thy breast,  
Above the world in sweet delight;  
Above its pleasures and its pain,  
Above its loss, above its gain,  
Far from the gloomy shades of night.

- 2 Here I wander to and fro,  
Fearful and weak, where'er I go,  
A pilgrim like, in wilds unknown;  
Haste, my Beloved, haste away,  
Destroy the savage beasts of prey,  
And me then challenge for Thy own.
- 3 O chase my fearful thoughts away,  
Reduce my gloomy nights to day,  
And all my inward fear control;  
Jesus, drop down Thy heavenly dew  
In gentle showers, and renew  
Thy gracious image on my soul.
- 4 Let all the wicked world revile,  
If, JESUS, Thou wilt only smile  
I'm pleas'd, I'll never more repine;  
A glimpse of Thee will instant rise  
My feeble soul above the skies,  
In pleasures real and divine.

## HYMN LXXV.

COME, JESUS, haste, make no delay,  
Conduct me in the narrow way,  
That leads unto the promis'd land  
Be my conductor and my guide,  
I'm weak, and prone to turn aside  
From Thy most holy pure command.



2 Ten thousand objects here are found  
To tempt and tease me all around,  
To steal my thoughts, combin'd  
in one ;  
LORD, shew Thyself ; a glimpse of  
Thee  
Excels all objects fair to me,  
Thyself most beautiful alone.

3 How sweet are all things that are  
Thine,  
Thy comforts are delicious wine ;  
Thou art the only God and Friend ;  
Thy absence is a horrid night,  
Thy presence is a pure delight,  
A blessed feast without an end.

4 Thy beauties in sweet order shine  
With glorious lustre, all divine ;  
Sweeter Thy love than can be  
known ;  
My life, O SAVIOUR, let me spend,  
From the beginning to the end,  
Gazing upon Thyself alone.

—  
HYMN LXXVI.

LORD, I long to be in Thy presence,  
'Tis my joy and whole delight ;  
Sweeter than delicious honey,  
Fairer than the morning light ;  
All the assaults of sin and Satan,  
I could stedfastly withstand,  
And would stem all woes and perils,  
Having Thee at my right hand.

2 I can suffer every affliction,  
And encounter every foe,  
And the depths of flowing Jordan  
Venture also fearless through,  
Only let Thy gracious presence  
Then my feeble soul assist,  
'Tis Thy strength eternal only  
That can conquer and resist.

3 Death and hell, and all destruction,  
Shake and tremble at Thy might ;  
And Thy presence hush to silence  
All the roaring wolves of night.  
Lord JEHOVAH ! Lord Almighty !  
Is Thy gracious Holy Name,  
O let me, unworthy sinner,  
Feel the power of the same.

HYMN LXXVII.

JESUS, whose almighty sceptre  
Rules the creation all around,  
In whose bowels, love and mercy,  
Grace and pity full are found ;  
In my spirit rule and conquer,  
There set up Thy eternal throne ;  
Win my heart from every creature,  
Thee to love, and Thee alone.

2 In Thy strength I'd only conquer,  
In Thy righteousness confide ;  
Wise and simple in Thy wisdom,  
Strong and dauntless by Thy  
side ;  
In Thy bleeding wounds most  
happy,  
Nought will do for wretched me,  
But a Saviour full of mercy,  
Dying, innocent, and free.

3 Climb my soul unto the mountain,  
Ever-blessed Calvary,  
See the wounded Victim bleeding,  
Nailed to a cursed tree ;  
Love to miserable sinners,  
Love unfathom'd, love to death,  
Was the only end and motive,  
To resign His gracious breath.

—  
HYMN LXXVIII.

WONDER, earth ; be amaz'd,  
ye heavens !  
There the God, the Saviour dies !  
All ye creatures, give attention—  
How He groans,—hark how He  
cries !  
See the nails with which He's  
pierced !  
See His bloody thorny crown !  
And admire divine compassion,  
Him the God and Saviour own.

2 Nothing could resist His coming  
To this world of sin and woe ;  
Love and mercy pure prevailed  
O'er all perils here below :

Though the weight of guilt and  
justice,  
Though the strength of wrath  
divine,  
Lo, He comes with pure compassion,  
To redeem this soul of mine !

3 Tremble, hell, with all thy malice,  
Guilty sinners shall be freed,  
And the unworthy, mournful  
wretched,  
Shall be fully sav'd indeed :  
The weak, the feeble, and the  
fearful,  
Drawn by cords of love divine,  
Shall through all their guilt and  
sinning,  
In the midst of glory shine.

—  
HYMN LXXIX.

JESUS, Thou canst make us  
happy,  
Thou alone art all in all ;  
Other things, in competition  
With heav'n, we nothing call ;  
Joy and peace, and life and pleasure,  
In a blissful order stand,  
Void of pain, and fear, and envy,  
Ever more at Thy right hand.

2 I can live, when Thou art near,  
Strong and fearless all the day ;  
Though most grievously tormented  
By all savage beasts of prey.  
None shall rob me of my portion,  
Jesus, whilst Thyself art mine ;  
Treasures bound in love eternal,  
And in faithfulness divine.

3 If I wander from Thy presence  
Towards the forbidden tree,  
Any object, any pleasure,  
That unlawful is for me,  
Snatch me from the fiery furnace,  
And my passions rude restrain ;  
Let my soul return and ever  
Steadfast in Thy arms remain.

HYMN LXXX.

GOD of mercy, only Saviour,  
Help with an outstretched  
hand,  
Weary and fainting us that travel  
To the blessed promis'd land ;  
Give us strength, and give us  
courage,  
Faith and patience, truth and  
light,  
To resist our daring tempters,  
And their number put to flight.

2 And except Thyself will guide us,  
Guide us forward night and day,  
Heedless on to endless dangers  
We will surely go astray ;  
Therefore in the heat of trial,  
Blessed JESUS, by us stand,  
And we shall without confusion,  
Fight and act at Thy command.

3 When the roaring wave affrights us,  
Cleave the raging flood in twain ;  
Pave a road to Thy beloved  
In the bottom of the main :  
To the other side securely  
Us without confusion bring,  
On our way most happy thither,  
Let us Thy salvation sing.

—  
HYMN LXXXI.

LET me spend each precious  
hour  
Far above all worldly view,  
And to all my darling pleasures,  
Every moment give adieu ;  
Let that love which reigns in heav'n,  
Wholly reign within my breast,  
And compose my rudest passions  
To a pure immortal rest.

2 When afflictions black assault me,  
Never let me then complain ;  
Let Thy love in flowing rivers,  
In my weary spirit reign ;  
Show me the happy land of Gilead  
Where true pleasures do abound,  
And where saints releas'd from  
bondage,  
Are with 'ternal glory crown'd.

3 Be it my study, be it my pleasure,  
Thee to love, Thee to adore ;  
Be Thy full and free Salvation  
All my glory evermore ;  
From Thy word and Holy Spirit  
Let me never go astray ;  
Safely, Lord, conduct my goings  
To the blissful realms of day.

—  
HYMN LXXXII.

**L**ORD, I groan under the burden  
Of my bondage, and complain ;  
Thou alone, my only Saviour,  
Canst release me from my pain ;  
O deliver me from thralldom  
Under Pharaoh's heavy wing :  
So shall I, for ever happy,  
Thy immortal glory sing.

2 Fling the brazen gates before me,  
In Thy fury, open wide ;  
Break the iron chains in pieces,  
And release Thy mournful bride ;  
Lead me from the Egyptian dark-  
ness,  
Strong and fearless in Thy hand,  
That I may through thousand perils  
Soon possess the promis'd land.

3 Thy salvation is my refuge,  
Thy salvation is my joy ;  
And there lieth all my portion,  
Which no creature can destroy.  
Now I know my lot hath fallen  
On that happy land of love,  
And my treasures are reserved  
By my Saviour all above.

—  
HYMN LXXXIII.

**G**OD of mercy, whose compas-  
sion  
Over all Thy creatures reigns ;  
Hear a mournful broken spirit,  
Prostrate at Thy feet, complains ;

My foes are subtle, strong, and  
cruel,  
Bent on malice, all in one,  
Nothing can direct my going,  
But Thy Holy Self alone.

2 In Thy righteousness I'll triumph,  
In Thy wisdom I'll be wise,  
In Thy robes I'm perfect beauty,  
In Thy power I'll arise :  
In Thy glorious free salvation  
Only shall my soul rejoice,  
And beyond all other pleasures,  
Is Thy sweet melodious voice.

3 Speak the word, O LORD, I hear,  
And my spirits leap for joy,  
All the tumult of the creature  
Can't Thy blessed voice destroy ;  
Sweet and awful are Thy whis-  
p'rings,  
Hush'd are all, with one accord,  
To a deep and profound silence,  
When Thou utterest forth Thy  
word.

—  
HYMN LXXXIV.

**S**AVIOUR, look on Thy beloved,  
Triumph over all my foes ;  
Turn to happy joy my mourning,  
Turn to gladness all my woes ;  
Live or die, or work or suffer,  
Let my weary soul abide,  
In all changes whatsoever,  
Sure and steadfast by Thy side.

2 With the LORD, I'll travel forward,  
Thro' the horrid realms of night ;  
And my enemies encounter,  
Though their number, though  
there might ;  
Hell and death yield to Thy power,  
Satan trembles at Thy name ;  
Be my friend, and only refuge,  
I shall conquer all the same.

3 When temptations fierce assault me,  
When my enemies I find,  
Sin and guilt, and death and Satan,  
All against my soul combin'd ;

Hold me up in mighty waters,  
Keep my eyes on things above,  
Righteousness, divine atonement,  
Peace, and everlasting love.

—  
HYMN LXXXV.

**S**AVIOUR of the guilty sinner,  
Sunk and burden'd, how I cry,  
All my foes are bold and daring,  
Still my feeble soul defy ;  
Thee I want for strength and wisdom  
Thee I want for truth and light,  
And by Thee I'll triumph over  
All Their subtilty and might.

2 Thou hast conquer'd hell and  
Satan,  
Once upon a cursed tree ;  
Thou hast purchas'd peace and  
pardon  
Freely, for unworthy me ;  
Do not leave my soul to wander  
Where the roaring lions stray,  
Lurk, and watch the weary pilgrim,  
For to snatch his life away.

3 Here, Satan, with his armies,  
To attack us ready stands ;  
There the world, with pomp and  
pleasures,  
All our simple hearts demands ;  
And within are thousand passions  
Ready all to catch the flame—  
JESUS, let my soul take refuge  
Only in Thy Holy Name.

4 Nothing will preserve my goings,  
But salvation full and free ;  
Nothing will my feet dishearten  
But my absence, LORD, from  
Thee.  
Nothing can delay my progress,  
Nothing can disturb my rest,  
If I shall, where'er I wander,  
Lean my spirit on Thy breast.

HYMN LXXXVI.

**J**ESUS, lead us with Thy power  
Safe unto the promis'd rest,  
Hide our souls within Thy bosom,  
Let us slumber on Thy breast ;  
Feed us with the heav'nly manna,  
Bread that angels eat above,  
Let's drink from the holy fountain,  
Draughts of everlasting love.

2 Throughout the desert wild con-  
duct us,  
With a glorious pillar bright,  
In the day a cooling comfort,  
And a cheering fire by night ;  
Be our Guide in every peril,  
Watch us hourly night and day,  
Otherwise we'll err and wander  
From Thy Spirit far away.

3 In Thy presence we are happy,  
In Thy presence we're secure ;  
In Thy presence all afflictions  
We will easily endure ;  
In Thy presence we can conquer,  
We can suffer, we can die :  
Far from Thee we faint and lan-  
guish,  
LORD, our Saviour, keep us nigh.

—  
HYMN LXXXVII.

**L**ORD, accept a wretched sinner,  
That himself can ne'er amend ;  
Be my God, and be my Saviour,  
Be my Father, and my Friend ;  
Always near Thee, &c.,  
Always happy, always wise.

2 I am faint and prone to wander,  
Quite unable to withstand  
Such a fierce and cruel number  
E'er without Thy helping hand ;  
LORD appear, &c.,  
All do fear Thy glorious Name.

3 'Tis Thy precious blood and passion  
That can make the feeble strong ;  
'Tis Thy blood alone that conquers  
All the fierce infernal throng ;  
Let me quickly, &c.,  
Drink the pure immortal stream.

- 4 Let those gales from blest *Calvaria*  
Breathe their influence divine,  
All their pure and milder comforts,  
On this mournful soul of mine ;  
In such pleasures, &c.,  
I would spend my life away.

---

HYMN LXXXVIII.

- A**LL the wide immense creation,  
And its creatures of all kind,  
Cannot, with their wealth and  
beauty,  
Fill my longing gaping mind ;  
Things eternal, &c.,  
Only can my soul employ.
- 2 Let Thy precious blood and passion  
Fill my soul from day to day ;  
Let Thy eternal love and mercy  
Drive my grumbling thoughts  
away ;  
Peace and concord, &c.,  
Be my feast for evermore.
- 3 O that I could see that blessed  
Time, when all my thoughts in  
one  
Should be wholly fix'd on pleasures  
Gushing from beneath the throne ;  
Things terrestrial, &c.,  
And my soul shall join no more.
- 4 On the wings of faith unfeigned  
To a pure empyreal sky,  
Through the thick and darkest  
regions,  
Now my soul mysterious pry ;  
Love and mercy, &c.,  
Streams eternal there I find.

---

HYMN LXXXIX.

- O**'ER those gloomy hills of dark-  
ness  
Look, my soul, be still and gaze ;  
All the promises do travail  
With a glorious day of grace.  
Blessed jubil, &c.,  
Let Thy glorious morning dawn.

- 2 Let the Indian, let the Negro,  
Let the rude barbarian see  
That divine and glorious conquest  
Once obtain'd on Calvary ;  
Let the Gospel, &c.,  
Loud resound from pole to pole.

- 3 Kingdoms wide that sit in darkness,  
Let them have the glorious light,  
And from Eastern coast to Western  
May the morning chase the night,  
And redemption, &c.,  
Freely purchas'd, win the day.

- 4 May the glorious days approaching,  
From eternal darkness dawn,  
And the everlasting Gospel  
Spread abroad Thy holy Name.  
Thousand years, &c.,  
Soon appear, make no delay.

- 5 **L**ORD, I long to see that morning,  
When Thy Gospel shall abound,  
And Thy grace get full possession  
Of the happy promis'd ground ;  
All the borders, &c.,  
Of the great Immanuel's land.

- 6 Fly abroad, eternal Gospel,  
Win and conquer, never cease ;  
May Thy eternal wide dominions  
Multiply, and still increase ;  
May Thy sceptre, &c.,  
Sway th' enlighten'd world around.

- 7 O let Moab yield and tremble,  
Let Philistia never boast,  
And let India proud be scattered  
With its innumerable host ;  
And the glory, &c.,  
Jesus, only be to Thee.

---

HYMN XC.

- L**ORD, Thou art my whole sal-  
vation,  
Thou the rock of my defence ;  
All my sweeter comforts issue  
In a living stream from thence ;  
In all troubles, &c.,  
Only there I am secure.

---

HYMN XCII.

**C**OME, return thou mournful  
sinner,  
Haste unto thy blessed home ;  
All is ready, all is welcome,  
Jesus and His Bride say, Come,  
Taste the dainties, &c.,  
Feast of everlasting life.

- 2 Free salvation hath appeared,  
And the veil is rent in twain ;  
Nothing but to love the Saviour  
For believers can remain :  
Taste the dainties, &c.,  
Feast of everlasting love.

- 3 See the glorious temple open'd  
In the heavens, high above ;  
See the ark, divine utensil,  
Full of mercy, full of love ;  
Taste the dainties, &c.,  
Feast of everlasting life.

- 4 Sinners, here is abundance,  
Streams of pure delicious wine,  
Streams that heal the wounded  
spirit,  
And allay the wrath divine :  
Eat the dainties, &c.,  
Feast of everlasting life.

---

HYMN XCIII.

**N**OW the shadows flee and  
vanish,  
And the blessed morning came,  
When ten thousand silver trumpets  
Free salvation shall proclaim ;  
All the islands, &c.,  
Through the world shall hear the  
sound.

- 2 Now the living Branch of Jesse  
Shall with glorious beauty shine,  
And the Negro, and the Indian,  
Look unto the Man Divine ;  
And with rapture, &c.,  
Sing the glorious theme of love.

- 2 In the midst of tribulation,  
To the throne I will apply,  
And before Thy seat of mercy  
I will ever groan and sigh :  
Hear my prayers, &c.,  
Hear a wounded spirit's cry.

- 3 God of grace, and God of mercy,  
E'er Thou hast proclaim'd Thy  
name,  
And ten thousand saints in troubles  
Had their refuge in the same ;  
Worthy Saviour, &c.,  
Thou canst conquer and redeem.

- 4 Thou hast heard my groaning  
prayer,  
Fast entangled in the chain,  
And Thou hast my soul deliver'd,  
Freely from my grievous pain ;  
All the glory, &c.,  
To Thyself be evermore.

---

HYMN XCI.

**W**HEN I made my God my  
refuge,  
All my night was turn'd to day ;  
Nothing but Almighty power  
Could my enemies dismay ;  
Wall of fire, &c.,  
Is my God on every side.

- 2 On the left He kept my goings,  
And He kept me on the right,  
He surrounded me in dangers,  
In the thickest darkest night ;  
From the Egyptian, &c.,  
Bondage He hath led me home.

- 3 Through the rough and stormy tem-  
pest,  
Through innumerable foes,  
And through rivers wide of troubles,  
Over hills of pain and woes,  
Thou hast help'd me, &c.,  
Nothing can resist Thy hand.

- 4 Let me, therefore, without murmur,  
Spend my weary hours away,  
Hidden in the Rock of Ages  
In the greatest heat of day ;  
Where in silence, &c.,  
I may contemplate Thy grace.

- 3 Now shall cease and wholly vanish  
Every meaner base delight ;  
Jesus, the desire and object  
Of the black and of the white ;  
To the chiefest, &c.,  
Sinners, grace shall more abound.
- 4 Come unto the living fountain,  
Sinners, therefore, haste away ;  
Hear the call, and do not squander  
Precious moments thus away ;  
Eat and welcome, &c.,  
Drink the pure, delicious wine.

---

HYMN XCIV.

- NOW the glorious Gospel hastens  
And the charming days draw  
near,  
When redemption fully purchas'd  
Shall in mighty pomp appear ;  
Grace abounding, &c.,  
Sweet beyond the thoughts of man.
- 2 Come and see how guilty sinners  
Here are washed clean and white ;  
See the poor, unworthy, wretched,  
Clothed now in garments bright ;  
Come and wonder, &c.,  
Explore the depths of sov'reign  
grace.
- 3 Come the blind, the lame, and  
maimed,  
Here wash thy filth away ;  
Living waters, streams eternal,  
Flow abundant every day ;  
Glorious fountain, &c.,  
Millions washed, yet never foul.
- 4 Unbelief and base relapses,  
Sins of deepest, darkest dye ;  
All are whiten'd in the fountain,  
Blood and water sprung on high ;  
Full redemption, &c.,  
Never ceasing to be sweet.

HYMN XCV.

- HARK! the voice of my Beloved,  
Lo, He comes in greatest,  
need,  
Leaping on the lofty mountains,  
Skipping over hills with speed,  
To deliver, &c.,  
Me unworthy from all woe.
- 2 In a dungeon deep He found me,  
Without water, without light,  
Bound in chains of horrid darkness,  
Gloomy, thick, Egyptian night ;  
He recover'd, &c.,  
Thence my soul with price im-  
mense.
- 3 And for this let men and angels,  
All the heavenly host above,  
Choirs of seraphim elected,  
With their golden harps of love,  
Praise and worship, &c.,  
My Redeemer without end.
- 4 Let believers raise their anthems,  
All degrees in one accord,  
Mix'd with angels and archangels,  
To their dear redeeming Lord ;  
Love eternal, &c.,  
Unconceivable, unknown.
- 
- HYMN XCVI.
- SWEET JESUS, bear my soul  
away  
To a sublimer, purer ray,  
Above these cloudy skies ;  
I stretch, and sigh, and long to go,  
I'm weary of this world below,  
Where thousand foes entice.
- 2 Beyond the deep and foaming main,  
Of guilt, and woes, and grievous  
pain,  
To see that happy shore,  
Where trees of life immortal grow,  
And bliss and pleasure purest flow,  
In streams for evermore :

HYMN XCVIII.

- 3 Immanuel's land, where guilt and  
sin,  
And Satan, ne'er will enter in,  
And nothing vile can pry ;  
But peace, and love, and joy shall  
reign  
As happy guests there, and remain  
To vast eternity.
- 4 And there I shall, amidst the blest,  
Enjoy an everlasting feast  
Of pure immortal wine ;  
There shall I honour and adore  
My God and Saviour evermore,  
And sing the theme divine.

---

HYMN XCVII.

- DEAR JESUS, come, my spirits  
groan  
For nought but for Thyself alone,  
Thou art the pearl of price ;  
For Thee, I'd part with all below,  
And every hardship undergo,  
Beneath the vaulted skies.
- 2 Thy presence can, without delay,  
Drive all my num'rous cares away,  
As chaff before the wind ;  
Compose my thoughts to adore and  
love  
Thee, as an object far above,  
To Thee alone inclin'd.
- 3 Release me from my heavy chain,  
Guilt, sin, and shame, which still  
remain  
To bind me hand and foot ;  
O, glorious Conqueror, enter in,  
Cast out my foes, destroy my sin,  
Both branch and spreading root.
- 4 Give me that knowledge pure,  
divine,  
To know and feel that Thou art  
mine,  
And Thee my portion call ;  
That doubts and fears may flee  
away,  
And faith unfeigned win the day,  
And triumph over all.

- OUR weary pilgrimage below,  
Is through a world of sin and  
woe,  
A gloomy forest wide,  
Where lions roar and tigers sway,  
And dreadful serpents cross our  
way ;  
We'll faint without a guide.
- 2 O mighty SAVIOUR! give Thy  
hand,  
And help us to that blessed land,  
In spite of all our foes ;  
Where we shall live, and thrive,  
and grow,  
On milk and honey there that flow,  
Void of terrestrial woes.
- 3 In threat'ning storms Thy sacred  
breast  
Shall be our consecrated rest,  
Whilst hours slide away ;  
There we'll repose, and there con-  
found  
Ten thousand enemies around,  
And wait eternal day.

---

HYMN XCIX.

- TIR'D with a trifling world,  
And every charm below ;  
'Tis vanity and guilt  
They only can bestow ;  
My God, my all, I will adore  
My best Beloved, evermore.
- 2 Stronger than death His love,  
His mercies e'er remain,  
Most happy is their lot  
His friendship who obtain ;  
Nor death, nor hell, with all their  
sway,  
Can ever take their part away.
- 3 My happiness distils,  
My clearer waters flow,  
From a celestial fount,  
Which nature does not know.  
My filthy rags shall glorious shine  
Before the throne in rays divine.

4 Though enemies assault  
By thousands, in array,  
And then triumphant boast  
Their power and their sway ;  
Thy only name can put to flight  
My daring foes with all their might.

---

HYMN C.

**J**ESUS is all my hope,  
His death is all my boast,  
But for His sov'reign grace  
I should be ever lost ;  
Redeeming blood, and dying love,  
Shall be my theme here and above.

2 All that remains for me  
Is but to love and sing,  
Admire and adore  
My Saviour, God, and King ;  
Each stripe, each bruise, each gap-  
ing wound,  
Shall ring the world in praise around.

3 O happy, sweeter name  
Than e'er the world did know,  
More of Thy smiling grace  
Freely on me bestow ;  
And let me taste that ardent love  
That saints and martyrs taste above.

4 So all my doubts and fears  
Shall wholly flee away,  
And every mournful night  
Be turn'd to joyful day ;  
And all the world shall plainly see  
Thou art a faithful friend to me.

---

HYMN CI.

**L**ORD, let my spirit dwell  
(Whilst I reside below)  
Above the flattering world  
I here wander through ;  
So that its woes may ne'er dismay,  
Nor charms delude my heart away.

2 I take my happy rest  
In Thee, my God, alone,  
And all my misery  
I set before Thy throne ;  
I groan, and sigh, and long to see  
My happy morn of liberty.

3 O mercy ! mercy ! Lord,  
Whilst yet the light is near ;  
My weary soul, involv'd  
In deep confusion, cheer ;  
And raise me up, I long to be  
Within a blessed view of Thee.

4 My Lord, Thyself alone  
Canst take me by the hand,  
And lead me safely on  
Unto the promis'd land ;  
Thy power can subdue my foes,  
Allay and sweeten all my woes.

---

HYMN CII.

**A**BOVE all worldly views,  
I seek Thy favour, LORD,  
Thou worthy art alone  
Ever to be ador'd ;  
Thou art enough, when all this gay  
And tempting world shall flee away.

2 And Thou shalt be Thyself  
My tower strong below,  
Whatever deserts wild  
I wander here through ;  
Thy Word alone shall be my guide,  
From errors foul on every side.

3 Conduct me safely home,  
My Saviour and my God ;  
'Tis mercy alone I crave,  
The merits of Thy blood ;  
Redemption full I only see,  
Out of myself,—alone in Thee.

4 My hours glide away,  
Like to the ebbing tide ;  
My years are wholly spent  
In vanity and pride ;  
Come, JESUS, come, raise me above,  
To taste the sweetness of Thy love.

HYMN CIII.

**I** AM daunted all the day  
By innumerable foes,  
My enemy in strength  
And arrogance grows ;  
O Man Divine ! pour down Thy  
grace,  
They all dissolve before Thy face.

2 I groan under the weight  
Of burdens vast, unknown ;  
I'll faint away and die,  
If here left alone ;  
My days are spent, O Saviour, speed !  
And help a wretch in time of need.

3 O let me hear that voice  
That sets the captive free ;  
And give a true release  
From wretched misery ;  
That my delight may be to adore  
And praise Thy name for evermore.

---

HYMN CIV.

**O** COULD I but abide  
Within a happy view  
Of everlasting love,  
And give the world adieu,  
There where my foes could ne'er in-  
trude,  
Or sin, or Satan, e'er delude.

2 I would resign my all,  
However dear below,  
To taste those streams of love  
Which from Thy presence flow ;  
Thus martyr'd saints, in feasts of love,  
Spend their eternity above.

3 I'm in the world unknown,  
So is the world to me ;  
My heavy laden soul  
Seeks for her liberty ;  
O may each sigh, each pray'r, each  
groan,  
Be heard and answered at the Throne.

4 Were all the world my own,  
The earth should I control,  
This nothing would avail,  
Thee absent from my soul ;  
By far exceed the glory and grace  
That shine illustrious in Thy face.

5 How happy all are they  
That have arriv'd above,  
And feast continually  
On everlasting love ;  
I long to feel their sacred joys,  
Where odious sin no more annoys.

---

HYMN CV.

**L**ORD, let Thy mercy shine  
With an immortal ray,  
And dawn upon my soul  
A blissful happy day,  
So that my doubts and fears may pine  
Beneath the beams of love divine.

2 Thy precious blood alone.  
Thy innumerable woes,  
The victory shall gain  
Over my daring foes ;  
Thy presence can, without delay,  
Reduce my nights to blooming day.

3 Before Thy throne I wait,  
The throne of sov'reign grace,  
Impatient there I long  
To see Thy lovely face ;  
A glimpse of Thee my soul will raise  
Above these lower cloudy skies.

4 O let no darling sin  
Be hid within my breast,  
Or any secret lust  
My inward peace molest ;  
But let Thy strength raise me above,  
To taste Thy sweet, delicious love.

5 Wherever, LORD, I turn,  
Or on the left or right,  
Direct my wandering feet  
In each dark, gloomy night ;  
O lead me on—I faint, I die,  
If Thou, my Saviour, art not nigh.

6 All pleasures here compose  
But only a scene of woe,  
A deadly poison runs  
Through all our joys below ;  
My hope is of a nobler strain,  
My joys are such as shall remain.

---

HYMN CVI.

O MISERABLE world,  
Where vanities reside ;  
And folly wanders through  
Without a rule or guide ;  
Fatigu'd and faint, my soul arise  
And view the things above the skies.

2 And there my Saviour stands  
Before the immortal throne,  
Where none but He Himself  
Dares ever to atone ;  
He pleads His blood, His woes, and  
pain—  
His merits all we want t' obtain.

3 The name of blood divine  
There carries all before,  
And Heaven can't deny  
Whate'er His wounds implore ;  
A single drop will fully atone  
For all my guilt, before the throne.

4 The horrid cries of guilt,  
Of tyrannizing sin,  
Of thousand faults without  
And thousands more within,  
Never prevail before the throne,  
Whilst He 's my Advocate alone.

5 And therefore I defy  
My foes of every kind,  
Whilst on His precious blood  
I only fix my mind ;  
Satan and sin must wholly fall—  
The atoning blood will conquer all.

---

HYMN CVII.

O MIGHTY Redeemer!  
My Saviour and God!

Who purchas'd our pardon  
And peace with Thy blood,  
My song shall for ever  
Illustrate Thy fame,  
And each of my passions  
Endear Thy name.

2 Thy love is eternal,  
Thy grace is all free,  
My glorious salvation  
Springs wholly from Thee ;  
All works, all endowments,  
All merits are dross,  
They vanish as vapours  
In sight of Thy cross.

3 Behold the sharp dagger  
Once pierced His side,  
Until a fresh fountain  
Was open'd full wide ;  
From which gushed out water  
And blood in a stream,  
The reprobate sinner  
To wash and redeem.

4 The fountain was opened  
For filth and for sin,  
Such as are polluted  
Without and within ;  
Ye wretched, come here  
And wash yourselves white,  
So that you 'll appear  
All glorious and bright.

5 Bathe here the cripple,  
The maimed shall find,  
The deaf and the leprous,  
Relief to their mind ;  
Their sores shall be healed,  
Their spirits revive,  
As if a dead body  
Was risen alive.

6 Come here, ye sinners,  
And wash in this fount,  
That sprang from His bowels  
On Calvary Mount,  
Where merits eternal,  
Like crystal, do flow,  
And whiten the Negro  
As white as the snow.

7 O blessed salvation,  
Thy trumpet around,

From India to India,  
With power, resound ;  
In ev'ry climate, and mountain, and  
vale,  
Wherever Thy arrows triumphant  
shall fall.

---

HYMN CVIII.

ETERNAL JEHOVAH,  
My Saviour! my all!  
Before Thee with sorrow,  
Lamenting I fall ;  
My guilt and transgressions  
Do daily abound.  
And enemies plotting  
Encompass me round.

2 Thy strength and Thy mercy  
And wisdom I see  
The only protection  
And refuge for me ;  
Thy blood and Thy merits,  
Thy anguish and pain,  
Shall only my burden  
Enormous sustain.

3 All comforts terrestrial,  
Whatever their kind,  
Appease not my conscience,  
Nor fill up my mind ;  
My spirit impatient  
Doth wander above,  
And longs to be feasted  
On flagons of love.

4 I count myself happy,  
Most happy indeed,  
That Jesus hath promised  
I should be freed  
From guilt and damnation,  
And power of sin,  
And all its pollution,  
Without and within.

5 In hope and in patience  
I wait and I strive ;  
The promise is certain,  
The hour will arrive ;  
My spirit most cheerful  
Shall visit the day,  
When all my corruption  
Shall vanish away.

HYMN CIX.

HEAV'N, be amaz'd! see thy  
Maker,  
Thy only Creator and Thy God,  
Cloth'd in human flesh, and wel-  
t'ring  
(Pierc'd and wounded) in His  
blood ;  
Pity drew Him down from heaven,  
Mercy, grace, and ardent love,  
Made Him part with all His glory  
In the blissful realms above.

2 Lo! He comes with utmost  
pleasure,  
Leaves His glory all behind ;  
And resolves t' encounter hardships,  
Pain, and anguish of all kind ;  
With reproach, as with a garment,  
In the world He was array'd,  
And His life, for the condemned  
Guilty sinner, down He laid.

3 Here perfect love transcendent,  
Far above what mortals feign,  
Rides triumphant o'er destruction,  
With her glorious, beauteous  
train ;  
Here mercy fully conquers  
Pain and all terrestrial woes,  
And exults with holy triumph  
O'er innumerable foes.

4 See the depth and height of mercy,  
Sovereign grace, and love divine,  
On Mount Calvary, in one moment,  
With what glorious pomp they  
shine ;  
See the mournful sinner pardoned  
There, that nail'd Him to the  
tree ;  
Hark His prayer—*Father, forgive  
them*  
All their sins, they know not Me.

5 O let sinners e'er remember  
This amazing, glorious day!  
When our guilt, with all its horrors,  
Fully was eras'd away ;  
When our Saviour cried, 'Tis  
*finish'd*,  
All their woes on Me were laid ;  
Pardon now is fully purchas'd,  
And the mighty sum is paid.



6 Here death and hell are conquered,  
In their utmost rage and sway ;  
Sin and Satan here are baffled,  
And their power taken away ;  
Principalities and powers  
Spoil'd of all their arms below,  
And the whole of Satan's kingdom  
Now is shatter'd with a blow.

7 Here now are hid my treasures,  
Only in His holy side ;  
He my God, my Friend, my  
Saviour,  
I His sister and His bride.  
Mount, my soul, above all objects,  
And in higher regions rove,  
Where I may, in retaliation,  
Strive to render love for love.

### HYMN CX.

OH! to spend each day import-  
ant  
In pure contemplation free ;  
Not on scenes of joy terrestrial,  
Jesus, only—but on Thee ;  
Thou hast purchas'd all my pardon,  
Thou Thyself hast won my heart ;  
And to Thee, in sighs and groan-  
ings,  
Every secret I'll impart.

2 In deep waters, strong and dreadful,  
Thou dost upward hold my head ;  
Thou dost chain the rage and fury  
Of such enemies I dread ;  
Jesus, only Thou my Saviour,  
Jesus, only Thou my Friend ;  
All I have I do surrender,  
And into Thy hands commend.

3 When I fear, I haste impatient,  
And before Thy gate I lie ;  
There, with thousand doubts sur-  
rounding,  
Faint I groan, and weep, and cry ;  
Thou deliverest me from bondage,  
There I felt that Thou wast near,  
And my doubts were hushed to  
silence,  
Vanish'd also was my fear.

### HYMN CXI.

JESUS, let not Satan trample  
A believer under feet ;  
Give me faith, and strength, and  
wisdom,  
To encounter all I meet ;  
Give me not a scoff and scorning  
To the world's malicious race ;  
Hold me up, to their confusion,  
With Thy free and sovereign  
grace.

2 Thousands would be glad and  
joyful,  
If my sins would once prevail ;  
Scorners would rejoice and triumph  
If my feeble faith would fail ;  
To the throne of grace eternal,  
Faint and fearful yet I cry,  
Till the scorner's ardent wishes  
Disappoint him, fall, and die.

3 Under Thy divine protection,  
And within Thy bosom fair,  
In all lower scenes of troubles  
To Thee, JESUS, I'll repair ;  
When all miseries encompass,  
And afflictions press around,  
Strength and wisdom, love and  
mercy,  
Only in Thyself are found.

4 Those I count my happier moments,  
When my sins consume away  
Root and branch, guilt and pollu-  
tion  
Wholly wither and decay ;  
Grant my soul may hear that music  
Whispering in the word divine,  
And the beams of real comfort  
Always on my soul may shine.

5 There I'd ever dwell in safety,  
Sing my hours and rejoice,  
List'ning, with an ear attentive,  
To Thy sweet, harmonious voice,  
In this paradise of pleasure,  
Thee my only partner, LORD,  
So that all my thoughts and actions  
May be guided by Thy word.

### HYMN CXII.

LIFT your heads, ye mournful  
sinners,  
See your Saviour now on high !  
All the host of heaven adore Him,  
And to His redemption pry ;  
All the choir of blessed angels,  
Seraphs bright and cherubim,  
Raise their notes, in sweetest con-  
cord  
Of pure love around, to Him.

2 Men on earth, lift up your voices,  
Full of fire, full of love,  
In sweet harmony and union,  
With the first-born sons above ;  
Heaven and earth, in pure conjunc-  
tion,  
Your eternal anthems raise,  
For a full complete salvation,  
To the Saviour's only praise.

3 He on the Olive Mount ascended,  
Soon He shall descend again,  
With far more transcendent glory,  
To the fallen sons of men,  
He shall judge all tribes and  
nations,  
Tongues and people, quick and  
dead,  
And His glorious midnight coming  
All the wicked world shall dread.

4 Now behold Him come to glory !  
Hark! the dreadful trumpet's  
sound !  
See ten thousand saints and angels  
There attend His Person round !  
Lo, He comes in full compassion,  
Love shines splendid in His face ;  
From all miseries terrestrial  
To redeem His chosen race.

5 This, the day of consolation ;  
Mourning sinners shall rejoice  
With an ardour full of glory,  
At their Saviour's blessed voice ;  
Henceforth they shall ever triumph  
Over every daring foe,  
And receive eternal freedom  
From all miseries below.

6 Now the world, that often tempted  
Us before, shall tempt in vain,  
Satan, and his furious legions,  
Bound in an eternal chain ;  
Sin destroy'd with its attendants,  
In that day of liberty,  
Cruel death, with all its horrors,  
Swallow'd up in victory.

7 Then among ten thousand angels  
We triumphantly shall sing  
Sweet, celestial, endless anthems  
To our glorious Saviour King ;  
We shall challenge old destruction,  
*Hell, where is thy victory ?*  
Where thy sting, O death resistless ?  
From thy power we are free.

8 Hark, my soul, that charming sen-  
tence,  
Which He utters to His bride,  
Who as harmless sheep are placed,  
On His right illustrious side ;  
*Come, ye blessed of my Father,*  
*And inherit, bold and free,*  
*That eternal blessed kingdom,*  
*Purchas'd and prepared by Me.*

9 I was in the world an hunger'd,  
And ye fed me cheerfully ;  
And ye gave me drink with pleasure  
When I was extremely dry ;  
I was naked, and ye cloth'd me,  
When a stranger, I was far'd ;  
When in prison you came to me :  
Now receive thy full reward.

### HYMN CXIII.

MOUNT, my soul, above these  
trifles,  
Every charm of lower kind ;  
And with thoughts of nobler ob-  
jects  
Fill thy busy, roving mind ;  
Leave the stars below thy thinking,  
Fix on thy eternal rest,  
As a pleasure always worthy  
To possess thy thoughtful breast.

2 There my Saviour reigns in glory,  
With ten thousand saints around,

Mixt with cherubim and angels,  
Their eternal anthems sound ;  
Be the might, the pow'r, and glory,  
Wisdom, blessing, all in one,  
To the Lamb, our God, Jehovah,  
Now that sits upon the throne.

3 I shall reach my happy country,  
And those blessed regions soon,  
Where the pilgrims are refreshed  
After a long and scorching noon ;  
Here we shall dwell with JESUS,  
See Him, love Him, and adore,  
And He shall remain our darling  
And beloved evermore.

4 God shall dwell with His redeemed  
In their presence He'll abide ;  
As a King of peace and glory  
With His faithful royal bride ;  
All their former tears and sorrows  
He shall wholly wipe away,  
And their nights will be reduced  
To an everlasting day.

5 Death shall ne'er appear in glory,  
With its frightful, horrid train,  
(That have griev'd our feeble  
spirits)  
Sin and folly, guilt and pain ;  
All the former things of sorrow,  
As a cloud shall flee away,  
And a morn of peace shall trumpet  
Out an everlasting day.

---

#### HYMN CXIV.

**L**O, a river of pure water,  
Like a crystal stream doth  
flow,  
From the immortal throne of mercy,  
To us sinful worms below ;  
Here sinners wash by thousands,  
And in washing become white,  
Leave behind their guilt and  
trembling,  
And appear glorious, bright.

2 In the middle of its channel,  
And on either blessed side  
Grow the trees of life immortal,  
With a glorious, stately pride,

Inconceivable their virtues,  
Various are the fruits divine,  
Sweet the taste, the smell delicious,  
And their beauties glorious shine.

3 Twelve kinds of fruit each month  
grow here,  
Heavenly comfort still renews ;  
All are happy, all are healed,  
That the blessed fruit pursues ;  
The leaves shall heal the guilty  
nations,  
For the Gospel trump shall sound  
Free Salvation to the Indian,  
On the West and Eastern ground.

4 Curse shall cease, and sorrow  
vanish,  
Guilt and sin shall pass away,  
And Salvation, with her thousand  
Comforts, hath proclaim'd the  
day ;  
On a throne of grace and mercy,  
God the Lamb doth still reside,  
There we shall enjoy His presence,  
And be ever call'd His bride.

---

#### HYMN CXV.

**M**Y GOD and my Saviour,  
My comfort and all,  
Thy throne is my refuge,  
In anguish and thrall :  
When troubles assault me  
'Tis hither I fly,  
And troubles do vanish  
When Thou dost draw nigh.

2 My fears and my doubtings,  
A numerous host,  
When Thou art but absent  
Do rally and boast ;  
But when Thou dost hearken  
To our groans and our cries,  
Faith conquers and triumphs,  
Assures and defies.

3 My humble petition  
Is always to be,  
My GOD and my Saviour,  
So near to Thee,

That every assailant  
That would me dismay,  
Be all disappointed,  
And vanish away.

4 My wand'ring motions  
Thy Spirit can cure,  
Thy Spirit can keep me  
In dangers secure ;  
Direct all my goings,  
And set me to rest,  
Where Satan and pleasure  
Can never molest.

---

#### HYMN CXVI.

**O** VISIT, LORD, my soul,  
The world I do resign ;  
Erect a temple holy and pure  
Within this soul of mine ;  
Reign here, trample on  
My execrable foes,  
Those idols that create my fears,  
My sorrows, and my woes.

2 Thy mighty power can,  
LORD, instantly control  
Those subtle and malicious foes,  
That tease my feeble soul ;  
The Word which Thou hast said  
Thou never wilt recall,  
Until the thrones of death and sin  
To utter ruin fall.

3 Thy word is all my strength,  
Thy promise is my rest ;  
I'm happy here, and here alone,  
In all conditions blest :  
O let it soon bring forth  
Its thousands blessings free,  
That I may feel and repossess  
My glorious liberty.

4 I wait, and long to enjoy  
What Thou hast made my own,  
That peace and love, and inward  
joy,  
Thy purchase all in one ;  
These gifts shall soon create  
A heaven within my breast,  
A jubil of triumphant joy,  
An everlasting feast.

#### HYMN CXVII.

**A**WAKE, my soul, and rise  
Amaz'd, and yonder see,  
How hangs the mighty Saviour God  
Upon a cursed tree !  
Now gloriously fulfilled  
Is that most ancient plan,  
Contriv'd in the eternal mind  
Before the world began.

2 Here depths of wisdom shine,  
Which angels cannot trace ;  
The highest rank of cherubim  
Still lost in wonder gaze ;  
Here love extends her wings,  
Justice and mercy ran,  
And all the attributes divine  
Rejoined the thoughts of man.

3 Here free salvation reigns,  
And carries all before ;  
And this shall, for the guilty race,  
Be a refuge evermore ;  
Now hell in all her strength,  
Her rage, and boasting sway,  
Can never snatch a wand'ring sheep  
From Jesus' arms away.

4 And here I shall rest  
In storms of darkest kind ;  
His suffering only shall compose  
My sick and fearful mind ;  
In gloomy lonesome night  
I'll turn to Calvary,  
And from that fountain I'll expect  
My glorious liberty.

---

#### HYMN CXVIII.

**A**DIEU all mortal things,  
Ye phantoms of all kind ;  
A nobler object now presents  
Itself unto my mind ;  
All pleasures I resign,  
Which carnal men adore,  
And welcome JESUS for my Friend,  
My Friend for evermore.

2 'Tis only shades and dreams  
That here divert our time ;

Which haunt us in our ev'ning stage,  
And haunt us in our prime;  
Mount up, my soul, lay hold  
On real things divine,  
A portion that when stars recede  
Shall certainly be mine.

3 I happily rejoice,  
And part with all below,  
And now receive immortal gain,  
Substantial for a show;  
Such treasures will translate  
My soul to realms above  
Where I shall feast on truths divine,  
And everlasting love.

4 Why should I murmur more?  
Why should I e'er complain?  
My peace, and joy, and happiness  
For ever shall remain;  
Soon I shall mount above  
The insult of my foe,  
Where rivers of perpetual bliss,  
In soothing murmurs flow.

---

### HYMN CXIX.

**M**Y God, my life, my all,  
My Shepherd and my King;  
Myself, implung'd in misery,  
Before Thy throne I bring;  
Array'd in guilt and woe,  
Prostrate here I lie,  
Except Thyself alone wilt save,  
I faint away and die.

2 Where horrid sins abound,  
Thy grace abounds the more;  
A crystal fount that never dries,  
An unexhausted store;  
In treasures deep, unknown,  
And boundless, I confide,  
To travel on through all I meet  
Courageous by Thy side.

3 Let Satan, and the world,  
Now rage, or now allure,  
The promises are wholly made  
Immovable and sure;

And in Thy word divine,  
Infallible, I trust,  
For He that promised is true,  
Is faithful, and is just.

4 He'll bring me on my way,  
Unto my journey's end;  
He'll be my Father and my God,  
My Saviour and my Friend;  
He'll draw me to Himself  
With cords of sovereign love,  
Until at last I shall arrive  
In blissful realms above.

---

### HYMN CXX.

**T**HOU great Jehovah, eternal  
Name,  
Saviour of human race,  
Forgive and pity a wretched one,  
Unworthy of Thy grace.

2 I groan under the enormous load  
Of each rebellious sin,  
Ten thousand objects tempt and  
tease,  
And my affections win.

3 Thy blood can only cleanse my  
guilt,  
And wash each stain away;  
And this for evermore shall be  
My glorious bright array.

4 Thy mighty power only can  
Release me from my pain,  
And the destructive force of sin  
Impetuous restrain.

5 The powers of darkness, though  
their might,  
Do tremble at Thy name;  
For Thou hast spoil'd and put them  
all  
Once to an open shame.

6 Reign, Jesus, in this heart of mine  
And here Thy sceptre sway;  
Ride on and conquer, and fulfil  
Thy word without delay.

### HYMN CXXI.

**J**ESUS, pourd own Thy heavenly  
grace,  
And make a sinner free,  
That longs impatient for to feel  
His glorious liberty.

2 Raise me above all worldly dreams,  
Unto Thy will resign'd;  
Above those idol pleasures vain,  
Which captivate the mind.

3 In sweet perpetual repose,  
Which sin cannot destroy;  
Where true delight runs in a stream  
Of perfect love and joy;

4 There I could spend my hours  
away,  
My Saviour to adore,  
Repeat His mercy and His love  
In anthems evermore.

5 O happy day! when 'tis fulfill'd,  
God shall to us descend,  
And rest within our temple here,  
And be our constant Friend.

---

### HYMN CXXII.

*The Passion.*

*From Matt. xxvi., xxvii. Mark xiv., xv.  
Luke xxii., xxiii. John xviii., xix.*

*Part I.*

**M**OUNT up, my soul, to Calvary,  
And look upon that cursed  
tree,  
Wonder, and love, and gaze;  
No less than God was crucify'd,  
No less than God was He that died  
To save a fallen race.

2 O come, and contemplate His pain!  
Search what His doleful woes  
contain!  
And find it if you can;  
In all His tribulation see  
How deep involv'd in misery  
And guilt, is fallen man!

3 Now to Gethsemane I will go,  
And trace His footsteps through  
and through,  
From Pilate to the tomb;  
There I'll divert my time away,  
Nor from the sacred subject stray,  
But make the cross my home.

4 On the holy mount He turns aside,  
Bids His Apostles there abide;  
Three with Him shall remain;  
See him heavy there, and sore  
amaz'd,  
Whilst human guilt He deeply  
trac'd,  
And depth of wrath divine.

5 And from the three a little space,  
Heavy and sad, He again with-  
draws;  
"Tarry here, watch and pray;  
"My soul is sorrowful to death,  
"Too heavy a weight for mortal  
breath,  
"I fear, I faint away."

6 There, prostrate on the ground, He  
prays,  
With deepest groans and strongest  
cries,  
"O Father, spare Thy Son;  
Let pass the bitter mortal cup,  
Find means that I mayn't drink  
it up,  
But yet Thy will be done.

7 "I took this body to fulfil  
Thy wise and deep mysterious will,  
And now resign to Thee  
Myself in all, for Thou art mine,  
One God, one nature, one design:  
So therefore stand with me."

## Part 2.

BEHOLD, the loving Father  
sends

A flaming angel, who descends  
And exhibits with speed  
Cordials unto the human frame,  
The Godhead wanted not the same,  
His pray'rs are heard in need.

2 Thrice He returns unto the three,—  
"O do not sleep, but watch with  
me!"

He goes and prays again;  
More vehement His prayers are  
found,  
His sweat, like blood, drops to the  
ground;  
Who ever felt such pain!

3 Now enters Gethsemane a throng  
With Judas traitorous among  
A strong, malicious band,  
With lanterns, torches, in the night,  
And warlike weapons, fearful sight!  
Who could, but God, with-  
stand!

4 Here Power immense, and Love  
divine,  
Beyond the reach of knowledge  
shine,

When, lowly as the Lamb,  
Bold He demands,—yet mild and  
meek,—

"What are ye about? Whom do  
ye seek?"

"'Tis JESUS."—"Here I am!"

## Part 3.

WHEN most abas'd His power  
is found,  
They, frighten'd, fall unto the  
ground;

His words with power go:—  
"If me you seek, make no delay,  
Let my disciples go away,  
For it is written so."

2 For thirty pieces He was sold,  
Of silver, not of shining gold,  
His great abasement see!  
The Almighty, Righteous, and the  
Wise  
Was valued at so low a price,  
To purchase peace for me.

3 Hark to the great tumultuous noise,  
All of one heart, all of one voice,  
In deep confusion cried,—  
"His blood be on us,—let Him  
die,  
And on all our posterity,—  
Let Him be crucified!"

4 Their envy Pilate can't assuage,  
The more he pleads, the more they  
rage,  
Nought but to crucify;  
Decrees eternal must have place,  
And one must suffer for the race  
Of fallen man, and die.

5 A murderer must be set free,  
And JESUS the only victim be,  
Poor sinners to redeem;  
No wounds, no pain, no common  
blood,  
But that of an Eternal God  
Will gain divine esteem.

## Part 4.

BEHOLD His sides with  
scourges torn,  
His temples with the pricking thorn,  
The veins in numbers flow;  
His numerous wounds of every hue,  
Some black or livid, red or blue,  
His deeper passion show.

2 They strip Him in the common  
hall,  
A band of soldiers 'bout Him fall;  
A purple robe they bring;  
And in His hand they put a reed,  
Which for a sceptre serv'd instead,  
And mock Him for their King.

3 Behold Him dumb before the  
throne  
Of Pilate, where He stood alone;  
Their questions He answers  
not:  
They accuse Him, but He doth  
confound  
Their accusations all around,  
And turns their guile to nought.

4 They mock, and scoff, and bow the  
knee,  
From Pilate's hall to Calvary;  
Ten thousands join in one  
To crucify the God of love,  
Whose praises all the heavens  
above  
Resound before the Throne.

5 Before they nail'd Him to the tree,  
They gave the bitter cup; but He  
Once tasted, and no more;  
'Twas vinegar and bitter gall  
They offered to the God of all,  
Whom cherubim adore.

## Part 5.

NOW to Golgotha, come and see  
Our Saviour nailed to a tree!  
Hark to the doleful sound;  
They knock, the piercing nails go  
through  
And cut the sinews as they go,  
And rend a fatal wound.

2 Between two thieves, as writ, He  
died,  
On either hand one crucified,  
Reviled Him even they;  
One prays and cries,—"Remember  
me:"  
He pardons—"With me thou shalt  
be  
In Paradise this day."

3 No sooner was He crucified  
But all His garments they divide,  
By common lot they fall;  
His coat, one piece, no seam con-  
tains,  
His Church in spirit one remains,  
And He the Head of all.

4 And those revile that pass the way,  
Wagging their heads and scoffing,  
say,—  
"Why should you there remain?  
Since to destroy, a power you claim,  
The Temple, and re-build the same,  
Deliver Thyself from pain."

5 High Priests and nobles, all agree  
To mock our Saviour on the tree,  
Describe His woes who can?  
The Scribes and Elders, all in one,  
Revile and scoff my God alone,  
Who dies for wretched man.

6 "Tell us, how canst Thou others  
save,  
Who for Thyself no power dost  
have?  
All Thy pretence is vain;  
Descend, dismount the cursed tree,  
And we shall then believe in Thee  
As Israel's King again.

7 "Where's now His boast, and strong  
belief  
That God's His strength and sole  
relief,  
Who call'd Himself His Son?  
Let Him unto His Son descend,  
And be in utter need His Friend:  
If He owns Him, all is done."

## Part 6.

THREE hours the sun doth hide  
its face,  
And darkness the creation trace,  
And then my Saviour cried,—  
"Eli, lama, Sabachthani?  
My God, why hast Thou forsaken  
me?  
I'm faithful now I'm tried."

2 He neither doth, in the utmost  
pain,  
Repine or murmur, or complain;  
"I thirst," He only cries;  
To fill their horrible design  
They dip a sponge in sour wine,  
Which offer'd, He denies.

- 3 With a loud voice He cries again,  
In the extremity of pain,  
The guilt of Adam's race;  
Then yielded up the ghost, and  
dies;  
The earth and seas and starry skies  
Groan, shudder, and amaze.
- 4 Behold, He bows His dying head,  
Which pricking thorns had torn  
and bled,  
And there He silent cries,—  
" 'Tis finished,—my woes and pain  
They are past, none ever shall re-  
main."  
And then my Saviour dies.

## Part 7.

BEHOLD! how trembles earth  
and main!  
The Temple veil is rent in twain!  
Now, with an open face  
A poor believer full may see  
The glorious mysteries that be  
Within that holy place.

- 2 The graves are open'd, bodies rise,  
And souls return from Paradise  
And join the former tye;  
The holy city round they trace,  
Appeared to some who knew their  
face,  
Then mounted up on high.
- 3 Another wonder here we see,—  
When dead and breathless on the  
tree,  
A soldier, with a spear,  
Pierces a deep, enormous, wide  
Incision in His sacred side,  
And looks upon Him there.
- 4 And from the wound runs out a  
stream  
Of blood and water, to redeem  
A sinful world from woe;  
A fountain this of grace divine,  
Where sinners wash their filth, and  
shine  
In robes as white as snow.

- 5 Our Lord then mounted up on high,  
And captive led captivity,  
And sits upon the throne;  
There turns eternal wrath aside,  
And intercedes there for His Bride,  
He intercedes alone.
- 6 Here death and hell, in all their  
sway,  
And sin, are conquer'd in array,  
Their force are now grown wan;  
On Calvary were wholly foil'd,  
The gates of hell, which once had  
spoil'd  
The Paradise of man.
- 7 Now thrones and powers high are  
foil'd,  
And Principalities are spoil'd,  
And ruined to the ground;  
MESSIAH shall the world control,  
And sweetly reign from pole to pole,  
And be for ever crown'd.

## HYMN CXXIII.

GUIDE me, O Thou great JEHO-  
VAH,  
Pilgrim through this barren land;  
I am weak, but Thou art mighty,  
Hold me with Thy powerful hand:  
Bread of heaven, &c.,  
Feed me now and evermore.

- 2 Open now the crystal fountain  
Whence the healing streams do  
flow;  
Let the fiery cloudy pillar  
Lead me all my journey through:  
Strong Deliv'rer, &c.,  
Be Thou still my strength and shield.

\* This beautiful Hymn is not to be found  
in either of the Author's English Collections;  
where it first appeared was in Whitfield's  
Collection, published in 1774. It is a trans-  
lation of a well-known Welsh hymn, in *Mor  
o Wydr*. If it had been translated before  
1772, when *Gloria in Excelsis* was published,  
no doubt it would have had a place in that  
Collection. What appears likely, therefore,  
is that Williams translated it specially for  
Whitfield's Collection. See Vol. I. *Hanes et  
Fywyr*, p. 15.

- 3 When I tread the verge of Jordan,  
Bid my anxious fears subside;  
Death of death, and Hell's destruc-  
tion,  
Land me safe on Canaan's side:  
Songs of praises, &c.,  
I will ever give to Thee.
- 4 Musing on my habitation,  
Musing on my heavenly home,  
Fills my soul with holy longing,  
Come, my JESUS, quickly come,  
Vanity is all I see,  
Lord, I long to be with Thee.



*Llythyr*

*Martha Philopur*

AT Y

PARCHEDIG PHILO EVANGELIUS,

EI HATHRAW.

YN MYNEGU IDDO EI PHROFIAD, A'R TESTYNAU HYN Y O'R  
YSGRYTHYR A DDAETH I'W CHOF, I GADARNHAU Y GWAITH  
RHYFEDDOL AC ANNGHYNEFIN O EIDDO YR ARLWYDD A  
YMDDANGOSODD AR ENEIDIAU LLUOEDD O BOBL YN SIR  
ABERTEIFI, AC SYDD YR AWRHON YN TAENU AR LED I  
EGLWYSI CYMYDOGAETHOL.\*

\* Cyboeddwyd y "Llythyr" hwn yn 1762; wedi ei hargraffu yn Nghaerfyrddin, gan E. Powell.



## Llythyr Martha Philopur.



FY NHAD A'M HATHRAW,

Yr ydych yn fwy cydnabyddus â gweithrediadau Duw ar fy ysbryd na nemawr ; nid yn unig o'r cystudd dwfn a gefais yn amser fy argyhoeddiad, ond hefyd o'r llawenydd a roddwyd i mi trwy gredu.

Fy ymddygiad yn nyddiau fy nghyflwr (gynt) fu yn hollol wrthwyneb i bob daioni ; balchder ac uchder ffroen oedd fy meistr bechodau ; ond pan welais olwg ar fy nhrueni (ac mi gofiad y lle, yr awr, y bregeth a'r pregethwr, tra f'wyf yn anadlu ar dir y rhai byw), gwelais ef mor ddwfn nas gallaswn gael un pleser is yr haul ; uwchben ffwrn o dân berwedig, tân a brwmstan, mwg pa un sydd yn esgyn i fyny yn oes oesoedd, yr oeddwn yn hongian ; nid oedd ond y mymryn lleiaf rhyngwyf a myned at ddiafiaid tros byth ; tebyg'swn fod sawyr uffern yn codi i fyny yn fy ffroenau ; mi anghofiais fwyta fy mara ; nid oedd ond tragywyddol boenau o flaen fy llygaid nos a dydd ; ofnau oedd yn fy amgylchu fel byddin ; nid oedd genyf olwg ar Dduw ond fel un yn llawn o lid, ac mai o lid yr oedd yn rhoddi i mi bob peth er fy nghynaliaeth ; nid oedd genyf olwg arall ar yr iachawdwriaeth yn NCHRIST ond fel chwaneigiad i'm damnedigaeth ; gant o weithiau, gwaeddais allan—O na buaswn ryw beth yn lle bod yn ddyd ; ocheneidiau a gruiddfanau oedd fy mara beunyddiol ; fy nghalon oedd ry galed i wyllo ; anobaith oedd yn rhuo o fewn i mi ddydd a nos. Mi roddaswn fyd yn llawn o bob trysorau, pe buasai yn fy meddiant, am obaith o faddeuant pechod ; pe buaswn ymerodres ar y byd, buaswn foddlon ddigon i ymadael â'r fath radd o uchder, ac i gardota fy mara ar deler cael fy ngwared oddiwrt hddammedigaeth. Nis gallaswn atal yn awr, ond yn gwaeddi allan yn fynych—Gwae fi ! Gwae fi ! Trugaredd ! trugaredd ! O Dduw ; darfu am danaf tros byth,— oedd fy llais bob dydd. Mi waeddais ac a lewygais tan bregethau heb allael atal ; fe'm herlidiwyd gan rai am hyn, ac fe'm cynghorwyd gan ereill i dewi ; ond fy nghystudd oedd yn enyn fwy-fwy ; a'r olwg fy mod i a'm holl gymydogion yn rhedeg tua thrueni, oedd fel tân yn llosgi, nas gallaswn lai na dangos iddynt y perygl yr oeddynt ynddo ; ac mor anhawdd

i mi yn awr dewi ag i wraig dewi wrth ddwyn dyn bach i'r byd, heb grio, ochain, a chwynfan : " canys enynodd tân, a mi a leferais â'm tafod." Ond O ! hyfryd awr ! pan ydoedd hi fwyaf cyfyng ar fy enaid, gwawriodd dydd arnaf ; cefais deimlo mewn munud fod fy mhechod wedi ei faddeu ; mi dderbyniais y gair mewn eithaf gorfoledd ; mwy gorfoleddus na phe buasai carcharor yn cael myned yn rhydd o tan y pren dyoddef ; prin y credais fod y fath beth yn y nef ei hun ag a deimlais i yn awr ynof fy hunan ; mi wn fod y cwbl ag oedd eisieu arnaf genyf : mae i mi ran, oes rhan dragywyddol yn y Duw byw. Ac wedi i mi gael yr olwg fendigedig hon (bendigedig meddaf drachefn), mae ynof ysbryd arall, nas meddwn arno erioed o'r blaen ; yr wyf yn ëon i ddweyd yn dda am Dduw wrth bob dyn ; oes, y mae rhwymau arnaf i'w ganmol o flaen pawb, a dywedyd yn dda am ei enw Ef o flaen y gynulleidfa fawr. Mi feddyliais lawer gwaith mai ynfyd y gwnaeth y wraig o Samaria i redeg i'r dref a galw yr holl bobl i wrando dyn ar lan y pydew, gan waeddi allan trwy'r holl dref yn ddi-ofn ac yn ddi-gywilydd—Deuwch, gwelwch ddyn a fynegodd i mi yr holl ddrwg a wnaethum—onid hwn yw'r CRIST ? Ond yn awr nid wyf yn rhyfeddu hyn, canys enynwyd tân ynwyf nas gallaf lai ei atal ef na hithau, heb fflamio.

Mi ryfeddais gynt pa mor ynfyd oedd Mair i ddwyn blwch ac enaint, a'i dori i eneinio traed ein HARGLWYDD ; ond yr awrhon yr wyf yn cyflawn ddeall ; mae yr un tân cariad wedi ei enyn yn fy ysbryd inau, ac nis gwn pa fodd gyntaf i'w ddangos ef at fy ARGLWYDD, neu ei bobl : O ! gariad !—cariad nid oes elfen fwy cynddeiriog, cryf, anorchfygol yn y nef a'r ddaear ! Fy anwyl athraw, yr hwn wyf yn ei garu, a thros ba un yr wyf yn gweddio nos a dydd, chwi wyddoch er pan gefais yr ysbryd hyn, o rydd-did o dan euog-rwydd pechod, fy mod yn moli ac yn bendithio Duw ar gyhoedd ; anhawdd i mi beidio dweyd yn dda am Un a wnaeth cymaint tros of fi ; mae fy ëondra i yn awr yn beth rhyfedd i mi fy hunan ; o ran mai cywilyddgar iawn yw fy nhymerau naturiol, ond yr awrhon yr wyf yn ëon, nid oes arnaf gywilydd i weddio yn mhlith mil o bobl, nid oes arnaf gywilydd i ganmawl Duw, a bendithio ei enw Ef lle bo myrdd yn edrych arnaf. Mi feddyliais mai ynfydrwydd oedd hyn, ond yn awr y gwelaf mai gallu Duw a doethineb Duw ydyw. Yr wyf yn gwneud fy ngoreu tra f'och chwi yn llefaru Gair y Bywyd i'm hatal rhag ofn rhwystro ereill (os gellir ei alw yn rhwystr), ond yn fynych yn methu atal fy nhafod rhag gwaeddi allan—Da yw Duw ; a Pha beth a wnaf ? Mae fy nghnawd a'm hesgyrn yn gorfoleddu yn y Duw byw. Y

funud gyntaf y caffwyf gyfleusdra, a chariad yr ARGLWYDD yn llosgi o fewn i mi, ac i minau roi rhydd-did i'm nwydau ysbrydol, mae yn naturiol i mi waeddi mawl yr ARGLWYDD, bendithio a chanmawl fy Nuw, llamu a neidio o orfoledd, yn y fath iachawdwriaeth fawr a hon, nas adnabum i erioed o'r blaen. Yn yr amser hyn mae'm cof yn fwy bywiol, ac Ysgrythrau yn llofi i mewn iddo yn anorphen ; oll at yr achos o folianu Duw am ei rad ras ; mae fy synwrau i yn fwy buan, yr wyf yn deall pethau Duw yn fwy goleu ; mae'm rheswm a'm holl nwydau mor gyngan yn eu trefn, fel yr wyf yn cymeryd gofal rhag dweyd na gwneud dim a roddo le i'm brodyr i dramgwyddo, na'r annuwiol gablu ; oni thrangwydda un, a chablu o'r lleill, am fod pechadur wedi ei wared o drueni yn moli ei Dduw a'i gwaredodd ef. Pan oeddwn tan ddyfn-deroedd argyhoeddiad, gwir yw, fod ofn yn gweithio cymaint ar alluoedd gwanaf fy enaid, ac yn gwneud fy nychymyg mor fyw ag yr oedd fel pe buasai yn gweled mil o bethau dychryn-adwy yn ei erbyn, ac yn rhoi niwl a tharth dros fy holl synwrau nes byddwn rai munudau heb adnabod fy hun ; ond pan gefais weled maddeuant pechod, mae fy holl ddealltwriaethau, fy nghof, fy nghydwibod, a'm serchiadau yn adnabod eu lle, ac yn gwybod fod ganddynt achos da mewn llaw, ac nad rhaid cywilyddio am efengyl CRIST. A phan y bo ereill yn tybied fy mod wedi ynfydu, ac wedi boddi fy serchiadau gwylltion trwy eu hanog hwynt yn mlaen megys o ynfydrwydd, y pryd hyn yr wyf inau yn gwybod y cyfan oll ;—pa fath fyd, pa fath gnawd, a pha fath Dduw da fyddaf yn folianu, pa fath elynion ysbrydol a ymadewais i â hwynt, a pha fath rydd-did a roddodd i mi o tan gadwynau caethiwed ; ac er bod hyn yn ffolineb gan rai, eto y mae yn ddoethineb yn mysg y rhai perffaith. Chwi wyddoch, anwyl syr, fod canoedd, ie, miloedd, ar wn i, yn berchen ar y fflam hon heblaw myfi. A fu cymaint o awdurdod Duw er ys oesoedd yn ei eglwys fendigedig ag sydd y dyddiau hyn ? Os na fu, nid rhyfedd fod hen weinidogion bron tramgwyddo am nas gwelsant erioed y fath beth o'r blaen ; gwaith anngyhnefin yw y gwaith hyn ; er pan ddechreuodd, mae lluoedd yn cael eu hargyhoeddi. Oh ! a ydyw'r dyddiau gerllaw pan esgoro Seion cyn ei chlafychu—cyn dyfod gwewyr arni, a'i rhyddhau ar Fab Mawr, mawr y rhyfeddod ! Pwy a glybu y fath beth a hyn ? Pwy a welodd y fath beth a hyn ? A enir cenedl ar unwaith ? Pan glafychodd Seion, yr esgorodd hefyd ar ei meibion. Mae hen ac ieuainc, ffol a chall, mawrion a thlodion, mewn rhai manau tan ryw brysurdeb am gyflwr eu heneidiau, y fath nas teimlassant erioed o'r blaen ; mae braw ac ofn wedi cwmpo ar ysbrydoedd y rhai mwyaf caled ac anystyriol. Oh ! pa

beth a ddaw o hyn? Hafddydd sydd yn gwawrio ar y wlad; mae amryw annuwiolion yn cael eu tynu ymaith o'r byd i wneud ffordd i efengyl yr Oen; mae yr Ysbryd a dywynodd yn awr ar yr eglwys fel tân yn llosgi—fe leinw lawer gwlad. Esiamlau gras Duw yn ereill yw y moddion cryfaf y dyddiau hyn i ddwyn y gwaith hyn gan yr ARGLWYDD yn y blaen. Mi ddymunwn fod yr holl fyd yn bresenol yn yr eglwys y mae Ef yn enyn. Ond ar ol y cwbl, y gwrthwynebiad sydd iddo gan amryw ddyinion a wnaeth i mi i chwilio yn fwy manwl yr Ysgrythrau a ydyw y pethau hyn felly, sef o Dduw, neu nad yw. Rhai proffeswyr crefydd, yn nghyda'r annuwiol, heb weled na chlywed am y fath beth o'r blaen, sydd yn ewynu allan eu cynddeiriogrwydd eu hunain yn erbyn y gwaith. Pethau newydd yw y rhai hyn i gyd; a phethau newydd i'r Iuddewon oedd yn cael eu gwneud gan ein HARGLWYDD IESU a'i Apostolion; a phethau newyddion fydd hyd ddiwedd y byd. A phan y dël y mil blyneddau, a'r IESU i deyrnasu gyda eu saint ar y ddaear, dyna'r pryd y bydd pethau mwy newydd fyth, ac na welodd llygad, ac na chlywodd clust, ac na ddaeth i galon dyn erioed i feddwl am eu bath. Pan fo Duw yn tywallt ei bresenoldeb i lawr, mae fel yn nyddiau'r Apostolion o ran anghredinwyr,—nis gŵyr dynion pa beth i ddweyd; rhai yn credu, rhai yn amheu; yr un dyn yn fynych yn credu ac yn amheu, yn yr un awr, pa un a bod y gwaith hyn o Dduw, neu nad yw; rhai yn cablu o'u gwir-fodd, fel cynt, gan ddweyd—llawn ydynt o win newydd; ac ereill yn erbyn eu cydwybodau—mae cythraul ganddynt; ond y gwaith hyn sydd mor eglur i fod yn waith Duw, fel y mae myrddiynau yn gorfod addef—diau mai gwaith Duw yw hwn. Wrth ganfod drwg-ddynion yn gadael eu pechadurus arferion,—y meddwon yn sobr, y tyngwyr yn ofni cymeryd enw Duw yn ofer, ond ei foli nos a dydd, yr anllad yn ddiwair, y balch yn ostyngedig, y grwgnachwyr yn hawdd eu trin, y cybyddion yn haelionus, y gwag-siaradwyr âg enw Duw ar eu tafodau ddydd a nos, yr erlidwyr yn caru pobl yr ARGLWYDD, y torwyr Sabbothau yn treulio'r dydd a'r nos yn ngwasanaeth eu Duw;—yn fyr, wrth weled cyfnewid moesau, tymherau, a bywydau, mae'r byd yn gyffredin yn gorfod addef, meddaf—mai Duw sydd genym. Ond am fod rhai yn dweyd yn erbyn yr Ysbryd sydd yn cydgerdded â'r gwaith o fendithio enw Duw, ac o dreulio amryw oriau yn nghyd i ganu ei fawl Ef, mi chwiliais yr Ysgrythyr-lân, ac fe'm cadarnhawyd, nid yn unig wrth yr effeithiau a ddywedais eisoes, a'r cyffelyb, megys sancteiddio'r bywyd, darostwng balchder dyn, a dyrchafu CRIST; ond mi gefais amryw destynau ag oeddwn yn tybied eu bod yn dal y fath ysbryd, tymher, a mwynhad, y fath orfoledd a'r fath ëndra

o folianu Duw, ag ydys yn ei gael rai prydiau yn yr eglwys yn bresenol. Ac yr wyf, garedicaf athraw, yn anfon atoch yr amryw destynau a ddaeth i'm cof; ac os oeddwn yn cyfeiliorni yn yr agoriad ohonynt, neu yn eu camgymwysio ataf fy hun, neu ereill, atolwg symudwch fy anwybodaeth ymaith trwy ddanfon ataf eu gwir gymwys agoriad.

I. Mi feddyliais am 1 Sam. x. 5, 6, 7, lle y dywedir fod llu o feibion y prophwydi—hyny yw, fel yr wyf yn tybied, astudwyr crefydd oedd yn perthyn i ysgol ag oedd yn Bethel gan yr Iuddewon—yn dyfod i waered o'r uchelfa, y lle addoliad oedd yno, ac o'u blaen hwynt nabl, a thympan, a phibell, a thelyn, a hwythau yn prophwydo—hyny yw, clodfori, canmawl, a bendithio Duw am ei holl ryfeddodau; canys ystyr y gair prophwydo yno, fel mewn amrywiol o fanau ereill, yw hyn—megys

II. Daeth i'm cof am 1 Sam. xix. 20, &c., lle y dywedir hefyd pan anfonodd Saul genadau i ddal Dafydd i Ramah, iddynt weled cynulleidfara'r prophwydi yn prophwydo; ac i'r un Ysbryd ddyfod ar genadau Saul, ac iddynt hwythau brophwydo, sef bendithio Duw; a'r ail genadau a brophwydasant, ac felly y trydydd hwythau, ac nid ymchwelodd un ohonynt yn ol. Yn olaf, Saul ei hun pan yr aeth yno a'u gweled hwynt, Ysbryd yr ARGLWYDD a syrthiodd arno, ac efe a ddihatodd ei wisgoedd, ac a brophwydodd gyda hwynt, ger bron Samuel, gan syrthio i lawr yn noeth yr holl ddiwrnod hwnw, a'r holl nos, nes i'r bobl ddweyd—A ydyw Saul hefyd yn mysg y prophwydi? Nis gallaf lai na meddwl fod yr ysbryd a gwmpodd ar gynifer o bobl yn y ddau le hwn, sef prophwydo neu foli enw Duw, yn flaen-ffrwyth, neu yn hytrach yn arwydd blaenllaw, y deuai torfeydd i'w fendithio Ef tan y Testament Newydd; er y gallai fod rhai yn eu plith, fel Saul, mor wresog a'r penaf tros y tro hyny, ond heb wreiddyn da; yr hyn nid yw yn un wrthddadl yn erbyn gwaith yr ARGLWYDD.

III. Daeth i'm cof 2 Chron. xx. 22, 27, 28. Pan oedd Jehosaphat mewn cyfyngder mawr am fod meibion Ammon, Moab, a thrigolion mynydd Seir yn dyfod i ryfela i'w erbyn, a holl Israel, eu meibion a'u merched, eu gwragedd a'u rhai bach, yn sefyll ger bron yr ARGLWYDD; yna y cyfododd prophwyd i'r ARGLWYDD, ac a safodd yn y canol, gan ddweyd—nid eiddoch chwi yw y rhyfel ond Duw; yfory, ewch yn eu herbyn, nid rhaid i chwi ymladd yn y rhyfel hwn; sefwch yn llonydd, a gwelwch ymward yr ARGLWYDD. A Jehosaphat a osododd gantorion i'r ARGLWYDD, a rhai i folianu pryderthwch sancteiddrwydd pan aent allan o flaen y rhyfelwyr, ac i ddywedyd—Clodforwch yr ARGLWYDD, oherwydd ei drugaredd a bery yn dragywydd. Ac yn yr amser y dechreuasant y gân

a'r moliant, y rhoddodd yr ARGLWYDD gynllwynwyr yn erbyn meibion Ammon, a Moab, a thrigolion mynydd Seir, a hwy a laddasant bawb eu gilydd. A ydoedd hyn ddim yn dal allan y cai'r seintiau, tan y Testament Newydd, ysbryd a genau fendithio enw'r ARGLWYDD mewn ffydd; y caent eu holl elynion ysbrydol, y byd, y cnawd, a Satan i lawr tan eu traed? Y bobl hyn a folianasant yr ARGLWYDD cyn a chweddi darostwng eu gelynon. Pa'm nas gallwn ninau wneud yr un modd, canys mae'r addewid gyda ni fel hwynt hwythau, a llawer mwy.

IV. Mi feddyliais eilwaith am 2 Sam. vi. 20, 23, lle yr oedd arch cyfamod yr ARGLWYDD, yr hon oedd yn gysgod o GRIST ac o'i efengyl, yn cael ei dwyn o dŷ Obededom i'w lle barotowyd iddi yn Seion. A Dafydd a ddawnsiodd o'i blaen hi â'i holl egni, ac er mwyn gwneud ei hun yn fwy ysgafn at ddawnsio yn hwylus, fe ddiosgodd rai o'i ddillad, ac a chwareuodd yn ei ephod liain—hyny yw, gwisg o liain ag oedd tan y gwisgoedd ereill; a phan ddirmygodd merch Saul ef, gan ddweyd—O! mor ogoneddus oedd brenin Israel heddyw, yr hwn a'i diosgodd ei hun heddyw yn ngwydd llawforwynion ei ARGLWYDD, fel un o'r ynfydion, gan ddiog ei hun yn gywilyddus. A Dafydd a ddywedodd wrth Fichael—Ger bron yr ARGLWYDD, yr hwn a'm dewisodd i o flaen dy dad di, ac o flaen ei holl dŷ ef, gan orchymyn i mi fod yn flaenor ar bobl yr ARGLWYDD, ac ar Israel, y chwareuais; a mi a chwareuaf o flaen yr ARGLWYDD. Byddaf eto waelach na hyn, a byddaf ddirmygus yn fy ngolwg fy hun, a chyda'r llawforwynion (am y rhai y dywedaist wrthyf), y'm gogoneddir. Am hyny ni bu i Fichael, merch Saul, etifedd hyd ddydd ei marwolaeth. Yr wyf yn methu gwybod pa faint lai gorfoledd, llawenydd, a mawl sydd i fod yn nghalonau'r saint tan y Testament Newydd am fod Mab Duw wedi dyfod i drigo yn mhlith ei bobl, sef i Seion ysbrydol, nag oedd yn nghalon Dafydd am fod yr arch yn dyfod i'r Seion ddaearol? A pha'm y dywedir yn erbyn y gorfoledd hyn i dori allan mewn canu, bendithio, llamu, curo dwylaw yn nghyd, a'r cyffelyb, megys pe bai cyrph dynion o ddim defnydd yn awr tan yr oruchwyliath newydd, ond gofalu at eu hangenrheidiau eu hunain?

V. Pan oedd nerthoedd y byd a ddaw wedi disgyn arnaf fi a'm cyfeillion un tro, fe ddaeth i'm meddwl pa fath ddawnsiau oeddid yn wneud tan yr Hen Destament, os nid neidio, canu, moli, a bendithio am lwyddiant gweithredoedd yr ARGLWYDD, a pha fodd y mae arferyd hyny yn awr tan yr efengyl ond canu, moli, bendithio, llamu o orfoledd am ddatguddiad o'r iachawdwriaeth yn NGRIST; canys peth ofnadwy yw meddwl mai'r dawnsiai cyffredin, lle mae meddwi, tyngu, canu caniadau maswedd, sydd i fod tan yr efengyl yn lle y

rhai nefol hyny o tan y gyfraith. Yr Ysgrythyr am ddawnsiau yw y rhai hyn a'r cyfryw—Salm cxlix. 3: Molant ei enw Ef ar y dawns. Salm cl. 4: Molwch Ef â thympan ac â dawns. Jer. xxxi. 13, 14: Yna y llawenycha y forwyn yn y dawns, a'r gwŷr ieuangc a'r henafgwyr yn nghyd: canys myfi a droaf eu galar yn llawenydd, ac a'u dyddanaf hwynt, ac a'u llawenyachaf o'u tristwch. Galar. v. 15: Ein dawns a drodd yn alar. Na flined fy nhafof byth i foli fy Nuw.

VI. Wrth weled llu o'm brodyr yn cael y maes ar anghrediniaeth, brenin pechod tan yr efengyl, mi feddyliais am y gorfoledd a'r dawnasio ar ol enill buddugoliaeth tan y gyfraith; megys [Exod. xv. 20. A Miriam, y brophwydes, chwaer Aaron, a gymerodd tympan yn ei llaw, a'r holl wragedda aethant allan ar ei hol hi â thympanau ac â dawnsiai. A dywedodd Miriam wrthynt, Cenwch i'r ARGLWYDD; canys gwnaeth yn ardderchog: bwriodd y march a'r marchog i'r môr. Gwelwch hefyd Barn. xi. 34; 1 Sam. xviii. 6, &c. Mwy gwaredigaethau na'r rhai hyn a roddodd yr ARGLWYDD i ni. Nid o'r Aipt, neu o tan iau'r Ammoniaid, y gwaredodd Duw ni, ond o ddinystr tragwyddol: ac y mae i ni folianu Duw yr un wedd a hwythau, yn unig gadael ein tympanau, ein telynu, a'n hoffer cerdd ar ol, y rhai y pryd hyny oedd yn dal allan y diffyg o dywalltiad Ysbryd yr ARGLWYDD. Ond pan dywalltwyd y rhodd fendigedig hon, sef addewid y tadau, mae'r Ysbryd o fewn yn ddigon abl i roddi yr holl ddyn, gorph ac enaid, i folianu yr ARGLWYDD, heb un offeryn cerdd ond y moddion gras ordeiniodd yr ARGLWYDD—sef pregethu, gweddio, canu, y sacramentau, a'r cyfryw.

VII. Yn y Caniadau cefais yr eglwys yn mwynhau cymaint o gariad yr ARGLWYDD, ac yn dweyd—Cyneliwch fi â photelau, cysurwch fi âg afalau; canys claf ydwyf fi o gariad—Can. ii. 5. Mi gredais fod Solomon yn meddwl am ddyddiau'r efengyl pan y cai cyflawnder yr Ysbryd ei dywallt ar y ffyddloniaid; ac os oes yma ryw droell-ymadrodd (fel y dywedir), nid yw hyny ddim yn ein rhwystro ni i greu nad yw cariad yr ARGLWYDD yn rhai o'r duwiolion yn cael effeithiau rhyfedd ar eu cyrph hwynt, fel y mae rhyw glefydau yn cael, i ba rai y cyffelybiaethir ef.

VIII. Wrth gael y fraint o fod un waith yn mhlith torf o rai yn moli yr ARGLWYDD, daeth i'm meddwl am yr holl addewidion sydd ar hyd y Prophwydi a'r Salmau o floeddio, canu, dawnasio, crechweni, curo dwylaw yn nghyd, neidio, a'r cyffelyb, mai addewidion oeddynt ag oedd i gael eu cyflawni tan y Testament Newydd; a pha faint bynag o osod pethau ysbrydol allan oedd gan y Prophwydi trwy bethau cnawdol ac allanol, eto bod y fath addewidion a'r rhai hyn yn dangos

fod cysur, heddwch, cariad, mwynhad, a chymundeb â Duw ar yr enaid i'w gael, fyddai mor fawr ag nas gallai lai na dangos mewn arferiad corphorol ar rai credinwyr. Yr Ysgrhythrau yw y rhai hyn, a'r fath—Esa. xlii. 11: Caned preswylwyr y graig, bloeddiant o ben y mynyddoedd. Rhoddant ogoniant i'r ARGLWYDD, a mynegant ei fawl yn yr ynys-oedd. Seph. iii. 14: Merch Seion, cân; Israel, crechwena, a gorfoledda â'th holl galon. Zech. ii. 10: Cân a llawenyha, merch Seion: canys wele fi yn dyfod; a mi a drigaf yn dy ganol di, medd yr ARGLWYDD. Salm xlvii. 1: Yr holl bobl, curwch ddwyllaw. Esaiah hefyd xxxv. 6, ac amryw o'r fath.

IX. Zech. ix. 14, 15 sydd yn cadarnhau fod yr Ysbryd a ddisgynodd ar amryw o ddynion yn ddiweddar o DDUW: A'r ARGLWYDD a welir trostynt, a'i saeth Ef a â allan fel mellten: a'r ARGLWYDD DDUW a gân âg udgorn, ac a gerdd â chorwyntoedd y dehau. ARGLWYDD y lluoedd a'u ham-ddiffyn hwynt: a hwy a ysant ac a ddarostyngant geryg y dafl; yfant a therfysgant megys mewn gwin, a llenwir hwynt fel meliau, ac fel conglaur allor. Nis gallaf weled llai nad prophwydoliaeth yw hon am ddyddiau'r efengyl.

X. Mi wn fod genym fwy gwaredigaeth na hono o Babilon, ac eto clywch y fath orfoledd oedd am hon, Salm cxxvii. 2: Yna llanwyd ein genau â chwerthin, a'n tafod â chanu, &c.

XI. Yr wyf yn cael lle i gredu fod prophwydoliaeth Joel ii. 28, 29, heb gael ei chyflawni yn gyfan hyd y dydd heddyw, er iddi mewn rhan gael ei chyflawni yn ngwyl y Pentecost, yn yr ail o'r Actau, ond yr ydoedd hi yn cyrhaedd yn mlaen yn mhellach fyth, ac nis gwyddai Pedr ei hunan wrth ei phregethu y pryd hyny ei bod yn cyrhaedd at y Cenhedloedd. "A bydd ar ol hyny y tywalltaf fy Ysbryd ar bob cnawd, a'ch meibion a'ch merched a brophwydant, eich henuriaid a welant freuddwydion, eich gwyr ieuangc a welant weledigaethau: ac ar y gweision hefyd ac ar y morwynion y tywalltaf fy Ysbryd yn y dyddiau hyny. A gwnaf ryfeddodau yn y nef-oedd; ac yn y ddaear—gwaed, a than, a cholofnau mwg." Di-ddafl mai am ddyddiau'r efengyl y mae hyn eto; yn prophwydo y bydd meibion a merched—hyny yw, y bydd y cyfryw yn canmawl ac yn bendithio Duw ar gyhoedd, ac nid yn rhâgddweyd pethau i ddyfod. Y breuddwydion a welai'r henuriaid oedd teimlo pethau melusach nag a gawsant erioed o'r blaen, neu a feddylasant fod i gael; pethau, y rhai prin y credant (am mor fawr ydynt) eu bod yn sylweddol,—pethau anhygoel i'w rhesymau cnawdol. Yn fyr, pethau oedd yn caud allan ac yn cloi i fyny eu holl synwyrâu cnawdol—doethineb y byd hwn—fel y mae cwsg naturiol yn cloi, i fyny y synwyrâu naturiol, ac yn dadguddio i'r rhan ysbrydol (ag nad yw fyth

yn cysgu) fawrion ac anchwiliadwy olud CRIST. Ac am y tARTH, TÂN, a MWG, yr wyf yn meddwl mai nid yn unig yr arwyddion hyny a fu cyn croeshoeliad ein HARGLWYDD, a'r cyfnewidiadau rhyfedd a ddygwyddodd yn y byd ar ol hyny ydynt; ond hefyd (os nid yn benaf) effeithiau yr Ysbryd hyn a gwymppodd ar yr eglwys efengylaidd ydoedd, ag sydd i'w weled mewn amser o dywalltiad mawr ohono hyd ddiwedd y byd. O ran fel y mae tARTH, TÂN, a MWG yn ofnadwy ac annyoddefol, felly y mae'r fath effaith yn cyd-gerdded gydag Ysbryd y Duw byw, pan y tywelltir Ef mewn cyflawnder mawr, ag sydd yn rhoi dychryn, arswyd, ac ofn ar y byd annuwiol; ac sydd hefyd yn annyoddefol i rai sydd yn byw yn eu pechod, fel y maent yn ffoi oddiwrtho fel oddiwrth dARTH, TÂN, a MWG.

XII. Pan ddaeth mam ein HARGLWYDD at Elizabeth, fe neidiodd y plentyn yn ei chroth hi; mwy dyled sydd ar ddynion o faintioli a rheswm i orfoleddu, a llamu am waredigaeth mor fawr ag o drueni tragwyddol; arwydd oedd hyn y byddai'r gwaredigion i lamu wrth glywed llais Iachawdwr y byd.

XIII. Marc ii., Matt. xxi., &c., &c., sydd yn rhoi i ni orfoledd annhraethadwy mewn torf o ddysgyblion yn canlyn ein HARGLWYDD i Jerusalem, gwrs 8. "A llawer a daenasant eu dillad ar hyd y ffordd: ac ereill a dorasant gangau o'r gwydd, ac a'u taenasant ar y ffordd. A'r rhai oedd yn myned o'r blaen, a'r rhai oedd yn dyfod a'r ol, a leasant, gan ddywedyd, Hosanna, Bendigedig fyddo yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr ARGLWYDD." "Bendigedig yw y deyrnas sydd yw dyfod yn enw ARGLWYDD ein Tad Dafydd: Hosanna yn y goruchaf." Mor angenrheidiol yw i rai i osod allan ei glod Ef yn y dyddiau hyn, a'i ymweliad â'i eglwys, fel pe tawai plant dynion, fe lefai hyd yn nod y ceryg allan mai da yw Duw.

XIV. Mi gefais fy nghadarnhau fod i wragedd i weddio Duw, ac i ganu mawl, i glodfori ac i seinio allan ei glod Ef yn yr eglwys ar gyhoedd, oddiwrth 1 Cor. xi. 5. "Eithr pob gwraig yn gweddio, neu yn prophwydo yn bennoeth, sydd yn cywilyddio ei phen." Wrth hyny peth arferol oedd fod merched a gwragedd yn gweddio, ac yn prophwydo, sef moli, canu, bendithio, canmawl Duw ar gyhoedd, yn ddigywilydd, lle clywai yr holl eglwys. Ond yr hyn y mae Paul yn ddweyd i fod yn fwy trefnus a deheu ydoedd, iddynt wisgo am eu penau wrth wneyd hyn, ac nid yn bennoeth fel y gwyr; megys arwydd o'u creadigaeth radd yn is, a choffadwriaeth mai hwynt yw y llestri gwanaf, ac oedd flaenaf yn y cwmp: ond gormod caethiwed yw i greaduriaid y bydd myrddiynau o honynt yn y nef, ac y daeth y Duw mawr ei Hunan i groth



un o honynt, ac a ymddangosodd ei Hunan i un arall gyntaf ar ol ei adgyfodiad—rhai o ba rai a'i canlynodd Ef hyd y groes—gormed caethiwed i'r rhai hyn oll, meddaf, i gael eu rhwystro i ganmawl a chlodfori Duw yn gyhoedd yn yr eglwys.

XV. Mae yr un fath o sêl mewn canu, gorfoleddu, a benthio yr ARGLWYDD, yn y Dat. xix. amgwymp Babilon fawr, ag sydd yn cael ei erlid fel ynfyrwydd yn y dyddiau hyn. Yno yr ydys yn dyblu y gân, gan ddweyd drachefn a thrachefn, Haleliwia. Nid yw gorfoledd y credinwyr ddim llai, canys gweled y maent fod hen Babilon o anghrediniaeth a phechod wedi cwmpo, ac yn rhoddi'r clod i Dduw ac i'r Oen.

XVI. Ysgrhythrau ereill ddaeth i'm cof, megys Luc vi. 22 : Gwyn eich byd pan y'ch casao dynion er mwyn fy enw i, a hwy yn gelwyddog ; byddwch lawen a hyfryd, a llemwch—hyny yw, neidiwch o orfoledd. A Mat. iii. : Mae un yn dyfod ar fy ol i a'ch bedyddia chwi â'r Ysbryd Glân ac â thân. Gobeithio yr wyf y daw profiadau'r saint yn well agoriadau ar yr Hen Destament a'r Newydd na dim a ysgrifenydd eto. Anwyl Syr, yr wyf yn dybenu gan dymuno arnoch i'm tywys allan o bob cyfeiliorni mewn profiad neu agoriad y testynau o'r blaen.

Eich ufudd wasanaethferch,

MARTHA PHILOPUR.



*Ateb*

*Philo Evangelius*

I

MARTHA PHILOPUR.\*

\* Caerfyrddin : Argraffwyd gan Rys Thomas a J. Ross. 1763.



## *Ateb Philo Evangelius.*

---

**M**I dderbyniais eich llythyr; ac nis cefais ynddo ddim yn groes i'r gwirionedd. Ei fai mwyaf oedd bod yn fyr o agoriad yr amryw destynau hyny o'r Ysgrythyr, a diffyg rhagor o'r fath o'r Testament Newydd; rhai hanesion eglwysig a rhesymau fuasai yn addas fod ynddo, gan i mi ei osod ef allan i'r byd; ond am ei fod wedi ei ysgrifenu gan fenyw, nis dysgwyliais gymaint am y fath bethau. Nis dymunwn sefyll i fyny dros un cyfeiliornad, na dim ag sydd yn gyfeiliornus; ond pa bryd y bu gwaith Duw yn y byd heb i Satan osod ei fys ynddo? nis gwn i. Mae cymysg yn y cyfan is yr haul. Nid yw pregethau na phregethwyr heb ynddynt gymysg o oleuni a thywyllwch—gwirioneddau pur, a rhai camsyniadau. Mae'r gelyn wedi hau efrau yn yr un maes ag y mae Duw yn hau yr had da; a rhaid yw, er mwyn y gwenith, i ado'r efrau yno hefyd. Mae tymherau a nwydau gwir gredinwyr yn ymgymysg â phur fwynhad o Ysbryd yr ARGLWYDD. Ceir cariad natur yn fynych yn mynu ei le yn y galon yr enynodd Duw ei gariad ynddi. Mae casineb at bersonau dynion yn rhy fynych yn ymgymysg â chasineb at eu pechodau hwynt. Eglwys Corinth ei hunan sydd ddigon o esiampl o'r fath gymysgedd a hyn, yr hon oedd un o'r eglwysi penaf, o ran doniau ysbrydol a mwynhad o Dduw, ag a enwir yn y Testament Newydd; eto gwelwch y fath waith erchyll oedd Satan wedi ei weithio yma—pechodau llid, malais, a chenfigen; pechodau undeb cyfeillgarwch a chariad, pechodau eiddigedd a chenfigen, pechodau ymraniad a phartiaeth, pechodau gloddest a gormodedd, yn nghydag amrywiol iawn o feiau anafus, y rhai oedd Satan yn eu hau ynddi fel efrau yn mysg gwenith. Ond gwelwch y fath farn dda oedd gan St. Paul am yr eglwys hon trwy'r cwbl. 1 Cor. i. 4—7, &c. “Yr ydwyf yn diolch i'm Duw bob amser drosoch chwi, am y gras Duw a rodded i chwi yn NGHRIST IESU; am eich bod yn mhob peth wedi eich cyfoethogi ynddo Ef, mewn pob ymadrodd a phob gwybodaeth; megys y cadarnhawyd tystiolaeth CRIST ynoch, fel nad ydych yn ol mewn un dawn, yn dysgwyl am ddadguddiad eiu HARGLWYDD IESU GRIST.” Ac nid yw ddim digalondid i ni pan y bo Duw yn gweithio ar y ddaear, wrth weled llawer o efrnu yn mhlith ei

wenith Ef;—os bydd rhai yn cyfeiliorni mewn barn, rhai mewn bywyd, rhai mewn tymherau; rhai yn syrthio ymaith yn lân; rhai yn cysgu, wedi bod unwaith yn effro; rhai yn cael eu traddodi trwy lawer iawn o brofedigaethau; nid yw hyn ond pethau sydd raid i ddysgwyl, a phethau a fu yn yr oesoedd o'r blaen, ac a ddaw eto ar ol hyn; ac nid oes le i ni feddwl yn gul am waith yr ARGLWYDD o'i blegyd. Ac eilwaith, os bydd rhyw annhrefn mewn eglwysi ag y bo Duw yn tywynu ei wyneb arnynt, pwy ryfeddod yw hyn chwaith? Onid oedd hyn hefyd yn eglwys Corinth, pan oedd pawb yn awyddus i ddoniau, yn enwedig i'r dawn o lefaru â thafodau, am eu tyb o'i fod yn anrhydeddusach nag un o'r lleill (er, mewn gwirionedd, yn llai); byddai llawer yn llefaru â thafodau ar un waith, heb un yn deall nac yn gwrandao ar swm y llall, yr hyn mae St. Paul yn ddweyd ei fod yn llai adeiladol nag i bawb brophwydo. Yn ganlynol, nid yw bod rhyw faint o annhrefn,—nwydau natur yn ymgymysg â nwydau gras,—un gronyn i brofi nad o'r ARGLWYDD y mae'r gwaith a ddechreuodd yn ddiweddar ar eneidiau lluoedd o bobl ifaingc ag sydd eto yn myned rhagddynt yn llwyddianus. Ac y mae yn rhy gynefn bod efrau yn dyfod i mewn yn yr amser y bo Duw yn gweithio yn awdurdodol yn mhlith ei eglwysi; ac y mae Ef yn cyd-ddwyn â mil o fan gamsyniadau yn y bobl ag fydd â'u holl galon yn ei garu Ef, heb guddio ei wyneb oddi wrthynt, yn fwy buan nag y cyd-ddyga Efe â chlaearineb a marweidd-dra y cynulleidfaoedd mwyaf trefnus a dysgyblaidd oddi allan. Megys y mae Duw yn danod i eglwys Ephesus, ar ol ei chanmawl am ei gwybodaeth a'i manyldra i chwilio allan alwad gweinidogion, ac am eu hamynedd a'u dyoddefgarwch, &c., fod un peth yn eisieu ag oedd o flaen Duw yn fwy na'r cwbl, sef ei bod hi wedi ymadael â'i chariad cyntaf. A phwy ryfeddod fod cymysg o ras a natur, o dda a drwg, o wenith ac efrau, mewn eglwysi y bo Duw yn tywynu ei wyneb arnynt—o ran yn 1, Fod Satan am wneud ei oreu ar dynu dryg-air ar waith yr ARGLWYDD. Mae'r diafol yn ysbryd cyfrwys—yn deall holl nwydau a serchiadau yr enaid, y cydsyniad rhwng cnawd ac ysbryd, gweithrediadau gras a llygredigaeth, y tueddiadau cryfaf a'r gwrthdychau mwyaf cymhwys iddynt; am hyny, y mae ganddo le da i wneud cynyg i yru pobl yr ARGLWYDD i gyfeiliorni. Yn 2, Nid oes le i ddysgwyl llai nas bydd cymysg yn yr eglwysi, o ran pan y bo awelon o argyhoeddiad neu ddyddanwch yn disgyn fel gwlaw ar y gwir dduwiol, mae swm y gwynt yn cwrdd â'r rhagrithwyr hefyd, ac yn gweithio rhyw ychydig ar eu nwydau naturiol; ac yna y maent fel llong o flaen y gwynt—heb un *balast*, ond dan gyflawn hwyliau, ac

mewn perygl o gael ei briwio gan y creigydd, neu ei gyru i mewn i aberoedd amherthynasol. Yn olaf, Pan y bo nwydau'r enaid wedi cael eu llanw yn y gwir dduwiol, y mae, feallai, nwydau naturiol yn cymeryd gormod rhan o'r gwaith, ac yn dwyn bwyd y dyn ysbrydol oddiar ei fwrdd, ac fel hyn yn peri i'r ARGLWYDD weithiau gilio ymaith. Ond nid yw hyn oll a ddwedais un gronyn yn erbyn y gwaith annghynefn o-eiddo'r ARGLWYDD a ddechreuodd yn Neheudir Cymru, mwy nag yr oedd rhai pethau beius yn eglwysi Asia yn nod mai nid gwaith Duw oedd yno. Digon gwir mae'r dull ag y mae Duw yn dwyn y gwaith yma yn mlaen yn ffordd gyfan newydd yn y dyddiau hyn, a rhywbeth yn fwy syn a rhyfeddol, am fod Duw yn ddeythr iawn yn y wlad er's blynyddau hirion;—Ysbryd yr ARGLWYDD oedd wedi ymado â chynulleidfaoedd cyfain; gweinidogion oedd yn cael pregethu i'r ceryg; marweidd-dra ysbryd, caru'r byd, sych-wrthddadleuon, hunan-dyb, gofalon annghymedrol, a myrdd o bryfed gwenwynig o'r fath oedd fel locustiaid yn difa'r wlad o'u blaen. Am ereill yr oedd yr holl ymddyddan,—ereill oedd y bobl feius, a phrin neb fyddai yn beio arno ei hun; casineb, malais, a rhagfarn oedd yn teyrnasu; nos, nos, oedd trwy'r holl eglwysi, er fod udgyrn lawer, a rhai o'honynt yn udgyrn arian, nid oedd braidd ddyn yn clywed eu llais o Gaerdybi i Gaerdaf. Y cyfamser hyn daeth llu o locustiaid i fyny o'r pydew diwaelod—pobl i'w hofni, o ddysgeidiaeth dynion. Fe wnaeth ysgolion weinidogion heb ddawn, heb broffion o ras, heb sylmrwydd, heb galon ddrylliedig, heb ffydd—y rhai'n, wedi eu gosod gan eu rhieni yn brentisiaid mewn ysgolion i ddysgu duwioldeb, fel gŵr i ddysgu crefft, a aethant allan yn heidiau i'r byd, ac a ymlusgasant i mewn fel seirph, tan yddu eu cynffonau, i deiau, sef eglwysydd, er mwyn budd, elw, neu gynhaliaeth y corph, ac ymborthasant ar gnu' y praidd, heb ofalu am yr eneidiau. Hyn oll a roddodd olwg druenus, i ddyn â'i lygaid yn agored, ar holl Gymru. Ond O, Martha, Martha! yn awr fe wawriodd y dydd! Fe anadlodd yr ARGLWYDD ar yr esgyrn sychion, ac y maent yn ymsymud: wele dorfeydd yn cludo at Air y Bywyd; pwy a'u rhif hwynt? Mae'r Dehau a'r Gogledd yn mofyn un Brenin, a'i enw yn un—IESU, Frenin y saint! Pan cododd Haul Cyfiawnder â meddyginiaeth yn ei esgyll—can's ehedeg atom a wnaeth o'r uchelder yn ddiarwybod ryfedd—fe oleuodd y wlad gan ei lewyrch; dysgwyliaid amryw weinidogion oedd gwel'd yr awr. Yr oedd mil o och'neidiau am i'r Haul godi. O'r diwedd daeth; ein galar a drodd yn ddawns. Gwrandao Gair y Bywyd sydd fwy melus na ffair a marchnad; mae'r chwech dydd gwaith wedi eu troi yn Sabboth, ac y mae'r Sabboth yn cyrhaeddo.

un pen i'r flwyddyn i'r llall. Yr iechydwrriaeth yn NGRIST yw'r unig bleser i luoedd o bobl. Mae iengctyd y wlad wedi myned yn ddyeithr i wisgoedd ardderchog; mae cwsg wedi ffoi, mae blys at fwyd a diod wedi ei lyncu i fyny mewn mawl a chaniadau; mae hymnau, salmau, ac odlau ysbrydol yn unig ymborth cariad-wleddoedd y saint; mae anrhydedd ac enw wedi eu hannghofio; gweddïau, pregethau, ac yn enwedig canu mawl i Dduw, sydd yn dadseinio'r wlad. Mwy rhyfeddod yw hyn na'r daeargrynfâu, ac na holl ryfeloedd y byd. O, haf-ddydd! fe ddaeth, fe ddaeth! Yr oedd teiau a chapeli wedi eu hadeiladu i'w roesawu Ef; yr oedd Beiblau yn llanw y wlad erbyn iddo ddechreu, i gyfarwyddo'r pererinion adref; yr oedd salmau, hymnau, a chaniadau yn addfed erbyn i'r wawr dori; yr oedd gweinidogion â'u bronau yn llawn pan gynta' yr esgorodd yr efengyl ar ei meibion. O, Martha, cân! onid oedd gweinidogion yn gweddïo am hyn? Onid oedd pob pwlpudd yn gwaeddi allan, Tyred, ARGLWYDD, tyred? Pa'm, ynte, cytyd neb yn awr i'w erbyn? Atebiad gweddïau yw hyn oll. Mi glywais Philologus, yn fynych, o flaen canoedd o bobl yn dywedyd, Gad i'r amser ddyfod, ARGLWYDD, pan y llawenycho'r forwyn yn y dawns, a'r henafgwyr, a'r gwyr ifaingc yn nghyd; ac eilwaith, Pa bryd y daw ein meibion a'n merched i brophwydo, a'n henuriaid i weled breuddwydion, a'n gwyr ifaingc i weled gweledigaethau, ac i'th Ysbryd gael ei dywallt ar y gweision ac ar y morwynion fel tARTH, tÂN, a MWG? A phryd arall y clywais Philologus—yn wresog, debyg'swn ni—yn dweyd (er i'm gamsynied) bod Jerusalem yn ben moliant ar y ddaear; ac eilwaith, ebe efe, Crea, ARGLWYDD, nefoeddnewydd a daear newydd, fel na bo'm ni i gofio y rhai cyntaf, na meddwl am danynt byth mwy; gwna in' hefyd lawenhau a gorfoleddu yn dragywydd yn y pethau a greost Ti, can's dy addewid Di yw creu Jerusalem yn orfoledd, a'i phobl yn llawenydd. Ond rhyfeddod mawr i mi ar ol i'r ARGLWYDD ddyfod â hyn i ben, i'm glywed Philologus yn pregethu yn erbyn hyn yn mhen ychydig ddyddïau; y peth oedd mor ynyd i'm golwg a phe gweddïasai un am dywydd teg, a phan y deuai, grwgnach yn union am i'r haul dywynu. 'Nawr deallais nad oedd Philologus yn deall pa beth oedd ef yn weddio am dano, gan iddo yn uniongyrchol wrth-sefyll yr hyn oedd ei dafod yn waeddi am gael, neu ynte oedd yn euog o ragrith annyoddefol o flaen Duw; ac nis gall'swn lai na meddwl am yr Iuddewon, y rhai a lefant—Pa bryd y daw yr ARGLWYDD i'w deml? a Malachi yn eu hateb—“Pwy a ddichon ddyoddef dydd ei ddyfodiad Ef? can's y mae Ef fel tÂN y toddydd ac fel sebon y golchyddion.” Yr unig beth sydd i'w ryfeddu yn y dyddïau hyn yw, bod Duw wedi ym-

weled â rhai mor annheilwng; ond nid yw yn rhyfeddod pan ddaeth Duw i waered i'r byd, ei fod Ef yn gweithio fel y mae. Mae rhesymau, mae hanesion eglwysig, ac Ysgrhythrau yn rhoi lle i ni gredu nad un llaw, ond llaw Duw, a weithiodd y gwaith presenol.

1. Pa reswm gwell, a pha arfer mwy cyffredin, na son llawer am y sawl a garom? Mae hyd yn nod ei enw yn hoff ac yn anwyl, ei fawl a'i glod fydd yn wastad ar ein tafod; ac nid oes nemawr yn beio ar yr arfer hyn. Ond pa faint mwy addas yw canu, moli, bendithio, a son llawer am yr ARGLWYDD gan y rhei'ny a'i câr Ef? A oes rhyw amser yn anaddas i ganmawl Dŵ?—ai oriau gweddïau? oriau sacrament? neu oriau pregeth? neu pa bryd y mae yn anghyfreithlon? pa awr o'r dydd neu'r nos? pa gwmmi? ac wrth ba waith nad oes i ni roi arwyddion i ereill mai Duw da yw ein Duw ni? Os caiff ffryns, perth'nasau, a chariadau wneud hyn, mwy ardderchog fil o weithiau yw enw yr ARGLWYDD, ac yn haeddu ein clod a'n cân; ac eto, er mawr gywilydd i grefydd y Brytaniaid, prin y clywid un yn gwahardd canu mawl i dywysog daearol, pen cadben llu, gwaredwr hynod, philosophydd enwog; gwneir, fe lenwir gwleddoedd o ganiadau i ferched, ac i greaduriaid is na merched, sef i gŵn, ond gwaherddir moli Duw a chanu hymnau yn y fath wleddoedd! O ddygn dywyllwch! Tra fo'r llu di-ras yn canu, ac yn son am y peth a garont, sonied y Cristion byth am ei DDUW.

2. Pa reswm mwy na rhoi ein cyrph a'n heneidiau i ogoneddu enw yr ARGLWYDD? At ba beth mae ein tafod ond i son am a chanmawl Duw, dweyd yn dda am holl ddyfais iachawdwriaeth yn ngwaed yr Oen? Mae aelodau ein corph, fel galluoedd ein henaid, i ogoneddu Duw, ac i fynegu i'r byd ei glod Ef. Onid oes anghenrheidrwydd o ddangos i'r byd o bwyd yr ydym—pa un ai o blaid Duw neu o blaid Satan? â'n tafod cystal ag â'n bywyd; mewn geiriau cystal ac mewn egwyddorion tu-mewnol. Pe buasai y dorf o ferthyron heb yngan gair am DDUW na CHRIST, nac wrth un dyn am ei bechod, hwy gawsent farw ar eu gwelyau. Ni fuasai Ioan Fedyddiwr ddim yn cael ei ddi-eneidio gan Herod frenin oni buasai i'w dafod ddweyd yn erbyn Herodias. Pa fodd y deallir mai Cristion yw dyn gonest, moesol, tangnefeddus, hawdd ei drin, os na yngan ef air am DDUW trwy hyd y flwyddyn? Os na ddywed ef un amser yn dda am DDUW, os na cherydda, os nad argyhoedda, os na arfer bob moddion i ddyrchafu enw yr ARGLWYDD, os na ddengys i'r byd â'i dafod cystal a'i weithredoedd y fath Un mawr yw CRIST yr ARGLWYDD, mae'r arwyddion yn rhy eglur, pa faint bynag yw ei foesoldeb a'i rinweddau oddi allan, y gwedir ef o flaen

angylion Duw, am ei fod yntau yn gwadu Duw a CHRIST mewn effaith ; ac nad yw yn arddel ei enw Ef ar gyhoedd yn y byd ger bron dynion. Mae cymaint o arwyddion fod paganiaid yn Borneo, Japan, neu Morocco yn caru Duw ac yn dyrchafu CRIST ag yntau ; o ran mae amryw yno mor foesol a neb o'r cyfryw yma yn Mrydain, os hyny wna bod yn Gristion.

3. A ydyw yn rhesymol bod gweision yr ARGLWYDD yn llai eu hyfder nag y mae gweision Satan ? Fe fyn ef rai ag a seinio allan ei glod yn ddi-gywilydd, rhai a goffao ei enw ef yn mhlith mil heb wrido, rhai a doru gyfraith yr ARGLWYDD heb arswyd, rhai a lwngc euogrywydd ar ol euogrywydd yn anorphen, rhai na fo'nt lwfr i wneuthur un drwg a osodir o'u blaen, ac nid argyhoeddir hwy gan nemawr. Cant eu rhwysg i fyned yn y blaen gan swyddogion gwladaidd ac eglwysig. Ond, O drueni ! ni oddefir i weision Duw fod mor ÷on ; cyfyd pawb yn eu herbyn i bregethu, gweddio, ac i ganu salmau mewn ffair neu farchnad ; cyfrifir hwynt wedi ynyfydu. O lid uffern yn erbyn pob rhesymau i ddyrchafu gogoniant Duw a'i glod ! O na fydded neb sydd yn cymeryd arnynt fod o blaid Duw o'r egwyddorion hyn !

4. Onid yw pob elfen gref a fo yn gweithio ar eneidiau dynion hefyd yn ymddangos ar eu cyrph ? Onid yw malais yn yr enaid yn dadguddio ei hun yn y corph trwy beri i'w berchen siarad yn ddrwg am ei elyn ?—llid yn peri ymladd, ymddial, ac ymgyfreithio ; cariad yn peri och'neidio, hiraethu rhoddi canmawl, a mawrhau. Onid yw trachwant yn peri lladrad a mwrdrad ? onid yw blys yn peri meddwod, cyfeddach, a gloddest ? Yn fyr, onid yw holl nwydau yr enaid, pan y b'ont wedi eu llanw o un chwant, yn peri i'r corph i gydweithio gyda hwynt ? Yn enaid dyn mae sylfaen trachwant, cybydd-dod, godineb, lladrad, a mwrdrad, a phob pechod sydd yn tori allan yn mywydau dynion. Am hyny, nid yw ryfeddod, ond peth naturiol yw, bod dynion ag fo yn llawn o gariad yr ARGLWYDD yn canu, yn moli, yn llamu o orfoledd. " Enynodd tân, a mi a lefarais â'm tafod." O drueni ar drueni ! er cymaint o resymau sydd, nas caiff un rheswm, pe b'ai ddeng mil ohonynt, ei dderbyn am fod yn ÷on tros y Duw byw. Ond heblaw hyn, mae yr Ysgrhythrau, fel y dwedaist ti, yn eglur ddigon, yn cadarnhau fed hyn o waith diweddar o Dduw ; ond am i ti ddyfod â chynifer ohonynt, ni soniaf yr awr hon am fawr iawn. Yr addewid fawr a roddwyd ar y cyntaf, fel ffrwyth o farwolaeth ein HARGLWYDD IESU, oedd tywalltiad o'r Ysbryd Glân : fe elwir hon addewid y Tad ; ond Duw, yr Hwn sy'n gwneud pob peth er ei glod, a gadwodd mewn mesur mawr yr addewid fendigedig hon heb ei thywallt ar yr Iudd-

ewon, ac a'i hesgeulusodd hyd oni f'ai i Iachawdwr y byd farw, ei gladdu, ei gyfodi, ac esgyn o hono i'r nef ; ac yna fe'i rhoddodd i lawr mewn cyflawnder annrhaethol, fel y ffrwyth cyntaf o eiriolaeth CRIST, pen Apostol a Pherffeithydd ein ffydd. Ond yn y cyfamser, tros fwy na phedair mil o flynyddau, pa sawl peth osododd yr ARGLWYDD i fyny i gyflawni y diffyg o'r addewid hon ?—prophwydoliaethau, cysgodau, seremoniau, cyfreithiau, esamplau—oll fel moddion i ddyrchafu ysbrydoedd yr eglwys Iuddewig i ryfeddu, i garu, i ganmawl, ac i ufuddhau i DDUW, ac i ddadguddio dyfnderoedd ei ras a'i gariad yn yr Iachawdwriaeth yn NCHRIST. Moddion allanol a ordeiniwyd at gynhyrfu pob nwyd o'r enaid i fod yn fywiol yn ngwaith yr ARGLWYDD, ac i'w 'nabod Ef yn ei holl briodoliaethau ; rhai pethau i enyn cariad, rhai pethau ofn, rhai pethau at ddangos ei allu, rhai ei ddoethineb ; ond oll fel moddion i'w harferyd yn yr amser ag yr oedd addewid y Tad heb ei rhoddi i osod allan gyflawnder ei ras Ef at bechaduriaid tan yr efengyl. Ac oni buasai bod yr holl gysgodau o bethau i ddyfod wedi eu gosod i fagu syndod, cariad, ac ofn duwiol yn yr addolwyr, fe fuasai llawer llai ohonynt yn gwas'naethu. Beth ynte oedd rhaid aberthu cymaint o ddefaid ac ychain wrth gysegru'r deml, nad ellid eu rhifo, neu eu cyfrif ? megys ar y Pasg—2 Chron. xxx. 21—pan rhoddodd y brenin Hezeciah 7000 o ddefaid a 1000 o fustych, a'r tywysogion 10,000 o ddefaid a 1000 o fustych ; ac eilwstych y Pasg yn nyddiau Josiah—2 Chron. xxxv.,—yr hwn oedd lawer mwy, pan y lladdodd Josiah ei hunan 30,000 o wyn a mynod a 3000 o eidionau, a'r tywysogion 2600 o ddefaid a 300 o eidionau, ac ereill 5000 o ddefaid a 3000 o eidionau. Yr oedd hyn oll i ddyrchafu gogoniant CRIST yr *Antitype*, ac i dynu llygaid y bobl ato, nes tywalltid yr Ysbryd i'w ddadguddio Ef yn well ; a gorfoledd mawr oedd trwy holl Jerusalem, wedi cael ei enyn trwy olwg ar y fath rialtwch, y fath nifer o ebyrth, y fath dorf o bobl, pob peth fel moddion (hyd onis deuai i ben addewid y Tad) i godi'r bobl i lawenychu yn yr ARGLWYDD.

I ba ddyben ynte yr oedd yr holl fusic o amrywiol drefn a natur y pryd hyny ? tafod a thant, organ a salterau, y cornet, a'r udgryn arian—o ba rai nid oedd dim llai yn nyddiau Solomon na 120, ac offeiriaid pwrpasol i'w canu hwynt. Nid oedd yn aberth nad oedd canu trwy gydol yr holl amser ; clychau oedd wrth odre gwisgoedd yr archoffeiriad, cantorion a chantoresau oedd mewn trefn yn seinio mawl i DDUW â thafod ac âg offer cerdd. I ba ddyben oedd hyn, meddaf ? nid yn unig yn gysgod o hyfryd lais yr efengyl, ond hefyd fel moddion yn absenoldeb tywalltiad yr Ysbryd, fel addewid y

Tad, i ddyrchafu ysbryd addolwyr Duw i'w ganmawl a'i ryfeddu Ef. Yr oedd cymaint o leisiau soniarus *harmony* a chyd-sain yn yr hen deml rhwng tafod a thant, nas gellir yn hawdd gan lawer yn awr gredu na dychymyg. Fel hyn yr oedd amryw foddion allanol yn yr hen oruchwyliaeth i enyn sêl, bywyd, gwres, ac egni yn yr addolwyr i garu Duw, ac i seinio allan ei glod Ef. Ond y prophwydi fyth oeddynt yn dysgwyl pethau gwell, sef tywalltiad yr Ysbryd Glân, ac yn prophwydo am yr hyfryd ddydd, yn mynegu pa fath fyddai'r effeithiau rhyfeddol a'i canlynai, megys Joel ii., Zechariah ix., &c., ac amryw ereill o destynau a enwasoch. Ond pan ddaeth ein HARGLWYDD i'r byd, nid oedd ei Apostolion yn dysgwyl ond am osod i fyny deyrnas dymhorol, neu ryw drefn eglwysig, yr un fath ag oedd y lleill o'r Iuddeuwon yn breuddwydio am dani, yn mha un y caent barch, bri, ac anrhydedd; yn mha un y byddai swyddau, graddau, ac awdurdodau, ac Ef ei Hun yn ben ARGLWYDD ac yn Frenin. Ond ar wyl y Pentecost, pan oeddynt yn gytun, oddeutu 120 mewn gweddïau yn yr un lle, yn Jerusalem, disgynodd yr Ysbryd o'r uchelder. Yn ddisymwth daeth swm o'r nef megys gwynt nerthol yn rhuthro, ac a lanwodd yr holl dŷ lle yr oeddynt yn eistedd, ac ymddangosodd iddynt dafodau gwa-hanedig megys o dân, ac a eisteddodd ar bob un ohonynt; a hwy holl a lanwyd o'r Ysbryd Glân, ac a ddechreuasant lefaru â thafodau. Dyma gyflawniad o hen addewid; ac nid oedd yr Apostolion eu hunain wedi ei ddeall nai brofi hyd hyn. Yr Ysbryd hwn a esgorodd ar effeithiau rhyfedd a gogoneddus: fe ddisgynodd arnynt fel tân—yr oedd yn llosgi o'u mewn nas gallent atal. Yr oedd eu geiriau a'r olwg arnynt hefyd fel dynion yn meddu y peth nad oedd y byd yn ei ddeall, nac wedi cael erioed prawf o hono; fe ddisgynodd ar bawb yn yr un fan. Dyma'r addewid wnaeth i'r Apostolion fyned allan yn ëon, yn ddi-arswyd, ac yn ffyddiog tros y Duw byw. Dyma yr awr y *confirmwyd* hwynt yn ngweinidogaeth yr Ysbryd. Annoddefol oedd hwn i'r byd: tARTH, TÂN, a MWG, fel y darfu i'ch ddal sylw, ydoedd; eu geiriau oedd am Dduw, eu gwaith oedd gogoniant Duw, ei glod Ef oedd eu holl ddybenion. Cymdeithas y bobl yma, bellach, oedd yn annoddefol i'r byd, a'r effeithiau yn ddychrynadwy ac ofnadwy i gig a gwaed; ond melus i'r sawl oedd yn ei fwynhau; efe a barhaodd yn y brif eglwys dros dri chant o flynyddau, o leiaf. Y saint oedd yn myned yn finteioedd oddi amgylch, yn tori bara o dŷ i dŷ, ac yn bwyta yr hyn a osodid o'u blaen gyda symlwydd a llawenydd calon. Cariad-wleddoedd oedd yn cael eu cynal bob dydd; gweddïau, cân, mawl, oedd bara beunyddiol yr eglwys; lliid, malais, a chenfigen oedd yn cael

eu gwrthod fel gwenwyn; nid oedd neb yn cael bod mewn eisieu yn yr holl eglwys; cariad oedd yn teyrnasu oll yn oll; a'r ysbryd ffyddiog hwn, nas gallai gyd-ddwyn â phechod, a dynodd yn union erlidigaeth. Yr achos penaf o lid yn erbyn Cristionogion oedd eu bod yn dweyd y gwir yn wynebau dynion, yn argyhoeddi'r byd annuwiol o'i bechod, yn cyhoeddi mai Crist oedd y gwir Iachawdwr, yn pregethu i bawb yr iachawdwriaeth ynddo, yr adgyfodiad oddiwrth y meirw, a'r farn a fydd; yn canmol a bendithio CRIST yr ARGLWYDD; yn treulio diwrnodau a nosweithiau mewn gellydd, creigydd, ac ogofeydd y ddaear, i weddio arno ac i ganu i'w enw. Nid am eu gonestrwydd, eu haddfwynder, a'u cywirdeb i'r llywodraeth,—yr hyn yn ddiau oeddynt yn feddianu i fesur mawr, a'r hyn oedd y llywodraeth wladaidd yn ei garu,—yr erlidiwyd hwynt, ond am eu bod yn dyrchafu cymaint bob amser ar yr Hwn fu farw ar Galfaria, caru y rhai a'i carai yntau, ymadael â chwmni y rhai a'i casai Ef; dyma'r ysbryd ëon, hyfryd, llawn o sêl, a barhaodd yn yr eglwys dros 300 o flynyddau, nes i amryw fyrddiynau fyned i'r tân o'r achos. Ond pan ddaeth Constantine, ymerawdwr Rhufain, ei hun i gymeryd enw Cristionogaeth, er i fwy o ryddid-did Cristionogol gael ei le, eto yn fuan iawn daeth marweidd-dra i mewn: rhai heb adnabod yr ARGLWYDD a ddaeth i'r weinidogaeth; awydd i barch, a chyfoeth, a doethineb y cnawd, a anrheithiodd grefydd; y sêl, y cariad, y mwynhad, a'r pleser cyntaf aeth mewn rhan fawr i golli; a'r ysbryd marw a gynyddodd nes rhoi sylfaen i holl gyfeiliornadau eglwys Rhufain. Ond pan ddisgynodd addewid y Tad, sef yr Ysbryd, i lawr eilwaith, fe enynodd yr un dymer, sêl, a bywyd ag oedd yn nyddïau yr apostolion, gan' mlynedd o flaen y diwygiad oddiwrth y grefydd babaid,—cafodd amryw ysbryd i fod yn ëon tros Dduw yn Bohemia, Switzerland, Hungary, Poland, Germany, Ffrainc, a Lloegr, megys Wickliffe, Jerome o Prague, Huss, Lollius, Walden, ac ereill. Amryw ugain o filoedd yr amser hyn a ymadawsant â'u tai, tiroedd, meddïanau, gan gael eu herlid o un wlad i'r llall, ac yn myned trwy ddinasoedd a threfydd tan ganu hymnau—y peth yr edrychid arno fel darn o ynfyrwydd y pryd hyny fel yn awr. Ond yr ysbryd poeth hwn a agorodd ddrws o ychydig i ychydig i'r diwygiad mawr. Boed clod i Dduw am dano, can's ni wna ac ni wnaeth claearineb dda erioed, ac ni chaiff ef fyth law yn ngwaith yr ARGLWYDD; ond yr un sêl, diwydrwydd, ëondra, bywyd, gwres, ac ymegniad oedd yn amser y diwygiad o'r grefydd babaid, oddeutu 200 mlynedd i 'nawr. Ond ar ol sefydlu yr eglwys, claearineb a ddaeth i mewn fel diluw, ac ymraniad eginodd:—mi eiddo Paul, minau eiddo Apolos. Ac ar ol dyfod



rhyddid cydwybod yn nyddiau'r brenin William (o fendigedig enw,—yr *act* oreu wnaed erioed ar ochr crefydd), eto yn mhen ychydig oerodd y ddwy eglwys, nes i anwybodaeth oresgyn wyneb y tir,—gwŷr y cwrdd\* cystal a gwŷr yr eglwys oedd yn dyodde'r twmpath chwareu; anwybodaeth oedd yn goresgyn wyneb Cymru; nid oedd braidd (neb) a safai i fyny yn erbyn llygreddigaeth yr oes, nes oddeutu'r flwyddyn 1738 y torodd goleuni allan fel y wawr mewn llawer o ardaloedd y byd: offerynau bywiol amryw a godasant yn Lloegr, ac aethant i'r prif-ffyrdd a'r caeau gan bregethu gair y bywyd mewn amser ac allan o amser. Rhai yn Scotland hefyd a waeddasant fel udgyrn arian, nes i feirw amryw gyfodi wrth y llef. Fe dywynodd gair y ffydd ar Loegr newydd—daeth yno fyrdd-ynau at y Duw byw. Georgia, a gwledydd tu draw i'r moroedd mawr, a ufuddhasant i'r gwirionedd. Ond O! hyfryd foreu! dysgleiriodd yr Haul ar Gymru, fe gododd Duw offerynau yma o'r llwch, ac a'u gosododd i eistedd gyda phendefigion ei bobl; fe daflwyd y rhwyd i'r môr, a daeth allan bob rhyw o bysgod—mawr a bach. Chwe' sir y Dehau a gofleidiodd y gair yn foreu—fe glywyd y ceilogod yn canu, fe ddihunodd hen wylwyr ag oedd wedi cysgu; pregethwyd bob Sul yn yr eglwysi; deffrodd yr Ymneillduwyr; fe ganwyd iddynt alarnad, a rhai o'honynt a alarodd; fe ganwyd iddynt bibell, a rhai a ddawnsiodd. A hyn a barhaodd rai blynyddau: fe anghofwyd y dawns a'r delyn, daeth trai ar chwaryddiaethau; ond och! fe oerodd llawer. Yn mhen rhai blynyddau, daeth rhwygiad i ganol y gynulleidfa—daeth Satan i mewn at feibion Duw. Flynyddau hirion ar ol hyn, cymylau tywyll a du-dew, swm gruddfan, galar, a gwae oedd yn mhob pwlpudd, yr udgyrn arian oedd yn rhoddi sain anhynod, heb neb yn parotoi i ryfel nes i'r baich fyned yn rhy drwm; yna y daeth yr awr, addewid y Tad a gyflawnwyd. O! ddedwydd foreu! Hyn yw'r peth a weli di, Martha, yr awr hon, ac nid oedd ond Duw yn unig yn Awdwr o hono; a'r un yw ag a fu o ddyddiau yr Apostolion hyd yn awr; dyma'r ysbryd a ddisgynodd yn Lloegr Newydd, Scotland, a pha le bynag y bu diwygiad gan yr Ysbryd Glân. Ond nid wyf yn meddwl mai dynion gwir grediniol, cryf, a disigl mewn crefydd yw pawb ag sydd yn bendithio enw yr ARGLWYDD yn gyhoedd—yn llamu ac yn chwareu yn y dawns ysbrydol; can's yr wyf yn rhy barod i feddwl mai gwres nwydau natur, ac nid cyflawnder Ysbryd Duw sydd yn cymhell rhai, er nas gwn pwy allai rhei'ny fod, er y gallai rhai fod felly. Eto diau mai ysbryd y diafol sydd yn teyrnasu yn mhob un ag sydd yn lliديو ac

\*Gwyr y Cwrdd, &c.—hyn yw, gwyr y ty cwrdd cystal a gwyr yr eglwys—Ymneillduwyr cystal ag Eglwyswyr.

yn chwerwi wrth y gwaith o ganmol Duw, o ran nas gall un ag a gafodd faddeuant pechod, a hawl yn NGRIST, lai na charu yr Hwn a'i gwardodd ef o drueni; ac y mae pob calon ag y mae cariad ynnddi yn chwyddo allan i ddweyd yn dda am y sawl a garo hi. Ac y mae canu, moli, a bendithio Duw mor naturiol i ddyn sydd yn caru IESU GRIST, ag ydyw i'r fam naturiol fawrhau, coffeidio, cusanu, a *phrvatian* geiriau wrth ei mab cyntaf-anedig ag a fo yn sugno ei bronau. Nid gwaith anhawdd yw ffeindio allan yr achos o'r croesineb sydd mewn proffeswyr yn erbyn dweyd yn dda am DUW,—sef am mai yn eu dealldwriaethau yn unig y mae crefydd, ac na ddisgynodd mo honi erioed eto i'w calonau hwynt; fel nad yw ymarfer corphorol yn fuddiol ond i ychydig. Felly, nid yw goleuni deall ond i ychydig yn fuddiol mewn cydmariaeth i weithrediadau y galon; â'r galon mae credu i iachawdwriaeth. Bod dyn wedi credu rhyw ffurf o ddifeinyddiaeth—bydded hono mor wir bynag y bo, os nad yw yr egwyddorion hyn y gredodd ef yn ei ddeall, wedi gwreiddio felly yn ei galon, fel y mae ef yn caru Mab Duw, yn gorfoleddu yn ei iachawdwriaeth Ef, yn ymwadu âg ef ei hun, codi ei groes, dilyn yr Oen trwy ei holl waradwyddiadau, nid yw ei wybodaeth ond gwneud iddo ymchwyddo; dall yw heb weled yn mhell; gwybod y mae ef heb brofi fod yr ARGLWYDD yn dirion; nis teimlodd ef awdrudod ei ras Ef erioed o mewn, a pha fodd y câr hwn iachawdwr y byd? A gesglir ffigys oddiar ddrain, neu rawnwin ar ysgall? Diffyg prawf o ras sydd yn eisieu na b'ai'r holl fyd yn moli, yn llamu, ac yn canu mawl i'r ARGLWYDD. Fe gyd-ddwyn y proffeswyr hyn (pa rai fyddai yn annyoddefol iddynt fod yn mhlith dynion ag a ddadseiniant ogoniant yr ARGLWYDD) â rhith-broffeswyr neu annuwiolion yn bur dda; nis blinent i dreulio oriau hirion yn nghyfeillach masweddwyr, tyngwyr, erlidwyr, beilchion, ac enllibwyr; nis digiant ac nis gwridant pan fo'r cyfryw yn ÷on yn cablu ffordd yr ARGLWYDD, am nad yw clwyfo Mab Duw yn clwyfo dim ar eu calonau hwy; nid yw eu perthynas iddo mor agos ag y rhaid iddynt byth ofidio o'i ddiystyru. Perthynas a chariad sydd yn wastad yn gwneud dynion yn boeth, yn ÷on, ac yn annyoddefol iddynt i glywed diystyru un f'ont yn garu. Mae'r proffeswyr hyn yn un â'r annuwiolion—dim gwahân ond yn unig bod un â ffurf o grefydd, a'r llall heb ddim, ond yr un faint o dân cariad at IESU GRIST sydd gan y naill a'r llall; ond yr un lliid sydd ganddynt yn erbyn bywyd crefydd, can's dyoddef y rhagrithwyr hyn ffurf o grefydd, eto hwy ddyoddefant holl arferion yr annuwiol; ac nis gall y naill na'r llall ohonynt i ddyoddef tareth, tân, a mwg pobl yn canu i'r ARGLWYDD â'u holl galon—dynion fo'n treulio



dyddiau a nosweithiau i weddio, i ganu, i folianu a llamu o orfoledd yr iachawdwriaeth fawr yn NCHRIST,—annyoddefol yw!—llid, chwerwder ysbryd, a chenfigen sydd yn berwi i fyny yn anorphen. I wneud yn peth yn twy goleu, cefais brawf o hyn wrth wrando Bneumaticus yn pregethu un tro ar y gair—“Newyddion da o lawenydd mawr i'r holl bobl,” &c. Nerthoedd y nefoedd a ddisgynodd i lawr ar amryw o'i gynulleidfa, awel y nef a ehedodd trwy'r werin, swm y gwynt a grynodd galonau amryw o fewn i'r lle; ac ar ol i Bneumaticus ddarfod, fe dreuliwyd yr holl brydnawn hwnw hyd at rai oriau o'r nos, i weddio, i ganu, i fendithio enw yr ARGLWYDD am ei ymddangosiad, ac i ddal yr awel rhag iddi gilio. Y lle ydoedd tros yr holl amser yn llawn o bresenoldeb yr ARGLWYDD; rhai oedd tan wyllo yn gwaeddi allan—“Deliais Ef ac nis gollyngais, hyd oni's dygais Ef i dŷ fy mam ac i ystafell yr hon a'm hymddug;” rhai yn bloeddio allan—haf, haf a'r rhai oedd bron marw o newyn—aeth y gauaf heibio, daeth amser i'r adar ganu, mae llais y durtur yn y wlad; rhai yn llamu gan seinio—goleuni yn yr hwyr, afon a aeth allan o Jerusalem, hi lifodd hyd ynisoedd y môr, hafa gauaf y bydd hyn; rhai yn dweyd—rhwyd i'r môr, rhwyd i'r môr, ARGLWYDD—tyn i'r lan bysgod mawrion a bychain; rhai yn canu a rhai yn chwerthin, amryw yn wyllo â'u geneuau yn y llwch, yn crynu ac yn ofni'r farn a fydd, ond amryw iawn yn teimlo awel o bresenoldeb yr ARGLWYDD; a rhai dyeithriaid mewn syndod, arswyd, a braw, ac yn sychedu yn ddystaw am ras. Ond yn y cyfamser y deallais fod yno rai gwag broffeswyr yn llidio ac yn terfysgu, yn ysgyrnygu danedd ac yn cnoi eu tafodau gan wres; a'r holl achos ydoedd am fod y bobl hyn yn caru'r CRIST nad oeddent hwy yn ei garu. Ond yn mhlith ereill, mi ganfyddais Fformalistus—pendefig pur foesol—a'i wraig Fflorida, a rhai ereill arferol o wrando yn y tŷ addoliad hwn, ac yn derbyn pob peth yn bur dda cyn i bresenoldeb yr ARGLWYDD dywynu yn annghyffredin yn y lle; ond yn awr yn terfysgu, ac yn myned ymaith. Yr oeddynt yn rhoi digon o arwyddion bod eu hysbrydoedd yn 'scoi, ac yn llidio yn aruthr; ac feallai, pe buasai'r gallu yn eu dwylaw, na buasant yn delio ddim gwell â'r bobl hyn na'r Faria waedlyd gynt. Ond wedi iddynt ymadael, holais pa ddifyrwrch oedd ganddynt y diwedydd\* hwnw—a ydoedd ryw beth yn nes at yr Ysgrythyrau sanctaidd na'r hyn oedd gan y rhai oedd yn molianu Duw yn nhŷ'r addoliad? Ond erbyn im' chwilio, nis cefais ond a ddysgwyliais, canys treuliasant yr holl brydnawn gyda phendefigesau ereill a pherson y plwyf, i ddifyru wrth y cwpanau tē, i sipan sudd y llysieuyn tramor.

\* Diwedydd—gair a arferir yn gyffredin yn y Deheudir am hwyr.

cysuro eu hysbrydoedd â grawn sypiau Ffraingc a'r Idal, gan chwydu allan fil o wag feddyliau ag oedd wedi croni yno er's dyddiau o'r blaen. Fe olrheiniwyd yno gariad a chenfigen, annedwyddwch gweddwdod, a phleserau priodas; fe chwiliwyd allan gyfoeth a thlodi, synwyr ac ynfydrwydd holl drigolion y plwyf; fe gondemniwyd rhai, cadwyd ereill, rho'wd beiau pawb i'r goleu, ni chas crach fod ar neb heb eu pigo. Ond testyn penaf yr holl brydnawn ydoedd y bobl oedd yn canmawl ac yn moli Duw; torf o ragrithwyr ydoedd eu hennwau goreu; prophwydwyd eu cwmp, fe rag'ddwedwyd am ddiwedd eu crefydd, fe rifwyd eu beiau, fe chwiliwyd eu hachau, fe farnwyd eu dysg a'u doniau, ac fe'u gwnaethpwyd yn sorod pob dim. Ac yna yr aeth Fformalistus, Fflorida, a'r pendefigesau, gyda'r person, i'r gwasanaeth prydawnol, a darfu iddynt ateb yr hymnau a darllen y gweddiau gydag ef yn bur ddefosiynol; y person yn dweyd, “Molwch yr ARGLWYDD,” a hwythau yn ateb, “Molianus fyddo enw yr ARGLWYDD.” “Molianed y bobl Di, O Dduw, molianed yr holl bobl Tydi,” ebe'r offeiriad; a hwythau yn ateb, “Llawenhaed y cenedloedd a byddant hyfryd;” ac eto gelyniaeth yn nghalon y bobl hyn yn erbyn y rhai oedd yn y tŷ addoliad yn moli Duw, yn llawenhau, ac yn bod yn hyfryd yn yr ARGLWYDD. Yr offeiriad yn dweyd, “Yr holl bobl, curwch ddwylau, llafar genwch i Dduw â llef gorfoledd;” a hwythau yn ateb, “Cenwch fawl i Dduw, cenwch, cenwch fawl i'n brenin, cenwch:” ac eto, eitha' gelyniaeth yn erbyn y rhai oedd yn y tŷ addoliad yn canu ac yn curo dwylaw yn nghyd. Ac ar y foreuol weddi yr oeddynt yn galw gweithredoedd yr ARGLWYDD i'w foli Ef yn dragywydd; angelion y nef, y dyfroedd sydd uwchben y ffurfafen, a holl nerthoedd yr ARGLWYDD; haul a lleuad, a ser y nef, gawodydd a gwllith, tân a gwres, a phob gwynt i fendithio enw yr ARGLWYDD; haf a gauaf, gwres ac oerfel, rhew ac eira; pob tymhor, pob tywydd, pob creadur, i folianu enw Duw, ac eto llidio wrth y bobl ag oedd yn dweyd hyn o'u calonau yn y tŷ addoliad; a'r unig achos oedd, nid yn erbyn geiriau y rhei'ny—y rhai ydoedd yr un peth a'u geiriau hwythau yn addoliad cyhoedd yr eglwys blwyfol—ond yn erbyn yr ysbryd oedd ganddynt, sef yr ysbryd gwresog o ganmawl ac o garu Duw; ac yn erbyn hwn yr oedd yr holl lid. O Martha! Martha! mae y cant cymaint o lid i Fab Duw ag sydd o gariad ato, ac nid yw y llid hyn ddim llai, os nid mwy, mewn gwag broffeswyr nag ereill; nid oedd yr holl brydnawn gan berson y plwyf, a Fformalistus a Fflorida, un gronyn gwell na Nebuchodonosor yn yfed gwin o lestri'r deml—yn hytrach yn waeth, am fod gelyniaeth ynddynt i ganmawl Mab Duw,—a hyn yn nyddiau'r

efengyl; ac hefyd ar ddydd yr ARGLWYDD—amser y dylasant fod yn gweddio, yn darllen, yn seinio clod i'r Oen, o leiaf yn myfyrio ar ei iachawdwriaeth annrhaethol Ef. Ond, cyn diwedd, rho i'm genad i ddweyd wrthy, er mai o DDUW y mae canu a bendithio yr ARGLWYDD, eto nid wrth ryw nodau oddi allan—megys swm tafod ac ysgogiadau corph, gwaeddi, llamu, a chrechwenu yn unig—yr wyf yn cael lle i gredu bod Duw yn yr eglwys, ac yn ymweled â'i bobl; ond, heblaw yr hwyl nefol sydd ar eu hysbrydoedd hwynt, yn rhoi eu tafodau yn fywiol i ganmawl Duw, mae'r tân hwn yn fflamio allan yn mywyd ac ymarweddiad amryw ohonynt; yr wyf yn deall fod arnynt ofn dweyd eu geiriau eu hunain, na gwneuthur eu gweithredoedd eu hunain; mae genyf dystiolaeth fod lluoedd ohonynt â pharch mawr iawn i holl ewyllys ddadguddiedig Duw; ac os bydd iddynt droseddu y gorchymyn lleiaf, poen gofid, ac euogrwydd sydd yn canlyn, ac nid oes a wna'r tro i'w laesu nes cael ail olwg ar waed Duw croeshoeliedig. Nid oes dyledswydd na chysuron dynion, na meithder amser, a dŷn boen eu cydwybod ymaith, dim ond golwg ar y gwaed; ac nis gallaf lai, pan y bo sel a gwres crefydd yn dwyn y fath effeithiau, na chredu nad o DDUW y mae. Yn ail, nid am bynciau lleiaf y ffydd mae'r bobl yma yn wresog, ond am brif bynciau iachawdwriaeth; ffydd a chariad yw y grasusau penaf y maent yn llefain am danynt, CRIST a'i rad ras yw testyn eu holl ganiadau; addewidion rhad yw swm eu gweddiau, son am rad ras yr ARGLWYDD at bechaduriaid yw swm eu holl ymadroddion. Pe buasant wresog am bynciau cyfeiliornus, neu am bynciau dadleugar, neu am bynciau lleiaf anghenrheidiol o'r ffydd Gristionogol, ni fuasai cymaint coel arnynt. Mae amryw yn wresog am eu *sect* eu hunain, amryw bynciau neillduol o honi, am drefn dysgyblaeth a ffurf eu haddoliad; ond y rhai'n sydd yn wresog am ddilyn yr Oen, am garu Iachawdwr y byd, am ddadseinio allan ei enw mewn bywyd cystal ag mewn geiriau. Yr hyn sydd yn fy ngalw, yn drydydd, i ddal sylw ar yr hyn mae Ioan yn ei ddweyd, "pwy bynag ag sydd yn addef mai'r IESU yw y CRIST, o DDUW y ganwyd ef." Mi holais egwyddorion amryw ohonynt, ac mi a wrandewais eu pregethwyr, ac y maent oll yn credu mai'r gwir DDUW oedd IESU o Nazareth, maent yn credu mai ei haeddiant Ef sydd yn rhoi hawl iddynt o faddeuant pechod, ac o gyfiawnhad o'r holl bethau presenol, a bywyd tragwyddol yn y diwedd; maent yn credu mai trwy ei waed Ef mae yr Ysbryd yn cael ei anfon i lawr o'r nef. Er mwyn ei angeu mae yr Ysbryd hwn yn goleuo, yn argyhoeddi, yn cysuro, yn adeiladu. Yn fyr, mai mab Mair—o ran ei ddyndod—fu farw ar Galfaria, yw eu Brenin, eu Prophwyd, a'u Harchoffeiriad;

ac onid yw yr Apostol yn gwneud yn eglur y gwahaniaeth rhwng y rhai sydd o DDUW neu nad ydynt, sef y rhai sydd yn cyffesu mai'r IESU hwn yw'r CRIST, &c. Ac yn olaf, mae nod cryf genyf fod y gwaith diweddar yma o DDUW am fod cymaint o erlid arno, cymaint o gelwyddau yn cael eu dweyd am dano, yn hollawl groes i ymarweddiad a gwirionedd y rhai fydd yn ei broffesu.

Mae erlid yn etifeddiaeth sydd sicr o fod i ganlyn gwir grefydd—"A gwyn eich byd pan d'wedo pawb yn ddrwg am danoch, a hwy yn gelwyddog; gorfoleddwch a neidiwch, can's mawr fydd eich gwobr yn y nefoedd, canys felly y gwnaethant hwy i'r prophwydi o'ch blaen chwi." Ar bwy y mae erlid y dyddiau hyn ond ar y rhai sydd â'r sel yma o wrando yn fynych, o ganu, a gweddio amryw oriau yn nghyd, o waeddi allan mai da yw'r ARGLWYDD? Ar bwy mae erlid y dyddiau hyn, meddaf, ond ar y rhei'ny? Mae yr Ymneillduwyr yn cael llonydd—mae yr Eglwys sefydledig a hwythau yn gyfeillgar;\* fe ddarfu iddynt bregethu, ysgrifenu, ac argraffu y naill yn erbyn y llall; yr ydys wedi darfod gwawdio y Quakeriaid—caiff y rhai'n lonydd mewn tref a gwlad. Yn awr nid oes ond y rhai'n i holl saethau'r gelynyon; ni wyddis yn iawn pa enwau a roddir arnynt—ynfydion, rhagrithwyr, pobl ddi-drefn, torwyr amod, rhwygwyr cynulleidfaoedd, anudonwyr, y rhai a wadodd y ffydd gyntaf, a mil o enwau o'r fath. Rhyfelir â hwynt weithiau â'r tafod, weithiau â'r pin ysgrifenu, yn fynych â'r argraff-wasg. Esgobion ac offeiriad, mawrion a thlodion, gwŷr llên a gwŷr llŷg yn cytuno yn un yn erbyn y bobl elwir Methodistiaid. Undeb,—undeb mewn tref a gwlad, pe caid ond y bobl hyn tan draed. Ond am beth y mae'r llid? Am eu bod yn myned ar ol yr ARGLWYDD â'u holl galon. Maent mor ffyddlon i'r brenin a neb arall—maent yn heddychol ac yn hawdd eu trin; nid y'nt nag yn ymladd na rhyfela, nac yn dwyn cochl neb oddi arno; eto, ymaith â hwynt o'r byd—nid y'nt deilwng o fyw. Ni oddefir eu pregethwyr mewn rhai eglwysi; oni b'ai fod rhagluniaeth yn chwareu o'u hochr, fe'u *sterfid* o eisieu lluniaeth; eithr tan ofal yr ARGLWYDD y maent yn byw, ac ar ei allu Ef maent yn ymgynal. Da iawn fod cyfreithiau'r deyrnas heb fod yn eu herbyn, onite buasant wedi cael eu danfon allan o'r byd. Maent tan lywodraeth dda George III., ond yn benaf tan lywodraeth IESU, Brenin y saint.

Fy chwaer, yn awr yr wyf yn dibenu, gan addef (ar ol rhoi golwg tros y cwbl) i mi wneud fy hun yn sicr mai o DDUW mae hyn o waith, sef fod pobl yn canu yn ddi-arswyd ac yn

\* Mae yn amlwg, oddiwrth y geiriau hyn, na chyfrifai Williams mo'r Methodistiaid, y rhai y mae yn eu hamddiffyn, yn Ymneillduwyr nac yn Eglwyswyr.

ddi-gywilydd; yn canmol, yn moli, ac yn bendithio Duw—dweyd yn dda am dano wrth bawb; yn argyhoeddi pechod, yn sefyll tros ei enw o flaen brawdleoedd, llamu o orfoledd ei iachawdwriaeth, dadguddio ei ddaioni Ef i'r byd. Mi gefais fy nghadarnhau, meddaf, fod yr ysbryd (yma) o Dduw, pa faint bynag o ragrithwyr sydd yn ymgymysg eu llais â hwy; ond hyn, Martha, rhaid it' ddysgwyl profedigaethau mawrion mewn dydd i dd'od—gauaf chwerv ar ol y fath haf cysurus. Mae llid mawr gan ddiadol y dydd heddyw—mae rhwydau fil yn cael eu gwau yn uffern; fe'u taenir hwy o flaen y pererinion ar frys—fe syrth rhai nes bo diafliaid yn llawenhau,—y fath lawenydd ag all damnedigion wneuthur!—Fegaiff annuwlion eu gwyn, fe orfoledda gwag broffeswyr; Moab, Midian, a Philistia fydd wrth eu bodd; ha, ha, fydd eu bara beunyddiol; di-noethwch, di-noethwch hi hyd y sylfaen, fydd testyn caniadau yr holl ragrithwyr, a holl annuwlion y byd—gweled rhai ag sydd yn awr yn wresog yn oeri, rhai yn ieuo â'r di-gred, rhai yn llaesu dwylaw, rhai yn syrthio yn waradwyddus, rhai yn cael eu llusgo gyda'r byd i'r mwyn-gloddiau: gweled hyn, meddaf, a wna'r byd wrth ei fodd. Ond er y cwbl fe saif Duw o blaid ei bobl—ni thyr asgwrn yr un o honnynt; fe'u ceidw hwynt ac a'u dyfrha ar bob moment: y rhai a gwmp a gyfyd er gwell, y rhai a saif a ofna; fe gân y ddau yn nghyd. Angenrhaid dyfod profedigaethau, angenrhaid gwel'd nerth rhwydau Satan; angen 'nabod drwg y galon oll er mwyn dyrchafu Iachawdwr y byd. Am fod yn rhaid i'r pethau hyn fod, Martha, gweddia pan f'ost agosa at yr ARGWYDD ein Duw, i ddal i fyny ei bobl, ac na chaffont fyn'd yn waradwydd i'r ynyd; gweddia am weinidogion ffyddlon a safu ar y muriau nos a dydd, ac na lwfrhao, ac na thawo nes bo Jerusalem yn foliant ar y ddaear; rhai wedi adnabod drwg a da, gwel'd haf a gauaf; rhai fedro ymhelaethu a phrinhau; gweinidogion fu o flaen yr heliwr a geisiwyd ddal, ond a ddiangasant allan fel aderyn o fagl yr adarwr.

Nis medraf ddarfod nes rhoi un *passage* o ateb i'r gwrth-ddadl mae Mr. Jonathan Edwards, M.A., o Lloegr Newydd, yn ei Lyfr a elwir "Nodau gwahanol weithrediad Ysbryd Duw; wedi eu cymhwyso at y gwaith anghynefin a ymddangosodd yn ddiweddar ar lawer o bobl yn Lloegr Newydd." Yr hwn lyfr, os bydd neb yn ysgrifenu yn erbyn yr hyn a ysgrifenis yma, wyf yn meddwl ei brintio, er mawr gywilydd i anwybodaeth y bobl sydd yn tybied nas bu y fath waith yn y byd o'r blaen; ac er cerydd hefyd i'r Ymneilldwyry, y rhai sydd yn dweyd yn gyffredin mai yn mhlith Methodistiaid Cymru mae'r fath beth yn unig; lle mae'r Eglwys Bresbyteraidd wedi cael y blaen mewn llawer o ar-

.daloedd y byd; gwaith pa un sydd yn cael ei ganmawl hyd yr eithaf gan Dr. Watts a Dr. Guise, a chan y rhan fwyaf o'r gweinidogion enwocaf yn Lloegr Newydd. Ac am ei fod ei hun o farn Bresbyteraidd, gobethio bydd y genedl hon mor ostyngedig a'i ddarllen, os bydd iddynt trwy ateb hyn i'm hanog i'w brintio ef.

Y geiriau sydd fel hyn:—"Rhai a ddywed yn erbyn y gwaith, o ran bod rhyw annhrefn enbyd ynddo, sef torf o ddynion yn nghyd yn gwaeddi allan, ac yn gwneud lleisiau; canys, meddant, 'Nis gall Duw fod yn Awdwr annhrefn.'—Ond, bydded i ni edrych pa beth yw yr ystyr gymhwys o annhrefn—ond tori y drefn hono o bethau, at ba un y maent yn bwrpasol wedi eu rhoddi ac yn uniongyrchol yn penodi at y dyben?—fel os bydd ond trefn a chysondeb dyledus y moddion yn cael eu tori, eu bod yn methu o'u dyben. Ond argyhoeddiad, troedigaeth, a chysur pechaduriaid yw ateb dyben moddion gras. Nid am nad wyf yn meddwl y dylai dynion ag sydd fel hyn yn cael eu cynhyrfu yn anarferol, i gynyg ymatal oddiwrth y fath ymddangosiad allanol mor belled ag y gallont yn hawdd; a gwneud goreu eu gallu i ymatal yn amser yr addoliad cyhoedd, sef y bregeth, &c.; ond os yw Duw yn gweled bod yn dda i ddwysbigo cydwbybodau dynion, neu eu cysuro o'r tu arall, fel nas gallant ymatal rhag gwaeddi allan, ac ymddangos i'r holl bobl—ie, hyd yn nod at aflonyddu, rhwystro, ac anostegu yr addoliad cyhoedd ag oeddynt wedi dyfod iddo, nid wyf yn meddwl bod hyn yn annhrefn, nac yn un rhwystr annedwydd, ddim rhagor na phe buasai gwmmi yn cyfarfod ar faes i weddio am wlaw, ac iddynt gael eu rhwystro yn eu gwaith trwy i Dduw i hidlo arnynt gafod haelionus. O na welai Duw fod yn dda i bob cynulleidfa yn y tir i gael eu lluddias a'u rhwystro fyned yn mlaen â u haddoliad cyhoedd trwy'r fath annhrefn a hyn ddydd Sabboth nesaf! Ni raid i ni ofidio am dori trefn y moddion trwy gael y dyben at ba un y mae'r drefn hono yn arwain. Yr hwn sydd ar neges yn ymfyn trysor a ddylai beidio bod yn ofidus am iddo gael ei rwystro trwy gwrdd â'r trysor yn nghanol ei siwrnai."



*Templum Experienciæ Apertum ;*

NEU,

*Ddrws y Society Profiad  
wedi ei agor o led y pen, fel y gallo y  
sawl a chwenycho edrych i mewn.*

MEWN SAITH DIALOG.

*Ar ddull o Ymddyddan rhwng Theophilus ac Eusebius—y naill, fel  
y dychymyga, yn byw ar Dir Immanuel, a'r  
llall yn Ngwlad Cwsg.*

YN CYNWYS (AR OL HANES DDYCHYMYGOL O GREFYDD GWLAD  
CWSG) SYLFEINI, SIAMPLAU, A GORCHYMYNION YSGRYTHYROL  
AM SOCIETY PROFIAD, FEL Y MODDION GOREU I GADW CRED-  
INWYR RHAG OERI; Y DYSGYBLAETHAU, YR HOLIADAU, A'R  
TREFNIADAU SYDD I FOD YNDDI; Y BUDDIOLDEB A'R ADEIL-  
ADAETH DDUWIOL SYDD O'I CHADW HI YN NGOLEUNI AC OFN  
YR ARGLWYDD, OND Y CANLYNIADAU GRESYNUS SYDD O'I  
CHADW HI YN ANNOETH AC YN ANYSTYRIOL.\*

\* Cyhoeddwyd y gwaith hwn y tro cyntaf yn y flwyddyn 1771, wedi ei argraffu yn  
Aberhonddu, gan E. Evans.

## *Drws y Society Profiad.*



### DIALOG I.

Hanes ddychymygl o farweidd-dra gwlad cwsg—Disgyniad yr Ysbryd ar nifer o broffeswyr claiar yno—Yr effaith ryfeddol o hyny—Profedigaethau yn canlyn—Y moddion a arferwyd i achub y credinwyr rhag cael eu llithio—Buddioldeb *society* profiad i'r perwyl hyny.

**THEOPHILUS.**—Ow! groesaw adre', Eusebius; mae oes i'm tyb er pan y gwelais chwi ddiwedda, a mawr hiraeth oedd arnaf am eich cyfarfod yn rhyw fan neu gilydd; ond o hir ddysgwyl y daw daioni—dyma fy nymuniad ar ben.

**EUSEBIUS.**—Nid llai oedd arnaf finau o chwant, os nid rhagor i'ch gweled chwithau, fy hen gydymaith; a'm siwrnai yr awrhon atoch sydd dyst digonol o hyny, canys nid oedd fy neges yma yn terfynu ar un dyben arall yn rhagor na chael ymddyddan â chwi yn nghylch achosion crefydd.

**THEOPHILUS.**—Dyben da, fy mrawd, gan mwyaf wna waith da, a'r **ARGLWYDD** a'i llwyddo; ac mae yn anhawdd treulio amser i well gorchwyl na siarad yn ddwys a difrifol yn nghylch pethau o dragywyddol bwys, fel y dywedir yn Malachi iii. 16—“Yna y rhai oedd yn ofni'r **ARGLWYDD** a lefarasant bob un wrth ei gymydog: a'r **ARGLWYDD** a wrandawodd ac a glybu; ac ysgrifenwyd llyfr coffadwriaeth ger ei fron Ef i'r rhai oedd yn ofni yr **ARGLWYDD**, ac i'r rhai oedd yn meddwl am ei enw Ef.” Ond yn gyntaf, gadewch i mi ofyn eich helynt—pa sut mae eich iechyd? pa sut yr ydych yn byw? a ydych wrth eich bodd? pa un bynag ai priod ai gweddw, cyfoethog neu tlawd, parchedig neu anmharchedig?

**EUSEBIUS.**—Wrth fy modd yn mhob cyflwr ond cael bod yn fy ysbryd yn agos at Dduw, canys fe'm dysgwyd i fod yn fodlon i bob cyflwr, i fyw yn helaethach ac yn brinach; ac yr wyf yn ceisio ymestyn at fod yn y cyflwr y dywed yr Apostol, 1 Cor. vii. 29, &c.—“Fod o'r rhai sydd â gwagedd iddynt, megys pe byddent hebddynt; a'r rhai a wylant, megys heb wylu; a'r rhai a lawenhant, megys heb lawenhau; a'r rhai a brynant, megys heb feddu; a'r rhai a arferant y byd hwn, megys heb ei gam-arfer.” Ac yr wyf yn diolch i'm Duw nad oes na chystudd, na chroes, na gorthrymder arnaf, nad yw fy Nhad nefol yn rhoi i mi allu i'w dwyn, a bod yn fodlon tani.

THEOPHILUS.—Bellach, pa fodd y mae gwaith yr ARGLWYDD yn myned yn mlaen yn eich gwlad chwi? clywais fod efengyl IESU wedi cyrhaedd atoch, ac wedi esgor ar feibion lawer. A da gwnewch fynegu i mi pa fodd y dechreuodd y gras weithio yno? trwy ba foddion? a chyda pha nerth? pa mor ddi-gyfrwng? a pha rasmusau ddangosodd yn blaenori? pa ddichellion a ddyfeisiodd Satan i rwystro y gwaith? a pha gystuddiau neu dreialon i'ch cadarnhau, i'ch profi, a'ch puro a gawsoch?

EUSEBIUS.—Chwi ofynasoch i mi amryw gwestiynau, ac mi wnaif fy ngoreu i ateb y cyfan, o ran nad oes un hanes felusach genyf i adrodd, na dim yn bywiocau fy enaid yn fwy na chofio am ddyddiau ymweliad yr ARGLWYDD â mi ac ereill yn nydd fy nyweddi, ac yn nydd llawenydd fy nghalon; ac mae cofio am yr amser hyny i mi yn wastadol fel diliau mel.

Y dull y gweithiodd yr ARGLWYDD yn y rhan hyny o'r byd oedd fel hyn—Pan yr oeddem ychydig broffeswyr yn nghyd ar un tro, yn oer ac yn farw ddi-gyffelyb, mewn cyfarfod ag oeddem ni yn ei alw oedfa neillduol—bron a digaloni dyfod at ein gilydd byth mwy—rhaf fyddai yn arferol o fod yn eisieu gan mwyaf bob oedfa, rhaf yn swrth feirwon, heb ddim i ddweyd am DDUW nac am eu heneidiau; rhaf wedi ymroddi i'r byd a'i ofal; rhaf wedi gwrthgilio yn lân oddiwrth bob moddion gras ac ordinhadau'r efengyl; rhaf wedi ymroddi i gnawd ac anlladrwydd, megys yn nyddiau Noah—gwreica, gwra, priodi, a rhoi mewn priodas, a mi fy hun yn mron digaloni, ac yn meddwl yn fynych dyfod i fyw i barthau mwy gwresog, a symud fy mhabeil o Ur y Caldeaid yn nes i derfynau Gwlad yr Addewid. Ond pan oedd pob peth fel hyn—byd, cnawd, a Satan wedi enill y dydd,—eto yr oedfaon neillduol hyn oedd yn cael eu cadw mewn rhyw wedd farwaid i ryfeddu, heb un fath o galondid gan neb i fyned â'r gwaith yn mlaen ond addewid Duw.—Pa le bynag y byddai ond dau neu dri yn dyfod yn nghyd yn ei enw Ef, os eu dyben fyddai union, pa mor farw bynag byddai eu hwyl bresenol, y byddai Ef i ddyfod atynt a'u bendithio. Hyn yn unig barodd i ni ddyfod i weddio at ein gilydd; ond nid oedd ein gweddiau ond yn hytrach ocheneidiau. Ond o'r diwedd—trwy rym llwfrdra, anghrediniaeth, a phrofedigaeth oddiwrth Satan—darfu i ni *resolfo* rhoi i fyny ein cyfarfod neillduol; ac yn awr ar fedr gweddio gweddi ymadawiad, gan feddwl rhoi i fyny y fath gyfeillach byth mwy. Ond yn nyfnder ac eithaf anghrediniaeth yw yr amser i DDUW roi ffydd, a phan bo dyn wedi methu mae Duw yn ymddangos. Felly yma, yn nghanol ein cyfyngder, ar fin anobaith, pan oedd pob gobaith o lwyddiant wedi ei gau i fyny, daeth Duw ei Hunan i mewn

i'r canol, a gwawriodd goleu ddydd arnom o'r uchelder: canys rhyw un o'r brodyr—ie, y mwyaf llwfr o honom oll, yr hwn oedd yn anghredu fwyaf am ddyfodiad Duw atom—ar weddi a gynhyrfodd yn yr ysbryd, ac a gadarn ymaffodd â'r nef, fel un na ollyngai ei afael er dim—ei dafod a lefarodd eiriau anghynefin—ei lais a ddyrchafodd—ei ysbryd enynodd yn fflam—fe blediodd—fe floeddiodd ar DDUW—fe ymdrechodd—fe ymorchestodd o ddifri, fel Jacob, yn nyfnder ei gyfyngderau. Y fflam a ymaffodd yn ereill—fe ddihunodd pob rhaf—yr ysbryoedd mwyaf oer a difraw a ymaffasant, ac a wresogasant—ymdrech ac ymorchestu a gwmpodd ar bawb—ni oll a aethom gydag ef i ryfel—ymaflasom gydag ef yn Nuw, ei briodoliaethau, ei air, a'i addewidion, gan *resolfo* na ollyngem ein gafael nes cael ein holl ddymuniad; a hyn ddaeth i ben, canys cwmpodd arnom awel felus o gariad yr ARGLWYDD—llanwyd ni fel meiliau ac fel cornelau yr allor—enynodd tân, a ni a lefarasom â'n tafod. Y cwmwl a ffodd—yr haulwen a dywynodd—ni yfasom o rawn-sypiau gwlad yr addewid, ac ni a wnaud yn llawen—darfu anghrediniaeth—darfu euogrwydd—darfu ofn—darfu ysbryd llwfr, anghariad, cenfigen, drwg-dyb, yn nghyda'r holl bryfed gwenwynig ag oedd yn ein blino ni o'r blaen; ac yn eu lle daeth cariad, ffydd, gobaith, llawenydd ysbryd, a thyrfa hyfryd o rasmusau yr Ysbryd Glân. Ac erbyn hyn nid oedd yr oedfa ond dechreu, canys dyblwyd gweddi, canu, canmawl, a bendithio, heb neb yn blasu ar ddiwedd: rhaf oedd yn awr yn wylo, rhaf yn moli, rhaf yn canu, rhaf yn hyfryd nefol chwerthin, a phawb yn synu, yn caru, ac yn rhyfeddu gwaith yr ARGLWYDD—yn gyffelyb i'm tyb i i ddyddiau yr Apostolion, pan ddisgynodd yr Ysbryd o'r uchelder ar ychydig bobl ofnus, ac a'u nerthodd hwynt yn gryfion i fyned allan o'u cell ddiregel i ganol heolydd Jerusalem, a chyhoeddi enw yr ARGLWYDD o flaen pob llwyth, iaith, a chenedl ag oedd wedi casglu yn nghyd yno o eithaf y ddaear. Ac megys y pryd hyny, felly yma hefyd, y son am hyn a daenodd ar led o blwyf i blwyf, ac o bentref i bentref, nes i bobl heb rifedi i gludo tan y gair—gwŷr, meibion, gwragedd, a phlant; a phregethwy'r hefyd ddaeth atom o bob parth, wedi clywed o bell son am weithredoedd yr ARGLWYDD: ac nid â bronau hesbion y daethant hwy hefyd, canys pa fath bynag baent i ereill, blithion oeddent i ni, o ran nas daeth braidd un atom heb ei wir *gomisiwn*—*certificat* pob un yn ei enau, canys yr ARGLWYDD a'u llwyddodd o bob gradd—y pregethau oedd hyfryd—y gwrandawyr yn aml, yn ystyriol, ac yn awyddus i wrando—rhaf oedd yn cael eu hargyhoeddi bob oedfa—un llange oddiwrth gyfnewidiad ei gyfaill yn yfed argyhoeddiad—un chwaer oddiwrth chwaer arall—gŵr oddi-



wrth ei wraig, gwraig oddiwrth ei gŵr, a chariadau yn derbyn argyhoeddiad oddiwrth eu cariadau. Yn awr fe gyfnewidiodd y dôn trwy ein holl ardal: yn lle chwareu ar y Sabboth, dawnasio, tyngu, rhegu, cabluenw Duw, canu caniadau ofer, gwag siarad, holi hanesion, hela chwedlau, dweyd celwyddau, ac erlid y saint—yn lle hyn, meddaf, daeth bugeiliaid i ganu hymnau ar hyd pen y glenydd; yr aradwr a'r geilwad yn fynych yn ymbyncio mewn salmau ac odlau ysbrydol ar hyd y meusydd; y gwryfon, y plant, a'r henafgwyr yn nghyd yn siarad yn hyfryd am weithrediadau Ysbryd y gras. Mi feddyliais lawer gwaith y pryd hyny am brophwydoliaethau yr Hen Destament, ac nis gwelais un peth yn eu hagog yn well na'r awdurdod nefol y pryd hyny ar ein heglwys fechan ni, a'r ardaloedd o gwmpas: megys yr Ysgrhythyr hono yn Joel ii. 29, 30, &c.—“A bydd yn y dyddiau diweddf, medd Duw, y tywalltaf o'm hysbryd ar bob cnawd: a'ch meibion chwi a'ch merched a brophwydant, a'ch gwŷr ieuaingc a welant weledigaethau, a'ch henafgwyr a freuddwydiant freuddwydion: ac ar fy ngweision ac ar fy llawforwynion y tywalltaf o'm Hysbryd yn y dyddiau hyny, a hwy a brophwydant; a mi a roddaf ryfeddodau yn y nefoedd uchod ac arwyddion yn y ddaear isod—gwaed, a thân, a tharth mwg.” Canys mor ofnadwy ac mor ddychrynlyd i gnawd a natur oedd y gwaith rhyfedd hyn o eiddo'r nef ag yw gwaed, tarth, mwg, a thân i ddynion ofnus.

THEOPHILUS.—A ydyw yr awdurdod nefol hon yn para felly o hyd?

EUSEBIUS.—Mae Ysbryd yr ARGLWYDD yn aros gyda ni, ac yr wyf yn credu yr erys fyth. Gwir yw, nid oes mo'r awelon hyfryd hyny mor fynych ag oeddent; ac nid oes o'r un boethder yn y tân; ac nid yw yr hwylus wynt yn chwythu mor danbaid, am fod llai o gnawd yn gymysg o bosibl ag ef; canys ar y cyntaf pan ddaeth ein heneidiau i brofi gwleddoedd y nef, fe fynai y cnawd yntau gael ei *shâr*, a holl nwydau natur—wedi cael eu terfysgu gan ras—oedd yn gwneud terfysg a 'stwr ofnadwy tu allan i'r muriau; ond fel daeth y wledd nefol i fod yn fwy yn yr enaid o mewn, nid oes gan gnawd yr awrhon agos cymaint o law yn y chwareu hyn ag ydoedd, canys mae ef yn gorfod dystewi o flaen yr ARGLWYDD, a gadael yr enaid i ymborthi ar fywyd a bery byth. Ond eto mae arwyddion amlwg fod y bobl hyn yn myned yn mlaen o ras i ras, canys gwelir ynddynt galonau briw a chlwyfus, cydwybodau byw a thyner, ewyllys wedi ei dori at feddwl Duw, i ddweyd gyda'r Apostol, “Pa beth a fyndi di i mi ei wneuthur?”—ofn duwiol sydd ynddynt yn cynyddu, ac yn ofalus yn mhob rhyw

ddyledswyddau at DDUW, atynt eu hunain, ac at eu cymydogion—yn ymdrechu yn fanwl gadw eu lle; ond yn fwy' enwedig eu cynydd sydd yn y pethau canlynol—sef, yn gyntaf, yr olwg sydd ganddynt arnynt eu hunain, fod eu calonau yn fwy eu twyll na dim, mai drwg anllywodraethus ydynt—pwyl a'u hedwyn? a bod—fel y dywed Duw ei Hunan, Gen. vi. 5—holl fwriad neddylfryd calon dyn yn unig yn ddrygionus bob amser. Yr olwg hyn sydd yn peri iddynt ffeiddio eu hunain, a chredu mai y penaf o bechaduriaid ydynt ar bob amser; hyn sydd yn peri iddynt nas condemniant ac nas rhagfarnant neb arall, ond tosturio wrth bawb, gan gredu eu bod hwy eu hunain yn annheilyngach na neb pwyl bynag. Yn ail, yr angen sydd arnynt o Gyfryngwr. Mae yr olwg wael uchod wedi doddi CRIST ac oll sydd yn perthyn iddo yn anwyl—ei gyfiawnder, ei ddyoddefaint, ei nerth, a'i ddoethineb. Ni fyn y bobl hyn heddyw i edrych, i feddwl, nac i astudio dim ond trugaredd, haelioni, a thiriondeb y Messias; dyoddefaint pen Calfaria yw eu cân; dyma destyn eu siarad a thestyn eu *study*; ac nid y'nt fyth yn edrych i mewn ond er mwyn gyru eu hunain i bwysio mwy ar, a chredu mwy yn NGRIST. Fel hyn fe ddysgodd eu drwg hwy redeg at y da; fe ddysgodd eu pechod hwy edrych ar Gyfryngwr. Fel hyn gwnawd hwy yn fwy marw i'w doniau, grasau, rhinweddau, a barnau da dynion am danynt; dim heddyw ond CRIST oll yn oll.

THEOPHILUS.—Cant i un fod Satan yn llonydd i'r fath gorlanaid o ddefaid heb wneud rhyw hafog yn eu plith—yn y rhan leiaf eu temtio, eu blino, eu gorthrymu, neu eu tynu at ryw bleserau gau.

EUSEBIUS.—Oh, nis gallaf fyth adrodd i chwi y cwbl am y pethau hyn, canys aneirif yw eu temtasiynau, a rhei'ny o bob math; rhai at bob graddau, rhai at bob oedran, rhai o mewn, rhai o maes, rhai o mewn a rhai o maes ar un waith, fel nad oes neb a wŷr eu grym a'u rhifedi ond Duw ei Hun. Ond chwi a ddeallwch rai ohonynt pan yr ystyrioch eu hoedran a'u hamgylchiadau—sef cwmpeini o lanciau hoenus a gwrol, tyrfa o ferched yn eu grym a'u nwyfiant, dynion y rhan fwyaf ohonynt ag sy gan Satan le cryf i weithio ar eu serchiadau cnawdol, ac i'w denu at bleserau cig a gwaed; ond y rhyfeddod mwya' eu bod yn sefyll yn nghanol eu holl amrywiol brofedigaethau: mae gymaint rhyfeddod ag i wreichionen o dân beidio diffodd yn nghanol y môr, neu i gyfeillion Dafydd fyned trwy ganol llu y Philistiaid i ymofyn dwfr iddo o ffynon Bethlehem, ac eto safio eu bywydau. Ond i'r nef mae'r diolchgarwch,—yr Un ag a ddysgodd fysedd Dafydd i ryfela, a'r Un ag a'i nerthoedd i lamu trwy'r fyddin a neidio tros y

mur, a'u nerthodd hwythau yn nghanol eu gwendid i faeddu Satan ar ei dir ei hun. Mae'n wir i rai ohonynt gael eu clwyfo, ond ni laddwyd neb; fe demtiwyd rhai yn mhell, ac fe'u hudwyd i dir dyeithr, ac fe'u tafwyd i lawr ar greigydd geirwon, eto fe iachawyd eu harchollion, fe eliwyd eu clwyfau, ac maent heddyw mor gryfed ag y buont erioed, ac lawer yn fwy ofnus rhag cyfeiliorni na'r rhai na's temtiwyd. Trwy argyhoeddiad a cheryddon y brodyr, ymbiliau taer a gweddiau, a thrwy bob moddion o diriondeb atynt, hwy a dynwyd allan fel pentewynion o ganol y tân, ac maent heddyw â'u cân o ddiolchgarwch cu'wch a'r nef.

THEOPHILUS.—O holl foddion gras nid wy'n gweled un mor fuddiol a'r cymdeithasau neillduol a elwir *societies* prifat arnynt, i geryddu, i hyfforddi, i adeiladu, ac i gefnogi aelodau gweinion ag sy barod i gyfeiliorni i ryw ochr—naill ai i chwant, pleser, neu garu teganau o un tu, neu i falchder, rhyfyg, hunandyb, a chenfigen o'r tu arall; neu ynte i gael eu denu trwy hoced dynion i dwyllo, i athrawiaethau gau a chyfeiliornus, ac i amrywiol bethau ereill ag sydd wedi gwneud mawr niwed i seintiau Duw.

EUSEBIUS.—Dyna'r neges bena' oedd genyf i'ch cyfarfod chwi, fy hen frawd a'm hathraw, sef cael rhyw gyfarwyddyd genych (fel y rhoisoch i mi lawer o weithiau o'r blaen) yn nghylch yr oedfaon dirgel hyn. Credu yr wyf eu bod yn wir angenrheidiol, a'u bod, os cedwir hwynt yn iawn, yn un o'r moddion mwya' awdurdodol i gadw eglwys Dduw yn ei lle. Rhai ddywedant gyda mi nad oes sylfaen iddynt o'r Ysgrythyr-lân, ac nad oedd y fath ymgynulliad dirgel ddim yn cael ei arferyd yn yr eglwys Iuddewig, nac 'chwaith tan y Testament Newydd, na chan y Diwygwy'r oddiwrth y grefydd Babaid, ond mai rhyw drefn newydd ddaeth gan y Methodistiaid i mewn yw hi, ac nad yw fuddiol i ddim ond i ddyysgu dynion i fod yn waeth nag o'r blaen trwy ddadguddio i'w gilydd ddirgel weithredoedd diafol. Fy ddywed rhai mai nid da dweyd calonau, am fod canlyniadau drwg o hyny; ereill a haerant mai balchder yw dweyd profiadau, ac mai nid buddiol i bawb i glywed yr amryw demtasiynau sydd yn cyfarfod ereill. Ac o i bawb i ddweyd y cwbl, gall dynion oeri at eu gilydd, priodasau gael eu gwahanu, cariadau fo yn mron priodi syrthio allan, ac amryw grach a llygredigaethau ddyfod i'r golwg nas gwyddai neb am danynt ond Duw ei Hun. Am hyny, anwyl Theophilus, dangoswch i mi, fel y gallwyf finau ddangos i'r cyfryw rai ag sydd yn amheu sail sicr o'r fath gymdeithasfa grefyddol a hyn, eu gwir sylfeini, yn nghyda pha mor belled y mae i ddyn adrodd ei feddwl a'i galon yn y fath gymdeithas; beth sydd i ddweyd? beth sydd i gelu? beth

ddywedir wrth Dduw nad yw dda i'w ddweyd wrth ddynion? Y pethau hyn, a llawer o'r fath, wyf—os yr ARGLWYDD a'i myn—ar fedr cael eu gwybod genych cyn fy ymadawiad oddi wrthych.

## DIALOG II.

Buddioldeb *society* profiad, pan arferir hi yn addas, yn brawf o'i bod yn angenrheidiol—Y sylfeini o honi o'r Hen Destament a'r Newydd—Yr achos o fod yn ofalus rhag tramgwyddiadau ynddi—Y doethineb nefol a ddylai gael ei arferyd i fod pob peth er adeiladaeth.

THEOPHILUS.—Pe bai heb un *instans* nac esiampl o'r Hen Destament na'r Newydd i'w gael, mae buddioldeb y fath gyfarfodydd ynddo ei hunan yn ddigon i gadarnhau eu bod hwy wrth feddwl Duw. Mae amryw bethau ag nad yw yr Ysgrythyrau yn eu gosod allan fel dyledswydd, eto, wrth resymoldeb y peth, yn ddigon eglur eu bod yn angenrheidiol—megys gweddi deuluaidd foreu a nawn, sacrament bob mis, gwagedd i fod yn gyfranog o hono, gweddi cyn ac ar ol pregeth, ac amryw bethau o'r cyffelyb nas gellir dyfod âg un *instans* eglur o'r Ysgrythyrau am danynt, ond yn unig trwy ganlyniadau gellir eu gwneud allan; eto y peth sydd mor rhesymol, buddiol, ac adeiladol ag nad oes nemawr o ddyn yn ei amheu ond y Cwaceriaid.

EUSEBIUS.—Ond fe ofynir i mi pa fodd yr ymddengys eu bod mor angenrheidiol a buddiol?

THEOPHILUS.—Maent yn gynta' felly, trwy eu bod yn foddion i gadw i fyny yr un gwres a bywyd ag y dechreuasom ynddo; fel y mae haiarn yn hogi haiarn, felly gwr sydd yn hogi wyneb ei gyfaill. Y mae gan gyfeillach effaith fawr iawn i'n bywiocau at dda neu at ddrwg; a pha foddion gwell i fywiogrwydd nag ymgasglu at ein gilydd i gyd-weddio, cydganu, ac adrodd mor dda bu Duw i un a'r llall wedi'r tro diweddaf? adrodd gwaredigaethau yr ARGLWYDD, dadguddio fel tynodd Duw ni allan o fagl yr heliwr, ac fel y gwareddodd Efe ni oddiwrth yr haint echryslon. Mae pobl Dduw yn dyfod o'r fath gymdeithas a hyn fel meddwon o'r gwindy—yn llon-hyfyd, wedi drachtio gwin y nef; wedi eu cysuro, eu hyfforddi, a'u hadeiladu. Ac ereill o bosibl wedi eu ceryddu mewn cariad, ac yn ymadael â'r gymdeithas ac yn *resolfo* llwyr ymadael â'u chwant hefyd; ac ereill oedd tan brofedigaethau digalondid ac annghrediniaeth, wedi cael eu cryfhau yn y ffydd. Yn ail, mae'r fath gymdeithas yn fuddiol i ddadrus amryw rwydau a maglau dirgel oedd Satan wedi eu

gwau tuag at ddal'r credadyn syml ar ei dir ei hunan. Mae'r diafol yn ysbryd cyfrwys a dichellgar, ac yn rhoi ei holl ddyfais ar waith pa fodd i gwympo credinwyr; ac mae efe yn lliwio ei rwydau, fel pob pysgottwr, na welo'r credadyn mo honynt. Fe ymrithia ei hun fel angel goleuni, ac lawer pryd fe ry' ei demtasiynau allan fel pe baent yn rasmusau hyfryd ag a fyddai, oni bai fod Duw yn cadw, yn abl hollol ddallu'r etholedigion; ac yn yr achos hyn da yw i seintiau ddyfod yn nghyd i chwilio, i holi, ac i fynu adnabod natur y profedi gaeathau fo wedi dal gweiniaid, ac i daer weddio eu traed allan o'r cyffion. Mae amryw saint ieuaingc fel wŷn a red ar ol cwn yn lle eu mamau; yn tybied mai gras yw rhai pechodau, mai awelon y nef yw awelon natur, mai calon friw yw ysbryd *melancoli*, ac nid sel tros DDUW yw balchder, cenfigen, a rhagfarn; ac angen yw i dduwiolion i ymgynull yn nghyd i ddadrys Crist'nogion gweinion allan o'r maglau hyn, ac i gyfarwyddo y rhai gollodd y gwir lwybr i ddychwelyd iddo drachefn. Yn drydydd, mae'r cymdeithasau neillduol hyn yn dda at ragflaenu ymrysonau, drwg-dybiau, rhagfarnau, cynenau, gwŷnfydau, a phob anghariad; mae cadw yn mhell un oddiwrth y llall yn yr un eglwys (pan bo pob cyfleusdra o gyfarfod yn fynych) yn magu anghariad ac oerfelgarwch di-gyffelyb; ac ni chais Satan fyth well tuag at enyn y pethau uchod na'n cael ni beidio cyfeillachu â'n gilydd. Nid rhaid i'r garddwr ond peidio ymweid â'i ardd, a pheidio ei chwynu, hi oresgynir gan chwyn mewn ychydig wythnosau; ac ni raid i eglwys DDUW ond cadw pellder y naill oddiwrth y llall, fe dyf i fyny anghariad fel gweiddyn, ac oddi wrtho daw pob cangenau truenus, ac nad oes neb a'u dystyria ond Duw yn unig. Ond o'r tu arall, pa gariad? pa undeb? pa feddyliau da? pa gadw? a pha ymddiffyn sydd mewn aelodau eglwys ag na bo yn esgeuluso eu cydgynulliad yn nghyd? Yn bedwerydd, mae y cyfryw gynulliad yn fuddiol er mwyn edrych a gwyllo ar ol bywydau ein gilydd rhag i neb redeg i fywyd penrydd, a throi gras Duw i drythyllwch. Mae saint y Goruchaf lawer pryd yn dygwedd bod â'u trigfanau mewn lleoedd caregog; rhai â'u gorchwylion yn nghanol torf o annuwiolion; yn ffarmwyr mawrion, yn siopwyr, yn farsiaandwyr, neu yn weision a morwynion i'r cyfryw rai, lle maent yn gorfod siarad, cyfeillachu, a chydweithio â'r rhai di-gred, ac mewn mawr berygl o gael rhyw staen ar eu wisgoedd oddiwrth y cyfryw rai—naill ai trwy eu denu i bleserau, neu eu gyru i dymherau anaddas—geiriau chwerwon, atebion crâs, neu rhyw ymddygiad anweddaidd i gredadyn; ac angen yw yn yr achos hyn i bobl DDUW ddyfod yn nghyd i ddysgu eu gilydd pa fodd mae sefyll yn y fath

sefyllfeydd, ac i geryddu eu gilydd os bydd neb wedi rhedeg oddiar y gwir lwybr trwy ddeniadau, neu wrthwynebiadau y rhai di-gred hyn. Fel mai arfer merched wrth wisgo ac ymbyncio yw edrych ar wisgoedd eu gilydd, rhag ofn fod un darn yn annhaclus, yn annghymen, ac yn anaddas y naill i'r llall, felly mae eglwys DDUW, yr hon sydd wedi disgyn i waered o'r nef, fel prudas-ferch wedi ei thrwsio i'w gŵr, i edrych ar fywydau ac ymarweddiad eu gilydd, rhag fod neb wedi cyfeillachu yn fynwesol â'r byd annuwiol—yfed eu harferion, siarad eu hiaith, rhoi iddynt eu cariad a'u dirgelion, ac felly wedi cyfeiliorni oddiar lwybrau'r nef. A pha fodd y gwneir hyn yn well nag wrth gadw cymdeithasau neillduol? Yn bumed, mae'r fath gymdeithasau yn fuddiol er mwyn dwyn beichiau ein gilydd. Pa sawl un o'r duwiolion sydd tan feichiau trymion?—rhai plant wedi rhoi beichiau ar ysgwyddau eu rhieni; rhai rhieni ar ysgwyddau eu plant; treiswyr a gorthrynwyr y byd hwn wedi rhoi beichiau ar lawer o wragedd gweddwon a phlant amddifaid; rhai duwiolion wedi rhoi beichiau ar ysgwyddau eu gilydd—fel mae torf fawr o gredinwyr yn gruddfan tan bwys gwasgfeuron o aneirif fath. A pha ffordd ragorach i ysgafnhau ysgwyddau'r credinwyr nag adrodd eu croesau, eu cystuddiau, a'u gorthrymderau wrth bobl DDUW? canys trwy hyny hwy gânt nid yn unig gydymdeimlo â hwynt, ond hefyd cânt y brodyr i weddio drostynt, eu cysuro, eu dyddanu, a'u hyfforddi i ymddwyn tan bob baich a chystudd; a hyn a wna ysgafnder mawr i bob dyn llwythog, fod arall yn dal rhan o'r iau, ac yn tynu rhywfaint o'r llwyth yn mlaen. Yn chweched, mae'r fatl gyfarfodydd yn fuddiol er mwyn mynegu yr hyn a wnaeth Duw ar ein heneidiau, a molianu ei enw Ef am yr unrhyw. Dafydd a eilw ar y seintiau (Salm lxvi. 16), gan ddywedyd, Deuwch, gwrandewch, y rhai oll a ofnwch DDUW, a mynegaf yr hyn a wnaeth Efe i'm henaidd. A phob un ag sydd o'r un ysbryd a Dafydd, sydd eto yn hiraethu am adrodd y pethau mawrion a wnaeth Duw iddo ef, gan ewyllysio i holl bobl yr ARGLWYDD dalu diolch drosto ef. O! mor anhawdd i ddyn wedi cael trysorau mawrion, a rhei'ny yn annysgwyladwy, naill ai oddiwrth geraint neu ryw ffordd arall, beidio dadguddio hyny i bawb o'r rhai a lawenhai gydag ef! Methodd i'r wraig a gafodd y darn arian a gollodd a chelu yr achos, ond hi a alwodd yn nghyd ei chyfeillesau, ac a ddywedodd, Llawenhewch gyda mi, am i mi gael y dryll hwnw a gollais. Pa faint mwy y chwenychiad sydd mewn dyn duwiol, yr hwn wedi bod yn hir dan dywyllwch, ac yn awr wedi dyfod i'r goleuni, i fynegu trugareddau yr ARGLWYDD iddo ef? O! 'r blas hyfryd sydd gyda golwg ar faddeuant pechod! Golwg ar gariad tragywyddol yr ARGLWYDD, ac ar

drysorau gras yn addewidion y Cyfamod Newydd!—y fath yw nas gall credadyn lai na'i adrodd gyda'r hyfyrdwch mwyaſ. Ond yn olaf, y cymdeithasau hyn sydd fuddiol er mwyn ymgyfihau yn erbyn ein holl elynion ysbrydol, a gweddio fel un dyn yn eu herbyn hwynt oll. Pan caffo Satan ni bob yn un ac un, mae e'n fwy parod i'n llwfrhau; ond pan delo milwyr Duw fel yma at eu gilydd i siarad am nerthoedd y nef, a bod allweddau y pydew di-waelod wrth ystlys y Messiah, galw i gof weithredoedd yr ARGLWYDD gynt—yn y Môr Coch ac yn maesydd Soan, fel y trodd Efe yr afon yn ol, ac yr aethom trwyddi ar draed,—wrth adrodd fel hyn ryfeddodau yr ARGLWYDD, maent yn ymgadarnhau yn erbyn eu gelynlion ysbrydol—y byd, y cnawd, a'r cythraul, ac yn ymadael â'u gilydd yn hyf, yn galonog, ac yn wrol, fel wedi enill y dydd. Y pethau hyn, a llawer o bethau ereill fel y rhai'n, a ddengys y buddioldeb o'r fath oedfeun neillduol; a phe bai heb un o'r achosion ysbrydol hyn yn galw dynion duwiol yn nghyd, eto mae amryw achosion tymhorol ac eglwysig yn eu gwahodd yn oleu i ymgasglu at eu gilydd; ond nis caf enwi yn bresenol ond un, a hyny yw, er mwyn edrych at angenrheidiau y tlodion a'r anghenus yn yr eglwysi. Tra fo duwiolion yn ddyeithr y naill i'r llall, mae yn ddiau eu bod yn fyr yn yr achos hyn; ond os bydd cymdeithasau neillduol yn cael eu cadw yn addas, fe fydd pawb yn gwybod am-glychiadau y naill a'r llall; ac felly tosturi, cydymdeimlad, haelioni, cariad, cymwynasgarwch, a phob grasusau ereill sydd yn perthyn i'r cyfoethog at y tlawd, i'r iach at y claf, i'r llawn at y llwm, i'r esmwyth at y gofidus a'r anghenus, gaiff eu harfer. Dyma, fy anwyl Eusebius, bethau sydd yn gwneud y *society brifat* yn ddyledswydd eglur ar bobl DDUW i'w chadw gyda'r diwydrwydd, yr astudrwydd, a'r prysurdeb penaf. Ond am gael sail o air Duw, fel dywedasoſ, nid yw hyny hefyd ond y peth hawsaf. Yn llyfr Job, yr hwn dybia rhai mai y rhan gyntaf o'r Ysgrhythrau a 'sgrifenyd yw, ac mai Moses oedd yr awdwr, y cawn ni feibion Duw (canys dynion duwiol oedd y pryd hyny tan enw meibion DUW, a'r annuwiolion tan enw meibion dynion) yn dyfod i sefyll ger bron yr ARGLWYDD, a Satan hefyd a ddaeth yn eu plith hwy: eu cynulliad, yn ddiau, oedd yn neillduol, sef o rai ag oedd yn eu cyfenwi eu hunain ar enw yr ARGLWYDD, ac nid tyrfa gymysgedig o rai i wrando'r gair fel tan y Testament Newydd. Am hyn ni allwn alw yr oedfa hon—i ba un y daeth Satan i mewn, a'n HARGLWYDD i mewn hefyd—yn oedfa neillduol, neu *society brifat*, canys nis dywedir fod yma neb yn dweyd rhyw araeth neillduol, a bod tyrfa o blant dynion yn gwrando neb ond meibion Duw, sef proffeswyr y gwir DDUW. Ni gawn eil-

waith yn Gen. iv. 26, Enos, wŷr i Adda, yn casglu yn nghyd yr ychydig rai oedd yn cadw addoliad y Duw byw yn ei ddyddiau ef; ac yna, fel un gymdeithas dechreusant alw ar enw yr ARGLWYDD. Yr oedd hyn rhwng dau cant a haner a thri chan' mlynedd ar ol creadigaeth y byd; a Duw megys wedi cael ei anghofio, ac eilunaddoliaeth wedi dyfod i mewn i blith hiliogaeth Cain, ac nid oedd ond Enos yn rheulu Adda yn meddu ysbryd i gasglu'r bobl yn nghyd i gymdeithas grefyddol. Yn nyddiau Abraham yr oedd yr eglwys yn ei dŷ ef yn cynwys mil neu lawer rhagor o broffeswyr y gwir DDUW, a diau fod gan ŵr o fath Abraham ddysgyblaeth, llywodraeth, a chyflawniad o bob dyledswyddau crefydd yn eu plith, ac yntau ei hun fel penteulu yn ymddwyn fel offeiriad atynt; a pha beth bynag sydd fuddiol, adeiladol, a dyledus i fod mewn *society brifat*, diau fod Abraham yn cyflawni hyny oll ar ol goruchwyliaeth y dyddiau tywyll hyny. Fe ddywedir yn Malaci iii., pan oedd yr eglwys Iuddewig wedi gwrthgilio yn mhell oddiwrth ei phurdeb cyntaf, "Yna y rhai oedd yn ofni yr ARGLWYDD a lafarasant bob un wrth ei gymydog: a'r ARGLWYDD a wrandawodd, ac a glybu, ac ysgrifenyd llyfr coffadwriaeth ger ei fron Ef i'r rhai oedd yn ofni yr ARGLWYDD, ac i'r rhai oedd yn meddwl am ei enw Ef. A byddant eiddo fi, medd yr ARGLWYDD, y dydd y gwnelwyf i fyny fy nhrysor neillduol, neu yn y dydd y casglwyf fy nhlysau. Arbedaf hwynt hefyd fel yr arbed gwŷr ei fab sydd yn ei wasanaethu." Dyma hanes lawn i chwi o gymdeithasau neillduol, a'r fath sylw mae Duw yn ei ddal arni. Chwi glywsoch son amryw weithiau gan erlidwyr crefydd CRIST amlyfr y bywyd sydd yn y *society brifat*, a bod enwau yr aelodau oll ynddo, a bod rhyw un yn 'sgrifenu yr enw, y maddeu y pechod, ac yn derbyn tâl am y cyfryw gymwynas. Nid yw hyn oll ond un arall o ddeng myrddiwn o gelwyddau pobl y byd; ond y gwersi uchod sydd yn datguddio y dirgelwch bod Duw yn cadw llyfr coffadwriaeth o gymdeithasau crefyddol, yn gwrando eu gweddiau, yn eu cadw, ac yn eu hamddiffyn, fel yr arbed gwŷr ei fab sydd yn ei wasanaethu. Chwi welwch mai Duw yw Pen y *society*, Efe sy'n cadw y llyfr, Efe ei Hun sy'n 'sgrifenu yr enwau, Efe sy'n cyhoeddi maddeuant, ac Efe sydd yn casglu gwŷr y *society* yn nghyd yn nydd y farn fel tlysau neillduol iddo ei Hun. Mae'r prophwyd Zechariah yn y xii. benod yn prophwydo am ddyddiau yr efengyl, ac yn mynegu y bydd Duw i dywallt ar dŷ Dafydd ac ar breswylwyr Jerusalem ysbryd gras a gweddiau; a'r effaith o'r cyfryw ysbryd fydd edrych ar y Messiah, yr hwn a wanasant, a galaru am dano fel un yn galaru am ei unig-anedig, ac ymosfidio hefyd am dano megys un yn gofidio am ei gyntaf-anedig. A'u galar



sydd mor fawr a galar Hadadrimmon yn nyffryn Megidon. Ac yn eu galar hyn pob teulu a geidw wrtho ei hun—teulu tŷ Dafydd wrtho ei hun, a'u gwagedd wrthynt eu hunain; teulu tŷ Lefi wrtho ei hunan, a'u gwagedd wrthynt eu hunain; teulu tŷ Simeï wrtho ei hunan, a'u gwagedd wrthynt eu hunain; a'r holl deuluoedd ereill wrthynt eu hunain, a'u gwagedd wrthynt eu hunain. Chwi welwch yma, yn gyntaf, mai prophwydoliaeth yw hon am ddyddiau yr efengyl, am fo dy galar yma yn unig am iddynt drywanu CRIST â'u pechodau. Yn ail, fod galar efengylaidd am bechu yn erbyn Cyfryngwr mor dirion, mor ogoneddus, ac mor ffyddlon, uwchlaw pob galar arall is yr haul, i.e., hyd yn oed galar am unig-anedig fab. Yn drydydd, fod y bobl hyny yn ymgasglu yn nghyd at eu gilydd i gyd-ofidïo ac i gyd-alaru. Yn bedwerydd, mai nid i'r un lle i gyd maent yn casglu, megys i'r deml gynt, ond yn gymdeithasau bychain, tŷ Ddafydd, tŷ Lefi, tŷ Simeï, a'r lleill o'r teuluoedd wrthynt eu hunain. Yn bumed, dyma y teulu yn cael ei ranu yn ddau, y gwŷr yn un gymdeithas, a'r gwagedd yn y gymdeithas arall; ac os gall *teat* o'r Ysgrhythyr fod yn ddigonol i berswadio dynion, mae hwn yn ddigon i eglurhau iddynt bod *society* gwŷr ar eu penau eu hunain, a *society* gwagedd ar eu penau eu hunan, nid yn unig yn gyfreithlon, ond hefyd wedi cael prophwydo am danynt tan yr Hen Destament y byddai hyn i fod yn y Newydd, yr amser y byddai tywalltiad o Ysbryd yr ARGLWYDD ar eglwys DDUW. Ac nid yw *society bands* wrth yr Ysgrhythrau hyn ond effaith tywalltiad yr Ysbryd Glân; ac angen hefyd yw hyn, o ran mai *society* cyfaddef gwendidau a llygredigaethau ag sydd yn trywanu y Messiah ydyw hon, ac am hyny nid da bod gwŷr yn gwybod syrthiadau y gwagedd, na'r gwagedd o'r tu arall yn clywed am wendidau y gwŷr, rhag i Satan—sy'n dysgwyl pob mantais—wneud defnydd o hyny er chwanegu pechod a phrofedigaeth y naill fel y llall. Yn y Testament Newydd cawn ein HARGLWYDD a'i Apostolion mewn amryw amserau yn ymneillduo oddiwrth y werin—naill ai i'r mynydd, neu i'r môr, ac yn olaf i ardd Gethsemane; a pha bryd bynag byddai hyn, sicr yw y byddai yn agor damegion iddynt, ac yn dadguddio amryw wirioneddau mawrion am deyrnas nef, y rhai y pryd hyny nad oeddent yn eu deall; ond ar ol tywalltiad yr Ysbryd, daethant i'w cofio a'u deall hefyd. Ar ol croeshoeliad ein HARGLWYDD, wedi ymddangos o hono i Mair Magdalen, i Pedr, ac i ddau ddysgybl arall ar y ffordd i Emaus, yr Apostolion, ac ereill o'i ddysgyblion, yn nghyda Mair, mam yr IESU, ac ereill o'r gwagedd, a ymgasglasant yn nghyd i Jerusalem i gadw cymdeithas neillduol, ac i ddysgwyl pa fodd y dygwyddai'r dyben o'r holl bethau a

wnaethpwyd yn awr yn Jerusalem; a thra yr oeddent hwy yma yn mynegu—rhaf fel y gwelsant Ef mewn un man, ac yn enwedig fel adnabu y ddau ddysgybl Ef wrth doriad y bara, ac fel oedd eu calonau hwy yn llosgi ar y ffordd tra yr oedd Efe yn agor iddynt yr Ysgrhythrau; a thra yr oeddent yn dywedyd y pethau hyn, yr IESU ei Hun ddaeth ac a safodd yn y canol, ac a ddywedodd wrthynt, "Tangnefedd i chwi." Dyma *society brifat* wrth fodd calon Duw, *society* ag y daeth IESU i fod yn aelod o honi; a pha waith oedd ganddynt yno cyn iddo ddyfod ond ymddyddan am eu colled hebddo, mor ymddifad oeddent yn nghyd, a'r gobaith cysurus oedd gan y rhan fwyaf ohonynt ei fod Ef wedi cyfodi oddiwrth y meirw, ac yr arosai gyda hwy ar y ddaear. Hyn sydd fyth yn dangos yn eglur mai y dull goreu i gredinwyr yn mhob cyflwr, yn enwedig mewn gofid, ofn, a rhagluniaethau dyrys, yw cadw yn fynych mewn cymdeithasau crefyddol hyd oni's gwawrio'r dydd, ac i'r ARGLWYDD ei Hun ddyfod i'r canol. Ac ar ol esgyniad ein HARGLWYDD bendigedig i'r nef, pan oedd ei ddysgyblion Ef â mawr ofn yr Iuddewon, ac wedi ymgasglu yn nghyd i'r un lle yn Jerusalem, ac yno yn parhau mewn gweddi ac ymbil nes i wyl y Pentecost ddyfod, yn ddisymwth daeth swm o'r nef megys gwynt nerthol yn rhuthro, ac a lanwodd yr holl dŷ lle yr oeddent yn eistedd. Ac ymddangosodd iddynt dafodau gwahanedig megys o dân, ac a eisteddodd ar bob un ohonynt. A hwy oll a lanwyd o'r Ysbryd Glân, ac a ddechreuasant letaru â thafodau ereill, megys y rhoddes yr Ysbryd iddynt ymadrodd. Dyma oedfa neillduol a bendith y nef arni; a'r un effaith, ond mewn llai graddau, sydd ar gymdeithasau crefyddol ag fo yn gwir ddysgwyl wrth yr ARGLWYDD ag oedd ar y dysgyblion yn awr, canys fe ddywed ein HARGLWYDD—Pa bryd bynag yr ymgynullo dau neu dri yn ei enw Ef, y bydd Efe yno yn eu canol hwynt i'w bendithio; a pha bryd yn fwya' neillduol y mae rhai yn ymgasglu yn nghyd yn ei enw Ef nag mewn *society* ddirgel? pan mai yr unig neges sydd gan y rhan fwya', neu bawb, yw myned i gyfarfod â'r ARGLWYDD. Paul a orchymyn yn Heb. x.—Na esgeulusom ein cyd-gynulliad yn nghyd, fel mae arfer rhai; ond anog bawb eu gilydd, a hyny yn fwy, o gymaint a'n bod yn gweled y dydd yn nesau. A gwelwch yr effeithiau otnadwy o esgeuluso ein cyd-gynulliad, adnod 26—Os o'n gwirfodd y pechwn—hyny yw, os ymadewn âg ymofyniad am DDUW, ordinhadau yr efengyl, moddion gras, a chymdeithas a chyfeillgarwch y saint,—ar ol derbyn gwybobaeth y gwirionedd, nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwych: eithr rhyw ddysgwyl ofnadwy am farnedig-aeth, ac angerdd tân, yr hwn a ddifa y gwrthwynebwy. O

mor ofnadwy yw dechreu gwrthgilio oddiwrth DDUW! ac yn gyffredin iawn dechreuad cyntaf gwrthgiliad yw oeri at gymdeithas a chyfeillach y saint. Ac yn y iii. o Hebreaid, perir i ni gynghori ein gilydd bob dydd tra y gelwir hi heddyw; fel na chaleder neb o honom trwy dwyll pechod—yr hyn a ddengys bod yr Ysbryd Glân yn meddwl am i ni ymgasglu yn nghyd at ein gilydd yn gynta', ac yna cynghori ein gilydd rhag ymadael â'r Duw byw.

EUSEBIUS.—Hyn a gaiff ddigoni yn bresenol am sail yr oedfaon neillduol hyn, ond och! DDUW, na wybwn pa ddull mae i mi ac ereill eu cadw hwynt fel bo bendith arnynt; canys er bod y peth yn dda o hono ei hun, eto oni arferir ordinadau DUW a holl foddion gras, a dyledswyddau yr efengyl ar ol y portread ar y mynydd, o union ddyben, ac yn Ysbryd yr ARGLWYDD, a gadael ei golofn dân Ef a'i golofn niwl fyned o'r blaen, fe ellir troi gras DUW i drythyllwch; ac felly o gamarferiad fod y peth goreu yn cael ei droi yn beth gwaetha. Fel hyn trodd eglwys Rhufain sacrament Swpper yr ARGLWYDD fel swyngyfaredd i ddallu deall ac i ladratta arian y werinos dywyll. Mi glywais fod rhai eglwysydd wedi derbyn clwyfau nid bychain wrth i rai pobl ieuaingc yn eu poethder cyntaf, heb edrych nac yn mlaen nac yn ol, ond mewn eitha' sêl tros DDUW, ac eitha' casineb i bechod, adrodd cymaint o'u llygredigaethau, er fod DUW wedi eu maddeu iddynt, ag fu yn ddrwg iawn iddynt hwy eu hunain ar ol llaw, ac yn niweidiol hefyd i enw rhai o'u cymydogion. A diau yw, eilwaith, mae rhai o'm cydnabyddiaeth fy hun wedi tramgwyddo gweiniaid yn aruthr trwy argyhoeddi yn gras, ceryddu yn llym, a dweyd yn sarug wrth ddyinion am eu pechodau, y cyfryw nad oedd yn berchen gras, na thymmer natur i ddyoddef y fath argyhoeddiadau di-gariad, di-gydymdeimlad, a di-dosturi; a thrwy hyny yn caledu yn fwy yn eu beiau, a'u gyru allan o'r eglwys hyny i un arall. Ond y cyfeiliornad mwyaf yn ein *society* neillduol ni yw adrodd gwendidau, cwympiadau, a doluriau gafodd rhai o honom mewn ysbryd cyfan, iach, di-alar am danynt, fel y mae eu hadroddiad hwy yn cael yr un effaith ar ereill ag oedd ar ysbryd y dyn ag oedd yn eu hadrodd. Hyn sydd yn chwaneugu'r clwy, yn lle ei iachau ef, ac yn taenu'r pla yn lle ei stopio; canys mae cael gwybod am wendidau a syrthiadau ereill mewn ysbryd cyfan yn enyn tân ragor, ac yn magu ysfa; a pha bryd bynag delo cyfleusdra i'r dyn iach-galon a glywodd am gwypm ei frawd, cant i un nas cwypm yntau, nid o'i anfodd, ond o'i fodd, i'r un pydew. Ac felly o drefniad drwg, iechyd ysbryd, ac annoethineb, mae y gymdeithas hyfryd hyn ag oedd yn aroglu yn beraidd yn firoenau DUW, pe buasai hi yn iawn

gadw ei lle, yn awr o'i chamarfer sy'n sawrio yn ddrewllyd yn ei firoenau sanctaidd Ef.

THEOPHILUS.—Doethineb sydd yn unig i hyfforddi, i adeiladu, ac i oleuo yn y cymdeithasau crefyddol hyn, ac mae yn eitha' rhyfyg i osod llawer o reolau, dysgyblaethau, a threfniadau ar bwmpas eu harferyd, a glynu wrthynt, heb ddysgwyl yn benaf ar Ysbryd yr ARGLWYDD i gynhyrfu'r dwfr. O'r tu arall, bod rheolau fel moddion yn llaw yr Ysbryd Glân yn fuddiol, yn cael eu harddel, ac yn cael eu harferyd yn mhob cymdeithas fel ysgol i ddringo ar hyd-ddynt at DDUW, sydd wir.

### DIALOG III.

Yr angenrheidrwydd o *stewardiaid* mewn *society* profiad—Eu swyddau, eu doniau, a'r pwys ddylai fod ar eu hysbrydoedd am waith DUW—Addysgiadau yn nghylch athrawon, y rhai sydd mewn cwestiwn pa un a'u bod wedi eu galw neu beidio i bregethu Efengyl CRIST.

EUSEBIUS.—Mynegwch i mi rhyw ychydig o'r rheolau hyn, ac yr wyf yn credu gwna fy Nhad nefol hwynt yn fendithiol i mi a'm *society*.

THEOPHILUS.—Angenrheidiol yw bod *stewardiaid* ar bob cymdeithas. Nid oes un teulu heb ben arno, nac un eglwys heb weinidog, nac un plwyf heb *warden*; ac mor anaddas bod *society* heb ben neu *steward* arni. A bydded rhifedi y *stewardiaid* ar ol rhifedi y bobl: lle bo cymdeithas yn cynwys amryw ugeiniau o aelodau, angen yw bod rhifedi mwy; ac os bydd yr aelodau yn mhell oddiwrth eu gilydd yn byw, angen bod un *steward*, os bydd lle i'w gael, o'r parthau hyny hefyd, fel y bo y *steward* hyn i fod yn gyfarwydd o hanes bywyd ac ymarweddiad pob un ag fo yn byw yn ei ardal ei hun; ond os na fydd y *society* ond rhyw ychydig, rhaid dyodde'r peth fel y bo cyfleusdra.

EUSEBIUS.—Pa beth fydd swydd y *stewardiaid* hyn? Yr wyf yn edrych arnynt i fod yn ben ar bawb—hen ac ieuaingc, tlawd a chyfoethog, yn y gymdeithas hono; am hyny mi debygwn y dylai eu dawn fod yn helaeth iawn—eu profiad, eu doethineb, eu pwyll, a'u harafwch yn rhagori ar bawb ereill o'r *society*; ac yn enwedig yn meddu llygaid clir i adnabod tymherau, nwydau, profedigaethau, a thueddiadau penaf pob oedran a graddau o aelodau'r gymdeithas. Mae'n gofyn iddynt, ar ol fy meddwl i, i gael ysbryd tad, brawd, mam, a mamaeth—i fod yn greulon wrth rai, a'u tynu fejtewynion allan o'r tân; ac yn dynerach wrth ereill—i ddy



ddanu'r gwan ei feddwl, i gryfhau'r llesg, ac i iachau clwyfau'r drylliedig ei ysbryd; ond i argyhoeddi'n llym y rhai sy wedi pechu, ac heb argoel edifarhau—y rhai sy'n tori gorchymion Duw, ac yn dysgu ereill i'w tori hwynt. Ond, fy hen athraw, mi'ch gadawaf chwi i ddangos pa beth yw swydd a doniau addas sydd i fod gan y *stewardiaid* hyn, am mai fy nyben i wrth ddyfod yma oedd cael fy nysgu genych.

THEOPHILUS.—Am eu doniau, pa fwya' b'ont, goreu gyd; ond y mae gwirionedd gras ynddynt yn rhagori ar ddoniau, canys pe bai doniau yr holl Apostolion a'r Prophwydi ganddynt, eto os na fydd gwir dduwioldeb wedi cael gafael ar eu hysbryd, nid ydynt ond fel efydd yn seinio, a symbal yn tincian; ac nis gallant fod â'u holl galon am ddwyn gwaith Duw yn mlaen pan yr ydynt eu hunain heb adnabod y Duw hwnw maent yn gweithio drosto. Ac nis gall neb fyth fod yn onest, yn dirion, yn oleu, ac yn fywiol i argyhoeddi, i geryddu, i adeiladu, ac i ddyddanu pobl Dduw, heb fod yn perthyn i Dduw ei hunan. Ond am eu doniau, fel y dywedasoeh, da iawn bod ganddynt y doniau y soniasoeh am danynt; ond mae llawer cymdeithas grefyddol mor wan a llwfr, mor dywyll a llesg, nad oes un i'w gael o'r cymwysderau ddywedasoeh. Am hyny, rhaid eu dewis hwynt fel y byddont, neu fod heb un; ac eto, er na feddant y goleu, y profiad, a'r doethineb uchod, mae'n gofyn fod ganddynt y doniau canlynol, ac oni bydd, nid iawn eu dewis yn *stewardiaid*, am mai pethau ydynt sy'n perthyn i'w swydd yn yr eglwys—sef, yn gyntaf, fod ganddynt ysbryd eion, di-ofn dyn; canys os ofni wynebau dynion a wnant, maent nid yn unig dan fell-dith yr Ysgrhythrau, ond hefyd nis gallant wneud dim gonest-rwydd, canys mae ofn *slafiaid* yn eu caethiwo at bob daioni, ac ni ddywedant y gwir wrth neb ond y rhai o isel radd, ac o bosibl nid wrth y rhei'ny hefyd. Eilwaith, mae'n gofyn fod y cyfryw swyddwyr yn teimlo cariad di-ragrith at yr holl gymdeithas, gan edrych ar yr holl aelodau yn frodyr a chwirydd iddynt yn yr ARGLWYDD; ac heb y dymer nefol hon nis cydymdeimlant â neb, ond bod yn gras, yn sarug, ac yn anserchog—dadguddio beiau cuddiedig o flaen pawb—dodi allan bethau yn waeth nag y b'ont—bod yn fwy maddeugar i rai nag i ereill, ac amryw ganlyniadau gresynus ereill sydd yn dyfod o fod mewn unrhyw swydd yn yr eglwys heb feddu gwir gariad at bob rhan o honi. Mae'n gofyn hefyd fod yn y cyfryw *stewardiaid* sel, gwres, a bywyd ragor na neb arall o'r gymdeithas, ac o'r rhai mwya' twym a gwresog y dylai yr aelodau gan mwya' wneud dewisiad; o ran os y *steward* fydd yn oer, yn farw, ac yn llwfr, yn mha ddull y gall y fath ddyn oer geryddu ac argyhoeddi? pa ddull y cysura ac y dyddana?

a pha ddull y *ledia* dyn cysgadlyd bobl ereill yn mlaen pan nad yw yn cerdded dim ei hunan? Am hyny da yw, os yw yn bosibl, fod y fath swyddwyr yn fyw yn eu crefydd, yn wresog yn eu hysbryd, yn dwyn gwaith Duw yn mlaen gyda sél a hwyf nefol—y fath ag y f'io yn cadw yr oedfa mewn bywyd o'r dechreu i'r diwedd. Y pethau hyn, fy mrawd, sydd lwyr angenrheidiol i fod mewn *stewardiaid society*; a buddiol fyddai fod ganddynt ddwseni o bethau yn rhagor; ond cymaint o wendid sydd yn yr eglwys nas gellir cael doniau, cyneddfau, na grasusau fel y dymunid; am hyny rhaid eu cymeryd fel y b'ont. Ond am eu swyddau, rhywbeth ydynt cyffelyb i rhai'n, sef, yn gyntaf, cadw enwau yr holl aelodau mewn rhol-lyfr, fel y gellir eu galw wrth eu henwau bob yn un ac un wrth unrhyw achos neillduol. Amryw weithiau y rhifwyd Israel, megys wrth ddyfod o wlad yr Aipht, a phrydiau ereill, a hyny at achosion neillduol. Felly yma; weithiau byddai hyn yn fuddiol at gasgliadau, weithiau at eu galw tan holiad; ond yn fuddiol ar bob oedfa tuag at adnabod pwy fyddai yn eisieu; canys nid allan o le fyddai i ryw un o'r *stewardiaid* ddarllen yr holl enwau ar ddiwedd yr oedfa at gofio erbyn y tro canlynol i ofyn i'r absenol y pryd hyny yr achos o'u habsenoldeb y tro o'r blaen. Yn ail, gwaith *stewardiaid* yw casglu at angen yr eglwys. Fe osododd yr Apostolion saith wŷr llawn o'r Ysbryd Glân yn unig at y swydd o gasglu ac o ddsbarthu'r casgliad rhwng aelodau gweinion ac addas ar hyd yr eglwys. Felly yn awr, y *stewardiaid* sydd i gymhell y cyfoethogion i fod yn haelionus, ac i daflu golwg fanwl ar gyflyrau y gweiniaid—holi am eu hamgylchiadau, mynu gwybod pa beth sydd eisieu arnynt, a chyflawni eu hangenrheidiau; ond cymeryd gofal mawr ar yr un pryd rhag bod neb o'r tlodion yn segur, yn rhodresgar, ac yn myned o dŷ i dŷ gan adrodd pethau nad ydynt weddus; y cyfryw a rhai'n sydd i gael eu ceryddu yn llym gan y *stewardiaid* a'r lleill o'r gymdeithas, gan wneud iddynt weithio â'u dwylaw, a bwyta eu bara trwy chwys eu talcen; ond y rhai gwir weddwon, y rhai sydd yn byw i'r ARGLWYDD ac yn ymddiried yn Nuw, ac eto yn tlodion yn y byd, y gymdeithas sydd i ofalu am danynt—eu bwydo, eu dilladu, ac os claf fyddant, dod rhai addas i'w *tendo*, a thalu i physygwr am ymweled â hwynt. Fel hyn bydd holl achos tlodion y gymdeithas hono i orphwys ar ysgwyddau y *stewardiaid*. Yn drydydd, eu swydd fydd gofalu am athrawon i weinidogaethu y Gair bob Sabboth o leia', os na bydd gweinidogaeth sefydlog yn perthyn i'r gymdeithas hono. Er fod yr holl gymundeb yn y draul, eto ar ysgwyddau y *stewardiaid* hyn y mae'r gofal i ymofyn am y cyfryw bregethwyr—myned eu

hunain neu apwyntio ereill i'w cyfarfod; ac ar ol iddynt weinidogaethu, eu hebrwng hwynt ymaith drachefn, a gweini iddynt ar eu taith wrth ddyfod a myned ymaith, fel y gwnaeth gwragedd â Iachawdwr y byd yn nyddiau ei gnawd, yr hyn a ddyoddefodd Ef iddynt wneuthur er dangos i ni ein dyledswydd o gariad at weinidogion y Gair; canys nid mawr yw, os hwy gyfranant i ni bethau ysbrydol, i ni dalu yn ol iddynt mewn pethau tymhorol.

EUSEBIUS.—Ond yma gofnaf i chwi gwestiwn ag sydd yn pwysu yn fawr arnaf er ys talm. Chwi wyddoch fod cryn barch y dyddiau hyn i bregethwyr—byddent o'r enw f'ont—heb nag erlid, dirmyg, na diystyrwch ar neb a gymero yr enw arno; yn hytrach, bywioliaeth ac esmwythder bydol gwell nag o'r blaen. Hyn mae arnaf ofn a anogodd lawer o grefftwyr da i adael eu galwedigaethau, a neidio maes yn frwd i bregethu, heb edrych byth mwy ar eu galwad gyfreithlon, tan dybied nad oedd le lai, os gallent gyrhaedd at ychydig ddoniau, nas canlynai y fendith hwynt, yn nghyda pharch, elw, ac esmwythder, ac na fyddent ar frys yn abl cystadlu â'r athrawon goreu, os nid gwell. Allan yr aethant mewn eitha' chwant, fel Francis Drake neu Fernando Cortes, mewn gobaith o feddianu tir gwell na'r hen saerniaeth, cryddyddiaeth, neu gobleriaeth; ond wedi dechreu hwy a fagasant (o eondra ysbryd, diwyd arferiad, ac awydd i'r swydd) ryw fath o ddoniau, er fod gwybodaeth yn brin. Ond ar hyn hwy a falchiasant, ac a fagasant galon iach, ysbryd sych, ac awydd rhagor i barch a gogoniant dynion nag o chwant enill eneidiau o grafangau Satan at y Duw byw. Ac heddyw mae pregethwyr o bob enwau yn fwy aml nag yr oedd y Beiblau yn nyddiau tywyll ein teidiau, fel y cawn, os bydd chwant arnom, bedair neu bump pregeth yn ein tŷ cyfarfod ni yn yr un wythnos; a rhai a ddanfonant eu cyhoeddiad i leoedd nad ydys yn ymofyn am danynt, ac a bregethant o fewn i filldir neu ddwy (os cânt ychydig i'w gwrando) i rai ag mae Duw yn eu harddel lawer rhagor na hwynt eu hunain. Rhai o'r rhai'n sydd yn dwyn gyda hwynt ryw *bretens*\* mawr i oleuni nefol, awdurdod dwyfol, a chrefydd brofiadol gwell na chan ereill, ac am hyny yn awdurdodi, yn arglwyddiaethu, yn danisiad, neu yn dyrchafu eglwys Dduw fel y mynont; ond yn dwyn hefyd gyda hwynt sawyr gref o falchder, coegni, cnawd, hunan-dyb, awydd i ogoniant, iechyd ysbryd, a rhyw ryddid nas gall dyn agos at Dduw i'w dyoddef. Ereill o'r rhai'n sydd o ysbryd sych, cras, a deddfol, a llawer o archwaeth cenfigen, chwerwedd, ac anfoddlonrwydd ynddo—di-fudd iawn i'r gwrandawyr. Rhai o'r rhai'n sydd yn dwyn eilwaith

\* Pretence.

ryw ffug fawr i wybodaeth, doethineb, a threfn, trwy ddeongli geiriau, hollti testynau, a chwalu ysgrythyrau yn fân mân i aneirif ranau, gan dafu allan i bobl dywyll, anwybodus, sachau llawnion o athrawiaethau, pynciau, agoriadau, rhesymau, nodau, defnyddiau, ac anogaethau, fel y tebygid mai eu dyben penaf yw dangos i'w gwrandawyr mor hyddysg ydynt mewn difnyddiaeth; ond y cwbl yn cael ei arferyd heb Ysbryd yr ARGWYDD. Rhai bechgynos eilwaith, heb ond prin ddarllen eu Beiblau un waith drostynt, sydd wedi neidio allan, naill ai oddiwrth eu creftau neu o'r ysgol, heb adnabod nemawr neu ddim o weithrediadau Ysbryd y gras ar eu heneidiau, am gael lle i bregethu hwythau, er mwyn chwanegeu eu doniau, helaethu eu talentau, ac agor drysau at wneud eu hunain yn bobl o barch a derbyniant, tan obaith ryw bryd y gwnant *ffortun* dda o weinidogaeth y Gair. Ac ereill, cyn-ddrwy eu dyben a neb o'r lleill, os nid gwaeth, sydd yn myned allan er mwyn chwanegeu eu *parti* eu hunain, cynysgaeddu eu cynulleidfaoedd, ac estyn allan derfynau eu hesgobaethau, gan chwareu yr *interest* hyny yn mlaen trwy bob moddion: weithiau trwy lefaru ychydig yma ac acw yn gyhoedd, fel y b'ont yn gweled y lle a'r bobl yn goddef; ond llawer mwy trwy ddirgel ddenu dynion bwhwmanllyd i ymadael â'u hathrawon eu hunain, ac â'u hathrawiaethau melus, union-gred, a phrofiadol, i ddyfod i mewn i fwyta o'u grawn surion hwy, yr hyn nid yw lai o ddrwg i'm tyb i yn yr athrawon hyny na lladrad. Mae arnaf ofn ceisio gan neb o'r rhai'n ddyfod atom, rhag y gwnant fwy o ddrwg nag o dda; ac eto mae amryw o rai anwybodus yn canlyn y naill o'r rhai'n fel y llall, ac yn dwyn mawr sêl trostynt. Rhai plantos ieuaingc yn canlyn y fath gyntaf er mwyn eu sêl a'u hawdurdod fel y tybiant; ac y'nt yn foddlon i'w haddoli, a'u cynorthwyo, a bod fel *spacnelod*\* tan eu traed, gan dybied mai grasusau'r nef yw eu holl goegni, eu balchder, a'u condemnio yn ereill; a bod hyd yn oed eu hymarweddiad ysgafn, iach, cellweirus, a maswedddgar yn glodfawr ac yn fendigedig. Ereill sydd yn canlyn y pregethwyr sych, cras, a chenfigenus, ac wedi yfed o'u hysbrydoedd mor ddwfn, fel y maent yr un lun, yr un olwg, a'r un dymher annghariadus a hwythau. Rhai eilwaith sydd yn glynu wrth y pregethwyr trefnus (fel y gelwir hwynt), tan dybied nad oes pregethwr da fyth heb godi athrawiaethau, a'u profi trwy resymau ac ysgrythyrau, codi nodau, tynu addysgiadau, dangos canlyniadau, rhoi anogaethau; ac mai'r bregeth oreu oll yw yr hon f'o hwy' ei hyd, ac fwy' llawn o benau. Rhai eilwaith sydd yn rhyfeddu yn fawr iawn y gwyr ieuaingc o ddysg sydd yn taro allan, tan edrych arno

\* Spaniels.

fel un o saith rhyfeddod y byd fod plentyn ieuangc yn llefaru mewn pwlpudd; a'i fod yn wir wrthddrych o gariad, yn enwedig os bydd yn lân, yn hardd, ac yn garuaidd yr olwg; er yn y gwraidd nad yw ond gŵr ag sydd am wneud ei hunan ryw bryd yn ddyn o ddoniau, derbyniad, a chlod yn yr eglwysi. Ond mae amryw eilwaith yn clymu wrth y pregethwyr ag sydd yn curo am *foluntiers*\* i lanw i fyny eu cynulleidfaoedd, fel y mae'r brenin yn curo am wŷr i *recrutio* byddin-oedd prin. Y cyfryw a rhai'n yw y rhai sydd wedi blino ar eu cynulleidfaoedd eu hunain am fod gormod o wres, neu ddysgyblaeth rhy fanol yno, ac am fyned lle caffont fod yn fwy penrydd a iach, a chael mwy o barch a derbyniad. Ac nid hir amser bydd pregethwr call, cyfrwys, a dengar yn dwgyd drosodd i'w farn ei hun un ag y f'o mor aeddfed gan glaearineb, rhagfarn, ac ysbryd bwhwmanlyd a hyn. Ond, fy athraw, mi gymeraf eich cyngor chwi pa fodd y mae i *stiwardiaid* y *society* i weithredu yn yr achos hyn.

THEOPHILUS.—Gwaith cynil iawn yw hyn oll, a gwaith sydd yn gofyn pwyll, ystyriaeth, a difrifwch o'r mwyaf; ac nid oes ond Duw ei hun a'n dysg ni i weithredu yn gywir yn yr achos hyn. Mae'n ddigon gwir fod llawer yn myned allan i bregethu gyda phob sect o ddynion ag sydd a'u golwg yn fwy ar barch, elw, ac esmwythder, fel y dywedasoeh, na gogoniant y Duw byw a llesad eneidiau anfarwol; ac maent yn pregethu heb ronyn ganddynt o aroglau gwisgoedd y Priodasfab—dim o'r olew sanctaidd, dim o lais y golomen ddwyfol. Ac nid da gwaith dynion ganmawl y rhai'n, eu hanog, na'u gwobrwyo; ond eu dyled o'r tu arall yw peri iddynt ddilyn eu galwedigaethau tymhorol, a pheidio rhuthro yn mlaen at arch Duw heb alwad; bwyta eu bara eu hunain a enillasant trwy chwys eu talcen, ac nid fel cacwn, ysbeilio mêl y gwir wenyn, a byw yn segur ar gefnau dynion tlodion ag sydd yn haner newynu eu hunain i gynorthwyo gwir weinidogion y Gair. Ac fe rydd yr Ysbryd Glân i ni, trwy enau ei Apostolion, rybudd llym i ymogelyd rhag athrawon f'o'n gyfeiliornus yn eu hathrawiaethau, eu bywydau, eu dybenion, neu eu hysbrydoedd. A'n HARGLWYDD ei hun a dd wedd mai wrth eu gweithredoedd, neu eu ffrwythau, yr adnabyddir hwynt (Mat. viii.), yr hyn sy'n peri in' fod yn ogelog iawn wrth ddewis pregethwr, rhag dyrchafu, canmol, na mawrhau neb heb gael amser i brofi fod eu hathrawiaethau, eu bywydau, eu profiadau, a'u cymundeb dirgel â Duw yn ateb tystiolaeth y Gair. Ond ar y llaw arall, fy mab, peidiwch a bod yn rhy awyddus i farnu; rhowch amser, a phrofwch bob peth, ond dilynwch yr hyn sydd dda. Mae amryw o

\* *Volunteers.*

las-fechgyn yn y blynyddoedd aeth heibio wedi taro allan oddiwrth eu galwedigaethau, yn eu sêl a'u cariad cyntaf, i bregethu, heb nemawr neu ddim dysg, ac heb un dyben arall ganddynt ond gwrthio gwaith Duw yn mlaen, a thynu dynion o dywyllwch i oleuni; a'r ARGLWYDD hefyd a'u harddelodd i'r dyben hyn. Cornelau tywyll sydd wedi dyfod trwy eu gweinidogaeth i wrando'r Gair ac arfer holl foddion gras, a rhai, fel yr wyf yn gobeithio, wedi cael eu gwir alw trwyddynt. Am y rhai'n, fe fyddai yn golled mawr i eglwys Dduw fod yn ymddifad o honynt; ac hyd ag y bo eu hathrawiaethau yn iachus, eu hysbrydoedd yn para yn friw, a'u bywydau yn addas i efengyl CRIST, mae'n bechod nid bychan fod yn ddiystyrllyd o honynt, er nad ynt ond gwan mewn dysg, gwybodaeth lythyrenol, a *historiaol*. Eto, tra fo ganddynt y sylwedd—sef Ysbryd yr ARGLWYDD—gwnewch gyfrif mawr o honynt yn mhob dull ag mae addas a chymwys i wneud i weinidogion yr efengyl; ac er mai seiri, cryddion, a chobleriaid fel y dywedasoeh, oeddent yn ddiweddar, nid ynt un gronyn gwaeth o hyny, mwy na'r Apostolion, y rhai oeddent oll yn annysgedig ond Paul ei hunan, os derbyniant y gwir ysbryd ac adeiladaeth yr eglwys. Ac mi wn fod rhai pregethwyr ag oedd o'r fath grefftau tlodion a hyny o'r blaen heddyw yn gwir ddoesbarthu gair y bywyd—yn medru athrawiaethu, argyhoeddi, ceryddu, anog, a hyfforddi, ac yn seinio allan efengyl CRIST, yr un ysbryd a'r merthyron duwiol gynt, neu y diwygwyr cyntaf oddiwrth y grefydd babaidd, fel na raid i neb gwylyddio o'u plegyd, ac nas gall offeiriaid nac esgobion, ond iddynt gael llefaru mewn iaith a fedront, farnu arnynt—am nad ydynt yn rhyfygu dysgu dim i'r bobl ond IESU GRIST, a hwnw wedi ei groeshoelio, fel yr addysgwyd hwynt gan wriwionedd y ffydd. An hyny, cymerwch ofal mawr pwy a ddiystyroch, a phwy a anrhydeddoch. Rhowch barch i'r hwn y mae parch yn ddyledus, a cherydd i'r hwn y mae cerydd yn perthyn. Ond eto, pwy bynag a ffeindioch, ar ol eu profi amryw weithiau, yn ymddifad o Ysbryd yr ARGLWYDD, yn afachus yn eu hathrawiaethau, yn ddrwgsawr yn eu cyfeillach, yn benrhydd yn eu hymarweddiad, yn gau yn eu dybenion, yn sych, yn farw, ac yn ddeddfol yn eu gweinidogaeth, ac am enill dynion iddynt eu hunain, yn fwy na'u henill at y Duw byw, neu â rhyw argoelion ereill nad ynt yn chwenych cadw yn agos at Dduw eu hunain, nac o un tebygoliaeth y byddant yn offerynol i dynu ereill yn agosach ato Ef—y cyfryw a rhai'n na ddywedwch Duw yn rhywydd wrthynt, na anogwch hwynt, ac na cheisiwch ganddynt, ac na chynorthwywch hwynt ar eu taith. Ond trueni mawr yw yn y dyddiau llonydd hyn o'r efengyl, nad oes dyn tan y nef a *stopia* un o'r



rhain i *rosendio*'r byd o gwmpas, nac eilwaith a'u perswadia i ddarllen llyfrau hanesion eglwysig, nac un corph o ddfinyddiaeth; ond tybied fod yr hyn sydd ganddynt yn ddigon i'w gwneud hwy fel esgobion yn eglwys Dduw. Am hyn, heidiant er neb yn finteioedd o wlad i wlad, o dir y dehau i dir y gogledd, heb fedru bod mor ostyngedig a myned mewn cyfeillach â neb a dybir uwch eu hunain, rhag ofn colli un radd o'r clod maent yn ddysgwyl gael yno—yr hyn oll sydd yn tarddu o hunan-dyb a balchder ysbryd. Da dywed yr Apostol Paul wrth Timothy, ei fab yn y ftydd, i gymeryd gofal wrth urddo gweinidogion y gair, "na osodai mo'i ddwylaw ar newyddion yn y ffydd, rhag iddo ymchwyddo a syrthio i ddamnedigaeth diafol."—1 Tim. iii. 6. A diau yw, fod ysbryd uchel, tybiau mawr, ac ymddygiad chwyddedig yn rhy barod i ddal dynion ieuangc ag sydd yn derbyn parch cyn y byddont yn addfed iddo. Ac un o'r pethau anhardda' ag sydd yr awr hon yn y torfeydd o ieuengctyd ag sydd yn myned allan i bregethu tan bob enw yw balchder ysbrydol. Pwy bynag y sydd â llygad craff ganddo, hawdd iawn yw iddo ei adnabod ef mewn amrywiol ymddangosiadau; a mwy hyll yw pa fwy' annysgedig, ieuangc, a di-brofiad y bo'r athraw. Och! fel gwelir dyn gwan o ddeall, dysg, a dygiad i fyny yn ymchwyddo, yn ymffrostio, yn blaenori, ac yn ceisio gwneud rhyw ymddangosiadau ardderchog fel pe b'ai heb ei fath yn y byd; saer, crydd, gwehydd, neu banwr—ie, glas fachgenyn na ymddiriedai dyn iddo fugeilio ei ddefaid, heddyw sydd yn marchog yn uwch, yn ÷onach, ac yn fwy di-gywilydd na hen weinidogion a ddyoddefasant rym y gwres a'r dydd. Yr ysbryd gwan hwn (gan ddwyn ei ffrwythau gwenwynllyd ar ei ol) sydd yn derfysglyd am bob siomedigaeth, yn ddigofus am bob dibrisdod, yn anfoddlon i bob gwael dderbyniad, ac yn anhawdd ei foddio mewn un dull—prin bwyd, diod, tân, na gwely sydd wrth ei fodd—yr ysbryd hwn sydd yn tuchan, yn condemnio, yn barnu, ac yn sathru dynion tan draed o eisieu digon o gariad, haelioni, a thiriondeb, eisieu hol, hebrwng, mawrhau, ac ymgeleddu, ac mewn gair eisieu addoli'r pregethwyr yn fwy na'r Duw mae ef yn ei bregethu. O wedd druenus yw gweled athraw yn ymchwyddo ar wynt, ac yn ymlanw o falchder ysbryd ar ei ddoniau, ei wybodaeth, a'i dderbyniad yn yr eglwys! yn lle gyda gostyngeddrrwydd roi esiampl dda mewn bywyd ac ymarweddiad, cystal ag mewn athrawiaeth; ac ymddwyn yn addfwyn, yn dirion, yn wylid-wrus, ac yn llawn o ofn duwiol yn mhob cyfeillach; yn hawdd ei drin, yn foddlon i'r hyn osodir ger ei fron, yn myned ac yn dyfod heb rwgnach, tuchan, na dangos un math o anfoddlonrwydd am ei siomedigaeth, diystyrwch, dibrisdod, nac an-

nerbyniad a gaffo. Ac os o achos afiechyd, gwendid ysbryd, neu lewygfau disymwth bydd i wragedd neb athrawon ddyfod allan gyda hwynt, addas hefyd bod y rhei'ny hwythau yn hunanymwadol ac yn ostyngedig, gan roi esiampl dda i wragedd ereill yn eu holl ymarweddiad—trwy rodio yn weddaidd, yn ddystaw, ac yn ofnus, fel gweddaï i rai yn proffesu efengyl CRIST—caru eu gwŷr priod, ac ufuddhau iddynt yn yr ARGLWYDD, heb wisgo yn uchel, yn goeg, ac yn falchaid—heb ymddangos yn flysgar, yn chwanog i fwydydd, neu ryw ddanteithion, na bod yn awyddus i'r tea a'r coffee cleberddus, ar ol arfer gwagedd annuwiol y byd; ond yn hytrach treulio'r amser pan byddont fel hyn o gartref i *dendio* eu gwŷr, gwrando a derbyn addysgiadau, helpu gwagedd trafferthus i weini ar ddyeithriaid, codi yn foreu, glanhau, a thrwsio dillad eu gwŷr a'u cyd-gymdeithion tuag at wneud gwaig y teulu hwnw yn llai ei thrafferth. Ac anafus yw gweled gwraig pregethwr yn goeg, yn falch, yn llygad drythyll, yn gleberddus, yn faswedddgar, ac yn enllibaidd; yn dwyn newyddion o dŷ i dŷ, o wlad i'r llall, fel Gazet tros Satan, ac yn dyfod oddeutu i ddangos ei noethni ei hun, ac i waradwyddo ei gŵr trwy ddangos i'r eglwys ei fod yn dyodde' y fath goegen i gael ei hewyllys fel y myno.

EUSEBIUS.—Digon bellach; gobeithio caf Ysbryd yr ARGLWYDD i wahanu rhwng athrawon ac athrawon; ac mi wn nas gallaf fyth fod yn rhy oer at y rhai na ddanfionodd Duw, nag yn rhy gynnes at ei wir weinidogion Ef. Ond ewch rhagoch at swyddau *stewardiaid*.

THEOPHILUS.—Yn bumed: Eu dyled yw argyhoeddi—a hyny gyda phob tiriondeb, tosturi, a chariad—y rhai welont yn rhodio yn anaddas i efengyl CRIST;—os bydd un yn cyfeillachu gormod â'r byd annuwiol, yn wag-siaradus, yn faswedddgar, yn gelwyddog, yn falch, yn gybyddlyd, yn enllibaidd, yn anniwair, yn drythyll, yn ormesol, yn anghymesur, neu âg un arwyddion ei fod yn byw ar ol ysbryd y byd hwn;—fod y *stewardiaid*, meddaf, i'w gymeryd ef yn neillduol ar ei ben ei hun, a'i geryddu—fel dywedwyd uchod—gyda phob tiriondeb. Ac os enillir y cyfryw i addef ac i adael ei fai, na ddodent o hyn o flaen y gymdeithas, fe enillodd y *stewardiaid* ef yn ol at Dduw; ond os nas cyfaddef, ac onis ymedy â'r bai, yna dygant yr achos o flaen yr holl *society*. Yn olaf, da iawn os bydd doniau addas gan y *stewardiaid* i flaenori canu, gweddio, holi, cysuro, adeiladu, a phob peth arall sydd yn perthyn i weinidogaeth gras mewn cymdeithas neillduol.

## DIALOG IV.

Y drefn sydd i'r *society* i gymeryd pan delont yn nghyd—Pwy sydd i'w holi<sup>i</sup>—Doniau holedyddion—Y pethau sydd yn llygru holedyddion, sef cariad cnawd, derbyn wyneb rhai mawrion, a hudoliaeth gwobrwyon—Cyfeiliornadau sydd yn dygwydd wrth holi—Cwestiynau sydd i'w gofyn i'r rhai a dderbynir i mewn—Y dystiolaeth sydd i'w rhoi am eu bywydau—Am amser eu *treial*—Y *siars* a'r dyledswyddau roir arnynt.

**EUSEBIUS.**—Bellach adroddwch pa drefn sydd i gymeryd pan delo y *society* fel hyn yn nghyd. Cyfarwyddwch fi, canys chwant sydd arnaf i adnabod y ffordd oreu i gadw gwres a bywyd yn addoliad yr ARGLWYDD.

**THEOPHILUS.**—O flaen pob dim bydded gweddïau ac ymbiliau at DDUW i'ch harwain yn y dull byddo dda ganddo ei Hun, pa un bynag ai canu mawl, neu barhau mewn gweddi, holi rhyw rai, cysuro rhai gwan eu meddwl, neu argyhoeddi rhai difraw ac esgeulus, neu pa beth bynag arall, y caffo y cwbl ei wneud ar ol meddwl ac ewyllys yr ARGLWYDD; ac fel yr oedd yr hen Israel gynt i ddilyn y golofn niwl a thân, felly mae ei saint Ef heddyw i ddilyn llais a thywysiad ei Ysbryd Ef, fel os na bydd ei Ysbryd Ef yn arddel y gwaith hyn, ein dyled yw ymaflwyd mewn gwaith arall. Os na welir holi yn cerdded gyda goleuni, gwres, a bywyd, gwell yw treulio yr amser at ganu, gweddïo, neu rhyw waith fyddo er argyhoeddiad, hyfforddiad, a chysur.

**EUSEBIUS.**—Ond os holi byddir, pwy sydd addas i holi, atolwg? canys gwelais rai yn holi heb un gronyn o oleuni, gwres, na bywyd yn eu holiadau, fel y maent yn tywyllu nid yn unig y rhai maent yn eu holi, ond hefyd tywyllu yr holl gymdeithas, ac o bosibl yn treulio cymaint o amser wrth un ag ai i holi chwech.

**THEOPHILUS.**—Gwir yw, dawn neillduol yw holi nad oes ond un o gant yn berchen arno; mae'r pethau canlynol ynddo:—Yn gyntaf, gofyn cwestiynau ag fo yn perthyn i gyflwr yr hwn fyddo yn cael ei holi; rhai holedyddion sydd mor dywyll ag y gofynant gwestiwn i ieuengctyd fo yn perthyn i henaint, neu i'r tlawd fo'n perthyn i'r cyfoethog, i'r amheus gwestiwn fo'n perthyn i'r rhyfygus, ac i ddyn newydd gael ei argyhoeddi gwestiwn fo'n perthyn i broffeswr triuain oed. Yn ail, mae y cyfryw yn gofyn ei gwestiynau gyda blas a melusder, y fath ag fo yn enyn sel yn mhawb, ac fo yn rhoi achos i'r holl gymdeithas i foli Duw am y goleuni hyfryd. Yn drydydd, mae'r cyfryw holiedydd yn deall cyflwr y dyn a holir wrth yr ychydig atebion a gafodd o'i enau; ac yna yn

gosod ei gyflwr allan o flaen yr holl gymdeithas yn fwy goleu nag y gallasai efe ei hun, ac yn dadguddio gwraidd y drwg o bob cyfeiliornad, a dechreuad yr egwyddor nefol o bob gras a dawn. Ac felly, trwy brofiadau y dyn a holir, mae'r holiedydd yn enyn canwyll o ddsygleirdeb nefol i'r holl gymdeithion, ac yn gwneud iddynt ddsyglaid o fwyd melus, o bosibl o brofiad tlawd ac annyben. Yn bedwerydd, mae holiedydd da yn canfod pa bechod sydd yn cadw yr hwn a holir yn ol oddiwrth DDUW; fe fedr y cyfryw chwilio allan walau tywyll, lle mae Satan a phechod, cnawd a chwant y byd a'i eilunod yn llechu ynddynt, fel y medr pysgotwr i adnabod pa le y mae y pysgod, a'r gwaddotwr lwybrau y gwaddod, a'r *ffowler* leoedd y petris; felly medr holiedydd cyfarwydd i adnabod yr achosion o bob cwmp, adnabod dirgel ffyrdd temtasiynau y byd a'r cnawd, gwybod am holl droion natur, gwahaniaethu rhwng awelon gras ac awelon natur, gwir edifeirwch, ac oriau o dristwch y byd hwn, neu *ffits* o *felancoli*, fel Syr Isaac Newton wrth ychydig o ffigyrau *rozum* a thri-chornellog yn deall holl droiadau ser a phlanedau; felly yntau wrth air neu ddau a gaffo o ben dyn syml, yn dyfod i ddeall ei holl galon ef, ac yn ei doddi allan i'r holl gymdeithas, ac felly pawb yn caru ac yn canmol gweithredoedd yr ARGLWYDD. Mae amryw ddoniau a chynhoddffau heblaw y rhai'n i fod mewn holiedydd cymwys ac awdurdodol; ac mae rhai pethau ag sydd yn llawer o rwystr i holi yn onest, yn gywir, ac yn ddiuedd.

**EUSEBIUS.**—Enwch rai pethau ag sydd yn gwneud drwg ac yn llygru holiedyddion i ddelio yn syml yn ngwaith yr ARGLWYDD.

**THEOPHILUS.**—Mae caru personau dynion yn ormod, a hyny yn y cnawd, yn fawr rwystr yn yr achos hyn; mae mynych gymdeithas dynion a'u gilydd, a chyfeillgarwch, yn lle gwneud i ddynion ddweyd y gwir wrth eu gilydd, yn fynych yn peri iddynt guddio cymaint ar feiau a'u maddeu, nas mynant weled bai yn yr hwn fo yn llawn o feiau: felly fel yn fynych nad yw cyfaill addas a chymwys i holi ei gyfaill anwylaf. Ac eilwaith, mae bod holiedydd tlawd yn holi rhai mawrion yn y byd lawer gwaith yn myned yn ddifudd am fod rhai gweinïon yn y byd yn rhy barod i dderbyn wynebau rhai mawrion, ac heb lawer o bresenoldeb yr ARGLWYDD nis gallant fynegu eu holl feddwl yn syml tros DDUW. Ond un peth arall eto sydd yn fynych yn gwyro barn—a da fyddai pe bai y pechod hyn ond yn mhlith dynion y byd, a thrueni mawr yw ei fod e'n dygwydd i blith proffeswyr crefydd hefyd—sef gwobr, yr hon fel y mae yn gwyro barn yn mhlith barnwyr y byd, felly mae yn newid barn yn mhlith proffeswyr crefydd: canys yn fynych mae yn dygwydd, pan fo un rhyw gym-



deithas grefyddol yn rhoi parch lawer i'r rhai a fo yn eu holi, ac yn cyfranu arnynt lawer o drugareddau v byd hwn; mae hyny, trwy fagu cariad atynt a meddyliau da am danynt, yn doddi yr holedyddion i guddio a maddeu eu holl wendidau, byddent mor aml ag y b'ont; ac felly eu defnyddioldeb i'r gymdeithas yn myned yn ddi-ddefnydd gan fod eu llygaid wedi cael eu hollol ddallu â rhoddion a gwobrwyau. A rhai dynion pellenig a ddelo i'r cyfryw gymdeithas grefyddol heb adnabod neb o'r aelodau, na derbyn un drugaredd ar law neb o'honynt, a hola yn fwy cywir, syml, a di-dderbyn wyneb, nes delo yr unrhyw rhai i adnabod y gymdeithas a derbyn cariad ar eu dwylaw, yna hwythau eilwaith yn syrthio i'r un ysbryd a'r lleill, sef i adael cariad i ddallu eu llygaid ac i wyro barn.

EUSEBIUS.—Gwir yw, ac mi wn fod dynion dyeithr ac anghyfeffn yn cwrddyd â'r gwir, ac yn llefaru yn fwy gonest a di-duedd wrth aelodau cymdeithas nag yw y rhai sy'n arfer bod gyda hwy yn wastadol; fod y cyfryw, meddaf, yn taro ar eu pechodau mynwesol, ac yn dadguddio eu cyflyrau i'r holl eglwys yn llawer gwell na holiyddion sydd yn arfer o fod gyda hwynt yn wastadol. Ac efallai mai'r achos yw yr hyn a ddywedasoeh, sef naill ai o gariad cnawd, a gormod *ffrynd-sibaeth*, derbyn wyneb, neu hudoliaeth rhoddion a gwobrwyau; ond y mae yn rhaid dyoddef pethau fel y maent. Ond gobeithio'r wyf gweled amser gwell, pan delo gonestrwydd a symlrwydd, goleuni, a barn ddi-duedd, yn nghyda phob uniondeb tros DDUW, i gario'r dydd. Ond ewch rhagoeh yn nghylch yr holiad yma—pa ddull mae ei ddwyn yn mlaen? canys trwyf yn gwybod am amryw gamsyniadau yn yr arferiad o hono—rhai yn holi yn dywyll, yn gras; rhai yn holi pethau amherthynasol, a rhai yn d'rysu ac yn tywyllu y dyn a holir na fydd ganddo ddim i ddywedyd, a rhai yn dweyd y cwbl eu hunain, nas caiff y dyn ydys yn ei holi i ddweyd nemawr o air; am hyny, rhowch ronyn o gyfarwyddiadau yn yr achos hyn.

THEOPHILUS.—Nid oes neb ond Ysbryd y Duw byw a'i dengys yn iawn, ac nis dylem rwymo ein hunain yn ormod wrth un *set* o reolau; eto, nid anfuddiol yw dangos pa fath ofynion sydd addas gyda bendith i'w traddodi ar y fath achos. Ond dalwn sylw mai nid yr un peth sydd i ni ofyn i bawb—nid yr un i'r hwn sydd yn dechreu yn NGHRIST a'r hwn sydd yn henafgwr yn NGHRIST; nid yr un i'r amheus a'r llawn-ffyddiog; i'r hwn sy dan demtasiynau cryfion a'r hwn sy'n byw yn mynwes yr ARGLWYDD. Ond fe ry'r nefoedd ddoethineb fel na chaiff holiydd ag fo â'i enaid yn llefain tua'r nef ddim bod yn fyr o ofyn yr hyn fo yn adeiladol.

EUSEBIUS.—Yn gynta', ynte, siaradwch yn nghylch holi y rhai dderbynir i mewn—pa gwestiynau ofynir i'r rhai'n? pa mor waned mewn gras y goddefir hwynt i ddyfod i'r gymdeithas? a dderbynir hwynt i fewn heb ar *dreial*? neu os rhaid eu bod ar *dreial*, pa fath a pha hyd y bydd y *treial* hwnw? a pha rwyau hefyd sydd i'w osod ar y rhei'ny a dderbynir i mewn? a pha ddyledswyddau neillduol sydd i fod arnynt at y gymdeithas hono yn fwy nag arall?

THEOPHILUS.—Nid oes i chwi ddysgwyl cymaint o oleuni ffydd a sicrwydd gan rai ar eu derbyniad cyntaf i mewn a rhai fo i mewn ac wedi hir fwynhau ymweliadau yr ARGLWYDD (er, fel mwya' trueni i feddwl, fod llawer ag sydd yn cael eu derbyn i mewn yn nechreuad eu crefydd yn rhagori ar lawer o hen rai ag sydd i mewn er's amser hir, ac o bosibl â phrofiadau gwell ganddynt y pryd hyny eu hunain nag a fydd ganddynt pan f'ont yn aelodau o hir amser yn y gymdeithas). Ond y cwestiynau i'w gofyn sydd gyffelyb i rhai'n:—1. A gawsoch chwi olwg ar eich trueni i weled eich hun yn ddi-eithriad i wladwriaeth Israel, heb obaith genych, ac heb DDUW yn y byd? a'ch gwnawd yn sicr eich bod yn myned i drueni tragwyddol oni welai yr ARGLWYDD fod yn dda i drugarhau wrthyeh, a rhoi i chwi hawl yn NGHRIST o'i rad ras ei Hun, a'ch bod yn haeddu cael eich damnio a derbyn pob barn oddiwrth DDUW a dynion? 2. A gawsoch un olwg eich bod chwi yn fwy pechadur nag arall? fel pa feiau bynag welsoch neu glywsoch son eu bod yn ereill, eich bod yn gweled eich pechod chwi yn fwy, yn gasach, ac yn haeddu ar amryw ystyriaethau damnedigaeth mwy. 3. A welsoch chwi mai tywyllwch yw eich rheswm a'ch goleuni? ac nas gallwch adnabod y Tad na'i Fab yn gadwedigol, nac chwaith adnabod eich hunan, heb i'r Ysbryd Glân i oleuo llygaid eich meddwl yn oruwchnaturiol. 4. A ddaethoch i weled eich anallu i feddwl cymaint ag un meddwl da, na gwneud dim ag sydd yn gymeradwy gan DDUW, heb i'w Ysbryd Ef i'ch nerthu, a bod pechod wedi'ch anurddo, eich gwanhau, a'ch halogi mor bell nas gellwch godi i fyny na helpu eich hunan hyd onis cymero Duw y gwaith yn ei law ei Hun? 5. A welsoch chwi hollol eisieu o gyfiawnder CRIST i'ch gwisgo ger bron Duw? a ydych yn casau, yn diystyru, ac yn ffieiddio eich gwaith, eich addunedau, eich elusenau, neu ba ryw byna' beth da sydd yn och chwi i'ch cyfiawnhau?—gan frefu â'ch holl galon am gael bod yn gyfiawn yn ei gyfiawnder Ef—gan edrych ar y cyfiawnder hyn fel yr unig ffynon i'ch glanhau oddiwrth anwiredd lawer? 6. A welsoch chwi fwy o eisieu ffydd nag un gras arall?—gan adnabod mai ffydd yw'r llaw ag sydd yn derbyn y cyfiawnder tragwyddol hyn—mai ffydd sydd yn derbyn CRIST



yn ei holl swyddau—yn credu yn, ac yn coffeidio holl addewidion Duw—mai ffydd sydd yn gwneud pethau pell yn bresenol, ac yn gwneud pethau anghredadwy i reswm yn bethau niwy eu sylwedd na'r holl fyd—a welsoch chwi yr eisieu o'r ffydd hon? ac mai nid ffydd o waith dyn wna'r tro, ond un o eiddo'r Ysbryd Glân? a ydyw y goleuni a'r argyhoeddiad hyn wedi gwreiddio mor ddwfn ag y gwnaeth chwi yn ewyllysgar i ymado â'ch holl eilunod a'ch cariadau—eich holl bleserau, a phob peth oedd genych gynt yn hyfryd, yn anwyl, ac yn werthfawr—megys eich llygad dehau a'ch troed ddehau, eich pechod melusaf, eich chwant mwyaf dirgel er mwyn i CRIST gael bod yn Ben, yn Frenin, ac yn Briod i'ch enaid? 8. A ydych, fel gŵr yn adeiladu tŷ, wedi bwrw yr draul i wrthsefyll pob gwrthwynebiadau, i ddyodde' pob gwawd, erlid, cystudd, a gorthrynderau ddolo yn achos efengyl CRIST, ac i roi eich bywyd iddo os bydd achos? 9. Er eich bod heb dderbyn tystiolaeth yr Ysbryd, eto a ydych yn ceisio Duw â'ch holl galon, a hyny fel greddf wastadol (nid ar ryw *ffits* neu awelon o argyhoeddiad) yn 'mofyn gafael yn Nŵw, heb 'mofyn dim arall ond Efe, ac yn cyfrif pob peth yn golled fel yr enilloch Ef, heb orphwys nes ei gael Ef? 10. A ellwch chwi orphwys tu yma i wir adnabyddiaeth fod CRIST ynoch chwi, ac y gwyddoch eich bod yn gwir gredu, nes byddoch wedi cael y fath olwg ar gyfiawnder CRIST yn boddioni cyfiawnder Duw trosoch chwi ag a fyddo yn enyn cariad ynoch ato Ef, ac a'ch cymhELLO i ufuddod? 11. Pa beth sydd yn eich cymhell chwi i uno â ni—ai angenheidrwydd o oleuni rhagor, o gyfarwyddiad mwy, o hyfforddiad yn mhethau Duw? a ydych yn dyfod atom tan dybied bod Duw gyda ni, ac bydd i chwithau gael rhyw fendithion yn ein cwmpeini? a oes dyben gau mewn rhyw ran yn eich arwain atom? wedi oeri at ryw gynulleidfa arall, ac felly ffoi atom i 'mofyn noddfa a dyogelwch? 12. A ydych yn foddlon i gymeryd eich argyhoeddi, a'ch ceryddu, a'ch cyfarwyddo genym hyd ag y b'om yn gwneud hyn yn ngolwg yr ARLWYDD? 13. A beidiwch a dweyd dim o'r pethau fo genym yma yn ei draddodi y naill i'r llall wrth y byd annuwiol? am ei fod yn taflu perlau o flaen moch 14. A ydych yn foddlon i roi cerydd fel derbyn cerydd, ac i arferyd pob dawn sydd ynoch i ddwyn gwaith yr ARLWYDD yn mlaen yn ein plith ni? 15. A fyddwch haelionus i gyfranu hyd ag alloch at achos y gweiniaid yn y gymdeithas hon?

EUSEBIUS.—Onid yw yn addas i bwy bynag fo yn cael goleuni i ofyn ei gwestiwn i'r dyn a dderbynier i'r gymdeithas?

THEOPHILUS.—Ydyw; a buddiol iawn, canys fel mai mewn amllder o gynghorwyr y bydd dyogelwch, felly trwy amrywiol

holiadau y cair allan wirionedd pethau; arferol fod y *cownsils* yn y *sessiwnau* ar achosion pwysfawr, amrywiol o honny yn holi ac yn croes-holi, tuag at gael allan y gwir. A mwy angenrheidiol yw mewn *society* profiad i amrywiol i ymofyn am wirioneddau gras y dyn sydd am gael ei dderbyn, neu ei ddiwyldo am gyflwr tragywyddol ei enaid; ond i'r cyfryw rai ag fo fel hyn yn gofyn i gymeryd gofal rhag i un atal y llall trwy lefaru ill dau ar yr un pryd, neu ynte yn gofyn cwestiynau yn rhy aml, fel nas gallo yr hwn fydd i ateb eu hateb hwynt am y bydd yr holiadau yn d'rysu yn eu gilydd, neu ynte yn dallu'r dyn a holir.

EUSEBIUS.—Onid da yw cael meddwl yr holl gymdeithas cyn derbyn dyn i mewn?

THEOPHILUS.—Da; am hyny buddiol yw gofyn barn pawb am ei ymarweddiad er pan ddaeth i arddel crefydd, yn enwedigol ei gymydogion, i wybod pa gyfeillion y mae efe yn awr yn gadw? pa iaith y mae efe yn ei chwedleu? pa mor ddiwyd y mae ef yn arferyd moddion gras? a pha gyfnewidiad sydd ynddo yn ei deulu gartref? pa un ai golwg iach neu gywyfus sydd ar ei ysbryd? a pha un yn mhob dull a ydyw yn rhoi argoelion fod gwirionedd gras o fewn iddo?

EUSEBIUS.—Os byddir yn methu derbyn profiadau, argyhoeddiadau, a gwirionedd gras y dyn sydd am gael ei dderbyn, pa sut yn y fath achos y gwna'r?

THEOPHILUS.—Naill ai ei wrthod ef yn lân—yr hyn sydd anhawdd iawn i'w wneuthur—neu ei dderbyn ef ar *dreial*. Am ei wrthod ef yn lân, nid oes un sail o'r Ysgrythyrau genym i wneud hyny, onis cawn weled fod ei fywyd yn ddrwg, a hyny yn datguddio nad oes gwirionedd tu mewnol ynddo; neu *ffeindio* mai ar ryw gau ddyben mae ef yn dyfod i mewn i'r gymdeithas; neu nad yw yn arfer moddion gras ond ar ryw *ffits*, neu iasau o argyhoeddiadau cydwybod naturiol. Ond os nad felly, bydded ei ras ef mor waned ag y byddo, os oes argoel fod rhyw faint o wir ddymuniad ynddo, a'r brodyr wedi cael prawf o hyny, ac wedi *ffeindio* ei fod yn glynu wrth foddion gras yn ddiwyd ac yn ddi-dor, ac yn glynu hefyd wrth y frawdoliaeth—wedi gadael ei hen arferion—newid ei gyfeillion, ei lais, a'i amcanion—ac o fywyd ac ymarweddiad newydd yn ngolwg ei holl gymydogion—bydded ei ras ef mor waned ag y bo, meddaf, a'i fod yn dwyn y fath ddull newydd a hyn o fywyd ac arferion, mae ef tan wahoddiad yr efengyl yn yr Hen Destament a'r Newydd: “O dewch i'r dyfroedd bob un ag sydd â syched arno, i'e yr hwn nid oes arian ganddo; deuwch, prynwch, a bwytwch; i'e deuwch, prynwch win a llaeth, heb arian ac heb werth.” Eilwaith, “Corsen ysig nis tyr, a llin yn mygu nis diffydd.” A thrachefn, “A'r

hwn sydd â syched arno, deued ; a'r hwn sydd yn ewyllysile cymered o ddwfr y bywyd yn rhad." Am hyny, nid oes o i gauad allan neb ag sydd tan y *character* o ymofyn, ac o wir ewyllysio cael bywyd tragwyddol, pa mor wan bynag bydd dadguddiedigaethau ac ymweliadau Duw iddynt.

EUSEBIUS.—Ond pa ddull yw bod ar *dreial* sy genych ?

THEOPHILUS.—Y flordd bena' i'r sawl fo am ddyfod yn aelod o'r gymdeithas yw hysbysu ei enw i *stiwardiaid* y *society* ryw faint o amser o'r blaen ; ac i'r cyfryw *stiwardiaid* ei holi ef yn neillduol—a hyny fwy nag un waith—gan ofyn ei hanes efi'w gymydogion, a chan holi rhai o'i gyfeillion pa gyfnewidiad sydd ynddo, a mynu gwybod ei hanes o eneau duwiolion ac annuwiolion hyd ag y bo posibl ; a phan bo mis neu ddau yn cael ei dreulio wrth yr ymofyniad hyn am wirionedd ei ras, hyn a elwir yn *dreial*. Yna, os y *stiwardiaid* a'i ffeindiant ef yn addas i ddyfod o flaen holl gorph y gymdeithas, holed pawb ef fel dywedwyd uchod, gan ofyn tystiolaeth yr holl aelodau am wirionedd ei ras ef, a derbynier ef i mewn—os bydd yn deilwng—trwy gydsyniad yr holl gymdeithas.

EUSEBIUS.—A roir un *siars* arno wrth ei dderbyn fel hyn i gadw at reolau, dysgyblaeth, ac egwyddorion y gymdeithas ? ac os rhoir, pwy fydd i'w rhoddi ?

THEOPHILUS.—Y *siars* â ro'ir gan bwy bynag bo doniau ganddo at hyny, ac efallai bydd dau neu dri yn eu rhoddi—un yn cofio un peth, ac arall yn cofio peth arall ; ond sylwedd y *siars* fydd yr un agos ag a ddywedwyd eisioes, sef peidio taflu gemau o flaen moch—peidio dweyd dirgelion yr eglwys wrth y byd annuwiol, adrodd gwendidau a phrofedigaethau seintiau wrth y cwn ag a wnaï wawd o bob peth ag fai yn blino eglwys DDUW, peidio cyfeillachu â'r byd annuwiol, ond wrth rym achos, ond cadw mor agos fyth ag y bo bosibl at gwmpeini y gwir dduwiolion, cymeryd hefyd a rhoi cerydd yn addfwyn ac yn ostyngedig—cystal y naill a'r llall—a byw mewn cariad â'r holl *society*, heb garu un gronyn llai ar y rhai fydd yn eu ceryddu ac yn eu hargyhoeddi na'r rhai fydd yn eu cysuro ; cadw yr oedfeun yn gydwybodol, peidio gwag-siarad a chario newyddion am neb profeswyr o un i'r llall, ond atal pob rhagfarn, cenfigen, digasedd, ac eiddgedd yn neb o'r aelodau ; ond trwy bob moddion, ar air a gweithred, enyn cariad gan bawb y naill at y llall ; gwyllo nid yn unig tros ei fywyd ei hun, ond hefyd tros fywydau ei gyd-aelodau ; a phan y *ffeindio* ynthynt un peth camsyniol, ei argyhoeddi yn neillduol, a chelu eu beiau oddiwrth y brodyr ; i edrych a gymer y cyfryw rybudd dirgel, a gadael ei fai ; ac onide gosod ei fai o flaen un o'r *stiwardiaid* ; ac os hyn ni thycia, ei osod o flaen dau neu dri o honynt ; ac os hyn hefyd a fetha, ei

osod o flaen yr holl gymdeithas. Y rhai'n, a chyffelyb i'r rhai'n, yw y *siars* ry rhyw rai doniog o'r *society* i'r rhai dderbynir i mewn.

## DIALOG V.

Pa fodd sydd i wneud â hen aelodau y gymdeithas—Pa un ai eu holi sydd oreu—Os felly, yr holiadau sydd raid ofyn iddynt, megys yn nghylch eu tystiolaeth—Eu hadnabyddiaeth ragor o dwyll eu calon—Eu cynydd mewn cariad at yr eglwys—Tynerwch eu cydwybodau—Eu marweiddra i'w hewyllysiau eu hunain—Eu dybenion yn mhob gwaith crefyddol—Y defnydd maent yn ei wneud o'r talentau a gawsant—Yn nghylch cyngor neillduol sydd i'w roi ar rai amserau yn lle holi—Natur y cyfryw gyngor i ateb achosion y gymdeithas.

EUSEBIUS.—Bellach adroddwch ychydig yn nghylch hen aelodau'r gymdeithas—ai iawn holi y rhai hyn, neu beidio ? a pha fath holiadau fyddant, os rhaid yw ?

THEOPHILUS.—F'allai bydd i rai o'r rhai'n i ddweyd heb eu holi, a hyn yw y dull goreu os caiff neb ei gynhyrfu i hyny, canys hyfydach blas fydd o fod dyn yn adrodd o hono ei hun weithrediadau Ysbryd y gras, ac amlygiadau o gariad yr ALGLWYDD ar ei enaid, neu o'r tu arall, ddyfnderoedd temtasynau Satan, cyfyngderau a chaethiwed ysbryd, neu un sut wasgfeun pa beth bynag, na gorfod gofyn cwestiynau i ddyinion tywyll, oerion, heb fawr hadnabyddiaeth o DDUW na'u calonau eu hunain, am na wneir ond treulio yr amser wrthynt heb dderbyn goleuni nac adeiladaeth. Ond os rhaid gofyn cwestiynau i bobl o oedran, gellir gofyn y cyfryw a'r rhai'n,—sef 1. Yn nghylch eglurder eu tystiolaeth—pa fodd y daethant i gael eu tystiolaeth ? ac a gollasant hwy ddim o honi byth wedi ei chael ? pa fath effaith a weithiodd y cyfryw dystiolaeth ynddynt ? pa un ai bod y dystiolaeth hon wedi cael ei dyblu gan yr Ysbryd Glân, neu ynte na chawsant o honi byth mwy ? ac a ydynt hwy 'nawr yn credu bod eu pechodau wedi eu maddeu ? a bod CRIST wedi marw trostynt hwy yn neillduol ? bod Duw wedi eu caru â chariad tragwyddol ? a'r Ysbryd Glân yn cyd-dystiolaethu â'u hysbrydoedd hwy eu bod yn blant i DDUW ? A ydyw y pethau hyn ganthynt ? neu awelon o hyder sydd ganthynt yn unig wedi eu cenedlu oddiwrth y blâs a'r pleser gawsant wrth wrando'r Gair, a rhyw ordinhadau ereill yn mhlith y seintiau, ac yna eu colli pan elont ar eu penau eu hunain. Ac hefyd pan bo tymhestloedd mawrion o anghrediniaeth yn curu arnynt, i ba le maent yn myned—ai at yr hen dystiolaeth hon, neu at GRIST ei Hunan i ymofyn am oleuni a thystiolaeth.

newydd, cystal ac am ddoethineb a nerth? 2. A ydynt yn teimlo mwy o oleuni ysbrydol o'u mewn yn dadguddio iddynt fwy o burdeb y gyfraith, sancteiddrwydd Duw, pla eu calonau, drwg pechod, gwerthfawrogrwydd cyfiawnder CRIST, a holl addewidon y cyfamod newydd, yn nghyda'r aneirif ddi-chellion sydd gan y byd, y cnawd, a'r diafol i'w denu oddi-wrth DDUW? 3. A ydyw eu cariad yn cynyddu at yr eglwys, gan gydymdeimlo mwy â hi yn ei holl brofedigaethau? ysbryd llai rhagfarnus at y rhai sy'n syrthio? mwy o dosturi at bawb, ac yn edrych ar holl gystuddiau rhai ereill fel pe baent yn cwmpo arnynt eu hunain? 4. A ydyw eu cydwybodau yn fwy tyner i'w hargyhoeddi am y dechreuad cyntaf o bechod yn y meddwl, megys y dechreuad cyntaf o natur chwerw, ysbryd ysgafn, o ofal anghymedrol y byd, o genfigen, drwg-dyb, balchder, hunan-dyb, a thrythyllwch, neu ryw un llygredigaeth arall a welont yn ymlusgo i mewn fel sarph ac yn gwenwyno yr holl ddynt? a ydynt hefyd yn cael eu hargyhoeddi o bethau a eilw y byd yn ddi-ddrwyg—megys gair segur, ymadrodd ffol, coegddigrifwch, a chwedleua am y byd hwn, awydd elwa, chwant i rhodio allan i gael eu gweled ac i weled ereill, a'r cyfryw bethau ag sydd yn dyfod oddiwrth ysbryd iach a chalon gyfan. 5. Pa wersi newyddion a ddysgodd yr ARGLWYDD iddynt yn ddiweddar? a ydynt yn gweled rhagor o ddrwyg anghrediniaeth, twyll eu calon, dichellion diafol, deniadau pechod, hudoliaeth y byd? fel y maent mewn perygl bob awr heb nerth CRIST i'w galluogi, ac a ydynt yn dysgu pwysu mwy arno—am nerth, doethineb, a deall i gerdded rhwng peryglon mor fawr i'r byd tragywyddol? 6. Wrth holi eu hunain yn fanwl, a ydynt yn cynyddu mewn gras ac yn nes i'r nefoedd nag yr oeddent ar y cyntaf? ac os ydynt yn cynyddu, pa sut yw eu cynydd? pa un ai gweled mwy o burdeb, o dueddiadau da, rhinweddau nefol, ac o sancteiddrwydd ynddynt eu hunain yr ydynt, neu weled mwy o eisieu pwysu ar, a chredu yn NGRIST am nerth, gallu, cyfiawnder, doethineb, a sancteiddrwydd? 7. A ydynt yn chwilio eu dybenion yn mhob dim a gymeront mewn llaw, pa un a'i gogoniant Duw, neu elw, pleser, esmwythder, clod, neu ryw fodd arall iddynt eu hunain ydyw? 8. Wrth ba ewylls maent yn rhodio ac yn gwneuthur pob dim ag maent yn ei wneuthur? pa un ai ewylls Duw yn ei air, ai eu hewyllsiau eu hunain? a ydynt yn manwl chwilio'r gair i adnabod ei ewylls Ef er mwyn ei gwneud, neu ydynt mewn gweddi yn gosod yr achos pa beth bynag yw o flaen yr ARGLWYDD, ac ofn arnynt fyned o'i flaen, nac aros ar ei ol, na gwneud dim heb wybod i'w feddwl? 9. A ydynt yn gwneud defnydd o'r talentau a dderbyniasant gan DDUW? eu dysg, eu cof,

eu doniau, eu cyrph, eu heneidiau, yn nghyda'u cyfoeth a'u hamser, yn hollol ar ogoneddu'r ARGLWYDD, ac i adeiladu ei eglwys Ef. Y rhai'n, a'r cyfryw â'r rhai'n, sydd i ofyn i rai o oedran mewn crefydd, tuag at iddynt chwaneu at eu ffydd rinwedd, ac at rinwedd wybodaeth, ac at wybodaeth gymedrollder, ac at gymedrollder amynedd, ac at amynedd dduwioldeb, ac at dduwioldeb gareidigrwydd brawdol, ac at gareidigrwydd brawdol gariad: fel y b'ont wedi eu perffeithio i bob gweithred dda. Ond deallwch, er fod y rheolau uchod oll yn dda o'u harfer hwynt yn noethineb ac ysbryd yr ARGLWYDD, eto heb ei awdurdod anwyl Ef i gyd-gerdded, nid y'nt ddim: am hyny, dyled arbenig y rhai sydd edrychol ar *societies* yw cadw ysbryd goleuni a theimlad nefol ynddynt, rhag un amser fod y trefniadau hyn yn magu marweidd-dra a ffurfioldeb; ond ymeginio hyd ag mae posibl gadw allan bob ysbryd iach, calon gyfan, anghariad, rhagfarn, eiddigedd, sisial drwg, ysbryd cleberddus, a phob peth arall a fago oerfelgarwch rhwng y naill a'r llall.

EUSEBIUS.—Beth os na lwydda holi, na chanu, na gweddio rai prydiau, ond bod y rhan fwya' yn cael eu gadael yn farw, yn sych, ac yn dywyll er yr holl drefniadau hyn?—pa beth a wneir yn yr achos hyn?

THEOPHILUS.—Deallwch fod cynghorion neillduol i'w rhoddi rai prydiau i gymdeithasau crefyddol ag sydd mor fuddiol a holi, ac yn wir i rai math o bobl, ac ar rai amserau yn llawer gwell; yn enwedig pan delo pregethwr dyeithr i gymdeithas *brifat*, a hwnw yn berchen ar ddoniau helaeth, a lle bo llawer yn nghyd, ac o bosibl rai o amrywiol gymdeithasau ereill, canys bydd rhwng cywilydd, balchder, ac anghynefindra amryw yn rhy ful ac ofnus i ateb y fath gwestiynau ag y fo gŵr dyeithr enwog yn eu gofyn iddynt; ac yn yr achos hyn gwell fyddai i'r cyfryw roi cynghorion cyffredin ag fo yn fuddiol i'w hadeiladu hwynt yn athrawiaeth, ysbryd, ac ymarweddad y ffydd. Ac mae'r fath gynghorion *brifat* lawer pryd yn cael eu derbyn yn fwy blasus gan bawb, ac yn cadw mwy o wastadrwydd yn ysbryd y brodyr na'r holiadau cyhoedd; o ran, yn gyntaf, anhawdd iawn cael dynion a foddlon ddywededy eu cyflyrau yn onest o flaen cynifer o bobl, yn enwedig rhai dyeithr, a gŵr dyeithr hefyd yn holi. Yn ail, os neb a ddechreu wrth gael eu holi ddarguddio eu cyflyrau, a dweyd un tu'r ddalen a chelu'r llall, dywyllach, dywyllach yr ânt, nes o'r diwedd y d'rysont mewn anialwch nas gwyddant pa fodd i ddyfod allan, ond tewi son mewn cywilydd. Yn drydydd, os nas caiff yr holiedydd dyeithr yma foddlondeb yn y sawl a holo, fe fâg feddyliau caled am danynt, heb yn iawn hefyd ddeall eu cyflwr, a hyn a derfysga y dyn

yntau, fel yn lle cael ei adeiladu y mág chwerwder ac oerfel-garwch ragor at y gymdeithas.

EUSEBIUS.—Pa beth yw yr addysgiadau a'r cynghorion neillduol hyny?

THEOPHILUS.—Fel y bo yr achos yn gofyn; weithiau trwy falchder dnyon rhyfygus ag sy'n fawr am ddwyn i mewn ryw oleuni newydd mae cyfeiliornadau athrawiaethau yn ysu fel cancr mewn cymdeithas grefyddol; a chyda'r fath flas a goleuni mae'r cyfeiliornadau hyn yn myned yn mlaen, fel y tebygir nas gall neb eu gwrthddywedyd; ond da yw yn y cyfryw achos profi gwir athrawiaethau'r ffydd o'r Ysgrhythyr-Lân, a dadrys y brodyr o ysbryd cyfeiliorni a heresiau, ac arferyd pob addfwynder i'w denu hwynt i'r gwir lwybr. Eilwaith, os i gyfeiliorni o fywyd penrydd, pleserau, a thrythyllwch y bydd un gymdeithas grefyddol wedi rhedeg, da yw rhoi argyhoeddiadau dwys ac awdurdodol yn erbyn y fath ffrwd o nwydau natur, gan ddangos allan o'r Ysgrhythrau mor *anhawdd yw i'r rhai oleuwyd unwaith, ac a brofasant y rhodd nefol, ac a wnaethpwyd yn gyfranog o'r Ysbryd Glân, ac a brofasant ddaionus air Duw, a nerthoedd y byd a ddaw, os syrthiant ymaith i bleserau, chwantau'r cnawd, a deniadau natur, i adnewyddu i edifeirwch, am eu bod yn ail-groeshoelio* ARGLWYDD *y gogoniant.* Ond cymered y pregethwr ofal mawr ar geryddu yn galetach y rhai sydd yn blaenori yn y cyfeiliornadau hyn na rhai sydd yn dechreu cael eu harwain iddynt, megys y dywed yr Apostol Jud. adn. 22, 23:—*Trugarhewch wrth rai, gan wneuthur rhagor; eithr rhai cedwch drwy ofn, gan eu cipio hwy allan o'r tân; gan gasau hyd yn oed y wisg a halogwyd gan y cnawd.* Ond os na fydd dim o'r pethau uchod âg achos siarad am danynt, feallai byddai dda rhoi cynghor yn erbyn segurddod ysbryd, claiarineb, di-ffrwythder, ac esgeulusdra o'u cydgynulliad yn nghyd, fel mae'r achos yn fynych mewn amryw gymdeithasau crefyddol; neu ynte os bydd y gymdeithas yn wresog, yn fywiol, ac yn llawn sel, eto da fyddai rhoi cynghor iddynt ar ddwyn pob ffrwythau addas i'r sel a'r gwres nefol hyny, megys at y byd allanol, ymarweddiad onest, gostyngedig, ac addfwyn, heb arferyd na dichell na hoced, twyll na chelwydd, nac unrhyw ymddygiad anweddaidd i rai yn proffesu efengyl CRIST, cnd y fath a fyddo yn llwyr ateb y *character* mae CRIST a'i Apostolion yn ei roi i wir gredinwyr. Y fath ffrwythau hefyd at eglwys Dduw ag a fo yn cynwys ynddynt gariad, tosturi, cydymdeimlad, tiriondeb, ysbryd maddeugar, cuddio beiau, cymwynasgarwch, a haelioni. Yma gall pregethwr doniog i ymhelaethu ar holl ddyledswyddau yr efengyl at dlawd a chyfoethog, hen ac ieuangc, claf ac iach, perthynasau a dyeithriaid; dyledswyddau gwladaidd a theuluaid, a phob

rhan o fywyd addas a sancteiddrwydd. Yma gall pregethwr ddangos yr effeithiau o bob gras, gwahaniaethu rhwng ffydd a rhyfyg, gwir edifeirwch ac ofn deddfol, gwir gariad at Dduw ac awelon cnawd a natur, ysbryd drylliedig ac ysbryd *melancholi*, llawenydd ysbrydol a llawenydd rhyfygus, yn nghydag amryw weithrediadau sydd gan ras a natur yn rhy gyffelyb y naill i'r llall heb gael llygad manwl i wahaniaethu rhyngddynt. A thrwy bregethu i gymdeithas grefyddol rai prydiau ar y pyngciau hyn, fe'u dysgir bob yn ronyn yn holl ddirgelion duwioldeb, ac y mae'r fath gynghorion *prifat* yn hollol gyflawni lle holiadau ar eu hamserau nodedig.

## DIALOG VI.

Yn nghylch cadw dysgyblaeth fanwl, a thafu allan y rhai o fywyd penrydd ac anaddas—*Instances* ag mae yr Ysgrhythyr yn ei roi o arfer trugaredd at y rhai a syrthiant—Cydseiniad yr Ysgrhythrau ag sydd yn ymddangos yn erbyn eu gilydd yn nghylch dyodde' neu arferyd creulondeb at y rhai a becho—Tri math o rai wedi syrthio, y cyntaf i'w dyoddef yn y *society* o ran tanbeidrwydd eu profedigaethau a'u hysbryd briw ar ol llaw—Yr ail a'r drydydd i'w tafu allan, oni chair arwydd buan o'u hedi-feirwch—A'r Ysgrhythrau rhagddywededig yn cael eu hagog a'u cydseinio yn y tri math hyn.

EUSEBIUS.—Onid ydych rai prydiau yn gorfod arferyd dysgyblaeth mwy creulon. trwy dori rhai allan o'ch cymdeithas pan bo eu bywydau wedi myned yn benrydd ac yn anniben, yn llawn o wendidau a chyfeiliornadau, neu syrthio o honynt i ryw feiau cyhoedd trwy rym profedigaethau, neu o ddiolfalwch a segurddod ysbryd? am hyny y gofynaf i chwi pa sut mae *delio* âg aelodau'r gymdeithas yn yr achos hyn? am ba feiau mae eu tafu hwy allan? a pha mor bell y mae dyodde' ganddynt, pan y b'ont wedi troseddu, i fod i mewn yn y gymdeithas? a pha fodd eilwaith mae *delio* â rhai deflir allan? a raid bod yn oer, yn sych, ac yn ddyeithr iddynt? neu a raid myned i ymddyddan â hwynt, i edrych a godasent o'u codymau? a iachaodd eu clwyfau, ac a roddwyd iddynt wir edifeirwch? ac hefyd pa arwyddion raid i chwi gael ganddynt o adgyweiriad trwyadl o gymundeb â Dduw cyn yr ail-dderbynier hwynt i mewn i'r gymdeithas?

THEOPHILUS.—Chwi ofynasoch i mi amryw gwestiynau, ac mi wna' fy ngoreu ar roi i chwi foddlonrwydd. Pa fodd bynag mae meddyliau ereill yn yr achos hyn, nid wyf fi fyth yn awyddus i dafu neb allan o gymundeb eglwys Dduw ond

am achosion mawrion a diarbed, sef gweled dyn yn myned yn mlaen yn ei bechod, ei garu, ymbleseru ynddo, a mynych gwympto iddo heb edifarhau, ond yn hytrach ymgaledu, gan ddiystyru argyhoeddiadau Duw a dynion. Ond am ryw gwympiadau disymwth, na bo gan gredadyn un meddwl blaenllaw am danynt, ond syrthio iddynt o nerth temtasiwn danllyd a ddaeth fel *hurrican* o gyffiniau uffern, neu fel llif-eiriant diarwybod o fynyddau cig a gwaed, ni ddylid taflu allan yn frwd y cyfryw rai; ond eu ceryddu yn addfwyn, dad-guddio iddynt waradwydd ac euogrwydd y cyfeiliornad; cydymdeimlo â hwynt a thosturio wrthynt, a thaer ymbil arnynt nad elont i'r fath greigydd llithredig byth mwy. A'r hyn sydd yn fy nghadarnhau yn fy marn yw—1. Esiampl ein HARGLWYDD IESU ei Hun at ei Apostol Pedr, yr hwn nid yn unig a wadodd ei ARGLWYDD, ond gyda geiriau diystyrllyd am dano a regodd ac a dyngodd na wyddai efe am y dyn hwnw ag oeddent wedi ei ddal—nas gwelodd efe Ef erioed o'r blaen, ac na waeth ganddo pa beth a wnaent iddo, a hyn a gadarnhaodd ef trwy regfau ofnadwy ac echryslon; eto, am mai temtasiwn wyllt, ddisymwth ydoedd, ac nad oedd ond tafod Pedr yn gwadu ei ARGLWYDD, a hyny hefyd o ofn marw, ac iddo yn union edifarhau ac wyllo yn chwerv-dost am ei godwm, ein HARGLWYDD da a'i derbyniodd i mewn i rifedi ei Apostolion. 2. Yr Ysgrythyr sy'n dweyd, Gal. vi. 1—“Os goddiweddir brawd mewn bai, chwi y rhai ysbrydol adgyweiriwch y cyfryw un mewn ystryd addfwynder, gan ystyried eich hunain, rhag eich temtio chwithau.” A chwi a wyddoch mai adgyweirio mewn ysbryd addfwynder yw, nid taflu allan o'r gymdeithas, ond perswadio a denu dyn trwy bob câriad, tiriondeb, a hawddgarwch i gydnabod ei fai, ac ymwrthod âg ef o hyny allan byth mwy. 3. Ni gawn amryw feiau anafus yn aelodau eglwysi Asia, eto nid oedd yr Ysbryd Glân yn peri eu tori hwy allan oddiwrth y corph, ond yn bygwth—onid edifarhaent oddiwrth eu pechodau—y symudid eu canwyllbrenau—sef eu pregethwy'r hwy—allan o'u lle, neu ynte y byddai i DDUW eu bwrw hwynt ar wely o gystudd trwm os nad edifarhaent am eu pechodau. 4. Ymddygiad ein HARGLWYDD at y wraig a ddaliwyd mewn godineb sydd yn dangos nad yw creulondeb yr Hen Destament yn perthyn dim i ysbryd y Newydd, ond bod ysbryd y cyfamod newydd yn dweyd—“Pan becho neb, ac ymgystuddio am ei bechod, bod Eiriolwr gyda'r Tad, IESU CRIST y cyfiawn.” Ac eilwaith—“Dos ac na pjecha mwyach, rhag dygwydd i ti beth a fyddo gwaeth.” 5. Ni gawn eglwysi Corinth âg amrywiol feiau mawrion ac anafus ynddi, megys cyfreithio o flaen y rhai di-gred, priodi y rhai di-gred, ymranu yn nghylch

gwainidogion y gair—un yn pledio o blaid Paul, arall o blaid Pedr, a'r lleill o ochr Apollos; eto gyd, nid am un ond un o'u hamrywiol feiau y cawn ni Paul yn tori dyn allan o'r eglwys, sef am ei fod wedi cael gwraig ei dad;—hyny oedd, naill ai ei phriodi, neu fyw mewn arferiad o honi: ac er gwneud y peth yn waeth, yr eglwys yn cymeryd hyn yn ysgafn ac yn gell-weirus, neu ynte o eiddigedd neu ymddial yn gorfoleddu yn ei gwmp ef—yr hyn sydd yn dangos fod dibrisdod anghyn-efin o bechu yno yn erbyn yr ARGLWYDD.

EUSEBIUS.—R wy'n deall mai gwell yw cwympto ar y llaw o drugaredd a chydymdeimlad nag ar y llaw o gondennio, lladd, a chadw gwag at gredadyn a syrthiodd i brofedigaeth, am y dywed ein HARGLWYDD (Mat. vii.), “Na fernwch, fel na'ch barner; canys â pha farn y barnoch y'ch bernir; ac â pha fesur y mesuroch yr adfesurir i chwithau. A phaham yr wyt yn edrych ar y brycheuyn sydd yn llygad dy frawd, ac nid wyt yn ystyried y trawst sydd yn dy lygad dy hun? neu pa fodd y dywedi wrth dy frawd, gad i mi dynu allan y brycheuyn, ac wele drawst yn dy lygad dy hun? O, ragrith-iwr, bwrw allan yn gyntaf y trawst o'th lygad dy hun, ac yna gweli yn eglur i fwrw y brycheuyn allan o lygad dy frawd.” A diau yw y dylai dychryn ac ofn fod ar y goreu o ddynion wrth daflu allan enaid o eglwys DDUW, rhag rhyw bryd iddo yntau gael ei fwrw allan, fel y dywed yr Apostol (1 Cor. x. 12), “Yr hwn sy'n tybied ei fod yn sefyll edryched na syrthio.” Ond eto, mae amryw ysgrythyrau ereill yn peri in' na ddyoddefom bechod mewn neb, rhag, os gwnawn, ein bod yn euog o'u hanwiredd hwynt, fel y dywed yr Apostol Paul (Eph. v. 7), “Na fydd gyfranog â hwynt.” A gwrs 11, “Na fydded i chwi gyd-gyfeillachu â gweithredoedd anffrwythlon y tywyllwch, eithr yn hytrach argyhoeddwch hwynt.” Ac fe ddywed yr un Apostol yr un peth yn 1 Tim. v. 22, pan mae yn peri iddo beidio dodi dwylaw ar neb yn ebrwydd, rhag trwy hyny iddo fod yn gyfranog o bechodau rhai ereill. Ac fe ddywed yr Apostol Ioan yn ei ail Epistol, “Od oes neb yn dyfod atoch heb y ddysgeidiaeth hon, [sef y ddysgeidiaeth o aros yn Ysbryd CRIST, ac o ymarweddiad sanctaidd,] na dderbyniwch ef i dŷ, ac na ddywedwch Duw yn rhwydd wrtho; canys yr hwn sydd yn dywedyd wrtho Duw yn rhwydd, sydd gyfranog o'i weithredoedd drwg ef;”—yr hyn rybuddion sy'n rhoi i ni ddeall mai lle duwiolion yw ymneillduo eu hunain oddiwrth ddyinion halogedig, penrydd, ac aflan, pa faint bynag fyddo eu *pretens* a'u profes o grefydd; a thafu allan hefyd y fath o'u cymanfaoedd, os nad edifarhaent yn ebrwydd oddiwrth eu drwg-fywyd a'u hymarweddiad gwaradwyddus. Ac i'm cadarnhau yn mhellach yn



hyn. fe ddywed Paul wrth eglwys Corinth, yn ei Epistol cyntaf, pen. v. adn. 11, “Mi (medd efe) a ysgrifenis o'r blaen atoch, ac yn awr yr wyf yn ysgrifenu drachefn, na chyd-gymysgech; os bydd neb a enwir yn frawd yn odinebwr, neu yn gybydd, neu yn eilunaddolwr, neu yn ddifenwr, neu yn feddw, neu yn gribddeiliwr: gyda'r cyfryw ddyn na chyd-fwyta chwaith,”—hyny yw, fel yr wyf fi yn meddwl, na wna un math o gyfeillach na chymundeb mynwesol âg ef—na fydded yn bleser genyt gadw cwmpeini dyn o'r fath ag sy'n caru melus chwant yn fwy nag yn caru Duw, rhag i ddynion dybied wrth dy fod yn cyd-eistedd, yn cyd-fwyta, yn cyd-yfed, yn cyd-gyfeillachu âg ef, dy fod yn caru ei ffyrdd ac yn ymhyfrydu yn ei arferion. Felly yr ysgrhythrau hyn ac amryw o'r fath sydd yn peri i mi gredu fod dysgyblaeth eglwysig yn peri i ni gadw ymaith oddiwrth y rhai sydd yn byw yn anaddas i efengyl CRIST, a'u taflu allan o'r eglwys ar rai achosion, fel y dywed yr Apostol,—“Beth sydd i mi a farn-wyf ar y rhai sydd oddi allan? onid y rhai sydd oddi mewn i'r eglwys yr ydych chiwi yn eu barnu? Bwriwch chwithau ymaith y dyn drygionus hwnw o'ch plith chiwi.” (1 Cor. v. 12, 13.) Ond yma yr wyf yn fyr o wybod pa bryd y mae, ac at bwy y mae i ni arferyd tosturi; ac at bwy, a pha bryd, o'r ochr arall, y mae i ni arferyd mwy o greulondeb; canys fe ddywed yr Apostol Judas, “Trugarhewch wrth rai, gan wneuthur rhagor; eithr rhai cedwch trwy ofn, gan eu cipio hwy allan o'r tân; gan gasau hyd yn oed y wisg a halogwyd gan y cnawd.” Am hyny, fy anwyl dad, gwnewch gydsyniad rhwng yr amryw ysgrhythrau hyn, y rhai sydd weithiau yn dweyd am arfer tosturi, a phryd arall am arfer creulondeb at, ac ymneillduad oddiwrth, y rhai ag sydd yn syrthio i bechod, ac eto yn arddel duwioldeb?

THEOPHILUS.—Fy anwylyd, pan bo yr Ysgrhythrau megys yn taro y naill yn erbyn y llall, deallwch mai tywyllwch ein deall ni yw yr achos, ac nad oes mewn gwirionedd un anghysondeb yn yr Ysgrhythr-Lân; ac mai'r unig ffordd i ni (pan b'om yn gweled un peth yn dywyll) yw rhedeg at yr ARGWLWYDD am oleuni nefol, canys yr un Ysbryd ag a 'sgrifenodd y Gair yw yr unig Un ag all agor y Gair a roddodd Ef i'w eglwys fel colofn dân a niwl i'w harwain tua'r bywyd. Ond tuag at wneud ar ol cyfarwyddiad yr amryw ysgrhythrau enwasoch, ag sydd megys pe baent yn gwrthsefyll eu gilydd, mae amryw bethau i'w hystyried yn achosion ceryddu y rhai sy yn rhodio yn anaddas o efengyl CRIST. Ac yn gyntaf, deallwch os bydd y cwmp i ryw un pechod allanol: os y tro cyntaf y bydd—os o rym profedigaeth, megys erlid, carchar, neu angeu, ac ofn yn enill y dydd; os o anadnab-

yddiaeth y chwant a'u denodd, heb gael un prawf o hono erioed o'r blaen, ac iddo syrthio yn dywyll heb weled y fagl guddiedig oedd gan y byd a Satan i ddal ei enaid yn ddiarwybod,—yn yr achos hyn da yw tosturio, a'i geryddu yn addfwyn, a'i godi i'w le trwy bob hynawsedd a thiriondeb, yn enwedig os claf a dolurus fydd ei ysbryd am dynu gwaradwydd ar ffyrdd yr ARGWLWYDD; ac i hyny yr ateb yr Ysgrhythr sy'n dywedyd (Gal. vi. 1), “Frodyr, os goddiweddir dyn ar ryw fai, chwychwi y rhai ysbrydol, adgyweiriwch y cyfryw un mewn ysbryd addfwynder; gan dy ystyried dy hun, rhag dy dentio dithau.” Ac Ysgrhythr arall a ddywed (1 Ioan v. 16), “Os gwel neb ei frawd yn pechu pechod nid yw i farwolaeth, efe a ddeisyf, ac efe a rydd iddo fywyd, i'r rhai sy'n pechu nid i farwolaeth.” Yn ail, Ond os bydd professwr crefydd wedi cwmpo i'r un bai drachefn a thrachefn, a hyny wrth ychydig iawn o brofedigaeth, a phob argoelion ei fod erioed heb gasau ei fai, ond ei garu a'i gofleidio yn ddirgel, fel nad yw yn galaru am dano, ond ffug wag a rhagrith, yn tarddu mwy oddiwrth gywilydd mae y gwaradwydd yn ei wneud na'r gofid o bechu yn erbyn Duw trugarog a graslawn,—angen yw ceryddu y fath a hyn o flaen pawb, er rhybudd, dychryn, ac ofn i ereill; ac os bydd y pechod yn erbyn llythyren y gyfraith, ac wedi myned allan i'r byd, buddiol yw rhoi arnynt ryw gosb neu gerydd cyhoedd, fel y bo'r byd yn dyfod i adnabod nad yw eglwys DDUW yn boddloni i neb i fyw mewn un pechod; bydd hyn naill ai diarddelu y dyn o'r gymdeithas, neu ryw ffordd arall. Ac at hyn yr ateb yr Ysgrhythr sy'n dywedyd (1 Tim. v. 20), “Y rhai sy'n pechu, cerydda yn ngwydd pawb, fel y byddo ofn ar y lleill.” Yn drydydd, Os bydd professwr crefydd (er nas cwmpodd i odineb, meddwod, ymladd, mwrddrad, lladrad, a'r holl bechodau ereill y mae'r byd yn gwaeddi ar eu hol), eto gyd yn ledio bywyd yr un a'r byd annuwiol—yn cyfeillachu â'r rhai fo o gyfeillach y byd, yn rhodio yn arferion y byd, yn elwa yn anghyfreithlon, yn fasweddgar, yn wag-siaradus, yn diota, yn gloddesta, yn falch, yn gelwyddog, yn genfigenus, yn faleisus, ac yn byw yn mhob ymarweddiad penrydd, heb argoel fod tan friw na gofid am un math o gyflafan a wnelo—dyled y gymdeithas yw argyhoeddi y cyfryw yn llym ac yn awdurdodol, gan fygwth ei daflu allan o gymundeb y saint; ac os nas gwella ei fuchedd, a hyny ar frys, a rhoi arwyddion eglur o ysbryd drylliedig a briw, da yw ei fwrw ef allan tros enw yr ARGWLWYDD. Ac â hyn y cytuna yr Ysgrhythr sy'n dywedyd yn Jud. 23,—“Eithr rhai cedwch trwy ofn, gan eu cipio hwy allan o'r tân; gan gasau hyd yn oed y wisg a halogwyd gan y cnawd.”



EUSEBIUS.—Pa beth sydd i wneud i'r rhai sydd yn ymadael â'r gymdeithas o'u bodd, wedi dyfod i mewn mewn eitha' gwres, cariad, a bywyd, ond naill ai wedi cael eu denu ar ol rhyw chwant, megys caru cnawdol, cariad at y byd, neu ryw un o bleserau natur; neu ynte wedi rhyw oeri at bob daioni, ac o'r diwedd heb flas ar un o ordinhadau yr efengyl? Os gwrando wnant, ni fydd hyny ond megys o ddygwyddiad, ac os d'ont i'r gymdeithas brofiadol, maent yno mewn ofn a diflasdod; ond peth anghynefin yw eu gweled hwy yn troedio i un o'r lleoedd hyny. Pa fodd mae i ni ymddwyn at y rhai'n?

THEOPHILUS.—Maent wedi ymadael â Duw, a thyna'r achos eu bod wedi ymadael â chwi; a hyfryd a fyddai eu henill hwynt yn ol drachefn: canys pwy bynag a'i gwnel, fe ddywed yr Ysgrythyr (Dan. xii. 3), y dysgleiria'r cyfryw "fel y sêr, byth ac yn oes oesoedd." Am hyny, eich dyled yw, yn gyntaf ac yn benaf, gweddio drostynt ar i DDUW eu hadferu hwynt ato ei hun; ac yna chwedleua yn fynych â hwynt yn deg ac yn addfwyn, gan eu perswadio i ddyfod yn ol o gyfeiliorni eu ffyrdd; dangos iddynt y perygl ofnadwy o wrthgiliad—y ddamnedigaeth ddyblyg sydd i'r rhai a ymadawant â Duw; gosod o'u blaen yr ysgrythrau ofnadwy sy'n erbyn y gwrthgiliwr, megys Heb. vi. 4, 5, 6,—“Bod yn anghosibl i'r rhai a oleuwyd un waith, ac a brofasant y rhodd nefol, ac a wnaethpwyd yn gyfranogion o'r Ysbryd Glân, ac a brofasant ddaionus air Duw, a nerthoedd y byd a ddaw, ac a syrthiant ymaith yn lân oddiwrth eu profes,—ymadnewyddu drachefn i edifeirwch, gan eu bod yn ail-goeshoelio iddynt eu hunain FAB DUW, ac yn ei osod yn watwar.” Dangos iddynt yr Ysgrythyr sy'n dywedyd (Heb. x. 26), “Os o'n gwirfodd y pechwn, ar ol derbyn gwybodaeth y gwirionedd, nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach; eithr rhyw ddysgwyl ofnadwy am farnedigaeth ac angerdd tân, yr hwn a ddifa y gwrthwynebwr.” Ac feallai trwy i'r gymdeithas daer weddio trostynt, (can's llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn,) eu caru, eu dilyn o fan i fan, peidio gadael llonydd iddynt yn eu gwrthgiliad, gan ymbil arnynt trwy bob hynawsedd, tiriondeb, a chariad, i lynu o newydd wrth yr ARGLWYDD, bydd y Duw trugarog a graslawn o'r diwedd i'w dychwelyd hwy yn ol i'r ffydd, ac i goroni y rhei'ny ag fu yn offerynol o ddwyn y gorchwyl ardderchog hyny i ben.

## DIALOG VII.

Yn nghylch y pethau nad yw addas i'w dywedyd yn y *Society*, sef meddyliau gwibiog a chabledus; temtasiynau poethion, disymwth, dibarhad ar y meddwl; syrthiadau cuddiedig, pan bo gwir edifeirwch yn eu carlyn; ein bywydau llygredig cyn cael grâs; drygau a gwendidau rhai ereill—Y pethau eilwaith sydd addas i'w dywedyd, sef pethau fo'n tueddu mwy at yr enaid na'r corph—Y fath ag fo yn rhoi goleuni i'r holl gymdeithas o gyflwr enaid—Pethau fo yn fuddiol i'n dwyn o dan draed ein gelynyon ysbrydol—Yr argyhoeddiadau a'r blinderau tumewnl ag ydym yn gael am bechod—Y grasusau a'r tymherau nefol mae Duw yn weithio ynom—Y siomedigaethau a'r *disapointments* ydym yn gael ynom ein hunain—Ac yn ola', pob peth ag fo yn enyn cariad y naill at y llall—Addysgiadau i *stewardiaid* y *Society* pa fodd i ymddwyn o ran eu hymarweddiad, eu pwyll, parodrwydd i gelu a chadw *counsel* a dirgelion y *society*—Yn nghylch elusen, ac i bwy mae rhoddi arian y gymdeithas—Yr anhrefn sydd yn fynych yn nghylch hyn—Pwy yw y gwir weddwon, y rhai sydd yn wrth-ddrychau cymwys o gasgliadau a rhoddion y gymdeithas, yn nghyd ag amrywiol bethau yn nghylch bywioliaeth rhy uchel mewn pregethwyr a phroffeswyr ereill.

EUSEBIUS.—Fe fu rhyw siarad rhyngom ar ddechreu ein cymdeithas am yr annoethineb a all'sai fod mewn cyfarfodydd o'r fath hyn, ar amryw ystyriaethau, ac yn enwedigol mewn y ffordd, sef trwy i bobl ieuaingc ddweyd mwy nag f'ai addas a buddiol o'u rhan eu hunain, ac o ran ereill, o unrhyw bethau, ac o bosibl llai o bethau ereill nag f'ai adeiladol, ac y gall'sai sel y cyfryw rai eu gyru i gyfeiliornad o un tu, o ddweyd gormod, cystal a chlaiarineb hen broffeswyr o'r tu arall, o dewi a son yn ormod. Ond mi anghofiais y pryd hyny ddilyn fy ngofyniad, a chwithau aethoch i siarad am *stewardiaid* y *society*; ond fyth y mae yn pwyso arnaf i ofyn—pa bethau sydd i'w dweyd, a pha bethau sydd i beidio eu dweyd yn y fath gyfarfodydd? am y gallai, fel y dywedais, fod annoethineb rai prydiau yn yr achos hyn. Canys fel y mae eidionau newyddion heb fod tan iau o'r blaen yn fynych yn methu cadw y gŵys, ond gwylltio yr ochr hyn a'r llall nes gwneud llawer o ofid i ereill a rhan fawr ragor o boen iddynt eu hunain nag fyddai raid, a *balco'r*\* tir yn anhrefn, felly plantos newydd ddyfod i brofi hyfryd bethau Duw sydd barod i redeg i ryw ochr oddiar yr union lwybr—naill ai dyfnder argyhoeddiad ar un llaw yn eu gyru hwy i ddweyd pob drwg, dichell, ac afleidd a wnaethant hioed, neu deimlad o flas ysbryd rhydd-did ar y llaw arall yn eu doddi i adrodd pob meddyliau melus, pob rhyw hyfryd freuddwydion, a phob rhyw dybiau sylurus maent yn eu cael am danynt eu hunain, heb fawr sylwedd ynddynt. Am hyny, yn

\* *Balk.*

y fath gymdeithas gymysgedig o wŷr a gwragedd, hen ac ieuaingc, meibion a merched, ofn sydd arnaf gellir naill a chelu gormod o'r gwirionedd o un ochr, neu fynegu gormod yr ochr arall, yr hyn sydd yn niweidiol iawn o bob tu i adeiladaeth y gymdeithas.

THEOPHILUS.—Gwir yw, ac fe gyfeiliornodd rhai eglwys trwy fynegu gormod o'u llygredigaethau, eu haflendid, eu trais, eu hanonestrwydd, eu hanniwierdeb, a phob melleddig-rwydd fu ynddynt cyn cael gras, fel y dywedasoeh, fel y tynwyd mawr waradwydd ar ffyrdd yr ARGLWYDD, ac fel gorfu ar weinidogion yr eglwys hyny osod rheol o hyny allan. na byddai i neb ddweyd pethau neillduol am danynt eu hunain yn yr amser yr oeddent heb ddyfod i broffesu duwioldeb, rhag trwy hyny iddynt orfod doddi pechodau rhai ereill allan gyda'u pechodau eu hunain, neu ddadguddio pethau am danynt eu hunain hefyd ag fyddai yn gywilydd byth iddynt hwy a'u plant, neu o bosibl rai pethau ag allai wneud ysgariaeth mewn teuluoedd, cynulleidfaoedd, a gwladwriaeth. Am hyny, mi debygwn fod amrywiol bethau ag sydd i ni i'w celu yn nghymdeithas y brodyr, ie, hyd yn oed ein *ffryns* anwylaf. Ac yn gyntaf, y meddyliau cableddus ofnadwy a dychrynlyd mae Satan yn wthio i mewn i'n hysbrydoedd. Nid oes gan natur nemawr neu ddim llaw yn y rhai'n, ond eiddo'r diafol ydynt; maent ar ei lun a'i ddelw ef ei hun—sef casau Duw, ei ddiystyru, cwestiyno ei holl briodoliaethau, eiddigeddu a chenfigenu wrtho, a damsiad ei fawredd tan draed; swydd, elfen, a phleser yr angel di-obaith yw y pethau hyn, a'u gyru i mewn i ysbrydoedd duwiolion y mae efe tuag at eu blino, eu terfysgu, ac aflonyddu eu hysbrydoedd, a distrywio, os gall, eu cariad a'u heddwch at yr ARGLWYDD. Y rhai'n sydd fel mellten yn taro i mewn i 'stafell yn peri dychryn mawr i bawb, ond nid yn y 'stafell yr oedd y natur o honi, ond yn y *sulphur* gwenwynllyd ag oedd yn yr awyr; felly nid ein llygredigaeth ni, er cymaint ydyw, yw yr achos o'r meddyliau cableddus hyn, ond Satan; ac efe gaiff y gosb am y fath demtasiynau, canys nis cydseiniodd ein hysbryd ni â hwynt, ac nid oes i ni dderbyn euogrwydd oddi wrthynt, na therfysgu o'u hachos, na magu un grwynn o amheuaeth am ein bod yn eu cael, oblegyd rhan rhai ardderchog o'r saint ydynt yn fynych. Ac yn wir nid da yw i ni eu hadrodd, rhag trwy hyny iddynt gynyddu yn fwy, neu gael argraff ar rai ereill, ac hefyd maent yn rhy ddychrynlyd ac ofnadwy i'w hadrodd; ond dyled pawb a fo tan y fath demtasiynau yw taer weddio yn eu herbyn. Yn ail, nid da adrodd y meddyliau gwibiog, crwydredig ag sydd yn rhedeg i mewn fel afon lfeiriol i'n hysbryd-

oedd;—diau fod y rhai'n yn dyfod oddiwrth galon iach ac ysbryd segur, ond pe adroddid hwy oll byddai raid cymaint o amser ag y buwyd yn rhoi derbynriad iddynt i'w hadrodd hwynt, sef diwrnod cyfan yn adrodd meddyliau gwibiog diwrnod arall pe gellid eu cofio hwynt! Ond O, pa dorfeydd o'honynt sydd yn ddisylwedd, a thorfeydd mwy yn perthyn i bethau nad ydynt gymhwys i'w hadrodd! rhai o ofn, rhai o hyder cnawdol, rhai o garu, rhai o gasau, rhai o alar, rhai o lawenydd, rhai o ddymuno rhyw bethau, rhai o ffeiddio pethau ereill, a thorfeydd aneirif yn cynwys awydd at y byd neu anfoddlonrwydd ynddo, neu am barch, elw, esmwythder, a gogoniant daearol; ac nid oes braidd orchymyn o ddechreu yr Hen Destament i ddiwedd y Newydd nad ydys yn eu briwio hwy mewn meddyliau gwibiog, fel mai can' gwell yw adrodd y meddyliau gwylltion, difaus, ac o'r diwedd drewllyd hyn (fel locustiaid yr Aipht) wrth DDUW nag wrth ddyinion, rhag ofn iddynt eu camddeall, a thybied fod y meddyliau hyn yn bethau gwreiddiol, parhaus yn ngwraidd calon y dyn ag oedd yn eu hadrodd, lle mewn gwirionedd nad oeddent ond peth oedd Satan yn daflu i mewn i lanw ac i ddiffyru calon ag oedd yn wag o bresenoldeb yr ARGLWYDD. Yn drydydd, nid da adrodd pob temtasiwn wyllt a ddelo i gynhyrfu ein nwydau pan na bo hi o hir barhad nag o dderbynriad ewyllysgar. Mae gwahaniaeth rhwng profedigaethau ar y meddwl a meddwl gwibiog; mae'r gynta' yn dyfod gyda grym ac awdurdod parhaus ar ryw un o ranau yr enaid—ar y deall, neu yr ewyllys, neu rhyw un o nwydau yr enaid, ac yn cynhyrfu'r cyfryw nwyd i garu yn drwm tros amser neu i gasau yn lliidiog, i hyderu yn rhyfygus neu ofni yn arswydus, i lawenhau yn anghymedrol neu i lefaru fel heb obaith, i chwenychu yn ddireswm neu ffeiddio hyd at atgasrwydd; a hyn oll yn para gyda grym ar yr ysbryd tros grym ronyn o amser; ond meddwl gwibiog nid yw ond peth sy'n nofio ar yr wyneb ac yn cyfnewid o un peth i'r llall mewn mynyd, nes ydyw yn fynych gant o feddyliau yn lletya yn yr enaid mewn un awr. Ac fel mai nid da adrodd y rhai'n, felly nid da adrodd y profedigaethau uchod, ond rhai, sef y cyfryw ag fo yn cael effaith lawn ar yr enaid—yn methu ymadael trwy weddio, gwrando, darllen, a myfyrio, ac yn glynu yn barhaus ar y serchiadau, ac yn debygol o ddiffodd tân cariad yr ARGLWYDD; ond am y fath hyny o'honynt ag fo o fyr barhad, yn ildio i weddi, neu nad y'nt yn gwneud niwaid i bresenoldeb yr ARGLWYDD, da yw na ddywedir y rhai'n yn y gymdeithas grefyddol, rhag iddynt ddygwydd bod yn gariad at rai, yn gasineb at ereill, yn rhagfarn, yn genfigen, yn eiddigedd, neu yn rhyw ddiystyrwch, dianrhydedd, ac oerfelgarwch ysbryd

at ddynion gwir dduwiol a pharchedig; neu feallai gallantfod o awydd, trachwant, ac anlladrwydd, ac felly fod yn niweidiol iawn i ereill mewn amryw ystyriaethau. Am hyny, yn y fath-achos, gwell yw eu hadrodd wrth Dduw na dynion. Yn bedwerydd, fel dywed' soch eisoes mewn rhan, nid da dweyd ein hen ffordd gyfeiliornus cyn adnabod yr ARGWYDD—nid yw lesâd adrodd yr holl amrywiol bethau ffiaidd mae Duw wedi eu maddeu, y byd wedi eu hannghofio, ein cydwybodau ninau wedi cael eu glanhau oddi wrthynt, ac eglwys Dduw heb wybod dim am danynt;—feallai gwna hyn lawer o ddrwg mewn amser i'n henwau ni ein hunain ac i'n plant ar ein holi, i'n buddioldeb yn yr eglwys, ac o bosibl i'n *hinterest*, ac fe allai gymaint o ddrwg neu ragor i'n cymydogion hefyd, megys dwyn anair ar rai, colled i ereill, bod yn achos o ddrwg fywyd i rai, blinder ac afiechyd i ereill; canys wrth adrodd amryw bechodau wnaethom ni yn nghyflwr natur, rhaid yw i ni yn fynych adrodd pechodau rhai ag oedd yn cydsynio â ni y pryd hyny mewn meddwod, cynen, twyll, anonestrwydd, ac anlladrwydd—a hyn o'i ddatguddio allan sy'n abl oeri priodas, gwahanu teuluoedd, codi terfysg, magu rhagfarn, enyn lliid, a gosod gwlad ac eglwys benben. 5. Nid da hefyd adrodd pob cwmp a gawsom, ac i'r Duw trugarog i'n codi ni ar ein traed, ac ail-enyn ei ddawn ynom—nid y'm ronyn well o fwrfeisio ein gwendidau wrth ereill, rhag bod amryw yn ein clywed ag sy mor gul eu barn ac mor dywyllled eu deall yn athrawiaethau gras fel y tebygant nad yw dyn grasol fyth yn syrthio i brofedigaeth; ac am hyny hwy a ddrwgdybiant, a ragfarnant, ac a gaethiwant y rhai sydd fel hyn wedi syrthio i unrhyw fai, er eu bod mor onest a chyfaddef hyny i'w cydaelodau. Ac eilwaith, fe allai canlyniadau drwg ddyfod o ddweyd syrthiadau ag mae Duw wedi guddio, ac mae'r credinwyr wedi cael maddeuant am danynt, a chalon friw fel effaith o hyny wedi ei roi iddynt, sef rhag i ereill gymeryd achlysur oddiwrth hyny i wrthsefyll llai yn erbyn yr unrhyw brofedigaeth pan y delont i'w cyfarfod hwythau; ac yn fwy na'r cwbl, rhag ofn i'r cyfryw a syrthiodd fel hyn—trwy adrodd cwmp—wneud eu hunain yn llai defnyddiol yn eu hamrywiol ddoniau o holi, canu, moli, gweddio, ceryddu, argyhoeddi, cysuro, ac adeiladu eu cyd-gymdeithion, trwy i'w cwmp hwy ddyfod i gof y cyfryw, ac iddynt oeri atynt, a myned eu holl ddoniau yn ddifudd. Ond er i Dduw faddeu fel hyn, a chuddio eu gwendidau gant o weithiau, eto eu dyled yw eu mynegu hwynt wrth Dduw a galaru am danynt fil a deng mil o weithiau. Am hyny y cawn ni yn yr Ysgrythyrau amrywiol o'r hen seintiau, patriarchiaid, a phrophwydi yn achwyn ar aneirif lygredigaethau eu calon, ond eto yn celu

pa beth oeddent. Fe ddywed Dafydd iddo ymgadw rhag ei anwiredd, ond nis dywed i ni pa beth oedd yr anwiredd hyny ag oedd fwyaf cryf am ei orthrymu. Paul yntau ddywed am swmbwl yn y cnawd, ond nis mynegodd i ni pa un ai poen neu ryw lygredd oedd y swmbwl hyn, ond fe ddywed mai cenad Satan ydoedd. Am hyny, adrodd—fel y dywedais—bob llithriad, bob gwendid, bob cyfeiliornad, a phob colli'r ffordd a wnelom wrth gymdeithas lawn o broffeswyr, nid yw addas, rhag bydd i ni gael achos i edifarhau ar ol llaw. 6. Nid da achwyn llawer ar ereill yn y fath gymdeithasau: mae achwyniadau ar ereill yn fynych yn tarddu oddiwrth ysbryd hunan-gyfiawn, tuchan yn erbyn rhagluniaethau chwerwon, neu ddirgel falais at rai wnaeth niwaid i ni o'r blaen; am hyny, ni ddylai dim achwyniadau fod ond fo llwyr angenrhaid mewn *society* profiad, ac yn enwedigol nis dylai gwyr fyth achwyn ar eu gwragedd, na gwragedd ar eu gwyr. Mae priodas yn berthynas mor agos fel mai pa un bynag sydd o un ochr yn beio, rhaid yw ei fod yn beio ar ei gnawd ei hun, canys hwy'ch dau fyddant un cnawd, ac mae yn gyffredin y rhan fwyaf o feiau y naill o honynt yn gorwedd wrth ddrws y llall.

EUSEBIUS.—Mynegwch eto, atolwg, pa bethau sydd fwyaf cymhwys i'w dywedyd yn y fath gymdeithasau? pan mae annoethineb a sel wresog wedi gwneuthur cymaint o niwaid yn ddiarwybod?

THEOPHILUS.—Nid oes neb ond y Duw mawr trwy ei Ysbryd all gyfarwyddo plant i gerdded ffordd nas adnabuant, ac eto heb gyfeiliorni; ac fel yr arweiniodd Ef hen Israel gynt â'i golofn dân y nos a'i niwl y dydd, felly fe addawodd am ei bobl Ef, pe baent ynfydion na chaent gyfeiliorni. Ond y moddion i gadw pob peth mewn trefn addas a chymedroldeb yw *stewardiaid* y *society*, y rhai ddylent—fel dywedwyd ar y cyntaf—wrth holi i ofyn ond pethau addas a chymhwys i rai i ddweyd a chyfaddef, ac i atal dynion ieuaingc brwd i siarad yn mlaen pan gynta' gwelont hwynt yn myned yn rhy bell yn yr achos hyn; ac am hyny fe atebwyd sylwedd y cwestiwn hwn eisoes wrth ddangos y cwestiynau ddylai gael eu gofyn i bobl ieuaingc, a'r atebion i'r rhei'ny yw y pethau a ddylai gael eu dweyd ganddynt. Ond eto, fel dywed yr Apostol, Llefaru yr un peth drachefn nid yw flin i mi, ac i chwithau mae yn ddyogel; am hyny—i. Bydded y cwbl a ddywedo neb yno yn tueddu rhagor at bethau'r enaid na'r corph. *Society* profiad sydd wedi cael ei gosod i fyny i'r dyben hyny, ac yn ganlynol pwys y gwaith ddylai fod am gyflwr enaid, am hyny dywed yr Apostol—Cynghorwch eich gilydd bob dydd tra gelwir hi heddyw, fel na chaleder neb o

honoch trwy dwyll pechod. Y pethau ag sydd i'w llefaru yn y cymdeithasau hyn yw y pethau i ddihuno cydwybodau, i gynhyrfu argyhoeddiadau, i fagu sel, i greu ofn duwiol, i weithio cariad at Dduw a'i eglwys, i ddatguddio pechod, ac i osod allan hyd, lled, dyfnder, ac uchder cariad CRIST, yr hwn sydd uwchlaw pob gwybodaeth. 2. Bydded yr atebion y fath ag a fo yn rhoi goleuni trwyadl i'r holl gymdeithas o gyflwr y cyfryw ag fyddir yn ei holi, fel gallo pawb ei weled ef trwyddo, i ddeall ei ysbryd, adnabod pa le mae ef yn sefyll, pa un ai tan argyhoeddiadau trymion neu ysgafn, tan y ddeddf ynte tan ras y mae efe; pa un ai caethwas i'w bechodau yw, neu ynte ymladdwr dewr dros yr ARGWLWYDD a threisiwr o deyrnas nefoedd fydd; pa un ai bod ganddo fraich ddehau a llygad dehau, eto heb dori a thynu ymaith. Os yn awr, ar ol cael ei holi gan bawb, a'i weled yn oleu megys wrth liw dydd, caiff yr holl gymdeithas dosturio wrtho, cydymdeimlo âg ef, ei gynghori, ei argyhoeddi, neu os bydd ef yn mwynhau presenoldeb yr ARGWLWYDD, wedi dyfod i mewn i yfed o wleddoedd yr efengyl, a phrofi melusdra pethau'r nef, hwy gânt o'r tu arall gyd-lawenhau gydag ef â llawenydd di-derfyn, ac fe fydd fel gwrthddrych ynddynt, a siamp newydd o ddaioni a thiriondeb Duw i'w eglwys; ac fel y mae'r fath gymdeithasau a hyn wedi eu gosod i lawenhau gyda'r hwn sydd yn llawenhau, ac i alaru gyda'r hwn sydd yn galaru, angen ynte sydd o gael cyflwr dynion allan yn oleu ac yn glir tuag at ddelio yn ddiuedd â'u heneidiau anfarwol, eu cysuro neu eu hargyhoeddi, fel y bo yr achos yn gofyn. 3. Angen sydd o ddweyd pethau ag fo yn fuddiol i'n dynw allan o tan draed ein gelynnion, i dori ein llyfetheiriau, i dynu ymaith ein beichiau, ac i ysgafnhau ein hysbrydoedd o gaethiwed, euogrwydd, ac ofn angeu, i wir rydd-did plant a phobl Dduw; ac oni chwedleuwn y cyfryw bethau yn y cymdeithasau crefyddol hyn ag fo tebygol, gyda bendith y nefoedd, i fagu ysbryd mwy echn, mwy ffyddiog, a mwy parhaus i ryfela yn erbyn y byd, y cnawd, a Satan, mae un o ddybenion ein cyd-gynulliad yn myned yn ofer, ac yn ganlynol mae yn niweidiol i neb lefaru yma un peth mewn ysbryd ysgafn, cras, cenfigenus, neu rhagfarnus, rhag trwy hyn enyn chwerwder, ymfryson, ac oerfelgarwch yn y *society*, a magu caethiwed, drwgdybiau a sarugrwydd yn y naill at y llall. Fe ddylai fod yma yn wastadol o'n rhag llefaru dim ond a fo yn Ysbryd yr ARGWLWYDD, ac awel y nef yn cyd-gerdded gyda'r geiriau, fel y gellir dweyd mai llais Duw ydoedd, a'r holl bobl fel un dyn yn cydsynio âg ef, fel y bo ond un ysbryd—fel awel o wynt nerthol—yn cynhyrfu yr holl *society* i garu, i lawenhau, neu i alar a chystudd ysbryd. Am hyny, nid lle un yw dweyd pan

y bo un arall yn dweyd, canys terfysg ac annrhefn yw bod dau yn llefaru ar unwaith; am hyny rhoddwch barch y naill i'r llall wrth lefaru—gwrandewch yn astud, gan weddio â'ch holl galon fod pob peth yn cerdded mewn symrlwydd, gonestrwydd, ac ofn yr ARGWLWYDD. Canys un o'r dybenion mwyaf sydd i fod gan gredinwyr i gyd-gyfarfod ac i adrodd yr peddigaethau, eu cystuddiau, a'u haml wendidau yw er mwyn cael nerth ragor yn eu herbyn, a boddlonrwydd tanynt; i ddyodde' a dwyn eu croes yn ddiddig ac yn dangnefeddus; ac os try ein gwaith yn adrodd y pethau hyn yn niweidiol i ni neu ereill, trwy galedu rhai yn eu syrthiadau, neu wneud ereill yn wanach tan eu profedigaethau, neu fagu ysbryd cyfyng, oer, a rhagfarnus yn ereill, diau yw nad yw y cyfryw driniaeth o *society* profiad yn fuddiol nac yn cael ei luniaethu ar ol y portread. 4. Da yw dweyd am yr argyhoeddiadau a'r blinderau tumewnl ag y'm yn gael am bechod gan Ysbryd yr ARGWLWYDD, canys adrodd ein pechodau heb adrodd hyn sydd fai anafus ac yn abl anog pobl i bechu rhagor. Gweithrediadau Ysbryd y gras yn argyhoeddi, yn ceryddu, ac yn gofidio ysbryd profeswr am ei eiriau, meddyliau, ei weithredoedd, a'i ddybenion, sydd arwydd da o wirionedd gras; ac y mae adrodd y gofid ysbryd hyn yn fynych yn gweithio effeithiau hyfryd iawn ar ysbrydoedd rhai ereill, ac yn gweithio mwy o ofn duwiol trwy'r holl gymdeithas, rhag cymeryd rhydd-did i unrhyw bechod wrth ystyried y poen, yr euogrwydd, a'r tywyllwch blinderus gafodd y cyfryw frawd neu chwaer o ddweyd neu wneud ar ol eu blys a'u hewyllys eu hunain. 5. Da yw dweyd hefyd y grasau, y tymherau nefol, a'r melusdra hyfryd mae Ysbryd y bywyd yn ei weithio ynoch yn awr a phryd arall—yr atebion ydych yn gael o'ch gweddiau—yr addewidion mae Duw yn rhoddi i chwi mewn cyfyngderau—y gwardigaethau annysgwyladwy ydych yn gael o bethau ag ydych yn ofni—y goleuni nerthol ydych yn dderbyn mewn oriau o dywyllwch—yn nghyda'r amrywiol awelon hyfryd o fwynhad o bresenoldeb yr ARGWLWYDD ydych yn ei dderbyn tan y gair, mewn gweddi, neu ryw un arall o ordinhadau y nef—y pethau hyn, meddaf, sydd lwyr angenrheidiol eu mynegu a'u gosod allan gyda goleuni a gwres yn y gymdeithas, tuag at ddodi ereill i ymestyn at gael yr unrhyw bethau, a thuag at i'r holl gredinwyr yno yn gynlledig i ganmawl a bendithio Duw am ei annhraethawl ddaioni. 6. Buddiol yw i chwi ddadguddio y siomedigaethau a'r *disapointments* ydych yn gael ynoch eich hunain; ac i roi yr holl gymdeithas i wybod eich bod yn gweled eich hunain yn wanach, yn dywyllach, yn llesgach, ac yn cynyddu mewn eisieu o Gyfryngwr ag sydd yn gyflawn o bob daioni, gras, a chyfiawn-



der. Yr ysbryd hunan-ymwadol hyn wrth ei adrodd a fâg fwy o gariad, tosturi, cydymdeimlad, ac undeb rhwng yr aelodau, ac a dor i lawr ac a ddadrws bob eiddigedd, rhagfarn, ac oerfelgarwch ysbryd ag fo gan y naill at y llall. Ond yn ola', cymerwch ofal mawr yn wastadol i ddweyd ond pethau fy yn enyn cariad y naill at y llall—yn debygol o fod yn fuddiol i wanbau *interest* y byd, y cnawd, a Satan, ac i ddodi enw yr ARGLWYDD IESU yn fwy anwyl gan bob un o'r gymdeithas, fel pan f'och yn ymadael â'ch gilydd, y byddoch yn ymadael mewn gwres, undeb, cariad, a chydymdeimlad di-ragrith.

EUSEBIUS.—Bellach, ni flinaf mo honoch, fy hen a'm hanwyl athraw, ond mi arferaf y moddion oll a ddywedasocho—y rheolau, y trefniadau, a'r dysgyblaethau anwyl a osodasocho o'm blaen, gan obeithio am fendith arnynt, canys rhoisoch i mi lawer o oleuni mewn pethau ag yr oeddwn yn dywyll ynddynt; ond eto, fel dywedasocho, mi ddysgwyliaf wrth yr ARGLWYDD, canys Efe yn unig all ein harwain at y moddion ag fo Efe ei Hun yn eu bendithio. 'Rwy'n gweled mai nid da yw glynw wrth un ffurf neu drefn yn ormod, canys wrth hyn mae amryw eglwysi o'm cydnabyddiaeth i wedi cyfeiliorni yn fawr—sef trwy ddilyn trefn oerllyd, farw, a glynw wrthi felly nad oes dyn a'u dena oddi wrthi, fel pe b'ai yn ffurf ag orchymynodd yr ARGLWYDD o'i enau ei Hun, lle mewn gwirionedd nad yw hi ddim arall ond a gawsant oddiwrth eu teidiau, a hono ond canolog iawn hefyd. Ond hyfryd yw dilyn Duw, bydded hyny trwy ba foddion bynag a arddelo Efe ei Hunan. Bellach mi âf tua thre', ac a ddiolchaf am y meddwl cyntaf a gefais i ddyfod atoch, gan gredu bydd yr addysgiadau a roisoch i mi yn fendith i mi, ac i'r gymdeithas fechan yr wyf fi ynddi; ac mi ddymunaf ar fy Nhad nefol na f'och chwithau ddim heb eich llawn wob—can' bendith yn y byd hwn, a mil yn y byd a ddaw. Ac mae yn ormod genyf geisio genych ddim bellach, am im' gael fy llawn ddysgwyliaid, ond eich taer weddïau o flaen yr orsedd fawr; cofiwch am danaf a'm *society* fechan; nid y'nt hwy na minau ond eiddilod gweinïon, a Satan yn hen ac yn gyfrwys; temtasiynau yn aml, maglau wedi gosod yn nghudd ar bob llwybr, fel nad oes ond nerth a goleuni'r nef yn abl i'n cadw yn nghanol y fath anialwch ag y gwyrdd myrdd ac y cwmpodd miloedd nas codasant byth mwy. Ond fy holl gysur i yn yr achos hyn yw bod doethineb y nef yn drech na themtasiynau Satan, ac i DDUW ddweyd yn ei air, Pe byddent ynfydion ni chyfeiliornant.

THEOPHILUS.—Nid gwell genych chwi ddyfod ataf fi na chenyf fi eich dyfodiad, canys credu yr wyf mai yr ARGLWYDD a'ch danfonodd, ac yr wyf yr awrhon yn eich gadael chwi i

drefn y nefoedd fawr ac i Ysbryd yr ARGLWYDD, yr Hwn a all eich bendithio â phob rhyw fendithion; ac er mor anhawdd blaenori tyrfa o bobl o amrywiol oedran, sefyllfa-oedd, a graddau yn y byd, yn enwedig o amrywiol dymherau, nwydau, a phrofedigaethau, eto fe ddysg y Duw hyny chwi ag sydd wedi addaw na chaiff ei bobl Ef gyfeiliorni pe baent ynfydion, i wneud y cwbl er gogoniant i'w enw bendigedig ei Hun, a daioni tragwyddol iddynt hwythau. Ond cymerwch chwithau ychydig o gynghorion genyf ag all fod yn fuddiol mewn awr o brofedigaeth, gan fy mod yn deall eich bod (fel henafgwr a thad yn mhlith plant) yn *steward* ac yn weinidog yn eu plith hwythau, yn myned i mewn ac i maes o'u blaen, ac ar ba un maent yn pwyso am oleuni a chyfarwyddyd yn mhob achos. Am hyny—1. Meddylwch roi esiamplau da o'u blaen hwynt yn mhob peth, mewn bywyd ac ymarweddiad addas, gan ymddwyn yn addfwyn, yn dyner, yn amyneddgar, ac yn gariadus atynt hwy, ac at bob dyn; na b'och byth yn boeth, yn chwerw, nac yn derfysglyd—byth yn annyoddefol, yn ducharllyd, nac yn anhawdd eich trin; ond yn wastad yn isel, yn hunan-ymwadol, yn barod i ddysgu'r anwybodus, ac i wrando cwyn y gorthrymedig a'r cystuddiol. 2. Meddylwch fedru celu yr hyn a ddywedir wrthyhych. Os *steward society* fydd yn glebrog ac yn dadguddio dirgelion y rhai profedigaethus, pwy a ymddiried ei bethau dirgel iddo? bydd ei ofn ef ar bawb, rhag i'r hyn a ddywedasant wrtho yn y glust—yn eu mawr ofid—gael ei daenu ar led y byd, a'i wneud yn gorn cân o fôr i fôr. Mae offeiriad eglwys Rhufain—ag sydd yn cael cwysel yr holl bobl, o'r brenin i'r ysgubwr simneuau—yn medru cadw dirgelion yr eglwys tra f'ont byw yn y byd; ac os medr eglwys buteinllyd wneud hyn, llawer rhagor dyled y wir eglwys yw cadw yr hyn roir iddi i'w gadw. Ac os nas gellir ymddiried i *stewardiaid society* i gadw dirgelion, gwell yw dweyd y dirgelion wrth y Duw hyny a fedr eu cadw a'u maddeu hefyd. Mae llawer o bethau gan ddynion duwiol i siarad â'u hathrawon yn neillduol nas gallant eu mynegu ond wrth ryw un neillduol, a hwnw y cyfryw ag na cheir clywed gair o'i enau byth mwy am dano, ond rhoi cynghor ac addysg, a thaer weddio ar DDUW am waredigaeth o'r unrhyw. Amryw feichiau trymion sydd ar ysgwyddau gwagedd yn berchen gwŷr annuwiol, nad allant fynegu o flaen y gymdeithas. Weithiau gwŷr priod tan feichiau trymion o ran eu gwagedd, ac yn byw mewn angen mawr o gynghorion ac addysgiadau nefol i ymddwyn atynt. Weithiau neibion dan demtasiynau poethion at wryfion uwchlaw neu islaw eu gradd i'w priodi; a phrydiau ereill gwryfion hwythau yr ochr arall yn byw ar ocheneidiau

carriad heb neb i fynegu eu meddyliau, na'u cynorthwyo i ddal eu baich. Yn y fath achosion, angen yw yn fynych osod y peth o flaen brawd ffyddlon, cywir, dystaw, ag a gymero ran o'r baich arno ei hun, ac a'i gosod o flaen gorseddfainge y gras hyd onis teimlo y dyn gorthrymedig a adroddodd ei gwyn a'i archoll esmwythad a llongydwch o'i flinder a'i brofedigaeth. 3. Ceisiwch fod mor barod a neb i gyfranu ar ol eich gallu at achosion y gymdeithas, neu amryw achosion cymhwys ereill a osodir o'ch blaen. Os tlodion fydd swyddogion eglwysig, eto dangosent eu serch at bob gweithred dda, canys eu dyled yw myned o flaen y praidd yn mhob rhyw siamplau o dduwioldeb a charedigrwydd. Ac am fod bywyddau proffeswyr yn fynych yn cael mwy o effaith ar ysbrydoedd dynion na'u geiriau, nid yw cynghorion da i ereill—tra f'om ni ein hunain yn gwneud yn y gwrthwyneb—ond cyffelyb i leidr yn cynghori dynion i fod yn onest, ac yntau ei hun yn parhau yn ei iadradd; neu butain gyffredin yn cynghori merched i fod yn ddiwair, a hithau ei hunan yn rhedeg yn mlaen yn ei haflendid. Am hyny, angen yw rhoi siamplau da o flaen praidd CRIST, a bod y *stewardiaid* yn blaenori yn y peth hyn, fel mewn pethau ereill, yn ol fel y llwyddodd Duw hwynt. 4. Cynghorwch hwynt yn fynych i beidio meithrin llawer ar eu cnawd eu hunain. Y mae ymprydio yn un o ddyledswyddau neillduol y Testament Newydd, ac yn fuddiol iawn at farweiddio corph pechod a darostwng trachwantau nas gall dim arall eu darostwng ond hyn; ac er nad all gwasanaeth-ddynion a rhai tlodion wneud hyny y pryd y mynont, eto gallant beidio pesgu gormod ar natur, yr hon, yn wastad wrth ei meithrin yn rhy dda, sydd yn myned yn afreolus, canys fe ddywed yr Ysbryd Glân am Israel gynt, "Jessurun a aeth yn fras ac a wingodd." Mae bwyta yn dda ac yfed yn uchel yn famaeth gref i lawer o nwydau gresynus. Fe ddywed Paul ei fod ef (er cymaint ei ras a'i lwyddiant yn yr efengyl) yn cosbi ei gorph, ac yn ei ddwyn yn gaeth, rhag wedi iddo bregethu i ereill fod ei hun yn annglymeradwy. Ac yn ei Epistol at y Philipiaid dywed am y gau athrawon, "Duw y rhai yw eu bol, a'u gogoniant, neu eu hymffrost yw y pethau a ddylai fod yn gywilydd iddynt." Ac am y gau brophwydi dywedir yn Ezeziel xxxiv., eu bod yn pesgu eu hunain, ac nid y praidd. A'r un peth a ddanodir gyda gorfoledd i Babilon fawr yn ei chwmpar, sef ei bod yn byw yn foethus gyda breninoedd y ddaear. Ac oddiwrth yr amryw Ysgrythyrau hyn gwelwn ni mai nid lle proffeswyr yw bod yn awyddus i fwydydd da a diodydd cryfion, fel dywed y prophwyd Esay: "Gwae y rhai cryfion i yfed gwin, a'r dynion nerthol i gymysgu diod gadarn." A

diau yw fod y cyfryw yn gwneud duwiau ac eilunod o'u cnawd eu hun, ac â mwy o barch, gofal, a chariad ganddynt at eu boliau nag at eu heneidiau, er fod y naill i ddarfod a'r llall i bara byth. Fe ddywed ein HARGLWYDD wrth ei Apostolion yn Luc xxi.: "Edrychwch arnoch eich hunain, rhag i'ch calonau un amser drymhau trwy lythineb, a meddwdod, a gofalon y bywyd hwn; a dyfod y dydd hwnw arnoch yn ddisymwth." Ac os angenrhaid oedd i'n HARGLWYDD rybuddio ei Apostolion i wyllo, y rhai oedd wedi derbyn cyflawnder ei Ysbryd Ef, ac yn byw mewn dyddiau gwawd, erlid, a dystyrwch, pan oedd yn beth naturiol, debygid, i wyllo, pa faint mwy ni yn y dyddiau hyn, pan nad oes nac erlid na thrallod am bregethiad y gair, ond yn lytrach parch a chariad i bob un a lefaro air tros Dduw, fel cenad wedi ei anfon o'r nef, a gormod o barotoi danteithion gan rai dynion gweinion uwchlaw eu gallu, o wir gariad at efengyl CRIST, er fod ereill yn ddibris yn yr achos. Effeithiau drwg i ryfeddu sydd yn fynych yn dygwydd o fwyta ac yfed yn helaeth; mae ugeiniau o bechodau, cwympiadau, a gwaradwyddiau wedi bod yn unig oddiwrth yr achos o loddest a chyffeddach. Pa faint o wag-siarad? o ysgafnder ysbryd? coeg-ddigrifwch? ymadroddion ffol? meddyliau balch, anllad, a chynenllyd sydd yn dygwydd o hyn? i.e., pa faint o ddadguddio cyfrinach, ac ymbleidio, gydag amrywiol ereill o ffrwythau calon iach a chyfan ag na fuasai *stymog* wag neu ben sobr byth yn eu traethu allan? Och! y fath olwg fflaidd yw gweled credinwyr ag ddylai ymddifyru eu hunain ar y dwyfol ymborth, gwaed a chnawd Mab y dyn, eto yn blyso am bethau i borthi y corpws marwol gyda'r fath awydd, a syllu am y cyfryw beth, ag bydd plentyn bychan yn syllu am fronau ei fam. Cynghora braidd Duw i farwhau eu haelodau sydd ar y ddaear; ac na chaffo blys at unrhyw beth eu dwyn hwynt yn gaethion. Mae'n drueni gweled proffeswyr yn treulio cyd amser heibio, ac yn gwag-siarad cymaint wrth eu *tea* a'u *coffi*, neu ryw feluswedd arall, heb dreulio y bumed ran o'r amser nac ar eu gliniau wrth eu gwelyau, nac ar eu gliniau chwaith ar weddi deuluaidd. Och! y fath beth erchyll yw fod crefyddwyr yn cael mwy o flas a difyrwch i *snuffo*, i gnoi, ac i *smocio* dalen maesydd Fîrginia, i yru'r *tanced* mawr oddeutu, i ddrachtio'r cwrw frothlyd, y gwin melus, y *pwnc*, y *todi*, neu y *rymbo*, na darllen, myfyrio, canu, neu siarad am DDUW a'i waith ar ol y bregeth. Gadewch chwi, plant y deyrnas, meibion y Duw byw, y *rum*, y *brandi*, y *gin*, a'r *licwr* i ddynion sy am frashau eu cnawd i bryfed, serch colli eu heneidiau tros dragywyddoldeb. Rhybuddia hwynt yn fanwl am y pethau hyn, fy mab, a thi a fyddi yn oruch-



wyliwr cymhwys ar braidd Duw. 5. Rhybuddia hwy na b'ont yn segur, ond yn ddiwyd yn eu hamrywiol alwedigaethau. Y gair a ddywedodd yr ARGLWYDD wrth Adda, pan trodd Efe ef allan o ardd Eden, Gen. iii. 19: "Trwy chwys dy wyneb y bwytaf fara, hyd pan ddychwlech i'r ddaear, oblegyd o honi y'th gymerwyd; canys pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli." A'r Apostol Paul a ddywed yr un peth, 2 Thes. iii. 7, &c.: "Chwi a wyddoch eich hunain pa fodd y dylech ein dilyn ni; oblegyd ni buom afreolus, neu allan o drefn yn eich plith chwi; ac ni fwytasom fara neb yn rhad; ond trwy weithio mewn llafur a lludded, nos a dydd, fel na phwysem ar neb o honoch chwi: nid o herwydd nad oes genym awdurdod, ond fel y rhoddem ein hunain yn siampl i chwi i'n dilyn. Canys pan oeddem gyda chwi, hyn a orchymynasom i chwi, os byddai neb ni fynai weithio, na chai fwyta eilwaith. Canys yr ydym yn clywed fod rhai yn rhodio yn eich plith chwi yn afreolus, heb weithio dim, ond bod yn rhodresgar. Ond i'r cyfryw gorchymyn yr ydym, a'u hanog trwy ein HARGLWYDD IESU GRIST, ar iddynt weithio trwy lonyddwch, a bwyta eu bara eu hunain." O yr effeithiau blin a thruenus sy'n dyfod o segurdod yn mhob oes, ond yn fwyaf gresynus mae e' i'w weled yn mhlentyn i DDUW. Dafydd—gwr wrth fodd calon Duw bryd arall, ond wedi syrthio unwaith i ysbryd segur, a edrychodd o nen ei dŷ ar wraig Urias yr Hethiad, ac a'i chwenychodd hi: a gwelwch y canlyniadau gresynus a ddaeth o hyn—nid ymadawodd y cleddyf â'i dŷ ef byth. Ac amrywiol ganlyniadau mor druenus drachefn sydd yn dygwydd yn fynych o'r un rhyw achos, sef (heblaw angen a newyn) gwag-siarad, dwyn newyddion, cario celwyddau, ymliw chwedlau, cyffroi malais, enyn cynenau, chwanegu annghariad, dadguddio dirgelion, duo enw, pwyso ar ereill, a bod yn rhodresgar ac yn ddi-ddefnydd at achos Duw na dynion. Am hyny, dywed Paul wrth Timothi am weddwon ag oedd yn chwenych pwyso ar yr eglwys—"Gwrthod y gweddwon ieuaingc, canys pan ddechreuont ymdrythyllu yn erbyn CRIST, priodi fynant; gan gael barnedigaeth am iddynt ddirmygu y ffydd gyntaf. Ac hefyd maent yn dysgu bod yn segur, gan rodio oddiam-gylch o dŷ i dŷ; ac nid yn segur yn unig, ond hefyd yn wagsiaradus ac yn rhodresgar; gan adrodd pethau nid ydynt gymhwys." Am hyny, fy mab, cynghora bobl yr ARGLWYDD i weithio â'u dwylaw yr hyn sydd dda, fel y bo ganddynt beth i roddi i'r rhai mae angen arnynt, fel y pâr yr Apostol yn Eph. iv. 28; ac nid hyny yn unig, ond hefyd gwna dy oreu am roi neu ffeindio gwaith iddynt fel na bo ysbryd segur ddim i gael achwyn arno i fod yn eglwys y Duw byw; ond o'r tu

arall, bod canmoliaeth i gredinwyr yn eu galwedigaethau rhagor na neb arall—gweision, morwynion, a hurwyr crefyddol yn maeddu pawb mewn ffyddlondeb, gonestrwydd, a diwydrwydd diball ar ol eu gallu a'u dehurwydd; fel y bo'r byd annuwiol yn gorfod credu o'r diwedd eu bod yn rhagori, nid yn unig mewn diweirdeb, symlwrwydd, a thraethu'r gwir, ond hefyd mewn ysbryd cywir i wneud i ereill fel y dymunt i ereill wneuthur iddynt hwythau; fel y delont felly i fod fel halen y ddaear; yn perarogli'r byd yn mhob dull o ymarweddiad, ac fel canwyllau goleu i'r ardaloedd y b'ont yn trigo ynddynt. Bellach, yr wyf yn dy adael di, fy anwylyd, i ddoethineb y nef, yr hon a all dy wneud yn gyfarwyddwr cywir i eneidiau gweinion yn nghanol eu hamrywiol amgylchiadau a'u profedigaethau; i gysuro neu i geryddu pawb fel y bo yr achos yn gofyn. O, gweddia lawer iawn ar Dad yr ysbrydoedd i'th arwain trwy bob rhan o'r gwaith mawr yma nad oes mo'i gyffelyb o ran sylwedd a gogoniant tan yr haul. Yr addewid a roddodd ein HARGLWYDD i'w Apostolion, ac nid yn unig iddynt hwy, ond i'r rhai a gredent yn eu geiriau hwy, sef y byddai Ef gyda hwynt hyd ddiwedd y byd, a elli di *gleimio* hawl iddo megys pe buasai wedi cael ei roddi i ti yn unig. Am hyny, yn nerth geiriau'r Duw byw dos yn mlaen, ac na lwfrha er dim; ti gai bob peth sydd eisieu arnat pan y b'ost yn eu gofyn yn achos Duw; ni fethodd Ef wrando neb erioed pan y ceisient Ef â'u holl galon. Bydd wych, a Duw'r heddwch a'th fendithio, a'th lwyddo, ac a'th gadarnhao i ddwyn ei ogoniant Ef yn mlaen. Amen.



*Hanes Bywyd a Marwolaeth  
Tri Wyr o Sodom a'r Aipht,*

Y FAN HEFYD Y CROESHOELIWYD EIN  
HARGLWYDD NI:

SEF

*Avaritius, yr Awyddus; Prodigalus, yr Afradlon;  
a Fidelius, y Cristion,*

MEWN DULL O YMDDYDDAN RHWNG

*Cantator y Bardd, a Phercontator yr Holiedydd,*

AT BA UN Y CHWANEGWYD

MARWNAD I BOB UN O'R TRI,

Lle, yn niwedd yr olaf, mae CANTATOR yn dymuno cael gras a ffyddlondeb FIDELIUS; yn gweled, wrth bob arwyddion, ei ddyddiau ei hunan yn agosau, yn galaru ei anffrwythlondeb; ac yn cymeryd rhydd-did, wrth olwg ar fyd arall, i geryddu a *satyriso* ychydig ar ei frodyr o bob enw, am rai pethau anaddas yn ei dyb ef: ond yn y diwedd yn troi i mewn iddo ei hun, ac yn addef ei ragoriaeth mewn annheilyngdod i bawb o honynt.

AT PHILO ALETHES, FY ANWYL.

---

COFIO a wnaethum, ar ol ein cyfarfod diweddaf, am y geiriau a ddywedasoc hyn nghylch yr angenrheidrwydd o fod dyn Duw yn berffaith yn mhob gweithred dda. Gweled yr wyf finau yn fwy eglur yr awr hon nad oes nemawr o broffeswyr wedi eu ffurfio i ddelw y Testament Newydd, ac wedi derbyn ei ysbryd a'i oleuni, ei symlwrwydd a'i ddoniau, a phrofiadau tumewnol o bethau Duw, yn gystal ag ymddangosiad allanol. Oh, cyn lleied sydd yn difrifol filwrio yn erbyn balchder, hunan-dyb, gau ddybenion, nwydau tanllyd, chwantau drwg, a holl egwyddorion ereill yr hen creadur! Mae eisieu gras a fyddo yn dysgleirio yn mhob rhan, ac yn gwneud credadyn yn mhob galwad ac amgylchiad yn halen y ddaear. Ac wrth weled hyn y daeth arnaf chwant darlunio sant yn y fath ddoniau, grasusau, profiad ac ymarweddiad ag y mae Pedr, Iago, Jude, ac Ioan yn ei osod ef allan; sant wedi ei dynu trwy holl epistolau Paul, heb gael ei ddryllio gan yr un o honynt. Ni wnes gynyg, fy ffrynd—Philo Alethes, i wisgo milwr Duw yn yr holl arfogaeth dan yr enw Fidelius, am mai lle pob credadyn yw bod yn ffyddlon i'r Hwn a'i galwodd. Ac eilwaith, gweled tynfa gyffredin dynion ar ol y byd hwn, yr awydd didor i gasglu cyfoeth, gan dlawd cystal a chyfoethog, rhieni cystal a phlant, yn nghyda'r celwydd, hoced, anudoniaeth, trais, gormes, a thrachwant a arferir i'r dyben hyn, a berodd im' osod allan fywyd a marwolaeth Avaritius; rhag ofn, trwy dewi fyth, i deulu y ffydd bleseru yn y gau lwybr, a myned o drigolion Seion o'u dinas eu hun i fyw i ganol Sodom, a chwenychu golud yn fwy iddynt eu hunain a'u plant na'r gwir gyfoeth. Gweled hefyd yr afradlondeb sydd heddyw yn Nghymru ragor na gwledydd yr India, wnaeth i mi roi darlun Prodigalus, yr hwn, trwy ei afradlondeb, a dynodd arno ei hun amryw glefydau, y rhai yn y diwedd a'u dygasant i'w fedd, ac a orlwythodd ei gydwybod âg euogrwydd a dychrynfeydd

arswydlawn erbyn wynebu byd arall. Pa un a fydd bywydau y rhai olaf hyn yn rhybudd, Duw a'i gŵyr,—nac eiddo Fidelius yn esiampl chwaith; ond dymuno'r wyf fendith ar y naill fel y llall. Os clywi neb yn gofyn paham na roiswn edifeirwch gwely angeu i Avaritius a Prodigalus, ateb—Am mai dyben hyn o lyfryn oedd dangos mor echrychus y bydd diwedd y rhai hynny sydd yn byw a marw yn eu pechod, heb adnabod Duw yn NGHRIST. Ond y sawl sydd yn cael edifeirwch i fywyd mae gwahanol oleuni, ysbryd, ac effeithiau ar eu dyddiau diweddf nag sydd ar yr eiddo Avaritus a Prodigalus. Bydd wych.

Dy anwylaf frawd,

W. W.



## *Hanes Bywyd a Marwolaeth Tri Wyr o Sodom a'r Aipht.*

—:—

**M**YFI, *Cantator* y bardd, wedi teithio rhanau pellaf y byd, i yspio rhyfeddodau mwyaf y greadigaeth, i ddal sylw ar gelfyddydau cywreiniaf dynion, ac yn enwedig i ymofyn am foesau, ymarferiadau, a rhinweddau plant Adda; a gweled y gwahaniaeth tymerau, dealltwriaethau, a thueddiadau y naill oddiwrth y llall, a ddaethum o'r diwedd i dir Ham, gyfenwid gwlad yr Aipht, lle bu mawrion weithredoedd Duw yn y dyddiau gynt. Mi a arosais yno amryw flynyddoedd, ac nis gwelais mewn man o'r ddaear fwy o ryfeddodau Duw, na gweithredoedd enwog dynion; ond mae fy awen yr awrhon yn fy arwain i redeg heibio iddynt oll, ac (am i mi gyfarfod â chwi, fy hen gymydog Percontator,) i fynegu rhywbeth ag a all fcd yn fwy adeiladol i chwi; a fy mrys sydd gymaint i hyn, nas caf odfa i'w osod ef allan ar gân.

**PERCONTATOR.**—Mae arnaf fi fwy o frys i glywed pob newyddion, ac yn enwedig am rinweddau, moesau, a bywyd meibion dynion; ond anhawdd genyf i gredu y gellwch roi i mi un newydd da o wlad mor ddrwg, ac y gellwch adrodd am un gwr rhinweddol yn mys cenedlaeth mor elyniaethol i bobl Dduw; ond fel y gellir ar rhyw ddamwain gael mël yn ngheudod llew, fe allai i chwi ffeindio yno rai ag oedd yn ymofyn am fynydd Seion; rhai o bosibl o'r hen Israeliaid a arosant yn ol yn y dyddiau gynt, ac a ddihunasant yr awrhon yn nyddiau olaf y byd i deithio yr anial mawr tua'r Ganaan ddymunol. Ond ewch rhagoch, mae'm hysbryd yn gruddfan am y newydd.

**CANTATOR.**—Yr hyn sydd genyf, ynte, i adrodd i chwi yw bywyd a marwolaeth tri o wŷr o'r wlad hono, o wahanol ddull eu bywyd, a mwy gwahanol eu marwolaeth; ac er eu bod yn yr un gymydogoeth, eto pell oeddynt o ganlyn yr un ffordd: nid oeddynt yn ymbleseru yn yr un pethau; nid yr un bobl oeddynt yn eu caru, nid yr un lleoedd oeddynt yn ymhyfrydu ynddynt, nid yr un pwnc oeddynt yn ei ddwyn yn mlaen, na'r un difyrwch oedd ganddynt; eto dau o honynt

oedd o'r un ysbryd, yr un dyben, a'r un gwaith, a therfynasant eu siwrnai yn yr un lle; ond y llall oedd yn amrywio mewn gwaith, dyben, ysbryd, ac egwyddor. Enw un oedd Avaritius, a gyfenwyd felly oddiwrth ei awydd gwyllt am gyfoeth; enw y llall oedd Prodigalus, am ei fod yn annghyffredin afradlon, ac yn gwneud duw o'i fol; ond y trydydd a gyfenwid Fidelius, ac efe oedd Gristion.

PERCON.—Dechreuwch, ynte, adrodd bywyd Avaritius; canys y mae llawer iawn o rai yn fy ngwlad inau yn haeddu yr enw, er eu bod yn myned yn fynych tan yr enwau o hwsmyrn da, gwŷr call, pobl onest; a hwy yw y rhai mwyaf parchus o fewn ein bro ni y dydd heddyw. Ond ewch rhagoch.

CANT.—Yr Avaritius hwn oedd o dylwyth Nabal y Carmeliad, yr hwn a ballodd ychydig fara i frenin Israel pan oedd efe a phedwar cant o wŷr mewn caledi mawr o eisieu lluniaeth; ac fe'i lladdwyd ef gan DDUW am ei gybydd-dod a'i galon-galedwch i eneniog yr ARGWYDD. Efe a anwyd yn nhir Sodom, lle yr oedd trachwant yn llifo fel afon yr Aipht, ac fe ddaeth i fyw yma mewn ymchwil am gyfoeth. Ac nid hir y bu ef heb gael ei ddymuniad; canys er bod ei ddechreuad yn fychan, eto ei ddiwedd a gynyddodd yn ddirfawr—ei anifeiliaid a luosogasant fel anifeiliaid Job, a'i aur fel aur Cresus; ei dyddynod a gysylltwyd y naill at y llall, nes cael dan ei draed dir heb fesur, a'r tlodion yn gruddfan o eisieu lle; nid oedd mewn amltra defaid, geifr, gwartheg, ac asynod gyffelyb iddo yn holl dir yr Aipht. Yn fyr, pob cyfoeth a redodd iddo fel afonydd yn rhedeg i'r môr mawr; a phe buasai byw ond ychydig flynyddau yn rhagor, fe ddaethai i fod yn arglwydd ac yn ben ar y drydedd ran o'r wlad eang hono.

PERCON.—Ond pa fodd y daeth ef iddynt? pan dywed-asoch fod ei ddechreuad ef yn fychan. Ai trwy gynildeb bwyta, yfed, gwisgo, neu trwy ddiwydrwydd, codi yn foreu, a myned yn hwyr i gysgu?

CANT.—Nid cymaint trwy un o'r rhai hyn a thrwy ei awydd didor am gyfoeth; ei gyfrwysdra rhyfedd i dwyllo, ei ddichell anorchfygol yn mhob bargaen; fel yr oedd mwy na'r naill haner o'i gyfoeth yn lladrad oddiar y gweiniaid, y rhai sydd y dydd heddyw wedi cymeryd adenydd ac ehedeg ymaith, na wyddus yn iawn i ba lle; ond bod eu rhwd hwynt yn ei ysu ef fel tân yr awr hon, ac a bery felly byth mwy. Gwir yw nad oedd ei fwrdd ond tlawd ac unig; unrhyw ymborth trwy gydol faith y flwyddyn, a hwnw yn hen, yn galed, ac yn wydn; nid oedd na grym nac ysbryd yn ei ddiodydd, na neb dyeithriaid o wyl i wyl, nac o leuad i leuad

yn profi o'i win nac o'i fara; ei wisgoedd oedd yr un a'r rhai trafertus, a'u lliw yr un a chnu y ddafad; nid oedd na chrydd na theilwr yn cael ond y rhan leiaf o'i drysorau; a ffoi yr oedd ef rhag siop y marsiandwr fel rhag ffau y llewod; a phob dull newydd ar wisgoedd oedd mor ddyeithr iddo ag i'r Negroes pellaf yn nhiroedd y Deheu; ac eto, meddaf, nid cymaint trwy y pethau hyn y chwaneodd ef ei gyfoeth, nac ychwaith trwy eithaf diwydrwydd, yr hyn yr oedd mor hynod ynddo fel nad oedd ei gyffelyb yn ngwlad yr Aipht. Ei deulu nid oedd yn cysgu ond ychydig oriau trwy gydol haf a gauaf; eu hysgwyddau oedd wedi crymu tan yr iau; oerni y gauaf a gwres yr haf oedd wedi gwneud eu crwyn yn galed fel lledr, a'u lliw fel lliw saffrwn; er mai nid cymaint, meddaf, trwy y pethau hyn yr oedd efe yn cynyddu, eto yn mlaen yr ydoedd yn myned, trwy dyru golud yn nghyd oddi yma ac oddi draw, a'i ysgubo at ei gilydd fel graian yr afon. Ei ddyfais faith a wnae elw o ddyn ac o anifail; fe droai dom yr heolydd yn arian, a'r ceryg yn aur melyn. Dysgwyl yr oedd efe gwymp y tlodion fel llew yn dysgwyl am ei ysglyfaeth, a'i lygaid a dremient ar y tlawd i'w gael ef i'w rwyd. Os tir yr amddifad a'r weddw fyddai wedi ei wystlo, fe wnae ei oreu am ei nyddu i mewn i'w wê ei hun; os gallai ond gyru ei fys i mewn, sicr fyddai o yru ei law yno hefyd; a'i grafangau ef oedd fel crafangau llew—ni cholli ei afael er dim, ac nid oedd a ddygai'r ysglyfaeth o'i law ef. Trwy weniath celwydd, geiriau teg, ac ymadrodd dengar yr ysbeiliodd ef amryw o'u bywioliaethau; ei anifeiliaid ef a werthid i'r gweiniaid at eu gwerth dauddyblyg, a'r tlawd oedd yn ofni gweled dydd y taliad; yr iau oedd yn rhy drwm, a'r baich yn methu ymadael â'r ysgwydd; ac yn lle eu tynu o'u cyfyngdra, fe a'u prynai hwynt yn eiddo iddo ei hun, trwy dalu y ddyled i bawb o'u gofynwyr, fel y cai ef y tlawd hwnw, ei wraig, a'i blant yn gaeth-weision iddo ei hun; a'i dŷ a lanwyd o'r fath drueiniaid a'r rhai hyn, fel ychain gwaith, yn wastad tan yr iau, neu fel yr asen yn feunyddiol yn dwyn ei phwn, heb neb i achwyn wrtho, na neb i'w cysuro yn eu gofid.

PERCON.—O orthrymwr di-gywilydd! A oedd un gydwybod yn fyw ynddo?

CANT.—Na soniwech am gydwybod, nis clywodd erioed mo'i llais nes ydoedd ar wely angeu; onide gwrandewch ar un yn rhagor o'i ddichellion awyddus ef fel y dygodd ef, un tro, wr gonest gwirion, ag oedd o'r blaen yn byw yn gynes, i fegian ei fara. Enw y gŵr oedd Honestus, ac yr oedd efe yn berchen defaid, gwartheg, gweision, a morwynion tŷ; ond nid aml oedd mewn arian ac aur, yr hyn fu achos i'w

droed ef gael ei dal yn y rhwyd. I'r gŵr hwn y gwerthodd Avaritius fustach am driugain darn o arian bathol; Honestus a gynygiodd yr arian yn yr amser appwyntiedig, ond nis derbynai Avaritius hwynt heb eithaf llog; yr hyn pan nacaodd Honestus am nad oeddent addawedig, ac am nad oeddent ganddo i'w talu, Avaritius yn ddioed a osododd achwyn arno, ac a'i dygodd o flaen brawdleoedd at y swyddogion uchelaf, ac a honodd y ddyled yn ddauddyblyg, gan ddwyn gau dystion i dyngu y cam yn iawn; a'r *treial* a redodd o ochr Avaritius, am fod gwobrwy, trais, a derbyn wyneb yn enill gyda swyddogion uchel, nes oedd Honestus erbyn hyn, rhwng dyled triphlyg Avaritius a thraul cyfraith dros amryw filoedd, wedi myned dros bum' cant darn o arian mewn gofyn, yr hyn oedd gymaint ag a dalai efe yn y byd. Yna Avaritius a anfonodd oddeutu ei holl gymydogion, ei ddeiliaid, a phendefigion y wlad i erfyn nas rhoddent un hatling yn fenthyg i Honestus, yn yr hyn buont oll yn ffyddlon rhag anfoddloni Avaritius; a'r canlyniad oedd danfon y ceisiaid i ddwyn ymaith yr oll a feddai, cymeryd yr ychydig dir ag oedd arno i'w feddiant ei hun, a'i wneud ef fel ereill yn dlawd ac yn angenus. A rhagor hefyd, canys fe garcharodd Honestus dan rith fod rhan o'r ddyled heb ei thalu; ac ar ol aros yno hir ddyddiau, ei wraig a'i blant yn cardota bara, Honestus a glafychodd yn y carchar o newyn, anwyd, noethni, ac a fu farw, ac yntau yn etifedd o'i holl feddiant.

PERCON.—Fe ddaw dydd y chwyda efe hwynt i fyny, ac y byddant fel plwm brwd yn ei goluddion, yn ei losgi yn oes oesoedd; ac y melldithia yr awr y chwenychodd efe i ddifa y dyn gwirion hwnw.

CANT.—Mae yr awr hono wedi dyfod arno ef, canys fe aeth i'r farn fawr er ys dyddiau; ac y mae efe yn ofni, yn crynu, yn duo, ac yn ysgyrnygu danedd mor danbaid y dydd heddyw ag y byddai yn rhy ofnadwy i edrych arno. Ond nid oedd hwn ond un o lawer a ddiwreiddiodd ef, ac nid oedd efe yn ymgeleddwr i un dyn byw; canys er bod ganddo amryw dan enw cyfeillion, ac yn caru cael ei alw yn gymwyn-aswr da iddynt, ac yn cymeryd arno amddiffyn y gwein-iaid, a bod yn rhwysg i'r weddw a'r amddifad; eto treisio ei ffryns yr oedd Avaritius fel ei elynion—treisio ei ddeiliaid, treisio ei weision, treisio ei gaethweision; canys trais oedd ei fara beunyddiol ef. Ni byddai y gyflog lawer pryd ond haner cyfiawnder, a'r taliad yn fynych yn llai na'r addewid; ac nid oedd treth, toll, na gwestfa na lynai rhyw swm fychan o honi wrth ddwyllaw Avaritius.

PERCON.—Ond pa fodd yr oedd efe yn cael gweision, deil-

iaid, a neb cyfeillion iddo, pan yr oedd yn eu maeddu a'u gorthrymu fel hyn?

CANT.—Ei gyfrwysdra ef oedd mor fawr, fel y denai lawer i'w rwyd: gweniaith a geiriau teg ddenai rai; ofn ac arswyd weithiau ereill; addewidion cryfion am rhyw bethau mawrion i'w mwynhau dwyllai un yn was neu ddeiliad; ac awydd i barch ac enw hudai un arall i'w wasanaethu ef; ond os fyth y cyflawnid un o'r addewidion hyn, cant i un nad o foddion rhai ereill y caent eu cyflawni. A'i ddichell ef oedd mor fawr, a'i ddyfais mor fyw, fel y gwnaeth i ereill rai prydiau dalu am fedi ei faesydd ef. Efe a berswadiodd Ineptus i'w wasanaethu ef ddwy flynedd am ei helpu ef i swydd ardderchog ag oedd yn dwyn i mewn ddau can' dryll o arian yn y flwyddyn; ond cyn cael y swydd hono, gorfu ar Ineptus dalu haner yr elw hwnw iddo ef ei hun, a thyngu na chai neb fyth wybod y cyngair. Yr oedd ei arian wedi taenu ar fôr ac ar dir; ni ddeuai llog cyfreithlon â haner digon o elw; ond fe wasgarodd ei dda rhwng y marsiandwyr, fel yr oedd ei drysorau yn fynych yn dyblu erbyn diwedd y flwyddyn. Cadw ei aur yr oedd ef tuag at ddysgwyl dydd drwg ar y tlodion, fel y byddent yn fara iddo. Yr anifeiliaid ag oedd efe yn eu gwerthu i'r gyrwyr a werthai ar bris dauddyblyg; ond er mwyn cael elw triphlyg oddi wrthynt rhoddai arian hefyd yn fenthyg iddynt tros y tymhor hwnw, ar eu dyblyg log; ond ar yr amser appwyntiedig y byddai Avaritius yn dysgwyl fel llew yn ei ffau am ysglyfaeth, am ddifa y cwbl yn mherchen y gyrwr tlawd hwnw; canys âi yn fynych i'w gyfarfod ef daith tri diwrnod, ac a fynai ei holl ddyled yn yr un taliad, gan ei ysbeilio ef, a thrwy hyny ei holl gymydogion gartref ag oedd wedi gwerthu iddo fel yntau. Ac felly ei arian benthyg ef, a'u llog dwbl, toreithiog, yn nghyda gwerth ei anifeiliaid mawr-bris, a'u cymeryd ymaith ar unwaith, oedd yn gwneud côd y gyrwr hwnw yn wag i'r gwaelod, a'i wyneb yn wlyb o ddagrau, ei gelwrn yn llwm o flawd, a'i ysten yn sych o olew; a'i holl gymydogion yn gruddfan am y golled. Mil o ffyrdd oedd gan y gŵr awyddus hwnw i ddyfod â'r geiniog i mewn, a dwy fil o ffyrdd pan y deuai i'w chadw hi rhag myned allan. Os yn y gwindy yn gwneud bargaen, nid oedd efe yn talu am ei gwpaneidiau gwin; os yn y wledd yn bwyta, fe wnai trwy ryw dwyll neu ddichell i arall dalu; ac yn ei holl ymdrin â'r byd, ar gefn y tlodion yr oedd efe yn byw. Nid oedd fawr yn begian arno ef, ond yr oedd ef yn begian ar bawb; ac nid âi un achos trwy ei law ef heb wobwr a rhodd uwchlaw haeddiant yr achos. O swyddau a lleoedd yr oedd aml olud yn cludo iddo; ni phleidiai achos y gwan,



na dwyn tyst o blaid y cryf, heb iro ei law â rhyw swm o'r mammon anghyfiawn. Anudoniaeth oedd yn o'r pethau mwyaf ag oedd yn cryfhau ei freichiau yn erbyn yr amddifad, ac a'i rhoddai i enill y *treial* ar gam er dinystr i amryw o wirioniaid y wlad. Yn fyr, yr oedd efe wedi dysgu myrddiynau o ffyrdd i gasglu cyfoeth, oll yn ddrygionus, yn ddichellgar, ac yn anghyfiawn; nid oedd ei feddyliau yn rhedeg ond ar olud anwadal y byd hwn; nos a dydd yr ymestynai am dano, nis gadawai ffair na marchnad heb chwilio am elw; mewn mor a thir yr ymfynai am drysor; ei dafod oedd yn llefaru am y peth, ei glustiau yn gwrando newyddion am le i dreisio y gwirion, ac i lwyrr fwyta yr amddifad; ei draed oedd yn cerdded i'r lle y b'ai y gelain, a'i ddwylaw oedd yn taer ymfaelau am yr ysglyfaeth. Fel hyn y treuliodd ei fywyd, nes ydoedd rhyw faint dros ganol oed, heb feddwl mwy am farwolaeth na'r anifail mud, nac ystyried pa ddyn a'i mwynhâai ar ei ol ef. Boddi yr oedd mewn tywyllwch ac anwybodaeth am gyflwr ei enaid; nis meddyliodd am farw nes oedd gerllaw iddo—ie, yn ei fynwes. Pum' deg o flwyddau ydoedd ef pan ddaeth brenin y dychryniadau i mewn dros ei drothwy; yn ddeieithr iawn ac mewn gwisgoedd anhebygol y dringodd i fyny i erchwyn ei wely ef; ac nis credodd y bydol-ddyn mai efe oedd ef nes oedd ar ei daro â'r ergyd marwol. Fe'i galwodd ef yn anwyd, yn beswch, ac yn ddolur bychan yn ei ysgyfaint, ac nad oedd berygl oddiwrtho; nid oedd amheuaeth ganddo nas ffoai efe yn mhen ychydig ddyddiau; gronyn o wres a chwys, i'w dyb ef, a'i gwellhâi o'r cwbl; eto y poen oedd yn myned yn fwyfwy, ac angeu yn eonach, eonach, nes o'r diwedd gorfu ar Avaritius druenus anfon am physygywr, oddiwrth ba un nid oedd fawr gysur na gobaith. Yn awr dyma yr holl berthynasau yn cydgyfarfod, yn ymbil am ran o'r meddianau anghyfiawn—neiaint, cefnderwyr, cyferdderion, tlodion, a chyfoethogion, hen ac ieuangc, yn dorfeydd ac yn finteioedd, yn amgylchu y gwely; ac angeu mor bell o ymadael fel yr ydoedd yn ymfaelau yn gryfach. Moes i mi, moes i minau, oedd llais yr holl geraint; y tlodion yn gruddfan ac yn wyo am eu rhan; a'r cyfoethogion hwythau yn eu cilgwrthio ymaith, gan gynyg dwyn yr holl ysglyfaeth i gyd yn eiddo iddynt eu hunain. O'r diwedd danfonwyd am hen garl i wneud yr ewyllys ddiweddfad; ac yn awr ystyriwch pa gyfyngder oedd ar enaid y dyn truenus hwn dan y fath amgylchiad anobeithiol. Cydwybod yn gwaeddi yn groch, fel arthes wedi colli ei chenawon, ac yn rhoio saith mwy na llew fyddai yn ngolwg ei ysglyfaeth; yn galw i gof iddo ei holl drachwant, trais, gormes, a chelwydd; yn rhifo yn ei wyneb

bob gweithred o anonstrwydd a wnaeth efe erioed. Dyma yr awr wedi dyfod o'r diwedd y daeth pob ceiniog anghyfiawn, pob hatling a ddygwyd o drais, pob dryll arian enillwyd o drachwant, i waeddi am ddial yn erbyn yr achwantwr. Pob anifail, pob dodrefnyn tŷ, a phob gwisg a ddygwyd oddi-ar y tlodion, oedd yn crio allan dial, dial, dial! Cwyn y tlawd a'r angenog oedd y dydd heddyw fel mynydd o bres rhyngddo a phresenoldeb Duw. Cwrlid a gwrthban yr amddifad a gymerodd efe ar wystl a ddylasai ei roi yn ol cyn machludo haul, ond a gadwodd efe yn feddiant iddo ei hun, oedd heddyw yn gwaeddi am farn yr ARGLWYDD ar y gorthrymwr. Eu cnawd hwy a oerodd yn eu gwelyau, ac a fagodd glefydau a droisant allan yn angeu, ond yn awr yn gwaeddi am wres anniffoddadwy i grasu i fyny gnawd y gormeswr, nes y byddai yn ulw. Wele ynte, druenusaf ddyn, dan yr holl wasgfeuron hyn yn gwallgofi, yn wban, ac yn rhincian danedd cyn yr amser, yn methu cael gan ei ysbryd ofnus i ymadael â'r byd, eto yn gorfod, heb flas na chalon, wneud ei ewyllys ddiweddfad, mor derfysglyd, mor annyben, ac mor ddifudd, fel pe buasai ewyllys un o dylwyth y bedlam. Ond digon tebyg fod Duw y nef wedi melldithio ei foddion, ac fel nas cafodd ef eu mwynhau hwynt yn fyw, felly nas cafodd ef eu trefnu hwynt yn ei farwolaeth: ac nid i'r sawl y mynodd efe, ond i'r sawl a welodd Duw fod yn dda y rhoddyd hwynt. Pe buasech chwi yma, fy hen gyfaill Percontator, buasai eich gliniau yn crynu y naill wrth y llall i weled dyn heb fedr, heb ffydd, heb ras, na chariad, ond yn unig o ofn marw, yn ceisio dringo i fyny at DDŪW—yr hyn oedd y pryd hwn mor anhawdd iddo a phe cynygiasai fyned i'r lleuad; i weled dyn heb lygad yn ceisio edrych, heb law yn ceisio ymaflyd, ac heb dafod yn ceisio bloeddio tua'r nef.

PERCON.—Cant i un iddo foddioni ei dylwyth â'i feddianau.

CANT.—Mor belled oddiwrth hyny, fel y gyrodd ef hwynt ben-ben—rhai i lidio, rhai i genfigenu, rhai i gyfreithio y naill yn erbyn y llall; canys mor annhrefnus y cyfranodd ei feddianau, fel nad oedd y cwbl well na gwallgofrwydd. A pha fodd y gallasai wneud yn well, tan y fath ofnau digymar, y fath ddychrynfeydd cydwybod, a'r fath aethau marwolaeth ag oedd wedi ei berchenogi ef y pryd hyny? Terfysgiadau ei enaid ef oedd fel tonau y môr, yn rhoio yma a thraw, heb gael un gronyn o lonydd; dychryn ac ofn marw, a chwant byw, oedd fel gwyntoedd ystormus yn ysgwyd trwy bob cwr o'i galon; ac fel na wnaeth ddaioni yn ei fywyd, felly hefyd yn ei farwolaeth ni chai wneuthur; fe ymadawodd fel yr ynyfyd a'r annoeth: i'r rhai cyfoethog y chwanegodd gyfoeth;

ond y tlodion nis cawsant achos i'w fendithio ef; ac amryw sy'n tybied nas pery ei feddianau yn hir yn y dwylaw y rhoddodd efe hwynt, am fod llawer iawn o felldithion yr amddifaid yn gorphwys arnynt. Mae y gweddwon heddyw wedi gweled eu gwyn,\* ac yn ei angladd nid oedd neb yn wylo; ni roddwyd ochenaid gan ddyn byw wrth ei ddodi ef yn y ddaear; y ddaear ei hunan oedd wedi blino arno; baich oedd efe i Dduw a dynion, a'i enw a anghofiwyd yn mysg y byw; ac nid oes y dydd heddyw flas son am dano: ond O, druenus gyflwr ei enaid! Pa le mae? Nid yn gorfoleddu mewn trais, nac yn chwerthin ar ben dagrau yr amddifad, fel cynt; nid yn cludo arian fel graian i mewn i'w drysorau; ond yn absenoldeb y Duw byw yn wylo o wres, ac yn rhincian danedd o oerni; yn dyoddef poenau na w'yr natur ddim am danynt; yn mhell, pell tu hwnt i derfyn gobaith; yn rhwym i ateb yn y dydd mawr, ac yn gwybod y farn a roir y dydd hwnw arno, ac yn arswydo rhag ei dyfod. Pan godir ei gorph o'r bedd i gael rhan o'r poenau angerddol a barotowyd i'r rhai a gasaodd Dduw yn y byd hwn, tân fydd ei wely ef yn oes oesoedd; screchfeydd damnedigion a chythreuliaid fydd y beroriaeth a swnia yn ei glustiau ef byth mwy; ni wel efe byth mo'i artref, ac ni adnebydd ef y tai a adeiladodd â thrysorau trais; trachwant a baentiodd ei ffenestri â *fermillion* gynt, ac awydd a grynodd ei olud; heddyw fe'i gwasgarwyd i le ni w'yr efe; ereill sydd yn trigo yn ei ystafelloedd, ac ereill sydd yn mwynhau holl ffrwyth ei lafur. Son am dano sydd anhyfryd—dileir ei enw o dir y rhai byw. Ac O na roddid colofn o bres yn agos i'r tŷ hwnw y bu efe yn trigfanu ynddo, yn arwydd i'r fforddion oll fod ei ffordd ef yn arwain tua dystryw, ac mai ei diwedd hi yw marwolaeth.

PERCON.—O!r fath dorfeydd o bob rhyw ddynion, pob gradd, pob oedran, pob llwyth, pob teulu sydd wedi cael eu gwenwyno â'r ysbyrd hwn trwy y byd; er bod gair y bywyd yn gwaeddi allan mai hawsach i gamel fyned drwy grai y nodwydd ddur nag i'r goludog fyned i mewn i deyrnas Dduw, yr holl fyd sydd eto awyddus am gyfoeth—rhed dynion ar tôr ac ar dir am y cyntaf at y mammon anghyfiawn; y marsian-dwr a rydd ei fywyd i drugaredd y tonau er mwyn dwyn da yr India yn ol i'w wlad ei hun; y mwnwr a gloddia i ddyfnder y ddaear, ac a edy rydion o greigydd heb rifo-wch ei ben, i gael allan yr arian gloewon o'u carcharau saith dyblyg. Y *Negroes* duon a soddant mewn dyfroedd dyfnion yn noeth, i gasglu graian yr aur o rhwng y llaid, ac yn fynych a gollant eu bywydau wrth gasglu golud; y toddydd sydd yn

\* Gwyn—eu dymuniad. Wrth wyn a'i caro y del adref—*May he come home agreeable to the wish of such as love him.—Dr. O. Pughe.*

gwylied wrth y ffwrnes nos a dydd heb roi hûn i'w amrantau, a'i gnawd yn toddi fel bloneg gan wres y tân, er mwyn pentyru arian nas g'wyr pwy a'u meddiana; yr hwsmon, y porthmon, y siopwr, a'r crefftwr sydd mewn cyngair i gaisio ysgubo aur yn nghyd, ac fel pe baent am y cyntaf i ymgyfoethogi. Un dyn yn ysbeilio ei gymydog, ac yntau yn ysbeilio arall; ac felly o'r pendefig i'r *begar*—pawb sydd yn treisio am gyfoeth. Y mab gweddw sydd yn hela am waddol yn fwy nag am y ferch ei hunan; y gw'yr priod sydd yn caru cyfoeth fel eu gwragedd; yr henaint ar lan y bedd, a'u penau yn fwy gwyn na'r eira, sydd yn brefu am olud i ereill, heb iawn adnabod pwy ydynt. O!r fath dorfeydd dirif o ddynion sydd â chwant arnynt fod yn gyfoethocach nag y maent! Och! Dduw, pa beth fydd diwedd hyn? Ond mi ddymunwn arnoch, fy hen gyfaill Cantator, i wneud Marwnad i Avaritius—mi wn i chwi wneud y fath amryw weithiau i ddynion cyfiawn na da, ac mae eich gwaith wedi bod yn fuddiol iawn; ac fel mai da yw adrodd a chanu bywyd ffydd y duwiol, felly da hefyd yw adrodd a chanu drwg fywyd yr annuwiol, er rhybudd i'r sawl sydd eto yn ol i ddysgwyl a wel Duw fod yn dda ryw awr, trwy rybuddion o'r fath, i alw y cyfryw allan o gyfeiliorni eu ffyrdd. Anhawdd oedd cael un yn y dyddiau gynt ag oedd yn fwy awyddus na Zacheus; eto gras y nef a ymaffodd ynddo, ac a roddodd iddo galon newydd, yr hon oedd mor ewyllysgar i'w rhanu hwynt rhwng y tlodion ag oedd efe i'w casglu hwynt yn nghyd trwy drais. Rhowch, fy nghyfaill, ychydig eiriau ar gân am Avaritius, yn rhybudd i ereill rhag myned i'r ffordd enbyd hono.

CANT.—Mi gyflawnais eich dymuniad fel y medrais cyn i chwi ei osod ger fy mron.

PERCON.—O, gadewch im' ei chlywed!

## MARWNAD AVARITIUS

B'LE heddyw mae 'th drysorau, ti druenusaf ddyn?  
Pwy sydd yn cadw 'th godau a'th *filiau* wrth ei glin?  
Pwy bia 'th feusydd meithion, a'th neuadd ddysglaer, lân?  
A ge'st ti wybod hyny gan ryw un yn y tân?

Dy gyfoeth a'th adawodd; am d'enw nid oes son:  
Mae ereill yn gwasgaru a gesglaist ti trwy boen.  
Dy awydd a'th orthrymu, dy drais a'th dwyll yn nghyd,  
A gofir, a ddanodir, ganlynir gan y byd.

Llosgfeydd o dân tragwyddol yw 'th wely heno a'th nyth,  
Yn lle dy balas cadarn meddyliaist drigo fyth;  
Ellyllon hyll uffernol sy'n gwawdio 'th boenau a'th loes,  
Am gadw 'r tlawd heb wrthban i orwedd tano 'r nos.

Pob trais, pob twyll, pob dirmyg a wnaethost yn y byd  
 Sy'n awr yn neidio i'th wyneb, yn dy archolli 'nghyd ;  
 A wnest o gam âg ereill, er cymaint oedd dy fri,  
 Mae Satañ, 'n ol dy haeddiant, yn talu 'n ol i ti.

B'le heddyw mae dy obaith ? Nid oes ond dychrynfâu,  
 Trwy eitha' dy 'mysgaroedd, yn nyddu ac yn gwau ;  
 Fe, ofn, yw dy gwmini, a'r ofn hwnw sydd  
 Yn poeni am farn aeth heibio, a phoeni am farn a fydd.-

Saf yna 'n ol dy haeddiant i ddyoddef eithaf llid,  
 Nid oes ar neb dy eisieu ar wyneb maith y byd ;  
 Mae gormod yn dy ganlyn, a hwy ddot i'r un lle,  
 Yn unig oni etyl effeithiol ras y ne'.

Ac er dy fod yn farw, mae awydd eto 'n fyw ;  
 Mae awydd yn mhob calon yn groes i anian Duw,—  
 O Eden daeth hi allan ; yn uffern mae ei nyth ;  
 Ac y mae 'n arwain miloedd i boeni yno byth.

O doed y nefoedd olen i sefyll draw o flaen  
 Y miloedd sydd yn rhedeg yn awr tuag uffern dân ;  
 Deffroed yr Ysbryd grasol y dorf aneirif fawr  
 Ag sydd, fel Avaritius, yn myn'd i'r tân yn awr.

Dewch yma, feibion Adda, anfeidrol dorf yn nghyd,  
 Ag sydd â'ch holl ddiwyfwrch o fewn daearol fyd ;  
 Edrychwch 'n ol eich trachwant draw, draw, ar ddiwedd hyn,  
 A gwelwch un o'ch brodyr yn berwi yn y llyn.

Deffrowch, a dwys alerwch, can's heddyw ydyw 'r dydd,  
 Pob rhyw addewid bwysig am heddyw 'n unig sydd ;  
 Ni ro'wd o fewn y Llyfr am 'fory air erioed,  
 Ac f'allai er ich' ddysgwyl nad oes un 'fory 'n bod.

O gwelwch y gwahaniaeth rhwng Lazar sy'n y ne',  
 Yn nghôl a mynwes Abra'm yn hyfryd iawn ei le ;  
 A Deifes mewn trueni, y truenusaf w'r,  
 Yn methu cael, er begian, y defnyn lleia' o ddw'r.

Er byw 'n helaethwych beunydd, a'i fwrdd yn eitha' llawn,  
 A'i gwpan yn myn'd drosodd o foreu hyd brydnawn ;  
 A gwisgo yn ardderchog mewn scarlad, fur, a la'n,\*  
 Mae heddyw 'n analluog i ddofi gwres y tân.

Ond Lazar sydd â'i glwyfau oll wedi eu hiachau,  
 Yn nghanol môr o olud, heb eisieu ac heb drai ;  
 Ei boen, ei gur, a'i drallod, ei gystudd yn y byd,  
 Oll sy'n cynyrchu elw tragwyddol iddo 'nghyd.

\* Lawn.

PERCON.—Duw a roddo ei fendith ar y Farwnad yna, i  
 ddangos i rywun y trueni sydd o garu y ddaear yn fwy na'r  
 nefoedd. Ond ewch at fywyd a marwolaeth Prodigalus ei  
 gymydog, a mynegwch eich sylw ar lwnw, o'r pryd y  
 daethoch i'w adnabod i'r pryd yr ymadawodd â'r byd hwn.

CANT.—Efe oedd o dylwyth uchel yn Midian ; enw ei fam  
 e oedd Cosbi, merch Sur, tywysog Midian ; ond ei dad ef  
 oedd Amoriad—un o'r Cenedloedd a prodd yr ARGLWYDD  
 ymaith o flaen meibion Israel. Fe'i ganwyd ef yn nhir Nod,  
 lle ffodd Cain o bresenoldeb yr ARGLWYDD am ladd o hono  
 Abel ei frawd. Ei dad ef a grynodd olud fel golud Cresus,  
 trwy drais, cam, a gorthrymder, fel Avaritius ei hun ; am  
 hyny angen ydoedd eu gwasgaru hwynt gan rai o'r etifeddion  
 —fel dywed yr hen fardd,—

Yr hyn a gesglir trwy gybydd-dra,  
 Y mab afradlon a'i gwasgara.

Ond Prodigalus, pan oedd eto ond bachgen, am nas mynai  
 ei dad gostio wrtho, a gadwodd gwmpeini dynion anfoesol a  
 drwg, y rhai yn ei ieuengctyd a'i cynefinodd â phob drygioni ;  
 ei gyfeillion ef oedd y meddwon, a hyny yn foreu iawn ; eu  
 llawenydd hwy oedd ei lawenydd yntau, a'u cân hwy oedd ei  
 gân yntau ; yn eu cwmpeini yr oedd y dulsimer, y delyn, a'r  
 dawns : ond gwaith yr ARGLWYDD oedd bell oddiwrthynt.  
 Yma y treuliodd Prodigalus arian fel gro yr afon, arian ag  
 oedd ei hynafiaid wedi gadw iddo erbyn ei ddiwrnod ; ac yma  
 gollyngodd ei aur, er ys blynyddau mewn carchar, yn rhydd  
 o'u caethiwed ; a chyfoeth ag oedd ddyledus i'r gweiniaid a  
 doddwyd yn awr yn ddiod gadarn ; fe lyngcwyd codenau  
 aur i lawr yn win melusaf ; ac eto rhy fach o olud a  
 gasglwyd iddo i borthi pob chwant. Ei geg oedd fel  
 fflodiad y felin ; nid oedd digon o wlybrwydd iddo gael  
 tu yma i'r môr ; fel y llwngc tir cras, sychedig ddwfr, felly  
 llyngcai Prodigalus sudd y winwydden, heb fod ei syched  
 ronyn llai ; dydd at ddydd a gynyddodd ei feddwod, nos  
 at nos a chwaneodd ei flys, nes o'r diwedd iddo fyned yn  
 ben ac yn arglwydd ar ei holl gyfeillion : yr olaf yn flaenaf,  
 yr ieuangaf o flaen pawb ; mor barod yw natur i ddysgu yr  
 hyn sydd ddrwg. Erbyn hyn nid oedd na ffræ na chynwrf,  
 gwaed na chlwyfau, nad oedd Prodigalus â'r llaw flaenaf  
 ynddynt ; a chymaint hefyd yr ymarferodd â hyn, nes daeth  
 ymrafaelio fel bwyd i'w enaid. A hyn a'i dygodd ef i ym-  
 hyfrydu yn y gyfraith wladol, yr hon aeth bob yn ronyn yn  
 bleser nesaf i'w fol iddo ef. Yn awr ni adawai efe na chwrt  
 na brawdlys heb fod yn bresenol ; ac nis cai ustus heddwch  
 lonydd, ond ei flino âg achosion ymrafael o'r boreu i'r pryd-

nawn. Anhawdd, y dyddiau hyny, cael un achos cyfraith yn ei ardal nad oedd ganddo ef law ynnddó; cymaint pleser oedd ganddo i ymddial fel mai gwell oedd ganddo wario can' dryll o arian na dyoddef colli haner un o'r rhai hyny; a hyn a'i harweiodd ef (fel y mae un pechod yn arwain i un arall) i ymbleseru mewn anudoniaeth, yr hwn sy'n dilyn ymgyfreithio fel gogysgod yn dilyn gŵr. Ac nid digon iddo ei fod ef ei hun yn ymarferyd â'r bai ysgeler, ond rhaid ydoedd dysgu i ereill hefyd y weithred ysgymun, fel y b'ai ef a'i gyfeillion yn sicr o enill y *treial*, bid gam neu gymhwys; a dyfod allan gyda hwre oddi ger bron y barnwr, er bod y tlawd yn cael ei orthrymu yn chwerw-dost trwy y fath anghyfiawnder di-drugaredd. Ond hyn oll a berodd iddo wasgaru ei dda mor ddisymwth fel y dechreuodd tlodi ei gyfarch, a gorfu iddo wystlo yr etifeddiaethau llydain a gafodd ei hynafiaid ar wystl gan ereill, heb eu rhoddi byth yn eu hol. Fel hyn y daw yr afon yn nhen blynyddau yn ol i'w therfynau cyntaf; ond er hyn oll ni ddychwelodd efe o'i ffyrdd drygionus, ond aeth rhagddo yn gildynus, gan chwaneu ei bechod at bechod; tyngu a phuteinio sydd gyfeillion yn fynych i loddest a meddwdod: "godineb a gwin newydd sydd yn tynu y galon oddiwrth Dduw." Yntau a halogodd amryw o ferched diwair, ac a'u llithiodd bob yn ychydig ac yn ychydig i wystlo eu diweirdeb i'w drachwantau ef, ac a'u denodd i wared i ffordd dystryw, nes myned o honynt yn ddrewdod i'r byd, ac yn waradwydd iddynt eu hunain. Ond O druenus ddyn! Ni safodd Prodigalus yma chwaith, ond aeth rhagddo yn ddiatal i gyflawni pob drwg yn un chwant—malais, llid, cenfigen, hoced, celwydd, trais, puteindra, meddwdod, a chyfeddach, yn nghyda'r holl dorfeydd sydd yn eu canlyn o bechodau, a lanwodd ei ysbrydoedd fel y dyfroedd yn llanw y môr; ac nid oedd o'i fewn yn awr ond llety i ddiadol—ffau i holl fwystfilod rheibus y pwll diwaelod oedd ei ysbryd aflan ef.

PERCON.—A oedd ei olud eto yn para? Pa ddull yr oedd ei iechyd? Am ei enw, gwn ei fod wedi ehedeg ymaith fel aderyn.

CANT.—Ei olud yr awr hon oedd wedi treio fel llif nentydd y mynyddoedd, ei barch a ddarfu fel yr oedd y golud yn darfod; ac nid pell oedd iechyd oddiwrth ddianc arno ef; ac nid ychydig o gymydogion o'r un ysbryd ag Avaritius oedd bob dydd yn dysgwyl am ei gwmp, ac am lyngcu ei dyddynod, fel gwnaeth ei dad ef â thyddynod ereill, y rhai oedd eto yn rhoi arian gyda phleser, ac yntau mor ddall heb wybod eu bod hwy yn ei brynu ef â'i holl feddianau; y rhai hyn yn y diwedd gafodd fod yn etifeddion iddo, ac a wnaeth-

ant farsiantiaeth o'i dai, ei diroedd, a'r cwbl a feddai ef yn y byd: ac yna darfu ei barch a'i anrhydedd gyda ei gyfoeth. Ond tuag at berffeithio y gwaith, ei ddrwg fuchedd a hauodd o'i fewn amryw glefydau marwol, y rhai a'i dygodd bob yn ychydig ac yn ychydig i lawr i'w fedd: ei segurdd a fagodd y *gout*, ei loddest a'i feddwdod y *dropsi*, *jandis*, a'r *nerfws*; ei fenyweta hefyd a ddygodd ei nerth, laddodd ei ysbrydoedd, fel yr oedd yn ymddangos cyn myned o'r byd yn fwy tebyg i ddrychiolaeth nag i ddyn yn gwisgo cnawd ac esgyrn.

PERCON.—Ond da fyddai genyf glywed pa ddull yr ydoedd yn ei glefyd ac yn ei farwolaeth.

CANT.—Dychrynlyd iawn ac ofnadwy; canys pan unwaith yr aeth ei glefyd ef yn drwm ac anfeddyginiaethol, fe ddaeth i'w gof ef ei holl afreolaeth, a'i bechodau a ymfyddinasant i'w erbyn—amgylchynasant ef fel gwenyn, heb nerth ganddo i'w gyru hwynt ymaith; ei gydwybod ag oedd yn cysgu o'r blaen—ac oedd, fel y tebygid, wedi marw—yn awr a safodd ar ei thraed, ac a waeddodd, Gwaed, gwaed! hyny yw, mai ei bleserau a'i chwantau a wnaeth angyng mor agos iddo. Gwae fi yn awr, oedd ei ruddfanau a'i ocheneidiau—ie, ysgrechfeydd ofnadwy oedd yn mygu allan o'i safn ef: melldithio ei hen gyfeillion, melldithio y gwin a'r gwin-dai y gwariodd ef ei amser gwerthfawr, heb enill ond cludo arno ei hun fynyddau o euogrydd, tlodi annyoddefol, a chystudd oedd sicr i'w ddwyn ef i lawr i'w fedd. Nid oedd un o feiau ei fywyd, ag oedd yn aneirif, na ddaeth heddyw i'w gof fel pe buasent wedi eu gwneud y dydd o'r blaen; saeth lem oedd pechod y pryd hyn, a'r blas ag oedd ynndd gynt wedi troi yn wenwyn aspiad; ffaidd oedd ganddo feddwl am y cyfeillion a'u cyfeillach; y meddwdod, y gloddest, a'r ymlanw ddaethant gyntaf i'w gof, am mai y rhai hyn a roddodd achlysur i'r lleill i ganlyn. O! r fath dân heddyw oedd yn ei arenau am anudoniaeth, celwydd, a thrais: brath cleddyf yn ei ym-ysgaroedd oedd ei anlladrwydd a'i buteindra; y fath ofn oedd arno farw, fel yr oedd agos i farw o ofn y dydd mawr cyn ei ddyfod. O! r crynu yr oedd pob asgwrn wrth weled dydd gras wedi myned heibio yr awrhon! heb le dysgwyl am drugaredd mwy! Och fi! eb efe, gwae fi erioed; pa le yr oeddwn tra fu ereill ar eu gliniau! ereill tan y gair, a minau yn y dafarn! ereill yn moli Duw mewn salmau, hymnau. ac odlau ysbrydol, a minau yn feddw ar fy ngwely; rhai yn darllen ac yn myfyrio ar air y bywyd ar y pryd yr oeddwn i yn *carousio* yn mhlith fy nghyfeillion rheglyd, meddw. O fel y treuliais lawer cant o Sabbothau heb feddwl mwy am Dduw na'r anifail a ddyfethir. Ond dyma'r dydd wedi dyfod o'r diwedd y dyfethir finau—fy haeddiant i yw hyn oll!

O na buasai heb un Duw yn bod ! neu na buasai Prodigalus yn rhyw greadur heb fod yn fab gwraig, yna mi ddiangaswn o'm holl ofid ; ond dyn wyf fi (a gwae fi yr awr hon fy mod i felly) ag sydd yn gorfod cyn pen ychydig ddyddiau fyned i'r farn ; y porth sydd wedi ei gau, a'r ffwrn o dân a brwmstan yn barod i dderbyn y troseddwr.—Yn wir, fy nghyfaill Percontator, chwi fuasech yn rhoi llawer am fod allan o swm ei ochain a'i ruddfanau anobeithiol ef : yn awr yr agorwyd ei lygaid, ac yn awr y cafodd olwg ar ei holl bleserau yn eu lliwiau duon eu hunain ; ac i'r farn yr aeth—yn ol pob argoel—heb weled dim meddyginiaeth i bechadur truan ; yn unig gweled rhyw ronyn arno ei hun yn bechadur, ac wedi dinystrio ei hun gorph ac enaid, meddianau a chyfan, a bod y n rhaid iddo ymddangos felly mewn barn, a'i droi ar law aswy Duw.

PERCON.—Mi adwaen lawer, fy nghyfaill, o rai a dreuliasant eu bywydau yn mhob pechod, heb ddiuno nes yn eu cleyf diweddaf ; a'r Duw mawr fel yn eu cydwybod y pryd hyny yn llefaru, ac yn gofyn y fath gwestiynau a hyn : Rho gyfrif o'th oruchwyliaeth—ni chai fod yn oruchwylwr mwy. A chyda hyny, dychryn yn ei ddal fel swyddog yn dal lleidr i'w arwain at y *bar* i'w gondemnio ; canys ni feddant air i ateb ond iddynt wneud camddefnydd ac afreolaeth ar holl drugareddau yr ARGLEWYDD. Duw yn gofyn y pryd hyny pa beth a wnaethant o'r meusydd hyfryd a gawsant ganddo ; a aeth rhan o'r rhai hyn i borthi ei dlodion Ef â bara ; a ddilladwyd neb o'i noethion Ef â hwynt ; a ddiodwyd neb o'i rai sychedig Ef â'u ffrwythau hwynt ? A'u cydwybod yn ateb, Naddo, ond yn cyhuddo yn eu hwynebau o flaen Duw, ac yn gorfod cyfaddef o flaen dynion iddynt eu treulio hwynt oll ar eu melus chwantau ; ac yn awr eu bod yn haeddu y farn oedd ar syrthio arnynt, ond rhy ddiweddar yw hi ar y rhan fwyaf y pryd hyn i gymodi â Duw ag sydd wedi ei ddigio trwy holl ddyddiau eu bywyd trwy anufudd-dod. Ond yr wyf yn gobeithio i chwi, Cantator, wneud Marwnad i'r truenus ddyn hwn er rhybudd i ereill rhag myned i'r lle ofnadwy hwnw, am nad oes dim argoel llai nad gyda diaffiaid mae ei nyth tragwyddol ef y dydd heddyw.

CANT.—Ei Farwnad sydd yn rhedeg fel hyn :—

Dacw loddest wedi darford, dacw fedd'dod yn ei rym,  
Ag a lediodd Prodigalus, heddyw wedi myn'd yn ddim ;  
Dacw 'r blaenor wedi trengu, 'drychwch ar y penaf un,  
Wedi doddi 'r bwyd a'r ddiod goreu i'w ddinystrio ei hun.

Pwy bleserau 'n awr sydd ganddo ? ai nid llais y delyn fawr ?  
Neu ynte swm y droed rygynog sydd yn *jiggo* 'r hyd y llawr ?  
P'un ai gwin, ai *sac*, ai *brand* ; mae e'n yfed yn ei hynt ?  
A yw 'n llawen yn y cwmni ? ac yn ddifyr megys cynt ?

O nage ! fe ddarfu hyny, yn lle gwin, euogrwydd trwm  
Sydd yn llosgi ei goluddion megys y berwedig blwm,  
'Screch cythreuliaid ydyw 'r delyn, dyna 'r dawns mae e'n fwynhau,  
Myrdd o 'llyllon sydd yn boenwyr ; a thrwy 'gilydd yno 'n gwau.

Dyma 'r swper sy iddo heno, brwmstan todd yn danllwyth las,  
Bwyta hwnw,—hwnw 'n tarddu trwy rwyd-dyllau 'i groen i maes ;  
Yn lle cymysg pob rhyw *licer*, yfed llid tragwyddol sydd,  
T'w'llwch dudew ellir deimlo, yn lle hyfryd oleu 'r dydd.

Dewch yn gryno, feibion pleser, yma dewch i lan y llyn,  
Tros un fynyd gwrandewch ruddfan, gwelwch ddagrau 'r adyn hyn ;  
Rhowch ffarwel i bob pleserau, rhowch ffarwel, y mae 'n brydnawn,  
'Mhen ychydig bach o ddyddiau chwi gewch berffaith daliad llawn.

Mae yn Eden well pleserau, uwch pleserau tan y groes ;  
Cariad ragor nag mewn natur sydd i wel'd yn angeu loes ;  
Mwy llawenydd, mwy digrifwch, *ffeinach* cysur, uwch ei ryw,  
Nag a welwyd ar y ddaear, sydd yn mhresenoldeb Duw.

PERCON.—Ond deuwch, bellach, ac adroddwch ychydig am Fidelius y Cristion ; canys mi wn y caf ryw bethau, os nid pob peth yn ei fywyd ef, yn hyfryd ; ac nid y lleiaf o ryfeddodau Duw yw cwrdd â Christion yn ngwlad yr Aipht, yr hon sydd erioed yn elynol i bob gwir Israeliad.

CANT.—Fidelius a anwyd yn nhir Canaan ; ei fam ef oedd Hittees, a'i dad yn Amoriad, ac yntef ei hun a esgorwyd arno mewn lle digysur, ar ganol y maes ; ni thorwyd ei fogail yn y pryd y ganwyd ; nis cyweiriwyd ef hefyd â halen ; nis golchwyd ef mewn dwfr i'w feddalhau ; ac nis rhwymwyd ef â rhwymyn ; ac oni buasai i Un ardderchog o nerth, a mawr iawn, a lluosog ei drugaredd ei gael ef yno, darfuasai am dano yn y dydd yr esgorwyd arno. Ond y Gŵr hwnw a'i hymgeleddodd ef, a'i golchodd, a dorodd ei fogail, ac a'i cyweiriodd â halen, ac a'i dilladodd ; ac felly tyfodd ac a aeth yn fawr. Ond pan gyntaf cynyddodd i faintioli, fe drodd, er ei holl driniaeth, yn ddyn pechadurus, fe anghofiodd ei Greawdwr, ac a gofleidiodd bob pechod yn un chwant ; fe dorodd holl orchymynion ei DDUW, ac a dreuliodd ei dalentau, gan fyw yn afradlon, nes daeth amser serchawgrwydd a rhad ras i ddirwyn i fyny, ac arfaeth Duw i esgor ar awr o drugaredd ; yna galwodd y nefoedd ar ei ol â llais ag a orfu arno gyda Saul i wrando ; fe ufuddhaodd i air y bywyd, ac a



ddaeth adref i fyw dan aden efengyl gras. Ac am ei fod â'i drigfan yn ngwlad yr Aipht, yn gymydog i mi, a'm bod gydag ef yn fynych yn ei dristwch a'i wynfyd, ac iddo yn fynych ddaedguddio i mi ei holl feddwl, ni allaf lai na'i osod allan fel y darlun mwyaf cymhwys ag wyf yn adnabod o Gristion, yn ol dull y Testament Newydd; ac O! na b'ai pawb dan yr enw hyny â'u grasusau mor glir, a'u hysbrydoedd mor wresog, a'u bywyd mor hardd a dysglaer a'i fywyd ef. Yr oedd Fidelius yr un dyn o fewn ag o faes; yr oeddwn yn gydnabyddus âg egwyddorion ei grefydd, yn ei brofiadau tumewnol, gwastadrwydd ei fywyd, yn nghyda'i holl weithredoedd o ffydd a chariad ag oedd ef yn eu hymarferyd o bryd i bryd, yr hyn, os caniatâ Duw, a osodaf allan i chwi, fy nghyfaill Percontator.

PERCON.—O ewyllys fy nghalon; ewch rhagoch.

CANT.—Fe ymneillduodd ei hun yn hollol oddiwrth gyfeillach yr Aiphitiaid ar ei ddyfodiad cyntaf i'w gwlad, ac yr oedd efe a'i deulu ar eu pen eu hunain, heb eu cyfrif yn nghyda'r Cenhedloedd; eto, pa bryd bynag y deuai neb o'r wlad anniolchgar hono i geisio unrhyw gymwynas gan Fidelius, ag y gallai efe ei rhoi heb wneud niwed i neb o deulu y ffydd, nid oedd neb yn fwy ewyllysgar nag ef yn holl dir Ham. Yr oedd efe am wneud daioni i bawb, ond yn benaf i etifeddion Seion. Pa wag hanesion bynag, pa sisial a chelwydd, pa wag glebar, neu arwyddion disail bynag fyddai ar led, ni chawd clywed erioed i un o honynt fyned allan trwy neu o enau Fidelius. Os un terfysg ac ymrafael fyddai yn yr ardal hono—os un cenfigen a drwg ewyllys fyddai gan neb, un yn erbyn y llall, ni chawd ei fod ef âg un llaw na bys ynddo; canys goleuni y nef a ddysgodd ei glust i wrando, a'i dafod i lefaru yn union ffyrdd yr ARGLWYDD; ond ceisiai drwy bob moddion ostegu pob peth anghysurus, a hoff oedd ganddo fod yn dangnefeddwr. Ond byth ni threuliai amser hir, ac ni ddywedai eiriau ofer; a derbyn wyneb fyddai yn mhell oddiwrtho yn y fath gyfeillach: ac yn eu lle byddai symlwrwydd, ysbryd heddychlon, geiriau cariad, a datod llid, a rhyw areithiau melus am dragywyddoldeb a'r farn a fydd; yr hyn oedd yn awdurdodol ryfedd i ddarostwng terfysg, gostegu ysbryd gwyllt, ac addfedu dynion i heddychu y naill â'r llall. Rhai prydiau, cyn methu gwneud dyben ar derfysg, Fidelius a wobrwai y cyndyn haerllug â'i arian ei hun, er mwyn i'r gwan gael llonydd gan ei ddanedd di-drugaredd. Ei fywyd ef oedd annghyffredin a rhyfeddol; ei deulu oedd brydferth, moesawl, a rhinweddol; ei weision a'i forwynion oeddent oll yn hyfforddus, fel yr eiddo Abraham; pan demtid un o honynt i'r radd uchaf, ni chaed clywed llw

na rheg o'i enau ef, ond gwastad ac amyneddgar fyddai pawb o honynt yn eu holl ymdriniaethau â dynion poethion. Ei dŷ ef oedd yn deml i'r ARGLWYDD DDUW: yno yr oedd addoliad boreuol a phrydnawnol, fel yn mhabell yr ARGLWYDD; yr oedd yr holl deulu mor hyddysg yn Meibl y cysegr ag yw plentyn ysgol yn ei ramadeg: hyfryd oedd ei feibion a'i ferched yn ymbyncio o hono, ac yn bendithio Duw mewn salmau, hymnau, ac odlau ysbrydol trwy gydol faith y dydd a'r nos; ei holl deulu ef oedd wedi eu dysgu yn egwyddorion y ffydd, a holl hanesion yr Ysgrythyr-Lân. Yn fyr, ei dŷ ef oedd megys coleg o dduwinyddion—pawb oedd yno yn ddarllenwyr, yn weddiwyr, yn athrawon, ac yn brophwydi; ac yr wyf yn meddwl nas gwelais mewn man dan y nef ragor o ffyddlondeb i benteulu, dysgyblaeth mwy manwl, na gwell rheolau, ac oll yn cael eu cadw i'r manylrwydd mwyaf. Chwi ryfeddech y fath drefn fanwl, ddoeth, ac adeiladol oedd yn y teulu hwnw; diau fod Ysbryd y Duw byw yn cyfarwyddo y rhai a'i gosododd hi. Yma yr oedd gwaith neillduol i bob un, a chymhwysder rhyfeddol yn mhob un at ei orchwyl. Yma yr oedd pwys a chaledi y gwaith yn ateb grym, oedran, a deall y gweithiwr. Nid oedd yma na chymysg nac anhrefn, nac un byth yn rhedeg i waith y llall; ond y fath gydsain hawddgar a rheolaidd i maes ac i mewn, fel yr oedd doethineb y nef i'w weled yn y gosodiad o honynt. Ac O y ffyddlondeb oedd yn mhob un i'w feistr,—yn hytrach i'r ARGLWYDD! Pawb y tu cefn i'r goruchwyliwr fel o flaen ei wyneb, a'u holl egni i ddwyn y gorchwyl hwnw yn mlaen. A phe buasech ond edrych arnynt dros ronyn yn eu haddoliad teuluaid, yma yr oedd y fath harddwch, a blas, a phleser nas annghofiaf o hono byth. Pan gyntaf y tarawai y gloch yr awr weddi, deuai yr holl deulu—yn blant, yn wasanaeth-ddynion, a dyeithriaid—yn nghyd i'r lle apwyntiedig o addoliad; yr oedd yr ystafell wedi ei haddasu i'r pwrpas hyn, yn mha le yr ymddangosent oll gyda difrifwch, pwyll, ac eithaf prysurdeb.\* Fidelius ei hun oedd yr offeriad, a'i swydd a roed iddo gan yr Hwn sydd yn caethiwo caethiwed ac yn rhoi rhoddion i ddynion; efe a ddarllenai ran o air Duw yn ystyriol ac yn ddirifol, ac a agorai y rhan hyny gyda gwres, profiad, a goleuni; a'i holl deulu yn ei dderbyn fel o enau yr ARGLWYDD. Yna Fidelius a daer weddiai ar yr ARGLWYDD dros ei deulu, yn nghyda holl ddynolryw, a'i weddi ef oedd fel diliau mêl; ei afael oedd mor gryfed nas gollyngai o DDUW nes rhoi iddo ryw arwydd o fendith: ond ar ol y cwbl byddent sicr o ganu hymn, a thyma y canu goreu a glywais i erioed—torf o ddynion (canys teulu

\* Prysurddeb—difrifwch.



Fidelius oedd aml) â'u holl galon yn moli Duw, ac yn swnio ei glod nes rhoi calon y rhai llesg i ganu a bendithio. Ac yr awr hon, wedi Fidelius farw, mae ei holl dŷ ef eto yn dilyn yr ARGLWYDD yn ddiwahan; ac efe, trwy ei ymarweddiad da, ei gynghorion, a'i ysbryd, a genedlodd fywyd yn eu cydwybodaau nas ymedy â hwynt tra fyddont fyw yn y byd, fel yr wyf yn gobeithio: canys ni fyn ei feibion na'i ferched y dydd heddyw, mwy nag yntau, i gyfeillachu dim â'r byd annuwiol. Ond fel plant Jonadab, mab Rechab, na fynai yfed gwin, er ei daer gymhell ef arnynt, am i'w tad orchymyn felly iddynt; felly hwythau, nis gwnant gyfeillion mynwesol o neb ond y sawl sydd yn teithio tua mynydd Seion (y mae y fath effeithiau daionus gan siamplau da rhieni ar fywyd y plant), ond yn unig a fyddo o bur angenheidrwydd mewn gwlad a chymydogoeth, er mwyn cadw i fyny gariad, heddwch, ac undeb, prynu a gwerthu, yr hyn a drefnodd yr ARGLWYDD er cynal bywyd dynolryw. Yr oedd Fidelius wedi derbyn llawer o'r byd hwn, a'r ARGLWYDD wedi ei fendithio fel y bendithiodd Isaac. Ei dir oedd yn cynyid yn gan' dyblyg, fel nad oedd meusydd cyffelyb i'w feusydd ef trwy holl wlad yr Aipht: ond hyn oedd mor bell o'i roi ef yn gybyddlyd, fel yr oedd ei law yn estyn allan fel yr oedd llaw Duw yn dwyn i mewn. Nis gwelais â'm llygaid un mor haelionus, ac nis clywais â'm clustiau am un mor synwrol a doeth yn cyfranu, yn adnabod ei amser i roi, a'i amser i beidio; gwrthddrychau cymhwys ac anghymwys, a pha roddion oedd oreu i bawb i'w cael. Dillad roddai efe i'r noeth, bwyd i'r newynog, arian i'r angenog, meddyginiaeth i'r claf, cerydd i'r afreolus, cynghor i'r dall a'r anghyfarwydd, rhybudd i'r ffol a'r cyndyn, cymorth, nerth, a dyddanwch i'r weddw a'r amddifad; yn fyr, tad pob gwan a rheidus, brawd pob llwfr a thrafferthus, ac amddiffynfa gadarn i'r hwn fyddai ar gael ei lyngcu gan fwystfilod rheibus y byd hwn, oedd Fidelius; ond eto dialydd ar y rhai oedd yn bwyta pobl Dduw fel y bwytaent fara; ac yn fynych y dygodd efe yr ysglyfaeth o law y cadarn, ac yr anrheithiodd efe y rhai oedd am ddamsang anwyliaid yr ARGLWYDD dan eu traed. Yr oedd y gŵr duwiol hwn yn adnabod ysbrydoedd dynion yn fwy rhyfeddol nag y gallech gredu; fe dreiddiai ei lygaid i mewn i galonau i ddeall gwahaniaeth rhwng tlawd a thlawd, gonest a dichellgar; gwir wrthddrych elusen oddiwrth yr hwn nad oedd mewn eisieu. Rhifedi o weddwon a waredodd efe o ddwyllaw eu gorthrymwyr, lluoedd o amddifaid a fagodd ac a feithrinodd efe ar ei draul ei hun; ei dŷ ef oedd yn dŷ amddifaid, a'i fwrdd oedd bwrdd y rhai diymgeledd. Mae lluaws o blant heini, o

feibion gwrol, ac o wŷr anrhydeddus heddyw yn nhir Ham ag a ddygodd Fidelius i fyny, wedi eu cael yn dlawd, yn noeth, ac yn hollol ddiymgeledd. O, pwy all rifo cynifer un ag a daflwyd allan o'u llety, ag y parotodd ef lety iddynt; fe gywilyddiodd ac a faeddodd eu gorthrymwyr trwy drugarhau wrth y rhai nad oedd rhwymedigaeth arno i wneud da iddynt: ond er hyn oll, nid ydoedd ei sêl byth yn enyn i'r eithaf, na'i galon yn gwresogi byth i'r fath raddau wrth un weithred dda, na phan byddai yn rhyfela o blaid y saint. Nid oedd dyn llareiddiach na Moses tan y nef, eto gwelwch ei boethder dros waith yr ARGLWYDD, a daioni ei bobl. Fidelius fel yntau a enynai yn dân yn achos etholedigion Duw, ac a'u hamddiffynai fel pe buasai ei achos ei hunan; yr oedd yn edrych mai'r gwaith penaf a feddai efe ar y ddaear oedd gwneud daioni i eglwys Dduw; yr oedd holl gorph teml yr ARGLWYDD iddo fel un plentyn; a gosododd ei holl feddylfryd ar eu hamddiffyn a'u hachub rhag geiriau drwg, gorthrymderau, tlodi, gofidiau, a phob maglau ereill oddiwrth y byd a'r diafol, ag allai efe eu cadw rhagddynt. Yma y gwelais gyflawni yr Ysgrythyr am ofalu am y *gwir* weddwon, y rhai sydd nos a dydd yn gweddio Duw, yn amddifad o bob peth ond yr ARGLWYDD. Fe fedrai Fidelius adnabod gwahaniaeth rhwng y rhai hyn a'r rhai gwag siaradus, rhodresgar, ag oedd yn dwyn chwedlau o dŷ i dŷ, ac adrodd pethau nad oeddent weddus; y rhai sydd yn peri anghydfod, terfysg, ac ymrafael rhwng rhai anwyl Duw; ond y gweddwon oedd Fidelius yn dad iddynt, oedd wŷr a gwragedd analluog i weithio, ac wedi rhedeg i dlodi trwy orthrymder neu letygarwch, y rhai oedd yn dwyn gair da gan yr holl eglwys, ac wedi bod eu hunain yn gynorthwyol, ac yn golchi traed y saint; yn awr yn ufudd, yn dirion, yn addfwyn, ac yn ostyngedig, yn chwanog, yn ol eu gallu, i wneud eu goreu i bobl yr ARGLWYDD; rhai o honynt yn hen ac oedranus, ereill o fewn terfynau oedran, fel gwryfyon pur yn gweithio â'u dwyllaw, heb fod yn fodlon i fwyta bara segurddod. Fidelius oedd yn wastad, ar bob siwrnai, yn manwl holi am weiniaid y fydd, gydag awydd i ddilladu y noeth o honynt, a phorthi y newynog, gan edrych arnynt yn mhob gwlad fel tylwyth ei dŷ ei hun; ei frodyr a'i chwiorydd, ei deidiau a'i famau y galwai efe y rhai a gredent yn yr ARGLWYDD; ni flinai efe ar eu cyfeillach, ac ni ddiffygiodd wneud da iddynt trwy ei holl fywyd. Mae llawer cant o honynt heddyw yn gynes yn ngwlan ei ddefaid ef; ac mae celyrnu rhai o honynt wedi cael eu cadw yn llawn brawd, a'u hystenau heb fod yn wag o olew, y naill wedi ei fedd ar ei feusydd ef, a'r llall wedi ei wasgu allan o'i olewydd-lanoedd ef. Dyma y

ffordd yr ydoedd efe yn dewis i wneud â'i foddion, yn lle eu pentyru yn nghyd, fel Avaritius, erbyn dydd dinystr a cholledigaeth. Mae yn wir fod ganddo aur ac arian lawer iawn, a'i olud ydoedd fel golud Job; ond yr oll o honynt oedd rydd ac agored i wasanaeth holl deulu y ffydd, pa bryd bynag y byddai Duw Jacob yn galw am danynt. Hynod uwch y cwbl oedd efe at weinidogion yr efengyl; yr oedd yn edrych ar y rhai hyn fel cenhadon wedi eu hanfon i waered o'r nef i borthi praidd Duw yn yr anialwch. Fe anfonodd amryw o honynt i wledydd pell ar ei draul ei hun, lle yr oedd y bobl mewn tywyllwch mawr, heb glywed erioed am air y bywyd, a'r iachawdwriaeth fawr yn ngwaed yr Oen; y mae rhai o ardaloedd yr India yn ei fendithio, ac yn dyrchafu ei enw hyd y nef, am mai efe oedd yr offeryn a gynhyrfodd yr ARGLWYDD i ddanfôn atynt lusern iachawdwriaeth. Yn nydd cystudd ac erlid gynt yn nhir yr Aipht, pan ydoedd pregethwyr yr efengyl â'u bywydau yn eu dwy-law, y cuddiodd efe haner cant o brophwydi yr ARGLWYDD mewn ogof gydag Obadiah, ac y porthodd efe hwynt yno â bara ac â dwfr, ac a'u cadwodd rhag Jezebel, brenines gwlad yr Aipht, yr hon oedd yn yfed gwaed y saint fel dwfr, ac yn ciniawa bob dydd ar gnawd gweision Tywysog heddwch. Fe gai eisieu fod arno ei hun cyn cai eisieu fod ar brophwydi Duw; nid oedd ei feirch fyth wrth wasanaeth gwell yn ei olwg na phan y byddent yn hol neu yn hebrwng rhai o udgyrn yr efengyl i swnio allan yr iachawdwriaeth fawr yn ngwaed yr Oen. Clywais ef yn llefaru mor oleu a'r wawr fod y creadur yn ocheneidio wrth ddyoddef porthi blys, cyflawni trachwant, a digoni nwydau drwg gwrthgildiedig blant Adda, a'i fod yn awr wedi ei gaethiwo i aflendid dynolryw, ac yn gaethwas i enyn llid, malais, cenfigen, aflendid, balchder, a phob pleser yn un chwant; ond, medd efe, y creadur sydd yn ei le pan y byddo yn porthi, yn cynal, ac yn helpu dyn at wasanaeth y nef. A phwy bynag oedd gynefnin â'i dŷ ef, fe gai weled fod holl drugareddau Duw yn cael eu treulio ganddo er harddwch, ac nid er gloddest a meddwod; dillad er harddwch, ac nid er balchder; y cwbl er help i ymestyn yn mlaen tua'r nefoedd. Cyfeillach Fidelius oedd hyfryd a nefol; cariad oedd yn teyrnasu yn ngwedd ei wyneb; pob gair o'i enau oedd yn tueddu at wneud dynion yn well, yn dduwiolach, ac yn fwy rhinweddol. Os ceryddu, fe'i gwnai yn ddirgel; os cysuro, fe'i gwnai yn gyhoedd; os lladd, lladd er da; os codi, codi yr enaid yn nes i'r nef; ond pa un bynag a'i taflu lawr neu ddyrchafu i fyny, pob peth a wna neu a ddywedai oedd oll mewn cariad.

PERCON.—Ond peth rhyfedd os nad oedd yn cael ei anghredu gan lawer gwrth-ddwyedydd yn ei erbyn; ei erlid, ei wawdio, a'i ddibrisio; canys pwy bynag a fyddo yn byw yn dduwiol yn NGHRIST IESU a erlidir. Mae had y ddraig â gelyniaeth gwastadol yn erbyn Had y wraig; y ddau hyn a wrthwynebant eu gilydd hyd fyth. Peth rhyfedd os nad oedd llawer o wrthwynebiadau iddo, anghyfiawnderau, a gorthymderau yn cael eu gosod arno am ei fod yn gwneud cyfiawnder dros enw y Duw byw. Nid ydych yn son dim am ei groesau, ei gystuddiau, a'i brofedigaethau; pa fodd, atolwg, y cafodd y ffordd mor esmwyth a hyn i'r nef? Nid oes genych ond torfeydd o rinweddau allanol, tymherau hyfryd ag y gall llawer o honynt fod mewn natur na chenedlwyd erioed o DDUW. Dymunwyf gael clywed son am ei groes ef; canys y mae yn rhaid codi hono cyn y gellir cyflawn ddilyn yr ARGLWYDD: am hyny, os cafodd efe hwynt, pa fodd yr ymddyggodd danynt? Ai maddeugar dan bob dirmyg, gwawd, ac erlid? Ai addfwyn dan bob croes, cystudd, a rhagluniaeth wrthwyneb, neu ynte fel arall?

CANT.—Nid oedd Fidelius yn rhoi achos i neb i'w wrthwynebu, nac ychwaith i roi drygair iddo; ond yr oedd ei haelioni, ei diriondeb, ei gymwynasgarwch, tebygid, yn abl gorchfygu pawb o'r byd; eto, rhwng y genfigen hon sydd yn blino am, ac yn llidio wrth y sawl a lwyddo yn y byd, ac a gynyddo mewn parch, golud, neu enw; yr elyniaeth hono sydd yn erbyn gwir ras yn mhob dyn wrth natur, yn nghyda'r llid hefyd sydd gan ddiabol at ddelw Duw yn mhawb, a berodd enynu mewn llawer o bobl wrthwynebrwydd i Fidelius. Ond, fel Moses gwas yr ARGLWYDD, ei DDUW a'i hamddiffynodd ef; a'r golofn dân a safodd goruwch ei babel yn mhob cyfyngder a chaledi. Rhai a geisiasant dduo ei enw, ond trodd hyny allan er parch iddo; rhai a'i dirmygasant ef i'r radd uchaf, ond ni thynwyd cufydd oddiwrth ei faintioli trwy hyny. Pwy all gyfrif pa mor fynych y bu efe yn nod i saethau rhai anwir? Ni allaf lai na meddwl am Joseph wrth gofio am dano; gwr oedd wirion, diwair, a ffyddlon, yn cael cam-achwyn arno fel pe buasai euog o'r camweddau duaf; ei enaid a roddwyd mewn heiyrn, a'i draed mewn cyffion, er na chafwyd twyll yn ei enau, nac anghyfiawnder yn ei fywyd. Felly Fidelius; drwg-ewyllys a malais oedd yn ei amgylchu fel goleu y dydd; ond nis beiddient wneud niwed iddo, nac yn fynych ddadguddio y drwg-ewylllys oedd yn eu calonau ato; canys Duw a osododd ei ben ef uwchlaw ei elynion, a'i ofn ef oedd arnynt. Yn y tywyllwch yr oedd eu nerth, a thu cefn iddo yr haerent yr anwiredd. Yno y condemniwyd ef amryw weithiau am bethau

nas gwyddai o'ddi wrthynt; ond yma cafwyd gweled ei amynedd ef, ac yma y cafwyd prawf o'i ysbryd. Yn nydd y dirmyg ni roddodd ddant am ddant, a sen am sen; ond o'r tu arall, fe gauodd ei glustiau rhag gwrandio sisial dynion segur, ac ni chredodd fod y chwedl mor ddued ag y mynegid iddo. Fe gerddodd y rhai oedd yn dwyn newyddion o dŷ i dŷ, ac a ddymunodd gael llonydd i wrando ar bethau mwy sylweddol, y rhai, medd efe, oedd i'w cael yn yr Ysgrythyrau, ac yn ei gydwibod ei hun; ac fe weddiodd yn daer dros ei erlidwyr—"O Dad, maddeu iddynt, canys nis gwyddant pa beth y maent yn ei wneuthur." Rhai oedd yn rhyfeddu os dyoddefai efe i'w ysbeilio yn llawen, ond hyn a wnaeth yn siriol er mwyn efengyl CRIST, pan nad oedd un ffordd i helaethu teyrnas Immanuel well na dyoddef talu y *fees* anghyfiawn; ac er ei fod yn ddigon abl i amddiffyn ei hun pan y byddid yn duo ei enw, eto, am achosion nad oedd gogoniant yr efengyl yn gorphwys arnynt, gwell oedd ganddo, pan y tarewid ef ar y rudd ddeheu, i droi y rudd aswy hefyd nag ymddial; a phan y dygid ei gochl ef, gwell ganddo, na blino ei ysbryd mewn cyfraith am werth cyn lleied, i ymadael â'i bais hefyd; canys yr oedd ei olwg ar ogoniant efengyl Duw. Rhyfeddodd Ultorius os dyoddefai dduo ei enw ac yntau yn ddiueog, ac yn ddigon abl i amddiffyn ei hun; ond er syndod iddo ef ac i baw yn y gymydogeath, fe gadwodd ei amynedd, ac a faddeuodd i'w ddrwg-ewyllysiwr; a pha gyntaf y daeth ar ei law i wneud cymwynas, fe'i bendithiodd ef, ac a wnaeth ddaioni annysgwyliadwy iddo, yr hyn a barodd i'r dyn cyndyn hwn i beidio cynyg gwneud drwg iddo mwyach. Rhedodd gair am Fidelius, os oedd neb am ddysgwyl cymwynas ar ei law ef, iddo wneud niwed iddo; ond eto mor faddeugar ydoedd am drosedd yn ei erbyn ei hun, ac er mor farw ydoedd i'w enw ei hun, eto nid oedd felly i enw nac achosion ei frodyr na'r efengyl, yr hon oedd yn nes ato na'i einioes ei hun. Pan gododd pendefig ardderchog o'r wlad hono un tro yn ei erbyn ef, gan wahardd pregethiad y Gair o fewn i'w dŷ, yr hwn oedd ganddo fel teml agored i brophwydi yr ARGLWYDD, ac yn ganlynol i'w daflu allan o'r holl ardal hono, a gwneud i Fidelius dalu *fees* dau-ddyblyg am iddo dderbyn Gair y Ffydd o dan ei gronglwyd; y pryd hyny yr ymwrolodd efe yn yr ARGLWYDD, ac yn noethineb ei DDUW, gan osod yr achos o flaen yr uchel-swyddogion, ac a ddaliodd y peth yn wrol ac yn ddilwfr o blaid y ffydd, yn fodlon treulio a feddai yn y byd ar y fath achos ag oedd yn perthyn i iachawdwriaeth eneidiau dynion: ac yn gwybod bod cyfraith y llywodraeth o'i blaid, fe enillodd y dydd, ac a gafodd rwydd hant i'r efengyl fyned trwy holl wlad yr

Aipht. Byth nid oedd mor ddibris ac mor iach am achosion ereill ag am ei achosion ei hun, canys yna fe geryddai yn llym y rhai oedd yn duo eu henwau, ac a gosbodd amryw ag oedd yn treisio teulu y ffydd, ac a fynodd amserau mwy heddychlon, trwy gosbi drwg weithredwyr, a dial ar elynion yr ARGLWYDD, fel Dafydd, y gŵr oedd wrth fodd calon Duw. Ac i'r dyben hyn fe bwrcasodd iddo ei hun swydd oruchel ac arbenig yn y wladwriaeth, fel y gallai gael gwell llonydd i'r gwirionedd fyw, a gwell rhydd-did i bregethu Gair y deyrnas. Yn fyr, yr un peth oedd gwneud niwed i gredadyn ag i ganwyll ei lygad ef, mor gu oedd ganddo y saint o bob enw; ond fe adawai i amryw i'w felldithio ef ei hun, ac a ddywedai, "Gad iddo; yr ARGLWYDD a archodd iddo." Un digyffelyb ydoedd yn ei holl ymarweddiad—manwl, gwresog, a gwyliadwrus yn ei ddyledswyddau at DDUW; cywir, gonest, a didderbyn wyneb at ddyn; sobr, cymedrol, a hunanymwadol ato ei hun.

PERCON.—Rhinweddol a hyfryd oedd ei ymarweddiad a'i fywyd cymwynasgar a hawdd ei drin; caredig i'w gyfeillion, a maddeugar i'w elynion; a chredu yr wyf mai gŵr da a duwiol oedd Fidelius. Ond mae moesoldeb yn myned yn mhell, a hunan-gyfiawnder sydd yn myned yn mhellach; ac edrychwch ond ar Eglwys Rhufain—pa drysorau anfeidrol roddodd miloedd o'r rhai hyn at achosion eglwysig, i borthi tlodion, gweddwon, ac amddifaid,—y rhai oeddent hwy yn dybied fod felly o leiaf? pa sel sydd ganddynt at eu heglwys eu hun? Pa gyfiawnder a roisant at weddw-dai, mynachlogydd, a chapeli? Pa luaws o offeiriaid, monachod, a monachesau sydd heddyw yn bwyta bara o'u hydlanau hwy? Ond nid oes nemawr o'r rhai hyn yn adnabod gwaith gras ar eu calonau, nac yn adnabod yn deimladwy awelon Ysbryd Duw. Eu holl ddiwydrwydd yn eu haddoliadau, a rhifedi eu gweddiau sydd yn sawri yn rhy drwm o hunan-gyfiawnder, ac ymgais am brynu y nef. Ond er mai o ryw arall yr oedd Fidelius, eto da genyf fyddai clywed pa sut yr ydoedd am y cyfiawnder sydd o ffydd; ac a ydoedd efe yn ymwadu â'r hwn sydd o'r ddeddf.

CANT.—Ni welais nemawr yn rhagori arno yn y pwnc hwn; chwi debyg'sech, o ran ei fanlyrwydd i ymwadu â hunan-gyfiawnder, mai Antinomian ydoedd efe, ac wrth ei ymegniadau mewn dyledswyddau a'i ddiwydrwydd i arferyd moddion gras, mai Arminian ydoedd; ac wrth wastadrwydd ei fywyd a'i foesoldeb allanol, mai un o'r hen philosophyddion a gododd oddiwrth y meirw oedd efe. Anhawdd oedd cael dyn trwy y fro hono ag oedd yn dyrchafu CRIST yn fwy nag yr oedd efe; ei ymfrost oedd bod CRIST yn gyfiawnder,

sancteiddrwydd, yn ddoethineb, ac yn brynedigaeth. Ac yr oedd efe mor glir yn yr achos hyn fel yr oedd sylwedd ei gynghorion, bywyd ei athrawiaeth, yn nghyda holl lais ei weddiau, yn cerdded ar hyd llwybrau rhad ras a chyfiawnder y Croeshoeliedig. Dyma brif bwnc ei bleser ef, dyma'r tant chwareuai fynyachaf arno; ac am y prif bwnc hwn yr oedd yn canmawl cymaint ar yr hen ddiwygwyr—Luther, Calfin, Huss, a Melancthon: yr athrawiaeth hon, meddai efe, oedd tegwch mwyaf yr hen Buritaniaid: mynych y clywais ef fy hun yn gosod allan yn rhyfedd oleu, mai o eisieu deall manylwydd cyfraith Duw, yr hon sydd yn myned i mewn at yr arenau, ac yn barnu dirgel fwriadau y galon, oedd yr achos bod Cristionogion yn gosod i fyny eu gweithredoedd eu hun yn lle cyfiawnder y groes; ac am nad oeddent wedi cael golwg ar sancteiddrwydd yr Hollalluog, yr Hwn sydd mor bur fel y mae yn gweled ynfydrwydd yn ei angylion, ac nid oes dim yn bur yn ei olwg; a mynych iawn yr oedd yn dangos pechodau, dyledswyddau, gweddïau, ymprydïau, elusenau, a hefyd holl ordinhadau hyfryd yr efengyl, tuag at gael yr addolwyr ymaith o bwysu arnynt, heb ymddiried mewn dim, nac ymfrostio mewn dim, ond yn ngwaed yr Oen. O y melusdra ddywedodd ef iddo gael lawer gwaith yn yr Ysgrythyrau yma, Dat. viii. 3: "Ac angel arall a ddaeth (yr hwn oedd CRIST yr ARGLWYDD) ac a safodd ger bron yr allor, a thuser aur ganddo: a rhoddwyd iddo arogl-darth lawer, fel yr offrymai ef gyda gweddïau yr holl saint ar yr allor aur, yr hon oedd ger bron yr orseddfaingc." Mat. i. 21: "Gelwir ei enw Ef IESU, oblegyd efe a wared ei bobl oddiwrth eu pechodau." Jer. xxiii. 6: "A gelwir ei enw Ef, Yr ARGLWYDD ein cyfiawnder." Esay xlv. 24: "Yn yr ARGLWYDD, medd un, y mae i mi gyfiawnder a nerth." Hyn oll oedd yn dangos ei fod ef yn uniongred yn yr athrawiaeth o rad ras yn NGRIST.

PERCON.—Ond pa sect, pa enw o ddynion, pa ryw ddysgyblaeth, ac yn mha fath gynulleidfa yr oedd efe mewn cymundeb?

CANT.—Chwi ryfeddech ei ysbryd a'i farn ef am sectau; yr oedd hyd y nod yn ffeiddio yr enw ynddo ei hunan, bydded hen neu newydd; a llawer tro y clywais ef yn dywedyd mai balchder pregethwyr y gair, trwy eu bod am gael enw, yn fyw ac yn farw, oedd yr achos i amryw o hon-ynt dynu dynion atynt eu hunain, yn lle at ARGLWYDD mawr y cynhauaf; a bod dynion hwythau mor barod i wneud delw-addoliaeth o'u gilydd, os nid mwy parod, nag o un creadur arall pa bynag; a bod y cyffredin bobl, pa bryd bynag y clywont areithiwr da, a chael ond ychydig fias

dan ei athrawiaeth, yn barod i'w osod ef i fyny fel Herod gynt, yn lle Duw, a'i galon yntau yn goglais cymaint yn y cyfryw ddyrchafiad, ac ymlyniad y bobl wrtho, fel y byddai yn ymfalchio ac yn ymchwyddo o'r enw newydd ag mae ef am godi, ac ereill mor wag a'i gyflwyno iddo. Yna barna ef a'i ganlynwyr fod y sect newydd hon yn well nag un o'r hen sectau ag sydd a'u henwau wedi rhydu. Ac o'm rhan fy hun nid wyf yn mhell o fod o'r un farn a Fidelius yn y pwnc hwn, pan wyf yn gweled gweinidogion ag sydd wedi eu codi ychydig i fyny o'r dom mewn doniau, pan enillont rai dynion i'w pleidio, yn gwresogi o blaid sect yn fwy nag o blaid efengyl Duw; ac am enill dysgyblion iddynt eu hunain yn fwy na dychwelyd eneidiau o gyfeiliorni eu ffyrdd. Ac yr oedd efe yn cadarnhau fy marn i o ddydd i ddydd, trwy ddangos nad oedd dim rhagor sel am un pwnc o'r ffydd, neu am doriad un gorchymyn o'r gyfraith, nag sydd am enwau, sectau, a barnau dynion. Pa bryd y twymo, eb efe, ac y gwresoga dyn ragor na phan y bo ei sect ef yn cael ei diystyru? nid oes na llw na rhag, na meddwdod na chyfeddach, na balchder na malais, nas maddeuir yn gynt na phechu yn erbyn yr enw hynny o ddynion ag a fo efe yn broffesu. Hyn, a chyffelyb i hyn, a berodd i Fidelius beidio cyfenwi ei hunan ar un enw mwy na'r llall; ac ni fynai chwaith yn hollol i roi ei hun i farn un difnydd neillduol mewn pwnc o athrawiaeth; na chylymu ei hun wrth un gredo a gyfansoddodd Arminius, Baxter, Pîsgator, Calfin, Luther, neu rai ereill o dduwin-yddion mwy neu lai iachus na'r rhai hyn, am eu bod oll wedi rhedeg gormod ar ol eu deall eu hunain, a throï yr Ysgrythyrau at eu pynciau eu hunain ormod, a gwneud bob un wrhydion meithion o athrawiaethau, a rhoi enwau arnynt ag oeddent hwy yn tybied eu bod yn cytuno â'u gilydd, ac yna yn ceisio eu profi allan o air y gwirionedd. Ac at ddwyn hyn i ben y darfu iddynt ranu geiriau, briwio athrawiaethau, hollti yn ddau wirioneddau na holltodd gair Duw mo honynt. Yn fyr, yn lle goleuo y Beibl, ei dywyllu; ac yn lle ei ddwyn i fod yn dyst, ei wyrdroi at eu pynciau eu hunain; yn lle ymofyn eu pynciau o'r Beibl, ymofyn Beibl i gadarnhau eu pynciau, bid hwy uniongred neu gyfeiliornus; hyn, meddaf, a osododd Fidelius i ddarllen gair Duw yn fynyach ac yn fanwl, ac i dderbyn ei holl wirioneddau o enau Duw ei Hun, heb ymholi rhagor pa un a oeddent yn cytuno â'u gilydd ai peidio; ond credu y gair gyda thad y ffyddloniaid, yn unig am fod Duw wedi ei lefaru ef, a gadael yr Hwn a'i llefarodd osod un rhan i gydsynio a chydgordio â'r llall. Y Beibl mawr oedd corph difinyddiaeth Fidelius, ac ynddo yr oedd



yn myfyrio nos a dydd. Ond am ei gymundeb eglwysig, yr oedd efe yn caru cymundeb lle yr oedd athrawiaeth y ffydd fwyaf goleu, ac ysbryd y nef yn disgyn ar y bobl fwyaf pwerus ac awdurdodol; ac am hyny efe a roddodd ei hun i eglwys un Polemistus, a gyfenwid felly am ei fod ei hunan megys yn ngwlad yr Aipht, yn rhyfela o blaid y ffydd, athrawiaeth pa un oedd o rad ras, ac ysbryd pa un oedd yn fywiog; ac nid oedd efe fyth yn eisieu yn y lle hwn nes byddai rhag-luniaeth yn atal; eto fe gymunai yn awr a phryd arall pan oddi cartref gydag unrhyw gynulleidfa fyddai â ffydd yn NGHRIST, dan gredu nad oedd bendith yr ordinhad yn gorphwys cymaint ar deilyngdod y cyd-gyfranogion ag yr oedd hi ar heddwch a phresenoldeb Duw i'r enaid: pleser rhyfedd oedd gan Fidelius gymysgu ei gyfeillach â seintiau Duw o bob gradd, sect, ac enw dan y nef; am ei fod ef â'i holl egni am chwanegu cariad, a chryfhau rhwymyn tangnefedd. Nid oedd ef braidd fwy croes i ddim na'r ysbryd cul sydd gan Gristionogion at eu gilydd nas gallant feddwl crystal am neb ag am rai o'u sectau eu hunain. Mae hyn fel pla gwahanglwyf ag sydd yn glynu wrth ysbryd myrddiynau o bobl; ac yr oedd Fidelius yn ei ffeiddio ac yn ei geryddu yn mhawb ag y ffeindiai ef ei fod ynddo: a'i farn ef oedd mor gariadus, a'i ras mor dyner, fel os byddai i un syrthio i ryw fai, neu oeri yn ei ysbryd oddiwrth DDUW, nis gallai yr addfwyn ddyn ei roi ef i fyny, ond hir ymarhous oedd efe, yn dysgwyl bob dydd am ei ddychweliad, gan ei rybuddio a thaer weddio Duw drosto, ac ofni yn galed rhag iddo ef ei hun syrthio i'r unrhyw, neu i waeth magl ryw ddiwrnod. Y goreu un a welais i erioed oedd Fidelius i gadw dirgelion yr eglwys; yr un peth oedd dweyd *counsel* wrtho a dweyd wrth y mur ceryg; fe'i cadwai fel nas cai gwynt afael ynddo; am hyn llawer oedd yn dyfod ato i wneud eu hachwynion; fe gysurai rai, ac a gynghorai ereill, ac a weddiai dros bawb, ac amryw a gafodd waredigaeth o'u profedigaethau wedi achwyn wrtho ef; canys Duw a wrandawodd ei erfyniau drostynt, ac a fendithiodd ei gynghorion iddynt; ac am eu pechodau, eu profedigaethau, a'u gwendidau, fe'u celodd tra fu byw yn y byd.

PERCON.—Chwi adroddasoch lawer am ei fywyd allanol, ei athrawiaethau, ei ddysgyblaethau cartrefol, ei haelioni, ei gymwynasgarwch i ereill; ond a fuoch erioed yn ymddyddan âg ef am ei brofiadau tumewnol? am gysuron a dylanwadau Ysbryd y gras, nerthoedd y nefoedd, congwest pechodau tumewnol, buddugoliaeth ar uffern yn rhyfela yn erbyn yr enaid; goruchafiaeth ar ofn angeu a marwolaeth; y llawenydd annrhaethadwy a gogoneddus, etifeddiaeth y saint, &c.?

Mi wn nad oedd efe ddim yn amddifad o'r rhagorfreintiau hyn, eto pa gyflawnder oedd efe yn ei gael sydd arnaf chwant gwybod; a pha un a oedd yn ei gernodio yn galed gan ddiabol? Ac os ydoedd, pa ddull yr oedd yn cario y dydd?

CANT.—Rhy faith yw adrodd haner a ddywedodd efe wrthyf am y pethau hyn; ac mi wn nas dywedodd i mi y ddegfed, os dywedodd y ganfed ran o'i brofiadau yn y rhyfeloedd poethion yma. Nid oes fawr o un a glywais i son am dano ag a gafodd bicellau mwy tanlyd nag efe, heb son am ddyfnder ei argyhoeddiadau, a'r curo fu arno gan Satan pan y galwyd ef allan o Ur y Caldeaid; trwy amheuaeth, anghrediniaeth, cabledd, calon-galedwch, a myrdd o wasgfeuron ereill oddiwrth yr ysbryd drwg; oddiwrth ba rai y cafodd ef ei wared pan y gwawriodd dydd arno, ac y cododd y seren ddydd ar ei ysbryd ofnus; ac y tystiolaethwyd iddo ei fod ef yn blentyn i DDUW, yn aelod i GRIST, ac yn etifedd i deyrnas nefoedd; heb son am y rhai hyn, meddaf, pa dorfeydd mawrion o elylllon uffernol fu yn curo arno ar ei daith trwy yr anialwch mawr! Ar ol hyn yr oedd dychryn arnaf wrth ei glywed ef yn siarad am danynt; ond yr oedd efe yn addef wrthyf nad oedd efe yn abl adrodd ei wasgfeuron mwyaf, o ran eu bod tu hwnt i nerth dyn i ddal danynt. Fe ranodd ei brofedigaethau i mi yn dri math: sef yn gyntaf, y rhai oedd efe yn alw picellau tanlyd y gelyn Satan, y rhai sydd yn llymion ac yn gryfion fel saethau cawr, ac mor wenwynig ag y gall Satan eu gwneuthur; y rhai hyn sydd ddigyfrwng oddiwrth elyn dynolryw, ac yn gweithio ar y natur elynol i DDUW, ar anghrediniaeth, ar ddeall tywyll, nes gwneud terfysg di-gyffelyb; dyma y meddyliau cableddus sydd fel mellt yn trywanu trwy yr holl ymysgaroedd, yn ceisio tentio yr enaid i anghredu nad oes na DUW, na nefoedd, nac uffern, nac angel, na CHRIST, na Beibl nac iachawdwriaeth. Dyma y picellau sydd yn ceisio gan yr enaid feildithio DUW a marw! O y fath boenau sydd yn y rhyfel hwn! Yma bu Fidelius yn chwysu yn galed wrth weddio yn erbyn myfyrdodau cableddus ag oedd yn difamer ei esgryn ef; dyma fath o demtasiynau ac y dywedodd wrthyf ddarod iddo ddyoddef yn galed; ond deall yr oedd mai gwasgfeuron y gelyn oeddynt, ac ychydig raddau o'r cabledd anobeithiol sydd obry yn nghanol y fflamau tân; y rhai oedd yn codi i fyny fel gwreichion, ac yn cael eu gwithio gyda sawyr uffern i mewn i'w ysbryd lluddedig ef. Ond, ebe efe, nis caiff y rhai hyn eu cyfrif i mi, ond i'r diabol, ag sydd yn eu gyru hwynt o orchest, canys yr wyf yn meddwl nad oedd o'r cydsyniad lleiaf rhyngwyf â hwynt.

Yr ail fath o brofedigaethau chwerwon a gafodd efe ydoedd oddiwrth y creadur—y byd hwn a'i wrthddrychau amrywiol. Prin, ebe efe, na lithrodd fy nhroed, ac na wyrodd fy ngherddediad, wrth fod harddwch, defnyddioldeb, gwerth-fawrogrwydd, a gogoniant pethau presenol yn taro gyda gwres a bywyd ar holl serchiadau gwamal fy enaid; ac â'r rhan hyny o honof ag oedd yn gnawd, yn drachwant, ac yn wrthgiledig, oedd yn blasu, yn ymhyfrydu, ac am gael rhagor o fwynhad o'r creadur yn y dull uffernol hyny. Llais, ystwr, a murmur y ddaear a ddoi i mewn i'm clustiau gyda blas; newyddion am ddyrchafiad, parch, a gogoniant ereilly enynai ynwyf flys am fwynhau yr unrhyw, nes deuai Ysbyrd yr ARGLWYDD fel dyfroedd melusach i yru y blas hwnw ymaith. Mi brofais, ebe efe, fod y llygaidd yma yn fy mhen wedi eu halogi yn nghwmp Adda; ac yr awr hon eu bod yn cytuno â gwrthddrychau gwag y byd, ac yn enyn tân trwy holl droell naturiaeth; trwy y ffenestri hyn y daw torfeydd o elynion i mewn—chwant y cnawd, chwant y llygad, a balchder y bywyd, mewn cydsain anwahanol; a hwy wthiant i mewn trwy y pyrth hyn, nes doddi holl natur fel marwor tân llosgedig am fwynhau y gwrthddrychau y byddo y llygad wedi eu dewis i fod yn bleser iddo ei hun. Galluoedd y nef, ebe efe, yn unig a'm cadwodd rhag fy chwant, a grym tragwyddol fu yn amddiffynfa i mi yn nydd y frwydr; nis deallais erioed cyn fy mhrofi fod cwmp dyn wedi gwneud y fath briodas rhwng natur a'r creaduriaid; ac yn awr nid rhyfedd genyf fod pob dyn heb adnabod Tywysog y Bywyd yn nglŷn wrth y creadur mewn rhyw ddull neu gilydd; mae y myrddiynau sydd o deganau yn y byd, ac o amrywiaethau yn y creadur, yn awr wedi eu troi i fod yn gynifer o rwydau a maglau i ddal eneidiau, rhag eu dychwelyd at yr ARGLWYDD. Nid oes dim a wel llygad dan y nef nad yw yn brofedigaeth iddo; a hyn a wnaeth i mi lawer pryd ddiffasu ar y byd hwn a'i holl weniath, a breffu am fyned i wlad nad oes un palas goreuog, dim meusydd meithion, blodeuog, na gwastadedd, yn feichiog ar gnwd tor-eithiog i ddenu llygad ar eu hol; dim meirch a cherbydau, a phendefigion o'r radd uchaf yn marchog ynddynt, i enyn chwant i fod yn gyfranog o'r un pethau; gwlad heb y myrddiynau o wag wrthddrychau sydd yma i'w cyfarfod bob awr, gwlad sydd yn well na brynau yn llawn defaid, dolydd yn llawn gwartheg, ac yn rhagori ddeng mil o weithiau ar luosogrwydd cyfoeth Job. Mae ynwyf, ebe Fidelius, yn drydydd, dorfeydd meithion o nwydau afreolus a drwg, y rhai sydd bob dydd yn cymeryd rhyw wrthddrychau allanol i mewn iddynt, y rhai sydd yn eu crasu, ac o'r diwedd eu henyn ar

dân—tân uffern; i garu yn anghymedrol boeth un gwrthddrych neu bleser, a chasau cymaint arall ar ryw wrthddrych gwrthwyneb; ymddiried yn, ac hyderu ar un creadur i'r radd uchaf; ac ofni, i'r gwrthwyneb, yn afresymol ryw creadur arall, ac nas rhaid ofni mo hono; fy serchiadau hyn sydd yn pryd yn dymuno yn rhy danllyd yn peth ag na f'o er lles i mi, a phryd arall yn ffeiddio yn ddireswm yr hyn allo wneud daioni i mi. O, fel yr wyf ar yr awr hon yn llawenhau am lwyddiant y creadur i mi; ac o ran fy mod wedi cael ei fwynhau i'r eithaf, a'm blys wedi cael ei borthi hyd ag yr oedd yn gofyn; ond yn y man yn tristau yn anghymedrol am iddo fyned yn eisieu arnaf, er ei fod yn well i mi ei golli na'i fwynhau. Fel hyn mae fy serchiadau i wedi ehedeg o'u lle yn y cwmp, ac wedi myned mor afreolus, terfysglyd, ac annhrefnus, nad ydynt ond enyn tân gwyllt a dyeithr oddiwrth yr holl wrthddrychau fu yn y byd; a phan y methont ffeindio gwrthddrych i maes ag allo eu henyn i lid, i gariad, i obaith, i law-enydd, i dristwch, hwy gofiant am wrthddrychau pell, neu hwy ddychymygant rai newydd; ac felly lawer pryd enynant dân wrth eu gwres eu hunain. Ond yr ARGLWYDD, eb efe, a'm gwaredodd, nas cefais fod yn gaethwas i'm nwydau hyn; ond fel yr oeddent yn curo arnaf, felly Duw a'm nerthodd nas cefais fod yn hollol dan eu traed, ond a roddodd fuddugoliaeth yn ei werthfawr waed ei Hun. Ond gweled y nwydau hyn ynddo ei hun fu un o'r moddion cryfaf yn llaw yr Hollalluog, yr Hwn all droi pob drwg er daioni, i ddarostwng balchder Fidelius, ac i fagu ysbryd tirion, tyner, maddeugar, a hawdd ei drin ynddo at bob dyn; ac i'w roi ef yn berchen ar y cariad hwnw ag sydd yn credu pob dim, yn maddeu pob dim, yn ymaros â phob dim, ac yn gobeithio pob dim.

PERCON.—O mewn, mae'n debyg, yr oedd y rhan fwyaf o'i brofedigaethau ef?

CANT.—Yr ydych yn camsynied, canys cymaint, agos, gafodd ef o guro arno o maes; o herwydd nid yn unig lliid, malais, a chenfigen yr annuwiol oedd am ei ddyfetha, ond hefyd rhagluniaethau croes a chystuddiau yn y corph, cystal a rhai yn ei enaid; a chafodd lawer o'r rhai hyn oddiwrth berthynasau, ac hyd y nod y dynion agosaf—tad, mam, brodyr a chwior-ydd, gwraig, a phlant hefyd, yn gosod llwythau trymion o feichiau ar ei ysgwyddau yr un diwrnod. Fe fu Fidelius yn trafaclu y byd yn mhell ac yn agos, ac nid ychydig gystuddiau a threialon a gafodd ef o'r goror hwnw; fe fu ddwywaith neu dair ar fin priodas â rhai ag sydd heddyw yn y bedd, wedi i angeu eu tynu ymaith rai diwrnodau byrion o flaen y cwlwm. Fe gladdodd blant teg yr olwg, meibion a merched doeth a synwrol, mewn hyfryd oed; fe ysgubodd y bedd ei



deulu ef unwaith neu ddwy yn mron o ben bwy gilydd. Fe gwmpodd unwaith wialen Duw ar ei anifeiliaid ef, fel anifeiliaid Job; ond yr ARGLWYDD a'i daliodd â'i law. Fe gafodd gystuddiau corphorol, fel y rhoddodd y physygyr ef i fyny fel heb obaith; ond mwy na'r cwbl, y loesion a'r gwasgfeuon a gafodd efe oddiwrth eglwys DDUW; hon oedd ei deulu, ac am hon yr oedd yn gofidio ei enaid gwerthfawr o ddydd i ddydd; gwasgfeuon a gafodd oddiwrth hon a'i gwasgodd ef i lawr i'r ddaear; ond eto, er y cwbl, fe gafodd nerth gyda Duw, ac a orchfygodd, ac a ddaeth allan o honynt fel aur wedi ei buro trwy dân.

PERCON.—Diau yw nad oedd rhyfelwr mor fawr ddim heb gael llawer o ddyddanwch y nef o'i fewn i'w ddal i fyny dan yr holl bethau a ddywedasoeh; a da fyddai genyf pe myneg-ech rai o'i brofiadau tu-mewnol ef: pa awelon hyfryd, pa dystiolaethau cedyrn, pa heddwch tangnefeddus, pa oleuni dysglær, a pha gysuron melus oedd efe yn eu cael gan ei DDUW yn erbyn yr holl wrthwynebiadau oedd yn gwasgu arno, o uffern a marwolaeth?

CANT.—Wrth siarad âg ef am y pethau hyn y cefais yr odfaon mwyaf hyfryd ag a brofodd fy enaid er pan ddaethum i adnabod awelon Duw. O! y fath flas wrth fynegu i mi yr holl gyfeillgarwch nefol fu rhyngddo ef a'r ARGLWYDD! Yr wyf yn cofio iddo ranu ei brofiadau tu-mewnol i bedwar math. Yn gyntaf, heddwch cydwybod gwastadol, yr hwn, medd efe, oedd yr ARGLWYDD yn ei adael iddo gan mwyaf trwy gydol y dydd a'r nos er ys llawer o amser aeth heibio; ond rai prydiau gwelodd ei hun yn gwyro o lwybrau Duw, ac fel cosb am ei anwyliadwriaeth, yr ARGLWYDD a symudodd ei heddwch a'i dangnefedd heibio dros ychydig amser; a'r heddwch cydwybod hyn, fel y dywedodd wrthyf lawer gwaith, oedd mor felus i'w enaid a dil mêl; hwn oedd yn tynu ymaith ofn gair drwg y bobl; pob gwawd, anair, dirmyg, a diystyrwch oedd yn myned yn ddim o flaen yr heddwch tawel yma; dyma y tangnefedd ag oedd yn gyru tuchan ymaith, fel y gyr y wawr oleuni o'i blaen, ac yn gwneud y bywd garwaf yn felus, a'r dwfr glân fel gwin llysieuog; ac yr oedd efe am gadw yr ysbryd hwn fel ei drysor goreu; a thyma yr achos yr oedd yn cymeryd cymaint o ofal wrth siarad, wrth brynu, wrth werthu, neu unrhyw fasnach ddaearol, rhag iddo gam-ddywedyd neu gam-wneud, a cholli yr heddwch anwyf hyn, yr hwn oedd fwy parod erbyn awr o glefyd na'r aur melyn.

PERCON.—Mynegwch yr ail ryw o'i brofiadau tu-mewnol.

CANT.—Dylanwadau hyfryd o'r Ysbryd nefol, y rhai oedd ef gan mwyaf yn eu cael yn ordinhadau Duw, y Gair a'r

sacramentau, gweddïau a mawl; ond yn benaf mewn rhyw gyfyngder caled, wrth ymdrechu â Duw, fel Jacob; y gofidiau oedd yn agor ei galon i dderbyn gogoniant y nef, ac yn ei ddodi yn felus anfeidrol iddo; yr oedd y fath fwynhad o DDUW iddo fel gollwng carcharor o'i garchar, neu fel yr hwn yr aethai barn marwolaeth drosto, yn cael ei ollyngdod gan y brenin; yr hwyl nefol hon oedd yn ei godi ef uwch swm y byd a'r creadur mor bell, na fyddai yn rhifo yr oriau, na meddwl am dymhorau y flwyddyn; ond yn gyflawn o'r Ysbryd Glân, yn profi y llawenydd annhraethadwy a gogoneddus hwnw sydd yn nefoedd ar y ddaear; ac yn fynych ar ol tymhestloedd o amheuaeth, anghrediniaeth, tywyllwch, cabledd, a phrofedigaethau ereill o eiddo y fall, y byddai yr ARGLWYDD yn gwawrio arno y tymhorau hyfryd hyn, y rhai oedd felusach na goleu y dydd i'r pererin traferthus a ddyrysodd yn yr anialwch trwy gydol faith y nos; neu y morwr a welo dir yn nghanol ei holl ofnau: dyma ysbryd a wnai ei holl alar a'i anghrediniaeth i droi yn llawenydd.

PERCON.—Y trydydd rhyw o'i brofiadau, bellach.

CANT.—Goleuni rhyfeddol oedd efe yn ei gael rai prydiau; nid yn unig yn ei galon ei hun, i'w hadnabod hi yn well, ond hefyd yn yr Ysgrythyrau, ac o galonau rhai ereill, i adnabod dyben ysbrydoedd dynion, ac i'w chwilio hwynt yn well nag y gallent eu chwilio hwynt eu hunain; fe godai y wawr-ddydd hyn arno yn fynych wrth ymddyddan yn yr eglwys; wrth holi ereill; neu dan bregethau awdurdodol Gair y bywyd; ac wrth ddarllen Gair y ffydd; wrtho ei hun mewn myfyrdodau, gweddïau, ac ymddyddanion yn fynych. Mi clywais ef yn cael cymaint goleuni i ddweyd am ei gyflwr ei hun, ac i holi ereill am eu cyflyrau, fel ag y credodd amryw yn ddi-amheuol fod cyflawnder o DDUW gydag ef, ac mai y nef ei hun oedd yn llefaru trwyddo.

PERCON.—Mynegwch y pedwerydd rhyw o brofiadau oedd ganddo.

CANT.—Y rhai hyn oedd ysbryd o gadernid a nerth ag oedd y nefoedd yn roddi iddo wrth raid: cadernid ffydd i greu yn sicr ei fod ef ei hun yn wir etifedd teyrnas nefoedd; cadernid i beidio llwfrhau a digaloni wrth yr holl wrthwynebiadau ydoedd yn eu cyfarfod, cadernid i ryfela yn erbyn gelynyon o fewn ac o faes, ag oedd am ddinystrio ei enaid; yn fyr, cadarnhad o holl wirioneddau yr Ysgrythyr lân; pob addewid, pob bygythiad, pob gair, a phob sillaf; credai y delai y cwbl ag a lefarodd Duw i ben; yr ysbryd hwn oedd fel gwllith yn peri iddo ail wreiddio, egino, blodeuo, a dwyn ffrwyth toreithiog i ARGLWYDD y cynhauaf. Pan y byddai pob gwynt yn ceisio ei chwythu ef yn ol, hwn a'i tynai ef yn

mlaen, yna ail ymaflai yn fwy bywiog nag erioed. Dyma i chwi rai o'r profiadau tu-mewnol ag oedd ef yn eu cael, trwy ba rai yr oedd yn ymladd ac yn ymdrechu o blaid y ffydd; ac fe ddaliodd yn y mwynhad o'r profiadau hyn, ac yn y bywyd a enwais uchod, yn nghyda choncwest ar ei feiau a'i nwydau, fel y clywsoch, hyd y diwedd; ac a derfynodd ei ddyddiau mewn heddwch. Ac am un peth y cofiaf ef yn fwy nag am ddim arall; sef y difyrwch oedd ganddo i ddyrchafu Tywysog heddwch; nid âi braidd air o'i enau na byddai rhyw gymal o hono yn moli lachawdwr y byd. Ganwaith y dywedodd fod yr enw IESU fel dil mêl: fe a'i coffai yn aml ar ol eu gilydd; ac nid oedd efe yn caru pregethau, hymnau, nac un araeth o dduwinyddiaeth, nad oedd yr ARGLWYDD IESU yn cael ei ddyrchafu ynddynt i'r radd uchaf; ni ysgrifennai ef lythyr at gyfaill na pherthynas, na fyddai yn aroglu o'r iachawdwriaeth yn ngwaed yr OEN. Angeu y groes oedd prif bwnc ei fyfyrddod. O! gyda'r fath felusdra yr oedd efe yn siarad am brynedigaeth dyn! am anfeidrol gariad DUW yn NCHRIST at bechaduriaid truain! a'r ddiangfa allan o drueni i glwyfau Tywysog Iachawdwriaeth! Dyma i chwi fywyd un o'r rhai agosaf i'r nef ag a welais yn holl ffordd fy ymdaith; ac "fe ymdrechodd ymdrech deg, fe orphanodd ei yrfa, fe gadwodd y ffydd;" ac heddyw rhoddwyd coron cyfiawnder i'w gwisgo iddo, yr hon sydd yn ogoniant ar ei ben yn oes oesoedd.

PERCON.—O! ddedwydd ddyn! gwyn ei fyd ef heddyw! a gwyn ei fyd fyth! Ond y mae fy mlys yn rhedeg yn mlaen, a chwant sydd arnaf glywed pa sut yr ymadawodd â'r byd hwn. Pa gyfoeth adawodd ar ei ol? pa wahaniaeth oedd rhwng ei ewylllys ddiweddfaf ef ag Avaritius a Phrodigalus? Pa hyder, pa sicrwydd, a pha hyfrydwch oedd yn ei enaid ef wrth ymadael? Os gŵyr neb hyn, chwi yw y dyn; am hyny ewch rhagoch.

CANT.—Mi fum mor ddedwydd a bod yn ei dŷ ef y blynyddau olaf o'i fywyd; ac fel yr oedd yn agosau i'r bedd, yr oedd yn agosau i'r nefoedd; ac yr oedd yn meddwl cymaint am ei symudiad, fel yr oedd ei ewylllys ddiweddfaf yn barod er ys blynyddau; ond ei fod yn gwneuthur ychydig gyfnewidiaid ynddi bob blwyddyn, o ran nid yn unig am fod ei feddianau yn cynyddu neu yn lleihau yn fynych, ond am fod gwrthddrychau ei elusen yn cyfnewid—rhai yn marw, rhai yn dyfod i'w olwg o'r newydd yn fwy cymwys; ac fel na byddai achos terfysg ar ei ol ef i neb o'i berthynasau am bethau y byd yma.

PERCON.—A adawodd efe ddim tiroedd neu arian parhaol at y weinidogaeth, ysgolion, gweddw-dai, cynulleidfaoedd, neu

y fath achosion ag fyddai i barhau tra fyddai dwfr yn rhedeg mewn afon?

CANT.—Naddo; canys fe welodd nid yn unig yr esgeulusdra o gadw y rhai hyny yn eu lle, ond hefyd ganlyniadau drwg a ddygwyddodd yn fynych oddi wrthynt; megys yn Eglwys Rhufain, lle y daeth, wrth ymarferyd o fawrion y byd i wneud hyn yn aml, bedwaredd ran o diroedd Ynys Prydain i fod yn eiddo yr offeiriaid a'r monachlogydd; nes daeth pendefigion mwyaf y deyrnas i chwenychu cael gosod eu plant i mewn yn offeiriaid yr eglwys hono; ac nes, trwy gyflawnder cyfoeth, brasder, gogoniant, ac esmwythder, i'r monachlogydd a'r offeiriaid fyned yn fwy llygredig na neb o fewn i'r cymundeb hyny. A Fidelius hefyd welodd fod y drefn hyn o osod tiroedd neu arian parhaol at weinidogaethu yn niweidiol yn ei wlad ei hun; nid yn unig am eu bod hwy yn cael eu rhoi wrth bleidiaeth ddaearol, perthynas, neu gyfeillgarwch, i rai ag oedd a lleiaf o'u heisieu, ond hefyd am fod lluaaws yn dyfod i mewn i'r weinidogaeth heb gael eu galw gan DDUW, ond o ddyben cyfoethogi, a gwneud eu hunain yn ogoneddus yn y byd hwn; ac felly fod y cyfryw foddion yn halogi y cysegr. Ond Fidelius, yn ei ewylllys ddiweddfaf, a roddodd i'w wraig a'i blant yr hyn oedd gariadus, a'r hyn oedd ddigon, gyda bendith yr ARGLWYDD; ond nid anghofiodd ewylllys Duw y pryd hyny; canys fe gyfranodd arian, ymborth, a dillad, i aneirif o rai tlodion, a theiau i rai uwch eu penau tra fyddent byw yn y byd. Ac y mae y gwir amddifaid heddyw trwy holl wlad yr Aipht yn ei fendithio ef. Ond am ei glefyd diweddfaf, hyfryd iawn ydoedd; canys pan gyntaf y clafychodd, fe gredodd ynddo ei hun fod ei amser ef yn terfynu, ei waith yn darfod, ei ganwyll yn mron diffodd; ond mor belled oedd efe oddiwrth aflonyddu neu lwfrhau yn ei ysbryd, fel yr ymaflodd yn fwy cadarn nag erioed yn addewidion bywyd; gwir yw, nid heb ymladdfeydd celyd âg uffern, angeu, a'r bedd, yr aeth ef drosodd i dir y bywyd; ond eto fe gafodd nerth gyda Duw, ac a orchfygodd. Addewidion pur y Beibl oedd ei gleddyfau mwyaf llymion yn ngwyneb angeu; "Byw i mi yw Crist, a marw sydd elw." "Pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angeu, nid ofnaf niwed; canys yr ydwyf Ti gyda mi; dy wialen a'th ffon a'm cysurant." "Nid oes nac angeu, nac einioes, na phethau presenol na phethau i ddyfod, nac uchder, na dyfnder, all ein gwahanu ni oddiwrth gariad Duw." "Canys yn y pethau hyn oll yr ydym ni yn fwy na choncwerwyr, trwy yr Hwn a'n carodd ni." Pan yr ydoedd ar drengu, yn lle rhyfela ei hun âg ofnau, cysuro ei wraig a'i blant oedd efe, a dangos fel y byddai Duw gyda hwynt hyd y diwedd,

am ei fod wedi addaw bod. Ac yn fyr, yr oedd ei oriau diweddaef ef yn oriau pregethu, cystal ag oriau gweddi. O! y fath arogl hyfryd oedd yn ei holl ymadroddion y pryd hyny, ag oedd yn doddi blas ar dduwioldeb gan bawb; ac felly yr hunodd yn yr ARGLWYDD. Ac fel y darfu i chwi ddywuno arnaf wneud Marwnad Avaritius a Phrodigalus, mi wnes hefyd gyda'r pleser mwyaf Farwnad i Fidelius; a'm hysbryd a enynodd yn fath fflam wrth ei chyfansoddi, fel methais lai na myned at fy achosion ysbrydol fy hun a'm brodyr. Hiraeth oedd arnaf am fod fel yntau; fy ngweled yr oeddwn yn fyr o'r grasau—y ffydd, y goleuni, yr ymarweddiad, a'r ffyddlondeb ag oedd yn eiddo ef. Ffarwel.

PERCON.—O, adroddwch y Farwnad.

### MARWNAD FIDELIUS.

WEL, dacw fe, Fidelius, o'r diwedd yn ei le!—  
Trwy 'r anial wedi dringo i mewn i deyrnas ne':  
Heb ofn, ac heb flinder, heb foreu na phrydnawn,  
A'r delyn aur yn canu am iachawdwriaeth lawn.

Ei nwydau oll sydd heddyw heb derfysg yn gytun,  
Yn gryno yn molianu Creawdwr nef yn ddyn;  
Galluoedd maith ei enaid mewn digymysgedd hoen,  
Sy 'n swnio 'r hymn dragwyddol i'r croeshoeliedig Oen.

Fe ddarfu wylo heddyw,—d'oes wylo yn y nef;  
Fe sychodd Duw ei Hunan ei ddagrau gwlybion ef:  
Llawenydd pur, digymysg,—mwynhad didrangi, didrai,  
Yn gwledd dragwyddol hyfryd y cadwedigol rai.

Mae ef yn medi 'r awrhon yr had a ga'dd ei hau;  
Nid oedd yr had ond 'chydig,—mae 'r ffrwythau 'n amlhau:  
Bydd coron o ogoniant yn eistedd arno ef  
Tra paro Duw ei Hunan—tra paro nef y nef.

Rhif ei gyfeillion heddyw sy 'mhell uwch deall dyn,  
Yn berffaith fel yr heulwen, heb frychau, bob yr un;  
'R un lun, 'r un lais, 'r un ysbryd, 'r un elfen, a'r un dôn,  
Yn cymysg pur ganiadau i'r croeshoeliedig Oen.

Y clod, y nerth, a'r enw, 'r anrhydedd, parch, a'r bri  
Fo i'r Drindod mawr yn Undod, a'r Undod pur yn Dri;  
Ei glod ehedo allan—ei glod anfeidrol Ef,  
Trwy eangder annherfynol mesurau maith y nef.

Am iddo Ef greu daear, am iddo brynu dyn,  
A gwisgo ei naturiaeth, a marw drosto ei Hun;  
Am iddo gongcro angeu, a dadglo cloriau 'r bedd,  
A dwyn ei briodasferch i mewn i'w nefol hedd.

Fidelius, bydd di ddedwydd, bendithia am nefol glwy';  
Ni thâl i'r ddaer dy geisio,—byth ni ddychweli mwy;  
Diengaist ar dy ofid, ti èst i'r lan i'r ne',  
A gwynfyd a'th ganlyno nes dyfod i'r un lle.

Gwynfyd i hwnw gaffo 'r un gras a thi, ryw ddydd,—  
A gaffo d' edifeirwch, a gaffo 'th gywir ffydd;  
Gwyn fyd fel ti gongcwero y diafol, byd, a dyn,  
Ei gnawd a phob rhyw chwantau a godo ynddo ei hun.

Hir iawn y bu y rhyfel, a ffyddlon gwnawd it' fod,  
Ce'st nerth, er pob deniadau, i gyrchu at y nod;  
Er 'stwr, a thwr, a murmur y greadigaeth lawn,  
Cyrhaeddaist dir y bywyd yn oleu cyn prydawn.

Ti dreiddiaist trwy 'r Iorddonen, er dyfnded oedd y llif,  
Ti gedwaist wâr y tonau, er cymaint oedd eu rhif;  
Ni cha'dd y creigydd celyd mewn 'stormydd uwcha' eu rhyw  
I gwrddyd dim â'th lestr, na rhoddi i ti friw.

Enllaist dir y bywyd,—y tir ro'wd i ti 'n rhodd;  
Pob rhan o hono heddyw sy'n gyflawn wrth dy fodd:  
Ce'st wel'd mai 'r wlad addawyd, nad oes is nef o'i bath,  
A'i bod hi fel y dwedwyd—yn llifo o fel a llaeth.

O! na allai f' enaid forio trwy donau mawr eu grym,  
Fel ti, tua thir y bywyd, heb ofni tonau ddim;  
A d'od i'r hafan hyfryd, lle mae llawenydd llawn,  
Cyn oero fy serchiadau, a dyfod y prydawn.

Mae 'm cnawd yn brysio yno, fy ffydd i sydd yn wan,  
Yn ofni fil o weithiau na ddeuaf fyth i'r lan;  
Fy esgyrn sydd yn sierig gan rif y tonau maith  
A gwrddais gynt, ac eto wy'n gwrddyd lawer gwaith.

Fy nghnawd, 'r wyt ti 'n rhoi *summons* i mi o bryd i bryd,  
Fod rhaid cyweirio 'm llety ar fyr i maes o'r byd;  
Mae 'm llygaid wedi t'wyllu, yn arwydd myn'd i'r tŷ  
Fyth na lewyrcha ynddo mo haul y nefoedd fry.

Mae f' esgyrn wedi oeri, fe ddarfu grym eu mer,  
Yn argoel fod rhaid 'mofyn am fywyd uwch y ser;  
Fy nghnawd sy fel yr eira, colodd fy ngwaed ei rin,  
'D oes dim ag a'i cynesa ond danllwyth dwym o ddy.

Cytuno 'r wyf â'r beddrod, y gwely oera 'i ryw,  
Aiff pridd i'r pridd ar fyrder, nesau mae galwad Duw;  
Pan gwrddo 'm cnawd â'r ddaear, dan oerni fydd gytun;  
A chyn pen 'chydig ddyddiau â 'r pridd a minau 'n un.

*Crocodil Afon yr Aiphht,*

WEDI EI WELED

AR FYNYDD SEION:

SEF

CENFIGEN,

WEDI EI HOLRHAIN TRWY'R BYD A'R EGLWYS;

TAN GYFFELYBIAETH BWYSTFIL GORMESOL YR ANIALWCH,  
MOR AFLUNIAIDD A GWENWYNIG EI NATUR AG UN  
O FWYSTFLOD Y PWLL, &c.

---

"A mi a welais fod pob llafur, a phob uniondeb gwaith dyn, yn per  
iddo genfigen gan ei gymydog."—PREG. iv. 4.

AT Y DARLLENYDD.

FE allai bydd rhai mor ynyd neu fyrbwyll a thybied mai araeth yw'r llyfr bychan hwn wedi ei redeg fel bollt a'i saethu o ganol y tân yn wyllt-danbaid at Sandeman a'i ychydig ganlynwyr yn Nghymru. Rhaid bod y cyfryw rai yn tybied nad oes un dyn cenfigenus yn y byd ag a dâl ei guro am genfigen ond hwnw, neu fod yr Awdwr yn ei garu ef yn well na neb o'i frodyr, o ran ei fod yn ei geryddu mor llym a gado'r lleill o ddynolryw yn llonydd, mewn gwlad ac eglwys. Ond bydded hysbys i bwy bynag a ddarlleno hyn o lyfryn, bod yr Awdwr yn ysgrifenu at dorfeydd mawrion yn nes gartref na'r Scot pellenig hwnw. Ac nid yw ef mor ddi-ddeall ac ieuangc ag yr anturiai i ryfel â neb dynion ag sydd o ysbryd absenwyr, ymhaerwyr, camgyfieithwyr, du-wyr enwau, a gwawdwyr gweithrediadau Ysbryd y gras, y rhai sydd wedi cymeryd i fyny arfau Simei yn erbyn Dafydd, a'r Phariseaid yn erbyn Iachawdwr y byd; sef pob dieflig eiriau malais, lliid, a chenfigen, cellwair, gwawd, &c. Ac heblaw hyny, y mae Jude wedi gorchfygu'r genhedlaeth hono pan y dywedodd—"Hwy a gerddasant yn ffordd faleisus a chenfigenus Cain, ac a'u collwyd o blith yr eglwys, fel ag yr aethant i felldigo gwŷr Israel Duw trwy dwyll gwobr Balaam, ac a'u difethwyd yn eu gwrthddywedïad yn erbyn gwir weinidogion Duw, fel Cora." Am hyny, onis caf saeth oddi-wrthynt waeth nag y cefais eto, y ffordd oreu yw rhoi iddynt yr un cyfarchiad ag a roes Mr. Sandeman i amryw o wir weinidogion yr ARGLWYDD, yn enwedig Mr. John Wesley—mai'r mwyaf gwenwynig yn ynys Prydain oedd efe. A phe bawn mor ynyd a leflo at bedwar neu bump o'r rhai'n yn Nghymru, ni roent y parch i mi o ddarllain fy llyfr; os peidient a'i losgi o bleser gweled ei fwg yn dyrchafu i fyny i entrych y nef, ac felly'm llafur âi yn ofer o'u rhan hwy. Ond gwybydded y darllenydd bod hyn o lyfr wedi ei ysgrifenu yn benaf at yr amrywiol enwau o ddynion yn Nghymru ag sy'n profesu duwioldeb, y rhai trwy eu balchder, hunan-dyb, a'u cenfigen sydd wedi gwneud cymaint anrhaith mewn crefydd ag a wnaeth Nebuchadonosor ar Jerusalem, yr amser y caeth-iwodd efe Seion i ganol Babilon. Pwy sydd â'i lygaid yn agored na wel efe y genfigen hon yn llanw'r byd, yn enyn tân o ryfeloedd yn erbyn breninoedd y ddaear, yn gosod myrdd-

ynau o bobl yn ysglyfaeth i'r cleddyf, ac yn gwlychu'r ddaear â gwaed dynion, fel gwlawogydd mawrion yn nhir y Dwyrain? Gwelwch yr ysbryd hwn yn enyn ymryson mewn tref a gwlad—yn y bwth lleiaf cystal a'r palas auraid, yn mhllith y begeriaid cystal a'r swyddogion penaf, ac yn fam i bechodau duon, megys llofruddiaeth, anudoniaeth, trais, gorthrymder, a chelwydd, y rhai dynodd ddialedd ar y byd fel dyfroedd Noah. Ond rhowch dro i'n heglwysi ni ein hunain, a byddwch mor ynfyd a dweyd mai yn erbyn Sandeman y mae'r araeth hon yn unig. Gwelwch bob gradd, swydd, ac enw, pob doniau a chymhwysiaid, yn methu bod yn rhydd oddiwrth y genfigen hon: ynte paham y mae cymaint o rwygiadau, ymrysonau, a therfysgoedd mewn cynulleidfaoedd, ond am fod yr ellyll hwn eto heb ei ladd. Gwelwch weinodogion, ag sydd o'r un athrawiaeth a dysgeidiaeth, yn oer ac yn anserchog y naill i'r llall. Paham nas gall un Gweledydd yma ddyoddef canmawl Gweledydd arall acw, ond am fod y gwreiddyn hyn eto heb ei farwau. Paham nas gall gŵr Duw yma lawenhau yn llwyddiant gŵr Duw acw, ond am yr un achos. A phaham nas gall yr holl eglwys lawenhau yn nghodiad a dyrchafiad y naill y llall, ond am yr un peth. Yn fyr, os yw'r esgobion yn rhydd, eto mae'r offeiriad a'r presbyter, y diacon a'r cynghorwr, y clochydd a thorwr y beddau, yn fynych yn cwmpo i genfigenu dedwyddwch y naill y llall. Ac y mae hyn o lyfr wedi cael ei ysgrifenu at y rhai'n, yn gyntaf er mwyn iddynt adnabod yr ysbryd hwn; ac yn ail, at y rhai sy yn ei adnabod, er mwyn bloeddio yn ei erbyn, yr hyn yw dymuniad eich—

W. W.



## *Crocodil Afon yr Aipht.*

**P**ERCONTATOR.—Groeso adre', bererin; chwi roisoch dro eang yn yr holl amser hyn; chwi anghofiasoch dre', debygwn; chwi welsoch fyd ac eglwys erbyn hyn; atolwg, pa beth sydd ragor genych nag oedd o'r blaen? Pa un ai dysg, doniau, neu gyfoeth enillasoch?

**P**ERGRINUS.—Nid oes fawr i'w weled yn y byd ond ei lygredigaethau, er hardded ei drefydd, er gwyched ei adeilad, er gwerthfawroced ei drysorau, er amled ei deganau; cant cymaint o bethau gwrth'nebus sydd i weled ynddo nag sydd o ryfeddodau yn nghelfyddydau dynion—llid, malais, trais, gormes, balchder, aflendid, lladrad, mwrddrad, ac eithaf cefnigen o un gwynt i'r nefoedd i'r llall, sy'n ei lanw fel y lleinw'r dyfroedd y môr.

**P**ERCON.—Ni cheisiaf genych adrodd gogoniant y byd hwn; mi wn lawer sydd yntho—mi fum fy hun yn fy ieuengctyd mor wag a cheisio dilyn Drake ac Anson yn mhell i ymofyn am ei hapusrwydd, a methu ei gael fel yr oeddwn yn ei ymofyn yn y diwedd. Ond adroddwch ychydig i mi am Eglwys DDUW, o ran fy mod yn meddwl mai dyna degwch yr holl ddaear.

**P**EREG.—Mae Mynydd Duw goruwch yr holl fryniau, eisteddfod y Brenin mawr; yma mae gorsedd barn, yma casgl yr holl lwythau, ac yma mae rhyfeddodau na welodd llygad, ac na chlywodd clust, ac na ddaeth i galon dyn eu dychymyg hwynt, ac eto maent yn cael eu dadguddio i drigolion y ddinas hon. Gwaith Tywysog mawr y ddinas sydd ryfeddol, ei gleddyf Ef sy'n llwyddo yn y byd, nis dwg neb ei ysglyfaeth Ef o'i law, a'i gariad sy'n parhau byth. Ond deallwch nad yw'r Ddraig goch fawr ddim yn segur ddydd na nos, ond ceisio tynu goleuadau'r nefoedd i lawr a'i chynffon; ac yn ei chynffon y mae ei nerth a'i cholyn hi: nid ymfoddlona hi ar gymaint o fwystfilod, pryfed, ac ymlusgiaid ag sydd eisoes yn cerdded ar eu torau ar hyd y ddaear hon, yn bwyta pridd, ac yn gloddesta ar wenwyn, fel hi ei hun, ond rhaid iddi anturio trwy bob dyfais (os yw bosibl) i dynu hefyd draian ser y nef i lawr.



PERCON.—Nis gall hi dynu neb ag sydd yn nghyfamod Duw, “Canys cryfach yw Ef na phawb; ac nis dwg neb hwynt allan o'i law Ef.”

PEREG.—Gwir; ond mae'r fath beth a denu gwir eiddo Duw ar gyfeiliorn tros dro; mae'r fath beth ag i'r wyn gael eu twyllo i grwydro oddiwrth wir bebyll y bugeiliaid, a myned i'r anialwch amser hir, o ba le nis deuant fyth yn ol nes dêl y gwir Fugail i'w dwyn hwynt adref ar ei ysgwyddau ei Hunan; pa sawl myrdd erioed a ddenwyd o honynt i gau athrawiaethau, i fywyd penrydd, i ryfyg, i ragfarn, i galon-galedwch, i anystyriaeth, i bleserau cnawd, i ofalon byd, ac i'r pechod gwenwynig hwnw—cenfigen? Ond ei drugaredd Ef, yr hon sydd goruwch ei holl weithredoedd, nis dyoddef iddynt grwydro byth. Ond Efe a'u cerydda â gwialen ddynol, ac a wna iddynt yfed eu cwpan yn ddauddyblyg o law'r ARGWLWYDD tu yma i'r bedd, ac yna yr adfera Ef gysur iddynt fel cynt. Ac oni chredwch hyn darllenwch ond Epistolau Paul at Eglwys Corinth; pa gyfeiliornadau ofnadwy oedd wedi dyfod yno i mewn? Am ba sawl bai mae'r Apostol yn eu ceryddu hwynt? Nid cwmpiaidau disymwth, ond pechodau oeddid yn byw ynddynt—ysbryd anlladrwydd a godineb, ysbryd meddwod a glythineb, ysbryd terfysg ac ymryson, ysbryd ymddial ac ymgyfreithio, hyd y nod o flaen y rhai digred. Edrychwch fel y daeth athrawiaeth a bywyd y Nicholaiaid i mewn i Eglwysi Asia. Gwelwch wrthgiliaid y Galatiaid oddiwrth efengyl bur at draddodiadau a seremoniau y gyfraith; meddyliwch pa sawl mil o ddynion da a dorwyd i lawr yn yr anialwch am eu hymadawiad oddiwrth DDUW at ryw eilun neu gilydd; ystyriwch pa sawl cerydd a dderbyniasant o bryd i bryd am eu gwrthgiliaid; ac yna y gwelwch yn eglur fod y pwnc yn wir, y gall dynion duwiol gael eu denu amser hir oddiwrth y symlwrwydd sydd yn NGRHIST, ar ol oferedd eu meddyliau a themtasiynau yr ysbryd drwg. Ac O! na fuasech yn gweled yr hyn a welais i'n ddiweddar! fe'ch gwnaethid eto'n fwy sicr o hyn—gweled eglwysi cyfan wedi syrthio i derfysg, ymryson, ac ymraniadau anghredadwy; lle y gwelais gariad, undeb, gostyngeiddrwydd, ac amynedd ychydig amser o'r blaen yn cario'r dydd, yn awr y genfigen hono sydd yn rheoli, yn lladd, yn merthyru, yn barnu, ac yn damnio dynion ar ol ei hewyllys; yr hon, unwaith pan delo hi i mewn, nid oes ond llid, duo enw, rhagfarn, a chelwydd yn ei chanlyn, fel y canlyn tywyllwch absenoldeb yr haul.

PERCON.—Gwir yw; ond anhawdd genyf gredu fod y bwystfil hwnw, cenfigen, âg awdurdod fawr iawn yn Eglwys DDUW, er cymaint sydd ganddo o awdurdod yn y byd.

PEREG.—Da yr enwasoch ef bwystfil, canys bwystfil yw, mwy afluniaidd, mwy gwenwynig, a mwy aml ei golynau na holl fwystfilod y maes; a gwyn fyd pe buasai ond y byd hwn yn llety iddo; ond gwybyddwch ei fod ef yn Eglwys DDUW hwyf, a chymaint o awdurdod gantho ag un o fwystfilod y hwyf, os nid mwy; onide rhowch dro eto i Eglwys Corinth, gwelwch pa faint o genfigenu doniau oedd yn y gynulleidfa fwyaf ei gogoniant, ei sel, a'i dysgleirdeb, o ran nerthoedd y nefoedd a phweroedd yr Ysbryd Glân, o un tan y Testament Newydd. A ddarllenasoch Epistol Iago?—“Cenfigenu yr ydych, ac nid ydych yn cael;” yr oedd y genad Apostolaidd hon yn ysgrifenu at rai ag oedd yn chwenych cyraedd mwy o ddoniau ysbrydol nag ereill, fel trwy'r rhai hyn, y gallent ddyfod i fwy o barch a gogoniant, na rhai ag oedd arnynt ofn eu bod o'u blaen, ac yn digio wrth y rhai ag oedd â doniau mwy. Darllenwch hanes codiad cyntaf Eglwys Rhufain i'r rhwysg ag y bu hi yn y dyddiau gynt; gwelwch lid, awydd, malais, balchder, ymryson, a therfysg yn eithaf eu mawredd. Gwelwch esgob yn rhyfela yn erbyn esgob am fod yn ben ar y Dwyrain a'r Gorllewin; Constantinople yn erbyn Rhufain, Rhufain yn erbyn Constantinople; gwaed yn rhedeg fel afon yn nghanol Rhufain fawr; bywydau dynion ysglyfaeth i'r cleddyf—aberth i genfigen oeddid yn ei wneuthur yn y dyddiau hyn—nes i Esgob Rhufain gario'r dydd, a myned yn ben ar eglwysi'r Gorllewin. Gormod i mi redeg trwy holl ymladdfau yr oesoedd cyntaf, i ddangos i chwi wirionedd y pwnc hwn. Mi wna fy ngoreu i'ch boddloni trwy ddangos drygau yr anghenfil hwn yn yr Ysgrythyr-lân, yn mywydau y duwiolion a'r annuwiolion; ac eilwaith oddeutu tref, yr hyn wy'n obeithio a'ch gwna chwi yn sicr mai nid y pechod lleiaf yn eglwys DDUW yw cenfigen; ond y mae diafol cyfrwys, ag sy'n rhith ymliwio ei hun fel angel y goleuni, ac yn dirgel fwrddro cynulleidfaoedd blodeuog.

PERCON.—O ba le daeth yr ysbryd hwn gyntaf? Pa ddull y cafodd ef fod? Pwy a'i cenedlodd ef? Pa bryd y ganwyd y fath ellyll? Os creadur yw, pwy a'i creodd ef?

PEREG.—Nid creadur yw, ac nid yn y chwech diwrnod, mae'n debyg, y cafodd ei fod; ac mae yn ddiâu mai nid gwaith bysedd Crêwr y byd yw efe, canys pob peth a wnaeth Efe, wele da iawn oedd; ond y drwg mwyaf—nesaf at ddiabol ei hun—yw hwn; a gwaeth i ddyn yw na diafol, o ran fod pechod yn waeth na'r hwn sy'n temtio i bechod; ond rhyw anghenfil yw a ddaeth i gael ei fod trwy rai o'r creaduriaid uwchaf eu rhyw.

PERCON.—Ewch rhagoch.

PEREG.—Fe dybia rhai iddo gael ei fod cyn creu'r ddaear;

er d'wed ereill mai ar ol hyn y daeth mewn bod ; ond pa un bynag, ei fod a gafodd ef, a hyny gan Lucifer, penaeth y cythreuliaid, yn yr amser yr oedd ef yn ardderchog iawn yn y nef, a hwn, yn nghyda balchder—anghenfil arall o'r un natur a chenfigen—oedd dau o'r pechodau esgorwyd arnynt gyntaf yn y byd.

PERCON.—Rhoddwch yr hanes yn fwy cyflawn.

PEREG.—Llu aneirif i rifedyddiaeth dyn oedd o gerubiaid, angylion, a seraphiaid wedi eu creu i amgylchu gorsedd Duw, ac i'w folianu Ef mewn anthemau hyfryd ddydd a nos heb drai, i seinio ei glod Ef i eithaf terfyn goleuni, ac i fynegu ei ryfeddodau o wynt i wynt i'r nef ; ond ar un dorf ardderchog o'r lluoedd gogoneddus hyn yr oedd Lucifer—seraph o'r radd uwchaf—yn arglwydd ac yn ben ; eto o un galon fel ser y boreu yn uchel ac yn ddysglaer yn moli, ac yn rhyfeddu Creawdwr mawr y nef, tan eu hardderchocaf a'u godidocaf dywysog Lucifer, seren y wawrddydd. Ond O ! godwm diddiwedd ! y cerub hwn tan y gyfryw fraint ogoneddus a hon, newydd ei derbyn, yn y fath le goruchel, ac yn meddu rhwysg mor fawr,—meddyliau a weithiodd o'i fewn am ei le gogoneddus, ei eisteddfod gadarn ac, awdurdodol, y llu aneirif tan ei lywodraeth, a'i allu arnynt, eu hufudd-dod iddo, eu hamrywiol ddoniau hwy, a'i ragor-ddonau ei hun, harddwch ei berson, cyflymdra ei ddealldwriaethau, meithder ei ddyfais, cwmpas annherfynol ei holl amrywiol synwrau, yn nghydag eangder ei rwysg ; hyn a wnaeth iddo, meddaf, trwy fyfyrion arnynt, yn lle myfyrion ar anfeidroldeb priodoliaethau y Crëwr, a'r Rhoddwr o honynt, dybied gallasai eto fod yn uwch nag yr oedd, a chael rhan fawr ragor, os nid cael yr holl nefoedd tan ei lywodraeth ei hun, gan dybied nad oedd neb yn fwy cymhwys i'r lle uchel hwnw nag ef ei hun ; ond yn mhell, pell uwch ei law yr oedd Jehovah wedi gosod Immanuel i fod yn Ben, nid ar ran fawr, neu haner y nef, ond ar y nef i gyd ; a rhoddi oll, yn lluoedd, yn fyddinoedd, yn awdurdodau, yn angylion, yn gerubiaid, ac yn seraphiaid o bob graddau, tan ei draed Ef, gan helaethu ei deyrnas at yr holl bethau gweledig ac anweledig, a rhoi eanger eithaf yr hyn a gai ei greu tan ei lywodraeth Ef—haul, lloer, ser, môr a thir, daear ac wybr, ac yn olaf ac yn benaf ei roddi Ef yn Dywysog dynolryw, i fod yn Greawdwr, yn Gynhaliwr, yn Iachawdwr, ac yn Farnwr arnynt yn y diwedd. Yr Immanuel hwn oedd gyntaf-anedig o'r holl greaduriaid a blaenffrwyth creaduriaeth Duw, ac Ef ei Hun a drigodd yntho, ac fe gafodd fod fel anedd addas iddo. Yma y trigodd y Duwdod, ac fe roddwyd iddo Enw uwch pob enw, sef Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw Cadarn, Tywysog

Tangnefedd, Tad Tragwyddoldeb ; fel y plygai iddo bob glin o'r nefolion, daearolion, a than-ddaearolion bethau. Hwn oedd y Duw-ddyn, difyrwch y Duwdod tros holl dragwyddoldeb. Ei natur ddynol Ef oedd i gael ei chynysgaeddu â phob dawn a gras addas i'r lle, yr enw, a'r gogoniant ; nid oedd raid i'r natur ddwyfol, ac anmhosiibl ei chynysgaeddu â dim mwy. Dyma Fab Duw, dyma Frenin Heddwch, dyma yr Hwn a ddaeth yn nghyflawnder yr amser i'w eni o forwyn bur. Ond Lucifer, pan gwelodd Hwn o'r fath barch, y fath gariad iddo, y fath ddoniau, a'r fath ogoniant wedi eu rhoddi iddo, ac yn eistedd ar orsedd Duw ei Hun, heb ddeall yr anfeidrol ddyfais, na dadguddiad y dyddiau diweddfaf, a fagodd ynddo ei hun (wedi ymchwyddo eisoes i feddyliau mawr, yr hyn elwir yn awr balchder) anfoddlonrwydd a rhyfyg, poen ac ymddial ; y rhai'n i gyd, wedi cael eu meithrin yn rhy hir yn ei ymenydd ef, a dorasant allanſtan yr enw cenfigen. Fel y mât amryw ddefnyddiau brwnt a drewlyd, wedi eu taflu yn nghyd yn un pentwr, bryfed cas a ffaidd ; felly tybiau da, uwchder ysbryd, hunan-gais, a hunan-ogoniant o'r diwedd esgorasant ar Genfigen—fel erthyl gwraig, heb lun na lliwiau i'w garu gan neb, debygasid, o drigolion y nef. Ni welwyd o'i fath eto erioedd mewn un man ; nid oedd gyffelyb iddo yn mhlith trigolion y wlad uchod ; nid oedd gantho ben, eto yr oedd ef yn gyfrwys ; nid oedd gantho droed nac adenydd, eto efe ehedai ac a symudai mewn ychydig enyd ; nid oedd gantho lygaid nac amrantau, eto fe welai dyllau i ffoi, fe dreiddiai i mewn i leoedd dirgel mor gyfarwydd a'r wâdd yn y ddaear. Eto i gyd, pan gyntaf gwelodd lluoedd yr archangel ef, hwy a gyfarchasant well iddo ; rhai a fynasai gwympto i lawr a'i addoli ; ond yr anghenfil a'u gwaharddodd hwynt, gan beri rhoddi'r holl glod i Lucifer a'i cenedlodd ef—gan addef, er ei fod ef yn fab, eto ei fod yn was ffyddlon iddo, gan dyngu y tynai ef gymaint o greaduriaid i ymladd o blaid ei dad a'i feistr a neb o'i weision ef. Hwn yw'r ysbryd a greodd y rhyfel fawr yn y nef, pan bu Michael a'i angylion yn rhyfela yn erbyn y ddraig, a'r ddraig a ryfelodd â'i hangylion hithau ; a'u lle hwynt nis cafwyd mwyach yn y nef ; a'r pryd hyn y taflwyd allan oddiyno yr hen ddraig, y diafol a Satan ; a'r angylion a daflwyd allan gydag ef, ac un o'r penaf o'i angylion ef oedd yr ellyll hwn, Cenfigen.

PERCON.—Ai dyma lle cafodd yr holl genfigen sy'n y byd ei ddechreu ? Rhyfedd y fath danllwyth fawr y mae gwreichionen fach yn ei enyn. Mynegwch, atolwg, pa waith ragor a wnaeth yr ellyll hwn yn y nef—pa fodd y daeth efe i lawr oddiyno i'r ddaear, a'r drygau a wnaeth y llofrudd hwn yn y byd ?

PEREG.—Nis gellir deall pethau dyfnion, anweledig y byd arall; ond diau i'r llu a wrthgilioedd gael eu tafu i lawr bendramwnwgl i drueni tragwyddol, er eu bod tros ronyn yn cael cenad i dramwyo'r ddaear if yny ac i waered i demtio dynolryw; a'r ysbryd hwn yw'r egwyddor benaf ag sydd yn Satan ei hunan i'w yru ef yn wyllt danbaid i dwyllo meibion dynion. A thyma un achos na faddeuir pechod y diafol byth, am ei fod yn wastad o lid, malais, a chenfigen yn erbyn Duw. A'r holl bobl sy'n pechu y pechod anfaddeuol hwnw, rhaid yw bod lliid a chenfigen barhaus ynthynt yn erbyn Duw, ei waith, ei bobl, a'i efengyl, fel gwaed mewn gwythien, fel nad oes cymod i'w gael. A'r ysbryd hwn, canys ysbryd yw efe sydd wedi cymeryd meddiant ar ysbrydoedd yr holl lu gwrthgylidiedig, tan ba enwau bynag y maent yn myned, neu pa swydd bynag sydd ganthynt yn nheyrnas y tywyllwch; ac a'u cymhwysodd hwynt iddi, pa un bynag ai i demtio i lid, i falais, i buteindra, i anudoniaeth, i ladrad, i falchder, i ymddial, neu i unrhyw arall wyniau gwarthus, oll sydd o genfigen yn erbyn Duw, ac yn erbyn ei bobl Ef.

PERCON.—Desgrifiwch ryw faint ragor ar natur yr anghenfil hwn, a phaham y mae Satan yn cenfigenu cymaint wrth ddedwyddwch dynolryw?

PEREG.—Cenfigen—elfen yw sydd mewn ysbryd ag sy'n gofidio, yn poeni, ac yn maleisio am fod arall yn ddedwydd, neu mewn gobaith o fod felly, a hyn yn gweithio'r fath derfysg o mewn ag sy'n peri i'r person hwnw i ymegnio ei oreu yn erbyn hapusrwydd y cyfryw; i ddigio wrtho ef a digio wrth Roddwr ei drugareddau; i ymddial arno; i rwystro ei ddedwyddwch i ddyfod i ben trwy bob moddion ag a allo. A hyn a welir yn eglur yn y diafol, a'r holl lu a ddisgynodd i waered gydag ef, pan mae'n cenfigenu wrth ddyfnion am fod gobaith wedi ei adael iddynt am fywyd tragwyddol, am fod yr efengyl yn galw arnynt, a bod rhai o'r rhai gwaethaf o honynt yn ymladd eu ffordd i mewn i deyrnas nef.

PERCON.—Bellach, adroddwch am; rwyg ei deyrnas, a'i ddichellion yn y byd a'r eglwys.

PEREG.—Anhawdd yw hyny, am fod gantho gymaint o droiadau, lliwiau, lluniau, dull ymddangosiadau, newid-gwisgoedd, hunan baentio, ymfrithio, ymwneuthuriadau teg, ymddangosiadau crefyddol, fel nad oes neb ond Ysbryd y Duw byw ei Hun yn abl ei orddiwes yn mhob twll, a'i daflu allan o bob gwâl ddirgel y mae ef yn llochesu yntho. Yn ngardd Eden y gwelwyd yr anghenfil gyntaf yn rhodio'r ddaear hon, a Satan ei hun a'i trosglwyddodd ef yno; nid yw'r ellyll yn weledig ond yn ei ffrwythau a'i weithredoedd, canys ysbryd yw ag sydd yn ymlusgo i mewn i ddynolryw yn

fynych heb yn wybod iddynt, nes bo wedi gwneud anrhaith fawr; ac ni chais ef ar y cyntaf ond cwr bychan o galon dyn, —twll dirgel yn un o'r nwydau gwanaf, lle gallo ef ond ymdroi ac ymchwyddo gronyn, ac yna fe lusk i mewn dor-feydd o'i gyfeillion, y rhai gydag ef a ymwthiant yma a thrwy furiau'r galon i bob ochr, gan yru allan yr hen gyfaneddwyd —megys cariad, amynedd, ffydd, a symlrwydd, a gwneud lle helaeth i dorf o ellyllon i gyfaneddu yn y cof, y deall, yr ewylllys, y gydwybod, a'r serchiadau, ac o'r diwedd rhoi teml DDUW yn ogof lladron.

PERCON.—Enwch rai o'r ellyllon hyn sy'n gyfeillion i Genfigen, ac yn dwyn ei ryfeloedd ef yn mlaen yn erbyn teyrnas ein Duw ni.

PEREG.—Rhy faith yw hyny, ac anhawdd eu hadnabod, o ran maent oll, fel yntau, yn newid eu lleoedd, eu henwau, ac yn ymrithio gant o ffyrdd yn yr un diwrnod; hwy gânt yr enw hyn yn y fan hyn, a'r enw arall yn y fan arall; a hwy a ymddangosant o luniau mor wahanol oddiwrth oeddent o'r blaen, fel nad bes ond llygad wedi ei oleuo oddi uchod all yn gywir eu cael allan. Y rhai mwyaf cyffredin o'i gymdeithion ef yw hunan-dyb, hunan-gais, hunan-gariad, lliid, malais, drwg-dyb, celwydd, twyll, dichell, trais, gormes, anudoniaeth, drwg-air, ymryson, herisiau, heblaw ereill—megys eiddigedd uffernol, duo enw, gau dystiolaeth, gwag siarad, sisial drwg, dymuno tralod, a thorfeydd ereill sydd yn rhy faith eu henwi, ond dywedyd eu bod bob yr un o'r un gwaith a'r un ysbryd a chenfigen ei hunan.

PERCON.—Adroddwch ychydig, atolwg, pa fodd y maent yn newid eu llun a'u lliwiau.

PEREG.—Hyn sydd amlwg pe edrychech ond ar rai o honynt, ac wrth hyny y gallech gredu bod y lleill oll yr un wedd; pa sawl enw, atolwg, mae'r ellyll hwnw, rhagfarn, yn gymeryd arno ei hun, pan weithiau, wrth argyhoeddi un a fo wedi myned allan o'i serch ef, geilw ei hun yn sel tros DDUW, yn gydwybod ddirwystr, neu ysbryd na ddyoddef bechod yn neb; bryd arall, d'wed mai didderbyn-wyneb yw ei enw, ac yn fynych rho yr enw arno ei hun o gasau pechod. Ac fel y mae rhagfarn, felly mae'r lleill oll; megys cenfigen ei hun sydd yn galw ei hun sel, gwir oleuni, iawn athrawiaeth, cydwybod ddirwystr, dysgyblaeth gywir, gwir grefydd, duwioldeb, tosturi ysbrydol, gogoniant DUW, a chant o enwau yn rhagor, ac wrth hyn deallwch am y lleill oll.

PERCON.—A ddaeth y rhai'n gyda Lucifer a'i finteioedd i lawr o'r nef?

PEREG.—Bob yr un, a llawer iawn yn rhagor; ac i ardd Eden y disgynasant—hyfydaf fan is y nef—at y ddau

greadur mwyaf dedwydd, harddaf eu cyrph, lleiaf eu niwaid, tecaf eu pryd, helaethaf eu dealldwriaethau, mwyaf eu purdeb, eangaf eu hawdurdod a fu erioed yn y byd. Ond y genfigen hon yn Satan, wrth weled dedwyddwch y fath greaduriaid, y rhai oedd yn llawer is nag y bu ef ei hun, a enynodd dân ffamllyd o'i fewn, yn annyoddefol i edrych ar eu hapusrwydd, ac a osododd bob scil a dichell ar waith ag allai archangel ddyfeisio i gwympo y ddau ddyn agosaf i'r nef; ac ar ol amryw gynnygiadau yn ei feddyliau tanlyd ei hun, dewisodd o'r diwedd y ddyfais o gymeryd y creadur callaf o holl fwystfilod y maes, a ddeuai i mewn i'r ardd heb ei chanfod, a ddringai i bren, a fwytai ei ffrwythau, hawddgar ei llun, diniwaid ei natur, cyfrwys, a chymhwysaf o bob creadur i fod yn offeryn tros ddiawl i demtio dynolryw. Lucifer, yn y sarph, ymddyddanodd âg Efa; a mam dynolryw, trwy chwant y cnawd, chwant y llygad, balchder y bywyd, a ddenwyd i fwyta o ffrwyth y pren—y wraig gyntaf dwyllwyd, dyn a gwymppodd o'i ogoniant, a chenfigen a ddaeth i deyrnasu i'r byd; a phan gyntaf y daeth, hi ddechreuodd arferyd ei dichell a'i chyfrwysdra; dyma'r lle y gwnaeth hi'r drwg mwyaf erioed, ac o hyn allan y cafodd hi le yn nghalonau holl ddynolryw, fel nad oes dyn a aned o wraig nad yw'r bwystfil hwn wedi cael rhyw loches yntho y dydd heddyw.

PERCON.—Ond pa ddull yr ymddangosodd y genfigen hon gyntaf yn Efa?

PEREG.—Pryd cyntaf y bwytaodd mam holl ddynolryw ffrwyth y pren gwaharddedig, hi aeth yn gaeth-forwyn tan bob pechod,—tan holl nwydau natur a brofodd y gwaethaf o ddynion yn y byd; pan demtiwyd hi trwy genfigen, yna cymerodd yr un ysbryd afael arni hithau, a letyodd ynddi, ac a ddygodd i mewn gyda hi yr holl luoedd a enwais uchod, a byddinoedd ereill gyda hwy; ei deall hi dywyllwyd, ei chof a farweiddiwyd, ei chydwybod a gysgodd, ei holl serchiadau hi a newidiasant eu lle; gwrthddrychau newyddion a lanwasant ei meddyliau, a holl fwyn gynheddfau ei henaid a aethant yn hollol afreolus, fel nas cadwodd un ei le priodol ei hun; yr olaf aeth yn mlaenaf, a'r blaenaf yn olaf; y cynheddfau mwyaf gwan a thyner aethant yn ben—fel pe b'ai y fieren yn myned yn frenin ar holl goed y goedwig,—a'r deall, y rheswm, a'r gydwybod a rwymwyd i fyny mewn pydew dwfn, heb weled goleu'r dydd. Ofnau ddaeth i mewn yr awr hon yn lle hyder, cnawd yn lle ysbryd, cariad at y creadur yn lle cariad at y Creawdwr, a'r adeilad penaf tan y nef a wýrdrowyd, nes ydoedd fel palas brenin wedi myned yn garnedd o bridd a cheryg, heb harddwch na gogoniant. Ac yna, pob ysbryd

drwg a gafodd lety yno a ddechreuasant yn fuan dori allan ac un o'r rhai cyntaf oedd yr ellyll hwn, cenfigen, yr hwn, fe, ag y gweithiodd yn Satan i dwyllo'r wraig, felly drachefn a weithiodd yn y wraig i dwyllo ei gŵr.

PERCON.—Nid oedd dim llied, malais, a digter yn Efa at Adda, fel yr ydych chi yn dweyd bod cenfigen?

PEREG.—Ond deallwch fod cenfigen yma wedi ymrithio i lun arall, fel y dywedais o'r blaen, ac wedi doddi ei chyfeillion hefyd i newid eu lliw a'u henwau, ac oni buasai hyn, ni allasai yr anghenfil hwnw mor hawdd i gwympo tegwch y byd; yr oedd yma dwyll, dichell, celwydd, dymuno drwg, rhagrith, derbyn wyneb, a thorfeydd ereill o rai ag sydd yn nghwmpeini cenfigen; ond wedi newid eu henwau, ac yn galw eu hunain cariad, dymuniad da, gwirionedd, symrlwydd, undeb brawdol, a'r cyffelyb i'r rhai'n, ac yn enwedig geiriau gwenieithus, a gwên drythyll y pryd hyny gafodd yr enwau o wir undeb a chariad ysbrydol. Ond tuag at i chi adnabod mai cenfigen oedd yno, chi ellwch ddeall fod poen, gofid, a blinder yn nghalon Efa i deimlo ei hunan mewn cyflwr o farwolaeth, a'i phen a'i phriod eto yn ei ogoniant a'i berffeithrwydd; efe yn bur, a hithau yn aflan—efe yn hyderus at wyneb Duw, a hithau tan euogrwydd, ofn, ac arswyd; yn y cyflwr hyn o genfigen at ei ddedwyddwch ef, ac ofn nas carai efe hi pan gyntaf y ffeindiai ef hi yn bechadur, a'i gyrodd hi'n gyfrwys-gall ac yn ddichellgar i demtio ei gŵr i'r un cyflwr â hi ei hunan, er nad oedd gobaith iddi hi fod yn well trwy hyny, mwy nag yr oedd y diafol trwy ei themtio hithau, yr hyn sy'n dangos cenfigen yn ei liw ei hun.

PERCON.—Mi a ryfeddais lawer pa fodd y twyllodd Efa Adda, ac yntau yn gallach, yn ddoethach na neb o'i holl hiliogaeth, ac efe wedi gweled ei gwympeini hi yn mlaen llaw, ac wedi cael y gwaharddiad i fwyta ffrwyth y pren gan y Crëwr mawr ei Hun.

PEREG.—Pa fodd na ryfedd'sech chi hefyd pa fodd y twyllwyd Solomon, y doethaf o blant Adda, i adeiladu teml i Astor-eth, duwies y Sidoniaid, ar fryn gyferbyn a theml yr ARGWLWYDD? Gwragedd hudodd y brenin i hyny, er mor anhebygol oedd. Paham hefyd na ryfeddwch pa fodd y twyllwyd Pedr i wadu'r Hwn y bu mor galonog yn ei addef, ac mor ddiofn yn mentro ei fywyd trosto lawer gwaith o'r blaen? Morwynig fechan wnaeth hyn. A pha fodd yr ydys wedi eich hudo chi eich hunan i ganoedd o bethau croes i'ch tyb chi yr aech fyth iddynt? Ond deallwch am Adda fod ei brofiad yn fychan, os oedd ei oleuni yn fawr, ac nas gwyddai eto beth oedd na pechod nac euogrwydd, nag un o'r aneirif ddrygau oedd y wraig yn awr wedi eu lletya ynthi ei hun.



Elfen y brenin diniwaid hwn oedd caru ei Dduw, caru ei wraig, a rhyfeddu gwaith bysedd y Creawdwr yn yr holl greadigaeth; ac er bod Efa'n awr yn fenyw arall o'i mewn, eto oddi allan nid oedd wahaniaeth i Adda i weled rhyngddi ag o'r blaen, ond yn hytrach ei geiriau teg yn fwy dengar, ei thafod gwenieithus yn fwy mwyn, ei llygaid cnawdol yn fwy cynes, a'i breichiau teg, tolachlyd\* yn gwasgu yn fwy hyfryd, —yntau, syml-ddyn, heb ystyried fod drygau mor fawr gerllaw, ond tybied fod oll oedd yn ei weled yn ddiniwaid ac yn ddi-ddyfais : ond i ddibenu'r hanes, rhwng bod ffrwyth y pren yn cael ei *bresentio* wrth ei fin, a chariad at ei anwylyd ag oedd yn ei gymhell arno yn fawr, ac anystyriaeth trwy lawer o fawrhau cnawd, a tholach wedi goresgyn y galon â llawenydd diniwaid, ac annghof o'r gorchymyn wedi cyd-redeg gydag ef i mewn—a mwy na'r cwbl, Duw wedi troi ei gefn a'i daael iddo ei hun—Adda fwytaodd o hono heb ystyried y niwaid, nes i euogrwydd ddyfod i mewn fel afon, a'r gydwybod ruo fel llew. Fel hyn y twyllwyd dyn; cenfigen dan liw o undeb, cariad, cyfeillgarwch, a natur dda, a enillodd y dydd, ond twyll, celwydd, a dichell yn nghwmpeini cenfigen, oedd yr ellyllon a wnaeth y dinystr.

PERCON.—Ni feddyliais fod llaw gan genfigen yn ngwmp dyn; ac os dechreuodd hi mor foreu, cant i un na cheir gwelod ol ei throed hi mewn amryw fan yn yr Hen Testament.

PEREG.—Yn mhen ychydig bach wed'yn, cawn weled yr anrhaith a wnaeth hi yn mwrddrad Abel; dyna'r fan gyntaf yr ymddangosodd llid a malais, yn eithaf eu grym, yn erbyn bywyd crefydd ac onestrwydd ysbryd. Y ddau addolwr ddaeth â'u hoffrymau yn mlaen ar y dydd nodedig, i'r fan arferol, a'r hen batriarch ei hun, mae'n debyg, ar ol arferyd dyddiau hyny, yn offeiriad; un ddygodd o ffrwyth y miaes, yd—*a hwnw y nesaf at ei law*—heb feddwl nemawr am roi'r goreuon i ARGLWYDD y cynhauaf. Ond y llall ddygodd ragorach aberth, y goreu o'r anifeiliaid, heb ei weled yn rhy dda at wasanaeth Duw mor fawr, ac i gysgodi aberth cymaint ag oedd i'w aberthu yn nghyflawnder yr amscr tros bechodau'r byd; hwn a ddygodd ei aberth yn mlaen, meddaf, fel pechadur, ac a'i lladdodd ef yn offrwm tros bechod—yma yr oedd addefiad o ddyfnder ei gwmp a'i drueni, a'r angenrheidrwydd o iawn ragor nag allasai ei holl gyflawniadau ef dalu. Ond y brawd hynaf, nid oedd ei

\* *Tolach—tolachlyd.* Yr wyf yn deall ddarod i mi gymeryd fy nghamarwain gan Dr. Pughe am ystyr y gair hwn. Gwel Cyf. I., tudal 371. Yr hyn a ddeallir wrth y gair yn y parthau lle y mae mewn arferiad cyffredin [Ceredigion a Dwyrain Caerlyddin], yw *ckwae, doriata, cofledio.* "It signifies"—medd y Parch. D. Silvan Evans—"to toy with, to dandle, to meddle playfully with."

offrwm ef ond un o ddiolchgarwch, bwyd offrwm i'r ARGLWYDD, y fath ag allasid roddi cyn y cwmp; ac hefyd yn cael ei ddwyn yno gan galon gyfan, heb weled angenrheidrwydd o un iawn tros bechod. Un offrymwr oedd yn wir sant, ac yn gweithredu'r cwbl o'i galon—y llall yn annuwiol, heb garu Duw, nac ymofyn uniondeb yn ei wasanaeth. Ond JEHOVAH yn gweled hyn a dderbyniodd aberth Abel a roddodd ef trwy ffydd, ac a'i llosgodd â than; ond y llall nis edrychodd arno gyda dim hoffder, ac ni esgynodd y fflam i'r nef, yr hyn a derfysgodd Cain gymaint fel y cenfigenodd wrtho ef, ac y llidiodd wrth Dduw hefyd am dderbyn ei aberth ef a gwrthod ei aberth yntau; fel, er i'r Creawdwr mawr ymresymu âg ef yn dirion, a chynyg drachefn, ar ei edifeirwch, adferu iddo heddwch a derbyniad, a'i gynghori i beidio a rhedeg yn mlaen mewn anfoddlonrwydd yn erbyn ei frawd, eto Cain a'i lladdodd ef. A phaham y lladdodd efe ef? ond am fod ei weithredoedd ef yn ddrwg, ac eiddo ei frawd yn dda. Dyma'r lleiddiad dyn a'r merthyrdod cyntaf a wnaeth cenfigen yn y byd newydd; ond ar ol hyn hi lladdodd ei miloedd, a'i deng miloedd, onide pa losgi, pa garcharu, pa dywallt gwaed, a pha farwolaethau chwerwon ddyfeisiodd Eglwys Rhufain, yr hon oedd yn galw ei hunan y wir eglwys, erioed ar saint y Goruchaf? A hyn holl o lid a chenfigen at bobl ag oedd Duw yn eu caru yn well na hwynt-hwy.

PERCON.—Yr ydych wedi fy rhoi i weled fod amryw o ellyllon uffernol yn cadw cyfeillach yr anghenfil hwn nas enwasoch chwi hwynt eto, megys hunan-gyfiawnder, tuchan, anfoddlonrwydd, cybydd-dod, a gau-ddyben, o ran mae rhai hyn oll i'w gwelod yn Cain, a llawer mwy.

PEREG.—Diau, ond dewch yn mlaen, chwi gewch weled rhagor eto o'i waith ef, a'r ellyllon sydd gydag ef, wrth ddarllen ychydig hanesion, naill ai yn y byd neu yn y Beibl; mae'r ysbryd drwg hwn yn dyfod i mewn i balasau brenhinoedd, ac yn lletya gydag ymherawdwr yn y byd; yn y llysoedd mwyaf ardderchog y ceir ei weled fyfraf aml, er nad yn ddyeithr yn y bythod gwaelaf. Edrychwch y fath anrhaith a wnaeth efe unwaith yn senedd Rhufain, pan trywanwyd Julius Cæsar ei hun â'r cleddyf gan ei bennaethiaid ardderchocaf; rhwysg mawr yr ymherawdwr, ei lwyddiant wrth fin y cleddyf, ei glod o haul i haul, a'i enw wedi ymdaenu tros y moroedd eithaf, a osododd genfigen yn dân, ac enynodd drachwant i gyfoeth, awydd i barch, a serch at lywodraeth cymaint, nes ca's y cleddyf glas dau-finiog yfed gwaed y cadarn yn ddirgel ac yn ddiarwybod. Edrychwch eto ar hanes Mordecai a Haman; yna cewch lun y bwystfil hwn mor eglur ag un man mewn hanes yn dyfod i mewn i balasau

pendefigion y byd. Gwelwch fab Hammedatha yr Agagiad yn ei holl ogoniant—y brenin mawr wedi dyrchafu ei orsedd goruwch gorseddfeingciau ei holl dywysogion, a holl weision yw brenin i gyd yn ymgrymu iddo hyd lawr. Gwelwch ei awdurndod digymhar, yn cael cenad i anfon allan lythyrau, wedi eu selio â sêl y brenin, i fwrddro'r holl Iuddewon trwy holl amrywiol faith daleithiau'r brenin. Gwelwch ei gyfoeth, yn rhoi deng mil o dalentau arian i drysorau'r brenin, fel rhodd i agor drws i'r mwrddrad ysgeler ac annhrugarog. Ewch gydag ef i'w dŷ ei hun; gwrandewch arno o eithaf balchder yn galw am ei wraig a'i garedigion, ac yn adrodd iddynt ogoniant ei gyfoeth, amltra ei feibion, a'r hyn oll y mawrhasai y brenin ef ynthynt; gwrandewch ar ei ymffrost yn mynegu na wahoddasai Esther y frenhines neb gyda'r brenin i'r wledd ond efe, a'i fod yn myned yno fory eilwaith. Ond O! pa ddedwyddwch yn y nef a'r ddaear tra fo cenfigen a'i pherthynasau o mewn yn teyrnasu; ni esmwythâ llonaid llong o aur ddim o'r dyn hwnw bo tân cenfigen yn fflamio yn ei fynwes: ynte gwrandewch Haman yn dweyd wrth ei wraig a'i garedigion—"Nid yw hyn oll yn lleshau i mi tra fyddwyf yn gweled Mordecai yr Iuddew yn eistedd yn mhorth y brenin!" Yma, fy ffrynd, cewch weled dull y sarch dorchog wenwynig hono, cenfigen, yn eithaf ei grym a'i malais, pan nas gwnai dim y tro i lanw ei chylla gwancus ond gwaed yr holl Iuddewon—yn feibion, yn ferched, yn wragedd, ac yn blant, trwy holl daleithiau'r brenin mawr. Rhaid oedd lladd myrddiynau o honynt yn yr un boreu, heb adael un i ddianc am ei einioes, am na ymgrymai Mordecai yr Iuddew yn mhorth y brenin i Haman yr Agagiad. Hyn, debygasid, oedd ddigon i lanw bol yr ellyll hyn, cenfigen; ond nid ydoedd, canys ar ol taflu *lot* am yr amser, fe ddygwyddodd y deuddegfed mis, fel yr oedd un mis ar ddeg eto i Haman fod tan boen a gofid cenfigen cyn cael ei gyflafan i ben; am hyny, angenrhaid oedd cael rhyw faint o ymddial yn gynt i lanw ychydig ar ei stymog wenwynllyd cyn cael ei giniaw; ac at gael hyn i ben, trwy gynghor ei wraig Zeres, fe barotodd grogbren haner cant cufudd ei uwchder, i grogi Mordecai arno. Dyma genfigen a malais yn eu lliw eu hunain, heb fedru eu cuddio na'u harbed.

PERCON.—Ond rhyfeddol yw Rhagluniaeth, fel y trodd hi yma y rhod yn ei hol; canys dyma Haman, wrth geisio peri crogi Mordecai, mewn anwybod, yn rhoi cynghor iddo gael parch mwy; canys pan gofynodd y brenin i Haman "Pa beth a wneid i'r gŵr a fynai y brenin ddyrchafu?" ei ateb oedd, "Dwyn y wisg frenhinol ag oedd y brenin yn ei gwisgo, a'r march ag y marchogai'r brenin arno, a rhoi'r frenhinol goron

ar ei ben, a rhoi'r wisg a'r march yn llaw un o dywysogion y brenin, a'u gwisgo am y gŵr hwnw a fynai y brenin ei anrhydeddu; a pharant iddo," ebe fe, "farchogaeth ar y march trwy heol y ddinas, a chyhoeddant o'i flaen ef, Fel hyn y gwneir i'r gŵr a fyno'r brenin ei anrhydeddu." Ond hyn o ogoniant ddygwyddodd i Mordecai yr Iuddew, a Haman orfu gyflawni iddo hyn oll, heb adael dim a lefarodd heb ei wneuthur.

PĒREG.—Felly y mae cenfigen yn diweddu yn wastad, er drwg iddi ei hunan yn fwy na drwg i'r hwn y mae yn ei ewyllysio; onide daliwch sylw yn unig ar genfigen brodyr Joseph. Dyna un man eto cewch weled yr ysbryd hwn mor eglur ag un man yn yr Hen Destament; ac eto, fel y try pob peth er daioni i seintiau Duw, hyn a drodd er rhwysg a gogoniant rhyfedd i Joseph ei hun, mawr fendith i'w holl genedl, a bendith arbenig i Eglwys Dduw hyd byth. Pan welodd meibion Leah, Bilhah, a Zilpah, eu brawd Joseph, yr hwn oedd lanc lawer ieuangach na hwynt-hwy, yn cael ei anrhydeddu cymaint gan ei dad â mawrder, ac â dillad, siaced fraith o amryw ddarnau, ac yn enwedig âg arwyddion o fafr Duw ar ol llaw, yr hyn oeddent yn ei ofni trwy freuddwydion,—yr un-ysgub-ar-ddeg yn ymgrymu i ysgub Joseph, a'r haul, y lloer, a'r un-seren-ar-ddeg yn ymgrymu iddo ef—hwy a genfigenasant wrtho, a'r elfen uffernol hon nis gorphwysodd, ond dyfeisio gwneud rhyw waredigaeth o hono; ac ar ddiwrnod, pan ddaeth y gwirion wrth arch ei dad i ymweled â'i frodyr i Ddothan, cenfigen a gafodd le cyfleus i gael anwylaf fab a bywyd Jacob oddiar y ffordd, a gwneud y breuddwydion yn ddirym; ond Duw, yr Hwn oedd yn y nef, a'u gwatwarodd hwynt, canys nid oes dim cuddiedig i'w lygaid Ef. Rhai o honynt a fynent ei ladd ef yn union, a'i dasu i un o'r pydewau, a dwyn celwydd—cyfaill cenfigen—adref at eu hen dad Jacob, fod bwystfil wedi ei ladd ef; ond trwy gynghor Reuben, ei fywyd a achubwyd, ac i'r pydew y tafwyd ef; ond trwy gynghor Juda fe'i codwyd oddiyno, ac a'i gwerthwyd ef—fel lachawdwr y byd—i'r Ismaeliaid oedd yn dyfod o Gilead, ac yn myned i waered i'r Aipht, a'u camelod yn dwyn llyisiau, a balm, a myrr, am ugain darn o arian. Hwytthau a'i dygasant ef i'r Aipht, a'r Midianiaid a'i gwerthasant i Putiphar, tywysog Pharao, a'i ddisdain; ond ei frodyr a anfonasant ei siaced fraith ef at eu tad, wedi ei throchi mewn gwaed myn gafr, gan ddywedyd—"Hon a gawsom; myn wybod yn awr ai siaced dy fab di yw hi, ai nage." Dyma falais heb un achos; dyma genfigen heb dad na mam ond diafol ei hun; dyma'r ysbryd uffernol yn ei liwiau ei hun yn poeni, yn gofidio, yn lldio am fod rhyw ar-



goelion o fod Joseph eu brawd i fod rhyw bryd yn uwch na hwynt-hwy gyda Duw a dynion. Ond, fel y dywedasoeh, yma y dyrchafwyd Joseph—dyma'r cam cyntaf o'r ysgol ag oedd yn dwyn y gŵr a garodd yr ARGLWYDD i fod yn ben ar ei frodyr, ac yn fywyd i holl wlad yr Aipht; Duw a'i hanfonodd ef yno i barotai ŷd, lle, a lluniaeth i'w frodyr—cysgod ardderchog o Iachawdwr y byd; oni buasai i'r alltud hwn gael ei drosglwyddo i dir yr Aipht, ni fuasai braich yr ARGLWYDD, yn dwyn Israel allan oddiyno, ddim yn un o waredigaethau'r eglwys. Ond, fy ffrynd, daliwch sylw ronyn ar natur ddi-eflig cenfigen; pa dorfeidd o ellyllon uffernol sy'n cydgerdded â hi! gwelwch i ba fath galon-galedwch a dibrisdod, i ba fath daeogrwydd ac anystyriaeth, i ba fath ddichellion cyfrwys a chelwyddau digywilydd y gyrodd cenfigen y mwrddwyr hyn iddynt! Rhaid lladd myn, rhaid trochi siaced mewn gwaed, a'i danfon felly adref i'r hen batriarch, a'i roi i gredu mai bwystfil oedd wedi lladd anwlyd ei enaid, ac addfedu ei benllwydni i waered i'w fedd.

PERCON.—Y peth sy'n gwneuthur cenfigen yn bechod erchyll yw, ei bod hi'n lldio ac yn ymddial ar rai nad ydynt yn gwneuthur dim drwg iddi, ac felly yn talu drwg am dda. Mi welaf nad oedd Abel yn gwneud dim drwg i Cain, ond o'r tu arall yn foddlon ymddarostwng iddo, fel y dywed Duw ei hunan wrth Cain,—“Atat ti hefyd mae ei ddymuniaid ef, a thi a lywodraethi arno ef.” Nid oedd Mordecai hefyd yn dweyd nac yn gwneuthur dim niwed i Haman, canys yr wyf yn deall nad oedd ei waith ef yn peidio ymostwng i'r gwr ddim yn tarddu oddiwrth falchder, am ei fod ef yn perthyn mor agos i Ester y frenines, nac oddiwrth ysbryd ymrysongar, terfysglyd, pen-galedwch, neu ymddangos o fod yn un neillduol, nac ychwaith un drwg ewylllys nac oerfelgarwch at y brenin a'i lywodraeth, ond oddiwrth fod crefydd yr Iuddewon yn gwahardd iddynt i roi'r fath anrhydedd oruchel i un dyn byw, yn enwedig i'r fath un annuwiol ag oedd Haman; ac edrych hefyd yr oedd arno, debygwn, yn ddarn o annghyfiawnder i'w genedl ei hun i roi'r fath anrhydedd i Amaleciad—un o'r cenedlaethau hyny y tyngodd Duw y byddai iddo ryfela yn eu herbyn hwynt o genedlaeth i genedlaeth (Exod. xvii. 16). Ac felly yma; diniwed oedd Joseph yn hyn oll, eto cenfigen a'i gwerthodd ef i'r Aipht; ond Duw oedd gydag ef; a phan mae'r hen batriarch yn ei eistedd yn y gwely yn bendithio ei feibion, fe ddywed wrth Joseph, “Joseph fydd gangen ffrwythlon, cangen ffrwythlon wrth ffynon; ceingciau yn cerdded ar hyd y mur. A'r saethyddion fuont chwerr wrtho ef, ac a saethasant, ac a'i casasant ef; er hyny arhodd ei fwa ef yn gryf, a breichiau ei ddwyllaw a gryfhasant trwy

ddwyllaw grymus DDuw Jacob; oddi yno y mae'r Bugail—Maen Israel.” “Trwy DDuw dy dad,” ebe fe, “yr Hwn a'th gynorthwya, yr Hollalluog, yr Hwn a'th fendithia â bendithion y nefoedd oddi uchod, â bendithion y dyfnder yn gorwedd isod, â bendithion y bronau a'r groth, rhagorodd bendithion dy dad ar fendithion fy rhieni hyd derfyn bryniau tragwyddoldeb; byddant ar ben Joseph, ac ar goryn yr hwn a neillduwyd oddiwrth ei frodyr.”

PEREG.—Da y dywedasoeh; ond am i chwi ddal sylw fod cenfigen yn gwneud drwg i rai nad y'nt yn gwneud dim drwg iddi hi, pe craffech yn iawn, chwi gaech ei gweled hi yn gwneud drwg i rai ag sydd yn gwneud llawer iawn o dda iddi hi; onide gwelwch genfigen Saul yn erbyn Dafydd. Pan ddarfu i Saul, trwy ei ddrwg ymddygiad a'i gybydd-dod, i dori gorchymyn Duw, a chael gwybod fod y frenhiniaeth i gael ei thori oddiwrtho, a'i rhoddi i gymydog gwell nag ef ei hun, yr hwn a gyflawnai holl feddwl yr ARGLWYDD, yr anfonwyd Samuel i eninio Dafydd, mab Jesse, i fod yn frenin ar Israel. Yn mhen ychydig ar ol pa amser y daeth y Philistiaid yn finteioedd yn erbyn gwlad Israel, a Saul aeth allan yn eu herbyn hwynt, ond pan oeddent yn sefyll ar fynydd o'r naill du, ac Israel yn sefyll ar fynydd o'r tu arall—a dyffryn oedd rhyngthynt. “A daeth gŵr allan o wersylloedd y Philistiaid, a'i enw Goliah, o Gath: ei uchder oedd chwe' chufudd a rhychwant, a helm o bres ar ei ben, a llurig emmog a wisgai: a phwys y llurig oedd bum' mil o siclau pres; a bottasau pres oedd am ei draed ef, a tharian pres rhwng ei ysgwyddau; a phaladr ei waewffon ef oedd fel carfan gwehydd; a blaen ei waewffon ef oedd chwe' chan' sicl o haiarn; ac un yn dwyn tarian oedd yn myned o'i flaen ef. Ac efe a safodd, ac a waeddodd ar fyddinoedd Israel, ac a ddywedodd wrthynt—“I ba beth y dewch i drefnu'ch byddinoedd? Onid ydwyf fi Philistiad, a chwithau yn weision i Saul: dewiswch i chwi ŵr i ddyfod i waered ataf fi. Os gall efe ymladd â mi, a'm lladd i, yna y byddwn ni yn weision i chwi; ond os myfi a'i gorchfygaf ef, ac a'i lladdaf ef, yna y byddwch chwi yn weision i ni, ac y gwasanaethwch ni. A'r Philistiad a ddywedodd, Myfi a waradwyddais fyddinoedd Israel y dydd hwn. A phan glybu Saul a holl Israel y geiriau hyny gan y Philistiad, yna y digalonasant ac yr ofnasant yn ddirfawr. A'r Philistiad a nesaodd foreu a hwyr, ac a ymddangosodd ddeugain niwrnod, heb un gŵr eto o Israel a chalon i fyned yn ei erbyn ef.” Yma buasant yn myned tan law'r Philistiaid oni buasai mab Jesse, eneinog yr ARGLWYDD, yr hwn oedd yn awr wedi derbyn ysbryd doethineb a nerth (yr hwn a ymadawodd â Saul) ddyfod i'r

gweryll—gŵr gwridgoch ieuangc o oedran, teg yr olwg, ond annhebygol iawn o gael y maes ar Goliah, o Gath. “Ond na lwfrhaed calon neb o’i herwydd ef,” ebe mab Jesse wrth frenin Israel, “dy was di a â, ac a ymladd â’r Philistiad hwn.” A phan ddywedodd Saul, “ni elli di fyned i ymladd â’r Philistiad, canys llanc ydwyt ti, ac yntau sydd ryfelwr o’i febyd.” Ond Dafydd a atebodd y brenin, “Bugail oedd dy was ar ddefaid ei dad; a daeth llew ac arth ac a gymerasant oen o’r praid, a mi a aethum ar ei ol ef, ac a’i tarewais ef, ac a’i hachubais o’i safn ef; a phan gyfododd efi’r herbyn, mi a ymaflais yn ei farf ef, ac a’i tarewais, ac a’i lleddais ef. Felly dy was di a laddodd y llew a’r arth, a’r Philistiad dienwaededig hwn fydd megys un o honynt, gan iddo anharchu byddinoedd y Duw byw; a’r ARGLWYDD a’r hachubodd i o grafanc y llew, ac o balf yr arth, efe a’r hachub o law y Philistiad hwn.” Dyma ŵr Duw yn awr yn myned yn nerth ac Ysbryd Duw i waredu byddinoedd Israel o’u holl ofnau. Gwelwch lanc ieuangc yn myned i ymladd â chawr na fu o’i fath yn y byd! heb un arf ond ffon-daf i phump o geryg llyfnion yr afon. Gwrandewch eiriau’r Philistiad! “Ai çï ydwyf fi, gan dy fod yn dyfod ataf fi â ffyn? a’r Philistiad a regodd Dafydd trwy ei dduwiau ef,” ac a fygythiodd roi ei gnawd ef i ehediaid y nefoedd ac i anifeiliaid y maes. Ond O! ateb ffyddiog, cadarn, gwas yr ARGLWYDD, “Ti ydwyt yn dyfod ataf fi â chleddyf, ac â gwaewffon, ac â tharian; a minau ydwyf yn dyfod ataf ti yn enw ARGLWYDD y lluoedd, Duw byddinoedd Israel, yr Hwn yn geblaist di. Y dydd hwn y dyry’r ARGLWYDD dydi yn fy llaw i, a mi a’th darawaf di; ac a gymeraf ymaith dy ben oddi arnat, ac a roddaf gelanedd gweryll y Philistiaid y dydd hwn i ehediaid y nefoedd, ac i fwystfilod y ddaear; fel y gwypo’r holl ddaear fod Duw yn Israel. A’r holl gynulleidfa hon a gânt wybod nad â chleddyf nac â gwaewffon y gward yr ARGLWYDD (canys eiddo yr ARGLWYDD yw y rhyfel), ac Efe a’ch rhydd chwï yn ein llaw ni. Yna cymerodd Dafydd, gwas yr ARGLWYDD, gareg o’i gôd, ac a’i tafodd, ac a darawodd y Philistiad yn ei dalcen; a’r gareg a soddodd yn ei dalcen ef, ac efe a syrthiodd i lawr ar ei wyneb. Yna cymerodd ei gleddyf, ac y torodd ei ben âg ef, ac a’i dygodd i’r gweryll at fyddinoedd yr ARGLWYDD, o flaen Saul. A gwŷr Israel a godasant, a floeddiasant, ac a erlidiasant ar ol y Philistiad, ac a ysbeiliasant eu gwerylloedd hwynt.” Dyma fuddugoliaeth annhebygol! a thyma barch anarferol i’r gŵr ag oedd ddiystyrlyd gan ei frodyr ychydig oriau o’r blaen, yn awr yn cael ei anrhydeddu gan Saul a holl Israel, a Jonathan yn rhoddi iddo ei fantell ei hun, a’i holl wisgoedd

hyd y nod ei gleddyf, a’i fwa, a’i wregys; ond er hyn oll, mae dyddiau drwg i orddiwes Dafydd, a chenfigen Saul i enyn yn fflam o dân angerddol yn ei erbyn ef; canys wrth ddyfod adref trwy’r trefydd a’r pentrefydd y gwagedd a ddaethant allan o bob dinas, dan ganu a dawnsio i gyfarfod â’r brenin Saul â thympanau a gorfoledd, ac âg offer cerdd danau; ac wrth ganu hwy a ymatebent y naill y llall, ac a floeddient—“Saul a laddodd ei filoedd, a Dafydd ei ddeng miloedd.” A’r gwagedd nid ystyriasant y genfigen allai hyn i enyn yn Saul, yr hwn oedd fwy am enw gyda dynion nac am enw a gogoniant Duw Israel. “Ac yna y digiodd Saul yn ddirfawr, ac a ddywedodd, Rhoddasant i Dafydd ei fyrddiwn, ac i mi y rhoddasant filoedd; beth mwy a roddant iddo ef ond y frenhiniaeth?” A bu Saul â’i lygad ar Dafydd o’r dydd hwnw allan, fel pa dda bynag a wnai Dafydd, cenfigen Saul a fynai ei ddyfetha ef, megys am wneud y da hwnw. Edrychwch o hyn allan, pa sawl cymwynas a wnaeth Dafydd i Saul ac i holl Israel? cynifer a hyny o weithiau a mwy y ceisiodd cenfigen Saul ei ddieneidid ef. Dwy waith ar ol hyn y tafodd ef y waewffon i drywanu Dafydd, a chan y nerth, y bicell yn glynu yn y pared, ac eneiog yr ARGLWYDD yn ddihangol; dyma’r iawn a roddodd cenfigen am ladd Goliah, a hyn oll oedd yn erbyn goleuni yn y brenin, o ran fe wyddai fod Duw gyda Dafydd, o achos paham yr oedd yn ei ofni ef. Pa sawl cam wnaeth efe âg ef ar ol hyn? er fod ei holl ymddygiad ef yn ddoeth, ac yn llwyddianus; wedi addaw ei ferch hynaf iddo yn ei phallu, a’i rhoddi i arall, anfyddlon y gwelwch ef yma yn ei addewid, ond yn fwy dichellgar a chenfigenus yn ei ddyben, am ei fod yn rhoi ei ferch yn wraig iddo er mwyn cael cant o flaen-grwyn y Philistiaid, gan dybied, wrth ymladd â hwy, y cwmpai ef trwy eu dwylaw hwynt; ond dyma y fyddlon yn dyfod adref yn ddihangol, a dau gant o flaen-grwyn gydag ef. Ond cenfigen y brenin a gynyddodd fwy, fwy; yn mhen ychydig, Saul sy’n mynegu i Jonathan ei fod ef am ladd Dafydd, ac yntau yn ei gynghori ef yn y maes, gan ddywedyd, “Na pheched y brenin yn erbyn ei was, oherwydd ni phechodd efe i’th erbyn di; ac oherwydd bod ei weithredoedd ef yn dda iawn i ti. Canys fe ddododd ei einioes yn ei law, ac a darawodd y Philistiad, a’r ARGLWYDD a wnaeth iechydwrriaeth mawr i holl Israel, ti a’i gwelaist, ac a lawenychaist; paham gan hyny y pechi yn erbyn gwaed gwirion yn ddiachos.” Ac ar ol i Saul wrando ar gynghor Jonathan, a thyngu, fel mai byw’r ARGLWYDD, ni leddir ef; yn mhen ychydig amser, pan daeth y Philistiaid yn erbyn Israel, a Dafydd fyned allan yn eu herbyn hwynt, a’u gorchfygu â lladdfa fawr, yr ysbryd drwg eilwaith a ddaeth i Saul;

pan oedd ef yn eistedd yn ei dŷ, a'i waewffon yn ei law, a Dafydd yn canu'r delyn, ceisiodd daro ei waewffon trwy Dafydd yn y pared; ac ar ol iddo ffoi y nos hono, gyrodd y brenin ar ei ol ef i'w dŷ, ac oni buasai i Michal ei ollwng ef i lawr trwy'r ffenestr, cenadon Saul a'i lladdasant ef; a phan ddwywedodd Michal ei fod ef yn glaf, gan ddodi delw yn y gwely yn ei le ef, a chlustog o flew geifr tan ei ben, y danfonodd y brenin genadon ar ol cenadon i'w ddwyn ef yn y gwely ato ei hun i gael ei ladd ef.

PERCON.—Creulondeb digymhar; am dda o hyd yr oedd y brenin am ei ladd.

PEREG.—Ie; canys y llid oedd yn erbyn yr enw oedd e'n gael trwy holl Israel, ac yn gwybod hefyd y deuai i'r frenhiniaeth yn lle ei hiliogaeth ef.

PERCON.—Onid oedd Duw wedi ordeinio ei bod felly, a phwy all sefyll yn ei erbyn Ef? A Jonathan hefyd yn llawn foddolawn i'r peth, ac wedi cyfamodi â Dafydd o genhedlaeth i genhedlaeth.

PEREG.—Gwir; ond nid oes nag ewyllys Duw, na hynawsedd dynion, a ddiffydd dân cenfigen y lle dechreu a enyn. A chwi a gewch weled mwy o ryfeddod na hyn yn yr ysbryd cenfigenus. Pan ddanfonodd Saul genadon i ymofyn Dafydd—yr hwn oedd yn awr gyda Samuel yn Naioth, yn Rama—i'w ddal ef, a gweled prophwydi'r ARGLWYDD yn prophwydo, a Samuel arnynt hwy, cenadon Saul hefyd a brophwydasant; a phan anfonodd yr ail waith, y rheiny a brophwydasant, a'r trydydd cenadon a brophwydasant yr un wedd; ac yn olaf daeth Saul yno ei hunan i ddal Dafydd, a gweled o hono brophwydi Duw yn prophwydo, ddisgyn o'r un ysbryd arno ef, a phrophwydo ar hyd y ffordd i Naioth, gan ddiog ei ddillad, a phrophwydo hefyd ger bron Samuel, ac a syrthiodd i lawr hefyd yn noeth yr holl ddiwrnod hwnw, a'r holl nos.

PERCON.—Rwyf yn synu pa fodd na buasai'r ysbryd o brophwydo—sef, fel yr wyf yn tybied, canmawl Duw, bendithio ei enw, cyhoeddi allan ei ryfeddodau, ddeall wrth brophwydo—p'odd, meddaf, na buasai yr ysbryd hwn yn gadaw Saul, ac yn diffodd ei holl genfigen, ac yn ei roi i garu Dafydd fel ei ffrynd penaf.

PEREG.—Fe debygasid hyny; ond deallwch nad oedd y tân ddim yn fflamio ond tra yr oedd Saul yn mysg y prophwydi; ac yn union fel yr ymadawodd ef â hwynt, fe ddaeth yr un genfigen i lywodraethu, ac o lid at Jonathan am ei fod yn ffrynd i Dafydd; fe ergydiodd y waewffon ato i'w daro ef; ac eilwaith ceir y brenin yn taro pedwar ugain a phump o offeiriad yr ARGLWYDD yn gwisgo ephod liain, ac Abimelec, offeiriad Nob, yn nghyda'r holl ddinas, yn wŷr, yn

wragedd, yn feibion, ac yn ferched, yn blentyn sugno, yn ŷch, yn asyn, ac yn oen, am yn unig i Abimelec, mab Ahitub, i fyned o flaen yr ARGLWYDD yn achos Dafydd. A rhy faith, fy ffrynd, yw adrodd holl genfigen Saul, a holl ffyddlondeb Dafydd iddo trwy ei holl ddyddiau. B'le yr oedd lle i ddangos mwy diniweidrwydd a ffyddlondeb i Saul nag a ddangosodd Dafydd iddo yn Engedi, lle yr oedd efe a'i chwe' chan' wŷr yn ymguddio yn ystlysau'r ogof, a mab Cis yn dyfod yno i'r ogof i wasanaethu ei gorph, lle gallasai Dafydd ei ladd ef; a gwŷr Dafydd a ddywedodd, "Wele'r dydd wedi dyfod yn mha un y rhoddodd yr ARGLWYDD dy elyn yn dy law di, fel y gwnelech iddo fel y bydd da yn dy olwg; a Dafydd a gododd ac a dorodd ymyl ei wisg ef."

PERCON.—A oedd hyn ddim digon i weled gonestrwydd, a thori lawr genfigen?

PEREG.—Nac ydoedd; canys er i Saul y pryd hwn i edifarhau i ddyfod allan yn ei erbyn ef, a dweyd, "A'i dy lef di yw hwn, fy mab Dafydd" (pan oedd Dafydd wedi dangos cwr ei fantell iddo, a gwneud yn hysbys bod ei einioes ef yr ei law ef). "A Saul a ddyrchafodd ei lef ac a wylodd; efe a ddywedodd hefyd wrth Dafydd, Cyfiawnach wyt ti na myfi; canys ti a delaist i mi dda, a minau a delaist i tithau ddrwg; a thi a ddangosaist wneuthur o honot i mi ddaioni, o herwydd rhoddodd yr ARGLWYDD fi yn dy law di, ac ni'm lleddaist. Oblegyd os caffai wŷr ei elyn, a ollyngai efe ef mewn ffordd dda? Am hyny yr ARGLWYDD a dal o i ti ddaioni am yr hyn a wnaethost i mi y dydd hwn. Ac wele yn awr mi wn gan deyrnasu y teyrnasi di, ac y sicrhaer brenhiniaeth Israel. Twng dithau wrthyf fi yn awr i'r ARGLWYDD, na thori ymaith fy had i ar fy ol, ac na ddyfethi fy enw i o dŷ fy nhad. A Dafydd a dyngodd wrth Saul; a Saul a aeth i'w dŷ." A Dafydd a'i wŷr a aethant i'r amddiffynfa.

PERCON.—Mae yn edrych i mi fel rhyw benwandod neu eithaf calon-galedwch, os cododd ef yn erbyn Dafydd byth mwy; ac eto fe ddywed yr Ysgrythyr mai felly y gwnaeth; ac fe roddodd Michal ei ferch, gwraig Dafydd, i Phalti fab Lais o Alim.

PEREG.—Felly y gwnaeth; ond mae'n debyg gallasai hyn fod ryw amser o'r blaen; ond chwi gewch Saul yn canlyn ar ol Dafydd wedi hyn, pan y cafodd Dafydd ef yn cysgu, a thair mil o wŷr etholedig Israel gydag ef, yn mryn Hacila, yn analwch Ziph, ac y cymerodd ef y waewffon oedd yn y ddaear, wrth ei obenydd, a'r llestr a'r dwfr wrth ei ben ef; ac nid oedd neb yn gweled, nac yn gwybod, nac yn effro, canys yr oeddent oll yn cysgu, o herwydd trwmgwsg oddi-

wrth yr ARGLWYDD a syrthiasai arnynt. Abisai y pryd hyn a fynai ei ladd ef, gan ddywedyd, "Duw a gauodd heddyw dy elyn yn dy law di; yn awr, gan hyny, gad i mi ei daro ef, atolwg, â gwaewffon hyd y ddaear unwaith, ac ni ail darawaf ef." Ond Dafydd a ddywedodd, "na ddyfetha ef, canys pwy a estynai ei law yn erbyn eneinog yr ARGLWYDD, ac a fyddai ddieuog? Fel y mae'r ARGLWYDD yn fyw, naill ai yr ARGLWYDD ai tery ef, ai ei ddydd ef a ddaw i farw; ac efe a ddisgyn i'r rhyfel, ac a ddyfethir."

PERCON.—Ond fe faeddodd Dafydd Saul o'r diwedd trwy gymwynasau, ffyddlondeb, a diniweidrwydd.

PEREG.—Mae'n wir na chwaneodd Saul ymlid mwy ar ei ol ef; ac fe ddywedodd, pan adnabu ef lais Dafydd yn danod i Abner, tywysog ei lu ef, ei esgeulusdra, "Ai dy lais di yw hwn, fy mab Dafydd, ebe fe; pechais, dychwel, fy mab, canys ni'th ddrygaf mwy, o herwydd gwerthfawr fu fy einioes yn dy olwg di y dydd hwn: wele, ynfyd y gwnaethum, a mi a gyfeiliornais yn ddirfawr." A diau yw nad oes un ffordd well i gongcwero cenfigen na dyoddef hyd yr eithaf, a gadael Duw ei Hun i dalu'r pwyth; er na ellir trwy hyny ladd y genfigen yn y dyn cenfigenus, eto mae'r sawl a ddyoddefo â chydwybod rydd, ac mae Duw yn taro yn mlaen yn fynych, ac yn agor drws o rydd-did i'r dyoddefwr, ac yn dangos i'r byd, a'r cenfigenwr ei hunan, ei fod ef yn gwneuthur cam â'r gwirion.

PERCON.—Am fod ymherawdwyr a brenhinoedd y byd yn cenfigenu llwyddiant a hawddfyd y naill y llall, nid yw ryfedd genyf, canys yr wyf yn meddwl am lawer o ryfel-oedd sydd yn terfysgu'r holl ddaear, ac yn gosod ymherodraethau meithion ar dân, mai cenfigen yw eu dechreuad; y rhyfeloedd mawrion fu rhwng Rhufain a holl genedlaethau'r byd o oes i oes, yn enwedig rhyngthynt a'r Carthaginiad, yr hwn nas dibenwyd nes rhoi Carthage fawr yn gyd-wastad a'r llawr, oedd i gyd a'u gwraidd o genfigen. Rhufain oedd am ddringad uwch dinasoedd a theyrnasoedd y byd, ac am fyned yn ben, fel y cafodd yn y diwedd ar holl ardaloedd y ddaear; ac nid oedd yr ymherodraethau ereill, megys y Caldeaid, y Persiaid, a'r Groegiaid, un gronyn gwell. Ond eto, hyn wyf yn ei ryfeddu, os yw'r ysbryd hwn yn dyfod i'r eglwys, ac yn gwneuthur y fath anrhaith yno.

PEREG.—Paham y rhyfeddwch hyny? Fe ddaw'r diafol â phechod i mewn i'r eglwys fel y daeth ef i ardd Eden, os Duw a dry ei gefn; ac onid proffeswyr oedd Cain a Saul; ac onid proffeswyr enwog oedd Cora, Dathan, ac Abiram; ac eto hwy a genfigasant wrth Moses yn y gwrsyll, ac

wrth Aaron, sanct yr Israel. Mi ddymunwn i chwi ddal sylw ragor ar genfigen Cora, nid yn unig am ei bod hi wedi ei gosod i lawr yn Epistol Judas, fel dadseiniad o farn yn erbyn tuchanwyr, terfysgwyr, a chenfigenwyr y dyddiau hyny, "hwy a ddifethwyd yn ngwrthddywediad Cora," sef, fe lyngcodd eu cenfigen eu hun hwy fel y llyngcodd y ddaear Cora; ond hefyd am fod yr un sut genfigen yn y dyddiau hyn yn ymddyrchafu mewn amryw broffeswyr yn erbyn gwir weinidogion yr ARGLWYDD, a bydd y diwedd yn debyg o fod yn ol yr hyn a fynegodd y rhagddywededig Apostol. Daliwch sylw ar yr hanes. Fe enynodd y genfigen hon mewn amser ag oedd yr ARGLWYDD wedi arddel gweinidogaeth Moses ac Aaron, ac wedi rhoi yn nhir yr Aipht, yn y Môr Coch, yn anialwch Sin, ac yn Massa, Meriba, arwyddion rhyfedd o atwad gŵr Duw. Ond dyrchafiad arall fydd yn enyn cenfigen; am hyny dyma Cora, cefnder Moses, yn gweled Aaron wedi cael ei ddyrchafu i'r offeiriadaeth, yn terfysgu; ac wedi hudo gydag ef Dathan, Abiram, ac On, o lwyth Reuben—hwythau hefyd wedi anfoddloni fod Moses wedi gosod llwyth Juda yn nesaf at babel y cyfarfod; lle mai cyntaf-anedig Jacob oedd Reuben—y rhai'n yr awrhon yn gymydogion i'w gilydd, am eu bod yn gwersyllu yn yr un tu i'r babel, a ddenasant gyda hwy ddau cant a haner, nid o rai isel radd, ond penaethiaid y gynulleidfa, pendefigion y gymanfa, gwŷr enwog, naill ai penau teuluoedd, neu gyntaf-anedigion y bobl bob yr un; ond yn flaenor o bawb oedd Cora o lwyth Lefi. Y rhai'n oll, mae'n debyg, cyn dyrchafiad Aaron i'r offeiriadaeth, oedd yn gwasanaethu yn y pethau sanctaidd; yr oeddent oll yn grefyddwyr mor fawrion yn Israel, fel nad oedd oddiallan nemawr o'u blaen hwynt. Yr oedd llwyth Lefi yn bobl neillduol i'r ARGLWYDD, ac oll yn dwyn, yn glanhau, neu yn gwneud rhyw wasanaeth yn nghylch pabell yr ARGLWYDD, ac wedi bod yn hynod am sêl a chadernid yn ddiweddar yn mherthynas i'r llo aur; ond yn awr gweled dyrchafiad Moses i fod fel tywysog, ac Aaron yn archoffeiriad, a'r offeiriadaeth hefyd wedi ei dodi i fod o dŷ ac o deulu Aaron hyd fyth, a berodd i'r gwŷr hyn genfigenu cymaint fel y cyfodasant i fyny yn erbyn Moses ac Aaron, gan ddywedyd, "Gormod i chwi hyn o-ddyrchafiad; mae'r holl gynulleidfa yn sanctaidd, bob un o honynt, a hwy allant aberthu ebyrth bob penteulan dros ei deulu fel o'r blaen, ac mae'r ARGLWYDD yn eu mysg eisoes; ac nid y chwi trwy'ch gweddiau na'ch eiriolaeth sy'n tynu Duw atynt, fel yr ydych yn dodi y bobl i dybied. Paham yr ymgodwch, ac y gwnewch eich hunain yn wŷr mawrion goruwch cynulleidfa'r ARGLWYDD?" Dyma genfigen yn ei

lliw ei hun ; gwelwch pa duchan, pa lid, pa awydd i barch, pa ddrwg-dyb, a pha gondefnio diachos sydd yn gwneud yr un pechod atgas hwnw i fyny? Tuchan yn erbyn Duw a Moses, eisieu dyrchafu Cora yn lle Aaron ; llied at Moses ac Aaron, am eu bod goruwch yr holl gynulleidfa ; awydd i barch, am eu bod hwy eu hunain am fod yn lle Moses ac Aaron ; drwg-dyb, am eu bod yn gosod y Moses ac Aaron mai hwynt-hwy eu hunain a roddasant y lleoedd hyn iddynt eu hunain ; condemnio diachos, am nad aeth Moses nac Aaron i'r lleoedd uchel hyn ond wrth orchymyn Duw. Ond fel y clywch yn mlaen, mae cenfigen eto yn dduach ei lliw, ac yn fwy dieffig ei natur.

PERCON.—Ewch yn mlaen ynte i agor yr holl hanes.

PEREG.—Moses y pryd hyn a gwmpodd ar ei wyneb o flaen yr ARGLWYDD, yr Hwn yw Tad yr ymddifad, ac Amddiffynwr y gwirion yn erbyn y sawl a'i cenfigeno ef, —ac a ddywedodd wrth Cora,—y boreu y dengys yr ARGLWYDD yr hwn sydd eiddo Ef, a'r sanctaidd, sef yr hwn sydd wedi ei neillduo gan DDUW at yr offeiriadaeth ; a phwy a ddylai nesau ato Ef, sef pa un ai Aaron? ai Cora? canys yr hwn a ddewisodd Efe a nesa ato Ef. Am hyny, ebe fe, cymered Cora a'i holl gynulleidfa yfory ei thuserau, a rhoddwch ynthynt dân, a gosodwch ynthynt arogl darth ger bron yr ARGLWYDD : yna bydd i'r gŵr hwnw fod yn ddewisedig i'r offeiriadaeth, yr hwn a ddewisodd yr ARGLWYDD ; gormod i chwi hyn, meibion Lefi.—Chwi welwch Moses yn foddlon i osod Duw yn ganolwr, yn gwybod ei alwad ei hun, ac Aaron yn sicr ; ac hefyd yn foddlon i ymadael â'i hawl, os yr ARGLWYDD a'i tynai oddiwrtho i foddloni'r bobl duchanllyd hyn, a swyddwyr ereill ; a phresenoldeb yr ARGLWYDD wrth losgi yr arogl darth gaiff fod yn arwydd o'r peth, a dewisedig yr ARGLWYDD fydd hwnw a ddysgyno'r llewyrch nefol arno ; ond ar ol gwneud y treial, gwae'r hwn sy'n rhyfygu.

PERCON.—Yr oedd Moses yn fyrbwyll na buasai yn aros i berswadio y rhai'n i'r gwirionedd, yn lle gadael cynifer o bobl enwog i ddinystyr.

PEREG.—Nage ; Moses a'u ceryddodd hwynt, ac a'u cynghorodd trwy eiriau teg ; ond nis tâl dim a wneir i'r dyn cenfigenus ; pechod yw gan mwyaf sy'n addfedu i farn, a da yw os barn dymhorol a fydd hon. Ebe fe, Gwrandewch, atolwg, meibion Lefi, am fod mwy o blant Lefi yn y genfigen hon na neb arall, a Chora yn benaf o honynt—“ Ai bychan neillduo o DDUW Israel chwi oddiwrth gynulleidfa Israel? gan eich nesau chwi ato ei Hun i wasanaethu gwasanaeth tabernacl yr ARGLWYDD? ac i sefyll ger bron y gynulleidfa i'w gwasanaethu hwynt? canys Efe a'th nesaodd di o'th

holl frodyr meibion Lefi gyda thi,” ebe fe wrth Cora : “ ac a geisiwch chwi'r offeiriadaeth hefyd? ” Am hyny, tydi a'th holl gynulleidfa ydych yn ymgynull yn erbyn yr ARGLWYDD : ond Aaron, beth yw efe i chwi duchan yn ei erbyn? Ni wnai hyn, sef eu bod wedi eu dyrchafu uwch holl lwythau Israel, er fod hyny yn mhell uwch eu haeddiant, ddim llesad, canys nid yw'r ysbryd balch hwnw yn edrych ar ddim da a wnaeth Duw na dyn, ond ar y da a ddylai ef i wneuthur ; lle nad yw gostyngeddwydd am fod neb wedi ei ddyrchafu o'i flaen ef mewn parch, gallu, meddianau, neu doniau, grasusau mewn defnyddioldeb, ddim yn terfysgu nac yn ymfliio, ond yn synu ac yn rhyfeddu ei fod ef wedi cael lle i gadw drws yn nhŷ DDUW, ac i fod yn llai na'r lleiaf o'r holl saint. Nid oedd y cenfigenwyr hyn yn meddwl fod eu holl wrthddyweddiad hwynt yn erbyn yr ARGLWYDD, ei ewyllys, a'i air, yn gosod Aaron yn yr offeiriadaeth : ond fe ddywed Moses wrthynt yn eglur mai yn erbyn Duw yr oedd yr holl lid a'r tuchan hyn ; canys beth yw Aaron, ebe fe? nid yw ef ond offeryn yn llaw Duw, ac nid yn fwy na llai nag y mae Duw yn peri ei fod ef. Ond tuag at wneuthur y gwrthddywedwyr hyn yn ddiesgus, y geilw Moses am Dathan ac Abiram, a hwythau omeddasant ddyfod, ac a ddywedasant wrth y cenadon a ddanfomodd Moses—Ai bychan yw dwyn o honot ni i fyny o dir yn llifeirio o laeth a mêl (sef tir yr Aipht oeddent yn ei alw felly i watwar Moses am ei glod i dir Canaan, i ba un yr addawodd ef ei dwyn hwy) i'n lladd ni yn y diffeithwch? Gwelwch genfigen yn bwrw y bai ar arall, pan yn unig y bo fe arni hi ei hun, canys eu pechod hwy, eu hannghrediniaeth a'u lladdasant hwy, nid Moses. A rhaid yw i ti hefyd arglwyddiaethu yn dost arnom ni! O genfigen! pa sawl celwydd, pa sawl cam-dystiolaeth, a pha lid a malais sy'n gwneud i fyny yr anrhaith ddigywilydd hon? Ni ddygaist ni eto i dir yn llifeirio o laeth a mel, meddant, ac ni roddaist i ni feddiant mewn maes na gwinllan ; a dyni di lygaid y gwŷr hyn, fel y gallost eu harwain lle y mynost? A hwy a ballasant ddyfod i fyny at Moses. Dyma gynyg pob amodau : ond cenfigen a â yn mlaen hyd ddystryw, a'r ysbryd hwn sydd yn gosod yn erbyn Moses y pethau hyn, ac ef yn ddieuog oddi wrthynt. Fe fynai cenfigen fod Moses wedi gwneuthur cam â hwynt—eu dwyn o wlad yr Aipht. O drueiniaid anniolchgar, eu hysbryd cenfigenus hwynt yn gosod hyny fel cam, ag oedd yn un o'r bendithion mwyaf fu pobl yn gyfranog o hono. Maent yn rhoi yn ei erbyn fod gantho amcan i ddwyn eu bywydau yn yr anialwch, lle yr oedd manna o'r nef, a dwfr o'r graig yn eu canlyn, nes dyfod o





honynt i mewn i dir Canaan; ac os yr ARGLWYDD oedd yn eu lladd, eu pechodau eu hunain oedd yr achos o hyny, ac nid dyben Moses wrth eu dwyn i'r anialwch. Maent yn gosod ar Moses i fod gantho amcan i gaethiwo eu rhydd-did, trwy osod ei hunan yn frenin arnynt. O genfigen! O gelywydd! hen ellyll y pwll! Onid tad tirion oedd Moses iddynt? Onid gwas gostyngedig tros yr ARGLWYDD? Onid oedd eu meddianau hwynt yn cael eu sicrhau iddynt, a'u trefn yn cael ei hamddiffyn? cyfiawnder yn cael ei weinidogaethu yn ddiuedd? ac onid oeddent yn byw mewn anrhydedd, ac mewn esmwythder? ac eto rhaid achwyn, fel pe buasai iau Moses yn drymach na iau Pharao. Ac a oedd Moses yn gwneuthur ei hunan yn dywysog? pell iawn oddiwrth hyny; a mor ewyllysgar y buasai yn rhoi ei swydd heibio ar y cyntaf, ac nid llai boddlon yn awr, pe gwelsai Duw fod hyny yn oreu? Eto llid a chenfigen Dathan ac Abiram sy'n ei roi ef tan y nodau mwyaf du o ormesdeyrn, a gorthrymwr yn neidio i lywodraeth nad oedd yn perthyn iddo. Rhaid i falais y dynion hyn eto osod yn erbyn Moses ei fod ef yn eu twyllo hwy trwy addaw iddynt wlad o laeth a mêl, ac heb gwblhau. Ond, atolwg, bai pwy oedd hyn? fe'u harweiniodd hwynt i'w hymyl hi, ac yr oedd ef yn union barod tan Dduw i'w dwyn hwynt i mewn i'w pherchenogi; ond hwy a gauasant y drws yn eu herbryn eu hunain, fel mai eu hunig fai hwynt oedd yr achos na fuasant yn awr yn Nghanaan. Eto rhaid i genfigen i fwrw ar Moses, fel cyflawnid yr Ysgrhythyr, "Pan gwyro stolined dyn ei ffordd ef, ei galon a ymddigia yn erbyn yr ARGLWYDD." Ond nid hyn yn unig osododd genfigen Dathan ac Abiram yn erbyn Moses, canys dywedent ei fod yn tynu llygaid y bobl hyn er mwyn eu harwain i'r man y mynai ef ei hun, heb iddynt adnabod ei fod ef yn eu twyllo; nis gallasai uffern ei hun ddim dyfeisio geiriau mwy gwrthwyneb i bob gwirionedd, gonestrwydd, ffyddlondeb ag oedd yn Moses, a phob union sail o wir alwad oddiwrth Dduw. Dyma i chwi, fy ffrynd, olwg lawn ar yr ysbryd hwn mewn profeswyr enwog, heb un achos cynhyrriad o hono, ond bod Duw wedi dyrchafu Moses yn fugail i'w bobl, ac Aaron yn archoffeiriad.

PERCON.—Adroddwch yr hanes yn mlaen, fallai y cawn rhyg ychydig ragor o natur y pechod hwn yn y canlyniad.

PEREG.—Cewch weled cyndynrwydd, calon-galedwch, rhyfyg, a hunan-dyb fwy nag a welsoch erioed o'r blaen; am hyny mi ddarllenaf i chwi, gydag ychydig agoriad, dext y Beibl—"Am hyny y digiodd Moses, y dyn llareiddiaf yn fyw, canys sel yn achos Duw a'i hysodd ef, ac a ddywedodd wrth yr ARGLWYDD, Nac edrych ar eu hoffrwm hwynt;

hyny yw, nad ymddangosed y Shekina (llewyrch gogoniant yr ARGLWYDD) pan y b'ont yfory yn arogl-darthu. Ni chymerais un asyn oddi arnynt, ac ni ddrygais neb o honynt; nis cymerais gyflog cadben llu, na thâl barnwr, llawer llai teyrnged tywysog (y peth oedd cenfigen Dathan ac Abiram yn osod yn fy erbyn). Yna y galwodd Moses Cora i fod â'i gynulleidfa gydag ef yfory o flaen yr ARGLWYDD, i arogl-darthu, ac Aaron hefyd gyda hwynt; a chymered pob un (ebe fe) ei thuser (fallai mai y thuserau oedd ganthyt o'r blaen, pan oedd pob penteulu yn arogl-darthu) a rhoddwch arnynt arogl-darth; a dyged pob un ei thuser ger bron yr ARGLWYDD, sef dau cant a deg a deugain o thuserau; dwg dithau hefyd ac Aaron bob un ei thuser. A chymerasant bob un ei thuser, a rhoddasant dân ynthyt, a gosodasant arogl-darth arnynt, a safasant wrth ddrws pabell y cyfarfod, yn ngwydd Moses ac Aaron." Tuag at i Cora gael pob chwareu teg, daliwch sylw fel perodd Moses i Aaron ei hunan, yr hwn oedd yn awr trwy awdurdod dwyfol wedi cael yr anrhydedd o losgi arogl-darth o fewn i'r babell; eto yn y prawf hwn, fe gafodd ei ddodi ar dreial, ac i losgi ei arogl-darth wrth ddrws y babell, i fod megys un o'r un radd a Chora; ac fe erys Moses ei hun yno gyda hwynt, fel y caffo y gwthddywedwr bob union chwareu ag a allo ddymuno—fel y cauer pob genau, ag y caffo cyfiawnder fyned wrth bwys. Ond O eithaf rhyfyg,—fe dderbyniodd Cora y shalens, ac a ymddangosodd gyda Moses ac Aaron, o flaen drws pabell y cyfarfod, mewn gobaith o bosibl o gario'r dydd. B'le anystyriaeth, b'le galon-galedwch, a ph'le ÷ondra mwy digywillydd nag sydd mewn cenfigen? Oni welodd ef Nabad ac Abihu, y rhai oeddynt offeiriad cysegredig, yn ddiweddar iawn yn cael eu taro yn farw am iddynt gynyg arogl-darthu â than dyeithr, neu dân halogedig; a pha faint mwy peryglus ydoedd iddynt hwy arogl-darthu â dwylaw halogedig? Eto i wynebu Moses ac Aaron, yn eithaf ei falchder fel hyn, y mae ef yn shalens y nefoedd, ac yn cymeryd arno i gleimio hawl i'r derbyniad dwyfol, er nad oedd gantho un dwyfol sail. Dyma genfigen wedi gwisgo rhyfyg yn ei holl arfogaeth; am hyny fe gymerodd ei thuser, a'r fath dân enynodd cenfigen y gwyr hyn, fel gwelwch yr holl gynulleidfa wedi cael eu casglu yn erbyn Moses ac Aaron i ddrws pabell y cyfarfod, i gyd yn dysgwyl pa ochr y troai'r rhod, a rhan fawr fwyaf yn gobeithio mai o ochr Cora; ac yntau ei hun mor rhyfygus a chredu y deuai'r achos o'i ochr ei hun, ag y caffai'r holl gynulleidfa edrych arno yn anrhydeddus; ond yn lle hyn fe'u galwodd hwynt yn nghyd i weled ei ddinystyr a'i warth tragwyddol ei hunan, canys gogoniant yr ARGLWYDD a ymddangosodd: yr



un gogoniant ag a ymddangosodd wrth osod Aaron i mewn gyntaf yn ei swydd, a ymddangosodd yr awr hon hefyd i'w gadarnhau ef ynthi, ac i waradwyddo y rhai ag oedd yn ei wrthwynebu ef, ac am osod eu hunain i fyny yn yr un swydd. Y gogoniant hyn oedd y Shekina—y mawrhydi dwyfol, gogoniant y Gair tragwyddol, yr hwn oedd yn aros yn gyfiredin rhwng y cerubiad o fewn i'r llen, ond yn awr yn weledig i bawb uwch ben drws y babell, er dychryn i'r holl gynulleidfa; canys er nad oeddynt yn gweled un llun, eto mae'n debygol fod llewyrch y goleuni a'r tân o'r fath olwg ag oedd yn dangos yn eglur fod Duw wedi digio wrthynt. Yna enynodd digllonedd yr ARGLWYDD, ac y llefarodd wrth Moses ac Aaron,—“Ynneillduwch o fysg y gynulleidfa hon, a mi a'u difaf hwynt ar unwaith.” A hwy a syrthiasant ar eu hwynebau, ac a lefasant ar yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, “O DDUW! DUW ysbrydion pob cnawd, un dyn a bechodd, ac a ddigi di wrth yr holl gynulleidfa?” Mor ofnadwy yw cadw cymdeithas â gwyr cenfigenus! Amryw o'r gynulleidfa ddaeth yno, mae'n debygol, o ran cwmpeini, gan ddilyn y lluaws, neu o *curiosity* i weled y diwedd; eto am nas daethant fel y dylasant ddyfod i ddwyn eu tystiolaeth yn erbyn y cenfigenwyr, ac i fynegu'n gyhoedd eu bod o du DDUW a Moses, hwy fuant oll yn debyg o gael eu dyfetha mewn moment. Ond gwelwch y bugeiliaid hyn yn sefyll rhwng y llewod a'r wryn, mewn amser ag yr oedd y praidd yn finteioedd wedi myned ar ddisperod. Dyma dalu da tros ddrwg—dyma gariad, tosturi, cymwynasgarwch, ysbryd maddeugar, a thorfeydd o rasusau croes i genfigen; gweddi daer, gweddi awdurdodol, gweddi a achubodd fyrrd o ddynion oddiwrth y pla; am hyn dywed y Salmydd (Salm. cvi. 23.), “Am hyn y dywedodd y dinystriai efe hwynt, oni buasai i Moses ei etholedig i sefyll ar yr adwy o'i flaen ef, i droi ymaith ei lidiowgrwydd rhag eu dinystrio.” Duw ysbrydion pob cnawd, ebe hwy, gan feddwl wrth hyn y gwyddai Efe eu sylwedd, ac allai wahaniaethu rhwng y blaenorwyr a'r rhai oedd yn canlyn—rhwng y rhei'ny ag oedd wedi pechu yn faleisus, a'r rhei'ny ag oedd wedi cael eu harwain i mewn trwy ddichell, ac y gwnai wahan felly rhyngthynt wrth dywallt barn arnynt; a'u rheswm cryf hwynt gyda Duw oedd, A gaiff un dyn bechu, ac a ddigi Di wrth yr holl gynulleidfa?

PERCON.—Chwi gewch lonydd bellach am yr hanes hyn; mi wn y farn ofnadwy ddisgynodd arnynt—“Y ddaear a agorodd, ac a lyncodd Dathan, ac a orchguddiodd gynulleidfa Abiram; cynheuodd tan hefyd yn eu cynulleidfa hwynt, fflam a losgodd y rhai annuwiol.”

PEREG.—Ond os arosych rony, chwi gewch weled rhagor

o gyndynrwydd yn erbyn Duw, a dirmyg yn erbyn Moses, yn y gwyr hyn. Canys Moses aeth yn union oddiwrth ddrws pabell y cyfarfod, efe a henuriaid Israel gydag ef, at beyll Dathan ac Abiram, y rhai oedd wedi sefyll fwyaf yn erbyn Moses, ac a ddywedodd, “Ciliwch, atolwg, oddiwrth beyll y dynion annuwiol hyn, ac na chyffyrddwch â dim o'r eiddynt, rhag eich difa yn eu holl bechodau hwynt.” Yna yr aethant oddiwrth babell Cora, Dathan, ac Abiram, oddi amgylch. A Dathan ac Abiram, a'u gwagedd hefyd, a'u meibion, a'u plant, a ddaethant allan, gan sefyll wrth ddrws eu pebyll. Mae'n debyg fod Dathan ac Abiram wedi gosod i fyny babell ardderchog yn nghanol pebyll eu teuluoedd, lle yr oeddynt yn cadw cymanfaoedd, yn cyfarfod i drefnu eu hachosion, ac yn crogi allan faner o ddirmyg yn erbyn Moses; a hon enwir yma pabell Cora, Dathan, ac Abiram. Ond ar ol i'r holl bobl ymadael oddiwrth beyll y gwyr hyn, gwelwch fel y daeth Dathan ac Abiram allan—hwynt-hwy a'u gwagedd, a'u plant—yn ddi-ofn ac yn ddi-arswyd—mor belled oddiwrth edifarhau a galw yn ol eu rhyfyg, fel y tebygid eu bod yn dyfod yno mewn ffordd o wawd a dirmyg ar Moses ag oedd yn bygwth barn ddisymwth arnynt; ac yno yr arosasant nes i'r ddaear agor a'u llyncu hwynt yn fyw i waered i uffern. Yr ARGLWYDD a'u rhoddodd hwynt, fel brenin yr Aipht, i fyny i gyndynrwydd a chaledwch eu calon; er eu bod hwy yn gweled eu hunain wedi cael eu gadaw gan eu holl gymydogion, ac wedi cael eu gosod fel nôd i holl saethau cyfiawnder, eto, yn lle cwmpo i lawr, a darostwng o flaen Duw a Moses, gan addef eu pechod a cheisio maddeuant; yn lle ffoi, ac ymofyn am rhyw noddfa yn mysg y lluaws, maent yn ddi-gywilydd yn sefyll yn nrysal eu pebyll, fel pe buasant am wrthsefyll Duw ei hun, a'i shalens Ef i wneud ei waethaf. Fel hyn gwnaeth cenfigen hwynt yn ddi-ofn, pan oedd eu cyflwr fwyaf ofnadwy; a phan yr edrychom ni yn ol i ddrws pabell y cyfarfod, yno y cawn ddau gant a haner o feibion Lefi, a Chora yn eu canol, â thuserau yn eu dwylaw yn arogl-darthu, a barn yn cwmpo arnynt, f'allai yr un pryd ag yr agorodd y ddaear yn y gwersyll i lyncu Dathan ac Abiram, tân a aeth allan oddiwrth yr ARGLWYDD, ac a ddifaodd y ddau cant a deg-a-deugain; ond Aaron, ag oedd yn eu canol hwynt, a gadwyd yn fyw.

PERCON.—Echryslon yw'r hanes, a chwi roisoch genfigen a thuchan yn dduach yn fy ngolwg nag y gwelais hwynt erioedd o'r blaen, ac mi welaf eu bod yn dyfod i mewn i broffeswyr fel i ereill; ond y rhai oll a enwasoch, proffeswyr gweigion oeddynt; na ato Duw ei fod yn cael gafael mor gryfed yn ngwir eiddo Duw, ac mewn eglwysi cyfain fel y dywedasoch,

ac y gwna iddynt fyw mewn rhagfarn, oerfelgarwch, annghariad, a drwg ewyllys y naill i'r llall.

PEREG.—Wedi dangos fel y daeth ef i mewn i eglwys Corinth, a rhai eglwysi ereill tan y Testament Newydd, a hyny fethu agor eich llygaid, rhowch genad i mi roi dwy engraph i chwi, y naill o'r Hen Destament, a'r llall o'r Newydd; ac oni wna hyny'r tro, byddwch fyw ar eich tyb dda eich hunan, nes deloch trwy brofiad mwy gofidus i gael prawf o fod y peth yn wir.

PERCON.—'R wyf yn ymfoddloni gwrando arnoch; ac am mai siamplau sydd genych o'r Ysgrythyrau, maent yn fwy cryf yn gweithio ar fy ysbryd.

PEREG.—Y siampl sydd genyf o'r Hen Destament yw cenfigen yr Iuddewon yn erbyn y Samariaid, yr hon oedd mor boeth ac ofnadwy fel y darfu i'r Iuddewon felldithio ac esgymuno'r Samariaid, trwy'r esgymundod mwy cableddus a dychrynlyd ag erioed a glywyd son am dano; ac rhag ofn i chwi dybied mai ias boeth oedd y genfigen hon tros rai wythnosau, hi barhaodd o adeilad yr ail deml hyd ddyddiau ein Hiachawdwr, yr hyn oedd tros bum cant o flynyddau; a mwy na'r cwbl, mae yn para hyd y dydd hwn, canys geilw'r Iuddewon ddyn atgas yn Samariad, neu Cuthiad, fel galwn ninau ddyn cyndyn, caled, digydwibod, yn Dwrc neu yn Iuddew.

PERCON.—Mynegwch pa fodd y dechreuodd y genfigen danbaid hon? Canys mi welaf, pan agorasoch fy llygaid, ei bod yn para hyd amser ein Hiachawdwr, pan y dywedai'r wraig o Samaria, "Pa fodd yr wyt ti, a thi yn Iuddew, yn ceisio dwfr genyf fi, a mi yn wraig o Samaria, o ran nid oes cyfeillach"—siarad, na rhoi, na derbyn cymwynasau—"rhwng yr Iuddew a'r Samariad;" ac y mae geiriau y wraig wrth ein HARGLWYDD IESU yn mynegu bod eithaf rhagfarn, cenfigen, a hunan-dyb gan y ddwy blaid yn nghylch y lle union i addoli.

PEREG.—Felly yr oedd, ac mor gryf oedd y llid, y rhagfarn, a'r genfigen, nad oedd un enw i fod ar ein Hiachawdwr, pan yr oeddent am ei gablu Ef i'r eithaf, ond dywedyd, Samariad yw, ac mae gantho gythraul. Ond i'ch ateb am ddechreuad y genfigen annghydmorol hon—Deallwch, ar ddychweliad yr Iuddewon o Babilon, i'r Samariaid, y rhai oedd bobl ddyeithr a ddygodd Salmanasar, brenin Assyria, i mewn yno o Babilon, o Cutha, o Asa, o Hamath hefyd, ac o Sepharfain, ac a'u cyfleodd hwynt yn ninasoedd Samaria yn lle meibion Israel, y rhai a symudodd efe i Hala, i Habor, wrth afon Gasan, ac i ddinasoedd y Mediaid; i'r Samariaid hyn, meddaf, y rhai oedd yn addoli eu duwiau eu hunain,

ac hefyd yn gwneud rhyw rith addoliad i ARGLWYDD y nef, i ddyuno ar yr Iuddewon gael bod yn un a chytun â hwynt, i adeiladu teml yr ARGLWYDD yn Jerusalem, gan ddywedyd eu bod hwy o'r wir grefydd Iuddewig er yr amser y danfonodd Duw lewod i'w dinystrio hwynt am eu heilun-addoliad; ond yr Iuddewon a ballasant iddynt fod âg un llaw yn y gwaith, gan adrodd gorchymyn Cyrus, mai had Israel yn unig gai'r fraint o godi tŷ Dduw yn Jerusalem; a phan darfu i'r Iuddewon omedd iddynt, hwythau a'u gwrthwynebasant hwynt, gan anfon llythyrau at Artaxerxes, brenin Persia, i dduo'r Iuddewon, a'u doddi allan yn bobl gyndyn, wrthryfelgar, ac nas talent dreth, toll, na theyrnged, i un brenin pwyl bynag; a hyn a ataliodd y gwaith hyd yr ail flyyddyn i Darius Hystaspes; hyn ddechreuodd y gelyniaeth; ond yn mhen tro wedi'n, pan y daeth Nehemia o freninllys Persia i fod yn bennaeth ar yr Iuddewon, fe'i gwelodd hwynt wedi cyfeiliorni mewn bywyd, oeri mewn duwioldeb, yn dwyn beichiau, yn prynu ac yn gwerthu ar y Sabbothau; yna efe a'u hargyhoeddodd hwynt, ac fel yr oedd amryw o honynt wedi priodi gwragedd dyeithr, Asdodiesau, Amoniesau, a Moabiesau, efe a wahanodd, ac a dorodd y cyfryw briodasau; ac yn enwedig pan gwelodd ef Manasse, mab neu wyr Jehoiada yr archoffeiriad, wedi priodi merch Sanbalat yr Horoniad, fe'i trodd ef allan o'i offeiriadaeth, yr hyn a enynodd lid Sanbalat Darius Nothus, brenin Persia, fe adeiladodd deml ar ben mynydd Gerisim yn gyffelyb i deml yr ARGLWYDD yn Jerusalem, ac a osododd Manasse ei gâr yn archoffeiriad yno; a'r lle hwn gas fod mwy fel yn noddfa i'r Iuddewon ag oedd wedi gwneud rhyw drosedd mawr yn erbyn y llywodraeth neu gyfraith Moses, ac amryw iawn o honynt a fodd yno; ac yn awr diwygiwyd crefydd y Samariaid, nes ydoedd yn agos o fod fel crefydd yr Iuddewon eu hunain; gan daflu allan bob eilun-addoliaeth, darfu iddynt gymeryd i fyny'r gwasanaeth beunyddiol fel yn y deml yn Jerusalem, a darllain cyfraith Moses fel yn nheml yr ARGLWYDD yn Seion, yr hyn beth, debygasid, fuasai yn gweithio cariad, undeb, a chyfeillgarwch; ond yn lle hyny, fe enynodd genfigen hyd yr eithaf, fel y dywedais uchod, gymaint ag y darfu i'r Iuddewon felldithio ac esgymuno'r Samariaid o bob cyfeillach yn y byd hwn, ac hyd ag y gallasant hwy yn y byd a ddaw, fel nad oedd i Iuddew na bwyta nac yfed, na chadw un sut gymdeithas fyth â Samariad, na chael bod yn broselyst, na chwaith cael cyfran yn adgyfodiad y meirw.

PERCON.—Ond pa fath ffyrdd oedd eu hesgymundod hwynt yn cerdded.

PEREG.—Mae rhai o'r hen ysgrifenyddwyr Iuddewig yn ei osod allan fel yma—Ar ol cynull yn gynulleidfya yn nghyd i deml yr ARGLWYDD, hwy a gasglent dri chant o offeiriad, a thri chant o lyfrau'r gyfraith, a thri chant o udgyrn, a chynifer a hyny o fechgyn yn chwythu ynthynt, a'r Lefiaid tan ganu yn melldithio'r Samariaid trwy bob rhyw felldith, sef, yn gyntaf, yn niregelwch yr enw Jehofah, Tad, Mab, ac Ysbryd Glân; yn nesaf, yn melldithion deng air y ddeddf; ac yna yn melldith y tŷ uwchaf barn; ac yn olaf, yn melldith y tŷ isaf barn; gan gyhoeddi fod holl ffrwythau eu tir hwynt yn aflan fel cig moch, a'u hanifeiliaid felly, ac nad oedd neb i fwyta bara yn Samaria o'r Iuddewon hyd fyth. Dyma, fy ffrynd, engraff o genfigen hyd yr eithaf; ac nid rhith o broffeswyr oedd yr Iuddewon yma i gyd ag oedd yn cenfigenu fel yma, ond dynion da oedd amryw o honynt, wedi gadael eu teiau a'u ffryns ar ol yn Babilon, ac wedi dyfod yn awr i Jerusalem er mwyn addoliad yr ARGLWYDD eu Duw; a miloedd o'r rhai'n a ddyoddefodd tros y grefydd Iuddewig ar ol hyn.

PERCON.—Yr ydych yn fy rhoi i edrych ar natur dyn yn fwy truenus nag oeddwn o'r blaen; ac ni feddyliais i erioed gallai eglwysi cyfain i fyned i'r fath ysbryd o ragfarn a chenfigen; ond ewch rhagoch at yr ail siampl o'r Testament Newydd.

PEREG.—Yr ail yw yr ysbryd cenfigenus oedd gan yr Iuddewon at y Cenhedloedd, am iddynt gael y fraint o fod yn gyfranog o ras yr efengyl, ac am y derbyniad croesawus oedd Iachawdwr y byd yn ei wneud i bechaduriaid edifeiriol. Hyn a gewch mewn amryw fanau yn y pedwar Efengylwyr, megys pan oeddent yn codi i fyny yn nhŷ Matthew y publican, am fod pechaduriaid a phublicanod yn eistedd gyda'n HARGLWYDD bendigedig ar y bwrdd, yn cael cenad rydd i gyd-fwyta âg Ef. Ac eilwaith, pan y cododd Simon y Pharisead yn erbyn y wraig â'r blwch o enaint a eneiiodd draed ein HARGLWYDD; ac amrywiol fanau ereill o'r Testament Newydd y ceir yr ysbryd chwerw hwn yn tarddu allan fel ffynon o ddwfr gwenwynig yn y Phariseaid, pa bryd bynag y disgynai Ysbryd CRIST ar neb o'r Cenhedloedd dienwaededig. Ond yn benaf, chwi gewch yr ysbryd hwn yn cael ei osod allan gydag anghydmorol oleuni gan ein Hiachawdwr bendigedig ei Hun, yn y bymthengfed benod o Luc, yn nameg y mab afradlon, yr hon, am ei bod yn desgrifio ymadawiad dyn oddiwrth Dduw, a derbyniad pechadur edifeiriol yn ol i dŷ ei Dad, yn nghyda'r genfigen

wrthgas sydd gan yr holl rai deddfol at y rhai sydd yn derbyn y gras hyn, ac at Dduw y Rhoddwr o hono, mor hyfryd a dysglaer. Mi gaf trwy nerth Duw gynyg ymhel-aethu mwy ar y rhan hon o'r Ysgrhythyr na neb o'r lleill. Yma y gelwir Duw yn Dad cyffredinol i holl ddynolryw—pob llwyth, iaith, a chenedl tan y nef; y Groegwr cystal a'r Iuddew, un ARGLWYDD tros bawb, ag sy'n gyfoethog o drugaredd i bawb ag sy'n galw arno. A holl ddynolryw osodir allan tan ddau fath o nod neu *garacter*; yr oedd gantho ddau fab—un yn ŵr ieuangc dwys a phwylllog, yn ddystaw, ac yn sobr ato ei hun, ond yn sarug ac yn annaturiol tuag at y rhai o'i gwmpas; y llall yn wyllt, yn hedegog, ac yn annyoddefol o bob deddf a rhwymau, o ysbryd am grwydro'r byd, treio ei lwyddiant; ac er ei ddwyn i fyny mewn teulu da, eto yn debyg o fod yn afradlon. Yr ieuengctyd hyn sydd yn dal allan y publicanod a'r pechaduriaid ag oedd ein HARGLWYDD da yn dderbyn ar eu hedifeirwch, a'r Apostolion wedi cael eu hanfon i bregeth edifeirwch iddynt. Gwelwch y fath dro gwyllt a rodd y llanc ieuangc—pa fath afradlondeb, pa ofid a chystuddiau y syrthiodd ef iddynt! Gwrandewch ei gais cyntaf ef. Fe ddywedodd wrth ei dad yn ffraeth, yn falch, yn rhyfygus—“Fy nhad, rho y rhan a ddygwydd i mi o'r da;” yn ffraeth, o ran nad oes yma un gair o barch ac anrhydedd; yn eithaf rhyfygus, i feddwl fod dim da yn ddyledus iddo oddiwrth ei dad. Ac i ba ddyben mae ef am eu cael hwynt? ond odid i gael dianc o tan lywodraeth ei dad, yr hon oedd yn rhy gaeth, a gormod o bethau gwaharddedig ynthy, ac i fyned yn ddigon pell oddiwrth y llygad ag oedd yn dal sylw manwl ar ei holl ymddygiad, ac yn ei geryddu yn dadol am ei holl feiau, ac hefyd am fod gantho feddyliau mawrion am ei synwyr a'i drefn ei hun; felly gallasai feddwl y gwnai well cynydd, ardderchocach gwasanaeth, a rhagor o barch iddo ei hun, trwy gael y meddianau i'w law; ac felly, fel ein rhieni cyntaf, efe, trwy ei hunan-dyb a'i falchder, a ysbeilliodd ei hun o'r cyfan.—Ond O anfeidrol ymddarostyngiad! dyma'r tad yn rhanu iddynt ei fywyd; nid yn unig fel y gallai ddangos ei hun yn dad teg, ond hefyd er mwyn dangos iddo mewn amser a ddeuai ei ymfydrwydd, ac nad oedd efe gystal llywodraethwr ag oedd ef ei hun yn, neu am ddodi ereill i feddwl ei fod. Ond pa fodd y daeth pan y cafodd y moddion yn ei law? Gwelwch, fe osododd ei hun i'w treulio mor gynted ag y gallai; mewn byr ddyddiau fe wnaeth ei hun yn *feger*. Rhaid i mi, fy ffrynd, anghofio gronyn ar olrhain y genfigen ddu, a rhyfeddu dyfnder trueni dyn; edrychwch yma ar gyflwr natur, ymadawiad oddiwrth

DDUW yw ; fe gymerodd dyn daith o dŷ ei dad i wlad bell ; y wlad y mae pechadur anedifeiriol yn thi yr awr hon, sydd bell iawn oddiwrth DDUW, oddiwrth sancteiddrwydd, oddiwrth heddwch, ac oddiwrth fywyd tragywyddol, ac yn teithio bellach, bellach oddiwrth Ffynon pob daioni. Ac wedi ymadael oddiwrth DDUW, yn difa'r cwbl—" Fe wasgarodd yr ieuengctyd hwn ei dda, gan fyw yn afradlon,—yr hwn a ddifaodd dy fywyd di gyda phuteiniaid," medd y mab hynaf ; ac yn mhen ychydig bach fe dreuliodd y cwbl, fe gamddefnyddiodd ei feddyliau, fe gamdreuliodd ei amser a'i holl odfeuron, fe afradlonodd y talentau a ymddiriedwyd iddo am danynt ; a holl roddion rhagluniaeth, y rhai a roddwyd o ddyben i wasanaethu DUW, a wnaed yn fwyd ac yn dânwydd i'w felus chwantau. A chyflwr pechadur sy'n gyflwr o eisieu—" Pan ddifaodd ef y cwbl, fe gododd newyn mawr yn y wlad hono ; ac fe ddechreuodd fod mewn eisieu." Pan daflo pechadur ymaith ei drugareddau ei hun,—ffafr DUW, rhan yn NGRIST, cynhyrfaidau'r Ysbryd, ac argyhoeddiadau cydwybod, am bleserau teimlad, a chyfoeth y byd hwn, mae'n barod i ddarfod am dano o'u heisieu ; newyn sydd yn codi yn y wlad, nef uwch ben yn bres, ffafr DUW a'i fendithion sy'n cael eu hatal, a'r ddaear isod yn haiarn, y galon yn galed, yn gras, ac yn ddiffwrwyth. A phan aeth yr ieuengctyd yma i eisieu, fe ddygodd ei eisieu ef i wasanaeth, ac i wasanaeth tlawd iawn—" Efe a aeth ac a lynodd wrth un o ddinasyddwyr y wlad hono ;" y diafol ei hun, yr hwn a'i danfonodd ef i'r maesydd i borthi moch, "i wneud rhagddarbob tros y cnawd, i gyflawni ei holl wyniau ef," yr hyn nad yw fawr well na phorthi moch brwnt, gwancus, a rhocheinllyd ; ac yn y cyflwr hyn nid oes ond tuchan ac anfoddlonrwydd ; pan dechreuodd i fod mewn eisieu, fe geisiodd gyflawni ei ddiffyg â'r parotoad ag oedd, nid yn y tŷ, fel tŷ ei dad, ond y maes yn ei osod o'i flaen ef—" Fe fynai lanw ei fol â'r cibau a fwyta'r moch"—y byd a'i ogoniant, a'r cnawd a'i bleserau, all fod yn fwyd i'r corph gwael, ond nid i eneidiau gwerthfawr, a'r sawl a ymborthant arnynt a ymborthant ar wynt : ac nid oes i'r pechadur gysur oddiwrth un creadur. "Ond ni roddodd neb iddo?" ni all creadur gynorthwyo yr hwn wrthodo gynorthwy DUW. Ond O ! y fath druenusrwydd yn mhellach yw cyflwr dyn naturiol.—Yn gyntaf, marwolaeth,—“ fy mab hwn oedd yn farw ;” marw tan farn marwolaeth cystal a marw mewn camweddau a phechodau, wedi tori ei hunan o dŷ ei dad, fel cangen oddiwrth y pren, ae wedi gwywo.—Yn ail, wedi ei golli, “Fy mab hwn a gollasid,” ei golli o dŷ ei dad, a'r holl dylwyth heb wybod am dano ; wedi ei golli i bob rhinwedd, gogoniant, a

defnyddioldeb.—Ac yn olaf, fel allan o'i bwyll, “pan y daeth ef ato ei hun ;” diau yw ei fod ef allan o hono ei hun i ymadael â thŷ ei dad, a glynu wrth un o ddinasyddwyr y wlad bell hono.—Ond, bellach, gwelwch ei ddychweliad ef adref, a daliwch sylw ar yr hyn a'i gweithiodd—ei gystuddiau ; “fe ddaeth ato ei hun,” fe gafodd olwg ar annigonoldeb y creaduriaid i'w wneud yn ddedwydd, am hyny dyma chwant dychwelyd yn ol i dŷ ei dad ; yr oedd o'r blaen yn byw mewn anstyriaeth, ond heddyw daeth i lawn ystyried ; a thyma y cam cyntaf tua thref—fe ystyriodd ei gyflwr truenus, “a finau yma yn marw o newyn.” Pwy ddaw at Iachawdwr nes gwelont eu bod yn meirw yn ngwasanaeth pechod ? Fe ystyriodd pa faint well oedd hi i ddychwelyd nac i aros yno—“Pa sawl gwas cyflog o eiddo fy nhad sy'n cael eu gwala a'u gweddill o fara?” nid cyflawnder i'r rhai sydd yno eisoes, hyd y nod at y gwaelaf, ond gweddill hefyd i'r rhai sydd i ddyfod eto i mewn ; ac am fod ei dad mor gyfoethog, ac yntau mor druenus, dyma ei fwriad ef o'r diwedd—“Mi a godaf ac a âf at fy nhad ;” mi deithia'r holl ffordd hono y daethum o dref yn ei gwrthol, cam am gam, a chyda mwy o flas fyned i dref nag y daethum o dref ; nid oedd na meithder y ffordd, na rhwym y gyflog, na dim ofnau yn y daith, neu ar ben y daith, a'i rhwystrai ef i anturio adref ; nid yw pechadur ddim yn ddyledwr i'w gnawd i wneud rhagddarbob trosto ; dyma'r tlawd truenus o'r diwedd wedi dyfod i'w gof, ac yn parotoi geiriau i fyned tua thref—“Fy nhad, pechais yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithau.” Dyma bechadur yn rhedeg at gyfamod gras, ac wedi gadael cyfamod o weithredoedd yn yn y cam cyntaf o'i ddychweliad, yn pwyso yn unig ar drugaredd rad ; fe ddyd ei bechod allan yn y lliw dua'—“Pechais yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithau ;” mae ef yn addef fod ei ymddygiad yn ddiystyrwch i awdurdod DUW—“Gosodasant eu geneuau yn erbyn y nef.” Nid yw hyn oll ond malais ; canys nis gall pechadur ddrugu'r nef, a'r saeth a saethir yno a ddychwel ar ben yr hwn a'i saetho hi. Mae'r edifeiriol hwn yn gweled fod ei bechod yn ddirmyg i DDUW y nef, yn werthiad o ogoniant a llawenydd y nef, yn wrthwynebiad i holl ddyfais trugaredd y nef ; a chan gondemnio ei hun, fe ddywed—“Nid ydwyf deilwng i'm galw yn fab i ti ;” nid yw yn gwadu'r berthynas, canys dyna oedd gantho i obeithio yntho, ond y mae yn addef y gall ei dad ei wadu a'i dasu i maes i'r drws tros byth. Ond eto yn resolfo begian y fendith o ddyfod i mewn i'r teulu, er na buasai ond y lle gwaelaf yno—“Gwna fi fel un o'th weision cyflog :” mor anwyl cael lle yn nhŷ DDUW gan bechadur edifeiriol, ac mae'r lle gwaelaf yno yn well na thrigo yn mhalasau brenhin-

oedd y ddaear—"Dewiswn gadw drws yn nhŷ Dduw o flaen trigo yn mhebyll annuwioldeb." Ond trwy oll ni fynai lai na golygu Duw fel Tad—"Codaf, ac a âf at fy nhad;" a'r olwg hon oedd yn gwneud ei alar yn efengylaidd, ei fwriad yn erbyn pechod yn gryf, ac yn cadarnhau ei obaith am bardwn. Edrychwch fel y cyflawnodd ei fwriad; fe ddilynodd ei argyhoeddiad; fe gododd, ac a æth at ei dad; yma y gwelwch y llawn dderbyniad sydd gan Dduw i bechaduriaid truaïn wedi troi eu hwynebau tuag adref trwy ffydd. Dyma gariad anfeidrol y tad yn derbyn y mab—"Pan oedd efe eto yn mhell oddiwrtho, ei dad a'i gwelodd ef;" rhyfeddod y rhyfeddodau! Cariad y tad yn dadguddio ei hun cyn i edifeirwch y mab i ymddangos—"Cyn y galwom y mae efe yn ateb." Rhaid oedd bod y tad yn dysgwyl ei afradlon llwm a dyeithr i ddyfod ryw bryd i dref, cyn iddo ei weled ef—"Ac ynte eto yn mhell oddiwrtho;" llygad trugaredd Duw sy'n hir ddysgwyl dychweliad pechadur, ac ymysgaroedd ei drugaredd Ef sy'n rhuo am dano, traed trugaredd sy'n rhedeg i'w gyfarfod ef, a'i breichiau sydd estynedig allan i gosfeidio'r dychweledig adref. Mae ef yn dyfod yn ol tan faich cywilydd ac ofnau; ond y tad sydd ysgafn, ac yn fywiog yn rhedeg i'w gyfarfod ef;—nid yn unig yn foddlon maddeu'r cwbl, ond hefyd maddeu heb ddanod, yr holl gam a wnaeth efe â'i dad, a'i ddistryw o'r holl feddianau. Dyma ryfeddol gysondeb gras, canys mor gynted ag y cwmpodd y tad ar wddf y mab a'i gusanu, mae'r mab yn cyhoeddi allan—"Fy nhad, pechais yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithau, ac mwyach nid wyf deilwng i'm galw yn fab i ti." Yr oedd pob ochr yn wresog, ac yn llawn o frys; ond y tad gariodd y dydd; Duw yw'r cyntaf a'r diweddfaf; dyma rad ras yn ysbryd y cyfamod newydd; ar ol cael tystiolaeth o faddeuant, gwelwch gyfaddefiad hyfryd efengylaidd, pechais yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithau—yr ysbryd a brophwydodd Execiel am dano, xvi. 61—"Fel y cofech di, ac y cywilyddiech," pan y dyhudder fi atat.—Deuwch bellach, edrychwch ar y wledd mae Duw, y Tad caredicaf, yn ei gwneuthur i bechaduriaid edifeiriol; cyn i'r mab ddweyd, "Gwna fi fel un o'th weision cyflog;" dyma y tad wedi rhoi arwydd iddo y cai fod yn fab, yn anwyl fab, heb eto gymaint a rhoi un gair o gerydd am ei dro gwyllt, afradlon. Canys nid yw Duw yn cofio beiau ei rai edifeiriol, ond eu claddu a'u boddi yn eigion y môr. A thyma mewn mynydyn wledd ardderchocaf freninol wedi cael ei pharotoi, nid yn unig tu hwnt i ddysgwyliaid, ond yn mhell tu hwnt i allasai'r dyn tlawd ei ddymuno, nac i ofyn. Fe ddaeth adref rhwng ofn a gobaith, ond ei dad fu gan' gwell

na'i ofn, a llawer gwell na'i obaith; fe ddaeth i dref mewn bratiaïu, ond ei dad nid yn unig a'i gwisgodd ef, ond hefyd a'i haddurnodd ef, "gan ddywedyd wrth ei weision," y rhai oedd barod wrth yr alwad gyntaf i ufuddhau, "dygwch allan y wisg oreu." Nid cochl, neu bais ag oedd gwŷr cyffredin yn wisgo, ond y wisg, y fath ag sydd gan bendefigion a brenhinoedd y byd—y wisg oreu hyny, y wisg benaf, gwell na'r hon yr oedd efe yn ei gwisgo cyn ei grwydriad; ac er bydd arno ef gywilydd i'w gwisgo, gan dybied ei bod hi yn anaddas iddo yn y fath gyflwr gwarthus, aflan, a bratiog, eto "rhowch hi am dano, ac hefyd rhowch fodrwy am ei fys ef"—sêl fodrwy, y *signet* auraid loew, ac arni wisg arfogaeth y teulu, fel nod o'i fod yn wir gangen o hono; fe ddaeth adref yn droed-noeth, "rhowch esgidiau am ei draed ef," y rhai sydd yn awr wedi eu briwio gan y daith. Dyma'r wisg oreu, "cyflawnder dwyfol, mantell cyflawnder, gwisgoedd iechydwrïaeth," yn cael ei osod am y pechadur; y fodrwy auraid am ei fys, ar ol credu, yn cael ei selio â glân Ysbryd yr addewid; esgidiau parotoad efengyl tangnefedd am ei draed, fel y gallont redeg ffyrdd deddfau Duw heb ddiffygio. Ac er ei fod yn newynog yn dyfod i dref, dyma wledd barod o loew win puredig, a phasedigion breision—"Dygwch allan y llo pasgedig," a gafodd ei hir borthiant, a'i gadw yn unig at yr achos hyn; "lleddwch ef, fel y caffo fy mab hwn wledda eto yn nhŷ ei dad." CRIST yw bara'r bywyd, ei gnawd sydd fwyd yn wir, a'i waed sydd ddiweddfaf yn wir; dyma ddedwydd gyfnewid! yr hwn oedd yn ddiweddfaf yn bwyta y cibau a fwytai y moch, heddyw yn cael ei wala a'i weddill o ddanteithion yn nhŷ ei dad; pa mor werthfawr yw trysorau y cyfamod newydd, a danteithion ei gysuron ef i'r rhei'ny a fu yn ofer geisio llanw eu boliau ar fwyniant y creaduriaid. Dyma ni bellach yn' cael clywed yr hyn a enynnodd ddigofaint a chenfigen y mab hynaf, sef llawenydd anarferol y tad, a'r holl deulu, ar dychweliad yr afradlon i dref. Nid oedd y llo pasgedig ddim wedi ei barotoi yn unig i'r tad ei hun, ond i fod fel gwledd i'r holl deulu—"Bwyta'n oll, a byddwn lawen." O ddedwydd awr! ebe'r tad, "fy mab hwn oedd yn farw, ac a aeth yn fyw; a gollwyd, ac a gafwyd." Dychweliad pechadur sydd adgyfodiad oddiwrth y meirw, a chaffeliad o'r hyn a gollwyd. Dyma lawenydd gan yr holl deulu, a'r tad ei hunan yn dechreu'r gorfoledd; nef y nefoedd â'i holl luoedd sydd lawen am dychweliad un pechadur. Ond i ddyfod at y pwnc mewn llaw, sef cenfigen ddireswm y brawd hynaf, yr hwn oedd allan yn y meusydd pan y daeth ei frawd i dref; ac erbyn ei ddyfod yn agos at y tŷ,



dyma gyfnewid annghyffredin; llais amryw gerddorion a dawns, a'r holl deulu yn y radd benaf o lawenydd. Dyma genfigen ofnadwy at ras Duw i bechaduriaid wedi ei gosod allan gan Iachawdwr y byd, nas gallasai ond Efe ei Hunan ei dangos mor glir; a phwy bynag a agoro ei lygaid, fe gaiff weled yr ysbryd hwn yn llanw'r eglwys fel dyfroedd yn toi'r môr. Yn gyntaf, gwelwch ef yn yr hen Ysgrifenyddion a'r Phariseaid at bechaduriaid a phublicanod ag oedd yn derbyn ysbryd a gras yr efengyl. O mor gryf oedd llid a chenfigen yn gweithio yma; mor gynddeiriog oeddent, nid yn unig yn erbyn y pechaduriaid eu hunain, ond hefyd yn erbyn Iachawdwr y byd, oedd yn haelionus gyfranu'r gras hyn arnynt; meddent am dano, ar droedigaeth Zacheus, "Wele y mae Ef yn myned i mewn i letya at w'r pechadurus." A Zacheus, er mwyn tori i lawr bob tramgwydd oddiar y ffordd, a lefodd allan yn eu gwydd hwynt oll, "Wele haner fy na yr wyf yn ei roddi i'r tlodion; ac os dygais i ddim ar neb, yr wyf yn ei dalu ef yn ol ar ei bedwarydd." A'r llid aeth gymaint yn mlaen yn erbyn yr ysbryd maddeuol hwn yn ein Prynwr, fel y galwent Ef mewn ffordd o falais, "Wele ddyn glwth, yfwr gwin, cyfaill publicanod a phechaduriaid;" a'r gynddaredd hyn a gynyddodd o'r diwedd gymaint, fel y cyhoeddent "Mai trwy Belsebub, penaeth y cythreuliaid, yr oedd Efe yn bwrw allan gythreuliaid;" a hyn oll yn tarddu oddiwrth ei fod Ef yn barod i faddeu i rai edifeiriol, er cynddrwg y bu eu bywydau o'r blaen. A chwi gewch weled y genfigen hon yn para yn yr hen Iuddewon o hyd at y Cenhedloedd. Pa erledigaethau chwerwon a gafodd yr Apostol Paul, yn unig am ei fod ef yn Apostol i'r Cenhedloedd; pa ymgynhenu oedd yr Iuddewon yn mhob man am fod maddeuant a gras yn cael eu rhoddi i rai nad oedd yn had Abraham. A'r genfigen a erys hyd nes tynir ymaith y gorchudd sydd ar eu hwynebau hwynt, ac ymchwelyd o Israel at yr ARGLWYDD ei Dduw; yna y bydd malais wedi darfod, ac y bydd "saith o forwynion y Cenhedloedd yn ymaffyd yn ngodrau gŵr o Iuddew, ac yn dywedyd, Ni fwytawn ein bara ein hunain, ac yfwn ein dwfr ein hunain; gelwir ni ar dy enw di." Yn ail, y mae cenfigen y mab hynaf hyn i'w gweld yn y rhai ag a ddaeth i mewn i'r eglwys yn bobl fwy gloew, ac a gadwasant o'u ieuengctyd i fyny yn foesol, yn erbyn rhai a ddaeth i mewn yn bechaduriaid mawrion; anhawdd yw gan y rhai'n faddeu, ac edrych yn gariadus ar y rhai, fel y mab ieuengaf hyn, a dreuliodd eu holl dda, gan fyw yn afradlon, ac sydd heddyw yn dychwelyd adref â'r gair yn eu genau, "Pechais yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithau." Yn drydydd, edrychwch ar ysbryd y mab hwn

mewn hen Grist'nogion wedi hepian a huno, at y rhai ieuengaf sydd eto yn ddihun, yn wresog, ac yn ddiwyd: anhawdd gan yr hwn a welodd hir ddyddiau ddyoddef ieuengctyd i redeg o'i flaen, er fod y memrwn sanctaidd yn dywedyd, "Yr olaf a fyddant flaenaf, a'r blaenaf yn olaf." Ac os dygwydd i neb iau nag ef flaenu mewn ffydd, sêl, cariad, neu ryw un dawn arall, parodrwydd fydd i ddanod iddynt fod eu sêl yn fwy na'u gwybodaeth, a'u gwres yn fwy na'u sylwedd; prophwydir iddynt wrthgiliad, oeri, cwmpo, a myned ar feth, er cywilydd a gwarth tragywyddol i grefydd ac iddynt eu hunain; neu eu bod yn rhy dduwiol, yn rhy gyfiawn, ac yn euog o ddinystrio eu hunain. Ac yn olaf, mae ysbryd y mab hynaf hyn yn dal y genfigen sydd gan gynulleidfaoedd oedranus wedi oeri a cholli eu cariad cyntaf at gynulleidfaoedd ag mae tywyniad Ysbryd yr ARGLWYDD arnynt. Laodicea sy'n gweled ei bod yn gyfoethog, heb arni eisieu dim, ac yn edrych ar ereill ag sydd lawer uwch eu sêl a'u mwynhad, yn dlawd, yn wan; tra, mewn gwirionedd, hi ei hunan "sydd yn resynol, yn druan, yn dlawd, yn ddall, ac yn noeth." Ac ymddygiad y mab hwn sydd yn dangos yn mhob gair, ac yn mhob gweithred, ei fod yn falch, yn hunanol, yn fawr, yn gyndyn, ac yn annhrugarog at bawb o'i gwmpas; gwrandedwch arno yn ymffrostio ei hun, ei rinweddau, a'i ufuddod—"Wele cynifer blwyddyn yr wyf yn dy wasanaeth di, ac nis troseddais dy air di erioed!" nid oedd lle fod hyn yn wir, oddieithr ei fod ef yn un o'r angylion, canys ei gyndynrwydd presenol oedd yn dadguddio hyn. "Mae cenhedlaeth yn lân yn ei golwg ei hun, er nas glanhawyd hi oddiwrth ei haflendid." Fe ymffrostia'r hunan-gyfiawn hyd y nod wrth Dduw ei Hun. Gwrandedwch arno yn achwyn ar Dduw, fel pe buasai heb fod cystal iddo ag y dylasai, ac yntau mor ufudd a ffyddlon holl ddyddiau ei fywyd—"Ni roddaist i mi fyinn erioed eto i wneud yn llawen gyda 'nghyfeillion;" am ei fod yn tybied yn fawr am ei wasanaeth, mae yn tybied yn wael am Dduw a'i holl roddion; ac nid o gariad ar fod yn llawen gyda ei dad yr oedd yn achwyn na chafodd fyinn, canys i wledda gyda ei ffryns o dref yr oedd efe yn ei ymofyn; ond o lawenydd gyda ei dad gartref, a'r teulu, yr oedd yr afradlon yn chwenych y llo pasgedig. Ac mor lliodiog oedd efe at ei frawd, fel nad âi efe i'r un tŷ ag ef, nes troi ei frawd allan, er mai tŷ ei dad ydoedd. Dyma lais y balch a'r hunan-gyfiawn—"Saf di ar dy ben dy hun: na nesa ataf fi, canys sancteiddiach ydwyf na thydi. Ac yr ydwyf yn diolch i Dduw nad ydwyf fel y mae dynion ereill, yn drawsion, yn annghyfiawn, yn odineb-wyr; neu fel y publican hwn chwaith." Rhaid yw fod



yma radd ofnadwy o genfigen pan nas gall yr hen fab, sy'n bostio ei fod yn nhŷ ei dad erioed, i ddyfod i mewn i gwmni ag y mae ei dad yn boddio yn rhyfedd arno; ac mor danbaidd mae ef wedi digio, na fyn ei alw ef yn frawd, ond dy fab hwn, medd efe—y rhai oedd eiriau hyfalch digywilydd, yn gogwyddo i feio ar ei dad, am ei gydym-agweddiad â'i fab afradlon, fel pe buasai am ei ddodi yn euog o'i afradlondeb ef; fe fynai hefyd dduo ei frawd, ac enyn lliid ei dad yn ei erbyn—"Dy fab hwn' a ddifaodd dy fywyd gyda phuteiniaid." Gwir oedd, fe dreuliodd ei ran o'r da, ond pa un ai gyda phuteiniaid neu peidio, f'allai nad oedd hyn ond iaith drwg-dyb a drwg-ewylls oedd yn tarddu oddiwrth ei genfigen ef; ond celwydd gloew iddo ddifa holl fywyd ei dad, a chelwydd yw un o gyfeillion penaf cenfigen, heb un dafn o ysbryd maddeugar yn perthyn iddo. Edrychwch arno yn grwgnach am gymwynasgarwch y tad i'r mab ieuengaf—"Ti a leddaist iddo y llo pasgedig." Mae yr un genfigen ag sydd yn cenfigenu rhoddion y byd i rai anhaeddianol, yn cenfigenu hefyd roddion cariad y cyfamod i'r gwaethaf o bechaduriaid. Mae cenfigen yn lliid am fod Duw yn rhoddi heddwch a bywyd tragywyddol i rai ag oedd wedi treulio eu holl amser i bechu yn erbyn y nef.

PERCON.—Chwi'm rhoisoch i greu fod mwy o genfigen mewn byd ac eglwys nag a feddyliais i erioed o'r blaen, ac yr wyf yn deall mai eisieu yn y galon o bethau Duw yw'r achos cyntaf o'i chynhyrriad hi: ac ni flinaf chwi am y dyddiau gynt, os gellwch olrhain ychydig yn rhagor arni yn ein gwlad a'n heglwysi ninau, canys dianieu bod yr anghenfil hwn yn llechu mewn lleoedd dirgel oddeutu gartref; ond nis gwelir ef nes dangos ei ddichellion yn ymlusgo i dyllau, ei gyfrwysdra i wau rhwydau, ac i dynu dynion ag sydd yn anwybodus i mewn i'w flaglau, a lladd mrydd o honynt yn ddiarwybod.

PEREG.—Pethau pell fum eto yn siarad am danynt; ond os rhaid rhoi tro oddeutu gartref, mewn gwlad ac eglwys, mi allwn ddangos i chwi filoedd o droiadau cyfrwys, o ddichellion dyrus, ac o falais ddirugaredd mae'r ellyll hwn, cenfigen, yn eu harferyd o ddydd i ddydd.

PERCON.—Yr ydych yn nechreu y llyfr yn ei alw ef Crocodil; bwystfil hyll ac ofnadwy yw hwnw sydd yn afon yr Aipht; atolwg, ewch yn mlaen â'ch cyffelybiaeth; ond rhowch i mi ddesgrifiad llawn o hono, heb adael lloches mewn un man yn mynydd Seion, nac yn holl dir Immanuel, heb ei hela ef allan; os creadur dwfr neu creadur tir yw ef, dilynwch ef o'r tir i'r dwfr, o'r dwfr i'r tir, ac na adewch lonydd iddo nes ffeindio'r baban lleiaf yn Eglwys Dduw ef

allan gyda'r awgrym lleiaf—ie, hyd y nod wrth ei arogliaid.

PEREG.—Hyn a wnaf, os caniata Duw; goddefwch chwithau i mi ei ddodi ef allan mewn dull alegoraidd, gyffelybiaethol, am y gallaf felly ei ddilyn ef yn fwy llawn, a dangos ei droion ef yn fwy manwl yn y tlawd a'r pendefig, y call, y ffol, yr hen a'r ieuangc, y crefyddol a'r anghrefyddol; ac am ei fod ef yn fwystfil annhebygol o fod ar fynydd Seion, rhaid i mi gael y fantais o newid fy nghyffelybiaethau, a'i alw ef weithiau yn fwystfil hagar, weithiau yn llwynog cyfrwys, weithiau yn sarph ddichellgar, weithiau yn ddelw ardderchog, ond fynychaf yn Grocodil hyll, gwancus, ac aflunaid, yr hwn a'i dod ef allan cystal ag un o'r lleill, nid yn unig am ei fod yn creadur dwfr-dir, ag all fyw yn y dwfr neu ar y tir, neu am ei fod o lun hagar, yn fawr ei faint, ond yn benaf am ei fod yn dysgwyl mewn dirgel-leoedd am ei ysglyfaeth, a phan y dalio ef hi, ei fod yn ei boddi yn gyntaf, ac yna yn ei rhwygo yn ddarnau, a'i llyngcu mewn ychydig amser; ac anhawdd iawn cael *emblem* mwy cymhwys o genfigen na hyn.

PERCON.—Ewch rhagoch fel y mynoch, ond i mi gael fy ngoleuo yn well i adnabod yr anghenfil hwn ynof fy hunan ac yn ereill.

PEREG.—Nis gwn pa le y dechreuaf, onid âf yn ol at ei ddyfodiad cyntaf ef i Ardd Eden; canys mor gynted ag yr enillodd ef y ddau ddyn hyny, fe helaethodd ei derfynau yn y byd, nes cael nid yn unig gorseddfeingciau brenhinoedd iddo ei hun, ond hefyd synagogau lawer iawn trwy holl dir Immanuel a mynydd Seion; ac o'r diwedd fe gynyddodd i gymaint o rwysg fel yr adeiladwyd temlau iddo mewn amryw o leoedd, ac yr aeth yr ellyll hon, cenfigen, yn dduwies odidog ei henw yn mhlith pob *sect*, barn, ac enw o ddynion trwy holl wledydd cred; hi aeth yn eilun fel eilunod y Cenedloedd, ac yn mhob synagog hi fynodd 'stafell dirgel iddi ei hun, fel 'stafell delw yr eiddigedd gynt, yr hon oedd yn gweithio eiddigedd; felly delw'r genfigen oedd yn gweithio cenfigen, nes gyru yr holl *sectau* a barnau o ddynion i genfigenu y naill wrth y llall; ac yno, trwy rym yr ysbryd hyn, yn ymneillduo bellach, bellach. Un enw o ddynion yn gwasgu ar y llaw ddeheu yn rhy galed, er mwyn bod yn ddigon pell oddiwrth y llaw aswy; er bod y dduwies hon yn peri i'w haddolwyr wneud felly, tra f'ont mewn sêl a gwresogrwydd, eto yn mhen tro, pan yr oerent, hwy gaent ddilyn y naill y llall, a phawb i ddilyn y *sect* o'u blaen, ac yn unig genfigenu wrth yr un a fyddai ar eu hol. A'r enw o ddynion a lediodd yn yr oesoedd diweddfaf oedd Eglwys Rhufain, y butain fawr, yr hon a harddodd

ei hun â phob tlysau, porphor, ac ysgarlad, wedi eu gwychu âg aur ac â meini gwerthfawr, a pherlau, a chanthi gwpan aur yn ei llaw, yn llawn o ffeidd-dra ac affendid ei phut-eindra, ac mewn eithaf balchder y gwahanodd hi ei hun oddiwrth eglwysi y byd, gan osod i fyny demlau ardderchog, addurnau gwerthfawr, organau, gwisgoedd offeiriad, blaenoriaethau, bywioliaethau, a phob rhagoriaeth ag allasai dyfais dyn i gael allan, i dwyllo'r anwybodus a'r digred, gan genfigenu wrth yr holl rai o'i hol ag nad oedd yn uno â hi.—Ond edrychwch heddyw ar yr holl eglwysi a ymneillduodd oddiwrthi ; pa fath frys sydd arnynt i'w chanlyn hi, pa harddu temlau, pa ardderchawgrwydd gwisgoedd, pa gyflogau dau-ddyblyg, pa raddau mewn gweindogaeth, a pha ffafir a derbyn wyneb sydd heddyw i'w weled yn yr holl enwau a *sectau* a ymadawodd unwaith o ganol Babilon fawr ? a chenfigen yn awr yn ymfoddloni yn unig ar iddynt edrych yn ddu a maleisio wrth y rhai sy'n codi i fyny ar eu hol hwynt, ond ymestyn at ardderchawgrwydd a gogoniant dynol y rhai sydd o'r blaen.

PERCON.—Gan eich bod am alw cenfigen yn ddelw, pa ddull yw y ddelw hon ? A pha aberthau maent yn eu rhoddi iddi ? Ac ar ba bethau y mae hi yn ymborthi ?

PEREG.—Am ei dull, chwi glywsoch eisoes mewn rhan ; ond i ymhelaethu, mae yn bur debyg i'r Crocodil, ei safn sydd eang, ac a lwnc enwau da, meddianau, meusydd cyfain, ac eneidiau dynion ar unwaith ; ei danedd fel danedd llew yn briwio esgryn, fel y briwia'r felin yr ŷd ; ei llygaid sydd danllyd, fel y pelican, a llid fel mellt yn saethu allan o honynt ; a'i nerth hi sydd fel nerth unicorn. A ddelir ganthi a ddyfethir, oni ddaw y gwir Fugail a dwyn yr oen allan o'i safn, ac achub y myn trwy ei nerth o'i phalfau hi.

PERCON.—Pa bethau yw ei haberthau hi ? Cant i un nad yw dynion yn dwyn rhoddion iddi fel i'r sarph yn nyddiau Daniel ; ond enwch rai pethau sydd wrth ei bodd.

PEREG.—Pob burgyn drewllyd, nas gellir gan eu hamled eu henwi hwynt ; ond nid o'r un creaduriaid glân, a'r rhai gwarhaddedig chwaith, ond y pethau mwyaf ffaidd, drewedig, ac aflan ; oni bydd iddynt gael eu rhoi trwy dwyll, hoded, a chelwydd, neu eu henill trwy anudoniaeth a dichell, ac yna fe wna'r pethau goreu'r tro, ond cael cymaint a hyny o arch-waeth uffern gyda hwynt, canys pob peth a ddelo trwy gelyydd, malais, ac anghyfiawnder yw'r danteithion goreu ar ei hallor. Ond cyn diwedd pob gwyl o'i heiddo, mae hi am gael prawf o'r tlysau mwyaf gwerthfawr, sef eneidiau dynion. Ond yn fyr, y pedwar peth hyn ydys fynychaf yn aberthu iddi—(1) Holl grach, cornwydion crawnllyd, gwaed-ddifeir-

lif, a chnawd-ddifeirlif yr holl saint ; dom hefyd, a biswel yr holl eglwys. Hyny yw, mewn iaith a ddeallir, gwendidau, drwg nwydau, cwympiadau, gwrthgiliadau, neu un math o frychau ereill yn neb o dduwiolion y tir.

PERCON.—Mae hi yn ymborthi ar bethau mae y saint eu hunain yn eu ffeiddio, yn gasau, ac yn rhyfela am fuddugoliaeth arnynt, ac yn taer weddio am eu cael tan draed ; a pha ddull y mae hi yn ymborthi ar y pethau hyn ?

PEREG.—Yr wyf yn ateb, trwy wag siarad am danynt trwy gydol y dydd, a phob dydd o'r flwyddyn, a hi a ddechreu yn foreu, ac a ddilyn hyd yr hwyr : hi a leinw ei bol arnynt fel ar win melus ; hi a'u hadrodd, hi a'u hail adrodd, ac ni flina fyth ; pan bo un chwedl wedi myned yn hen, hi ymofyn am un newydd, ac a'i derbyn gyda blas, fel offrwm blaenffrwyth y cynhauaf ; hi a'i cred, ac a'i gwiria ; pan gyntaf y clywo, hi a'i taen ar led—hi a'i denfyn o fôr i fôr mewn mnydyn, fel newydd fod gelynon wedi dyfod i dir ; hi a'i gyr : at ei ffryns pellenig gyda llawenydd mawr, a'i gofid fydd eisieu ei yru ef gyda digon o frys, neu rhag na fydd digon o orfoledd o'i blegyd ; mewn awydd mawr mae yn ymofyn am ddigon o newyddion ; a phan bo'r eglwys yn llwm, hi grea newydd drewllyd ei hun, ac a ddywed mai ei gael a wnaeth hi ; rhyw un a'i dywedodd, er nad oes le i ddywedyd pwy, mai o enau geirwir y daeth, ac nad rhaid ameu sillaf o hono : ac felly y mae hi yn llunio myrdd o gelywddau, heb sail nac awdurdod ond hi ei hun, er nad yw hi yn cael cymaint blas ar ei newyddion celwyddog ei hun ag ar rai a aberthir iddi gan arall, am ei bod yn ofni nad oes o bawb yn eu credu hwynt ; ac os na thycia'r fath ddyfais, cyn y bo hi heb offrwm, hi chwyda i fyny o'i chylla gwenwynig hen gwympiadau, pymtheng neu ugain mlwydd oed, ac a'u cilgno hwynt o newydd, ac a gais daenu yr hen ddrewdod drachefn ar led y byd.

PERCON.—Ffaidd yr aberth, ffaidd y dull y mae'n ymborthi arno ; mwg uffern yw ei lanadl, a drewdod y pydew diwaelod yw ei hyfrydwch. Ond pa bethau eto yw ei haberthau ?

PEREG.—(2) Weithiau fe'i ceir hi yn llyngcu meddianau cymydogion, wedi eu dwyn ger bron gan eu haddolwyr yn offrwm o ddiolchgarwch—eu da a'u haur, eu teiau, eu tiroedd, eu henwau, ac os bydd bosibl, eu bywydau hefyd ; ysbail gwragedd gweddwon, a phawb sydd heb rwysg na pherthynasau, grym, na chalondid i ymladd â dynion cenfigenus y byd, yn'n cael eu rhoi yn offrwm fel hyn i genfigen, a hithau yn ymborthi arnynt.

PERCON.—Agorwch hyn yn helaethach.

PEREG.—Y dduwies hon, cenfigen, sydd mor llawn o drachwant ag yw'r môr o ddwfr; a'r ysbryd trachwantus hwn ynthi sydd am lyngcu parch, enw, a meddianau dynion; a'r ysbryd hwn, sy'n trigo ynthi ei hun, mae hi yn ei dywallt ar ei haddolwyr, fel ar Ahab i chwenychu gwinllan Nabeth, y Jesreeliad; a rhagor y gyfranodd hi o hono ar Nebel, pan, trwy lid, celwydd, ac anudoniaeth, y dygodd hi, nid yn unig gwinllan y gŵr gwirion, ond ei enw a'i fywyd hefyd; ac ni fyn addolwyr cenfigen, y rhai a dderbyniasant o'i hysbryd hi, fod neb yn byw ond hwy eu hunain, a phrin y goddef y naill o honynt fod y llall yn byw. Gwrandewch lais yr ellyll trwy'r byd yn ei addolwyr—Mae gormod gan bawb, medd ef, ond gantho ei hun, ac yn awyddus er hyny i dynu ymaith glod y clodfawr, enw'r anrhydeddus, cyfoeth y llwyddianus, a bywyd y gŵr gonest, fel y bo hi ei hun yn berchen ar y cwbl; a hyn oll yn offrw m o flaenffrwyth cynhauf mawr i'r ddelw yma, cenfigen.

PERCON.—Ond pa beth yw (3) y peth sy'n fwyd ac ebyrth i'r eilun hwn?

PEREG.—Mae'r anghenfil hwn yn lladd, yn llyngcu, ac yn difa cnawd a bywydau ei addolwyr. Cenfigen, medd Solomon, sy'n difa ei pherchenog; pa sut ond trwy flino, gofidio, a therfysgu'r cenfigenwr, nes clwyfo natur ei hun, a'i harwain i amryw gystuddiau, ac o'r diwedd i angeu ei hunan. Pa sawl myrddiwn yrodd cenfigen erioed, trwy eu haflonyddu a'u terfysgu, i *hysterics*, i'r *melancholy*, y clefyd melyn, ac amryw o gystuddiau a'u gyrodd hwynt i'r bedd? Rhowch dro trwy'r *Bedlam*; pa sawl mab gwraig sydd yno heddyw heb wybod gwahan rhwng eu llaw ddeheu na'u haswy, o achos cenfigen cariad, neu genfigen enill, neu genfigen colled, neu genfigen cyfraith, neu ryw achosion ereill a derfysgodd eu meddyliau nes eu gwneud mor dlawd o reswm ag anifeiliaid y maes. Felly yr eilun hwn sy'n dwyn bywyd ei berchenog, ac yn ei yru i dristwch y byd hwn, yr hwn sydd yn gweithio angeu—"Ond y duwiol dristwch sy'n gweithio edifeirwch nad rhaid edifarhau am dano."

PERCON.—Ofnadwy yw'r pethau mae y ddelw hon, fel yr ydych yn ei galw hi, yn ymborthi arnynt.

PEREG.—Mwy ofnadwy yw ei bod hi (4) yn ymborthi ar eneidiau dynion; ac nid oes dim a dyr ei newyn, nac a leinw ei chylla gwangcus cystal a'r cyfryw werthfawr offrymau a rhai'n; canys fel y mae'r ellyll yn fab i ddiabol, nis gall lai na bod o'r un egwyddor, o'r un ddyben, ac yn dwyn yr un gwaith yn mlaen ag ef; ac eto nis tyr hyn ei newyn ef, mwy nag y tyr yr holl afonydd gri a dwndwr y moroedd. Mae ei newyn ef fel newyn y tân a'r bedd, heb fyth ddigoni

arno; mae myrddiynau heddyw yn uffern wedi dyfod yno o'i achos ef, gydag ellyllon o'r un natur wenwynig.

PERCON.—O na b'ai fwy o grio a gwaeddi yn ei erbyn gan bawb; a oes nemawr neu neb yn gweled yr holl ddrygau mae ef yn wneuthur? A ydyw'r holl eglwysi yn cysgu; a oes un dyn a â allan i'w hela ef, nag yn y byd nag ar fynydd Seion?

PEREG.—Nid ychydig waeddi a chrio sydd ar ei ol ef, ac nid ychydig gondemnio sydd arno pan ceir ei; amryw wŷr gonest a chyfiawn, ardderchog mewn nerth, ac enwog o ran cyflymdra, ac nid llai o ran eu doethineb a'u dyfais, a aethant allan er's dyddiau i ymofyn am y llofrudd hwn, a hwy a'i cawsant ef mewn amryw fanau—cromlechydd y creigiau, tyllau, a chornelau y galon; hwy a'i daliasant, ac a'i condemnasant ef, ac eto yn methu ei orchfygu na'i ladd, o ran fod gantho gynaint o ffryns, cynifer o galonau agored, cynifer o dyllau, o ffauau, ac o nythod dirgel, nad oes neb a'i maedda yn lân ond Tywysog Immanuel ei Hun. Ac mae'r Brenin mawr wedi *resolfo* ei ddyoddef ef tra parhao'r byd, er adnabod ei bobl oddiwrth y lleill o drigolion gwlad y Philistiaid; ac i fod iddynt yn "Swmbwl yn y cnawd, cenad Satan i'w cernodio hwynt," fyth yr ochr hyn i'r Iorddonen sydd rhyngom a gwlad yr addewid.

PERCON.—Adroddwch ychydig am y gwŷr hyn, eu hachau, eu henwau, eu teitlau, a pha gynygiadau a wnaethant i ddifa'r anghenfil hwn.

PEREG.—Nis gallaf gofio na'u henwau na'u rhifedi i gyd yn bresenol; ond f'allai gallwn, wrth fyned yn mlaen o bryd i bryd, i ddangos i chwi pwy ydoedd y rhan fwyaf o honynt; un oedd Llygad-sym, un arall oedd Ofn-duwiol, a'r lleill oedd Cariad-Duw, Cariad-brawdol, Ffyddlondeb, Clust-enwaed-edig, Union-ddyben, Eiddigedd-dduwiol, Sel-i'r-gwirionedd, Gostyngedd-rwydd a Ffydd, Amynedd a Gweddi. Gwir foneddigion yw y rhai'n oll, a'u genedigaeth o'r nef, cyn i'r anghenfil mawr cenfigen gael ei fod, a'u teitlau sydd oll o wlad Canaan nefol; a hwy a ddaethant i lawr i ardd Eden i fod yn *life-guard* i Adda a'i briod, i ddangos ardderchawgrwydd gwaith Duw, ac i fod yn ogoniant i Frenin y ddaear; a hwy a fuasant yn dal y dyn cyntaf yn ddiberygl oni buasai iddynt fyned gyda eu HARGLWYDD allan o'r ardd tros rai mynyddau, yn mha amser y neidiodd y bwystfil hwn i mewn gan wisgo corph sarph am dano, a thrwy lawer o weniaith, twyll, celwydd, rhagrith, a hudodd fam holl ddynolryw i fwyta o ffwrwyth y pren gwaharddedig; a'r holl wŷr da hyn sy'n berthynasau agosaf y naill y llall, ac nid y'nt fyth yn cwmpo allan a'u gilydd, ond mewn cydsain hyfryd yn cadw eu lleoedd, tan Immanuel, Tywysog heddwch, yn ei holl dir

Ef, yn chwilio am yr anghenfil hwn, a'r bwystfilod ereill sy'n cyd-ysglyfaethu âg ef, mewn tref a gwlad, yn enwedig ar fynydd Seion, yn yr hen baradwys yn ngwlad Gosen, lle bu ac y mae yr had sanctaidd yn byw, a lle maent hwythau eu hunain fwyaf yn caru trigo.

PERCON.—Mynegwch am yr hyn a wnaeth y rhai'n i ymofyn am y Crocodil ofnadwy hwn, yn mha leoedd y cawsant hwy ef, pa ymladdfa fu rhyngthynt ag ef, pa fodd y condemniasant ef? Yr wyf yn blasu mwy yr awr hon i glywed am dano, ac yn mha le y gwelsant ef gyntaf, mynegwch?

PEREG.—Y rhai hyn wedi clywed ei ddrygau ef ar fynydd Seion, a'r holl diroedd oddi amgylch, a wridasant o sêl dros DDUW, ac a enynasant yn dân o awydd i'w chwilio ef allan; Llygad-syml a ymagorodd, ac a graffodd yn hyll ar bob ffau, gwâl, a lloches, er mwyn ei ffeindio ef allan. Ofn-duwiol a ocheneidiodd o hiraeth am i bawb aros yn gywir ar lwybr y bywyd. Cariad-Duw a lidiodd, rhag bod neb gelynion yn dystrywio gwinllan y brenin. Cariad-brawdol ynfydodd o awydd cynorthwyo'r saint yn erbyn holl fwystfilod yr anialwch. Ffyddlondeb oedd wyllt rhag i neb golli ei le. Clust-enwaededig a wrandawodd bob sisial, rhag ofn bod dim drygau yn nesau at bebwyll y bugeiliaid. Union-ddyben a safodd ar ei draed, ac a dyngodd i'r Hwn sy'n byw yn oes oesoedd, na chai neb o wyrdraws ddybenion weithio yn ngwinllan y brenin. Eiddigedd-dduwiol feichiogodd ar dybiau cyfyng, o fod rhai o locustiaid y pwll wedi dyfod allan i anrheitho dinas Seion. Sel-i'r-gwirionedd aeth yn dân gwyllt o frys i ymofyn am y llofrudd. Gostyngeiddrwydd, yntau a ymgripiodd ar y ddaear i edrych rhyngtho a phelydr yr haul, a welai neb o'r llofruddin yn dringo mur Seion. Ffydd, Amynedd, a Gweddi, a daer ddysgwylasant wrth DDUW am nerth i'w ganlyn Ef, a hwynt oll o un fryd a fynent ei ddal ef, a'i ladd; ond gwaith rhy anhawdd oedd hyn, eto hwy a chwiliasant am dano trwy bob cwr o'r wlad a'r dref hono, fel y gallent ei ddrygu ef mewn rhyw ddull, os oedd bosibl. A chwi a ryfeddech fel y dywedasant i mi mor aml oedd ei drigfanau. Mae ef yn tramwyo o fôr i fôr, o India i India, o orllewin i ddwyrain. Ac er mor anhawdd yw credu hyny, nid oes nemawr o dy nad oes gantho rhyw reolaeth yntho, na nemawr o galon nad yw, neu na fu rhyw bryd, yn ymofyn lloches ynthi; nid oes hefyd nemawr o negeseuon, nac achosion daearol nac eglwysig, nad oes gantho ef rhyw law ynthynt. Os priodi, os claddu, mae rhai yn cenfigenu; os cyfoethogi, os elwa, mae cenfigen yn fflamio mewn rhai; os cael parch, neu enw, rhai sy'n gofidio o genfigen; os dyrcheffir rhai i swyddau, cenfigena rhai ereill; yn fyr, mae'r mor, y tir, y wlad, a'r ddinas, y lluest, y palas,

cefn yr asyn, ac eisteddfod y cerbyd, yn llawn o genfigen. A'r gwyr hyn a welodd, er mawr alar, ddinas Seion ei hunan yn lletya, mewn amryw o'i phalasaau penaf, yr ellyll hwn—cenfigen.

PERCON.—Pa le y cwrddasant hwy âg ef gyntaf?

PEREG.—Yn y tŷ nesaf, sef bwth y *beger*, yr hwn oedd tu faes i byrth y ddinas; enw gŵr y tŷ oedd Grwgnachlyd; yr oedd efe yn hen iawn, a Chlust-enwaededig, yr hwn oedd yn wastad yn graff iawn i glywed sisial, a phob hunan-siarad, a wrandawodd ychydig wrth y ffenestr, ac adnabu—wrth lais dystaw ehedodd allan gyda'r awel—fod cenfigen yn lletya yno; a'i achwyniad oedd fel hyn:—O dlotaf o ddynion is y nef—nid oes neb heb ddim ond myfi—mae nef a daear wedi fy ngadael—fy mwth sy'n adfeilio—fy ngwisgoedd sydd wedi treulio gan henaint—fy sten sydd heb olew—fy nghelwrn heb flawd—mewn gwlad annhrugarog yr wyf yn byw—y cyfoethogion o'm cwmipas ydynt gybyddion annhrugarog—ni fedrant ymadael â'r hatling leiaf o'u meddianau meithion—gwae hwynt y dydd sydd ar ddyfod—pe buasai'r tlawd hwn yn eu cyflwr hwy—pell fuaswn o fod yn euog o'u pechod—O annhrugarogion! nid fel hyn yr ydwyf yn deilwng o gael fy nhrin—mae fy achau, fy oedran, a'm gweithredoedd erioed, yn galw am lawer rhagor o drugaredd ar eu dwylaw.—Ond erbyn hyn methodd Clust-enwaededig wrando yn hwy, ac a adroddodd yr ymadrodd (cans nid oeddynt oll yn eu clywed hwynt) wrth Eiddigedd-dduwiol, yr hwn a ddeallodd fod Grwgnach, Tuchan, Hunandyb, a Chenfigen yn lletya yno, ac a waeddodd allan, *Stopia, stopia*, gardotyn, yr wyt yn mhell, bell i maes o'th le—dy gyflwr sydd gan' waith yn well nag yr wyt yn haeddu—dy gymydogion sydd hefyd tuag atat lawer gwel nag y buasit ti tuag atynt hwy, pe buasit yn eu cyflyrau hwynt—mae dy hunan-dyb a'th genfigen yn caead allan bob trugaredd ar law Duw a dynion.—O'r ystyfnig! meddai Sel-tros-DDUW, gwel dy fraint—dy le priodol yw bod yr awrhon mewn fflamau o dân—gwel drugaredd dy fod yn cael bod ar dir y byw heddyw—dy haeddiant oedd marw o newyn—ac wele cryf ydwynt—ac yn cael dy ddigoni â bara—ni fedd y damnedigion na bara na dwfr; mewn fflamau berwedig o frwmstan y maent yn aros, tra i'ost dithau heb na phoen, na gofid, na syched, na newyn, yn huno ar dy wely clyd.—Mae dy gyflwr yn well, ebe Gostyngeiddrwydd, pe gwelit ti ef, na chyflwr y milwr, yr hwsmon, na'r pendefig; mae un yn maes y gwaed mewn perygl bywyd bob mynydyn, a'r llall yn goddef gwres yr haf ac oerfel y gauaf, a chyflawnder cyfoeth yr olaf ni âd iddo gysgu, tra yr wyt ti heb nag ofni'r cleddyf o un tu, na chwysu.

yn mhoethder y gwres o'r tu arall, nac ofni fyth o'r lleidr sydd yn cloddio trwodd, ac yn lladrata. Mae'th gyflwr yn rhagori ar gyflwr brenhinoedd y byd, a'r ffordd i'r bywyd sydd yn hawsach i ti gerdded na hwynt-hwy; yr holl achos o'th derfysg yw dy fod yn lletya yr ellyllon ag y daeth o'r pwll i fyny; balchder a chenfigen sydd gyda thi yn mhob man, a'u llais hwy yw yr hyn ydym yn ei glywed yr awrhon o'th enau, a'r ellyllon hyn sy'n dy roi i feddwl yn dda am danat dy hun, ac yn galed am Dduw; am hyny tewch, feibion uffern, y rhai a dynodd y pläau ar Israel gynt; a dysg dithau, gardotyn, i yru allan o'th dŷ y llwynogod hyn, a molianu enw Duw am ei anfeidrol roddion, nad wyt heddyw lle nad yw'r tân yn diffodd, na'r pryf yn marw. Ond er hyn oll methodd y gwŷr hyn i daflu allan genfigen o fwth y cardotyn, ac nid oes a'i gyr ond effeithiol ras y nef.

PERCON.—Ond pa le y teithiasant oddiyno? A pha le y cawsant ef?

PEREG.—Nid yn mhell, ond i dŷ pendefig yn y gymydogoeth; gwŷr cyfoethog, a gwŷr yn cyfoethogi beunydd, a'i dŷ ardderchog tu faes i'r ddinas, ac enw ei balas oedd Trais.

PERCON.—Ow! nid oedd cenfigen yno, yr wyf yn gobeithio.

PEREG.—Mor gryf ag mewn un man tan y nef.

PERCON.—Pa ddull, atolwg?

PEREG.—Yr hanes a roisant hwy i mi oedd fel hyn:—Llygad-symll, Clust-enwaededig, Union-ddyben, a Chariad-brawdol, fuont yn lletya yn ei dŷ ef dri diwrnod a thair nos; ac ni buasent erioed mewn lle mwy poenfawr, a gwrthwyneb i'w tymherau, canys yr oeddynt yn gweled yr ellyll hyn trwy gydol y dydd a'r nos ar hyd y tŷ: weithiau yn tuchan, weithiau yn rhuo, weithiau yn condemnio, ac yn gwneud cymaint terfysg fel y bu'r tri diwrnod hyny iddynt mor fawr a blwyddyn; ac yr oedd cenfigen wedi cael cymaint argraff ar yr hen ŵr bonedig, fel nad oedd gantho air da braidd i un dyn ag oedd yn cyfoethogi fel ei hunan, ond yn digio wrthynt; fel pe buasai'r byd yn rhy fach iddo ef a hwythau; a phe gallasai, fe a'u gwnaethai hwynt oll yn dlawd; ei awydd oedd cymaint am helaethu ei derfynau, fel nas cai fyth ddigon o dir na meddianau tan ei ofal, ac yn tuchan yn annyoddefol am bob rhai y rhoi rhag-luniaeth iddynt ran ragor o'r ddaear nag o'r blaen. Cenfigen yr hen bendefig oedd yn enyn yn erbyn y cryf a'r gwan, y cyfoethog a'r tlawd; y cyfoethog, am ei fod cu'wch-ag ef ei hun; y tlawd, am na buasai yn berffaith was iddo, ac heb fod felly i neb arall; a'r ellyll hwn a'i perswadiodd ef yn ei henaint i letya Llid, Malais, Ymryson, Hunan-dyb, Sisial-drwg, Caru-celwydd, ac amryw o ddrwg nwydau ereill ag

oedd, fel y dywedais, yn perthyn i Genfigen. Yr oedd y gwŷr hwn yn ei holl ymddygiad at ereill fel Ahab, brenin Israel, yr hwn, er cymaint ei olud, a glafychodd o drachwant ac o awydd i gael gwinllan Naboth y Jesreeliad; felly yntau, am fod ereill yn byw gydag ef, nid oedd ond blinder a gofid iddo o'i holl lwyddiant a'i gyfoeth.

PERCON.—Pa beth a ddywedodd y gwŷr hyn wrth yr hen bendefig?

PEREG.—Yr wyf yn meddwl na fuasent yn dweyd nemawr wrtho oni buasai fod cyfaill iddynt, a'i enw Diofn-wyneb, yn mhalas y gwŷr cyfoethog y pryd hyny; a'r gwŷr hwn ddech-reuodd ei araeth fel hyn—Syr, ofnadwy yw bod gwŷr o'ch bath chwi, ag a dderbyniodd gynifer o drugareddau mawrion, yn cadw gelynyon gwenwynig i Dywysog Mynydd Seion yn eich tŷ—llwynogod uffernol ag sy'n bwyta holl rawn egin gwinllan y Brenin. Pa beth sydd eisieu arnoch ag sydd yn perthyn i ddedwyddwch y byd hwn? y cwbl a roddwyd i chwi; ond pahan y cedwch Lid, Malais, Ymryson, Ymddial, Sisial-drwg, Duo-enw, Celwydd, ac Anudoniaeth yn eich tŷ? a llawer o ellyllon ag sydd yn gyfeillion i Genfigen? P'am y digiwch am fod Duw yn dda i ereill?—“A gaiff Ef ddim gwneuthur a fyno â'i eiddo ei Hun? A raid bod eich llygad chwi yn ddrwg am fod Duw yn dda?” A fyddwch chwi yn fwy hapus pe b'ai pawb yn dralodedig, yn wan, ac yn dlawd? Mae'r ysbryd hwn yn tardu oddiwrth y genfigen ag sydd yn y diafol yn erbyn llwyddiant holl ddynolryw, er nad yw ef un gronyn gwell ei hunan o hyny, ond llawer gwaeth; pahan na folianwch chwi yr ARGWLWYDD am yr hyn a gawsoch? Edrychwch ar eich rhoddion—mae'ch gwraig fel gwinwydden ffrwythlon ar hyd ystlysau'ch tŷ, a'ch plant fel planhigion oddeutu'ch bwrdd, eich meusydd yn llawn ŷd, eich gwinllanoedd yn llawn gwin, a'ch olewydd-lanau yn rhedeg yn afonydd o olew. O dysgwch ganmol Duw; rhowch heibio ymddial ac ymddigio; ceiswch gan Dduw faddeu i chwi. Ond erbyn i son am y gair maddeu i ddyfod, Cariad-brawdol a neidiodd yn mlaen, ac a'i cynghorodd ef am garu ereill fel hyn—A ydych (ebe fe) yn gweled dim dyled arnoch i drugarhau wrth ereill am fod Duw wedi trugarhau cymaint wrthy chwi? A raid i chwi ewyllysio drwg i ran fawr o ddynolryw am fod Duw yn dangos iddynt ewyllys da, fel y gwnaeth Ef â chwithau? A fydd ei holl roddion Ef i chwi i gael un effaith arnoch ond i faleisio, i gasâu, ac i genfigenu wrth lwyddiant rhai ereill? Holl fendithion y nef a'r ddaear sydd wedi cael eu rhoi er enyn cariad at Dduw a dynion; a pha bryd bynag bo cariad yn eisieu, fel effaith, maent wedi eu rhoi er dinystr a melldith i'w perchenog. Am



hyny, yr wyf yn dymuno arnoch i daflu o'ch anedd yr ellyll hwn, Cenfigen, a gwisgwch gariad, a chwi fyddwch fel halen, a phob rhan o'ch gweithredoedd a ddysgleiriant fel goleuadau yn y nef. Ac ar hyn y gwŷr a ymadawasant â'r tŷ; ond nid ymadawodd Cenfigen â'r gwŷr boneddig, canys yr oedd wedi parotoi llochesau amryw ar hyd y tŷ—yn y parlwr, yn ei 'stafell wely, ac amryw fanau ereill; ac wedi gwisgo yn hardd am dano, a chyfnwid ei enw, a'i alw Cyflawnder, Enw-da, Doethineb, Talu'r-pwyth, Synwyr, ac amryw enwau ereill ag a ddodai cenfigen yn harddach o flaen dynion.

PERCON.—Ond i ba le yr aethant oddiyma ?

PEREG.—At ei frawd hynaf mor genfigenus ag yntau.

PERCON.—Enwch y lle, a gwŷr y tŷ.

PEREG.—Enw'r gwŷr oedd Gwastrafflyd, ac enw'r tŷ oedd Aflwyddiant; a gwŷr oedd hwn a fu yn gyfoethog iawn, ond trwy segurddod, glythineb, a meddwdod, yn nghydag ymryson, a afradlonodd ei dda, nes daeth tlodi arno yr awrhon fel gwŷr arfog; ei wisgoedd, ei feusydd, a'r hen balas ei hunan, oedd yn mynegu hyny, canys nid oedd heddyw ond drain, ysgall, mieri, a danadl yn tyfu tros wyneb y gerddi a fu yn rhodfeydd hyfryd, ac yn welyau peraidd o bob llyisiau a blodau. Y dylluanod a'r ellyllon oedd yn awr yn cyfaneddu yn yr hen balas, lle bu llais telyn a dawns. Y gwŷr hyn a edrychasant dro oddeutu yr adeilad ag oedd heddyw wedi adfeilio yn rhyfedd, ac a welsant air Solomon wedi ei gyflawni.—“Mi aethum heibio i faes y diog, a gwinllan yr anghall, ac wele codasai drain ar hyd-ddo oll; danadl a guddiasai ei wyneb ef, a'i fagwyr geryg a syrthiasai i lawr.” Ond y grechwen ofnadwy oedd yn y tŷ, nas gwyddent yn iawn gan bwy, nac am ba achos, a berodd iddynt ryfeddu fwyaf. Ond Eiddigedd-dduwiol a dybiodd yn union wrth y llais, canys cras oedd a chnawdol, mai nid am beth da yr oedd; ac yna Llygad-symbl a edrychodd trwy'r ffenestr, ac ni welai neb ond hen ŵr briglas ei hunan yn eistedd mewn cadair, a rhyw un o'i flaen, yr hwn oedd yn dwyn newyddion iddo, ac yntau ar bob newydd yn tori allan fel hyn o grechwen.

PERCON.—Pa fath newyddion oeddent ?

PEREG.—Rhai ag oedd yn rhoi Cenfigen i lawenhau; a'r fath oedd am gollodion rhai o'r cymydogion, neu fel y gorfu ar rai i werthu eu meddianau rhag myned i garchar; fel yr oedd ereill wedi *spendio* y cwbl trwy fyw yn afradlon; fel y colledwyd rhai drwy lifeiriant, melld, 'stormydd, a lladron; neu fel y darfu haint y nodau, y newyn, a'r chwaren i ddinystrio teiau, trefi, a dinasoedd; neu am ddaear-grynfau, a than gwylt, yn taflu lawr drefi mawrion, ac adeiladau teg;

neu am fyrddiynau yn cael eu lladd mewn rhyfel, neu ryw un pla neu ddamwain ddrwg arall allasai ddygywydd i neb dynion pwy bynag, naill ai yn eu meddianau nen eu henwau. Wrth glywed neb o'r fath newyddion, meddaf, y gwŷr hwn a grechwenai yn arw; ac os b'ai yr hyn a glywai ond celwydd, yr un dull y gorfoleddai. Ac er y byddai yn gwybod mai celwydd a fyddai, eto fe'i cadarnhai fel gwir, ac a haerai ei fod wedi ei rag-weled er's dyddiau meithion; a hyn oll o genfigen, am ei fod ef ei hun wedi afradloni ei dda, a threulio'r cyfan; llawenhau yr oedd i glywed fod neb arall mewn tebyg o fod yr un wedd—heb barch, heb enw, heb gyfoeth, heb lywodraeth, heb gred nac anrhydedd, ond yn wrthddrych gwawd a diystyrwch pawb a'i hadwaenant.

PERCON.—Nis gwyddwn bod Cenfigen yn llawenhau, canys dywedasoeh mai gofid o mewn oedd hi am wynfyd rhai ereill.

PEREG.—Gwir yw, os bydd rhai ereill yn para yn wynfydedig, Cenfigen sy'n gofidio; ond os bydd ei gwynfydedigrwydd hwynt yn cwmpo, yna Cenfigen sy'n llawenhau.

PERCON.—Rhyfedd cynifer gwisg sydd am dani; ond, atolwg, pa beth a ddywedodd y gwŷr hyn wrth yr hen ben-defig tlawd yma ?

PEREG.—Cariad-Duw, Cariad-brawdol, Cyd-ymdeimlad hefyd (yr hwn oedd yn ŵr parchedig, ac yn dwyn gydag ef *blastaron* i roi wrth archollion rhai cystuddiedig ag oedd yn fynych yn nghwmpeini y gwŷr hyn), a'i hargyhoeddasant ef yn bur llym, ond eto gyda pharch a gostyngedd rwydd gan ddywedyd—Syr, atolwg na lawenhewch yn nghystuddiau rhai ereill, ond yn hytrach cydymdeimlwhc â hwynt. Oni wyddoch eich bod eich hunan yr awr hon mewn adfyd? Ai da yw genych bod ereill yn llawenhau yn eich tristwch? Ystyriwch mai wrth y mesur y mesurwch y mesurir i chwithau; pechod—ie, prif bechod—y diafol ei hun yw y pechod hwn; ac nid yw'r damnedigion eu hunain yn wastad yn euog o hono. Mae'r gwŷr goludog yn uffern yn dymuno ar Abraham i ddanfon at ei bump brodyr, i'w rhybuddio hwynt na ddeuent i'r lle poenus hwnw; am hyny, yr ydym yn dymuno arnoch, ebe hwy, i daflu allan y gwŷr maleisus hyn—sef Cenfigen, Duo-enw, Codi-celwydd, Sisial-drwg, Anudoniaeth, Ymryson, Ymddial, y rhai sy'n wastad yn llawenhau yn ninyst ar aflwyddiant dynolryw, a derbyn i mewn yn eu lle hwynt Gariad, Ffydd, Amynedd, Gobeithio'r-goreu, Tiriondeb, Cymwynasgarwch, y rhai, pan gyntaf y delont o fewn i'ch parlwr, a'i hysgubant ef yn lân, ac a dafiant allan yr holl fwystfild rheibus sydd yna yn awr yn cadw'r lle; a hwy a ddygant i mewn gyda hwynt Hyder-nefol, Llawenydd-ysbrydol, Tang-



nefedd, a Heddwch, y rhai y'nt y cymdeithion goreu ag all neb i ddewis is yr haul—y rhai a geidw allan bob ofn angeu; ac a ddygant yr enaid yn y diwedd tros yr Iorddonen i'r tir dymunol. Fel hyn y siaradodd y gwŷr hyn; ond pwy lwyddiant a gawsant, nis gwn. Ond p'odd bynag, hwy a aethant yn y blaen.

PERCON.—I ba le ?

PEREG.—At dŷ gŵr dysgedig a doeth; ond nid mwy doeth a dysgedig nag yr ydoedd efe ei hun yn tybied.

PERCON.—Pa fath ydoedd, atolwg? A pha un ai yn y ddinas, neu allan o'r ddinas, yr ydoedd yn byw?

PEREG.—Yr oedd ei dŷ ef yn mur y ddinas, ac yr oedd yn cadw cyfeillach â thref a gwlad; ac am ddesgrifiad ragor o hono, yr oedd efe yn hyddysg iawn mewn amryw o'r celfyddydau, yn ysgrifennwr mawr, yn awdwr, ac yn athraw i ddysgu'r byd anwybodus, a'i glod aeth allan o fôr i fôr.

PERCON.—Peth rhyfedd fod y fath ŵr yn lletya Cenfgen yn ei dŷ; canys fe ddysgwylasid mai Cariad, Amynedd, Tosturi, Union-ddyben, a'r lleill o drigolion y nef, a fuasai y fath ŵr da a hwn yn eu lletya.

PEREG.—Diau; ac yr oedd efe yn cymeryd arno ei fod yn lletya Union-ddyben, Gostyngeiddrwydd, Hunan-ymwadiad, ac amrywiol ereill o wŷr da, y rhai a ffeindiasant amryw elynion yn ei dŷ ef, megys Hunan-glod, Hunan-dyb, Ymffrost-gnawdol, a Chenfigen yn llechu yn mhob cornel tywyll, heb eu gwahardd, na gwarafun iddynt ymguddio lle gallent; yn unig, os oedd bosibl, na f'ai iddynt ymddangos yn gyhoedd ar hyd y tŷ.

PERCON.—Pa fodd y cafodd y gwŷr da hyn eu gweled hwynt pan yr oeddent yn dilyn llochesau mor ddirgelaidd?

PEREG.—Trwy dyllau dirgel, agenau parwydydd, rhwng yr astyllod, a thyllau'r cloion, ac ar hyd y 'stafelloedd ag yr oedd y ffenestri wedi eu cauad; ac weithiau hwy ddeuent i'r parlwr, brig yr hwyr, cyn enyn canwyllau. Ond ganol dydd fe fyddai bron yn anhosibl i gael golwg arnynt, canys cymaint y maent hwy yn ffeiddio'r haul.

PERCON.—Pa rai o'honynt oedd fwyaf ëon, ac fwyaf mynych yn ymddangos?

PEREG.—Hunan-dyb, Hunan-glod, a Chnawdol-ymffrost oedd yn fynychaf yn dyfod i'r golwg, yn ngeiriau, yn ysgrifeniadau, ac yn enwedig yn areithiau cyhoeddus yr hen ŵr dysgedig; a phryd bynag y deuai un o'honynt i ymddangos, fe gollai'r gwŷr duwiol hyn y blas a'r archwaeth ar y rhan hyny o'r araeth neu'r ysgrifen, canys nid oedd dim yn blasu'r cwbl iddynt ond llais Hunan-ymwadiad, Ffydd, a Chariad, yn nghydag awel Ysbryd y nef. Ond am Genfigen, hi a ym-

ddangosai yn fwy cynil; ac oni buasai fod Llygad-syml, Clust-enwaededig, ac Eiddigedd-dduwiol yn y tŷ, mae'n gwestiwn pa un a welsai'r lleill hi yn hir o amser, canys nid yw Cariad-Duw, a Chariad-brawdol, na Ffyddlondeb chwaith, ddim mor graff eu llygaid nas gallant gam-gymeryd gelynion yn lle ffryns, a gobeithio mai defaid yw eirth a llwynogod, pan na b'ont ddim ond doddi crwyn defaid am danynt.

PERCON.—Ond pa ddull yr oeddent yn dyfod i adnabod fod y gŵr hwn yn lletya y fath fwystfil?

PEREG.—Wrth ei waith yn condemnio goleuni ereill, ag oedd cystal a gwell na'i oleuni ef ei hun; yn gwyr-droi athrawiaethau y rhai aeth o'r blaen; yn ceisio bod yn gallach na'i hynafiaid; yn diystyru pob hen wirioneddau, ac am ddwyn i mewn bethau newyddion mewn difynyddiaeth, cystal ag mewn philosophi; yn nghyda beio, lladd, diystyru, dirmygu a gwawdio goleuni, iaith, dysg, synwyr, a phrofiad rhai mwy rhagorol nag ef ei hun, oedd ddigon o dystiolaeth fod Cenfgen yn lletya yno. Fel dywedir am rai o'r philosophyddion gynt, iddynt losgi llyfrau y rhai o'u blaen; o awydd am y parch a'r enw i gyd eu hunain, yn peri cenfigen fod ereill yn cael dim; felly y gŵr hwn, er cymaint oedd yn gymeryd arno o sêl, bywyd, ac enw, a ddymunasai, pe buasai pawb o'i flaen a'u henwau wedi pydru gyda hwynt yn y llwch, ac i'r holl fyd i edrych arno ef yn benaf ac yn flaenaf o ddynolryw; ac yn *resolfo* duo enw, lladd, a mwrddro, hyd ag y gallasai, 'r byw a'r marw, er mwyn iddo ei hun i gael ei godi i binacl y deml, a'i addoli yno fel duw.

PERCON.—A berodd Cenfgen iddo lwyddo?

PEREG.—Ni lwyddodd hi, na neb o'i pherthynasau—Llid, Malais, Ymryson, nac Ymddial—eto erioed. Ac ni wnaeth y gŵr hwn ond daguddio i'r holl fyd, ac i drigolion mynydd Seion, pa fath ydoedd, a gosod tref a gwlad i oeri ato, a chynhesu rhagor at ei hen athrawon nag o'r blaen. Ac heb law hyny, mae *Act* wedi ei gwneud a'i chadarnhau gan Dywysog heddwch yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad Ef,—a hon sydd i'w gweled yn rhôl y llyfr yn mreninllys Brenin Seion—nad oes i un gŵr gymeryd arno unrhyw swydd yn, neu yn perthyn i winllan y Brenin ag a fo yn cadw yr ellyllon uchod—sef Llid, Malais, Rhagfarn, Duo-enw, Codi-celwydd, ac yn enwedig Cenfgen, i lwyddo; ac mae'r un *Act* yn cyhoeddi allan, mewn geiriau yn hen iaith Paradwys a Mynydd Seion, y llwydda'r gŵr a gadwo Ffyddlondeb, Ofn-duwiol, Cariad-brawdol, Tosturi, Amynedd, yn nghydag Eiddigedd-dduwiol, a Ffydd, y rhai sydd yn canlyn ar ol Cenfgen i'w ddystrywio ef.

PERCON.—Onid oedd y gŵr dysgedig yn cymeryd arno i

gadw tŷ rhydd i'r gwŷr da hyn? Paham ynte y lletyai efe y fath elynion i'r Brenin?

PEREG.—Am, f'allai, fod gwreiddyn drwg yn y cwbl o eiddo'r gŵr yma; canys y mae yn arwydd drwg o'i fod yn rhoi lle i ddiafiaid perffaith, ac yntau am i bobl gredu mai ffrynd enwog oedd i Dywysog Immanuel Ond o'r ochr arall, nid oes neb a wŷr nad oedd llawer o hyn yn tarddu oddiwrth ei fod ef yn edrych arnynt yn llai niweidiol nag yr oeddent, a hwythau o natur ddengar iawn yn ei berswadio ef nad oedd ganthynt un drwg ddyben, un gau athrawiaeth, un hunan-gais, ac yn galw eu hunain ar enwau ereill, agos yr un ag enwau y gwŷr oedd yn eu canlyn hwy—yn newid eu lliwiau, eu lluniau, a'u hysbrydoedd. Yr hwn a fyddai âg ysbryd arth gantho a ymddangosai megys yn berchen ar ysbryd oen; y llew a'r blaidd a wisgai wisg y ddafad yn ei dŷ ef, ac felly a'i twyllasant i roi iddynt lawer lloches o fewn ei dŷ, er bod Hunan-ymwadiad, Ofn-duwiol, Union-ddyben yn fynych yn pregethu iddo "mai pryf oedd efe, ac nid gŵr, gwarthrudd dynion a dirmyg y bobl, gan beri iddo ymfrostio yn unig yn yr ARGLWYDD, ac nid yn ei wendidau ei hun;" eto methasant ei berswadio ef i rododi pob cyfaill heibio o'r ysbrydion drwg hyn; a hwythau aethant ymaith, ac a'i gadawsant ef, a'r bwystfilod hyn yn llawenhau am eu hymadawiad hwynt.

PERCON.—Mae arnaf ofn y gŵr hwnw, canys arwydd drwg yw bod y fath wŷr da yn ymadael â'r tŷ; ond i ba le yr aethant oddiyno?

PEREG.—Hwy a deithiasant y wlad i fyny ac i waered; ac fel yr oeddent yn myned yn y blaen, mwy profiadol oeddent o gyfrwysdra, dichell, twyll, a malais Cenfgen. Yr oeddent yr awrhon yn dechreu adnabod ei amryw leisiau, canys fe ruai weithiau fel llew; weithiau fe frefai fel oen; fe chwythai weithiau fel sarph; a phryd arall fe drydarai fel colomen; rai prydiau fe wisgai am dano sêl, cariad, tiriondeb, amynedd, neu yn y rhan leiaf pethau yr oedd ef yn eu galw felly, nes byddai mor hardded ag un o rasmusau'r nef; a phryd arall fe wisgai ei wisgoedd blewog, draenogaidd ei hun, megys geiriau chwerwon, ymddial, celwydd, ac anudoniaeth, nes gallai pawb adnabod mai un o locustiaid y pwll ydoedd ef. Ac fel newidiai ei lais a'i liw, fe hefyd newidiai ei lun, canys fe fedrai fod yn fawr, yn gryf, ac yn hyll yr olwg; a phryd arall fe ymwnai ei hun yn fychan, yn wan, yn llyfn, ac yn ddi-sylwedd; canys pan y byddai gyntaf yn myned i mewn i'r galon, fe ymwnai ei hun mor lleied ag amwydyn; ond cyn pen tro, fe ymchwyddai yno nes b'ai cymaint a sarph danllyd hedegog, na b'ai braidd le i ddim yno ond ef ei hunan a'i gymdeithion; hwy a'i canfyddent ef hefyd yr awrhon mewn lleoedd dirgel,

na feddylasant ei fod ef o'r blaen—hwy a'i canfyddent ef rhwng y prentisiaid yn gweithio terfysg ac anfonlondeb, llid, ac ymddial, ar sail fod y meistr yn caru ac yn ymddiried i'r naill yn fwy na'r llall; yn mhllith y gwasanaeth-ddynion y gwelent ef yr un modd—y lleiaf yn cenfigenu yn erbyn y mwyaf, y ffol yn erbyn y call, yr aflunaid yn erbyn y siong, yr anghanmoladwy yn erbyn y canmoladwy, fel na welid braidd dŷ nad oedd ynddo rai yn cenfigenu yn erbyn llwyddiant a dedwyddwch y naill y llall; hwy welent yr awrhon y gwŷr yn eiddigeddu yn achos eu gwragedd, a'r eiddigedd yn magu cenfigen; a'r gwragedd yn achos y gwŷr yn ymchwyddo ar eiddigedd, a thybiau drwg, rhag bod gwrthdychau ereill anwylach ganthynt, nes magu cenfigen at rai nas gwyddant yn iawn pwy, y rhai gai fod yn nôd o'u saethau a'u geiriau chwerwon fyth mwy.

PERCON.—Mae Cenfgen fel hyn wedi gyru ei hunan yn mron i bob man o'r byd a'r eglwys.

PEREG.—I lawer mwy nag y tybiech, canys mor belled ag y cerddodd pechod, mor belled a hyny daeth rhyw radd o'r ysbryd chwerw hyn, yr hyn oedd y prif achos i demtio ar y cyntaf ddynolryw.

PERCON.—Chwi roisoch i mi gredu fod y deg cymaint o genfigen yn y byd, nag a feddyliais erioed; ond am i chwi i ddweyd fod yr anghenfil hwn wedi dringo i mewn tros y mur i ddinas Seion, hyn sydd ryfedd genyf, am fod cynifer o wŷr ardderchog yn cadw, nid yn unig y pyrth, ond muriau y ddinas santaidd hono: pa fodd y daeth hyny i ben, mynegwch hyny?

PEREG.—Mae amryw o wŷr defosiynol—trigolion y nef uchod—yma'n cadw gwylfa, rhag neb gelynon i daro i mewn, naill ai trwy gael y pyrth yn agor, neu dori'r mur; ond y pedwar penaf o'honynt oedd, Gweinidogaeth-fywiol, Dysgyblaeth-fanwl, Ceryddon-llymion, a Gwyliadwriaeth-ysbrydol, y rhai y'nt y gwŷr gonestaf yn y byd mawr; ac mae yn edrych, ar yr olwg gyntaf, fod yn anmhosibl i sarph danllyd hedegog, i arth, a llew mor gadenog, ac yn enwedig i Grocodil hagr, afluniaidd, i ddringo'r mur heb wybod iddynt; ond trwy rhyw fath o ddiolfalwch yn y gwylwyr, neu rhyw ddyoddef yn Mrenin y ddinas, hwy a ddaethant i mewn yma, fel y daethant i ardd Eden, pan oedd angylion y nef yn ei gwyllo hi. Ond fe ddywed rhai mai fel yma y dygwyddodd hi ar y pedwar wŷr hyn y pryd hyny, sef i Weindogaeth-fywiol i gysgu hun, ac iddo yn ei drwmgwsg syrthio ar draws Gwyliadwriaeth-ysbrydol, nes ydoedd yn haner marw.

PERCON.—Ond os felly, beth a ddaeth o'r ddau arall?

PEREG.—Dysgyblaeth-fanwl, a Cheryddon-llymion, wrth

weled dygwyddiad mor ddisymwth, a ofnasant gymaint nes daeth llen tros eu llygaid hwynt; ac yn y cyfamser y bwystfil a ddaeth i ganol y ddinas, er nad oedd nemawr o'r dref yn ei weled ef, a'r gwylwyr oll trwy ddamwain yn haner marw. Ac y mae ef, o lety i lety, hyd y dydd heddyw, ar hyd Mynydd Seion; ceir ei weled ef weithiau yn nhai rhai o'r Gibeoniaid sydd yn dwyn coed at deml yr ARGLWYDD. Bryd arall yn nhai rhai o'r Lefiaid sydd yn cynorthwyo at wasanaeth yr allor. Bryd arall yn 'stafelloedd yr offeiriaid; ac rai prydiau yn llys yr arch-offeiriad. Ac y mae'r anghenfil hwn yn llechu yr awrhon yn mhob ystafell gylch-o-gylch y deml: fe'i gwelwyd ef tan y mor prês, rhwng y deuddeg ychain sydd yn dwyn y môr i bedwar gwynt y ddaear; fe'i gwelwyd ef rhwng colofnau pres tŷ Dduw; ac y mae amryw o wŷr gonest a gafodd olwg arno yn hyd y deml o benbwygilydd; ond yn unig yn y cysegr sancteiddiolaf, lle ni fu, ac ni ddaw ef byth.

PERCON.—P'am yno? am ei fod ef yn ymlusgo i bob twll?

PEREG.—Yno mae presenoldeb y Duw byw; yno y mae arch cyfamod yr ARGLWYDD; yno mae'r crochan aur, a'r manna, gwialen Aaron, llechau cyfraith Mynydd Seion. Ac nis gall Cenfigen, na neb o'i chyfeillion, anturio i le mor agos at Dduw'r nef, canys y tyllau, a'r gwalau ag y mae ef yn llechu ynthynt, gan mwyaf, sydd yn wrthwyneb Haul y cyflawnder, ac yn mhell oddiwrth dawel bresenoldeb Brenin Seion.

PERCON.—Ond yr wyf yn deall i'r gwŷr da oedd yn ei ganlyn fyned ar ei ol i Fynydd Seion, a thrwy holl heolydd Jerusalem a pha fodd y bu rhyngthynt ag ef, mynegwch?

PEREG.—Buant yn chwilio yn fanwl am dano mewn amryw gilfachau o'r ddinas, ac amryw 'stafelloedd dirgel o'r deml; ond er iddynt ei gael ef a'i gondemnio, eto nis gallasant er dim ei fwrw ef allan o'r ddinas.

PERCON.—A fwrir fyth o hono o honi, ydych yn dybied?

PEREG.—Gwnair, mewn rhan fawr, pan y disgyno angel o'r nef, a chantho agoriad y pydew diwaelod, a chadwyn fawr yn ei law, a dal y ddraig, yr hen sarph, yr hon elwir diafol a Satan, a'i rwymo ef tros fil o flynyddoedd, fel na thwylllo efe y Cenhedloedd mwyach, nes cyflawni'r mil blynnyddau. Dyma y dyddiau y daw cyflawnder yn Cenhedloedd i mewn, a holl Israel i fod yn gadwedig, a Chenfigen wedi cael ei marweiddio mor belled ag y bydd saith o ferched y Cenhedloedd yn ymaffyd yn ngodrau gŵr o Iuddew, am y bydd cyflawnder Ysbryd Duw gyda'r Iuddewon, ac yn dweyd, "Ni fwytawn ein bara ein hunain, ac a yfwn ein dwfr ein hunain, gelwir ni ar dy enw di;" ac am y bydd yn waradwydd ac yn warth y

pryd hyny i-fod yn mhell oddiwrth Dduw, dywedant hefyd— "Tyn ymaith ein gwarth ni, canys ni glywsom fod Duw gyda thi." Dyma'r amser y bydd y nef newydd a'r ddaear newydd; canys y ddaear gyntaf o lid, cenfigen, ymddial, awydd, trachwant, poen, a gofid o bob math, a â heibio; a'r nef gyntaf o grefydd farw, deddfol, fydol, ragfarnllyd, ddigariad, â heibio; a'r môr hefyd o ddwndwr, a therfysgiadau am oerseddfeingciau, llywodraethau, ac awdurdod daearol a dderfydd; a Jerusalem newydd a ddaw i waered o'r nef, oddiwrth Dduw, wedi ei pharotoi fel priodas-ferch wedi thrwsio i'w gŵr. Y pryd hyn y bydd pabell Duw gyda dynion, ac Efe a drig gyda hwynt, a hwy a fyddant bobl iddo Ef, a Duw ei Hun fydd gyda hwynt, ac a fydd yn Dduw iddynt; ac fe sych bob deigr oddiwrth eu llygaid hwynt, a marwolaeth ni bydd mwyach; na thristwch, na llefain, na phoen ni bydd mwyach, oblegyd y pethau cyntaf, grym pechod a themtasiynau'r ddraig, a â heibio, a sancteiddrwydd a ymladaena o fôr i fôr, nes bo yn ysgrifenedig ar ffrwynau'r meirch, Sancteiddrwydd i'r ARGLWYDD; a'r crochanau "oll yn nhŷ yr ARGLWYDD fel meiliau ger bron yr allor."

PERCON.—Gwyn ei fyd a welai'r amser gwynfydedig hwnw; ond ewch rhagoch i fynegu pa fath chwiliad manwl wnaed am dano trwy holl heolydd a 'strydoedd dinas Seion; a fuwyd yno yn nhŷ y hrenin a'r *beger*, gwŷr llug a gwŷr llen? A dreiddiwyd i mewn i bob 'stafell, twlc, a gwâl? i bob rhan o'r deml, cystal a phob un o'r synagogau? Pa le y cafwyd ef? a pha effeithiau drwg ydoedd yn ei ganlyn?

PEREG.—Chwi wyddoch fod dau fath o drigolion yn ninas Seion ddaearol; er nad oes ond un rhyw yn y Jerusalem hyny uchod, lle mae ysbrydoedd y rhai a berffeithiwyd; un yn rhith broffeswyr, a'r llall yn wir addolwyr y Duw byw; y cyntaf oeddent *ffryns* o'u calon i Genfigen, a'r lleill yn elynion perffaith, am ei fod yn erbyn eu Brenin hwy. Ond fel yr oedd efe yn ymrithio ar lun angel y goleuni, ac yn arwain gydag ef oddeutu rith sêl, cariad, goleuni, a bywyd, yr ydoedd yn twyllo y rhan dduwiolaf o drigolion y ddinas rai prydiau i daro o'i blaid, heb adnabod mai efe oedd y bwystfil; ac felly fe ddaeth, trwy *gonsent* rhai o'r ddwy ochr, i lawer o synagogau Jerusalem. Ac am nas gallaf roi gwell desgrifiad o'i ddyfodiad nag wrth ei waith, a'r effeithiau gwrthwynebus a ganlynodd, mi ddangosaf i chwi ryw faint o ol ei draed ef ar hyd eglwysi Seion; a deallwch hyn, er mai nid tan rym haul Duw a thywyniad awdurdodol mae ef yn gweithio, eto ei fod ef yn fwy llydus, ac yn fwy chwanog i ddyfod i mewn yno, lle mae Duw yn gweithio fwyaf, er mai nid yn y rhai mae tywyniad Ysbryd Duw arnynt fwyaf y mae efe yn cael lle; ond yn y

rhai sydd â doniau mawrion heb ran fawr o'r presenoldeb dwyfol, yr hyn, fel y dywedais eisoes, sy'n ei gadw allan mewn rhan fawr. Am hyny, y synagog fwyaf yn Seion, y dyddiau hyny, oedd Corintheus, yr hon oedd wedi cael ei heffeithioli yn anarferol â'r Ysbryd Glân, fel nad oedd dim llai na naw neu ddeg o doniau ysbrydol yn yr eglwys ddedwydd hono. Fe'u cyfenwyd hwynt y pryd hyny—prophwydo, llefaru â thafodau, cyfieithu, gwneud gwrthiau, gwahaniaethu ysbrydoedd, iachau, gweinidogaethu, athrawiaethu, ac amrywiol iawn o'r fath; yr hon, am ei bod mor llawn o bob ysbryd doethineb a gwybodaeth, fel gardd hyfryd yn llawn o lysiau peraidd, aroglau, ac egin grawnwin, y ceisiodd pob bwystfil rheibus a llwynog cyfrwys dori i mewn, ac yn enwedig Cenfigen, yr hwn, fel gynt yn ngardd Eden, sydd ar ei dor yn cerdded, ac yn gyfrwysach na holl fwystfilod y maes; yr hwn, wedi cael derbyniad, a *lediodd* gydag ef i mewn Falchder a Hunan-dyb, y rhai a enynasant dân gwyllt o feddyliau mawrion yn y calonau y cafodd ef le, a'r hwn oedd yn prophwydo bellach fynai gredu mai efe biodd y faingc uwchaf; a'r hwn oedd yn llefaru â thafodau mai yntau; yr hwn oedd yn iachau mai ef, ond y cyfieithwr mai yntau; ac felly pawb o'r lleill, nes, cyn hir, trwy gynorthwy Balchder a Hunan-dyb, y daeth Cenfigen i osod yr holl synagog mewn terfysg, ac ymryson, ac ymraniad ddyfod i mewn fel afon, ac i'r naill ran o'r eglwys ddewis un Pauleus fel ei hunig athraw, a rhan arall i ddewis un Appoleus, a'r trydydd un Cepharius—tri o'r offeiriad mwyaf duwiol o fewn i holl ddinas Seion; a'r ysbryd cenfigenus hwn a gafodd gymaint rwysg, fel yr oedd un rhan o'r eglwys hono yn dymuno cwmp y llall; fel, pan ddygwyddodd un i orwedd gyda gwaig ei dad—anghynefin hyd y nod yn mhlith y Cenhedloedd—y lleill a orfoleddasant am iddo ef gwmpo, megys pe buasai hyny yn godiad iddynt hwy.

PERCON.—Ond pa fodd y dibenodd hyn?

PEREG.—Gorfu ar Pauleus—gŵr parchedig gyda Duw a dynion—ddanfon dau lyfr atynt, y rhai yr oedd yn ysgrifenedig arnynt, Gruddfan, Galar, a Gwae; a gorfu arnynt fwyta'r llyfrau, ac yr oeddent yn chwerv fel bustl yn eu safnau, ond melus oeddent yn eu cylla fel dil mel.

PERCON.—A wnaeth hyn ddaioni iddynt?

PEREG.—Cymaint fel y purodd efe hwynt oddiwrth dorfeidd o bryfed gwenwynig, ag oedd cenfigen wedi eu dwyn yno gyda hi.

PERCON.—Enwch hwynt.

PEREG.—Maent yn *gang* bygddu o ellyllon, i gyd yn dilyn Cenfigen, fel y dilyn mwg y tân—sef Tor-priodas, Aflendid,

Godineb, Casineb, Cynhenau, Llid, Gwynfydau, Ymbleidio, Ymrysonau, Heresiau, Cenfigenau, Meddwdod, Cyfeddach, Ymgyfreithio o flaen y rhai digred, ac amryw o'r fath, y rhai mae Pauleus yn taer ddymuno arnynt i ymadael â hwynt, a chymeryd un gras cyntaf-anedig o holl rasmusau'r nef yn eu lle hwynt.

PERCON.—Pa'r un?

PEREG.—Cariad; yr hwn a bwysodd Pauleus, offeiriad y synagog, ei hun yn nghlorian fawr y cysegr, ac a'i cafodd yn llawer mwy ei bwys na ffydd na gobaith, ac yn fwy cymeradwy na hwynt yn nheyrnas dragwyddol y Brenin Immanuel; yn fwy buddiol hefyd trwy'r holl ddinas, o ran yr heddwch, llonyddwch, barn dda, a chymwynasgarwch sydd yn ei ganlyn ef.

PERCON.—Agorwch i mi, atolwg, y pethau rhyfedd enwa'r Apostol Paul yn y xiii. benod o'r epistol cyntaf at y Corintheiaid, am gynheddfau cariad brawdol; ac yr wyf yn meddwl nad yw hyn yn mhell oddiwrth y peth mewn llaw, pan y darfu i chwi ddodi ef yn un o'r cyfeillion sy'n chwilio am Genfigen, ac yn son cymaint am dano trwy'ch holl ymadroddion.

PEREG.—Nid yw; canys gras cyfan wrthwyneb i genfigen yw cariad; ac wrth ddesgrifio cariad y gwelir cenfigen oreu, fel y gwelir beth yw tywyllwch wrth ddesgrifio goleuni. Am hyny, y gyneddf gyntaf yno yw, bod cariad yn hir-ymarhous, sef y gall efe ddyoddef cam, digter, ac anmharch, heb gael ei lanw o chwerwedd, llid, ac ymddial, i'r hyn y mae cenfigen yn llwyr wrthwyneb, yr hon, ar yr anmharch leiaf, ac yn wir heb un achos, a ymleiw ar y nwydau afradlon hyn, nes bo hi bron ymdori allan i'r radd eithaf o falais; tra fyddo cariad yn gorchfygu'r nwydau cynddeiriog hyn, ac yn arfogi'r meddwl âg amynedd, fel y bo yn hytrach yn dymuno ac yn dysgwyl diwygiad y brawd, na thasgu allan mewn chwerwedd am ei ymddygiad anwedus ef.

PERCON.—Ewch at yr ail.

PEREG.—Cymwynasgarwch yw, ac ef sydd gyfan groes i genfigen, canys nis gall yr ysbryd hwn i gytuno âg ymddial—yr hyn yw cyfaill penaf cenfigen—mwy na'r dwfr â'r tân; cariad sydd haelionus, ac yn barod i gynorthwyo; calon cariad sydd helaeth, a'i dwylaw hi sydd agored, parod i weini pob da i enaid dyn, ei enw da, a'i feddiauau; lle mae cenfigen am wneud drwg i bob un o'r tri, yn enwedig i enaid, lle mae cariad fwyaf haelionus. Cariad sy'n ymfyn odfeun i ddweyd ac i wneud da; felly cenfigen i ddweyd ac i wneud drwg.

PERCON.—Agorwch y drydedd gyneddf, sef nad yw yn cenfigenu.

PEREG.—Hyn ydwyf yn ei agor i chwi er y dechreu, sef nad yw cariad, fel mae cefnigen, yn ymofidio wrth ddaioni ereill, na'u doniau, eu rhinweddau, eu hanrhydedd, na'u meddianau, canys yr hwn sy'n caru ei gymydog sydd mor belled oddiwrth genfigenu ei ddaioni, fel y mae'n llawenhau gydag ef am ei lwyddiant; ac nis gall y meddwl ag sy'n ewyllsio da i bawb i ewyllsio drwg i neb.

PERCON.—Ewch at y pedwerydd cyneddf.

PEREG.—Nid yw yn ymchwyddo ac yn ymffrostio, sef y mae yn gorchfygu balchder a gwag ogoniant, heb ymchwyddo i hunan-dyb oddiwrth ei doniau, nac yn priodoli iddo ei hun yr anrhydedd nad yw yn perthyn iddo; nid yw falch, yn distyru ereill, ond yn rhoddi parch gyda gostyngaidrwydd, gan dybied ereill yn well nag ef ei hun.

PERCON.—Y bumed nwyd o gariad yw, nad yw'n gwneuthur yn anweddaiidd.

PEREG.—Nad yw yn gwneud dim fo yn nghyfrif cyffredin dynion yn anhardd, yn wael, yn anonest, ac yn anhyfryd; gwneud dim i maes o le i neb, un amser, ond yn ymddwyn at bob dyn yn ol eu graddau a'u galwad gyda pharch ac anrhydedd i'r rhai uwch radd; gyda chymwynasgarwch a chydymagweddiad i'r rhai is radd, a chyda charedigrwydd ac ewylls da i bob dyn; nid yw cariad am dori'r drefn osododd Duw yn mhlith dynion i ddodi holl ddynolryw go-gyfuwch.

PERCON.—Ewch at y chweched peth.

PEREG.—Nid yw yn ceisio yr eiddo ei hun, sef yn anghymedrol geisio ei glod, ei anrhydedd, ei elw, na'i bleser ei hun; mae cariad cymedrol o ddyn iddo ei hun yn cael ei osod allan gan ein Iachawdwr fel mesur i garu rhai ereill—"Câr dy gymydog fel ti dy hun;" ond nid yw cariad yn ceisio yr eiddo ei hun er drwg i rai ereill, nac i esgeuluso ei hun er mwyn ereill, gan ddyrchafu eu daioni a'u manteision hwy o flaen ei un ei hunan. Croes i genfigen, yr hon sydd am wneud pob drwg i arall er ei mantais a'i phleser ei hun.

PERCON.—Ewch at y seithfed cyneddf o gariad,—ni chythryddir, ni feddwl ddrwg.

PEREG.—Sef ni therfysga ei nwydau, canys y mae ef yn dofi y natur wyllt ag sy'n codi i fyny fel fflam yn erbyn tae' ogrwydd, anmharch, a distyrrwch brawd neu elyn. Lle bo cariad o mewn, nis gall digofaint enyn yn hawdd, ac os enyn, ni hir barha.

PERCON.—Y nesaf yw, ni feddwl ddrwg

PEREG.—Sef nid yw yn bwrw yn euog neb trwy ryw ganlyniadau, pan na bo dim yn ymddangos yn gyhoedd; nid yw barod i fod yn ddrwg-dybus. Fe gudd feiau fo'n ymddangos, ac

a rydd orchgudd trostynt, yn lle chwilio allan y rhai fo guddiedig; mae cariad mor belled o roi lle i ddrwg-dyb heb dystiolaeth, fel y mae yn tueddu yn hytrach i dywyllu ac anghredu tystiolaeth yn erbyn y sawl a fo ef yn ei garu; a phan orfyddo gredu, y mae yn credu gyda gofid a blinder ysbryd. Felly cariad sy'n doddi'r wyneb goreu ar amgylchiadau na bo ymddangosiad da arnynt, a chenfigen yn drwg-dybio, ac yn credu y gwaethaf ar yr ymddangosiad mwyaf tywyll a lleiaf ei sail.

PERCON.—Y nesaf yw, nid ydyw lawen am anghyfiawnder, ond cyd-lawenhau y mae â'r gwirionedd.

PEREG.—Sef ni orfoledda ef am feiau a ffaeledigaethau ereill tuag at osod allan ei rinweddau ei hun, neu i foddloni ei falais. Cefnigen ei hun sy'n gwneud hyn, ond beiau ereill y'nt alar i ysbryd cariad, ac eithaf malais yw cymeryd pleser yn nhrueni un o'n cyd-greaduriaid; ond cyd-lawenhau mae â'r gwirionedd, sef gorfoleddu weled llwyddiant ar yr efengyl, nid cymeryd dyddanwch mawr yn union fod achos neb yn anobeithiol, ond a ddymuna wellhad y gwaethaf o ddynion, ac yn barod i obeithio am yr hyn y mae ef yn ddymuno. Dyma'r cariad sydd wrthwyneb i genfigen; a gwyn fyd y gŵr sydd â'r perl dymunol hwn yn ei fynwes, y tân hwn yn llosgi yn ei galon, ac yn dylifo maes o'i enau, ac yn taenu allan i wneud daioni i holl ddynolryw.

PERCON.—Yr wyf yn gweled yn hollol fod y cariad hyn yn mhob erthygl yn wrthwyneb i genfigen; a phe b'ai ond hwn yn rheoli yn mhob eglwys, ni fyddai ddim o'r holl rwygiadau gresynol ag sydd wedi dygwydd yn awr er's canoedd o flynyddoedd, ac yn tori allan bob dydd yn rhyw le newydd, am fod cariad yn oeri, a balchder a chenfigen yn dyfod i mewn yn ei le. Ond ewch rhagoch; i ba le yr aeth y gwŷr hyn i ymfyn am Genfigen?

PEREG.—Nid yn mhell, a hwy a'i cawsant hi a'i chyfeillion mewn man na chredasech fyth ei bod, oni buasai fod rhôl-lyfr y ddinas yn tystio hyny hyd heddyw.

PERCON.—Yn mha le, atolwg?

PEREG.—Mewn synagog o fewn trwch y mur i'r cysegr sancteiddiolaf. A balchder, awydd o ddyrchafiad, yn nghyda digofaint a chenfigen, er mawr ofid calon, a gafwyd yn y lle hwnw.

PERCON.—Chwi ddywedasoeh nad oedd yr ellyllon hyn yn dyfod i'r cysegr sancteiddiolaf, lle mae'r fath gyflawnder o Ysbryd Duw; ond pa ddull yr ymddangosodd y sarp'h wenyng mor agos yno?

PEREG.—Enw y synagog oedd yr Apostolaidd, wedi ei hadeiladu fel goruwch-'stafell wrth fur y deml; ond yn mhen



tro wedi'n fe dorwyd mur y gwahaniaeth hyn, sef ar ŵyl y Pentecost. Pan yr oedd yr holl eglwys yn nghyd yn yr un fan yn gweddio Duw, disgynodd yr Ysbyrd Glân arnynt fel tân, a'r pryd hyn yr aeth y synagog hon a'r cysegr bendigedig hwnw yn un; ac nis gwelwyd yr elyllon hyn ynthi fyth mwy.

PERCON.—Pa dull y daeth yr afancod hyn i mewn mor agos at sancteiddler nef?

PEREG.—Dau o offeiriaid y synagog hon, un gyfenwyd Johannes a'r llall Jacobus, oddiwrth eu bod nid yn unig yn ddau o'r tri hynaf yn eu swydd, ac yn perthyn ar ol y cnawd yn agos i'r Pen-bugail a'r Archoffeiraid, ond hefyd am ei fod Ef yn rhoddi mwy o'i gyfeillach iddynt, ac yn eu dwyn hwynt gynt gydag ef i weled ei wedd-newidiad a'i ogoniant yn y mynydd sanctaidd. Hyn, meddaf, yn lle eu darostwng, a'u chwyddodd hwy i fyny o falchder, ac yn gyfrwys-gall danfonasant eu mam Salome, a hon, am ei bod yn fynych iawn yn ei gyfeillach, ac yn gweini iddo o'r pethau oedd ganthi, a dybiodd fel ei meibion nas gallasai ballu un cais iddi, pa beth bynag; a hithau, eisieu deall gwell, yn lle eu ceryddu, a fu yn offeryn i foddioni eu hawydd, trwy ddymuno arno ar ei dau fab hi gael eistedd—un ar ei law ddeheu, a'r llall ar yr aswy, yn ei frenhiniaeth, gan dybied, hi a hwythau, er cymaint a bregethodd Ef iddynt, o'r groes a dirmyg y byd hwn, mai coron ddaearol a gaent eu gwisgo ar fyr, ac y cai rhai fod mewn swyddau agosach, a rhai mewn swyddau pellach oddiwrtho. Nid oedd hi na hwythau yn ymofyn am ddim gwaith yn y frenhiniaeth newydd, ond anrhydedd yn unig; ac nid oedd un lle a wna'i eu tro hwynt i eiriol am dano, ond bod yn nesaf at eu Meistr. Yma yr oedd balchder ofnadwy, tyb gref o'u haeddiant eu hunain, diystyrwch balch o'u brodyr, ac awydd tanlyd i anrhydedd a gogoniant. Awydd sanctaidd yw ceisio blaenori mewn gras a sancteiddrwydd, ond awydd pechadurus yw trachwantu rhagori ar ereill mewn mawrhydi a gogoniant daearol.

PERCON.—Ond pa ateb a gafodd y fath ofyniad balch, rhyfygus?

PEREG.—Y Pen-bugail a'u hatebodd hwynt—“Ni wyddoch pa beth yr ydych yn ei ofyn; a ellwch yfed o'r cwpan yr ydwyf fi i yfed o hono? a'ch bedyddio â'r bedydd y bedyddir fi? a phan dywedasant wrtho, Gallwn, Efe a'u hatebodd hwynt, Diau yr yfwch o'm cwpan, ac y'ch bedyddir â'r bedydd y bedyddier fi âg ef; ond eistedd ar fy llaw ddeheu neu aswy, nid eiddo fi ei roddi ond i'r sawl y darparwyd gan fy Nhad. A phan glywodd y deg hyn, hwy a sorasant wrth y ddau frodyr.” Dyma soriant, anfoddlonrwydd, a chenfigen yn y deg athraw arall, am fod y ddau mewn tebygoliaeth o

gael dyrchafiad, a lle uwch na hwynt-hwy. Nid oedd y soriant hyn am fod balchder ynthynt yn ymofyn am y lle uchaf, canys nid yn erbyn y pechod ag oedd eu HARGLWYDD yn eu ceryddu am dano yr oedd y digofaint, ond am eu bod yn blaenu arnynt hwy, ac mewn awydd o gael gorseddffaingc-mwy gogoneddus; yr oedd y deg hyn yn anfoddioni i awydd eu brodyr am eu bod hwy eu hunain mor awyddus.

PERCON.—A wnaeth cenfigen a therfysg un rhwygiad yn y synagog hon? ac a ddywedodd y gwŷr hyn ag oedd yn ei chanlyn hi trwy holl ddinas Seion un gair o gerydd?

PEREG.—Na wnaeth un cythrwfl ragor nag a ddywedais; ac nid oedd raid yngan un gair yma, canys yr oedd yr Archsynagogydd ei Hun, yr Hwn elwir Duw cadarn, Tywysog tangnefedd, ei Hun yn bresenol, ac Efe a gurodd falchder, rhyfyg, a thywyllwch y ddau frawd, ac anfoddlonrwydd, soriant, a chenfigen y deg arall, trwy ddangos iddynt mai ffordd mawrion y byd hwn oedd ymofyn lleoedd uchel, ac awdurdod ar ddynion; ond lle pregethwyr yr efengyl oedd gwasanaethu eu gilydd, ac i'r blaenaf fod fel yn olaf, a'r hynaf fod fel yr ieuengaf, ac a roddodd iddynt orchymyn newydd, “i garu pawb eu gilydd;” ac, wrth ymadael â hwynt, a olchodd eu traed, yn arwydd dylasant hwythau i wneud y gwasanaeth isaf i'w gilydd gyda'r pleser mwyaf.

PERCON.—Pan daeth yr anghenfil hwn i'r nef, i baradwys, ac i gynulleidfa'r Apostolion, ni wn i ba le nis daw ef mwy; ond ewch rhagoch i fynegu pa erlid yn mhellach wnaethant ar ei ol.

PEREG.—Y gwŷr hyn, wrth deithio'r dref i fyny ac i waered, a ddaethant o'r diwedd, ar ddamwain, wrth hen adeilad ardderchog, wedi bod felly gynt, ond yr awrhon wedi adfeilio yn arw, a'r dorau yn nghauad, heb lwybr yn myned ato nac oddiwrtho; ac yna, ar ol troi gylch o gylch iddo, un o'r gwŷr hyn ofynodd i'r llall, beth allasai'r fath adeilad fod? Ac Eiddigedd-dduwiol a feddyliodd mai hen synagog ydoedd, ond wrth osod allan ei dybiau i'w gyfeillion, daeth gwŷr heibio a'i enw Gweledydd, yr hwn oedd yn teithio'r dref i edrych pa fodd oedd llwyddiant Jerusalem; ond ar ol gofyn iddo, hwn a roddodd yr holl hanes iddynt fel y canlyn:—Yn nyddiau un Fferfidus, ebe fe, yr hwn oedd bregethwr enwog yn y dyddiau gynt, yr oedd y synagog hon, a gyfenwid y pryd hyny Lluaws, yn un o'r rhai mwyaf enwog yn holl ddinas Seion, yn agos fel y deml ei hun. Y rhanau pellaf o Judea oedd yn crynhoi yma i wrando gair y bywyd. Fferfidus oedd yn cael pwer-oedd anarferol; myrdd o wrandawyr oedd yn myned yn ddrylliau tan ei air. Nid oedd yma son am *sect* nac enw, na chwyrmpo maes am swyddau na bedyddiau, ond yn unig pwy



allai garu fwyaf ar Iachawdwr y byd, pwy oedd wedi credu â'r galon, pwy oedd wedi ei fedyddio â'r Ysbryd Glân; a son aeth am yr eglwys hon o'r afon hyd eithaf y ddaear, a'i llwyddiant daenodd tros yr holl fyd. Ond, ebe Ofn-duwiol, pa fodd yr aeth hi yn llyn yr awr hon? Chwi gewch glywed, ebe fe—yr anghenfil hwnw a ddaeth i mewn, sef Cenfigen, ac a'u gwasgarodd hwynt oddiwrth eu gilydd, fel ci yn gyru buarthed cryno o ddefaid, fel nad oes ond Duw ei Hun a wŷr heddyw pa beth a ddaeth o honynt.—Ond pa fodd y cafodd yr ysbryd drwg hwnw le i ddodi ei droed mor agos a hyn i'r nef, ebe Cariad-brawdol? Pa fodd, ebe yntau, y cafodd le i ddodi ei droed yn y nef, ac yn ngardd Paradwys, lle nad oedd nac anhapuswydd na phechod? ond y modd y daeth ef yma oedd hyn :—Pan oedd llwyddiant mawr ar air y bywyd, a gwynt y nef yn chwythu yn hwylus o fryniau tragwyddoldeb, llawer a fagasant amryw ddoniau, nes daeth yr holl eglwys i fod fel gardd o amryw lysiau, a blodau yn perarogli yn hyfryd iawn i bawb ag elai heibio. Ond deallwch, fel y cynyddodd hi mewn dawn, hi gynyddodd hefyd mewn gwybodaeth o'r dawn a dderbyniodd, ac a orphwysodd gymaint ar, ac ymddiriedodd gymaint yn ei doniau ei hunan, fel yr agorodd hi ddrws falchder a hunan-dyb i ddyfod i mewn. Ac yn mhen gronyn bu farw Fferfidus, eu pregethwr, fe ddiffoddodd rhan fawr o'r gwres, fe sychodd y cafodydd iraidd, fe beidiodd y deheu-wynt a chwythu, a doniau sychion yn unig a gadwodd eu tir, y rhai yn awr — am fod balchder a hunan-dyb wedi ymgymysg â hwy—a ymchwyddasant ac ymofynasant am fwy o le, dysgwyliasant am barch rhagor, ymdrechasant am fagu doniau mwy; ac o'r diwedd, eisieu gogoniant ragor gan eu gilydd, a ymneillduasant oddiwrth eu gilydd, nes agor y drws yn ddigon helaeth i roi lle i Genfigen, yr hon, pan y cafodd ond y rhan leiaf o'r galon, a ddygodd gyda hi ellyllon cyn-ddrwg a hi ei hunan—sef Drwg-dyb, Duo-enw, Codi-celwydd, a'r lleill oll, nes ydoedd, yn lle un pen, gyfnifer o benau nad oedd lle i gael cynffonau ddigon. Fe ranwyd, fe ymneillduwyd yn *sectau*, yn enwau, a threuliwyd oriau gweddi yn wrth-ddadleu, a braidd yr oedd un o'r un ddaliadau a'r lleill, a'r lleiaf o ddoniau cystal a'r penaf oedd am ddyrchafu i fod yn ben. Ond, ebe Ofn-duwiol wrth y Gweledydd, Pa beth a ddaeth o'r rhai da yn y synagog hon? Fe lygrwyd llawer o honynt yn y terfysg, ebe yntau; fe feddwyd rhai â gwin ymryson, fel y buant hir iawn cyn sobri; fe syfrdanwyd ereill fel na chawsant eu clybod ddyddiau meithion; fe ddallwyd rhai na welent o'r llwybr o'u blaen; ac fe gloffwyd ereill nas teithiasant fyth fel cynt o lwybr y bywyd; llawer iawn a

gollwyd y pryd hyny, rhai o ba rai na welwyd byth ar dir y byw, ac ereill a gafwyd yma a thraw ar hyd synagogau gwasgaredig. Ond pa beth a ddaeth o wŷr y doniau a ddechreasant y cythrwfl? ebe Clust-enwaededig. Ow, ebe'r Gweledydd, hwynt-hwy a lwfrasant, ac a fagasant ddarfodedigaeth, amryw o honynt; ond rhai gymerasant galon, ac a ymneillduasant, gan godi i fyny ryw synagogau bychain, ac a gasglasant yno ychydig braidd oddi yma a thraw—eu lladrata, gan mwyaf, o synagogau ereill, ac nid eu dwyn oddiar ddiadol, o'r lluaaws mawr ag sy'n myned i waered gydag ef tua Thophet. Y bugeiliaid hyn, meddaf, wedi colli eu sêl, eu hysbryd (os buant erioed yn meddianu peth ellid ei alw felly), a gymerasant arnynt borthi ac ymgeleddu bob un ei braidd ei hun; ond nid â'r gwir fanna na'r gwir ddwfr bywiol ag sy'n tarddu o Graig yr Oesoedd, ond â gwrth-ddadleuon a chwestiynau, gwag bynciau, seremoniau, tradodiadau, arferion allanol, yn nghyda holl blisg a mascall crefydd, gan fod yn fwy gwresog yn y pethau hyny nag y buont erioed o'r blaen am y pethau mwyaf sylwedol. Ond ni ddiystyrwyd o'r bobl dda, ebe Ofn-duwiol, yn y cythrwfl hyn, yr wyf yn gobeithio? “Canys fy nefaid i a wrandawant ar fy llais i, ac ni chyfrgollant fyth, ac nis dwg neb hwynt allan o'm llaw i.” Naddo, ebe'r Gweledydd; canys amryw o honynt, fel y dywedais eisoes, daenasant i synagogau ereill, lle cawsant ychydig ymborth; ond eu blys at fwyd ydoedd mor wan nad allasant, yn hir iawn, na theimlo blas arno, na chanthynt 'stymog i'w fwyta; a chymaint hefyd y cawsant eu clwyfo yn y terfysg uchod, fel y buant yn hir iawn cyn cael eu iachau. Rhai a glwyfwyd yn eu penau, fel y buwyd bron tori pilen eu hymenydd hwynt â gau athrawiaethau; rhai yn eu traed, nes oeddent yn methu teithio at foddion gras ac ordinhadau'r efengyl, ond fel y dygid hwynt ar ysgwyddau dnyion; rhai hefyd yn eu dwylaw, nes gwywasant agos wrth eu cyrph, fel nas gallent gyfranau at un achos na gweithio'n un rhan o'r winllan yn fywyg ac yn ddiwyd. Ond y clwyfau gwaethaf roddwyd i rai o honynt oedd yn agos at eu calonau, nes oeddent yn fynych mewn llewygfau oerion o ddiarbodrwydd, anystyriaeth, iechyd ysbryd, ac weithiau yn cwmpo i'r *fits* poethion, rhyfyg, rhagfarn, lliid malais, ac ymddial; ond er hyn i gyd, meddaf, yn mhen amseroedd hirion, llawer o honynt a iachawyd, er i rai o honynt fyned i dragwyddoldeb tan y clwyfau a'r archollion ofnadwy hyny; pa fodd y gwnaeth y Duw trugarog a gras-law â hwy, tu hwnt i'n deall ni yw i amgyffred. A thyma'r holl hanes a roddodd y Gweledydd am y synagog hono a fu

unwaith mor fawr a hynod ag un o fewn yr holl ddinas sanctaidd.

PERCON.—Yr wyf wedi eich blino erbyn hyn; os dywedwch rywbeth o honoch eich hun, dywedwch. Mae mwy o bleser i mi wrando na gofyn dim yn rhagor.

PEREG.—Rhy faith yw i minau adrodd y cwbl a welais ac a glywais o ddichellion yr anghenfil hwn; ond mae dau neu dri o bethau i ddweyd cyn diweddu, ac un o honynt yw un o'r castiau mwyaf haerllug, y ddyfais fwyaf ÷on a thanbaid ag y welais gan neb o broffeswyr crefydd Immanuel mewn un oes.

PERCON.—Mae'm clustiau yn llawn agor i wrando.

PEREG.—Wrth weled yr amryw ymrafaelion uchod a wnaeth Cenfgen yn Mynydd Seion, a'r awydd oedd yn mhawb yn mron am leoedd uchel, am raddau arbenig, am enwau mawrion, am lywodraeth, rheolaeth, a blaenoriaeth eglwysi; wrth weled hyn, meddaf, cododd gŵr, ag oedd eto ond eistedd ar ystod ganolig yn un o'r synagogau, yntau i ymofyn lle ag oedd lawer uwch, nid yn unig uwch nag ydoedd yn ei eglwys ei hun, ond uwch hefyd nag oedd yn un o eglwysi Judea, ac fel Mahomet i ddyrchafu ei hun goruwch yr holl bobl. Dyfeisiodd athrawiaeth a dysgyblaeth newydd na fu ei bath er yr amser y mae heretic yn heretic.

PERCON.—'Rwy'n gwrandio yn astud.

PEREG.—Deallwch, ynta, fod y gŵr hwn yn cymeryd arno fod yn fawr mewn dysg—ond pa faint ydoedd, Duw a'i gŵyr,—ac yn cael ei alw o doniau mawrion gan rai yn y dyddiau hyny; er, os dywedir y gwir, doniau tywyll, nad oedd yn goleuo; doniau cyfrwys, ag oedd yn dyrysu dynion sychion, ag oedd yn caledu; doniau dadleugar ag oedd yn arwain i ymryson, oeddent. Ond o ba radd bynag yr oedd ei ddysg a'i doniau, gwir yw ei fod yn hyddysg iawn yn mhob credo ac articlau crefydd trwy holl synagogau Jerusalem a Mynydd Seion, yr hyn a roddodd le i'w genfigen ef i chwilio allan bob rhyw anghysondeb mewn athrawiaethau; canys Hunan-dyb ymnyddodd ei hun i mewn i 'stafelloedd dirgel ei galon, agorodd y drws i Falchder, a Balchder i Ragfarn, a Rhagfarn i Genfigen, a Chenfigen roddodd le hithau i Dduo-enw, Condemnio ereill, Gau-athrawiaethau, Heresia, a lluaws mawr a'u canlynasant hwy, megys Llid, Malais, Celwydd, ac Ysgymundodau, gwaeth nag a fu mewn pab na heretic er dyddiau Noe.

PERCON.—Fe ddringodd yn uchel, ond pa le y diwedddodd ef?

PEREG.—Fe'i tafwyd allan o'i synagog ei hun am athrawiaethau gau, yr hyn fu mor belled o'i ddiwygio ag y chwythodd y tân o'i fewn i fflamio ddeg cymaint ag o'r blaen, nes iddo

o'r diwedd wau o'i ymysgaroedd ei hun dorch o gau athrawiaethau, nad oedd gymaint ag un linc o honynt yn union-gred wrth y memwrn mawr sydd yn nghadw yn Mreninllys Mynydd Seion. Ac mor danbaid oedd efe yn ei egwyddorion cyntaf, fel y cyhoeddodd anathema, gyda'r hen Iuddewon yn erbyn y Samariaid, ar yr holl fyd, yn enwedig y byd crediniol, o bob llwyth, iaith, cenedl, ac egwyddorion is y nef, ond y sawl oedd yn credu fel ei hun.

PERCON.—Os oedd y pwnc cyntaf o'i grefydd mor danbaid anghariadus, cant i un i fod y lleill lawer iawn gwell?

PEREG.—Un gronyn; canys rhaid oedd i'w broseltyiaid ef i wadu'r cwbl ag a fu ynthynt o'r blaen—pob nwyd nefol, pob gras, teimlad, argyhoeddiad, cariad, llawenydd, gorfoledd, heddwch, neu gysur a gawsant, pa mor agos bynag yr oedd hyny at iaith ac ysbryd siarter y ddinas, neu gysondeb union ffydd; a chredu mai Satan a wnaeth bob cyfnewidiad tufewnol, ac nad oedd iddynt edrych mwy ar un rhyw o'r fath gyfnewidiau, na dysgwyl am danynt.

PERCON.—Dyma eithaf casineb at weithrediau gras.

PEREG.—Nid at weithrediau yr ARGLWYDD yn unig oedd hyn, ond at ei weinidogion Ef hefyd; canys trwy holl Judea a Jerusalem y laddodd efe hwynt, gyda Jezebel,—yn benau synagogau, yn athrawon, yn awdwyr, yn ysgrifenyddwyr, yn offeiriaid, presbyteriaid, diaconiaid, a phob graddau a swyddau yn ninas y Duw byw, gan eu galw yn dwyllwyr a mwrddwyr eneidiau, wedi caledu saith mwy na neb o ddnolryw, fel yr ai'r publicanod a'r pechaduriaid i mewn i deyrnas nefoedd o'u blaen hwynt.

PERCON.—Fe allai bod yn ddigon hawdd i'w ganlynwyr ef i wadu eny grasusau tufewnol o'r blaen, ac wed'yn, am na feddent arnynt; ond pa fath bynag oedd y lleill o'i athrawiaethau, ofnadwy yw'r dechreuad.

PEREG.—Nid ydoedd y lleill un gronyn gwell, canys Cenfgen oedd wedi gosod yntho i roi yn mron bob pwnc yn wrthwyneb i'r hyn ag oedd o'r blaen gan bawb o bob enwau, yn cael ei bregethu trwy holl synagogau Mynydd Seion, fel nad oedd neb o honynt agos—na saint na merthyr, o ddyddiau yr Apostolion hyd ei amser ef, wedi credu yn iawn ac yn union: anmhosibl i neb oedd i wneuthur hyny, nes credu fel ef ei hun—sef ei fod ef yn dad, yn ben, yn athraw, ac yn apostol ag oedd wedi ei ddanfyn gan Duw o'r nef i ddiwygio synagogau ag oedd wedi cyfeiliorni i golledigaeth er dyddiau yr Apostolion, heb neb—nes iddo ef ei hun—godi i amddiffyn y gwirionedd. Ac o'r pryd hyny hyd ei ddyddiau ef, tros ddau cant ar bymtheg, i'w dyb ef, y bu Jerusalem heb un gwir brophwyd.

PERCON.—Pa lwyddiant a fu o'r weinidogaeth ynyfod hon ?

PEREG.—Pa lwyddiant a ddysgwyliech o weinidogaeth heb ysbryd, heb fywyd, heb brawf, heb deimlad, ac heb ddim ond ordinhadau sychion, seremoniau oerion, pregethau meirwon, a gorchymynion dynion ? canys yr ysbryd sydd yn bywhau ; y cnawd nid yw yn llesau dim. A lle bo gwrthnebu, condemnio, a gwawdio credu â'r galon, a'i osod yn hanes oer, noeth y talcen, diystyru gydag eithaf dirmyg y galon ddrylliog, gystuddiedig, yr hon nad yw Duw yn ei dirmygu, yn nghydag erlid pob rhyw waith gras yn y galon ; pa ryw lwyddiant a ddysgwyliech i fod yno ?

PERCON.—A gafodd y gwenwynig hwnw ryw faint o ddysgyblion ?

PEREG.—Ychydig iawn, prin cymaint ag allai ei faentumio mewn brasder, rhwysg, ac esmwythder, fel yr ydoedd yn dymuno bod. A'r dull yr oedd yn eu cael hwynt ydoedd trwy gynllwyn mewn lleoedd dirgel, fel llew am ysglyfaeth ; yn ochr y prif ffyrdd, lle yr oedd pererinion yn teithio tua Mynydd Seion ; a rhai yn mhlith y rhai'n yn drigolion yr Aipht, am fyned tua thref ; neu rai wedi blino ar eu taith, yn gweled y wlad dda yn rhy bell ; neu rai am ymddifyru ar drugareddau yr anialwch ; yn nghyda'r holl rai pendreigl, bw-hwanillyd ag f'ai naill ai wedi meddwi gan genfigen a rhagfarn, neu eu dallu gan falchder a hunan-dybb, ac yn methu cael parch ddigon yn eu synagogau eu hunain ; y rhai'n—am ffoi i ryw le gyda Chain oddiwrth bresenoldeb yr ARGLWYDD—a ddaliodd efe yn ei faglau, ac a gynygiodd eu rhwymo yno mor ddyogel, fel y gwnaeth yn y pwnc o'i athrawiaeth, nad oedd un iechydwriaeth i gael o'i eglwys ef ei hun, a bod pob dyn ag ymneillduai oddiwrtho mewn un pwnc i'w esgymuno, a'i draddodi i Satan ; a phob un esgymunid fel hyn, ei fod wedi ei gadarnhau felly yn y nef ; a'r hwn a dorid ymaith ddwywaith felly, er y byddai iddo edifarhau, nad oedd fyth mwy i gael ei dderbyn.—Dyma ei lwyddiant, dyma ei ffordd o groes gredu i holl dduwiolion y byd, a chymaint yn erbyn swm ac ysbryd Siarter mawr dinas Seion, fel mae amryw o wŷr da yn tybied mai ei ddyfais yw diwreiddio crefydd Immanuel i maes o'r dref ; a diau yw ei fod yn llwyr groes o alw gwahoddedigion i mewn i wledd y brenin ; gan wawdio a diystyru y gweision a aeth allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau, gan eu cymhell hwynt i ddyfod i mewn—yn ddeillion, yn gloffion, ac yn wywedigion, fel y llenwid y breninllys mawr.

PERCON.—Yr wyf yn rhyfeddu na buasai'r holl bobl naturiol yn cludo i mewn i'r synagog hono, fel afonydd i'r môr, am fod yr athrawiaethau hyn o ddiddymu gweithrediadau gras

yn y galon, cynhyrfiadau Ysbryd Duw, a chysuron tawel ei bresenoldeb Eif, yn cytuno yn dda iawn â natur dyn.

PEREG.—Chwi ryfeddech fwy pe clywech y fath rydd-did oedd yr athraw hwn yn ei roi i'w ganlynwyr yn mhob ymarweddiad allanol,—nad oedd braidd yn eu hatal oddiwrth ddim pleserau, ond rhyw ychydig iawn, fel gallasai dyn naturiol i gael pob peth fuasai arno chwant, ond rhyw nifer fechan ; a'r dyledswyddau, o'r tu arall, mor lleied, nad oeddent un tasg yn y byd i'w cyflawni. Ond eto, Duw bia'r llwyddo. Cenfigen a ddechreuodd y grefydd hon yn Seion, ac ar hyd y llwybr hwn y rheddodd hi yn mlaen ; a pha faint bynag o amser, y pery, rhaid yw iddi hi a'i pherchenog i gwmpo i warth a dinystr ryw bryd, canys ni saif ond a ddisgynodd i lawr o'r nef. Ei egwyddorion sydd o'r ddaear ; ei ymarweddiad, ei rwysg a'i fawredd, addurnau ei synagog, harddwch ei wisgoedd, gogoniant ei gerbyd, lliwiau ei feirch, a brasder ei lygaid, sy'n dangos fod ei ddyben a'i bleser hefyd o'r byd hwn.

PERCON.—Gwranddo a synu yw fy ngwaith i yr awr hon, ond yr hyn a addawsoch o honoch eich hun, mynegwch ; ond yr wy'n dysgwyl clywed pa beth a ddaeth o Llygadsyml, llew-ddyben, a'r lleill yn y dyddiau hyn ? pa un a ddaeth llewyg arnynt with y fath gyflafan gael ei gwneud yn y ddinas ?

PEREG.—Naddo ; ond yr oeddent yn gystuddiedig iawn i weled y fath beth ffaidd wedi dygwydd, a bod Cenfigen yno mewn un synagog yn cael ei haddoli fel un o dduwiau'r India ; canys ni fu erioed fwy o barch gan neb eilun-addolwyr pagan-aid i'w duwiau nag oedd gan y synagog hon i'r ellyll hwn. Er mor afluniaidd ydoedd, yr oedd yn ei weled ef yn tramwyo i mewn yno ganol dydd ; a mwy na'r cwbl, fe roddodd yr athraw yma iddo eisteddfod yn ei ochr yn y *pulpit*, a dywed rhai ei fod yn lleisio gydag ef oddiyno, yn well na *chanopy* i'w gynorthwyo ef i ddyrchafu ei lais. A pha beth, debygech, wnai Llygad-syml yn y fath le ond ei weled a digio wrth yr athraw ag oedd yn ei gadw a'i feithrin ? pa beth wnai Clust-enwaededig ond gofidio wrth glywed ei 'screch sych ef o'r *pulpit* yn condemnio pawb ? pa beth oedd gan Gariad-brawdol i wneud ond credu yn llwyr wrthwyneb am y brodyr ? a'r un modd gwnaeth y lleill oll. Ond Eiddigedd-dduwiol oedd yn crynu rhag ofn fod un rhan o'i eiriau, ef yn erbyn y brodyr yn wir ; ond er hyn oll, ni allodd dim geiriau a lefarodd y gwŷr hyn wneud lles iddo, na'i ddodi i gasâu un gronyn ar y cad-naw hwnw ; ond yn hytrach cellwair, chwerthin, a gwawdio y gwŷr gonest hyn, a rhoi llysenwau arnynt, eu galw,—Teimladau, Tymherau-diawledig, Cŵn-uffern, Bytheiaid-y-pwll,

a'r cyffelyb, a'u gyru i maes o'r tŷ tan berygl eu bywydau. A'r peth mwyaf rhyfedd, rhan fawr o bregethau yr athraw hwn oedd du'o'r gwŷr hyn, a cheisio gan bawb i'w gyru allan o'r wlad hono, a haeru nad oedd gwaeth carn-lladron na hwynt rhwng yr afon Danube a'r afon Amazon.

PERCON.—Digon; at y peth nesaf.

PEREG.—Mawr yr anghyfanedd-dra wnaeth yr ellyll hwn trwy holl heolydd Jerusalem; llawer synagog a adfeiliodd o'i blegyd ef; chwi allasech weled ei ôl ef ar hyd y dref yma a thraw—offeiriad wedi eu llygru, Lefiaid wedi cael eu taro â gwahan-gwyf, y Gibeoniaid eu hunain wedi gwanhau eu breichiau i ddwyn cynud at wasanaeth y cysegr. Ac yn esiampl o hyn, deallwch fod yn ddiweddar ddiwygiad mawr iawn trwy holl dir Immanuel, yr hwn a gyrhaeddodd o'r Iorddonen i'r Môr Canoldir, gwlad y Gadareniaid, Samaria, a Chaldea; canys prophwydi a aeth allan o Fynydd Seion, ac a daenasant air y deyrnas ar led, fel aeth ei swm ef hyd eithaf y ddaear, a phob llwyth, iaith, a phobloedd i gasglu yn nghyd i Fynydd Seion, i weled y dwfr bywiol yn tarddu allan o tan y faingc, nes oedd Jerusalem wedi cael ei llanw o bobl fel dyfroedd y môr, o'r Aipht a pharthau Lybia, Mesopotamia, a'r nynsoedd pell, a phob gwlad ag oedd o fewn cyrhaedd clywedigaeth Mynydd Seion. Ar y dyddiau hyn yr adeiladwyd muriau'r ddinas, y codwyd i fyny y bylchau, cyweiriwyd 'stafelloedd yr offeiriad, adeiladwyd allor poeth-offrwm, ac y cadwyd i'r ARGLWYDD Basg na fu o'i fath er y dyddiau gynt.

PERCON.—Pwy ydoedd y prophwydi hyn?

PEREG.—Lluaws o gedyrn ieuaingc Israel, a rhai hefyd o'r Aipht ac o Assyria, wedi cael eu gwneud yn broselytiaid Mynydd Seion, a dysgu iaith gwlad Canaan, i gyd ar y cyntaf o'r un gred, un ffydd, un bedydd, a Thywysog Immanuel yn eu bendithio hwynt, fel y dychwelwyd llawer-oedd trwyddynt i ffordd y bywyd; daeth caethion hefyd y pryd hyny adref o bob llwyth; y rhai gaethiwyd i'r Aipht ac Assyria, i Babilon, a holl wlad y Caldeaid, a ddychwelasant gyda llawenydd mawr i dref, fel na welwyd rhagor o lwyddiant Jerusalem er pan gosodwyd yno faen ar faen.

PERCON.—Ond a wnaeth Cenfigen a'i chyfeillion ryw alan-asdra neu gyflafan yn y diwygiad rhyfedd hyn?

PEREG.—Balchder, Hunan-dyb, a hithau a wnaethant ragor o anrhaith yma eto nag y gwnaeth un ellyll ag a ddaeth i fyny o'r pydew, canys Hunan-dyb a yrodd amrywiol ddynion, wedi rhoddi iddynt ychydig ddoniau, sêl, ac ÷ondra yn mlaenllaw, i feddwl eu bod hwy cystal a'r diwygwyr penaf, ac yr haeddent dderbyniad fel hwythau trwy holl Fynydd

Seion; y rhai'n a gyhoeddasant wahoddiad y Brenin cuwch eu llais, hysbryd eu hysbryd, ac mor ddiogfyn perygl, os nid llai na neb o'r prophwydi penaf; eto gwahaniaeth oedd rhyngthynt a'r lleill, er tebyced oeddent iddynt, canys os delid sylw manwl arnynt, yr oedd eu llygaid i waered tua'r ddaear pan byddent yn ehedeg uwchaf, fel barcut yn edrych i lawr ar ei ysglyfaeth. A phan gyntaf y cynygio tywysog y byd hwn iddynt ddyrchafiad a gogoniant, hwy a'i dilynasant ef, un i'w faes, arall i'w fasnach, ac a adawsant wahoddiad y Brenin mawr. A rhai'n a fuasai yn waradwydd ac yn rhwystr i'r gwaith oni buasai fod holl bwys y gorchwyl ar Dywysog mawr y ddinas, a hyn hefyd oedd wedi ei ragfynegu yn Siarter y dref—"Oddi wrthym ni yr aethant hwy allan; nid oeddent o honom ni; pe buasant o honom ni, hwy a arosasant gyda ni; o'r byd yr oeddent, a'r byd a wrandawodd arnynt." Hunan-dyb, Awydd i barch, a Chwant golud a ddaeth â hwynt i mewn, a'r un egwyddor a'u gyrodd hwynt allan.

PERCON.—Ond nid Cenfigen gymaint oedd yma.

PEREG.—Mae hi yn wastad lle mae ei chyfeillion, a'i chyfeillion penaf yw y rhai a enwais uchod; a pheth mwy annhebygol, chwi gewch ei gweled hi yn y rhai safodd, canys nis gadawodd hi offeiriad, na henuriad, Lefiad, na Gibeoniad, nac un swyddog, o'r uwchaf hyd yr isaf radd, nac clwyfodd hi hwynt ryw ffordd neu gilydd. Rhai a ymneillduasant o blith eu brodyr ac swyddogau ereill, o eisieu cael parch ragor yn eu synagogau eu hunain, gan dybied os aent yn athrawon eu hunain, caent barch, elw, a chariad y gymanfa hono, ac hefyd gymaint ag oedd ganthynt o bob un o'r rhai'n o'r blaen; rhai hefyd, er na ymneillduasant, eto a weithiasent mewn rhan neillduol o'r ddinas heb gadw nemawr iawn gymdeithas â'r lleill; a hyn oddiwrth yr un ysbryd, nas gallent ddyoddef gweled â'u llygaid y parch a'r gogoniant yn cludo i mewn fel ŷd yr Aipht i drysorau ereill. Ereill fuant ychydig yn fwy llwyddianus, a ddysgwylasant i holl Jerusalem a Judea ddyfod yno i addoli i'w synagogau hwynt, gan dybied nad oedd y Shekina yn perthyn i, nac yn dysgleirio cymaint ar un gynulleidfa a'r eiddynt hwy eu hunain, ac yn methu caru pawb nad oedd yn dyfod i'r lle hwnw i addoli; rhai hefyd a ddringodd cymaint i falchder a chenfigen, na fynent enwi neb enwau trwy holl ddinas Seion, nac i neb gredu bod yno rai ereill o'u blaen hwynt mewn parch, ysbryd, na doniau, gan eu galw eu hunain yn archoffeiriad, yn batriarchiaid, ac yn ganwriaid, ac yn haeddu parch deg dyblyg ar ddwyllaw'r holl bobl oedd yn trigo yn Jerusalem; ac amryw o'r rhai'n oedd yn blasu cymaint ar eu hareithiau eu hunain, fel y tybient nad



oedd dim yn wych, yn hardd, ac yn effeithiol, ond yr hyn ddeuai allan o'u geneau hwynt eu hunain. A chymaint gafodd yr ysbryd hwn le gyda rhai o'r prophwydi hyn, fel nas gallent ddyoddef canmol na phregeth nac awdwr, llyfr nac ysgrifen, araeth nac awdl, a gyfansoddid yn y dyddiau hyny gan neb rhyw ddyd, na dim un amser gystal a'r hyn a genhedlid o'u deall hwynt eu hunain. Ac yn fyr, fe haerai rhai o honynt mai benthg a lladrad oedd oll a genhedlid gan ereill, am ei fod yn cael ei ofni y deuai fel cwmwl i orchguddio eu doniau hwy; a'r ysbryd hwn oerodd gymaint ar ysbryd y prophwydi y naill at y llall fel mai anfynych y gwelid rhai o honynt yn troedio i neb synagogau ereill.

PERCON.—Ofnadwy gwaith Cenfigen yn mhob man o'r byd; ond pa fodd yr ydoedd ar ysbryd y gwŷr da a gonest ag oedd yn ei ganlyn ef erbyn hyn?

PEREG.—Hwy a ymofidiasant i angeu; ond yn nyfnder eu gofidiau hwy a aethant i freninllys y Brenin mawr, lle mae pob gŵr gofidus yn Mynydd Seion yn myned, a hwy achwynasant wrtho Ef eu holl drafferth; dywedasant hefyd y dirmyg, y grawd, a'r erlid a gawsant gan bob rhyw elynion wrth ganlyn yr ellyll hwn o fan i fan, gan fynegu bod iddo ffryns mor aml a'r tywod ar fin y môr, a hwy a wylasant yn chwerw-dost wrth y Brenin, ar iddo gyda brys ymddial ar ei elynion. Ond Efe a'u hatebodd hwynt fel hyn, a'i eiriau Ef a lonyddodd eu hysbrydoedd hwynt.

PERCON.—Mynegwch ar frys hyfrydaf eiriau y Brenin.

PEREG.—Na ddigalonwch, ebe fe, weled gelynion bob dydd yn ymlid, yn ymgynndeiriogi, ac yn chwareu pob dyfais yn erbyn fy nheyrnas: felly yr oedd er dechreuad y byd, ac ewyllys fy Nhad yw dyoddef y pethau hyn am y caiff holl lid uffern ei droi allan er rhagor o ogoniant iddo yn y diwedd. Nid fy analluogrwydd na bawn yn eu darostwng hwynt mewn mynydyn i lawr tan fy nhraed, ond hyn arfaethwyd er egluro dirgeledigaethau mawrion ag oedd guddiedig er seiliad y byd. Gadawyd hwynt yn fyw i brofi fy mhobl; gelynion sydd am ddinystrio eu heneidiau a'u cyrph, a'u llithro i bob drygioni, a'u dyd i ddangos i'r byd o bwy ochr y maent—ai myfi neu hwythau sydd i'w garu a'i anrhydeddu. Pe buasant heb y rhai'n ni fuasant yn cadw eu harfogaeth mor ddysglaer; da yw dyfod rhwystrau, onide ei ffydd a gysgai; gelynion yn eu cynddeiriogrwydd mwyaf sy'n cadw y gras hyn yn fyw; at ymladd y rhoddwyd ef, a mwyaf grymus yw yn y frwydr; pe na byddai nwyd fyth yn gorchfygu, ni fuasai galar nac edifarhau; ac nid bychan y fantais sydd i'm pobl oddiwrt y gelynion hyn. Nid iawn iddynt deyrnasu yn y nef heb ymdrech ar y ddaear; ac ar ol eu hymdrech yr ochr hyn y

bydd helaethrwydd eu gogoniant yn y byd a ddaw. Eu curo mewn ymladdfau tanllyd yma wna iddynt brisio'r nef yn saith-dyblyg, ac nid ânt yno heb gael yr un ymdrin gan bob gelyn ag y gefais I fy Hun. Nid bychan y dyddanwch a gludir iddynt trwy y rhyfeloedd hyn; canys yn mhob brwydr—pan enillont y dydd—maent yn dyfod i dderbyn eu buddugoliaeth gyda'r un gorfoledd a'r morwr ofnog gan y dymestl yn dyfod i mewn yn ddyogel i'r hafan a ddymunai. Dyoddefwyd hefyd y gelynion hyn fel na fyddai i fy mhobl ymfrostio; canys y rhai'n yn aml, yn gyfrwys, ac yn gedyrn, a hwythau yn analluog i'w gorchfygu hwynt, a wna iddynt weled mai'm gras i sydd yn ddigonol iddynt hwy, a'm nerth I a berffeithir yn eu gwendid; a phan b'ont wedi esgeuloso taflu allan y Canaaneaid hyn, gan ddigoni'r cnawd a'i chwantau ef, y rhai'n a fyddant fel draen yn eu hystlysau, ac yn gethri yn eu llygaid, i'w blino hwynt. Ond yn benaf, mae'r gelynion hyn wedi eu dyoddef gan fy Nhad er mwyn dadguddio helaethrwydd ei annherfynol ras a'i allu Ef, ac anfeidrol haeddiant fy marwolaeth inau. Ni fuasant yn defnyddio fy angeu yn maddeuant pechod pe buasai pechod fyth heb eu blino. Eu gelynion sydd yn peri iddynt waeddi am faddeu, a maddeu sydd iddynt fel diliau mel, yn adnewyddu cariad, enyn sêl, ac yn magu gwyladwriaeth. Fy ngallu I a geir weled yn fwy yn eu cadw hwynt rhwng myrdd o elynion, o mewn ac o maes, fel llong yn nghanol y môr, heb ei soddi er maint y tonau; ni ymchwelai gogoniant cymaint im' o roi fy ngelynion ar unwaith wrth fin y cleddyf, ond amryw o honynt wyf yn gymeryd yn garcharorion, gan eu gado hwynt yn fyw hyd ddydd y lladdfa, ac yno y dinystriaf hwynt, er cywilydd iddynt hwy, a gogoniant i minau. Yr wyf yn caud rhai breninol nwydau mewn ogof-feydd, lle cânt aflonyddu a rhuo ar fy mhobl, ond ni chant deyrnasu fyth mwy. Ac yna cafgoroni dydd fy ymweliad, trwy eu harddangos ar gyhoedd, a gorfol-eddu yn eu dinystr tragwyddol hwynt. Mae fy holl briodoliaethau hefyd yn cael rhagor o ogoniant o fod y gelynion yna heb eu lladd, canys eu dichellion mwyaf a faeddir gan fy anfeidrol ddoethineb, ac a droir yn orfoledd i holl drigolion y nef. Eu nerth a faeddir gan fy ngallu, eu heuogrwydd gan fy nghyfiawnder, a'u halogrwydd a olchir ymaith gan fy Ysbryd bob yn ychydig ac ychydig. Eu llid a'u cynddeiriogrwydd a dros yn foddion i ddwyn fy ngwaith yn mlaen. Er y gall fy mhobl gwmpo trwy eu dichell hwynt, eto mi wnaif ddefnydd o'r codwm hwnw i roi i'w gelynion ffywyl ragor nac erioed; canys ar ol eu gorchfygu yr ânt i leoedd dirgel—yno yr wylant ac y gofidiant, a hwy weddiant ac a wylant, ac a ddych-welant ataf fi, a mi a'u hiachaf hwynt. Er cymaint gelyniaeth

sydd iddynt, ni syrth blewyn o wallt eu penau; a'r elyll hwnw, Cenfigen, am ba un y maent yn chwilio, er ei fod yn llidio wrthynt, ac yn maleisio am eu dedwyddwch, eto myfi fyddaf yn Ffrynd iddynt, ac efe a ffy rhagddynt o fan i fan tra parhao ei ddyddiau ar y ddaear. Yna gorphenodd y Brenin ei ymadrodd; a'r gwŷr a aethant allan o'i bresenoldeb yn hyf, yn llawen, ac yn llawn sêl, ac y maent yn chwilio dinas Jerusalem hyd y dydd heddyw.



*PREGETHAU.*



## NODIADAU GAN Y GOLYGYDD.

**T**RWY bregethu y creodd y Diwygwyr Methodistaidd yn Nghymru nefoedd newydd a daear newydd. Ond, rywfodd, pan gymerwyd y pregethwyr i ogoniant, fe gollwyd eu pregethau. Hwyrach, pe cadwesid y pregethau hyny i ni, na buasai yr enill yn gymaint ag a dybid gan rai; oblegyd yn y pregethwyr eu hunain y trigai yr Ysbryd oedd yn gwneud y pregethau yn fywiol ac yn nerthol. Yr un pryd, gwaddol gwerthfawr i Gymru fuasai Cyfrol o Bregethau gan y Tadau Methodistaidd. Ond fel hyn y mae yn bod—ychydig iawn o'r pregethau hyny sydd ar gael erbyn hyn.

Yr oedd yn llawenydd mawr i ni gael ar ddeall fod rhyw nifer o bregethau Williams wedi osgoi difangcoll, ac i'w gweled yn ei lawysgrif, yn mysgrif ei lyfrau a'i bapyrâu. Cafwyd y gyntaf o'r pregethau a ganlyn trwy law y Parch. Thomas E. Thomas, Llanyddyfri, o lyfrgell boneddwr ag yr oedd rhan fawr o lyfrau Williams yn ei feddiant. Yn ddiweddar, bu farw y boneddwr hwnw, a daeth y llyfrau ar werth. Prynwyd yr adran a berthynai i Williams gan Mr. Daniel Davies, Ton, Rhondda; ac yr ydym yn deall iddo eu trosglwyddo yn rhad i gyfoethogi Llyfrfa y Coleg yn Nhrefeca. Wrth drosi y llyfrau a chwilio i gynnwys yr hyn a ddaethai i'w ran, daeth Mr. Davies o hyd i rai pregethau ysgrifenedig; ac wrth edrych dros y rhai hyny, a dal ar y llawysgrif, a'i chymharu â llawysgrif Williams, boddlonwyd ef â sicrwydd digonol ei fod wedi cael tair o bregethau yr Efynglydd o Bantycelyn. Gwelais inau ddwy o'r tair hyny yn eu gwedd wreiddiol; ac yr oedd gweled yr ysgrif yn ddigon i'm hargyhoeddi eu bod wedi dyfod oddiwrth law Williams,—llawysgrif ag yr wyf erbyn hyn wedi cael llawer o fanteision i'w hadwaen. Cefais y ddwy bregeth hyny gan Mr. Davies i'w dodi yma; y mae y drydedd, ar hyn o bryd, ar goll.

Yr oedd y gyntaf o'r tair a welir yma wedi ei hysgrifenu yn Gymraeg; ac argreffir hi heb ymyryd ag iaith yr awdwr. Nid yw yn gwbl gyflawn—yr oedd dalen neu ddwy yn eisieu yn nechreu ac yn niwedd y copi a gefais o honi. Am y ddwy olaf, y rhai a gefais oddiwrth Mr. D. Davies, yr oedd y rhai hyny wedi eu hysgrifenu yn Saesoneg; a chyfieithais hwy. Y rheswm dros eu hysgrifenu yn Saesoneg, mae'n debyg, oedd, mai i'w pregethu yn *Anniversary* y Coleg y cyfansoddwyd hwynt. Ar yr achlysuron hyny byddai Iarles Huntingdon, a chyfeillion Seisonig; ereill, yn bresenol. Gwelir oddiwrth y dyddiad sydd yn niwedd yr olaf iddi gael ei hysgrifenu, a'i phregethu mae'n debyg, yn y flwyddyn 1789.

## Pregethau.



### PREGETH I.

Salm lxxxix. 16.—“Yn dy enw Di y gorfoleddant beunydd; ac yn dy gyfiawnder yr ymddyrchafant.”

\* \* \* \* \*

1af.—*Natur ac angenrheidrwydd y cyfiawnder hwn.*—Fe greodd Duw ddyn yn creadur rhesymol, yn alluog o gael ei lywodraeth foesol gan Dduw; ac fe roddodd iddo gyfraith, berthynol i'w natur, i lywodraethu ei hun yn y dyledswyddau hyny oedd yn ddyledus i Dduw fel ei Greawdwr. Fe roddwyd y gyfraith hon i ddyn mewn ffurf o gyfamod, gydag addewid o fywyd ar berffaith ufudd-dod Adda, eithr marwolaeth ar ei anufudd-dod. Adda, a'i holl had ynddo a chydag ef, wedi tori y cyfamod, a aethant dan y felldith, fel ag yr oedd ein hiachawdwriaeth yn hollol anmhosibl, nes i gyfiawnder gael ei foddloni, ac anrhydedd y gyfraith doredig gael ei adgyweirio. Cyfiawnder a'r gyfraith oedd yn rhaid gael iawn, onid e fe fuasai pyrth y nef yn gauad yn erbyn pawb o hil Adda. Y cleddyf tanllyd ysgwydedig oedd yn cadw ffordd pren y bywyd.

Yn yr amgylchiadau hyn, tra yr oedd dyn yn dysgwyl dim ond syrthio yn aberth i gyfiawnder Dwyfol, fe safodd MAB Duw, fel Cyfryngwr ac fel Meichiau, yn neddfle y pechadur, i gyflawni y gorchymyn a dyoddef y felldith. Derbyniodd Duw Ef yn iawn. Pe buasai yn sefyll yn ol llymder a gerwindeb y gyfraith, fe fuasai yn 'mofyn iawn personol gan y troseddwr, ac yn gwrthod iawn (gan) Feichiau; ac felly Adda a'i hâd yn dyoddef byth dan gyfiawnder dialeddol a digofaint Duw. \* \* \* Crist, tragwyddol Fab Duw, yn nghyflawnder yr amser, a wnaed o wraig, a than y ddeddf, fel Meichiau yn ein lle ni, a gyflawnodd holl amodau y cyfamod, ac, mewn gair, a ufuddhaodd i holl orchymynion y gyfraith; dyoddefodd y felldith; ac felly a ddygodd i mewn

gyfiawnder trwy yr hwn y mae pechadur euog yn cael ei gyfiawnhau ger bron Duw. A thyma y cyfiawnder y sonir am dano yn y testyn,—“Yn dy gyfiawnder yr ymddyrch-afant.”

Sylwch eto,—Er i GRIST ufuddhau i'r gyfraith, boddloni cyfiawnder, a dwyn i mewn gyfiawnder tragwyddol, er hyny ni ddyrchefir etholedigion Duw trwy rinwedd y cyfiawnder hwn hyd nes y bydd i nerth Duw eu dwyn i'w dderbyn ef trwy ffydd. Yr wyf yn gwadu eu bod wedi eu cyfiawnhau yn weithredol ger bron Duw er tragwyddoldeb; ond yr wyf yn credu eu bod wedi eu cyfiawnhau yn friadylol er tragwyddoldeb,—ond nid yn weithredol hyd nes y bydd ffydd yn cael ei phlanu yn yr enaid, a gwaed Crist yn cael ei gymhwysu at y gydwybod. Cyn hyn, y maent yn blant digofaint, megys ereill, ac, o herwydd annghrediniaeth, wedi eu damnio eisoes.

Y mae cyfiawnder y Meichiau yn cael ei drosglwyddo i ni trwy gyfrifiad, fel y mae yn eglur oddiwrth yr Ysgrhythrau.—Rhuf. iv. 6, 11, 12, &c. Y mae Duw yn cyfrif yn eiddo i ni beth wnaeth y Meichiau yn ein lle, fel y mae ei gyfiawnder Ef yn gymaint o eiddo i ni ger bron Duw am gyfiawnhad a phe buasai Cyfiawnder Dwyfol yn cael ei foddioni yn ein personau ni ein hunain. Neu fel hyn,—Yn nhragwyddoldeb draw, fe ymrwymodd Mab Duw yn Feichiau drosom, a rhoddodd *pond* i dalu ein dyled.\* \* \* \* \*

“Wele yr wyf yn dyfod.”—Trwy gyfrifiad eto, os sylwch ar yr adnod hon—“Yr ARGLWYDD a roddes arno Ef ein hanwiredd ni i gyd.” Dyma gyfnawid rhwng CRIST a'i bobl—Efe yn cymeryd ein pechod a'n hannghyfiawnder ni, ac yn lle hyny yn rhoi i ni ei gyfiawnder glân, difrycheulyd Ef. “Yr Hwn nid adnabu bechod, a wnaeth Efe yn bechod drosom ni, fel y gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo Ef.”

Eto, y mae yn gyfiawnder cyfrifol ar sylfaen yr undeb sydd rhwng CRIST a chredinwyr. Pan y bo y ddarnedigaeath yn cael ei symud i gerdded, a'r pechadur trwy ffydd yn cymeryd gafael yn NGRIST, y mae y pechadur, trwy undeb â CHRIST, yn dyfod i heddwch â Duw. Trwy yr undeb yma y mae credinwyr yn ddiadell gasgledig mewn un gorlan, a than yr un Bugail; yn gorph ag iddo aelodau lawer, ac eto yn unedig dan yr un Pen; teulu yn byw dan yr un Meistr; dinas ddarostyngedig i'r un Tywysog, a than reolau yr un gyfraith; meini ar yr un Sylfaen; canghenau yn yr un Winwydden. Ac wedi cael eu huno â CHRIST, y mae cyfiawnder Duw yn cael ei daflu drostynt;—y maent yn cael eu rhyddhau oddiwrth y ddamnedigaeth trwy fod CRIST wedi ei wneuthur iddynt yn gyfiawnder.

\* Mae y copi yn rhy amharus i ni allu ei ddarllen yn y lleoedd hyn.

zil.—*Dangoswn ragoroldeb y cyfiawnder hwn.*—(1af.) Y mae yn gyfiawnder perffaith a difrychau. Os amgen ni fuasai yn gyfiawnder Duw; mor berffaith fel y mae y gyfraith sanctaidd nid yn unig wedi ei chyflawni, ond wedi ei mawrhau a'i gwneud yn anrhydeddus. Esa. xlii. 21.—Mor berffaith fel nad all llygaid pur Cyfiawnder Dwyfol weled un bai na gwall ynddo; ie, y mae wedi cael ei foddhau gymaint ynddo, fel y mae yn edrych ar yr enaid sydd wedi ei wisgo âg ef, mewn 'stad o ddiniweidrwydd,—yn hollol rydd oddiwrth bechod. “Ti oll ydwyf deg, fy anwylyd; ac nid oes ynot frycheuyn.” “Ni wel Efe anwiredd yn Jacob, na thrawsedd yn Israel.” Y mae yn gweled llawer o frychau yn y credadyn fel y mae ynddo ei hun; ond yn nghyfiawnder CRIST nid oes frycheuyn ynddo.

(2il.) Heblaw hyny, y mae yn gyfiawnder haeddianol. Y mae pryniad yr enaid yn werthfawr. Y mae arian ac aur a phethau llygredig yn ganmil rhy fach i'w brynu. Dodwch y nefoedd a'i gogoniant yn y glorian i gyd-bwysu â'r cyfiawnder yma, ni bydd ond fel mân lwch y clorianau.—Diferyn mewn cymhariaeth â'r môr eang. Etifeddiaeth fawr yw y nefoedd, ond etifeddiaeth wedi ei phwrcasu trwy y cyfiawnder hwn. Y mae y fath haeddiant ynddo fel y mae yn cuddio pechodau oedd fel porphor ac fel ysgarlad, ac yn prynu byd o etholedigion o ddigofaint a distryw. Y mae cymaint gwerth ynddo, gyfiawnder anfeidrol! fel ag i brynu yr holl hil; ie, dengmil o fydoedd syrthiedig, os Duw a'i mynai. Am hyny, bechadur, myn ei gael, fel na byddo i ti fod yn fud yn y farn olaf.

(3ydd.) Y mae yn gyfiawnder annghydmorol. Cyfiawnder creaduriaid nid yw i'w gymharu âg ef. Dy gyfiawnder dy hun, yr hwn sydd o'r gyfraith, nid yw ond fel sothach yn ymyl hwn; ie, dy gyfiawnder wedi dy droedigaeth, y mae yn dom ac yn golled yn y glorian gyda hwn. Cyfiawnder Adda yn ei ddiniweidrwydd, nid yw yn ddim mewn cymhariaeth i'r cyfiawnder yma. Cyfiawnder angelion glân y nef, ni ddeil i'w ddangos yn ymyl hwn. Cyfiawnder creaduriaid yw y rhai'n oll; ond cyfiawnder Duw yw y cyfiawnder yma.

(4ydd.) Mor hardd y mae y credadyn wedi ei wisgo yn y cyfiawnder yma! Y mae yn awr yn ngolwg Duw heb na brycheuyn na chrychni arno, na dim o'r cyfryw; ac os ydych chi heb ei weled ef felly yn bresenol, fe wawria y dydd maes o law, fe gilia y cysgodau cyn hir, ac yna cewch ei weled fel y wawr, yn deg fel y lleuad, yn bur fel yr haul, ie, yn llewyrchu fel y ffurfafen, ac fel y ser byth ac yn dragywydd.

(5ed.) Heblaw hyny, y mae y cyfiawnder hwn a ddygodd CRIST i mewn, yn gyfiawnder tragwyddol. A llefaru yn



I.—Ymwrthodiad yr Apostol âg ymfrostio ynddo ei hunan. Y mae yma yn penderfynu dynoethi yn effeithiol ragrith ac uchelgais y gau apostolion, y rhai oeddent awyddus i wisgo ymddangosiad allanol teg, a chael eu cyfrif gan ddynion yn gyfiawn, a chael eu canmol ganddynt; y rhai a ymfrostient yn eu hachau a'u rhagorfreintiau cnawdol, eu rhagoriaethau allanol, eu doniau naturiol, a'r galluoedd a enillasant—dysgeidiaeth, hyawdledd, &c. Ond, meddai yr Apostol—“Na ato Duw i mi ymfrostio ond yn nghroes ein HARGLWYDD IESU GRIST.” Y mae yn gwrthod ac yn ffeiddio ymfrost mewn dim arall gyda'r atgasrwydd mwyaf. Nid yw yn gwrthwynebu eu hymffrost mewn rhagorfreintiau allanol ar gyfrif ei fod ef ei hun yn amddifad o honynt; oblegyd hysbysir ni yn amgen yn y drydedd benod o'r Epistol at y Philippiad; ond am fod eu hymffrost yn gwrth-daro yn erbyn efengyl CRIST. Pe baem ond edrych o'n hamgylch, gwelem yn fuan fod pawb yn chwanog i ymfrostio mewn rhywbeth neu gilydd. Mae pob un yn prisio ei hunan ar gyfrif rhywbeth. Nid oes odid ddim ar y ddaear heb fod rhywrai yn ymfalchio ynddo, er nad oes ganddynt sail na rheswm dros wneud hyny. Am hyny fel hyn y dywed yr ARGLWYDD,—“Nac ymfrostied y doeth yn ei ddoethineb, ac nac ymfrostied y cryf yn ei gryfder, ac nac ymfrostied y cyfoethog yn ei gyfoeth; eithr y neb a ymfrostio, ymfrostied yn hyn, ei fod yn deall, ac yn fy adnabod I, mai Myfi yw yr ARGLWYDD a wna drugaredd, barn, a chyfiawnder ar y ddaear.”

Mae un yn ymfrostio yn ei ddoethineb, pryd, ysywaeth, nad yw ei ddoethineb ond ynfyrwydd; y mae arall yn ymfrostio yn ei gryfder, pryd nad yw ei nerth ond gwendid; ac arall yn ymfrostio yn ei gyfoeth,—ond, beth yw ei gyfoeth? Dim ond tloidi a'i gymharu â bendithion deheulaw Duw. Ymddengys fod y Galatiaid ynydd hyn yn cywilyddio o groes CRIST; yr oedd arnynt gywilydd o'r sarhad, yr erlidion, a'r dedfrydau celyd a fwridd arnynt gan yr Iuddewon creulawn; ac, i ochel eu dygasedd a'u dirmyg, pregethai y gau athrawon yr enwaediad, gan gymhell eu pobl i ymostwng iddo.

Nid oedd y Galatiaid anwybodus ac ynydd hyn ond rhagreddegwyr i filoedd o bobl yn ein dyddiau ni, y rhai sydd arnynt gywilydd i gyffesu ffydd CRIST croeshoeliedig. Maent yn ofni cael eu cyfrif yn deilwng o gael eu herlid er mwyn enw CRIST a'i efengyl. Ond yr oedd yr Apostol o feddwl gwahanol,—y mae efe yn dadgan ei wrthwynebiad i ymfrostio mewn dim,—nac yn ei ragorfreintiau fel Iuddew, nac yn ei gyfiawnder moesol a deddfol ei hun, nac yn ei dalentau a'i gyrrhaeddiadau, nac yn ei lafur a'i lwyddiant, nac yn ei waith

yn dwyn ei gorph yn gaeth i unrhyw ordeiniadau deddfol neu efengylaidd,—ond yn unig “yn nghroes ein HARGLWYDD IESU GRIST.”

II.—Cawn yma ei ddadganiad beth oedd y gwrthddrych yr ymfrostiai ynddo—“ond yn nghroes ein HARGLWYDD IESU GRIST.” Wrth groes CRIST y golygai, naill ai y gwendidau, y gwaradwyddiadau, yr helbulon a'r erlidiau a ddyoddefai er mwyn CRIST a'r efengyl; neu ynte, yr efengyl ei hun—athrawiaeth y groes, athrawiaeth CRIST, a'r iachawdwriaeth trwy ei groes; neu yn hytrach, y CRIST croeshoeliedig ei hunan, yr Hwn a bregethai; er y cyfrifid hyny gan rai yn ffolineb, a'i fod i ereill yn faen-tramgwydd. Ymfrostiai ynddo Ef; a phenderfynai na fynai adwaen na gwneud yn adnabyddus neb ond Efe gyda mater cadwedigaeth. Ymfrostiai yn NHRIST nid yn unig fel Duw, neu fel Un a wnaethai gynifer o wyrthiau, ond fel y Croeshoeliedig.—Ymfrostiaf yn effeithiau ei groeshoeliad,—yn yr heddwch, y maddeuant, y cyfiawnder, y bywyd, yr iachawdwriaeth, a'r gogoniant tragwyddol sy'n ei ddilyn.—Y mae yn ymfrostio yn NHRIST fel ei ddoethineb, ei gyfiawnder, a'i sancteiddrwydd. —\*

Mae yn amlwg mai ystyr ei eiriau yw—ei fod yn penderfynu ymfrostio yn yr iachawdwriaeth a weithiwyd allan gan CRIST, er gwaethaf y gwaradwyddiadau, y dedfrydau, a'r cosbedigaethau a allent ddilyn ei waith yn gwneuthur hyny.

Ond fe ofynir,—Yn mhwy yr ydym ni i ymfrostio? Cawn weled hyny yn fuan os bydd i ni dasflu ein llyd aid ond am ychydig ar y groes, ac edrych pwy sydd arni. Pwy? Tragwyddol Fab Duw! Duw bendigedig yn oes oesoedd! Y Gŵr sydd gyfaill i Dduw! I ba bwrrpas y dyrchafwyd Ef yna? Wedi dwyn y mae ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren. Y mae wedi ein prynu ni oddiwrth felldith y ddeddf. “Archollwyd Ef am ein camweddau ni,” &c. Wele, dyma “Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd.” Gwelir, gan hyny, ei bod wedi llwyr ddarfod am danom o'n rhan ni. \* \* \*

Yn mhwy, gan hyny, y gallwn ymfrostio? A allwn ni ymfrostio mewn rhywbeth heblaw yn nghroes ein HARGLWYDD IESU GRIST? Beth sydd gan bechadur i ymfrostio ynddo, ond croes CRIST? Wrth ei groes y meddylir ei holl ddyoddefiadau o ddechreuad ei fywyd hyd ei esgyniad, trwy y groes i ddeheulaw Duw.

Mae ar lawer gywilydd o'r groes yma hyd y dydd hwn; ond dyoddefodd Efe y groes gan ddiystyru gwaradwydd; ac

\* Ceir yn y copi arwydd fel hyn yn fynych nad oedd yn ysgrifenu ei bregeth yn gyflawn—bwriadau ychwanegu at yr hyn a ysgrifennai.

y mae yn awr ar ddeheulaw Duw. Ymfrostiai Efe yn ei groes, a'r holl waradwyddiadau oedd yn nglŷn â hi. Felly y dywedir am Moses—"Gan gyfrif yn fwy golud ddirmyg CRIST, na thrysorau yr Aipht." \* \* \* Llawenhai y dysgyblion am ddarfod eu cyfrif yn deilwng i ddyoddef anmharch er mwyn CRIST. Llawenhai Paul yn ei ddyoddefiadau, yn gymaint a'i fod yn cyflawni yr hyn sydd yn ol o ddyoddefiadau CRIST.

III.—Yn y lle olaf, edrychwn beth yw effeithiau yr ymfrost yma yn nghroes CRIST. Yr effeithiau ydynt—"Croeshoel-iwyd y byd i mi, a minau i'r byd." \* \* \*

Gan bwy y mae y byd yn cael ei groeshoelio i mi?—Nid oedd yr Apostol yn ofni y byd, na'r pethau gwaethaf ynddo, ddim mwy nag y gwnai un yn hoeliedig wrth groes, neu ddyn marw. Gan i GRIST, trwy ei groeshoeliad a'i angeu, orchfygu y byd—tywosog y byd, lliid a malais y byd, a'r pechod sydd ynddo—a dangos ei Hun yn fwy na Chon-cwerwr, yr oedd ei ffydd yntau yn y Concwerwr yma wedi gorchfygu y byd yn yr un môdd. Felly edrychai arno fel yr edrychai yr Israeliaid ar yr Aiphtiaid meirwon yr ochr draw. Sangai ar, a dibrisiai yr holl bethau sydd ynddo yn ddeniadol i'r cnawd.—Yr oedd yr athrawiaeth am GRIST croeshoeliedig wedi dysgu iddo ymwadu â chyfoeth, anrhydedd, plerau, elw, a chlod y byd, y rhai, iddo ef, oedd fel sothach o'u cymharu âg ardderchowgrwydd gwybodaeth CRIST IESU ei ARGLWYDD.

### PREGETH III.

Mat. xi. 29.—"Cymerwch fy iau arnoch, a dysgwch genyf, canys addfryn ydwyf, a gostyngedig o galon; a chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau."

**M**AE y rhai sydd wedi eu galluogi i ddyfod at GRIST wedi profi, nid yn unig gyfnewidiad cyflwr, ond hefyd gyfnewidiad cymeriad, tueddfryd, a rhodiad; y maent nid yn unig wedi eu rhyddhau oddiwrth gondemniad, y maent hefyd wedi eu gwneud yn gyfranog o'r dduwiol anian. Y maent wedi eu gwaredu oddiwrth gaethiwed ac iau Satan; wedi eu gwneuthur yn ewyllysgar yn nydd nerth Duw i dderbyn a choffeidio ei iau Ef, yr hon a ganmolir yma fel un esmwyth a hyfryd.

Sieryd ein HARGLWYDD am ei wasanaeth fel "iau" a "baich," oherwydd y cyfrifir hwy felly gan bawb nad ydynt yn ei adwaen Ef. Cyfrifant hwy Ef yn Feistr caled, a thybiant fod ei wasanaeth yn flinderus; ond y mae y rhai sydd wedi cael prawf o honynt, wedi deall yn amgen; er y rhaid addef fod y gwasanaeth yn ein dwyn i anhawsderau, ac yn galw am hunan-ymwadiad. — Ond y mae gwybodaeth o'i gariad, a gobaith gogoniant, a'r adgyfnerthion prydlon â pha rai y mae yn gweled yn dda fendithio y rhai sydd yn dyfod ato Ef, yn melysu pob peth chwerw iddynt, ac yn eu gwneuthur yn ewyllysgar i ddwyn ei iau, a'i dewis o flaen pob peth a eilw y byd yn rhyddid. Oddiyma ymofynwn, yn gyntaf—Beth sydd i'w ddeall wrth iau CRIST. Yn ail, Y modd priodol trwy ba un yr ydym i'w chymeryd arnom; sef ystyriaeth grediniol o hono Ef fel Athraw effeithiol ac esiampl berffaith. Yn drydydd, effeithiau hapus dwyn ei iau Ef,—“Chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau.”

I.—Y mae iau CRIST, yn ei hystyr eang, yn cymeryd i mewn yr ymddibyniad, yr ufudd-dod a'r ymostyngiad, sydd yn ddyledus iddo oddiwrthym fel ein cyfreithlawn ARGLWYDD a'n graslawn Waredwr.—Y mae ganddo hawl ddyblyg ynom. Efe a'n gwnaeth ni; creaduriaid ei allu Ef ydym; o hono Ef y cawsom ni, gyda'r hyn oll a allwn ac a feddwn, ein bod.—Yn mhellach, Efe a'n prynodd ni; tosturiodd wrthym yn ein hisel radd, a gwaredodd ni oddiwrth ddinystyr a thrueni. Yn arbenig, gallwn ystyried iau ei broffes Ef:—mae hon yn dra esmwyth i enaid graslawn, cyn belled ag y mae ffydd ar waith; mor bell ydyw o gywilyddio o efengyl CRIST fel y mae yn barod ac yn ewyllysgar i fynegu i bawb a'i gwrandafo, yr hyn a wnaeth Duw i'w enaid.

Drachefn, y mae iau ei orchymynion yn esmwyth; y mae yr enaid graslawn yn cymeradwyo y rhai'n, ac yn ymddigrifo ynddynt. Ond, eto nid ydym wedi ein hadnewyddu ond mewn rhan; a phan y mae gorchymyn CRIST yn myned yn hollol wrthwyneb i ewyllys dyn, neu ein galw i aberthu y fraich ddê, neu y llygad dê, er y gwna yr ARGLWYDD y rhai a ddibynant arno yn fuddugoliaethus yn y diwedd, eto, fe gostia hyny ymdrech iddynt. Felly, pan yn teimlo mor fawr yw eu dyled i'w allu Ef yn gweithio ynddynt ac yn eu galluogi i orchfygu, y mae ynddynt, yr un pryd, ymdeimlad byw a'u gwendid eu hunain.—

Yr oedd Abraham yn credu yn Nuw, ac yn ymhyfrydu mewn ufuddhau iddo. Y mae pawb sydd yn gyfranog o'i ffydd ef yn agored i gyfarfod, yn gynt neu hwyrach, â galwad at ddyledswydd nad yw nemawr lai croes i ewyllys cig a gwaed (na'r eiddo ef.)—



Yn mhellach, nis gall neb ddwyn iau ei orchymynion Ef fel y dylid ond y rhai sydd yn dyfod ato Ef. Y mae yn naturiol i ni ymboeni, gofidic, ac ymysgwyd fel tarw gwyllt mewn magl, pan y byddom mewn trallod. Mae y credinwyr, yr un ffunud, yn cael fod eu cnawd yn wan, tra y mae eu hysbryd yn barod; ond y maent hwy yn gweled rheswm dros ymostwng, ac y maent yn gwybod yn mha le i geisio gras. —Y mae adfyd yn faen-prawf sydd yn dangos o ba ysbryd y mae dyn. Gall y rhagrithiwr arddangos delw deg o wir dduwioledeb pan y mae pob peth yn esmwyth gydag ef; ond mewn helbulon llymion, y mae y mwgwd yn cael ei rwygo ymaith. Ar y dybiaeth yma y gweithredai Satan yn ei ymosodiad ar Job: ond er fod sail i'r dybiaeth yn achos llawer un, cafodd ei fod yn methu gyda Job.

II.—Gwelir yma y moddion ordeiniedig trwy ba rai y galluogir pechaduriaid i ddwyn yr iau driphlyg hon,—“Dysgwch genyf, canys addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon.”—Pa mor hawddgar a dymunol bynag y gall tuedd-fryd a ddesgriffais ymddangos, nis gellir byth ei enill trwy eich nerth, eich doethineb, a'ch diwydrwydd eich hunain. Y mae ein HARGLWYDD, i'ch atal rhag blino eich hunain gydag ymdrechion aflwyddianus a siomedigaethau dianghenrhaid, yn sicrhau yn mlaen llaw—“Hebof Fi, nis gallwch chwi wneuthur dim.” Ond yma, y mae yn raslawn yn cynyg i chwi y cynorthwy sydd arnoch ei eisiau.—Fel pe dywedasai, —Nac ofnwrch yr hyn sydd o'ch blaen; ond meddyliwch beth allaf Fi ei wneuthur—i'm gallu I y mae pob peth yn hawdd; gallaf Fi wneuthur pethau ceimion yn uniawn, a'r pethau geirwon yn esmwyth; gallaf enill eich serchiadau, plygu eich ewyllys, dylanwadu ar eich ymarweddiad, eich gwaredu oddi-wrth eich ofnau pechadurus. Gan hyny, “Dysgwch genyf.” —Na fydded arnoch ofn nesau ataf Fi,—“Canys addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon”:—er mor fawr a dyrchafedig ydwyf, gallwch nesau ataf yn rhydd yn mhob amheuaeth ac anhawdsder.

Y mae eneidiau wedi eu hargyhoeddi, oblegyd teimlad o euogrwydd a gallu anghrediniaeth, yn hwyrfrydig ac anewyllysgar i ddyfod at IESU GRIST,—y maent yn barod i ddigaloni; ond sylwch mor dyner a gostyngedig yw y gwa-hoddiad hwn—mor raslawn gyfaddas i enill ein hymddiried:—Dysgwch genyf Fi; cymerwch Fi yn esiamp. Nid wyf yn gofyn dim oddiwrthych ond yr hyn a wnaethum I fy Hun o'ch blaen, ac er eich mwyn chwi.

Dyma ddadl gref, a chymhellion effeithiol, gyda'r rhai sydd yn caru IESU GRIST, dros gymeryd ei iau Ef arnynt—ei fod wedi ei dwyn hi ei Hunan. Nid yw Efe fel y Phariseaid, y

rhai gondemniai Efe ar y cyfrif yma—eu bod yn rhwymo beichiau trymion ar ysgwyddau dynion,—beichiau na chyff-yrddent hwy eu hunain â hwynt âg un o'u bysedd. —A ydych yn arswydo rhag yr anhawsderau sydd yn nglŷn â'ch proffes, yn digaloni yn yr olwg ar y driniaeth arw a gewch? —neu yn barod i ddangos ysbryd dial ar eich gwrthwyneb-wyr?—Dysgwch oddiwrth yr IESU; efelychwch ac edmygwch ei ddianwadalwch Ef. “Ystyriwch yr Hwn a ddyoddefodd gyfryw ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid.” Mawrhewch a dilynwch ei ddaioni a'i addfwynder Ef,—“Yr Hwn, pan ddifenwyd, ni ddifenwodd drachefn; pan ddyoddefodd, ni fygythiodd.” Wylodd Ef yn achos ei elynion, a gweddiodd dros ei lofruddion.—“Bydded yn och y meddwl oedd yn NGHRIST IESU.”—

Yn mhellach, a ydych yn cael allan mai anhawdd yw cerdded yn ddiysgog yn llwybrau ei orchymynion?—yn enwedig mewn rhai amgylchiadau neillduol, pryd y mae erthyglau doethineb y byd a deniadau cnawd a gwaed yn gryfion yn eich erbyn.—Dysgwch oddiwrth yr IESU: “CRIST nis boddhaodd Ef ei Hun.” Nid ystyried beth a fyddai yn ddyogel ac yn esmwyth a wnai Ef; ond beth oedd ewyllys ei Dad oedd yn y nefoedd. Erfyniwch arno eich nerthu yn y dyn oddimewn i gydymffurfio âg Ef. Bydded i ni ei efelychu Ef yn mhob rhan o'i ymarweddiad, a llewyrchu megys goleuadau yn y byd. —

A ydych yn dueddol i anfoddogi wrth oruchwyliaethau Rhagluniaeth? Cymerwch yr IESU yn gynllun. Beth a ddywedodd Ef yn nghanol ei holl dreialon?—“Y cwpan a roddes y Tad i mi, onid yfaf Ef?”—Na fydded genym yr un ewyllys ond yr eiddo Ef.—

Fel hyn, trwy edrych ar IESU y mae y credadyn yn cael ei oleuo a'i nerthu, ac yn cynyddu mewn gras a sancteiddrwydd. “Eithr nyny oll âg wyneb agored, yn edrych ar ogoniant yr ARGLWYDD megys mewn drych, a newidir i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant, megys gan Ysbryd yr ARGLWYDD.”

III.—Yr ydym yn gweled yma effeithiau dedwydd dwyn yr iau hon:—“Chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau.” Am y rhai sydd wedi eu deffro, nid oes arnynt eisieu dim tuag at eu gwneud yn ddedwydd ond sicrwydd fod iddynt ran yn nghariad y Gwarddwr. Pa fodd y mae y boddhad yma yn nodwedd neillduol ar y rhai sydd yn dwyn yr iau hon, ac yn dysgu beunydd ganddo Ef, ac yn ei efelychu yn ddyfal?—Dyma sydd yn fforddio y prawf goreu a mwyaf diysgog ei fod Ef wedi dechreu y “gwaith da” yn ein calonau. Y niae y prawf goreu am ei fod y mwyaf dyogel.—Mae llawer yn

ymrwystro o eisieu gwybod a ydynt wedi eu gwir argyhoeddi ai peidio, ac yn cael eu cadw yn hwy mewn amheuaeth, oblegyd eu bod heb weled ffordd gyffredin yr Ysgrythyrau o roddi sicrwydd.—Y maent yn dysgwyl cael gwybod trwy i ryw ddirnadaeth oruwchnaturiol gael ei phlanu yn ddisyfyd yn eu meddyliau.—

Ond, heblaw hyn, y mae llawer o engreifftiau wedi bod yn mha rai nad oedd y prawf dysgwylidig yma yn ddim ond peth ffuantus, ac y rhoddwyd ymddiried mewn twyll, neu mewn dychymyigion ofer. Hyd y nod pan y mae argraphiadau o sicrwydd yn dyfod oddiwrth Ysbryd Duw, y maent yn fynych yn ddiiflanol; a phan y mae y meddwl mewn gwedd neu ansawdd gwahanol, y mae y credadyn yn cael ei demtio yn fynych i amheu gwirionedd y pethau a brofodd o'r blaen.—

Gan hyny, y mae tystiolaeth cydwybod oleuedig yn barnu wrth Air Duw, ac yn penderfynu o'n plaid,—ein bod trwy ei ras Ef wedi ein galluogi i gymeryd arnom iau CRIST,—yn brawf mwy boddhaol, ar rai ystyriaethau, ein bod ni yn eiddo CRIST, a CHRIST yn eiddom ninau, na phe bai angel o'r nef yn dywedyd wrthym fod ein henwau yn ysgrifenedig yn llyfr bywyd yr Oen. — Yn mhellach, y mae addewidion am amlygiadau neillduol o'i gariad yn cael eu rhoddi a'u sicrhau i'r rhai sydd yn cerdded llwybrau ufudd-dod.—Os nad yw y dadguddiadau o hono ei Hun, y mae yr ARGLWYDD yn gweled yn dda eu rhoi i'r enaid weithiau, yn gwneud i fyny sicrwydd ffydd, y maent, pa fodd bynag, mor ddymunol fel nas gall pwy bynag a brofodd o ddyfroedd y bywyd lai na hiraethu am gael profiad o honynt drachefn.—Nis gallwn ddysgwyl ei bresenoldeb Ef ond tra byddwn yn dwyn ei iau arnom.—Nid oes gwir orphwysdra i'w gael yn unman arall.—“Nid oes heddwch, medd fy NUW, i'r rhai annuwiol.” Pa ryddid bynag allant addaw iddynt eu hunain, nid oes ryddid i'w gael heb ddwyn hon.

*Y Coleg, Awst 2il, 1789.*



## *Anerch Prysur a Difrifol.*

YN CAEL EI OSOD AT YSTYRIAETHAU CRIST'NOGION HAEL-  
IONUS I GYFRANU RHYW RHAN O'U MEDDIANAU TYMHOROL  
AT WNEUD I FYNY "FFUND" NEU DRYSOR BYCHAN BOB  
BLWYDDYN, I DDWYN YN MLAEN YR YSGOLION CYMRAEG  
RHYDD YN NGHYMRU, YN YR UN DULL Y DECHREUWYD  
AC Y DYGWYD HWYNT YN MLAEN GAN Y PARCHEDIG MR.  
GRIFFITH JONES A MRS. BEVAN.

## *Anerch Prysur a Difrifol.*



**A**M fuddioldeb yr ysgolion Cymraeg yn Nghymru, a'r angen-  
rheidrwydd o ddysgu darllen Cymraeg, y mae'r parch-  
edig Mr. Griffith Jones wedi gwneud hyny mor helaeth  
mewn amryw fanau o'i lyfrau Saesneg, yn nghydag yn ei  
*Gynghor Rhad i'r Anllythyrenog*, fel nad oes achos dweyd  
rhagor wrth y rhai sydd wedi darllen y rhei'ny; ond chwant-  
egu bod mwy o angen i'w cael hwynt yn awr, a mwy o awydd  
hefyd iddynt, nag a fu ar ol pob argoel erioed o'r blaen, am  
fod gwerin aneirif o bobl ieuaingc—amryw filoedd—wedi  
derbyn crefydd ar ol ymadawiad yr hen wr duwiol hwnw, a  
rhan fawr o'r rhai'n heb fedru darllen Cymraeg na Saesneg,  
er fod ganddynt ddymuniaid mawr i'r ddau; ond am nad oes  
ganddynt foddion cyfleus yn y manau neu yn agos i'r manau  
maent yn byw, gorfod maent i aros yn eu hanwybodaeth.  
Amrywiol iawn nid y'nt ond gweision a morwynion cyflogau,  
a'r rhei'ny hefyd o'r radd isaf yn y byd, heb amser ganddynt  
i hebgor, ond rhyw ychydig yn nyfnder y gauaf; yn yr hyn  
amser pe caent ond ysgol Gymraeg yn agos atynt, er cymaint  
eu hangen hwynt, ac angen eu rhieni tlodion, hwy a roent ryw  
faint heibio at ddysgu darllen Gair Duw, pe b'ai hyny ond  
mis neu ddau. Ac fe ddywed yr hen Ficer Prichard, o  
anrhydeddus enw—

Ni bydd Cymro yn dysgu darllain  
Pob Cymraeg, yn ddigon cywrain,  
Ond un misgwaith; beth yw hyny,  
Os bydd 'wyllys ganddo ddysgu?

Ac hefyd wrth ystyried y rhifedi mawr o Feiblau ac o bob  
llyfrau ereill sydd wedi cael eu hargraffu yn yr oes ddiweddaf,  
ac yn enwedig yn yr oes hon, a hyny yn iaith y Cymro; ni  
all neb ryfygu dweyd, gydag un rheswm, nad oes mawr eisieu  
ysgolion Cymraeg. Ac am hyny nid anfuddiol rhoi ychydig  
hanes o argraffiadau'r Beibl tuag at ddangos y fath luaws  
mawr o honynt sydd o bryd i bryd wedi eu hargraffu er cant  
a haner o flynyddau aeth heibio. Yn nyddiau y Frenhines  
Elizabeth, darfu i un William Salisbury i gyfieithu yr Efyngyl

a'r Epistolau sydd i'w darllen bob dydd trwy'r flwyddyn, ac a'u hargraffodd hwynt; dyma doriad gwawrddydd y Beibl Cymraeg. Ac yna un Sir John Prise a gyfieithodd Weddi yr ARGLWYDD, y Gredo, a'r Deg Gorchymyn; hyn oedd yn unig gan bobl anllythyrenog i glywed o lyfr Duw, fel deallent. Ond yn mhen ychydig ar ol hyn, Dr. Richard Davies, Esgob St. Asaph, a gyfieithodd y Testament Newydd cyntaf erioed yn Gymraeg. Ond nid cyn pen ugain mlynedd wedy'n, tan lywodraeth yr un Frenhines, Dr. Wm. Morgan, Esgob St. Asaph, a gyfieithodd yr Hen Destament, ac a'i hargraffodd; a thyma'r tro cyntaf gawd llyfr Duw yn llawn yn yr iaith Gymraeg. Ond nid oes dim son am un argraffiad ragor o hono, nes i Richard Parry, Esgob St. Asaph, tan deyrnasiad Brenin James y Cyntaf, i argraffu'r Beibl yn llyfr mawr dau-blyg at ei ddarllen yn yr eglwysi Cymraeg. Ond hwn oedd o bris uwch i'r cyffredin bobl i'w bwrcasu, er eu bod, trwy ryfedd ddaioni Duw, yn clywed y gair mewn iaith a ddeallent. Ond yr argraffiad nesaf a gawn yn nyddiau Charles y Cyntaf, sef yn y flwyddyn 1630; pan ddarfu i Syr Thomas Middleton a Rowland Heilyn, ac ereill o farsiantwyr Llundain, i argraffu Beibl Cymraeg wyth-plyg. Ond yr argraffiad cyntaf ar ol hyn yw yn mhen saith mlynedd a deugain, sef yn y flwyddyn 1677, darfu i Mr. Thomas Gouge, deugain gwir dduwiol, o Lundain, gyda chynorthwy ac anogaeth llawer o bendefigion—rhai o Loegr, rhai o Gymru, esgobion, offeiriad, a gwyr haelionus o bob graddau, i argraffu wyth mil o Feiblau Cymraeg, un fil o ba rai roddwyd i'r tlodion, a'r lleill a werthwyd am bris isel. Wedi'n, yn mhen un flynedd a deugain, sef yn y flwyddyn 1718, darfu i'r Gymdeithas grefyddol anrhydeddus yn Llundain, a elwir, *Society for promoting Christian Knowledge*, argraffu amrywiol iawn o filoedd o Feiblau Cymraeg, y Weddi Gyffredin, ystyr y penodau, a chwestiynau yn ymyl y dail; fe ro'wd llawer o'r rhai'n i'r tlodion, ac fe werthwyd y lleill am lawer llai na haner eu pris. Ac eilwaith, darfu i'r unrhyw *Society* argraffu Beiblau bychain ereill, heb ystyr y penodau, na dim ond *text* y Beibl. Ac yn mhen wyth mlynedd ar hugain eilwaith, sef yn y flwyddyn 1746, darfu i'r unrhyw Gymdeithas grefyddol argraffu rhifedi mawr iawn, y Weddi Gyffredin a chwestiynau ar ymyl y dail, fel y rhai o'r blaen. Ac ar ol hyn, yn y flwyddyn 1752, darfu i'r unrhyw Gymdeithas argraffu amryw filoedd o Feiblau Cymraeg, o rai llawnion, a'r Weddi Gyffredin, ystyr y penodau, a chwestiynau fel y rhai o'r blaen. Amryw o'r rhai'n a roddwyd, a'r lleill a werthwyd am y drydedd ran o'u pris. Ac yn ddiweddar, sef yn y flwyddyn 1769, darfu i'r unrhyw enwog Gymdeithas argraffu pymtheg

mil eilwaith—nid oes na Gweddi Gyffredin na dim yn y rhai'n, ond ystyr y penodau, a'r cwestiynau ar odrau'r ddalen. Ac yn ychwanegiad at hyn oll, fe argraffwyd tri argraffiad gan Mr. Peter Williams, yn Nghymru, yn cynwys yn agos i ugain mil. Ac fel hyn bu o dair-ar-ddeg i bedair-ar-ddeg o argraffiadau o'r Beibl yn Gymraeg, o ddyddiau y Frenhines Elizabeth hyd yn awr. Ac o gyfrif bod yr argraffiadau hyn gyda'u gilydd oddeutu naw i ddeg mil bob un, er bod rhai o'r rhai olaf, os gwir a glywais i, yn llawer rhagor, ni a gawn y rhifedi o Feiblau Cymraeg a argraffwyd er's llai na dau cant o flynyddau yn chwech ugain a deg o filoedd; a phe cyfrifem hwynt ond chwech ugain mil, wrth ystyried nad oes ond saith cant a haner o blwyfau yn Nghymru, a bod gyda'u gilydd driugain a deg o deuluoedd yn mhob plwyf, mae lle i bob teulu yn Nghymru gael dau Feibl, a phymtheg mil o deuluoedd i gael tri, heblaw amryw argraffiadau ragor o'r Testament Newydd wnawd o bryd i bryd, yn nghyda chwech cant o filoedd, yn y fan lleiaf, o bob llyfrau Cymraeg ereill, a argraffwyd er y can' mlynedd aeth heibio, tros gan' mil o ba rai a argraffwyd trwy ddwyllaw'r Methodistiaid, a phedwar ugain mil aeth allan o'm dwyllaw i fy hunan, heblaw pedwar ugain mil arall o fan baprau a marwnadau o bris ceiniog. Ac yn awr, tan gymaint manteision a rhai'n, onid yw yn drueni annyoddefol fod un dyn o oedran yn Nghymru heb fedru darllen iaith ei wlad,—yn enwedig y tlodion annysgedig? Ac onid yw yn gywilyddus fod y fath esgeulusdra yn mhilith y Cymry, pan y mae y Saeson—y tlotaf o honynt—yn hyddysg yn iaith eu rhieni? Mae lle i greu fod un o bob pedwar, os nid un o bob tri, o dlodion y Deheubarth heb fedru darllen; ac un o bob tri, os nid un o bob dau, o dlodion Gwynedd heb fedru adnabod llythyren. Pa cyhyd y goddef y Cymry y fath anwybodaeth a hyn? A gaiff gwlad Grist'nogol, lle mae mwy o bregethu yn ol ei maint nag sydd yn nhir Lloegr, i ddyodde'r fath esgeulusdra? Er fod yma fwy o bregethu, darllen yr Ysgrythyrau, a gwrando nag fu erioed o'r blaen, eto nis gall y tlodion glywed darllen, a gwrando yn wastad; nis ceir pregeth bob amser wrth chwant, a phe b'ai i'w chael nis gall pawb a dymuniad fyned iddi. Rhai sydd mor gaeth mewn teuluoedd annuwiol, nas gallant gael pregeth mewn pythefnos; rhai yn glaf, rhai yn hen; rhai yn methu cerdded yn mhell; ac O mor angenrheidiol i'r cyfryw fod yn medru darllen Gair y Bywyd, i fenthycu eu cysuron a'u goleuni oddiyno, pan y b'ont yn ymddifad o bob moddion ereill? Pa beth a wneir yn yr achos hyn? A dosturia neb wrth ieuengtyd tlodion Cymru, rhag ofn, trwy hir esgeuloso, i'r dorf ieuangc ag sydd yn awr i gyrhaeddyd i oedran

henaint yn ddifedr i ddarllen yr Ysgrythyr-lân; a bod iddynt, pan b'ont yn benau teuluoedd, fethu cadw gair a gweddi yn eu tai; ac felly bod eu haneddau yn lletyoedd annuwioldeb a thywyllwch! Mae'n wir i'r bendefiges hono, Mrs. Bevan, fel *exécutrix* i Mr. Griffith Jones, i adael o'i hol naw mil o bunau at ddwyn yr ysgolion rhad hyn yn mlaen yr un ffordd ag yr oeddent ganddo fe; wyth mil oedd arian rhodd a gafodd ef gan bendefigion at yr achos hyn, a mil arall a ddywedir iddi hithau roi at unrhyw achos; ond trwy ryw foddion neu gilydd, mae'r arian yn methu dyfod at yr achos, a'r ysgolion yn darfod o ran y rhai hyn. Ac yn awr, wrth ystyried yr angenrheidrwydd o honynt, y mae rhai dynion ag sydd yn foddlon tafu rhyw faint o'u meddianau bob blwyddyn tuag at wneud i fyny *fund* neu drysor bychan—tebyg i'r un o'r blaen o ran ei ddefnyddioldeb, ond nid o ran ei faintioli—i ddwyn yr ysgolion rhad hyn yn mlaen, fel yn nyddiau Mr. Jones a Mrs. Bevan. Ac os oes neb yn gweled bod yn dda i gyfranau at yr achos hyn, fe sefydlir amryw o wŷr crefyddol, gonest, ac abl i dderbyn yr arian yn mhob Sir, y rhai fydd i osod ar eu llyfrau yn gywir pa faint a dderbyniont, ac i dalu i'r ysgolfeistri o honynt, ac i ddyfod â chyfrif cywir unwaith neu ddwy yn y flwyddyn i ychydig nifer arall o edrychwyr neu *gommissioners*, y rhai dderbyniant ganddynt hanes o'r cwbl—sef rhifedi'r ysgolion, y lleoedd y buont, a'r effaith o honynt; a hyny a gaiff ei argraffu bob blwyddyn, er mwyn i'r gwŷr haelionus a roddo eu harian gael boddlondeb bod y cwbl yn cael eu wneud er daioni, os y *scheme* hon a ddaw i ben.

*Pant-y-celyn, Awst 12fed, 1790.*



## LIST OF SUBSCRIBERS.

- |   |  |
|---|--|
| Mr. R. Bennett, Hendre, Pennant, Llanbrynmair.                  | Capt. Thos. Davies, "Nathaniel," Borth.                      |
| Mr. D. Beynon, Woodville-rd., Cardiff.                          | Capt. H. Davies, Glanywern, Borth.                           |
| Mr. Thomas Bowen, 38, Miskin-st., Cardiff.                      | Capt. A. Davies, Glanywern, Borth.                           |
| Mr. S. Breese, Garth, Llanidloes.                               | Rev. John Davies, Blaenannerch.                              |
| Mr. E. Daniel, Private Hotel, 27, Thavies Inn, Holborn, London. | Mr. David Davies, 3, Grange-ter., Linthorpe, Middlesborough. |
| Rev. Thos. Jones Davies, Pentyrch, near Cardiff.                | Mr. Thos. Davies, The Laburnums, Pontardulais, R.S.O.        |
| Rev. J. E. Davies, M.A., 23, Belitha Villas, Barnsbury, London. | Mr. Griffith Davies, Troedyrhiw, Newport, Mon.               |
| Rev. Evan Davies, Trefriw (2 copies).                           | Mr. E. Davis, 29, Commercial street, Newport, Mon.           |
| Mr. Morris Davies, N. & S. Wales Bank, Liverpool.               | Rev. D. B. Edmunds, Tregynon, Newtown.                       |
| Mr. Cadwaladr Davies, Glanavon, Menai Bridge.                   | Rev. D. C. Edwards, M.A., Merthyr.                           |
| Rev. W. Ryle Davies, 76, Tufnell Park-rd., London, N.           | Mr. Edwards, Commercial Traveller, Aberystwyth.              |
| Mr. David Davies, Canton House, Aberdare.                       | Mr. John Edwards, 2, Camp-st., Broughton, Manchester.        |
| Mrs. Davies, Gwynfynydd, Caersws.                               | Mr. Owen M. Edwards, B.A., Balliol College, Oxford.          |
| Rev. J. Gwynoro Davies, Barmouth.                               | Mr. Hugh Edwards, 25, Myddelton-square, London.              |
| Mr. R. J. Davies, J.P., Cwrtmawr, Llanio-rd., Llangeitho.       | Prof. Ellis Edwards, M.A., Bala.                             |
| Mr. Mathew Davies, Garthpoot, Caersws.                          | Rev. Thos. Charles Edwards, D.D., Aberystwyth.               |
| Mr. E. Davies, J.P., Plas Dinam, Llandinam.                     | Mr. H. Jones Ellis, Hope Academy, Ammanford.                 |
| Rev. David Davies, Bethania, Llanon.                            | Rev. H. Ellis, Maentwrog, Merioneth.                         |
| Rev. Aaron Davies, Pontlottyn.                                  | Mr. Edward Ellis, 80, Tower Buildings, West, Liverpool.      |
| Mr. Henry Davies, Bristol Packet Wharf, Brecon.                 | Rev. Lewis Ellis, Devona, Rhyl.                              |
| Mr. John Davies, 3, Lord-st., Broughton, Manchester.            | Rev. Robt. Pryse Ellis, Glasgoed, Llanrug, Carnarvon.        |
| Rev. D. C. Davies, M.A., Trevecca College.                      | Rev. E. C. Evans, M.A., Remsen, New York, America.           |
| R. Davies, Esq., Treborth, Bangor, (2 copies).                  | Rev. T. Briwnant Evans, Llangurig.                           |
| Capt. R. Davies, "Glanystwyth," Borth.                          | Rev. D. Thorne Evans, 15, Brunswick-st., Swansea.            |
|   | Rev. J. Thomas Evans, 8, Belle Vue-ter., Aberayron.          |



Mr. E. W. Evans, *Goleuad Office*, Dolgelley.  
 Rev. W. Evans, M.A., Pembroke Dock.  
 Mr. Robt. Evans, Llechwedd, Llandrillo, Corwen.  
 Mr. D. Evans, Solicitor, Machynlleth.  
 Mr. Evan Evans, 49, Trafalgar-st., Broughton, Manchester.  
 Rev. D. Charles Evans, Menai Bridge.  
 Rev. J. D. Evans, Towyn, Merionethshire.  
 Mr. Evans, Gas Works, Blaina.  
 Mr. W. Evans, Bookseller, Carno.  
 Mr. David Evans, Terrace, Llawr-glyn, Llanidloes.  
 Mr. Evans, Tynewydd, Llawr-glyn, Llanidloes.  
 Mr. Richard George, Highgate-st., Llanidloes.  
 Mr. Enoch Griffiths, High street, Newport, Mon.  
 Rev. Maurice Griffith, B.A., Llanidloes.  
 Rev. John Griffiths, Baptist Minister, Llanidloes.  
 Rev. Edward Griffiths, Meifod.  
 Mr. O. W. Griffith, Mela, Pwllheli.  
 Mr. Edw. Griffith, J.P., Dolgelley.  
 Mr. Griffith, Plastrion, Llanberis.  
 Mr. John Griffiths, Ffynon Badarn, Aberllefni, Corris, R.S.O.  
 Rev. Archdeacon Howell, B.D., Wrexham.  
 Rev. Wm. Howell, Penygraig.  
 Rev. Owen Hughes, Vron, Llangefni.  
 Mr. John Hughes, 9, Terfyn-ter., Portdinorwic.  
 Dr. Roger Hughes, Bala.  
 Rev. J. Howell Hughes, Ysbytty, Bettws-y-coed.  
 Rev. John Hughes, Edeyrn, Carnarvonshire.  
 Rev. Henry Hughes, Brynkir Station, Carnarvonshire.  
 Mr. John Hughes, Glanynant, Llanidloes.  
 Mr. W. J. Hughes, The Elms, Claremont-rd., Seaforth, Liverpool.  
 Rev. D. E. Hughes, Baptist Minister, Llanidloes.  
 Mr. R. Hughes (Glan Collen), Llanrwst.  
 Rev. E. Hughes, Deunant, Pwllheli.  
 Supt. O. Hughes, Ffestiniog.  
 Mr. Hughes, Ty-Porth, Llanover, Abergavenny.

Rev. B. Hughes, Graianfa, St. Asaph.  
 Rev. R. Humphreys, Bontnewydd, Carnarvon.  
 Rev. Edward Humphreys, 1, Off Portland-st., Rochdale.  
 Mr. Richard Humphreys, Shop y Llan, Llanbrynmair.  
 Miss Winifred Ann Humphreys, Bwlchygly, Llanidloes.  
 Mr. Morgan Ingram, 3, Dolcoed-ter., Llanwrtyd.  
 Mr. John James, Wool Factory, Newport, Pem.  
 Mr. John James, Tynrhos, Bow-st., Aberystwyth.  
 Rev. R. James, Congregational Minister, Llanwrtyd.  
 Rev. Thos. James, M.A., Llandysul.  
 Rev. W. James, Clifton Villa, Aberdare.  
 Mr. J. James, Pengawse, Llandoverly.  
 Mr. Daniel Lewis Jenkins, Trevecca College.  
 Rev. W. R. Jones, Holyhead.  
 Rev. O. Jones, B.A., 143, Bedford-st., South, Liverpool.  
 Mr. R. Jones, National Provincial Bank, Newtown.  
 Mrs. Jones (Ceridwen Peris), Four Crosses, Pwllheli.  
 Rev. Hugh Jones, Llanllechid.  
 Rev. Robert Jones, Darowen.  
 Rev. J. M. Jones, Stockton-on-Tees.  
 Mr. T. R. Jones, 22, Old Bailey, London, E.C.  
 Rev. John Jones, Baptist Minister, Ferndale, Pontypridd.  
 Rev. Evan Jones, Pont L'Abbé, Finistere, France.  
 Rev. W. Jenkyn Jones, 10, Rue de la Halle, Quimper, France.  
 Mr. John Jones, Central Buildings, Llandudno.  
 Rev. D. Owen Jones, 11, Rock-ter., New Quay.  
 Rev. D. Jones, Gwyddelwern, Corwen.  
 Rev. D. Ll. Jones, M.A., Llandinam.  
 Rev. D. Jones, Trefeglwys, Mont.  
 Mr. T. D. Jones (Rhodwy), Pont-y-stylod, Mold.  
 Mr. John Jones, J.P., Llanfyllin.  
 Mr. Edward Jones, Printer, 27, Plase-st., Bala.  
 Mrs Foulkes Jones, Bodlondeb, Machynlleth.  
 Mr. W. Jones, Cambrian House, Machynlleth.

Mr. D. Jones, Aberllefni Office, Machynlleth.  
 Rev. W. S. Jones, M.A., Machynlleth.  
 Mr. Thomas Jones, Adderley House, Boardsley Green-rd., Small Heath, Birmingham.  
 Rev. E. Jones, Penrhiw, Llanrhystyd.  
 Rev. O. B. Jones, Gwersyllt, Wrexham.  
 Mr. Evan Jones, Havodfeddgar, Llanidloes.  
 Mr. William Jones, 14, Botolph-rd., Bow, London, E.  
 Mr. Owen Jones, Bodafon, Bontddu, Barmouth.  
 Mr. J. M. Jones, B.A., University College, Bangor.  
 Mr. Robert Jones, 88, New-rd., Skewen.  
 Mr. Rd. Jones, Perthairin, Caersws.  
 Mr. Rees Jones, Trevecca College.  
 Rev. J. T. Alun Jones, C.M. College, Bala.  
 Mr. Thos. Jones, 21, Willow-st., Oswestry.  
 Mr. Thomas Jones, Mayfield, Victoria-rd., Oswestry.  
 Mr. H. Fergusson Jones, Bank Cottage, Holywell.  
 Mr. E. P. Jones, Arundel Villa, Chepstow-rd., Newport.  
 Mr. Wm. Jones, 32, Jermyn-st., Liverpool.  
 Mr. Wm. Jones, 12, Bath-st., Liverpool.  
 Mr. W. G. Jones, Draper, St. Asaph.  
 Mr. O. W. Jones, Chemist, Flint.  
 Messrs. Jenkin & Jones, Johnstown, Ruabon (2 copies).  
 Mr. J. Denbigh Jones, Johnstown, Ruabon.  
 Mr. Evan Jones, Club Chambers, Pontypool.  
 Rev. Elias Jones, Clifton-ter., Newtown.  
 Mr. Richard Jones, 44, Bank Buildings, Welshpool.  
 Mr. T. McCarthy Jones, Elm View, Woodside Park, London, N.  
 Mr. Goronwy O. Jones, Bryngwalia, Rhyl.  
 Mr. Wm. Jones, Bodaden, Carnarvon.  
 Mr. J. Jones, Llwynon, Llanfair-P.G., Anglesea.  
 Rev. Edward Jones, Rhydydan, Bettws-y-Coed.

Rev. J. Mills Jones, Tabernacle, Brynteg, Anglesea.  
 Rev. T. Ll. Jones, Llansamlet (2 copies).  
 Rev. J. Puleston Jones, B.A., Bangor.  
 Rev. Daniel Jones, Trefach, Nevern, Velindre, R.S.O.  
 Rev. E. Penllyn Jones, M.A., B.D., Aberystwyth.  
 Do. do. for the University College.  
 Mr. J. Lloyd Jones, 61, Lord-st., Liverpool.  
 Dr. R. Thos. Jones, Harlech.  
 Mr. Joseph Seth Jones, Bagillt-st., Holywell.  
 Mr. D. H. Jones, Bro Arran, Dolgelley.  
 Mr. Thomas Jones, Tawelfan, St. David's-rd., Aberystwyth.  
 Rev. J. Ernest Jones, Rhayader.  
 Rev. Jacob Jones, Prion, Denbigh.  
 Rev. Evan Jones, Brynhafren, Llandinam.  
 Mr. Edward Jones, 13, St. Thomas's Buildings, Liverpool.  
 Mr. J. B. Jones, Draper, Gwalia House, Buckley, Flintshire.  
 Mr. J. Jones, Manchester House, Merthyr.  
 Rev. Wm. Jones, Port Dinorwic, Bangor.  
 Rev. Hy. Jones, Rehoboth, Cann Office, Welshpool.  
 Mr. M. Roberts Jones, Barrister, Rhymney.  
 Mr. John P. Jones, Mineral Point, Wis., America.  
 Mr. Thos. D. Jones, Belmont, Wis., America.  
 Rev. Thos. Levi, Aberystwyth.  
 Mr. Owen Lewis, Chapel-st., Newborough, Anglesea (4 copies).  
 Rev. Lewis Lewis, Llwynypia, near Pontypridd.  
 Rev. W. Dickens Lewis, D.D., Shrewsbury.  
 Mr. W. Lewis, Tylacoch, Abercarn.  
 Right Hon. Lady Llanover, Llanover, Abergavenny (2 copies).  
 Mr. Walter Lewis, Post Office, Llan-gadock.  
 Mr. Robert Lloyd, Glasgow House, Oswestry.  
 Mr. Owen Lloyd, Draper, Corwen.  
 Rev. T. Richard Lloyd, Cowbridge.  
 Mr. Ed. Lloyd, Chemist, Abergel.  
 Mr. T. Lloyd, 91, Elm-st., Cardiff.




Mr. Alex. Matthews, Richmond-rd., Cardiff.  
 Mr. S. Mildon, Grange, Cardiff.  
 Mr. R. M. Mills, 15, Alexander-rd., Upper Holloway, London, N.  
 Mr. Rich. Mills, Brynlllys, Llanidloes.  
 Rev. J. Myfeydd Morgan, Ty'nllan, Llanfaelog, Anglesea.  
 Mr. John Morgan, 14, Stow Hill, Newport, Mon.  
 Mr. John Morgan, Derwen Cottage, Mold.  
 Rev. R. H. Morgan, M.A., Menai Bridge.  
 Rev. Isaac R. Morgan, Pontardawe.  
 Mr. Thomas Morgan, Maesteg.  
 Mr. Wm. Morgan, Pant, Dowlais.  
 Mr. Ed. Morgan, 23, Elman Row, Trealaw.  
 Dr. Thos. Morris, Llanidloes.  
 Rev. B. Powell Morris, 11, Nolton-rd., Bridgend.  
 Rev. R. E. Morris, B.A., 3, Upper Bedford Place, London, W.C.  
 Rev. R. R. Morris, Carnarvon.  
 Mr. A. Morris, Barnardtown Board School, Newport, Mon.  
 Rev. J. Morris, Llansawel, Llandilo.  
 Mr. R. M. Morton (Messrs. Reynolds & Co., Limtd.), Newport, Mon.  
 Rev. John Moses, Box 191, Mineral Point, Wis., America.  
 Mr. Thomas Moss, Berwyn Station, Llangollen.  
 Rev. Dd. Oliver, Twyncarno, Rhymney.  
 Rev. R. Owen, M.A., Pennal, Merioneth.  
 Rev. O. Grif. Owen (Alafon), Ysgoldy, Clwtybont, Carnarvon.  
 Rev. R. Owen, Tŷ Draw, Mold.  
 Dr. Lloyd Owen, New Hall Hill, Birmingham.  
 Rev. T. G. Owen, B.A., 44, Arkles-rd., Anfield, Liverpool.  
 Rev. O. Lloyd Owen, Cymdu, Llan-silin, Oswestry.  
 Rev. John Owen, Celtic House, Aberdovey.  
 Rev. G. Parry, D.D., Carno.  
 Mr. Morris Parry, 124, St. Anne-st., Chester.  
 Rev. E. Parry, M.A., Newtown.  
 Rev. J. Hughes Parry, 49, Newry-st., Holyhead.  
 Mr. Morris J. Parry, 1, Gordon-rd., Seaforth, Liverpool.  
 Rev. Thomas Parry, Colwyn Bay.  
 Mr. H. Parry, 7, Geneva-rd., Fairfield, Liverpool.  
 Mr. Wm. Parry, 46, Coltart-rd., Liverpool.  
 Mr. P. J. Peters, N. & S. Wales Bank, Carnarvon.  
 Mr. R. Phillips, Plasyn-dre, Newtown.  
 Rev. T. C. Phillips, Cardiff.  
 Rev. W. Powell, Pembroke.  
 Prof. Powell, University College, Cardiff.  
 Mr. J. E. Powell, Grosvenor-rd., Wrexham.  
 Mr. R. O. Pritchard, 9, Wylfa-rd., Anfield, Liverpool.  
 Mr. O. Pritchard, Draper, Oswestry.  
 Alderman John Prothero, J.P., Woodlands, Brecon.  
 Mr. H. W. Pugh, 40, Thurnham-st., Rocky Lane, Liverpool.  
 Dr. Cefni Parry, America.  
 Mr. Stuart Rendell, M.P., 1, Carlton Gardens, London, S.W. (2 copies).  
 Mr. T. Rees (Merthyr), Broad-st., Merthyr.  
 Rev. Barac Rees, Pontypridd.  
 Rev. Thos. Rees, Cefncoed, Merthyr.  
 Rev. E. Rees (Dyfed), Cardiff.  
 Mr. H. Rees, 20, Alma-st., Newport.  
 Rev. Robt. Richards, Cerigydruidion, near Corwen.  
 Rev. David Richards, Brynhyfryd, Penffordd, Narbeth.  
 Rev. B. F. Richards, Pantardwr, Llanidloes.  
 Mr. R. Richards, Handel House, 25, Arthur-st., Newport, Mon.  
 Mr. E. Richards, Manchester House, Penygraig, near Pontypridd.  
 Mr. David Richards, Forest Shop, Pontardulais.  
 Mr. J. P. Roberts, Ynystywyn, Portmadoc.  
 Rev. W. Roberts, C.M. Minister, Llanrwst.  
 Mr. W. G. Roberts, Draper, Llandderfel.  
 Mr. Wm. Roberts, 164, Lozells-rd., Birmingham.  
 Rev. Hugh Roberts, Rhydymain, Dolgelly.  
 Mr. E. M. Roberts, Bank, Llange-fni.  
 Mr. G. Jones Roberts, Pont-y-gwair, Llanengan, Pwllheli.  
 Mr. R. D. Roberts, Glandwr, Corwen.  
 Rev. R. Roberts, Tyncoed, Edeyrn.

Mr. J. F. Roberts, 21, Portland-st., Manchester.  
 Mr. J. Roberts, Foxhall, Henllan, Denbigh.  
 Mr. Robt. S. Roberts, Merton Villa, Maindee, Newport, Mon.  
 Mr. R. Morris Roberts, 5, Church-st., Portmadoc.  
 Mr. Mathew H. Roberts, 35, Park Avenue, Oswestry.  
 Rev. D. Rowlands, M.A., Bangor.  
 Rev. Rich. Rowlands, Llwyngwrlil, Merioneth.  
 Mr. W. J. Roberts, Draper, Oswestry.  
 Rev. Thos. F. Roberts, Cemmaes, Mont.  
 Prof. T. F. Roberts, M.A., University College, Cardiff.  
 Rev. T. Roberts, Bethesda, Bangor.  
 Mr. E. Rowlands, 37, Upper Lewis-st., Newport, Mon.  
 Rev. Evan Stephens, Llangynog.  
 Mr. Wm. Thomas, Penrhyn, Radnor-rd., Birmingham.  
 Mr. Philip Thomas, British School, Neath.  
 Mr. John Thomas, Post-office, Llanwrtyd.  
 Mr. Richard Thomas, Cambrian House, Taibach.  
 Dr. Hugh Thomas, Coventry-rd., Small Heath, Birmingham.  
 Mr. Evan Thomas, Grosvenor House, Wellington-rd., Birmingham (2 copies).  
 Rev. T. Clement Thomas, Bedlinog, Merthyr.  
 Mr. Thos. Thomas, The Union, Machynlleth.  
 Rev. Richard Thomas, Glynceiriog, Llangollen.  
 Rev. Edward Thomas, Deganwy, Llandudno.  
 Rev. J. L. Thomas, C.M. Minister, Bankyfelin, Carmarthen.  
 Mr. D. Thomas, Euston Station, London.  
 Mr. Thos. Thomas, Adamsdown-sq., Cardiff.  
 Rev. Thos. E. Thomas, Llandoverly.  
 Mr. D. Thomas, Builth.  
 Councillor Ed. Thomas, (Cochfarf), Gordon Temperance Hotel, 282, Bute-st., Cardiff.  
 The Hon. F. Hanbury Tracy, M.P., London (3 copies).  
 Mr. D. Ware, Springfield, Aberavon.  
 Mr. Thomas Watkin, Brynmair, Llanfair, Welshpool.  
 Mr. John Watkins, Crickhowell.  
 Mr. Thos. Watkins, Crickhowell.  
 Rev. T. J. Wheldon, B.A., Blaenau Pfestiniog.  
 Rev. C. Williams, Moss, Wrexham.  
 Rev. D. R. Williams, C.M. Minister, 12, Monger terrace, Hafod, Swansea (2 copies).  
 Rev. John Williams, Brynsiencyn, Anglesea.  
 Rev. H. Barrow Williams, The Abbey, Llandudno.  
 Mr. R. Williams, Solicitor, Newtown.  
 Mr. Thos. Williams, East Moors, Cardiff.  
 Mr. W. Williams, Chemist, Llanfyllin.  
 Rev. W. Williams, Dinas Mawddwy.  
 Mr. Morgan Williams, 79, Manchester-rd., Bolton.  
 Mr. Owen Williams, Glanclwyd, Bodfari, Denbigh.  
 Mr. S. Williams, Penybont, Corwen.  
 Rev. Isaac J. Williams, Llandderfel.  
 Mr. R. Williams, Llanvaes, Brecon.  
 Rev. J. Williams, 2, Marine-ter., Colwyn Bay.  
 Miss Mary Williams, Llanbrynmair.  
 Rev. Thos. Williams, Hay.  
 Rev. J. Williams, B.A., Dolgelly.  
 Mr. W. Williams, 104, Woodville-rd., Cardiff.  
 Prof. Hugh Williams, M.A., Bala.  
 Mrs. Williams, Bookseller, Cardigan.  
 Rev. D. Williams, Llwynhendy.  
 Mr. J. Williams, Brynlluarth, Denbigh.  
 Mr. W. Williams, Llewesog Hall, Denbigh.  
 Mr. Evan Williams, Llandyfrwg, Bridgend.  
 Rev. Lewis Williams, Aberystwyth.  
 Rev. Dd. Williams, 102, Northumberland Terrace, Liverpool.  
 Mr. Eleazer Williams, Market-st., Holyhead.  
 Mr. H. Williams, Menai Ville-ter., Menai Bridge.  
 Mr. S. Williams, Furnishing Warehouse, Argyle-st., Birkenhead.  
 Rev. B. Williams, (Gwynionydd), Llanover.  
 Rev. Evan Williams, Glynogwr, Bridgend.  
 Mr. Wm. Wynne, 68, Gloucester-st., Oldham.

*Per* Mr. W. Games, PONTYPRIDD :—  
 Mr. E. Beddoes, Colliery Proprietor, The Hollies, Llanfabon.  
 Mr. David Beynon, Bedwelty House, Cathays, Cardiff.  
 Mr. I. Daniel, Colliery Proprietor, Brynhyfyd, Pontypridd.  
 Mr. T. Davies, Police Constable, Pontypridd.  
 Mr. H. S. Davies, Graig House, Pontypridd.  
 Mr. John Davies, Cefn, Pontypridd.  
 Mr. Joseph Davies, Head Master, Graig Board Schools, Pontypridd.  
 Mr. W. Edwards, Timber Merchant, Pantyffynon House, Pontypridd.  
 Rev. E. C. Evans, Llanelly, Breconshire.  
 Mr. Griffith Evans, Grocer, &c., Dysgwylfa, Pontypridd.  
 Mr. William Evans, Grocer, &c., Treharris.  
 Mr. Walter Games, Bookseller, Pontypridd (4 copies).  
 Mr. Thomas Jones, Clothier, &c., Pontypridd.  
 Mr. Thos. Jones, Carpenter, Trallwn, Pontypridd.  
 Mr. Benj. Jones, Farmer, Pengam, near Hengoed.  
 Mr. Evan Jones, Carpenter, Llwynmadog-st., Pontypridd.  
 Mr. W. M. Jones, Surveyor, &c., Great Western Colliery, Pontypridd.  
 Mr. Rees Jones, Boot & Shoe Warehouse, Treharris.  
 Supt. Jones, Pontypridd.  
 Rev. W. Lewis, The Grove, Pontypridd.  
 Mr. R. A. Lewis, South Wales and West of England Bank, Pontypridd.  
 Mr. John Lewis, Builder, Nelson, Llanfabon (2 copies).  
 Mr. E. Millward, Tea Merchant, Pontypridd.  
 Miss Alice Morgan, The Grove, Pontypridd.  
 Rev. Rowland Morgan, Trewilliam, Penygraig.  
 Mr. John Morgan, Tunnel Farm, Upper Boat, Pontypridd.  
 Mr. Owen Morgan (Morien), Ash Grove House, Pontypridd.  
 Rev. W. I. Morris, Norfolk House, Pontypridd.  
 Mr. W. Owen, Cilfynydd, Pontypridd.  
 Rev. Wm. Powell, Aberdare.  
 Rev. John Pugh, Cardiff.  
 Rev. E. Rees, Llanilltyd-Vardre, Pontypridd.  
 Mr. W. V. Rees, Ironmonger, &c., Pontypridd.  
 Mr. James Richards, Waen House, Treforest.  
 Rev. David Thomas, Cymmer.  
 Rev. Idris Thomas, Llanwonno.  
 Mr. Morgan Thomas, Overman, Graigwen, Pontypridd.  
 Mr. Thos. Thomas, Ty'nywern, Pontypridd.  
 Mr. Jas. Williams, Builder, Cenarth House, Pontypridd.  
 Mr. T. Williams, Tylallinda Farm, Pontypridd.  
 Mr. Wm. Williams, Draper, &c., Pontypridd.  
 Mr. Watkin Williams, Cefncoed, Merthyr Tydvil.  
 Mr. Jos. Williams, Moulder, Penuelrow, Pontypridd.  
 Mr. Dl. Williams, Anchor and Chain Maker, Feeder-row, Pontypridd.  
 Mr. Dl. Williams, Gelliwastad-rd., Pontypridd.  
 Mr. Thos. Williams, Trallwn, Pontypridd.  
*Per* Mr. Thos. Jones, Bookseller, CWMBWRLA, SWANSEA :—  
 Miss Clark, 34, William-st., Swansea.  
 Rev. Wm. James, M.A., Ogmere.  
 Mr. John James, Grocer, Gowerton.  
 Rev. Thomas Jones, Llansamlet.  
 Mr. D. J. Meyler, Draper, Swansea.  
 Rev. James Morris, Carmarthenshire.  
 Rev. B. Morris, Pembroke.  
 Mr. Wm. Owen, Cendros, Swansea.  
 Mr. O. Owens, Brunswick Cottage, Swansea.  
 Mr. R. Parry, 2, Calvert-ter, Swansea.  
 Mr. J. Pendry, Raven Hill, Swansea.  
 Rev. David Phillips, Swansea.  
 Rev. W.E. Prydderch, Goppa, Pontardulais.  
 Rev. Abraham Roberts, Liverpool.  
 Mr. T. Roberts, Cendros, Swansea.  
 Mr. Jacob Thomas, Cendros, Swansea.  
 Rev. Moses Thomas, Resolven.  
 Mr. Wm. Williams, Grocer, Swansea.  
 Mr. J. Williams, Cendros, Swansea.

*Per* Mr. Jonah Thomas, Bookseller, Maindy-rd., TON, RHONDDA :—  
 Cwmpark Library.  
 Mr. Evan Cule, Grocer, Treherbert.  
 Mr. John Curtis, Grocer, Treorky.  
 Mr. Thos. Davies, 2, Upper Alma Place, Pentre.  
 Mr. T. Davies, 21, Victoria-st., Ton.  
 Mr. Dd. Davies, 10, Bailey-st., Ton.  
 Mr. Daniel Davies, Cashier, Ton.  
 Mr. Wm. Davies, 49, Treharne-st., Pentre.  
 Mr. Wm. Davies, 34, Queen-st., Pentre.  
 Mr. Thomas Evans, 20, Queen-st., Pentre.  
 Mr. John Harries, 41, Dunraven-st., Treherbert.  
 Mr. Thos. Hughes, 90, Greenfield-row, Cwmpark.  
 Mr. W. Jeffreys, Grocer, Treherbert.  
 Mr. J. L. Jones, 62, Edmund-st., Pendyrus.  
 Mr. Giles Jones, Ton Row, Ton.  
 Mr. Stephen Jones, Taft-st., Ton.  
 Mr. John Jones, 4, Bailey-st., Ton.  
 Mr. J. D. Jones, Ton.  
 Mr. Benj. Jones, Draper, Treherbert.  
 Mr. M. O. Jones, A.C., Treherbert.  
 Rev. J. R. Jones, Baptist Minister, Pontypridd.  
 Mr. Thomas Jones, Paris House, Tonypanyd.  
 Mr. Ch. Jones, 10, Bute-st., Treorky.  
 Rev. J. L. Jones, Baptist Minister, Pentre.  
 Mr. J. Lewis, 167, Ystrad-rd., Pentre.  
 Mr. John Lloyd, Draper, Barry.  
 Rev. David Morgan, Deri.  
 Mr. Abraham Morris, Ton.  
 Mr. Evan Phillips, 8, Windsor-st., Treorky.  
 Mr. Thos. Thickens, 16, Arthur-st., Ystrad.  
 Mr. Jonah Thomas, Bookseller, Ton (7 copies).  
 Mr. David Thomas, Shop-y-Dderwen, Treherbert.  
 Mr. Jas. Timothy, Timber Merchant, Ton.  
 Mr. Job Williams, 2, Trip-ter., Pentre.  
 Mr. E. Williams, 2, Trip-ter., Pentre.  
 Mr. Job Williams, Manager, Pentre Colliery.  
 Mr. Gwilym Williams, High-st., Treorky.  
 Mr. W. Glynfab Williams, Clydach Board Schools, Tonypanyd.  
*Per* Mr. William Jenkins, Bookseller, ABERYSTWYTH :—  
 Rev. Llewelyn Edwards, M.A., Ardwyn School.  
 Mr. David Lloyd, Contractor.  
 Rev. Job Miles, Aberystwyth.  
 Mr. Thomas Owen, C.M., Queen Square House.  
 Mr. Thomas Powell, Grocer.  
 Mr. D. Samuel, M.A., Bank School.  
 Mr. D. Thomas, Draper.  
*Per* Mr. D. Davies, TRAWSFYNYDD :—  
 Mr. Robt. E. Jones, Meirion House, Tanygrisiau.  
 Mr. W. Meiwyn Jones, Board School, Talsarn.  
 Mr. Andreas Roberts, Cwmorthin.  
*Per* Mr. R. Mills, Bookseller, RHOS :—  
 Mr. Hooson, Draper, Rhos.  
 Mr. I. Jenkins, Johnstown, Ruabon.  
 Mr. Tysillio Jones, Johnstown, Ruabon.  
 Mr. Hezekiah Jones, Grocer, Rhos.  
*Per* Mr. Charles Evans, TREFEGLWYS :—  
 Mr. Charles Evans (Siarl Trannon).  
 Mr. D. Jones, Neuadd, Llawryglyn.  
 Mr. M. Williams, Waenwen, Cerist.  
*Per* Mr. Richard Jones, Bookseller, ABERANGELL, CEMMAES, MONT. :—  
 Mr. J. Davies, 7, Station-rd., Towyn.  
 Mr. Richard Jones, Bookseller.  
*Per* Mr. D. Roberts, FESTINIOG :—  
 Mr. W. Davies, Highgate, Festiniog.  
 Mr. Robt. Jones, Relieving Officer.  
 Mr. Robt. Roberts, Bookseller.





W. JONES,  
GENERAL PRINTER,  
NEWPORT.